No. I

600036959

1853

[illegible]

992 d 2.

# LLYFR

YR

# HOMILIAU.

Y TRYDYDD ARGRAPHIAD.

# PREGETHAU

NEU

# HOMILIAU,

**A osodwyd i'w darllen mewn Eglwysydd,**

YN AMSER

Y BRENHIN EDWARD Y CHWECHED

A'R

FRENHINES ELIZABETH.

Y TRYDYDD ARGRAPHIAD.



BALA:
ARGRAPHEDIG GAN ROBERT SAUNDERSON.
M.DCCC.XLVII.

BODLEIAN
24·7·1847
LIBRARY

TO THE

# RIGHT REVEREND FATHER IN GOD,

# CHRISTOPHER,

## THE LORD BISHOP OF BANGOR.

My Lord,

Your Lordship having been among the first to encourage and assist me to put forth this new edition of the Book of Homilies in the vernacular tongue of this country, it is no less from a feeling of gratitude than from a sense of propriety that I dedicate this Volume to your Lordship.

As in the times of King Edward the Sixth and Queen Elizabeth there was in this kingdom, even among Protestants, a strong leaning towards Popery, which leaning the publication of the Homilies and the Articles of Religion succeeded in a great measure to check; so in these days too there is a similar tendency, operating in a more subtle manner than formerly, and perhaps with greater danger to the Church of England, inasmuch as the enemy assails us by appealing, not so much to the understanding, as to the heart and our more devotional feelings, and by taking advantage of the conflicting views that unhappily exist amongst us on matters con-

nected with religion. And it seems that our best safeguard against such dangers is to recur to the authoritative teaching of the Church herself, as expressed in her Liturgy, her Articles, and her Homilies.

Whether it be determined by the inscrutable decrees of Providence that your Lordship should be the last Bishop of Bangor, or whether the long line of Bishops which have adorned that See be permitted to continue for the guidance and edification of posterity, I trust and pray that you may live long amongst us to be, as you ever have been, the faithful promoter, both by precept and example of the Truth as it is in Jesus, and the firm and successful supporter of Church principles;

> " Serus in cœlum redeas; diuque
> " Lætus intersis populo *Gomeri;*
> " Neve te nostris vitiis iniquum
> " Ocyor aura
> " Tollat."

I have the honor to be,

My Lord,

Your Lordship's humble and obedient servant,

THE EDITOR.

# Y RHAGYMADRODD.

PAN ddaeth y Brenhin EDWARD y Chweched i'r Orsedd, yr oedd y Diwygiad Protestanaidd yn ei fabandod. Yr oedd y rhan fwyaf hefyd o'r Offeiriaid Protestanaidd yn dra anwybodus, fel nad oedd lle i ddisgwyl y gallent oll bregethu 'r Efengyl gyd â nemmawr o gyssondeb â'u gilydd, â'r Bibl, nac â'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Ond er mwyn diogelu, hyd y gellid, unffurfiad ym mhregethiad Gair Duw trwy 'r holl deyrnas, fe barodd y Brenhin, yn y flwyddyn gyntaf o'i Deyrnasiad, gyhoeddi Pregethau neu Homiliau i'w darllen i'r Cynnulleidfaoedd ar ol y Gwasanaeth Dwyfol. A hwn oedd Llyfr Cyntaf yr Homiliau.—Y prif Byngciau a drinir ynddo ydyw, Gwerthfawrowgrwydd yr Ysgrythyr Lân, a'r ddyledswydd o'i chwilio; Cwymp dyn trwy bechod; a Chyfiawnhâd pechadur trwy ffydd yng Nghrist. Mae ynddo hefyd lawer o Annogaethau i Weithredoedd da; yn fwy neillduol, Cariad, Ufudd-dod, Tangnefedd, a Diweirdeb. Y mae 'r Llyfr yn hyn oll yn taro yn erbyn yspryd Pabyddiaeth, yr hwn oedd y pryd hynny (fel y mae etto hefyd) am gadw 'r Ysgrythyr Lân o ddwylaw 'r werin, am gymmysgu gweithredoedd dyn gyd â haeddiant y Cyfryngwr yng Nghyfiawnhâd pechadur ger bron Duw, ac yn dueddol i wneuthur y wlad lle y byddo wedi cael y llaw uchaf ynddi, yn derfysgus ac yn anniwair.

Yn Nheyrnasiad y Frenhines ELIZABETH, fe gyhoeddwyd Llyfr arall o Homiliau, helaethach na 'r cyntaf, ond i'r un perwyl ag yntau. Mae yr Ail Lyfr hwn yn fwy amrywiol yn ei gynnwysiad na 'r Llyfr a gyhoeddwyd yn amser y Brenhin EDWARD, ond y mae fel hwnnw yn annelu ym mhob Homili ryw saeth yn erbyn Pabyddiaeth: mae hefyd yn llawer llymmach a mwy pendant yn erbyn Pabyddiaeth nag ydyw 'r

llall; ac nid rhyfedd; canys yr oedd Eglwys Loegr, cyn cyhoeddi Ail Lyfr yr Homiliau, wedi teimlo dychrynfeydd teyrnasiad Pabaidd y Frenhines MARI Waedlyd.

Am y ddau Lyfr hwn o'r Homiliau y mae'r Eglwys yn llefaru fel hyn yn y bymthegfed Erthygl ar hugain; "Y mae *Ail Lyfr yr Homiliau* yn cynnwys athrawiaeth dduwiol ac iachus, ac angenrheidiol i'r amserau hyn; megis y mae *Llyfr Cyntaf yr Homiliau*, a osodwyd allan yn amser EDWARD y Chweched: am hynny yr ydym yn barnu fod eu darllen hwy yn yr Eglwysi gan y Gweinidogion, yn ddïesgeulus, ac yn llawn llythyr, fel y gallo'r bobl eu deall."——Ac fe ddywed yr Esgob, yng Ngwasanaeth yr Urddiad, wrth y sawl a urdder yn Ddïacon, fel hyn: "Y mae yn perthyn i Swydd Dïacon, yn yr Eglwys lle y gosoder ef i weini,—ddarllen yr Ysgrythyr Lân a'r Homiliau yn yr Eglwys."

Cyfieithwyd yr Homiliau i'r Gymraeg yn y flwyddyn 1606, gan Edward James; a chyhoeddwyd ail argraphiad o'r Cyfieithiad hwn, gyd âg ychydig o gyfnewidiadau, yn y flwyddyn 1817, gan y Parch. John Roberts, Periglor Tremeirchion, yn Esgobaeth Llanelwy. Bu y ddau Argraphiad hwn o lawer o les a bendith i genedl y Cymry; ac y mae enwau Edward James a'r Parch. J. Roberts mewn lle anrhydeddus yn rhestr cymmwynaswŷr eu gwlad, ac y mae eu coffadwriaeth yn fendigedig yn ein plith.

Y mae'r holl gopïau o Argraphiad Mr. John Roberts wedi cael eu gwerthu er's amryw flynyddoedd; ac wrth weled fod gofyn am yr Homiliau, anturiais barottoi Argraphiad newydd, ond nid heb ymgynghori yn gyntaf â llawer o Eglwyswyr dysgedig, y rhai a fuasent yn cyflawni y gorchwyl yn llawer gwell na mi, pe buasai ganddynt hamdden i gymmeryd y gwaith mewn llaw.

Fe wnaed rhai cyfnewidiadau yn yr Argraphiad presennol, y rhai y dylid eu crybwyll.

1. Fe ddygwyd y Dull-ymadrodd a'r Orgraph mor agos ag y gellid at Ddull-ymadrodd ac Orgraph y Bibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin: ceisiwyd yn hyn wneuthur yr iaith yn fwy eglur, ac ar yr un pryd yn fwy dillynaidd ac urddasol, nag ydoedd yn y ddau Argraphiad cyntaf.

2. Er mwyn mwy o hwylusdod i'r darllenydd, ac er mwyn gosod y gwahanol faterion mewn eglurach trefn, argraphwyd y Llyfr yn ddosparthiadau *(paragraphs)* manach; yr oedd yr un dosparthiad *(paragraph)* yn yr Argraphiadau blaenorol yn gynnwysedig yn fynych o amryw dudalenau cyfain, yr hyn oedd yn tueddu i ddyrysu meddwl ac i flino llygad y darllenydd.

3. Y mae uwchlaw dwy fil o Adnodau o'r Bibl yn cael eu dyfynu yn yr Homiliau: yn y ddau Argraphiad cyntaf yr oedd yr holl Adnodau hyn yn gyfieithiad llythyrennol o'r Homiliau Saesoneg, ac nid wedi eu cymmeryd allan o'r Bibl Cymraeg. Ond yn yr Argraphiad presennol, fe gymmerwyd yr Adnodau oll yn union-gyrchol allan o'r Cyfieithiad awdurdodedig o'r Bibl yn Gymraeg, yn bennaf trwy gyngor y Dr. Thirlwall, Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi.

Od yw'r Argraphiad hwn yn rhagori dim ar yr Argraphiadau blaenorol, mae'n iawn i mi grybwyll wrth y darllenydd fod y cyfryw ragoriaeth i'w briodoli, nid yn gymmaint i mi fy hun ag i'r Parch. Rowland Williams, Person Ysceifiog, yn Esgobaeth Llanelwy; gwr ag sydd yn un o brif addurniadau ein gwlad a'n cenedl o ran ei ddysg, ei wybodaeth, a'i rinweddau. Dan gyfarwyddyd ei gynghorion parod a gwerthfawr ef yn bennaf y dygwyd y gorchwyl hwn i ben.

Yr wyf hefyd yn cymmeryd y cyfleustra hwn i ddiolch yn gyhoeddus i'r "*Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol,*" yr hon a ganiattaodd i mi Ddeg Punt a Deugain tu ag at draul y gwaith.

M. WILLIAMS.

AMLWCH, *Chwefror* 1, 1847.

# Y CYNHWYSIAD.

## LLYFR CYNTAF YR HOMILIAU.


TU DALEN.

Annogaeth ffrwythlon i ddarllen ac i wybod yr Ysgrythyr Lân ................ 1
Yr ail Ran o'r Bregeth ynghylch gwybod yr Ysgrythyr Lân .................. 4
Pregeth am Drueni Dyn, a'i Gondemniad i Farwolaeth dragywyddol drwy ei Bechod ei hun ................ 8
Yr ail Ran o'r Bregeth am Drueni Dyn ................ 12
Pregeth am Gadwedigaeth Dynolryw, drwy Grist ein Ceidwad yn unig, oddi wrth Bechod ac Angau tragywyddol ................ 16
Yr ail Ran o'r Bregeth am Iachawdwriaeth ................ 19
Y drydedd Ran o'r Bregeth am Iachawdwriaeth ................ 22
Deongliad byr am wir a bywiol a Christionogol Ffydd ................ 26
Yr ail Ran o'r Bregeth am Ffydd ................ 30
Y drydedd Ran o'r Bregeth am Ffydd ................ 35
Pregeth am Weithredoedd da cyssylltedig â Ffydd ................ 38
Yr ail Ran o'r Bregeth am Weithredoedd da ................ 41
Y drydedd Ran o'r Bregeth am Weithredoedd da ................ 46
Pregeth am Gariad perffaith a Charedigrwydd Cristionogol ................ 51
Yr ail Ran o'r Bregeth am Gariad perffaith ................ 54
Pregeth yn erbyn Tyngu ac Anudoniaeth ................ 57
Yr ail Ran o'r Bregeth am Dyngu ................ 61
Pregeth: Mor enbyd yw cwympo oddi wrth Dduw ................ 65
Yr ail Ran o'r Bregeth am Gwympo oddi wrth Dduw ................ 69
Annogaeth yn erbyn Ofn Angau ................ 74
Yr ail Ran o'r Bregeth yn erbyn Ofn Angau ................ 78
Y drydedd Ran o'r Bregeth yn erbyn Ofn Angau ................ 82
Annogaeth ynghylch Trefn dda ac Ufudd-dod i Lywodraethwŷr a Swyddogion .. 87
Yr ail Ran o'r Bregeth am Ufudd-dod ................ 91
Y drydedd Ran o'r Bregeth am Ufudd-dod ................ 95
Pregeth yn erbyn Putteindra ac Aflendid ................ 99
Yr ail Ran o'r Bregeth yn erbyn Godineb ................ 103
Y drydedd Ran o'r Bregeth yn erbyn Godineb ................ 108
Pregeth yn erbyn Cynnen ac Ymdaeru ................ 114
Yr ail Ran o'r Bregeth yn erbyn Cynnen ................ 118
Y drydedd Ran o'r Bregeth yn erbyn Cynnen ................ 123


## AIL LYFR YR HOMILIAU.


Rhybudd i bob Gweinidog Eglwysig ................ 129
Homili am Iawn Arfer Eglwys neu Deml Dduw, ac am y Parch sy ddyledus i'r unrhyw ................ 131
Yr ail Ran o'r Homili am Iawn Arfer yr Eglwys ................ 137
Homili yn erbyn Perygl Eilun-addoliaeth, a rhy ofer drwsio Eglwysydd ........ 143
Yr ail Ran o'r Homili yn erbyn Perygl Eilun-addoliaeth ................ 156
Y drydedd Ran o'r Homili yn erbyn Delwau a'u Haddoliad ................ 178
Homili am gyweirio Eglwysydd, eu cadw 'n lân, a'u haddurno 'n weddaidd .... 227

Homili am Weithredoedd da; ac yn gyntaf am Ymprydio ............ TU DALEN 232
Yr ail Ran o'r Homili am Ymprydio .................................... 241
Homili yn erbyn Glythineb a Meddwdod ................................ 249
Homili yn erbyn Dillad rhy wychion .................................... 259
Homili neu Bregeth ynghylch Gweddi ................................. 269
Yr ail Ran o'r Homili ynghylch Gweddi ............................... 273
Y drydedd Ran o'r Homili ynghylch Gweddi ........................... 280
Homili am Le ac Amser Gweddi ........................................ 287
Yr ail Ran o'r Homili am Le ac Amser Gweddi ......................... 293
Homili; yn yr hon y mynegir y dylid gweinyddu Gweddi Gyffredin a Sacramentau mewn Iaith a ddealler gan y Gwrandawŷr .................... 298
Hyspysrwydd i'r rhai sydd yn ymrwystro oblegid rhyw Leoedd o'r Ysgrythyr Lân 311
Yr ail Ran o'r Hyspysrwydd i'r rhai sydd yn ymrwystro oblegid rhyw Leoedd o'r Ysgrythyr Lân ................................................ 319
Homili ynghylch Elusenau, a Thrugarowgrwydd tu ag at y Tlawd a'r Anghenus .. 325
Yr ail Ran o'r Bregeth ynghylch Elusenau ............................. 331
Y drydedd Ran o'r Homili ynghylch Elusenau .......................... 336
Homili neu Bregeth ar y Nadolig, neu Enedigaeth ein Hiachawdwr Iesu Grist .. 341
Homili ar Ddydd Gwener y Croglith, ynghylch Angau a Dïoddefaint ein Hiachawdwr Iesu Grist ............................................ 352
Yr ail Homili am Angau a Dïoddefaint ein Hiachawdwr Crist ............ 360
Homili am Adgyfodiad ein Hiachawdwr Iesu Grist. Am Ddydd Pasg. ........ 370
Homili ynghylch teilwng Dderbyniad a dyledus Barch Sacrament Corph a Gwaed Crist ................................................... 380
Yr ail Ran o'r Homili ynghylch teilwng Dderbyniad a dyledus Barch Sacrament Corph a Gwaed Crist ......................................... 386
Homili am Ddisgyniad yr Yspryd Glân a'i amryw Ddoniau. Am Ddydd y Sulgwyn ................................................ 391
Yr ail Ran o'r Homili am yr Yspryd Glân ............................. 398
Homili am Wythnos y Dyrchafael. Bod pob peth daionus yn dyfod oddi wrth Dduw .................................................... 405
Yr ail Ran o'r Homili am Wythnos y Dyrchafael ........................ 412
Y drydedd Ran o'r Homili am Wythnos y Dyrchafael ..................... 418
Annogaeth i'w hadrodd wrth y cyfryw Blwyfydd lle yr ydys yn arfer myned o amgylch ar Wythnos y Dyrchafael i olygu Cyffiniau a Therfynau eu Plwyfydd 426
Homili ynghylch Ystâd Priodas ........................................ 432
Homili yn erbyn Seguryd .............................................. 444
Homili ynghylch Edifeirwch, a gwir Gymmod â Duw ...................... 452
Yr ail Ran o'r Homili am Edifeirwch .................................. 462
Y drydedd Ran o'r Homili am Edifeirwch ............................... 470
Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel ............................. 475
Yr ail Ran o'r Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel ............... 486
Y drydedd Ran o'r Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel ............ 493
Y bedwaredd Ran o'r Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel .......... 499
Y bummed Ran o'r Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel ............. 506
Y chweched Ran o'r Homili yn erbyn Anufudd-dod a Gwrthryfel ........... 511

# YR HOMILIAU.

## ANNOGAETH FFRWYTHLON I DDARLLEN AC I WYBOD YR YSGRYTHYR LAN.

NI ddichon bod un peth yn fwy anghenraid a buddiol i Gristion na gwybodaeth o'r Ysgrythyr Lân; yn gymmaint ag mai ynddi y cynhwysir gwir air Duw, yn gosod allan ei ogoniant Ef, ac hefyd ddyledswydd dyn. Ac nid oes na gwirionedd nac athrawiaeth angenrheidiol i'n cyfiawnhâd a'n tragywyddol iachawdwriaeth, nad ydyw o fewn, neu na ellir ei thynnu allan o'r ffynhonnell honno o wirionedd.

Cynnifer gan hynny ag a chwennychant fyned at Dduw ar hyd y ffordd uniawn a pherffaith, rhaid iddynt roi eu meddyliau i wybod yr Ysgrythyr Sanctaidd, heb yr hon ni allant yn ddigonol adnabod na Duw a'i ewyllys, na'u dyledswydd eu hunain. Ac megis y mae diod yn flasus i'r sychedig, a bwyd i'r rhai newynog, felly y mae darllen, gwrando, chwilio, a myfyrio ar yr Ysgrythyr Lân i'r rhai a chwennychant adnabod Duw, neu hwynt eu hunain, a gwneuthur ei ewyllys Ef. Eu cylla hwynt yn unig sydd yn gwrthwynebu ac yn casâu nefol adnabyddiaeth ac ymborth gair Duw, y rhai ydynt wedi eu boddi felly mewn oferedd bydol, fel nad oes ganddynt flas ar Dduw na duwioldeb; oblegid dyna'r achos y chwennychant y fath oferedd yn hytrach na gwir wybodaeth o Dduw. Megis am y rhai a fyddont glaf o'r cryd, pa beth bynnag a fwyttaont neu a yfont, er melused a fyddo, y mae iddynt hwy cyn chwerwed a'r wermod; nid am fod chwerwder yn y bwyd, ond oblegid y blas llygredig a chwerw sydd yn eu tafodau a'u geneuau hwy: felly y mae melusdra gair Duw yn chwerw, nid o hono ei hun, ond yn unig i'r rhai y llygrwyd eu meddyliau drwy hir arfer pechod a chariad y byd hwn.

Am hynny, gan ymwrthod â barn lygredig dynion cnawdol, y rhai ni ofalant ond am eu cyrph, gwrandawn a darllenwn yn barchedig yr Ysgrythyr Lân, yr hon yw ymborth yr enaid.[1] Chwiliwn yn ddiesgeulus am ffynnon y bywyd yn Llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd,[2] ac na redwn i byllau drewllyd traddodiadau dynion, a ddyfeisiwyd

[1] St. Mat. 4. 4. [2] St. Ioan 4. 14.

gan ddychymmyg dynion, i geisio i ni gyfiawnhâd ac iachawdwriaeth: o herwydd bod yr Ysgrythyr Lân yn cwbl gynnwys yr hyn a ddylem ei wneuthur a'r hyn a ddylem ei ochelyd, pa beth a ddylem ei gredu a'i garu, a pha beth sydd i ni edrych am dano ar law Duw yn y diwedd. Yn y Llyfrau hyn y cyfarfyddwn â'r Tad, o'r Hwn, a'r Mab, drwy 'r Hwn, a'r Yspryd Glân, yn yr Hwn, y mae i bob peth eu hanfod a'u parhâd; ac y gwelwn nad yw y Tri Pherson hyn ond un Duw, ac un Sylwedd. Yn y Llyfrau hyn y gallwn ddysgu ein hadnabod ein hunain, mor waelion ac mor druain ydym; ac adnabod Duw hefyd, mor ddaionus ydyw o hono ei Hun, a pha fodd y mae Efe yn ein gwneuthur ninnau a'i holl greaduriaid yn gyfrannogion o'i ddaioni. Gallwn ddysgu hefyd yn y Llyfrau hyn wybod bodd ac ewyllys Duw, mor gyflawn ag y mae yn weddus i ni ar hyn o amser ei wybod. Ac fel y dywed yr ysgolhaig mawr a'r pregethwr duwiol, St. Ioan Chrysostom, beth bynnag sydd anghenraid i iachawdwriaeth dyn, fe a gynhwysir yn gyflawn yn Ysgrythyr Duw. Yr hwn sydd anwybodus, efe a all yno ddysgu a chael gwybodaeth. Yr hwn sy galon galed, ac yn bechadur gwrthgas, a gaiff yno gyfarfod â'r tragywyddol boenau a ddarparodd cyfiawnder Duw, i beri iddo ofni, ac i feddalhâu a nawseiddio ei galon. Y sawl a orthrymmir gan flinderau yn y byd hwn, a gaiff yno esmwythâd yn yr addewidion o fywyd tragywyddol, i'w fawr gysur a'i ddiddanwch. Y neb a glwyfwyd gan ddiafol hyd angau, a gaiff yno feddyginiaeth i'w adferu i iechyd eilwaith. Os bydd anghenraid athrawiaethu rhyw wirionedd, neu argyhoeddi gau athrawiaeth, ceryddu rhyw fai, neu ganmol rhyw rinwedd, rhoi cyngor da, diddanu, neu annog, neu wneuthur un peth arall anghenraid i'n hiachawdwriaeth, yr holl bethau hyn, medd St. Chrysostom, a allwn ddysgu yn helaeth yn yr Ysgrythyr. Mae yno, medd Fulgentius, lawn ddigon o bethau i ddynion i'w bwytta, ac i blant i'w sugno. Mae yno ba beth bynnag sy'n addas i bob oedran, ac i bob graddau a math ar ddynion.

Wrth hynny fe ddylai y Llyfrau hyn fod yn dra mynych yn ein dwylaw, yn ein llygaid, yn ein clustiau, ac yn ein geneuau; ond yn fynychaf oll yn ein calonnau. O herwydd Ysgrythyr Duw ydyw nefol fwyd ein heneidiau,[1] gwrando yr hon, a'i chadw, sydd yn ein gwneuthur yn wynfydedig, yn ein sancteiddio, ac yn ein glanhâu;[2] mae yn troi ein heneidiau, mae yn llusern i'n traed;[3] mae yn ddïogel a safadwy a thragywyddol offeryn ein hiachawdwriaeth; mae yn rhoddi doethineb i'r gostyngedig a'r isel galon, ac yn diddanu, yn llawenhâu, yn sirioli, ac yn ysgafnhâu ein cydwybod: rhagorach gem a thrysor yw nag aur

[1] St. Mat. 4. 4. St. Luc 4. 4. [2] St. Ioan 17. 17. [3] Ps. 119. 105.

a meini gwerthfawr; melusach na'r mel, ac na'r diliau mel:[1] hi a elwir *y rhan dda*, yr hon a ddewisodd Mair,[2] o herwydd ynddi y mae diddanwch tragwyddol. Yr ydys yn galw geiriau yr Ysgrythyr Lân yn *eiriau y bywyd tragywyddol;*[3] canys offeryn Duw ydynt, a osodwyd i'r diben hwnnw.

Mae ynddynt allu i droi trwy addewid Duw, ac y maent yn effeithiol drwy gymmorth Duw; a (chwedi eu derbyn i galon ffyddlon) mae ynddynt yn wastad weithrediad nefol ac ysprydol: maent yn fywiol a nerthol mewn gweithrediad, ac yn *llymmach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd, a'r cymmalau a'r mer; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.*[4] Mae Crist yn ei gyfrif ef yn adeiladydd call, a adeilado ar ei air Ef, ar ei sylfaen sicr a dïogel ef.[5] Gan air Duw y'n bernir ni; oblegid *y gair a leferais i*, medd Crist, *hwnnw a farn yn y dydd diweddaf.*[6] I'r hwn a gadwo air Crist yr addewir cariad a ffafr Duw, ac y caiff efe fod yn *drigfa* neu deml i'r Fendigaid Drindod.[7]

Pwy bynnag sy ddyfal i ddarllen y gair hwn, ac i argraphu ar ei galon yr hyn a ddarlleno, fe leihêir ynddo ef y mawr-fryd ar bethau darfodadwy y byd hwn, ac fe gynhydda ynddo fawr awydd am y pethau nefol a addawyd yn y gair hwnnw gan Dduw. Ac nid oes dim a gadarnhâ ein ffydd a'n hymddiried yn Nuw, ac a geidw i fynu ddiniweidrwydd a phurdeb yn y galon, a buchedd ac ymarweddiad duwiol hefyd oddi allan, gymmaint a gwastadol ddarllen a chofio gair Duw; canys yr hyn, wrth wastadol arfer darllen a dyfal chwilio gair Duw, a ddwfn argrapher ac a gerfier yn y galon, a dry o'r diwedd i fod bron yn anian ac yn naturiaeth ynom.

Ac ym mhellach; ffrwyth a rhinwedd gair Duw yw goleuannu'r anwybodus, a rhoi rhagor o lewyrch i'r rhai yn ffyddlon ac yn ddyfal a'i darllenont, i ddiddanu eu calonnau, a'u cefnogi i gyflawni y peth y mae Duw yn ei orchymyn. Mae yn dysgu goddefgarwch ym mhob adfyd, gostyngeiddrwydd mewn hawddfyd; pa anrhydedd sy ddyledus i Dduw, pa drugaredd a chariadoldeb i'n cymmydog. Mae yn rhoddi cyngor da ym mhob peth ammheus. Mae yn dangos gan bwy y mae i ni edrych am nerth a chymmorth ym mhob enbydrwydd, ac mai Duw yw unig Roddwr buddugoliaeth yn holl ryfeloedd a themtasiynau ein gelynion corphorol ac ysprydol i'n herbyn.

Ond nid hwnnw sydd yn ennill mwyaf wrth ddarllen gair Duw, ag sy fwyaf hylaw a medrus i droi dalennau y Llyfr, neu i adrodd heb

[1] Ps. 19. 10. [2] St. Luc 10. 42. [3] St. Ioan 6. 68. [4] Heb. 4. 12. [5] St. Mat. 7. 24. [6] St. Ioan 12. 48. [7] St. Ioan 14. 23.

lyfr y peth sydd ynddo; ond yr hwn sy gwedi ei droi fwyaf iddo; yr hwn y mae yr Yspryd Glân wedi ei gynhyrfu fwyaf, a chalon a buchedd yr hwn sydd wedi eu cyfnewid fwyaf i'r hyn y mae yn ei ddarllen; yr hwn sydd yn myned beunydd yn ddifalchach, yn ddiddiccach, yn llai ei drachwant, ac yn llai awyddus am wag hoffderau bydol; yr hwn (gan ymwrthod â'i hen fywyd drygionus) sy beunydd yn cynnyddu fwyfwy mewn rhinweddau da.

Ac ar ychydig o eiriau, nid oes dim yn dal i fynu 'n well dduwioldeb y meddwl, ac yn gyrru ymaith annuwioldeb, nag y mae gwastadol ddarllen a gwrando gair Duw, os cyssylltir hynny gyd â meddwl duwiol a daionus fwriad ar wybod a chanlyn ewyllys Duw. O herwydd heb lygad syml, bwriad pur, a meddwl da, ni chyfrifir dim yn dda ger bron Duw. Ac o'r ystlys arall, nid oes dim yn tywyllu Crist a gogoniant Duw yn fwy, nac yn dwyn i mewn fwy o ddallineb a phob math o ddrygioni, nag anwybodaeth o air Duw.

### YR AIL RAN O'R BREGETH

## YNGHYLCH GWYBOD YR YSGRYTHYR LAN.

FE ddangoswyd yn y rhan gyntaf o'r Bregeth hon, ag sydd yn annog i wybodaeth o'r Ysgrythyr Lân, paham y mae'r wybodaeth honno yn angenrheidiol ac yn fuddiol i bob dyn, ac mai trwy wir wybodaeth a deall yn yr Ysgrythyr y gwybyddir hefyd y pyngciau angenrheitiaf o'n dyledswydd tu ag at Dduw a'n cymmydogion. Yn awr ynghylch yr un peth chwi a gewch glywed yr hyn a ganlyn.

Os ydym yn addef Crist, paham nad oes arnom gywilydd bod heb wybod ei athrawiaeth Ef? lle y mae'n gywilydd gan bob dyn fod yn anghydnabyddus yn y ddysgeidiaeth a broffeso. Mae'n gywilyddus gan ddyn, os gelwir ef yn philosophydd, ac yntau heb ddarllen llyfrau philosophyddiaeth, neu gael ei alw yn gyfreithiwr, neu yn seryddwr, neu yn feddyg, yr hwn sydd anghyfarwydd yn llyfrau y gyfraith, seryddiaeth, neu physigwriaeth. Pa fodd, ynte, y dywed neb ei fod yn cyffesu Crist a'i grefydd, onid ymddyry (gymmaint ag y gallo yn gymhesur) i ddarllen ac i wrando, ac felly i wybod, llyfrau Efengyl ac athrawiaeth Crist! Er bod celfyddydau eraill yn dda, ac i'w dysgu, etto ni ddichon un dyn wadu bod hon yn bennaf, ac yn rhagori ar bob celfyddyd arall yn ddigyffelybiaeth. Pa esgus wrth hynny a wnawn ni yn y dydd diweddaf o flaen Crist, y rhai a ymhyfrydwn mewn darllen neu wrando

mympwy a dychymmygion dynion, yn hytrach na'i sancteiddiaf Efengyl Ef, ac na allwn gymmeryd dim amser i wneuthur yr hyn y dylem yn bennaf uwchlaw pob peth ei wneuthur, ac a ddarllenwn bethau eraill yn gynt na'r pethau y dylem adael heibio ddarllen pob peth arall o'u plegid? Cynnifer am hynny o honom ag sy'n addef Duw, a thrwy wir ffydd yn ymddiried ynddo, ymrown, cyn belled ag y gallom gael ennyd a seibiant, i wybod gair Duw trwy ei ddyfal wrando a'i ddarllen.

Ond y rhai nad oes ganddynt serch ar air Duw, (i guddio eu bai hwn) a roddant yn gyffredin drostynt eu hunain ddau esgus ofer-wag. Rhai sydd yn eu hesguso eu hunain o herwydd eu gwendid a'u hofn, gan ddywedyd na feiddiant hwy ddarllen yr Ysgrythyr Lân, rhag iddynt drwy eu hanwybod gwympo i gyfeiliornad. Eraill a ffugiant ei bod mor anhawdd ac mor galed i'w deall, nad yw weddus i neb ei darllen, onid i ysgolheigion a gwŷr dysgedig.

Ond oblegid y cyntaf: Anwybodaeth o air Duw yw achos pob cyfeiliornad, fel y dywedodd Crist ei hun wrth y Saduceaid; *Yr ydych yn cyfeiliorni,* meddai, *gan na wyddoch yr Ysgrythyrau, na gallu Duw.*[1] Pa fodd, am hynny, y gall y sawl a fynnant fod fyth mewn anwybod, ymgadw rhag cyfeiliornad? A pha fodd y deuant hwy allan o'u hanwybodaeth, y rhai ni fynnant na darllen na gwrando y peth a ddichon roi gwybodaeth iddynt? Fe fu yr hwn sydd yn awr a mwyaf o wybodaeth ganddo, ar y cyntaf yn anwybodus; etto nid ymattaliodd efe rhag darllen, drwy ofn syrthio i gyfeiliornad: ond efe a ddarllenodd yn ddyfal rhag iddo aros mewn anwybodaeth, a thrwy anwybodaeth, mewn cyfeiliornad. Ac oni fynnwch chwithau wybod gwirionedd Duw (yr hyn sy fwyaf angenrheidiol i chwi) rhag i chwi syrthio i gyfeiliornad; wrth yr un rheswm, ynte, gellwch orwedd i lawr, a pheidio byth â cherdded, rhag, wrth gerdded, i chwi gwympo i'r llaid; a pheidio â bwytta un bwyd da rhag i chwi laru; a pheidio â hau eich ŷd, na llafurio yn eich galwedigaeth, nac arfer eich marchnadaeth, rhag ofn i chwi golli eich hâd, eich llafur, a'ch eiddo: ac felly, wrth y rheswm hwnnw, goreu fyddai i chwi fyw yn segur, heb gymmeryd byth mewn llaw wneuthur un math o ddaioni, rhag ond odid i ryw ddrwg ddigwyddo i chwi o hynny.

Ac os ydych yn ofni cwympo i gyfeiliornad drwy ddarllen yr Ysgrythyr Lân, mi a ddangosaf i chwi pa fodd y gellwch ei darllen heb berygl cyfeiliorni. Darllenwch hi yn ostyngedig â chalon lednais ac isel, drwy fwriad i ogoneddu Duw, ac nid eich hunain, â'r wybodaeth a gaffoch ynddi: ac na ddarllenwch hi heb weddïo beunydd ar Dduw, ar

[1] St. Mat. 22. 29.

iddo Ef gyfarwyddo eich darlleniad i ddiben da: ac na chymmerwch arnoch ei deongl ddim pellach nag y byddoch yn ei deall yn oleu. O herwydd, fel y dywed St. Awstin, mae gwybodaeth o'r Ysgrythyr Lân fel neuadd fawr, helaeth, ac uchel, ond y drws yn isel iawn, fel na ddichon y dyn uchel a rhyfygus redeg i mewn; ond mae yn rhaid i'r neb a elo i mewn iddi, ymgrymmu yn isel ac ymostwng. Canys balchder a rhyfyg yw mam pob cyfeiliornad, ond nid rhaid i ostyngeiddrwydd byth ofni camsyniad. Oherwydd gostyngeiddrwydd a chwilia yn unig i wybod y gwirionedd; hi a chwilia, ac a gydmara y naill le gyd â'r llall, a lle na's gall gael allan yr ystyr, hi a weddïa ac a ymofyn âg eraill a fyddont yn gwybod, ac ni 's penderfyna yn rhyfygus ac yn ddibwyll ddim a'r na's gwypo. Am hynny gall y gostyngedig yn eofn chwilio am y gwirionedd yn yr Ysgrythyr, heb ddim perygl cyfeiliorni. Ac os ydyw heb wybodaeth, mwy o lawer y dylai ddarllen a chwilio yr Ysgrythyr Lân i'w ddwyn allan o anwybodaeth. Nid wyf yn dywedyd na all dyn lwyddo wrth wrando yn unig; ond gall lwyddo yn fwy o lawer wrth wrando a darllen hefyd. Hyn a ddywedais am ofn darllen, oblegid anwybod y darllenydd.

Ac ynghylch anhawsdra yr Ysgrythyr: pwy bynnag sy mor wan fel na's gall dreulio bwyd cryf, etto efe a ddichon sugno y llaeth melus tyner, ac oedi dyfod at ychwaneg hyd oni chryfhao, a dyfod i fwy o wybodaeth. O herwydd y mae Duw yn derbyn y dysgedig a'r annysgedig, heb wrthod neb, ond bod yn ddiduedd at bawb oll. Ac y mae yr Ysgrythyr mor llawn o ddyffrynoedd isel, a llwybrau gwastad a hawdd i bob dyn eu harfer a rhodio ynddynt, ag ydyw o fryniau a mynyddoedd uchel, y rhai ni ddichon nemmawr ddringo iddynt. A phwy bynnag a roddo ei feddwl ar yr Ysgrythyr Lân gyd â dyfal fyfyrdod ac awydd gwresog, ni ddichon i hwnnw, medd St. Chrysostom, gael ei adael heb gymmorth. Canys naill ai fe ddenfyn Duw ryw athraw duwiol i'w ddysgu ef, fel y danfonodd i addysgu yr Eunuch, pendefig o Ethiopia, a thrysorwr y Frenhines Candace; yr hwn â bryd ganddo ar ddarllen yr Ysgrythyr (er nad oedd yn ei deall) etto am y bryd oedd ganddo i air Duw, fe ddanfonodd Duw atto ei apostol Philip i agoryd iddo wir ystyr yr Ysgrythyr yr oedd yn ei darllen. Neu ynte, os na bydd gennym wr dysgedig i'n haddysgu a'n cyfarwyddo, etto goleua Duw ei Hun oddi uchod ein meddyliau, ac a ddysg i ni y pethau a fyddont angenrheidiol i ni, ac o'r rhai yr ydym yn anwybodus. A dywed Chrysostom mewn man arall, nad rhaid wrth ddoethineb fydol dyn i ddeall yr Ysgrythyr, ond datguddiad yr Yspryd Glân, yr Hwn sydd yn anadlu y gwir ystyr i'r sawl a chwiliant am dano gyd â dyfal ostyngeiddrwydd. *Pob un sy'n gofyn, sy'n derbyn; a'r neb sy'n ceisio, sy'n cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr*

*agorir.*[1] Os darllenwn unwaith, dwywaith, neu deirgwaith, ac heb ddeall, na roddwn i fynu, ond parhawn i ddarllen, gan weddïo, ac ymofyn âg eraill; ac felly wrth hir guro, yn y diwedd fe agorir y porth. Ac fel y dywed St. Awstin, Er y lleferir llawer o bethau yn yr Ysgrythyr mewn dirgeledigaethau tywyll, etto ni ddywedir dim felly mewn *un* lle, nad ydys mewn lle *arall* yn ei adrodd yn haws ac yn oleuach, fel y gallo y dysgedig a'r annysgedig ei ddeall. Ac am y pethau hynny sydd yn yr Ysgrythyr yn hawdd eu deall ac yn anghenraid i iachawdwriaeth, dyledswydd pob dyn yw eu dysgu, eu hargraphu yn ei gof, a'u harfer yn effeithiol: ac am y dirgeledigaethau tywyll, bod yn foddlon i fod heb eu gwybod hyd oni ewyllysio Duw agoryd y pethau hynny iddo. Hyd hynny, os bydd diffyg medr neu amser cyfaddas arno, ni chyfrif Duw hynny i'w ffolineb ef: etto nid gweddus i'r rhai sy'n medru, beidio â darllen, am fod eraill yn anfedrus i ddarllen; ond ni ddylid, oblegïd fod rhyw fannau yn dywyll, adael y cwbl oll heb ei ddarllen.

Ac i ddiweddu ar ychydig eiriau; fel y dywed St. Awstin, drwy ddarllen yr Ysgrythyr fe wellhêir pawb; cadarnhêir y gweiniaid, a diddenir y cedyrn. Felly nid oes neb yn gwrthwynebu darllen gair Duw, ond naill ai y rhai a fo mor ddiwybod na's gwyddant beth mor iachusol ydyw, neu a fo mor gleifion ag y casaont y feddyginiaeth fwyaf cysurus a all eu hiachâu, neu ynte mor annuwiol ag yr ewyllysient i'r bobl aros yn wastad mewn dallineb ac mewn anwybodaeth o Dduw.

Fel hyn traethasom ar ychydig eiriau ryw ran o'r budd sy'n dyfod oddi wrth sanctaidd air Duw, yr hwn yw un o brif ddoniau daionus Duw, a roddwyd ac a hyspyswyd i ddynolryw yma ar y ddaear. Dïolchwn i Dduw o'n calonnau am ei rodd fawr a hyspysol, ei ffafr ddaionus, a'i dadol ragddarbodaeth hon; bydded lawen gennym dderbyn y dawn gwerthfawr hwn o eiddo ein Tad nefol; gwrandawn, darllenwn, a gwybyddwn y rheolau, gorchymynion, ac ordeiniadau sanctaidd hyn o'n Crefydd Gristionogol, ar y rhai y gwnaethom ein cyffes i Dduw yn ein Bedydd. Trysorwn yn eigion ein calonnau, mewn ofn a pharch, yr addysgiadau angenrheidiol a ffrwythlon hyn; meddyliwn am danynt a myfyriwn arnynt nos a dydd; cilgnown hwynt fel y gallom gael eu sudd melus, eu ffrwyth ysprydol, y mer, y mel, y cnewyll, y blas, y cysur, a'r diddanwch sydd ynddynt: sefydlwn, tawelwn, a sicrhawn ein cydwybodau âg annhwyllodrus sicrwydd, gwirionedd, a gwastadol ddïogelrwydd y pethau hyn: gweddïwn ar Dduw (unig Awdwr y myfyrdodau nefol hyn) ar i ni allel dywedyd, meddwl, credu, byw, ac ymadael oddi yma, yn ol iachusol athrawiaeth eu gwirioneddau hwynt. Ac yn y

[1] St. Mat. 7. 8.

modd hyn, cawn yn y byd hwn amddiffyniad, a ffafr, a gras Duw, gyd âg annhraethol gysur tangnefedd, a thawelwch cydwybod; ac ar ol y fuchedd druenus hon, cawn fwynhâu didrangc wynfyd a gogoniant y nef; yr hyn caniattaed Iesu Grist i ni oll, yr Hwn a ddïoddefodd angau drosom oll, i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yr awr hon ac yn oes oesoedd. Amen.

# PREGETH

## AM DRUENI DYN, A'I GONDEMNIAD I FARWOLAETH DRAGYWYDDOL DRWY EI BECHOD EI HUN.

NID ydyw yr Yspryd Glân, wrth ysgrifenu'r Ysgrythyr Sanctaidd, yn ddyfalach mewn dim nag i dynnu i lawr wag ogoniant a balchder dyn, yr hyn o bob beiau eraill sydd wedi ei blannu yn gyffredinaf yn holl ddynolryw, ïe, er llygriad cyntaf ein tad cyntaf Adda. Ac am hyn yr ydym yn darllen mewn amryw fannau o'r Ysgrythyr lawer o addysgiadau gwych yn erbyn yr hen fai gwreiddiol hwn, i ddysgu i ni ganmolediccaf rinwedd gostyngeiddrwydd, pa fodd i'n hadnabod ein hunain, ac i gofio beth ydym o honom ein hunain.

Yn llyfr Genesis mae yr Hollalluog Dduw yn rhoi i ni oll ditl ac enw yn ein hen gyndad Adda, yr hwn enw a ddylai ein rhybuddio ni oll i ystyried pa beth ydym, o ba beth yr ydym, o ba le y daethom, ac i ba le yr awn, gan ddywedyd fel hyn: *Trwy chwys dy wyneb y bwyttei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear; oblegid o honi y'th gymmerwyd: canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.*[1] Yma (megis mewn drych) y gallwn ddysgu adnabod ein hunain, nad ydym ond daear, pridd, a lludw, ac mai i bridd a lludw y dychwelwn.

Ac yr oedd y Patriarch sanctaidd Abraham yn cofio yn dda yr enw a'r titl hwn, llwch, pridd, a lludw, a roddodd ac a osododd Duw ar holl rywogaeth dyn; ac am hynny y mae yn galw ei hun ar yr enw hwn pan y mae yn gweddïo'n ddifrif dros Sodom a Gomorrah. Ac yr ydym yn darllen y byddai Judith, Ester, Job, Jeremïah, a gwŷr a gwragedd

[1] Gen. 3. 19.

sanctaidd eraill yn yr Hen Destament, yn arfer sachlïain, a thaflu llwch a lludw ar eu pennau, pan fyddent yn galaru am eu buchedd bechadurus. Hwy a alwent ac a waeddent ar Dduw am nerth a thrugaredd gyd â'r cyfryw seremoni o sachlïain, llwch, a lludw, fel wrth hynny y mynegent i'r holl fyd pa fri a thyb isel a gostyngedig oedd ganddynt am danynt eu hunain, a pha gystal yr oeddynt yn cofio eu henw a'u titl a grybwyllwyd o'r blaen, eu natur wael, wan, a llygredig—llwch, pridd, a lludw.

Mae llyfr y Doethineb hefyd, gan ewyllysio tynnu i lawr falchder ein calonnau, yn ein hannog i gofio yn ddiball ein rhywogaeth farwol a phriddlyd, yr hon sy gennym oll oddi wrtho ef, yr hwn a wnaethpwyd gyntaf; a bod pawb, brenhinoedd yn gystal a deiliaid, yn dyfod i'r byd hwn, ac yn myned allan o hono, yn yr un dull a modd; hynny yw, megis o honom ein hunain, yn llawn trueni, fel y gallwn weled beunydd.[1]

A gorchymynodd y Goruchaf Dduw i'r Prophwyd Esay wneuthur cyhoeddiad, a gwaeddi wrth yr holl fyd; a phan ddywedodd Esay, *Beth a waeddaf?* attebodd yr Arglwydd, *Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes. Gwywa'r gwelltyn, syrth y blodeuyn; canys Yspryd yr Arglwydd a chwythodd arno; gwellt yn ddïau yw'r bobl. Gwywa 'r gwelltyn, syrth y blodeuyn.*[2]

Ac y mae'r gwr sanctaidd Job, yr hwn a brofasai ynddo ei hun yn helaeth gyflwr trueuus a phechadurus dyn, yn agoryd yr un peth i'r byd yn y geiriaû hyn: *Dyn a aned o wraig,* medd efe, *sy fyr o ddyddiau, a llawn o helbul: fel blodeuyn y daw allan, ac y torrir ef ymaith; ac efe a gilia fel cysgod, ac ni saif. A agori Di dy lygaid ar y fath yma? ac a ddygi Di fi i farn gyd â Thi? Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb.*[3]

Ac y mae pawb, o wir duedd a hyblygedd naturiol at ddrwg, wedi ymroi mor gyffredinol i bechod, nes (fel y dywed yr Ysgrythyr) *edifarhâu o'r Arglwydd wneuthur o hono ef ddyn ar y ddaear:*[4] a thrwy bechod ennynodd ei ddigofaint gymmaint yn erbyn y byd, fel y boddodd Efe yr holl fyd â diluw Noah, ond Noah ei hun a'i ychydig dylwyth.

Nid heb achos mawr y mae Ysgrythyr Duw yn galw dynion yma yn y byd hwn mor fynych wrth yr enw DAEAR. *O ddaear, ddaear, ddaear,* medd y Prophwyd Jeremïah, *gwrando air yr Arglwydd.*[5] Mae ein hiawn enw, galwedigaeth, a thitl hwn, *daear, daear, daear,* a gyhoeddwyd trwy y Prophwyd, yn dangos beth ydym yn wir, pa enw bynag, pa ditl bynag, neu pa urddas bynag arall a roddo dynion i ni. Fel hyn yr enwodd Efe ni, yr Hwn a wyddai oreu beth ydym, a

[1] Doeth. 7. 1. [2] Esay 40. 6, 7. [3] Job 14. 1—4. [4] Gen. 6. 6. [5] Jer. 22. 39.

pha fodd y dylem gael ein galw. Ac fel hyn y gesyd ni allan, gan ddywedyd drwy ei ffyddlon Apostol St. Paul, *fod pawb, yr Iuddewon a'r Groegwýr dan bechod. Nid oes neb cyfiawn, nac oes un: nid oes neb yn deall, nid oes neb yn ceisio Duw. Gwyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un. Bedd agored yw eu ceg. A'u tafodau y gwnaethant ddichell. Gwenwyn aspiaid sy dan eu gwefusau. Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd. Buan yw eu traed i dywallt gwaed. Distryw ac aflwydd sydd yn eu ffyrdd. A ffordd tangnefedd nid adnabuant. Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.*[1] Ac mewn man arall ysgrifena St. Paul fel hyn: *Duw a'u cyd-gauodd hwynt oll mewn anufudd-dod, fel y trugarhâi wrth bawb.*[2] *Cyd-gauodd yr Ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid drwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sy'n credu.*[3] Mae St Paul mewn aml fannau yn ein lliwio yn ein lliw ein hunain, gan ein galw yn *blant digofaint* Duw, pan y'n ganed;[4] a dywedyd hefyd *nad ydym ddigonol o honom ein hunain i feddwl* dim a fo da;[5] llawer llai y gallwn ddywedyd neu wneuthur yr hyn sy dda, o honom ein hunain.

A dywed y Gwr Doeth yn Llyfr y Diarhebion, *Seithwaith y syrth y cyfiawn.*[6] Yr oedd Job, gwr a brofwyd ac a gymmeradwywyd uwchlaw llawer, yn ofni ei holl weithredoedd. Er sancteiddio St. Ioan Fedyddiwr ym mru ei fam, a'i ganmol cyn ei eni, a'i alw yn *fawr* ger bron yr Arglwydd, wedi ei lanw o'i enedigaeth â'r Yspryd Glân, Parottowr y ffordd i'n Hiachawdwr Crist; er i Grist ei ganmol a dywedyd ei fod yn *fwy na phrophwyd*, ac nad oedd *ymhlith y rhai a aned o wragedd brophwyd mwy nag ef*,[7] etto mae efe yn caniattâu yn eglur fod arno eisiau cael ei olchi gan Grist; mae yn teilwng ddyrchafu ac yn gogoneddu ei Arglwydd a'i Feistr Crist, ac yn ei ostwng ei hun fel yn annheilwng i ddattod carrai ei esgid Ef, gan roi yr holl anrhydedd a'r gogoniant i Dduw.[8]

Felly mae St. Paul yn fynych ac yn eglur yn cyffesu am dano ei hun, pa beth oedd o hono ei hun, gan roddi, megis ffyddlonaf was, yr holl glod i'w Feistr a'i Iachawdwr. Felly y mae St. Ioan Efangylwr yn ei enw ei hun ac yn enw pawb sanctaidd eraill (er mor gyfiawn faent) yn gwneuthur y gyffes gyhoeddus hon: *Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom. Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw Efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. Os dywedwn na phechasom, yr ydym yn ei wneuthur Ef yn gelwyddog, a'i*

[1] Rhuf. 3. 9—18. [2] Rhuf. 11. 32. [3] Gal. 3. 22. [4] Ephes. 2. 3. [5] 2 Cor. 3. 5. [6] Diar. 24. 16. [7] St. Luc 7. 28. [8] St. Mat. 3. 11.

*air Ef nid yw ynom.*[1] Am hyn y mae'r Gwr Doeth yn Llyfr y Pregethwr, yn gwneuthur y gyffes wir a chyffredinol hon: *Nid oes dyn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha.*[2] Ac y mae Dafydd yn cywilyddio am ei bechod, ac er hyn heb gywilydd ganddo gyffesu ei bechod. Mor fynych, mor daer, ac mor alarus y mae yn deisyf mawr drugaredd Duw am ei gamweddau mawrion, ac *nad elai Duw i farn âg ef.*[3] Ac eilwaith, mor gymmwys y mae'r gwr duwiol hwn yn pwyso ei bechodau, pan y mae'n cyffesu eu bod mor *aml o nifer*, mor *guddiedig* ac anhawdd eu deall, nes y mae megis yn ammhosibl eu gwybod, eu traethu, na'u rhifo. Gan hynny, a chanddo wir, difrif, a dwfn ystyriaeth a myfyrdod ar ei bechodau, ac etto heb allel dyfod hyd eu gwaelod, mae'n gwneuthur ei weddi ar Dduw ar iddo faddeu *ei feiau cuddiedig* a dirgel, i wybodaeth o ba rai ni's gall efe ei hun ddyfod.[4] Mae yn iawn bwyso ei bechodau o'r gwraidd dechreuol a llygad y ffynnon, gan deimlo fod eu gogwyddiadau, eu cymhelliadau, eu cynhyrfiadau, eu brathiadau, eu blaen-darddiadau, eu ceingciau, eu sothach, eu llwgr, eu blas, eu teimlad, a'u harogl, yn parhâu ynddo'n wastad. Am hynny y dywed, *Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd.*[5] Nid ydyw yn dywedyd, *mewn anwireddau*, megis am *lawer*, ond mewn *anwiredd*, megis am *un*, gan mai o un ffynnon y mae y lleill i gyd yn tarddu ac yn ffrydio.

Fe ddywed ein Hiachawdwr Crist *nad oes neb da ond un, sef Duw;*[6] ac *hebddo Ef na allwn wneuthur dim daioni;*[7] ac *nad yw neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo Ef:*[8] mae hefyd yn gorchymyn i ni, wedi i ni wneuthur y cwbl oll ag a allom, ddywedyd, *gweision anfuddiol ydym.*[9] Mae Efe yn gosod y publican edifarus o flaen y Pharisead balch, sanctaidd, ac ymffrostgar.[10] Mae yn ei alw ei Hun yn *Feddyg, nid i'r rhai iach, ond i'r rhai cleifion*, y rhai sy mewn angen am ei eli Ef at eu doluriau. Mae yn ein dysgu i gydnabod yn ein gweddïau ein bod yn bechaduriaid, ac i ofyn am gyfiawnder, a rhyddhâd oddi wrth bob drwg, ar law ein Tad nefol. Mae yn dangos fod pechodau ein calonnau yn ein halogi ni ein hunain.[11] Mae yn ein dysgu fod gair neu feddwl drwg yn haeddu damnedigaeth, gan sicrhâu mai *am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif.*[12] Efe a ddywed hefyd, na ddaeth Efe i gadw ond y defaid cyfrgolledig. O herwydd paham, ychydig o'r Phariseaid beilchion, cyfiawn, dysgedig, doethion, perffaith, a sanctaidd, a achubwyd ganddo, am eu bod yn eu cyfiawnhâu eu hunain ger bron dynion â'u ffug sancteiddrwydd. Am hynny, fy nghharedigion bobl, gochelwn y fath ragrith, gwag-ogoniant, a hunan-gyfiawnhâd.

[1] 1 St. Ioan 1. 8—10. [2] Preg. 7. 20. [3] Ps. 143. 2. [4] Ps. 19. 12. [5] Ps. 51. 5. [6] St. Marc 10. 18. [7] St. Ioan 15. 5. [8] St. Ioan 14. 6. [9] St. Luc 17. 10. [10] St. Mat. 9. 12. [11] St. Mat. 15. 11. [12] St. Mat. 12. 36.

YR AIL RAN O'R BREGETH

## AM DRUENI DYN.

YN gymmaint a bod ein gwir adnabod ein hunain yn dra angenrheidiol i ddyfod i wir wybodaeth o Dduw, chwi a glywsoch yn yr hyn a ddarllenwyd ddiweddaf, mor isel y byddai yr holl dduwiolion bob amser yn meddwl am danynt eu hunain; a'u bod yn meddwl ac yn barnu felly am danynt eu hunain, wedi cael eu dysgu i hynny gan Dduw eu Creawdwr yn ei sanctaidd air.

O herwydd o honom ein hunain nid ydym ond afaill surion, heb allu dwyn dim pêr afalau. Yr ydym o honom ein hunain yn gyfryw dir a'r na's gall gynhyrchu amgen na chwyn, danadl, drain, mïeri, bulwg, ac efrau. Amlygir ein ffrwythau yn y bummed bennod at y Galatiaid. Nid oes gennym na ffydd, na chariad, na gobaith, na hirymaros, na dirwest, na dim arall ag sy dda, onid o Dduw: ac am hynny y gelwir y rhinweddau hyn yno yn *ffrwythau yr Yspryd Glân*, ac nid ffrwythau dyn.

Gan hynny cydnabyddwn ein hunain ger bron Duw (fel yr ydym yn wir) yn bechaduriaid truain a gresynol; ac edifarhâwn o ddifrif, ac ymostyngwn o galon, a llefwn ar Dduw am drugaredd. Cyffeswn oll â'n genau ac â'n calon, ein bod yn llawn ammherffeithrwydd: cydnabyddwn ein gweithredoedd, mor ammherffaith ydynt; ac yna ni safwn yn ynfyd a rhyfygus yn ein meddwl ein hunain, ac nid ymhonnwn o un rhan o'n cyfiawnhâd trwy haeddedigaeth ein gweithredoedd ein hunain. O herwydd yn wir y mae ammherffeithrwydd yn ein gweithredoedd goreu ni; nid ydym yn caru Duw gymmaint ag a ddylem, â'n holl galon, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth: nid ydym yn ofni Duw fel y dylem; nid ydym yn gweddio ar Dduw ond gyd â llawer o ddiffyg ac anghyflawnder: yn ammherffaith yr ydym yn rhoddi, yn maddeu, yn credu, yn caru, ac yn gobeithio; yn ammherffaith yr ydym yn dywedyd, yn meddwl, ac yn gweithredu; yn ammherffaith yr ydym yn ymladd yn erbyn y diafol, y byd, a'r cnawd: na fydded arnom gan hynny gywilydd cydnabod yn ddiwarafun ein cyflwr o ammherffeithrwydd; ie, na fydded arnom gywilydd cyffesu ammherffeithrwydd hyd yn nod yn ein gweithredoedd goreu. Na fydded ar neb o honom gywilydd

dywedyd gyd â Phetr Sanct, *Dyn pechadurus wyf fi.*[1] Dywedwn oll gyd â'r Prophwyd sanctaidd Dafydd, *Pechasom gyd â'n tadau, gwnaethom gamwedd, anwireddus fuom.*[2] Gwnawn oll gyhoeddus gyffes gyd â'r mab afradlon wrth ein Tad, gan ddywedyd gyd âg ef, *Fy nhad, pechais yn erbyn y nef ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn fab i ti.*[3] Dywedwn oll gyd â Baruch sanctaidd, *Ein Harglwydd Dduw ni sy gyfiawn; i ninnau ac i'n tadau y perthyn gwarthrudd goleu:—nyni a fuom annuwiol ac a wnaethom yn anghyfiawn yn dy holl ordinhadau di.*[4] Dywedwn oll gyd â'r sanctaidd Brophwyd Daniel, *I ti, Arglwydd, y perthyn cyfiawnder, ond i ni gywilydd wynebau.—Pechasom a gwnaethom gamwedd, a buom anwir, gwrthryfelasom hefyd, sef trwy gilio oddi wrth dy orchymynion a'th farnedigaethau.*[5] Dyma fel y'n dysgir gan bob dynion da yn yr Ysgrythyr Lân, i ostwng ein hunain, ac i ddyrchafu, canmol, clodfori, mawrhâu, a gogoneddu Duw.

Ni a glywsom fel hyn mor ddrwg ydym o honom ein hunain, a pha fodd o honom a thrwom ein hunain nad oes gennym ddim daioni, nerth, na iachawdwriaeth; ond o'r gwrthwyneb, pechod, damnedigaeth, ac angau tragywyddol: yr hyn beth os ni a'i pwyswn ac a'i hystyriwn yn ddwys, cawn ddeall yn well fawr drugaredd Duw, a pha fodd y mae ein hiachawdwriaeth yn dyfod oddi wrth Grist yn unig. O herwydd ynom ein hunain (megis o honom ein hunain) nid ydym yn caffael dim drwy yr hyn y gallwn gael ymwared o'n blin gaethiwed hwn, i'r hwn y'n taflwyd drwy genfigen diafol wrth dorri gorchymyn Duw yn ein tad cyntaf Adda. Yr ydym oll wedi myned yn aflan; ond ni's gallwn ein glanhâu ein hunain, na glanhâu y naill y llall. Yr ydym wrth naturiaeth yn blant digofant Duw; ond ni's gallwn ein gwneuthur ein hunain yn blant Duw, ac etifeddion ei ogoniant. Yr ydym yn ddefaid wedi myned ar gyfrgoll; ond ni's gallwn, o'n nerth ein hunain, ddyfod i'r gorlan eilwaith, gan faint ein hammherffeithrwydd a'n gwendid.

Ynom ein hunain, gan hynny, ni's gallwn ymffrostio, y rhai o honom ein hunain nid ydym ddim ond pechaduriaid; ni allwn chwaith lawenhâu mewn dim gweithredoedd a wnelom, y rhai ydynt oll mor ammherffaith ac ammhur, fel na allant sefyll ger bron cyfiawn orseddfaingc Duw, fel y dywed y Prophwyd Sanctaidd Dafydd, *Na ddos i farn â'th was: o herwydd ni chyfiawnhêir neb byw yn dy olwg di.*[6] At Dduw, gan hynny, y rhaid i ni ffoi, ac onid ê, byth ni chawn heddwch, na gorphwysdra, na llonyddwch cydwybod yn ein calonnau: canys Efe yw

[1] St. Luc 5. 8. [2] Ps. 106. 6. [3] St. Luc 15. 18. [4] Baruch 2. 6. a 12. [5] Dan. 9. 7. a 5. [6] Ps. 143. 2.

*Tad y trugareddau, a Duw pob diddanwch;*[1] Efe yw 'r Arglwydd gyd â'r Hwn y mae *aml ymwared;*[2] Efe yw y Duw sydd yn ein hachub *yn ol ei drugaredd,*[3] ac *yn canmol ei gariad tu ag attom,*[4] yn gymmaint ag iddo o'i ewyllys da ei hun, pan oeddym ni golledig, ein hachub a darparu i ni deyrnas dragywyddol. Ac yr ydys yn rhoddi i ni yr holl drysorau nefol hyn, nid am ein haeddedigaethau a'n gweithredoedd da ein hunain (y rhai o honom ein hunain nid oes gennym) ond yn unig o'i drugaredd rad ei Hun. Ac er mwyn pwy? Yn wir er mwyn Iesu Grist, pur a difrycheulyd Oen Duw. Efe yw yr anwyl garedig Fab, er mwyn yr Hwn y mae Duw wedi ei lwyr ddiddigio, ei foddloni, a'i gymmodi â dyn. Efe yw *Oen Duw, yr Hwn sy'n tynnu ymaith bechodau'r byd,*[5] am yr Hwn yn unig y gellir mewn gwirionedd ddywedyd mai *da y gwnaeth Efe bob peth,* ac *na chaed twyll yn ei enau.*[6] Nid oes neb ond Efe a ddichon ddywedyd, *Tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi.*[7] Ac Efe yn unig a ddichon ddywedyd, *Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?*[8] Efe yw yr Archoffeiriad tragywyddol, yr Hwn a'i hoffrymmodd ei Hun unwaith ar allor y Groes, ac *â'r un offrwm hwnnw a berffeithiodd yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.*[9] Efe yw yr *Un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion,*[10] yr Hwn a dalodd iawn drosom i Dduw â'i waed ei Hun, ac â'r gwaed hwnnw a'n glanhaodd oddi wrth bob pechod. Efe yw y Meddyg sy'n *iachau ein holl lesgedd.*[11] Efe yw'r Gwaredydd sy'n *gwared ei bobl oddiwrth eu pechodau.*[12] Ac ar ychydig eiriau, Efe yw'r ffynnon ddylifol a helaeth-lawn, *o gyflawnder yr hon y derbyniasom ni oll.*[13] Canys ynddo Ef *y mae holl drysorau gwybodaeth a doethineb yn guddiedig.*[14] Ac ynddo Ef a thrwyddo Ef yr ydym yn cael oddi wrth Dduw Dad bob peth da a berthyn i'r corph a'r enaid.

O! mor rhwymedig ydym i Hwn ein Tad nefol am ei fawr drugareddau, y rhai a amlygodd Efe mor helaeth i ni yng Nghrist Iesu ein Harglwydd a'n Ceidwad! Pa ddïolch digon teilwng a allwn roi iddo! Torrwn allan oll âg un meddwl a lleferydd llawen, gan fyth-foliannu a mawrhâu yr Arglwydd hwn o drugaredd am ei dirion fwynder a ddangosodd Efe i ni yn ei anwyl garedig Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

Hyd hyn y clywsom pa beth ydym o honom ein hunain; gwir bechadurus, gresynol, a damniol. Ni a glywsom hefyd nad ydym o honom a thrwom ein hunain yn alluog i feddwl un meddwl da, nac i wneuthur un weithred dda, fel na allwn gael ynom ein hunain ddim gobaith iach-

[1] 2 Cor. 1. 3. [2] Ps. 130. 7. [3] Tit. 3. 5. [4] Rhuf. 5. 8. [5] St. Ioan 1. 29. [6] St. Marc 7. 37. a 1 Petr 2. 22. [7] St. Ioan 14. 30. [8] St. Ioan 8. 46. [9] Heb. 10. 14. [10] 1 Tim. 2. 5. [11] Ps. 103. 3. [12] St. Mat. 1. 21. [13] St. Ioan 1. 16. [14] Col. 2. 3.

awdwriaeth, ond yn hytrach y pethau ag ydynt yn dwyn distryw arnom. Drachefn clywsom am dirion fwynder a mawr drugaredd Duw Dad tu ag attom, ac mor ddaionus yw Efe i ni er mwyn Crist, heb ein rhyglyddau a'n haeddedigaethau ni, ond yn unig o'i drugaredd a'i dirion ddaioni Ef ei Hun. Yn awr, pa fodd y gellir cael gafael ar y mawrion drugareddau hyn, a hysbyswyd i ni yn Nghrist Iesu, a pha fodd y'n gwaredir o gaethiwed pechod, angau, ac uffern, fe fynegir i chwi (drwy nerth Duw) yn helaethach yn y bregeth nesaf.

O hyn hyd hynny, ie, a phob amser, dysgwn ein hadnabod ein hunain, ein heiddilwch a'n gwendid, heb ddim ymffrost nac ymorfoledd yn ein gweithredoedd da a'n haeddiant ein hunain. Cydnabyddwn hefyd odidog drugaredd Duw tu ag attom, a chyffeswn mai fel y mae'n dyfod o honom ni ein hunain bob drygioni a damnedigaeth, felly yn gyffelyb mai o hono Ef y daw pob daioni ac iachawdwriaeth; megis y dywed Duw ei Hun drwy y prophwyd Hosea: *O Israel, tydi a'th ddinystriaist dy hun, ond ynof Fi y mae dy gymmorth.*[1]

Os ni fel hyn yn isel a ymostyngwn yngolwg Duw, gallwn fod yn sicr y bydd iddo yn amser ei ymweliad, ein dyrchafu i deyrnas ei anwyl garedig Fab, Crist Iesu ein Harglwydd; i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn dragywydd. Amen.

[1] Hos. 13. 9.

# PREGETH

## AM GADWEDIGAETH DYNOLRYW, DRWY GRIST EIN CEIDWAD YN UNIG, ODDI WRTH BECHOD AC ANGAU TRAGYWYDDOL.

OHERWYDD bod pawb yn bechaduriaid, ac wedi digio Duw a thorri ei ddeddf a'i orchymynion, am hynny ni ellir cyfiawnhâu un dyn ger bron Duw drwy ei weithredoedd neu ei orchwylion ei hun, er cystal fyddo'r olwg arnynt; ond mae'n anghenraid i bob dyn geisio cyfiawnder arall, i'w dderbyn oddi ar law Duw, sef maddeuant o'i bechodau a'i gamweddau, yn y rhai y troseddodd. A'r cyfiawnder neu y cyfiawnhâd yma, yr hwn yr ydym felly yn ei dderbyn gan drugaredd Duw trwy haeddiant Crist, ac yn ei gofleidio trwy ffydd, y mae Duw yn ei dderbyn, ac yn ei gymmeryd, ac yn ei gyfrif yn berffaith a chyflawn gyfiawnhâd i ni.

Er mwyn deall yr hyn beth yn fwy cyflawn, ein rhan a'n dyledswydd ni yw, cofio'n wastadol fawr drugaredd Duw, pa fodd (pan oedd yr holl fyd yn rhwym mewn pechod drwy dorri'r ddeddf) y danfonodd Duw ei unig Fab, ein Hiachawdwr Crist, i'r byd hwn, i gyflawni'r gyfraith drosom, a thrwy dywallt ei werthfawroccaf Waed, i wneuthur aberth ac iawn i'w Dad am ein pechodau ni, i lareiddio ei lid a'i ddigofaint a gymmerasai yn ein herbyn. Yn gymmaint a thrwy yr aberth hwn fod babanod, gwedi eu bedyddio, ac yn marw yn eu babandod, yn cael eu golchi oddi wrth eu pechodau, eu dwyn i ffafr Duw, a'u gwneuthur yn blant iddo, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd. Ac yn yr un modd hefyd y rhai a bechant mewn gweithred *gwedi* Bedydd, pan droant eilwaith yn ddiragrith at Dduw, a olchir oddi wrth eu pechodau, yn y fath ddull, nad oes dim o frychau pechod yn parhâu a gyfrifir er eu damnedigaeth. Dyma'r cyfiawnder y mae St. Paul yn son am dano, pan yw'n dywedyd, *Nad ydys yn cyfiawnhâu dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist.* A thrachefn y dywed, Ninnau hefyd y rhai a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer drwy ffydd Grist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf: oblegid ni chyfiawnhêir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.[1]

[1] Gal. 2. 16.

Ac er bod y cyfiawnhâd hwn yn rhad i ni, etto nid yw yn dyfod i ni mor rhad, megis pe byddid heb roi dim taledigaeth am dano. Ond yma gall rheswm dyn synnu a rhyfeddu, gan ymresymmu fel hyn:—Os rhoddwyd *iawn* am ein prynedigaeth, yna nid yw mwyach yn *rhad:* o herwydd os carcharor a dâl *iawn*, nid yn *rhad* y gollyngir ef yn rhydd; oblegid os gollyngir ef ymaith yn *rhad*, yna mae yn myned heb dalu *iawn;* canys beth arall yw myned ymaith yn rhad, ond cael rhyddid heb dalu?—Fe gyflawn attebodd doethineb Duw i'r dadleuad hwn yn nirgelwch ein prynedigaeth ni; yr hwn a gyd-dymherodd ei gyfiawnder a'i drugaredd yn y fath fodd, fel na wnai na'n condemnio yn ei gyfiawnder i dragywyddol gaethiwed diafol, a'i garchar uffern am byth, yn ddiymwared ac yn ddidrugaredd; nac ychwaith drwy ei drugaredd ein rhyddhâu heb gyfiawnder, neu daledigaeth iawn cyfiawn drosom: ond ynghyd â'i drugaredd ddiderfynol Efe a gyssylltodd ei gyfiawnder mwyaf uniawn a theg. Efe a ddangosodd ei fawr drugaredd i ni, wrth ein rhyddhâu o'n caethiwed gynt, heb geisio, *ar ein llaw ni*, ddim iawn i'w dalu na'i roddi, yr hyn beth a fuasai ammhosibl i ni ei wneuthur. A lle nad oedd yn ein gallu ni wneuthur hynny, Efe a ddarparodd iawn drosom ni, yr hwn oedd gwerthfawroccaf Gorph a Gwaed ei anwyl garediccaf Fab Iesu Grist, yr Hwn, heblaw yr iawn yma, a gwbl gyflawnodd y gyfraith drosom. Ac fel hyn y braicheidiodd cyfiawnder a thrugaredd Duw bob un eu gilydd, ac a gyflawnasant ddirgelwch ein prynedigaeth.

Ac am gyfiawnder a thrugaredd Duw wedi eu cylymmu fel hyn ynghyd, y sonia St. Paul yn y drydedd bennod at y Rhufeiniaid; *Pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw; a hwy wedi eu cyfiawnhâu yn rhad trwy ei ras ef, trwy 'r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu: yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef.*[1] Ac yn y ddegfed bennod; *Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sy 'n credu.*[2] Ac yn yr wythfed; *Yr hyn ni allai y ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy'r cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun, ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd; fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio, nid yn ol y cnawd, ond yn ol yr Yspryd.*[3]

Yn y lleoedd hyn crybwylla'r Apostol am dri pheth enwedigol, y rhai sy raid iddynt gyd-gerdded yn ein cyfiawnhâd. Ar ran Duw, ei fawr drugaredd a'i ras:—Ar ran Crist, cyfiawnder; sef iawn i gyfiawnder Duw, neu bridwerth ein prynedigaeth, drwy offrymmiad ei Gorph a

[1] Rhuf. 3. 23—25. [2] Rhuf. 10. 4. [3] Rhuf. 8. 3, 4.

thywalltiad ei Waed, ynghyd â chyflawni'r ddeddf yn gwbl berffaith:—Ac ar ein rhan ninnau, gwir a bywiol ffydd yn haeddiant Iesu Grist; yr hon ffydd er hynny nid yw eiddom ni, ond drwy weithrediad Duw ynom: felly yn ein cyfiawnhâd, nid trugaredd a gras Duw yn unig sydd, ond ei gyfiawnder hefyd, yr hwn a eilw 'r Apostol yn *gyfiawnder Duw*,[1] ac y mae'n sefyll mewn taledigaeth o iawn drosom, ac mewn cyflawniad o'r ddeddf: ac felly nid yw gras Duw yn cau allan gyfiawnder Duw yn ein cyfiawnhâd ni, ond yn unig yn cau allan gyfiawnder dyn, hynny yw, cyfiawnder ein gweithredoedd ni, o fod yn achos haeddiannol o'n cyfiawnhâd. Ac felly ni sonia St. Paul yma am ddim ar ran dyn tu ag at gyfiawnhâd, ond gwir a bywiol ffydd yn unig, yr hon er hynny *rhodd Duw ydyw*,[2] ac nid gweithred dyn ei hun heb Dduw.

Ac etto nid yw y ffydd hon yn cau allan edifeirwch, gobaith, cariad, ac ofn Duw, fel na chyssyllter hwy â ffydd ym mhob dyn a gyfiawnhâer; ond y mae yn eu cau allan o'r *gwaith* o gyfiawnhâu. Fel, er eu bod oll yn bresennol yn y dyn a gyfiawnhâer, etto nid hwy ddim sydd yn cyfiawnhâu. Ac nid yw ffydd chwaith yn cau allan gyfiawnder ein gweithredoedd da ni, y rhai sydd raid eu gwneuthur ar ol hynny o ran dyledswydd at Dduw; (o herwydd yr ydym yn rhwymedicca i wasanaethu Duw mewn gweithredoedd da, y rhai a orchymynodd Efe yn ei Ysgrythyr Lân, holl ddyddiau ein heinioes;) ond mae yn eu cau allan, fel na's gwnelom ni hwynt o fwriad cael ein gwneuthur yn dda drwy eu cyflawni. O herwydd y mae'r holl weithredoedd da a allom ni eu gwneuthur, yn ammherffaith; ac am hynny ni allant haeddu ein cyfiawnhâd: ond y mae ein cyfiawnhâd ni yn dyfod yn rhad, drwy drugaredd Duw yn unig; a thrwy drugaredd mor fawr ac mor rhad, fel, lle nad oedd yr holl fyd yn alluog i dalu un rhan at yr iawn yma, y rhyngodd bodd i'n Tad nefol o'i aneirif drugaredd, heb ddim o'n haeddiant ni, ddarparu erom werthfawroccaf berlau Corph a Gwaed Crist, drwy y rhai y gellid cwbl-dalu iawn drosom, cyflawni y gyfraith, a llwyr foddloni ei gyfiawnder Ef. Felly Crist yn awr yw cyfiawnder pawb oll a wir gredant ynddo. Efe yn eu lle a dalodd iawn drostynt drwy ei angau. Efe drostynt a gyflawnodd y gyfraith yn ei fywyd. Felly yn awr ynddo Ef, a thrwyddo Ef, gellir galw pob gwir Gristion yn gyflawnwr y ddeddf; yn gymmaint a darfod i gyfiawnder Crist gyflawni diffyg eu gwendid hwy.

[1] Rhuf. 3. 22. [2] Ephes. 2. 8.

YR AIL RAN O'R BREGETH

## AM IACHAWDWRIAETH.

CHWI a glywsoch gan bwy y dylai pawb geisio cyfiawnhâd a chyfiawnder, ac hefyd pa fodd y mae'r cyfiawnder hwn yn dyfod i ddynion drwy angau a haeddiant Crist: clywsoch hefyd fod yn rhaid wrth dri pheth i gyrraedd y cyfiawnder hwn; sef trugaredd Duw, cyfiawnder Crist, a gwir a bywiol ffydd o'r hon y tardda gweithredoedd da. Fe fynegwyd hefyd yn helaeth o'r blaen na ellir cyfiawnhâu neb drwy ei weithredoedd da ei hun, nad oes un dyn yn cyflawni y ddeddf hyd eithaf manylrwydd ei gofynion.

A hyn y mae St. Paul yn ei brofi yn ei Epistol at y Galatiaid, gan ddywedyd fel hyn:—*Pe rhoisid deddf a allasai fywhâu, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder.*[1] Ac fe ddywed eilwaith, *Os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna y bu Crist farw yn ofer.*[2] A thrachefn, *Yr ydych yn ymgyfiawnhâu yn y ddeddf; chwi a syrthiasoch ymaith oddi wrth ras.*[3] Ac ymhellach, mae yn ysgrifennu at yr Ephesiaid fel hyn; *Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw: nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb.*[4] Ac ar ychydig eiriau, y cwbl o ddadleuad St. Paul yw hyn; *Os o ras y mae cyfiawnder yn dyfod, yna nid o weithredoedd mwyach; ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach.*[5] Ac at hyn y cyrcha'r holl brophwydi, fel y dywed St. Petr yn y ddegfed o'r Actau; *I Hwn y mae'r holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, y derbyn pawb a gredant ynddo Ef faddeuant pechodau.*[6]

Ac yn y modd yma am gyfiawnhâd yn unig drwy wir a bywiol ffydd yng Nghrist y sonia'r holl hen Awduron, Groegwŷr a Lladinwŷr; o ba rai y crybwyllaf dri yn enwedig, Hilari, Basil, ac Ambros. St. Hilari a ddywed yn eglur y geiriau hyn yn y nawfed canon ar St. Matthew: *Ffydd yn unig sydd yn cyfiawnhâu.* A St. Basil, Awdwr Groeg, a ysgrifena fel hyn: *Dyma lawenychu perffaith a chyfan yn Nuw, pan na's mawrygo dyn ei hun am ei gyfiawnder, ond ei gydnabod ei hun yn*

[1] Gal. 3. 21. [2] Gal. 2. 21. [3] Gal. 5. 4. [4] Ephes. 2. 8, 9. [5] Rhuf. 11. 6. [6] Act. 10. 43.

*ddiffygiol o wir gyfiawnder, a chael ei gyfiawnhâu drwy ffydd yng Nghrist yn unig. Ac y mae St. Paul,* meddai, *yn gorfoleddu ym mychandra a diystyrwch ei gyfiawnder ei hun, ac yn edrych am y cyfiawnder sydd o Dduw drwy ffydd.*[1] Dyna eiriau St. Basil. A St. Ambros, Awdwr Lladin, a ddywed y geiriau hyn: *Dyma ordeiniad Duw, ar fod i'r sawl a gredont yng Nghrist gael eu hachub heb weithredoedd, drwy ffydd yn unig, gan dderbyn yn rhad faddeuant o'u pechodau.* Ystyriwch yn ddïesgeulus y geiriau hyn—*heb weithredoedd, drwy ffydd yn unig, yn rhad, y derbyniwn faddeuant o'n pechodau*;—Pa beth a ellir ei ddywedyd yn amlyccach na dywedyd mai yn *rhad—heb weithredoedd—drwy ffydd yn unig*—yr ydym yn cael maddeuant pechod? Yr ymadroddion hyn ac eraill o'r fath, mai trwy ffydd yn unig, yn rhad, heb weithredoedd, yr ydys yn ein cyfiawnhâu, yr ydym yn eu darllen yn fynych yn y rhan fwyaf o'r hen Ysgrifenwŷr goreu; megis, heblaw Hilari, Basil, ac Ambros, a grybwyllasom o'r blaen, ni a ddarllenwn yr un peth yn Origen, St. Chrysostom, St. Cyprian, St Awstin, Prosper, Oecumenius, Photius, Bernard, Anselm, a llawer o Awduron eraill Groeg a Lladin.

Etto nid felly y maent yn deall yr ymadrodd hwn, mai *drwy ffydd yn unig y'n cyfiawnheir,* fel pe byddai y ffydd gyfiawnhaol honno *yn unig* mewn dyn, heb un amser wir edifeirwch, gobaith, cariad, ac ofn Duw. A phan ddywedant mai yn *rhad* y cyfiawnhêir ni, nid eu meddwl yw y dylem neu y gallwn fod ar ol hynny yn segur, ac nad oes dim i'w ofyn ar ol hynny ar ein rhan ni. Ac nid ydynt yn meddwl y cyfiawnhêir ni felly heb weithredoedd da, fel y gallom fod yn hollol heb wneuthur dim gweithredoedd da, fel y mynegir yn helaethach ar ol hyn. Ond y dywediad hwn, mai trwy ffydd yn unig, yn rhad ac heb weithredoedd y cyfiawnhêir ni, a ddywedir i gwbl dynnu ymaith haeddiant ein gweithredoedd ni yn hollol, megis pethau analluog i haeddu ein cyfiawnhâd ar law Duw, ac felly i ddatgan yn eglurach wendid dyn a daioni Duw; ein mawr eiddilwch ein hunain, a nerth a gallu Duw; ammherffeithrwydd ein gweithredoedd ni, a helaethaf rad ein Hiachawdwr Crist; a chan hynny i briodoli yn hollol haeddiant ein cyfiawnhâd i Grist yn unig, a thywalltiad ei werthfawroccaf Waed Ef.

Dyma'r ffydd y mae'r Ysgrythyr Lân yn ei dysgu i ni; dyma graig a sylfaen gadarn y Grefydd Gristionogol: dyma'r athrawiaeth y mae holl hen Awduron Eglwys Crist yn ei chydnabod; dyma'r athrawiaeth sy'n mawrygu ac yn gosod allan wir ogoniant Crist, ac yn curo i lawr

[1] Phil. 3. 9.

wag-ogoniant dyn; a phwy bynnag a wado hon, ni ddylid ei gyfrif ef yn Gristion nac yn osodwr allan ogoniant Crist, ond yn wrthwynebydd i Grist a'i Efengyl, ac yn osodwr allan wag-ogoniant dynion.

Ac er gwired ydyw 'r athrawiaeth hon (fel y mae yn hollol wir) mai yn rhad, heb ddim o haeddiant ein gweithredoedd da ni, y'n cyfiawnhêir, fel y mynega St. Paul; ac yn rhad drwy y fywiol a'r berffaith ffydd hon yng Nghrist yn unig, fel yr arfera 'r hen Awduron lefaru: etto fe ddylid hefyd wir ddeall yr athrawiaeth hon, ac yn egluraf ei chyhoeddi, rhag i ddynion cnawdol gymmeryd achlysur o'i phlegid i fyw yn gnawdol, yn ol chwant ac ewyllys y byd, y cnawd, a'r cythraul. Ac er mwyn na chaffo neb gyfeiliorni drwy gamsynied yr athrawiaeth hon, mi a egluraf yn fyr ac yn amlwg ei hunion ystyr hi, fel na 's gallo neb feddwl wrth hynny y dichon efe gymmeryd achlysur i ryddid cnawdol, i ddilyn ewyllysiau y cnawd, neu feddwl y galler drwy hyn gyflawni un math o bechod, neu arfer o fyw yn fwy annuwiol.

Yn gyntaf, deallwch mai nid yr un peth yw swydd Duw tu ag at ddyn, a swydd dyn tu ag at Dduw, yn ein cyfiawnhâd drwy Grist. Nid gorchwyl dyn, ond gorchwyl Duw ydyw cyfiawnhâd; canys ni ddichon dyn, nac mewn rhan, nac yn gwbl, ei wneuthur ei hun yn gyfiawn drwy ei weithredoedd ei hun. O herwydd y mwyaf rhyfyg a allai Anghrist osod i fynu yn erbyn Duw fyddai dywedyd y gallai dyn drwy ei weithredoedd ei hun dynnu ymaith a phuro ei bechodau, ac felly ei gyfiawnhâu ei hun. Ond gorchwyl Duw yn unig yw cyfiawnhâu, ac nid peth yr ydym ni yn ei roi iddo Ef, ond peth yr ydym ni yn ei dderbyn ganddo; nid peth yr ydym yn ei offrwm iddo, ond yn ei gaffael ganddo, drwy ei drugaredd rad, a thrwy unig haeddiant ei anwyl garedig Fab, ein hunig Brynwr, Iachawdwr, a Chyfiawnhâwr, Iesu Grist: fel mai gwir ystyr yr athrawiaeth hon, mai yn rhad drwy ffydd heb weithredoedd y cyfiawnhêir ni, neu mai trwy ffydd yng Nghrist yn unig y'n cyfiawnhêir, ei gwir ystyr, meddaf, ydyw, *nid* mai ein gwaith yn credu yng Nghrist, neu ein ffydd yng Nghrist, yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhâu, neu yn haeddu ein cyfiawnhâd i ni: (o herwydd ni byddai hynny ond ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain;) ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon ydyw—er ein bod yn gwrando gair Duw ac yn ei gredu; er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw; ac er ein bod o ran hynny yn gwneuthur llawer o weithredoedd da—etto y rhaid i ni ymwrthod â haeddiant ein holl rinweddau hyn, ffydd, gobaith, cariad, a phob rhinwedd a gweithred dda arall a wnaethom, a wnawn, neu a allwn ei gwneuthur, megis pethau rhy weinion, annigonol, ac anghyflawn o lawer i haeddu i ni gyfiawnhâd a

gollyngdod oddi wrth ein pechodau: ac am hynny rhaid i ni ymddiried yn nhrugaredd Duw yn unig, a'r aberth a offrymmodd ein Harch-offeiriad a'n Hiachawdwr Crist Iesu, Mab Duw, unwaith drosom ar y Groes, i gaffael i ni trwy hynny rad Duw, a gollyngdod yn gystal oddi wrth ein pechod gwreiddiol ym Medydd, ag oddi wrth ein holl bechodau gweithredol a wnaethom gwedi Bedydd, os ni a wir edifarhâwn, ac a drown yn ddiragrith atto Ef drachefn.

Fel hyn, er rhinweddoled ac er duwioled oedd St. Ioan Fedyddiwr, etto yn y matter hwn o faddeu pechod, fe ddanfonodd y bobl oddi wrtho ei hun, ac a'u cyfeiriodd hwynt at Grist, gan ddywedyd wrthynt, *Wele Oen Duw, yr Hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd:*[1] felly er cymmaint ac er duwioled rhinwedd yw bywiol ffydd, etto y mae yn ein troi oddi wrthi ei hun, gan ein hebrwng a'n cyfeirio at Grist, i gael ganddo Ef yn unig gyfiawnhâd a gollyngdod oddi wrth ein pechodau. Ac y mae ein ffydd yng Nghrist megis yn dywedyd wrthym fel hyn:—Nid myfi sy 'n tynnu ymaith eich pechodau, ond Crist yn unig; ac atto Ef yn unig yr wyf yn eich anfon er mwyn hynny, gan ymwrthod o honoch yn hyn o beth â'ch holl rinweddau, geiriau, meddyliau, a gweithredoedd da, ac yn unig dodi eich holl ymddiried yng Nghrist.

### Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

## AM IACHAWDWRIAETH.

FE ddangoswyd i chwi yn amlwg na 's gall neb gyflawni cyfraith Dduw, ac am hynny fod pawb oll drwy 'r gyfraith dan gondemniad: o'r hyn beth y mae 'n rhaid y canlyn, fod yn gofyn rhywbeth heblaw 'r gyfraith er ein hiachawdwriaeth; a hynny yw, gwir a bywiol ffydd yng Nghrist, yn dwyn allan weithredoedd da a buchedd yn ol gorchymynion Duw. Chwi a glywsoch hefyd feddwl yr hen Dadau ar yr ymadrodd hwn, mai Ffydd yng Nghrist yn unig sy 'n cyfiawnhâu dyn, yn cael ei amlygu mor eglur, fel y gwelwch mai gwir ystyr yr ymadrodd yma, mai trwy ffydd yng Nghrist yn unig y cyfiawnhêir ni (yn ol meddwl yr holl hen Dadau) yw hyn: Yr ydym yn dodi ein ffydd yng Nghrist, mai drwyddo Ef yn unig y 'n cyfiawnhêir, neu, y cyfiawnhêir ni drwy rad drugaredd Duw, a thrwy haeddiant ein Ceidwad Crist yn

[1] St. Ioan 1. 29.

unig, ac nid trwy un rhinwedd neu weithred dda o'r eiddom ein hunain sydd ynom ni, neu a allwn gael, neu wneuthur, i haeddu hynny; gan mai Crist ei Hun yn unig yw 'r achos haeddiannol o'r unrhyw.

Yma y gellwch weled arferyd llawer o eiriau, er mwyn gochelyd ymryson mewn geiriau gyd â'r rhai sy 'n hoffi ymdaeru ynghylch geiriau, ac hefyd er mwyn dangos y gwir ystyr, i ochelyd camgymmeriad a chamddeall: ac etto fe allai na wasanaetha 'r cwbl i'r rhai ydynt ymrysongar; canys fe lunia 'r ymrysongar achos o ymryson, hyd yn nod pan na bo ganddynt un achlysur i hynny. Etto ni ddylid gormodd ofalu am y fath ddynion, os gellir llesâu y rhai sy chwannoccach i wybod y gwirionedd nag i ymryson yn ei gylch (pan fo 'n ddigon goleu) a thrwy gyndynddadleu cynhennus ac ymrysongar, i'w gymmylu a'i dywyllu.

Gwir ydyw (a siarad yn brïodol am ein cyfiawnhâd) nad yw ein gweithredoedd ein hunain ddim yn ein cyfiawnhâu ni; sef, nad yw ein gweithredoedd ni yn haeddu maddeuant o'n pechodau, nac yn ein gwneuthur, o fod yn rhai anghyfiawn, yn gyfiawn ger bron Duw: ond Duw, o'i drugaredd ei Hun, drwy unig haeddiant a rhyglyddau ei Fab Iesu Grist, sydd yn ein cyfiawnhâu ni. Etto am fod ffydd yn ein hanfon yn union-gyrchol at Grist am faddeuant o'n pechodau, ac am mai trwy ffydd o roddiad Duw i ni yr ydym yn cofleidio 'r addewid o drugaredd Duw ac o faddeuant o'n pechodau (yr hwn beth nid yw yr un o'n rhinweddau na 'n gweithredoedd eraill yn brïodol yn ei wneuthur) am hynny yr arfera 'r Ysgrythyr ddywedyd mai *ffydd heb weithredoedd* sy 'n cyfiawnhâu. Ac yn gymmaint ag mai 'r un peth mewn effaith yw dywedyd mai *ffydd heb weithredoedd*, a dywedyd mai *ffydd yn unig*, sydd yn ein cyfiawnhâu ni; am hynny holl hen Dadau yr Eglwys o bryd bwygilydd a draethasant ein cyfiawnhâd yn yr ymadrodd hwn, sef, Ffydd yn unig sydd yn ein cyfiawnhâu ni; heb feddwl dim amgen na 'r hyn oedd St. Paul yn ei feddwl, pan ddywedodd mai *ffydd heb weithredoedd sydd yn ein cyfiawnhâu.*[1]—Ac am fod hyn oll yn cael ei ddwyn i ben drwy unig haeddiant a rhyglyddau ein Hiachawdwr Crist, ac nid drwy ein haeddiant ni ein hunain, na thrwy haeddiant un rhinwedd a'r sydd ynom, nac un weithred a ddelo oddi wrthym; herwydd paham, o ran haeddiant a theilyngdod, yr ydym megis yn ymwrthod eilwaith â ffydd, gweithredoedd, a phob rhinweddau eraill, yn hollol. Canys mor fawr yw ein hammherffeithrwydd, drwy lygredigaeth pechod gwreiddiol, fel y mae yr holl bethau sydd ynom yn ammherffaith, ffydd, cariad, gobaith, ofn, meddyliau, geiriau, a gweithredoedd; ac am hynny yn anaddas i haeddu i ni un rhan o'n cyfiawnhâd. A'r ffurf hon o lefaru yr

[1] Gal. 2. 16.

ydym yn ei harfer wrth ymostwng i Dduw, ac er mwyn rhoi yr holl ogoniant i'n Hiachawdwr Crist, yr hwn a ddylai oreu ei gael.

Yma y clywsoch beth yw gorchwyl Duw yn ein cyfiawnhâd ni, ac fel yr ydym yn ei dderbyn ganddo yn rhad, drwy ei drugaredd Ef, heb ein haeddiant ni, drwy wir a bywiol ffydd. Weithian chwi a gewch glywed beth yw gorchwyl a dyledswydd Cristion tu ag at Dduw, a pha beth, ar ein rhan ni, a ddylem ei ad-dalu i Dduw am ei fawr drugaredd a'i ddaioni.

Ein dyledswydd ni yw, treulio amser y fuchedd bresennol hon, nid yn anffrwythlon a segurllyd ar ol ein bedyddio neu ein cyfiawnhâu, heb ofalu pa leied o weithredoedd da a wnelom er gogoniant Duw a budd ein cymmydogion: llai o lawer y mae'n ddyledswydd arnom, ar ol unwaith ein gwneuthur yn aelodau Crist, fyw yn wrthwyneb i'r unrhyw, gan ein gwneuthur ein hunain yn aelodau diafol, gan rodio yn ol ei hudiadau ef a chymhelliadau y byd a'r cnawd, drwy yr hyn y gwyddom ein bod yn gwasanaethu'r byd a'r diafol, ac nid Duw. Canys y ffydd honno ag sy'n dwyn allan (heb edifeirwch) naill ai gweithredoedd drwg, ai ynte ddim gweithredoedd da, nid ydyw yn ffydd iawn, bur, a bywiol, ond yn ffydd farw, gythreulig, ragrithiol, a ffuantus, fel y geilw St. Paul a St. Iago hi.[1] O herwydd y mae hyd yn nod y cythreuliaid yn gwybod ac yn credu eni Crist o Forwyn; iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos heb na bwyd na dïod, iddo wneuthur pob rhyw wyrthiau, gan ei amlygu ei Hun yn Wir Dduw: maent yn credu hefyd i Grist er ein mwyn ni ddïoddef yr angau mwyaf poenus i'n prynu o angau tragywyddol, ac iddo adgyfodi y trydydd dydd o feirw: maent yn credu iddo esgyn i'r nefoedd, a'i fod yn eistedd ar ddeheulaw y Tad, ac y daw drachefn yn niwedd y byd hwn, ac y barna'r byw a'r meirw. Mae y cythreuliaid yn credu y pyngciau hyn o'n ffydd, ac felly yn credu fod yr holl bethau a'r sydd ysgrifenedig yn yr Hen Destament a'r Newydd yn wir; ac etto, er yr holl ffydd hon, nid ydynt ond cythreuliaid, yn aros fyth yn eu cyflwr damniol, ac heb wir ffydd Gristionogol ganddynt.

Canys yr iawn a'r wir ffydd Gristionogol yw, nid yn unig credu fod yr Ysgrythyr Lân, a'r holl byngciau a grybwyllwyd o'n ffydd ni, yn wir; ond hefyd bod gennym ddiogel ymddiried a hyder yn nhrugarog addewidion Duw, ar gael ein cadw rhag damnedigaeth dragywyddol trwy Grist: o'r hyn y dilyn calon garuaidd i gadw ei orchymynion Ef. A'r wir ffydd Gristionogol hon nid yw gan un diafol, na chwaith gan un dyn, yr hwn yng nghyffes allanol ei enau, ac yn ei dderbyniad

[1] 1 Cor. 13. 2. a Iago 2. 17.

allanol o'r Sacramentau, yn ei ddyfodiad i'r Eglwys, ac yn ol pob argoel allanol arall, sy 'n ymddangos yn Gristion, ac etto yn ei fuchedd a'i weithredoedd yn dangos y gwrthwyneb. O herwydd pa fodd y dichon fod gan ddyn y wir ffydd hon, y dïogel hyder a'r ymddiried hwn yn Nuw, y maddeuir ei bechodau trwy haeddiant Crist, ac yr adferir ef i ffafr Duw, ac i fod yn gyfrannog o deyrnas nef drwy Grist, ac yntau yn byw yn annuwiol, ac yn gwadu Crist yn ei weithredoedd? Sicr yw na ddichon fod gan y fath ddyn annuwiol mo'r ffydd a'r ymddiried yma yn Nuw. Canys fel y gwyddant mai Crist yw unig Iachawdwr y byd, felly y gwyddant hefyd na chaiff dynion drwg ddim *etifeddu teyrnas Dduw.*[1] Gwyddant fod Duw *yn casâu anghyfiawnder; y difetha Efe bawb a ddywedont gelwydd;*[2] y caiff y rhai a wnaethant weithredoedd da (y rhai ni ellir heb fywiol ffydd yng Nghrist eu gwneuthur) fyned *i adgyfodiad bywyd, ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.*[3] Da iawn y gwyddant hefyd mai *i'r rhai sy gynhennus, ac anufudd i'r gwirionedd, eithr yn ufudd i anghyfiawnder, y bydd llid a digofaint, trallod ac ing, &c.*[4]

Am hynny i ddiweddu, gan ystyried aneirif ddoniau Duw, a ddangoswyd ac a roddwyd i ni yn drugarog heb ein haeddiant ni, yr Hwn nid yn unig a'n creodd o ddim, ac o ddryll o glai gwael, ac o'i anfeidrol ddaioni a'n dyrchafodd, o ran ein heneidiau, i fod ar ei ddelw a'i gyffelybrwydd ei Hun; ond hefyd, lle'r oeddym wedi ein barnu i uffern ac angau tragywyddol, a roddodd ei Fab Naturiol ei Hun, yr Hwn oedd Dduw tragywyddol, anfarwol, a chydradd âg Ef ei Hun mewn nerth a gogoniant, i'w gnawdio, ac i gymmeryd arno ein hanian farwol ni ynghyd â'i gwendidau, ac yn yr anian honno i ddïoddef, am ein camweddau ni, yr angau mwyaf cywilyddus a phoenus, o fwriad i'n cyfiawnhâu ni, a'n hadferyd i fywyd tragywyddol, gan ein gwneuthur hefyd felly yn blant iddo ei Hun, yn frodyr i'w Unig Fab, ein Ceidwad Crist, ac yn gyd-etifeddion âg Ef dros byth o'i dragywyddol deyrnas yn y nefoedd.

Nid yw y doniau mawrion a thrugarog hyn o eiddo Duw, os ystyrir hwy yn dda, ddim yn rhoddi achlysur i ni i fod yn segur, ac i fyw heb wneuthur dim gweithredoedd da, na chwaith mewn modd yn y byd yn ein cynhyrfu i wneuthur drwg; ond o'r gwrthwyneb, os nad ydym yn ddrwg ddïobaith, a'n calonnau yn galettach na'r cerrig, maent yn ein hannog i'n rhoi ein hunain yn hollol i Dduw, â'n holl ewyllys, â'n holl galonnau, â'n holl allu, ac â'n holl nerth, i'w wasanaethu mewn pob gweithred dda, gan ufuddhâu i'w orchymynion drwy ein hoes; i geisio

[1] 1 Cor. 6. 9. [2] Ps. 5. 5, 6. [3] St. Ioan 5. 29. [4] Rhuf. 2. 8, 9.

ym mhob peth ei ogoniant a'i anrhydedd Ef, ac nid ein hoffderau cnawdol a'n gwag-ogoniant ein hunain; gan ofni yn wastadol rhag digio 'n ewyllysgar mewn meddwl, gair, neu weithred, Dduw mor drugarog a Phrynwr mor garedig.—Ac y mae y doniau hyn o eiddo Duw, ond eu dwys ystyried, yn ein hannog er ei fwyn Ef i fod fyth yn barod i'n rhoi ein hunain i'n cymmydogion hefyd, ac i fyfyrio ar wneuthur daioni cyn belled ag y gallom i bob dyn.

Y rhai hyn yw ffrwythau gwir ffydd: gwneuthur da, hyd y gallom, i bawb, ac uwchlaw pob peth, ac ym mhob peth, dyrchafu gogoniant Duw, o'r Hwn yn unig y mae i ni ein sancteiddrwydd, ein cyfiawnhâd, ein hiachawdwriaeth, a'n prynedigaeth; i'r Hwn y byddo 'r gogoniant, y mawl, a'r anrhydedd, byth ac yn oes oesoedd. Amen.

DEONGLIAD BYR AM WIR A BYWIOL A

# CHRISTIONOGOL FFYDD.

Y DYFODIAD cyntaf at Dduw, bobl dda Gristionogol, sy drwy ffydd, drwy yr hon (fel y mynegwyd yn y Bregeth ddiweddaf) y'n cyfiawnhêir ger bron Duw. A rhag i neb gamsynied o eisiau ei hiawn ddeall hi, fe ddylid nodi yn ddïesgeulus y cymmerir ffydd yn yr Ysgrythyr mewn dwy ffordd. Mae un ffydd, yr hon yn yr Ysgrythyr a elwir yn *ffydd farw*,[1] yr hon nid yw 'n dwyn dim gweithredoedd da, ond y mae yn segur, hesp, ac anffrwythlon. A'r ffydd hon a gyffelyba 'r Sanctaidd Apostol St. Iago i ffydd y cythreuliaid, y rhai sydd *yn credu* fod Duw yn eirwir ac yn gyfiawn, ac ydynt *yn crynu* gan ofn,[2] ac er hynny ni wnant ddim yn dda, ond pob peth yn ddrwg. A chyfryw ffydd sy gan Gristionogion drygionus, y rhai (fel y dywed St. Paul) sydd *yn proffesu yr adwaenant Dduw, eithr ar weithredoedd ei wadu y maent, gan fod yn ffiaidd ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymmeradwy*.[3] A'r ffydd hon yw crediniaeth yng nghalon dyn, drwy 'r hon y mae efe yn gwybod fod Duw, ac yn cydsynio â holl wirionedd sancteiddiaf air Duw, a gynhwysir yn yr Ysgrythyr Lân:

[1] St. Iago 2. 17. [2] St. Iago 2. 19. [3] Tit. 1. 16.

felly y mae yn sefyll yn unig mewn crediniaeth fod gair Duw yn wir. Ac nid yn briodol y gelwir hon yn ffydd; ond fel y mae gan y neb a ddarlleno Gommentariau Cesar, gan gredu eu bod yn wir, wybodaeth drwy hynny am fywyd a gweithredoedd hynod Cesar, am ei fod yn credu hanes Cesar; etto nid yn briodol y dywedir ei fod yn credu yn Cesar, oddi wrth yr hwn nid yw 'n edrych am ddim cymmorth na lles.——Felly y neb a gredo fod pob peth a ddywedir am Dduw yn y Bibl yn wir, ac a fyddo er hynny yn byw mor annuwiol ag na's gallo edrych am fwynhâu addewidion a doniau Duw; er y galler dywedyd fod gan y cyfryw ddyn ffydd a chred i air Duw; etto ni ellir yn briodol ddywedyd ei fod yn credu yn Nuw, neu fod ganddo y fath ffydd ac ymddiried yn Nuw, drwy 'r hwn y gall yn ddïogel edrych am ras, trugaredd, a bywyd tragywyddol oddi ar law Duw, ond yn hytrach am lid a chosp yn ol haeddiant ei ddrwg fuchedd. Canys fel y mae yn ysgrifenedig mewn llyfr ag enw Didymus Alexandrinus wrtho, *Yn gymmaint a bod ffydd heb weithredoedd yn farw, nid ydyw mwyach yn ffydd, mwy nag y mae dyn marw yn ddyn*. Am hynny nid y ffydd farw hon ydyw y ffydd sicr a sylweddol sydd yn achub pechaduriaid.

Y mae ffydd arall yn yr Ysgrythyr, yr hon nid yw, fel y ffydd a grybwyllwyd, yn segur, anffrwythlon, a marw, ond (fel y mynega St. Paul) *yn gweithio drwy gariad*;[1] ac fel y gelwir y ffydd ofer arall yn ffydd farw, felly gellir galw hon yn ffydd fywiol. Ac nid cred gyffredin yn unig o byngciau ein ffydd yw hon, ond hefyd gwir ymddiried a hyder yn nhrugaredd Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a dïogel obaith am gael derbyn pob peth da ar law Duw; ac er i ni drwy wendid, neu demtasiwn ein gelyn ysprydol, gwympo oddi wrtho drwy bechod, etto os ni a drown atto drachefn trwy edifeirwch, y pardyna ac yr anghofia Efe ein camweddau er mwyn ei Fab, ein Ceidwad Iesu Grist, ac y gwna Efe ni yn gyd-etifeddion âg Ef o'i deyrnas dragywyddol; ac yn y cyfamser, hyd oni ddelo'r deyrnas honno, y bydd Efe yn Amddiffynwr ac yn Noddwr i ni yn ein holl beryglon ac enbydrwydd, pa beth bynnag a ddigwyddo; ac er ei fod weithiau yn danfon attom adfyd tost, etto y bydd Efe yn wastadol yn Dad caredig i ni, yn ein ceryddu am ein pechod, ond etto heb dynnu ymaith ei drugaredd oddi wrthym yn y diwedd, os ni a ymddiriedwn ynddo, ac ymroi yn hollol iddo, ymgynnal yn unig wrtho, a galw arno, gan fod yn barod i ufuddhâu iddo a'i wasanaethu.

Dyma'r wir, y fywiol, a'r ddiffuant ffydd Gristionogol, ac nid yw yn y genau a'r gyffes oddi allan yn unig, ond y mae yn byw ac yn ysgogi

[1] Gal. 5. 6.

yn y galon oddi fewn. Ac nid yw y ffydd hon heb obaith ac ymddiried yn Nuw, nac heb gariad at Dduw a'n cymmydogion, nac heb ofn Duw, nac heb chwant i wrando ei air Ef, ac i ddilyn yr unrhyw i ochelyd drygioni, ac i wneuthur yn llawen bob gweithredoedd da.

Y ffydd hon, fel y darlunia St. Paul hi, *yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio,*[1] ac yn hyderu cael eu derbyn ar law Duw, a sicr a diogel ddisgwyliad am danynt, er na byddont etto yn ymddangos i'n synhwyrau corphorol ni. Ac ar ol hynny efe a ddywed, *Rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sy'n ei geisio ef.*[2] Ac nid oes dim yn canmol dynion da yn fwy ger bron Duw na'r ffydd a'r ymddiried diogel hwn ynddo.

Am y ffydd hon y mae tri pheth enwedigol i'w nodi.—Yn gyntaf, nad yw y ffydd hon yn gorwedd yn farw yn y galon, ond mae yn fywiol, ac yn ffrwythlon i gynhyrchu gweithredoedd da.—Yn ail, na ellir hebddi wneuthur gweithredoedd da, a fyddant gymmeradwy a boddhaol gan Dduw.—Yn drydydd, pa fath weithredoedd da y mae'r ffydd hon yn eu cynhyrchu.

Canys ynghylch y cyntaf: Megis na ellir cuddio'r goleuni fel nad ymddangoso mewn rhyw le neu gilydd, felly ni ellir cadw gwir ffydd yn ddirgel; ond pan fo achos yn gofyn, hi a dyrr allan, ac a'i dengys ei hun drwy weithredoedd da. Ac megis y mae corph byw dyn yn wastadol yn arfer y cyfryw bethau ag a berthynant i gorph naturiol a byw, er maeth a chadwraeth yr unrhyw, yn ol fel y byddo rhaid, a chyfleustra, ac achos; felly yr un modd bydd yr enaid sy ganddo ffydd fywiol yn gwneuthur yn wastadol ryw weithredoedd da, y rhai a ddangosant ei fod yn fyw, ac ni bydd yn ddi-waith. Pan glywo dynion gan hynny y fath uchel ganmoliaeth i ffydd yn yr Ysgrythyrau, ei bod yn gwneuthur i ni ryngu bodd Duw, byw gyd â Duw, a bod yn blant i Dduw; os hwy a dybiant am hynny eu bod wedi eu rhyddhâu oddi wrth wneuthur gweithredoedd da, ac y gallant fyw yn y modd y mynnont, maent yn cellwair â Duw, ac yn eu twyllo eu hunain: ac y mae yn arwydd eglur eu bod ymhell oddi wrth feddiannu gwir a bywiol ffydd, ac ymhell hefyd oddi wrth wybod beth y mae gwir ffydd yn ei arwyddoccâu.

O herwydd y sicr a'r fywiol ffydd Gristionogol yw, nid yn unig credu pob peth am Dduw âg a gynhwysir yn yr Ysgrythyr Lân, ond hefyd gobaith ac ymddiried yn Nuw, ei fod yn pryderu ac yn gofalu drosom, fel y gofala'r tad dros ei blentyn y mae yn ei garu, ac y bydd yn drugarog wrthym er mwyn ei Unig Fab, a bod gennym ein Hiach-

[1] Heb. 11. 1. [2] Heb. 11. 6.

awdwr Crist yn dragywyddol Offeiriad a Dadleuwr i ni, yn unig haeddiannau, offrwm, a dïoddefaint yr Hwn yr ydym yn ymddiried fod ein beiau yn cael eu golchi a'u puro yn wastad, pa bryd bynnag drwy wir edifeirwch y dychwelwn ni atto â'n holl galon, gan ddïysgog benderfynu ynom ein hunain, drwy ei rad Ef, ufuddhâu iddo a'i wasanaethu, drwy gadw ei orchymynion, ac heb droi byth yn ein hol at bechod.

Un o'r fath yma yw y wir ffydd y mae 'r Ysgrythyr yn canmol cymmaint arni; yr hon wrth weled ac ystyried pa beth a wnaeth Duw drosom, a annogir, drwy wastadol gymmorth Yspryd Duw, i'w wasanaethu a'i foddloni, i gadw ei ffafr, i ofni ei sorriant, i barhâu yn blant ufuddgar iddo, gan ad-dalu dïolch iddo drwy gadw a chanlyn ei orchymynion, a hynny o'n bodd, o wir gariad, ac nid rhag ofn cosp, nac o serch ar wobr bydol, gan ystyried pa mor hollol heb ein haeddiant ni y derbyniasom yn rhad ei drugaredd a'i bardwn.

Fe ddengys y ffydd hon ei hun, ac ni's gall yn hir fod yn segur; canys, fel y mae yn ysgrifenedig, *Y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd.*[1] Nid yw fyth yn cysgu nac yn segur, pan ddylai fod yn effro ac yn gwneuthur daioni. Ac y mae Duw trwy ei Brophwyd Jeremïah yn dywedyd mai *bendigedig yw 'r gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd ac y byddo 'r Arglwydd yn hyder iddo: canys efe a fydd megis pren wedi ei blannu wrth y dyfroedd, ac a estyn ei wraidd wrth yr afon, ac ni wyr oddi wrth ddyfod gwres; ei ddeilen fydd îr, ac ar flwyddyn sychder ni ofala, ac ni phaid a ffrwytho:*[2] ac felly dynion ffyddlon, gan ddodi heibio bob ofn adfyd, a ddangosant ffrwyth eu gweithredoedd da, pan y byddo amser cyfaddas yn ymgynnyg iddynt.

[1] Habac. 2. 4. [2] Jer. 17. 7, 8.

YR AIL RAN O'R BREGETH

## AM FFYDD.

CHWI a glywsoch yn y rhan gyntaf o'r Bregeth hon fod dau ryw o ffydd; ffydd farw ac anffrwythlon, a ffydd fywiol yn gweithio drwy gariad; fod y gyntaf yn anfuddiol, a'r ail yn angenrheidiol i gyrraedd iachawdwriaeth; yr hon ffydd sydd yn wastad â chariad yn gyssylltedig â hi, ac sydd yn ffrwythlon, ac yn dwyn pob gweithredoedd da. Yn awr ynghylch yr un pwngc, gwrandewch yr hyn a ganlyn.

Fe ddywed y gwr doeth, *Yr hwn a gredo yn yr Arglwydd a ddisgwyl ar y gorchymyn.*[1] Canys os nad ymddangoswn yn ffyddlon yn ein hymddygiad, y ffydd yr ydym yn ffugio ei bod gennym nid ydyw ond ffydd ffuantus: o herwydd dangosir yn amlwg y wir ffydd Gristionogol drwy fuchedd dda, ac nid drwy eiriau yn unig, fel y dywed St. Awstin, *Ni's gellir gwahanu buchedd dda oddi wrth wir ffydd, yr hon sy'n gweithio drwy gariad.* Ac medd St. Chrysostom, *Mae ffydd o honi ei hun yn llawn gweithredoedd da; cyn gynted ag y credo dyn, efe a addurnir â hwynt.* Mor llawn yw 'r ffydd hon o weithredoedd da, ac fel y mae 'n gwneuthur gwaith un dyn yn gymmeradwyach gan Dduw na gwaith un arall, mae St. Paul yn dangos yn helaeth yn yr unfed bennod ar ddeg at yr Hebreaid, gan ddywedyd mai *ffydd a wnaeth aberth Abel yn rhagorach nag aberth Cain.* Hon a wnaeth i *Nöe adeiladu'r arch.* Hon a wnaeth i Abraham ymadael â'i wlad ac â'i holl geraint, *a myned i wlad bell,* yno i wladychu ymhlith dïeithriaid. Felly hefyd y gwnaeth Isaac a Jacob, gan orphwys ac ymgynnal yn unig ar y cymmorth a'r ymddiried ag oedd ganddynt yn Nuw. A phan ddaethant i'r wlad a addawsai Duw iddynt, ni fynnent adeiladu na dinasoedd, na threfydd, na thai, ond byw fel dïeithriaid *mewn pebyll* a ellid eu symmud beunydd. Yr oedd eu hymddiried gymmaint yn Nuw, fel nad oeddynt yn prisio ond ychydig ar un peth bydol, am fod Duw wedi darparu iddynt well trigleoedd yn y nef, o'i sylfaeniad a'i saernïaeth ei Hun. Dyma 'r ffydd a wnaeth Abraham yn barod ar orchymyn Duw i offrymmu ei fab a'i etifedd ei hun Isaac, *yr hwn a hoffodd* mor fawr, a thrwy yr hwn yr addawyd iddo y caffai eppil aneirif, ymmysg y rhai

[1] Eccles. 32. 24.

y genid Un, *yn yr hwn y bendigid yr holl genhedloedd*, gan ymddiried cymmaint yn Nuw, er pe lladdesid ef, y gallai Duw drwy ei hollalluog nerth, ei *ail-gyfodi ef o feirw*, a chwblhâu ei addewid. *Nid ammheuodd efe addewid Duw*, er fod pob peth yn ymddangos i'w reswm yn y gwrthwyneb. Efe a gredodd yn ddïogel na wrthodai Duw ef yn y prinder a'r newyn oedd yn y wlad. Ac ym mhob peryglon eraill y dygwyd ef iddynt, efe a ymddiriedai yn wastad y byddai Duw yn Dduw iddo, ac yn Amddiffynydd ac yn Noddwr iddo, pa beth bynnag a welai efe i'r gwrthwyneb. Fe weithiodd y ffydd hon felly yng nghalon Moses, fel y *gwrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh* frenhin, a meddiannu etifeddiaeth fawr yn yr Aipht, *gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser* gyd â dynion drwg. Drwy ffydd y dïystyrodd efe fygythiad y brenhin Pharaoh; canys cymmaint oedd ei ymddiried yn Nuw, fel nad oedd yn prisio gwynfyd y byd hwn, gan *edrych am daledigaeth y gwobrwy* yn y nef, a gosod ei galon ar yr anweledig Dduw, fel pe buasai yn ei weled Ef yn gynnrychiol bob amser o flaen ei lygaid. *Trwy ffydd yr aeth plant Israel trwy'r môr coch. Trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho* heb un ergyd, ac y gwnaethpwyd llawer o wyrthiau eraill. Yn yr holl ddynion da a fuant fyw erioed, ffydd a gynhyrchodd eu gweithredoedd da hwynt, ac a dderbyniodd addewidion Duw. Ffydd a *gauadd safnau llewod;* ffydd a *ddiffoddodd angerdd y tân;* ffydd a *ddïangodd rhag min y cleddyf;* ffydd a *nerthodd o wendid* ddynion gweiniaid, ac a'u *gwnaeth yn gryfion mewn rhyfel, a yrrodd fyddinoedd yr estroniaid i gilio*, ac a gododd feirwon yn fyw. Ffydd a wnaeth i ddynion da oddef adfyd yn llawen: cafodd rhai *brofedigaeth drwy watwor a fflangellau, ie, trwy rwymau hefyd a charchar;* rhai a *grwydrasant mewn anialwch a mynyddoedd;* rhai a *ddirdynwyd;* rhai a *laddwyd;* rhai a *labyddiwyd yn feirw;* rhai a *dorrwyd â llif;* rhai a rwygwyd yn ddrylliau; rhai a dorrwyd eu pennau; rhai a losgwyd yn ddidrugaredd; ac *heb dderbyn ymwared, fel y gallent gael adgyfodiad gwell.*[1]

Yr oedd ffydd yr holl Dadau, y Merthyron, a'r dynion sanctaidd eraill y mae St. Paul yn son am danynt, wedi ei sicrhâu yn sefydlog yn Nuw, pan oedd yr holl fyd yn eu herbyn. Nid oeddynt yn cydnabod yn unig mai Duw yw Arglwydd, Gwneuthurwr, a Llywodraethwr holl ddynion y byd, ond yr oedd ganddynt hefyd hyspysol hyder ac ymddiried ei fod, ac y byddai, iddynt hwy yn Dduw, yn Ddiddanydd, yn Gynnorthwywr, yn Nerthwr, yn Noddwr, ac yn Amddiffynwr. Hon ydyw 'r ffydd Gristionogol ag oedd gan y dynion sanctaidd hyn, ac a

[1] Heb. 11. 4, 7, 8, 9, 10, 17, 19, 24, 29, 30, 34, 35, 36, 37.

ddylai fod gennym ninnau hefyd. Ac er na enwid hwy yn Gristionogion, etto ffydd Gristionogol oedd ganddynt; canys hwy a ddisgwylient am holl ddoniau Duw Dad, trwy haeddiant ei Fab Iesu Grist, fel yr ydym ninnau yn awr yn disgwyl. Mae y gwahaniaeth hwn rhyngddynt hwy a ni, eu bod hwy yn edrych pa bryd y deuai Crist, a'n bod ninnau yn byw yn yr amser pan y mae wedi dyfod. Ac felly, fel y dywed St. Awstin, *Fe newidiwyd yr amser, ond nid y ffydd.* Canys *un ffydd* mewn un Crist sydd gennym ni a hwythau, a'r *un Yspryd Glân* ag sy gennym ni, oedd ganddynt hwythau, medd St. Paul.[1] Canys fel y dysg yr Yspryd Glân ni i ymddiried yn Nuw, ac i alw arno fel ein Tad, felly Efe a'u dysgodd hwythau i ddywedyd, fel y mae yn ysgrifenedig, *Ti, Arglwydd, yw ein Tad ni, ein Gwaredydd; dy enw sydd erioed.*[2] Rhoddes Duw ras iddynt hwy y pryd hynny i fod yn blant iddo, fel y mae yn rhoi i ninnau yn awr. Ond yn awr, drwy ddyfodiad ein Ceidwad Crist, derbyniasom ni yn helaethach o Yspryd Duw yn ein calonnau, drwy yr hyn y gallwn dderbyn ffydd fwy ac ymddiried sicrach, nag oedd gan lawer o honynt hwy. Ond mewn effaith, yr un ydynt hwy a ninnau: mae gennym ni yr un ffydd yn Nuw ag oedd ganddynt hwy, a'r un ffydd oedd ganddynt hwy ag sy gennym ninnau. Ac y mae St. Paul yn canmol eu ffydd hwy gymmaint, er mwyn nad ymroddem ninnau ddim llai, ond yn hytrach yn fwy hollol i Grist, mewn cyffes a buchedd, yn awr, gan fod Crist *wedi* dyfod, nac yr ymroddodd yr hen Dadau *cyn* ei ddyfod.

Ac y mae yn eglur wrth holl ymadroddion St. Paul mai nid peth marw, ofer, ac anffrwythlon, ydyw y wir, y fywiol, a'r Gristionogol ffydd, ond peth o berffaith rinwedd, o ryfedd weithrediad a nerth, ac yn peri pob cynhyrfiadau a gweithredoedd da. Yn gyttunol â hyn y mae yr holl Ysgrythyr Lân yn tystiolaethu fod gwir ffydd fywiol yng Nghrist yn cynhyrchu gweithredoedd da; ac am hynny dylai pob dyn ei brofi a'i holi ei hun yn ddïesgeulus, i wybod a ydyw y wir ffydd fywiol hon ganddo yn ddiffuant yn ei galon, ai nad ydyw; yr hyn a ddichon efe wybod wrth ei ffrwythau hi. Yr oedd llawer a'r a oedd yn proffesu ffydd Crist, yn y camsyniaeth hwn, sef tybied yr adwaenent Dduw, a'u bod yn credu ynddo, a hwythau yn eu buchedd yn dangos y gwrthwyneb; yr hwn gamsyniaeth y mae St. Ioan yn ei Epistol cyntaf yn ei argyhoeddi, gan ysgrifenu fel hyn: *Wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, os cadwn ni ei orchymynion ef. Yr hwn sydd yn dywedyd, Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymynion ef, celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo.*[3] A thrachefn meddai, *Pob un a'r*

[1] 2 Cor. 4. 13. Ephes. 4. 4, 5. [2] Esay 63. 16. [3] 1 St. Ioan 2. 3, 4.

*sydd yn pechu, ni's gwelodd ef, ac ni's adnabu ef. O blant bychain, na thwylled neb chwi.*[1] Ac ymhellach efe a ddywed, *Wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhâwn ein calonnau ger ei fron ef. Oblegid os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon, ac efe a wyr bob peth. Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae gennym hyder ar Dduw: a pha beth bynnag a ofynom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef; oblegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, ac yn gwneuthur y pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.*[2] Ac eilwaith meddai, *Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw'r Crist, o Dduw y ganed ef. Ac ni a wyddom nad yw'r neb a aned o Dduw yn pechu, eithr y mae'r hwn a aned o Dduw yn ei gadw ei hun, a'r drwg hwnnw nid yw yn cyffwrdd âg ef.*[3] Ac yn ddiweddaf, i gau ar y cwbl, gan ddangos yr achos iddo ysgrifenu 'r Epistol hwn, mae yn dywedyd, *Y pethau hyn a ysgrifenais attoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw, fel y gwypech fod i chwi fywyd tragywyddol.*[4] Ac yn ei drydydd Epistol mae efe 'n cadarnhâu 'r cwbl am ffydd a gweithredoedd ar ychydig eiriau, gan ddywedyd, *Yr hwn sydd yn gwneuthur daioni, o Dduw y mae; ond yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni, ni welodd Dduw.*[5] Ac fel y dywed St. Ioan fod adnabyddiaeth fywiol o Dduw a ffydd ynddo yn dwyn gweithredoedd da, felly efe a ddywed hefyd am obaith a chariad, na's gallant gydsefyll gyd â buchedd ddrwg. Am obaith efe a ysgrifena fel hyn: *Ni a wyddom pan ymddangoso Efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled Ef megis ag y mae. Ac y mae pob un sy ganddo y gobaith hwn ynddo Ef, yn ei buro ei hun, megis y mae yntau yn bur.*[6] Ac am gariad efe a ddywed y geiriau hyn: *Yr hwn a gadwo ei air Ef, yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith.*[7] A thrachefn; *Hyn yw cariad Duw, fod i ni gadw ei orchymynion.*[8] Ac nid ysgrifenodd St. Ioan hyn megis ymadrodd cyfrwys a ddychymmygodd o'i fympwy ei hun, ond megis gwirionedd mwyaf sicr ac angenrheidiol, a ddysgwyd iddo gan Grist ei Hun, y Gwirionedd tragywyddol ac annhwyllodrus, yr Hwn mewn llawer o fannau sy 'n traethu 'n eglur na's gall ffydd, gobaith, a chariad, sefyll heb weithredoedd da a duwiol. Am ffydd Efe a ddywed, *Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.*[9] Ac y mae Efe yn cadarnhâu hynny â llw ddau-ddyblyg: *Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sy ganddo fywyd tragywyddol.*[10]

Yn awr, yn gymmaint a bod bywyd tragywyddol gan yr hwn sydd

[1] 1 St. Ioan 3. 6, 7. [2] 1 St. Ioan 3. 19—22. [3] 1 St. Ioan 5. 1. a 18. [4] 1 St. Ioan 5. 13. [5] 3 St. Ioan 11. [6] 1 St. Ioan 3. 2, 3. [7] 1 St. Ioan 2. 5. [8] 1 St. Ioan 5. 3. [9] St. Ioan 3. 36. [10] St Ioan 6. 47.

yn credu yng Nghrist, mae 'n rhaid o ganlyniad fod gweithredoedd da hefyd gan y sawl y bo 'r ffydd hon ganddo, a'i fod yn astud i gadw yn ufuddgar orchymynion Duw; canys i weithredwŷr drygioni, ac i'r rhai sy 'n byw mewn anufudd-dod, a throsedd, ac yn torri gorchymynion Duw yn ddïedifeirwch, nid bywyd tragywyddol ond diderfynol farwolaeth a berthyn; fel y dywed Crist ei hun: Y *rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol.*[1] A thrachefn y dywed: *Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd: I'r hwn sydd sychedig y rhoddaf o ddwfr y bywyd yn rhad. Yr hwn sydd yn gorchfygu, a etifedda bob peth, ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minnau yn fab. Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwŷr, a'r swyn-gyfareddwŷr, a'r eilunaddolwŷr, a'r holl gelwyddwŷr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan: yr hwn yw'r ail farwolaeth.*[2]

Ac megis y dywed Crist yn ddïammeu fod ffydd yn dwyn gweithredoedd da, felly yn gyffelyb y dywed Efe am gariad: *Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw 'r hwn sydd yn fy ngharu i.* Ac wedi hynny y dywed: *Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair;* ac hefyd, *Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau.*[3] Ac fel y profir cariad Duw trwy weithredoedd da, felly hefyd y profir ofn Duw; fel y dywed y gwr doeth: *Ofn yr Arglwydd sydd yn gyrru pechodau ymaith.*[4] Ac efe a ddywed hefyd, *Yr hwn sy 'n ofni 'r Arglwydd a wna dda.*[5]

[1] St. Mat. 25. 46. [2] Dat. 21. 6—8. [3] St. Ioan 14. 21, 23, 24. [4] Eccles. 1. 21. [5] Eccles. 15. 1.

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

## AM FFYDD.

CHWI a glywsoch yn yr ail ran o'r Bregeth hon, na ddylai neb feddylied fod ganddo y fywiol ffydd yr hon a ganmol yr Ysgrythyr, pan y mae yn byw yn anufudd i gyfreithiau Duw; o herwydd y mae pob gweithredoedd da yn tarddu o'r ffydd honno: dangoswyd i chwi hefyd wrth esamplau, fod ffydd yn gwneuthur dynion yn ddïanwadal, yn dawel, ac yn oddefgar ym mhob cyfyngder. Yn awr ynghylch yr un peth gwrandewch yr hyn a ganlyn.

Fe ddichon dyn yn fuan ei dwyllo ei hun, a thybied yn ei feddwl ei hun ei fod drwy ffydd yn adnabod Duw, yn ei garu, yn ei ofni, ac yn perthyn iddo, pan mewn gwirionedd nad yw ymhellach oddi wrth ddim nag oddi wrth hynny. Canys prawf yr holl bethau hyn yw gwir dduwiol a Christianus fuchedd. Yr hwn a glywo ei galon yn ymosod i geisio anrhydedd Duw, ac a fyfyrio ar wybod ewyllys a gorchymynion Duw, ac ar ymffurfio yn ol y rhai hyn, ac nad arweinio ei fuchedd yn ol chwant ei gnawd eï hun, i wasanaethu 'r diafol drwy bechod, ond a osodo ei feddwl i wasanaethu Duw er ei fwyn ei Hun, ac er ei fwyn Ef hefyd i garu ei holl gymmydogion, pa un bynnag ai cyfeillion ai gwrthwynebwŷr fyddont, gan wneuthur da i bob dyn, pan y bo cyfleusdra yn gwasanaethu, ac heb wneuthur o'i fodd ddrwg i neb: iawn y dichon y cyfryw ddyn ymlawenhâu yn Nuw, gan wybod wrth rediad ei fuchedd fod ganddo yn ddiffuant wir ac iawn wybodaeth o Dduw, bywiol ffydd, gobaith dïanwadal, a gwir a diragrith gariad ac ofn Duw.—Ond yr hwn a daflo ymaith iau gorchymynion Duw oddi ar ei wddf, ac a'i rhoddo ei hun i fyw yn ddïedifeiriol yn ol ei gnawdol feddwl a'i ewyllys ei hun, heb ofalu am wybod gair Duw, chwaithach byw yn ei ol ef; mae 'r cyfryw ddyn yn eglur yn ei dwyllo ei hun, ac nid yw 'n gweled ei galon ei hun, os yw yn meddwl ei fod yn adnabod Duw, yn ei garu, yn ei ofni, neu yn ymddiried ynddo.

Mae rhai, ond odid, yn tybied ynddynt eu hunain eu bod yn perthyn i Dduw, er eu bod yn byw mewn pechod, os hwy a ddeuant i'r Eglwys, ac a ymddangosant fel pe byddent anwyl blant Duw. Ond dywed St. Ioan yn eglur, *Os dywedwn fod i ni gymdeithas âg Ef, a*

*rhodio yn y tywyllwch, celwyddog ydym.*[1] Mae eraill yn ofer feddwl eu bod yn adnabod ac yn caru Duw, er na ofalant am ei orchymynion Ef. Ond dywed St. Ioan yn amlwg, *Yr hwn sydd yn dywedyd, Mi a'i hadwaen Ef, ac heb gadw ei orchymynion Ef, celwyddog yw.*[2] Eraill a'u ffug-berswadiant eu hunain eu bod yn caru Duw, pan y maent yn casâu eu cymmydogion. Ond dywed St. Ioan yn oleu, *Os dywed neb, Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn casâu ei frawd, celwyddog yw.—Yr hwn a ddywed ei fod yn y goleuni, ac a gasao ei frawd, yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hwn. Yr hwn sydd yn caru ei frawd, sydd yn aros yn y goleuni;—eithr yr hwn sydd yn casâu ei frawd, yn y tywyllwch y mae, ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio; ac ni ŵyr i ba le y mae yn myned, oblegid y mae y tywyllwch wedi dallu ei lygaid ef.*[3] Ac efe a ddywed hefyd, *Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw a phlant diafol: Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.*[4]

Am hynny, na thwyllwch eich hunain, gan dybied fod gennych ffydd yn Nuw, neu eich bod yn caru Duw, neu yn ymddiried ynddo, neu yn ei ofni, a chwithau yn byw mewn pechod: o herwydd yna mae eich buchedd annuwiol a phechadurus yn cyhoeddi y gwrthwyneb, beth bynnag a ddywedoch neu a feddylioch chwi eich hunain. Mae 'n perthyn i Gristion, fod ganddo y wir ffydd Gristionogol hon, a'i chwilio ei hun, pa un a ydyw hi ganddo, ai nad ydyw, a gwybod pa bethau a berthynant iddi, a pha fodd y mae hi yn gweithio ynddo.

Nid i'r byd y gallwn ymddiried; nid yw y byd a phob peth a'r sydd ynddo, ond oferedd. Duw sy raid fod yn Amddiffynwr a Noddwr i ni yn erbyn pob temtasiwn i anwiredd a phechod, i gyfeiliornadau, ofergoel, delw-addoliad, a phob drygioni. Pe byddai yr holl fyd o'n tu, a Duw yn ein herbyn, o ba les y gallai 'r byd fod i ni? Am hynny dodwn ein holl ffydd a'n gobaith yn Nuw, ac ni ddichon y byd, na diafol, na'u holl nerth, mo'n gorchfygu.

Gan hynny, bobl dda Gristionogol, profwn a chwiliwn ein ffydd, pa beth ydyw: na wenieithiwn i ni ein hunain, ond edrychwn ar ein gweithredoedd, ac felly barnwn pa fath ffydd sy gennym. Mae Crist ei Hun yn llefaru am y matter hwn, ac yn dywedyd, *Pob pren a adwaenir wrth ei ffrwyth ei hun.*[5] Am hynny gwnawn weithredoedd da, a dangoswn drwy hynny fod ein ffydd yn fywiol a Christionogol. Drwy y cyfryw rinweddau ag a ddylent darddu allan o ffydd, dangoswn fod ein hetholedigaeth yn ddiogel a safadwy, fel y dywed St. Petr: *Byddwch ddiwyd i wneuthur eich etholedigaeth a'ch galwedigaeth yn*

[1] 1 St. Ioan 1. 6. [2] 1 St. Ioan 2. 4. [3] 1 St. Ioan 4. 20. a 2. 9—11.
[4] 1 St. Ioan 3. 10. [5] St. Luc 6. 44.

*sicr*, trwy weithredoedd da: ac efe a ddywed hefyd, *chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad;*[1] felly yn wir y dangoswn fod gennym y wir ffydd fywiol a Christionogol, y sicrhâwn ein cydwybod yn well ein bod yn yr iawn ffydd, a thrwy y moddion hyn y cadarnhâwn eraill hefyd. Os y ffrwythau hyn ni chanlynant, nid ydym ond cellwair â Duw, a'n twyllo ein hunain ac eraill hefyd; er dwyn o honom yr enw o Gristionogion, etto yr ydym heb y wir ffydd sy 'n perthyn i'r enw hwnnw; canys y mae gwir ffydd bob amser yn dwyn allan weithredoedd da, fel y dywed St. Iago: *Dangos i mi dy ffydd wrth dy weithredoedd.*

Rhaid i'th weithredoedd fod yn dystiolaeth eglur o'th ffydd; os amgen, nid yw dy ffydd, heb weithredoedd da, ond ffydd y cythraul, ffydd yr annuwiol, rhith o ffydd, ac nid gwir ffydd y Cristion. Ac megis nad yw y diafol a phobl ddrwg yn ddim gwell o herwydd eu ffydd ffuantus, ond y mae yn fwy achos o ddamnedigaeth iddynt; felly y rhai sy Gristionogion, ac wedi derbyn gwybodaeth am Dduw ac am haeddiant Crist; ac etto o wir fwriad yn byw yn segurllyd, heb weithredoedd da, ac naill ai gan dybied fod enw o ffydd noeth yn ddigon iddynt, neu ynte gan osod eu meddwl ar wag hoffderau 'r byd hwn, ydynt yn byw mewn pechod ac yn ddiedifeiriol, heb ddwyn y ffrwythau a berthynant i'r fath uchel alwedigaeth—ar y fath ddynion rhyfygus a phechaduriaid cyndyn rhaid fod yn aros fawr ddialedd Duw, a'r gosp dragywyddol yn uffern, a ddarparwyd i fucheddwŷr anghyfiawn a drygionus.

Gan hynny, bobl dda Gristianus, fel yr ydych yn proffesu enw Crist, na thwylled y fath ddychymmyg a rhith o ffydd mo honoch un amser; ond byddwch yn sicr o'ch ffydd, profwch hi wrth eich buchedd, edrychwch ar y ffrwythau sy'n dyfod oddi arni, nodwch gynnydd eich cariad trwyddi at Dduw a'ch cymmydogion; yna y gellwch ddeall felly ei bod hi yn wir ffydd fywiol.—Os ydych yn teimlo ac yn canfod fod y cyfryw ffydd ynoch, llawenhêwch ynddi; a byddwch ddiesgeulus i'w phorthi, fel yr arhoso hi ynoch yn wastad; cynnydded yn feunyddiol ac yn fwyfwy trwy wneuthur yn dda; ac felly chwi a fyddwch yn sicr y rhyngwch fodd i Dduw trwy y ffydd hon; ac o'r diwedd, fel yr aeth dynion ffyddlon eraill o'ch blaen, felly cewch chwithau hefyd fyned atto Ef, pan fo ei ewyllys, a *derbyn diwedd eich ffydd*, fel y geilw St. Petr ef, *sef iachawdwriaeth eich eneidiau*:[2] yr hyn Duw a'i caniattao i ni, yr Hwn a addawodd yr unrhyw i'w ffyddloniaid: i'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[1] 2 Petr 1. 5, 6, 7, 10. [2] 1 Petr 1. 9.

# PREGETH

## AM WEITHREDOEDD DA

### CYSSYLLTEDIG A FFYDD.

YN y Bregeth ddiweddaf fe a fynegwyd i chwi pa beth yw gwir a bywiol ffydd y Cristion; ei bod yn gwneuthur na byddo dyn yn segurllyd, ond yn ddiwyd i ddwyn allan weithredoedd da, yn ol fel y byddo achlysur yn gwasanaethu ac yn gofyn.

Yn awr, drwy rad Duw, mynegir yr ail beth a nodwyd o'r blaen am ffydd, sef na ellir hebddi wneuthur un weithred dda, gymmeradwy a boddhaol gan Dduw: canys *megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun*, medd ein Hiachawdwr Crist, *onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau onid arhoswch ynof fi. Myfi yw 'r winwydden, chwithau yw 'r canghennau: yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.*[1] Ac y mae St. Paul yn profi bod gan Enoch ffydd, o herwydd *iddo ryngu bodd Duw;* canys *heb ffydd*, meddai, *ammhosibl yw rhyngu ei fodd ef.*[2] A thrachefn meddai wrth y Rhufeiniaid, *Beth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw.*[3]

Ffydd sydd yn rhoi bywyd i'r enaid; ac y mae y rhai sydd heb ffydd, mor farw i Dduw, ag ydyw cyrph heb eneidiau yn farw i'r byd. Heb ffydd, mae yr hyn oll a wnelom yn farw ger bron Duw, er tecced ac er mor ogoneddus y gallo ymddangos ger bron dyn. Megis nad ydyw delw gerfiedig neu liwiedig ond llun marw o'r peth ei hun, heb ddim bywyd nac un math o ysgogiad ynddi, felly y mae gweithredoedd pawb di-ffydd ger bron Duw; nid ydynt ond ymddangos yn weithredoedd bywiol, canys mewn gwirionedd meirw ydynt, ac heb fod o les tu ag at fywyd tragywyddol; nid ydynt ond cysgodau a rhithiau pethau bywiol a da, ac nid pethau bywiol a da eu hunain: canys gwir ffydd sy 'n rhoi bywyd i'r gweithredoedd, ac o'r cyfryw ffydd y daw y gweithredoedd da ag sydd yn wir weithredoedd da: ac heb ffydd nid oes un weithred

[1] St. Ioan 15. 4, 5. [2] Heb. 11. 5, 6. [3] Rhuf. 14. 23.

yn dda ger bron Duw, fel y dywed St. Awstin.——Nid oes i ni ddodi gweithredoedd da o flaen ffydd, na thybied y dichon dyn, cyn y byddo ffydd ganddo, wneuthur un weithred dda; o herwydd er ymddangos o'r fath weithredoedd i ddynion yn ganmoladwy, etto nid ydynt mewn gwirionedd ond ofer a digyfrif ger bron Duw. Maent yn debyg i yrfa march a redo allan o'r ffordd, yr hwn a gymmer boen fawr, ond yn ofer. Na rodded neb gan hynny, meddai, gyfrif ar ei weithredoedd da, cyn y bo ganddo ffydd: lle nid oedd ffydd, nid oedd gweithredoedd da. Y diben, meddai, sy'n gwneuthur y gweithredoedd yn dda; ond rhaid bod ffydd yn arwain ac yn trefnu diben dyn.

Ac y mae Crist yn dywedyd, *Os bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll.*[1] Mae 'r llygad, medd St. Awstin, yn arwyddocâu y diben, â'r hwn y mae dyn yn gwneuthur peth; felly yr hwn na's gwnelo ei weithredoedd da gyd â diben duwiol a gwir ffydd yn gweithio drwy gariad, mae ei holl gorph heblaw hynny, sef holl nifer ei weithredoedd, yn dywyll, ac nid oes goleuni ynddynt. O herwydd nid ydys yn mesur gweithredoedd da wrth y gorchwylion noethion, ac felly yn eu gwahaniaethu oddi wrth feiau, ond wrth y bwriad a'r diben er mwyn yr hwn y gwneler hwynt. Os ethnig a ddillada 'r noeth, a bortha 'r newynog, ac a wna gyfryw weithredoedd eraill cyffelyb; etto, gan nad ydyw yn eu gwneuthur mewn ffydd, er anrhydedd a chariad Duw, nid ydynt iddo ef ond gweithredoedd meirwon, ofer, a diffrwyth. Ffydd sy 'n canmol y weithred ger bron Duw: oblegid fel y dywed St. Awstin, nid oes fodd nad drwg yw 'r weithred a'r na's delo o ffydd: lle nad yw ffydd Grist yn sylfaen, nid oes weithred dda, pa adeiladaeth bynnag a wnelom. Mae un weithred, yn yr hon y mae pob gweithredoedd da, a honno yw ffydd yn gweithio drwy gariad: os ydyw honno gennyt, mae gennyt sylfaen pob gweithred dda; canys i'r ffydd hon y priodolir rhinweddau nerth, doethineb, cymmedroldeb, a chyfiawnder.

Heb ffydd, nid yw y rhinweddau hyn gennym, ond yn unig eu henwau a'u llun, fel y dywed St. Awstin; Mae holl fuchedd y rhai sydd heb y wir ffydd yn bechod; ac nid oes dim yn dda heb yr Hwn sydd Awdwr pob daioni: lle nad ydyw Efe, nid oes ond lledrith o rinwedd yn ein gweithredoedd goreu. A St. Awstin, wrth agoryd yr adnod hon o'r Psalm, *Aderyn y tô a gafodd dŷ, a'r wennol nŷth iddi, lle y gesyd ei chywion,*[2] a ddywed, fod Iuddewon, hereticiaid, a phaganiaid, yn gwneuthur gweithredoedd da. Maent yn ddilladu 'r noeth, yn porthi 'r tlawd, ac yn gwneuthur gweithredoedd da eraill o drugaredd: ond am nad ydys yn eu gwneuthur mewn gwir ffydd, mae y cywion yn myned ar

[1] Mat. 6. 23. [2] Ps. 84. 3.

goll: ond os hwy a arosant yn y ffydd, yna y mae ffydd yn nŷth ac yn ddïogelwch i'w cywion, hynny yw, yn amddiffyniad i'w gweithredoedd da, fel na lwyr goller eu gwobr hwynt.

A'r hyn y mae St. Awstin yn ei ddadleu yn helaeth mewn llawer o lyfrau ar y matter hwn, mae St. Ambros yn ei gynnwys mewn ychydig eiriau, gan ddywedyd, Yr hwn drwy natur a fynnai wrthwynebu drygioni, naill ai trwy ewyllys neu reswm anianol, yn ofer y mae efe yn harddu amser y fuchedd hon, ac nid yw yn cyrhaeddyd hyd at y gwir rinweddau: canys heb addoli y gwir Dduw, yr hyn a dybygir ei fod yn rhinwedd, nid ydyw ond drygioni.

Ac yn eglurach fyth i'r perwyl hwn yr ysgrifena St. Chrysostom fel hyn: Chwi a ellwch weled llawer heb y wir ffydd ganddynt, ac heb fod o gorlan Crist, ac etto, mewn ymddangosiad, yn blaguro mewn gweithredoedd o drugaredd; chwi a'u cewch yn llawn o dosturi, ac o diriondeb, ac yn ymroddi i gyfiawnder; ac etto, er hyn oll, nid oes iddynt ddim ffrwyth o'u gweithredoedd, am fod y weithred bennaf yn eisiau. Canys pan ofynodd yr Iuddewon i Grist pa beth a wnaent i wneuthur gweithredoedd da, Efe a attebodd, *Hyn yw gwaith Duw, credu o honoch yn yr Hwn a anfonodd Efe;*[1] felly mae Efe 'n galw ffydd yn waith Duw. A chyn gynted y byddo ffydd gan ddyn, mae efe ar fyrder yn blaguro mewn gweithredoedd da; canys mae ffydd o honi ei hun yn llawn gweithredoedd da, ac nid oes dim yn dda heb ffydd. A chan ddefnyddio cyffelybiaeth, efe a ddywed, fod y rhai sy 'n disgleirio ac yn llewyrchu mewn gweithredoodd da, heb ffydd yn Nuw, yn debyg i ddynion meirw yn gorwedd mewn beddau gwychion a gwerthfawr, y rhai etto nid ydynt yn buddio iddynt. Ni ddichon ffydd fod yn noeth heb weithredoedd da, canys yna nid yw hi wir ffydd: a phan gyssyllter hi â gweithredoedd, etto mae hi uwchlaw y gweithredoedd. O herwydd fel y mae dynion, y rhai sydd wir ddynion, yn gyntaf yn byw, ac wedi hynny yn cael eu meithrin; felly rhaid i'n ffydd yng Nghrist hanfodi yn gyntaf, ac yna cael ei phorthi â gweithredoedd da. A gall bywyd fod heb faeth, ond ni ddichon bod maeth heb fywyd. Rhaid i ddyn gael ei faethu â gweithredoedd da; ond rhaid yn gyntaf fod ganddo ffydd. Yr hwn a wna weithredoedd da, etto heb ffydd, nid oes bywyd ynddo.

Mi a fedraf ddangos dyn a fu byw drwy ffydd heb weithredoedd, ac a aeth i'r nefoedd: ond heb ffydd ni bu fywyd mewn un dyn erioed. Credu yn unig a wnaeth y lleidr a grogwyd pan ddïoddefodd Crist, a'r trugaroccaf Dduw a'i cyfiawnhâodd ef. A rhag gwrth-ddywedyd o neb, mai diffyg amser oedd arno, ac onid ê y buasai yn eu gwneuthur

[1] St. Ioan 6. 29.

hwy; gwir yw, ac nid ymrysonaf fi yn hynny; ond hyn a haeraf yn sicr, mai ffydd yn unig a'i hachubodd ef. Pe buasai efe byw, ac esgeuluso ffydd a'i gweithredoedd, efe a gollasai ei iachawdwriaeth drachefn. Ond hyn yw 'r cwbl yr ydwyf yn ei ddywedyd, mai ffydd o honi ei hun a'i cadwodd, ac na ddarfu i weithredoedd o honynt eu hunain gyfiawnhâu dyn erioed.——Yma y clywsoch feddwl St. Chrysostom, wrth yr hwn y gellwch ddeall nad oes ffydd heb weithredoedd (pan fyddo cyfle i'w gwneuthur) ac ni ddichon gweithredoedd lesâu tu ag at fywyd tragywyddol, heb ffydd.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# AM WEITHREDOEDD DA.

FE fynegwyd i chwi yn y Bregeth ddiweddaf ddau beth o'r tri a nodasid yn enwedig ynghylch ffydd fywiol.—Y cyntaf oedd, nad ydyw ffydd un amser yn segur, heb weithredoedd da, pan fo cyfleusdra yn gwasanaethu.—Yr ail, na ellir gwneuthur gweithredoedd da cymmeradwy gan Dduw, heb ffydd.

Weithian awn at y drydedd ran, lle y dangosir pa fath weithredoedd ydyw y rhai sy 'n tarddu allan o wir ffydd, ac yn tywys dynion ffyddlon i fywyd tragywyddol.—Hyn ni ellir ei ddysgu gystal a chan ein Hiachawdwr Crist ei Hun, i'r Hwn y gofynodd rhyw wr mawr yr un peth. *Pa beth da a wnaf*, medd rhyw Lywodraethwr wrtho, *fel y caffwyf fywyd tragywyddol?* I'r hwn yr attebodd yr Iesu, *Os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gorchymynion.* Ond y Llywodraethwr, heb ei foddloni ar hyn, a ofynodd ym mhellach, *Pa rai?* Fe wnelsai yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid gynnifer o ddeddfau a thraddodiadau o'r eiddynt eu hunain i ddwyn dynion i'r nef, heblaw gorchymynion Duw, fel yr oedd y dyn mewn ammheuaeth pa un ai drwy y deddfau a'r traddodiadau hynny, ai trwy gyfraith Dduw, y gallai fyned i'r nef; ac am hynny fe ofynodd i Grist, pa orchymynion oedd yn feddwl. I hyn rhoddes Crist iddo atteb eglúr, gan adrodd gorchymynion Duw, a dywedyd; *Na ladd; Na odineba; Na ladratta; Na ddwg gam dystiolaeth; Anrhydedda dy dad a'th fam; a Char dy gymmydog fel ti dy hun.*[1] Drwy yr hyn eiriau y dangosodd Crist mai deddfau Duw ac nid

[1] St. Mat. 19. 16—18.

traddodiadau a deddfau dynion ydyw 'r wir ffordd sy 'n arwain i fywyd tragywyddol. Felly dylid cymmeryd hon fel addysg gywiraf o enau Crist ei Hun, mai gweithredoedd cyfraith foesol Duw ydyw gwir weithredoedd ffydd, y rhai sy 'n tywys i'r bywyd bendigedig sydd ar ddyfod.

Ond y mae dallineb a malais dyn hyd yn nod o'r dechreuad wedi bod bob amser yn barod i gwympo oddi wrth orchymynion Duw; megis Adda, y dyn cyntaf, er nad oedd ganddo orchymyn ond un, na fwyttâi o'r ffrwyth gwaharddedig; etto, er gorchymyn Duw, efe a gredodd y wraig, yr hon a dwyllasid drwy berswadiad cyfrwys y sarph; ac felly efe a ganlynodd ei ewyllys ei hun, gan adael gorchymyn Duw. A byth er yr amser hwnnw, mae pawb oll a ddaethant o hono wedi eu dallu gymmaint gan bechod gwreiddiol, hyd onid ydynt wedi bod bob amser yn dueddol i syrthio oddi wrth Dduw a'i ddeddf, ac i ddychymmygu ffordd newydd i gadwedigaeth drwy weithredoedd o'u dyfais eu hunain: yn gymmaint felly, nes i'r holl fyd agos, gan ymwrthod â gwir anrhydedd yr unig a'r byth-fywiol Dduw, grwydro ynghylch eu dychymmygion eu hunain, gan addoli, rhai yr haul, y lleuad, a'r ser; rhai eraill Iau, Juno, Diana, Sadwrn, Apolo, Neptun, Ceres, a Bacchus; ac eraill feibion a merched meirw: a rhai, heb eu digoni â hyn, a addolasant amryw fath o anifeiliaid, adar, pysg, ehediaid, a gwiberod; pob gwlad, a thref, a thŷ, megis gwedi eu rhannu, gan osod i fynu eilunod o'r pethau a hoffent, a'u haddoli.

Mor ynfyd oedd y bobl, wedi iddynt gwympo at eu dychymmygion, a gadael y byth-fywiol Dduw a'i orchymynion, ag y dyfeisiasant ddelwau a duwiau aneirif. Yn yr hwn gamsyniaeth a thywyllwch yr arosasant, nes i'r Hollalluog Dduw, gan dosturio wrth ddallineb dyn, anfon ei wir Brophwyd Moses i'r byd, i geryddu ac i argyhoeddi yr anfad orphwylldra hwn, ac i ddysgu 'r bobl i adnabod yr unig Dduw byw, a'i wir anrhydedd a'i addoliad. Ond gymmaint yr oedd tuedd lygredig dyn wedi ymroddi i ddilyn ei ddychymmyg ei hun, ac, fel y dywedwn, i lochesu 'r aderyn a fagodd ef ei hun, fel nad allai holl rybudddion, annogaethau, cymmwynasau, na bygythion Duw, ei gadw oddi wrth ei gyfryw ddychymmygion. Canys er holl ddoniau Duw a ddangoswyd tu ag at bobl Israel, etto pan aeth Moses i'r mynydd i ymddiddan â'r Hollalluog Dduw, nid arhosodd yno ond ychydig ddyddiau, na ddechreuodd y bobl ddyfeisio duwiau newyddion: ac fel y daeth i'w pennau, gwnaethant lo aur, a phenliniasant iddo ac addolasant ef. Ac ar ol hynny dilynasant y Moabiaid, ac addolasant Beelphegor, duw y Moabiaid.

Darllenwch Lyfr y Barnwŷr, Llyfrau y Brenhinoedd a'r Prophwydi, ac yno cewch weled mor anwadal oedd y bobl, mor llawn o ddychym-

mygion, ac mor barottach i redeg ar ol eu mympwy eu hunain na sancteiddiaf orchymynion Duw. Yno chwi a ddarllenwch am Baal, Moloch, Chamos, Melchom, Baalpeor, Astaroth, Bel, y Ddraig, Priapus, y Sarph Bres, y Deuddeg Arwydd, a llawer eraill; i ddelwau y rhai, gyd â mawr ddefosiwn, y dyfeisiodd y bobl bererindodau, gan eu haddurno 'n ddrudfawr, arogl-darthu, penlinio ac offrymmu iddynt, gan dybied fod hynny yn haeddiant uchel ger bron Duw, ac i'w gyfrif uwchlaw ei gyfreithiau a'i orchymynion.

A lle y darfu i Dduw y pryd hynny orchymyn na wneid un aberth ond yn Jerusalem yn unig, gwnaethant yn hollol i'r gwrthwyneb, gan adeiladu alloran ac aberthu ym mhob man, ar uchelfeydd, mewn llwyni, ac mewn tai, heb wneuthur cyfrif o orchymynion Duw, ond tybied eu dychymmygion a'u defosiynau eu hunain yn well na hwy. Ac fe ledaenwyd y cyfeiliornad hwn cyfled, fel y llygrwyd ac y twyllwyd â'r un ffieidd-dra nid yn unig y werin annysgedig, ond hefyd offeiriaid a dysgawdwŷr y bobl, mewn rhan drwy wag-ogoniant a thrachwant, ac mewn rhan drwy eu hanwybodaeth a'u dallineb; yn gymmaint, fel pan nad oedd gan y brenhin Ahab ond Elias yn unig yn wir ddysgawdwr a gweinidog Duw, yr oedd pedwar cant a deg a deugain o brophwydi, y rhai a'i hannogent ef i addoli Baal ac i aberthu yn y llwyni. Ac fe barhaodd yr erchyll gyfeiliornad hwnnw nes i'r tri brenhin godidog, Jehosaphat, Hezeciah, a Josiah, dewisedig weinidogion Duw, gwbl ddinystrio yr unrhyw, a dwyn eilwaith y bobl oddi wrth eu cyfryw ddychymmygion ffuantus at wir orchymynion Duw; am yr hyn y mae eu hanfarwol wobr a'u gogoniant yn aros, ac a erys, gyd â Duw yn dragywydd.

Ac heblaw y dychymmygion y soniasom am danynt eisoes, dyfeisiodd tuedd dyn (er mwyn cael ei sanctaidd ddefosiynau ei hun) sectau a chrefyddau newyddion, a elwid Phariseaid, Saduceaid, ac Ysgrifenyddion, ynghyd â llawer o draddodiadau ac ordeiniadau sanctaidd a duwiol (fel y tybygid wrth ymddangosiad allanol a gwychder teg y gweithredoedd) ond y cwbl oll, mewn gwirionedd, yn arwain at ddelwaddoliaeth, ofer-goel, a rhagrith; gan fod eu calonnau oddi fewn yn llawn malais, balchedd, trachwant, a phob drygioni. Yn erbyn y sectau hyn a'u ffug sancteiddrwydd fe lefodd Crist allan yn danbeidiach nag y gwnaeth yn erbyn neb eraill, gan ddywedyd, a mynych ail-adrodd, y geiriau hyn: *Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwŷr! canys yr ydych yn glanhâu y tu allan i'r cwppan a'r ddysgl, ac o'r tu mewn y maent yn llawn o drawsedd ac anghymmedroldeb. Ti Pharisead dall, glanhâ yn gyntaf yr hyn sydd oddi fewn.*[1] Canys er boll wych

[1] St. Mat. 23. 25, 26.

draddodiadau ac ymddangosiad allanol gweithredoedd da o ddyfais eu dychymmyg eu hun, drwy y rhai yr ymddangosent i'r byd yn grefyddgaraf ac yn sancteiddiaf o holl ddynion y ddaear: etto gwyddai Crist, yr Hwn oedd yn gweled eu calonnau, eu bod oddi fewn, yngolwg Duw, y rhai ansancteiddiaf, atgasaf, a phellaf oddi wrth Dduw o bawb. Am hynny Efe a ddywedodd wrthynt, *Oh ragrithwŷr, da y prophwydodd Esaias am danoch chwi, gan ddywedyd, Nesâu y mae y bobl hyn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau; a'u calon sy bell oddi wrthyf. Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth.* Ac hefyd, *Gwnaethoch orchymyn Duw yn ddi-rym trwy eich traddodiad eich hun.*[1]

Ac er i Grist ddywedyd, *Mai yn ofer yr anrhydedda dynion Dduw,* y rhai sy'n *dysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth,* etto nid oedd wrth hynny yn meddwl dymchwelyd holl orchymynion dynion, canys byddai Efe ei Hun bob amser yn ufudd i dywysogion, ac i'w cyfreithiau a wnaethid er mwyn trefn a llywodraeth dda ar y bobl: ond efe a argyhoeddodd y cyfreithiau a'r traddodiadau a wnaethai'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, y rhai ni wnaed yn unig er mwyn iawn drefnu'r bobl (fel y gwnaed y cyfreithiau gwladol) ond hwy a osodasid cyfuwch, fel y gwnaed hwy i fod yn iawn a phur addoliad Duw, megis pe buasent gogyfuwch a chyfreithiau Duw, neu uwchlaw iddynt; o herwydd ni ellid cadw llawer o gyfreithiau Duw, gan orfod rhoi lle i'w cyfreithiau hwy.

Yr oedd Duw yn ffieiddio y rhyfyg hwn, fod i ddyn ddyrchafu ei gyfreithiau ei hun, a'u gwneuthur yn ogyfuwch a deddfau Duw, yn y rhai y mae ei anrhydedd a'i iawn addoliad yn sefyll, a gwneuthur ei gyfreithiau ei hun i beri gadu heibio ddeddfau Duw. Fe osododd Duw ei ddeddfau, trwy y rhai y mae'n ewyllysio cael ei anrhydeddu. Mae'n ewyllysio hefyd i gyfreithiau dynion, tra na byddont wrthwyneb i'w ddeddfau Ef ei Hun, gael yn ufudd eu cadw, megis yn dda ac angenrheidiol i bob gwladwriaeth, ond nid fel pethau y mae ei anrhydedd Ef yn sefyll yn bennaf ynddynt: ac fe wneir, neu fe ddylid gwneuthur, cyfreithiau gwladol dynion, er mwyn yn well ddwyn dynion i gadw deddfau Duw, fel yr anrhydedder Duw, o ganlyniad, yn well drwyddynt.

Ond nid oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn foddlon na chyfrifid eu cyfreithiau hwy yn uwch na chyfreithiau pendant a gwladol eraill; ac ni fynnent eu galw hwy wrth enwau cyfreithiau tymhorol eraill; ond hwy a'u galwent yn draddodiadau sanctaidd a duwiol, ac a fynnent eu cyfrif, nid yn unig yn iawn ac yn wir addoliad Duw, (megis

[1] St. Mat. 15. 6—9.

yn wir y mae deddfau Duw) ond hefyd yn oruchelaf anrhydedd i Dduw, ac i ba rai y dylai gorchymynion Duw roi lle. Dyma 'r achos y llefarai Crist mor llym yn eu herbyn, gan ddywedyd, Mae eich traddodiadau, ag sy mor gyfrifol gan ddynion, yn ffieidd-dra ger bron Duw: o herwydd yn fynych o'r fath draddodiadau y canlyn troseddu gorchymynion Duw, a mwy o barch i gadw 'r cyfryw bethau, a mwy o ofn eu torri, na gorchymynion Duw.

Megis y cadwai yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid y Sabbath mor goel-grefyddol a gorfanwl hyd oni ddigient wrth Grist am iachâu cleifion, ac wrth ei Apostolion am gasglu tywys i'w bwytta, a hwythau yn newynog, ar y dydd hwnnw; ac am na olchai ei ddisgyblion eu dwylaw cyn fynyched ag y gorchymynai y traddodiadau, yr Ysgrifenyddion a gwerylasant â Christ, gan ddywedyd, *Paham y mae dy ddisgyblion di yn troseddu traddodiad yr hynafiaid;*[1] Ond cyhuddodd Crist hwynt, eu bod, er mwyn cadw eu traddodiadau eu hunain, yn dysgu dynion i dorri gorchymynion Duw: canys hwy a ddysgent i'r bobl y fath ddefosiwn, fel y byddent yn offrymmu eu heiddo i drysordy 'r Deml, dan esgus anrhydeddu Duw, a gadael eu tadau a'u mammau, i'r rhai yr oeddynt dan y rhwymau mwyaf, yn ddigynhorthwy:[2] ac felly hwy a dorrent orchymynion Duw i gadw eu traddodiadau eu hunain.

Hwy a gyfrifent y llw a wnelid i'r aur neu i'r rhodd yn y Deml, yn fwy na'r llw a wnelid yn enw Duw ei Hun neu y Deml.[3] Hwy a fyddent yn fwy gofalus i dalu eu degymmau o bethau bychain, nag i wneuthur y pethau mwy a orchymynasai Duw, megis gweithredoedd o drugaredd, neu wneuthur cyfiawnder, neu ymddwyn yn ddihocced, yn uniawn, ac yn ffyddlon at Dduw a dyn: *Rhaid oedd wneuthur y pethau hyn*, ebe Crist, *ac na adewid y lleill heibio.*—Ac i fod yn fyr, yr oeddynt mor ddeillion o ran eu barn fel y tramgwyddent wrth welltyn, ac y neidient dros gyff; hwy a gymmerent wybedyn gyd â manylrwydd allan o'u cwppan, ac ar yr un pryd a yfent gammel cyfan: ac am hynny galwodd Crist hwynt yn *dywysogion deillion*,[4] gan rybuddio ei ddisgyblion o bryd i bryd i ochelyd eu hathrawiaeth hwy. Canys er eu bod yngolwg y byd yn ddynion perffaith yn eu buchedd a'u hathrawiaeth, etto nid oedd eu buchedd ond rhagrith, na'u hathrawiaeth ond surdoes wedi ei gymmysgu âg ofer-goel, delw-addoliad a barn wyrgam, yn gosod i fynu draddodiadau ac ordeiniadau dyn yn lle gorchymynion Duw.

[1] St. Mat. 15. 2. [2] St. Mark 7. 11, 12. [3] St. Mat. 23. 16—19.
[4] St. Mat. 23. 23, 24.

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

# AM WEITHREDOEDD DA.

FEL y gallai pawb iawn synied am weithredoedd da, fe fynegwyd yn yr ail ran o'r Bregeth hon pa fath weithredoedd da yw y rhai y mynnai Duw i'w bobl rodio ynddynt; sef y cyfryw ag a orchymynwyd yn ei Ysgrythyr Lân, ac nid y fath weithredoedd ag a ddychymmygodd dynion o'u hymennydd eu hunain, o zel a defosiwn dall, heb air Duw: a thrwy gamgymmeryd natur gweithredoedd da y mae dyn wedi dirfawr anfoddloni Duw, a myned oddi wrth ei ewyllys a'i orchymynion Ef.—Fel hyn y clywsoch mor barod oedd y byd erioed o'r dechreuad hyd amser Crist i gwympo oddi wrth orchymynion Duw, ac i geisio moddion eraill i'w anrhydeddu a'i wasanaethu Ef yn ol defosiwn a chwiliasant allan o'u pennau eu hunain; a pha fodd y gosodasant i fynu eu traddodiadau eu hunain gogyfuwch neu uwchlaw gorchymynion Duw.

Yr hyn beth sydd wedi digwydd yn ein hamser ninnau hefyd, (ysywaeth) ddim llai nag y darfu ymhlith yr Iuddewon, a hynny drwy lygredigaeth, neu o leiaf drwy esgeulusdra, y rhai yn fwyaf a ddylasent ddyrchafu gorchymynion Duw, a chadw 'r athrawiaeth bur a nefol a adawodd Crist i ni. Pa ddyn a chanddo ddim barn na dysg, wedi eu cyssylltu â gwir zel dros Dduw, a'r na's gwel ac na's galara ddyfod i mewn i grefydd Crist y fath gau-athrawiaeth, ofer-goel, delw-addoliad, rhagrith, ac anfad gamarferion eraill, hyd nes, bob yn ychydig, drwy eu surdoes hwynt, y mae melus fara sanctaidd air Duw wedi cael ei fawr rwystro a'i roi o'r neilldu?

Ni bu gan yr Iuddewon erioed yn eu dallineb mwyaf gynnifer o bererindodau at ddelwau, na chymmaint o arfer penlinio, cusanu, ac arogldarthu iddynt, ag sydd wedi cael ei arfer yn ein hamser ni. Ac ni bu ym mhlith yr Iuddewon mo'r ddeugeinfed ran o'r sectau a'r gau grefyddau, na 'u camarfer yn fwy ofer-goelus ac annuwiol, o'r hyn sy wedi bod yn ddiweddar yn ein mysg ni. Ac yr oedd gan y sectau a'r gau grefyddau hyn gynnifer o weithredoedd rhagrithiol a ffuantus yn eu cyflwr crefyddol, (fel yn rhyfygus y galwant ef) nes oedd eu llusernau, meddent hwy, yn wastad yn rhedeg drosodd, yn alluog i wneuthur iawn

nid yn unig dros eu pechodau eu hunain, ond hefyd dros bawb eraill o'u cymmwynaswŷr, a'u brodyr a'u chwïorydd crefyddol, megys yr oeddynt yn fwyaf annuwiol a chyfrwys wedi perswadio llïaws y werin anwybodus; gan gadw mewn amryw fannau farchnadoedd haeddedigaethau, yn llawn o'u creiriau sanctaidd, delwau, creir-gelloedd, ac o weithredoedd dros ben yr hyn a orchymynwyd, yn barod i'w gwerthu: a phob peth oedd ganddynt a elwid yn sanctaidd; cwccyllau sanctaidd, gwregysau sanctaidd, pardynau sanctaidd, paderennau sanctaidd, esgidiau sanctaidd, rheolau sanctaidd, a phob peth yn llawn o sancteiddrwydd.

A pha beth a all fod yn ffolach, yn fwy ofer-goelus ac annuwiol, nag i wŷr, gwragedd, a phlant wisgo hugen Monach i'w gwared oddi wrth y cryd neu'r cowyn? neu pan fyddont yn meirw, neu yn cael eu claddu, peri i honno gael ei thaflu arnynt, gan obeithio drwy hynny gael bod yn gadwedig? Yr hwn ofer-goel er nad arferwyd ond ychydig o fewn y deyrnas hon, (i Dduw y byddo'r dïolch) etto mewn amryw deyrnasoedd eraill fe'i harferwyd, ac fe'i harferir etto, gan lawer o rai dysgedig ac annysgedig.

Ond i adael heibio'r ofer-goel aneirif a fu ganddynt mewn gwisgoedd dïeithr, mewn distawrwydd, mewn hun-ystefyll, mewn cloisterau, mewn capidylau, mewn dewisiad o fwydydd a dïodydd, a'r cyffelyb bethau, ystyriwn pa gamarferion anfad sydd wedi bod yn y tri pheth pennaf, y rhai a alwent y tri hanfodolion, neu dair prif sylfaen crefydd; hynny yw, ufudd-dod, diweirdeb, a thlodi gwirfoddol.—Ac yn gyntaf, dan esgus ac mewn rhith ufudd-dod i'w Tad-ynghrefydd, (yr hwn ufudd-dod a wnaethant hwy eu hunain) rhyddhêid hwy trwy eu rheol a'u canonau oddi wrth ufudd-dod i'w tad a'u mam naturiol, ac oddi wrth ufudd-dod i Ymherawdwr, a Brenhin, a phob awdurdod dymhorol, i'r rhai o wir ddyledswydd i gyfreithiau Duw yr oeddynt rwymedig i ufuddhâu. Ac felly yr oedd eu proffes o ufudd-dod annyledus yn ymwrthodiad â'u hufudd-dod dyledus.——A pha fodd y cedwid eu proffes o ddiweirdeb, harddach yw tewi a son, a gadael i'r byd farnu am yr hyn a wyddys yn dda, na thramgwyddo clustiau diwair a duwiol drwy ddatguddio mewn geiriau serth eu haflan fuchedd hwy.——Ac am eu tlodi gwirfoddol, y cyfryw ydoedd, fel pan mewn meddiannau, tlysau, llestri aur ac arian, a chyfoeth, yr oeddynt yn ogyfuwch neu uwchlaw marsiandwŷr, boneddigion, barwniaid, ieirll, a dugiaid; etto drwy yr ymadrodd cyfrwys a dichellgar hwn, *Proprium in communi*, hynny yw, *Eiddo prïod mewn eiddo cyffredin*, hwy a watworent y byd, gan beri iddynt gredu eu bod, er eu holl feddiannau a'u cyfoeth, etto yn cadw eu hadduned, ac yn byw mewn tlodi gwirfoddol. Ond er eu holl gyf-

oeth, ni chaent byth gynnorthwyo na thad na mam, na neb arall ag oedd wir dlawd ac anghenus, heb gennad eu Tad Abbad, Prïor, neu Warden; ac etto gallent gymmeryd gan bawb, ond ni allent roi dim i neb, na allent, hyd yn nod i'r rhai yr oeddynt rwymedig wrth gyfreithiau Duw i'w cynhorthwyo: ac felly trwy eu traddodiadau a'u rheolau, ni chai cyfreithiau Duw reoli yn eu mysg hwy: ac am hynny gwir y gellid dywedyd am danynt hwy yr hyn a lefarodd Crist wrth y Phariseaid; *Yr ydych chwi yn troseddu gorchymyn Duw trwy eich traddodiad chwi:* ac hefyd, *Nesâu y mae y bobl hyn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau; a'u calon sy bell oddi wrthyf.*[1]—A pho hwyaf y gweddïau a arferent ddydd a nos mewn rhith a lliw o'r cyfryw sancteiddrwydd, i ennill ewyllys da gwragedd gweddwon a phobl ddiniweid eraill, fel y gallent ganu offerennau a gwasanaeth dros eu gwŷr a'u cyfeillion, a'u derbyn hwynt i'w gweddïau, yn fwy hollol y gwirir am danynt ddywediad Crist: *Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwŷr! canys yr ydych yn llwyr-fwytta tai gwragedd gweddwon, a hynny yn rhith hir weddïo; am hynny y derbyniwch farn fwy. Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwŷr! canys amgylchu yr ydych y môr a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi y gwneler, yr ydych yn ei wneuthur ef yn fab uffern yn ddau mwy na chwi eich hunain.*[2]

Moliant i Dduw, yr Hwn a ddododd oleuni ynghalon ei ffyddlon a'i wir weinidog o enwoccaf goffadwriaeth, y Brenhin Harri 'r Wythfed, ac a roddes iddo wybodaeth o'i air, ac ewyllys difrif i geisio ei ogoniant Ef, ac i ddodi heibio bob cyfryw sectau coel-grefyddol a Phariseaidd a ddyfeisiodd ac a osododd Anghrist i fynu yn erbyn gwir air Duw a gogoniant ei fendigediccaf enw, fel y rhoddodd yr unrhyw yspryd i'r ardderchoccaf a'r clodforusaf frenhinoedd Jehosaphat, Josïah, a Hezecïah. Duw a ganiattao i ni oll, y rhai ydym wir a ffyddlon ddeiliaid i oruchelder y Brenhin, ymborthi ar felus a pheraidd fara gair Duw ei Hun, ac (megis y gorchymynodd Crist) ochelyd rhag pob Phariseaidd a Phabaidd surdoes rhith-grefydd dyn: yr hon er ei bod erioed ger bron Duw yn atgas, ac yn groes i gyfreithiau Duw ac i bur grefydd Crist, etto a ganmolid fel yn dduwiolaf fuchedd ac yn gyflwr uchaf o berffeithrwydd; fel pe gallai dyn fod yn dduwiolach a pherffeithiach wrth gadw rheolau, traddodiadau, a chyffesiadau dynion, nag wrth gadw sanctaidd orchymynion Duw.

Ac i fyned heibio i'r gau grefyddau annuwiol ar ychydig eiriau, adroddwn ryw fathau eraill o ofer-goelion a chamarferion Pabaidd, megis paderennau, sallwyrau Mair, gwersi St. Bernard, llythyrau St. Agathe,

[1] St. Mat. 15. 3, 8. [2] St. Mat. 23. 14, 15.

purdan, offereñnau i roi iawn, safiadau a jubiliau, gau greiriau, a chyssegredig baderennau, clych, bara, dwfr, palmwydd, canhwyllau, tân, a phethau eraill; coel-grefyddol ymprydiau, brawdoliaethau, pardynau, gyd â chyfryw gyffelyb nwyddau, y rhai oeddynt mor gyfrifol ac a gamarferid gymmaint er anferth sarhâd ar ogoniant a gorchymynion Duw, nes y tybid hwy yn bethau godidoccaf a sancteiddiaf a allai fod, i gael trwyddynt fywyd tragywyddol a maddeuant pechod: ïe, fe ddyrchefid hefyd gymmaint ar ofer-ddychymmygion, seremoniau anffrwythlon, a chyfreithiau, gosodiadau a chynghorau annuwiol Rhufain, fel nad oeddid yn meddwl dim yn gyffelyb iddynt mewn awdurdod, doethineb, dysg, a duwioldeb; hyd oni ddywedent fod cyfreithiau Rhufain i'w derbyn gan bob dyn fel y pedwar Efangylwr, ac y dylai holl gyfreithiau tywysogion roi lle iddynt: ac yr oeddid hefyd mewn rhan yn gadael heibio ac yn dibrisio deddfau Duw, fel y gellid cadw yn ddyledusach a pharchu mwy ar y cyfreithiau, y gosodiadau, a'r cynghorau a grybwyllwyd, ynghyd â'u traddodiadau a'u seremoniau.—Fel hyn y dallwyd y bobl drwy anwybodaeth â gwedd ac ymddangosiad teg y pethau hynny, fel y tybient fod eu cadw hwy yn fwy sancteiddrwydd ac yn berffeithiach gwasanaeth ac anrhydedd i Dduw, ac yn boddloni Duw yn fwy nag ufuddhâu gorchymynion Duw.

Cyfryw ydyw llygredig duedd dyn wedi bod, fyth yn ofer-goelus yn ymroddi i wneuthur anrhydedd newydd i Dduw o'i ben ei hun, ac yna i fod yn fwy ewyllysgar a defosiynol i gynnal hwnnw, nag i chwilio allan am orchymynion Duw, a'u cadw hwy: ac ymhellach, i gymmeryd gorchymynion Duw yn lle gorchymynion dynion, a gorchymynion dynion yn lle gorchymynion Duw, ïe yn lle y rhai uchaf, perffeithiaf, a sancteiddiaf o holl orchymynion Duw. Ac felly yr oedd y cwbl oll mor gymmysglyd, fel mai prin yr oedd dynion dysgedig, ac ond ychydig nifer o honynt hwythau, yn gwybod, neu o leiaf yn cymmeryd arnynt wybod, a meiddio haeru y gwirionedd, a gwahanu gorchymynion Duw oddi wrth orchymynion dynion. Oddi ar hyn y tyfodd llawer o gyfeiliornad, ofer-goel, delw-addoliad, gwag-grefydd, barn wyrgam, mawr gynnen, ynghyd â phob annuwiol ymarweddiad.

Am hynny, od oes gennych ddim zel at uniawn a phur anrhydedd Duw, od oes gennych ddim gofal am eich eneidiau eich hunain, ac am y bywyd sydd ar ddyfod, yr hwn sydd heb na phoen na diwedd, ymroddwch yn bennaf uwchlaw pob peth i ddarllen ac i wrando gair Duw; ystyriwch yn ddyfal ynddo pa beth a ewyllysia Efe i chwi ei wneuthur; ac â'ch holl egni ymroddwch i ddilyn yr unrhyw.

Yn gyntaf, rhaid yw bod gennych ddïogel ffydd yn Nuw, a'ch rhoi eich hunain yn hollol iddo, ei garu mewn hawddfyd ac adfyd, a phob

amser ofni ei ddigio: yna, er ei fwyn Ef, cerwch bawb, cyfeillion a gelynion; canys ganddo Ef ac ar ei ddelw Ef y crewyd hwynt, a hwy a brynwyd gan Grist, fel chwithau.—Myfyriwch yn eich calonnau pa fodd y gellwch wneuthur daioni i bawb yn ol eich gallu, a pheidio a drygu neb. Ufuddhêwch i'ch holl uwchafiaid a'ch llywodraethwŷr; gwasanaethwch eich meistriaid yn ffyddlon ac yn ddiwyd, yn gystal yn eu gŵydd ag yn eu habsen, nid rhag ofn cosp yn unig, ond er mwyn cydwybod, gan wybod eich bod yn rhwymedig i wneuthur felly drwy orchymyn Duw.—Nac anufuddhêwch eich tadau a'ch mammau; ond anrhydeddwch hwynt, cynnorthwywch hwynt, a rhyngwch eu bodd hyd y galloch.—Na orthrymmwch, na leddwch, na churwch, nac enllibiwch, ac na chasêwch neb; ond cerwch bawb, dywedwch yn dda am bawb, cynnorthwywch a nerthwch bawb hyd y mae ynoch, ie hyd yn nod eich gelynion a'ch casânt, a ddywedant yn ddrwg am danoch, ac a'ch niweidiant.—Na chymmerwch ddâ neb, na thrachwantwch eiddo eich cymmydog yn anghyfiawn, ond byddwch foddlon i'r peth a ennilloch yn onest; a rhoddwch eich eiddo eich hunain yn gardodol i'r tlodion, pan fo rhaid ac achos.—Ffowch oddi wrth bob delw-addoliad, swyngyfaredd, ac anudon; na wnewch un math o odineb, putteindra, na dim anniweirdeb arall, mewn ewyllys na gweithred, gyd â gwraig gwr arall, na gweddw, na morwyn, nac mewn un ffordd arall.

Ac wrth gymmeryd poen fel hyn, tra byddoch byw, i gadw gorchymynion Duw, (yn yr hyn y mae 'n sefyll bur, pennaf, ac iawn anrhydedd Duw, a'r hyn, ond ei wneuthur mewn ffydd, mae Duw wedi ei ordeinio i fod yn uniawn ffordd a llwybr i'r nef,) ni phallwch ddyfod, yn ol addewid Crist, i'r bywyd gwynfydedig a didrangc hwnnw, lle y cewch fyw mewn gogoniant a llawenydd gyd â Duw dros fyth: i'r Hwn y byddo moliant, anrhydedd, ac ymherodraeth byth ac yn dragywydd. Amen.

# PREGETH

## AM GARIAD PERFFAITH A CHAREDIGRWYDD CRISTIONOGOL.

O'R holl bethau a'r sydd dda eu dysgu i Gristionogion, nid oes un peth yn fwy angenrheidiol son a galw am dano beunydd na Chariad Perffaith; yn gystal am fod pob math o weithredoedd cyfiawnder yn gynnwysedig ynddo, ag hefyd am fod y diffyg o hono yn gwymp i'r byd, yn alltudiaeth i rinwedd, ac yn achos o bob drygioni. Ac yn gymmaint a bod pob dyn agos yn gwneuthur ac yn llunio iddo ei hun gariad perffaith yn ol ei ddychwant ei hun, ac er cased bynnag y byddo ei fuchedd ger bron Duw a dyn, etto mae yn ei berswadio ei hun er hynny fod ganddo gariad; o herwydd paham yn awr cewch glywed darluniad a hyspysrwydd goleu a chywir o gariad perffaith, nid o ddychymmyg dyn, ond o eiriau ac esampl ein Hiachawdwr Iesu Grist: yn yr hwn ddarluniad neu hyspysrwydd y dichon pob dyn (megis mewn drych) ei ystyried ei hun, a gweled yn oleu, heb gamsyniaeth, pa un a ydyw mewn gwir gariad perffaith ai nad ydyw.

Cariad perffaith yw Caru Duw â'n holl galon, â'n holl enaid, ac â'n holl nerth a'n gallu.——A'n holl galon: hynny yw, bod ein calon, ein meddwl, a'n myfyrdod, wedi ymroddi i gredu ei air Ef, i ymddiried ynddo, ac i'w garu uwchlaw pob peth arall a garom oreu yn y nef neu ar y ddaear.——A'n holl enaid: hynny yw, bod ein llawenydd a'n hyfrydwch pennaf wedi eu gosod arno Ef a'i anrhydedd, a'n holl fywyd wedi ei roi i'w wasanaeth Ef uwchlaw pob dim, i fyw ac i farw gyd âg Ef, ac i ymwrthod â phob peth arall yn hytrach nac âg Ef: canys *yr hwn sydd yn caru tad neu fam, mab neu ferch, tŷ neu diroedd, yn fwy na myfi,* ebe Crist, *nid yw deilwng o honof fi.*[1]——A'n holl nerth: hynny yw, â'n dwylaw a'n traed, â'n llygaid a'n clustiau, â'n geneuau a'n tafodau, ac â holl rannau a galluoedd ein cyrph a'n heneidiau, y dylem ymroddi i gadw a chyflawni ei orchymynion.

Dyma'r rhan gyntaf a'r bennaf o gariad perffaith: ond nid hyn yw'r cwbl: o herwydd cariad perffaith hefyd yw caru pob dyn, drwg a da,

[1] St. Mat. 10. 37. a St. Mark 10. 29.

cyfaill a gelyn; a pha achos bynnag a rodder i'r gwrthwyneb, etto er hynny dwyn ewyllys a chalon dda at bawb, ac ymddwyn yn dda tu ag attynt mewn geiriau a golwg, yn gystal ag yn ein holl weithredoedd allanol: o herwydd felly y dysgodd Crist ei Hun i ni, ac felly hefyd y gwnaeth yn ei weithredoedd. Am gariad Duw Efe a ddysgodd fel hyn i Gyfreithiwr a ofynodd iddo *pa un oedd y gorchymyn mawr yn y gyfraith: Ceri yr Arglwydd dy Dduw*, ebe Crist, *â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl.*[1] Ac am y cariad a ddylai fod gennym ym mysg ein gilydd, y naill tu ag at y llall, Efe a'n dysg fel hyn: *Clywsoch ddywedyd Câr dy gymmydog a chasâ dy elyn. Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnel niweid i chwi ac a'ch erlidiant; fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd; canys y mae Efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Oblegid os cerwch y sawl a'ch caro, pa wobr sydd i chwi; oni wna'r publicanod hefyd yr un peth? ac os cyferchwch well i'ch brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur? onid ydyw'r publicanod hefyd yn gwneuthur felly?*[2]

Geiriau ein Hiachawdwr Crist ei Hun yw y rhai hyn ynghylch caru ein cymmydog. Ac yn gymmaint a darfod i'r Phariseaid (â'u heintusaf draddodiadau a'u cam-ddeongliadau) lygru ac agos gronni i fynu bur ffynnon bywiol air Duw, gan ddysgu mai i *gyfeillion* dyn yn unig y perthynai y caredigrwydd a'r cariad perffaith hwn, a bod yn ddigon i ddyn garu y sawl a'i carai yntau, a chasâu ei elynion: am hynny fe ail-agorodd Crist y ffynnon hon; Efe a'i carthodd ac a'i glanhaodd, gan roi i'w dduwiol gyfraith cariad ddeongliad gwir ac amlwg; yr hwn yw, Y dylem garu pob dyn, cyfaill a gelyn; gan ychwanegu hefyd pa fudd a gawn drwy hynny, a pha afles drwy wneuthur i'r gwrthwyneb. Pa beth a allwn ddymuno cystal er ein lles a bod i'n Tad tragywyddol yn y nef ein cyfrif a'n cymmeryd i fod yn blant iddo ei Hun? Ac o hyn ni a fyddwn sicr, medd Crist, os carwn bob dyn. Ac os gwnawn yn amgen, nid ydym, eb efe, well na'r Phariseaid, y publicanod, a'r cenhedloedd, ac ni a gawn ein gwobr gyd â hwy, sef ein cau allan o nifer etholedig blant Duw, ac o'i dragywyddol etifeddiaeth yn y nef.

Fel hyn am wir gariad perffaith, dysgodd Crist ni fod pob dyn yn rhwym i garu Duw uwchlaw pob peth; ac i garu pob dyn, cyfaill a gelyn: a hyn yn gyffelyb a arferai efe ei hun wneuthur, gan gynghori ei elynion, a cheryddu beiau ei ddigasogion; a phan na's gallai eu

[1] St. Mat. 22. 37. [2] St. Mat. 5. 43—47.

diwygio, etto Efe a weddïai drostynt.——Yn gyntaf, Efe a garodd Dduw Dad uwchlaw pob dim, yn gymmaint ag na cheisiodd ei ogoniant na'i ewyllys ei Hun, ond gogoniant ac ewyllys ei Dad. *Nid ydwyf*, eb Efe, *yn ceisio fy ewyllys fy Hun, ond ewyllys y Tad yr Hwn a'm hanfonodd i.*[1] Ac ni wrthododd farw i gyflawni ewyllys ei Dad, gan ddywedyd, *Fy Nhad os yw bosibl, aed y cwppan hwn heibio oddi wrthyf; etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt Ti.*[2] Nid ei gyfeillion yn unig a garodd, ond ei elynion hefyd, y rhai a ddygent yn eu calonnau ddirfawr gasineb tu ag atto, ac â'u tafodau a ddywedent bob drwg am dano, ac a'i herlidient yn eu gweithredoedd â'u holl rym a'u hegni, ïe, hyd angau: etto er hyn i gyd ni thynnodd ei ewyllys da oddi wrthynt, ond a barhaodd i'w caru, gan bregethu iddynt am gariad, argyhoeddi eu gau athrawiaeth a'u drwg fuchedd, a gwneuthur daioni iddynt, gan gymmeryd yn oddefgar beth bynnag a ddywedent neu a wnelent yn ei erbyn Ef. Pan ddifenwent Ef, ni ddifenwai drachefn; pan darawent Ef, ni tharawai hwynt eilwaith; a phan ddïoddefodd angau, ni laddodd ac ni fygythiodd hwynt, ond gweddïodd drostynt, ac a roes y cwbl ar ewyllys ei Dad. Fel y ddafad a arweinir i'r lladdfa, ac fel yr oen nad yw, er cael ei gneifio, yn gwneuthur dim swn na gwrthwynebiad; felly yr aeth Yntau i'w farwolaeth heb wrthsefyll, ac heb agoryd ei enau i ddywedyd dim drwg.

Fel hyn mi a ddangosais i chwi pa beth yw cariad perffaith, yn gystal wrth athrawiaeth ac wrth esampl Crist ei Hun, drwy 'r hyn hefyd y gall pob dyn heb gamsyniad ei adnabod ei hun, pa gyflwr y mae'n sefyll ynddo, pa un a ydyw mewn cariad perffaith, (ac felly yn blentyn i'r Tad yn y nef) ai nad ydyw. Canys er bod pob dyn agos yn credu ei fod mewn cariad perffaith, etto na holed efe neb arall ond ei galon ei hun, ei fuchedd a'i ymarweddiad, ac ni thwyllir ef, ond efe a iawn farna ac a genfydd pa un a ydyw mewn cariad perffaith ai peidio.

Canys y neb ni ddilyno ei ddychwant a'i ewyllys ei hun, ond a'i rhoddo ei hun yn ddifrif i Dduw, i wneuthur ei holl ewyllys a'i orchymynion Ef, gall hwnnw fod yn sicr ei fod yn caru Duw yn fwy na dim; os amgen, mae yn ddïogel nad yw yn ei garu, beth bynnag a gymmero arno: fel y dywed Crist, *O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion.* Canys *yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe*, medd Crist, *yw 'r hwn sydd yn fy ngharu i.* Ac meddai eilwaith, *Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair i; a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd âg ef. Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau.*[3] A'r un modd yr hwn a ddygo

[1] St. Ioan 5. 30. [2] St. Mat. 26. 39. [3] St. Ioan 14. 15, 21, 23, 24.

galon a meddwl da, ac a arfero ei dafod a'i weithredoedd yn dda at bawb, cyfaill a gelyn, a all wybod wrth hynny fod ganddo gariad perffaith. Ac yna mae yn sicr fod yr Hollalluog Dduw yn ei gymmeryd yn anwyl garedig fab iddo ei Hun; fel y dywed St. Ioan: *Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw a phlant diafol: Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.*[1]

YR AIL RAN O'R BREGETH

## AM GARIAD PERFFAITH.

CHWI a glywsoch eglur a ffrwythlon hyspysrwydd am Gariad Perffaith, ac mor fuddiol ac angenrheidiol ydyw, ac fel y mae yn ymestyn at Dduw a dyn—a hynny wrth athrawiaeth ac esampl Crist; ac hefyd pwy a all ei sicrhâu ei hun, a ydyw efe mewn cariad perffaith, ai nad ydyw. Weithian y canlyn ynghylch yr un peth.

Mae gwrthgas anian dyn, llygredig gan bechod, ac amddifad o air Duw a'i ras, yn tybied ei fod yn erbyn pob rheswm y dylai dyn garu ei elyn; ac y mae ganddi lawer o resymmau i'w thueddu i'r gwrthwyneb.

Ond yn erbyn yr holl resymmau hynny dylem osod athrawiaeth a buchedd ein Hiachawdwr Crist, yr Hwn, gan ein caru ni pan oeddym elynion iddo, a'n dysg *i garu ein gelynion.* Efe yn amyneddgar er ein mwyn ni a gymmerodd lawer o waradwyddiadau, ac a ddïoddefodd gael ei guro, a'i roi i'r farwolaeth greulonaf: am hynny nid ydym ni yn aelodau iddo, oni chanlynwn Ef. *Crist,* medd St. Petr, *a ddioddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ol Ef.*[2]

Rhaid i ni ystyried ym mhellach nad yw caru ein cyfeillion yn ddim mwy nag a wna lladron, godinebwŷr, llofruddion, a phob dynion drygionus; yn gymmaint a bod Iuddewon, Tyrciaid, Anffyddlonion, a'r holl anifeiliaid, yn caru y sawl ag sy gyfeillgar iddynt, y rhai y maent yn derbyn eu bywioliaeth, neu ryw gymmwynasau eraill oddiar eu llaw. Ond caru gelynion yw prïodol gynneddf plant Duw, disgyblion a chanlynwŷr Crist.

[1] 1 St. Ioan 3. 10. [2] 1 St. Petr 2. 21.

Er bod gwrthgas a llygredig anian dyn yn fynych yn pwyso yn rhy drwm y camwedd a'r sarhâd a wnel ei elyn iddo, ac yn tybied mai baich anoddefadwy yw bod yn rhwym i garu y sawl a'i casaont ef: ond byddai y baich yn esmwyth ddigon ped ystyriai pob dyn o'r ochr arall pa sarhâd a wnaeth yntau i'w elyn, a pha gymmwynas a dderbyniodd gan ei elyn: ac os na fedrwn weled y cyfrif yn deg a gwastad nac wrth dderbyn cymmwynas ar law ein gelyn, nac wrth dalu sarhâd yn ol iddo drachefn, yna pwyswn y camweddau a wnaethom yn erbyn yr Hollalluog Dduw, mor fynych ac mor dost y digiasom Ef, am yr hyn os ni a fynnwn gael maddeuant gan Dduw, nid oes un ffordd arall ond drwy faddeu y camweddau a wnaed yn ein herbyn ni, y rhai nid ydynt ond bychain iawn wrth y camweddau a wnaethom ni yn erbyn Duw.

Ac os ystyriwn na haeddai yr hwn a wnaeth i ni gamwedd gael maddeuant gennym, ystyriwn eilchwyl mai llai o lawer yr haeddem ni faddeuant ar law Duw. Ac er na haeddai ein gelyn faddeuant er ei fwyn ei hun, etto ni a ddylem faddeu iddo er cariad ar Dduw, gan ystyried gymmaint a chynnifer o ddoniau a dderbyniasom ni ganddo Ef, heb eu haeddu; a bod Crist wedi haeddu ar ein llaw ni faddeu o honom iddynt, er ei fwyn Ef, eu camweddau a wnaethant i'n herbyn ni.

Ond yma gall ymholiad gyfodi, angenrheidiol i'w atteb. Os yw cariad yn gofyn i ni dybied, dywedyd, a gwneuthur, yn dda i bob dyn drwg a da, pa fodd y gall Pen-swyddogion wneuthur cyfiawnder ar ddrwg-weithredwŷr gyd â chariad? Pa fodd y gallant daflu drwg ddynion i garchar, a chymmeryd ymaith eu heiddo oddi arnynt, ac weithiau eu bywydau, yn ol y cyfreithiau, os ni oddef cariad iddynt wneuthur felly?

I hyn y mae attebiad amlwg a byr; Nad yw cosp a dïal o honynt eu hunain yn ddrwg, os iawn gymmerir hwy gan y diniweid: ac i ddyn drwg y maent yn dda ac yn angenrheidiol, a gellir eu gweinyddu yn ol cariad, a thrwy gariad y dylid eu gweinyddu. Er mwyn eglurhâd o'r hyn beth, deallwch fod i gariad ddwy swydd, y naill yn wrthwyneb i'r llall, ac etto pob un o'r ddwy yn angenrheidiol eu harfer ar ddynion o wahanol fath.

Y naill o swyddau cariad yw achlesu dynion da diniweid, peidio â'u gorthrymmu â cham-achwynion, ond eu cefnogi â gwobrwyon i wneuthur yn dda ac i barhâu i wneuthur yn dda, gan eu hamddiffyn â'r cleddyf rhag eu gwrthwynebwŷr: fel mai swydd Esgobion a Bugeiliaid yw canmol dynion da am wneuthur daioni, fel y parhaont yn hynny; ac argyhoeddi a cheryddu drwy air Duw gamweddau a beiau pawb a fyddo o duedd ddrwg.

Y llall o swyddau cariad yw argyhoeddi, ceryddu, a chospi drygioni

heb dderbyn wyneb; ac y mae i'w harfer yn unig yn erbyn y sawl a fo ddynion drygionus a drwg-weithredwŷr.

Ac mai swydd cariad yw argyhoeddi, cospi, a cheryddu y rhai drwg, yn gystal a chefnogi a gwobrwyo y rhai da a diniweid, mae St. Paul yn mynegi wrth ysgrifenu at y Rhufeiniaid, gan ddywedyd; *Yr awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio;* nid i fod yn *ofn i weithredoedd da; eithr i'r rhai drwg* maent *yn dwyn y cleddyf*, ac yn *ddialydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg.*[1] Ac mae St. Paul yn erchi i Timotheus *geryddu*, yn eofn ac yn ddifrif drwy air Duw, *y rhai sy'n pechu.*[2]—Felly dylid yn ddiwall weinyddu y ddwy swydd, i ymladd yn erbyn teyrnas y diafol, y Pregethwr â'r gair, a'r Llywodraethwr â'r cleddyf: os amgen, nid ydynt yn caru Duw na'r rhai y maent yn eu llywodraethu, os hwy, o ddiffyg cospi, a oddefant i Dduw gael ei ddigio, neu i'w deiliaid gael eu difetha. O herwydd megis y mae pob tad caruaidd yn ceryddu ei fab naturiol pan fyddo beius, ac onid ê nid yw yn ei garu; felly holl Lywodraethwŷr teyrnasoedd, gwledydd, trefi, a thai, a ddylent yn garedigol gospi y rhai a droseddont dan eu llywodraeth hwy, ac achlesu y rhai a fyddont byw yn ddiniweid, od oes ganddynt ddim parch i Dduw ac i'w swydd, neu gariad at y rhai y mae ganddynt lywodraeth arnynt.

A rhaid gweinyddu y cyfryw geryddon a chospedigaethau mewn amser prydlon ar y rhai a droseddont, rhag, o hir oedi, i'r troseddwŷr gwympo yn bendramwnwgl i bob drygioni, ac nid yn unig bod yn ddrwg eu hunain, ond hefyd niweidio llawer o ddynion, drwy dynnu eraill ar eu hol â'u hesampl ddrwg i bechod ac ysgelerder: megis y gall un lleidr yspeilio llawer o ddynion, ac hefyd wneuthur llawer yn lladron; ac y gall un dyn cynhenus hudo llawer, a thrallodi tref neu wlad gyfan. Ac y mae cariad yn gofyn torri ymaith oddi wrth gorph y wladwriaeth gyfryw ddrwg ddynion ag a fyddont droseddwŷr mor fawr yn erbyn Duw a'r llywodraeth, rhag iddynt lygru dynion da ac onest; megis ag y mae llaw-feddyg da yn torri ymaith aelod pwdr a llygredig, o gariad at yr holl gorph, rhag i'r aelod hwnnw lygru yr aelodau nesaf atto.

Fel hyn dangoswyd i chwi pa beth yw gwir Gariad Perffaith Cristionogol mor oleu na raid i un dyn gael ei dwyllo; yr hwn gariad pwy bynnag a'i cadwo, nid yn unig tu ag at Dduw (yr Hwn y mae'n rhwym i'w garu uwchlaw pob peth) ond tu ag at ei gymmydog hefyd, gelyn cystal a chyfaill, efe a'i ceidw ef yn sicr rhag digio Duw, a rhag rhoi achos cyfiawn i ddyn ddigio.——Dygwch am hynny gyd â chwi yr

[1] Rhuf. 13. 1—4. [2] 1 Tim. 5. 20.

addysg fer hon; Y dylid wrth wir Gariad Cristionogol garu Duw uwchlaw pob dim, a charu pob dyn, drwg a da, gelyn a chyfaill, a gwneuthur daioni iddynt oll hyd y mae ynom ni; cefnogi a sirioli y rhai da, o ran cariad, am eu bod yn dda; ac o ran cariad hefyd ymofyn a cheisio cerydd a chosp ddyledus ar y rhai drwg, fel trwy hynny y galler naill ai eu dwyn hwy i ddaioni, neu o leiaf fel y digier llai ar Dduw ac y niweidier llai ar y wladwriaeth.

Ac os ni fel hyn a unionwn ein buchedd drwy Gariad Cristionogol, yna mae Crist yn addaw ac yn sicrhâu i ni ei fod yn ein caru ni, a'n bod yn blant i'n Tad nefol, wedi ein hadferu i'w ffafr Ef, ac yn wir aelodau o Grist; ac ar ol amser byr y fuchedd bresennol a marwol hon, y cawn gyd âg Ef fywyd tragywyddol yn ei ddidrangc deyrnas yn y nef. Gan hynny iddo Ef, gyd â'r Tad a'r Ysbryd Glân, y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

# PREGETH

## YN ERBYN TYNGU AC ANUDONIAETH.

MAE yr Hollalluog Dduw, er mwyn i'w Enw sancteiddiaf gael ei anrhydeddu ac yn wastad ei fawrhâu gan y bobl, yn gorchymyn na chymmero neb ei Enw Ef yn ofer yn ei enau, gan fwgwth cosp ar y neb a'i camarfero ef yn ammharchus drwy lwon, anudoniaeth, a chabledd. Am hynny, fel y gwybydder ac y cadwer y gorchymyn hwn yn well, fe fynegir i chwi pa fodd y mae yn gyfreithlon i Gristionogion dyngu, a pha berygl ac enbydrwydd sydd o dyngu yn ofer neu yn anudon.

Yn gyntaf, pan fo Barnwŷr yn gofyn llwon gan y bobl er mwyn hyspysu ac agoryd y gwirionedd neu weinyddu cyfiawnder, mae y cyfryw dyngu yn gyfreithlon. Hefyd pan fyddo dynion yn gwneuthur addewidion ffyddlon, gan alw ar Enw Duw yn dyst, i gadw cyfammodau, addewidion onest, cyfreithiau, deddfau, a defodau da, megis y gwna Tywysogion Cristionogol wrth gyttuno ar heddwch, er mwyn diogeliad gwladwriaethau; a phersonau neillduol wrth addaw ffyddlondeb mewn

priodas, neu y naill i'r llall mewn onestrwydd a gwir gyfeillach; a phawb pan dyngont i gadw deddfau cyffredin, a chyfreithiau lleol, a defodau da, er mwyn cael a chynnal iawn drefn ym mhlith dynion; pan dyngo deiliaid ar fod yn ffyddlon i'w Brenhin a'u Pen-arglwydd; a phan dyngo Barnwŷr, Pen-swyddogion, a Swyddwŷr, y bydd iddynt iawn weinyddu eu swyddau; a phan fynno dyn haeru y gwirionedd er gosod allan ogoniant Duw, ac er iachawdwriaeth y bobl, wrth gyhoeddus bregethu 'r Efengyl, neu wrth roi o'r neilldu gyngor er iechyd eu heneidiau:—Mae 'r holl fathau hyn ar dyngu, mewn achosion angenrheidiol ac onest, yn gyfreithlon.

Ond pan fyddo dynion yn tyngu o ran arfer, wrth ymresymmu, prynu a gwerthu, ac mewn ymddiddanion beunyddiol eraill, (fel y mae llawer o dyngwŷr cyffredin a mawrion) mae 'r fath dyngu a hyn yn beth annuwiol, anghyfreithlon, a gwaharddedig wrth orchymyn Duw: o herwydd nid yw y cyfryw dyngu yn ddim amgen na chymmeryd sanctaidd Enw Duw yn ofer.

Ac y mae i'w nodi yma nad yw 'r Hollalluog Dduw yn gwahardd, ond yn gorchymyn, tyngu cyfreithlon: canys y mae gennym esamplau Crist a dynion duwiol yn yr Ysgrythyr Lân, y rhai eu hunain a dyngasant, ac a ofynasant lwon gan eraill yr un modd; a gorchymyn Duw ydyw, *Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wasanaethi, ac i'w Enw ef y tyngi.*[1]—Ac ebe 'r Hollalluog drwy ei Brophwyd Dafydd; *Gorfoledda pob un a dyngo iddo Ef.*[2]—Fel hyn fe dyngodd ein Hiachawdwr Crist amryw weithiau, gan ddywedyd, Yn wir, yn wir.—A thwng St. Paul fel hyn; *Yr wyf fi yn galw Duw yn dyst ar fy enaid.*[3]—Ac Abraham, pan oedd yn heneiddio, a ofynodd lw gan ei was y ceisiai wraig i'w fab Isaac, yr hon a fyddai o'i genedl ei hun; a thyngodd y gwas y cyflawnai ewyllys ei feistr.[4]—Ac Abraham, pan ofynwyd ganddo, a dyngodd i Abimelech brenhin Gerar, na wnelai niweid iddo ef na'i eppil; a'r un modd tyngodd Abimelech i Abraham.[5]—Ac fe dyngodd Dafydd y byddai ac y parhâi yn gyfaill ffyddlon i Jonathan, a thyngodd Jonathan y byddai yn gyfaill ffyddlon i Ddafydd.[6]—Gorchymynodd Duw unwaith, os gwystlid un peth i neb, neu ei adael ynghadw gyd âg ef, os lladratteid neu os collid y peth hwnnw, fod i'r hwn yr oedd ynghadw gyd âg ef gael ei dyngu ger bron Barnwŷr, na chymmerasai efe mo hono ymaith, ac nad arferasai ddim twyll i beri i'r unrhyw gael ei gymmeryd ymaith drwy ei gydsyniad a'i wybodaeth ef.[7]—A dywed St. Paul, ym mhob ymryson rhwng dwy blaid, lle y dy-

[1] Deut. 6. 13. [2] Ps. 63. 11. [3] 2 Cor. 1. 23. [4] Gen. 24. 3, 9. [5] Gen. 21. 23, 32. [6] 1 Sam. 20. 42. [7] Exod. 22. 11.

wedo'r naill ie, a'r llall nag ê, fel na aller cael dyledus brawf o'r gwirionedd, y rhaid i lw a weinydder gan Farnwr fod yn *derfyn ar bob* cyfryw *ymryson.*[1]

Ac ym mhellach, y mae Duw yn dywedyd drwy y Prophwyd Jeremiah; *Ti a dyngi, Byw yw yr Arglwydd, mewn gwirionedd, mewn barn, ac mewn cyfiawnder.*[2] Felly pwy bynnag a dyngo pan fyddo Barnwr yn gofyn llw ganddo, bydded yn sicr yn ei gydwybod fod yn ei lw y tri ammod canlynol, ac ni raid iddo byth ofni tyngu anudon.

Yn gyntaf: Rhaid i'r hwn a dyngo, dyngu *mewn gwirionedd;* hynny yw, rhaid iddo, (gan ddodi heibio bob ffafr a phartïaeth at y pleidiau) osod y gwir yn unig o flaen ei lygaid, ac o gariad ar hwnnw rhaid iddo ddywedyd yr hyn y gŵyr ei fod yn wirionedd, a dim pellach.

Yr ail yw, Rhaid i'r hwn a gymmero lw, wneuthur hynny *mewn barn;* nid yn fyrbwyll ac anystyriol, ond yn sobr, gan ystyried pa beth ydyw llw.

Y trydydd yw, Rhaid yw i'r neb a dyngo, dyngu *mewn cyfiawnder;* hynny yw, er mwyn y zel a'r cariad y mae efe yn ddwyn at amddiffyn diniweidrwydd, at gynhaliaeth y gwirionedd, ac at gyfiawnder yr achos neu'r matter; gan osod heibio bob ennill a cholled, pob cariad a ffafr i'r person o ran cyfeillach neu garennydd.

Fel hyn y mae llw, (os bydd ynddo y tri ammod hwn) yn rhan o ogoniant Duw, yr hwn yr ydym yn rhwym wrth ei orchymynion i'w roi iddo; canys ei ewyllys yw bod i ni dyngu yn ei Enw Ef yn unig; nid am ei fod yn ymhoffi mewn llwon, ond fel y gorchymynodd i'r Iuddewon offrymmu aberthau iddo, nid o ran dim hoffder ag oedd ganddo ynddynt, ond i gadw'r Iuddewon rhag delw-addoliad: felly wrth orchymyn i ni dyngu yn ei Enw sanctaidd Ef, nid yw yn ein dysgu fod yn hoff ganddo lwon, ond gwahardd i bob dyn y mae Efe, drwy hynny, roi ei ogoniant Ef i un creadur yn y nef, y tir, na'r dwfr.[3]

Hyd hyn y gwelsoch fod llwon cyfreithlon yn orchymynedig gan Ddnw, ac yn arferedig gan Batriarchiaid a Phrophwydi, gan Grist ei Hun, a chan ei Apostol Paul. Am hynny dylai Cristionogion feddwl fod llwon cyfreithlon yn bethau duwiol ac angenrheidiol. Oblegid drwy addewidion a chyfammodau cyfreithlon, wedi eu cadarnhâu â llwon, y sicrhêir Tywysogion a'u gwladwriaethau mewn llonyddwch a heddwch.—Drwy addunedau sanctaidd, ynghyd â galw Enw Duw yn dyst, y'n gwneir yn aelodau bywiol o Grist, pan ydym yn proffesu ei grefydd wrth dderbyn Sacrament y Bedydd.—Drwy gyffelyb addewid sanctaidd y mae Dirgelwch Priodas yn uno gwr a gwraig mewn gwas-

[1] Heb. 6. 16. [2] Jer. 4. 2. [3] Esay 42. 8. a Ps. 15. 4.

tadol gariad, fel nad ydynt yn chwennych ysgar er un tramgwydd na gwrthwyneb a ddigwyddo ar ol hynny.—Drwy lwon cyfreithlon, y rhai a dwng Brenhinoedd, Tywysogion, Barnwŷr, a Phen-swyddogion, y cedwir cyfreithiau cyffredin heb eu torri, y gweinyddir cyfiawnder yn ddiduedd, yr amddiffynir personau diniweid, plant amddifaid, gwragedd gweddwon, a phobl dlodion, rhag llofruddwŷr, gorthrymmwŷr, a lladron, fel nad ydynt yn cael cam nac yn dïoddef niweid.—Drwy lwon cyfreithlon y cedwir yn wastadol gymdeithas, cariadoldeb, a threfn dda, ym mhob cyfundeb, megis gwledydd, dinasoedd, trefydd, a phentrefydd.—A thrwy lwon cyfreithlon y chwilir allan ddrwg-weithredwŷr, y cospir y camweddus, ac yr adferir y rhai sy 'n dïoddef cam i'w hiawnderau. Gan hynny ni ddichon tyngu cyfreithlon fod yn ddrwg, gan ei fod yn dwyn i ni gymmaint o fudd duwiol, da, ac angenrheidiol.

Am hynny, lle mae Crist mor ddifrif wedi gwahardd tyngu, nid ydys i ddeall hynny fel pe gwaharddasai bob math o lwon; ond Efe a waharddodd bob ofer dyngu ac anudoniaeth yn enw Duw neu yn enw ei greaduriaid, megis yr arferiad o dyngu wrth brynu a gwerthu, ac yn ein beunyddiol ymddiddan, er mwyn y dylai gair noeth pob Cristion gael edrych arno cystal yn y cyfryw bethau a phe byddai yn cadarnhâu ei ymddiddan â llw: canys dylai gair pob Cristion, medd St. Jerom, fod mor wir ag y gellid ei gymmeryd fel llw. A St. Chrysostom wrth dystiolaethu yr un peth, a ddywed, Nid gweddus tyngu: canys pa raid i ni dyngu, pan nad yw gyfreithlon i'r naill o honom ddywedyd celwydd wrth y llall? Fe allai y dywed rhyw un, Cymhellir fi i dyngu; canys oni thyngaf, y rhai a ymddiddanant â mi, ac a werthant ac a brynnant gyd â mi, ni chredant mo honof. I hyn mae St. Chrysostom yn atteb, fod yr hwn a ddywed felly yn ei ddangos ei hun yn ddyn anghyfiawn a thwyllodrus; canys pe byddai efe ddyn cywir, a'i eiriau a'i weithredoedd yn cyttuno, ni fyddai raid iddo dyngu byth: o herwydd y neb a arfero wirionedd a symlrwydd wrth fargeinio ac ymddiddan, ni raid iddo wrth y fath ofer dyngu i ddwyn ei gymmydogion i'w goelio, ac nid anghreda ei gymmydogion ei eiriau noethion. Ac os bydd wedi myned mor ddigoel nes tybied na's creda neb ef heb iddo dyngu, yna gall yn wir feddwl ei fod wedi myned yn llwyr heb goel arno; oblegid gwir yw, fel yr ysgrifena Theophylactus, nad ymddiriedir llai i neb nag i'r sawl a arfero fynych dyngu. Ac ebe 'r Hollalluog Dduw trwy y gwr doeth, *Y gwr a dyngo lawer a lenwir o anwiredd, ac nid ymedy dïaledd â'i dŷ ef.*[1]

Ond yma fe ddywed rhai, i esguso eu mynych lwon yn eu hymddi-

[1] Eccles. 23. 11.

ddan beunyddiol, Paham na ddylwn dyngu, a minnau yn tyngu 'r gwir? Wrth y cyfryw ddynion gellir dywedyd, er eu bod yn tyngu 'r gwir, etto am eu bod yn tyngu'n aml, yn anystyriol, am bethau distadl, yn afreidiol, a phryd na ddylent dyngu, nad ydynt yn ddifeius, ond eu bod yn cymmeryd Sancteiddiaf Enw Duw yn ofer. Annuwiolach ac annoethach o lawer etto yw y dynion a gamarferant Sancteiddiaf Enw Duw, nid yn unig wrth brynu a gwerthu pethau bychain beunydd ym mhob lle; ond hefyd wrth fwytta, yfed, chwareu, chwedleua, ac ymddadleu, fel pe na ellid gwneuthur un o'r pethau hyn, heb i Sancteiddiaf Enw Duw, wrth eu gwneuthur, gael ei arfer, a'i gamarfer, a'i grybwyll, a thyngu iddo, yn anudon, yn ofer, ac yn ammharchus, i dorri gorchymyn Duw a thynnu i lawr ei ddigofaint.

YR AIL RAN O'R BREGETH

## AM DYNGU.

FE ddysgwyd i chwi yn y rhan gyntaf o'r Bregeth hon am dyngu ac anudoniaeth pa berygl mawr sydd o arfer Enw Duw yn ofer; ac mai nid pob math o dyngu sy 'n anghyfreithlon ac yn erbyn gorchymyn Duw; a bod tri pheth yn ofynol mewn llw cyfreithlon. Yn gyntaf, tyngu o honom er cynnal y gwir: Yn ail, tyngu o honom mewn barn, nid yn fyrbwyll ac anystyriol: Yn drydydd, er mwyn zel a chariad at gyfiawnder. Chwi a glywsoch hefyd pa lesâd sy 'n dyfod o lwon cyfreithlon, a pha enbydrwydd sydd o lwon anghyfreithlon.

Weithian, ynghylch y rhelyw o'r un matter, deallwch fod y rhai a wnelont addewidion cyfreithlon o bethau da ac onest drwy lw, ac heb eu cyflawni, yn cymmeryd Enw Duw yn ofer gystal a'r rhai a addawant bethau drwg ac anghyfreithlon, ac a'u cyflawnant.

Yr ydym yn darllen yn yr Ysgrythyr Lân am ddwy gospedigaeth nodedig ar rai na ofalent gadw eu duwiol addewidion, ond a'u torrent yn wirfoddol a thrwy wybod, er eu bod hwy yn rhwym drwy lw i'w cyflawni.

Yn gyntaf: Fe wnaeth Josua a phobl Israel gyfammod ac addewid ffyddlon o heddwch a chyfeillach gwastadol â'r Gibeoniaid:[1] etto ar ol

[1] Jos. 9. 15.

hynny, yn nyddiau Saul annuwiol, llofruddiwyd llawer o'r Gibeoniaid hyn, yn erbyn y ffyddlon addewid a wnaethesid iddynt: am yr hyn y digiodd Duw mor dost, fel y danfonodd newyn cyffredinol ar yr holl wlad, yr hwn a barhaodd am yspaid tair blynedd: ac ni thynnai Duw ymaith ei gosp nes y dïalwyd y camwedd hwnnw drwy farwolaeth saith o feibion neu gyfneseifiaid y brenhin Saul.[1]

A phan addawodd Zedecïah, brenhin Jerusalem, ffyddlondeb i frenhin Caldea; ar ol hynny, pan ddarfu i Zedecïah, yn erbyn ei lw a'i ffyddlondeb, wrthryfela yn erbyn y brenhin Nebuchodonosor, y brenhin cenhedlig hwn, pan oresgynodd wlad Judea a gwarchae ar ddinas Jerusalem, drwy fod Duw yn caniattâu ac yn goddef hynny, a yrrodd y brenhin Zedecïah i ffoi, ac yn ei fföedigaeth a'i cymmerodd yn garcharor, ac a laddodd ei feibion o flaen ei wyneb, ac a dynnodd ei ddau lygaid yntau, a chan ei rwymo â chadwynau, a'i dygodd mewn modd gresynol yn garcharor i Babilon.[2]—Fel hyn y dengys Duw yn eglur mor gas gantho y rhai a dorrant addewidion onest a rwymer trwy lw, ac a wneler yn ei Enw Ef.

Ac o'r rhai a wnant addewidion drwg trwy lw, ac a gyflawnant yr unrhyw, mae i ni esamplau yn yr Ysgrythyrau; yn bennaf, Herod, yr Iuddewon drygionus, a Jephtha.

Addawodd Herod drwy lw i'r llangces a ddawnsiodd ger ei fron y rhoddai iddi beth bynnag a ofynai; a hithau wedi ei rhag-ddysgu gan ei mam i ofyn pen Ioan Fedyddiwr. Herod, fel y cymmerodd lw drwg, a'i cyflawnodd yn waeth, ac yn greulon a laddodd y sancteiddiaf Brophwyd.[3]

Felly yn gyffelyb gwnaeth yr Iuddewon maleisus lw, gan *eu rhwymo eu hunain â diofryd, na fwyttaent ac nad yfent nes iddynt ladd Paul.*[4]

A Jephtha, wedi rhoi o Dduw iddo oruchafiaeth ar feibion Ammon, a wnaeth (o ddefosiwn ynfyd) adduned i Dduw, ar offrymmu yn aberth iddo y neb a ddelai gyntaf o'i dŷ ef i'w gyfarfod ar ol ei ddychweliad adref. Trwy rym yr hwn lw ehud a byrbwyll efe a laddodd ei unig ferch, yr hon a ddaeth o'i dŷ gyd â llawenydd a gorfoledd i'w groesawu adref. Fel hyn efe yn greulon a gyflawnodd yr addewid yr hon yn ynfyd a wnaethai, yn groes i dragywyddol ewyllys Duw a chyfraith natur, gan wneuthur felly yn erbyn Duw drosedd dau-ddyblyg.

Am hynny, pwy bynnag a wnelo addewid, gan ymrwymo drwy lw i'w chyflawni, edryched ymlaen llaw ar fod yr hyn a addawo yn beth da ac onest, ac heb fod yn erbyn gorchymyn Duw, a bod yn ei allu yn

[1] 2 Sam. 21. 1—9. [2] 2 Bren. 24. 17—20. a 25. 1—7. [3] St. Mat. 14. 7—11. [4] Act. 23. 12.

gyfiawn ei gwblhâu: a'r cyfryw addewidion da mae'n sicr y rhaid i bawb eu cadw bob amser. Ond os gwna neb un amser, naill ai mewn anwybod neu o gynfigen, addaw a thyngu gwneuthur rhyw beth a fo yn groes i ddeddf yr Hollalluog Dduw, neu na allo efe ei gyflawni, gwybydded ei fod yn llw anghyfreithlon ac annuwiol.

Ac weithian, i ddywedyd rhywbeth am dyngu anudon, er mwyn i chwi gael gwybod faint a blined bai yw anudoniaeth gwirfoddol yn erbyn Duw, mi a ddangosaf i chwi pa beth yw cymmeryd llw ar lyfr ger bron Barnwr.—Yn gyntaf, pan fyddont, gan ddodi eu dwylaw ar lyfr yr Efengyl, yn tyngu i ymofyn ac i bresentio yn gywir y pethau a ofynir iddynt, ac na rwystrir hwy i ddywedyd y gwir ac i wneuthur uniondeb, er ffafr, cariad, ofn, casineb, na malais at neb, fel y cynnorthwyo Duw a chynhwysiad sanctaidd y Llyfr hwnnw hwy; rhaid iddynt ystyried mai yn y Llyfr hwnnw y cynhwysir tragywyddol wirionedd Duw, ei sancteiddiaf a'i dragywyddol air Ef, drwy 'r hwn y mae i ni faddeuant o'n pechodau, ac y'n gwneir yn etifeddion y nef, i fyw gyd âg angylion a saint Duw dros fyth mewn llawenydd a gorfoledd. Yn Llyfr yr Efengyl y cynhwysir hefyd ofnadwy fygythion Duw yn erbyn pechaduriaid ystyfnig, na fynnant wellhâu eu bucheddau, na chredu gwirionedd Sanctaidd Air Duw; a'r boen dragywyddol a barottowyd yn uffern i ddelw-addolwŷr, rhagrithwŷr, gau ac ofer dyngwŷr, anudonwŷr, dygwŷr cam dystiolaeth, cam-gondemnwŷr dynion diniweid a gwirion, a'r rhai o ran ffafr sy 'n cuddio beiau drwg-weithredwŷr rhag iddynt gael eu cospi.—Felly mae pwy bynnag a dyngo anudon ar Sanctaidd Efengyl Grist, yn hollol ymwrthod â thrugaredd Duw, ei ddaioni a'i wirionedd, a haeddiant genedigaeth, bywyd, dïoddefaint, angau, adgyfodiad, ac esgyniad ein Hiachawdwr Crist; maent yn gwrthod maddeuant pechodau a addawyd i bob pechadur edifarus, llawenydd y nef, a chwmpeini angylion a saint am byth: yr hyn ddoniau a chysuron oll a addawyd i wir Gristionogon yn yr Efengyl. Ac wrth dyngu anudon felly ar yr Efengyl, maent yn ymroddi i wasanaeth diafol, meistr pob celwydd, ffalsder, twyll, ac anudon, gan annog mawr lid a melldith Duw yn eu herbyn yn y fuchedd hon, ac arswydus ddigter a barn ein Hiachawdwr Crist ar ddydd mawr y farn ddiweddaf, pan farna Efe yn gyfiawn y byw a'r meirw yn ol eu gweithredoedd.

O herwydd pwy bynnag a ymwrthodo â'r gwirionedd er cariad neu gynfigen at neb, neu er elw acennill iddo ei hun, mae efe'n ymwrthod â Christ, a chyd â Judas yn ei fradychu Ef. Ac er cadw geudab y fath anudonwŷr yn awr yn ddirgel, etto caiff ei amlygu yn y dydd diweddaf, pan gyhoeddir dirgelion calonnau pawb i'r holl fyd: ac yna 'r ymddengys y gwirionedd ac a'u cyhudda hwynt, a'u cydwybod eu hun-

nin a holl wynfydedig gwmpeini nef yn dwyn tystiolaeth wir yn eu herbyn; ac yna Crist, y Barnwr Cyfiawn, a'u condemnia'n gyfiawn i ddidrangc gywilydd a marwolaeth.

Mae'r Hollalluog Dduw drwy'r Prophwyd Malachi yn bwgwth cospi'n dost y pechod hwn o anudon, gan ddywedyd wrth yr Iuddewon; *Mi a nesâf attoch chwi i farn, a byddaf dyst cyflym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godinebwŷr, ac yn erbyn yr anudonwŷr.*[1] Yr hwn beth a ddangosodd Duw i'r Prophwyd Zechariah mewn gweledigaeth, yn yr hon y gwelodd y Prophwyd *blyg lyfr yn ehedeg, a'i hŷd yn ugain cufydd, a'i led yn ddeg cufydd,* gan ddywedyd wrtho, *Dyma'r felldith sydd yn myned allan ar wyneb yr holl ddaear: canys pob un a ladrattao, a dorrir ymaith fel o'r tu yma yn ei hol hi; a phob un a dyngo, a dorrir ymaith fel o'r tu accw yn ei hol hi:—a hi a ddaw i dŷ'r lleidr, ac i dŷ'r neb a dyngo i'm henw i ar gam; a hi a erys ynghanol ei dŷ ef, ac a'i difa ef, a'i goed, a'i gerrig.*[2]—Fel hyn y gwelwch gymmaint y mae Duw yn casâu anudon, a pha gosp a ddarparodd Efe i gam dyngwŷr ac anudonwŷr.

Fel hyn y clywsoch pa fodd ac ar ba achosion y mae'n gyfreithlon i Gristion dyngu: clywsoch pa gynheddfau ac ammodau sy raid fod mewn llw cyfreithlon, ac hefyd fel y mae'r cyfryw lwon cyfreithlon yn dduwiol ac anghenraid i'w cadw: clywsoch mai nid cyfreithlon tyngu'n ofer, hynny yw, yn y cyfryw fodd, ar y cyfryw achosion, ac yn ol y cyfryw ddull, ag a fo amgen nag a fynegwyd i chwi: a chlywsoch, yn ddiweddaf, beth mor ddamniol yw tyngu anudon, a chadw llw anghyfreithlon a byrbwyll.

Am hynny, galwn yn ddifrif am rad Duw, fel y gallom, gan ddodi heibio bob ofer dyngu ac anudoniaeth, arfer y cyfryw lwon yn unig ag a fyddont gyfreithlon a duwiol, a chadw'r unrhyw yn gywir a dihocced, yn ol bodd ac ewyllys Duw: i'r Hwn, gyd â'r Mab, a'r Yspryd Glân, y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant. Amen.

[1] Mal. 3. 5. [2] Zech. 5. 2—4.

# PREGETH:

## MOR ENBYD YW CWYMPO ODDI WRTH DDUW.

MAE'r Gwr Doeth yn dywedyd mai dechreuad cyntaf ein hymadawiad oddi wrth Dduw oedd balchder; canys trwyddo yr *ymadawodd calon dyn oddi wrth yr hwn a'i gwnaeth.* Canys *dechreuad pechod*, eb efe, *yw balchder:*[1] yr hwn y mae ynddo, a fydd lawn o felldithion, ac yn y diwedd hi a'i dadymchwel ef. Ac fel trwy falchder a phechod yr ydym ni yn myned oddi wrth Dduw, felly yr â Duw a phob daioni gyd âg ef oddi wrthym ninnau. A dywed y Prophwyd Hosea yn amlwg eu bod hwy yn ymboeni 'n ofer, y rhai sy 'n ymadael â Duw drwy fuchedd ddrwg, ac er hynny a fynnent geisio ei heddychu Ef âg aberth, a'i foddloni drwy hynny: o herwydd er eu hôll aberthau, mae Efe yn myned fyth oddi wrthynt. Yn gymmaint ag *na roddant eu gwaith*, medd y Prophwyd, *ar droi at eu Duw, er iddynt â'u defaid ac â'u gwartheg ddyfod i geisio 'r Arglwydd, ni's cânt Ef; ciliodd Efe oddi wrthynt.*[2]

Ond ynghylch troi at Dduw, neu oddi wrth Dduw, deallwch y gellir gwneuthur hynny mewn amryw ffyrdd: weithiau yn union-gyrchol, megis y gwnaeth Israel a Judah y pryd hynny: weithiau mae dynion yn myned oddi wrth Dduw o eisiau ffydd, ac o achos gwan-ymddiried yn Nuw; am y rhai y dywed Esay yn y modd yma; *Gwae y rhai a ddisgynant i'r Aipht am gynhorthwy, ac a ymddiriedant mewn meirch, ac a hyderant ar gerbydau, am eu bod yn aml; ac ar wŷr meirch, am eu bod yn nerthol iawn: ond ni edrychant am Sanct Israel, ac ni cheisiant yr Arglwydd.* Ond beth a ganlyn? *Pan estyno'r Arglwydd ei law, yna y syrth y cynnorthwywr, ac y cwymp y cynnorthwyedig; a hwynt oll a gyd-ballant.*[3] Weithiau ymedy dynion oddi wrth Dduw drwy esgeuluso ei orchymynion ynghylch eu cymmydogion, yr Hwn sydd yn gorchymyn iddynt ddangos cariad o galon at bob dyn; fel y dywed Zechariah wrth y bobl ar ran Duw: *Bernwch farn gywir, gwnewch drugaredd a thosturi bob un i'w frawd; ac na orthymmwch y weddw a'r amddifad, y dieithr a'r anghenog; ac na feddyliwch ddrwg bob un*

[1] Eccles. 10. 12, 13. [2] Hos. 5. 4, 6. [3] Esay 31. 1, 3.

*i'w gilydd yn eich calonnau.* Ond ni phrisiasant hwy ar y pethau hyn; troisant eu cefnau ac aethant ymaith; *trymhasant eu clustiau rhag clywed; gwnaethant hefyd eu calonnau yn adamant, rhag clywed y gyfraith a'r geiriau a anfonodd Arglwydd y lluoedd drwy ei Yspryd, yn llaw'r Prophwydi gynt: am hynny y daeth digofaint mawr oddi wrth Arglwydd y lluoedd. A bu,* medd y Prophwyd, *megis y galwodd Efe, ac na wrandawent hwy, felly y galwasant hwy, ac ni's gwrandâwn innau, medd Arglwydd y lluoedd: ond gwasgerais hwynt â chorwynt i blith yr holl genhedloedd y rhai nid adwaenent, a'r tir a anghyfanneddwyd.*[1]

Ac ar ychydig eiriau, cynnifer ag na's gallant aros gair Duw, ond dilyn perswadiad ac ystyfnigrwydd eu calonnau eu hunain, myned yn ol y maent, ac nid ymlaen, fel y dywedir yn Jeremïah; *Aethant yn ol, ac nid ymlaen.*[2] Yn gymmaint ag y dywed Origen, Mai hwnnw sy 'n troi at Dduw, yr hwn â'i feddwl, â'i fyfyrdod, â'i weithredoedd, ac â dwys ofal, a'i rhoddo ei hun i air Duw, ac a feddylio am ei ddeddfau Ef ddydd a nos, gan ymroddi 'n hollol i Duw, a'i ymarfer ei hun yn ei gyfreithiau a'i orchymynion Ef. Ac o'r ochr arall; Pwy bynnag, eb efe, a fyfyrio ar chwedlau pan draether gair Duw, mae hwnnw yn troi oddi wrth Dduw. Pwy bynnag, ar bryd darllen gair Duw, sy 'n gofalu yn ei feddwl am bethau bydol, am arian neu am elw, mae hwnnw yn troi oddi wrth Dduw. Pwy bynnag a rwyder â gofalon am feddiannau, ac a lanwer â thrachwant cyfoeth; pwy bynnag a fyfyrio am ogoniant ac anrhydedd y byd hwn; mae hwnnw yn troi oddi wrth Dduw. Felly, yn ei dyb ef, pwy bynnag nad yw â'i ewyllys yn fawr ar yr hyn y mae Duw yn ei orchymyn neu yn ei ddysgu, y sawl ni wrandawo ar hynny, gan ei gofleidio, a'i argraphu yn ei galon, o lwyr fwriad ar ffurfio ei fuchedd yn ol hynny, mae hwnnw wedi llwyr droi oddi wrth Dduw, er y gallo wneuthur pethau eraill o'i ddefosiwn a'i feddwl ei hun, y rhai yn ei olwg ef sydd well, ac yn dwyn i Dduw fwy o anrhydedd.

Dysgir a rhybuddir ni yn yr Ysgrythyr Lân fod hyn yn wir, wrth esampl y brenhin Saul; yr hwn, pan orchymynodd Duw iddo drwy Samuel, ladd yr holl Amaleciaid, a'u cwbl ddinystrio hwy, a'u dâ, a'u hanifeiliaid, etto o dosturi mewn rhan, ac mewn rhan (fel yr oedd efe 'n tybied) o ddefosiwn at Dduw, efe a arbedodd Agag y brenhin, *a'r defaid goreu a'r ychen, i aberthu i'r Arglwydd.* Am yr hyn beth fe ddigiodd Duw yn dost, ac a ddywedodd wrth y Prophwyd Samuel, *Edifar yw gennyf osod Saul yn frenhin: canys efe a ddychwelodd oddi ar fy ol i, ac ni chyflawnodd fy ngeiriau:* ac Efe a orchymynodd i Samuel ddangos hynny iddo. A phan ofynodd Samuel paham (yn groes i air

[1] Zech. 7. 9—13. [2] Jer. 7. 24.

Duw) yr arbedasai efe 'r anifeiliaid, efe a esgusodd y peth, mewn rhan, o herwydd ofn, gan ddywedyd na feiddiasai wneuthur yn amgen, am y mynnai y bobl iddo wneuthur felly; ac mewn rhan, efe a feddyliodd y byddai Duw yn foddlon, am eu bod yn anifeiliaid da, ac yntau 'n gwneuthur hynny o fwriad a defosiwn da i anrhydeddu Duw â'r aberthau a wnelid o honynt. Ond Samuel, gan geryddu pob cyfryw fwriad a defosiwn (er maint y tybyger eu bod yn anrhydedd i Dduw, oni chyttunant â'i air Ef, drwy 'r hwn yn unig y gallwn wybod ei ewyllys Ef) a ddywedodd fel hyn: *A yw ewyllys yr Arglwydd ar boeth-offrymmau neu ebyrth, megis ar wrando ar lais yr Arglwydd? Wele, gwrando sydd well nag aberth, ac ufuddhâu na brasder hyrddod. Canys anufudd-dod sy fel pechod dewiniaeth; a throseddiad sydd anwiredd a delwaddoliaeth. O herwydd it' fwrw ymaith air yr Arglwydd, Yntau a'th fwrw dithau ymaith o fod yn frenhin.*[1]

Wrth yr holl esamplau hyn o'r Ysgrythyr Lân ni a allwn wybod mai fel y gadawn ni Dduw, felly y gedy Yntau ninnau. Ac fe ddichon dyn yn hawdd ystyried wrth arswydus fygythion Duw pa gyflwr truenus sy 'n dilyn ar ol hynny yn anocheladwy. Ac er nad ystyrio efe yr holl drueni hwn hyd yr eithaf, yr hwn sy gymmaint na 's gall un dyn ei ystyried yn gwbl a digonol yn y fuchedd hon, etto caiff yn fuan ddeall cymmaint o hono ag a bair iddo, onid yw ei galon yn fwy carregaidd a chaled na 'r adamant, ofni a chrynu wrth alw 'r unrhyw i'w gof.

Yn gyntaf, darlunir digofaint Duw tu ag attom yn yr Ysgrythyr yn gyffredin wrth y ddau beth hyn;—dangosiad ei wyneb ofnadwy arnom, a throad neu guddiad ei wyneb oddi wrthym. Wrth ddangosiad ei wyneb ofnadwy, yr arwyddoceir ei ddirfawr lidiowgrwydd Ef: ond wrth droad neu guddiad ei wyneb, yr arwyddoceir llawer mwy, sef ei fod Ef yn ein gwrthod ac yn ein rhoi i fynu yn llwyr. Yr hwn arwyddocâd a gymmerir oddi wrth gynheddfau ymddygiad dynion: canys y mae dynion yn gyffredin yn dwyn gwedd siriol ac wyneb cariadus at y sawl a garont; megis ag mai wrth y wedd neu 'r wyneb yr ymddengys yn gyffredin pa feddwl ac ewyllys y mae efe yn ddwyn at eraill. Felly pan ddangoso Duw ei wyneb ofnadwy tu ag attom, hynny yw, pan ddanfono arnom bläau arswydus y cleddyf, y newyn, neu 'r haint, mae 'n eglur ei fod wedi digio 'n fawr wrthym. Ond pan fyddo 'n tynnu oddi wrthym ei air, iawn athrawiaeth Crist, ei rasol nerth a'i gymmorth, (yr hwn sy 'n wastad yn gyssylltiedig â'i air) ac yn ein gadael i'n synwyr, a'n hewyllys, a'n nerth ein hunain, mae 'n dangos y pryd hynny ei fod yn dechreu ein gwrthod ni.

[1] 1 Sam. 15. 1—23.

Canys fel y dangosodd Duw i bawb a wir gredant ei Efengyl Ef, wyneb ei drugaredd yn Iesu Grist, yr hwn sy 'n goleuo eu calonnau yn y fath fodd, nes (os ydynt yn edrych arno fel y dylent) y maent yn cael eu cyfnewid i'w ddelw Ef, eu gwneuthur yn gyfrannogion o'r goleuni nefol ac o'i Lân Yspryd, a'u cyd-ffurfio âg Ef ym mhob daioni angenrheidiol i blant Duw: felly os hwy ar ol hynny a esgeulusant yr unrhyw, os byddant anniolchgar iddo, oni threfnant eu buchedd yn ol ei esampl a'i athrawiaeth Ef, ac i osod allan ei ogoniant, Efe a dynn ymaith oddi wrthynt ei deyrnas, ei sanctaidd air, drwy yr hwn y dylai deyrnasu ynddynt, am nad ydynt yn dwyn y ffrwyth y mae Efe yn disgwyl am dano.

Er hynny y mae Efe mor drugarog a hir-ymarhous, fel nad ydyw yn dangos y mawr lid hwnnw arnom yn ddisymmwth. Ond pan ddechreuom ni laesu oddi wrth ei air Ef, heb ei gredu, na'i ddangos yn ein bucheddau; yn gyntaf, mae yn danfon ei genhadau, gwir bregethwŷr ei air, i'n hannog a'n rhybuddio am ein dyledswydd; fel megis ag y darfu iddo Ef, o'i ran Ef, am ei fawr gariad tu ag attom, draddodi ei Fab ei Hun i ddïoddef angau, fel trwy ei angau Ef y'n gwaredid ni oddi wrth angau, ac y'n hadferid i fywyd tragywyddol, i drigo gyd âg Ef yn oes oesoedd, ac i fod yn gyfrannogion ac yn gyd-etifeddion âg Ef o'i ogoniant tragywyddol a'i deyrnas yn y nef; felly drachefn y dylem ninnau, o'n rhan ninnau, rodio mewn buchedd dduwiol, fel y gweddai i'w blant Ef.

Ac os hyn ni wasanaetha, ond ein bod fyth yn parhâu yn anufudd i'w air Ef a'i ewyllys, heb ei adnabod Ef, na'i garu, na'i ofni, na dodi ein cwbl ymddiried a'n hyder ynddo; ac o'r ystlys arall yn ymddwyn at ein cymmydogion yn anghariadol, drwy ddirmyg, cenfigen, malais, neu drwy lofruddiaeth, yspeilio, godinebu, glythineb, twyll, celwydd, tyngu, neu ryw gyffelyb weithredoedd ysgeler eraill ac ymddygiad annuwiol, yna mae Efe yn ein bwgwth â bygythion dychrynllyd, gan dyngu mewn dirfawr lidiowgrwydd na chaiff y rhai a wnant y gweithredoedd hyn byth fyned i mewn i'w orphwysfa Ef, yr hon yw teyrnas nefoedd.[1]

[1] Heb. 3. 11. Ps. 95. 11. 1 Cor. 6. 9.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# AM GWYMPO ODDI WRTH DDUW.

YN y rhan flaenaf o'r Bregeth hon chwi a glywsoch ym mha sawl ffordd y cwymp dynion oddi wrth Dduw; rhai trwy ddelw-addoliad, rhai o ddiffyg ffydd, rhai wrth esgeuluso eu cymmydogion, rhai o herwydd peidio â gwrando gair Duw, rhai oblegid yr hoffder a gymmerant yng ngwagedd pethau bydol. Chwi a ddysgasoch hefyd ym mha drueni blin y mae'r dyn hwnnw, ag sydd wedi myned oddi wrth Dduw; a pha fodd y mae Duw er hynny o'i ddaioni anfeidrol, i alw dyn drachefn o'i drueni hwnnw, yn arfer yn gyntaf annogaethau mwynion drwy ei bregethwŷr, ac ar ol hynny yn gosod arno ei arswydus fygythion.

Yn awr oni wasanaetha na'r rhybudd mwyn na'r bygythiad arswydus ynghyd, yna dengys Duw arnom ei wyneb ofnadwy, Efe a arllwys ar ein pennau bläau annïoddefol, ac ar ol hynny Efe a dynn oddi wrthym ei holl help a'i gynhorthwy, â pha rai o'r blaen yr amddiffynai ni oddi wrth bob cyfryw drychineb. Fel y dysg yr Efangylaidd Brophwyd Esay ni, yn gyttun â dammeg Crist, gan ddywedyd fod Duw wedi plannu *gwinllan i'w anwylyd mewn bryn tra ffrwythlon. Ac Efe a'i cloddiodd hi, ac a'i digarregodd, ac a'i plannodd o'r winwydden oreu, ac a adeiladodd dŵr yn ei chanol, ac a drychodd winwryf ynddi: ac Efe a ddisgwyliodd iddi ddwyn grawnwin; hithau a ddug rawn gwylltion.* Ac ar ol hynny y canlyn, *Yr awr hon mi a hyspysaf i chwi,* (ebe Duw) *yr hyn a wnaf i'm gwinllan: tynnaf ymaith ei chae, fel y porer hi; torraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa; a mi a'i gosodaf hi yn ddiffrod; nid ysgythrir hi, ac ni chloddir hi; ond mieri a drain a gyfyd; ac i'r cymmylau y gorchymynaf na wlawiont wlaw arni.*[1]

Wrth y bygythion hyn yr annogir ac y rhybuddir ni, os nyni, y rhai ydym ddewisedig winllan Duw, ni's dygwn rawnwin da,—hynny yw, gweithredoedd da, y rhai a fyddant hoff a hyfryd yn ei olwg Ef, pan edrycho am danynt, pan anfono ei genhadau i alw arnom ni am danynt,—ond dwyn yn hytrach rawn gwylltion, sef gweithredoedd surion, ammheraidd, diflas, ac anffrwythlon, yna y tynn Efe ymaith bob ymddiff-

[1] Esay 5. 1, 2, 5, 6.

yn, ac y goddef i gwympo arnom flin bläau o brinder, rhyfel, newyn, ac angau. Yn ddiweddaf, os y pethau hyn ni wasanaethant, Efe a âd i ni fod yn ddiffeithwch, Efe a'n rhydd i fynu, Efe a dry oddi wrthym, ni chloddia ac ni cheibia mwy o'n hamgylch, Efe a'n gâd yn llonydd, ac a oddef i ni ddwyn y fath ffrwythau ag a fynnom,—dyrysni, mïeri, a drain,—pob drygioni, pob bai, ac yn y fath gyflawnder, hyd oni thyfont drosom yn gwbl, gan ein tagu a'n dinystrio yn hollol.

Ond y rhai sy'n byw yn y byd hwn, nid yn ol Duw, ond yn ol eu rhyddid cnawdol eu hunain, nid ydynt yn deall y mawr ddigofaint hwn o eiddo Duw tu ag attynt, sef na chloddia ac na cheibia Efe mwy o'u hamgylch, a'i fod yn eu gadael yn llwyr iddynt eu hunain: ond maent hwy yn tybied mai rhodd wych oddi wrth Dduw yw cael eu holl ryddid eu hunain; ac maent felly yn byw fel pe byddai rhyddid cnawdol yn wir ryddid yr Efengyl.

Ond na atto Duw i ni, bobl dda, byth chwennychu y fath ryddid! O herwydd er bod Duw weithiau yn goddef i'r drygionus gael pob peth wrth eu bodd yn y byd hwn, etto terfyn buchedd annuwiol yn y diwedd yw dinystr tragywyddol. Cafodd yr Israeliaid grwgnachus y peth yr oeddynt yn ei flysio; canys hwy a gawsant sofl-ieir ddigon, do, hyd onid oeddynt wedi blino arnynt. Ond pa beth fu *diwedd* hynny? Hwy a gawsant saws chwerw gyd â'u bwyd melus; oblegid *tra 'r ydoedd eu bwyd yn eu safnau,* disgynodd plâ Duw arnynt, ac a'u lladdodd yn ddisymmwth.[1] Felly os ni a fyddwn byw yn annuwiol, a Duw yn goddef i ni ddilyn ein hewyllys ein hunain, a chael y pethau sydd hoff ac anwyl gennym, ac heb ein ceryddu â rhyw blâ, yn ddïau nid oes dim ammheuaeth nad ydyw Efe yn ddig anial wrthym. Ac er ei fod yn hir cyn taro, etto'n fynych, pan darawo Efe y fath ddynion, mae yn eu taro ar unwaith am byth.

Felly, pan na byddo Efe yn ein taro, pan beidio Efe a'n blino, ein cospi a'n curo, ond ein goddef i redeg lwyr ein pennau i bob annuwioldeb a hoffderau y byd hwn ag yr ydym yn ymhoffi ynddynt, heb na chosp na chystudd, mae hyn yn arwydd arswydus nad yw Efe mwyach yn ein caru, nad yw Efe mwyach yn gofalu drosom, a'i fod wedi ein rhoddi i fynu i ni ein hunain.—Tra byddo gwr yn ysgythru ei winwydd, yn cloddio ynghylch y gwraidd, ac yn dodi pridd newydd attynt, mae ganddo ryw feddwl o honynt; ac mae yn gweled rhyw argoel o ffrwythlonder a aller ei adferu ynddynt: ond pan nad elo i ddim mwy o gyfryw gost na llafur gyd â hwynt, mae hynny 'n arwydd ei fod yn meddwl na byddant byth yn dda. Ac y mae y tad, cyhyd ag y bo'n caru ei

[1] Num. 11. 31—33. a Ps. 78. 30.

blentyn, yn edrych yn ddigllon ac yn ei geryddu, pan wnelo ar fai: ond pan na byddo hynny 'n gwasanaethu, ac yntau ar hynny yn peidio â'i geryddu ef, ond goddef iddo wneuthur y peth a fynno, mae hyn yn arwydd ei fod yn bwriadu ei ddïetifeddu ef, a'i fwrw ymaith dros fyth.

Felly 'n sicr ni ddylai dim bigo ein calonnau mor dost, a'n dodi mewn ofn mor anferth, a bod ein cydwybodau yn ein cyhuddo ddarfod i ni ddigio Duw yn ddirfawr, a'n bod ni fyth yn parhâu yn gwneuthur felly, ac etto nad ydyw Efe ddim yn taro mo honom, ond yn ein gadael yn llonydd yn y drygioni ag yr ydym yn ei hoffi. Yna yn enwedig mae 'n bryd gwaeddi, a gwaeddi eilwaith, fel y gwnaeth Dafydd; *Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron; ac na chymmer dy Yspryd Sanctaidd oddi wrthyf.—Na chuddia dy wyneb oddi wrthyf; na fwrw ymaith dy was mewn sorriant.—Na chuddia dy wyneb oddi wrthyf; rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynant i'r pwll.*[1]

Fel y mae ei weddïau galarus hyn yn sicrhâu i ni pa enbydrwydd anferth y maent hwy ynddo, y rhai y mae Duw yn troi ei wyneb oddi wrthynt, dros yr amser, a chyhyd ag y gwnelo Efe hynny; felly dylent ein cyffrôi a'n hannog ninnau i lefain ar Dduw â'n holl galon, na ddyger mo honom i'r cyflwr hwnnw, yr hwn yn ddïammeu sy mor drist, mor druenus, ac mor ofnadwy, ag na ddichon un tafod ei draethu, nac un galon ei ddeall yn gyflawn! O herwydd pa drymder angeuol a dybygai dyn yw bod dan ddigofaint Duw, ac wedi cael ei wrthod ganddo, a'i Yspryd Sanctaidd, Awdwr pob daioni, wedi cael ei dynnu ymaith oddi wrtho, ac yntau wedi cael ei ddwyn i gyflwr mor warthus a'i adael i ddim gwell defnydd yn y byd na'i ddamnio yn dragywyddol yn uffern! O herwydd nid yn unig y lleoedd hyn o'r Psalmydd sy 'n dangos, pan dry Duw ei wyneb oddi wrth neb, y gadewir hwy yn noeth o bob daioni, ac ym mhell oddi wrth obaith ymwared; ond hefyd y lle a adroddwyd o'r blaen o Esay a ddengys yr un peth; yr hwn sy 'n mynegi fod Duw o'r diwedd felly yn ymwrthod a'i anffrwythlon winllan, fel nad yw 'n unig yn goddef iddi ddwyn chwyn, mïeri, a drain, ond i gospi ei diffrwythdra hi ym mhellach, Efe a ddywed hefyd, *Nid ysgythrir hi, ac ni chloddir hi; ond mïeri a drain a gyfyd; ac i'r cymmylau y gorchymynaf na wlawiont wlaw arni:* wrth yr hyn yr arwyddoceir athrawiaeth ei sanctaidd air Ef, (yr hyn mewn cyffelyb fodd a ddengys St. Paul wrth yr ymadrodd *plannu a dyfrhâu:)* gan arwyddocâu y tynnai Efe hynny oddi wrthynt, fel na chaent fod mwyach yn ei deyrnas Ef, na thywysid hwy mwyach gan ei Lân Yspryd Ef,—y dodid hwy ymaith oddi wrth y rhad a'r doniau oedd ganddynt, ac a allasent eu mwynhâu

[1] Ps. 51. 11. a 27. 9. a 143. 7.

drwy Grist,—yr amddifadid hwy o'r goleuni a'r bywyd nefol ag oedd ganddynt yng Nghrist, tra'r oeddynt yn aros ynddo,—ac y byddent, (fel y buont unwaith) fel dynion *heb Dduw yn y byd,*[1] neu yn hytrach mewn gwaeth cyflwr;—ac, mewn ychydig eiriau, y traddodid hwy i allu'r diafol, yr hwn sy'n teyrnasu ym mhawb oll a fwrier oddi wrth Dduw, megis y gwnaeth yn Saul a Judas, ac yn gyffredin ym mhawb oll ag a weithredant yn ol eu hewyllysiau eu hunain, plant anymddiried ac anghrediniaeth.

Ymochelwn, gan hynny, Gristionogion da, rhag i ni, drwy daflu ymaith ac ymwrthod â gair Duw, drwy'r hwn yr ydym yn cael ac yn cadw gwir ffydd yn Nuw, gael yn y diwedd ein bwrw ymaith mor bell, nes dyfod yn blant anghrediniaeth; y rhai ydynt o ddau ryw, tra gwahanol, ïe, agos yn wrthwyneb, i'w gilydd, ac etto pob un o'r ddau ym mhell iawn oddi wrth droi at Dduw.—Y naill ryw, gan yn unig bwyso eu buchedd bechadurus ac atgas âg uniawn farn a llymdra cyfiawnder Duw, ydynt mor ddigyngor a digysur (fel y mae'n rhaid bod pawb ag y mae *yspryd cyngor a chysur* wedi eu gadael) fel na chymmerant eu perswadio yn eu calonnau y gall, neu y myn, Duw eu cymmeryd i'w ffafr a'i drugaredd eilwaith.—Y rhyw arall, wrth glywed caredig ac ehelaeth addewidion trugaredd Duw, ond heb fod ganddynt wir ffydd ynddynt, ydynt yn gwneuthur yr addewidion hynny yn helaethach nag y gwnaeth Duw hwynt erioed; gan hyderu, er cyhyd yr arosant yn eu buchedd bechadurus ac atgas, etto y bydd i Dduw yn niwedd eu hoes ddangos ei drugaredd arnynt, ac y bydd iddynt hwythau y pryd hwnnw edifarhâu.—Ac y mae y ddau ryw hyn o bobl mewn cyflwr damniol: ac etto er hynny, y mae Duw, *Yr Hwn nid yw yn ymhoffi ym marwolaeth pechadur,*[2] wedi dangos moddion, drwy ba rai, (os cymmerant ofal mewn pryd) y gall y naill a'r llall gael dïangfa.

Y cyntaf, fel y maent yn ofni uniawn gyfiawnder Duw yn cospi pechaduriaid, (wrth yr hyn y dylent frawychu a gwanobeithio'n wir o ran dim gobaith a allo fod ganddynt eu hunain) felly pe credent hwy yn ddïogel a diigl mai trugaredd Duw yw y feddyginiaeth a osodwyd rhag y cyfryw anobaith a gwan-ymddiried, nid yn unig iddynt hwy, ond yn gyffredinol i bawb oll y byddo yn ddrwg ganddynt ac a wir edifarhaont, a chyd â hynny a lynant wrth drugaredd Duw, hwy a allant fod yn sicr y cânt drugaredd, a mynediad i mewn i borthladd dïogelwch; i'r hwn pwy bynnag a ddel, er drycced a fu efe o'r blaen, fe fydd allan o berygl damnedigaeth dragywyddol, fel y dywed Duw drwy Ezeciel, *Pan ddychwelo'r annuwiol oddi wrth ei drygioni yr hwn*

[1] Ephes. 2. 12. [2] Ezec. 33. 11.

*a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid.*[1]

Y lleill, fel y maent yn barod i gredu *addewidion* Duw, felly hwy a ddylent fod mor barod i gredu *bygythion* Duw; dylent gredu y ddeddf gystal a'r Efengyl; bod uffern a thân tragywyddol yn gystal a bod nef a didrangc lawenydd: dylent gredu bod bwgwth damnedigaeth i'r pechadurus a'r drwg-weithredwŷr, cystal a bod addaw iachawdwriaeth i'r neb sy ffyddlon mewn gair a gweithred; dylent gredu bod Duw mor eirwir yn y naill ac yn y llall. A'r pechaduriaid sy 'n parhâu yn eu drwg fuchedd a ddylent feddwl na pherthyn addewidion trugaredd Duw a'r Efengyl ddim iddynt hwy yn y cyflwr hwnnw, ond yn unig y ddeddf, a'r Ysgrythyrau hynny ag a gynnwysant lid, a digofaint, a bygythion Duw; y rhai a ddylent sicrhâu iddynt mai fel y maent hwy drwy ormod hyfdra yn rhyfygu ar drugaredd Duw, felly fod Duw yn tynnu fwyfwy ei drugaredd oddi wrthynt. Ac y mae drwy hyn yn cael ei gyffrôi i gymmaint llid o'r diwedd, nes y mae 'n fynych yn dinystrio y fath ryfygwŷr yn ddisymmwth: canys am y cyfryw y dywed St. Paul fel hyn; *Pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch; yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf.*[2]

Gochelwn, am hynny, y fath ddrwg hyfder i bechu. Canys er i Dduw addaw ei drugaredd i'r sawl a wir edifarhânt, (hyd yn nod yn niwedd eu hoes) etto ni addawodd i'r pechadur rhyfygus y caiff hir oes, nac y caiff wir edifeirwch yn *niwedd* ei oes. Ond efe a wnaeth amser angau pob dyn yn anhyspys, o fwriad na byddai i neb osod ei obaith ar y diwedd, ac yn y cyfamser, hyd hynny, byw yn annuwiol dan ddwys ddigio Duw.

Canlynwn gan hynny gyngor y Gwr Doeth; nac oedwn droi at yr Arglwydd; na ohiriwn o ddydd i ddydd; oblegid yn ddisymmwth y daw ei lid Ef, ac yn amser dïaledd Efe a ddinystria y drygionus. Dychwelwn, gan hynny, mewn pryd; a phan ddychwelom, gweddïwn ar Dduw, fel y dysg Hosea ni, gan ddywedyd, *Maddeu yr holl anwiredd, derbyn ni yn ddaionus.*[3] Ac os ni a ymchwelwn atto â chalon ostyngedig a gwir edifeiriol, Efe a'n derbyn i'w ffafr a'i rad er mwyn ei Enw Sanctaidd, er mwyn ei addewid, er mwyn ei wirionedd a'i drugaredd addawedig i bawb a gredant yn ffyddlon yn Iesu Grist, ei Unig Naturiol Fab: i'r Hwn, Unig Iachawdwr y byd, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo'r holl anrhydedd, y gogoniant, a'r nerth, yn oes oesoedd. Amen.

[1] Ezec. 18. 27. [2] 1 Thes. 5. 3. [3] Hos. 14. 2.

## ANNOGAETH

# YN ERBYN OFN ANGAU.

NID rhyfedd fod ar ddynion bydol ofn marw. O herwydd y mae angau yn eu difuddio hwy o bob anrhydedd, cyfoeth, a meddiannau bydol, yn y mwyniant o ba rai y mae dyn bydol yn ei gyfrif ei hun yn ddedwydd, cyhyd ag y gallo eu mwynhâu wrth ei ewyllys ei hun: ac os, o'r ochr arall, y difeddiennir ef o'r unrhyw, heb obaith eu cael drachefn, yna ni ddichon feddwl yn amgen am dano ei hun na'i fod yn annedwydd, gan iddo golli ei lawenydd a'i hyfrydwch bydol. "Och," medd y dyn cnawdol hwn wrtho ei hun, "a raid i mi yn awr ymadael dros fyth â'm holl anrhydedd ac â'm holl drysor, o'm gwlad, oddi wrth fy nghyfeillion, fy ngolud, fy meddiannau, a'm digrifwch bydol, y rhai yw llawenydd a hyfrydwch fy nghalon? Och! i'r dydd hwnnw fyth ddyfod, pan orfydd i mi ganu yn iach i'r pethau hyn i gyd ar unwaith, heb allel byth mwy fwynhâu yr un o honynt!" Am hynny nid heb achos mawr y dywed y gwr doeth; *O Angau, mor chwerw yw meddwl am danat ti i'r dyn a fyddo yn byw mewn heddwch yn yr hyn sy ganddo; i'r gwr a fyddo di-helbul, ac yn llwyddiannus ym mhob peth, ac i'r hwn a ddichon etto gymmeryd ei fwyd!*[1]

Mae dynion eraill, y rhai nid yw y byd hwn yn gwenu cymmaint arnynt, ond yn hytrach yn eu blino ac yn eu gorthrymmu â thlodi, clefyd, neu ryw wrthwyneb arall; etto y maent hwythau yn ofni angau, mewn rhan am fod y cnawd yn casâu yn naturiol ei drist ymddattodiad ei hun, â'r hyn y mae angau yn eu bwgwth; ac mewn rhan oblegid afiechyd a chlefydau poenus, y rhai ydynt loesau ac ing tost yn y cnawd, ac yn arferol o ddyfod ar gleifion cyn angau, neu o leiaf ynghwmni angau, pa bryd bynnag y delo.

Er bod y ddau achos yma yn fawrion ac yn bwysig yngolwg dyn bydol, drwy y rhai y cyffroir ef i ofni angau; etto mae achos arall sy lawer mwy na'r un o'r rhai y soniasom am danynt, oblegid yr hwn y mae ganddo yn sicr achos cyfiawn i ofni angau: a hynny yw, y 'stâd a'r cyflwr i'r hwn yn y diwedd y dwg angau bawb sy wedi gosod eu

[1] Eccles. 41. 1.

calonnau ar y byd hwn, heb edifaru a gwellhâu eu buchedd: gelwir y 'stâd a'r cyflwr hwn, *Yr ail Farwolaeth*;[1] yr hon a ganlyn i bawb o'r fath ddynion ar ol y farwolaeth gorphorol hon. Ac yn wir *dyma'r* angau y dylid ofni ac echrydio rhagddo; canys y mae yn golled dragywyddol a diymwared o rad a ffafr Duw, o dragywyddol lawenydd, hyfrydwch, a dedwyddwch. Ac nid yw yn unig yn golled dros byth o'r hoffderau tragywyddol hyn, ond mae hefyd yn gondemniad corph ac enaid (heb na lle i appelio, na gobaith ymwared) i boenau tragywyddol yn uffern.

I'r cyflwr hwn y danfonodd angau y gwr goludog ac annhrugarog y mae St. Luc yn son am dano yn ei Efengyl; yr hwn gan fyw mewn cyfoeth a phleser yn y byd hwn, a'i fwynhâu ei hun drwy *fyw yn helaethwych beunydd*, ac ymwisgo'n orwych, a ddirmygodd Lazarus dlawd a orweddai'n druan wrth ei borth, gwedi ei bläu yn resynus, yn llawn doluriau, ac hefyd yn dyddfu'n dost o newyn. Ond daliwyd y ddau hyn gan angau, yr hwn a ddanfonodd Lazarus, y dyn tlawd truenus, gyd âg angylion yn ebrwydd i fynwes Abraham, lle o orphwysdra, dedwyddwch, a diddanwch: ond fe ddisgynodd y goludog annhrugarog i lawr i uffern; ac yn y poenau efe a waeddodd am gysur, gan gwyno rhag y boen annïoddefol ag oedd yn ei oddef yn y fflam dân honno; ond yr oedd yn rhy hwyr.[2]—Felly i'r lle hwn y mae angau'r corph yn danfon pawb oll ag y bo eu llawenydd a'u dedwyddwch yn y byd hwn, pawb oll ag ydynt yn y byd hwn yn anffyddlon i Dduw ac anghariadol i'w cymmydogion, gan feirw felly mewn anedifeirwch, ac heb obaith am drugaredd Duw.

Am hynny nid yw ryfeddod fod y dyn bydol yn ofni angau: ac y mae iddo lawer mwy o achos i wneuthur felly nag y mae efe ei hun yn ei ystyried.

Fel hyn y gwelwn fod tri achos paham y mae dynion bydol yn ofni angau. Un, am y cânt drwyddo golli eu holl anrhydedd, cyfoeth, a'u meddiannau bydol, a holl ddymuniadau eu calonnau.—Un arall, o herwydd y clefydau poenus a'r loesau chwerwon y mae dynion yn gyffredin yn eu dïoddef naill ai cyn, neu wrth, farw.—Ond y prif achos uwchlaw pob achos arall yw ofn y cyflwr echryslon o ddamnedigaeth corph ac enaid, yr hyn y maent yn ofni iddo ddilyn ar ol iddynt ymadael â mwynderau bydol y bywyd presennol hwn.

Am yr achosion hyn y mae pob dyn (a'r sy'n ymroi i gariad y byd hwn) mewn ofn, ac mewn cyflwr o angau drwy bechod (fel y dywed y sanctaidd Apostol) tra byddont byw yn y byd hwn. Ond, dïolch tra-

[1] Dat. 20. 14. [2] St. Luc 16. 19—20.

gywyddol i'r Hollalluog Dduw dros byth, ni all yr un o'r achosion hyn, ie, ni allant oll ynghyd, wneuthur i wir Gristion ofni marw; yr hwn sy wir aelod i Grist, teml i'r Yspryd Glân, mab i Dduw, a gwir etifedd tragywyddol deyrnas y nef:[1] ond yn y gwrthwyneb mae efe 'n gweled llawer o achosion mawrion, wedi eu sicr seilio ar annhwyllodrus a thragywyddol wirionedd gair Duw, y rhai a'i cynhyrfant ef nid yn unig i ddodi ymaith ofn angau corphorol, ond hefyd i ddymuno, chwennychu, a hiraethu o galon am dano, oblegid yr aml ddoniau a'r godidog ennill a ddaw i bob dyn ffyddlon drwy angau. O herwydd ni bydd angau iddo *ef* yn angau, ond yn wir ryddhâd oddi wrth angau, oddi wrth holl boenau, gofalon, tristyd, trueni a gresyni y byd hwn; a gwir fynediad i mewn i orphwysdra, dechreuad llawenydd tragywyddol, prawf o ddigrifwch nefol, mor fawr na thraethodd tafod, *na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn* daearol i'w hamgyffred.[2] Mor ddirfawr yw y doniau, y rhai o'i unig drugaredd a chariad ar ei Fab Iesu Grist, a ddarparodd Duw, ein Tad nefol, ac a osododd i gadw i'r rhai yn ufudd a ymostyngant i'w ewyllys Ef, ac yn wastadol a'i carant Ef yn ddiffuant o ddyfnder eu calonnau.

Ac ni a ddylem gredu na ddichon angau, yr hwn a laddwyd gan Grist, ddal neb a'r a ymddiriedo yn ddisigl yn Nghrist, dan ei ormes a'i gaethiwed parhâus; ond yr adgyfyd o farwolaeth i ogoniant yn y dydd diweddaf, yr hwn a osodwyd gan yr Hollalluog Dduw, megis yr adgyfododd Crist ein Pen, wrth ordeiniad Duw, ar y trydydd dydd. Canys gan i'r Pen fyned o'r blaen, ebe St. Awstin, mae 'r aelodau yn gobeithio ei ddilyn a myned ar ei ol. A dywed St. Paul, os cyfodwyd Crist o feirw, y cyfodir ninnau hefyd.[3]

Ac er mwyn cysuro pob Cristion yn hyn o beth, geilw 'r Ysgrythyr y farwolaeth gorphorol hon yn gwsg, yn yr hwn y cymmerir synhwyrau dyn oddi arno (megis) dros amser; ac etto, pan ddihuno, mae yn fywioccach na phan aeth i'w wely. Felly er gwahanu ein heneidiau oddi wrth ein cyrph dros ennyd, etto yn yr adgyfodiad cyffredinol ni a fyddwn yn hoywach, yn harddach, ac yn berffeithiach nag ydym yn awr. Oblegid yn awr yr ydym yn farwol, ond y pryd hwnnw ni a fyddwn yn anfarwol: yr ydym yn awr wedi ein llygru gan amryw wendidau, ond yna cawn fod yn rhydd oddiwrth bob gwendid marwol: yn awr yr ydym yn gaethion i bob chwantau cnawdol, ond yna byddwn yn ysprydol oll, heb chwennychu dim ond gogoniant Duw a phethau tragywyddol.

Fel hyn y mae marwolaeth y corph yn ddrws neu fynediad i fywyd;

[1] 1 Cor. 3. 16. [2] 1 Cor. 2. 9. [3] 1 Cor. 15. 13—20.

ac am hynny (os ystyrir hi 'n iawn) nid yw gymmaint yn arswydus ag y mae yn ddiddanus: nid drwg ydyw, ond ymwared rhag pob drwg: nid gelyn, ond cyfaill: nid gorthrymmydd creulon, ond arweinydd tirion i'n tywys, nid i farwoldeb, ond i anfarwoldeb; nid i dristwch a phoen, ond i lawenydd a mwynhâd a bery yn dragywydd; os cymmerir ac os derbynir hi yn ddïolchgar megis cennad Duw, ac os dïoddefwn hi yn amyneddgar er cariad ar Grist, yr Hwn, er serch arnom ni, a ddïoddefodd y farwolaeth fwyaf poenus i'n rhyddhâu ni oddi wrth angau tragywyddol.

Yn gyttun â hyn y dywed St. Paul; *Eich bywyd a guddiwyd gyd â Christ yn Nuw: pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gyd âg Ef mewn gogoniant.*[1] Paham gan hynny yr ofnwn farw, wrth ystyried amryw a diddanus addewidion yr Efengyl a'r Ysgrythyrau Sanctaidd? *Rhoddodd Duw i ni fywyd tragywyddol,* ebe St. Ioan, *a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab Ef. Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd. Y pethau hyn a'sgrifenais attoch chwi, y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw,* meddai St. Ioan, *fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragywyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw.*[2]—A dywed ein Hiachawdwr Crist y caiff yr hwn sydd *yn credu ynddo Ef, fywyd tragywyddol; a myfi,* eb Efe, *a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.*[3]—A dywed St. Paul wneuthur Crist *i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth; fel, megis y mae yn ysgrifenedig, Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.* Ac yr oedd St. Paul yn dirmygu ac yn dibrisio pob peth arall, *ac yn eu cyfrif yn dom, fel y ceid ef yng Nghrist,*[4] ac y caffai fywyd tragywyddol, a gwir sancteiddrwydd, cyfiawnder, a phrynedigaeth. Yn ddiweddaf, mae St. Paul yn gwneuthur dadl oleu yn y modd yma; *Yr Hwn nid arbedodd ei brïod Fab, ond a'i traddododd Ef trosom ni oll, pa wedd gyd âg Ef hefyd na ddyry Efe i ni bob peth?*[5]

Am hynny, os yw Crist gennym, y mae gennym gyd âg Ef, a thrwyddo Ef, bob peth da bynnag a allom ddeisyf neu chwennychu yn ein calonnau; megis goruchafiaeth ar angau, pechod, ac uffern; mae gennym ffafr Duw, heddwch âg Ef, sancteiddrwydd, doethineb, cyfiawnder, nerth, bywyd, a phrynedigaeth; mae gennym drwyddo Ef dragywyddol iechyd, llwyddiant, a gwynfyd annherfynol.

[1] Col. 3. 4. [2] 1 St. Ioan 5. 11—13. [3] St. Ioan 6. 40. [4] Phil. 3. 8, 9. [5] Rhuf. 8. 32.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# YN ERBYN OFN ANGAU.

FE ddangoswyd i chwi o'r blaen fod tri achos paham y mae dynion yn gyffredin yn ofni marw. Y cyntaf, ymadawiad trist oddi wrth olud a hoffderau bydol. Yr ail, ofn y loesion a'r poenau sy 'n dyfod gyd âg angau. Yr achos diweddaf a'r pennaf yw, ofn arswydus trueni eithaf a damnedigaeth dragywyddol yn yr amser a ddaw.—— Ac etto nid oes yr un o'r tri achos hyn yn trallodi dynion da, am eu bod hwy yn eu cadarnhâu eu hunain drwy wir ffydd, cariad perffaith, a dïogel obaith o'r llawenydd didrangc a'r gwynfyd annherfynol.

I bawb, gan hynny, ag a uner â Christ drwy wir ffydd, dïogel obaith, a chariad perffaith, mae achos mawr i fod yn llawn o lawenydd, ac i beidio âg ofni angau na thragywyddol ddamnedigaeth. Canys ni ddichon angau eu hamddifadu o Iesu Grist, nac un pechod gondemnio y rhai sydd wedi eu sicr impio ynddo Ef, yr Hwn yw eu hunig lawenydd, eu trysor, a'u bywyd. Edifarhâwn ni am ein pechodau, gwellhâwn ein bucheddau, ymddiriedwn yn ei drugaredd a'i iawn, ac yna ni all angau ei gymmeryd Ef oddi wrthym ni, na ninnau oddi wrtho Yntau. O herwydd yna, fel y dywed St. Paul, *pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo'r Arglwydd ydym.* Ac fe ddywed eilwaith; *Er mwyn hyn y bu farw Crist ac yr adgyfododd—fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd.*[1] Wrth hynny, os ydym yn eiddo'r Arglwydd ar ol i ni farw, rhaid y canlyn, nid yn unig nad all y cyfryw farwolaeth gorphorol ein drygu, ond hefyd y bydd hi'n llawer o elw i ni, ac y cyssyllta ni yn berffeithiach â Duw.

Ac o hyn gall calon y Cristion fod yn sicr ddïogel drwy ddidwyll wirionedd yr Ysgrythyr Lân. *Yr hwn a'n gweithiodd ni i hyn yma* (sef i anfarwoldeb) ebe St. Paul, *yw Duw; yr hwn a roddodd i ni ernes yr Yspryd.*[2] Am hynny byddwn bob amser yn ddiddanus; canys gwyddom ein bod, cyhyd ag y byddom yn y corph, ym mhell (megis) oddi wrth Dduw, mewn gwlad ddïeithr, yn agored i beryglon lawer, yn rhodio heb berffaith olwg na gwybodaeth o'r Hollalluog Dduw, ond ei

[1] Rhuf. 14. 8, 9. [2] 2 Cor. 5. 5.

weled yn unig drwy ffydd yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ond y mae gennym chwant ac ewyllys i fod gartref gyd â Duw a'n Hiachawdwr Crist, ym mhell o'r corph, lle y gallom weled ei Dduwdod fel y mae, wyneb yn wyneb, er ein diddanwch annherfynol.

Dyma, mewn effaith, yw geiriau St. Paul, wrth y rhai y gallwn weled y cyffelybir ac y tebygir ein bywyd yn y byd hwn i bererindod mewn gwlad ddieithr, ym mhell oddi wrth Dduw; a bod angau, wrth ein tynnu o'r corph, yn ein danfon adref âg uniawn gyrch i'n gwlad ein hunain, ac yn gwneuthur i ni breswylio byth gyd â Duw, mewn tragywyddol orphwysdra a thawelwch; fel mai nid colled, ond elw ac ennill, yw marw i bob gwir Gristion.—— Pa beth a gollodd y lleidr a groeshoeliwyd gyd â Christ drwy ei angau corphorol? Na, pa *ennill* yn hytrach a gafodd o hono? Oni ddywedodd ein Hiachawdwr wrtho, *Heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys.*[1]—— A Lazarus, y dyn truan hwnnw, a orweddai wrth borth y gwr goludog, yn ofidus gan ddoluriau, ac yn dyddfu gan newyn, oni ddarfu i angau ei lesâu a'i ddyrchafu yntau yn fawr, yr hwn drwy weinidogaeth angylion a'i hebryngodd i fynwes Abraham, lle o orphwysdra, llawenydd, a diddanwch nefol?—— Gan hynny, Gristionogion da, na thybygwn amgen na darfod i Grist ddarparu a rhag-barottôi i ninnau yr un llawenydd a dedwyddwch ag a barottodd i Lazarus a'r lleidr.

Glynwn gan hynny wrth ei iachawdwriaeth a'i rasusol brynedigaeth Ef, credwn ei air, gwasanaethwn Ef o'n calonnau, carwn Ef, ac ufuddhâwn iddo: a pha beth bynnag a wnaethom o'r blaen yn groes i'w sancteiddiaf ewyllys Ef, edifarhâwn yn awr mewn pryd, a myfyriwn o hyn allan ar wellhâu ein buchedd; ac nac amheuwn y bydd Efe mor drugarog wrthym *ni* ag a fu wrth Lazarus a'r lleidr, esamplau y rhai sydd ysgrifenedig yn yr Ysgrythyr Lân er diddanwch y pechaduriaid ag ydynt dan dristwch, blinderau, a thrallod yn y byd hwn, fel nad anobeithiont yn nhrugaredd Duw, ond hyderu byth y cânt drwyddi faddeuant o'u pechodau a bywyd tragywyddol, fel y cafodd Lazarus a'r lleidr.

Fel hyn yr wyf yn gobeithio fod pob Cristion yn deall, drwy ddidwyll air Duw, nad all angau y corph na drygu na rhwystro y rhai sy'n gwir gredu yng Nghrist; ond yn y gwrthwyneb y gwna lesâu a dyrchafu yr enediau Cristionogol, y rhai yn wir edifeiriol am eu beiau ydynt yn ymadael oddi yma mewn cariad perffaith, ac mewn hyder sicr y bydd Duw yn drugarog wrthynt, gan faddeu eu pechodau er mwyn haeddiant ei Unig Naturiol Fab Iesu Grist.

Yr ail achos paham y mae rhai yn ofni marwolaeth, yw y clefyd tost

[1] St. Luc 23. 43.

a'r poenau trymion sy 'n dyfod weithiau *cyn* angau, ac weithiau *gyd âg* angau pa bryd bynnag y delo. Yr ofn hwn yw ofn y cnawd gwael, a theimlad naturiol yn perthyn i anian marwol ddyn. Ond y mae gwir ffydd yn addewidion Duw, a dyfal feddylied am y poenau a'r ing a ddïoddefodd Crist ar y Groes drosom ni bechaduriaid truain, ynghyd âg ystyriaeth am y llawenydd a'r bywyd tragywyddol sydd ar ddyfod yn y nef, yn esmwytho ac yn ysgafnhâu y poenau hynny, ac yn tymheru ac yn cymhedroli yr ofn hwnnw, fel na 's gallo fyth orthrechu y chwant a'r llawenydd calon sy gan enaid y Cristion i gael ei ddattod oddi wrth y corph llygredig hwn, fel y gallo ddyfod i wyddfod grasol ein Hiachawdwr Iesu Grist.—— Os ni a gredwn yn ddïysgog air Duw, cawn weled nad yw y cyfryw glefyd corphorol, gloesion angau, neu ba ryw boen gofidus bynnag arall yr ydym yn ei ddïoddef, naill ai cyn neu gyd âg angau, yn ddim arall mewn Cristionogion ond gwialen ein nefol a'n caredig Dad, â'r hon y mae 'n drugarog yn ein ceryddu, naill ai i brofi ac i egluro ffydd ei amyneddgar blant, fel y caffer hwy yn ganmoladwy, yn ogoneddus, ac yn anrhydeddus yn ei olwg, pan ddangoser ar gyhoedd mai Iesu Grist yw Barnwr yr holl fyd; neu ynte i gospi ac i ddiwygio ynddynt ba beth bynnag sy 'n tramgwyddo ei dadol a'i rasusol ddaioni Ef, rhag iddynt fod yn golledig yn dragywydd. Ac y mae ei wialen geryddol hon yn perthyn yn gyffredinol i bawb ag sy mewn gwirionedd yn eiddo Ef.

Taflwn ymaith, gan hynny, faich pechod ag sy 'n gorwedd yn rhy drwm ar ein gyddfau, a thrown at Dduw trwy wir edifeirwch a diwygiad buchedd: *trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen*, gan ddïoddef (er mwyn yr hwn a fu farw er ein hiachawdwriaeth) holl ofidiau a phoenau angau, ac angau ei hun, yn llawen, pan ddanfono Duw ef attom, â'n llygaid wedi eu sicrhâu yn sefydlog *ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni; yr Hwn yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddïoddefodd y Groes, gan ddiystyru gwaradwydd;*[1] ac yn wirfoddol a luniodd ac a gydffurfiodd ei ewyllys ei hun âg ewyllys ei Dad; ac er ei fod yn ddiniwed ac yn ddifeius, a ddïoddefodd waradwyddusaf a phoenediccaf angau 'r Groes: am yr hyn y mae Efe yn awr yn ddyrchafedig yn y nefoedd, ac yn *eistedd yn dragywydd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw Dad.*

Gan hynny galwn i gof fywyd a llawenydd y nef, sydd ynghadw i bawb a ddïoddefant yn amyneddgar yma gyd â Christ, ac ystyriwn i Grist ddïoddef ei holl arteithiau poenus *gan* bechaduriaid, a *thros* bechaduriaid, ac yna ni a ddïoddefwn yn haws, a chyd âg amynedd, y cyf-

[1] Heb. 12. 1, 2.

ryw ofidiau a phoenau, pan ddelont. *Na ddirmygwn gerydd yr Arglwydd*, na rwgnachwn yn ei erbyn, ac na chwympwn oddi wrtho, *pan y'n hargyhoedder ganddo: canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu, ac yn fflangellu pob mab a dderbynio. Pa fab sydd*, ebe St. Paul, *yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu? Os heb gerydd yr ydych, o'r hon y mae pawb* o anwyl a gwir blant Duw *yn gyfrannog, yna bastardiaid ydych*, yn ddibarch gan Dduw, *ac nid meibion.*[1]

Gan hynny, gan fod gennym *dadau ein cnawd i'n ceryddu*, a'n bod yn eu hofni hwy, ac yn cymmeryd eu cerydd yn barchus, *onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysprydoedd*, drwy yr Hwn y mae gennym fywyd tragywyddol? Ac y mae tadau ein cnawd yn ein ceryddu weithiau *fel y gwelont hwy yn dda*, heb achos: ond y mae ein Tad nefol yn ein ceryddu yn gyfiawn, naill ai am ein pechod, o fwriad ar fod i ni wellhâu, neu ynte *er llesâd i ni, fel y byddom gyfrannogion o'i sancteiddrwydd Ef.*[2]

Ym mhellach; *ni welir un cerydd* a ddanfono Duw arnom *dros yr amser presennol yn hyfryd* a chysurus, *eithr yn anhyfryd* a phoenus; etto mae'n dwyn gyd âg ef flas o drugaredd a daioni Duw i'r neb a gerydder felly, a sicr obaith o dragywyddol ddiddanwch Duw yn y nef.[3] Gan hynny, onid yw y gofidiau, y clefydau, a'r afiechyd yma, ac hefyd angau ei hun, yn ddim ond gwialen ein Tad nefol, drwy yr hon y mae yn ein sicrhâu ni o'i gariad a'i rasol ffafr, a thrwy yr hon y mae yn ein profi ac yn ein puro, a thrwy yr hon y mae'n rhoi sancteiddrwydd i ni, ac yn ein sicrhâu ein bod ni yn blant iddo Ef, ac Yntau yn drugarog Dad i ninnau; oni wnawn ni, gyd â phob gostyngeiddrwydd, fel ufudd a chariadus blant, gusanu gwialen ein Tad nefol yn llawen? gan ddywedyd yn wastad yn ein calonnau, gyd â'n Hiachawdwr Iesu Grist,—O Dad, oni all yr ing a'r gofid yr ydwyf yn eu teimlo, a'r angau a welaf yn nesâu, fyned heibio oddi wrthyf, ond bod dy ewyllys Di i mi eu dioddef, NID FY EWYLLYS I, OND YR EIDDOT TI A WNELER.[4]

[1] Heb. 12. 5, 8. [2] Heb. 12. 9, 10. [3] Heb. 12. 11. [4] St. Luc 22. 42.

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

# YN ERBYN OFN ANGAU.

YN y Bregeth hon yn erbyn ofn angau, fe ddangoswyd dau achos ag sy 'n gyffredin yn peri i ddynion bydol fawr ofni marw, y rhai er hynny nid ydynt yn trallodi dim ar y ffyddloniaid a'r rhai sy 'n byw yn dduwiol, pan ddelo angau, ond yn hytrach maent yn rhoi iddynt achlysur i fawr lawenhâu, wrth ystyried y cânt eu rhyddhâu oddi wrth dristyd a thrueni 'r byd hwn, a'u dwyn i fawr lawenydd a dedwyddyd y bywyd a ddaw.

Yn awr y trydydd a'r hyspysol achos pahàm y mae angau mewn gwirionedd yn beth yw ofni yw, gresynus gyflwr pobl fydol ac annuwiol ar ol eu marw. Ond nid yw hyn achos yn y byd i bobl dduwiol a ffyddlon i ofni angau, ond yn hytrach yn y gwrthwyneb: fe ddylai eu hymddygiad duwiol yn y bywyd hwn, a'u cred yng Nghrist, a'u gwastadol ymlyniad wrth éi haeddedigaethau Ef, wneuthur iddynt hiraethu 'n fawr am y bywyd hwnnw ag sy 'n ddïammeu yn eu haros ar ol yr angau corphorol hwn.

Ynghylch y cyflwr anfarwol hwn (ar ol y bywyd trangcedig yma) lle y cawn fyw byth yngwydd Duw mewn llawenydd a gorphwysdra, wedi buddugoliaethu ar bob clefyd, tristwch, pechod, ac angau; mae llawer o leoedd goleu yn yr Ysgrythyr Lân, i gadarnhâu cydwybod wan yn erbyn ofn pob cyfryw ofidiau, clefydau, pechod, a chorphorol angau, i dawelu y fath echryd ac annuwiol ofn, ac i'n calonnogi ni â chysur a gobaith bendigaid gyflwr ar ol y bywyd hwn. Mae St. Paul yn dymuno i'r Ephesiaid *ar i Dduw, Tad y gogoniant, roddi iddynt Yspryd doethineb a datguddiad, trwy ei adnabod Ef; wedi goleuo llygaid eu meddyliau, fel y gwypent beth oedd gobaith ei alwedigaeth Ef, a pheth oedd golud gogoniant ei etifeddiaeth Ef yn y saint.*[1] A dengys St. Paul ei hun ddymuniad ei galon, sef cael *ei ddattod* o'r corph, *a bod gyd â Christ; canys*, eb efe, *llawer iawn gwell ydyw*, er bod *aros yn y cnawd yn fwy angenrheidiol o'u plegid hwy*,[2] yr hyn nid yw efe, er eu mwyn, yn gwrthod ei wneuthur. Fel ag y dywedodd St. Martin;

[1] Ephes. I. 17, 18. [2] Phil. I. 23, 24.

O Arglwydd daionus, os ydwyf yn angenrheidiol i'th bobl Di i wneuthur da iddynt, ni wrthodaf ddim llafur: ond os amgen, o'm rhan i fy hun, yr wyf yn attolwg i Ti gymmeryd fy enaid.

Yn awr am y tadau sanctaidd dan yr hen gyfraith, a'r holl ffyddloniaid a'r cyfiawnion ag a fuant feirw *cyn* esgyniad ein Hiachawdwr Crist i'r nef, hwy a ymadawsant drwy angau o drallod i esmwythder, o ddwylaw eu gelynion i ddwylaw Duw, o dristwch a chlefydau i lawen orphwysfa ym mynwes Abraham, lle o bob cysur a diddanwch; megis y mae'r Ysgrythyrau mewn geiriau amlwg yn eglur dystiolaethu. *Mae eneidiau y rhai cyfiawn*, ebe Llyfr y Doethineb, *yn llaw Duw; ac ni chyffwrdd cystudd â hwynt. Y rhai anghall oedd yn tybied eu bod hwy yn meirw, a drwg y cyfrifid eu diwedd hwynt, a'u mynediad oddi wrthym ni yn ddinystr: eithr y maent hwy mewn heddwch.* A dywed lle arall; *Y mae y cyfiawn yn byw byth, a chyd â'r Arglwydd y mae eu gwobr hwynt, a chan y Goruchaf y mae gofal am danynt hwy: am hynny y cânt hwy ar law yr Arglwydd deyrnas hardd a choron deg.* Ac mewn lle arall dywed yr un Llyfr; *Er marw o'r cyfiawn yn ddisymmwth, efe a fydd mewn esmwythdra er hynny.*[1]—— Mae geiriau Crist mor eglur am fynwes Abraham, fel na raid i un Cristion wrth gadarnach prawf yn ei gylch.

Yn awr ynte, os dyma gyflwr y tadau sanctaidd a'r cyfiawnion cyn dyfodiad a gogoneddiad ein Hiachawdwr, pa faint mwy y dylai fod gennym ni oll ffydd safadwy a sicr obaith o'r cyflwr bendigaid hwn, ar ol ein hangau *ni*, gan fod ein Hiachawdwr yn awr wedi cyflawni holl waith ein prynedigaeth yn gyfan eisoes, ac wedi esgyn yn ogoneddus i'r nef, i barottôi trigleoedd i ni gyd âg Ef, ac wedi dywedyd wrth ei Dad, *Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyd â myfi.*[2] Ac ni a wyddom, pa beth bynnag a ewyllysio Crist, fod ei Dad yn ewyllysio yr unrhyw; am hynny os byddwn ni yn ffyddlon weision iddo Ef, ni ddichon na chaiff ein heneidiau fod gyd âg Ef, ar ol i ni ymadael a'r bywyd presennol hwn.—— Pan labyddiwyd St. Stephan i farwolaeth, am beth yr oedd yn meddwl fwyaf hyd yn nod ynghanol ei arteithiau? *Ac efe yn gyflawn o'r Ysbryd Glân*, (medd yr Ysgrythyr) *a edrychodd yn ddyfal tu a'r nef; ac a welodd ogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw.* Yr hwn wirionedd ar ol iddo ei gyffesu yn eofn yngwydd gelynion Crist, hwy *a'i bwriasant allan o'r ddinas, ac a'i llabyddiasant, ac efe yn galw ar Dduw, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd.*[3] Ac oni ddywed ein Hiachawdwr yn eglur yn Efengyl St. Ioan; *Yn wir, yn*

[1] Doeth. 3. 1, 3. a 5. 15, 16. a 4. 7. [2] St. Ioan 17. 24. [3] Act. 7. 55—59.

*wir, meddaf i chwi, y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm danfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.*[1] Ac oni chyfrifwn ni y farwolaeth honno 'n werthfawr, drwy 'r hon yr ydym yn myned drwodd i fywyd?—— Am hynny gwir yw dywediad y Prophwyd; *Gwerthfawr yngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint Ef.*[2]

Wedi i Simeon Sanctaidd gael deisyfiad ei galon, wrth weled ein Hiachawdwr, yr hyn beth y byddai bob amser yn hiraethu am dano yn ei fywyd, efe a'i cofleidiodd, ac *a'i cymmerth Ef yn ei freichiau*, ac a ddywedodd; *Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd; canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth, yr hon a barottoaist ger bron wyneb yr holl genhedloedd.*[3] Uniawn, ynte, yr ydys yn galw angau y cyfiawn yn *dangnefedd*, ac yn fendith yr Arglwydd; fel y dywed yr Eglwys yn enw y cyfiawnion a ymadawsant â'r byd hwn; *Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa; canys yr Arglwydd fu dda wrthyt.*[4]

Ac yr ydym yn gweled wrth yr Ysgrythyr Lân a hen hanesion eraill y Merthyri, na byddai dynion sanctaidd, ffyddlon, a chyfiawn, *ar ol* esgyniad Crist, yn ammeu nad oeddynt yn eu marwolaeth yn myned yn yr yspryd at Grist, yr Hwn yw ein bywyd, ein hiechyd, ein golud, a'n hiachawdwriaeth ni. Fe welodd St. Ioan yn ei sanctaidd Ddatguddiad bedair mil a saith ugeinmil o wyryfon, am y rhai y dywedodd, *Y rhai hyn yw y rhai sy'n dilyn yr Oen pa le bynnag yr elo.* Ac yn fuan ar ol hynny yn yr un bennod efe a ddywed; *Ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Yspryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt:*[5] felly hwy a gânt y pryd hynny fedi mewn llawenydd a chysur yr hyn a hauasant mewn llafur a phoen. *Yr hwn sydd yn hau i'r Yspryd, o'r Yspryd a fed fywyd tragywyddol:* am hynny *yn gwneuthur daioni na ddïogwn; canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn*, mewn llawenydd tragywyddol. *Am hynny*, fel yr annoga St. Paul ni, *tra 'r ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb.*[6] Ac *na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear, lle mae gwyfyn a rhwd yn llygru,*[7] yr hwn *rwd*, ebe St. Iago, *a fydd yn dystiolaeth yn eich erbyn chwi* yn y dydd mawr, a'ch condemnia chwi, *ac a fwytty eich cnawd chwi fel tân* llosgedig.[8] Ymochelwn, gan hynny, os carwn ein llwyddiunt ein hunain, rhag bod o nifer y dynion truenus, cybyddlyd, ac annedwydd hynny, ag y mae St. Iago yn erchi iddynt *wylo ac udo am eu trueni sy'n dyfod arnynt*, o achos casglu 'n drachwantus a chadw 'n annuwiol eu da bydol.[9]

[1] St. Ioan 5. 24. [2] Ps 116. 15. [3] St. Luc 2. 29–31. [4] Ps. 116. 7. [5] Dat. 14. 4, 13. [6] Gal. 6. 8--10. [7] St. Mat. 6. 19. [8] St. Iago 5. 3. [9] St. Iago 5. 1.

Byddwn ddoethion mewn pryd, a dysgwn ddilyn esampl gall y goruchwyliwr anghyfiawn: trefnwn yn synhwyrol ein heiddo a'n meddiannau a ymddiriedwyd i ni yma gan Dduw dros dymmor, fel y gallom ni wrando ac ufuddhâu gorchymyn ein Hiachawdwr Crist: *Yr wyf yn dywedyd i chwi,* meddai, *Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn, fel y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll.*[1] Gelwir mammon, neu gyfoeth, yn *anghyfiawn,* am fod y byd yn ei gamarfer i bob math o anghyfiawnder; er ei fod o hono ei hun yn ddaionus rodd Duw, ac yn offeryn drwy yr hwn y mae gweision Duw yn ei wasanaethu Ef yn gywir wrth ei ddefnyddio. Nid yw 'n gorchymyn iddynt wneuthur cyfeillion cyfoethog, a mynnu iddynt eu hunain uchel-fraint a dyrchafiaeth bydol, na rhoi anrhegion mawrion i wŷr goludog nad oes eu heisiau arnynt; ond gwneuthur iddynt gyfeillion o'r dynion tlodion ac anghenus; i'r rhai beth bynnag a roddant, mae Crist yn ei gymmeryd megis pe rhoddid hynny iddo Ef ei Hun. Ac i'r cyfeillion hynny rhydd Crist yn ei Efengyl anrhydedd ac urddas mor fawr, fel y dywed y *derbyniant i'w tragywyddol bebyll* y sawl a wnelont ddaioni iddynt: nid mai *dynion* fydd yn wobrwywŷr i ni am y daioni a wnelom, ond mai *Crist* a'n gwobrwya, ac y cymmer Efe ba beth bynnag a wnelom i'r cyfryw gyfeillion, megis pe gwnelsem hynny iddo Ef ei Hun.

Fel hyn wrth wneuthur tlodion truain yn gyfeillion i ni, yr ydym yn gwneuthur ein Hiachawdwr Crist yn gyfaill i ni, aelodau yr Hwn ydynt hwy: ac fel y mae Efe 'n cymmeryd eu hadfyd hwy yn adfyd iddo ei Hun; felly hefyd y mae 'n ystyried eu cynnorthwyad, eu cysurhâd, a'u cyfnerthiad hwy, yn gynnorthwyad, yn gysurhâd, ac yn gyfnerthiad iddo Ef ei Hun; ac Efe a rydd i ni gymmaint o ddïolch a gwobr am y daioni a ddangosom iddynt hwy, a phe derbyniasai Efe ei Hun y cyffelyb gymmwynas ar ein llaw, fel y tystiolaetha yn yr Efengyl, gan ddywedyd, *Yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i Mi y gwnaethoch.*[2]

Am hynny edrychwn yn ddyfal na ddiffygio ein ffydd a'n gobaith a osodasom ar y Goruchaf Dduw ac ar ein Hiachawdwr Crist, ac nad oero 'r cariad yr ydym yn proffesu ei fod gennym tu ag atto; ond myfyriwn beunydd ac yn ddïesgeulus ar ddangos ein bod yn gwir anrhydeddu ac yn caru Duw, trwy gadw ei orchymynion, trwy wneuthur gweithredoedd o ddaioni i'n cymmydogion anghenus, gan gynnorthwyo drwy bob moddion ag a allom eu tlodi â'n helaethrwydd, eu hanwybodaeth â'n doethineb ac â'n dysg, a chysuro eu gwendid â'n nerth ac â'n hawdurdod; gan alw pawb yn ol oddi wrth eu drygioni drwy gyngor duwiol ac

[1] St. Luc 16. 9. [2] St. Mat. 25. 40.

esampl dda, a pharhâu yn wastad i wneuthur daioni cyhyd ag y byddom byw.

Ac felly ni bydd raid i ni ofni angau am yr un o'r tri achos rhaggrybwylledig, na chwaith am un achos arall a ellir meddylied am dano. Ond yn y gwrthwyneb, gan ystyried aml glefydau, trallod, a thristwch y bywyd presennol, peryglon yr enbyd bererindod hwn, a'r rhwystr dirfawr ag y mae ein hyspryd yn ei gael o achos y cnawd pechadurus a'r corph egwan hwn ag sy ddarostyngedig i angau; gan ystyried hefyd amryw ofidiau ac enbyd dwyll y byd hwn ar bob llaw, anesgorol falchder, trachwant, ac anlladrwydd yn amser llwyddiant; a grwgnach dïamynedd y rhai bydol yn amser adfyd; y rhai ydynt yn ddibaid yn ein cymmell ac yn tynnu oddi wrth Dduw, ein Hiachawdwr Crist, oddi wrth ein bywyd, ein dedwyddwch, ein tragywyddol lawenydd a'n hiachawdwriaeth; a chan ystyried hefyd aneirif ymgyrchiadau y diafol, ein gelyn ysprydol, ynghyd â'i holl biccellau tanllyd o uchel-frydedd, balchder, trythyllwch, gwag-ogoniant, cenfigen, malais, gogan, ac enllib, gyd â'i hudoliaethau, ei rwydau, a'i faglau aneirif eraill, drwy y rhai y mae *yn rhodio oddi amgylch* yn brysur i ddala pawb dan ei lywodraeth, *megis llew rhuadwy, gan geisio y neb a allo ei lyngcu.*[1]—— Y Cristion ffyddlon (meddaf) ag sy 'n ystyried yr holl flinderau, yr enbydrwydd, a'r rhwystrau hyn, (i'r rhai y mae yn agored tra byddo byw yma ar y ddaear); ac o'r ochr arall yn ystyried bendigaid a diddanus gyflwr y bywyd nefol sydd ar ddyfod, a melus sefyllfa y rhai sy 'n ymadael yn yr Arglwydd; y modd y gwaredir hwy oddi wrth wastadol rwystrau eu marwol gorph pechadurus, oddi wrth holl falais, hocced, a thwyll y byd hwn, ac oddi wrth holl ymosodiadau 'r diafol, eu gelyn ysprydol, i fyw mewn tangnefedd, gorphwysdra a didrangc lonyddwch, i fyw ynghyfeillach angylion aneirif, a chyd â chynnulleidfa dynion perffaith a chyfiawn, megis Patriarchiaid, Prophwydi, Merthyron, a Chyffeswŷr, ac yn ddiweddaf ym mhresennoldeb yr Hollalluog Dduw, a'n Hiachawdwr Iesu Grist: yr hwn sy 'n ystyried yr holl bethau hyn, ac yn eu credu 'n ddïammeu, fel y dylid eu credu, o waelod ei galon, wedi ei sefydlu yn Nuw yn y wir ffydd hon, a chanddo gydwybod esmwyth yng Nghrist, a chadarn obaith ac ymddiried sicr yn nhrugaredd Duw, ar gaffael o hono y tragywyddol lonyddwch, gorphwysdra, a llawenydd hwn, fe gaiff hwnnw nid yn unig fod heb ofn angau corphorol pan ddelo, ond fel y cafodd St. Paul, fe gaiff yntau yn ddïau (yn ol ewyllys Duw, a phan welo Duw yn dda ei alw ef allan o'r bywyd hwn) chwennychu 'n llawen yn ei galon gael ei ryddhâu oddi wrth yr

[1] 1 St. Petr 5. 8.

achlysuron hyn o ddrygioni, a byw byth i ryngu bodd Duw mewn perffaith ufudd-dod i'w ewyllys Ef, gyd â'n Hachubwr Iesu Grist; i'r hwn bresennoldeb grasol yr Arglwydd o'i anfeidrol drugaredd a'i ras a'n dycco ni, i deyrnasu gyd âg Ef yn y bywyd tragywyddol: i'r Hwn gyd â'n Tad nefol, a'r Yspryd Glân, y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

# ANNOGAETH

## YNGHYLCH TREFN DDA AC UFUDD-DOD I LYWODRAETHWYR A SWYDDOGION.

FE greodd ac fe osododd yr Hollalluog Dduw bob peth yn y nef, y ddaear, a'r dyfroedd, yn y drefn fwyaf rhagorol a pherffaith. Yn y nef Efe a osododd wahanol ac amryw drefniadau a graddau o Angylion ac Archangylion. Ar y ddaear Efe a osododd ac a ordeiniodd frenhinoedd, tywysogion a llywiawdwŷr eraill danynt, ym mhob trefn dda ac angenrheidiol. Yr ydys yn cadw y dwfr oddi uchod, i wlawio i lawr mewn pryd a thymmor dyladwy. Mae'r haul, y lloer, y ser, yr enfys, y daran, y fellten, y cymmylau, a holl adar yr awyr, yn cadw eu trefn. Mae 'r ddaear, y coedydd, yr hadau, y planhigion, y llysiau, yr ŷd, y glaswellt, a phob rhyw anifail, yn eu cadw eu hunain mewn trefn. Mae pob rhan o'r holl flwyddyn, megis gauaf, haf, misoedd, nosweithiau, a dyddiau, yn aros yn eu trefn. Mae pob math o bysg yn y môr, afonydd, a dyfroedd, gyd â phob ffynnon, a ffrwd, ïe, y moroedd eu hunain, yn cadw eu prydferth gylch a'u trefn. Ac y mae gan ddyn ei hun hefyd ei holl rannau oddi fewn ac oddi allan, megis enaid, calon, meddwl, cof, deall, rheswm, ymadrodd, ynghyd â phob aelod o'i gorph, mewn trefn fuddiol, angenrheidiol, a hyfryd. Ordeiniwyd i bob gradd o bobl eu dyledswydd a'u trefn yn eu galwedigaeth a'u swydd: rhai mewn gradd uchel, rhai mewn gradd isel; rhai yn frenhinoedd a thywysogion, rhai yn isafiaid ac yn ddeiliaid, yn offeiriaid ac yn llëygion, yn feistriaid ac yn wasanaethyddion, yn dadau ac yn blant, yn wŷr ac yn wragedd, yn gyfoethogion ac yn dlodion; ac yn rhaid i bob un o honynt oll wrth eu gilydd.

Felly ym mhob peth y mae daionus drefniad Duw i'w ganmol a'i glodfori, heb yr hwn ni ddichon un tŷ, un ddinas, nac un wladwriaeth na sefyll, nac aros, na pharhâu. O herwydd lle nad oes iawn drefn, mae pob camarfer, rhyddid cnawdol, afreolaeth, pechod, a chymmysgfa Babilonaidd, yn teyrnasu. Cymmerwch ymaith frenhinoedd, tywysogion, llywodraethwŷr, penswyddogion, barnwŷr, a chyfryw raddau o drefniad Duw, ac yna ni chaiff neb farchogaeth na cherdded ar y briffordd heb gael ei yspeilio; ni chaiff neb gysgu yn ei dŷ neu ei wely ei hun heb gael ei ladd; ni chaiff neb gadw ei wraig, na'i blant, na'i feddiannau mewn llonyddwch; bydd pob peth yn gyffredin: ac o hyn mae'n rhaid y dilyn pob anffawd, a chwbl ddistryw ar eneidiau, cyrph, eiddo, a gwladwriaethau.

Ond bendigedig fyddo Duw nad ydym ni yn y deyrnas hon o Loegr ddim yn teimlo y dychrynllyd flinderau, trueni, a thrychineb, ag y maent hwy oll yn ddiammeu yn eu teimlo ac yn eu dioddef, y rhai ydynt heb y drefn dduwiol hon: a moliant i Dduw ein bod ni yn cydnabod mawr a godidog ddaioni Duw tu ag attom yn hyn o ran. Mae Duw wedi danfon i ni ei rodd arbennig, ein hanwylaf arglwydd y Brenhin Iago, ynghyd â chynghor duwiol, doeth, ac anrhydeddus, gyd âg uchafiaid ac isafiaid eraill, mewn trefn dduwiol ac ardderchog.

Gan hynny, gwnawn ni, sy ddeiliaid, ein rhwymedig ddyledswyddau, gan ddïolch o galon i Dduw, a gweddïo am gadwedigaeth y drefn dduwiol hon. Ufuddhâwn oll o waelodion ein calonnau i'w holl dduwiol drefniadau, cyfreithiau, sefydliadau, cyhoeddiadau, a gorchymynion, ynghyd â'r holl dduwiol ordeiniadau eraill. Ystyriwn Ysgrythyrau yr Yspryd Glân, y rhai sy'n ein perswadio ac yn gorchymyn i ni oll fod mewn ufudd-dod yn ddarostyngedig, yn gyntaf ac yn bennaf i fawrhydi'r Brenhin, yr hwn sy Ben-llywydd ar bawb; ac yn nesaf, i'w anrhydeddus Gynghor, ac i bob Pendefigion, Penswyddogion, a Swyddwŷr eraill, y rhai a osodwyd ac a ordeiniwyd gan ddaioni Duw. Canys yr Hollalluog Dduw yw unig Awdwr a Darparydd y trefniadau a'r graddau rhag-grybwylledig hyn, megis yr ysgrifenwyd gan Dduw yn Llyfr y Dïarhebion: *Trwof fi y teyrnasa brenhinoedd, ac y barna'r pennaethiaid gyfiawnder. Trwof fi y rheola tywysogion a phendefigion, sef holl farnwyr y ddaear. Y sawl a'm carant i, a garaf finnau.*[1]—— Yma nodwn yn dda, a chofiwn, mai ordeiniadau Duw, ac nid dyn, yw uchel allu ac awdurdod brenhinoedd, a'u gwneuthuriad cyfreithiau, barnau a swyddau; ac am hynny yr adroddir mor fynych yr ymadrodd *Trwof fi.* Yma hefyd rhaid ystyried a chofio'n dda fod y drefn dda-

[1] Diar. 8. 15—17.

ionus hon wedi cael ei gosod gan ddoethineb, ffafr, a chariad Duw, o bwrpas er mwyn y sawl a'i carant Ef; ac am hynny y dywed, *Y sawl a'm carant i, a garaf finnau.*

Yn Llyfr y Doethineb hefyd gallwn yn amlwg ddysgu mai daionus rodd Duw yw gallu, awdurdod, a chadernid brenhin, wedi ei rhoi o'i fawr drugaredd i ddiddanu ein mawr drueni: canys fel hyn y darllenwn yno ddywedyd wrth frenhinoedd; *Gwrandewch, O frenhinoedd, a deallwch; O farnwŷr y ddaear, cymmerwch ddysg; rhoddwch glust, lywodraethwŷr y dyrfa: oblegid y cryfder a gawsoch chwi gan yr Arglwydd, a'r gallu gan y Goruchaf.*[1]—— Dysgwn yma hefyd gan anghelwyddog a didwyll air Duw, mai gan y Duw, yr Hwn sydd Oruchaf, yr ordeiniwyd brenhinoedd, a goruchel bennaethiaid, a swyddogion eraill; ac am hynny dysgir hwynt yma i ddyfal ymosod ac ymroi i'r wybodaeth a'r doethineb angenrheidiol i lywodraethu pobl Dduw a ymddiriedwyd dan eu rheolaeth hwy, neu y gorchymynwyd iddynt gan Dduw eu llywodraethu. Ac yma dysgir hwy hefyd gan yr Hollalluog Dduw i gydnabod dderbyn o honynt eu holl allu a'u cryfder, nid o Rufain, ond yn ddigyfrwng oddi wrth y Duw Goruchaf.

Yr ydym yn darllen yn Llyfr Deuteronomium, mai i Dduw y perthyn pob cospedigaeth, wrth yr ymadrodd hwn: *I mi y perthyn dïal, a thalu'r pwyth.*[2] Ond rhaid i ni ddeall fod yr ymadrodd hwn yn perthyn i'r Penswyddogion hefyd, y rhai sydd yn lle Duw yn gwneuthur barn, ac yn cospi, drwy gyfreithiau daionus a duwiol yma ar y ddaear. A'r lleoedd o'r Ysgrythyr y gellir tybied eu bod yn dwyn oddi ar Gristionogion yr awdurdod i farnu, cospi, a rhoi i farwolaeth, a ddylid eu deall yn y fath fodd, na ddylai un dyn (o'i awdurdod bersonol ei hun) gymmeryd arno farnu eraill, na chospi, na rhoi i farwolaeth. Ond rhaid i ni adael pob barn i Dduw, i frenhinoedd, ac i lywodraethwŷr, ac i farnwŷr danynt, y rhai ydynt swyddogion Duw i weinyddu cyfiawnder, ac wedi cael eu hawdurdod ac arfer y cleddyf drwy ganiattad Duw, wrth eglur dystiolaeth yr Ysgrythyr; fel y'n dysgir gan St. Paul, anwyl a dewisedig Apostol ein Hiachawdwr Crist, i'r hwn y dylem ufuddhâu yn ddyfal, megis yr ufuddhaem i'n Hiachawdwr Crist, pe byddai Efe yma yn bresennol. Fel hyn yr ysgrifena St. Paul at y Rhufeiniaid: *Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hynny pwy bynnag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw; a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain. Canys*

[1] Doeth. 6. 1—3. [2] Deut. 32. 35.

*tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r rhai drwg. A fynni di nad ofnech yr awdurdod? Gwna yr hyn sy dda, a thi a gai glod ganddo: canys gweinidog Duw yw efe i ti er daioni. Eithr os gwnei ddrwg, ofna; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: oblegid gweinidog Duw yw efe, dialydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Herwydd paham, anghenraid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, eithr o herwydd cydwybod hefyd. Canys am hyn yr ydych yn talu teyrnged hefyd: oblegid gwasanaethwýr Duw ydynt hwy, yn gwylied ar hyn yma.*[1]

Dysgwn yma gan St. Paul, llestr etholedig Duw, fod ar bob perchen enaid (nid yw efe yn eithrio neb, nac Offeiriad, nac Apostol, na Phrophwyd, ebe St. Chrysostom) o rwymedig ddyled, ac er mwyn cydwybod, ufudd-dod, gwarogaeth, ac ymddarostyngiad i'r awdurdodau sydd wedi eu hordeinio gan Dduw; yn gymmaint a'u bod hwy yn rhaglawiaid i Dduw, yn flaenoriaid i Dduw, yn swyddogion i Dduw, yn ddirprwywýr i Dduw, yn farnwýr i Dduw, wedi eu hordeinio gan Dduw ei Hun, oddiwrth yr Hwn yn unig y mae iddynt eu holl allu, a'u holl awdurdod. Ac nid yw yr un St. Paul yn bygwth dim llai na *barnedigaeth* i bawb anufudd a wrthwynebant yr awdurdod gyffredinol hon, yn gymmaint a'u bod yn gwrthwynebu, nid dyn, ond Duw; nid dyfais a dychymmyg dyn, ond doethineb, trefn, gallu, ac awdurdod Duw.

[1] Rhuf. 13. 1—6.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# AM UFUDD-DOD.

YN gymmaint a darfod i Dduw greu a gosod pob peth mewn trefn weddaidd, dysgwyd ni yn y rhan gyntaf o'r Bregeth hon ynghylch trefn dda ac ufudd-dod, y dylem ninnau hefyd ym mhob gwladwriaeth gadw a chynnal trefn ddyladwy, a bod yn ufudd i'r awdurdodau, eu hordeiniadau a'u cyfreithiau; ac hefyd bod pob llywodraethwr wedi cael ei ordeinio gan Dduw, er mwyn cynnal trefn dda yn y byd; ac hefyd fel y dylai y Penswyddogion ddysgu rheoli a llywodraethu yn ol deddfau Duw; a bod yr holl ddeiliaid yn rhwym i ufuddhâu iddynt megis gweinidogion Duw, ïe, er y byddont yn rhai drwg, nid yn unig o ran ofn, *eithr o herwydd cydwybod hefyd.*

Ac yma, bobl dda, nodwn oll yn ddyfal, nad yw gyfreithlon i isafiaid a deiliaid, mewn un achos, wrthwynebu a gwrthsefyll *yr awdurdodau goruchel:* o herwydd eglur yw geiriau St. Paul, fod *pwy bynnag sy'n ymosod yn erbyn yr awdurdod, yn gwrthwynebu ordinhâd Duw; a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth.* Fe gafodd ein Hiachawdwr Crist ei Hun a'i Apostolion lawer o gam ar law gwŷr drwg ac anffyddlon mewn awdurdod: etto ni ddarllenasom erioed i neb o honynt godi dim terfysg na gwrthryfel yn erbyn awdurdod; ond yr ydym yn darllen yn fynych iddynt ddïoddef yn amyneddgar bob trallodau, blinderau, athrodau, gloesau, poenau, ac angau ei hun, yn ufudd, heb na therfysgu na gwrthsefyll. Hwy a roisant eu hachos *ar yr Hwn sydd yn barnu yn gyfiawn,*[1] ac a weddïasant o galon ac yn ddifrif dros eu gelynion. Gwyddent mai ordinhâd Duw oedd awdurdod y llywodraethwŷr; ac am hynny yn eu geiriau a'u gweithredoedd hwy a ddysgent bob amser i bawb ufuddhâu iddynt, ac erioed ni ddysgasant ac ni wnaethant y gwrthwyneb. Dywedodd y barnwr drygionus Pilat wrth Grist; *Oni wyddost ti fod gennyf awdurdod i'th groeshoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhydd.* Attebodd yr Iesu; *Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod.*[2] Wrth hyn fe ddysgodd Crist yn amlwg i ni fod hyd yn nod

[1] 1 St. Petr 2. 23. [2] St. Ioan 19.1 0, 11.

llywodraethwŷr drygionus yn derbyn eu hawdurdod oddi wrth Dduw; a chan hynny nid cyfreithlon i'w deiliaid eu gwrthsefyll, er eu bod yn camarfer eu hawdurdod: anghyfreithlonach o lawer, ynte, yw i ddeiliaid sefyll yn erbyn eu Tywysogion duwiol a Christionogol, y rhai nid ydynt yn camddefnyddio eu hawdurdod, ond yn ei harferyd i ogoniant Duw, ac er budd a lles ei bobl.

Mae'r Apostol St. Petr yn gorchymyn i weision fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid, nid yn unig i'r rhai da a chyweithas, ond hefyd i'r rhai drwg ac anghyweithas; gan ddangos mai bod yn amyneddgar, a bod ar yr ochr sy'n dïoddef, ydyw *galwedigaeth* pobl Dduw; ac yno mae'n coffa dïoddefgarwch ein Hiachawdwr Crist, fel esampl i'n perswadio i fod yn ufudd i lywodraethwŷr, er y byddont yn ddrygionus ac annuwiol. Ond gwrandawn yn awr St. Petr ei hun yn llefaru, canys ei eiriau ef ei hun a sicrhâ'n cydwybod ni oreu: fel hyn y llefara efe hwynt yn ei Epistol cyntaf: *Y gweision, byddwch ddarostyngedig gyd â phob ofn i'ch meistriaid; nid yn unig i'r rhai da a chyweithas, ond i'r rhai anghyweithas hefyd. Canys hyn sy rasol, os yw neb o herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch, gan ddïoddef ar gam. Oblegid pa glod yw, os, pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? eithr os, a chwi'n gwneuthur yn dda, ac yn dïoddef, y byddwch dda eich amynedd; hyn sy rasol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch galwyd hefyd: oblegid Crist Yntau a ddïoddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ôl Ef.*[1] Mae y rhai hyn oll yn eiriau St. Petr ei hun.

Mae Dafydd sanctaidd hefyd yn dysgu i ni addysg dda yn hyn o beth, yr hwn yn fynych a erlidiwyd yn greulonaf, ac ar gam, ac yn fynych a ddodwyd mewn enbydrwydd a pherygl o'i fywyd gan y brenhin Saul a'i bobl: etto ni wrthwynebodd, ac ni arferodd na thrais na gorthrech yn erbyn y brenhin Saul, ei elyn marwol: ond efe a wnai bob amser i'w arglwydd a'i feistr y brenhin Saul, gywiraf, ddyfalaf, a ffyddlonaf wasanaeth. Yn gymmaint a phan roisai'r Arglwydd Dduw y brenhin Saul yn nwylaw Dafydd yn ei ogof ei hun, ni fynnai ei niweidio, pan allasai yn hawdd ei ladd ef, heb ddim perygl iddo ei hun: ïe, ni oddefai i neb o'i weision ddodi unwaith eu llaw ar y brenhin Saul, ond efe a weddïodd ar Dduw fel hyn: Arglwydd, cadw fi rhag gwneuthur hyn i'm meistr, enneiniog yr Arglwydd; cadw fi rhag estyn fy llaw yn ei erbyn, oblegid enneiniog yr Arglwydd yw efe: canys fel mai byw yr Arglwydd, (oni thery'r Arglwydd ef, neu oni ddaw ei ddydd ef i ddisgyn i ryfel a chael ei ddifetha) yr Arglwydd a drugarhao wrthyf fi,

[1] 1 St. Petr 2. 18—21.

rhag i mi estyn fy llaw yn erbyn enneiniog yr Arglwydd. A phrofir yn eglur yn Llyfr cyntaf Samuel, yn gystal wrth dorriad cwrr mantell Saul, ag wrth gyffes amlwg Saul ei hun, y gallasai Dafydd ladd ei elyn y brenhin Saul.—— A phryd arall hefyd, fel y crybwyllir yn yr un Llyfr, pan oedd yr annhrugaroccaf a'r afrywioccaf frenhin Saul yn erlid Dafydd druan; rhoes Duw y brenhin Saul eilwaith yn nwylaw Dafydd, drwy fwrw 'r brenhin Saul a'i holl lu i drymgwsg. *Felly daeth Dafydd ac Abisai at y bobl liw nos: ac wele Saul yn gorwedd ac yn cysgu, a'i waywffon wedi ei gwthio i'r ddaear wrth ei obennydd ef.—— Yna dywedodd Abisai wrth Dafydd, Duw a roddes heddyw dy elyn yn dy law di: yn awr gan hynny gâd i mi ei daro ef, attolwg, â gwaywffon hyd y ddaear un waith, ac ni's ail-darawaf ef;* gan feddwl wrth hynny ei lâdd ef âg un ergyd, a bod yn sicr o hono am byth. *A Dafydd a ddywedodd wrth Abisai, Na ddifetha ef: canys pwy a estynai ei law yn erbyn enneiniog yr Arglwydd, ac a fyddai ddieuog? Dywedodd Dafydd hefyd, Fel y mae'r Arglwydd yn fyw, naill ai'r Arglwydd a'i tery ef; ai ei ddydd ef a ddaw i farw; ai efe a ddisgyn i'r rhyfel, ac a ddifethir. Yr Arglwydd a'm cadwo i rhag estyn fy llaw yn erbyn enneiniog yr Arglwydd: ond yn awr cymmer, attolwg, y waywffon sydd wrth ei obennydd ef, a'r llestr dwfr, ac awn ymaith:* ac efe a wnaeth felly.[1]—— Yma profir yn eglur, na ddylem ni wrthsefyll na drygu mewn modd yn y byd frenhin enneiniog, yr hwn yw rhaglaw a phrif swyddog Duw yn y wlad lle y byddo 'n frenhin.

Ond yma fe ddywed rhyw un ond odid, y gallasai Dafydd, er mwyn ei amddiffyn ei hun, ladd y brenhin Saul yn gyfreithlon ac â chydwybod dda. Ond gwyddai Dafydd sanctaidd na ddylasai mewn modd yn y byd wrthsefyll, niweidio, neu ladd, ei ben-arglwydd a'i frenhin: gwyddai nad oedd efe ond deiliad i Saul, er ei fod mewn ffafr fawr gyd â Duw; a'i elyn, y brenhin Saul, *allan* o ffafr Duw. Gan hynny, er cymmaint y cyffrowyd ef, etto gwrthododd yn hollol niweidio enneiniog yr Arglwydd. Ni feiddiai, rhag tramgwyddo Duw a'i gydwybod ei hun, (er cael o hono achlysur a chyfle) ddodi unwaith ei ddwylaw ar y brenhin, uchel swyddog Duw; yr hwn y gwyddai ei fod yn ddyn a gedwid (er mwyn ei swydd) i gael ei farnu a'i gospi gan Dduw yn unig: oblegid hyn y mae'n gweddïo mor fynych ac mor ddifrif na byddai iddo *estyn ei law yn erbyn enneiniog yr Arglwydd.*

Drwy y ddwy esampl hon y mae Sant Dafydd (yr hwn a enwir yn yr Ysgrythyr yn *wr wrth fodd calon Duw)* yn rhoddi rheol ac addysg gyffredinol i holl ddeiliaid y byd na wrthsafont eu harglwydd a'u brenhin

[1] 1 Sam. 24. 3—8. a 26. 5—11.

cyfreithlon; ac na chymmeront gleddyf drwy eu priod awdurdod eu hunain yn erbyn eu brenhin, enneiniog Duw, yr hwn drwy awdurdod Duw yn unig sy 'n dwyn y cleddyf i amddiffyn y da, ac i gospi 'r drwg; a'r hwn drwy gyfraith Dduw yn unig sy ganddo arferyd y cleddyf wrth ei orchymyn, i'r hwn hefyd y perthyn pob gallu, barn, rheolaeth, cerydd, a chosp, fel prif lywodraethwr ar ei holl deyrnasoedd a'i arglwyddiaethau, a hynny drwy awdurdod ac ordinhâd Duw.

Mae etto hanes ac athrawiaeth hynod yn ail Lyfr Samuel, yr hon sydd i'r un diben. Wedi darfod i ryw Amaleciad, drwy gydsyniad a gorchymyn y brenhin Saul ei hun, ladd y brenhin Saul, efe a aeth at Ddafydd, gan dybied y caffai ddiolch mawr am ei newydd, sef darfod iddo ladd gelyn angeuol Dafydd; am hynny efe a frysiodd ddywedyd i Ddafydd yr hyn a ddigwyddasai, gan ddwyn gyd âg ef goron y brenhin Saul *oedd ar ei ben ef, a'r freichled oedd am ei fraich ef*, i sicrhâu gwirionedd ei newydd. Ond mor bell oedd Dafydd dduwiol oddi wrth lawenychu am y newydd yma, fel y rhwygodd yn y man ei ddillad oddi am ei gefn, gan alaru ac wylo, a dywedyd wrth y gennad; *Pa fodd nad ofnaist ti estyn dy law i ddifetha enneiniog yr Arglwydd?* Ac yn ebrwydd gwnaeth Dafydd i un o'i weision ladd y gennad, gan ddywedyd; *Bydded dy waed ar dy ben dy hun; canys dy enau dy hun a dystiolaethodd yn dy erbyn, gan ddywedyd, Myfi a leddais enneiniog yr Arglwydd.*[1]

Gan fod yr esamplau hyn mor oleu ac eglur, mae yn anwybodaeth, gwallgofrwydd, a drygioni annioddefol i ddeiliaid wneuthur dim murmur, gwrthryfel, gwrthwynebiad, gwrthsafiad, cynnwrf, na therfysg, yn erbyn eu hanwylaf a'u hofnadwy arglwydd frenhin, a ordeiniwyd ac a osodwyd gan ddaioni Duw er mwyn eu llesâd, a'u heddwch, a'u llonyddwch.

Er hynny credwn yn ddiammeu, bobl dda Gristionogol, na ddylem ufuddhâu i na brenhinoedd, na phenswyddogion, na neb arall, (er pe baent ein tadau ein hunain) os gorchymynant i ni wneuthur dim yn groes i orchymynion Duw. Yn y cyfryw achos dylem ddywedyd gyd â'r Apostolion: *Rhaid yw ufuddhâu i Dduw yn fwy nag i ddynion.*[2] Ond etto, yn yr achos hwnnw, ni wiw i ni mewn un modd yn drahaus wrthsefyll na gwrthryfela yn erbyn llywodraethwŷr, na gwneuthur dim terfysg, neu gynnwrf, neu gythrwfl, yn erbyn enneiniog yr Arglwydd, na neb o'i swyddogion: ond rhaid i ni yn y cyfryw achos ddioddef yn amyneddgar bob trais a chamwri, gan adael barn ein hachos ar Dduw yn unig.

[1] 2 Sam. 1. 2—16. [2] Act. 5. 29.

**Ofnwn arswydus gosp yr Hollalluog Dduw yn erbyn bradwŷr a gwrthryfelwŷr, wrth esampl Corah, Dathan, ac Abiram, y rhai a wrthsafasant ac a rwgnachasant yn erbyn swyddogion Duw, ac am hynny *agorodd y ddaear ei safn, ac a'u llyngcodd hwynt yn fyw.*[1]—— Eraill, am eu drwg furmur a'u gwrthryfel, a ddifawyd â thân disymmwth o anfoniad Duw:—eraill, am eu hymddygiad gwrthnysig at eu rheolwŷr a'u llywodraethwŷr, gweinidogion Duw, a darawyd yn ddiattreg â brwnt wahan-glwyf:—eraill a frathwyd i farwolaeth gan seirph tanllyd aruthr a dïeithrol:—eraill a bläwyd yn dost, fel y lladdwyd mewn un diwrnod bedair mil ar ddeg a saith gant o rifedi, am wrthryfela yn erbyn y rhai a osodasai Duw mewn awdurdod:—Absalom hefyd, am wrthryfela yn erbyn ei dad, y brenhin Dafydd, a gospwyd â marwolaeth ryfedd a nodedig.**

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

# AM UFUDD-DOD.

CHWI a glywsoch o'r blaen, yn y Bregeth hon am drefn dda ac ufudd-dod, brofi 'n amlwg wrth yr Ysgrythyrau ac esamplau, fod pob deiliaid yn rhwymedig i ufuddhâu i'w Penswyddogion, ac na ddylai neb am un achos wrthsefyll, na gwrthryfela, na gwneuthur dim terfysg, yn eu herbyn, ïe, er pe byddent yn ddynion drwg.

Ac na thybyged neb y gall efe ddïangc yn ddigosp, a'r a wnel frad, cydfradwriaeth, neu wrthryfel yn erbyn ei ben-arglwydd frenhin, er dirgeled y gwnelo efe yr unrhyw, mewn meddwl, gair, neu weithred; er cyfrinacholed fyddo yn ei ystafell ddirgel wrtho ei hun, neu ynte wrth ymddiddan ac ymgynghori âg eraill yn gyhoeddus. Canys ni ellir celu bradwriaeth; daw bradwriaeth i'r goleu yn y diwedd. Fe fyn Duw ddwyn allan a chospi yr atgasaf fai hwnnw, am ei fod mor union-gyrchol yn erbyn ei ordeiniad Ef, ac yn erbyn ei brif uchel farnwr a'i enneiniog ar y ddaear. Mae 'r trais a'r cam a wneler yn erbyn awdurdod, yn cael ei wneuthur yn erbyn Duw, y wladwriaeth, a'r holl deyrnas; a myn Duw ei gael allan a'i gospi, ryw ffordd neu gilydd, yn ol ei haeddiant. Canys gwych yr ysgrifenodd y Gwr Doeth yn yr Ysgrythyr, yn

[1] Num. 16. 32.

y Llyfr a elwir y Pregethwr; *Na felldithia'r brenhin yn dy feddwl, ac yn ystafell dy wely na felldithia'r cyfoethog; canys ehediad yr awyr a gyhoedda'r llais, a pherchen adain a fynega'r peth.*[1]

Ysgrifenwyd yr addysgiadau a'r esamplau hyn er addysg i ni. Ofned pawb o honom gan hynny rhag atgasaf bechod gwrthryfel; gan wybod a chofio'n wastadol fod y neb a wrthwynebo'r awdurdod gyffredin, yn gwrthwynebu Duw a'i ordinhâd, megis y gellir profi wrth lawer o fannau eraill o'r Ysgrythyr Lân.

Ac yma, am y lleoedd hyn a'r cyffelyb, (ag sy mor gaeth yn gorchymyn ufudd-dod i bennaethiaid, ac mor lym yn cospi gwrthryfel, ac anufudd-dod i'r unrhyw) edrychwn na ddeallom mo honynt fel yn perthyn ar ammod yn y byd i awdurdod ffuantus Esgob Rhufain. Canys yn wir nid yw Ysgrythyr Duw yn arddel dim o'r fath awdurdod draws-feddiannol, llawn o afreolaeth, camarferion, a chableddau. Ond gwir ystyr y lleoedd hyn a'r cyffelyb, yw dyrchafu a gosod allan wir ordinhâd Duw, ac awdurdod brenhinoedd enneiniog Duw, a'u swyddogion a osodwyd danynt.

Ac am draws-feddiannol awdurdod Esgob Rhufain, i'r hon y mae efe yn anghyfiawnaf yn honni hawl fel olynydd Crist a Phetr, gallwn yn hawdd weled mor ffals, ffugiol, a ffuantus ydyw, nid yn unig am nad oes iddi sail ddigonol yn yr Ysgrythyr Lân, ond hefyd wrth ei ffrwythau a'i hathrawiaeth. Oblegid mae ein Hiachawdwr Crist a St. Petr yn ddifrifolaf ac yn gyttun â'u gilydd yn dysgu ufudd-dod i frenhinoedd, megis prif a goruchaf lywodraethwŷr yn y byd hwn, yn nesaf dan Dduw: ond mae Esgob Rhufain yn dysgu fod y rhai sy dano ef yn rhyddion oddi wrth holl feichiau a chostau y wladwriaeth, ac oddi wrth ufudd-dod i'w tywysog, yn hollol groes i athrawiaeth Crist a St. Petr.

Am hynny dylai yn hytrach gael ei alw yn Anghrist, ac yn olynydd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nag yn Ficar Crist, neu olynydd St. Petr; gan mai nid yn y pwngc hwn yn unig, ond mewn matterion trymion eraill o'r Grefydd Gristionogol, matterion o ollyngdod a maddeuant pechodau, ac iachawdwriaeth, y mae'n dysgu mor groes yn erbyn St. Petr a'n Hiachawdwr Crist, y rhai nid yn unig a *ddysgasant* ufudd-dod i frenhinoedd, ond hefyd a *arferasant* ufudd-dod yn eu hymarweddiad a'u buchedd; o herwydd yr ydym yn darllen dalu o honynt ill dau deyrnged i'r brenhin:[2] megis y darllenwn hefyd i'r Sanctaidd Forwyn Fair, Mam ein Hiachawdwr Crist, ac i Joseph, yr hwn y tybid ei fod yn dad iddo, ar orchymyn yr Ymherawdwr, fyned ill dau i ddinas Dafydd, yr hon a elwid Bethlehem, i'w trethu gyd âg eraill, ac i

[1] Preg. 10. 20. [2] St. Mat. 17. 27.

ddangos eu hufudd-dod i'r Penswyddogion er mwyn ordinhâd Duw. —— Ac yma nac anghofiwn ufudd-dod y Fendigaid Forwyn Fair. Canys er ei bod yn uchel yn ffafr Duw, ac yn Fam naturiol i Grist, ac yn feichiog hefyd yr un pryd, a'i thymp mor agos, fel yr esgorodd hi ar ei thaith, etto hi yn llawen, heb nac esgus na grwgnach, (er mwyn cydwybod) a gymmerodd y daith honno yn oerfel a dryccin y gauaf, er ei bod hi mor dlawd ar y pryd, ag y gorweddodd mewn ystabl; ac yno yr esgorodd hi ar Grist.

Ac yn ol yr unrhyw, gwelwch fel y cyttuna St. Petr, gan ysgrifenu mewn geiriau eglur yn ei Epistol cyntaf: *Ymddarostyngwch*, eb efe, *i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenhin, megis goruchaf; ai i'r llywiawdwŷr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er dial ar y drwg-weithredwŷr, a mawl i'r gweithredwŷr da. Canys felly y mae ewyllys Duw.* Mae y geiriau hyn mor amlwg o honynt eu hunain, fel nad rhaid i mi eu hesponio. Nid yw St. Petr yn dywedyd, Ymddarostyngwch *i mi* megis pen goruchaf yr Eglwys; nid yw yn dywedyd chwaith, Ymddarostyngwch o bryd i bryd i'm *holynwŷr* yn Rhufain: ond efe a ddywed, Ymddarostyngwch i'ch brenhin, eich pen goruchaf, ac i'r rhai a osodo efe mewn awdurdod dano; canys ewyllys Duw ydyw i chwi felly ddangos eich ufudd-dod: ewyllys Duw yw bod o honoch mewn ymddarostyngiad i'ch pen a'ch brenhin. Hyn yw ordinhâd Duw, gorchymyn Duw, a sanctaidd ewyllys Duw, fod i holl gorph pob teyrnas, ac i holl aelodau a rhannau yr unrhyw, fod yn ddarostyngedig i'w pen, eu brenhin; a hynny (fel yr ysgrifena St. Petr) *o herwydd yr Arglwydd;*[1] ac (fel yr ysgrifena St. Paul) *nid yn unig o herwydd llid, ond o herwydd cydwybod hefyd.*[2]

Fel hyn y dysgwn gan air Duw roi i'n brenhin yr hyn sydd ddyledus i'n brenhin; hynny yw, anrhydedd, ufudd-dod, trethi, defodau, teyrnged, cynnorthwyau, cariad ac ofn. Fel hyn ni a wyddom mewn rhan ein rhwymedig ddyledswyddau i'r awdurdod gyffredin; ac yn awr dysgwn gyflawni yr unrhyw.

A gweddïwn yn daer ac o galon ar Dduw, unig Roddwr pob awdurdod, dros bawb sy mewn awdurdod, fel y mynnai St. Paul i ni wneuthur, yr hwn a ysgrifenodd at Timotheus yn ei Epistol cyntaf fel hyn: *Cynghori yr ydwyf ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, a thalu diolch, dros bob dyn: dros frenhinoedd, a phawb sy mewn goruchafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol mewn pob duwioldeb ac onestrwydd: canys hyn sy dda a chymmeradwy ger bron Duw ein Ceidwad.*[3] Yma mae St. Paul yn ddifrif ac yn hyspysol

[1] 1 St. Petr 2. 13. [2] Rhuf. 13. 5. [3] 1 Tim. 2. 1—3.

yn annog ynghylch rhoi dïolch a gweddïo dros frenhinoedd a llywiawdwŷr, gan ddywedyd, *Ym mlaen pob peth;* megis pe dywedasai, *Yn bennaf ac yn enwediccaf dim,* gwneler gweddïau dros frenhinoedd.

Dïolchwn o galon i Dduw am ei fawr a'i odidog rodd a'i ragddarbodaeth ynghylch ystâd brenhinoedd.—— Gweddïwn drostynt, ar fod ewyllys da Duw a'i amddiffyniad tu ag attynt.—— Gweddïwn ar fod Duw bob amser ac ym mhob peth o flaen eu llygaid.—— Gweddïwn ar fod ganddynt ddoethineb, nerth, cyfiawnder, llarieidd-dra, a zel dros ogoniant Duw a gwirionedd Duw, dros eneidiau Cristionogion, a thros y wladwriaeth.—— Gweddïwn ar fod iddynt iawn arfer eu cleddyf a'u hawdurdod i gynnal ac amddiffyn y Ffydd Gatholig a gynhwysir yn yr Ysgrythyr Lân, a'u deiliaid da ac onest, ac i ddychrynu a chospi pobl ddrwg ac afreolus.—— Gweddïwn ar iddynt yn ffydddlonaf ddilyn y brenhinoedd a'r blaenoriaid yn y Bibl, Dafydd, Hezecïah, Josïah, a Moses, a chyfryw eraill cyffelyb.—— A gweddïwn drosom ein hunain, ar fod i ni fyw yn dduwiol mewn ymarweddiad sanctaidd a Christionogol: felly cawn Dduw o'n plaid, ac yna nid rhaid i ni ofni beth a wnel dyn i'n herbyn: felly cawn fyw mewn gwir ufudd-dod i'n trugaroccaf Frenhin yn y nef, ac i'n Cristianusaf frenhin ar y ddaear: felly y rhyngwn fodd i Dduw, ac y cawn fawr-lles heddwch cydwybod a llonyddwch tawel yma yn y byd hwn, ac ar ol y fuchedd hon cawn fwynhâu bywyd a fo gwell, a gorphwysdra, tangnefedd, a gwynfyd tragywyddol y nef: yr hyn beth caniattaed Efe i ni oll, yr Hwn a fu yn ufudd drosom ni oll hyd angau 'r Groes, Iesu Grist; i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

# PREGETH

## YN ERBYN PUTTEINDRA AC AFLENDID.

ER nad oes ddiffyg, bobl dda Gristionogol, o heidiau mawrion o bob drygioni yn haeddu cael eu ceryddu, (mor adfeiliedig y mae gwir dduwioldeb a buchedd rinweddol wedi myned yn bresennol!) etto uwchlaw pob drygioni arall, y mae anferth lifeiriant godineb (neu dor-priodas) putteindra, anlladrwydd, ac aflendid, nid yn unig wedi torri i mewn, ond hefyd wedi gorllifo bron dros yr holl fyd, er mawr ddianrhydedd ar Dduw, dirfawr warth ar enw Crist, dirywiad nodedig ar wir grefydd, a llwyr ddinystr ar lwyddiant y wladwriaeth; a hynny mor helaeth, nes, drwy arfer gyffredin o hono, y mae y pechod wedi tyfu i'r fath uchder, fel ryw fodd na chyfrifir mo hono gan lawer yn bechod o gwbl, ond yn hytrach yn ddifyrrwch, cellwair, a dim ond nwyfiant ieuengctyd: yn lle ei geryddu, mae 'n cael ei ganiattâu; yn lle ei gospi, yr ydys yn chwerthin o'i blegid.

Anghenraid yw gan hynny ar hyn o bryd draethu wrthych am y pechod o odineb a phutteindra, a dangos i chwi gymmaint, ac atgased, a ffieiddied pechod ydyw, ac y cyfrifwyd ef bob amser ger bron Duw a phob dyn da, ac mor llym y mae wedi cael ei gospi gan ddeddf Duw a chyfreithiau llawer o dywysogion.

Drachefn, i ddangos i chwi gyfarwyddiadau sicr drwy y rhai y gellwch (drwy ras Duw) ochelyd yr atgasaf bechod o odineb a thrythyllwch, ac arwain eich bucheddau ym mhob onestrwydd a glendid, a gweled fod putteindra a godineb yngolwg Duw yn bechodau o'r fath ffieiddiaf, chwi a elwch i gof orchymyn Duw, NA WNA ODINEB:[1] wrth yr hwn air, *godineb*, er mai ei briodol ystyr yw, ymgyssylltiad anghyfreithlon gwr priod â rhyw fenyw heblaw ei wraig ei hun, neu ymgyssylltiad gwraig â rhyw ddyn heblaw ei gwr ei hun; etto wrth y gair hwn yr arwyddoceir pob arferiad anghyfreithlon o'r rhannau hynny a ordeiniwyd at genhedliad. Ac mae 'r un gorchymyn hwn (sy 'n gwahardd godineb) yn ddigon i ddarlunio ac i osod ger bron ein llygaid fawredd y

[1] Exod. 20. 14.

pechod hwn o butteindra, ac yn dangos yn oleu gymmaint y dylid ei ffieiddio gan bob dyn onest a ffyddlon. A rhag i neb o honom ei feddwl ei hun yn eithredig oddiwrth y gorchymyn hwn, pa un bynnag a fyddom ai hen ai ieuangc, ai priod ai dibriod, ai gwr ai gwraig, gwrandewch beth a ddywed Duw Dad drwy ei odidoccaf Brophwyd Moses; *Na fydded puttain o ferched Israel, ac na fydded putteiniwr o feibion Israel.*[1] Yma fe waherddir putteindra, godineb, a phob aflendid arall, i bob math o bobl, i bob graddau ac i bob oedran, heb eithrad.

Ond rhag i ni frith-dybied na pherthyn y gorchymyn hwn i ni mewn gwirionedd, gwrandewch beth y mae Crist (perffaith Ddysgawdwr pob gwirionedd) yn ei ddywedyd yn y Testament Newydd. *Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt,* ebe Crist, *Na wna odineb. Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod pob un a'r sydd yn edrych ar wraig i'w chwennychu hi, wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon.*[2] Mae ein Hiachawdwr Crist yma nid yn unig yn cadarnhâu ac yn sefydlu 'r ddeddf yn erbyn godineb, a roddwyd yn yr Hen Destament gan Dduw Dad trwy ei was Moses, ac yn ei gwneuthur hi o gyflawn rym, i barhâu dros fyth ym mhlith proffeswŷr ei enw Ef dan yr oruchwyliaeth newydd: ond y mae hefyd (gan gondemnio deongliadau gwrthun yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, y rhai a ddysgent fod y gorchymyn rhag-grybwylledig yn gofyn ymgadw rhag godineb allanol yn unig, ac nid rhag chwantau aflan a gwyniau ammhur) yn dysgu i ni fanwl a chyflawn berffeithrwydd o burdeb a glendid buchedd, i gadw ein cyrph yn ddihalog, a'n calonnau hefyd yn bur ac yn rhyddion oddi wrth bob meddyliau drwg, ac oddi wrth chwantau a chydsyniadau cnawdol.

Pa fodd ynte y gallwn ni fod yn rhyddion oddi wrth y gorchymyn hwn, lle mae cymmaint *siars* wedi ei gosod arnom? A all gwas wneuthur y peth a fynno, a'i feistr wedi gorchymyn y gwrthwyneb iddo? Onid Crist yw ein Meistr ni? Onid ydym ninnau yn weision iddo? Pa fodd ynte y gallwn ni esgeuluso bodd ac ewyllys ein Meistr, a dilyn ein hewyllys a'n mympwy ein hunain? *Chwi yw fy nghyfeillion,* ebe Crist, *os gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi.*[3] Yn awr, gorchymynodd ein Meistr Crist i ni ymwrthod â phob aflendid a halogrwydd ynghorph ac yspryd; hynny ynte sy raid i ni ei wneuthur, os ydym yn edrych am ryngu bodd Duw.

Yn Efengyl St. Matthew yr ydym yn darllen i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid ddigio 'n anial wrth Grist, am nad oedd ei ddisgyblion Ef yn cadw traddodiadau yr henafiaid; canys ni olchent eu dwylaw pan elent i giniaw neu swpper. Ac ym mhlith pethau eraill, attebodd a

[1] Deut. 23. 17. [2] St. Mat. 5. 27, 28. [3] St. Ioan 15. 14.

dywedodd Crist; *Clywch a deallwch: Nid yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau, sydd yn halogi dyn; ond yr hyn sydd yn dyfod allan o'r genau, hynny sy'n halogi dyn.—— Y pethau a ddeuant allan o'r genau, sy'n dyfod allan o'r galon; a'r pethau hynny a halogant ddyn: canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-prïodasau, godinebau, lladradau, cam-dystiolaethau, cablau. Dyma 'r pethau sy'n halogi dyn.*[1] Yma gallwn weled mai nid llofruddiaeth, lladrad, cam-dystiolaeth, a chabledd yn unig sy 'n halogi dynion, ond hefyd meddyliau drwg, tor-prïodas, godineb a phutteindra. Pwy sy bellach mor wan ei synwyr a thybied mai pethau ysgafn a dibwys ger bron Duw ydyw godineb a phutteindra? Mae Crist (yr Hwn yw y Gwirionedd, ac ni ddichon ddywedyd celwydd) yn dywedyd fod *meddyliau drwg, tor-prïodas, godineb, a phutteindra, yn halogi dyn;* hynny yw, yn llygru corph ac enaid dyn, ac yn eu gwneuthur o fod yn demlau i'r Yspryd Glân, yn dommen ffiaidd, ac yn ddaeardŷ pob yspryd aflan; o fod yn dŷ i Dduw, i fod yn drigle Satan.

Drachefn yn Efengyl St. Ioan, pan ddycpwyd y wraig a ddaliesid mewn godineb at Grist, oni ddywedodd Efe wrthi, *Dos, ac na phecha mwyach?*[2] Onid yw Efe yma yn galw godineb yn bechod? A pha beth *yw cyflog pechod* ond *marwolaeth* dragywyddol?[3]

Os ydyw godineb yn bechod, yna nid cyfreithlon i ni ei wneuthur, canys *yr hwn sydd yn gwneuthur pechod,* ebe St. Ioan, *o ddiafol y mae.*[4] Ac medd ein Hiachawdwr, *Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod.*[5] Oni bai fod godineb yn bechod, dïau na buasai St. Ioan Fedyddiwr byth yn ceryddu Herod frenhin am gymmeryd gwraig ei frawd: ond efe a ddywedodd wrtho yn amlwg, *Nid cyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd.*[6] Nid arbedodd efe butteindra Herod, er ei fod yn frenhin galluog, ond ceryddodd ef yn hyf am ei fuchedd ddrwg a ffiaidd, er iddo golli ei ben o'r herwydd. Ond gwell oedd ganddo ddïoddef angau na gweled Duw yn cael ei ddïanrhydeddu felly, drwy dorri ei lân orchymyn, ac na goddef i odineb fyned yn ddigerydd, hyd yn nod mewn brenhin. Pe na buasai putteindra ddim ond digrifwch a chellwair, heb achos gwneuthur fawr gyfrif o hono (fel yr edrych llawer arno yn y dyddiau hyn) yn wir buasai Ioan yn fwy na dwbl allan o'i bwyll fod yn tynnu arno ei hun anfoddlonrwydd brenhin, cymmeryd ei daflu i garchar, a cholli ei ben, o achos peth mor ddibwys. Ond gwyddai Ioan yn dda ddigon mor frwnt, a drewllyd, a ffiaidd yw y pechod o butteindra yngolwg Duw; am hynny ni adawai mo hono yn

[1] St. Mat. 15. 10, 11, 18, 19, 20. [2] St. Ioan 8. 11. [3] Rhuf. 6. 23.
[4] 1 St. Ioan 3. 8. [5] St. Ioan 8. 34. [6] St. Marc 6. 18.

ddigerydd, na wnai, hyd yn nod mewn brenhin.—— Os nad yw godineb yn gyfreithlon mewn brenhin, nid yw gyfreithlon chwaith mewn deiliad. Onid yw putteindra yn gyfreithlon mewn swyddog cyhoeddus, nid yw gyfreithlon chwaith mewn personau neillduol. Ac onid yw gyfreithlon nac mewn brenhin na deiliad, nac mewn swyddog cyhoeddus na pherson neillduol, yna 'n wir nid yw gyfreithlon mewn na gwr na gwraig, o ba radd neu oedran bynnag y byddont.

Ym mhellach; yr ydym yn darllen yn Actau 'r Apostolion, pan ymgasglodd *yr Apostolion a'r Henuriaid ynghyd â'r holl Eglwys*, i lonyddu calonnau y ffyddloniaid ag oedd yn preswylio yn Antiochia (y rhai a aflonyddid trwy gau athrawiaeth rhyw bregethwŷr Iuddewaidd) iddynt ddanfon gair at y brodyr, gan ddywedyd; *Gwelwyd yn dda gan yr Yspryd Glân a chennym ninnau, na ddodid arnoch faich ychwaneg na'r pethau angenrheidiol hyn:* ym mhlith pethau eraill ewyllysiasant iddynt ymgadw rhag delw-addoliad, *ac oddi wrth odineb: oddi wrth yr hyn bethau*, meddant, *os ymgedwch, da y gwnewch.*[1] Nodwch yma fel nad oedd Tadau sanctaidd a bendigaid Eglwys Crist yn ewyllysio gosod ar y gynnulleidfa ddim ond y pethau ag oeddynt angenrheidiol. Sylwch hefyd fod putteindra a godineb yn cael eu cyfrif ym mhlith y pethau y gorchymynasant i'r brodyr yn Antiochia ymgadw oddi wrthynt. Anghenraid am hynny ydyw, yn ol penderfyniad a chydsyniad yr Yspryd Glân, a'r Apostolion, a'r Henuriaid, ynghyd â'r holl Eglwys, fod i ni ymgadw oddi wrth odineb a phutteindra, yn gystal ag oddi wrth eilun-addoliaeth ac ofer-goel. Mae yn anghenraid er iachawdwriaeth, ymgadw rhag delw-addoliaeth; ac felly y mae ymgadw oddi wrth butteindra. A oes rhyw ffordd nês i dywys i ddamnedigaeth, na bod yn eilun-addolwr? Nac oes: felly nid oes ffordd agosach i ddamnedigaeth, na bod yn butteiniwr ac yn odinebwr.

Pa le weithian y mae y bobl a wnant mor ysgafn o dor-priodas, godineb, putteindra, a thrythyllwch? Mae 'n anghenraid, medd yr Yspryd Glân, medd y bendigaid Apostolion, medd yr Henuriaid, ac medd holl Eglwys Crist, mae 'n anghenraid, meddant, er iachawdwriaeth, ymgadw oddi wrth butteindra. Ac os ydyw yn anghenraid er iachawdwriaeth, yna gwae i'r rhai sy, gan esgeuluso eu hiachawdwriaeth, yn rhoi eu meddyliau i bechod mor frwnt a drewllyd, i fai cynddrwg, ac i atgased ffieidd-dra.

[1] Act. 15. 22, 28, 29.

### YR AIL RAN O'R BREGETH

## YN ERBYN GODINEB.

FE ddysgwyd i chwi yn y rhan gyntaf o'r Bregeth hon yn erbyn godineb, fel y mae y pechod hwn yn y dyddiau hyn yn teyrnasu uwchlaw pob pechod arall; a pha beth yw ystyr y gair *godineb;* ac fel y mae yr Ysgrythyr Lân yn cynghori ac yn annog rhag gwneuthur y pechod brwnt yma; ac yn ddiweddaf, pa lygredigaeth sy 'n dyfod ar enaid dyn drwy y pechod o odineb.

Yn awr, i fyned rhagom ym mhellach, gwrandawn beth a ddywed y bendigaid Apostol St. Paul ar y matter hwn: wrth ysgrifenu at y Rhufeiniaid, y mae ganddo 'r geiriau hyn; *Bwriwn oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni: rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chynfigen: eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, ac na wnewch ragddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.*[1] Yma mae 'r sanctaidd Apostol yn ein hannog i fwrw ymaith weithredoedd y tywyllwch, y rhai, ym mhlith eraill, a eilw efe cyfeddach, meddwdod, cyd-orwedd, ac anlladrwydd; y rhai ydynt oll yn wasanaethwŷr i'r bai hwnnw, a darpariaethau i ddwyn i mewn bechod ffiaidd y cnawd. Mae yn eu galw 'n weithredoedd y tywyllwch, nid yn unig am yr arferir eu gwneuthur mewn tywyllwch a lliw nos, *(o herwydd pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef;*[2]*)* ond am eu bod yn arwain ar hyd yr uniawn ffordd i'r *tywyllwch eithaf, lle y bydd wylofain a rhingcian dannedd.*[3]

Ac mewn man arall o'r un Epistol efe a ddywed; *Y rhai sydd yn y cnawd, ni allant ryngu bodd Duw.—— Dyledwŷr ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd: canys os ydych yn byw yn ol y cnawd, meirw fyddwch.*[4] Drachefn, *Gochelwch odineb,* medd efe; *pob pechod a wnelo dyn, oddi allan i'r gorph y mae; ond yr hwn sydd yn godinebu, sydd yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun. Oni wyddoch chwi fod eich corph*

[1] Rhuf. 13. 12—14. [2] St. Ioan 3. 20. [3] St. Mat. 25. 30. [4] Rhuf. 8. 8, 12, 13.

*yn deml i'r Yspryd Glân, sydd ynoch, yr Hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain? Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph.* Ac ychydig o'r blaen; *Oni wyddoch chwi,* eb efe, *fod eich cyrph yn aelodau i Grist? gan hynny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau puttain? Na atto Duw! Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â phuttain, yn un corph? canys y ddau (medd efe) fyddant un cnawd. Ond yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd, un yspryd yw.*[1] Pa eiriau duwiol a ddygir ymlaen yma gan y bendigaid Apostol St. Paul, i'n hannog a'n cynghori rhag godineb a phob aflendid! *Eich aelodau,* eb efe, *ydynt deml yr Yspryd Glân; ac os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw,*[2] fel y dywed St. Paul. Os *teml yr Yspryd Glân* ydym, mor anghyfaddas ynte yw gyrru'r Yspryd Sanctaidd hwnnw oddi wrthym drwy odineb, a gosod yn ei le Ef ysprydion drwg aflendid a phutteindra, ac ymgyssylltu â hwynt a'u gwasanaethu. *Er gwerth y prynwyd chwi,* medd efe; *gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph.* Crist, Oen diniweid Duw, a'n prynodd o gaethiwed diafol, *nid â phethau llygredig, megis arian neu aur,*[3] ond âg anwyl a gwerthfawroccaf waed ei galon. I ba ddiben? Ai fel y cwympem ni drachefn i'n hen aflendid a'n ffiaidd fuchedd? Nag ê, yn wir; ond *fel y gwasanaethem ni Ef mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau ein bywyd,*[4] ac fel y gogoneddem Ef yn ein cyrph drwy burdeb a glendid buchedd. Dywed hefyd fod *ein cyrph yn aelodau i Grist:* mor anweddaidd ynte yw i ni beidio â bod yn gydgorphoredig ac yn un â Christ, a thrwy butteindra ymgydio, ac ymgyssylltu, a bod yn un â phuttain! Pa ammharch neu pa gam mwy a allwn ni ei wneuthur â Christ, na chymmeryd aelodau ei gorph oddi arno, a'u cyssylltu â phutteiniaid, cythreuliaid, ac ysprydion drwg? A pha ddianrhydedd mwy a allwn ni wneuthur i ni ein hunain, na thrwy aflendid golli braint a rhyddid mor odidog, a dyfod yn gaethweision a charcharorion truenus i ysprydion y tywyllwch?—— Ystyriwn gan hynny, yn gyntaf, ogoniant Crist; yn ail, ein cyflwr, ein hurddas, a'n rhyddid ein hunain, yn y rhai y gosododd Duw ni trwy roddi i ni ei Sanctaidd Yspryd: ac amddiffynwn yr unrhyw yn wrol yn erbyn Satan a'i holl ymosodiadau dichellgar, fel yr anrhydedder Crist, ac na chollom ninnau ein rhyddid, ond aros yn wastadol yn yr un yspryd âg Ef.

Yn ei Epistol at yr Ephesiaid hefyd mae'r Apostol sanctaidd yn ewyllysio i ni fod mor bur ac mor rhydd oddi wrth butteindra, *godineb, a phob aflendid,* fel *na enwer chwaith mo honynt yn ein plith, megis y*

[1] 1 Cor. 6. 15—20. [2] 1 Cor. 3. 17. [3] 1 St. Petr 1. 18. [4] St. Luc 1. 74, 75.

*gweddai i saint; na serthedd, nac ymadrodd ffol, na choeg ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus; eithr yn hytrach rhoddi diolch. Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn,* eb efe, *am bob putteiniwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sy ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw.*[1] Ac er mwyn cofio o honom fod yn sanctaidd, yn bur, ac yn rhydd oddi wrth bob aflendid, mae'r Apostol sanctaidd yn ein galw yn SAINT, am ein bod wedi ein sancteiddio gan Waed Crist drwy yr Yspryd Glân. Yn awr, os ydym yn *saint,* pa beth sydd i ni a wnelom ag arferion y cenhedloedd? *Megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd,* ebe St. Petr, *byddwch chwithau hefyd sanctaidd ym mhob ymarweddiad: oblegid y mae'n ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf Fi.*[2]

Hyd yn hyn y clywsom orthrymmed pechod yw putteindra a godineb, ac mor fawr y mae Duw yn ei ffieiddio drwy'r holl Ysgrythyr: pa fodd y gall amgen na bod yn bechod o'r atgasrwydd mwyaf gan na ddylid gymmaint a'i *enwi* unwaith ym mysg Cristionogion, llai o lawer y dylid mewn modd yn y byd ei wneuthur.

Ac yn wir os mynnwn bwyso mawredd y pechod hwn, a'i ystyried yn ei iawn rywogaeth, cawn weled mai y pechod o odineb yw y llynn ffieiddiaf, y pwll butraf, a'r ceudwll drewedicaf, i'r hwn y mae pob math o bechodau a drygau yn llifo ac yn rhedeg, lle hefyd y maent yn aros ac yn sefyll. Canys onid yw y godinebwr yn falch o'i butteindra? fel y dywed y Gwr Doeth; Hwy *a ymlawenychant i wneuthur drwg, ac a ymddigrifant yn anwiredd y drygionus.*[3]—— Onid yw'r godinebwr yn ddïog hefyd, heb ymhoffi mewn un ymarferiad duwiol, ond yn unig yn ei bleser ffieiddiaf ac anifeilaidd hwnnw?—— Onid yw ei feddwl wedi ei dynnu a'i hollol lusgo ymaith oddi wrth bob myfyrdodau duwiol a llafur ffrwythlon, ac wedi ymroi yn unig i ddychymmygion cnawdol? —— Onid yw'r godinebwr yn rhoi ei feddwl i lythineb, er mwyn bod yn barottach at wasanaethu ei wyniau a'i hoffderau cnawdol?—— Onid yw'r putteiniwr yn rhoi ei feddwl ar gybydd-dod, ac ar gribddeilio a gwasgu ar eraill, er mwyn yn well fedru cynnal ei butteiniaid a'i ordderchadon, ac i barhâu yn ei gariad ffiaidd ac anghyfreithlon? —— Onid yw hefyd yn chwyddo o gynfigen yn erbyn eraill, rhag ofn i'w ysglyfaeth gael ei hudo a'i denu ymaith oddi arno?—— Onid yw efe hefyd yn llidiog ac yn llawn digofaint a sorriant hyd yn nod yn erbyn y sawl fo anwylaf ganddo, os un amser y rhwystrir ei ddymuniad anifeilaidd a dieflig?—— Pa bechod neu fath o bechod y sydd, a'r nad yw ynglŷn wrth odineb a phutteindra? Anghenfil ydyw a llawer o bennau

[1] Ephes. 5. 3, 4, 5. [2] 1 St. Petr 1. 15, 16. [3] Diar. 2. 14.

iddo: mae'n derbyn pob math o feiau, ac yn gwrthod pob math o rinweddau. Os yw *un* pechod wrtho ei hun yn dwyn damnedigaeth, beth a dybygir am y pechod hwnnw ag y mae *pob* drwg yn ei ddilyn, a chanddo yn ei gwmni ba beth bynnag sy gas gan Dduw, damniol i ddyn, a hoff gan Satan?

Mawr hefyd yw 'r golled a'r sarhâd sydd ynghrog uwch ben putteinwŷr a godinebwŷr. I ba beth y soniaf am yr anfanteision eraill sy 'n llifo ac yn rhedeg o'r pwll drewllyd hwn o odineb?—— Onid yw 'r trysor ag sy werthfawroccach gan bobl onest na phob trysor arall, sef Enw Da gwr a gwraig, yn cael ei golli trwy odineb?—— Pa dreftadaeth neu fywiolaeth, pa eiddo, pa ddâ, pa gyfoeth sydd, a'r nad yw godineb mewn ychydig amser yn ei ddifa ac yn ei wneuthur yn ddiddim?—— Pa ddewrder a nerth na wanheir ac na ddistrywir lawer gwaith drwy odineb?—— Pa synwyr mor goeth a'r na hurtir ac na syfrdanir gan butteindra?—— Pa degwch, (er godidocced y byddo) a'r nad anffurfir drwy odineb?—— Onid yw putteindra yn elyn i brydferth flodeuyn ieuengctid, ac onid yw 'n dwyn penllwydni a henaint cyn yr amser?—— Pa ddawn naturiol, (er gwerthfawrocced fyddo) a'r na lygrir â godineb?—— Onid oes llawer o glefydau aflan a ffiaidd yn dyfod o butteindra?—— O ba le mae'n dyfod gynnifer o fastardiaid a phlant ordderch, er mawr anfoddlonrwydd i Dduw a dïanrhydedd ar Lân Brïodas, onid o butteindra?—— Pa faint sy 'n difa eu holl ddâ a'u golud, ac o'r diwedd yn cwympo i gyfryw ddygn dlodi, fel y maent ar ol hynny yn lladratta ac yn cael eu crogi, oblegid godineb?—— Pa gynnen a lladdiadau sy 'n deilliaw o butteindra?—— Pa sawl merch a ddiforwynir, pa sawl gwraig a lygrir, pa sawl gweddw a waradwyddir, drwy odineb?—— Pa faint a dlodir ac a drallodir ar y wladwriaeth drwy odineb?—— Pa faint a ddirmygir ac a geblir ar air Duw drwy odineb a godinebwŷr?

O'r pechod hwn y deillia rhan fawr o'r ysgariadau a arferir gymmaint y dyddiau hyn drwy awdurdod neillduol dynion, er mawr anfoddlonrwydd i Dduw, a thorriad sancteiddiaf gwlwm a rhwymyn prïodas. O herwydd pan ddarffo i'r pechod atgas hwn unwaith ymlusgo i fynwes y godinebwr, nes ei rwydo gan gariad anghyfreithlon ac anniwair, efe a ddiystyra yn y man ei wir a'i gyfreithlon wraig; efe a gasâ ei phresennoldeb; mae ei chwmpeini yn ddiflas ac yn wrthwynebus ganddo; a pha beth bynnag a wnelo hi, a ogenir; nid oes lonyddwch yn y tŷ tra fyddo hi yn y golwg; am hynny, i wneuthur gwaith byrr, rhaid iddi ymadael, oblegid ni ddichon ei gwr ei goddef yn hwy. Fel hyn drwy butteindra torrir ymaith y wraig onest a diniweid, a derbynir puttain yn ei lle: ac mewn cyffelyb fodd y digwydda 'n fynych ar ran y wraig

tu ag at ei gwr. O ffieidd-dra! Pan ddaeth ein Hiachawdwr Crist, gwir Dduw a dyn, i adferu deddf ei Dad nefol i'w hiawn feddwl, deall, ac ystyr, Efe, ym mhlith pethau eraill a ddiwygiodd gamarfer y gyfraith hon. Canys lle darfu i'r Iuddewon arfer hir ganiattâd drwy ddefod o roi ymaith eu gwragedd wrth eu hewyllys am bob achos; Crist, wrth geryddu y ddrwg ddefod honno, a ddysgodd fod *pwy bynnag a ysgaro a'i wraig, ond am odineb* (yr hwn oedd y pryd hynny yn haeddu angau wrth y gyfraith) *ac a brïodo un arall, yn torri prïodas; a bod yr hwn a brïodo yr hon a ysgarwyd yn torri prïodas.*[1]

Ym mha gyflwr ynte y mae'r godinebwŷr hyn, y rhai o gariad at buttain a ddodant ymaith eu gwir a'u cyfreithlon wragedd, yn erbyn pob cyfraith, uniondeb, rheswm, a chydwybod? O mor ddamniol yw'r cyflwr y maent yn sefyll ynddo! Cyflym ddistryw a gwymp arnynt, onid edifarhânt a diwygio: canys ni oddef Duw i Lân Brïodas gael ei dïanrhydeddu, ei chasâu, a'i dirmygu fel hyn. Efe a gospa ryw bryd y dull cnawdol ac anllywodraethus hwn o fucheddu, ac a bair i'r sanctaidd ordinhâd hon gael parch ac anrhydedd. Canys *anrhydeddus*, fel y dywed yr Apostol, *yw prïodas ym mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr putteinwŷr a godinebwŷr a farna Duw;* hynny yw, Efe a'u cospa ac a'u condemnia hwynt.

Ond i ba ddiben y cymmerir y llafur hwn i ddatgan ac i osod allan faint y pechod o odineb, a'r anfanteision sy'n rhedeg ac yn llifo o hono, lle y pallai anadl a thafod dyn yn gynt nag y gallai ei osod allan yn ol ei atgasrwydd a'i ysgelerder? Etto dywedwyd hyn er mwyn bod i bawb ochelyd godineb, a byw yn ofn Duw. Duw a wnel na's dywedwyd yn ofer!

[1] St. Mat. 19. 9.

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

# YN ERBYN PUTTEINDRA.

YN yr ail ran o'r Bregeth hon yn erbyn Godineb a ddarllenwyd ddiweddaf, chwi a ddysgasoch mor ddifrif y mae 'r Ysgrythyr yn ein rhybuddio i ochelyd y pechod o odineb, ac i gofleidio glendid buchedd; a'n bod yn cwympo trwy odineb i bob rhyw bechod, ac yn myned yn gaethweision i ddiafol; y gwneir ni trwy lendid buchedd yn aelodau i Grist; ac yn ddiweddaf, mor bell y mae godineb yn dwyn dyn oddi wrth bob daioni, ac yn ei yrru bendramwnwgl i bob drygau, trueni, ac aflwydd.

Yn awr mi a fynegaf i chwi mewn trefn, â pha gospedigaethau trymion y plaodd Duw odineb yn yr amseroedd gynt, ac fel y cospodd amryw dywysogion bydol ef hefyd, fel y gweloch fod godineb a phutteindra yn bechodau llawn mor atgas yngolwg Duw a phob dyn da, ag y dangosais eisoes.

Yn Llyfr cyntaf Moses yr ydym yn darllen, *pan ddechreuodd dynion amlhâu ar wyneb y ddaear*,[1] i wŷr a gwragedd osod eu meddyliau mor gwbl ar ddifyrwch cnawdol a choeg-ddigrifwch, nes oeddynt yn byw heb ddim ofn Duw. Pan welodd Duw eu buchedd ffiaidd ac anifeilaidd hon, a chanfod nad oeddynt yn gwellhâu, ond yn hytrach eu bod yn cynnyddu fwyfwy beunydd yn eu moesau pechadurus ac aflan, Efe *a edifarhaodd wneuthur o hono ddyn ar y ddaear*:[2] ac i ddangos mor gas oedd ganddo odineb, trythyllwch, putteindra, a phob aflendid, Efe *a rwygodd ffynhonnau y dyfnder mawr, ac a agorodd ffenestri 'r nefoedd*, nes y *gwlawiodd ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos*,[3] ac fel hyn Efe a ddistrywiodd yr holl fyd a holl ddynolryw, oddi eithr wyth nyn yn unig, sef Noe, *pregethwr cyfiawnder*,[4] fel y geilw St. Petr ef, a'i wraig, ei dri mab, a'u gwragedd. O! pa anial bla a daflodd Duw yma ar bob creadur byw am y pechod o odineb, am yr hwn y dïalodd Duw nid yn unig ar ddyn, ond ar yr holl fwystfilod, ehediaid, a phob anifail byw! Gwnaethesid llofruddiaeth o'r blaen; etto ni ddistrywiwyd y byd

[1] Gen. 6. 1. [2] Gen. 6. 6. [3] Gen. 7. 11, 12. [4] 2 St. Petr 2. 5.

am hynny; ond am odineb, yr holl fyd (oddigerth ychydig) a orchuddiwyd â dyfroedd, ac felly a ddifethwyd!—— Esampl werth ei chofio, fel y dysgom ofni Duw.

Yr ydym yn darllen eilwaith mai am y pechod brwnt o aflendid y cafodd Sodoma a Gomorrah *eu dinystrio â brwmstan ac â thân allan o'r nefoedd*,[1] fel na adawyd na gwr, na gwraig, na phlentyn, nac anifail, na dim oedd yn tyfu ar y ddaear yno, heb eu difetha. Calon pwy ni chryna wrth glywed yr hanes hon? Pwy sy wedi soddi mor ddwfn mewn godineb ac aflendid, na adawo weithian dros fyth y fath fuchedd ffiaidd, wrth weled fod Duw yn cospi aflendid mor dost a gwlawio tân a brwmstan o'r nef i ddistrywio dinasoedd cyfain, i ladd gwŷr, gwragedd, a phlant, a phob creadur byw arall ag oedd yn trigo yno, ac i ddifa holl gnwd y ddaear â thân? Pa argoelion eglurach a ddichon fod o lid Duw a'i ddïaledd yn erbyn aflendid ac ammhurder buchedd?—— Sylwch ar yr hanes hon, bobl dda, ac ofnwch ddïaledd Duw!

Onid ydych yn darllen hefyd i Dduw *daro Pharaoh a'i dŷ â phläau mawrion*, am iddo ef yn annuwiol chwennychu Sarai gwraig Abraham?[2] Yr ydym yn darllen y cyffelyb am Abimelech brenhin Gerar, er na chyffyrddasai efe â hi drwy adnabyddiaeth cnawdol.[3]—— Y pläau a'r cospedigaethau hyn a fwriodd Duw ar ddynion ffiaidd ac aflan, *cyn* rhoddi 'r ddeddf (pan oedd deddf natur yn unig yn teyrnasu ynghalonnau dynion) i ddangos faint y cariad oedd ganddo at brïodas, ac hefyd mor gas oedd ganddo odineb, putteindra, a phob aflendid.

Ac *wedi* rhoi 'r ddeddf sy 'n gwahardd godineb drwy Moses i'r Iuddewon, oni orchymynodd Duw ddodi y sawl a'i torrent hi i farwolaeth? Dyma eiriau 'r ddeddf: *Y gwr a odinebo gyd â gwraig gwr arall, sef yr hwn a odinebo gyd â gwraig ei gymmydog, lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig.*[4]—— Gorchymynwyd hefyd yn y ddeddf, os delid llangces a gwr ynghyd mewn godineb, fod iddynt gael eu llabyddio i farwolaeth.[5]—— Yr ydym yn darllen mewn man arall hefyd i Dduw orchymyn i Moses *gymmeryd holl bennaethiaid y bobl, a'u crogi hwynt i'r Arglwydd ar gyfer yr haul*, fel y gwelai pawb hwynt, am iddynt naill ai gwneuthur godineb, neu beidio a'i gospi mewn eraill.[6]—— Drachefn, oni ddanfonodd Duw y fath bla i blith y bobl am odineb ac aflendid, fel y *syrthiodd mewn un dydd dair mil ar hugain*?[7]—— Yr wyf yn gadael heibio, o ran pall amser, lawer o hanesion eraill o'r Bibl Sanctaidd, y rhai a ddangosant fawr ddïaledd a thrwm anfoddlonrwydd Duw yn erbyn putteinwŷr a godinebwŷr. Sicr yw fod y gosp eithaf

[1] Gen. 19. 24. [2] Gen. 12. 17. [3] Gen. 20. 4. [4] Lef. 20. 10.
[5] Deut. 22. 23. [6] Num. 25. 4. [7] 1 Cor. 10. 8.

hon o osodiad Duw yn amlwg ddangos gymmaint y mae Duw yn casâu godineb.

Ac nac ammheuwn fod Duw *yn bresennol* yn ffieiddio pob math o aflendid, ddim llai nac o dan yr hen ddeddf, ac y gwna'n ddïammeu ei gospi yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw: *o herwydd nid yw Efe Dduw yn ewyllysio anwiredd.*[1] Gan hynny dylid ei ochelyd gan bawb sy'n gofalu am ogoniant Duw ac iachawdwriaeth eu heneidiau ein hunain.

Fe ddywed St. Paul; *Y pethau hyn oll a ysgrifenwyd yn rhybudd i ni,*[2] ac i'n dysgu i ofni Duw, ac ufuddhâu i'w ddeddf sanctaidd Ef. *Canys onid arbedodd Duw y canghennau naturiol,* dïau nad arbed efe *ni*, y rhai nid ydym ond impiau, os gwnawn y cyffelyb gamwedd.[3] Os dinystriodd Duw lawer o filoedd o bobl, llawer o ddinasoedd, ïe, yr holl fyd, am odineb; na wenieithiwn i ni ein hunain, ac na thybygwn y cawn *ni* ddïangc yn rhyddion ac yn ddigosp. Canys addawodd yn ei gyfraith sanctaidd y danfonai bläau trymion ar droseddwŷr a thorrwŷr ei sanctaidd orchymynion.

Fel hyn chwi a glywsoch fel y mae Duw yn cospi'r pechod o odineb: gwrandawn yn awr gyfreithiau a ddyfeisiodd Penswyddogion gwladol yn eu hamryw wledydd er mwyn ei gospi, fel y dysgom pa fodd y ffieiddiwyd aflendid bob amser ym mhob dinas a gwladwriaeth o drefn dda, ac ym mhlith pawb dynion onest.

Y gyfraith ym mhlith y Lepreaid oedd hyn: Pan ddelid neb mewn godineb, hwy a rwymid, ac a ddygid dros dri diwrnod drwy'r ddinas; ac ar ol hynny hwy a ddirmygid, a thrwy gywilydd a gwaradwydd a gyfrifid fel rhai hollol anonest tra byddent byw.—— Ym mysg y Locriaid, tynnid dau lygaid y godinebwŷr.—— Y Rhufeiniaid gynt a gospent odineb, weithiau â thân, weithiau â'r cleddyf.—— Os delid neb mewn godineb ym mhlith yr Aiphtiaid, y gyfraith oedd, iddo'n gyhoeddus ac yngwydd yr holl bobl gael ei ffangellu yn noeth â ffrewyllau, hyd fil o wïalennodiau: a thorrid trwyn y wraig a gymmerid gyd âg ef, wrth yr hyn y gwybyddid o hynny allan mai puttain oedd, a chan hynny ei bod i'w ffieiddio gan bawb.—— Ym mysg yr Arabiaid, torrid pennau y rhai a ddelid mewn godineb oddi ar eu cyrph.—— Cospai'r Atheniaid odineb â marwolaeth yn yr un modd.—— Felly hefyd y gwnai y Tartariaid barbaraidd.—— Ym mysg y Tyrciaid hyd heddyw, y gwr a'r wraig a ddalier mewn godineb a labyddir yn uniongyrchol i farwolaeth yn ddidrugaredd.—— Fel hyn ni a welwn pa gyfreithiau duwiol a ddyfeisiwyd gynt gan yr uchel awdurdodau, i dynnu ymaith odineb ac i noddi glân brïodas ac ymarweddiad pur. Ac nid

[1] Ps. 5. 4. [2] 1 Cor. 10. 11. [3] Rhuf. 11. 21.

Cristionogion, ond paganiaid, oedd gwneuthurwŷr y cyfreithiau hyn; etto hwy a ennynid gymmaint gan serch at onestrwydd a phurdeb buchedd, fel y gwnaethant gyfreithiau duwiol i gynnal ac i gadw yr unrhyw i fynu, heb oddef i butteindra na godineb deyrnasu yn eu gwladwriaethau yn ddigosp.

Fe ddywedodd Crist wrth y bobl; *Gwŷr Ninefe a gyfodant yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon* (gan feddwl yr Iuddewon anffyddlon) *ac a'i condemniant hi; am iddynt hwy edifarhâu wrth bregeth Jonas; ac wele fwy na Jonas yma;* (gan ei feddwl ei Hun;) ac etto nid ydynt hwy yn edifarhâu.[1] Oni bydd, dybygwch chwi, i'r Locriaid, yr Arabiaid, yr Atheniaid, ac eraill cyffelyb, gyfodi 'n gyffelyb yn y farn a'n condemnio ni, yn gymmaint ag iddynt hwy, wrth orchymyn *dyn*, ymgadw rhag godineb; ac y mae gennym ni ddeddf ac eglur orchymynion *Duw*, ac etto nid ydym ni yn gadael ein haflan ymarweddiad? Yn wir, yn wir, fe fydd yn esmwythach yn nydd y farn i'r paganiaid hynny nag i ni, oni wnawn edifarhâu a diwygio.

O herwydd er bod angau corphorol yn gosp drom, yn ein golwg ni, yn y byd hwn am odineb; etto nid yw 'r boen honno 'n ddim wrth yr arteithiau trymion y gorfydd ar butteinwŷr, a godinebwŷr, a phob dyn aflan, eu dïoddef ar ol y bywyd hwn: oblegid fe geuir yr holl gyfryw rai allan o deyrnas nefoedd, fel y dywed St. Paul: *Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwŷr, nac eilun-addolwŷr, na thorrwŷr priodas, na masweddwŷr, na gwrryw-gydwŷr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwŷr, na chrib-ddeilwŷr, etifeddu teyrnas Dduw.*[2] A dywed St. Ioan yn ei Ddatguddiad, y *bydd i'r putteinwŷr* eu rhan gyd â'r *llofruddion, a'r swyn-gyfareddwŷr, a'r eilun-addolwŷr, a'r celwyddwŷr*, a chyfryw cyffelyb, *yn y llyn sy 'n llosgi â thân a brwmstan: yr hwn yw 'r ail farwolaeth.*[3] Mae diwedd i gosp y corph, er mai angau ydyw; ond mae cosp yr enaid, yr hon a eilw St. Ioan *yr Ail Farwolaeth*, yn dragywydd: yno y bydd tân a brwmstan, yno y *bydd wylofain a rhingcian dannedd; a'r pryf*, yr hwn a gnoa yno gydwybyd y damnedigion, *nid yw yn marw* byth.[4]

Oh! calon pwy nid yw 'n diferu dafnau o waed wrth glywed ac ystyried y pethau hyn! Os ydym yn ysgrydian ac yn crynu wrth glywed enwi 'r poenau hyn, O! beth a wna y rhai a gânt eu teimlo, ac a gânt eu dïoddef, a'u dïoddef byth bythol ac yn dragywydd! Duw, trugarhâ wrthym!—— Pwy bellach sy wedi soddi cyn ddyfned mewn pechod, ac wedi ymadael cyn llwyred oddi wrth bob duwioldeb, a gwneuthur

[1] St. Mat. 12. 41. [2] 1 Cor. 6. 9, 10. [3] Dat. 21. 8. [4] St. Mat. 13. 42. a St. Marc 9. 44.

mwy o'i bleser ffiaidd a drewllyd, yr hwn sy 'n ebrwydd yn darfod, nag o golli 'r gogoniant tragywyddol? Drachefn, pwy a'i rhydd ei hun i chwantau 'r cnawd cyn belled, ag na byddo arno ddim ofn poen tân uffern?

Ond gwrandawn pa fodd y gallwn ochelyd y pechod o odineb a phutteindra, fel y rhodiom yn ofn Duw, ac y byddom ryddion oddi wrth yr anesgorol a'r annïoddefol arteithiau sydd ar fedr pob dyn aflan.

Yn awr, i ochelyd putteindra, godineb, a phob aflendid, darparwn uwchlaw pob peth ar fod i ni uwchlaw pob peth gadw ein calonnau yn bur ac yn lân oddi wrth bob meddyliau drwg a chwantau cnawdol: canys os unwaith y llygrir y *galon*, dyna ni 'n cwympo lwyr ein pennau i bob rhyw annuwioldeb. Ni a wnawn hyn yn hawdd, os, pan glywom o'n mewn ein hen elyn Satan yn ein temtio i odineb, ni chydsyniwn mewn un modd â'i gymhelliadau dichellgar, ond ei wrthwynebu 'n ddewr drwy ffydd gref yngair Duw, gan ddwyn yn ei erbyn ef yn wastad yn ein calon y gorchymyn hwn o eiddo Duw; *Scriptum est, Non mœchaberis:* ysgrifenedig yw, NA WNA ODINEB.

Da fydd i ni hefyd fyw yn wastadol yn ofn Duw; a gosod ger bron ein llygaid drymion fygythion Duw yn erbyn pob pechadur annuwiol; ac ystyried yn ein calonnau mor frwnt, mor anifeilaidd, ac mor fyrr ydyw 'r pleser hwnnw ag y mae Satan yn ein llithio ac yn ein cyffroi iddo 'n barhâus; ac eilwaith, fod y gosp a ordeiniwyd am y pechod hwnnw yn annïoddefol ac yn dragywydd.

Ym mhellach; arferwn gymmedroldeb a sobrwydd mewn bwytta ac yfed; gochelwn ymddiddanion aflan; ymgadwn rhag pob cwmnïaeth halogedig; ffown oddi wrth seguryd; ymhoffwn ddarllen yr Ysgrythyr Lân; gwyliwn mewn gweddïau duwiol a myfyrdodau rhinweddol; a phob amser ymarferwn o ryw waith a llafur duwiol: a rhydd y pethau hyn i ni gynhorthwy mawr i ymgadw rhag godineb.

Ac yma rhybuddir pob graddau, pa un bynnag ai prïod ai dibrïod, i garu diweirdeb, a glendid buchedd. Canys y rhai prïod ydynt yn rhwym wrth gyfraith Dduw i garu eu gilydd mor bur, fel na cheisio 'r naill na 'r llall o honynt gariad dieithr. Rhaid i'r gwr lynu wrth ei *wraig yn unig*, a'r wraig hefyd wrth ei *gwr yn unig:* rhaid iddynt ymhoffi cymmaint ynghymdeithas eu gilydd, fel na chwennycho 'r un o honynt neb arall.—— Ac fel y maent yn rhwym fel hyn i fyw ynghyd ym mhob duwioldeb ac onestrwydd, felly 'n gyffelyb eu dyledswydd yw dwyn eu plant i fynu 'n rhinweddol, a darbod na bo iddynt gwympo i fagl Satan, nac i ddim aflendid; ond dyfod o honynt yn bur ac yn onest i Lân Brïodas, pan fo 'r amser yn gofyn.—— Felly hefyd dylai pob meistr a rheolwr ddarbod nad arferer putteindra nac un math o

aflendid ym mhlith eu gwasanaethyddion—— A thrachefn; y rhai sy heb briodi, ac yn clywed ynddynt eu hunain na allant fyw heb gwmpeini gwraig, priodant wragedd iddynt eu hunain, ac felly byddant fyw yn dduwiol ynghyd: *canys gwell yw priodi nag ymlosgi.* A *rhag godineb*, medd yr Apostol, *bydded i bob gwr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gwr ei hun.*[1]

Yn ddiwedddaf; pawb ag sy 'n teimlo ynddynt eu hunain y gallant, drwy weithrediad Yspryd Duw, fyw yn ddibriod ac yn ddiwair, clodforant Dduw am ei ddawn, a cheisiant drwy bob moddion yn eu gallu gadw 'r unrhyw, megis drwy ddarllen yr Ysgrythyr Lân, drwy fyfyrdodau duwiol, drwy weddiau parhâus, a thrwy gyfryw ymarweddiadau rhinweddol eraill.

Os ymdrechwn ni oll fel hyn i ochelyd putteindra, godineb, a phob aflendid, ac i arwain ein bucheddau ym mhob duwioldeb ac onestrwydd, gan wasanaethu Duw â chalonnau pur a glân, a'i ogoneddu Ef yn ein cyrph, drwy arwain buchedd ddiddrwg a diniweid, ni a allwn fod yn sicr ein bod o nifer y rhai y llefara ein Hiachawdwr Crist am danynt yn ei Efengyl fel hyn: *Gwyn eu byd y rhai pur o galon; canys hwy a welant Dduw:*[2] i'r Hwn yn unig y byddo 'r holl ogoniant, yr anrhydedd, y deyrnas, a'r gallu, yn oes oesoedd. Amen.

[1] 1 Cor. 7. 2, 9. [2] St. Mat. 5. 8.

# PREGETH

## YN ERBYN CYNNEN AC YMDAERU.

HEDDYW fe gyhoeddir i chwi, bobl dda Gristianus, afles a chywilyddus anonestrwydd cynnen, ymryson, ac ymddadleu, fel, gwedi i chwi weled yn bortreiedig o flaen eich llygaid anharddwch a gwrthuni 'r bai atgasaf hwn, y troer eich calonnau i gódi yn ei erbyn, ac i gasâu a ffieiddio 'r pechod hwn ag sy mor atgas, ac mor niweidiol a dinystriol i bob dyn.

Ond ym mhlith pob math o gynhennau, nid oes un yn fwy niweidiol na chynnen mewn matterion crefyddol. *Gochel ynfyd ac annysgedig gwestiynau*, ebe St. Paul, *gan wybod eu bod yn magu ymrysonau. Ac ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson, ond bod yn dirion wrth bawb.*[1] Yr oedd yr ymryson a'r gynnen yma ym mysg y Corinthiaid yn amser St. Paul, fel y mae yr amser yma yn ein plith ninnau 'r Cymry. O herwydd mae gormod o ddynion, y rhai ar eu meingciau-cwrw, neu leoedd eraill, sy 'n hoffi ymbyngcio ac ymgwestiyno, nid gymmaint er adeiladaeth, ag er gwag-ogoniant a dangos eu medrusrwydd, ac ymresymmu ac ymddadleu mor ansobr, fel, pan na roddo 'r naill i fynu i'r llall, y maent yn cwympo i ymdaeru ac ymgynhennu, ac weithiau o eiriau trymion i ychwaneg o anweddeidd-dra.

Ni allai St. Paul oddef clywed ym mysg y Corinthiaid y geiriau hyn o anghydfod ac anghyfundeb, *Myfi ydwyf eiddo Paul*, a *myfi wyf eiddo Apolos:*[2] beth ynte a ddywedai, pe clywai y geiriau cynhennus hyn, ag sydd yn awr bron yngenau pob dyn? Pharisead yw hwn accw; Efangylwr yw hwn yma; dyma un o'r ffordd newydd; dyma un o'r hen ffydd; daccw frawd o'r dull newydd; mae hwn yn Dad Catholig da; Pabydd yw hwn yna; Heretic yw hwnnw. O! pa fodd y rhannwyd yr Eglwys! O! fel y torrwyd ac y drylliwyd y dinasoedd! O! fel y mae gwisg Crist, ag oedd unwaith yn ddiwnïad, oll wedi ei darnio a'i rhwygo! O! ddirgeledig Gorph Crist, pa le mae 'r undeb sanctaidd a dedwydd hwnnw, allan o'r hwn pwy bynnag sydd, nid oes mo hono yng

[1] 2 Tim. 2. 23, 24. [2] 1 Cor. 3. 4.

Nghrist? Os tynnir y naill aelod oddi wrth y llall, pa le mae'r corph? Os tynnir y corph oddi wrth y pen, pa le mae bywyd y corph? Ni's gallwn fod yn un â Christ ein Pen, oni byddwn wedi ein gludio ynghyd wrth ein gilydd â chyd-gordiad ac â chariad. Canys y neb nid yw yn yr undeb hwn, nid yw yn Eglwys Grist, yr hon sy gynnulleidfa neu gyfundeb, ac nid ymraniad.

Mae St. Paul yn gofyn; *Tra fyddo yn eich plith chwi genfigen, a chynnen, ac ymbleidio, onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio'n ddynol?*[1] A dywed St. Iago; *Od oes gennych gynfigen chwerw ac ymryson yn eich calon, na fyddwch ffrostwŷr—— canys lle mae cynfigen ac ymryson, yno y mae terfysg a phob gweithred ddrwg.*[2] A phaham na wrandawn ar St. Paul, yr hwn sydd yn *deisyf* arnom, lle y gallai *orchymyn* i ni, gan ddywedyd; *Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfan-gyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.*[3] Os yw ei ddymuniad yn rhesymmol ac yn onest, paham nad ydym yn ei ganiattâu? Os yw ei ddeisyfiad er lles i ni, paham yr ydym yn ei wrthod?

Ac oni fynnwn wrando ei arch a'i ddeisyfiad, gwrandawn er hynny ar ei annogaeth, lle y dywed; *Deisyf arnoch yr wyf fi, ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi, gyd â phob gostyngeiddrwydd ac addfwynder, ynghyd â hir-ymaros, gan oddef eich gilydd mewn cariad; gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Yspryd ynghwlwm tangnefedd. Un corph sydd, ac un Yspryd, un ffydd, un bedydd.*[4] Nid oes, eb efe, ond *un* Corph, o'r hwn ni ddichon efe fod yn aelod byw, yr hwn sy mewn anghyttundeb â'r aelodau eraill. *Un* Yspryd sydd, yr Hwn sy'n cyssylltu ac yn cylymmu'r cwbl yn un. A pha fodd y gall yr *un* Yspryd hwn deyrnasu ynom, pan fyddom ni wedi ymrannu yn ein plith ein hunain? Nid oes ond un Ffydd: a pha fodd ynte y gallwn ni ddywedyd fod un dyn o'r hen ffydd, a dyn arall o'r ffydd newydd? Nid oes ond *un* Bedydd: gan hynny oni fydd pawb a fedyddiwyd, yn un? Y mae cynnen yn peri ymraniad; am hynny ni ddylai fod ym mhlith Cristionogion, y rhai y mae un Ffydd ac un Bedydd yn eu cyssylltu mewn undeb.

Ond os diystyrwn ddeisyfiad ac annogaeth St. Paul, er hynny o leiaf ystyriwn ei ymbiliau difrifol, yn yr hwn y mae efe yn daer yn gorchymyn i ni, ac (fel y dywedwyf felly) yn ein *tynghedu*, yn y ffurf a'r dull hwn: *Od oes dim diddanwch yng Nghrist, od oes dim cysur cariad, od oes dim cymdeithas yr Yspryd, od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau;*

[1] 1 Cor. 3. 3. [2] St. Iago 3. 14, 16. [3] 1 Cor. 1. 10. [4] Ephes. 4. 1—5.

*cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad gennych, yn gyttûn, yn synied yr un peth: na wneler dim trwy gynnen neu wag-ogoniant.*[1] Pwy a'r sy ganddo ddim ymysgaroedd tosturi, na chyffrôir â'r geiriau effeithiol hyn? Calon pwy sy mor greiglyd, na all cleddyf y geiriau hyn, yr hwn sy 'n llymmach nag un cleddyf dau finiog, ei thorri 'n ddwy? Gan hynny ymegnïwn i gyflawni llawenydd St. Paul yma yn y fan hon, yr hwn a fydd yn y diwedd yn llawenydd mawr i ninnau hefyd mewn man arall.

Darllenwn felly yr Ysgrythyr, fel y gwneler ni wrth ei darllen yn well bucheddwŷr, yn hytrach nag yn ddadleuwŷr mwy cynhennus. O bydd anghenraid dysgu, rhesymmu, neu ddadleu dim, gwnawn hynny gyd â phob addfwyndra, tiriondeb, a lledneisrwydd. Os digwydd dywedyd dim yn anweddaidd, cyd-ddygwn â gwendid y naill y llall. Yr hwn a fyddo yn feius, bydded iddo wellhâu, yn hytrach nag amddiffyn yr hyn a ddywedodd ar fai; rhag iddo, wrth ymgynhennu, gwympo o gamsyniad annoeth i wrthgas heresi: gan mai gwell yw rhoi i fynu 'n addfwyn, nag ennill y ddadl drwy dorri cariad perffaith, yr hyn sy 'n digwydd pan fynno pob dyn yn gwrthnysig amddiffyn ei opiniwn ei hun.

Os ydym Gristionogion, paham na ddilynwn Grist, yr Hwn a ddywed; *Dysgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon?*[2] Rhaid i'r disgybl ddysgu addysg ei athraw; a rhaid i'r gwas ufuddhâu gorchymyn ei feistr. *Pwy sydd wr doeth a deallus yn eich plith?* ebe St. Iago: *dangosed, trwy ymarweddiad da, ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra doethineb. Eithr od oes gennych gynfigen chwerw ac ymryson,* —— *nid yw y doethineb hwn yn disgyn oddi uchod; ond daearol, anianol, cythreulig yw.* Canys *y doethineb sydd oddi uchod*, oddi wrth Yspryd Duw, sy *bur*, heb ei llygru gan ddim tueddiadau drygionus; mae 'n *heddychol*, tawel, ac addfwyn, yn casâu pob chwant at gynnen; yn *hawdd ei thrin*,[3] yn ufudd, yn ddirwgnach yn cymmeryd addysg, ac yn rhoi lle i'r rhai a ddysgont yn well er mwyn eu diwygio.

O herwydd ni bydd byth ddiwedd ar ymrafael a chynnen, os ymrysonwn ni pwy a gaiff y llaw uchaf a bod yn feistr yn y ddadl; os pentyrrwn gamsyniad ar gamsyniad, ac os parhâwn i amddiffyn yn wrthnysig yr hyn a ddywedpwyd yn fyrbwyll. Canys y gwir ydyw, fod ystyfnigrwydd i amddiffyn rhyw opiniwn, yn magu cynnen, ymrafael, ac ymdaeru; yr hwn o bob bai arall yw 'r pla mwyaf dinystriol i dangnefedd a llonyddwch cyffredin. Ac am ei fod yn sefyll rhwng *dwy blaid*, (canys odid fod neb yn ymdaeru *âg ef ei hun)* felly y mae'n cynnwys *dau* fai o'r atgasaf: y *naill* yw codi cwerylon drwy eiriau chwerwon a

[1] Phil. 2. 1—3. [2] St. Mat. 11. 29. [3] St. Iago 3. 13—17.

chynhennus; a'r *llall* yw ateb yn wrthgas a chyndyn, ac aml roi geiriau drwg yn ol drachefn.

Mae'r cyntaf mor ffiaidd, fel y dywed St. Paul; ***Os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilun-addolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr; gyd â'r cyfryw ddyn na chyd-fwytta chwaith.***[1] Yn awr ystyriwch yma fod St. Paul yn cyfrif *difenwr*, hynny yw, cwerylwr, ymdaerwr, neu ymsennwr, gyd â lladron ac eilun-addolwŷr; a daw lawer tro lai o ddrwg oddi wrth leidr nag oddi wrth dafod difenwol: canys y mae'r naill yn dwyn ymaith enw da dyn; nid yw'r llall yn dwyn ond ei olud ef, yr hwn sy lawer llai gwerthfawr na'i enw da ef. Ac nid yw lleidr yn drygu neb ond y sawl y mae yn ei yspeilio: ond y mae'r hwn sy ganddo dafod drwg yn blino'r holl dref lle mae'n byw, ac weithiau'r holl wlad. Ac y mae tafod difenwol yn bla mor heintus, fel y myn St. Paul i Gristionogion ochelyd cwmpeini'r cyfryw, *a pheidio na bwytta nac yfed gyd â hwynt.* Ac er na fyn i wraig Gristionogol ymadael â'i gwr, er ei fod yn anghredadyn, neu i was Cristionogol ymadael â'i feistr, yr hwn sydd yn anghredadyn; er ei fod, meddaf, yn goddef fel hyn i Gristion gymdeithasu âg anghredadyn, etto mae'n gwahardd i ni na bwytta nac yfed gyd â difenwr neu gwerylwr.

Ac hefyd yn y chweched bennod at y Corinthiaid, efe a ddywed fel hyn: *Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwŷr, nac eilun-addolwŷr, na thorrwŷr priodas, na difenwŷr—— etifeddu teyrnas Dduw.*[2] Rhaid bod y bai yn fawr, a baro i dad ddïetifeddu ei fab naturiol: a pha fodd y gall difenwi a chablu ynte amgen na bod yn ddamnediccaf pechod, ac yntau yn peri i Dduw, ein trugarroccaf a'n carediccaf Dad, ein difuddio ni o wynfydediccaf deyrnas nefoedd?

Yn erbyn y pechod arall, sef talu sen am sen, y mae Crist ei Hun yn llefaru, gan ddywedyd: *Yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Na wrthwynebwch ddrwg; ond cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnel niweid i chwi, ac a'ch erlidiant; fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd: canys y mae Efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.*[3] Ac â'r athrawiaeth hon o eiddo Crist y cyttuna'n dda yr hyn y mae St. Paul, llestr etholedig Duw, yn ei ddysgu i ni, yr hwn nid yw'n peidio â'n hannog a galw arnom, gan ddywedyd; *Bendithiwch y rhai sydd yn eich ymlid, bendithiwch ac na felldithiwch. Na thelwch i neb ddrwg am ddrwg. Os yw bosibl, hyd y mae ynoch, byddwch heddychlawn â phob dyn.*[4]

[1] 1 Cor. 5. 11. [2] 1 Cor. 6. 9, 10. [3] St. Mat. 5. 39, 44, 45. [4] Rhuf. 12. 14, 17, 18.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# YN ERBYN CYNNEN.

FE ddangoswyd i chwi yn y Bregeth hon yn erbyn ymryson ac ymdaeru, pa anfantais fawr sy'n dyfod o hynny, yn enwedig o'r cyfryw gynnen ag a dyfo ynghylch matterion crefydd; a pha fodd nad oes diwedd ar gynnen ac anghytundeb, pan na fynno'r naill ddyn roi i fynu i'r llall; a bod yr undeb ag y mae Duw yn ei ofyn gan Gristionion yn cael trwy hynny ei lwyr esgeuluso a'i dorri; a bod y gynnen hon yn sefyll yn bennaf mewn dau beth, sef codi cwerylon, a rhoi attebion ystyfnig.

Yn awr chwi a gewch glywed geiriau St. Paul, yn dywedyd; *Nac ymddïelwch, rai anwyl; ond rhoddwch le i ddigofaint; canys y mae'n ysgrifenedig, I mi y mae dïal, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd: am hynny, os dy elyn a newyna, portha ef; os sycheda, dyro iddo ddïod. Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni drwy ddaioni.*[1] Yr holl rai hyn ydynt eiriau St. Paul. Ond y rhai sy'n llawn o falchder, ac yn meddwl cymmaint o honynt eu hunain fel na allant oddef un gair drwg a ddyweder yn eu herbyn, a ddywedant ond odid; Os difenwir fi, a raid i mi sefyll yn llonydd fel mul neu ynfyd, â'm bys yn fy ngenau? A fyddaf fi mor ynfyd a gwirionffol a goddef i bob dyn ddywedyd a fynno am danaf, fy nifenwi fel y mynno, a phoeri ei holl wenwyn arnaf wrth ei ewyllys? Onid gweddus atteb ddrwg-ddywedwŷr yn ol eu geiriau eu hunain? Os byddaf fi mor esmwyth a llednais a hyn, ni wnaf ond ychwanegu traha fy ngwrthwynebwŷr, ac annog eraill i wneuthur y cyffelyb. Y cyfryw resymmau a wnant hwy, y rhai ni allant oddef dim, i amddiffyn eu hannïoddefgarwch. Ac etto, pe byddai gobaith, drwy roi atteb gwrthnysig i ddyn gwrthnysig, y diwygid ei wrthnysigrwydd, byddai llai o fai ar y neb a attebai felly, ond iddo wneuthur hynny nid o lid a malais, ond o fwriad i ddiwygio'r sawl a fyddo felly yn wrthnysig neu faleisus.

Ond y neb ni fedro wellhâu bai dyn arall, neu ni fedro ei wellhâu heb fod ei hun yn feius, gwell yw bod un yn golledig na bod dau. Ac os

[1] Rhuf. 12. 19—21.

na all ei lonyddu ef â geiriau tyner, o leiaf na ddilyned ei esampl ef mewn geiriau drwg ac angharìadol. Os gall ei ddiddigio ef drwy oddef, goddefed; ac os amgen, gwell yw dïoddef drwg na gwneuthur drwg, dywedyd yn dda na dywedyd yn ddrwg. Canys y mae atteb da am ddrwg, yn dyfod oddi wrth Yspryd Duw; ond y mae talu drwg am ddrwg yn dyfod oddi wrth yr yspryd aflan.

Yr hwn ni allo dymheru a llywodraethu ei anwydau, nid yw ond gwan a dirym, ac yn debyccach i wraig neu blentyn nag i wr cryf. Canys y gwir gryfder a gwroldeb yw gorchfygu llid, a dïystyru camwri a ffolineb dynion eraill. Ac heblaw hyn, pan ddïystyro dyn y camwedd a wneler iddo gan ei elyn, gwel pawb iddo ei ddywedyd neu ei wneuthur yn ddïachos; ond yn y gwrthwyneb, mae'r neb sy'n ymgythruddo ac yn ffrommi o'i herwydd, yn gwneuthur achos ei elyn yn well, ac yn rhoi achos i bawb i dybied fod y peth yn wir. Ac felly wrth fyned ynghylch dïal drwg, yr ydym yn dangos ein bod ni ein hunain yn ddrwg; ac wrth gospi a dïal ffolineb dyn arall, yr ydym yn ychwanegu ac yn dyblu ein ffolineb ein hunain.

Ond llawer o esgusion sy gan y rhai a fynnant yn gyndyn esgusodi eu hanïoddefgarwch. Nid yw fy ngelyn i, meddant, yn deilwng i gael geiriau na gweithredoedd tirion, ac yntau mor llawn o falais ac ystyfnigrwydd. Po annheilyngaf fyddo efe, mwyaf cymmeradwy gan Duw a chanmoledig gan Grist wyt ti, er mwyn yr Hwn y dylit dalu da am ddrwg, am iddo Ef orchymyn i ti, a haeddu ar dy law, i ti wneuthur felly. Mae dy gymmydog, ond odid, wedi dy dramgwyddo ar air: galw di i'th gof fynyched a thrymmed ar air a gweithred y tramgwyddaist ti dy Arglwydd Dduw. Beth oedd dyn, pan fu Crist farw drosto? Onid ei elyn Ef oedd, ac annheilwng o'i ffafr a'i drugaredd? A'r un modd, gyd â pha dirionder ac amynedd y mae Efe yn dy oddef di ac yn cyd-ddwyn â thi, er dy fod di beunydd yn ei ddigio Ef? Maddeu dithau, gan hynny, i'th gymmydog gamwedd bychan, fel y maddeuo Crist i tithau lawer mil o droseddau, yr hwn wyt beunydd yn pechu. Oblegid os tydi a faddeui i'th frawd a droseddodd yn dy erbyn, yna y mae gennyt arwydd ac argoel dïogel y maddeua Duw i tithau, yr Hwn y mae pawb yn ddyledwŷr iddo ac yn droseddwŷr yn ei erbyn. Pa fodd y mynnit ti i Dduw fod yn drugarog wrthyt ti, os tydi a fyddi greulon wrth dy frawd? Ai ni chlywi di ar dy galon wneuthur i'th *gyd-greadur*, yr hyn a wnaeth Duw i ti, yr hwn nid wyt ond *gwas* iddo?

Oni ddylai'r naill bechadur faddeu i'r llall, wrth weled ddarfod i Grist, yr hwn *nid oedd* yn bechadur, weddïo ar ei Dad dros y rhai yn ddidrugaredd ac yn ddïystyrllyd a'i rhoddasant i farwolaeth? *Yr hwn*

*pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddïoddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.*[1] A pha beth a wnei di yn ymffrostio o'r Pen, onid ymdrechi ar fod yn y corph? Ni elli fod yn aelod i Grist, oni chanlyni di gamrau Crist; yr Hwn, medd y Prophwyd, *fel oen a arweinid i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai Yntau ei enau*[2] i ddifenwi; ond agorodd ei enau dros ei groeshoelwŷr, gan ddywedyd; *O Dad, maddeu iddynt; canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur.*[3] Yr hon esampl, yn fuan ar ol Crist, a ddilynodd St. Stephan,[4] a St. Paul ar ei ol yntau: *Pan y'n difenwir,* eb efe, *yr ydym yn bendithio; pan y'n herlidir, yr ydym yn ei ddïoddef; pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddïo.*[5] Fel hyn byddai St. Paul yn dysgu yr hyn a arferai wneuthur, ac yn arfer gwneuthur yr hyn a ddysgai. *Bendithiwch y rhai sydd yn eich ymlid,* meddai: *bendithiwch, ac na felldithiwch.*[6] Ai peth mawr yw i ti *ddywedyd* yn dda am dy elyn, a Christ wedi gorchymyn i ti *wneuthur* yn dda iddo? Pan felldithiodd Simei Dafydd, ni cheryddodd Dafydd Simei, ond dywedodd yn amyneddgar; *Gadewch iddo, a melldithied: fe allai yr edrych yr Arglwydd ar fy nghystudd i.*[7]

Mae hanesion yn llawn o esamplau am baganiaid a gymmerasant yn addfwyn eiriau sarhâus ac enllibus, a gweithredoedd traws a chamweddus. Ac a gaiff y paganiaid hynny ragori mewn amynedd arnom ni, y rhai ydym yn proffesu Crist, Dysgawdwr ac Esampl o bob dïoddefgarwch? Lysander, pan oedd rhywun yn ymwylltio yn ei erbyn ac yn ei ddifenwi, a ddywedodd, heb ddim cyffro, Iddo 'n awr, iddo 'n awr, dywed yn fy erbyn gymmaint ac mor aml ag y mynnech, ac na ad ddim heb ei ddywedyd, os gelli wrth hynny dy waghâu dy hun o'r pethau drwg yr ymddengys dy fod yn llawn o honynt. Llawer a ddywedant yn ddrwg am bawb, am na fedrant ddywedyd yn dda am neb. Dyma 'r modd yr ymgadwodd y dyn doeth hwn rhag y geiriau trahâus a ddywedpwyd wrtho, gan eu cyfrif i ryw glefyd naturiol ag oedd ar ei wrthwynebwr. Pericles, pan ddifenwodd rhyw ymsennwr cecrus ef, nid attebodd un gair iddo, ond myned i ryw rodfa ddirgel; a thu a'r nos, pan oedd yn myned adref, yr ymsennwr hwn a'i canlynodd, gan ymgynddeiriogi 'n fwy o lawer wrth weled y llall yn ei ddïystyru; ac wedi dyfod hyd at ei borth, a hi yn nos dywyll, archodd Pericles i un o'i weision oleu lamp, a hebrwng yr enllibiwr i'w dŷ ei hun. Efe nid yn unig a oddefodd yn llonydd yr ymgecrwr hwn, ond talodd hefyd dro da am dro drwg, a hynny i'w elyn.

[1] St. Petr 2. 23. [2] Esay 53. 7. [3] St. Luc 23. 34. [4] Act. 7. 60. [5] 1 Cor. 4. 12, 13. [6] Rhuf. 12. 14. [7] 2 Sam. 16. 11, 12.

Onid yw 'n gywilydd i ni sy 'n proffesu Crist, fod yn waeth nag ethniciaid, a hynny mewn peth sy 'n perthyn yn bennaf i grefydd Crist? A wna philosophyddiaeth eu perswadio hwynt yn fwy nag y caiff gair Duw ein perswadio ni? A gaiff rheswm naturiol dyccio mwy gyd â hwynt, na chrefydd gyd â ni? A gaiff doethineb dyn eu tywys hwynt i'r pethau na all athrawiaeth y nef ein tywys ni? Er annog Pericles i ddigofaint gan *lawer* o eiriau athrodus, nid attebodd un gair. Ond pa fyd a wnawn *ni*, os cyffroir ni hyd yn nod ag *un* gair bychan; pa fodd y ffrommwn, yr ymwylltiwn, y tarawn ein traed wrth y llawr, ac y rhythrwn ein llygaid fel gwallgofiaid! Fe wna llawer dyn fatter mawr o ddefnydd gwael, ac o wreichionen y gair lleiaf fe a gynneua dân dirfawr, gan gymmeryd pob peth yn y golygiad gwaethaf.

Ond pa faint gwell, a thebyccach i athrawiaeth Crist, fyddai yn hytrach wneuthur bai mawr yn ein cymmydog yn fai bychan, gan ymresymmu ynom ein hunain fel hyn? Efe a ddywedodd y geiriau hynny am danaf; ond mewn gwylltineb disymmwth y llefarodd hwynt; neu, y ddiod a'u llefarodd, ac nid efe; neu, efe a'u dywedodd ar gymhelliad rhyw un arall; neu, efe a'u llefarodd mewn anwybodaeth o'r gwirionedd; neu, nid yn fy erbyn i y dywedodd hwynt, ond yn erbyn rhywun ag yr oedd yn tybied mai myfi ydoedd.

Ond ynghylch drwg absen; yr hwn sy 'n barod i enllibio eraill, holed ei hun yn gyntaf, a ydyw efe'n ddifai ac yn lân oddi wrth y bai y mae 'n ei weled mewn arall. Canys y mae 'n gywilydd i ddyn feio ar arall, a bod yn euog ei hun o'r un bai, neu o fai a fyddo mwy. Mae 'n gywilydd i ddyn dall alw dyn arall yn ddall; a mwy cywilydd yw i'r neb a fo 'n gwbl ddall alw dyn cibddall yn llygatgam: canys hyn yw gweled brycheuyn yn llygad dyn arall, pan fo gan ddyn drawst yn ei lygad ei hun. Yna bydded iddo ystyried, fod y sawl sy 'n arfer enllibio, yn cael yn gyffredin yntau ei enllibio. A'r hwn a ddywetto 'r hyn a fynno, wrth ei ewyllys, a gymhellir i glywed yr hyn *na's* mynno, yn *erbyn* ei ewyllys. Cofied ym mhellach yr ymadrodd hwn; *Mai am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif.*[1] Pa faint mwy ynte y rhaid i ni roi cyfrif am ein geiriau llymion, chwerwon, a chynhennus, y rhai a gyffroant ein brawd i ddigio, ac felly i dorri ei gariad?

Ac ynghylch rhoi atteb chwerw; er cymmaint y cyffroir ni drwy gabl-eiriau dynion eraill, etto ni ddilynwn ni eu hafrywiogrwydd hwy drwy ddrwg attebion, os ystyriwn fod digofaint yn fath o wal'gofrwydd, a bod yr hwn sy 'n ddig megis allan o'i bwyll ar y pryd. Am hynny

[1] St. Mat. 12. 36.

gocheled, rhag iddo yn ei wallgofrwydd ddywedyd dim y byddo ganddo achos cyfiawn i edifarhâu o'i blegid ar ol hynny. A'r nèb a ddalio nad ydyw digofaint yn wallgofrwydd, ond fod ganddo reswm pan fo ddiccaf; yna ymresymmed âg ef ei hun fel hyn pan fyddo'n ddigofus: Yn awr yr ydwyf wedi fy nghyffroi a'm cythruddo gymmaint, fel y byddaf, ym mhen ychydig, o feddwl arall: paham gan hynny y dywedaf yn awr yn fy nigllonedd y peth ar ol hyn, pan ewyllysiwyf fwyaf, ni allaf ei newid? Paham y gwnaf ddim yn awr, a minnau megis allan o'm pwyll, am yr hyn, pan ddelwyf eilwaith attaf fy hun, y byddaf yn drwm ac yn athrist? Paham na ddichon rheswm, paham na ddichon duwioldeb, ïe, paham na ddichon Crist, gael hynny ar fy llaw i *yn awr*, yr hyn rhagllaw a gaiff *amser* gennyf?

Os gelwir dyn yn odinebwr, yn occrwr, yn feddwyn, neu ar ryw enw gwarthus arall, ystyried yn ddifrif pa un ai yn iawn, ai ar gam, y gelwir ef felly: os *yn iawn*, gwellhâed ei fai, fel na bo achos cyfiawn i'w wrthwynebwr ddannod iddo 'r fath feiau rhagllaw; ond os *ar gam* y rhoir y pethau hyn yn ei erbyn, ystyried er hynny a roddodd efe ddim *achlysur* i neb ddrwg-dybio 'r pethau hynny arno; ac felly gall dorri ymaith y cyfryw ddrwg-dybiaeth, a byw mewn pethau eraill yn fwy gochelgar. —— Ac wrth ein harfer ein hunain yn y modd yma, ni's gallwn gael niwed yn y byd, ond yn hytrach lles mawr, oddi wrth waradwyddiadau ac enllib ein gelyn. Canys fe ddichon gwaradwyddiad gelyn fod i lawer yn effeithiolach swmbwl i'w cymmell i wellhâu eu buchedd, na rhybudd tyner cyfaill. Philip, brenhin Macedonia, pan enllibid ef gan benaduriaid dinas Athen, a ddïolchodd yn fawr iddynt, am ddarfod drwyddynt hwy ei wneuthur ef yn well yn ei eiriau a'i weithredoedd: Canys yr wyf yn myfyrio, eb efe, pa fodd y gallaf, yn yr hyn a ddywedwyf ac a wnelwyf, brofi eu bod hwy yn gelwyddog.

Y DRYDEDD RAN O'R BREGETH

# YN ERBYN CYNNEN.

CHWI a glywsoch yn y rhan ddiweddaf o'r Bregeth yn erbyn ymryson ac ymdaeru, pa fodd y gallwn atteb i'r rhai sy 'n amddiffyn eu geiriau afrywiog mewn cynnen, ac i'r rhai a fynnant ddïal â geiriau y drwg a wnelo eraill iddynt; ac yn ddiweddaf, pa fodd y mae i ni ymddwyn yn ol ewyllys Duw, a pha beth sy raid i ni ei ystyried tu ag at y rhai y cyffroir ni ganddynt, â geiriau enllibaidd, i gynnen ac ymryson.

Yn awr, i fyned rhagom yn yr un pwngc, chwi a gewch wybod yr iawn ffordd i wrthbrofi ac i orchfygu eich gwrthwynebwr a'ch gelyn. Dyma'r ffordd oreu i ddyn wrthbrofi ei elyn, *byw* felly, fel y gallo pawb sy 'n adnabod ei onestrwydd ef dystiolaethu ei fod yn cael ei enllibio yn ddïachos. Os bydd y bai yr enllibir ef o'i achos, o'r fath ag y bo raid iddo atteb, er mwyn amddiffyn ei onestrwydd, attebed yn dawel ac yn arafaidd, yn y modd yma, Mai ar gam y rhoddir y beïau hynny yn ei erbyn. O herwydd gwir yw 'r hyn a ddywed y Gwr Doeth; *Atteb arafaidd a ddettry lid: ond gair garw a gyffry ddigofaint.*[1] Atteb afrywiog Nabal a gyffrôdd Ddafydd i ddïal creulon; ond geiriau tyner Abigail a ddiffoddodd y tân eilwaith, ag oedd o'r blaen yn fflammychu yn anial.[2] Ac nid oes feddyginiaeth well yn erbyn tafodau maleisus, na 'n harfogi ein hunain â dïoddefgarwch, llarieidd-dra, a distawrwydd, rhag wrth amlhâu geiriau gyd â'r gelyn, ein gwneuthur ni cynddrwg ag yntau.

Ond y rhai ni allant oddef un gair enllibus, a ddygant ymlaen, ond odid, yn esgus drostynt eu hunain, fod yn ysgrifenedig; *Yr hwn a esgeuluso ei enw da, sy greulon.* Yr ydym yn darllen hefyd; *Atteb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd.*[3] Ac er i'n Harglwydd Iesu dewi wrth rai dywediadau enllibus, etto i eraill Efe a attebodd yn ddyfal. Wrth glywed dynion yn ei alw yn *Samaritan,*[4] yn *fab y saer,*[5] ac yn *yfwr gwin,*[6] nid attebodd ddim: ond pan glywodd hwy yn dywedyd, *Y mae gennyt gythraul,*[7] efe a wnaeth attebiad difrifol i hynny. Digon gwir yw fod amser, pan y mae 'n addas *atteb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun.* Ond bryd arall nid buddiol *atteb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag dy fod yn gyffelyb iddo.*[8]

Pan fo 'r enllib neu 'r gwaradwydd a wneler i ni yn gyssylltedig â

[1] Diar. 15. 1. [2] 1 Sam. 25. 10—35. [3] Diar. 25. 5. [4] St. Ioan 8. 48.
[5] St. Mat. 13. 55. [6] St. Mat. 11. 19. [7] St. Ioan 8. 48. [8] Diar. 25. 4.

pherygl i lawer o bobl, yna mae 'n gofyn i'n hattebiad fod yn ebrwydd a pharod. Canys yr ydym yn darllen i lawer o wŷr sanctaidd o zel dda, atteb a llefaru wrth ormeswŷr a dynion drwg yn llym ac yn ffyrnig: etto nid oedd eu geiriau llymion hyn yn tarddu oddi ar ddigofaint, digasedd, malais, neu chwant i ymddïal, ond oddi ar ddymuniad gwresog i'w dwyn i wir wybodaeth o Dduw, ac oddi wrth fuchedd annuwiol, drwy gerydd ac argyhoeddiad difrifol a llymdost. Yn y zel hon y galwodd St. Ioan Fedyddiwr y Phariseaid yn *genhedlaeth gwiberod;*[1] ac y galwodd St. Paul y Galatiaid yn *ynfyd;*[2] a'r Cretiaid yn *gelwyddwyddog, drwg fwystfilod,* a *boliau gorddïog;*[3] a'r gau apostolion yn *gwn* ac yn *ddrwg-weithredwŷr.*[4]

Ac y mae 'r zel hon yn dduwiol, ac i'w chymmeradwyo, fel y profir yn eglur drwy esampl Crist, yr Hwn, er ei fod yn ffynhonnell pob addfwynder, arafwch a thiriondeb, etto a alwodd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid gwrthnysig yn *dywysogion deillion,* yn *ffyliaid,* yn *feddau wedi eu gwynnu,* yn *rhagrithwŷr,* yn *seirph,* yn *hiliogaeth gwiberod,* ac yn *genhedlaeth ddrwg a godinebus.*[5] Efe a geryddodd Petr hefyd yn dost, gan ddywedyd; *Dos yn fy ol i, Satan.*[6]—— Yn' gyffelyb y ceryddodd St. Paul Elymas, gan ddywedyd; *O gyflawn o bob twyll a phob ysgelerder, tydi mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder, oni pheidi di â gwyro uniawn ffyrdd yr Arglwydd! Ac yn awr, wele, y mae llaw yr Arglwydd arnat ti, a thi a fyddi ddall heb weled yr haul dros amser.*[7] —— A cheryddodd St. Petr Ananïas yn llymdost iawn, gan ddywedyd; *Ananïas, paham y llanwodd Satan dy galon di i ddywedyd celwydd wrth yr Yspryd Glân?*[8]

Mae 'r zel hon wedi bod mor wresog mewn llawer o ddynion da, fel y cyffrôdd hwynt nid yn unig i lefaru geiriau chwerwon a llymion, ond hefyd i *wneuthur* pethau y tybygai rhai eu bod yn greulon: ond mewn gwirionedd yr oeddynt yn gwbl gyfiawn, cariadol, a duwiol; am na wnaethpwyd hwynt o lid, malais, neu feddwl cynhennus, ond o fwriad gwresog i ogoneddu Duw a chospi pechod, a hynny gan ddynion a alwyd i'r swydd honno. Yn y zel hon y gyrrodd ein Harglwydd Iesu Grist y prynwŷr a'r gwerthwŷr â fflangell allan o'r deml.[9]—— Yn y zel hon y torrodd Moses y ddwy lêch a dderbyniasai efe gan Dduw, pan welodd efe blant Israel yn dawnsio o amgylch y llo, ac a barodd ladd *ynghylch tair mil o wŷr* o'i bobl ei hun.[10]—— Yn y zel hon Phinees, mab Eleazar, a wanodd â'i gleddyf Zimri a Chozbi, y rhai a ddaliodd ynghyd yn y weithred o aflendid.[11]

[1] St. Mat. 3. 7. [2] Gal. 3. 1. [3] Tit. 1. 12. [4] Phil. 3. 2. [5] St. Mat. 23. 16, 27, 33. a 16. 4. [6] St. Mat. 16. 23. [7] Act. 13. 10, 11. [8] Act. 5. 3. [9] St. Ioan 2. 15. [10] Exod. 32. 19, 28. [11] Num. 25. 8.

I ddychwelyd weithian, gan hynny, at eiriau cynhennus, ac yn enwwedig mewn matterion o grefydd a gair Duw, (yr hwn y dylid ei arfer gyd â phob gwylder, sobrwydd, a chariadoldeb) fe ddylid nodi a chofio'n dda eiriau St. Iago, lle y dywed; *Lle y mae ymryson, yno y mae pob gweithred ddrwg.*[1] Ac ebe'r brenhin doeth Solomon; *Anrhydeddus yw i wr beidio âg ymryson; ond pob ffol a fyn ymyrraeth.*[2]

Ac am fod y bai hwn mor niweidiol i gymdeithas wladwriaethol, yr ydys ym mhob dinas hydrefn yn cospi'r ymdaerwŷr a'r cynhenwŷr cyffredin hyn â rhyw gospedigaeth nodedig, megis drwy eu gosod ar stoldrochi, mewn gwddf-gyffion, neu'r cyffelyb gyfryw. Ac ni haeddent hwy gael byw mewn gwladwriaeth, y rhai sydd, hyd y gallant, trwy ymryson ac ymsennu, yn aflonyddu tawelwch a thangnefedd y wladwriaeth.

Ac o ba le y mae'r gynnen, yr ymryson, a'r anghydfod yma yn dyfod, ond o falchder a gwag-ogoniant? *Ymddarostyngwn gan hynny dan alluog law Duw,*[3] yr Hwn a addawodd orphwysdra i'r gostyngedig a'r isel o yspryd.

Os ydym ni'n Gristionogion llonydd a da, ymddangosed hynny yn ein geiriau a'n tafodau. Os ymwrthodasom ni â diafol, nac arferwn mwyach dafodau dieflig. Yr hwn sy wedi bod yn ymsennwr cynhennus, bydded bellach yn gynghorwr arafaidd.—— Yr hwn sy wedi bod yn enllibiwr maleisus, bydded weithian yn gariadus ddiddanydd.—— Yr hwn sy wedi bod yn ddifenwr ofer, bydded yn awr yn athraw ysprydol.—— Yr hwn sy wedi camarfer ei dafod drwy felldithio, arfered ef bellach mewn bendithio.—— Yr hwn sy wedi camddefnyddio ei dafod mewn drwg-ddywedyd, defnyddied ef yn awr mewn dywedyd yn dda.

Bwrier ymaith oddi wrthych bob chwerwder, llid, ymryson, a chabledd. Os gellwch, ac os bydd posibl, na ddigiwch mewn modd yn y byd. Ond os chwi ni ellwch fod yn hollol rydd oddi wrth y nwyd hon, yna tymherwch a ffrwynwch hi, fel na allo eich cyffroi i ymgynhennu ac ymdaeru. Os cythruddir chwi â drwg eiriau, ymarfogwch â dïoddefgarwch, llarieidd-dra, a distawrwydd, naill ai drwy fod heb ddywedyd dim, neu ynte drwy fod yn dyner iawn, yn addfwyn, ac yn llednais yn eich attebion. Gorchfyga dy wrthwynebwr â chymmwynasau ac â thiriondeb; ac uwchlaw pob peth, cedwch undeb a thangnefedd. Na fyddwch annhangnefeddwŷr, ond tangnefeddwŷr: ac yna nid oes ammheuaeth na bydd i Dduw, Awdwr diddanwch a thangnefedd, ganiattâu i ni heddwch cydwybod, a chyfryw gyd-gordiad a chyttundeb, fel âg un genau ac âg un meddwl y gallom ogoneddu Duw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist; i'r Hwn y byddo'r holl ogoniant yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

[1] St. Iago 3. 16. [2] Diar. 20. 3. [3] 1 St. Petr 5. 6.

Ar ol hyn y dilyn PREGETHAU ynghylch *Ymprydio, Gweddïo, Elusen, Genedigaeth ein Hiachawdwr Crist, Ei Ddioddefaint, Ei Adgyfodiad, A'i Esgyniad: Dyledus dderbyn ei Fendigaid Gorph a'i Waed, dan y ffurf o Fara a Gwin:— Yn erbyn Seguryd, Yn erbyn Glythineb a Meddwdod, Yn erbyn Cybydd-dod, Yn erbyn Cynfigen, Llid, a Malais;* gyd â llawer o fatterion eraill, ffrwythlon ac angenrheidiol er adeiladaeth pobl Gristianus, a chynnydd buchedd dduwiol. *Amen.*

DUW A GADWO 'R BRENHIN.

# AIL LYFR

YR

# HOMILIAU,

YNGHYLCH

Y CYFRYW FATTERION AG A ADDAWYD AC A BENNODWYD

YN

Y RHAN FLAENAF O'R HOMILIAU.

*Wedi eu cyhoeddi drwy awdurdod diweddar Fawrhydi 'r Frenhines, ac i'w darllen yn gyttunol â hynny ym mhob Eglwys Blwyf.*

# RHYBUDD

I BOB

# GWEINIDOG EGLWYSIG.

**OBLEGID bod yr Arglwydd yn gofyn gan ei was a osododd Efe goruwch ei deulu, ddangos ffyddlondeb a challineb yn ei swydd, anghenraid fydd i chwi o flaen pawb eraill eich ymddwyn eich hunain yn ffyddlonaf ac yn ddiesgeulusaf o gwbl yn eich uchel alwedigaeth: hynny yw, darllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn gymmwys, yn eglur, ac yn llawn llythyr; addysgu ieuengctid yn ddyfal yn eu Catecism; gweinyddu ei sancteiddiaf Sacramentau Ef yn weddaidd ac yn barchedig; dewis hefyd yn synhwyrol y cyfryw Homiliau ag a fyddo cymhesuraf i'r amser, ac yn gwasanaethu yn oreu er addysg i'r bobl a orchymynwyd i'ch gofal, a hynny gyd â chyfryw bwyll, megis pan dybyger bod yr Homili yn rhy hir i'w darllen ar unwaith, yna ei rhannu hi, i'w darllen, peth y boreu, a pheth brydnhawn. A lle digwyddo bod rhyw Bennod o'r Hen Destament wedi ei gosod i'w darllen ar Sul neu Wyl, yr hon a ellir yn well ei chyfnewid am ryw Bennod arall o'r Testament Newydd a fyddo o fwy adeiladaeth, da y gwnewch os chwi a dreuliwch eich amser yn myfyrio yn dda am y cyfryw Bennodau ym mlaen llaw, fel yr ymddangoso eich doethineb a'ch diwydrwydd yn eich swydd, ac fel y caffo eich pobl achos i ogoneddu Duw am danoch, a bod yn barottach i groesawu eich llafur, er ychwaneg clod i chwi, ac er mwyn cyflawni dyledswydd eich cydwybodau chwi a hwythau.**

# HOMILI

## AM IAWN ARFER EGLWYS NEU DEML DDUW, AC AM Y PARCH SY DDYLEDUS I'R UNRHYW.

### Y BENNOD GYNTAF.

GAN fod yn ymddangos mewn llawer iawn o bobl yn y dyddiau hyn hwyrfrydigrwydd ac esgeulusdra mawr am fyned i'r Eglwys i wasanaethu Duw, eu Tad nefol, yno, yn ol eu rhwymediccaf ddyledswydd, ac hefyd ymddygiad anweddaidd ac ammharchedig llawer o ddynion pan fyddont wedi ymgynnull ynddi; a chan y dichon yn gyfiawn i ofn digofaint Duw gyfodi, a'i echrydus bläau sy 'n crogi uwch ein pennau, am ein camweddau trymion yn hyn o beth, ym mhlith llawer a mawrion bechodau eraill yr ydym bob dydd a phob awr yn eu gwneuthur ger bron yr Arglwydd; am hynny, er mwyn cyflawni dyledswydd ein cydwybodau, ac er mwyn dïangc rhag yr enbydrwydd a'r pla cyffredin sy 'n crogi uwch ein pennau, ystyriwn pa beth a ellir ei ddywedyd allan o sanctaidd Lyfr Duw ynghylch y matter hwn: i'r hyn beth yr wyf yn deisyf arnoch roi gwrandawiad dïesgeulus, am ei fod o fawr bwys, ac yn dwyn perthynas â chwi oll.

Er na ellir cynnwys tragywyddol ac anamgyffredadwy Fawrhydi Duw, yr Hwn *y mae y nef yn orseddfaingc iddo, a'r ddaear yn lleithig ei draed*, mewn temlau neu dai a wnaer â dwylaw dynion, megis mewn trigfannau a allant gynnwys ei Fawredd, megis y dangosir yn eglur gan y Prophwyd Esay, a chan athrawiaeth St. Stephan a St. Paul yn Actau 'r Apostolion. A lle y mae y brenhin Solomon (yr hwn a adeiladodd i'r Arglwydd y deml brydferthaf a wnaed erioed) yn dywedyd; *Pwy sydd abl i adeiladu iddo Ef dŷ, gan na all y nefoedd, ie, nefoedd y nefoedd ei amgyffred, pa faint llai y tŷ hwn a adeiledais i?*[1] Ac y mae 'n cyffesu ym mhellach; *Pwy ydwyf fi, fel y gallwn adeiladu tŷ i*

[1] 1 Cron. 2. 6. a 6. 18.

*Ti, O Arglwydd? ond er mwyn hyn y gwnaethpwyd ef, fel yr edrychit ar weddi dy was, a'i ostyngedig ddeisyfiad:*—— llai o lawer ynte y mae ein Heglwysydd *ni* yn drigfannau addas i dderbyn anfesurol Fawrhydi Duw.

Ac yn wir, prif a hyspysoccaf demlau Duw, yn y rhai y mae yn ymhoffi fwyaf, ac yn ymhyfrydu 'n fwyaf i breswylio ac i aros ynddynt, yw cyrph a meddyliau gwir Gristionogion a dewisedig bobl Dduw, yn ol athrawiaeth yr Ysgrythyr Lân a draethir yn yr Epistol cyntaf at y Corinthiaid. *Oni wyddoch chwi*, ebe St. Paul, *mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch? Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw: canys sanctaidd yw teml Dduw yr hon ydych chwi.*[1] Ac eilwaith yn yr un Epistol; *Oni wyddoch chwi fod eich corph yn deml i'r Yspryd Glân, sydd ynoch, yr Hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain? Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo Duw.*[2] Ac am hynny, fel y'n dysga 'n Hiachawdwr Crist yn Efengyl St. Ioan, y rhai sy 'n *addoli Duw Dad mewn yspryd a gwirionedd*, ym mha le bynnag y gwnelont hynny, yw ei *wir addolwýr Ef; canys y cyfryw y mae'r Tad yn eu ceisio i'w addoli Ef. Yspryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant Ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd*, medd ein Hiachawdwr Crist.[3]

Etto er hyn oll, mae'r Eglwys neu 'r deml o waith llaw yn lle wedi ei bennodi, yn ol arferiad ac esamplau gwastadol yr Hen Destament a'r Newydd, i bobl Dduw i ymgynnull iddi i wrando sanctaidd air Duw, i alw ar ei sanctaidd enw, i ddiolch iddo am ei aneirif a'i annrhaethol ddoniau a roddwyd i ni, ac i arferyd yn gywir ac yn ddyladwy ei sanctaidd Sacramentau: (yn niffuant wneuthuriad yr hyn y mae gwir ac iawn addoliad Duw, y soniwyd am dano eisoes, yn gynnwysedig:) a'r unrhyw Eglwys neu deml a elwir, yn Ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament a'r Newydd, yn Dŷ ac yn Deml yr Arglwydd; o herwydd yr hyspysol wasanaeth a wneir ynddi i'w Fawrhydi gan ei bobl, ac o herwydd effeithiol bresennoldeb ei nefol ras, â'r hwn y mae Efe, trwy ei sanctaidd air, yn cynnysgaeddu ei bobl a fyddant yno 'n ymgynnulledig. Ac i'r Tŷ neu 'r Deml yma o eiddo Duw y mae pawb gwir dduwiol yn rhwym i ddyfod gyd â phob diwydrwydd, ar bob amser ag a osodir drwy drefn gyffredin, oddi eithr eu rhwystro gan glefyd neu ryw achos pwysfawr arall. Ac fe ddylai pawb a ddelont yno ymddwyn gyd â phob llonyddwch a pharch, wrth wneuthur eu rhwymedig ddyledswydd a'u gwasanaeth i'r Hollalluog Dduw ynghynnulleidfa ei Saint.

[1] 1 Cor. 3. 16, 17. [2] 1 Cor. 6. 91, 20. [3] St. Ioan 4. 23, 24.

A'r holl bethau hyn ydynt amlwg i'w profi drwy sanctaidd air Duw, fel yr ymddengys yn eglur rhagllaw.

Ac yn gyntaf oll, mi a ddangosaf wrth yr Ysgrythyrau ei fod yn cael ei alw (fel y mae yn wir) yn Dŷ Dduw, ac yn Deml yr Arglwydd. *Pwy bynnag a dwng i'r deml,* eb ein Hiachawdwr Crist, *sydd yn tyngu iddi, ac i'r hwn sydd yn preswylio ynddi,*[1] gan feddwl Duw Dad; yr hwn hefyd a ddengys Efe 'n eglur yn Efengyl St. Ioan, gan ddywedyd, *Na wnewch dŷ fy Nhad yn dŷ marchnad.*[2] Ac ebe 'r Prophwyd Dafydd yn Llyfr y Psalmau; *Mi a ddeuaf i'th dy di, ac a addolaf tu a'th deml sanctaidd yn dy ofn di.*[3] Ac mewn mannau bron aneirif o'r Ysgrythyr, yn enwedig yn y Prophwydi a Llyfr y Psalmau, gelwir ef yn dŷ Dduw, neu dŷ'r Arglwydd.—— Weithiau gelwir ef yn Dabernacl yr Arglwydd, ac weithiau y Cyssegr, hynny yw, lle neu dŷ sanctaidd yr Arglwydd.—— Gelwir ef hefyd yn dŷ Gweddi, megis y mae Solomon, yr hwn a adeiladodd Deml yr Arglwydd yn Jerusalem, yn aml yn ei alw yn Dŷ 'r Arglwydd, yn yr hwn y gelwid ar enw 'r Arglwydd. —— Ac Esay, yn yr unfed bennod ar bymtheg a deugain, *Fy nhŷ i a elwir yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd.*[4] Yr hon adnod y mae ein Hiachawdwr Crist yn ei dwyn ymlaen yn y Testament Newydd, megis yr ymddengys mewn tri o'r Efangylwŷr, ac yn nammeg y Pharisead a'r Publican: yn yr hon ddammeg fe ddywed ein Hiachawdwr Crist iddynt *fyned i fynu i'r deml i weddio.*[5]—— A byddai Anna, y weddw a'r Brophwydes sanctaidd, *yn gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddïau ddydd a nos yn y deml.*[6]—— Ac yn yr Actau sonir fel yr *aeth Petr ac Ioan i fynu i'r deml ynghyd ar yr awr weddi.*[7]—— A St. Paul, *fel yr oedd yn gweddïo yn y deml* yn Jerusalem, *a syrthiodd mewn llewyg, ac a welodd yr Iesu yn llefaru wrtho.*[8]

Ac megis y gall y duwiol ym mhob lle addas arfer gweddïo yn ddirgel ac o'r neilldu, felly dïammeu yw, mai 'r Eglwys neu 'r Deml ydyw 'r lle dyledus a gosodedig i Weddi gyffredin a chyhoeddus.

Yn awr, mai hwn yw 'r lle i roi dïolch hefyd i'r Arglwydd am ei aneirif a'i annhraethol ddoniau a roddwyd i ni, sy 'n ymddangos yn eglur ddigon yn niwedd Efengyl St. Luc ac yn nechreu 'r Actau, lle mae 'n ysgrifenedig, fod yr Apostolion a'r disgyblion *beunydd yn parhâu yn gyttûn yn y deml,* ac *yn wastadol yn moli ac yn bendithio Duw.*[9]—— Hyspysir hefyd yn yr Epistol cyntaf at y Corinthiaid mai 'r Eglwys yw 'r lle gosodedig i arfer y Sacramentau.

Yn ddiweddaf, yr ydys i ddangos mai 'r Eglwys neu 'r Deml yw 'r lle

[1] St. Mat. 23. 21. [2] St. Ioan 2. 16. [3] Ps. 5. 7. [4] Esay 56. 7. [5] St. Luc 18. 10. [6] St. Luc 2. 37. [7] Act. 3. 1. [8] Act. 22. 17. [9] St. Luc 24. 53. Act. 2. 46.

y dylid darllen a dysgu ynddo fywiol air Duw, (ac nid dychymmygion dyn) a bod y bobl yn rhwym i ddyfod iddi yn ddiesgeulus: a phrofir hyn hefyd wrth yr Ysgrythyrau, fel yr ymddengys rhagllaw.

Yr ydym yn darllen yn Actau 'r Apostolion i Paul a Barnabas bregethu gair Duw yn nhemlau 'r Iuddewon yn Salamis: a phan ddaethant i Antiochia, hwy *a aethant i mewn i'r synagog*, neu yr Eglwys, *ar y dydd Sabbath, ac a eisteddasant. Ac ar ol* y Llith, sef *darllen y gyfraith a'r prophwydi, llywodraethwŷr y synagog a anfonasant attynt, gan ddywedyd, Ha wŷr frodyr, od oes gennych air o gyngor i'r bobl, traethwch. Yna y cyfododd Paul i fynu, a chan amneidio â'i law am osteg, a ddywedodd, O wŷr o Israel, a'r rhai ydych yn ofni Duw, gwrandewch:*[1] &c. &c. ac felly efe a bregethodd bregeth iddynt o'r Ysgrythyrau, yr hon y gellir ei gweled yno 'n gyflawn.

Ac yn y ddwyfed bennod ar bymtheg o'r un Actau, tystiolaethir pa fodd y pregethodd Paul Grist allan o'r Ysgrythyr yn Thessalonica.[2]

Ac yn y bymthegfed bennod, Iago 'r Apostol, yn y sanctaidd Gynghor a'r Gynnulleidfa honno o'i gyd-Apostolion, a ddywed; *Y mae i Moses ym mhob dinas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant ef, gan fod yn ei ddarllen yn y synagogau bob Sabbath.*[3] Wrth y lleoedd hyn gellwch weled arfer darllen Ysgrythyrau 'r Hen Destament ym mhlith yr Iuddewon yn eu synagogau bob dydd Sabbath, ac arfer gwneuthur pregethau oddi wrth yr unrhyw.

Pa faint cymhesurach ynte ydyw fod i Ysgrythyrau Duw, ac yn enwedig i Efengyl ein Hiachawdwr Crist, gael eu darllen a'u hagoryd i ni sy Gristionogion, yn ein Heglwysydd, ac yn hytrach fyth, gan fod ein Hiachawdwr Crist a'i Apostolion yn cymmeradwyo yr arferiad dduwiolaf ac angenrheitiaf hon, ac yn ei chadarnhâu trwy eu hesamplau?

Mae 'n ysgrifenedig yn yr Efangylau mewn amryw leoedd, i'r *Iesu fyned o amgylch holl Galilea, gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu Efengyl y deyrnas:*[4] yn yr hyn leoedd y gosodir allan yn oleu ei fawr ddiwydrwydd yn pregethu 'n wastadol i'r bobl ac yn eu dysgu.—— Yn St. Luc yr ydych yn darllen fyned o'r Iesu, *yn ol ei arfer, i'r synagog,* ac fel y *rhoddwyd atto Lyfr y Prophwyd Esaias:* pa fodd y darllenodd destun ynddo, ac y gwnaeth bregeth arno.[5]—— Ac yn y bedwaredd bennod ar bymtheg, dangosir fel *yr oedd Efe beunydd yn athrawiaethu yn y deml.*[6]—— Ac y mae 'n ysgrifenedig yn yr wythfed o Ioan fel hyn; *A'r Iesu a ddaeth drachefn y bore i'r deml; a'r holl bobl a ddaeth atto Ef; Yntau a eisteddodd ac a'u dysgodd hwynt.*[7]—— Ac yn y ddeunawfed

[1] Act. 13. 14—16. [2] Act. 17. 1, 2. [3] Act. 15. 21. [4] St. Mat. 4. 23.
[5] St. Luc 4. 16, 17. [6] St. Luc 19. 47. [7] St. Ioan 8. 2.

o Ioan, y tystiolaetha ein Hiachawdwr ger bron yr Arch-offeiriad, gan ddywedyd, *Myfi a lefarais yn eglur wrth y byd: yr oeddwn bob amser yn athrawiaethu yn y synagog, ac yn y deml, lle mae 'r Iuddewon yn ymgynnull bob amser; ac yn ddirgel ni ddywedais i ddim.*[1]—— Ac yn St. Luc; Yr ydoedd yr Iesu yn athrawiaethu yn y deml; a'r holl bobl a fore-gyrchent i'w glywed ef.[2]—— Yma y gwelwch ddiwydrwydd ein Hiachawdwr yn dysgu gair Duw yn y deml beunydd, ac yn enwedig ar y dyddiau Sabbath, ac hefyd barodrwydd y bobl yn ymgynnull ynghyd, a hynny yn foreu, i'r deml i wrando arno.

Yr un esamplau o ddiwydrwydd yn pregethu gair Duw yn y deml a gewch yn yr Apostolion, ac yn ymgynhulliad y bobl attynt, yn y bummed o'r Actau; lle y darfu i'r Apostolion, er eu fflangellu 'r dydd o'r blaen, a gorchymyn iddynt gan yr Arch-offeiriad *na lefarent yn enw 'r* Iesu mwyach, fyned er hynny drannoeth yn fore i'r deml; *ac ni pheidiasant a phregethu a dysgu Iesu Grist.*[3]—— Ac mewn amryw fannau eraill o'r Actau y cewch yr un fath ddiwydrwydd yn yr Apostolion yn dysgu, ac yn y bobl yn dyfod i'r deml i wrando gair Duw.—— A thystiolaethir yn y gyntaf o Luc, pan ydoedd Zacharias, yr Offeiriad sanctaidd, a thad Ioan Fedyddiwr, yn aberthu yn y deml, *fod holl liaws y bobl allan yn gweddïo:* gymmaint oedd eu zel a'u gwresowgrwydd yr amser hwnnw.[4]—— Ac yn yr ail o Luc ymddengys pa deithiau mawrion a gymmerai gwŷr, gwragedd, a phlant, i ddyfod i'r deml ar yr ŵyl, i wasanaethu 'r Arglwydd yno; ac yn enwedig esampl Joseph, y Fendigaid Forwyn Fair, mam ein Hiachawdwr Iesu Grist, ac esampl ein Hiachawdwr Crist ei Hun, ac Efe etto 'n blentyn; esamplau y rhai sydd wiw i ni eu canlyn.

Felly os mynnwn gydmaru ein hesgeulusdra ni i ddyfod i Dŷ 'r Arglwydd i'w wasanaethu Ef yno, a diesgeulusdra 'r Iuddewon yn dyfod i'r deml yn fore iawn, weithiau drwy deithiau hirion; a phan na annai 'r deml y lliaws, y zel wresog oedd ganddynt a ddangosir yn eu gwaith yn sefyll yn hir o'r tu allan i weddïo; gallwn yn gyfiawn yn y gydmariaeth hon gondemnio ein syrthni a'n hesgeulusdra, ïe, ein hollol ddiystyrwch, yn dyfod i Dŷ 'r Arglwydd mor anfynych, ac yntau cyn nesed attom, a phrin dyfod iddo un amser.

Mor bell yw llawer o honom *ni* oddi wrth ddyfod yn fore, neu aros i addoli o'r tu allan, y rhai ydym yn diystyru dyfod *i fewn i'r deml!* Ac etto mae 'n gas gennym glywed *enw* yr Iuddewon, megis pobl ddrwg ac annuwiol. Ond mae achos ofni ein bod ni yn hyn o beth yn llawer gwaeth na 'r Iuddewon, ac y cyfodant hwy ddydd y farn i'n condemnio

[1] St. Ioan 18. 20. [2] St. Luc 21. 37, 38. [3] Act. 5. 42. [4] St. Luc 1. 9, 10.

ni, y rhai, mewn cydmariaeth â hwynt, ydym yn dangos y fath ddiogi a dibrisdod am ddyfod i Dŷ 'r Arglwydd i'w wasanaethu Ef yno yn ol ein rhwymedicaf ddyledswydd.

Ac heblaw echrydus ofn cyfiawn farn Duw yn y dydd mawr, ni 's dïangwn yn y bywyd hwn rhag ei law drom a'i ddïaledd am y dïystyrwch hwn at Dŷ 'r Arglwydd, ac at ei ddyledus wasanaeth ynddo, megis y bygythia 'r Arglwydd ei Hun yn y bennod gyntaf o'r Prophwyd Haggai, yn y modd hwn; *Am fod fy nhŷ i yn anghyfannedd*, medd yr Arglwydd, *a chwithau yn rhedeg bawb i'w dŷ ei hun; am hynny gwaharddwyd i'r nefoedd oddi arnoch wlitho, a gwaharddwyd i'r ddaear roddi ei ffrwyth. Gelwais hefyd am sychder ar y ddaear, ac ar y mynyddoedd, ac ar yr ŷd, ac ar y gwin, ac ar yr olew, ac ar yr hyn a ddwg y ddaear allan; ar ddyn hefyd, ac ar anifail, ac ar holl lafur dwylaw.*

Wele, os ydym ni mor fydol na 's gofalwn am dragywyddol farnedigaethau Duw (y rhai ydynt etto yr echryduaf ac arswydusaf oll) ni 's dïangwn rhag cospedigaeth Duw yn y byd hwn drwy sychder a newyn, a thrwy dynnu oddi arnom bob budd a mantais fydol, am y rhai yn unig yr ydym ni yn ein bydolrwydd yn dangos gofal a phryder.—— Ond yn y gwrthwyneb, pe gwellhâem ni y bai neu 'r esgeulusdra hwn, y seguryd a'r dïystyrwch hwn at Dŷ 'r Arglwydd, a'i ddyledus wasanaeth ynddo, ac ymgynnull yn ddyfal iddo, i wasanaethu 'r Arglwydd yn unfryd ac yn gyttûn, *mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron Ef*,[1] mae i ni addewidion o ddoniau nefol a bydol. *Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i*, eb ein Hiachawdwr Crist, *yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.*[2] A pha beth a ddichon fod yn fwy bendigaid na chael ein Hiachawdwr Crist yn ein mysg? Neu pa beth drachefn a ddichon fod yn fwy annedwydd a thrychinebus, na gyrru ein Hiachawdwr Crist ymaith o'n mysg, a chynnwys lle i'n hen a'n marwol elyn ni ac Yntau yn ein canol, yr hen Ddraig a'r Sarph, a Satan ddiafol.

Mae 'n ysgrifenedig yn yr ail o Luc, fel y bu i Mair a Joseph, ar ol chwilio 'n hir am Grist, yr hwn yr oeddynt wedi ei golli, a methu a'i gael yn unlle, o'r diwedd *ei gael Ef yn y deml, yn eistedd yn nghanol y doctoriaid.*[3] Felly os oes arnom eisiau Iesu Grist, sef Iachawdwr ein heneidiau a'n cyrph, ni chawn mo hono yn y farchnadfa, neu yn y dadleudŷ, llai o lawer yn y dafarn, ym mysg cymdeithion glân eu calon (fel y'u gelwir) mor ebrwydd ag y cyfarfyddwn âg Ef yn y deml, Tŷ 'r Arglwydd, ym mhlith dysgawdwŷr a phregethwŷr ei air, lle mae Efe mewn gwirionedd i'w gaffael.

Ac am ddoniau bydol, mae gennym sicr addewid ein Hiachawdwr

[1] St. Luc 1. 75. [2] St. Mat. 18. 20. [3] St. Luc 2. 46.

Crist: *Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.*[1]

Ac fel hyn yn y rhan gyntaf o'r Homili hon, dangosasom drwy air Duw, fod y Deml neu 'r Eglwys yn Dŷ 'r Arglwydd, am mai yno y mae gwasanaeth yr Arglwydd (megis dysgu a gwrando ei sanctaidd air, galw ar ei sanctaidd enw, rhoddi dïolch iddo am ei fawr a'i aneirif ddoniau, a dyledus weinyddu ei Sacramentau) yn cael ei arferyd. Fe ddangoswyd hefyd drwy yr Ysgrythyrau, pa fodd y dylai pob gwŷr a gwragedd duwiol a Christianus, ddyfod yn ddyfal ar y prydiau gosodedig, i Dŷ 'r Arglwydd, i'w wasanaethu a'i ogoneddu Ef ynddo, megis y mae Efe 'n deilyngaf, a ninnau yn rhwymediccaf: i'r Hwn y byddo 'r holl ogoniant a'r anrhydedd yn oes oesoedd. Amen.

### YR AIL RAN O'R HOMILI

## AM IAWN ARFER YR EGLWYS.

FE ddangoswyd yn y rhan gyntaf o'r Homili hon, drwy air Duw, fod y Deml neu 'r Eglwys yn Dŷ 'r Arglwydd, am mai yno y mae gwasanaeth yr Arglwydd (megis dysgu a gwrando ei sanctaidd air, galw ar ei sanctaidd enw, rhoi dïolch iddo am ei fawr a'i aneirif ddoniau, a dyledus weinyddu ei Sacramentau) yn cael ei arferyd. Fe ddangoswyd hefyd drwy yr Ysgrythyrau, pa fodd y dylai pob gwŷr a gwragedd duwiol a Christianus, dyfod yn ddyfal, ar y prydiau gosodedig, i Dŷ 'r Arglwydd, i'w wasanaethu a'i ogoneddu Ef ynddo, megis y mae Efe 'n deilyngaf, a ninnau 'n rhwymediccaf.

Mae 'n aros bellach yn yr ail ran hon o'r Homili am iawn arfer teml Dduw, fod dangos hefyd, drwy air Duw, gyd â pha lonyddwch, distawrwydd, a pharch, y dylai y rhai a ddelont i Dŷ 'r Arglwydd ymddwyn ac ymarweddu yno.

Gallai fod yn ddigon i'n haddysgu gystal y gweddai i ni Gristionogion arfer yn barchus yr Eglwys a Thŷ Sanctaidd ein gweddïau, ped ystyriem ym mha fawr barch ac anrhydedd yr oedd eu teml gan yr

[1] St. Mat. 6. 33.

Iuddewon dan yr hen gyfraith, fel y gwelir drwy amryw leoedd, o ba rai y nodaf i chwi ambell un:——

Yn y chweched ar hugain o Matthew, yr ydys yn rhoddi yn erbyn ein Hiachawdwr Crist ger bron barnwr bydol, gan ddau gau-dyst, megis peth yn haeddu angau, iddo ddywedyd *y gallai ddinystrio teml Dduw, a'i hadeiladu mewn tri diwrnod:*[1] heb ddim ammeu, os hwy a allent beri i'r bobl gredu ddywedyd o hono ddim yn erbyn anrhydedd a mawrhydi 'r deml, y byddai Efe yngolwg pawb yn haeddu marwolaeth.

Ac yn yr unfed ar hugain o'r Actau, pan gafodd yr Iuddewon Paul yn y deml, hwy *a ddodasant ddwylaw arno, gan lefain, Ha wŷr Israeliaid, cynnorthwywch. Dyma'r dyn sydd yn dysgu pawb ym mhob man yn erbyn y bobl a'r gyfraith, a'r lle yma; ac ym mhellach, y Groegiaid hefyd a ddug efe i mewn i'r deml, ac a halogodd y lle sanctaidd hwn.*[2] Gwelwch fel y tybygent mai yr un fath gamwedd oedd dywedyd yn erbyn teml Dduw a dywedyd yn erbyn cyfraith Dduw, a pha fodd y barnent yn gyfaddas na chaffai neb ddyfod i deml Dduw, ond dynion duwiol a gwir addolwŷr Duw.

Ac o'r un bai y cyhuddwyd Paul gan Tertulus yr areithiwr, a chan yr Iuddewon o flaen barnwr bydol, megis peth yn haeddu angau, iddo *amcanu halogi 'r deml.*[3]

Ac yn y seithfed ar hugain o Matthew, wedi cymmeryd o'r archoffeiriaid y deg ar hugain o ddarnau arian yn ol gan Judas, hwy *a ddywedasant, nid cyfreithlon i ni eu bwrw hwynt yn nhrysorfa* 'r deml; *canys gwerth gwaed ydynt.*[4] Felly ni allent ddïoddef nid yn unig i un *dyn* aflan, ond hyd yn nod i ddim *difywyd* ag a gyfrifid yn aflan, ddyfod unwaith i mewn i'r deml, nac i un lle a berthynai iddi.

Ac i'r perwyl hwn y mae geiriau St. Paul yn y chweched o'r ail Epistol at y Corinthiaid i gael eu cymhwyso; *Pa gyfeillach sy rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder? a pha gymmundeb rhwng goleuni a thywyllwch? a pha gyssondeb sy rhwng Crist a Belial? neu pa ran sydd i gredadyn gyd âg anghredadyn? a pha gydfod sy rhwng teml Dduw ac eilunod?*[5] Yr hyn eiriau, er eu bod yn cyfeirio 'n bennaf at deml meddwl y duwiol; etto, o herwydd cymmeryd y gyffelybiaeth a grym y rheswm oddi wrth y deml o waith dwylaw, maent yn pwyso attom na ddylid goddef yn nheml Dduw, yr hon yw 'r lle i addoli Duw, ddim annuwioldeb, yn enwedig o ddelwau neu eilunod; yr hyn ni ellir ei oddef i sefyll yno, mwy nag y gall goleuni gyttuno â thywyllwch, neu Grist â Belial; am fod gwir addoli Duw ac addoli delwau mor wrth-

[1] St. Mat. 26. 61. [2] Act. 21. 27, 28. [3] Act. 24. 6. [4] St. Mat. 27. 6. [5] 2 Cor. 6. 14—16.

wynebus i'w gilydd ag y mae modd iddynt fod. A gall eu gosod i fynu mewn lle o addoliad fod yn achlysur mawr i'w haddoli.

Ond i ddychwelyd at y parch a roddai 'r Iuddewon i'w teml:—— Chwi a ddywedwch eu bod hwy yn ei hanrhydeddu 'n goel-grefyddol, ac yn ormod o lawer, gan lefain, *Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd,* a'u buchedd er hynny yn ddrwg dros ben, a hwythau o'r achos yn cael yn gyfiawnaf eu ceryddu gan Jeremïah, Prophwyd yr Arglwydd.[1] Gwir yw eu bod hwy yn goel-grefyddol yn ymroi i anrhydeddu eu teml: ond mi a fynnwn na byddem ni *mor fyrr* yn rhoi dyledus barch i Dŷ 'r Arglwydd, ag yr aethant hwy yn *rhy bell* yn hynny. Ac os ceryddodd y Prophwyd *hwynt* yn gyfiawn, gwrandewch pa beth a ofyn yr Arglwydd ar ein dwylaw *ninnau,* fel y gwypom a ydym yn haeddu cael ein beio, ai nad ydym.

Mae 'n ysgrifenedig yn y bummed bennod o Lyfr y Pregethwr; *Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i Dŷ Dduw, a bydd barottach i wrando nag i roi aberth ffyliaid; canys ni wyddant hwy eu bod yn gwneuthur drwg. Na fydd rŷ brysur â'th enau, ac na frysied dy galon i draethu dim ger bron Duw: canys Duw sydd yn y nefoedd, a thithau ar y ddaear; ac am hynny bydded dy eiriau yn anaml.*[2] Sylwch, fy ngharedigion, pa lonyddwch mewn agwedd ac ymddygiad, pa ddistawrwydd mewn lleferydd a geiriau, sydd yn ofynol yn *Nhŷ Dduw;* canys felly y mae yn ei alw. Edrychwch a ydynt hwy yn *gwylio ar eu traed,* fel y rhybuddir hwy yma, y rhai ni pheidiant â'u hanweddaidd gerdded ac ymrodio i fynu ac i lawr ac ar draws yr Eglwys, gan ddangos argoel amlwg o'u dirmyg neillduol at Dduw a phob dyn da sydd yno 'n gynnrychiol. A pha wylied ar eu tafodau a'u lleferydd y maent hwy, y rhai nid yn unig a ddywedant eiriau yn *brysur ger bron Duw* (yr hyn a waherddir iddynt yma) ond hefyd yn fynych a lefarant yn halogedig, yn gybyddus, ac yn annuwiol, gan chwedleua yn Nhŷ 'r Arglwydd am bethau y mae prin yn barchus ac yn addas eu crybwyll mewn tafarn? heb fawr ystyried eu bod yn llefaru *ger bron Duw,* yr hwn *sydd yn y nefoedd* (fel y mynegir yma) a hwythau ddim ond pryfed yn ymlusgo ar y ddaear, mewn cydmariaeth i'w Fawrhydi tragywyddol Ef; ac ystyried llai fyth y gorfydd iddynt, yn y dydd mawr, *roi cyfrif am bob gair segur,*[3] lle bynnag y llefarer ef, mwy o lawer am eiriau budron, aflan, neu annuwiol, a lefarer yn Nhŷ 'r Arglwydd, er dïanrhydedd i'w Fawrhydi Ef, a thramgwydd i bawb a'u clywont.

Ac yn wir, am y werin a'r llïaws, i fod yn wrandawŷr, yn hytrach nag yn llefarwŷr, y darparwyd y deml iddynt hwy; os ystyriwn fod

[1] Jer. 7. 4. [2] Preg. 5. 1, 2. [3] St. Mat. 12. 36.

gair Duw yn cael ei ddarllen a'i ddysgu yno, i'r hwn y maent yn rhwym i roi clust ddyfal gyd â phob parch a distawrwydd; a bod gweddi a diolch cyffredin yn cael eu hadrodd yno gan y Gweinidog cyhoeddus yn enw 'r bobl a'r holl liaws cynnrychiol, â'r hwn, gan roi gwrandawiad parod, y dylent ddatgan eu cydsyniad, a dywedyd *Amen*,[1] megis y'n dysga St. Paul yn yr Epistol cyntaf at y Corinthiaid: ac mewn man arall, *Gan ogoneddu Duw âg un yspryd ac âg un genau;* yr hyn ni ddichon fod pan fyddo pob gwr a gwraig, gan rithio defosiynau neillduol iddynt eu hunain, yn gweddio wrthynt eu hunain; un yn deisyf, arall yn rhoi diolch, arall yn darllen athrawiaeth, ac heb ofalu am wrando gweddi gyffredin y Gweinidog.

Ac yn enwedig pa ddyledus barch sydd i'w arfer yngweinyddiad y Sacramentau yn y deml, mae 'r un St. Paul yn dysgu 'r Corinthiaid, gan geryddu 'r sawl a ymddygent yn ammharchus yn y matter hwnnw. *Onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed?* eb efe: *Ai dirmygu yr ydych chwi Eglwys Dduw? Pa beth a ddywedaf wrthych? A ganmolaf fi chwi yn hyn? Nid wyf yn eich canmol.*[2]

Ac nid yw Duw yn gofyn yn unig yr ymddygiad parchus a'r distawrwydd hwn yn *allanol* yn ei Dŷ, ond hefyd bob parch *tumewnol* a glendid meddyliau ein calonnau, gan fygwth drwy ei Brophwyd Hosea, yn y nawfed bennod, fel hyn; *Am ddrygioni eu gweithredoedd y bwriaf hwynt allan o'm Tŷ.*[3] Trwy yr hyn hefyd yr arwyddocceir eu tragywyddol dafliad hwy allan o'i dŷ a'i deyrnas nefol; yr hyn sydd erchyll aruthrol. Ac am hynny y dywed Duw yn y bedwaredd ar bymtheg o Lefiticus; *Perchwch fy nghyssegr: yr Arglwydd ydwyf fi.*[4] Ac yn gyttunol â'r unrhyw y dywed y Prophwyd Dafydd; *Mi a ddeuaf i'th Dŷ di,—— ac a addolaf tu a'th deml sanctaidd yn dy ofn;*[5] gan ddangos pa barch tufewnol a gostyngeiddrwydd meddwl a ddylai fod gan y dyn duwiol yn Nhŷ 'r Arglwydd.

Ac i ddwyn ymlaen rywbeth ynghylch y matter hwn allan o'r Testament Newydd, ym mha barch y mynnai Duw i'w Dŷ neu ei Deml gael ei gadw, a hynny wrth esampl ein Hiachawdwr Crist, awdurdod yr Hwn a ddylai, drwy reswm da, fod o'r pwys a'r cyfrifoldeb mwyaf gyd â phob gwir Gristionogion:—— Ysgrifenwyd gan bob un o'r pedwar Efangylwr, megis gweithred arbennig, ac yn haeddu tystiolaeth llawer o dystion sanctaidd, fel y gwnaeth ein Hachubwr Iesu Grist, yr Arglwydd trugarog a thirion hwnnw, yr Hwn oblegid ei addfwynder a gyffelybir i ddafad yn dioddef yn ddistaw i'w chnu gael ei gneifio oddi arni, ac i oen a arweinid yn ddiwrthwynebiad i'r lladdfa; yr Hwn a

[1] 1 Cor. 14. 16. [2] 1 Cor. 11. 22. [3] Hos. 9. 15. [4] Lef. 19. 30. [5] Ps. 5. 7.

*roddodd ei gorph i'r curwŷr, ac ni chuddiodd ei wyneb oddi wrth waradwydd a phoeredd;*[1] nid attebodd i'w ddifenwŷr; ac, yn ol ei esampl ei Hun, a roddodd i'w ddisgyblion orchymynion o addfwynder a dïoddefgarwch: er hynny, pan welodd Efe y Deml a Thŷ Sanctaidd ei Dad Nefol yn cael ei hannhrefnu, ei halogi, a'i hanurddo, Efe a arferodd doster a llymdra mawr, dymchwelodd fyrddau y newidwŷr arian, taflodd i lawr feingciau y rhai oedd yn gwerthu colommennod, gwnaeth ffrangell o fân reffynnau, ac a ffrewyllodd ymaith y rhai drygionus hynny ag oeddynt yn camarfer ac yn halogi teml Dduw, gan ddywedyd; *Tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ i; ond chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.*[2] Ac yn yr ail o Ioan; *Na wnewch Dŷ fy Nhad i yn dŷ marchnad.*[3] Canys fel y mae yn Dŷ i Dduw, pan wneler gwasanaeth i Dduw yn ddyledus ynddo; felly pan fyddom ni yn annuwiol yn ei gamarfer â'n drygionus ymsiarad, neu â'n cybyddus fargeinio, yr ydym yn ei wneuthur yn ogof lladron, neu yn dŷ marchnad. Ië, y fath barch a fynnai Crist ei fod yno, fel *na adawai Efe i neb ddwyn llestri drwy'r deml.*[4]

Ac fel y dywedpwyd eisoes allan o St. Luc, pan na fedrid cael ein Hiachawdwr Crist mewn un lle arall a'r y ceisid Ef, ond yn unig yn y deml ym mhlith y Doctoriaid; ac yn awr drachefn mae Efe'n dangos ei awdurdod a'i lywodraeth, nid mewn cestyll a brenhindai ym mysg milwŷr, ond yn y Deml: wrth hyn chwi a ellwch ddeall ym mha le y gellir cyfarfod gyntaf â'i deyrnas ysprydol Ef, am yr hon y dywed, mai nid o'r byd hwn y mae, ac ym mha fan y gellir ei hadnabod oreu o bob lle yn y byd.

Ac yn ol esampl ein Hiachawdwr Crist, yn y Brif Eglwys gynt, yr hon oedd sancteiddiaf a duwiolaf oll, ac yn yr hon yr arferid dyledus ddisgyblaeth a thoster yn erbyn y drygionus, ni oddefid i droseddwŷr cyhoeddus fyned i mewn i Dŷ'r Arglwydd, ni dderbynid hwynt i weddi gyffredin nac i arfer y Sacramentau Sanctaidd gyd â gwir Gristionogion eraill, nes iddynt wneuthur penyd cyhoedd ger bron yr holl Eglwys.

A byddid yn gwneuthur hynny nid yn unig ar y rhai isel radd, ond hefyd ar bersonau cyfoethog, bonheddig, a galluog, ïe, gwnaed hynny i Theodosius, yr Ymherawdwr mawr a galluog hwnnw, yr hwn, am iddo wneuthur llofruddiaeth greulon a gwirfoddol, a geryddwyd yn llym gan St. Ambros, Esgob Milan, a ysgymmunwyd ganddo, ac a ddygwyd i benyd cyhoedd.

A'r rhai a ddeolid fel hyn yn gyfiawn, ac megis a alltudid, o Dŷ'r Arglwydd, a gyfrifid (megis yn wir y maent) yn ddynion wedi eu

[1] Esay 50. 6. [2] St. Mat. 21. 13. [3] St. Ioan 2. 16. [4] St. Marc 11. 16.

gwahanu a'u dosparthu oddi wrth Eglwys Grist, ac yn y cyflwr mwyaf enbyd, ïe, fel y dywed St. Paul, *wedi eu traddodi i Satan*[1] dros amser; a gochelid eu cwmni gan bob gwŷr a gwragedd duwiol hyd oni ddarffai eu cymmodi a'u hadferyd drwy edifeirwch a phenyd cyhoedd.

Cyfryw oedd anrhydedd Tŷ 'r Arglwydd ynghalonnau dynion, a'r parch allanol hefyd, yn yr amser hwnnw, ac mor ofnadwy o beth oedd i ddyn gael ei gau allan o Eglwys a Thŷ 'r Arglwydd yn y dyddiau hynny, pan oedd crefydd yn buraf, ac heb fod mor llygredig ag y mae wedi bod yn y dyddiau diweddarach hyn!

Ac etto yr ydym *ni* o'n gwirfodd, wrth absennoli ein hunain o Dŷ 'r Arglwydd, megis yn ein hysgymmuno ein hunain o'r Eglwys a chymdeithas Saint Duw; neu ynte wrth ddyfod yno, yr ydym, drwy ein hanweddaidd a'n hammharchus ymddygiad yno, drwy feddyliau a geiriau byrbwyll, ïe, aflan a drygionus, yn dianrhydeddu 'n aruthr ei Dŷ Sanctaidd, Eglwys Dduw, a'i Sanctaidd Enw a'i Fawrhydi, er mawr enbydrwydd ein heneidiau, ïe, a sicr ddamnedigaeth hefyd, os ni nid edifarhâwn yn ebrwydd ac yn ddifrif am y drygioni hwn.

Fel hyn y clywsoch, fy anwyl garedigion, allan o air Duw, pa barch sy ddyledus i sanctaidd Dŷ 'r Arglwydd,—— pa fodd y dylai pawb duwiol ddyfod yno 'n ddiesgeulus ar y prydiau pennodedig,—— pa fodd y dylent ymddwyn yno gyd â pharch ac ofn ger bron yr Arglwydd,—— a pha bläau a chospedigaethau tymhorol a thragywyddol y mae 'r Arglwydd yn ei air sanctaidd yn eu bygwth ar y rhai sy 'n esgeuluso dyfod i'w Dŷ sanctaidd, ac hefyd ar y rhai, wedi dyfod yno, ydynt mewn agwedd neu eiriau, yn ymddwyn yn ammharchus.

Am hynny, os chwennychwn gael tywydd tymhoraidd, ac felly fwynhâu ffrwythau da 'r ddaear: os mynnwn ochelyd sychder ac anffrwythdra, syched a newyn, y rhai ydynt bläau a fygythir ar y sawl a brysuront fyned i'w tai eu hunain a thafarnau, ac a adawant Dŷ 'r Arglwydd yn wag ac anghyfannedd: Os cas gennym gael ein ffrewyllu, nid â ffiangell o fân reffynau allan o'r deml o waith llaw yn unig (fel y gwnaeth ein Hiachawdwr Crist i halogwŷr Tŷ Dduw yn Jerusalem) ond hefyd cael ein curo a'n gyrru allan o dragywyddol Deml a Thŷ yr Arglwydd (sef ei deyrnas nefol) â gwialen haiarn tragywyddol ddamnedigaeth, a'n bwrw i'r tywyllwch eithaf, lle bydd wylofain a rhingcian dannedd: Os ydym yn ofni ac yn casâu hyn, meddaf, megis y mae gennym gyfiawnaf achos i wneuthur, diwygiwn ninnau ein hesgeulusdod a'n diystyrwch hwn yn dyfod i Dŷ 'r Arglwydd, a'n hammharchus ymddygiad hwn yn Nhŷ 'r Arglwydd; a chan ymgynnull iddo yn ddyfal, gwrandawn yno

[1] 1 Cor. 5. 5.

yn barchus sanctaidd air yr Arglwydd, galwn ar sanctaidd enw 'r Arglwydd, rhown ddïolch o galon i'r Arglwydd am ei fynych a'i ammhrisiadwy ddoniau a roddir i ni bob dydd ac awr, arferwn yn barchus Sanctaidd Sacramentau 'r Arglwydd, gwasanaethwn yr Arglwydd yn ei Sanctaidd Dŷ, fel y gweddai i weision yr Arglwydd, *mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron Ef holl ddyddiau ein bywyd*;[1]—— ac yna byddwn yn sicr, ar ol y bywyd hwn, o orphwyso yn ei fynydd sanctaidd, a thrigo yn ei babell, yno i foliannu ac i fawrhâu ei enw sanctaidd yn nghynnulleidfa ei Saint, yn Sanctaidd Dŷ ei dragywyddol deyrnas yn y nef, yr hon a bwrcasodd Efe i ni trwy angau a thywalltiad gwerthfawr Waed ei Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist; i'r Hwn, gyd â'r Tad â'r Yspryd Glân, Un Anfarwol Dduw, y byddo 'r holl anrhydedd, gogoniant, mawl, a dïolch, yn oes oesoedd. Amen.

# HOMILI

## YN ERBYN PERYGL EILUN-ADDOLIAETH, A RHY OFER DRWSIO EGLWYSYDD.

YN y ddwy Homili ddiweddaf, y rhai sy 'n traethu am iawn arfer Teml neu Dŷ Dduw, ac am y dyledus barch y mae pob gwir Gristion yn rhwym i'w roddi i'r unrhyw, fe ddangoswyd ym mha bethau y mae gwir addurniadau Tŷ neu Deml Dduw yn sefyll. Swm yr hyn yw, mai 'r Eglwys neu Dŷ Dduw ydyw lle wedi ei osod gan yr Ysgrythyr Lân, yn yr hwn y dylid darllen, dysgu, a gwrando bywiol air Duw, —— galw ar sanctaidd Enw 'r Arglwydd mewn gweddi gyhoeddus,—— rhoi dïolch o galon i'w Fawrhydi am ei anfeidrol a'i annhraethol ddoniau a roddir i ni,—— gweinyddu 'n ddyladwy ac yn barchus ei sanctaidd Sacramentau, ac am hynny y dylai pob gwir dduwiolion ymgynnull i'r Eglwys ar y prydiau gosodedig, ac ymddwyn yno gyd â phob parch ger bron yr Arglwydd,—— ac mai Teml yr Arglwydd a Thŷ Dduw y mae gair Duw yn galw 'r Eglwys hon, yn cael fel hyn ei harfer yn dduwiol gan weision yr Arglwydd yngwir wasanaeth yr Arglwydd, o herwydd

[1] St. Luc 1. 75.

effeithiol bresennoldeb gras Duw, â'r hwn y mae Efe, drwy ei sanctaidd air a'i addewidion, yn cynnysgaeddu ei bobl ymgynnulledig yno 'n gynnrychiol, fel y mwynhaont y rhoddion bydol sy 'n angenrheidiol i ni, ac hefyd bob doniau nefol a bywyd tragywyddol.

Ac o herwydd y pethau hyn, drwy ystyried y gwir addurniadau hyn ar Dŷ Dduw, ac nid o ran dim allanol seremoniau, neu dreulfawr a harddwych drwsio Tŷ neu Deml yr Arglwydd, y deillia 'r dyledus barch tu ag atto yn nghalonnau 'r duwiolion.

Ond yn erbyn yr athrawiaeth egluraf hon o'r Ysgrythyrau, ac yn erbyn arferiad y Brif Eglwys gynt, yr hon oedd fwyaf pur a dilwgr, ac yn erbyn meddwl a barn Doctoriaid hynaf, dysgediccaf, a duwiolaf yr Eglwys, (fel y dangosir ar ol hyn) fe ddug llygredigaeth y dyddiau diweddaf hyn i mewn i'r Eglwys aneirif liaws o ddelwau, ac a addurnasant y rhai hyn, a rhannau eraill o'r Deml, âg aur ac arian, gan eu paentio â lliwiau, eu harddu â meini a pherlau, eu dilladu â sidan a gwisgoedd gwerthfawr, gan ddychymygu yn anghywir mai hynny oedd godidoccaf harddwch ac addurn Teml neu Dŷ Dduw, ac y dylai pawb gael eu cyffroi i'w barchu yn fwy dyladwy, os byddai pob congl o hono yn orwych, ac yn disgleirio gan aur a meini gwerthfawr.

Ac er na allasant yn wir drwy y fath ddelwau, a'r fath drwsio gwych ar y Deml, wneuthur lles yn y byd i'r synhwyrol a'r deallus; etto hwy a wnaethant drwy hynny niweid mawr i'r diddrwg a'r anghall, gan roi iddynt drwy hynny achlysur i wneuthur yr eilun-addoliaeth mwyaf echrydus:—— a'r cybyddion, wrth yr un achlysur, megis yn addoli, ac, ysgatfydd, yn addoli mewn gwirionedd, nid yn unig y delwau, ond eu defnydd hefyd, yr aur a'r arian; fel y gelwir y pechod hwnnw yn bennodol yn yr Ysgrythyrau, yn anad un bai arall, yn *eilun-addoliaeth*.[1]

Yn erbyn y ffiaidd gamarferion a'r dirfawr anferthwch hwn, fe ddygir ym mlaen i chwi,

Yn gyntaf; Awdurdod sanctaidd Air Duw, allan o'r Hen Destament a'r Newydd.

Ac yn ail; Tystiolaethau hen Dadau a Doctoriaid sanctaidd a dysgedig, allan o'u hysgrifeniadau eu hunain a hen hanesion eglwysig, fel y galloch ar yr un pryd wybod eu barn hwy, a deall hefyd pa fath addurniadau oedd yn Nhemlau 'r Brif Eglwys gynt, yn yr amseroedd ag oeddynt fwyaf pur a dilwgr.

Yn drydydd; Argyhoeddir ac attebir y rhesymmau a'r dadleuon a wneir i amddiffyn delwau neu eilunod, ac anrhesymmol addurno temlau

[1] Col. 3. 5. ac Ephes. 5. 5.

ac Eglwysydd âg aur, arian, tlysau a meini gwerthfawr: ac felly rhoi diweddglo ar yr holl fatter hwn.

Ond rhag i neb, drwy eiriau neu enwau, gymmeryd achlysur i ammeu, fe dybygwyd fod yn oreu nodi yma yn gyntaf dim, er ein bod ni mewn siarad cyffredin yn arfer galw *llun* dyn neu ryw beth arall yn *ddelw*, ac nid yn *eilun;* etto fod yr Ysgrythyrau bob amser yn arfer y *ddau* air, EILUN a DELW, yn ddiwahaniaeth am *yr un peth.* Maent yn eiriau o wahanol ieithoedd a seiniau, ond yn *un* o ran ystyr ac arwyddoccâd yn yr Ysgrythyrau. Mae 'r naill yn tarddu o'r gair Groeg εἴδωλον, EILUN; a'r llall yn air Cymraeg pur: ac arferir pob un o'r ddau yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyrau; megis ag y mae gan y Deg a thrugain, yn y Groeg, y gair εἴδωλα, sef *eilunod;* a chan St. Jerom yn ei gyfieithiad Lladin, *simulachra*, sef *delwau*, yn yr un mannau yn yr Hen Destament. Ac yn y Testament Newydd, yr hyn a eilw St. Ioan yn εἴδωλον, EILUN, mae St. Jerom yn ei gyfieithu yn *simulachrum*, sef DELW, megis ym mhob lle arall o'r Ysgrythyr y mae efe 'n arfer gwneuthur.

Ac hefyd Tertulian, hen Ddoctor dysgedig iawn yn y ddwy iaith, Groeg a Lladin, wrth gyfieithu 'r lle hwn o St. Ioan, *Ymgedwch oddi wrth eilunod,*[1] hynny yw, ebe Tertulian, oddi wrth y *delwau* eu hunain; a'r geiriau Lladin y mae yn eu harfer ydynt *effigies* ac *imago*, sef DELW.

Ac am hynny, yn y traethawd hwn, nid yw o ddim gwahaniaeth pa un o'r ddau air a arferom, ai y ddau ynghyd, gan eu bod ill dau (er nad yn yr iaith Gymraeg, etto yn yr Ysgrythyrau) yn arwyddoccau yr un peth.

Ac er bod rhai, i ddallu llygaid dynion, wedi bod cyn hyn yn ddichellgar yn ceisio dangos eu bod yn eiriau o wahanol ystyr ym matterion crefydd; ac am hynny yn arfer galw *llun* y peth a osodid i fynu yn nhemlau 'r Paganiaid, neu mewn lleoedd eraill, i'w addoli, yn EILUN; ond hwy a alwent y *llun* a osodir i fynu yn yr Eglwys, yn DDELW; fel pe byddai y ddau air hyn, *eilun* a *delw*, yn gwahaniaethu mewn priodoldeb ac ystyr, y rhai (fel y dywedwyd o'r blaen) ydynt yn gwahaniaethu mewn sain ac iaith yn unig, ac mewn gwirionedd yn arwyddoccau yr un peth, yn enwedig yn yr Ysgrythyrau a matterion crefydd.

Ac y mae ein delwau ninnau *wedi* cael, ac *yn* cael eu haddoli, ac os goddefir hwy 'n gyhoeddus yn yr Eglwysydd a'r Temlau, hwy a *gânt* eu haddoli bob amser, ac felly gwneir delw-addoliad iddynt, fel y ceir dangos a phrofi 'n helaeth yn y rhan ddiweddaf o'r Homili hon.

Am hynny, nid yw ein delwau ni mewn Temlau ac Eglwysydd yn ddim arall amgen nag eilunod, yn gymmaint ag y gwnaethpwyd, ac y gwneir fyth, eilun-addoliaeth iddynt.

[1] 1 St. Ioan 5. 21.

Ac yn gyntaf oll:—— Mae Ysgrythyrau 'r Hen Destament sy 'n condemnio ac yn ffieiddio pob eilun-addoliaeth a delw-addoliaeth, ac hefyd yr eilunod a'r delwau eu hunain, yn enwedig mewn Temlau, mor aml a llïosog, ag y byddai bron yn waith anorphen, ac na ellid ei gynnwys mewn llyfr o faint bychan, adrodd yr holl leoedd a berthyn i'r unrhyw. Canys wedi darfod i Dduw ddewis iddo ei Hun bobl brïodol a neillduol o fysg yr holl genhedloedd eraill nad adwaenent Dduw, ond a addolent eilunod a gau-dduwiau, Efe a roddes iddynt ordeiniaethau a deddfau i'w cadw. Ond ni roddes Efe i'w bobl hynny fwy, na difrifach, nac eglurach, deddfau ynghylch dim un pwngc, nag ynghylch ei wir addoli Ef ei Hun, a gochel a ffoi rhag eilunod, a delwau, a delw-addoliaeth: o herwydd fod y cyfryw ddelw-addoliad yn wrthwynebusaf peth a ddichon fod i'w iawn addoliad Ef a'i wir ogoniant, yn anad pob drygioni arall, ac o herwydd y gwyddai Efe mor hyblyg a thueddol yw llygredig naws a natur dyn at y pechod ffieiddiaf ac atgasaf hwnnw.

O'r ordeiniaethau a'r deddfau hynny a roddwyd gan yr Arglwydd i'w bobl ynghylch y matter hwn, mi a adroddaf rai o'r rhai arbenniccaf at y perwyl, fel y galloch, wrth y rhai hynny, farnu am y lleill.

Yn y bedwaredd bennod o Deuteronomium mae lle hynod, a theilyngaf i'w nodi yn ddyfal, yr hwn sy 'n dechreu fel hyn:——

*Bellach, O Israel, gwrando ar y deddfau ac ar y barnedigaethau yr ydwyf yn eu dysgu i chwi i'w gwneuthur,* ebe 'r Arglwydd, *fel y byddoch byw, ac yr eloch, ac y meddiannoch y wlad y mae Arglwydd Dduw eich tadau yn ei rhoddi i chwi.*

*Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihêwch ddim o hono, gan gadw gorchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i chwi.*

Ac yn y man ar ol hynny mae 'n ail-adrodd yr un peth dair gwaith neu bedair, cyn dyfod at y matter y mynnai eu rhybuddio hwy yn neillduol yn ei gylch, megis yn rhagymadrodd, er mwyn gwneuthur iddynt ei ystyried yn fwy gwagelog:——

*Gochel arnat,* meddai, *a chadw dy enaid yn ddyfal, rhag anghofio o honot y pethau a welodd dy lygaid, a chilio o honynt allan o'th galon di holl ddyddiau dy einioes; ond hyspysa hwynt i'th feibion, ac i feibion dy feibion.*

Ac yn y man ar ol hynny:——

*Yr Arglwydd a lefarodd wrthych o ganol y tân, a chwi a glywsoch lais y geiriau, ac nid oeddych yn gweled llun dim.*

Ac yn fuan y mae'n dilyn:——

*Gwyliwch gan hynny yn ddyfal ar eich eneidiau (oblegid ni welsoch*

*ddim llun yn y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrthych yn Horeb o ganol y tân)*

*Rhag ymlygru o honoch, a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig, cyffelybrwydd un ddelw, llun gwrryw neu fanyw,*

*Llun un anifail a'r sydd ar y ddaear, llun un aderyn asgellog a eheda yn yr awyr,*

*Llun un ymlusgiad ar y ddaear, llun un pysgodyn a'r sydd yn y dyfroedd dan y ddaear;*

*Hefyd rhag dyrchafu o honot dy lygaid tu a'r nefoedd, a gweled yr haul, a'r lleuad, a'r ser, sef holl lu'r nefoedd, a'th yrru di i ymgrymmu iddynt, a gwasanaethu o honot hwynt, y rhai a rannodd yr Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd dan yr holl nefoedd.*

A thrachefn:——

*Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a ammododd Efe â chwi, a gwneuthur o honoch i chwi ddelw gerfiedig, llun dim oll a waharddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.*

*Oblegid yr Arglwydd dy Dduw sy dân ysol, a Duw eiddigus.*

*Pan genhedlych feibion ac wyrion, a hir-drigo o honoch yn y wlad, ac ymlygru o honoch, a gwneuthur delw gerfiedig, llun dim, a gwneuthur drygioni yngolwg yr Arglwydd dy Dduw i'w ddigio Ef;*

*Galw'r ydwyf yn dystion yn eich erbyn chwi heddyw y nefoedd a'r ddaear, gan ddarfod y derfydd am danoch yn fuan oddi ar y tir yr ydych yn myned dros yr Iorddonen iddo i'w feddiannu: nid estynnwch ddyddiau ynddo, ond gan ddifetha y'ch difethir.*

*A'r Arglwydd a'ch gwasgara chwi ym mhlith y bobloedd, a chwi a adewir yn ddynion anaml ym mysg y cenhedloedd, y rhai y dwg yr Arglwydd chwi attynt:*

*Ac yno y gwasanaethwch dduwiau o waith dwylaw dyn, sef pren a maen, y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni fwyttânt, ac ni aroglant,*[1] &c.

Pennod nodedig yw hon, ac y mae agos oll yn traethu ynghylch y matter hwn. Ond am fod yn rhy hir ysgrifenu 'r cwbl, mi a nodais i chwi rai prif byngciau o honi.

Yn gyntaf, mor ddifrif a mynych y mae Efe'n galw arnynt i nodi ac i wylied, a hynny ar berygl eu heneidiau, ar y peth y mae yn ei orchymyn iddynt.——

Yn ail, pa fodd, gan enwi'n sobr restr hir o'r holl bethau yn y nef, ar y ddaear, ac yn y dwfr, y mae'n gwahardd na bo gwneuthur un ddelw na llun dim yn y byd.——

Yn drydydd, pa gosp ac arswydus ddinystr y mae yn gyhoeddus,

[1] Deut. 4. 1, 2, 9, 12, 15—19, 23—28.

gan alw nef a daear yn dystion, yn eu bwgwth arnynt hwy, eu plant, a'u heppil, os hwy, yn groes i'r gorchymyn hwn, a wnaent, neu a addolent un ddelw neu lun, yr hyn a waharddasai Efe mor gaeth iddynt.——

A phan gwympasant hwy er hynny i wneuthur ac i addoli delwau, mewn rhan o achos tuedd natur lygredig dyn, yr hon sydd a'i dychwant ar eilun-addoliaeth, ac mewn rhan o herwydd y Cenhedloedd delw-addolgar ag oedd yn trigo o'u hamgylch; fe ddug Duw arnynt yn ol ei air yr holl bläau â'r rhai y bygythiasai hwynt, megis y gwelir yn helaeth mewn amryw fannau yn Llyfrau 'r Brenhinoedd a'r Croniclau.

Ac yn cyttuno â hyn y mae llawer o leoedd eraill hynod yn yr Hen Destament:——

*Melldigedig yw'r gwr a wnel ddelw gerfiedig neu doddedig, sef ffieidddra gan yr Arglwydd, gwaith dwylaw crefftwr, ac a'i gosodo mewn lle dirgel. A'r holl bobl a attebant ac a ddywedant, Amen.*[1]

Darllenwch y drydedd a'r bedwaredd bennod ar ddeg o Lyfr y Doethineb ynghylch eilunod neu ddelwau, pa fodd yr ydys yn eu gwneuthur, yn eu gosod i fynu, yn galw arnynt, ac yn offrwm iddynt; ac fel y mae efe 'n galw'r pren o'r hwn y gwneir crogbren, megis yn *ddedwydd* rhagor y pren y gwneir delw neu eilun o hono, yn y geiriau hyn; *Bendigedig yw'r pren drwy'r hwn y daw cyfiawnder;* (gan feddwl y crogbren:) *eithr melldigedig yw'r eilun a wnaed â llaw, a'r hwn a'i gwnaeth*, &c. Ac yn y man mae'n dangos fel y mae'r pethau oedd o'r blaen yn ddaionus greaduriaid Duw, (megis coed neu gerrig), wedi unwaith gael eu cyfnewid a'u ffurfio'n ddelwau i'w haddoli, yn myned yn ffieidd-dra, yn demtasiwn i eneidiau dynion, ac yn fagl i draed yr annoethion. A phaham? *Dechreuad godineb oedd dychymmygu eilunod*, eb efe; *a'u caffaeliad hwy oedd llygredigaeth buchedd: oblegid o'r dechreuad nid oeddynt hwy, ac ni byddant yn dragywydd chwaith. Trwy ofer-ffrost dynion y daethant i'r byd, ac am hynny y bydd eu diwedd ar fyrder:* ac felly ym mlaen hyd ddiwedd y bennod, yn cynnwys y pyngciau hyn: Pa fodd ar y cyntaf y dychymmygwyd delwau ac yr offrymmwyd iddynt,—— Pa fodd trwy ddefod anraslon y sefydlwyd hwy,—— Pa fodd y cymhellodd gormeswŷr ddynion i'w haddoli, —— Pa fodd y twyllir y werin anwybodus drwy gywreinrwydd y crefftwr a thegwch y ddelw, i'w hanrhydeddu hi, ac felly i gyfeiliorni oddi wrth adnabyddiaeth o Dduw,—— a llawer o anffodau mawrion eraill, y rhai sy'n dyfod drwy ddelwau. Ac fel crynodeb o'r cwbl, efe a ddywed mai *Addoliad eilunod, y rhai ni ddylid eu henwi, yw dechreu, ac achos, a diwedd pob drygioni;*[2] a bod eu haddolwŷr naill ai o'u pwyll

[1] Deut. 27. 15. [2] Doeth. 14. 7, 8, 12, 13, 14, 27.

neu ynte yn waethaf o ddynion. Gwelwch ac edrychwch ar yr holl bennod yn ddyfal drosti, canys hi a dâl ei hystyried yn dda, yn enwedig yr hyn sydd ysgrifenedig ynddi ynghylch twyllo'r werin wirion ac anwybodus drwy eilunod a delwau; yr hyn a adroddir ddwywaith neu dair rhag ei anghofio.

Ac yn y bennod nesaf mae'r geiriau hyn; *Canys twyllodd drwg-gelfyddus ddychymmyg dyn ni, cysgod portreiadau, llun wedi ei fritho âg amryw liwiau; golwg y rhai sy'n peri chwant i'r rhai anghall, ac felly y maent yn chwennych llun delw farw ddïanadl. Rhai'n hoffi pethau drygionus, ac yn haeddu'r fath bethau i goelio iddynt, yw y rhai a'u gwnant, a'u chwennychant, ac a'u gwasanaethant,*[1] &c.

Yn Llyfr y Psalmau mae'r Prophwyd yn mellditbio anrhydeddwŷr delwau mewn amryw fannau. *Gwaradwydder y rhai oll a wasanaethant ddelw gerfiedig, y rhai a ymffrostiant mewn eilunod.—— Fel hwynt y mae y rhai a'u gwnant, a phob un a ymddiriedo ynddynt.*[2]

Ac yn y Prophwyd Esay; *Myfi yw'r Arglwydd,* ebe Duw; *dyma fy enw: a'm gogoniant ni roddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig.* Ac yn y man; *Troir yn eu hol, a llwyr-waradwyddir y rhai a ymddiriedant mewn delwau cerfiedig; y rhai a ddywedant wrth y delwau tawdd, Chwi yw ein duwiau ni.*[3]

Ac yn y ddeugeinfed bennod, wedi iddo osod allan anamgyffredadwy fawrhydi Duw, mae'n gofyn; *I bwy gan hynny y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a osodwch iddo? Y crefftwr a dawdd gerf-ddelw, a'r eurych a'i goreura, ac a dawdd gadwyni arian. Yr hwn sy dlawd ei offrwm a ddewis bren ni phydra, efe a gais atto saer cywraint, i barottoi cerfddelw, yr hon ni syfl.* Ac ar ol hyn y mae yn gwaeddi; *Oni wybuoch? oni chlywsoch? oni fynegwyd i chwi o'r dechreuad?*[4] ac felly ym mlaen; fel y gallent, drwy wneuthuriad y byd, a mawredd y gwaith, ddeall fod mawredd Duw, Creawdwr a Gwneuthurwr pob peth, yn fwy nag y gellid ei bortreio na'i osod allan mewn un ddelw neu gyffelybrwydd corphorol.

Ac heblaw y pregethiad hwn, yr ydys hyd yn nod yn Neddf Duw, yr hon a ysgrifenwyd â'i fys Ef ei Hun (fel y dywed yr Ysgrythyr) a hynny yn nechreu'r Llech Gyntaf, nid yn unig yn crybwyll yn fyrr am yr athrawiaeth hon yn erbyn delwau, ond yn ei gosod allan ac yn ei phregethu yn helaeth, a hynny gyd â chyhoeddiad o ddistryw ar ddirmygwŷr a thorrwŷr y Ddéddf hon, ac ar eu heppil ar eu hol. A rhag er hynny na nodid ac na chofid mo hyn, ysgrifenwyd ac adroddwyd yr un peth, nid mewn *un* man, ond mewn *amryw* leoedd yngair Duw, fel trwy

[1] Doeth. 15. 4—6. [2] Ps. 97. 7. a 115. 8. [3] Esay 42. 8, 17. [4] Esay 40. 18—21.

ei fynych ddarllen a'i glywed, y gallem o'r diwedd ei ddysgu a'i gofio, megis yr ydych hefyd yn clywed ei ddarllen beunydd yn yr Eglwys.

Duw a lefarodd y geiriau hyn, gan ddywedyd,——

*Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw. Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i.*

*Na wna it' ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r y sydd yn y ddaear isod, nac a'r y sydd yn y dwfr tan y ddaear.*

*Nac ymgrymma iddynt, ac na wasanaetha hwynt; oblegid Myfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw eiddigus; yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casânt;*

*Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant ac a gadwant fy ngorchymynion.*[1]

Ond er hyn i gyd, ni allodd na hynodrwydd y lle, sef dechreu Deddf y Duw Byw, wneuthur i ni sylwi arno,—— na'r mynegiad goleu, drwy grybwyll pob math ar luniau, beri i ni ei ddeall,—— na'i fynych adrodd a'i ail-adrodd mewn amryw leoedd, na'i aml ddarllen a'i glywed, beri i ni ei gofio,—— nac ofn y gosp erchyll arnom ni, a'n plant, a'n heppil ar ein hol, ein dychrynu rhag ei droseddu,—— na maint y wobr i ni a'n plant, ein cyffroi mewn un modd i ufudd-dod, ac i gadw'r Ddeddf fawr hon o eiddo'r Arglwydd: Ond megis ped ysgrifenasid hi mewn rhyw gongl, ac heb ei chyhoeddi'n helaeth, ond ei chrybwyll yn fyrr ac yn dywyll; megis pe na chyssylltasid â hi ddim cosp i'r troseddwŷr na gwobr i'r ufuddion; yr ydym, fel deillion heb ddim gwybodaeth na deall, fel anifeiliaid anrhesymmol, heb ofni cosp nac edrych am wobr, wedi bychanu a dïanrhydeddu uchel fawredd y bywiol Dduw drwy waeledd a salwedd amryw a bagad o ddelwau coed, cerrig, a mettelydd meirwon.

Ac megis na ellir traethu Mawredd y Duw a wrthodasom ac a ddïanrhydeddasom, felly ni ellir traethu chwaith fawredd ein pechod a'n trosedd yn erbyn ei Fawredd Ef: felly'r ydys yn traethu'n helaeth wendid, gwaeledd, a ffolineb dychymmygiad delwau (drwy y rhai y dïanrhydeddasom Ef) yn yr Ysgrythyrau, megis yn y Psalmau, Llyfr Doethineb, y Prophwyd Esay, Ezeciel, a Baruch; ac yn enwedig yn y lleoedd a'r pennodau hyn o honynt:——

Psalmau CXV a CXXXV. Esay XL a XLIV. Ezeciel VI.
Doethineb XIII, XIV, a XV. Baruch VI.

Yr hyn leoedd, fel yr wyf yn eich annog i'w darllen yn aml ac yn ddyfal, felly maent yn rhy faith ar hyn o bryd i'w hadrodd mewn Homili.

[1] Exod. 20. 1—6. a Deut. 5. 6—10. a Lef. 26. 13.

Er hynny mi a dynnaf rai nodiadau byrrion allan o honynt, i ddangos pa beth y maent yn ei ddywedyd am yr eilunod neu 'r delwau hyn.

Yn gyntaf; Nad ydys yn eu gwneuthur ond o ddarnau bychain o bren, maen, neu fettel, ac am hynny na 's gallant fod yn gyffelybrwydd o anfeidrol fawredd Duw, yr Hwn y mae y *nef yn orseddfaingc iddo, a'r ddaear yn lleithig ei draed.*[1]

Yn ail; Eu bod yn feirw; bod llygaid iddynt, ac ni welant; dwylaw, ond ni theimlant; traed, ac ni rodiant, &c. ac am hynny nad allant fod yn gyffelybrwydd o'r Duw Byw.

Yn drydydd; Nad oes ganddynt allu i wneuthur na lles nac afles i neb, er bod gan rai o honynt fwyall, rhai gleddyf, a rhai waywffon, yn eu dwylaw; etto mae lladron yn myned i'w temlau ac yn eu hyspeilio, a hwythau heb allu unwaith ysgogi i'w hamddiffyn eu hunain rhag y lladron: ïe, a phe rhoid y Deml neu 'r Eglwys ar dân, er i'w hoffeiriaid allu diangc ymaith a'u hachub eu hunain, etto ni allant *hwy* syflyd, ond aros fel boncyffion (ac felly y maent) a chael eu llosgi: ac am hynny na 's gallant fod yn addas arddangosiadau cymhesur o'r Duw Cadarn Nerthol, yr Hwn yn unig a all achub ei weision a distrywio ei elynion yn dragywydd.

Yr ydys yn trwsio 'n wych mewn aur, arian, a meini, ddelwau gwŷr a gwragedd fel *llangcesi yn hoffi gwychder*[2] (medd y Prophwyd Baruch) ac oblegid hynny ni allant ddysgu i ni, na 'n gwragedd, na 'n merched, ddim sobrwydd, gwylder, na diweirdeb. Ac am hynny, er y gelwir hwy 'n gyffredin yn awr yn "llyfrau gwŷr lleyg," etto ni a welwn na allant ddysgu i ni un addysg dda am na Duw na duwioldeb, ond pob cyfeiliornad a drygioni.

Am hynny, fel y mae Duw yn ei air yn gwahardd gwneuthur a gosod i fynu ddim delwau nac eilunod, felly hefyd y mae yn gorchymyn am y sawl a gaffom wedi eu gwneuthur a'u gosod i fynu, ar fod iddynt gael eu tynnu i lawr, eu dryllio, a'u difetha.

Mae 'n ysgrifenedig yn Llyfr Numeri na welwyd eilun yn Jacob, na delw yn Israel, a bod yr Arglwydd Dduw gyd â'i bobl: a nodwch yma, nad oes gan y gwir Israeliaid, sef pobl Dduw, ddim delwau yn eu mysg, ond fod Duw gyd â hwy, ac am hynny na all eu gelynion eu niweidio.

Ac am ddelwau a osodwyd i fynu eisoes, fel hyn y dywed yr Arglwydd yn Deuteronomium; *Dinystriwch eu hallorau, a thorrwch eu colofnau hwynt; cwympwch hefyd eu llwynau, a llosgwch eu delwau cerfiedig hwy yn y tân: canys pobl sanctaidd ydwyt ti i'r Arglwydd.*[3] Ac fe ail draethir yr un peth yn danbeidiach fyth yn y ddeuddegfed

[1] Esay 66. 1. [2] Baruch 6. 9. [3] Deut. 7. 5.

bennod o'r un Llyfr.—— Sylwch yma beth a ddylai pobl Dduw ei wneuthur i ddelwau, lle y cyfarfyddont â hwy.

Ond rhag i neb dïawdurdod, dan esgus dinystrio delwau, beri dim terfysg yn y wladwriaeth, rhaid cofio 'n wastad fod diwygio 'r fath anferthwch cyhoedd yn perthyn yn unig i'r Penswyddogion a'r rhai sy mewn awdurdod, ac nid i bersonau neillduol: ac am hynny brenhinoedd da Judah, Asa, Hezecïah, Jehosaphat, a Josïah, a ganmolir yn fawr dros ben am dorri i lawr a dinystrio alloran, delwau, ac eilunod. A mynega 'r Ysgrythyr iddynt yn enwedig yn hynny o beth wneuthur yr hyn oedd union yngolwg yr Arglwydd.—— Ac yn y gwrthwyneb, dywedir gan air Duw i Jeroboam, Ahab, Joas, a thywysogion eraill, wneuthur yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd, am iddynt osod i fynu gyfryw alloran neu ddelwau, neu eu goddef heb eu distrywio.

Ac os bydd i neb, yn erbyn gorchymyn yr Arglwydd fynnu gosod i fynu gyfryw alloran neu ddelwau, neu eu goddef yn eu plith heb eu distrywio, mae 'r Arglwydd ei Hun yn bygwth yn Llyfr Numeri, a thrwy ei sanctaidd Brophwydi Ezeciel, Micah, a Habaccuc, y daw Efe ei Hun ac a'u tyn i lawr.—— A pha fodd y trina, y cospa, ac y distrywia Efe y bobl a osodont i fynu gyfryw alloran, delwau, ac eilunod, neu a'u goddefont heb eu dinystrio, mae 'n cyhoeddi trwy y Prophwyd Ezeciel fel hyn:——

*Wele fi, ie myfi,* ebe Duw, *yn dwyn cleddyf arnoch, a mi a ddinystriaf eich uchel-leoedd.*

*Eich allorau hefyd a ddifwynir, a'ch haul-ddelwau a ddryllir, a chwympaf eich archolledigion o flaen eich eilunod.*

*A rhoddaf gelanedd meibion Israel ger bron eu heilunod, a thaenaf eich esgyrn o flaen eich allorau.*

*Yn eich holl drigfeydd y dinasoedd a anrheithir, a'r uchelfeydd a ddifwynir; fel yr anrheithier ac y difwyner eich allorau, ac y torrer ac y peidio eich eilunod, ac y torrer ymaith eich haul-ddelwau, ac y dileër eich gweithredoedd.*

*Yr archolledig hefyd a syrth yn eich canol; a chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd.*—— Ac felly hyd ddiwedd y bennod, yr hon sy deilwng o'i darllen yn ddyfal.

*Y pellenig a fydd marw o'r haint, a'r cyfagos a syrth gan y cleddyf; y gweddilledig hefyd a'r gwarchaeedig fydd marw o newyn;* ac os dïangai neb, y dygid hwy yn garcharorion i gaethiwed.[1]

Felly, pe gallai amledd neu eglurder y lleoedd wneuthur i ni ddeall, —— neu ddifrifol orchymyn Duw yn y lleoedd hynny beri i ni ystyried, —— neu yr ofnadwy bläau a'r cospedigaethau, a'r dinystr arswydus,

[1] Ezec. 6. 3—7, 12.

a fygythir ar y cyfryw ag a addolont, a osodont i fynu, neu a amddiffynont eilunod neu ddelwau, fagu dim ofn yn ein calonnau, ni a ymadawem ac a ymwrthodem ar unwaith â'r drygioni hwn, gan ei fod yn gymmaint trosedd a ffieidd-beth yngolwg yr Arglwydd.

Gellid adrodd aneirif leoedd bron o Ysgrythyrau 'r Hen Destament ynghylch y pwngc hwn; ond caiff yr ambell rai hyn ar hyn o ennyd wasanaethu dros y cwbl.

Chwi a ddywedwch, ond odid, "I'r Iuddewon y perthyn y pethau hyn; beth sydd a wnelom *ni* â hwynt?"—— Yn wir ni ydynt yn perthyn dim llai i ni Gristionogion nag iddynt hwy. Canys os pobl Dduw ydym, pa fodd nad yw gair a deddf Duw yn perthyn i ni? Y mae St. Paul wrth grybwyll un adnod o'r Hen Destament, yn gwneuthur yr un casgliad cyffredinol am Ysgrythyrau eraill yr Hen Destament yn gystal a'r adnod honno, gan ddywedyd; *Pa bethau bynnag a ysgrifenwyd o'r blaen* (sef yn yr Hen Destament) *er addysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt.*[1] Yr hwn gasgliad sy 'n wir yn enwedig am y cyfryw ysgrifeniadau yn yr Hen Destament ag sy 'n cynnwys anghyfnewidiol ddeddf ac ordeiniadau Duw, y rhai nid ydynt i gael eu newid mewn un oes nac amser, ac y dylid ufuddhâu iddynt gan bob dyn ym mhob cenedl ac oes; a chyfryw a hyn yw y lleoedd rhag-grybwylledig.

Ond etto, i'ch boddloni chwi ym mhellach yn hyn, mi a gadarnhâf, yn ol fy addewid, yr athrawiaeth hon yn erbyn eilunod neu ddelwau, a'n dyledswydd ninnau mewn perthynas iddynt, allan o Ysgrythyrau 'r Testament Newydd hefyd, neu Efengyl ein Hiachawdwr Crist.

Yn gyntaf; Mae Ysgrythyrau 'r Testament Newydd yn son mewn amryw fannau gyd â llawenydd, megis godidoccaf ddawn Duw, fod y rhai a dderbyniasant ffydd Grist wedi troi oddi wrth eu heilunod mudion a meirwon at y gwir a'r bywiol Dduw, yr Hwn sy fendigedig yn oes oesoedd; sef yn y lleoedd hyn:——

ACTAU XIV a'r XVII. RHUFEINIAID XI. 1 CORINTHIAID XII.
GALATIAID IV. 1 THESSALONIAID I.

Ac yn gyffelyb, mae Yspryd Duw yn Ysgrythyrau y Testament Newydd yn dygn ffieiddio, casâu, a gwahardd, eilunod neu ddelwau a'u haddoliad, fel y mae 'n eglur wrth y lleoedd crybwylledig, a llawer eraill hefyd, megis y seithfed a'r bymthegfed o'r Actau, a'r gyntaf at y Rhufeiniaid, lle y cyhoeddir ofnadwy bla delw-addolwŷr, *y rhai a roddes Duw i fynu i feddwl anghymmeradwy,*[2] i wneuthur pob drygioni a ffieidd-dra anweddaidd eu henwi, fel y mae putteindra ysprydol a chnawdol yn arfer cydfyned â'u gilydd.

[1] Rhuf. 15. 4. [2] Rhuf. 1. 24.

Yn y bummed bennod o'r Epistol cyntaf at y Corinthiaid, gwaherddir i ni gyfeillachu, a bwytta ac yfed, gyd â rhai a elwir yn frodyr neu Gristionogion ag a fyddont yn *eilun-addolwŷr.*[1]

Yn y bummed at y Galatiaid, cyfrifir delw-addoliaeth ym mysg *gweithredoedd y cnawd:*[2] a gelwir ef yn y ddegfed o'r cyntaf at y Corinthiaid, yn *aberth y cythreuliaid,*[3] ac y dinystrir y sawl a'i harferont. Ac yn y chweched bennod o'r un Epistol, ac yn y bummed at y Galatiaid, fe gyhoeddir na chaiff y sawl sy'n gyfryw ddelw-addolwŷr, *etifeddu teyrnas Dduw.*[4] A bygythir mewn llawer o leoedd eraill, y daw llid Duw ar bawb o'r fath ddynion.

Ac am hynny mae St. Ioan yn ei Epistol cyntaf yn ein hannog, fel *ei blant bychain,* ar i ni *ymgadw oddi wrth eilunod.*[5]

Ac y mae St. Paul yn ein rhybuddio i *ffoi oddi wrth eilun-addoliaeth,* os ydym *rai synhwyrol,*[6] hynny yw, os ydym yn gofalu am iachawdwriaeth, ac yn ofni dinystr, os ydym yn gofalu am deyrnas Dduw a bywyd tragywyddol, ac yn ofni llid Duw a thragywyddol ddamnedigaeth.

O herwydd nid yw bosibl i ni fod yn addolwŷr delwau ac hefyd yn wir weision Duw, fel y dengys St. Paul yn y chweched o'r ail at y Corinthiaid, gan fynegi'n oleu nad oes dim mwy o *gydfod rhwng teml Dduw* (yr hon yw pob gwir Gristion) *ac eilunod,* nag sy *rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder, rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng credadyn ac anghredadyn,* neu *rhwng Crist a Belial.*[7]—— Yr hwn le sy'n pwyso attom na ddylem addoli delwau, ac na ddylent fod yn ein Temlau, rhag ofn achlysur i'w haddoli, er eu bod o honynt eu hunain yn bethau heb fod nac yn dda nac yn ddrwg; am mai y Cristion yw teml sanctaidd a bywiol ddelw Duw, fel y mae'r adnod yn hyspysu'n dda i'r sawl a'i darlleno'n bwysig.

A lle byddai'r holl dduwiolion bob amser yn ffieiddio fod i ddim penlinio, addoli, neu offrymmu gael ei wneuthur iddynt eu hunain pan oeddynt yn fyw (am mai i Dduw yn unig yr oedd yr anrhydedd hwnnw yn ddyledus) fel y dangosir yn Actau'r Apostolion, drwy waith St. Petr yn gwahardd hynny i Cornelius, a thrwy waith St. Paul yn gwahardd yr unrhyw i ddinaswŷr Lystra:[8] etto'r ydym ni fel dynion gwallgof yn cwympo i lawr o flaen eilunod a delwau meirwon Petr a Phaul, ac yn rhoi i goed a cherrig yr anrhydedd hwnnw ag y tybygent hwy yn ffiaidd ei roi iddynt eu hunain pan oeddynt yn fyw.—— A gwrthododd Angel da Duw, fel y dangosir yn Llyfr Datguddiad St. Ioan,

[1] 1 Cor. 5. 11. [2] Gal. 5. 20. [3] 1 Cor. 10. 19, 20. [4] Gal. 5. 21. [5] 1 St. Ioan 5. 21. [6] 1 Cor. 10. 14, 15. [7] 2 Cor. 6. 16. [8] Act. 10. 25, 26. a 14. 14, 15.

oddef i Ioan benlinio iddo, pan gynhygiodd iddo yr anrhydedd hwnnw; *Gwel na wnelych hyn,* ebe'r Angel; *cydwas ydwyf i ti.*[1]

Ond nid yw'r angel drwg Satan yn chwennychu dim yn gymmaint a chael penlinio iddo, a thrwy hynny ar unwaith yspeilio Duw o'i ddyledus anrhydedd, a dwyn damnedigaeth ar y rhai a wnelont iddo ymgrymmiad mor isel; fel y dangosir mewn amryw fannau yn yr Efangylwŷr. Do, fe gynhygiodd bob golud bydol i'n Hiachawdwr Crist, ar yr ammod fod iddo benlinio a'i addoli ef. Ond argyhoeddodd ein Hiachawdwr Satan drwy'r Ysgrythyrau, gan ddywedyd, *Ysgrifenedig yw, Addoli yr Arglwydd dy Dduw, ac Ef yn unig a wasanaethi.*[2]

Ond yr ydym ni, wrth beidio ag addoli a gwasanaethu Duw yn unig (fel y dysg yr Ysgrythyr ni) ac wrth addoli delwau yn groes i'r Ysgrythyr, yn tynnu Satan attom, ac yn barod, heb wobr, i ddilyn ei ddymuniad; ie, yn hytrach na phallu, ni a gynhygiwn iddo ef roddion ac offrymmau am dderbyn ein gwasanaeth.

Ond canlynwn ni, frodyr, gyngor Angel da Duw yn hytrach na chymhelliad dichellgar Satan, yr Angel drwg, a'r hen Sarph, yr hwn yn ol y balchder y syrthiodd gyntaf drwyddo, sy fyth yn ceisio, drwy'r fath gyssegr-ladrad, ddifuddio Duw (yr Hwn y mae'n cynfigenu wrtho) o'i ddyledus anrhydedd, a'i ddwyn iddo ei hun (am fod ei wyneb ei hun yn hyll ac yn wrthun) trwy gyfryngiad coed a cherrig wedi eu goreuro; a'n gwneuthur ninnau gyd â hynny yn elynion i Dduw, ac yn gaethweision ymostyngar iddo ei hun; ac yn y diwedd, caffael i ni ddistryw a damnedigaeth dragywyddol yn wobr.

Gan hynny, yn anad pob peth, os ydym yn ystyried ein hunain yn wir Gristionogion, (fel y'n gelwir) credwn air, ufuddhawn i ddeddf, a dilynwn Athrawiaeth ac Esampl, ein Hiachawdwr a'n Meistr Crist, gan wrthwynebu cymhelliad Satan i addoli eilunod a delwau, yn ol y gwirionedd a ddygwyd ac a ddysgwyd allan o Destament ac Efengyl ein Dysgawdwr a'n Hathraw nefol, Iesu Grist, yr Hwn sy Dduw Bendigedig yn oes oesoedd. Amen.

[1] Dat. 19. 10. [2] St. Luc 4. 8.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN PERYGL EILUN-ADDOLIAETH.

CHWI a glywsoch, fy nghharedigion, yn y rhan gyntaf o'r Homili hon, athrawiaeth gair Duw yn erbyn eilunod a delwau, ac yn erbyn eu haddoli, wedi ei thynnu o Ysgrythyrau 'r Hen Destament a'r Newydd, a'i chadarnhâu drwy esamplau yr Apostolion a'n Hiachawdwr Crist ei Hun.

Yn awr, er nad yw ein Hiachawdwr Crist yn derbyn nac yn rhaid iddo wrth dystiolaeth dyn; ac er nad rhaid i'r hyn a gadarnhâer unwaith, drwy sicrwydd ei dragywyddol wirionedd Ef, wrth ddim ychwaneg o sicrhâd gan athrawiaeth ac ysgrifeniadau dyn, nag sy raid i'r haul cannaid ar hanner dydd wrth oleuni canwyll fechan i ychwanegu ei lewyrch, ac i yrru 'r tywyllwch ymaith; etto i'ch boddloni chwi ym mhellach, fe ddangosir i chwi yn yr ail ran hon (fel yr addawyd yn nechreu y rhan gyntaf) fod y gwirionedd a'r athrawiaeth yma ynghylch gwahardd delwau a'u haddoli, a gymmerwyd o Lân Ysgrythyrau 'r Hen Destament a'r Newydd, yn cael ei chredu a'i dysgu gan yr hen Dadau sanctaidd a'r Doctoriaid hynaf a dysgediccaf, a'i derbyn yn yr hen Brif Eglwys gynt, yr hon oedd fwyaf pur ac anllygredig. A gwneir yr hysbysiad hwn allan o ysgrifeniadau y dywededig Ddoctoriaid sanctaidd eu hunain, ac o'r hen hanesion Eglwysig perthynol i'r unrhyw.

Mae Tertulian, un o ysgrifenwŷr a Doctoriaid hynaf yr Eglwys, yr hwn oedd yn byw tu ag wyth ugain mlynedd ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr Crist, mewn amryw fannau eraill o'i waith, ac yn enwedig yn ei lyfr a ysgrifenodd yn erbyn *y Dull o goroni*, ac mewn traethawd bychan arall a elwir, *Am Goron Milwr*, yn ysgrifenu ac yn goganu yn y dull mwyaf llymdost yn erbyn delwau neu eilunod: ac ar eiriau St. Ioan, yr Epistol cyntaf a'r bummed bennod, efe a ddywed fel hyn; St. Ioan gan ddwys ystyried y matter, eb efe, a ddywed; *Fy mhlant bychain, ymgedwch oddi wrth eilunod.*[1] Nid yw 'n dywedyd yn awr, Ymgedwch oddi wrth *eilun-addoliaeth*, oddi wrth eu gwasanaeth megis,

[1] 1 St. Ioan 5. 21.

a'u haddoliad; ond oddi wrth y delwau neu 'r eilunod *eu hunain*, sef oddi wrth eu *llun* a'u *ffurf:* canys peth annheilwng fyddai i ddelw y Duw Byw fyned yn ddelw eilun marw!

Onid ydych yn tybied fod y rhai sy 'n gosod i fynu ddelwau ac eilunod mewn Eglwysydd a Themlau, ïe, ac yn eu gorseddu uwch ben Bwrdd yr Arglwydd, megis o lwyr fwriad i'w haddoli a'u hanrhydeddu, yn ystyried yn dda gyngor St. Ioan a Thertulian! Pa un ai ymgadw oddi wrthynt, ai ynte eu derbyn a'u cofleidio, yw gosod i fynu felly ddelwau ac eilunod?

Origen, yn ei lyfr yn erbyn Celsus, a ddywed fel hyn; "Mae Cristionogion ac Iuddewon, wrth glywed y geiriau hyn o'r gyfraith, *Ofnwch yr Arglwydd, a bwriwch ymaith y duwiau,*[1] nid yn unig yn ffieiddio temlau, allorau, a delwau y duwiau, ond, os bydd rhaid, hwy a fyddant feirw yn gynt nag yr halogant eu hunain â dim annuwioldeb."—— Ac yn y man ar ol hynny efe a ddywed; "Yngwladwriaeth yr Iuddewon, bwrid ymaith ym mhell a gwaherddid cerfiwr eilunod a gweithiwr delwau, rhag cael dim achlysur i wneuthur delwau, y rhai a allent dynnu rhyw ddynion ffolion oddiwrth Dduw, a throi llygaid eu heneidiau i edrych ar bethau daearol."—— Ac mewn man arall o'r un llyfr, "Y mae nid yn unig *addoli* delwau," eb efe, "ond hefyd *goddef* hynny, heb gymmeryd arnom ei weled, yn beth gwallgofus a gorphwyllog. A gall dyn adnabod Duw a'i Unig Fab, a'r rhai a gawsant gyfryw anrhydedd gan Dduw ag y gelwid hwy 'n dduwiau; ond nid posibl i neb drwy addoli delwau gael dim gwybodaeth am Dduw."

Mae gan Athanasius, yn ei lyfr yn erbyn y Cenhedloedd, y geiriau hyn; "Dywedant, attolwg, pa fodd yr adwaenir Duw drwy ddelw? Os trwy *ddefnydd* y ddelw, yna ni raid wrth na llun na ffurf, gan fod Duw wedi ymddangos ym mhob creadur gweledig, y rhai sy 'n tystiolaethu ei ogoniant. Ond os dywedant yr adwaenir Ef drwy *ffurf* neu *wneuthuriad* y ddelw, oni adnabyddir ef yn well drwy y pethau byw *eu hunain*, llun pa rai yw y delwau? Canys dilys yw yr adnabyddid gogoniant Duw yn eglurach o'i ddangos drwy greaduriaid byw a rhesymmol, yn hytrach na thrwy ddelwau difywyd a diysgogiad. Gan hynny pan gerfioch neu pan baentioch ddelwau, er mwyn adnabod Duw trwyddynt, yn wir yr ydych yn gwneuthur peth annheilwng ac anweddaidd."—— Ac mewn man arall o'r un llyfr efe a ddywed, "Nid o ddim daioni, ond o ddrwg, y daeth dychymmygu delwau; a pha beth bynnag sydd iddo ddechreu drwg, ni ellir mewn dim ei farnu 'n dda, gan ei fod yn ddrwg hollol."—— Hyd yn hyn y clywsoch Athanasius, hen Esgob ac

[1] Jos. 24. 14.

Athraw sanctaidd a dysgedig, yr hwn sy 'n barnu am ddelwau, fod eu dechreuad a'u diwedd a chwbl o honynt yn ddrwg.

Mae gan Lactantius hefyd, hen ysgrifenydd dysgedig, yn ei lyfr *Am Wreiddyn Cyfeiliornad*, y geiriau hyn; "Mae Duw uwchlaw dyn, ac ni osodwyd Ef isod, ond rhaid ei geisio yn y wlad oruchaf fry. Am hynny diammeu ydyw nad oes dim crefydd lle bynnag y mae delw; canys os mewn pethau duwiol y mae crefydd yn sefyll, (ac nid oes dduwioldeb ond mewn pethau nefol) yna nid oes dim crefydd mewn delwau."—— Dyna eiriau Lactantius; yr hwn oedd yn byw er 's mwy na thri chan mlynedd ar ddeg yn ol, ac o fewn tri chan mlynedd ar ol ein Hiachawdwr Crist.

Mae gan Cyril, hen Athraw sanctaidd, y geiriau hyn ar Efengyl St. Ioan; "Mae llawer wedi gadael y Creawdwr ac addoli 'r creadur; heb arnynt gywilydd *dywedyd wrth bren, Tydi yw fy nhad; ac wrth garreg, Ti a'm cenhedlaist.*[1] O herwydd mae llawer, ie bawb bron (och gan alar!) wedi cwympo i'r fath ffolineb, ag y maent wedi rhoi gogoniant y Duwdod i bethau heb ynddynt na synwyr na theimlad."

Mae Epiphanius, Esgob Salamis yn Cyprus, gwr sanctaidd a dysgedig iawn, yr hwn oedd yn byw yn amser yr Ymherawdwr Theodosius, tu a thri chant a deg a phedwar ugain mlynedd ar ol Esgyniad ein Hiachawdwr Crist, yn ysgrifenu fel hyn at Ioan, Patriarch Jerusalem; "Mi aethum i mewn (medd Epiphanius) i ryw Eglwys i weddïo; gwelais yno liain ynghrog wrth ddrws yr Eglwys wedi ei baentio, ac arno megis delw Crist neu ryw Sant; (canys nid wyf yn cofio 'n dda delw pwy ydoedd:) am hynny pan welais ddelw dyn ynghrog yn Eglwys Crist, yn groes i awdurdod yr Ysgrythyrau, mi a'i rhwygais, ac a gynghorais geidwad yr Eglwys i amdoi dyn tlawd a fuasai farw, yn y lliain hwnnw, ac felly ei gladdu."

Ac wedi hynny mae 'r unrhyw Epiphanius, wrth anfon lliain arall heb ei baentio, yn lle 'r un paentiedig a rwygasai, i'r Patriarch hwnnw, yn ysgrifennu fel hyn; "Yr wyf yn attolwg i chwi beri i Henuriaid y lle hwnnw dderbyn y lliain hwn yr wyf yn ei anfon gyd â'r gennad hon, a gorchymyn iddynt na byddo i'r cyfryw lieiniau paentiedig gael eu crogi o hyn allan yn Eglwys Grist yngwrthwyneb i'n crefydd ni. Canys gweddus yw i'ch hynawsedd gymmeryd y gofal hwn, dynnu o honoch ymaith bob petrusder sy 'n anaddas i Eglwys Grist, ac yn dramgwyddus i'r bobl a roddwyd dan eich cadwraeth.

A'r llythyr hwn, fel un teilwng i'w ddarllen gan lawer, a gyfieithwyd gan St. Jerom ei hun i'r iaith Lladin.

[1] Jer. 2. 27.

Ac fel y gwypoch fod gan St. Jerom y parch mwyaf i'r sanctaidd a'r dysgedig Esgob Epiphanius hwn, ac iddo gyfieithu 'r llythyr hwn o ran ei fod yn ysgrifen o awdurdod mawr, gwrandewch pa dystiolaeth a rydd St. Jerom iddo mewn lle arall, yn ei Draethawd yn erbyn Cyfeiliornadau Ioan Esgob Jerusalem, lle mae ganddo 'r geiriau hyn; "Mae i ti y Pab Epiphanius," ebe St. Jerom, "yr hwn sydd ar gyhoedd yn ei lythyrau yn dy alw yn heretic. Dilys yw nad wyt ti yn wr i'th roi o'i flaen ef, o ran nac oedran, na dysg, na duwioldeb buchedd, na thystiolaeth yr holl fyd."—— Ac yn fuan ar ol hynny yn yr un Traethawd, dywed St. Jerom fod i'r Esgob Epiphanius bob amser gymmaint parch ac anrhydedd, fel na ddarfu i'r Ymherawdwr Valens, yr hwn oedd yn erlidiwr mawr, unwaith gyffwrdd âg ef; a bod hereticiaid, er eu bod yn Dywysogion, yn ystyried fod yn gywilydd iddynt erlid gwr mor odidog.

Ac yn yr Hanes Eglwysig Deir-rhan, y nawfed llyfr, a'r wythfed bennod a deugain, tystiolaethir y byddai Epiphanius yn ei fywyd yn gwneuthur gwyrthiau, ac y byddai cythreuliaid, ar ol ei farwolaeth, yn rhuo wrth gael eu bwrw allan wrth ei fedd ef.

Fel hyn chwi a welwch pa awdurdod y mae St. Jerom a'r Hanes hynafiaethol honno yn ei rhoi i'r sanctaidd a'r dysgedig Esgob Epiphanius, barn yr hwn am ddelwau mewn Eglwysydd a Themlau, y rhai oedd y pryd hwnnw yn dechreu yn lledradaidd ymlusgo i mewn, sy deilwng o'n sylw.

Yn gyntaf; Yr oedd yn barnu fod yn wrthwyneb i'r Grefydd Gristionogol ac i Awdurdod yr Ysgrythyrau, fod dim delwau yn Eglwys Grist.——

Yn ail; Efe a daflodd nid yn unig ddelwau cerfiedig a thoddedig, ond rhai paentiedig hefyd, allan o Eglwys Grist.——

Yn drydydd; Nad oedd fatter ganddo pa un fyddai ai delw Crist ai delw Sant, ond am ei bod yn ddelw, ni oddefai mo honi yn yr Eglwys.——

Yn bedwerydd; Ni symmudodd efe hi 'n unig o'r Eglwys, ond *rhwygodd* hi yn ei zel wresog gan annog amdoi a chladdu corph marw ynddi, gan farnu nad oedd yn gymmwys i ddim ond i bydru yn y ddaear, gan ddilyn yn hyn esampl y brenhin da Hezeciah, yr hwn *a faluriodd y sarph bres*,[1] ac a'i llosgodd yn lludw, am fod delw-addoliad yn cael ei wneuthur iddi.——

Yn ddiweddaf oll; Mae Epiphanius yn meddwl fod yn ddyledswydd ar Esgobion gwyliadwrus ofalu na oddefer delwau yn yr Eglwys, am

[1] 2 Bren. 18. 4.

eu bod yn peri petrusder a thramgwydd i'r bobl a roddwyd dan eu cadwraeth hwynt.——

Yn awr, gan na ddarfu i St. Jerom, yr hwn a gyfieithodd y llythyr hwnnw, nac i Awduron yr hen Hanes Eglwysig Deir-rhan, (y rhai sy 'n canmol Epiphanius yn fawr, fel y crybwyllwyd) nac i un Esgob duwiol a dysgedig arall y pryd hwnnw, nac yn fuan wedi hynny, ysgrifenu dim yn erbyn barn Epiphanius ynghylch delwau; mae yn brawf amlwg, na fyddid yn y dyddiau hynny, sef tu a phedwar can mlynedd ar ol ein Hiachawdwr Crist, ddim yn arferyd nac yn derbyn delwau yn gyhoeddus yn Eglwys Grist, yr hon oedd y pryd hynny yn llawer llai llygredig a mwy pur nag ydyw yn bresennol.

A lle'r oedd delwau yn dechreu ymlusgo'n ddirgel ac yn lledradaidd yr amser hwnnw o dai dynion i'r Eglwysydd, a hynny'n gyntaf wedi eu paentio ar lieiniau a pharwydydd, pan welai Esgobion duwiol a gwyliadwrus hwynt, hwy a'u symudent ymaith megis pethau anghyfreithlon a chroes i grefydd Crist, fel y gwnaeth Epiphanius yma: â barn yr hwn y mae yn cyd-gordio ac yn cyttuno, nid yn unig St. Jerom, cyfieithydd ei Epistol ef, ac ysgrifenydd yr Hanes Deir-rhan, ond hefyd yr holl ysgolheigion dysgedig a duwiol, ie, a'r holl Eglwys, yn yr oes honno, ac felly i fynu hyd amser ein Hiachawdwr Crist, dros yspaid pedwar can mlynedd.

Ysgrifenwyd hyn yn helaethach am Epiphanius, am fod amddiffynwŷr delwau yn y dyddiau hyn, wrth weled eu hunain yn cael eu gwasgu mor galed â'r dra eglur a'r ddifrifol weithred ac ysgrifen yma o eiddo Epiphanius, Esgob ac Athraw o'r fath hynafiaeth ac awdurdod, yn ymegnïo ym mhob ffordd (ond yn ofer yn erbyn y gwir), i brofi, naill ai mai nid Epiphanius a ysgrifenodd y llythyr hwn, neu mai nid St. Jerom a'i cyfieithodd. "Neu os amgen," meddant, "nid yw o fawr rym; canys Iuddew," meddant, "oedd yr Epiphanius hwn, a chwedi ei droi i ffydd Grist, a'i wneuthur yn Esgob, efe a gadwodd yn ei galon yn barhâus y casineb sy gan yr Iuddewon at ddelwau, ac felly a wnaeth ac a ysgrifenodd yn eu herbyn, fel Iuddew, ac nid fel Cristion."—— O! ddigywilydd-dra a malais Iuddewaidd y cyfryw ddyfeiswŷr! Dylid *profi*, ac nid haeru yn unig, mai Iuddew oedd Epiphanius.

Ym mhellach, mi a addefaf yn llawen eu rheswm hwn:—— canys oni ddylid derbyn barn Epiphanius *yn erbyn* delwau, am ei fod wedi ei eni o Iuddew, gelyn delwau, y rhai ydynt elynion Duw, a'i ddychwelyd i grefydd Crist; yna mae'n dilyn o ganlyniad, na ddylai fod dim awdurdod chwaith mewn un ymadrodd yn yr hen Ddoctoriaid a'r Tadau ag sy 'n ymddangos *o blaid* delwau: o achos y rhan fwyaf o'r ysgrifenwŷr dysgedig yn y Brif Eglwys, megis Tertulian, Cyprian, Ambros,

Awstin, ac aneirif eraill, oeddynt Baganiaid (rhai yn ffafrio ac yn addoli delwau) wedi eu troi i ffydd Grist; ac felly hwyrach iddynt fel Paganiaid, yn hytrach nag fel Cristionogion, adael i rywbeth lithro o'u pinnau ysgrifenu fel yn ymddangos o blaid delwau: fel y dywed Eusebius yn ei Hanes Eglwysig, a St. Jerom, yn amlwg, "mai oddi wrth y Paganiaid y daeth delwau gyntaf attom ni Gristionogion."

A mwy o lawer y mae 'n dilyn, mai ychydig iawn, os dim, yw awdurdod opiniwn holl werinos yr Eglwys Babaidd yn amddiffyn delwau; oanys nid rhyfedd eu bod *hwy*, a ddygwyd i fynu o'u mebyd ym mysg delwau ac eilunod, ac a sugnasant eilun-addoliaeth bron gyd â llaeth eu mammau, yn cymmeradwyo delwau ac eilunod, ac yn siarad ac yn ysgrifenu o'u plaid.

Ond yn wir ni ddylid ystyried gymmaint pa un ai Iuddew ai Pagan wedi ei droi i grefydd Crist yw 'r ysgrifenydd, ond pa mor gyttûn neu anghyttûn *â gair Duw* y mae 'n ysgrifenu; a'i gredu neu ei anghredu yn ol hynny: a chwi a glywsoch yn helaeth yn y rhan gyntaf o'r Homili hon, beth a ddywed gair Duw am ddelwau ac eilunod a'u haddoliad.

St. Ambros, yn ei Draethawd ar farwolaeth yr Ymherawdwr Theodosius, a ddywed fel hyn; "Fe gafodd Helen y Groes a'r titl arni. Hi a addolodd y Brenhin yn ddiau, ac nid y pren, (canys cyfeiliornad paganaidd ac oferedd y drygionus yw hynny,) ond hi a addolodd yr Hwn a grogasid ar y Groes, ac Enw yr Hwn a ysgrifenasid yn y titl;" ac felly ymlaen. Gwelwch ar unwaith weithred yr Ymherodres dduwiol, a barn St. Ambros: yr oeddynt yn ystyried mai cyfeiliornad paganaidd ac oferedd y drygionus fuasai addoli 'r Groes ei hun, yr hon a wlychwyd â gwerthfawr Waed ein Hiachawdwr Crist. Ac yr ydym *ni* yn syrthio i lawr ger bron pob darn croes o bren, yr hwn nid yw ond delw o'r Groes honno.

St. Awstin, y dysgedicaf o'r holl hen Ddoctoriaid, yn ei bedwerydd llythyr a deugain at Maximus, a ddywed; "Gwybydd nad oes neb o'r meirw, nag un dim a'r a wnaethpwyd gan Dduw, yn cael ei addoli gan y Cristionogion Catholig, o ba rai y mae Eglwys yn eich tref chwi." —— Sylwch, nad yw y rhai a addolant y meirw, neu greaduriaid, ddim, yn ol barn St. Awstin, yn Gristionogion Catholig.

Yr unrhyw St. Awstin, yn y ddegfed bennod o'r deuddegfed llyfr o *Ddinas Duw*, a ddysg "na ddylid adeiladu Temlau nac Eglwysydd i Ferthyron na Saint, ond i Dduw yn unig: ac na ddylid pennodi offeiriaid i Ferthyr na Sant, ond i Dduw yn unig."

Mae gan yr unrhyw St. Awstin, yn ei lyfr *Am Arferion yr Eglwys Gatholig*, y geiriau hyn; "Mi a wn fod llawer yn addoli beddau a lluniau: mi a wn fod llawer yn gloddesta 'n afradlon uwch ben beddau

y meirw, a chan roi bwyd i gelaneddau difywyd, ydynt yn claddu eu hunain ar y claddedig, ac yn priodoli eu glythineb a'u meddwdod i grefydd."—— Gwelwch; y mae efe'n cyfrif addoli beddau a lluniau'r Saint yn gystal crefydd a glythineb a meddwdod, ac nid yn un gronyn gwell.

Mae St. Awstin yn mawr gymmeradwyo dywediad Marc Varro, "fod crefydd yn buraf heb ddelwau;" ac yn dywedyd ei hun, "fod mwy o rym mewn delwau i wyrdroi enaid annedwydd, nag i'w ddysgu a'i gyfarwyddo:" ac a ddywed ym mhellach, "fod pob plentyn, ie, pob anifail, yn gwybod mai nid Duw yw yr hyn y maent yn ei weled."—— Paham ynte y mae'r Yspryd Glân yn ein rhybuddio ni mor fynych am yr hyn y mae pawb yn ei wybod? I hyn y mae St. Awstin ei hun yn atteb fel hyn; "Canys," eb efe, "pan ddoder delwau mewn Temlau, a'u gosod mewn uchder anrhydeddus, ac unwaith ddechreu eu haddoli, maent yn y fan yn magu y tuedd ffieiddiaf at gyfeiliornad."

Hyn yw barn St. Awstin am ddelwau mewn Eglwysydd, eu bod yn y fan yn magu cyfeiliornad ac eilun-addoliaeth.

Byddai ry faith adrodd yr holl leoedd eraill a ellid eu dwyn allan o waith yr hen Ddoctoriaid yn erbyn delwau ac eilun-addoliaeth: am hynny ni a ymfoddlonwn yn bresennol ar yr ychydig a grybwyllwyd.

Weithian am hanesion Eglwysig ynghylch y matter hwn, fel y gwypoch paham, pa bryd, a chan bwy, yr arferwyd delwau ar y cyntaf yn ddirgel, ac yna nid yn unig a dderbyniwyd i Eglwysydd a Themlau Cristionogion, ond yn y diwedd a addolwyd hefyd; a pha fodd y gwrthwynebwyd ac y gwaharddwyd yr unrhyw gan Esgobion duwiol a Doctoriaid dysgedig, ac hefyd gan amryw Dywysogion Cristionogol: mi a gasglaf yn fyrr, yn hanes gryno, yr hyn a ysgrifenwyd yn helaeth mewn amryw fannau, gan lawer o hen ysgrifenwŷr a hanesyddion ynghylch y matter hwn.

Megis y bu i'r Iuddewon, er bod ganddynt egluraf a hyspysaf orchymyn Duw, na wnaent ac nad addolent un ddelw, (fel y dangoswyd o'r blaen yn helaeth) gwympo er hynny, drwy esampl y Cenhedloedd neu y Paganiaid a drigent o'u hamgylch, i wneuthur delwau ac i'w haddoli, ac felly i wneuthur ffieiddiaf ddelw-addoliad; am yr hyn y mae Duw trwy ei Brophwydi Sanctaidd yn eu ceryddu ac yn eu bwgwth yn llym, ac ar ol hynny a gyflawnodd ei fygythion hynny drwy eu cospi hwy i'r eithaf, (fel yr hyspyswyd uchod;)—— felly hefyd rhai o'r Cristionogion yn yr hen amser, y rhai a droisid oddi wrth addoli eilunod a gau dduwiau at y gwir a'r bywiol Dduw a'n Hiachawdwr Iesu Grist, o ryw zel ddall (fel dynion wedi hir gynnefino â delwau) a baentient neu a gerfient ddelwau o'n Hiachawdwr Crist, Mair ei Fam, a'r Apostolion,

dan dybied fod hyn yn bwngc o ddiolchgarwch a charedigrwydd tu ag at y rhai y derbyniasent drwyddynt wir wybodaeth o Dduw ac athrawiaeth yr Efengyl.

Ond ni ddaethai y lluniau a'r delwau hyn etto i'r Eglwysydd, ac nid addolid hwy dros hir amser ar ol hynny.

A rhag i chwi feddwl mai o'm pen fy hun yn unig, heb awdurdod, yr wyf yn dywedyd hyn, mi a ddygaf drosof Eusebius, Esgob Cesarea, Awdwr hynaf Hanesyddiaeth Eglwysig, yr hwn oedd yn byw tu a thri chant a deng mlwydd ar hugain o oedran ein Harglwydd, yn nyddiau Constantinus Fawr a'i fab Constantius, yr Ymherawdwŷr, yn y seithfed llyfr o'i Hanes Eglwysig, a'r bedwaredd bennod a'r ddeg, a St. Jerom ar y ddegfed bennod o'r Prophwyd Jeremiah, y rhai a ddywedant ill dau yn eglur, "Fod cyfeiliornad delwau (canys felly y geilw St. Jerom ef) wedi dyfod i mewn at y Cristionogion oddi wrth y Cenhedloedd, drwy ddefod ac arfer Baganaidd."—— Dengys Eusebius yr achos a'r moddion, gan ddywedyd; "Nid rhyfedd i'r rhai oedd o'r blaen yn Baganiaid, ac a gredasant, offrwm hyn megis rhodd i'n Hiachawdwr, am y doniau a dderbyniasent ganddo; ie, ac yr ydym yn awr yn gweled delwau a lluniau Petr a Phaul a'n Hiachawdwr ei Hun yn cael eu gwneuthur a'u paentio, yr hyn, dybygaf, a gadwyd ac a arferwyd megis peth diddrwg, drwy ddefod Baganaidd. Canys felly'r arfera'r Paganiaid anrhydeddu y rhai a farnant yn haeddu anrhydedd, am y dylid cadw rhyw goffeion am hen wŷr; am fod y goffadwriaeth a wnelo plant ac wyrion, yn argoel o anrhydedd tu ag at y rhai a fu o'u blaen, ac o gariad at y rhai a ddel ar eu hol."

Cyn belled a hyn mi a adroddais eiriau Eusebius. Ac yma nodwch, fod St. Jerom ac yntau yn cyttuno yn hyn, ddyfod y delwau hyn i mewn i blith Cristionogion drwy rai ag a fuasai'n Baganiaid, ac wedi cynnefino â delwau; a chwedi eu troi i ffydd Grist, a gadwasant fyth ryw weddillion o Baganeidd-dra heb eu cwbl buro ymaith: canys geilw St. Jerom ef yn amlwg yn gyfeiliornad.

Ac ni a welwn yn Actau'r Apostolion gyffelyb esampl yn yr Iuddewon, y rhai, wedi troi at Grist, a fynnent ddwyn eu henwaediad, (yr hwn a arferasant mor hir) i mewn gyd â hwy i grefydd Crist. Gyd â'r rhai y bu i'r Apostolion, yn enwedig St. Paul, drafferth fawr i sefydlu'r matter hwnnw.

Ond am *enwaediad* yr oedd llai rhyfeddod, am ddyfod o hono i mewn ar y cyntaf drwy ordeiniad a gorchymyn Duw:—— Ond fe ddichon dyn yn gyfiawn ryfeddu pa fodd y daeth *delwau* i mewn, a hwythau mor groes i sanctaidd air a chaeth orchymyn Duw.

Ond nid oeddid etto yn amser Eusebius yn addoli delwau, nac yn eu

gosod i fynu mewn Eglwysydd a Themlau; ac yr oedd y rhai a'u meddent yn eu tai, yn cyfeiliorni o ran ryw zel, ac nid o ran drygioni.

Ond wedi hynny hwy a ymlusgasant o dai i Eglwyswydd; ac felly hwy a fagasant yn gyntaf goel-grefydd, ac yn ddiweddaf ddelw-addoliaeth, ym mhlith Cristionogion, fel y ceir gweled rhagllaw.

Yn amser yr Ymherawdwŷr Theodosius a Marcian, y rhai oedd yn teyrnasu tu a blwyddyn ein Harglwydd 460, a 1100 mlynedd yn ol, pan gadwai pobl dinas Nola ddydd genedigaeth St. Felix yn y Deml, ac arfer gwledda'n helaethwych yno, parodd Pontius Paulinus, Esgob Nola, baentio ar barwydydd y Deml hanesion wedi eu cymmeryd allan o'r Hen Destament, fel y gallai'r bobl, wrth edrych ar y lluniau hynny a'u hystyried, ymgadw 'n well oddi wrth lythineb a rhysedd.

A thu a'r un amser, mynega Aurelius Prudentius iddo weled yn baentiedig mewn Eglwys, hanes dïoddefaint St. Cassian, Ysgol-feistr a Merthyr, yr hwn y darfu i'w ysgolheigion ei hun ei frathu, wrth orchymyn y gormeswr, â'u pinnau ysgrifenu pres, ac felly â mil a mwy o glwyfau, ebe Prudentius, yn greulonaf ei roi i farwolaeth.

A dyma'r lluniau paentiedig cyntaf ag y mae son am danynt mewn Eglwysydd yn yr hen amseroedd. Ac felly wrth yr esampl hon daeth paentio i mewn, ac ar ol hynny delwau o goed, a maen, a defnyddiau eraill, i Eglwysydd y Cristionogion.

Yn awr, os ystyriwch y dechreuad yma, nid yw dynion mor barod i addoli llun ar bared neu mewn ffenestr, a delw gerfiedig oreuraidd, wedi ei harddu â pherlau a meini gwerthfawr;—— ac y mae defnydd arall amgen mewn hanes gyflawn, wedi ei phaentio gyd âg ystumiau a gweithredoedd amryw bersonau, gyd â swm yr hanes yn ysgrifenedig wrthi, nag sy mewn un eilun neu ddelw fud yn sefyll wrthi ei hun.

Ond o ddysgu trwy hanesion paentiedig, fe ddaethpwyd o ychydig i ychydig i eilun-addoliaeth. Yr hyn pan ganfu gwŷr duwiol, (megis Ymherawdwŷr, ac Esgobion duwiol, ac eraill) hwy a orchymynasant nad arferid y fath luniau, delwau, neu eilunod mwyach.

Ac er mwyn dangos i chwi hyn, mi a ddechreuaf gyd â Gorchymyn yr hen Ymherawdwŷr Cristionogol, Valens a Theodosius II. y rhai oedd yn teyrnasu tu a phedwar can mlynedd ar ol Dyrchafael ein Hiachawdwr Crist, ac a waharddasant wneuthur na phaentio delwau i fod mewn tai: canys sicr yw nad oedd yr un mewn Eglwysydd yn gyhoeddus yn eu hamser hwy.—— Ysgrifenodd yr Ymherawdwŷr hyn at Gapten eu gwarchawd-lu, fel hyn:—

"Yr Ymherawdwŷr Valens a Theodosius at Gapten y llu: Yn gymmaint a bod gennym fawr ofal i gynnal Crefydd Duw uwchlaw pob peth, ni chaniattâwn i neb ddodi allan, cerfio, na phaentio delw o'n

Hiachawdwr Crist mewn lliwiau, maen, nac un defnydd arall: ond ym mha le bynnag y caffer y cyfryw, yr ydym ni yn gorchymyn ei chymmeryd ymaith; a bod i bwy bynnag a gynhygio wneuthur dim yn hyn o beth yn groes i'n gorchymyn hwn, gael ei gospi yn llymdost."

Mae 'r gorchymyn hwn yn ysgrifenedig yn y llyfrau a elwir *Libri Augustales*, sef y llyfrau Ymherodrol, a gasglwyd gan Tribonianus, Basilides, Theophilus, Dioscorus, a Satira, gwŷr o ddysg ac awdurdod mawr, wrth orchymyn yr Ymherawdwr Justinian: a chrybwyllir am dano hefyd gan Petrus Crinitus, dyn hynod o ddysgedig, yn y nawfed llyfr a'r nawfed bennod o'i waith a elwir "*De honesta Disciplina*," hynny yw, am Ddysgeidiaeth onest.

Yma chwi a welwch beth a orchymynodd Tywysogion Cristianus o'r amseroedd hynaf yn erbyn delwau, y rhai y pryd hynny oeddynt yn dechreu ymlusgo i blith Cristionogion. Canys dilys yw nad oedd dim delwau yn gyhoeddus yn yr Eglwysydd neu 'r Temlau dros fwy na thri chan mlynedd ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr Crist, a chyn teyrnasiad yr Ymherawdwŷr duwiol hyn.—— Pa fodd yr ymffrostiai y delwaddolwŷr pe bai ganddynt gymmaint o hynafiaeth ac awdurdod o'u plaid, ag sydd yma yn eu herbyn!

Ym mhen ennyd fechan ar ol y dyddiau hyn, y Gothiaid, y Vandaliaid, yr Huniaid, a Chenhedloedd barbaraidd ac annuwiol eraill, a dorrasant i mewn i'r Ital ac i bob rhan o wledydd gorllewinol Ewrop gyd â llnoedd anferthol a grymus, gan anrheithio pob lle, dinystrio dinasoedd, a llosgi llyfrgelloedd, nes myned o ddysg a gwir grefydd yn chwalfa, a dirywio yn anhygoel.

Ac felly gan fod Esgobion y dyddiau diweddarach hynny yn llai eu dysg, ac ynghanol rhyfeloedd, ac yn cymmeryd llai o ofal na 'r Esgobion oedd o'u blaen; trwy anwybodaeth o air Duw, ac esgeulusdra 'r Esgobion, ac yn enwedig trwy fod Tywysogion barbaraidd yn rheoli, heb gael eu haddysgu 'n iawn mewn gwir grefydd, daeth delwau i Eglwys Grist yn y parthau gorllewinol hynny, lle 'r oedd y bobl farbaraidd a grybwyllwyd yn rheoli, nid weithian ar lieiniau paentiedig yn unig, ond wedi eu cerfio mewn maen, pren, mettel, a'r cyffelyb ddefnydd; ac nid yn unig gosodid hwy i fynu, ond dechreuid eu haddoli hefyd.

Ac am hynny Serenus, Esgob Massile, prif dref Gallia Narbonensis, (a elwir yn awr Provence) gwr duwiol a dysgedig, yr hwn oedd tu a chwe chan mlynedd ar ol ein Hiachawdwr Crist, wrth weled y bobl, o herwydd achlysur delwau, yn syrthio i'r ffieiddiaf eilun-addoliaeth, a dorrodd yn ddrylliau holl ddelwau Crist a Seintiau ag oedd yn y ddinas honno: ac achwynwyd arno am hynny wrth Gregori, y cyntaf o'r enw hwnnw, Esgob Rhufain, yr hwn oedd yr Esgob dysgedig cyntaf, yn ol

dim a ellir ei wybod mewn un ysgrifen neu hanes o hynafiaeth, a addefodd fod delwau yn gyhoeddus mewn Eglwysydd. Ac ar y Gregori hwn y mae holl addolwŷr delwau y dydd hwn yn seilio eu hymddiffyniad.

Ond fel y mae pob peth ag sy 'n feius, yn tyfu waethwaeth o ddechreuad digon goddefadwy, nes myned o'r diwedd yn hollol annïoddefol, felly hefyd y gwnaeth delwau:——

Yn gyntaf, arferai dynion yn eu tai hanesion wedi eu paentio ar lechau, llïeiniau, a pharwydydd:——

Wedi hynny, arferid delwau cerfiedig a naddedig mewn tai neillduol:——

Yna wedi hynny, dechreuodd lluniau yn gyntaf, ac ar eu hol, ddelwau cerfiedig, ymlusgo i Eglwysydd, er y byddai dynion duwiol a dysgedig yn dywedyd yn eu herbyn bob amser:——

Yna, drwy arfer, dadleuid yn gyhoeddus y gallent fod mewn Eglwysydd; ond etto gwaherddid eu haddoli:—— Ac o'r meddwl hwn yr oedd Gregori, fel y mae 'n eglur oddi wrth ei lythyr at y rhag-grybwylledig Serenus Esgob Massile; yr hwn lythyr a ellir ei weled yn Llyfr Llythyrau Gregori, neu y Llechres, yn y ddegfed ran o'r pedwerydd llythyr, lle mae ganddo 'r geiriau hyn:——

"Yr ydym yn hollol ganmol ddarfod i ti wahardd addoli delwau; ond yr ydym yn beio ddarfod i ti eu dryllio. O herwydd un peth yw addoli 'r llun; a pheth arall yw dysgu oddi wrth lun yr hanes pa beth sydd i'w addoli. Canys yr hyn yw 'r Ysgrythyr i'r sawl sy 'n medru darllen, hynny a wna llun i rai gwirion ac annysgedig, wrth iddynt edrych arno," ac felly ym mlaen. Ac ar ol ychydig eiriau:——"Am hynny ni ddylasid dryllio yr hyn a osodwyd i fynu yn yr Eglwys, nid i'w addoli, ond yn unig i addysgu meddyliau 'r anwybodus." Ac ychydig wedi:——"Fel hyn y dylesit ddywedyd; os rhaid i chwi gael delwau yn yr Eglwys er mwyn yr addysg y gwneid hwy erddo gynt, yr wyf yn goddef i chwi eu gwneuthur, a'u meddu, a'u dangos; a dylesit ddywedyd mai nid golwg yr hanes a hyspysa 'r llun, ond mai yr addoliad a roir yn anweddus i luniau, oedd yn dy anfoddio: ac nid gwahardd, os mynnai neb *wneuthur* delwau, ond gochelyd ym mhob ffordd rhag *addoli* delwau."

Wrth yr ymadroddion hyn a gymmerwyd yma ac accw allan o lythyr Gregori at Serenus, (canys byddai ry hir adrodd y cwbl) chwi a ellwch ddeall hyd ba faint yr oedd y peth hyn wedi tyfu chwe chan mlynedd ar ol Crist: sef fod amddiffyn cael delwau neu luniau yn yr Eglwys y pryd hynny ym mharthau gorllewinol y byd, (canys nid oeddynt etto mor flaenllaw yn yr Eglwys ddwyreiniol) ond yr oeddid yn hollol wahardd eu haddoli.

A gellwch sylwi hefyd; gan nad oes un sail i addoli delwau yn ysgrifeniad Gregori, ond ei fod yn hollol yn condemnio hynny, mai yn anghyfiawn y mae y rhai a addolant ddelwau yn dwyn Gregori o'u plaid.

Ac ym mhellach; Onid yw delwau yn yr Eglwys yn dysgu dynion, megis y tybyga Gregori, ond yn hytrach yn eu dallu, yna y canlyn na ddylai delwau ddim bod yn yr Eglwys yn ol ei farn ef; canys mynnai efe iddynt gael eu gosod yno fel y gallent ddysgu 'r anwybodus.

Gan hynny, os dangosir fod eilunod wedi cael, ac yn cael, eu haddoli; ac hefyd nad ydynt yn dysgu dim ond cyfeiliornadau a chelwyddau, (yr hyn drwy ras Duw a wneir ar ol hyn) yr wyf yn gobeithio y dymchwelir y pryd hynny, yn ol penderfyniad Gregori ei hun, bob rheswm dros ddelwau a delw-addolwŷr.

Ond yn y cyfamser yr oedd awdurdod Gregori mor fawr yn yr Eglwys orllewinol, fel y gosodai dynion ddelwau i fynu ym mhob lle drwy ei gefnogiad ef: ond nid oedd eu barn hwy mor dda ag ystyried *paham* y mynnai efe eu gosod i fynu, ond wrth eu haddoli, hwy a gwympasant blith draphlith i eglur eilun-addoliaeth, yr hyn beth yr oedd yr Esgob Serenus, (nid heb achos cyfiawn) yn ofni y digwyddai.

Yn awr pe buasai barn Serenus yn cael lle, yr hwn a dybygai fod yn weddus dinystrio delwau a addolid; buasai delw-addoliad wedi cael ei ddadymchwelyd: canys ni wna neb ddelw-addoliaeth i'r peth nad ydyw.

Ond o farn Gregori, yr hwn a dybygai y gellid goddef delwau mewn Eglwysydd, os dysgid na ddylid eu haddoli, pa ddistryw a ddilynodd ar grefydd, a pha flinder ar ol hynny i holl wledydd Cred, y mae amser wedi dangos er ein mawr niweid a'n tristwch.—— Yn gyntaf, y sism a gododd rhwng yr Eglwys ddwyreiniol a'r Eglwys orllewinol ynghylch y delwau hynny.—— Yna, drwy ranniad yr Ymherodraeth yn ddwy ran, oblegid yr un achlysur o ddelwau, er mawr wanhychiad holl wledydd Cred.—— A thrwy hyn, yn ddiweddaf, y canlynodd llwyr ddinystr ar y Grefydd Gristionogol a'r Ymherodraeth ardderchog yngwlad Groeg ac yn holl barthau dwyreiniol y byd, a chynnydd gau grefydd Mahomet, a chreulon lywodraeth a gormes y Saraceniaid a'r Tyrciaid, y rhai ydynt bron ar ein gwarthaf ninnau hefyd sy 'n trigo ym mharthau gorllewinol y byd, yn barod ar bob achlysur i'n goresgyn.—— Ac i'n delwau a'n heilunod, ac i'n delw-addoliaeth iddynt, yr ydym yn ddyledus am hyn oll.

Ond yn awr moeswch glust am ychydig i ddilyniad yr hanes, yn yr hon yr wyf yn canlyn yn bennaf hanesion Paulus Diaconus ac eraill, a gyssylltir gyd âg Eutropius, hen ysgrifenwr. Canys er bod rhai o'r Awdwŷr yn ffafrio delwau, etto maent yn amlwg ac yn helaeth yn dilyn hanesion yr amseroedd hynny, y rhai hefyd y mae Baptist Platina

yn ei "Hanes y Pabau," ac yn ei "Fucheddau Constantin a Gregori II. Esgobion Rhufain," ac mewn lleoedd eraill (lle mae 'n trin y matter hwn) yn bennaf yn eu canlyn.

Gwedi amser Gregori, fe alwodd Constantin, Esgob Rhufain, Gynghor o Esgobion yr Eglwys orllewinol, ac a gondemniodd Philippicus, yr Ymherawdwr y pryd hynny, a John, Esgob Constantinopl, o heresi y Monothelitiaid, yn wir nid heb achos, ond yn gyfiawn iawn. Wedi iddo wneuthur felly, drwy gydsyniad y dysgedigion oedd o'i amgylch, fe barodd y dywededig Constantin, Esgob Rhufain, fod i luniau yr hen Dadau a fuasent yn y chwe Chynghor a gymmeradwyid ac a dderbynid gan bawb, gael eu paentio yn y mynediad i mewn i Eglwys St. Petr yn Rhufain. Pan gafodd y Groegiaid wybod hyn, hwy a ddechreuasant ymresymmu ac ymddadleu â'r Lladinwŷr ynghylch delwau, gan ddal na ddylai delwau gael lle yn Eglwys Grist: a'r Lladinwŷr a ddalient y gwrthwyneb, ac a darawent o blaid y delwau.

Felly Eglwysi 'r dwyrain a'r gorllewin, y rhai nid oeddynt yn cyttuno 'n dda o'r blaen, a gwympasant, ar yr ymryson hwn, i lwyr elyniaeth; ac y maent hyd heddyw heb ymgymmodi.

Ond yn y cyfamser, gorchymynodd Philippicus ac Athemius, neu Anastasius, yr Ymherawdwŷr, dynnu ymaith a dilëu delwau a lluniau ym mhob man o'u llywodraeth.

Ar eu hol hwy daeth Theodosius III. Efe a barodd i'r delwau a anffurfiasid gael eu paentio drachefn yn eu lleoedd: ond ni theyrnasodd y Theodosius hwn ond un flwyddyn.

Leo, y trydydd o'r enw hwnnw, a ddaeth ar ei ol ef; yr hwn oedd Syriad o enedigaeth, Tywysog doeth, duwiol, trugarog, a gwrol iawn. Cyhoeddodd y Leo hwn orchymyn ar fod i'r holl ddelwau a osodasid mewn Eglwysydd i'w haddoli gael eu tynnu i lawr a'u hanffurfio; ac a ofynodd ar fod i Esgob Rhufain yn enwedigol wneuthur yr un peth; ac efe ei hun, yn y cyfamser, a barodd gasglu 'r holl ddelwau oedd yn y ddinas Ymherodrol, Constantinopl, yn bentwr yn nghanol y ddinas, a'u llosgi 'n lludw yno ar gyhoedd: ac efe a wyn-galchodd ac a grafodd ymaith yr holl luniau a baentiesid ar barwydydd y temlau, ac a gospodd yn dost lawer o amddiffynwŷr delwau. A phan ddywedodd rhai o herwydd hyn ei fod ef yn Orthrymmydd, efe a attebodd; "Mai hwy a gospid yn gyfiawnaf o bawb, y sawl ni addolent Dduw yn iawn, ac ni pharchent fawrhydi ac awdurdod yr Ymherawdwr, ond a wrthryfelent yn faleisus yn erbyn cyfreithiau iachus a buddiol."——

Pan glywodd Gregori, y trydydd o'r enw, Esgob Rhufain, yr hyn oedd yr Ymherawdwr yn ei wneuthur yngwlad Groeg ynghylch delwau, efe a gynhullodd Gynghor o'r Esgobion Italaidd yn ei erbyn ef, ac a

wnaeth yno ordeiniadau o blaid delwau, ac y dylid rhoddi mwy fyth o barch ac anrhydedd iddynt nag o'r blaen; ac efe a gynhyrfodd yr Italiaid yn erbyn yr Ymherawdwr, yn gyntaf yn Ravenna, ac a'u cyffrôdd i wrthryfela. Ac fel y tystiolaetha Uspurgensis, ac Antonius Esgob Fflorence, yn eu croniclau, efe a barodd i Rufain a'r holl Ital o'r diwedd wrthod ufuddhâu, na thalu dim ychwaneg o deyrnged, i'r Ymherawdwr, ac felly a amddiffynodd eu delw-addoliaeth drwy fradwriaeth a gwrthryfel. Yr hon esampl y mae Esgobion Rhufain wedi ei dilyn yn wastadol, ac ymladd eu ffordd gyd â hi yn ddewr ac yn dalgryf.

Ar ol y Leo hwn, yr hwn a deyrnasodd bedair blynedd ar ddeg ar hugain, daeth ei fab Constantin V. yr hwn yn ol esampl ei dad a gadwodd ddelwau allan o'r Temlau: ac wedi cael ei gyffroi gan y Cynghor a gynhullasai Gregori yn yr Ital o blaid delwau ac yn erbyn ei dad ef, cynhullodd yntau Gynghor o holl ddysgedigion ac Esgobion Asia a Groeg; ond mae rhai ysgrifenwŷr yn gosod y Cynghor hwn yn nyddiau diweddaf Leo Isauricus ei dad ef.

Yn y Gymmanfa fawr hon hwy a eisteddasant mewn Cynghor o'r degfed dydd o Chwefror hyd yr wythfed o Awst, ac a wnaethant y Gorchymyn hwn ynghylch arfer delwau:—— "Nid cyfreithlon i neb a gredont yn Nuw trwy Iesu Grist, osod delwau o'r Creawdwr nac un creadur, mewn Temlau i'w haddoli: ond yn hytrach fe ddylid, wrth ddeddf Duw a rhag tramgwydd, dynnu pob delw ymaith o'r Eglwysydd."—— Ac fe gyflawnwyd y Gorchymyn hwn ym mhob man lle ceffid delwau yn Asia neu yn Groeg.

Ac fe ddanfonodd yr Ymherawdwr y penderfyniad hwn a wnaethai'r Cynghor yn Constantinopl, at Paul, Esgob Rhufain, ac a orchymynodd iddo fwrw'r holl ddelwau allan o'r Eglwysydd; ac yntau (gan ymddiried ynghyfeillach Pipin, Tywysog cadarn,) a wrthododd wneuthur hynny. Ac efe a Stephan III. yr hwn a'i holynodd, (yr hwn a gynhullodd Gynghor arall yn yr Ital o blaid delwau) a gondemniasant yr Ymherawdwr a Chynghor Constantinopl o heresi, ac a wnaethant Orchymyn—— "Fod delwau sanctaidd Crist (fel y galwent hwy) a'r Fendigaid Forwyn, a Saint eraill, yn wir yn haeddu anrhydedd ac addoliad."——

Wedi marw Constantin, Leo IV. ei fab a deyrnasodd ar ei ol, yr hwn a brïododd wraig o ddinas Athen a'i henw Theodora, a elwid hefyd Irene, o'r hon y bu iddo fab a elwid Constantin VI. ac efe a fu farw, a'i fab etto'n ieuangc, gan adael llywodraethiad yr Ymherodraeth a gofal ei fab ieuangc i'w wraig Irene.—— Digwyddodd y pethau hyn yn yr Eglwys tu a blwyddyn ein Harglwydd 760.

Yma sylwch, attolwg, yn yr hanes hon, nad oedd dim delwau yn

gyhoeddus yn Eglwysydd Asia a Groeg dros agos i saith gan mlynedd. Ac nid oes dim ammheuaeth nad y Brif Eglwys, nesaf at amser yr Apostolion, oedd y buraf oll.—— Sylwch hefyd, pan ddechreuodd y gynnen ynghylch delwau, nad oedd, o chwech o Ymherawdwŷr Cristionogol, y rhai oeddynt Benswyddogion i dderbyn ufudd-dod wrth gyfraith Dduw, dim ond un yn unig, sef Theodosius, yr hwn ni theyrnasodd ond un flwyddyn, yn pleidio delwau. Yr holl Ymherawdwŷr eraill, a holl ddysgedigion ac Esgobion yr Eglwys ddwyreiniol, a hynny mewn Cynghorau ymgynhulledig, a'u condemniasant, heblaw y ddau Ymherawdwr a grybwyllwyd o'r blaen, Valens a Theodosius II. y rhai oedd yn hir cyn yr amseroedd hyn, y rhai a waharddasant yn gaeth na wneid dim delwau.—— Ac yn wastadol, ar ol yr amser hwn, holl Ymherawdwŷr Groeg bob amser a ddinystrient bob delwau.

Yn awr, yn y gwrthwyneb, sylwch mai Esgobion Rhufain, y rhai nid oeddynt Benswyddogion gosodedig gan Dduw allan o'u Hesgobaethau eu hunain, ond eu bod, yn groes i air Duw, yn traws-feddiannu awdurdod Tywysogion, oedd yn amddiffyn delwau yngwrthwyneb i air Duw, ac yn cynhyrfu terfysg a gwrthryfel, ac yn gweithio bradwriaeth barhâus yn erbyn eu Prif-arglwyddi, yn groes i ddeddf Duw ac ordeiniadau pob cyfraith ddynol, gan fod nid yn unig yn elynion i Dduw, ond hefyd yn wrthryfelwŷr a chydfradwŷr yn erbyn eu Tywysogion.—— Dyma'r rhai cyntaf a ddygasant ddelwau yn gyhoeddus i Eglwysydd. Dyma'r rhai sy'n eu hamddiffyn yn yr Eglwysydd; a'r moddion drwy y rhai yr amddiffynasant hwy, ydyw cydfradwriaeth a gwrthryfel yn erbyn Duw a'u Tywysogion.

Yn awr i fyned ym mlaen yn yr hanes hon sy'n deilyngaf ei gwybod:——

Cyn dyfod Constantin VI. i'w oed, yr Ymherodres Irene, ei fam, yn llaw yr hon yr oedd llywodraethiad yr Ymherodraeth yn aros, a reolid yn fawr gan gynghor yr Esgob Theodor, a Tharasius, Patriarch Constantinopl, y rhai oeddynt yn cydweithredu'n ddifrifol gyd âg Esgob Rhufain i gynnal ac amddiffyn delwau: ar gynghor a chais pa rai, yr Ymherodres yn annuwiol a barodd gloddio i fynu gorph ei thad-ynghyfraith Constantin V. ac a orchymynodd ei losgi'n gyhoedd, a thaflu ei ludw i'r môr. Yr hon esampl (fel y mae pawb yn son) a fu agos a chael ei rhoi mewn gweithrediad ar gyrph Tywysogion yn ein hamser ninnau, pe buasai awdurdod y tad sanctaidd yn parhâu ronyn bach yn hwy.

Yr achos paham y gwnaeth yr Ymherodres hyn i'w thad-ynghyfraith oedd, am iddo, pan yn fyw, ddinystrio delwau a chymmeryd ymaith addurniadau harddwych yr Eglwysydd, gan ddywedyd——"Fod Crist,

Temlau yr hwn oeddynt, yn cymmeradwyo *tlodi*, ac nid perlau a meini gwerthfawr."

Ar ol hynny, Irene, ar annogaeth Adrian, Esgob Rhufain, a Phaul, Patriarch Constantinopl, a'i olynwr Tharasius, a gynhullodd Gynghor o Esgobion Asia a Groeg, yn ninas Nicea; ac yno, gan fod Cenhadon Esgob Rhufain yn flaenoriaid y Cynghor, ac yn ordeinio pob peth fel y mynnent, y Cynghor a gynhullasid o'r blaen dan yr Ymherawdwr Constantin V. ac a orchymynasai fod i bob delw gael ei dinystrio, a gondemniwyd fel Cynghor a Chymmanfa hereticaidd: a gwnaed Gorchymyn ar osod delwau i fynu yn holl Eglwysydd Groeg, a bod rhoddi anrhydedd ac addoliad iddynt.—— Ac felly yr Ymherodres, heb arbed dyfalwch yn y byd i osod delwau i fynu, na thraul yn eu haddurno yn yr holl Eglwysydd, a wnaeth Gonstantinopl mewn ychydig amser yn hollol fel Rhufain ei hun.

Ac yn awr gellwch weled ddigwyddo yr hyn a ofnodd yr Esgob Serenus ac a waharddodd Gregori I. yn ofer; sef, nad oedd delwau mewn un modd i gael eu haddoli. Canys yn awr, nid yn unig yr anghall a'r annysgedig (i ba rai yn neillduol, fel y dengys yr Ysgrythyr, y mae delwau yn fagl,) ond yr Esgobion a'r dysgedigion hefyd, drwy'r achlysur o ddelwau, a syrthiasant i eilun-addoliaeth, ïe, ac a wnaethant orchymynion ac ordeiniadau i amddiffyn yr unrhyw. Mor anhawdd, ïe, yn wir mor ammhosibl ydyw, bod delwau yn gyhoeddus mewn Eglwysydd a Themlau nemawr o amser heb eilun-addoliaeth; fel y gwelir yn eglur mewn ychydig mwy nag yspaid can mlynedd, rhwng Gregori I. yn caeth wahardd addoli delwau, a Gregori III., Paul, a Leo III., Esgobion Rhufain, ynghyd â'r Cynghor hwn, yn gorchymyn ac yn ordeinio fod i ddelwau gael eu haddoli.

Yn awr pan aeth Constantin, yr Ymherawdwr ieuangc, yn ugain oed, yr oedd beunydd mewn lleilai o gymmeriad. Canys y sawl ag oeddynt o gylch ei fam ef, a'i perswadiasant hi, fod Duw wedi penderfynu ar fod iddi hi deyrnasu ei hun yn unig, heb ei mab gyd â hi. Y wraig uchelfryd a gredodd hyn, ac a ddifeddiannodd ei mab o bob urddas ymherodrol, ac a wnaeth i'r holl wŷr o ryfel a'u capteiniaid dyngu iddi na oddefent i'w mab Constantin deyrnasu tra byddai hi byw. Y Tywysog ieuangc, wedi cael ei gynhyrfu gan yr anfri hwn, a adennillodd lywodraethiad yr Ymherodraeth i'w law ei hun trwy rym arfau: a chan ei fod wedi cael ei ddwyn i fynu mewn gwir grefydd yn amser ei dad, ac yn gweled coel-grefydd ei fam Irene, a'r eilun-addoliad a wneid i ddelwau, efe a fwriodd i lawr, a dorrodd, ac a losgodd, yr holl eilunod a'r delwau a osodasai ei fam ef i fynu. Ond ym mhen ychydig o flynyddoedd, yr Ymherodres Irene, wedi cael ei hadferyd i ffafr ei mab eilwaith, a'i

berswadio ef i dynnu llygaid ei ewythr Nicephorus, a thorri tafodau ei bedwar ewythr arall, ac i wrthod ei wraig, a thrwy y cyfryw foddion ei wneuthur yn atgas gan ei ddeiliaid; yn awr i ddangos ym mhellach nad oedd hi ddim wedi newid ei meddwl, ond mai yr un wraig ydoedd ag a gloddiasai i fynu ac a losgasai gorph ei thad-ynghyfraith, ac y byddai hi yn fam mor naturiol ag y buasai 'n ferch-ynghyfraith garedig; wrth weled y delwau a garai hi mor fawr, ac a osodasai i fynu gyd â chymmaint traul, yn cael eu dinystrio beunydd gan ei mab, yr Ymherawdwr, trwy help rhyw gymdeithion da hi a amddifadodd ei mab o'r Ymherodraeth; ac yn gyntaf, fel mam dirion a hawddgar, hi a dynnodd ei ddau lygaid ef, ac a'i taflodd ef i garchar, ac ar ol llawer o arteithiau tostion dros hir amser, hi a'i rhoes ef i farwolaeth yno yn y dull mwyaf creulon.

Yn yr hanes hon, sy wedi ei chyssylltu âg Eutropius, mae 'n ysgrifenedig i'r haul dywyllu dros yspaid dau ddiwrnod ar bymtheg yn y dull mwyaf rhyfedd ac ofnadwy, a bod pawb yn dywedyd mai am erchylldra gweithred greulon ac annaturiol Irene, ac am dynnu llygaid yr Ymherawdwr, y collasai yr haul ei oleuni.—— Ond, mewn gwirionedd, ewyllys Duw oedd arwyddoccau drwy dywylliad yr haul, i ba dywyllwch a dallineb o anwybodaeth ac eilun-addoliaeth y cwympai holl wledydd Cred o achos delwau. Gan fod haul disglair ei dragywyddol wirionedd, a goleuni ei sanctaidd air Ef, yn cael eu duo a'u tywyllu gan niwl a chaddugol gymmylau traddodiadau dynion, yr oedd Duw yn arwyddoccau, megis hefyd drwy amryw ddaear-grynfäau arswydus a ddigwyddasant ynghylch yr un pryd, y byddai i dawel gyflwr gwir grefydd gael ei siglo a'i ysgytio 'n aruthr gan y cyfryw ddelw-addoliad.

Ac yma gellwch weled rasoled a rhinweddoled arglwyddes oedd yr Irene hon, garedicced nith oedd i ewythredd ei gwr, dynered mam-ynghyfraith oedd i wraig ei mab, hawddgared merch i'w thad-ynghyfraith, naturioled mam i'w mab ei hun, a dewred a gwroled pennaethes y cafodd Esgobion Rhufain hi i osod i fynu ac i amddiffyn eu heilunod a'u delwau! Yn wir ni allasent byth gael gweddusach noddwraig i amddiffyn y fath beth, na 'r Irene hon; uchelfrydedd yr hon, a'i chwant am deyrnasu, ni ellid eu digoni,—— yr hon a fyfyriai ac a weithredai yn wastadol ei ffieiddiaf fradwriaeth,—— yr hon yr oedd ei drygionus a'i hannaturiol greulondeb tu hwnt i'r eiddo Medea a Phrogne, llofruddiaethau echrydus pa rai a roisant ddefnydd i feirdd i ysgrifenu arnynt eu tragediau aruthrol!

Ac etto mae rhai haneryddion a ysgrifenasant ei holl arswydus ddrygioni hwn, o ran y serch oedd ganddynt at ddelwau, y rhai yr oedd hi yn eu hamddiffyn, yn ei chanmol fel Ymherodres dduwiol

anfonedig oddi wrth Dduw. Cyfryw yw dallineb coel-grefydd gau, wedi cymmeryd meddiant unwaith o feddwl dyn, ag y cyhoedda feiau Tywysogion drwg, a'u canmol hefyd!

Ond cyn hir wedi hyn, drwg-dybiwyd Irene gan Dywysogion ac arglwyddi Groeg o fradwriaeth, sef ceisio trosglwyddo'r Ymherodraeth i Charles brenhin y Ffrangcod, a bwriadu ei briodi ef yn ddirgel; ac wedi profi hyn yn ei herbyn hi, hi a ddiorseddwyd gan yr Arglwyddi dywededig, ac a ddifuddiwyd drachefn o'r Ymherodraeth, ac a alltudiwyd i ynys Lesbos, lle y diweddodd ei buchedd ysgeler.

Pan oedd y tragediau hyn ynghylch delwau yn digwydd yn Groeg, dechreuwyd yn Spaen hefyd ymholi ynghylch arferu delwau mewn Eglwysydd. Ac yn Eliberi, dinas enwog a elwir yn awr Granada, cynhullwyd Cynghor o Esgobion a dysgedigion eraill Spaen: ac yno, wedi hir ymgynghori, a dyfal-bwyso'r matter, penderfynwyd ef o'r diwedd gan yr holl Gynghor fel hyn, yn yr unfed Erthygl a'r bymtheg a'r hugain;—— "Yr ydym ni yn barnu na ddylai lluniau fod mewn Eglwysydd, rhag i'r hyn a anrhydeddir neu a addolir fod yn baentiedig ar bared."—— Ac yn yr unfed Canon a deugain o'r Cynghor hwnnw mae yn ysgrifenedig fel hyn;—— "Nyni a dybiasom yn dda rybuddio'r ffyddloniaid na's goddefont, hyd y mae ynddynt, ddim delwau yn eu tai; ond os bydd arnynt ofn gorthrech eu gwasanaeth-ddynion, o leiaf ymgadwant hwy eu hunain yn lân ac yn bur oddi wrth ddelwau; os na wnant felly, na chyfrifer hwy yn perthyn i'r Eglwys."

Yma sylwch, attolwg, fel yr oedd y wlad fawr hon, ym mharthau gorllewinol a deheuol Ewrop, ac yn llawer nes i Rufain nag i Groeg, yn cyttuno â'r Groegiaid yn erbyn delwau, ac nid yn unig yn gwahardd iddynt fod mewn Eglwysydd, ond mewn tai neillduol hefyd, ac yn ysgymmuno y rhai a wnaent yn y gwrthwyneb.

A Chynghor arall hefyd o holl ddysgedigion Spaen, a elwir *Concilium Toletanum duodecimum* (sef deuddegfed Cynghor Toledo) a wnaeth orchymyn a phenderfyniad cyffelyb yn erbyn delwau a delw-addolwŷr. Ond pan wybu Esgob Rhufain a'i bleidwŷr am y Gorchymynion hyn a wnaed yn y Cynghor Spaenaidd yn Eliberi, hwy a ofnasant yr ordeiniai holl Germani hefyd yn erbyn delwau, ac yr ymwrthodent â hwy; a bwriadasant rag-flaenu hynny; a thrwy gydsyniad a help Tywysog y Ffrangcod (yr hwn oedd y pryd hynny fwyaf ei gadernid ymharthau gorllewinol y byd) hwy a gynhullasant Gynghor o Germaniaid yn Ffrancfford, ac a barasant i'r Cynghor Spaenaidd rhag-grybwylledig yn erbyn delwau gael ei gondemnio dan yr enw Heresi Felix (am mai Felix Esgob Aquitania oedd bennaf yn y Cynghor hwnnw) ac a barasant dderbyn actau ail Gynghor Nicea a gynhullwyd gan Irene (yr

Ymherodres Sanctaidd y clywsoch am dani eisoes) ac hefyd farn Esgob Rhufain ynghylch delwau.—— O herwydd yn gyffelyb i hyn y mae 'r Papistiaid yn adrodd hanes Cynghor Ffrancfford.

Er hynny mae llyfr Charles Fawr, a ysgrifenodd ef ei hun, (fel y dengys y titl,) ac sy 'n awr yn argraphedig ac yn gyffredin yn nwylaw pawb, yn dangos mai *yn erbyn* delwau ac *yn erbyn* ail Gynghor Nicea a gynhullwyd gan Irene o blaid delwau, yr oedd barn y Tywysog hwnnw a holl Gynghor Ffrancfford; ac y mae yn ei alw yn Gynghor rhyfygus, ynfyd, ac annuwiol; ac yn dangos mai yn erbyn Cynghor Nicea a'i gyfeiliornadau o bwrpas y gwnaed ac y cynhullwyd cymmanfa Cynghor Ffrancfford:——

Felly mae 'n rhaid y canlyn, naill ai fod *dau* Gynghor yn Ffrancfford, y naill yn erbyn y llall, yn amser yr un Tywysog, yr hyn nid ymddengys yn ol un hanesyddiaeth;—— neu ynte ddarfod i'r Pabau a'r Pabyddion, yn ol eu harfer, lygru 'n gywilyddus actau 'r Cynghor hwnnw, megis y maent yn arferol o drin, nid yn unig Cynghorau, ond hefyd holl hanesion ac ysgrifeniadau 'r hen Ddoctoriaid, gan eu gwyrdroi a'u hanghywiro i amddiffyn eu dibenion drwg ac annuwiol eu hunain, fel y mae wedi dyfod i'r goleu yn ddiweddar, ac fel y mae 'n ymddangos fwyfwy beunydd yn ein dyddiau ni:——

Bydded rhodd ffugiedig Constantin, a'r cynnyg hynod i wyrdroi Cynghor cyntaf Nicea o blaid pennaduriaeth y Pab, (yr hyn a wnaed gan Babau yn amser St. Awstin,) yn dystiolaeth o hyn: yr hyn fwriad a gwblhasid hefyd y pryd hynny, oni buasai i ddiwydrwydd a doethineb St. Awstin ac Esgobion dysgedig a duwiol eraill yn Affrica, drwy fawr lafur a chost, wrthsefyll ac attal yr unrhyw.

Yn awr i ddyfod at ddiwedd yr hanes hon, ac i ddangos i chwi y peth pennaf a ddigwyddodd o amddiffyn delwau.

Yn gymmaint a bod, o amser Constantin Fawr hyd y dydd hwnnw, holl awdurdod Ymherodrol a rheolaeth dywysogol Ymherodraeth Rhufain yn aros yn wastadol yn hawl a meddiant yr Ymherawdwŷr, y rhai yr oedd eu trigfod a'u gorsedd Ymherodrol yn Constantinopl, y ddinas frenhinol: Leo 'r trydydd, Esgob Rhufain y pryd hynny, wrth weled Ymherawdwŷr Groeg a'u gogwydd gymmaint yn erbyn ei dduwiau aur ac arian, pren a maen; ac am fod ganddo Charles brenhin y Ffrangcod, (gallu 'r hwn oedd dramawr yngwledydd y gorllewin) yn hyblyg wrth ei ewyllys, am achosion y ceir eu gweled ar ol hyn; dan esgus fod gwŷr Constantinopl, oblegid y pwngc ynghylch delwau, dan reg a melldith y Pab, a'u bod gan hynny yn annheilwng i fod yn Ymherawdwŷr neu i reoli; ac am nad oedd Ymherawdwŷr Groeg, gan eu bod mor bell, yn [illegible] amnaid i amddiffyn y Pab yn erbyn ei elynion y Lombardiaid ac

eraill y rhai yr oedd mewn anghydfod â hwynt:—— Leo 'r trydydd hwn, meddaf, a gynhygiodd beth rhyfedd anferth, na chlybuasid son am y cyffelyb o'r blaen, a pheth o eonder a rhyfyg anhygoel: canys wrth ei babaidd awdurdod efe a drosglwyddodd lywodraethiad yr Ymherodraeth a'r Goron a'r Enw Ymherodrol oddi ar y Groegiaid, ac a'i rhoes i Charles Fawr brenhin y Ffrangcod, nid heb gydsyniad y rhag-grybwylledig Irene, Ymberodres Groeg, yr hon hefyd a fwriadodd ymgyssylltu mewn priodas gyd â'r dywededig Charles.—— Am yr hyn achos, diorseddwyd ac alltudiwyd Irene gan arglwyddi Groeg, fel un wedi bradychu 'r Ymherodraeth, fel y clywsoch eisoes.—— Ac ar ol diswyddo Irene, etholodd arglwyddi Groeg, trwy gydsyniad cyffredin, fel y gwnaethent bob amser, a gosodasant yn Ymherawdwr un o'r enw Nicephorus, yr hwn ni fynnai Esgob Rhufain na gwŷr y gorllewin ei gydnabod yn Ymherawdwr iddynt; canys dewisasent eisoes un arall; ac felly 'r oedd *dau* Ymherawdwr. A'r Ymherodraeth yr hon o'r blaen oedd yn un, a barthwyd yn ddwy ran, o achos eilunod, a delwau, a'u haddoliad; megis cyn hynny am y cyffelyb achos o eilun-addoliaeth, y rhannwyd teyrnas yr Israeliaid yn amser Rehoboam.

Ac felly wedi i Esgob Rhufain trwy 'r moddion yma sicrhâu ffafr Charles Fawr iddo ei hun, efe a gynhyddodd yn rhyfedd mewn gallu ac awdurdod, ac a wnaeth yr hyn a fynnai yn yr holl Eglwys orllewinol, yn enwedig yn yr Ital, lle y gosodwyd i fynu, yr harddwyd, ac yr addolwyd delwau gan bob math o ddynion.

Ond nid oeddid yn gosod delwau i fynu mor gyflym, nac yn eu hanrhydeddu gymmaint, yn yr Ital a'r gorllewin, nad oedd Nicephorus Ymherawdwr Constantinopl, a'i olynwŷr Scauratius, y ddau Fichael, Leo, Theophilus, ac Ymherawdwŷr eraill, eu holynwŷr yn Ymherodraeth Groeg, yn barhâus yn eu tynnu i lawr, yn eu torri, yn eu llosgi, ac yn eu dinystrio cyn gynted.

A phan fynnai yr Ymherawdwr Theodor yng Nghyngor Lyons gyttuno âg Esgob Rhufain, a gosod delwau i fynu, diswyddwyd ef gan oreugwŷr Ymherodraeth Groeg, a dewiswyd un arall yn ei le. Ac felly cododd eiddigedd, gwg, casineb, a gelyniaeth rhwng Cristionogion ac Ymherodraethau gwledydd y dwyrain a'r gorllewin, na 's gellid byth ei ddiffodd na 'i heddychu.

Felly pan ddarfu y Saraceniaid yn gyntaf, a'r Tyrciaid ar ol hynny, oresgyn y Cristionogion, ni chynnorthwyai y naill ran o wledydd Cred mo 'r llall: oblegid yr hwn achos o'r diwedd, ardderchog Ymherodraeth Groeg, a'r ddinas Ymherodrol Constantinopl, a gollwyd; ac y maent wedi dyfod i ddwylaw 'r Anffyddlonion, y rhai sy 'n awr wedi goresgyn agos holl wledydd Cred, a chwedi meddiannu mwy na hanner Hungari,

yr hon sy ran o Ymherodraeth y gorllewin, y maent yn awr megis yn crogi goruwch ein pennau, er dirfawr enbydrwydd holl wledydd Cred.

Fel hyn y gwelwn pa fôr o anffodau a ddygwyd i mewn gyd âg amddiffyniad delwau; pa sism anferth rhwng Eglwysi 'r gorllewin a'r dwyrain; pa gasineb rhwng y naill Gristion a'r llall; Cynghorau yn erbyn Cynghorau, Eglwys yn erbyn Eglwys, Cristionogion yn erbyn Cristionogion, Tywysogion yn erbyn Tywysogion, gwrthryfelau, cydfradwriaethau, lladdiadau annaturiol a chreulonaf; y ferch yn ceibio i fynu ac yn llosgi corph yr Ymherawdwr, ei thad; y fam, o serch ar ddelwau, yn ffieiddiaf yn llofruddio ei mab ei hun, ac yntau yn Ymherawdwr; ac yn ddiweddaf, rhwygo oddi wrth eu gilydd wledydd Cred a'r Ymherodraeth yn ddwy ran, nes y mae 'r Anffyddlonion, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, gelynion pob un o'r ddwy ran, wedi gorchfygu, dinystrio, a darostwng yn greulonaf y naill ran, holl Ymherodraeth Groeg, Asia leiaf, Thracia, Macedonia, Epirus, a llawer o wledydd a thaleithiau mawrion a gwychion eraill, ac wedi ennill rhan fawr o'r Ymherodraeth arall, a rhoddi 'r cyfan mewn ofn arswydus ac echryd enbydrwydd.

Canys nid heb achos mawr a chyfiawn yr ydys yn ofni, rhag, megis y parthwyd ac y rhwygwyd yn ddarnau Ymherodraeth Rhufain o achos delwau a'u haddoliad, megis hefyd o achos delw-addoliad y rhannwyd teyrnas Israel gynt, felly gwympo o'r gyffelyb gosp, ac am y cyffelyb drosedd, arnom ninnau, ag a gwympodd ar yr Iuddewon:—— hynny yw, rhag i'r gormeswr creulon, gelyn ein gwladwriaeth a'n crefydd, sef y Twrc, drwy gyfiawn ddialedd Duw, mewn rhan ein lladd, ac mewn rhan ein caethgludo ni Gristionogion, fel ag y darfu i frenhinoedd Assyria a Babilon ladd a chaeth-gludo 'r Israeliaid: a rhag dwyn Ymherodraeth Rhufain a chrefydd Crist mor llwyr dan draed, ag y dygwyd y pryd hynny deyrnas Israel a gwir grefydd Duw: at yr hyn beth y mae 'r matter eisoes (fel y dangosais) yn gogwyddo 'n anial ar ein rhan ni, gan fod y rhan fwyaf o wledydd Cred, mewn llai nag yspaid tri chan mlynedd, wedi cael ei dwyn i'r caethiwed mwyaf adfydus dan y Twrc, ac ardderchog Ymherodraeth Groeg wedi cael ei llwyr ddadymchwelyd.——

Ond pe buasai'r Cristionogion heb ymrannu fel hyn ynghylch delwau, ac yn dala gyd â'u gilydd, ni allasai Anffyddlonion, nac adynod eraill lwyddo fel hyn yn erbyn gwledydd Cred.

Ac ni a syrthiasom i'r holl aflwydd a'r blinfyd hwn oblegid ein duwiau aur ac arian, coed a maen, yn help ac amddiffyniad y rhai (a hwythau heb allel eu cymmhorth eu hunain) yr ymddiriedasom cyhyd, hyd onid ydyw ein gelynion digred bron wedi ein llwyr oresgyn a'n

gorthrechu:—— taledigaeth gyfiawn i'r rhai sydd wedi gadael y nerthol Dduw byw, Arglwydd y lluoedd, ac wedi ymostwng i roi'r anrhydedd dyledus iddo Ef, i goed a cherrig meirwon, y rhai y mae llygaid iddynt, ac ni welant; clustiau, ond ni chlywant; traed, etto heb allu cerdded; ac ydynt felldigedig gan Dduw, ynghyd â phawb a'u gwnelont ac a ymddiriedont ynddynt.

Fel hyn yr ydych yn deall, fy ngharedigion yn ein Hiachawdwr Crist, wrth farn hen Ddoctoriaid dysgedig a duwiol yr Eglwys, ac wrth hen hanesion Eglwysig, yn gyttunol â gwirionedd gair Duw, a dynnwyd allan o'r Hen Destament a'r Newydd; y byddid yn y Brif Eglwys gynt (yr hon oedd buraf a dilygraf oll) yn ffieiddio ac yn casâu delwau ac eilun-addoliaeth, megis pethau atgas a chroes i wir grefydd Crist:—— a phan ddechreuodd delwau ymlusgo i'r Eglwys, y byddai nid yn unig Esgobion, Doctoriaid, ac Ysgolheigion duwiol a dysgedig, yn dywedyd ac yn ysgrifenu yn eu herbyn, ond hefyd y byddid yn eu condemnio gan Gynghorau cyfain o Esgobion a dysgedigion wedi ymgynnull ynghyd; ie, ac y byddai llawer o Ymherawdwŷr ac Esgobion Cristionogol yn eu hanffurfio, yn eu torri, ac yn eu dinystrio; a hynny er 's rhagor i saith ac wyth gan mlynedd yn ol; ac am hynny mai nid yn ddiweddar (fel y mynnai rhai i chwi goelio) y dechreuwyd llefaru ac ysgrifenu yn erbyn delwau a delw-addoliad.—— Yn ddiweddaf, chwi a glywsoch pa flinfyd ac aflwydd sydd wedi syrthio o achos delwau ar holl wledydd Cred, heblaw colli eneidiau aneirif, yr hyn yw 'r peth echrydusaf o'r cwbl.

Attolygwn ar Dduw gan hynny, ar fod i ni, wedi cael ein rhybuddio gan ei sanctaidd air Ef, yr hwn sy 'n gwahardd pob delw-addoliad, a chan ysgrifeniadau hen Ddoctoriaid dysgedig, a hanesyddiaethau Eglwysig, a ysgrifenwyd ac a gadwyd drwy ordeiniad Duw er cynghor a rhybudd i ni, allu ffoi oddi wrth bob math o eilun-addoliaeth, ac felly dïangc rhag yr arswydus gosp a'r plâau a fygythir arnom yn y byd hwn ac yn nhragywyddoldeb am yr unrhyw; yr hyn beth, Duw ein Tad nefol a'i caniattao i ni er mwyn ein hunig Iachawdwr a'n Cyfryngwr Iesu Grist. Amen.

# Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

## YN ERBYN DELWAU A'U HADDOLIAD,

### YN CYNNWYS ATTEB I'R PRIF RESYMMAU A ARFERIR I AMDDIFFYN DELWAU: YR HON RAN A DDICHON WASANAETHU I GYFARWYDDO'R CURADIAID EU HUNAIN, NEU DDYNION O DDEALL DA.

YN awr chwi a glywsoch mor oleu ac mor ddifrifol, a hynny mewn llawer o leoedd, y llefara gair Duw nid yn unig yn erbyn addoli delwau, ond hefyd yn erbyn y delwau eu hunain: (fy meddwl yn wastad yn hyn yw,—— cyn belled ag y'n cyffroir ac y'n hannogir drwyddynt i'w *haddoli* hwy, ac *nid* megis pe gwaherddid hwy yn y Testament Newydd *heb* y cyfryw achlysur ac enbydrwydd.) Clywsoch hefyd allan o hanesion Eglwysig, ddechreuad, cynnydd, a rhwydd-deb eilun-addoliaeth drwy ddelwau, a'r mawr gynnen a fu yn Eglwys Grist yn eu cylch hwy, er mawr drallod a dirywiad Cristionogaeth. Clywsoch hefyd farn hen Dadau ac Athrawon ac Esgobion duwiol a dysgedig, yn erbyn delwau ac eilun-addoliaeth, wedi ei chymmeryd allan o'u hysgrifeniadau hwy eu hunain.

Mae etto yn ol, fod i ni atteb ac argyhoeddi y rhesymmau a wneir ymhlaid delwau, a'u gormodd baentio a'u goreuro a'u trwsio hwy a Themlau ac Eglwysydd hefyd; yr hyn a wnawn mewn rhan drwy gymhwyso at y rhesymmau hynny rai o'r adnodau a grybwyllwyd eisoes, ac mewn rhan, drwy atteb yr unrhyw mewn dull arall.

Y mae y rhan hon yn *olaf* yn y Traethawd hwn, am na's gellir ei deall yn dda gan y werinos, ac am na's gellir atteb rhesymmau amddiffynwŷr delwau, heb ormod meithder, cyn gwybod y rhan flaenorol o hono. Ac er ail-adrodd yma amryw bethau a grybwyllwyd o'r blaen, etto nid yw 'r ail-adroddiad hwn yn afreidiol, ond yn angenraid yn hytrach, am na's gall yr annysgedig ddeall yn amgen pa fodd y mae'r adnodau hynny i'w cymhwyso at resymmau amddiffynwŷr delwau, â pha rai, pe amgen, y gellid eu twyllo.

Yn gyntaf: honnir gan y rhai sy 'n amddiffyn delwau, am yr holl

ddeddfau, gwaharddiadau, a melldithion a nodwyd gennym ni allan o'r Ysgrythyr Lân, a barn y Doctoriaid yn erbyn delwau a'u haddoliad, mai i eilunod y Cenhedloedd neu 'r Paganiaid y maent yn perthyn, megis eilun Jupiter, Mawrth, Mercurius, &c. ac *nid* i ddelwau Duw, a Christ, a'i Seintiau:——

Ond fe ddangosir drwy air Duw, ac ymadroddion yr hen Ddoctoriaid, a barn y Brif Eglwys gynt, fod *pob* delwau, yn gystal yr eiddom ni ag eilunod y Cenhedloedd, yn waharddedig ac yn anghyfreithlon, yn enwedig mewn Eglwysydd a Themlau:——

Ac yn gyntaf; Y mae hyn i'w wrth-atteb allan o air Duw, fod delwau Duw Dad, y Mab, a'r Yspryd Glân, naill ai wrthynt eu hunain, neu ddelwau 'r Drindod, y rhai a fu gennym ym mhob Eglwys, yn cael gan yr Ysgrythyrau yn bendant ac yn eglur eu gwahardd a'u condemnio, fel y mae yn amlwg oddi wrth y lleoedd hyn; *Yr Arglwydd a lefarodd wrthych o ganol y tân; a chwi a glywsoch lais y geiriau, ac nid oeddych yn gweled llun dim;—— Rhag ymlygru o honoch a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig;*[1] ac felly ymlaen, fel yr adroddwyd yn helaeth yn y rhan gyntaf o'r Traethawd hwn yn erbyn delwau.

Ac am yr achos hwnnw, yn yr hen gyfraith, yr oedd canol y drugareddfa, yr hwn a arwyddocâi eisteddfaingc Duw, *yn wâg*, rhag i neb gymmeryd achlysur i wneuthur dim llun neu gyffelybrwydd o hono Ef.

Mae Esay, ar ol gosod allan anamgyffredadwy fawredd Duw, yn gofyn; *I bwy gan hynny y cyffelybwch Dduw, a pha ddelw a osodwch iddo? Y crefftwr a dawdd gerf-ddelw, a'r eurych a'i goreura, ac a dawdd gadwyni arian. Yr hwn sy dlawd ei offrwm a ddewis bren ni phydra; efe a gais atto saer cywraint i barottoi cerf-ddelw, yr hon ni syfl.* Ac yna mae 'n llefain; *Oni wybuoch? oni chlywsoch? oni fynegwyd i chwi o'r dechreuad? oni ddeallasoch er seiliad y ddaear?*[2] gan fwrw y gallent wybod wrth fawredd gwaith y greadigaeth, fod Duw, Gwneuthurwr a Chrëwr y cwbl oll, yn fwy nag y gellid ei osod allan drwy un ddelw neu gyffelybrwydd corphorol.—— Hyd yma y mae 'r Prophwyd Esay yn llefaru, yr hwn o'r bedwaredd bennod a deugain hyd y nawfed a deugain nid yw braidd yn traethu am ddim arall.

A St. Paul yn Actau 'r Apostolion a ddysg yn amlwg yr un peth; *na ddylem ni dybied fod y Duwdod yn debyg i aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn.*[3]

Wrth y lleoedd hyn a llawer eraill o'r Ysgrythyr, mae 'n eglur na ellir, ac na ddylid, gwneuthur dim delw o Dduw. Canys pa fodd y gall Duw, yr Yspryd puraf, yr Hwn ni's gwelodd dyn erioed, gael ei

[1] Deut. 4. 12. 16. [2] Esay 40. 18—21. [3] Act. 17. 29.

ddarlunio drwy gyffelybrwydd gweledig a chorphorol? Pa fodd y gall anfeidrol fawrhydi Duw, yr hwn ni ddichon meddwl dyn, llai o lawer ei synhwyrau corphorol, ei amgyffred, gael ei dddarlunio mewn delw fechan? Pa fodd y gall delw farw fud osod allan y Duw byw? Pa fodd y dichon delw, yr hon, os cwympa, ni ddichon gyfodi eilwaith, a'r hon ni all helpu ei chyfeillion, na drygu ei chaseion, osod allan y cadarnaf a'r galluoccaf Dduw, yr Hwn yn unig a all wobrwyo ei garedigion a dinystrio ei elynion yn dragywydd? Yn gyfiawn y gall dyn waeddi gyd â'r Prophwyd Habacuc; *Pa les a wna i'r ddelw gerfiedig, ddarfod i'w lluniwr ei cherfio? i'r ddelw dawdd ac athro celwydd, fod lluniwr ei waith yn ymddiried ynddo?*[1]

Am hynny y rhai a wnaethant ddelw o Dduw er mwyn ei anrhydeddu Ef, yn lle hynny hwy a'i dïanrhydeddasant Ef yn ddirfawr, gan fychanu ei fawredd, anafu ei ogoniant, ac anghywiro ei wirionedd.

Dywed St. Paul gan hynny, fod y sawl a ffurfiasant ryw gyffelybrwydd neu ddelw o Dduw, fel dyn marwol, neu ryw lun arall, o bren, maen, neu ryw ddefnydd arall, *wedi newid gwirionedd Duw yn gelwydd.*[2] Canys tybiasant nad oedd y ddelw mwy yr hyn *ydoedd*, sef pren neu faen; a thybiasant hefyd ei bod yr hyn *nad* ydoedd, sef Duw, neu lun Duw. Am hynny mae delw o Dduw, nid yn unig yn gelwydd, ond yn gelwydd dau-ddyblyg hefyd.—— Ond celwyddog, a thad y celwydd, yw y Diafol; ac o herwydd hynny y delwau celwyddog a wneler o Dduw, er mawr ddïanrhydedd iddo Ef, ac arswydus berygl i'w bobl, oddi wrth y Diafol y daethant.

Yr ydys wedi eu hargyhoeddi hwy ynte o ffolineb a drygioni, am wneuthur o honynt ddelwau o Dduw neu o'r Drindod, gan na ddylid, ac na ellir, gwneuthur delw o Dduw, fel y mae 'n eglur wrth yr Ysgrythyrau a rheswm da. Ië, o anghrediniaeth y daw hyd yn nod *ddymuno* delw o Dduw, sef meddwl nad yw Duw yn bresennol, oddi eithr gweled rhyw arwydd neu lun o hono; fel y mae 'n amlwg wrth waith yr Hebreaid yn yr anialwch yn ewyllysio i Aaron wneuthur duwiau iddynt, y rhai y gallent eu gweled yn myned o'u blaen.

Ond lle maent yn gwrth-ddadleu, gan fod yn Esay a Daniel ddarluniadau o Dduw, fel yn eistedd ar orsedd uchel, &c. paham (meddant) na all paentiwr yn gyffelyb ei osod allan mewn lliwiau gweledig, megis fel Barnwr yn eistedd ar orsedd, gystal ag y darlunir Ef mewn ysgrifen gan y Prophwydi, gan nad oes ond ychydig wahaniaeth rhwng ysgrifen a llun paentiedig?——

Yn gyntaf; Gellir atteb, mai nid yr un peth yw 'r hyn y mae Duw

[1] Habac. 2. 18. [2] Rhuf. 1. 25.

yn ei wahardd, megis paentio lluniau Duw, a'r hyn y mae Duw yn ei ganiattâu, megis y darluniadau a ddefnyddid gan y Prophwydi: ac ni ddylai, ac ni ddichon, rheswm dyn (er tecced y bo 'n ymddangos) dyccio dim yn erbyn gair pendant Duw a'i gyfreithiau amlwg.

Ym mhellach; Er bod yn yr Ysgrythyr ryw bortreiadau o Dduw, etto os darllenwch ymlaen, mae hi yn ei hesponio ei hun, gan ddangos fod Duw yn Yspryd pur, anfeidrol, yr Hwn sy 'n llenwi nef a daear; ond nid yw 'r llun yn gwneuthur hynny, nac yn ei esponio ei hun; ond yn hytrach, wedi y darffo iddo osod Duw allan mewn cyffelybrwydd corphorol, mae 'n gadael dyn ar hynny, ac yn ei ddwyn yn naturiol i heresi 'r Anthropomorphitiaid, y rhai sy 'n tybied fod gan Dduw ddwylaw a thraed, a'i fod yn eistedd fel dyn: yr hyn pwy bynnag a'i gwnelo, (medd St. Awstin yn ei Lyfr *De Fide et Symbolo, Cap.* 7.) y mae 'n cwympo i'r cyssegr-yspeiliad ag y mae 'r Apostol yn ei ffieiddio yn y rhai *a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig.*[1]—— Canys drygioni yw i Gristion osod i fynu 'r fath ddelw i Dduw mewn Teml, a llawer mwy drygioni yw gosod y cyfryw ddelw yn ei galon, trwy gredu ynddi!

Ond i hyn maent yn atteb, y gellir, er y rheswm hwn, wneuthur lluniau Crist, gan iddo Ef gymmeryd cnawd arno, a dyfod yn ddyn.—— Da fyddai, pe cydnabyddent *yn gyntaf* iddynt wneuthur hyd yn hyn yn dra annuwiol, wrth wneuthur ac amddiffyn delwau o Dduw a'r Drindod ym mhob man, o'r hyn yr argyhoeddir hwy drwy rym gair Duw a rheswm da; ac *yna* dyfod i faes y ddadl ynghylch delwau eraill.

Yn awr ynghylch eu gwrth-ddadl, y gellir gwneuthur delw o Grist, mae 'r atteb yn hawdd: oblegid yngair a chrefydd Duw ni ofynir yn unig pa un a ellir *gwneuthur* peth ai peidio, ond hefyd, pa un a ydyw 'n *gyfreithlon* ac yn *gyttûn a gair Duw* ei wneuthur ai peidio. Canys *gellir* ac yr *ydys* yn gwneuthur beunydd bob drygioni, ac etto ni *ddylid* ei wneuthur. A geiriau y rhesymmau a ddygwyd ymlaen eisoes allan o'r Ysgrythyrau yw, na ddylid ac na ellir gwneuthur delwau o Dduw. Felly, nid yw atteb y *gellir* gwneuthur delwau o Grist, heb brofi hefyd bod yn *gyfreithlon* eu gwneuthur, ddim ond dywedyd rhywbeth rhag tewi 'n hollol, ac nid yw yn ddim i'r pwrpas.

Ac etto mae 'n amlwg na ellir gwneuthur un ddelw o Grist on und gelwyddog (megis y geilw 'r Ysgrythyr ddelwau yn gelwyddau) oblegid y mae Crist yn Dduw ac yn ddyn. Gan na ellir ynte wneuthur un ddelw o'r Duwdod, y rhan odidoccaf, yn anghywir y gelwir hi 'n ddelw o Grist. Am hynny mae delwau o Grist nid yn unig yn ddiffygiol, ond

[1] Rhuf. 1. 23.

hefyd yn gelwyddog. A gwasanaetha 'r un rheswm am ddelwau 'r Saint, y rhai ni 's gall dim delw ddarlunio eu heneidiau, y rhan ardderchoccaf o honynt. Gan hynny nid delwau o'r Saint ydynt, eneidiau pa rai sy 'n teyrnasu mewn llawenydd gyd â Duw, ond delwau o *gyrph* y Saint, y rhai sydd etto 'n gorwedd yn bydredig yn y beddau.

Ym mhellach; Ni 's gellir gwneuthur gwir ddelw o gorph Crist, am na wyddis yn awr o ba ffurf ac wynebpryd yr ydoedd. Ac y mae yn Groeg a Rhufain a mannau eraill, amryw ddelwau o Grist, ac oll yn annhebyg i'w gilydd; ac etto taera pawb o honynt mai yr eiddynt hwy yw gwir lun a delw Crist, yr hyn beth ni ddichon fod. Gan hynny cyn gynted ag y gwneler delw o Grist, gwneir celwydd o hono, yr hyn a waherddir gan air Duw. Mae hyn hefyd yn wir am ddelwau yr holl hen Seintiau, am na 's gwyddis o ba ffurf ac wynebpryd yr oeddynt.

Am hynny, gan y dylid seilio crefydd ar wirionedd, a chan na all delwau fod heb gelwyddau, ni ddylid eu gwneuthur na 'u rhoi at ddim gwasanaeth crefyddol, na 'u gosod mewn Eglwysydd a Themlau, lleoedd a osodwyd yn briodol i wir grefydd a gwasanaeth Duw.

A chymmaint a hyn ynghylch na ellir gwneuthur gwir ddelw o Dduw, o'n Hiachawdwr Crist, nac o'i Saint: wrth yr hyn hefyd yr argyhoeddir eu haeriad hwnnw, mai llyfrau y llëygion yw delwau;—— canys amlwg yw oddi wrth yr hyn a ddywedwyd eisoes, nad ydynt yn dysgu dim am Dduw, am ein Hiachawdwr Crist, nac am ei Saint, ond celwyddau a chyfeiliornadau. Am hynny naill ai nid ydynt lyfrau, neu ynte, os ydynt, maent yn llyfrau gau a chelwyddog, yn dysgu pob cyfeiliornad.

Ac yn awr, pe addefid a phe caniatteid y gellid gwneuthur cywir ddelw o Grist, etto byddai 'n anghyfreithlon ei gwneuthur, na gwneuthur delw un Sant, yn enwedig i'w gosod mewn Temlau, er mawr ac anocheladwy berygl delw-addoliad, fel y profir rhagllaw.

Ac yn gyntaf, ynghylch delw o Grist, er pe medrid gwneuthur un gywir, etto y byddai yn anghyfreithlon ei bod yn gyhoeddus mewn Eglwysydd, y mae lle hynod yn Ireneus, yr hwn a geryddodd yr Hereticiaid a elwid Gnosticiaid, am ddwyn gyd â hwy lun Crist, yr hwn a wnelsid (meddent hwy) yn gywir yn ol ei agwedd Ef ei hun yn amser Pilat, ac felly yn haeddu mwy o gyfrifoldeb na 'r delwau celwydddog o hono ag sy gennym ni yn bresennol. Arferai 'r Gnosticiaid hefyd osod garlantau ar ben y ddelw honno, i ddangos eu serch atti.—— Ond i fyned at air Duw:——

Onid yw geiriau 'r Ysgrythyr, attolwg, yn eglur? Gochel rhag dy dwyllo, *a gwneuthur i ti dy hun ddelw gerfiedig, na llun dim*,[1] hynny

[1] Lef. 26. 1.

yw, mewn dim arferiad crefyddol; ac hefyd, *Melldigedig yw 'r gwr a wnel ddelw gerfiedig neu doddedig, sef ffieidd-dra gan yr Arglwydd*, &c.[1] Onid rhai felly yw ein delwau ni? Onid yw ein delwau o Grist a'i Saint naill ai yn gerfiedig neu yn doddedig, ac yn lluniau gwŷr a gwragedd? Mae 'n dda na chanlynasom y Cenhedloedd drwy wneuthur delwau anifeiliaid, pysg, a phryfed. Ac etto mae delw march, ac hefyd delw 'r asen y marchogodd Crist arni, wedi cael eu dwyn mewn amryw fannau i Eglwys a Theml Duw!

Ac onid yw 'r hyn a ysgrifenwyd yn nechreu sancteiddiaf ddeddf yr Arglwydd, ac a ddarllenir i chwi beunydd, yn eithaf amlwg hefyd? *Na wna it' lun dim a'r sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r sydd yn y ddaear isod, nac a'r sydd yn y dwfr tan y ddaear?* &c.[2] A allesid gwahardd na dywedyd dim yn fwy na hyn, naill ai am y *rhywiau* o ddelwau, ai cerfiedig, ai toddedig, neu luniau o ryw fath arall; neu am y *pethau* y gwaherddir gwneuthur delwau neu luniau o honynt? Ai nid yw pob peth ag y sydd, naill ai yn y *nefoedd*, yn y *ddaear*, neu yn y *dwfr tan y ddaear?* Ac onid lluniau pethau yn y nef, neu 'r ddaear, neu 'r dwfr, yw ein delwau o Grist a'i Seintiau?

Os parhânt yn eu hattebiad cyntaf, mai yn erbyn eilunod y Cenhedloedd, ac nid yn erbyn ein delwau ni, y mae 'r gwaharddiadau hyn; yn gyntaf, argyhoeddwyd yr attebiad hwnnw eisoes, ynghylch delwau o Dduw a'r Drindod; ac hefyd ynghylch delwau o Grist, gan Ireneus.

A bod deddf Duw i'w deall yn erbyn ein *holl* ddelwau, yn gystal ag yn erbyn delwau o Grist a'i Seintiau, mewn Eglwysydd a Themlau, sydd amlwg ym mhellach oddi wrth farn yr hen Dadau a'r Brif Eglwys gynt:—— Epiphanius, wrth rwygo lliain, ar yr hwn y paentiesid llun Crist neu ryw Sant, gan ddywedyd fod yn erbyn ein crefydd ni fod y cyfryw ddelw mewn Teml neu Eglwys, (fel y dangoswyd yn helaeth o'r blaen) a farnodd fod nid yn unig eilunod y Cenhedloedd, ond fod pob delw hyd yn nod o Grist a'i Saint hefyd, yn waharddedig gan air Duw a'n crefydd ni.—— A Lactantius, wrth haeru fod yn sicr na ddichon bod gwir grefydd lle bo dim llun neu ddelw (fel y mynegwyd o'r blaen) a farnodd fod *pob* delwau a lluniau, yn gystal ag eilunod y Cenhedloedd, yn waharddedig, onid ê ni fuasai 'n llefaru ac yn cyhoeddi mor gyffredinol yn eu cylch.—— Ac y mae St. Awstin, (fel y crybwyllwyd o'r blaen) yn mawr ganmol Marc Varro, am ddywedyd o hono fod crefydd yn buraf heb ddelwau: ac a ddywed ei hun fod mwy o rym mewn delwau i ŵyrdroi enaid annedwydd, nag i'w ddysgu a'i gyfarwyddo. Paham ynte y mae 'r Yspryd Glân mor fynych yn ein

[1] Deut. 27. 15. [2] Exod. 20. 4.

rhybuddio ynghylch yr hyn y mae pawb yn ei wybod? I hyn fe ettyb St. Awstin fel yma: Canys, eb efe, pan osoder delwau mewn Temlau ac mewn uchder anrhydeddus, ac unwaith ddechreu eu haddoli, mae yn y fan wyniau ffieiddiaf at gyfeiliornad yn magu. Dyma farn St. Awstin am ddelwau mewn Eglwysydd, eu bod yn fuan yn magu cyfeiliornad ac eilun-addoliaeth.—— Yr Ymherawdwŷr Cristionogol hefyd, yr Esgobion dysgedig, a holl ddysgedigion Asia, Groeg, a'r Hispaen, yn gynhulledig mewn Cynghorau yn Constantinopl a'r Hispaen, saith ac wyth gan mlynedd yn ol a mwy, wrth gondemnio a distrywio pob delw o Grist a'i Saint, a osodasid i fynu gan Gristionogion, a dystiolaethasant eu bod hwy yn deall fod gair Duw yn gwahardd *pob* delw yn gystal ag eilunod y Cenhedloedd.

Ac fel y mae'n ysgrifenedig yn Llyfr y Doethineb[1] nad ydoedd delwau o'r dechreuad, ac na pharhânt hyd y diwedd; felly nid oeddynt yn nechreu y Brif Eglwys gynt, a chaniattaed Duw y caffont yn y diwedd eu dinystrio.

Canys achwynid yn drwm yn erbyn holl Gristionogion y Brif Eglwys, am nad oedd ganddynt nac allorau na delwau, fel y tystiolaetha Origen yn erbyn Celsus, Cyprian hefyd, ac Arnobius. Paham nad oeddynt, meddwch chwi, yn cydymffurfio â'r Cenhedloedd i wneuthur delwau, a phaham yr oeddynt dan eu tost anfoddlonrwydd hwy o achos nad oedd ganddynt ddelwau, os oeddynt yn tybied fod delwau yn gyfreithlon wrth air Duw? Amlwg yw gan hynny eu bod yn ystyried pob delwau yn anghyfreithlon yn Eglwys neu Deml Dduw, ac am hynny nad oedd ganddynt yr un (er bod y Cenhedloedd o'r achos yn dra llidiog) gan ddilyn y rheol hon; *Rhaid yw ufuddhâu i Dduw yn fwy nag i ddynion.*[2]

Ac y mae Zephyrus, yn ei nodiadau ar Amddiffyniad Tertulian, yn casglu mai oeraidd fuasai ei annogaethau gwresoccaf, oni bai ein bod eisoes yn gwybod hyn, fod Cristionogion yn ei amser ef yn casâu yn hollol bob delwau a'u haddurniadau.

Ac y mae Ireneus (fel y mynegwyd uchod) yn ceryddu'r hereticiaid a elwid Gnosticiaid, am eu bod yn dwyn o amgylch ddelwau o Grist.

Y mae'n canlyn oddi wrth hyn oll nad oedd gan y Brif Eglwys gynt, yr hon y dylid yn enwedig ei dilyn fel yr anllygrediccaf a'r buraf oll, ddim yn gyhoeddus yn yr Eglwysydd nac eilunod y Cenhedloedd na dim delwau ereill, megis pethau a waherddir yn bendant gan air Duw.

Ac fel hyn fe ddangoswyd i chwi drwy air Duw, ymadroddion y Doctoriaid, a barn y Brif Eglwys, yr hon oedd buraf a dilygraf oll, fod

[1] Doeth. 14. 13. [2] Act. 5. 29.

pob delwau, yn gystal yr eiddom ni ag eilunod y Cenhedloedd, yn waharddedig gan air Duw, ac am hynny yn anghyfreithlon, yn enwedig mewn Temlau ac Eglwysydd.

Bellach os hwy (yn ol eu harfer) a ddiangant at yr atteb hwn, nad yw gair Duw yn gwahardd yn hollol *wneuthur* delwau, ond yn unig eu gwneuthur i'w *haddoli;* ac am hynny y gall fod gennym ddelwau, ond i ni beidio a'u haddoli, am eu bod ynddynt eu hunain yn bethau diddrwg-didda, y rhai y gellir eu hiawn-arfer neu eu cam-arfer. Ymddengys mai hyn oedd barn Damascenus a Gregori I. fel y dangoswyd eisoes. A hwn yw un o'u prif resymmau i amddiffyn delwau, a ddygwyd ymlaen er amser Gregori 'r Cyntaf.

O'r goreu ynte; dyma ni wedi dyfod at eu hail reswm, yr hwn mewn rhan ni fynnwn ommedd ei ganiattâu iddynt. Canys nid ydym ni mor goel-grefyddol ac ofer-fanwl a ffieiddio na llun blodau wedi eu gweithio mewn carpedau, brethynnau, a llenni; na delwau Tywysogion wedi eu hargraphu ar eu harian bâth, yr hyn pan welodd Crist ar geiniog Rufeinig, nid ydym yn darllen iddo feio arno; ac nid ydym yn condemnio 'r celfyddydau o baentio a gwneuthur lluniau, megis pethau drygionus ynddynt eu hunain. Ond ni a fynnem addef a chaniattâu iddynt, y gellir *goddef* delwau na 's defnyddier mewn crefydd, neu 'n hytrach *coel*-grefydd, sef delwau nad ydys yn eu haddoli, ac na bo perygl i neb eu haddoli. Ond nid yw bossibl nad oes perygl addoli delwau a osoder yn gyhoeddus mewn temlau; am hynny nid ydynt i fod nac i gael eu goddef yn gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd.

Nid oedd gan yr Iuddewon, i'r rhai y rhoddwyd y gyfraith hon gyntaf; (ac etto, gan ei fod yn orchymyn moesol, ac nid seremoniol, fel y mae 'r holl Ddoctoriaid yn ei ddeongli, sydd yn ein rhwymo ni cystal a hwythau;) nid oedd gan yr Iuddewon, meddaf, y rhai y dylasai fod ganddynt wir ystyr deddf Duw, yr hon a roddwyd iddynt mor neillduol, yn y dechreuad ddim delwau yn eu Temlau yn gyhoeddus, (fel y dengys Origen a Josephus yn helaeth:) ac ar ol adferiad y Deml, ni chyttunent mewn modd yn y byd â Herod, Pilat, na Phetronius, fod i ddelwau gael hyd yn nod eu *gosod* yn y Deml yn Jerusalem, er nad oeddid yn ceisio ganddynt eu haddoli: ond cynhygient farw yn hytrach na chydsynio bod i ddelwau gael eu gosod yn Nheml Dduw; ac ni oddefent un gwneuthurwr delwau yn eu plith. Ac ychwanega Origen mai 'r achos oedd, rhag i'w calonnau gael eu tynnu oddi wrth Dduw i lygad-rythu ar bethau daearol. A hwy a fawr ganmolir am y zel ddifrifol hon yn amddiffyn anrhydedd Duw a gwir grefydd.—— A'r gwirionedd yw, na ddaw yr Iuddewon na 'r Tyrciaid, y rhai sy 'n casâu delwau ac eilunod megis pethau wedi eu gwahardd yn bendant

yngair Duw, byth i wirionedd ein crefydd ni, tra bo maen-tramgwydd delwau yn aros yn ein mysg yn rhwystr ar eu ffordd.

Os dygant i'n herbyn hefyd y Sarph Bres a osododd Moses i fynu, neu ddelwau y Cerubiaid, neu ryw luniau eraill a'r a oedd gan yr Iuddewon yn eu Teml, mae 'r atteb yn hawdd ddigon:—— Rhaid i ni mewn crefydd ufuddhâu i ddeddf gyffredinol Duw, yr hon sy 'n rhwymo *pawb*, ac nid dilyn esamplau goruchwyliaethau neillduol, y rhai nid ydynt warantau i ni: os amgen, gallem wrth yr un rheswm adferu enwaediad, ac aberthu anifeiliaid, a defodau eraill a ganiatteid i'r Iuddewon. Ac ni all luniau y Cerubiaid, a osodwyd mewn lle dirgel, i'r hwn ni 's gallai neb ddyfod iddo na'i weled, fod yn ddim esampl i ni osod i fynu ddelwau yn gyhoeddus mewn Eglwysydd a Themlau.

Ond i adael yr Iuddewon heibio.—— Lle y dywedant y gellir goddef delwau mewn Temlau ac Eglwysydd, megis pethau diddrwg-didda, ond peidio a'u haddoli; yr ydym ninnau yn y gwrthwyneb yn casglu ac yn dywedyd, *nad* yw delwau Duw, ein Hiachawdwr Crist, a'i Saint, wedi eu gosod yn gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd, lleoedd wedi eu neillduo yn bennodol i wir addoli Duw, *ddim* yn bethau diddrwg-didda, nac yn oddefadwy, ond eu bod yn erbyn deddf a gorchymyn Duw, yn ol eu cyfieithiad eu hunain o hono, ac yn ol eu hesponiad eu hunain arno.

Yn gyntaf, am fod pob delwau a osodwyd felly i fynu yn gyhoeddus wedi cael eu haddoli gan y werin annysgedig, yn fuan ar ol iddynt gael felly eu gosod i fynu 'n gyhoeddus; ac yn y diwedd gan y doethion a'r dysgedig hefyd.

Yn ail, am eu bod yn cael eu haddoli mewn amryw fannau yn awr yn ein dyddiau ni.

Ac yn drydydd, am nad oes modd goddef delwau Duw, Crist, a'i Saint, dros fawr o amser (yn enwedig mewn Temlau ac Eglwysydd) *heb* eu haddoli; ac nad oes modd gochelyd na dïangc rhag delw-addoliad, y peth ffieiddiaf ger bron Duw, heb ddileu a distrywio delwau a lluniau mewn Temlau ac Eglwysydd; gan fod delw-addoliad i ddelwau, yn enwedig mewn Temlau ac Eglwysydd, yn *ddamwain anwahanol*, (fel y'i gelwir) yn gymmaint a bod delwau mewn Eglwysydd a delw-addoliad bob amser yn cyd-fyned â'u gilydd, ac na 's gellir gochelyd y naill, heb i'r llall, yn enwedig ym mhob lle cyhoeddus, gael ei ddistrywio.

Am hynny, gwneuthur delwau, a'u gosod i fynu 'n gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd, lleoedd wedi eu neillduo 'n bennodol at wasanaeth Duw, yw gwneuthur delwau at wasanaeth crefydd, ac nid yn unig yn erbyn y gorchymyn hwn, Na wna lun dim; ond yn erbyn hwn hefyd, Nac ymgrymma iddynt, ac na wasanaetha hwynt. Canys ar unwaith eu gosod i fynu, hwy a adddolwyd, ac a addolir bob amser.

Ac y mae y prawf cyflawn o'r hyn a grybwyllwyd yn nechreu y Traethawd hwn, i gael yn awr ei wneuthur a'i orphen yma: sef, mai 'r un fath bethau yw ein delwau ni ag eilunod y Cenhedloedd, yn gystal ynddynt eu hunain, ag hefyd o ran yr arferid gynt, yr arferir yn awr ac o hyn allan hefyd, addoli ein delwau ni, yn yr un dull a ffurf ag yr addolid eilunod y Cenhedloedd, cyhyd ag y goddefir hwy mewn Eglwysydd a Themlau.—— O hyn y canlyn nad ydyw ein delwau ni mewn Eglwysydd, na buont, ac na byddant byth, yn ddim amgen nag eilunod ffiaidd, ac am hynny mai nid pethau diddrwg-didda mo honynt ddim. A phrofir pob un o'r pethau hyn mewn trefn, fel y canlyn rhagllaw.

Ac yn gyntaf.—— Mai yr un fath bethau yw ein delwau ni ag eilunod y Cenhedloedd o'u rhan eu hunain, sydd eithaf amlwg; gan mai eu defnydd yw aur, arian, neu ryw fettel arall, maen, pren, clai, neu briddgalch, fel yr oedd eilunod y Cenhedloedd: ac felly wedi eu toddi neu eu bwrw, eu cerfio neu eu naddu, neu eu llunio a'u ffurfio mewn rhyw ddull arall yn ol cyffelybrwydd mab neu ferch, ydynt feirwon a mudion weithredoedd dwylaw dyn, a chanddynt eneuau, ond heb lefaru; llygaid, ac heb weled; dwylaw, ac heb deimlo; traed, ac heb gerdded; ac ydynt felly yn gystal mewn dull a defnydd yn hollol debyg i eilunod y Cenhedloedd: yn gymmaint a bod yr holl ditlau a roddir i eilunod yn yr Ysgrythyrau, yn wir am ein delwau ninnau. Am hynny nid oes ammeu na bydd i'r melldithion a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau ddisgyn ar wneuthurwŷr ac addolwŷr y naill a'r llall.

Yn ail.—— Yr ydys yn awr i brofi yr addolwyd, ac yr addolir hwy yn ein hamser ni, yn yr un un ffurf a dull ag eilunod y Cenhedloedd. Ac am mai yn y *meddwl* yn bennaf y mae delw-addoliad yn sefyll, fe brofir yn gyntaf yn y rhan hon, mai yr un dyb a barn a fu,—ac y sydd, gan amddiffynwŷr delwau yn ein dyddiau ni am y Seintiau, delwau y rhai a wnaethant ac a addolasant, ag oedd gan yr eilun-addolwŷr Paganaidd am eu duwiau.—— Ac ar ol hynny dangosir fod amddiffynwŷr ac addolwŷr delwau yn ein plith ni, yn arfer, gynt ac etto, yr un dull a defodau allanol i anrhydeddu ac addoli eu delwau, ag a arferai y Cenhedloedd ger bron eu heilunod hwythau; a'u bod o ganlyniad yn gwneuthur eilun-addoliaeth yn gystal oddi fewn ac oddi allan, fel yr annuwiol eilun-addolwŷr Paganaidd.

Ac ynghylch y rhan gyntaf am dybiau eilun-addolgar ein hamddiffynwŷr delwau.—— Pa beth, attolwg, yw y cyfryw Seintiau gyd â ni, ag y priodolwn iddynt amddiffyniad gwahanol wledydd, gan ysbeilio Duw o'i anrhydedd yn hyn, ond yr un peth a *Dii Tutelares* (neu warchadddduwiau) eilun-addolwŷr Paganaidd? Y cyfryw ag oedd Belus i'r Babiloniaid a'r Assyriaid; Osiris ac Isis i'r Aiphtiaid; Vulcan i'r

Lemniaid; ac eraill o'r fath.—— Beth yw y Seintiau ag y priodolir iddynt warcheidwaeth gwahanol ddinasoedd, ond yr un peth a *Dii Presides* (neu flaenor-dduwiau) yr eilun-addolwŷr Paganaidd? Cyfryw ag oedd Apolo yn Delphi; Minerva yn Athen; Juno yn Carthage; Quirinus yn Rhufain; &c. Beth yw y Seintiau, i ba rai, yn groes i arfer y Brif Eglwys gynt, yr adeiledir Temlau ac Eglwysydd, ac y codir allorau, ond yr un peth a *Dii Patroni* (neu nawdd-dduwiau) yr eilun-addolwŷr Paganaidd? Cyfryw ag oedd Jupiter yn y Capitol; Venus yn Nheml Paphos; Diana yn Nheml Ephesus; a'r cyffelyb.

Och! fe dybygid, wrth ein bod yn meddwl ac yn gweithredu fel hyn, ddarfod i ni ddysgu ein crefydd, nid allan o air Duw, ond o'r Beirdd Paganaidd, y rhai sy 'n dywedyd,

> *Excessêre omnes adytis arisque relictis*
> *Di, quibus imperium hoc steterat,*[1] &c.

Hynny yw, *Yr holl dduwiau, drwy amddiffyniad pa rai yr oedd yr Ymherodraeth hon yn sefyll, ydynt wedi myned allan o'u temlau ac ymwrthod â'r allorau.*—— A lle mae i un Sant ddelwau mewn amryw leoedd, mae i'r Sant hwnnw amryw enwau oddi wrthynt, yn debyccaf i'r Cenhedloedd ag y dichon fod. Pan glywoch am Fair o Walsingham, Mair o Ipswich, Mair o Wilsdon, a'r cyffelyb; beth yw hyn ond dynwared y Cenhedloedd delw-addolaidd? Diana Agrotera, Diana Coryphea, Diana Ephesia, &c. Venus Cypria, Venus Paphia, Venus Gnidia. Wrth yr hyn yn eglur y meddylir fod i'r Sant breswylfod, er mwyn y ddelw, yn y lleoedd hynny, ie yn y delwau eu hunain; yr hyn yw sail eu delw-addoliad. Canys lle nid oes delwau, nid oes ganddynt y fath gyfryngau.

Dengys Terrentius Varro fod tri chant o Jupiterau yn ei amser ef, a chynnifer Venus a Diana: ac nid oedd gennym ninnau lai o rifedi o Gristopherau, Arglwyddesau Mair, Mair Magdalen, a Seintiau eraill. —— Dengys Oenomaus a Hesiod fod yn eu hamser hwy ddeng mil ar hugain o dduwiau. Yr wyf yn tybied nad oedd gennym ninnau lai o Seintiau, i'r rhai yr oeddym yn rhoi 'r anrhydedd dyledus i Dduw.

Ac nid yn unig hwy a yspeiliasant y gwir fywiol Dduw o'i ddyledus anrhydedd mewn Temlau, dinasoedd, gwledydd, a thiroedd, trwy y fath ddychymmygion a dyfeisiadau ag y gwnaeth y Cenhedloedd eilun-addolgar o'u blaen hwy; ond mae ganddynt Seintiau priodol hefyd i'r môr a'r dyfroedd, megis ag yr oedd gan y Cenhedloedd eu duwiau priodol i'r môr a'r dyfroedd, Neptun, Triton, Nereus, Castor a Pholux, Venus, a chyfryw cyffelyb: yn lle pa rai fe ddaeth St. Christopher, St. Clement,

[1] Virg. II. 351.

ac amryw eraill; ac yn enwedig yr Arglwyddes Fair, i'r hon y bydd y llongwyr yn canu, *Ave maris Stella*, sef *Henffych well, Seren y môr.* —— Ac ni ddïangodd y tân ychwaith rhag eu dychymmygion eilunaddolgar hwy; oblegid yn lle Vulcan a Vesta, tân-dduwiau 'r Cenhedloedd, gosododd ein dynion ni St. Agatha, a gwnant lythyrau ar ei Dydd-gwyl hi i ddiffodd tân â hwy.—— Mae gan bob crefftwr a chelfyddyd ei Sant enwedigol, megis priodol dduw. Er esampl; mae gan ysgolheigion, St. Niçolas a St. Gregori; mae gan baentwŷr, St. Luc; ac nid yw milwŷr heb eu Mars, na chariadau heb eu Venus, ym mhlith Cristionogion.—— Mae i bob clefyd ei Seintiau neillduol, megis duwiau i'w hiachâu; St. Roch i'r frech fawr, St. Cornelius i'r llesmeir-glwyf, St. Apolin i'r ddannodd. Ac nid oes ar anifeiliaid gyd â ni ddiffyg duwiau; canys St. Loy yw meddyg y meirch, a St. Antoni yw bugail y moch.

Pa le yn y cyfamser y mae Rhagluniaeth Duw a'i ddyledus anrhydedd? yr hwn a ddywed; *Wele 'r nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ydynt eiddo 'r Arglwydd dy Dduw, y ddaear hefyd, a'r hyn oll sydd ynddi.*[1] *Myfi sydd yn lladd ac yn bywhâu; myfi a archollaf, a mi a feddyginiaethaf.*[2]—— *Os yr Arglwydd ni cheidw 'r ddinas, ofer y gwylia 'r ceidwad.*[3]—— *Dyn ac anifail a gedwi di, Arglwydd.*[4]—— Ond ni 's gadawsom ni iddo, na nef, na daear, na dwfr, na gwlad, na heddwch, na rhyfel, i'w rheoli a'u llywodraethu; na dynion, nac anifeiliaid, na'u clefydau i'w hiachau; nes y gall dyn duwiol yn gyfiawn waeddi mewn digter zelog, "O nef, O ddaear a moroedd, i ba wallgofrwydd a drygioni yn erbyn Duw y mae dynion wedi syrthio! Pa ddirmyg y mae y creaduriaid yn ei daflu ar eu Crewr a'u Gwneuthurwr!"—— Ac os cofiwn Dduw rai gweithiau, etto am ein bod yn ammeu ei ewyllys neu ei allu i gynnorthwyo, yr ydym yn cyssylltu cynnorthwywr arall gyd âg Ef, megis pe byddai yn *enw gwan*, gan arfer yr ymadroddion hyn; "Duw a St. Nicolas a roddo i mi rwyddineb," medd y rhai a fo 'n dysgu. "Duw a St. Ioan a'm helpo," medd y rhai o fo 'n tisian. Wrth geffyl fe ddywedir, "Duw a St. Loy a'th gadwo."

Fel hyn yr ydym wedi myned *fel march neu ful, heb ddeall.*[5] Canys ai nid un Duw yn unig sydd, yr Hwn drwy ei allu a'i ddoethineb a wnaeth bob peth, a thrwy ei Ragluniaeth sy'n llywodraethu 'r unrhyw, a thrwy ei ddaioni sy 'n eu cynnal ac yn eu cadw? Ai nid *o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth?*[6] Paham yr wyt yn troi oddi wrth y Creawdwr at y creaduriaid? Arferiad y Cenhedloedd eilun-addolgar yw hyn; ond Cristion wyt ti, ac am hynny *trwyddo ef* yn unig *y mae i ti ddyfodfa at y Tad,*[7] i dderbyn cynhorthwy.

[1] Deut. 10. 4. [2] Deut. 32. 39. [3] Ps. 127. 1. [4] Ps. 36 6.
[5] Ps. 32. 9. [6] Rhuf. 11. 36. [7] Ephes. 2. 18.

Nid ydys yn ysgrifenu 'r pethau hyn i waradwyddo dim ar y Seintiau eu hunain, y rhai oeddynt wir wasanaethwŷr Duw, ac a roisant bob anrhydedd iddo Ef, heb gymmeryd dim iddynt eu hunain, ac ydynt yn eneidiau gwynfydedig ger bron Duw: ond yn erbyn ein ffolineb a'n drygioni ni, y rhai ydym yn troi cywir weision Duw yn dduwiau gau, drwy briodoli iddynt hwy y gallu a'r anrhydedd ag sydd eiddo Duw, a'i eiddo Ef yn unig.

Ac am fod gennym gyfryw dyb am allu a chymmorth parod y Seintiau, ein holl legendau, hymnau, ac offerennau a gynhwysent eu clod a'u mawl, a hanesion am danynt, a gweddïau arnynt; ïe, a phregethau hefyd am danynt ac er canmoliaeth iddynt, gan adael heibio air Duw yn llwyr. Ac yr ydym ni yn gwneuthur hyn i'r Seintiau yn hollol fel y gwnai 'r Paganiaid delw-addolgar i'w duwiau hwy.

Ac oblegid y tybiau hyn ag oedd gan ddynion am bersonau marwol, pa mor sanctaidd bynnag oeddynt, yr ysgrifenodd yr hen Dadau Cristionogol duwiol a dysgedig yn erbyn ffuantus dduwiau 'r Cenhedloedd, ac y dinystriodd Tywysogion Cristionogol eu delwau; y rhai, pe byddent byw yn awr, yn ddiddadl a ysgrifenent yn gyffelyb yn erbyn ein gau dybiau am y Seintiau, ac a ddinystrient eu delwau hwy hefyd. Canys amlwg yw fod gan ein hamddiffynwŷr-delwau ni yr unrhyw dyb am y Seintiau, ag oedd gan y Cenhedloedd am eu gau dduwiau, yr hyn sy 'n eu hannog i wneuthur delwau iddynt fel y byddai 'r Cenhedloedd yn gwneuthur i'w duwiau.

Os attebir nad ydynt yn gwneuthur y Seintiau ond yn unig yn gyfryngwŷr i ddadleu drostynt gyd â Duw am y pethau a fynnent eu derbyn oddi ar ei law; hynny ydyw, yn ol arfer eilun-addolgar y Cenhedloedd, eu troi o fod yn Seintiau i fod yn dduwiau, a elwid *Dii Medioximi*, (neu gyfrwng-dduwiau) i eiriol ar Dduw ac i'w helpu, fel pe na chlywai, neu rhag iddo ddiffygio wrth wneuthur y cwbl ei Hunan. Felly yr arferai 'r Cenhedloedd ddysgu, fod un Prif Allu yn gweithredu trwy gyfryngiad rhai eraill; ac felly gwnaethant eu holl dduwiau yn ddarostyngedig i Dynghedfen, fel y ffugia Lucian yn ei Gynnadleddau fod Neptun yn eiriol ar Mercurius ar gael o hono siarad â Jupiter. Yn hyn hefyd yute mae 'n eglur iawn fod ein hamddiffynwŷr delwau ni yn cyttuno o ran eu tyb â'r eilun-addolwŷr Paganaidd.

Bellach mae 'n aros y drydedd ran, sef mai yr un defodau a seremoniau sydd ganddynt wrth addoli 'r delwau neu 'r Seintiau, ag oedd gan y Cenhedloedd eilun-addolgar wrth anrhydeddu eu heilunod.

Yn gyntaf, beth a feddylir wrth fod Cristionogion, yn ol esampl yr eilun-addolwŷr Paganaidd, yn myned ar bererindodau i ymweled â delwau, pan y mae 'r cyffelyb ganddynt gartref, ond am fod ganddynt

fwy tyb am sancteiddrwydd a rhinwedd rhai delwau mwy na 'u gilydd, fel ag yr oedd hefyd gan yr eilun-addolwŷr Paganaidd? Yr hon yw'r ffordd rwyddaf i'w dwyn hwy i eilun-addoliad wrth eu haddoli hwynt, a hynny 'n union yn groes i air Duw, yr hwn sy 'n dywedyd; *Ceisiwch fi, a byw fyddwch. Ond nac ymgeisiwch â Bethel, ac nac ewch i Gilgal, ac na thramwywch i Beerseba.*[1]—— Ac yn erbyn y cyfryw ag oedd ganddynt ofer-goel mewn sancteiddrwydd rhyw le, fel pe gwrandewid hwy er mwyn y lle, gan ddywedyd; *Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn; ac yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae'r man lle mae 'n rhaid addoli;* mae ein Hiachawdwr Crist yn cyhoeddi, *Cred fi, y mae'r awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem,—— pan addolo 'r gwir addolwŷr y Tad mewn yspryd a gwirionedd.*[2] Ond gwyddis yn rhy dda, mai, wrth fyned ar y cyfryw bererindodau, fod yr Arglwyddes Venus a'i mab Cupid yn hytrach yn cael eu haddoli yn anllad yn y cnawd, na bod Duw Dad a'n Hiachawdwr Crist, ei Fab Ef, yn cael eu gwir addoli yn yr yspryd.—— A chymhesur iawn (fel y dywed St. Paul) oedd i'r sawl a gwympent i eilun-addoliaeth, yr hyn yw godineb ysprydol, gwympo hefyd i odineb cnawdol a phob aflendid, drwy gyfiawn farn Duw, yn *eu rhoddi hwynt i fynu i wyniau gwarthus.*[3]

Beth a feddyliwn wrth weled Cristionogion, yn ol defodau 'r Paganiaid eilun-addolgar, yn penlinio 'n bennoethion ger bron delwau? y rhai pe byddai ynddynt ddim synwyr na diolchgarwch, a benlinient eu hunain ger bron dynion, Seiri coed a meini, Gofaint, Toddwŷr, ac Eurychod, y rhai a'u gwnaethant ac a'u ffurfiasant, a thrwy ba rai y cawsant yr anrhydedd hwn, a'r rhai oni buasai gwaith eu llunwŷr, ni buasent ond clampiau anolygus ac anelwig o glai, neu ddarnau o bren, maen, neu fettel, heb na llun na ffurf, ac felly heb ddim parch na chyfrifiad, fel y cyffesa 'r eilun ynghân y Bardd Paganaidd, gan ddywedyd; "Yr wyf yn awr wedi cael fy ngwneuthur yn dduw, yr hwn nid oeddwn gynt amgen na boncyff gwael o bren ffigys."[4]

Pa mor ynfyd yw i ddyn, gan yr hwn y mae bywyd a rheswm, ymostwng i ddelw farw a dideimlad, gwaith ei law ei hun! Onid yw 'r ymgrymmu a'r penlinio hwn ger eu bronnau yn *addoliad* iddynt, yr hyn a waherddir mor ddifrifol gan air Duw? Gwybydded a chyfaddefed y sawl sy 'n syrthio felly o flaen delwau 'r Seintiau, eu bod yn rhoi i foncyffion a cherrig meirwon yr anrhydedd ag na fynnai'r Seintiau eu

[1] Amos 5. 4, 5. [2] St. Ioan 4. 20, 21, 23. [3] Rhuf. 1. 24.

[4] *Olim truncus eram ficulnus, inutile lignum,* &c.
*Hor. Lib.* 1. *Sat.* 8. 1.

hunain, Petr, Paul, a Barnabas, ei dderbyn pan oeddynt yn fyw;[1] a'r hwn y gwaharddodd Angel Duw ei roddi iddo.[2]

Ond os haerant mai nid i'r *ddelw* y maent yn dangos y cyfryw anrhydedd, ond i'r Sant a gynnrychiolir ganddi, argyhoeddir hwy o ffolineb, fod yn credu eu bod yn boddio Seintiau â'r anrhydedd yr hwn y maent *hwy* yn ei ystyried megis yn yspeiliad o anrhydedd Duw. O herwydd nid yw 'r Seintiau yn anwadal; ond yn awr, gan fod ganddynt fwy o ddeall, a gwresoccach cariad at Dduw, mae 'n gasach ganddynt nag erioed ddwyn oddi arno yr anrhydedd dyledus iddo; a chan eu bod yn awr yn debyg i'r angylion, y maent gyd â'r angylion yn ffoi rhag cymmeryd, drwy gyssegr-yspeiliad, yr anrhydedd ag sy ddyledus i Dduw.

Ac yma hefyd yr argyhoeddir y gwahaniaeth pechadurus a wnant rhwng *Latreia* a *Duleia;* lle mae 'n eglur na all Seintiau Duw aros bod gwneuthur neu gynnyg iddynt gymmaint ag un weithred allanol o addoliad.—— Ond mae Satan, gelyn Duw, gan ewyllysio yspeilio Duw o'i anrhydedd, yn mawr chwennychu cael yr anrhydedd hwnnw iddo ei hun. Am hynny, y sawl sy 'n rhoi i ryw greadur yr anrhydedd sy ddyledus i'r Creawdwr, nid ydynt yn gwneuthur gwasanaeth cymmeradwy gan neb o'r Seintiau, y rhai ydynt anwylion Duw, ond i Satan, Gelyn marwol a thynghedig Duw a dyn.—— Ac nid yw priodoli i Seintiau y cyfryw awydd am anrhydedd dwyfol, ddim amgen na 'u hanurddo â'r gwaradwydd a'r ysgelerder casaf a diafoleiddiaf a ddichon fod, ac yn wir eu troi o fod yn Seintiau i fod yn Satanau a chythreuliaid, priodoledd y rhai yw honni iddynt eu hunain yr anrhydedd sy ddyledus i Dduw yn unig.

Ac ym mhellach, wrth iddynt ddywedyd mai nid y delwau y maent yn eu haddoli, fel yr addolai'r Cenhedloedd eu heilunod, ond Duw a'r Seintiau, y rhai y mae 'r delwau yn eu cynnrychioli; ac am hynny nad yw eu gweithredoedd hwy o flaen eu delwau ddim yn debyg i eilunaddoliad y Cenhedloedd o flaen eu heilunod hwy; mae St. Awstin, Lactantius a Chlement yn eglur brofi, wrth eu hatteb hwn, eu bod yr unrhyw yn hollol a'r eilun-addolwŷr Paganaidd.——

Mae 'r Cenhedloedd y rhai y tybygir fod eu crefydd yn buraf, ebe St. Awstin, yn dywedyd; "Nid ydym ni yn addoli 'r delwau, ond trwy y ddelw gorphorol yr ydym yn edrych ar arwyddion y pethau y dylem eu haddoli."——

Ac ebe Lactantius; "Fe ddywed y Cenhedloedd, nad ydynt yn ofni'r delwau eu hunain, ond y sawl y gwnaed y delwau ar eu llun, ac ar enwau pa rai y cyssegrwyd hwynt."——

[1] Act. 10. 25. a 14. 14. [2] Dat. 19. 10.

A dywed Clement fod y Diafol a'r Sarph yn llefaru 'r geiriau hyn drwy enau rhyw ddynion; "Yr ydym ni yn addoli delwau gweledig, er anrhydedd i'r Duw anweledig;" yr hyn yn ddïau, eb efe, sy gelwydd goleu.——

Gwelwch pa fodd, wrth arfer yr un esgusion ag a ffugiai yr eilun-addolwŷr Paganaidd, eu bod yn dangos eu bod yn ymgyplysu â hwynt mewn eilun-addoliaeth. Canys er yr holl esgus hwn, mae St. Awstin, Clement a Lactantius yn profi eu bod yn ddelw-addolwŷr: a dywed St. Clement mai 'r Sarph, y Diafol, sy 'n rhoi 'r cyfryw esgusion yngenau eilun-addolwŷr.

A dywed yr Ysgrythyrau (er yr esgus hwn) mai 'r coed a'r cerrig y maent yn eu haddoli, fel y gwna hefyd amddiffynwŷr delwau yn ein plith ninnau. Geilw Ezeciel gan hynny dduwiau 'r Assyriaid yn bren a maen, er nad oeddynt ond delwau eu duwiau hwynt. Felly gelwir ein delwau ninnau i Dduw a'i Seintiau ar *enwau* Duw a'i Seintiau, yn ol arfer y Cenhedloedd.

A'r un Clement yn yr un llyfr a ddywed fel hyn; "Ni feiddiant roi enw 'r Ymherawdwr i neb arall; o herwydd efe a gospa 'r troseddwr a'r bradychwr yn y man: ond meiddiant roi enw *Duw* i arall, am ei fod Ef, er mwyn edifeirwch, yn hir-ymarhôus wrth y troseddwr."—— Ac felly mae 'n delw-addolwŷr ninnau yn rhoi enwau Duw a'i Seintiau, a'r anrhydedd dyledus i Dduw, *i'w delwau*, fel y gwnai 'r Cenhedloedd eilun-addolgar i'w heilunod.

Beth yw 'r achos eu bod hwy, yn ol fel yr arferai 'r eilun-addolwŷr Paganaidd, yn goleu canhwyllau hanner dydd neu hanner nos o'u blaen, ond i'w hanrhydeddu hwy drwy hynny? Oblegid achos arall nid oes i wneuthur felly. Canys liw dydd ni raid wrth y fath beth; ond y mae goleu canwyll hanner dydd wedi bod erioed yn ddïareb o ynfydrwydd: ac ni lesia goleu canwyll liw nos o flaen y dall, ac nid oes i Dduw nac angen nac anrhydedd o hynny.

Ac ynghylch y goleu canhwyllau yma, mae 'n werth sylw ddarfod i Lactantius, er 's mwy na mil o flynyddoedd yn ol, ysgrifenu fel hyn:—— "Ped edrychent ar nefol oleuni 'r haul, hwy a ganfyddent nad rhaid i Dduw wrth eu canhwyllau, yr Hwn a wnaeth y fath oleuad rhagorol i wasanaeth dyn. A lle mae yng nghylch bychan yr haul, yr hwn gan ei belled oddi wrthym nid ymddengys yn fwy na phen dyn, gymmaint o ddisgleirdeb na all golwg dyn edrych arno, ond os craffa neb arno yn ddïysgog dros ennyd, fe ddallir ei lygaid ef gan dywyllwch; pa gymmaint llewyrch, pa gryfed goleuni a dybygwn ni ei fod yn Nuw, gyd â'r Hwn nid oes na nos na thywyllwch?" Ac felly ym mlaen.——

Ac ychydig ar ol hynny efe a ddywed; "A ellir tybygu fod hwnnw

yn ei iawn bwyll, ag sy 'n offrymmu llewyrch canwyll gŵyr yn anrheg i Dad y Goleuni? Mae Efe 'n gofyn goleuni arall gennym, yr hwn nid yw yn fyglyd, ond yn oleu ac yn ddisglaer; hynny yw, goleuni 'r meddwl a'r deall."——

Ac ar fyrder wedi hynny efe a ddywed; "Ond y mae ar eu duwiau hwy, am eu bod yn ddaearol, angen am oleuni, rhag iddynt aros mewn tywyllwch; addolwŷr pa rai, am nad ydynt yn deall dim nefol, ydynt yn tynnu 'r grefydd a arferant i lawr i'r ddaear, yn yr hon, am ei bod yn dywyll wrth naturiaeth, y mae angen am oleuni. Wrth hynny nid ydynt yn priodoli i'w duwiau ddeall nefol, ond deall daearol dynion marwol: ac am hynny maent yn coelio fod y pethau hynny yn angenrheidiol a hyfryd iddynt *hwy*, ag sy felly i *ni*, y rhai sy raid i ni wrth ymborth pan fyddom yn newynog, wrth ddïod pan fyddom yn sychedig, wrth ddillad pan fyddom yn anwydog, ac wrth lewyrch canwyll i'n goleuo ar ol machlud haul."——

Hyd yn hyn Lactantius; a llawer yn ychwaneg, rhy faith i'w ysgrifenu yma, ynghylch ennyn canhwyllau mewn Temlau ger bron eilunod a delwau o ran crefydd: wrth yr hyn yr amlygir ffolineb yr arferiad, ac hefyd ein bod ninnau mewn barn a gweithred yn cyttuno 'n hollol yn ein canwyll-grefydd â'r Paganiaid delw-addolaidd.

Beth yw eu bod hwy, yn ol esampl y delw-addolwŷr Paganaidd, yn arogl-darthu ac yn offrwm aur i ddelwau, yn crogi ffyn-baglau, cadwyni, a llongau, esgeiriau, breichiau, a meibion a merched cyfain o gŵyr, ger bron delwau, fel pe trwy y rhai hynny, neu y Seintiau (fel y dywedant) y gwaredwyd hwy oddi wrth gloffni, clefyd, caethiwed, neu long-ddrylliad?

Onid hyn yw *colere imagines*, addoli delwau, yr hyn a waherddir mor gaeth yngair Duw? Os gwadant hyn, darllenant yr unfed bennod ar ddeg o Ddaniel Brophwyd, yr hwn a ddywed am Anghrist, *duw yr hwn nid adwaenai ei dadau a ogonedda efe âg aur, ac âg arian, ac â meini gwerthfawr, ac â phethau dymunol;*[1] yn yr hon adnod y gair Lladin yw *colet.*——Ac yn yr ail Chronicl, y nawfed bennod ar hugain, yr holl ddefodau a'r seremoniau allanol, megis arogl-darthu, a chyfryw bethau eraill, â pha rai yr anrhydeddid Duw yn ei Deml, a elwir *Cultus*,[2] hynny yw, *addoliad*, yr hyn y gwaherddir yn gaeth gan air Duw ei roi i ddelwau.

Oni ddengys pob hanes Eglwysig ddarfod i'n Merthyri sanctaidd, yn hytrach nag ymostwng, na phenlinio, nac offrymmu un gronyn o arogl-darth ger bron delw neu eilun, ddïoddef mil o fathau o'r farwolaeth fwyaf arswydus ac echryslon?

[1] Dan. 11. 38. [2] 2 Chron. 29. 25.

A pha esgusion bynnag a wnelont, mae 'n amlwg mai *i'r delwau* y gwneir hyn oll, megis rhedeg i bererindodau, llosgi arogl-darth a chanhwyllau, crogi ffyn-baglau, cadwyni, llongau, breichiau, esgeiriau, a merched a meibion cyfain o gŵyr, penlinio, a dyrchafu dwylaw; canys lle nid *oes* delwau neu lle *buont*, a'u bod wedi cael eu cymmeryd ymaith, nid ydynt yn gwneuthur dim o'r cyfryw bethau.—— Ond yr holl leoedd y cyrchid iddynt pan oedd y delwau ynddynt, ydynt yn *awr*, ar ol i'r delwau gael eu cymmeryd ymaith, wedi cael eu gadael yn anghyfannedd, ie maent yn casâu 'r lleoedd hynny 'n farwol; yr hyn sy brawf amlwg mai er mwyn y delwau y gwneid yr hyn a wnaethant o'r blaen.

Pan welom gan hynny wŷr a gwragedd yn myned yn fagadau ar bererindodau at ddelwau, yn penlinio ac yn dyrchafu dwylaw o'u blaen, yn gosod canhwyllau ac yn arogl-darthu ger eu bronnau hwy, yn offrymmu iddynt aur ac arian, ac yn crogi o'u blaen ffyn-baglau, cadwyni, llongau, a meibion a merched o gŵyr, gan briodoli iechyd a diogelwch, y rhai ydynt ddoniau Duw, iddynt hwy, neu (fel y mynnent i ni gredu) i'r Seintiau a gynnrychiolir ganddynt,—— pwy, meddaf, pwy a ddichon ammeu nad yw ein hamddiffynwŷr delwau, wrth gyttuno a'r eilun-addolwŷr Cenhedlig ym mhob tyb ddelw-addolaidd, ac ym mhob defodau a seremoniau allanol, yn cyttuno â hwy hefyd ynghyflawniad yr eilun-addoliaeth mwyaf atgas?

Ac i ychwanegu 'r gorphwylldra hwn, dynion drygionus, ag oedd yn cadw 'r cyfryw ddelwau, er mwyn cael mwy o fudd a mantais, yn ol esampl yr eilun-addolwŷr Cenhedlig, a adroddasant ac a daenasant ar led, yn gystal ar air ac mewn ysgrifen, chwedlau celwyddog am amryw wyrthiau 'r delwau hyn;—— megis darfod i'r cyfryw ddelw ddisgyn yn wyrthiol o'r nef, fel y *Paladium*, neu *Magna Diana Ephesiorum* (Diana Fawr yr Ephesiaid!)—— Ddarfod caffael delw arall yn llawn mor wyrthiol a hynny yn y ddaeâr, megis y cafwyd pen y dyn yn y Capitol, neu ben y march yn Capua!—— Ddarfod hebrwng delw arall gan Angylion!—— Ddarfod i un arall ddyfod o honi ei hun ym mhell o'r dwyrain i'r gorllewin, fel y diangodd yr Arglwyddes Ffortuna i Rufain gynt!—— Ddarfod paentio delw yr Arglwyddes Fair gan St. Luc, yr hwn a wnaethant hwy i'r diben hwnnw yn baentiwr o fod yn physygwr!—— Fod un arall na 's gallai can iau o ychen ei hysgogi, megis *Bona Dea* (y dduwies dda) yr hon ni allai long ei chario; neu Jupiter Olympius, yr hwn a chwarddodd am ben y crefftwŷr am geisio cynnyg ei symmud i Rufain!—— Fod rhai delwau er eu bod yn feini celyd, er hynny yn wylo o wir dirionwch calon a thosturi!—— Fod rhai eraill fel Castor a Pholux, wrth gynnorthwyo eu cyfeillion mewn brwydr, yn chwysu, fel y gwna colofnau mynor ar dywydd llaith!——

Fod rhai yn llefaru yn fwy gwyrthiol nag y gwnaeth asyn Balaam, yr hwn yr oedd bywyd ac anadl ynddo!—— Ddarfod i'r cyfryw efrydd gyfarch y cyfryw Sant o dderwen, a chael iechyd yn ebrwydd; ac wele, dyma ei ffon-fagl yn crogi yma!—— Ddarfod i'r cyfryw un mewn tymhestl wneuthur adduned i St. Christopher, a diangc rhag boddi; a gwelwch, dyma ei long gŵyr ef!—— Ddarfod i un arall ddiangc o garchar trwy gymmorth St. Leonard; a gwelwch lle mae ei gadwyni 'n crogi!—— Ac adroddid trwy gyffelyb gelwyddau, neu rai mwy digywilydd fyth, filoedd aneirif o'r cyfryw wyrthiau. Dyma fel y mae ein hamddiffynwŷr delwau yn priodoli o ddifrif i'w delwau y cyfryw wyrthiau oll ag a ffugiau y Cenhedloedd am eu heilunod.

A phe caniattaem ddarfod gwneuthur rhyw weithredoedd rhyfedd trwy dwyll y Diafol, (canys eglur yw mai celwyddau ffugiol a hocced gyfrwys dynion yw y rhan fwyaf o honynt,) lle mae delwau yn bod; etto ni chanlyn oddi wrth hynny y dylid parchu na goddef y cyfryw ddelwau, mwy nag y gadawodd Hezeciah y Sarph Bres heb ei difetha, pan addolwyd hi, er ei gosod i fynu trwy orchymyn Duw, a'i chymmeradwyo drwy wyrth fawr a gwirioneddol, yn gymmaint ag yr iacheid yn ebrwydd gynnifer ag a edrychent arni.—— Ac ni ddylai gwyrthiau ein perswadio i wneuthur yn groes i air Duw; canys yr Ysgrythyrau, i'n rhybuddio o hyn, a ragfynegasant y *cyfodai gau-gristiau a gau-brophwydi, ac a ddangosent arwyddion a rhyfeddodau, i roddi amryfusedd cadarn i ddynion i gredu celwydd.*[1]

Ond yn hyn maent yn rhagori ar ffolineb a drygioni 'r Cenhedloedd, eu bod yn anrhydeddu ac yn addoli creiriau ac esgyrn ein Seintiau, y rhai sy 'n profi nad oeddynt hwy ond dynion marwol a meirw, ac felly nid duwiau i'w haddoli; yr hyn beth ni chyffesai 'r Cenhedloedd byth am eu duwiau, rhag cywilydd. Ond rhaid i ni gusanu 'r creiriau, ac offrwm iddynt, yn enwedig ar Ddydd Sul y creiriau. A phan offrymmom, (rhag i ni ddiffygio, neu edifaru am ein traul,) mae 'r beroriaeth a'r canu yn adseinio 'n llawen dros holl amser yr offrymmiad, ynghyd â chlodfori a galw ar y Seintiau hynny ag y mae eu creiriau yn bresennol ar y pryd hwnnw.—— Ië, a rhaid cadw 'r dwfr y gwlychwyd y creiriau hynny ynddo, gyd â pharch dirfawr, fel peth hynod o sanctaidd ac effeithiol.

A ydyw hyn yn gyttunol â St. Chrysostom, yr hwn a ysgrifena fel hyn am greiriau? "Na wna gyfrif o ludw cyrph y Seintiau, nac o weddillion eu cnawd a'u hesgyrn, y rhai a dreulir gan amser; ond agor lygaid dy ffydd, ac edrych arnynt wedi eu dilladu â nefol rinwedd, ac â gras yr Yspryd Glân, ac yn disgleirio gan lewyrch goleuni 'r nef."

[1] St. Marc 13. 22. a 2 Thes. 2. 11.

Ond yr oedd ein heilun-addolwŷr ni yn derbyn gormod o *fantais* oddi wrth greiriau a dwfr-creiriau i ddilyn cyngor St. Chrysostom. Ac am fod creiriau mor ennillfawr, nid oedd ond ychydig leoedd a'r nad oeddid wedi darparu creiriau iddynt. Ac er mwyn cael mwy o helaethrwydd o greiriau, yr oedd i ambell Sant amryw bennau, un yn y fan hon, ac un yn y fan arall. Yr oedd gan rai chwech o freichiau, a chwech ar hugain o fysedd. Ac er i Grist allu ei hun ddwyn ei Groes, etto pe cesglid ynghyd holl ddarnau ei gweddillion hi, prin y gallai 'r llong fwyaf yn Lloegr eu dwyn hwy: ac etto mae y rhan fwyaf o honi, meddant hwy, yn aros etto yn nwylaw 'r Anffyddloniaid, am yr hon y maent yn gweddio yn eu paderennau ar iddynt ei chael i'w dwylaw, er mwyn y cyfryw ddefnydd a phwrpas duwiol.

Ac nid yn unig *esgyrn* y Seintiau, ond *pob peth* hefyd ag a berthynai iddynt, oedd yn eu cyfrif hwy yn greir-weddill sanctaidd.—— Mewn rhyw fannau maent yn cynnyg cleddyf; mewn lle arall y wain; mewn lle arall esgid; mewn lle arall gyfrwy a fuasai ar ryw geffyl sanctaidd; mewn lle arall y glo y rhostiwyd St. Lawrens arnynt; mewn lle arall gynffon yr asen yr eisteddodd ein Harglwydd Iesu Grist arni, i'w cusanu ac i aberthu iddynt fel creiriau. Canys yn gynt nag y byddai diffyg creiriau arnynt, cynhygient i ti asgwrn ceffyl yn lle braich morwyn, neu gynffon asyn, i'w cusanu ac i offrwm iddynt fel creiriau!

O! 'r dynion drygionus, digywilydd, a haerllug i'r eithaf, a *ddyfeisiasant* y pethau hyn! O! 'r cawciod ynfyd, gwirion-ffol, a llwfr, a mwy anifeilaidd na 'r asyn y cusanasant ei gynffon, a gredant y cyfryw bethau! Yn awr Duw a drugarhao wrth gyfryw Gristionogion truain a disynwyr, y rhai, drwy hocced a thwyll y rhai a ddylasent ddysgu iddynt ffordd y gwirionedd a'r bywyd, a wnaethpwyd nid yn unig yn waeth na 'r eilun-addolwŷr Cenhedlig, ond hefyd mor annoeth ag asynod, meirch, a mulod, y rhai nid oes ganddynt ddeall!

Wrth yr hyn a ddywetpwyd eisoes, mae 'n amlwg fod ein hamddiffynwŷr delwau wedi gwneuthur delwau, a'u gosod i fynu mewn Temlau, fel y gwnai 'r Cenhedloedd eilun-addolgar, ac hefyd fod ganddynt yr un tybiau delw-addolgar am y Seintiau, i'r rhai y gwnaethant ddelwau, ag oedd gan y Cenhedloedd eilun-addolgar am eu duwiau gau: ac nid yn unig eu bod yn addoli eu delwau â'r un defodau, seremoniau, a choelgrefydd, a phob amgylchiadau eraill, ag yr addolai 'r Cenhedloedd eu heilunod, ond hefyd eu bod mewn llawer o bethau wedi rhagori ym mhell arnynt ym mhob drygioni, ffolineb, a gorphwylldra.

Ac os nad yw hyn yn ddigon i brofi eu bod yn addolwŷr delwau, hynny yw, yn *eilun*-addolwŷr, wele, chwi a gewch glywed eu cyffes gyhoeddus hwy eu hunain: sef, nid yn unig Ordeiniadau ail Gynghor

Nicea dan Irene, a Chynghor Rhufain dan Gregori III, yn y rhai y dysgant y dylid anrhydeddu ac addoli delwau, fel y dangoswyd o'r blaen; etto maent yn gwneuthur hynny yn ofnus ac yn ochelgar, mewn cydmariaeth â'r rhyfygus a'r hygabl gyhoeddiad o eilun-addoliad amlwg a wneir i ddelwau, a osodwyd allan yn ddiweddar, ie yn ein dyddiau ni, pan y mae goleuni gwirionedd Duw yn tywynu mor ddisglair, fel, uwchlaw eu gweithredoedd a'u hysgrifeniadau ffiaidd eraill, y rhyfeddai dyn yn fwyaf am eu hanial ddigywilydd-dra eofn, haerllug, a phen-uchel, na ddewisasent o leiaf iddynt eu hunain ryw amser a fuasai dywyllach, ac felly'n gyfaddasach i draethu eu herchyll gableddau ynddo: ond cymmerasant yn awr wyneb puttain, heb un bwriad i wrido wrth osod allan hoywder eu putteindra ysprydol:——

Ac yma cymmerwch un esampl yn lle'r cwbl, a chlywch gabledd amlwg y Parchedig Dad yn Nuw, James Naclantus, Esgob Clugium, sydd ysgrifenedig yn ei Esponiad ar Epistol St. Paul at y Rhufeiniaid, a'r bennod gyntaf, ac a argraphwyd yn ddiweddar yn Venice; geiriau yr hwn am addoliad delwau ydynt y rhai hyn yn Lladin, fel yr ysgrifenodd efe hwynt, heb newid un sillaf ynddynt:——

"*Ergo non solum fatendum est, fideles in Ecclesia adorare coram imagine, (ut nonnulli ad cautelam forte loquuntur,) sed et adorare imaginem, sine quo volueris scrupulo, quin et eo illam venerantur cultu, quo et prototypon ejus propter quod si illud habet adorare latria, et illa latria: si dulia, vel hyperdulia, et illa pariter ejusmodi cultu adoranda est.*"

Ystyr yr hyn yn Gymraeg sy fel y canlyn:—— *Am hynny mae'n rhaid cyffesu, nid yn unig fod y ffyddloniaid yn yr Eglwys yn addoli ger bron delw, (fel ond odid y dywed rhai yn ochelgar,) ond eu bod hefyd yn addoli'r ddelw ei hun, heb ddim ammheuaeth na phetrusder; ie, maent yn ei haddoli â'r unrhyw fath o addoliad ag yr addolir ei chynddelw hi* (sef yr hyn y gwnaed hi ar ei lun;) *o herwydd paham, os dylid addoli'r gynddelw* (megis Duw Dad, Crist, a'r Yspryd Glân,) *âg anrhydedd dwyfol, dylid addoli'r ddelw hefyd ag anrhydedd dwyfol; os dylid addoli'r gynddelw âg addoliad uwch neu is, dylid addoli'r ddelw hefyd â'r unrhyw addoliad.*——

Hyd yma y dywed Naclantus; cableddau yr hwn argyhoedded y Pab Gregori I. a chondemnied ei awdurdod ef hwynt i uffern, megis y taranodd ei olynwŷr yn arswydus. Canys er bod Gregori yn *goddef* delwau, etto mae yn gwahardd er dim eu *haddoli* hwy, ac yn mawr ganmol yr Esgob Serenus am wahardd eu haddoli, ac yn ewyllysio iddo ddysgu'r bobl ochelyd er dim addoli delw. Ond mae Naclantus yn bytheirio allan ei gableddus eilun-addoliaeth, gan erchi addoli delwau

â'r fath uchaf o wasanaeth ac addoliad. A rhag bod ar y cyfryw ddysgeidiaeth iachus ddiffyg awdurdod, mae 'n ei seilio hi ar Aristotl, yn ei lyfr *De Somno et Vigilia* (sef ynghylch Cysgu a Gwylio) fel y gellir gweled wedi ei nodi ar ledymyl y ddalen yn ei lyfr argraphedig: drygioni haerllug a barn eilun-addolgar yr hwn a osodais allan yn helaethach, fel y gallech, (fel y dywed Virgil am Sinon[1]) *wrth un, wybod y cwbl* o'r eilun-addolwŷr hyn, a deall i ba ddibendod o'r diwedd y'n dygwyd drwy oddef delwau yn ein Temlau a'n Heglwysydd, gan gydmaru amser ac ysgrifeniadau Gregori â'n dyddiau ni, ac â chableddau 'r cyfryw eilun-addolwŷr ag yw 'r offeryn Belial, y Naclantus hwn!

Bellach, ynte, mynegwyd a dangoswyd drwy dystiolaeth yr hen Dadau a'r Doctoriaid duwiol, trwy gyhoeddus gyffes Esgobion ymgynhulledig mewn Cynghorau, trwy amlyccaf arwyddion a rhesymmau, tybiau, actau, gweithredoedd, ac anrhydedd eilun-addolgar a wnaed i'w delwau, a thrwy eu cyffes a'u hathrawiaeth gyhoeddus hwy eu hunain, wedi ei gosod allan yn eu llyfrau, fod eu delwau *yn* cael, ac *wedi* cael, yn gyffredin eu haddoli, ac y *dylent*, yn ol eu barn hwy, *gael* eu haddoli:——

Felly mi a ddygaf ymlaen allan o air Duw y rheswm cyffredinol hwn yn erbyn pob cyfryw wneuthurwŷr, gosodwŷr, ac amddiffynwŷr delwau mewn lleoedd cyhoeddus.

Ac yn gyntaf oll mi a ddechreuaf gyd â geiriau ein Hiachawdwr Crist. *Gwae y dyn hwnnw drwy yr hwn y daw y rhwystr. Gwell fyddai iddo pe rhoddid maen melin o amgylch ei wddf ef, a'i foddi yn eigion y môr, nag iddo rwystro un o'r rhai bychain hyn.*[2]—— A dywed Duw ei Hun yn Deuteronomium, mai *Melldigedig yw'r hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd.*[3]—— Ac yn Lefiticus; *Na ddod dramgwydd o flaen y dall.*[4]—— Ond mae delwau mewn Eglwysydd a Themlau *wedi* bod, *yn* bod, ac (fel y profir rhagllaw) a *fyddant* byth hefyd, yn rhwystrau ac yn dramgwyddiadau, yn enwedig i'r werin wan, wirion, a dall, gan dwyllo eu calonnau hwy drwy gywreinrwydd y crefftwr, (fel y tystiolaetha 'r Ysgrythyr yn bendant mewn amryw fannau,) ac felly yn eu dwyn hwy i eilun-addoliaeth. Am hynny gwae 'r neb a wnelo, a osodo i fynu, ac a amddiffyno ddelwau mewn Eglwysydd a Themlau; canys y mae mwy cosp yn eu haros hwy nag angau 'r corph!

Os gwneir atteb etto, y gellir tynnu ymaith y tramgwydd hwn drwy ddyfal a didwyll athrawiaeth a phregethiad gair Duw, a moddion eraill, ac felly nad yw delwau mewn Eglwysydd a Themlau ddim yn bethau hollol ddrwg i *bawb*, er eu bod yn beryglus i *rai;* ac am hynny y dylid

[1] Ab uno disce omnes. Virg. II. 65. [2] St. Mat. 18. 6, 7. a St. Luc 17. 2. [3] Deut. 27. 18. [4] Lef. 19. 14.

dal mai peth anghyfaddas ac enbyd, yn hytrach na pheth anghyfreithlon a hollol ddrygionus, yw eu goddef yn gyhoedd mewn Eglwysydd a Themlau: yna fe ganlyn y *trydydd* pwngc i'w brofi, yr hwn ydyw hyn:—— Sef, Os goddefir delwau mewn Temlau ac Eglwysydd, nad ydyw bosibl, na thrwy bregethu gair Duw, na thrwy ddim moddion eraill, gadw 'r bobl rhag eu haddoli, a gochel eilun-addoliaeth:——

Ac yn gyntaf ynghylch pregethu. Pe caniatteid y gellid, er goddef delwau mewn Eglwysydd, ymgadw er hynny rhag eilun-addoliaeth, drwy ddyfal a didwyll bregethu gair Duw; fe ddilynai o angenrheidrwydd, y gellid cael athrawiaeth ddidwyll bob amser i barhâu yn *gystal* a delwau, ac felly pa le bynnag y gosodid delw yn rhwystr, y dylid ac y gellid hefyd, wrth reswm da, gynnal yn barhâus bregethwr duwiol a didwyll: o herwydd *rhesymmol* yw, fod y rhybudd mor gyffredinol a'r tramgwydd, y feddyginiaeth mor helaeth a'r rhwystr, y phisygwriaeth mor gryf a'r gwenwyn: ond mae rheswm a phrofiad yn ein dysgu nad oes dim modd i hynny fod:——

Gan hynny ni's gall pregethu attal delw-addoliaeth, os goddefir delwau yn gyhoeddus. Canys am ychydig y gellir prynu delw a bery lawer cant o flynyddoedd; ond ni's gellir heb draul fawr gynnal pregethwr da yn wastadol.—— Hefyd, os y Tywysog a'u goddef, fe fydd yn y man lawer iawn, ïe aneirif o ddelwau; ond ni bu pregethwŷr didwyll erioed, ac ni byddant byth, ond ychydig ac anaml wrth y lliaws sydd i gael eu dysgu. Canys *y cynhauaf yn ddïau sy fawr*, eb ein Hiachawdwr Crist, *ond y gweithwŷr yn anaml*:[1] yr hyn sy wedi bod yn wir yn barhâus hyd yma, ac a fydd yn wir hyd ddiwedd y byd; ac y mae mor wir yma yn ein gwlad ni, fel pe rhennid ein holl bregethwŷr da, prin y byddai un i bob Sir.

Ond fe wna delwau bregethu 'n wastadol eu hathrawiaeth *hwy* i'r edrychwŷr, hynny yw, yr athrawiaeth o ddelw-addoliad; i'r hwn bregethiad y mae dynol-ryw yn dra thueddol, ac yn gogwyddo i roi clust a choel iddo, fel y mae profiad pob cenhedlaeth ac oes yn amlwg brofi. Ond mae 'n odid fawr clywed pregethwr cywir, i attal y drygioni hwn, unwaith mewn blwyddyn gyfan, mewn llawer iawn o fannau; ac mewn *rhai* mannau prin y ceir *gweled* un felly unwaith mewn saith mlynedd, fel y gellir profi 'n hawdd.—— Ac ni ellir yn ddisyfyd lwyr ddiwreiddio ar un bregeth y drwg opiniwn ag a fo wedi hir wreiddio ynghalonnau dynion.—— Heblaw hynny, anaml iawn yw y rhai sy 'n tueddu at roi cred i athrawiaeth iachus, tra mae llawer, ïe bron bawb, yn hyblyg at ofergoel ac eilun-addoliaeth. Felly yn hyn o beth mae 'n ymddangos

[1] St. Mat. 9. 37.

fod cael meddyginiaeth nid yn unig yn beth anhawdd, ond hefyd yn beth ammhosibl.

Ym mhellach; nid ymddengys wrth un hanes gredadwy, fod gwir a didwyll bregethu wedi parhâu yn yr un man uwchlaw can mlynedd; ond mae 'n amlwg fod delwau, ofergoel, ac eilun-addoliaeth wedi parhâu *lawer* can mlynedd. Canys dengys pob ysgrifenadau a phrofiad, fod pethau *da* yn gwaethygu bob yn ychydig ac yn ychydig, nes llwyr ddiflannu; ac, o'r ochr arall, fod pethau *drwg* yn cynnyddu fwyfwy, hyd oni ddelont i gwbl berffeithrwydd o ddrygioni. Ac ni raid i ni fyned neppell i chwilio am esamplau i brofi hyn; y mae ein pwngc *presennol* yn esampl.——

Canys fe aeth pregethiad gair Duw (ag oedd ar y dechreu yn bur a didwyll) o fesur ychydig mewn amser yn llai pur, ac yna 'n llygredig, ac yn ddiweddaf oll gadawyd *ef* ymaith yn llwyr, ac fe ymlusgodd yn ei le ef bethau eraill o ddychymmygion dynion.

Ac ar y llaw arall; ar y cyntaf, fe *baentid* delwau ym mysg Cristionogion, a hynny mewn ffordd o hanesion cyfain ynghyd, y rhai yr oedd rhyw arwyddoccâd iddynt: ond ar ol hynny, *cerfid* hwynt, a gwneid hwynt o goed, maen, clai, a mettel.—— Ac ar y cyntaf cedwid hwy yn anghyhoedd mewn tai neillduol, ac yna wedi hynny ymlusgasant i Eglwysydd a Themlau, ond yn gyntaf yn *baentiedig*, ac ar ol hynny yn *gerfiedig*. Ac etto ni byddid ar y cyntaf mewn un man yn eu haddoli.

Ond yn fuan gwedi, dechreuodd y bobl anwybodus eu *haddoli*, fel y gwelir wrth y llythyr a ysgrifenodd Gregori I. Esgob Rhufain at Serenus, Esgob Marseilles. Serenus, y naill o'r ddau Esgob, a dorrodd ac a losgodd y delwau o achos yr eilun-addoliaeth a wneid iddynt. A Gregori, er tybied y gellid eu goddef i *sefyll*, a farnai er hynny mai peth ffiaidd oedd eu *haddoli*; a meddyliodd (fel yr ydys yn awr yn dywedyd) y gellid rhwystro eu haddoli drwy ddysgu gair Duw, yn ol fel yr annogodd efe Serenus i addysgu 'r bobl, fel y gellir gweled yn yr un llythyr.

Ond ystyriwch chwi attolwg, pa un ai tyb Gregori ai barn Serenus oedd oreu yn hyn o beth: canys argyhoeddwyd tyb Gregori yn fuan gan brofiad ac amser:—— Canys er gwaethaf ysgrifeniad Gregori, a phregethau rhai eraill, wedi gosod delwau unwaith i fynu yn gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd, fe gwympodd gwŷr a gwragedd ehud yn fuan yn fagadau i'w *haddoli* hwy; ac o'r diwedd dygwyd y dysgedig hefyd ymaith gyd â chyfeiliornad y bobl, megis gyd â chenlli llifeiriant neu weilgi wyllt.

Ac yn ail Gynghor Nicea, gorchymynodd yr Esgobion a'r gwŷr llên, ar fod i ddelwau gael eu haddoli: ac felly drwy achlysur y tramgwyddiadau hyn, nid yn unig yr anwybodus a'r gwirion, ond y dysgedigion

hefyd a'r doethion; nid y bobl yn unig, ond yr Esgobion; nid y defaid, ond y bugeiliaid eu hunain, (y rhai a ddylasent fod yn arweinwŷr iddynt yn y ffordd iawn, ac yn oleuni i lewyrchu mewn tywyllwch,) wedi eu dallu gan swyn-gyfaredd delwau, fel tywysogion deillion i'r deillion, a syrthiasant, y naill a'r llall, i bwll damniol eilun-addoliaeth!

Yn yr hwn bwll y parhaodd yr holl fyd, megis wedi ei foddi, hyd ein hoes ni, dros yspaid wyth gan mlynedd, heb fod neb bron yn llefaru yn erbyn hynny. A dyma 'r ffrwyth a dyfodd o ordinhâd Gregori: yr hwn aflwydd ni ddigwyddasai byth, pe buasid yn cymmeryd cyngor yr Esgob Serenus, ac yn llwyr ddileu a distrywio pob eilunod a delwau: canys nid addola neb y peth nad yw yn hanfodi.

Ac fel hyn chwi a welwch pa fodd, o feddu delwau yn *anghyhoedd*, y daethpwyd i'w gosod i fynu 'n *gyhoeddus* mewn Eglwysydd o Themlau, er nad oedd niweid o hynny ar y cyntaf, fel yr oedd rhai dynion doeth a dysgedig yn barnu; ac o ddim ond eu *bod yno,* daethpwyd o'r diwedd i'w haddoli; yn gyntaf gan y bobl anwybodus, y rhai yn anad neb (fel y dysg yr Ysgrythyr ni) ydynt mewn perygl ofergoel ac eilun-addoliaeth; ac ar ol hynny gan yr Esgobion, y dysgedigion, a'r holl Eglwyswŷr.

Ac felly y gwŷr llên a'r gwŷr lleyg, dysgedigion ac annysgedigion, pob oes, sect, a gradd o wŷr, gwragedd, a phlant drwy holl wledydd Cred (peth ofnadwy ac echrydusaf i feddwl am dano!) a foddwyd ar unwaith mewn ffiaidd ddelw-addoliad, yr hwn o bob bai arall yw 'r bai atgasaf gan Dduw, a mwyaf damniol i ddyn;—— a hynny dros yspaid wyth gan mlynedd a mwy! Ac i'r diwedd hwn y daeth y dechreuad o osod delwau mewn Eglwysydd, yr hyn a fernid y pryd hynny yn beth diniweid, ond yr hyn y mae profiad wedi dangos ei fod nid yn unig yn beth niweidiol, ond yn beth dinystriol a marwol, ac yn ddistryw ac yn ddadymchweliad pob gwir grefydd yn gyffredinol!

Felly yr wyf yn casglu, megis y gall fod mewn rhyw un ddinas, neu wlad fechan, ddelwau wedi eu gosod i fynu mewn Temlau ac Eglwysydd, ac etto delw-addoliad yn cael ei gadw draw dros ychydig amser, drwy wastadol a difrifol bregethu gair Duw, a didwyll Efengyl ein Hiachawdwr Crist; felly mae 'n amhosibl, (wedi unwaith osod i fynu a goddef delwau mewn Temlau ac Eglwysydd,) fod i wledydd mawrion, a llai o lawer yr holl fyd, gael eu cadw yn hir oddi wrth eilun-addoliaeth. —— A'r duwiolion nid yn unig a olygant eu dinas, eu gwlad, a'u hamser eu hunain, ac iachawdwriaeth dynion eu hoes eu hunain; ond gofalant hefyd am bob lle ac amser, ac am iachawdwriaeth dynion pob oes. O leiaf ni osodant gyfryw rwystrau a maglau i draed dynion o wledydd ac oesoedd eraill, ag y mae profiad eisoes wedi dangos eu bod wedi bod yn ddistryw i'r byd.

Mi a wnaf gan hynny gasgliad cyffredinol oddi wrth yr hyn oll a ddywedais hyd yn hyn:——

Os yw y rhwystrau hyn, a gwenwyn eneidiau dynion, drwy osod i fynu ddelwau, yn *llawer*, ïe yn afrifed, os goddefir hwy; a'r rhybuddion yn erbyn y rhwystrau hynny, a'r meddyginiaethau rhag y gwenwyn hwnnw, drwy bregethu, yn *ychydig ac anaml*, fel y dangoswyd eisoes; —— os hawdd yw gosod y rhwystrau, a darpar y gwenwyn; a'r rhybuddion a'r meddyginiaethau yn anhawdd eu hadnabod a chael gafael arnynt;—— os yw y rhwystrau yn wastad yn gorwedd yn ein ffordd, a'r gwenwyn yn barod wrth law ym mhob man; a'r rhybuddion a'r meddyginiaethau yn cael eu gweinyddu yn anfynych; ac os yw pawb yn barottach o honynt eu hunain i dramgwyddo ac i ymrwystro, nag i gymmeryd y rhybudd, a phawb yn barottach i yfed y gwenwyn nag i brofi 'r feddyginiaeth; (fel y dangoswyd mewn rhan eisoes, ac y dangosir yn helaethach rhagllaw,) ac felly, mewn gair, y gwenwyn yn cael ei yfed yn wastadol ac yn helaeth gan lawer, a'r feddyginiaeth yn cael ei phrofi ond prin ac anfynych gan ychydig; pa fodd na rwystrir aneirif o rai gweiniaid? pa fodd na thyrr aneirif ddynion eu gyddfau wrth gwympo? pa fodd na wenwynir eneidiau aneirif gan y gwenwyn angeuol?

A pha fodd ynte y gall cariad at Dduw a'n cymmydog fod yn ein calonnau, oni thynnwn ymaith, a ninnau yn gallel, y cyfryw rwystrau enbyd, a'r cyfryw wenwyn dinystriol?

Beth a ddywedaf am y rhai a osodant rwystrau lle nad oedd yr un o'r blaen, ac a daenant faglau i draed, ïe i eneidiau, y gwan a'r ehud, ac a barant enbydrwydd tragywyddol ddistryw i'r sawl y tywalltodd ein Hiachawdwr Crist ei werthfawroccaf Waed drostynt?—— Gwell fuasai fod erioed heb ddyfeisio nac arfer y celfyddydau o baentio, cerfio, a thoddi, na thrwy achlysur delw neu lun, beri distryw a cholledigaeth i *un* o'r sawl y mae eu heneidiau mor werthfawr ger bron Duw!

Ac fel hyn fe ddangoswyd nad oes dichon i bregethu allel attal eilun-addoliaeth, os gosodir i fynu ddelwau 'n gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd.

Y mae mor wir hefyd, nad oes dim moddion arall, megis ysgrifenu yn erbyn eilun-addoliaeth, cynnull Cynghorau, gwneuthur ordeiniadau yn ei erbyn, a chyfreithiau llymdost, na chyhoeddiadau Tywysogion ac Ymherawdwŷr, na 'r cospedigaethau mwyaf gerwin, na dim meddyginiaeth arall a ellir ei dyfeisio, a all gadw rhag delw-addoliaeth, os caiff delwau eu gosod i fynu a'u goddef.

Canys ynghylch ysgrifenu yn erbyn delwau a'r addoliad a roir iddynt, adroddwyd i chwi yn yr ail ran o'r Traethawd hwn, lawer o

leoedd allan o Tertulian, Origen, Lactantius, St. Awstin, Epiphanius, St. Ambros, Clement, ac amryw Esgobion a Doctoriaid dysgedig a sanctaidd eraill o'r Eglwys.—— Ac heblaw y rhai hyn, mae'r holl hanesyddiaethau Eglwysig, a llyfrau Esgobion ac Athrawon duwiol a dysgedig eraill, yn llawn o esamplau ac ymadroddion hynod yn erbyn delwau a'u haddoli.

Ac fel yr ysgrifenasant yn ddifrifol iawn, felly hefyd y dysgasant ac y pregethasant yn eu hoes yn ddidwyll a dyfal iawn, yn *gyttunol* â'u hysgrifenadau a'u hesamplau: canys Esgobion yn *pregethu* oedd Esgobion yr oesoedd hynny, ac i'w gweled yn amlach mewn pulpudau nag ymhalasau Tywysogion, ac yn fynychach ar waith yn ufuddhâu i eiriau diweddaf yr Hwn a ddywedodd, *Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur,*[1] nag yn negeseuon ac ar achosion Tywysogion y byd hwn.

Ac megis yr oeddynt yn llawn zel a diwydrwydd, felly 'r oedd ganddynt hefyd ddysg rhagorol a duwioldeb buchedd, ac o herwydd eu dysg a'u duwioldeb yr oedd eu hawdurdod a'u cymmeriad yn fawr gyd â'r bobl, ac felly yr oeddynt yn debyccach ac yn alluoccach i berswadio 'r bobl, a'r bobl yn debyccach o gredu a dilyn eu hathrawiaeth.

Ond os nad oedd eu *pregethu* yn tyccio, llawer llai y gallai eu *hysgrifenadau*, y rhai ni 's gall ond ychydig, sef dysgedigion, eu deall, mewn cydmariaeth â phregethu parhâus, o'r hyn y gall yr holl liaws gyfrannogi.

Ac nid oedd yr hen Dadau, Esgobion, a Doctoriaid, yn unig yn pregethu ac yn ysgrifenu megis yn neillduol *wrthynt eu hunain* yn erbyn hyn; ond hefyd wedi ymgynnull *gyd â'u gilydd*, yn rhifedi mawr, mewn Cymmanfaoedd a Chynghorau, hwy a wnaethant ordeiniadau a deddfau Eglwysig yn erbyn delwau a'u haddoliad; a hynny nid unwaith na dwywaith, ond lawer o weithiau, ac mewn amryw oesoedd a gwledydd, hwy a gynhullasant Gymmanfaoedd a Chynghorau, ac a wnaethant gyfreithiau llymdost yn erbyn delwau a'u haddoliad, fel y dangoswyd o'r blaen yn helaeth yn yr ail ran o'r Homili hon.—— Ond er eu holl ysgrifenu, eu pregethu, eu hymgynhulliad mewn Cynghorau, a ffurfio a chyhoeddi deddfau Eglwysig, nid oedd dim yn tyccio, nac i dynnu i lawr y delwau a addolid, nac yn erbyn delw-addoliaeth, tra 'r oedd y delwau 'n cael sefyll. Canys y llyfrau deillion a'r athrawon mudion hynny, sef delwau ac eilunod, (canys galwant hwynt yn llyfrau ac athrawon gwŷr lleyg) drwy eu hysgrifenadau cerfiedig a phaentiedig yn dysgu ac yn pregethu eilun-addoliaeth, a lwyr orchfygasant eu holl lyfrau ysgrifenedig hwy a'u pregethu ar dafod leferydd.

[1] St. Marc 16. 15.

Wel, os na allai pregethu ac ysgrifenu gadw dynion oddi wrth ddelwau ac eilun-addoliaeth, os na allai ysgrif-bin a geiriau wneuthur hynny; chwi a dybygech y gallai cosp a chleddyf ei wneuthur; hynny yw, y gallai Tywysogion, drwy lymdost gyfreithiau a chospedigaethau, attal yr anffrwynedig chwant hwn ag sy gan bawb at ddelw-addoliaeth, er fod i ddelwau gael eu gosod i fynu a'u goddef:

Ond dengys profiad na 's gall hyn, mwy nag ysgrifenu a phregethu, dyccio dim yn erbyn eilun-addoliaeth:——

Canys er i Ymherawdwŷr Cristionogol (awdurdod y rhai, wrth reswm a deddf Duw, a ddylai fod yn fwyaf,) fwy nag wyth mewn nifer, o ba rai teyrnasodd chwech olynol y naill ar ol y llall (fel y mynegwyd yn yr hanesion a glywsoch o'r blaen) wneuthur tostaf gyfreithiau a chyhoeddiadau yn erbyn delwau ac eilun-addoliaeth, a gweinyddu 'r cospedigaethau llymmaf, ie a marwolaeth ei hun, ar amddiffyn-wŷr delwau, ac ar eilun-addolwŷr; etto ni 's gallent dyccio nac i lwyr-ddinystrio 'r delwau a osodasid unwaith i fynu, nac i attal dynion rhag eu haddoli, wedi eu gosod i fynu.

Beth ynte a dybygwch a ddigwyddai pettai dynion dysgedig yn dysgu i'r bobl eu gwneuthur hwy, ac yn amddiffyn eu gosodiad i fynu, fel pethau angenrheidiol mewn crefydd?

I ddibennu: Mae 'n ymddangos yn eglur wrth bob hanesion ac ysgrifenadau, ac wrth brofiad yr amseroedd a aethant heibio, na 's gall na phregethu, nac ysgrifenu, na chydsyniad dysgedigion, nac awdurdod duwiolion, nac ordeiniadau Cynghorau, na chyfreithiau Tywysogion, na chospedigaethau llymmaf y rhai a droseddant yn hyn o beth, nac un moddion arall, dyccio yn erbyn eilun-addoliaeth, os goddefir delwau yn gyhoeddus.

A gwir y dywedir, Fod yr amser a aeth heibio yn ddysgawdwr doethineb i ni sy 'n dilyn ac yn byw ar ol hynny:—— Os na allai ynte, yn yr amseroedd gynt, yr hen Dadau, Esgobion, a Doctoriaid mwyaf rhinweddol, dysgedig, a diwyd, a'r rhai hynny bron yn aneirif mewn rhifedi, drwy eu pregethu, eu hysgrifenu, eu diwydrwydd, eu difrifoldeb, eu hawdurdod, eu Cymmanfaoedd a'u Cynghorau, dyccio dim yn erbyn delwau ac eilun-addoliaeth, ar ol i ddelwau gael unwaith eu gosod i fynu;—— beth a allwn *ni*, y rhai nid ydym i'n cydmaru â hwynt mewn dysg, na sancteiddrwydd buchedd, na diwydrwydd, nac awdurdod, ond ydym yn ddynion dirmygus a dibarch (fel y mae 'r byd yn awr yn myned) ac ond ychydig mewn rhifedi, mewn cymmaint lliaws a malais dynion;—— beth a allwn *ni*, meddaf, ei wneuthur neu ei gwblhâu i attal addoli delwau, os goddefir iddynt sefyll yn gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd?

Ac os na allai cynnifer o Ymherawdwŷr galluog, trwy gyfreithiau a chyhoeddiadau cyn dosted, a thrwy weinyddu cospedigaethau cyn llymmed, gadw 'r bobl rhag gosod delwau i fynu a'u haddoli; pa beth a ddigwydd, dybygwch chwi, pan fo dynion yn eu *canmol* hwy megis llyfrau angenrheidiol i wŷr lleyg?

Dysgwn ni gan hynny, yn y dyddiau diweddaf hyn, yr addysg hon gan hen henafiaeth; Nad oes modd gwahanu delw-addoliad oddi wrth ddelwau dros hir o amser; ond fel digwyddiad anwahanol, neu fel y canlyna 'r cysgod y corph pan fo 'r haul yn tywynnu, fod eilun-addoliaeth yn yr un modd yn dilyn ac yn glynu wrth oddefiaeth delwau 'n gyhoeddus mewn Temlau ac Eglwysydd.

Ac mewn gair, fel y dylid casâu a gochelyd delw-addoliaeth, felly y dylid dileu a distrywio delwau, y rhai ni allant fod yn hir heb ddelw-addoliad.

Ond heblaw 'r profion hyn o'r amseroedd a aeth heibio, mae naturiaeth a dechreuad gwreiddiol delwau o honynt eu hunain yn tynnu 'n nerthog i ddelw-addoliaeth, ac y mae anian a gogwyddiad dynion yn tueddu mor gryf at ddelw-addoliaeth, fel nad oes dim modd gwahanu delwau na chadw dynion oddi wrth ddelw-addoliaeth os goddefir delwau 'n gyhoeddus.

Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd am naturiaeth a dechreuad gwreiddiol delwau yw hyn:—— Gan fod eu dyfeisiad cyntaf yn ddrwg, ac na ddichon dim da ddyfod o'r hyn y bo ei ddechreuad yn ddrwg, maent hwythau eu hunain yn hollol ddrwg; fel y dywed Athanasius yn ei Lyfr yn erbyn y Cenhedloedd; a St. Jerom ar y chweched bennod o'r Prophwyd Jeremiah; ac Eusebius yn y seithfed llyfr o'i Hanesyddiaeth Eglwysig, a'r ddeunawfed bennod; gan dystiolaethu mai megis mai oddi wrth y Cenhedloedd delw-addolgar y daethant attom ni, ac mai eu dyfeisiad hwy oedd dechreu putteindra ysprydol, fel y tystia gair Duw, felly hwy yn naturiol (megis o angenrheidrwydd) a ddychwelant i'r gwreiddyn dechreuol y daethant o hono, ac a'n tynnant ni trwy drais i eilun-addoliaeth cas gan Dduw a phob dyn duwiol.

Ac os tarddodd delwau a'u haddoliad (fel y dywedir yn yr wythfed bennod o Lyfr y Doethineb) oddi ar gariad dall-bleidiol tad anwesog, yn llunio, er ei ddiddanwch, ddelw ei fab a fuasai farw, a dynion yn syrthio felly o'r diwedd i addoli delw 'r hwn y gwyddent ei fod yn farw; pa faint mwy y syrth meibion a merched i addoli delwau Duw Dad, ein Hiachawdwr Crist, a'i Seintiau, os goddefir iddynt aros yn gyhoedd mewn Temlau ac Eglwysydd?—— Oblegid po mwyaf y byddo 'r dyb am fawrhydi a sancteiddrwydd y person y gwneler delw iddo, cyntaf oll y syrth y bobl i'w haddoli hi.

Gan hynny delwau o Dduw, ein Hiachawdwr Crist, y Wynfydedig Forwyn Fair, yr Apostolion, y Merthyri, ac eraill nodedig am eu sancteiddrwydd, yw 'r enbyttaf o bob delwau i berygl eilun-addoliaeth, ac am hynny y dylid cymmeryd mwyaf o ofal rhag goddef i un o honynt sefyll yn gyhoeddus mewn Eglwysydd a Themlau. Canys ni raid fawr ofni gwympo o neb i addoli delwau o Annas, Caiaphas, Pilat, neu Judas fradwr, pe gosodid hwy i fynu; ond i'r lleill profwyd eisoes ddarfod rhoi addoliad, ac, yn ol pob tebygolrwydd, y rhoir hefyd yn wastadol rhegllaw.

Yn awr, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ac y dangosir yma 'n helaethach, nid yw naturiaeth dyn yn tueddu at addoli delwau (os gall efe ond eu cael a'u gweled) yn ddim amgen nag y mae 'n gogwyddo at anlladrwydd a godineb ynghwmpeini putteiniaid:——

Ac megis wrth ddyn wedi ymroi i chwant y cnawd, yn gweled puttain, yn eistedd yn ei hymyl, ac yn ei chofleidio, ni byddai fawr o les i neb ddywedyd, "Gochel odineb; putteinwŷr a godinebwŷr a farna Duw:" (canys ni wrandawai efe, wedi cael ei orchfygu gan hudoliaethau cryfach y buttain, ac ni syniai ddim ar y fath rybuddion duwiol; ac os gadewid ef ar ol hynny yn unig gyd â'r buttain, ni allai dim ddilyn ond drygioni:) ac felly 'r un modd, os goddefwch osod i fynu ddelwau mewn Eglwysydd a Themlau, yn ofer yr erchwch i'r bobl ymgadw oddi wrth eilunod, fel y gwna St. Ioan, a ffoi oddi wrth eilun-addoliaeth, fel y'n rhybuddir ni gan yr holl Ysgrythyrau; ofer fydd i chwi geisio eu dysgu a phregethu iddynt yn erbyn eilun-addoliaeth: canys cwympa llaweroedd er hynny i'w haddoli, yn gystal o herwydd naturiaeth y delwau, ag o herwydd tuedd eu hanian lygredig eu hunain.

Felly megis mai temtio Duw yw i ddyn wedi ymroi i chwant, eistedd yn ymyl puttain; felly nid yw gosod delw i fynu, a natur dyn mor dueddol at eilun-addoliaeth, yn ddim amgen na themtio Duw.

Yn awr, os dywed neb "nad yw 'r gyffelybiaeth hon yn profi dim," gadawed i air Duw, attolwg, o'r hwn y cymmerwyd y gyffelybiaeth, brofi rhywbeth.—— Onid yw gair Duw yn galw eilun-addoliaeth yn odineb ysprydol? Onid yw 'n galw eilun neu ddelw wedi ei goreuro, yn buttain wedi coluro ei hwyneb? Onid yw drygau ysprydol hudoliaethau eilun, yn debyg i weniaith puttain drythyll? Onid yw meibion a merched mor dueddol at butteindra ysprydol (sef eilun-addoliaeth) ag at butteindra cnawdol?

Os gwedir hyn, bydded i holl genhedloedd y ddaear, y rhai a fuant yn eilun-addolwŷr, (fel y dangosir ym mhob hanesyddiaeth) brofi ei fod yn wir.—— Bydded i'r Iuddewon, pobl Dduw, brofi fod hyn yn wir, y rhai a rybuddiwyd mor fynych ac mor ddifrifol, ac a fygythiwyd mor

ofnadwy, ynghylch delwau ac eilun-addoliaeth, ac a gospwyd mor llym o'r herwydd, ac er hynny a gwympasant i hynny; fel y gellir gweled yn eglur bron yn holl Lyfrau 'r Hen Destament, megis y Brenhinoedd, y Croniclau, a'r Prophwydi.—— Bydded i bob oes ac amser, a dynion pob oes ac amser, o bob gradd a sefyllfa, doethion, dysgedigion, Tywysogion, deiliaid, annysgedigion a chyffredinolion, brofi fod hyn yn wirionedd.

Os mynnwch gael esamplau am ddoethion, cymmerwch yr Aiphtiaid a Gymnosophistiaid yr India, y dynion doethaf yn y byd; a chymmerwch Solomon, y doethaf o bawb oll.—— Am ddysgedigion, cymmerwch y Groegiaid, ac yn enwedig yr Atheniaid, y rhai oedd yn rhagori ar bob cenedl arall mewn ofergoel a delw-addoliaeth, fel y cyhudda St. Paul hwy yn Actau 'r Apostolion.—— Am Dywysogion a Llywiawdwŷr, cymmerwch y Rhufeiniaid, prif reolwŷr y ddaear; cymmerwch y Brenhin Solomon, a holl frenhinoedd Israel a Judah ar ei ol, oddi eithr Dafydd, Hezecïah, Josïah, ac un neu ddau yn ychwaneg.—— Cymmerwch, meddaf, yr holl Dywysogion a'r Llywiawdwŷr doethion a dysgedig hyn, ac aneirif eraill, yn esamplau i brofi gogwyddiad dynion at eilun-addoliaeth; *heb son* am aneirif liaws a myrddiynau o bersonau neillduol ac annysgedig, y werin anwybodus a difedr, y rhai sy fel meirch neu fulod, heb ddeall ganddynt, perygl ac enbydrwydd y rhai i syrthio 'n fagadau i eilun-addoliaeth, trwy achlysur delwau, y mae 'r Ysgrythyr yn neillduol yn ei rag-ddangos ac yn rhag-rybuddio yn ei gylch.—— Ac yn wir, pa fodd y gall yr annysgedig, yr ehud, a'r ynfyd, ddïangc rhag maglau a rhwydau eilunod a delwau, yn y rhai y dyryswyd, y maglwyd, ac y daliwyd y dynion callaf a goreu eu dysgeidiaeth?

Mae ein hymresymmiad, gan hynny, yn dal y tir hwn yn ddïogel, sef bod dynion drwy eu hanian lygredig mor hyblyg at odineb ysprydol ag ydynt at odineb cnawdol: ac yr oedd doethineb Duw yn rhagweled hyn; ac am hynny at y gwaharddiad cyffredinol, *Na byddai i neb wneuthur iddynt eu hunain lun na delw,* Efe a ychwanegodd y rheswm hwn, ag sy 'n ymddibynu ar natur lygredig dyn; *Rhag ymlygru o honoch,* ebe Duw, *a'u gwasanaethu hwynt.*[1]

Ac oddi wrth y rheswm hwn o duedd lygredig dyn at odineb ysprydol yn gystal a chnawdol, y dilyn mai megis y dylai Penllywydd duwiol, yn caru onestrwydd ac yn casâu trythyllwch, yrru ymaith bob putteiniaid a mursennod, yn enwedig o leoedd yr ydys yn gwybod eu bod yn ddrwg-dybus, neu y cynniweiria rhai drwg iddynt, er mwyn gochelyd putteindra cnawdol; felly y dylai yr un Penllywydd duwiol, yn ol esampl y brenhinoedd duwiol Hezecïah a Josïah, yrru ymaith bob

[1] Deut. 4. 16, 19.

putteiniaid ysprydol (sef eilunod a delwau) yn enwedig o leoedd drwg-dybus, Eglwysydd a Themlau, enbyd i addoli ynddynt y delwau a osodir yno, megis mewn lle a bennodwyd i'r anrhydedd a'r addoliad uchaf, fel y dywed St. Awstin, lle y dylid addoli 'r Duw byw yn unig, ac nid meini a phreniau meirwon:—— Swydd Penllywyddion duwiol, meddaf, yw gyrru ymaith ddelwau o'r Eglwysydd a'r Temlau, megis putteiniaid ysprydol o leoedd drwg-dybus er mwyn gochelyd delw-addoliad, yr hyn yw godineb ysprydol.

Ac megis mai gelyn i bob onestrwydd fyddai 'r dyn a ddygai butteiniaid a mursennod o'u cornelau dirgel i'r farchnadfa gyhoeddus, i drigo yno ac i arferyd eu marsiandïaeth front yn rhydd; felly gelyn i wir addoliad Duw ydyw 'r dyn sy 'n dwyn eilunod a delwau i'r Deml a'r Eglwys, Tŷ Dduw, i gael eu haddoli 'n gyhoeddus yno, ac i yspeilio 'r Duw Eiddigus o'i anrhydedd, *yr Hwn ni rydd ei ogoniant i arall, na'i fawl i ddelwau cerfiedig;*[1] yr Hwn sy 'n cael ei wrthod gymmaint, a'r rhwymyn cariad sy rhyngddo Ef a dyn yn cael ei dorri gymmaint, drwy eilun-addoliaeth, sef godineb ysprydol, ag y mae cwlwm a rhwymyn priodas yn cael ei dorri drwy odineb cnawdol:——

Cymmerwch hyn oll yn *gelwydd*, os nad yw gair Duw yn profi ei fod yn *wir*. *Melldigedig*, ebe Duw yn Deuteronomium, *yw'r gwr a wnelo ddelw gerfiedig neu doddedig, ac a'i gosodo mewn lle dirgel. A'r holl bobl a attebant ac a ddywedant, Amen.*[2] Fel hyn y dywed Duw: canys y pryd hwnnw ni feiddiai neb feddu nac addoli delwau 'n gyhoeddus, ond mewn lleoedd dirgel yn unig:—— a chan fod yr holl fyd yn Deml fawr i Dduw, pwy bynnag sy mewn un gornel o hono yn yspeilio Duw o'i ogoniant, ac yn ei roi ef i bren a maen, fe gyhoedda gair Duw fod hwnnw yn felldigedig.

Yn awr, y sawl a ddygo 'r putteiniaid ysprydol hyn o'u llochesau dirgel i Eglwysydd a Themlau cyhoeddus, fel y gwneler yno odineb ysprydol gyd â hwynt gan wŷr a gwragedd yn ddigywilydd, dïau fod y dyn hwnnw yn felldigedig gan Dduw, ïe yn felldigedig â melldith ddauddyblyg, a phob meibion a merched da a duwiol a ddywedant *Amen*, a bydd eu *Hamen* yn effeithiol hefyd.

Ië, ac ym mhellach, y mae gorphwylldra Cristionogion er's llawer cant o flynyddoedd bellach, ac hyd yn nod yn ein dyddiau ninnau, a'r Efengyl yn llewyrchu cymmaint, yn rhedeg yn fagadau dros dir a môr, gan golli eu hamser, gwario a threulio eu golud, amddifadu eu gwragedd a'u plant a'u teuluoedd, a pheryglu eu cyrph a'u bywydau eu hunain, i Compostela, Rhufain, Jerusalem, a gwledydd pellenig eraill,

[1] Esay 42. 8. [2] Deut. 27. 15.

i ymweled â choed a meini mudion a meirwon,—— mae hyn, meddaf, yn cwbl-brofi parodrwydd natur lygredig dyn i geisio ac i addoli eilunod, wedi iddynt unwaith gael eu gosod i fynu.

Ac fel hyn mae 'n amlwg wrth ddechreuad a naturiaeth eilunod a delwau eu hunain, ac wrth ogwyddiad a hyblygedd anian lygredig dyn at eilun-addoliaeth, nas gellir gwahanu delw-addoliaeth oddiwrth ddelw-au, os gosodir hwy i fynu yn gyhoeddus, ac na ellir attal na chadw dynion oddi wrth ddelw-addoliaeth, os gwelant ddelwau mewn Temlau ac Eglwysydd.

Ac yn awr lle'r haerant etto, pa fodd bynnag y bu i bobl, Tywysog-ion, dysgedigion, a doethion yr hen amseroedd, gwympo i eilun-addol-iaeth drwy achlysur delwau, etto, yn ein hamser ni, nad yw y rhan fwyaf, yn enwedig y dysgedigion, y doethion, a'r rhai sydd mewn awdurdod, yn cael dim niweid na thramgwydd oddi wrth eilunod a delwau, nac yn rhedeg attynt i wledydd pell, nac yn eu haddoli; ac y gwyddant yn dda beth ydyw eilun neu ddelw, a pha fodd i'w harferyd:—— ac o ganlyniad mai pethau diddrwg-didda ydyw delwau mewn Eglwysydd a Themlau, ac mai nid pawb sy 'n eu cam-arfer; ac am hynny y gallant ddala 'n gyfiawn (megis y gwelsom yn nechreu y rhan hon eu bod yn haeru) mai nid peth anghyfreithlon a drwg ynddo ei hun yw meddu delwau mewn Temlau ac Eglwysydd, er, o achos y perygl i'r werin ehud, na 's gall ymddangos yn beth hollol fuddiol.

Yn erbyn hyn gellir yn hawdd atteb, fod Solomon hefyd, y doethaf o ddynion, yn gwybod yn dda beth oedd eilun neu ddelw, ac na chafodd dros hir ennyd ddim niweid oddi wrthynt ei hunan, ac yr arfogodd er-aill hefyd â'i ysgrifeniadau duwiol yn erbyn eu henbydrwydd hwy.—— Ond etto wedi hynny, pan oddefodd yr un Solomon i'w butteiniaid trythyll ddwyn eu delwau i'w lys a'i balas, efe a berswadiwyd gan butteiniaid cnawdol ac a ddygwyd o'r diwedd i wneuthur godineb ysprydol gyd âg eilunod, ac o fod yn Dywysog doethaf a duwiolaf, efe a aeth yn ffolaf ac yn annuwiolaf.

Gwell ynte yw hyd yn nod i'r doethaf edrych at y rhybydd hwn; *Yr hwn a hoffa enbydrwydd, a ddifethir ynddo:*[1] ac hefyd; *Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio,*[2] yn hytrach na gosod, trwy wybod ac o'i fodd, gyfryw faen tramgwydd i'w draed ei hun ac eraill ag a allo yn y diwedd eu dwyn i dorri eu gyddfau.

Fe wyddai y brenhin da Hezeciah yn dda ddigon nad oedd y Sarph Bres ond delw ddifywyd, ac am hynny ni chafodd niweid ei hun oddi hi drwy ei haddoli. Ond a adawodd efe iddi sefyll, am na chafodd

[1] Eccles. 3. 26. [2] 1 Cor. 10. 12.

efe ei hun niweid oddi wrthi? Na, nid felly. Ond gan ei fod yn frenhin da, ac am hynny yn gofalu am iachawdwriaeth ei ddeiliaid ffolion, a dwyllid gan y ddelw honno, ac a'i haddolent hi, efe nid yn unig a'i tynnodd i lawr, ond hefyd a'i maluriodd yn llwch:—— ac efe a wnaeth hyn i'r ddelw a osodasid i fynu trwy orchymyn Duw, yngŵydd yr hon y gwnelsid gwyrthiau mawrion, a'r hon oedd yn gysgod o'n Hiachawdwr Crist, yr hwn oedd i ddyfod i'r byd i'n gwaredu ni oddi wrth golyn marwol yr hen Sarph, sef Satan.

Ac nid arbedodd hi o ran ei henafiaeth, yr hon a barhasai dros saith gan mlynedd, nac am iddi gael ei goddef a'i chadw gan gynnifer o frenhinoedd duwiol cyn ei amser ef.

Pa fodd, dybygwch chwi, y trinai'r Tywysog duwiol hwnnw, pe byddai efe byw yn awr, ein delwau *ni*, a osodir i fynu'n hollol groes i orchymyn Duw, ac heb fod yn gysgodau o ddim ond ffolineb, ac i ffyliaid lygadrythu arnynt, nes y maent yn myned mor ynfyd a'r cyffion ag y maent yn syllu arnynt, ac felly yn cwympo i lawr, yn y llygad-rythiad hwnnw, fel adar wedi eu llygad-tynnu; ac a hwy yn fyw eu hunain, ydynt yn addoli pren neu faen difywyd, aur neu arian; ac felly y maent yn myned yn eilun-addolwŷr ffiaidd a melldigaid ger bron y Duw byw, gan roi'r anrhydedd dyledus i'r hwn a'u gwnaeth, pan oeddynt yn ddim, ac i'n Hiachawdwr Crist, yr hwn a'u prynodd pan oeddynt yn golledig, i'r eilun mud a difywyd, gwaith llaw dyn, yr hwn ni wnaeth ac ni all wneuthur dim erddynt, ie yr hwn ni all gymmaint ag ysgogi, ac sydd felly'n waeth na phryfyn gwael, yr hwn a *all* ysgogi ac ymlusgo.

Ni chafodd y brenhin rhagorol Josïah chwaith ddim niweid ei hun oddi wrth ddelwau ac eilunod, canys fe wyddai'n dda beth oeddynt. A oddefodd efe, o herwydd ei wybodaeth ei hun, i eilunod a delwau sefyll, chwaithach eu gosod hwy i fynu?—— Oni chynnorthwyodd efe yn hytrach, trwy ei wybodaeth a'i awdurdod, anwybodaeth y cyfryw a'r na wyddent pa beth oeddynt, drwy hollol gymmeryd ymaith bob cyfryw dramgwyddiadau ag a achlysurent ddistryw i'w bobl a'i ddeiliaid?

Ac oblegid bod ychydig heb gael niweid trwy ddelwau neu eilunod, a dorrant hwy am hynny ddeddf gyffredinol Duw, NA WNA IT' LUN DIM, &c.?—— Gallent yn gystal am na hudwyd Moses gan ferch Jethro, na Boaz gan Ruth, y rhai oeddynt wragedd dïeithr, ymresymu y gallai'r holl Iuddewon dorri cyfraith gyffredinol Duw, yr hon sy'n gwahardd i'w bobl Ef uno eu plant â dïeithriaid, rhag hudo o honynt eu plant i beidio â chanlyn Duw.

Y rhai gan hynny a ymresymmant fel hyn, fod yn *gyfreithlon*, er nad yw yn *llesol*, fod delwau'n gyhoeddus, ac a brofant gyfreithlondeb hynny drwy esamplau ambell ddyn dewisol, wedi eu hethol ganddynt o

bwrpas i hynny; os ydynt yn rhoi yn ddiwahaniaeth i bawb yr hyn ni 's gall ond ychydig ei dderbyn heb niweid a thramgwydd; ymddengys eu bod yn ystyried llïaws y cyffredin *yn eneidiau diwerth*, (fel y dywed hwnnw yn Virgil,) o golledigaeth neu ddïogelwch y rhai ni ddylid gwneuthur cyfrif, dros y rhai er hynny y talodd Crist mor brid a thros y Tywysog galluoccaf, neu dros y rhai doethaf a dysgediccaf ar y ddaear:——

A'r rhai a fynnant ystyried y peth hwnnw yn gyffredin yn beth diddrwg-didda, yr hyn y mae ychydig heb gael niweid oddi wrtho, er fod llïaws aneirif o rai eraill yn cael eu dinystrio drwyddo, a ddangosant nad ydynt yn gwneuthur ond ychydig wahaniaeth rhwng y llïaws o Gristionogion ac anifeiliaid direswm, perygl y rhai y maent yn gwneuthur lleied cyfrif o hono.

Ac heblaw hyn, os Esgobion, neu Bersoniaid, neu eraill ag sydd â gofal cydwybodau dynion arnynt, sy 'n ymresymmu fel hyn, "*Fod yn gyfreithlon, er nad yn llesol, bod delwau 'n gyhoeddus,*" pa fath Fugeiliaid y maent hwy 'n dangos eu bod i'w praidd, y rhai a wthiant iddynt yr hyn y maent hwy eu hunain yn cyffesu nad ydyw yn llesol iddynt, i lwyr ddinystr yr eneidiau a ymddiriedwyd i'w gofal, am y rhai y bydd gorfod arnynt roi cyfrif manol ger bron y Pen-Bugail yn y dydd diweddaf.—— Canys y mae gosod y cyfryw dramgwyddiadau o flaen y rhai sy weiniaid a pharod i syrthio o honynt eu hunain, nid yn unig yn beth aflesol, ond hefyd yn beth anghyfreithlon ac eithaf drygionus.

Am hynny y mae 'n rhyfedd eu bod yn gallu galw delwau wedi eu gosod i fynu mewn Eglwysydd a Themlau, heb na lles na budd oddi wrthynt i neb, ond o fawr berygl, ïe niweid a dinystr i lawer, ïe i aneirif o eneidiau, yn bethau diddrwg-didda. Onid yw eu gosod hwy i fynu yn hytrach yn fagl i ddynion ac yn demtio Duw?

Yr wyf yn deisyf ar yr ymresymmwŷr hyn alw i gof eu hordeiniad a'u gorchymyn defodol eu hunain, drwy y rhai y penderfynasant na ddarllenid yr Ysgrythyr gan yr annysgedig, na bod iddynt eu meddu yn yr iaith gyffredin, er i Dduw ei Hun orchymyn fod i bob dyn, meibion a merched a phlant, ei gwybod; oblegid fod yn beryglus, meddent, iddi ddwyn y werin anwybodus i gyfeiliornadau:——

Ac oni waharddant osod delwau i fynu mewn Eglwysydd a Themlau, y rhai ni orchymynir, ond a waherddir yn gaeth gan Dduw; ond eu gadael yno, ïe a'u hamddiffyn hefyd, er eu bod yn gweled fod y bobl yn cael eu dwyn trwy hynny nid yn unig i berygl, ond hefyd yn wir i'r cyfeiliornadau atgasaf a'r eilun-addoliaeth ffieiddiaf?

A gaiff *gair Duw*, yr hwn y gorchymynwyd gan Dduw i bawb ei ddarllen a'i wybod, ei gau i fynu rhag ofn heresi, fel y dywedant; ac a

gaiff *delwau* er hynny, eu gosod i fynu, eu goddef, a'u hamddiffyn mewn Eglwysydd a Themlau, er bod Duw yn eu gwahardd, ac er cymmaint enbydrwydd delw-addoliaeth sydd oddi wrthynt?

O gnawdol a bydol ddoethineb! fyth yn plygu i amddiffyn dychymmygion a thraddodiadau dynion drwy reswm cnawdol, ond yn barod drwy yr unrhyw i ddiddymmu ac anurddo ordinhadau, deddfau, ac anrhydedd Sanctaidd y tragywyddol Dduw, yr Hwn biau 'r anrhydedd a'r moliant byth bythoedd. Amen.

Bellach mae 'n aros, i derfynu 'r Traethawd hwn, ddangos o honom gam-ddefnyddiad Eglwysydd a Themlau drwy eu trwsio a'u haddurno yn rhy gostfawr a gorwych, ac hefyd trwy ddrygionus baentio, goreuro, a dilladu delwau ac eilunod;—— ac felly diweddu 'r holl Draethawd.

Yn amser Tertulian, wyth gan mlynedd gwedi Crist, nid oedd gan Gristionogion amgen Temlau na thai cyffredin, i'r rhai y cyrchent fynychaf yn ddirgel. Ac mor bell oeddynt oddi wrth feddu temlau addurnedig a gwychion cyn ei amser ef, ag y gwnaed cyfreithiau yn amser yr Ymherawdwŷr Antoninus, Verus, a Commodus, na chaffai Cristionogion breswylio mewn tai, dyfod i'r baddonau cyhoeddus, nac ymddangos yn yr heolydd nac mewn un lle cyhoeddus; ac os cyhuddid hwy unwaith o fod yn Gristionogion, na oddefid mewn modd yn y byd iddynt ddiangc.

A rhoddwyd hyn mewn grym ar Apolonius, Senadur pendefigaidd o Rufain, yr hwn pan gyhuddwyd ef gan ei gaethwas ei hun o fod yn Gristion, ni's gallodd na thrwy ei amddiffyniad a ysgrifenwyd yn ddysgedig ac ymadroddus, ac a ddarllenwyd yn gyhoeddus yn y Senedd; nac o ran ei fod yn ddinesydd; nac o ran urddas ei sefyllfa; nac oblegid gwaelder ac anghyfreithlonrwydd ei gyhuddwr, sef ei gaethwas ei hun, ac am hynny oedd yn debyg, o ran cenfigen, o lunio celwydd yn erbyn ei feistr; na thrwy un modd nac ymwared arall, ei wared ei hun rhag marwolaeth.

Felly gyrrid Cristionogion y pryd hwnnw i drigo mewn ogofeydd a ffauau; mor bell oeddynt oddi wrth feddu Temlau wedi eu harddu a'u haddurno fel y maent yn awr.

Adroddir hyn yn y fan hon i argyhoeddi y rhai a adroddant gyfryw wych chwedlau celwyddog am y Temlau godidog a harddwych ag oedd gan St. Petr, Linus, Cletus, a'r deng Esgob ar hugain a'u holynasant yn Rhufain, hyd amser yr Ymherawdwr Constantin; a'r hon oedd gan St. Polycarp yn Asia, ac Ireneus yn Ffraingc—— er mwyn amddiffyn, drwy y fath gelwyddau, yn groes i bob hanesion cywir, ormodd goreuro a harddu Temlau yn y dyddiau hyn, yn yr hyn y maent yn ystyried fod holl swm a sylwedd eu crefydd bron yn gynnwysedig.

Ond yn yr amser hwnnw fe ennillwyd y byd i Gristionogaeth, nid

drwy *demlau* ardderchog, goreurog, a phaentiedig y Cristionogion, y rhai prin oedd ganddynt dai i drigo ynddynt; ond drwy *feddyliau* duwiol a goreurog (megis), a ffydd gadarn y sawl a broffesasant wirionedd ein crefydd ni dan bob adfyd ac erledigaeth.

Ac wedi 'r amseroedd hynny, ynghyhoeddiad yr Ymherawdwŷr Maximian a Constantin, gelwid y mannau y cyrchai 'r Cristionogion iddynt i weddïo 'n gyhoeddus yn Ymgynnullfaoedd. Ac yn llythyr yr Ymherawdwr Galerius Maximinus gelwir hwy yn *oratoria* a *Dominicæ*, sef lleoedd wedi eu cyssegru i Wasanaeth yr Arglwydd.

Ac yma gellir nodi, wrth fyned heibio, nad oedd y pryd hwnnw ddim Eglwysydd na Themlau wedi eu hadeiladu i neb Sant, ond i Dduw yn unig; megis hefyd y mae St. Awstin yn adrodd, gan ddywedyd, "Nid ydym yn adeiladu dim Temlau i'r Merthyri."

A geilw Eusebius ei hun Eglwysydd yn Dai gweddi, a dengys fod pawb yn amser yr Ymherawdwr Constantin yn llawenychu wrth weled fod Temlau uchel yn cael eu hadeiladu yn lle 'r Ymgynnullfaoedd isel a ddistrywiasai 'r gormeswŷr.

Wele, hyd amser Constantin, dros dri chan mlynedd ar ol ein Hiachawdwr Crist, pan oedd y grefydd Gristionogol buraf, ac yn wir yn euraidd, nid oedd gan Gristionogion ond Ymgynnullfaoedd isel a thlodaidd, a Thai gweddi dïaddurn, ïe ogofeydd dan y ddaear, a elwid *cryptæ*, lle 'r ymgynhullent yn ddirgel rhag ofn erledigaeth.—— Coffadwriaeth o'r hyn yw 'r ogofau a adeiledir etto dan Eglwysydd mawrion, i ddwyn ar gof i ni hen gyflwr y Brif Eglwys cyn amser Constantin:——

Ond yn amser Constantin, ac ar ei ol ef, adeiladwyd Temlau mawrion a theg i'r Cristionogion, a gelwid hwy *Basilicæ;* naill am fod y Groegiaid yn arfer galw pob lle mawr a theg yn *Basilica*, neu am fod y Brenhin Goruchel a Thragywyddol, Duw, a'n Hiachawdwr Crist, yn cael ei wasanaethu ynddynt.

Ond er darfod i Constantin a Thywysogion eraill, o zel dda dros ein crefydd ni, harddu ac addurno 'n gostfawr Demlau Cristionogol, etto hwy a gyssegrent y pryd hwnnw bob Eglwys a Theml i Dduw neu i'n Hiachawdwr Crist, ac nid i neb o'r Seintiau; canys ni ddechreuodd y cam-arferiad hwn hyd ym mhell ar ol amser Justinian.

Ac fel yr arferid ac y cyd-ddygid â'r cyfryw orwychedd y pryd hwnnw, megis peth yn tarddu oddi ar zel dda, etto awgrymmai dysgedigion duwiol, hyd yn nod yn yr amser hwnnw, y gallesid defnyddio 'r fath draul mewn ffordd amgenach.

Bydded St. Jerom (yr hwn mewn matterion eraill oedd yn rhy hoff o bethau allanol) yn dyst o hyn; yr hwn sy ganddo 'r geiriau hyn yn ei lythyr at Demetriades:—— "Gad i eraill," ebe St. Jerom, "adeiladu

Eglwysydd, gorchuddio eu parwydydd â byrddau o fynor, dwyn yng nghyd golofnau dirfawr, a goreuro eu pennau hwynt, y rhai nid ydynt yn teimlo nac yn deall eu hoywiad a'u haddurniad prisfawr; gad iddynt addurno 'r dorau âg ifori ac arian, a harddu 'r allorau aur â meini gwerthfawr. Nid wyf fi yn beio dim ar hyn. Bydded pob dyn yn helaeth yn ol ei ystyr ei hun; a gwell iddynt wneuthur felly na chadw a thrysori eu cyfoeth yn rhy ofalus. Ond mae i ti ffordd arall wedi ei gosod i ti—— dilladu Crist yn y tlodion, ymweled âg Ef yn y cleifion, ei borthi yn y newynog, ei lettya yn y rhai sydd heb letty, ac yn enwedig y sawl sydd o deulu 'r ffydd."

A chrybwylla 'r unrhyw St. Jerom yr un peth yn helaethach yn ei Draethawd am Fuchedd Gwŷr Eglwysig at Nepotian, gan ddywedyd fel hyn:—— "Mae llawer yn adeiladu muriau ac yn cyfodi colofnau Eglwysydd; mae 'r mynor llyfn yn disgleirio, y nen yn llewyrchu gan aur, a'r allor wedi ei harddu â meini gwerthfawr: ond o Weinidogion Crist nid oes na dewisiad nac etholiad. Ac na ddyged neb i'm herbyn y Deml gyfoethog oedd yn Jerusalem, lle 'r oedd y bwrdd, y canhwyll-brennau, y thuserau, y cawgiau, y dysglau, a phob peth arall i gyd yn aur: yr oedd yr Arglwydd yn foddlon i'r pethau hyn y pryd hynny, pan yr oedd yr Offeiriaid yn offrwm aberthau, a phan gyfrifid gwaed anifeiliaid yn iawn am bechod. Ond aeth y pethau hyn oll o'r blaen yn gysgodau, ac a ysgrifenwyd er ein mwyn ni, *ar y rhai y daeth terfynau 'r oesoedd.*[1]—— Ac yn awr, pan y darfu i'n Harglwydd, ac Efe 'n dlawd, gyssegru tlodi ei Dŷ, cofiwn ei Groes Ef, ac ni a gyfrifwn olud megis tom a llaid. Pa beth a wnawn yn synnu wrth yr hyn a eilw Crist *y Mammon anghyfiawn?*[2] Paham yr ydym yn prisio mor uchel ac yn hoffi cymmaint ar yr hyn y dywedodd St. Petr am dano gan ymogoneddu, *Arian ac aur nid oes gennyf?*"[3]—— Hyd yma mae geiriau St. Jerom.

Fel hyn chwi a welwch fod St. Jerom yn ein dysgu mai cysgod i arwyddoccâu, ac mai nid esampl i'w dilyn, oedd y gwychder costfawr ym mhlith yr Iuddewon; ac y goddefwyd y pethau allanol hynny dros amser, nes y delai Crist ein Harglwydd, yr Hwn a'u trodd oll yn yspryd, ffydd, a gwirionedd.

Ac fe ddywed yr unrhyw St. Jerom ar y seithfed bennod o Jeremiah; "Gorchymynodd Duw i'r Iuddewon y pryd hwnnw, ac yn awr i ninnau y rhai a osodir yn yr Eglwys, nad ymddiriedom yn nhegwch adeilad a nennau goreurog, nac mewn muriau wedi eu gorchuddio â byrddau o fynor, a dywedyd *Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd.*[4]

[1] 1 Cor. 10. 11. [2] St. Luc 16. 11. [3] Act. 3. 6. [4] Jer. 7. 4.

Canys honno yw Teml yr Arglwydd, yn yr hon y mae gwir ffydd, duwiol ymarweddiad, a chwmpeini pob rhinweddau, yn preswylio."

Ac ar y Prophwyd Haggai, y mae yn darlunio gwir ac uniawn drwsiad ac addurniadau 'r Deml fel hyn; "Yr wyf yn tybied," ebe St. Jerom, "mai 'r *arian* yr addurnir Tŷ Dduw âg ef, yw athrawiaeth yr Ysgrythyrau, am yr hon y dywedir; *Geiriau 'r Arglwydd ydynt eiriau purion; fel arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro seithwaith.*[1]—— Ac yr wyf yn tybied mai 'r *aur* yw 'r peth sydd yn aros yn nheimlad cuddiedig y Saint, ac yn nirgelwch y galon, ac sy 'n disgleirio gan wir oleuni Duw. Yr hyn (y mae 'n eglur) oedd meddwl yr Apostol hefyd ynghylch y Saint a adeiladant ar sylfaen Crist, rhai arian, rhai aur, a rhai feini gwerthfawr;[2] ac y gallai 'r *aur* arwyddoccâu y teimlad cuddiedig; yr *arian*, ymadroddi duwiol; a'r *meini gwerthfawr*, weithredoedd sy 'n boddloni Duw. Ac â'r mettelau hyn gwneir Eglwys ein Hiachawdwr yn deccach a gwychach nag oedd y Synagog yn yr hen amser. A'r meini bywiol hyn yr ydys yn adeiladu Tŷ ac Eglwys Crist, ac iddi y rhoir tangnefedd yn dragywydd."—— Yr holl eiriau hyn ydynt eiddo St. Jerom.

Ac nid oedd hen Esgobion a Doctoriaid duwiol yr Eglwys, mwy nag yntau, yn cymmeradwyo hoywi gormod ar Demlau ac Eglwysydd â dodrefn a llestri aur ac arian, ac â gwisgoedd gwerthfawr.

Fe ddywed St. Chrysostom, na raid, yngweinyddiad y Sanctaidd Sacramentau, wrth *lestri* aur, ond wrth *feddyliau* aur.

Ac ebe St. Ambros, "Heb aur y danfonodd Crist ei Apostolion, ac heb aur y casglodd Efe ei Eglwys. Mae aur gan yr Eglwys, nid i'w gadw, ond i'w dreulio ar angenrheidiau 'r tlodion. Nid am aur y mae 'r Sacramentau 'n edrych; ac nid yw y rhai a brynwyd *nid* âg aur, yn boddloni Duw ó *herwydd* yr aur. Harddu ac addurno 'r Sacramentau yw prynu carcharorion o'u caethiwed."—— Hyd yma y mae geiriau St. Ambros.

Mae St. Jerom yn canmol Exuperius Esgob Tolose, am ei fod yn dwyn Sacrament Corph yr Arglwydd mewn basged wiail, a Sacrament ei waed Ef mewn llestr gwydr; ac felly yn cau cybydd-dod allan o'r Eglwys.

A Bonifacius, Esgob a Merthyr, fel y coffeir yn yr Ordeiniadau, a dystiolaetha y byddai y Gweinidogion gynt yn arfer llestri coed, ac nid llestri aur.

A Zephyrinus, unfed Esgob ar bymtheg Rhufain, a wnaeth ordeiniad ar fod iddynt ddefnyddio llestri gwydr.

[1] Ps. 12. 6. [2] 1 Cor. 3. 12.

Felly hefyd yr oedd y gwisgoedd a arferid yn yr Eglwys yn yr hen amseroedd yn ddïaddurn, syml, a digost. A mynega Rabanus yn helaeth ddarfod cyrchu 'r addurniadau costwych hyn, sydd yn y gwisgoedd a arferwyd yn ddiweddar yn yr Eglwys, oddi wrth arferiad yr Iuddewon, a'u bod yn cyttuno bron yn hollol â dull gwisgoedd Aaron. Er mwyn amddiffyn hyn, mae 'r Pab Innocentius yn cyhoeddi 'n dalgryf na 's diddymmwyd holl ddefodau 'r hen gyfraith, fel yr elom ni yn ewyllysgarach, yn y fath wisgad, yn Iuddewaidd o fod yn Gristionogion.

Yr ydys yn nodi hyn, *nid* yn erbyn Eglwysydd a Themlau, y rhai ydynt dra angenrheidiol, ac a ddylent gael eu dyledus ddefnydd a'u hanrhydedd, fel y mynegir mewn Homili arall i'r perwyl hwnnw; na chwaith yn erbyn eu glendid a'u haddurniadau cyfaddas; ond yn erbyn rhŷ wychder a cham-arfer Temlau ac Eglwysydd :—— Canys Eglwys neu Deml yw honno hefyd, yr hon nid yw 'n disgleirio gan fynor, nac yn tywynnu gan aur ac arian, nac yn llewyrchu gan berlau na meini gwerthfawr; ond mewn symlrwydd a chynhildeb mae 'n arwyddoccau nad yw ei hathrawiaeth na 'i phobl yn feilchion, ond yn ostyngedig a dirodres, heb wneuthur dim cyfrif o bethau daearol ac allanol, ond wedi ei harddu 'n ogoneddus âg addurniadau tumewnol, fel y dengys y Prophwyd, gan ddywedyd; *Merch y Brenhin sydd oll yn ogoneddus o fewn.*[1]

Yn awr ynghylch harddu 'n ormodol ddelwau ac eilunod â phaentiad, goreurad, ac addurniad â dillad, a pherlau a meini gwerthfawr; beth yw hyn ond harddu putteiniaid ysprydol yn gostfawr ac yn anllad, er mwyn ychwaneg o annogaeth a llithiad i odineb ysprydol—— yr hyn y mae 'r Eglwys eilun-addolgar yn ei ddeall yn dda ddigon?

Canys gan ei bod hi yn wir nid yn unig yn buttain, (fel y geilw 'r Ysgrythyr hi) ond hefyd yn buttain front, fudr, hen, a gwywedig, (canys yn wir y mae hi mewn gwth o oedran) ac yn deall ei bod yn ddiffygiol mewn gwir degwch naturiol, a'r ffieidd-dra mawr sy ganddi o honi ei hun; y mae hi, yn ol arfer y cyfryw butteiniaid, yn ei choluro ei hun, ac yn ymwisgo ac yn ymhoywi âg aur, perlau, meini, a phob math o emmau prisfawr, fel y gallo hi, gan ddisgleirio â phrydferthwch a goganiant y pethau hynny, foddloni ynfyd fympwy cariadau ffolion, a'u llithio felly i odinebu 'n ysprydol gyd â hi: y rhai pe gwelent hi, (ni ddywedaf yn *noeth)* ond hyd yn nod mewn dillad *syml,* a'i casaent hi megis y buttain ffieiddiaf a buttraf a welwyd erioed :—— fel y gellir gweled wrth bortreiad gwisgad Puttain fawr pob putteiniaid, mam putteindra, a osodir allan gan St. Ioan yn ei Ddatguddiad,[2] yr hon

[1] Ps. 45. 13. [2] Dat. 17. 1—5.

drwy ei gogoniant a annogodd Dywysogion y ddaear i wneuthur godineb gyd â hi.

Ond' yn y gwrthwyneb y mae gwir Eglwys Dduw, fel gwraig brïod ddiwair, *wedi ei dyweddïo i un gwr*,[1] fel y dywed yr Ysgrythyr, sef ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr Hwn yn unig y mae hi'n foddlon i ryngu ei fodd ac i'w wasanaethu, ac nid yw 'n edrych am foddio na llygaid na mympwy cariadau dïeithr; mae *hi* yn foddlon ar ei hadduruiadau naturiol ei hun, heb ammeu nad drwy y fath symldra didwyll y boddia hi Ef oreu, yr Hwn a ŵyr oreu pa fodd i wahaniaethu rhwng wyneb wedi ei goluro a gwir degwch naturiol.

Ac ynghylch y cyfryw brydferth oreuro a harddu delwau, mae gair Duw sydd ysgrifenedig yn y ddegfed bennod o'r Prophwyd Jeremïah, ac Esponiad St. Jerom ar yr unrhyw, yn deilwng o'n sylw difrifolaf.

Yn gyntaf, dyma eiriau 'r Ysgrythyr :——

*Fe gymmyna un bren o'r coed (gwaith llaw 'r saer) â bwyall. Ag arian ac âg aur yr harddant ef; â hoelion ac â morthwylion y sicrhânt ef, fel na syflo. Megis palmwydden, syth ydynt hwy, ac ni lefarant; y mae 'n rhaid eu dwyn hwy, am na allant gerdded. Nac ofnwch hwynt; canys ni allant wneuthur drwg, a gwneuthur da nid oes ynddynt.*[2]—— Dyna eiriau 'r Prophwyd.

Ar yr hwn destun y mae gan St. Jerom y geiriau hyn :——

"Portreiad yw hwn o'r eilunod y mae 'r Cenhedloedd yn eu haddoli: mae eu defnydd yn wael a llygradwy; a chan mai marwol yw eu gwneuthurwr, rhaid mai llygradwy yw 'r pethau a wnelo: mae yn eu harddu âg arian ac âg aur, fel trwy ddisgleirdeb y naill a'r llall o honynt y gallo dwyllo 'r diniweid. Yr hwn gyfeiliornad sy wedi dyfod oddi wrth y Cenhedloedd, fel y barnem ni fod crefydd yn sefyll mewn cyfoeth."

Ac yn y man wedi hynny efe a ddywed; "Mae ganddynt degwch mettelydd, a phrydferthir hwy â'r gelfyddyd o baentio: ond dim daioni na lles nid oes ynddynt."

Ac yn fuan gwedi hynny, "Maent yn gwneuthur addewidion mawrion," eb efe, "ac yn dyfeisio delw ac ofer addoliad o'u dychymmygion eu hunain; maent yn ymffrostio llawer i dwyllo pob un diniweid; maent yn hurtio ac yn syfrdanu deall yr annysgedig âg ymadroddion euraid, a hyawdledd yn llewyrchu â disgleirdeb arian. A chan eu dyfeiswŷr a'u ffurfwŷr eu hunain y clodforir ac y mawrhêir y delwau hyn, yn y rhai nid oes na lles na buddioldeb yn y byd, y rhai y mae eu haddoliad yn perthyn yn brïodol i'r Cenhedloedd a'r Paganiaid, ac i'r cyfryw ag nad adwaenant Dduw."——

[1] 2 Cor. 11. 2. [2] Jer. 10. 3—5.

Hyd yma y mae geiriau St. Jerom: wrth y rhai y gellwch nodi ei farn am y delwau eu hunain, ac hefyd am eu paentio, eu goreuro, a'u haddurno: ei fod yn gyfeiliornad wedi deilliaw oddi wrth y Cenhedloedd,—— ei fod yn perswadio dynion mai mewn golud y mae crefydd yn sefyll,—— ei fod yn syfrdanu ac yn twyllo'r diniweid âg ymadroddion euraid, a ffraethineb yn disgleirio fel arian,—— a'i fod yn perthyn yn briodol i'r Cenhedloedd a'r sawl nad adwaenant Dduw:——

Am hynny mae meddu, paentio, goreuro, a harddu delwau, yn ol barn St. Jerom, yn beth cyfeiliornus, yn twyllo ac yn dwyn i gyfeiliornad, yn enwedig y paganiaid anwybodus, a'r rhai sydd heb adnabod Duw.

Yn wir mae'r prophwyd Daniel, yn yr unfed bennod ar ddeg, yn dangos fod y fath dreulfawr addurno delwau âg aur, arian, a meini gwerthfawr, yn arwydd o deyrnas Anghrist, yr hwn (fel y rhag-ddengys y Prophwyd) a addola Dduw a'r cyfryw bethau harddwych.

Yn awr mae'r cyfryw ormodol harddu ac addurno ar ddelwau wedi arfer cyfodi a chael ei amddiffyn, naill ai o offrymmau a roddwyd mewn ofer-goel ac eilun-addoliaeth, neu o yspeiliad, lledrad, occraeth, neu eiddo wedi eu cael yn anghyfiawn mewn rhyw ddull arall; o'r rhai y rhoes dynion drwg ryw gyfran i ddelwau neu Seintiau (fel y galwant hwy) er mwyn cael maddeuant am y cwbl; fel y gellir yn hawdd weled wrth lawer o ysgrifenadau a hen goffadwriaethau ynghylch achos a diben rhyw roddion mawrion.

Ac yn wir am y cyfryw arian a gafwyd mor annuwiol, gweddusaf yw eu gwario ar ddiben mor annuwiol. Ac y mae'r hyn a dybiant hwy yn iawn i Dduw am y cwbl, yn atgasach yn ei olwg nag ennilliad annuwiol a threuliad annuwiolach y gweddill. Canys mynega'r Arglwydd yn amlwg yn y Prophwyd Esay fel y mae Efe yn anghymmeradwyo'r fath roddion, gan ddywedyd; *Myfi'r Arglwydd a hoffaf gyfiawnder; yr wyf yn casâu trais yn boeth-offrwm:*[1] yr hyn yr oedd hyd yn nod y Cenhedloedd yn ei ddeall:—— Canys dengys Plato fod y sawl a dybiant y pardyna Duw ddynion drwg, os rhoddant iddo Ef ran o'r yspail, yn meddwl ei fod Ef yn debyg i gi a gymmerai ei lithio a'i berswadio â rhan o'r ysglyfaeth, i oddef i'r bleiddiaid larpio'r defaid.

Ac er cael yn *gyfiawn* yr eiddo yr addurnir delwau âg ef, etto mae'n anferth orphwylldra wario mor ynfyd a drygionus yr eiddo a bwrcaswyd mewn doethineb a gwirionedd.

Am y fath ddrygioni fe ysgrifena Lactantius fel hyn:—— "Yn ofer yr hardda dynion ddelwau'r duwiau âg aur, ifori, a meini gwerthfawr,

[1] Esay 61. 8.

fel pe gallent ymhoffi yn y pethau hyn: canys pa ddefnydd a wna 'r sawl nad ydynt yn deall nac yn teimlo o'r cyfryw roddion prisfawr? Dim ond yr un defnydd ag y gwna dynion meirw. Oblegid wrth yr un fath reswm y maent yn claddu cyrph meirwon, wedi eu llanw â pherlysiau ac aroglau, a'u dilladu â gwisgoedd gwerthfawr, ag y maent yn harddu delwau, y rhai nid oeddynt yn teimlo nac yn gwybod pan yr oeddid yn eu gwneuthur, ac nid ydynt yn deall pan anrhydeddir hwynt; canys nid yw eu cyssegriad yn rhoi iddynt na theimlad na dealltwriaeth."

Hyd yma mae geiriau Lactantius, a llawer yn ychwaneg, rhy faith i'w hadrodd yma, gan fynegi mai fel y bydd genethod bychain yn chwareu â babïod bychain, felly, eb efe, y mae 'r delwau addurnedig hyn yn fabïod mawrion, i hen ynfydion chwareu â hwynt.

Ac fel y gwypom beth yw barn nid yn unig dynion o'n crefydd ni, ond *ethniciaid* hefyd, am gyfryw harddu delwau meirwon, nid anfuddiol i ni wrando beth a ddywed Seneca, senadur dysgedig a doeth o Rufain, a philosophydd rhagorol, ynghylch ffolineb hen wŷr pwyllog a arferent addoli ac addurno delwau yn ei amser ef:——

"Nid plant *ddwywaith*," ebe Seneca, "ydym, (yn ol y dywediad cyffredin) ond plant *bob amser;* ond hyn yw 'r gwahaniaeth, ein bod ni 'n chwareu 'r plant er ein bod yn *hynach;* ac yn y chwareuon hyn maent yn dwyn ger bron babïod mawr trwsiadus," (canys felly y geilw efe ddelwau) "ennaint ac arogl-darth peraidd. I'r babïod hyn, y rhai, er fod genau ganddynt, ni allant wneuthur dim defnydd o'u dannedd, maent yn offrymmu aberth. Am y rhai hyn y maent yn rhoi dillad hardd a gwerthfawr, a hwythau heb fedru *defnyddio* dillad. I'r rhai hyn y maent yn rhoi aur ac arian, er na 's gallant eu derbyn, na'u harferu."—— Ac y mae Seneca yn mawr ganmol Dionysius Brenhin Sicilia am iddo mewn digrifwch yspeilio 'r fath wychion fabïod o'u tlysau.

Ond chwi a ofynwch, pa beth y mae 'r hyn a ysgrifenwyd yn erbyn eilunod y *Cenhedloedd* yn berthyn i'n delwau *ni?*—— Y mae 'n perthyn iddynt yn hollol. Canys pa les neu fwyniant sydd i'n delwau ni o'u trwsiad a'u haddurniadau costfawr? A oedd ein delwau ni yn deall pan wnaed hwy? neu a ydynt yn gwybod pan hardder a phan addurner hwy? Onid yw mor ofer treulio 'r pethau hyn arnynt hwy, ag ar ddynion meirw dideimlad?

Am hynny fe ganlyn fod cymmaint ffolineb a drygioni yn addurniad ein delwau ni megis babïod mawrion i hen ffyliaid fel plant i chwareu chwareuaeth annuwiol delw-addoliaeth o'u blaen, ag oedd ym mhlith yr ethniciaid a'r Cenhedloedd.

Mae 'n Heglwysydd yn llawn o'r fath fabïod mawrion, wedi eu trwsio a'u harddu 'n rhyfedd. Dodir garlantau a choronau ar eu pennau; mae

perlau gwerthfawr yn crogi wrth eu gyddfau; mae eu bysedd yn disgleirio gan fodrwyau llawn o feini gwerthfawr; a'u cyrph meirwon a sythion ydynt wedi eu dilladu â gwisgoedd sy 'n sythion gan aur.

Chwi a dybygech mai rhai o Dywysogion Persia yn eu gwisgoedd beilchion yw delwau ein Seintiau; ac mai rhyw butteiniaid mursenaidd wedi ymbingcio i lithio eu cariadau i anlladrwydd yw delwau ein Santesi: drwy yr hyn yr ydys, nid yn anrhydeddu, ond yn mawr ddïanrhydeddu Seintiau a Santesi Duw; a'u duwioldeb, eu sobrwydd, eu diweirdeb, a'u dirmyg o olud a gwagedd y byd, a ddygir i ammharch ac ammheuaeth gan y fath anferth wychder, yr hwn sy mor wahanol i'r hyn oedd bucheddau sobr a duwiol y Seintiau eu hunain.

A chan y rhaid chwareu yr holl chwareuyddiaeth drwyddo, nid digon trwsio delwau fel hyn, ond o'r diwedd daw 'r Offeiriaid i mewn eu hunain, wedi eu gwychu âg aur a pherlau, fel y byddont weision cymhesur i'r fath arglwyddi ac arglwyddesau, ac addolwŷr cymmwys i'r cyfryw dduwiau a duwiesau.—— Ac yna gyd â cherddediad urddasol hwy a ant o flaen y babïod aur, ac a gwympant ar bennau eu gliniau ger bron yr eilunod anrhydeddus hyn; a chan godi i fynu eilwaith hwy a offrymmant arogl-darth peraidd iddynt, i roi i'r bobl esampl o eilun-addoliaeth dau-ddyblyg, gan addoli nid yn unig y ddelw, ond hefyd yr aur a'r cyfoeth a'r hwn yr addurnwyd hi.

Yr hyn beth yn hytrach nag y gwnai y rhan fwyaf o'n hen ferthyri, ie yn hytrach na phenlinio gymmaint ag unwaith, nac offrwm un mymryn o arogl-darth ger bron delw, hwy a ddïoddefent y marwolaethau mwyaf creulon ac arswydus, fel y dengys eu hanesion hwy yn helaeth.

Ac yma drachefn fe dâl ystyried yr hyn a ddygant drostynt eu hunain allan o Gregori I. a Damascenus, mai llyfrau gwŷr lleyg yw delwau, ac mai ysgrythyrau 'r werin anwybodus yw lluniau. Canys fel y crybwyllwyd mewn amryw fannau eisoes, mai llyfrau ydynt heb ddysgu dim ond celwyddau, fel y gellir gweled yn amlwg yn y bennod gyntaf o Epistol St. Paul at y Rhufeiniaid: felly ystyriwch yn dda, attolwg, pa fath lyfrau ac ysgrythyr yw 'r delwau paentiedig a goreurog hyn o'r Seintiau i 'r bobl gyffredin.

Oblegid wedi y darffo i'n pregethwyr addysgu ac annog y bobl i ganlyn rhinweddau 'r Seintiau, megis dïystyrwch o'r byd hwn, tlodi, sobrwydd, diweirdeb, a'r cyfryw rinweddau y rhai 'n ddïau oeddynt yn y Seintiau; a dybygwch chwi, cyn gynted ag y troant eu hwynebau oddi wrth y pregethwr, ac edrych ar lyfrau cerfiedig ac ysgrythyr baentiedig delwau ac eilunod wedi eu goreuro 'n wych, ac yn llewyrchu ac yn disgleirio gan aur a pherlau, ac wedi eu gorchuddio â dillad gwerthfawr, neu gyd â Chœrea yn Terentius, yn edrych ar lun paentiedig, yn yr hwn

y gosodwyd allan trwy gelfyddyd y paentiwr, ddelw, gyd â dillad a phryd mursenaidd ac anllad, yn debyccach i Venus neu Fflora nag i Fair Magdalen; neu os *ydyw* 'n debyg i Fair Magdalen, mae 'n debyg iddi pan oedd hi 'n chwareu 'r buttain, yn hytrach na phan oedd yn wylo am ei phechodau:—— pan droant, meddaf, oddi wrth y pregethwr at y llyfrau a'r athrawon a'r ysgrythyrau paentiedig hyn, oni chant weled mai llyfrau celwyddog ydynt? a'u bod yn dysgu addysgiadau gwahanol i'r pregethwr, megis gwneuthur cyfrif o gyfoeth, balchder a gwagedd mewn ymwisgo, a mursendod ac anlladrwydd, ac ond odid putteindra, megis y dysgodd Chœrea gan y cyffelyb luniau?—— Ac yn Lucian fe ddysgodd rhywun addysg gan Venus Gnidia rhy ffiaidd i'w hadrodd yma.

Onid yw y rhai hyn, meddwch chwi, yn llyfrau ac ysgrythyrau gwych i bobl ddiniweid, ac yn enwedig i wragedd a merched ieuaingc i edrych arnynt, i'w darllen, ac i gael addysg oddi wrthynt?—— Beth a dybygant am y pregethwr, yr hwn a ddysgodd iddynt addysgiadau croes i hyn am y Seintiau, ac am hynny a wneir yn gelwyddog gan yr Athrawon cerfiedig hyn? Neu beth a dybygant am y Seintiau eu hunain, os credant y llyfrau cerfiedig a'r ysgrythyrau paentiedig hyn, y rhai a wnant y Seintiau sy 'n awr yn teyrnasu gyd â Duw yn y nef, yn Athrawon, er mawr ammharch iddynt, o'r fath oferedd ag oeddynt yn eu bywyd yn ei ffieiddio fwyaf?

Canys pa addysgiadau am ddibrisio cyfoeth ac oferedd y byd hwn a all y cyfryw lyfrau amgylchedig âg aur, addurnedig â gemmau, a gorchuddiedig â sidanau, eu dysgu?—— Pa addysgiadau o sobrwydd a diweirdeb a all ein gwragedd a'n merched eu dysgu oddi wrth yr ysgrythyrau paentiedig hyn â'u dillad mursenaidd a'u golygon anllad?

Ond ymaith rhag cywilydd, â'r cochlau coluredig hyn o eilun-addoliaeth a llyfrau ac ysgrythyrau delwau a lluniau i ddysgu gwirioniaid, ie i wneuthur Cristionogion yn wirioniaid a ffyliaid ac anifeiliaid!

A yw dynion, attolwg, pan fo ganddynt yr un llyfrau gartref, yn rhedeg ar bererindod i geisio 'r cyffelyb lyfrau yn Rhufain, Compostela, neu Jerusalem, i gael eu dysgu ganddynt, a chanddynt hwythau 'r cyffelyb i'w dysgu gartref?—— A barcha dynion rai llyfrau, a diystyru a dibrisio llyfrau eraill o'r un rhyw?—— A yw dynion yn penlinio ger bron eu llyfrau, yn goleu canhwyllau ganol dydd, yn llosgi arogl-darth, ac yn offrymmu aur ac arian a rhoddion eraill, i'w llyfrau?—— A ydyw dynion yn ffugio neu yn credu fod gwyrthiau yn cael eu gwneuthur drwy eu llyfrau?——

Mae 'n ddiogel gennyf fod Testament Newydd ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr hwn sy 'n cynnwys gair y bywyd, yn fywiolach ac yn eglurach

delw o'n Hiachawdwr, na 'r holl ddelwau cerfiedig, toddedig, a phaentiedig yn y byd: ac etto ni wneir dim o'r pethau hyn i Lyfr Ysgrythyr Efengyl ein Hiachawdwr, ag a wneir i ddelwau a lluniau, y rhai a alwant yn llyfrau ac Ysgrythyrau 'r lleygion a'r werin.

Gan hynny galwant hwy wrth yr enwau a fynnont, eglur yw wrth eu gweithredoedd hwynt, nad ydynt yn gwneuthur amgen llyfrau nac Ysgrythyrau o honynt na chyfryw ag a ddysgant eilun-addoliaeth o'r fath ffieiddiaf a mwyaf arswydus, fel y mae y rhai a arferant y cyfryw lyfrau yn profi beunydd, wrth wneuthur yr unrhyw yn wastadol.

O! lyfrau ac ysgrythyrau, yn y rhai yr ysgrifenodd y dieflig ddysgawdwr, Satan, ei wersi ffiaidd o ddrygionus ddelw-addoliaeth, i'w ddisgyblion a'i ysgolheigion llwfr anwrol edrych arnynt, a'u darllen, a'u dysgu, er dirfawr ammharch i Dduw, ac er damnedigaeth mwyaf arswydus iddynt eu hunain!

Onid ydym ni dan rwymau mawr, dybygwch chwi, i'r rhai a ddylasent ddysgu i ni 'r gwirionedd allan o Lyfr a Glân Ysgrythyr Duw, am gau o honynt y Llyfr a'r Ysgrythyr honno oddi wrthym, a neb o honom ninnau mor hyf ag unwaith eu hagoryd na 'u darllen, ac am agoryd o honynt yn llydain i ni y llyfrau a'r ysgrythyrau teg, cerfiedig, goreurog, a phaentiedig hyn ag sy 'n dysgu i ni gyfryw wersi da, a duwiol?

Onid da y gwnaethant, wedi peidio sefyll mewn pulpudau eu hunain, i addysgu 'r bobl a roddwyd iddynt i'w hathrawiaethu, gan dewi a son am air Duw, a myned yn gwn mudion, (fel y geilw 'r Prophwyd hwy,) osod yn eu lle ar bob colofn ac ym mhob congl o'r Eglwys, y fath athrawon gwych, mor fudion, ond mwy drygionus na hwy eu hunain?—— Ni raid i ni gwyno o eisieu un Person mud, a chennym ninnau gynnifer o Ficeriaid mudion a dieflig (sef y delwau a'r babïod paentiedig hyn) i addysgu yn eu lle hwy!

Yn awr, yn y cyfamser, tra mae 'r eilunod mudion meirwon hyn yn sefyll wedi eu gwisgo 'n drwsiadus, yn groes i ddeddf a gorchymyn Duw; mae 'r Cristionogion tlodion, bywiol ddelwau Duw, y rhai a orchymynwyd mor dyner i'n gofal gan ein Hiachawdwr Crist, fel y rhai anwylaf ganddo, yn sefyll yn noethion yn ysgrydian gan anwyd, a'u dannedd yn curo ynghyd yn eu pennau, ac heb neb yn eu dilladu; ac yn dyddfu gan newyn a syched, a neb yn rhoi ceiniog i'w helpu; er bod punnoedd yn barod bob amser (yn groes i ewyllys Duw) i harddu ac i drwsiadu pren a maen difywyd, y rhai nid ydynt yn clywed nac anwyd, na newyn, na syched.

Mae gan Clement ymadrodd gwych ynghylch y peth hyn, yr hwn a ddywed;—— "Mae 'r Sarph, y Diafol, drwy enau rhyw ddynion yn llefaru 'r geiriau hyn; *Yr ydym ni 'n addoli delwau gweledig er*

*anrhydedd i'r Duw Anweledig.* Yr hyn yn ddïau sy gelwydd goleu. Canys pe gwir anrhydeddit ti ddelw Duw, ti a ddylit, wrth wneuthur lles i ddyn, anrhydeddu gwir ddelw Duw, yr hon sydd ynddo. Oblegid y mae *delw* Duw ym mhob dyn, er mai nid ym mhob dyn y mae *cyffelybiaeth* Duw, ond yn unig yn y rhai sy ganddynt galon dduwiol a meddwl pur. Os mynni ynte wir anrhydeddu delw Duw, yr ydym ni yn mynegi 'r gwir i ti, ar fod i ti wneuthur daioni i *ddyn* a wnaed ar ddelw Duw, ar i ti roi parch ac anrhydedd iddo ef, drwy gynnorthwyo 'r newynog â bwyd, y sychedig â dïod, y noeth â dillad, y claf âg ymgeledd, y dieithr diletty â lletty, a'r carcharorion âg angenrheidiau; a chyfrifir di fel yn rhoi 'r pethau hyn i Dduw.—— Ac y mae'r pethau hyn yn perthyn mor union-gyrchol i anrhydedd Duw, fel ag y mae pwy bynnag a'r *na wnelo* hyn yn haeddu cerydd am wneuthur sarhâd i ddelw Duw.—— Canys pa anrhydedd i Dduw ydyw rhedeg at ddelwau o goed a maen, ac anrhydeddu lluniau ofer a meirwon o Dduw, a dirmygu dyn, yn yr hwn y mae gwir ddelw Duw?"

Ac yn fuan gwedi efe a ddywed;—— "Deallwch am hynny mai annogaeth y Sarph Satan yw hyn, yr hon sy 'n llechu o'ch mewn, ac yn eich perswadio eich bod yn dduwiol pan fyddoch yn anrhydeddu delwau dideimlad a difywyd, ac nad ydych yn annuwiol pan ddrygoch neu pan adawoch yn ddihelp greaduriaid byw a rhesymmol."—— Y rhai hyn oll ydynt eiriau Clement.

Sylwch, attolwg, fel y mae 'r hen athraw dysgedig hwn, o fewn can mlynedd i amser ein Hiachawdwr Crist, yn dangos yn oleu na ddichon bod na gwasanaeth i Dduw, na chrefydd gymmeradwy ganddo, mewn anrhydeddu delwau meirwon, ond ynghynhorthwyo 'r tlodion, bywiol ddelwau Duw, yn ol St. Iago, yr hwn a ddywed; *Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn: Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.*[1]

Wrth hynny nid yw gwir grefydd a rhyngu bodd Duw yn sefyll mewn gwneuthur, gosod i fynu, paentio, goreuro, dilladu ac addurno delwau mudion dïanadl, (y rhai nid ydynt ond babïod mawrion i hen ffyliaid yn eu gwiriondeb a'u drygionus eilun-addoliaeth i chwareu ac i faldodi â hwynt) nac wrth eu cusanu hwy, ymbennoethi, penlinio, offrymmu ac arogl-darthu iddynt, crogi i fynu esgeiriau, breichiau, neu gyrph cyfain o gŵyr ger eu bronnau, neu erfyn a cheisio ganddynt hwy neu gan Seintiau, bethau y perthyn i Dduw yn unig eu caniattâu.—— Ond mae 'r holl bethau hyn yn ofer, ffiaidd, a damniol, ger bron Duw.

[1] St. Iago 1. 27.

Mae pob cyfryw ddynion gan hynny nid yn unig yn gwario eu harian a'u llafur yn ofer, ond y maent drwy eu trafferth a'u traul yn ennill iddynt eu hunain lid eithaf a digofaint Duw, a damnedigaeth dragywyddol corph ac enaid.

Canys clywsoch brofi 'n eglur yn yr Homiliau hyn yn erbyn Delw-addoliaeth, drwy air Duw,—— Doctoriaid yr Eglwys,—— hanesion Eglwysig,—— a rheswm a phrofiad, y buwyd gynt, a bod etto, yn addoli delwau gan liaws aneirif o bobl, er mawr dramgwydd i Fawrhydi Duw, a pherygl i eneidiau dirifedi:—— ac nad yw 'n bosibl gwahanu delw-addoliaeth oddi wrth ddelwau a osoder i fynu mewn Eglwysydd a Themlau, wedi eu goreuro a'u harddu 'n ardderchog; ac am hynny mai EILUNOD yn wir yw ein delwau ni, a bod yn perthyn iddynt hwy, a'u gwneuthurwŷr, a'u hamddiffynwŷr, a'u haddolwŷr, yr holl waharddiadau, deddfau, melldithion, a bygythion o arswydus blaau tymhorol a thragywyddol, a gynhwysir yn yr Ysgrythyr Lân ynghylch EILUNOD, eu gwneuthurwŷr, eu hamddiffynwŷr, a'u haddolwŷr.

Ac y mae yr holl enwau o ffieidd-dra a rydd gair Duw yn yr Ysgrythyr Lân i eilunod y Cenhedloedd, yn perthyn i'n delwau ninnau, gan eu bod yn eilunod fel hwythau, a chyffelyb eilun-addoliaeth yn cael ei wneuthur iddynt.—— A geilw genau Duw ei Hun hwynt yn yr Ysgrythyrau sanctaidd yn wagedd,—— yn gelwyddau,—— yn hudoliaethau,—— yn aflendid,—— yn frynti,—— yn dom,—— yn felldith, —— ac yn ffieidd-dra ger bron yr Arglwydd.

Am hynny ni's gellir gochelyd erchyll ddigllonedd a llid ofnadwy Duw, heb ddistrywio a llwyr ddileu pob cyfryw ddelwau ac eilunod o Deml ac Eglwys Dduw:—— a Duw a roddo ynghalon pob Tywysog Cristionogol gyflawni hynny.

Ac yn y cyfamser, fy nghaeredigion yn yr Arglwydd, byddwn ni ochelgar a synhwyrol, ac na fydded i ni dduwiau dieithr, ond Un Duw yn unig, yr Hwn a'n gwnaeth o ddim, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr Hwn a'n prynodd pan oeddym golledig, ynghyd â'i Lân Yspryd, yr Hwn sydd yn ein sancteiddio. Canys *hyn yw 'r bywyd tragywyddol, i ni ei adnabod Ef yr unig Wir Dduw, a'r Hwn a anfonodd Efe, Iesu Grist.*[1]

Na anrhydeddwn ac na addolwn, o ran crefydd, neb ond Efe: ac addolwn ac anrhydeddwn Ef yn y modd ag y mae Efe ei Hun yn ewyllysio, ac fel y mae wedi dangos drwy ei air y myn Efe ei anrhydeddu a'i addoli, nid yn na thrwy ddelwau, y rhai y mae Efe wedi eu gwahardd yn gaeth, na thrwy benlinio, na goleu canhwyllau, na llosgi

[1] St. Ioan 17. 3.

arogl-darth, nac offrwm rhoddion i ddelwau ac eilunod, gan gredu mai *felly* y rhyngwn ni fodd iddo Ef; canys ffieidd-dra ger bron Duw yw yr holl bethau hyn.—— Ond anrhydeddwn ac addolwn Dduw mewn ysprydd a gwirionedd, gan ei garu a'i ofni Ef uwchlaw pob dim, ymddiried ynddo Ef yn unig, galw a gweddïo arno Ef yn unig, a'i foli a'i glodfori Ef yn unig, a phob peth arall ynddo Ef, ac erddo Ef.—— Oblegid y cyfryw addolwŷr y mae ein Tad Nefol, yr Hwn sydd Ysbryd pur, yn eu hoffi; ac am hynny myn gael ei addoli mewn yspryd a gwirionedd.—— A'r fath addolwŷr a hyn oedd Abraham, Moses, Dafydd, Elias, Pedr, Paul, Ioan, a'r holl sanctaidd Batriarchiaid, Prophwydi, Apostolion, Merthyri, a holl wir Saint Duw, y rhai oll, fel gwir gyfeillion Duw, oeddynt elynion a dinystrwŷr delwau ac eilunod, megis gelynion i Dduw ac i Wir Grefydd.

Am hynny, anwylion yn yr Arglwydd, gochelwch a byddwch gall; a'r hyn y mae eraill, yn groes i air Duw, yn annuwiol, ac i'w damnedigaeth eu hunain, yn eu gwario ar bren a maen difywyd, (nid *delwau* o Dduw a'i Seintiau, ond *gelynion* iddynt,) gweriwch chwi, megis ffyddlon weision Duw, yn ol gair Duw, yn drugarog ar wŷr a gwragedd tlodion, —— plant amddifaid,—— gwragedd gweddwon,—— cleifion,—— dieithriaid,—— carcharorion,—— ac eraill a fo mewn dim angenoctid; fel y byddo i chwi, yn Nydd Mawr yr Arglwydd, glywed bendigediccaf a diddanusaf leferydd ein Hiachawdwr Crist, yn dywedyd wrthych;——

*Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd.*

*Canys bûm newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd; bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddïod; bûm ddïeithr, a dygasoch fi gyd â chwi;*

*Noeth, a dilladasoch fi; bûm glaf, ac ymwelsoch â mi; bûm yngharchar, a daethoch attaf.*

*Yn wir meddaf i chwi; Yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.*[1]

I'r hon ei deyrnas nefol, Duw, Tad y trugareddau, a'n dycco ni, er mwyn Iesu Grist, ein hunig Iachawdwr, Cyfryngwr, ac Eiriolwr: I'r Hwn, gyd â'r Yspryd Glân, Un Anfarwol, Anweledig, a Gogoneddusaf Dduw, y byddo'r holl anrhydedd, a'r dïolch, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Mat. 25. 34—40.

# HOMILI

## AM GYWEIRIO EGLWYSYDD, EU CADW 'N LAN, A'U HADDURNO 'N WEDDAIDD.

MAE yn arferiad cyffredinol gan bawb, pan fwriadont ddyfod o'u cyfeillion neu eu cymmydogion i'w tai i fwytta ac i yfed gyd â hwynt, neu gael rhyw ymgynhulliad difrifol i ymdrin ac i ymddiddan ynghylch rhyw fatter, fynnu bod eu tai (y rhai a gadwant mewn cywair gwastadol) yn lân ac yn hardd; rhag iddynt gael eu cyfrif yn annhaclus, neu yn ddibarch o'u cyfeillion a'u cymmydogion.

Pa faint mwy ynte y dylai Tŷ Dduw, yr hwn a alwn yn gyffredin YR EGLWYS, gael ei gyweirio 'n ddigonol ym mhob lle, a'i addurno a'i harddu 'n barchus, a'i gadw 'n lân ac yn beraidd, er cysur y bobl a gynniweiriant iddo!

Fe welir yn yr Ysgrythyr Lân fel y byddai Tŷ Dduw, a elwid ei Deml Sanctaidd, ac oedd yn Fam-Eglwys holl Judea, weithiau yn syrthio i anghywair, ac y byddid yn fynych yn ei anurddo a'i halogi drwy wall ac annuwioldeb y sawl yr oedd ei ofal arnynt.—— Ond pan fyddai brenhinoedd duwiol yn teyrnasu, byddid yn ebrwydd yn rhoi gorchymyn i adgyweirio Eglwys a Theml Dduw, ac i gasglu defosiynau 'r bobl tu ag at adgyweirio 'r unrhyw.

Yr ydym yn darllen yn ail Lyfr y Brenhinoedd fel y rhoes y brenhin Joas, yr hwn oedd dywysog duwiol, orchymyn i'r Offeiriaid i ddefnyddio offrymmau 'r bobl at gyweirio Teml Dduw.[1]

Rhoes y duwiolaf frenhin Josïah gyffelyb orchymyn ynghylch cyweirio ac ail-adeiladu Teml Dduw, yr hon yn ei amser ef oedd wedi mawr adfeilio.[2]

Fe ryngodd bodd i'r Hollalluog Dduw fod ysgrifenu 'n helaeth yr hanesion hyn ynghylch ail-adeiladu ei sanctaidd Deml, fel drwy hynny y dysgid ni,——

Yn gyntaf; fod yn rhyngu bodd i Dduw gael o'i bobl le cyfaddas i ddyfod iddo ac i ymgynnull ynghyd i foliannu ac i fawrygu ei Enw sanctaidd Ef.——

[1] 2 Bren. 12. 4, 5. [2] 2 Bren. 22. 3—7.

Ac yn ail; fod y rhai hynny yn rhyngu bodd yn fawr iddo, ag sy 'n ddiwyd a zelog yn adgyweirio 'r cyfryw leoedd ag a osodwyd i gynnulleidfa pobl Dduw i ymgynnull iddynt, ac yn y rhai y maent yn ostyngedig ac yn gyttûn yn rhoi diolch i Dduw am ei ddoniau, ac âg un galon ac un llais yn moliannu ei Enw sanctaidd Ef.——

Yn drydydd; byddai Duw 'n sorri 'n dost wrth ei bobl, am eu bod yn adeiladu, yn addurno, ac yn harddu eu tai eu hunain, ac yn gadael i Dŷ Dduw syrthio i adfeiliad, a bod yn anweddaidd ac yn anhardd i edrych arno. Am hynny digiodd Duw yn llym wrthynt, ac a'u plaodd yn dost, fel y gwelir yn y Prophwyd Haggai:——

*Ai amser*, ebe Duw, *yw i chwi eich hunain drigo yn eich tai byrddiedig, a'r Tŷ hwn yn anghyfannedd?*

*Fel hyn gan hynny yn awr y dywed Arglwydd y lluoedd; Ystyriwch eich ffyrdd.*

*Hauasoch lawer, a chludasoch ychydig; bwytta yr ydych, ond nid hyd ddigon; yfed, ac nid hyd fod yn ddiwall; ymwisgasoch, ac nid hyd glydwr i neb; a'r hwn a ennillo gyflog, sydd yn casglu cyflog i god dyllog.*[1]

Wrth y plaau hyn a roes Duw ar ei bobl am esgeuluso ei Deml, mae 'n eglur y myn Duw fod i'w Deml, ei Eglwys, lle 'r ymgynnull ei gynnulleidfa iddo i'w fawrygu Ef, gael ei hadeiladu 'n dda, ei hadgyweirio 'n dda, a'i chynnal yn dda.

Ond rhyw rai, heb ofalu nac am dduwioldeb, nac am y lle o dduwiol ymarferiad, a ddywedant, ond odid, ddarfod gorchymyn gan Dduw ei Hun adeiladu a chyweirio 'r Deml dan yr hen gyfraith, am fod addewidion mawrion yn gysylltiedig â hi, ac am ei bod yn gysgod, yn Sacrament, ac yn arwydd o Grist ac hefyd o'i Eglwys:——

I hyn gellir yn hawdd atteb; —— Yn gyntaf, Nad yw ein Heglwysydd ninnau yn amddifad o addewidion, yn gymmaint a dywedyd o'n Hiachawdwr Crist; *Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy Enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.*[2] Am hynny pan fo lliaws mawr yn dyfod i'r Eglwys ynghyd yn Enw Crist, mae ganddynt yno, sef yn yr Eglwys, eu Duw a'u Hiachawdwr Crist Iesu yn bresennol ynghynnulleidfa ei ffyddlon bobl, drwy ei ras, drwy ei ffafr a'i ddwyfol gynhorthwy, yn ol ei ddiddanus a'i sicraf addewidion.—— Paham ynte na ddylai Cristionogion adeiladu Temlau ac Eglwysydd, a chanddynt hwythau addewidion mor fawr am bresennoldeb Duw ag a fu erioed gan Solomon i'r Deml a adeiladodd efe?

Am y pwngc arall, sef bod Teml Solomon yn gysgod o Grist:——

[1] Haggai 1. 4—7. [2] St. Mat. 18. 20.

Ni a wyddom fod pob cysgodau, ffigurau, ac arwyddion, yn awr, yn amser disglaer oleuni Crist Iesu, Mab Duw, wedi myned yn hollol ymaith, a bod yr holl seremoniau ofer ac aflesiol, Iuddewig a Phaganaidd, wedi cael eu cwbl ddiddymmu. Ac am hynny ni adeiledir ein Heglwysydd ni yn gysgodau ac yn arwyddion o Fessïah a Christ i ddyfod, ond i ddibenion duwiol ac angenrheidiol eraill: hynny yw, megis y mae gan bob dyn ei dŷ ei hun i breswylio ynddo, i fwytta ac i yfed ynddo, ac i orphwys ynddo, ynghyd â chyfreidiau eraill; felly y myn Duw Hollalluog fod iddo Yntau Dŷ a thrigfod, i'r hwn yr ymgynnull yr holl blwyf a'r gynnulleidfa, yr hwn Dŷ a elwir yn Eglwys a Theml Dduw, am mai yno y mae 'r Eglwys, sef cwmpeini pobl Dduw, yn ymgynnull ac yn dyfod ynghyd i'w wasanaethu Ef.

Nid ein bod yn meddwl wrth hyn fod yr Arglwydd, yr hwn ni all nef y nefoedd ei gynnwys na 'i amgyffred, yn trigo mewn Eglwys o galch a meini o waith dwylaw dyn, megis pe byddid yn ei gynnwys Ef yn hollol yn honno yn unig, ac nid mewn un man arall; canys ni phreswyliodd Efe erioed felly yn Nheml Solomon.

Cyfrifir hefyd a gelwir yr Eglwys neu 'r Deml yn *sanctaidd*, etto nid o honi ei hun, ond am fod pobl Dduw sy 'n ymgynnull yno, yn sanctaidd; ac am eu bod yn eu hymarfer eu hunain mewn pethau sanctaidd a nefol.

Ac er mwyn bod i chwi ddeall ym mhellach paham yr adeiledid Eglwysydd ym mhlith Cristionogion, hyn oedd yr ystyriaeth fwyaf; sef fel y byddai i Dduw ei le, ac y byddai i Dduw ei amser, i gael ei ddyledus anrhydeddu a'i wasanaethu gan yr holl gynnulleidfa yn y plwyf:—— yn gyntaf, i wrando ac i ddysgu yno fendigaid air ac ewyllys y tragywyddol Dduw:—— yn ail, fel y caffai 'r bendigaid Sacramentau a ordeiniodd ac a osododd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Crist, eu gweinyddu yno yn ddyladwy, yn barchus, ac yn addas:—— yn drydydd, er mwyn bod i holl gynnulleidfa pobl Dduw yn y plwyf alw yno âg un llais ac âg un galon ar Enw Duw, gan ei fawrygu a'i foli, a rhoi diolch difrifol o galon i'n Tad nefol am liosowgrwydd ei ddoniau a dywelltir beunydd ac yn helaeth arnom, heb ollwng yn angof chwaith roi ein helusenau i dlodion Duw, fel y bo iddo Yntau ein bendithio ninnau 'n gyfoethoccach.

Fel hyn chwi a ellwch ddirnad a deall paham yr adeiledid Eglwysydd ym mhlith Cristionogion, ac y cyssegrid ac y neillduid hwy i'r dibenion duwiol hyn, gan eu neillduo 'n hollol oddi wrth bob defnydd halogedig, cyffredin, a bydol.

Am hynny dylid cyfrif pawb nad oes ganddynt ond ychydig feddwl a bwriad at adeiladu a chyweirio Teml Dduw, yn bobl o annuwioldeb

mawr, yn dirmygu trefn dda yn Eglwys Grist, yn dïystyru gwir anrhydedd Duw, ac â'u hesampl ddrwg yn tramgwyddo ac yn rhwystro eu cymmydogion, y rhai, oni bai hwynt, a dueddent at dduwioldeb a daioni.

Fe dybia 'r byd nad yw ond peth dibwys gweled eu Heglwys yn cwympo i adfeiliad. Ond pwy bynnag ni rydd help llaw i'w cynnal, mae yn pechu yn erbyn Duw a'i gynnulleidfa sanctaidd. Canys oni buasai 'n bechod esgeuluso ail-adeiladu ei Deml, ni buasai Duw yn digio cymmaint, nac yn pläau ei bobl mor fuan o achos iddynt adeiladu ac addurno eu tai eu hunain mor brydferthwych, a dibrisio Tŷ eu Harglwydd Dduw.

Mae 'n bechod ac yn warth gweled cynnifer o Eglwysydd wedi syrthio i gymmaint o ddirywiaeth ac adfeiliad, bron ym mhob congl! Os bydd tŷ annedd dyn wedi adfeilio, ni 's gorphwysa nes yr adferer ef eilchwyl. Ië, os bydd ei ysgubor, lle y ceidw ei ŷd, mewn anghywair, pa ddiwydrwydd a arfera efe nes ei chwbl adgyweirio hi! Os bydd ystabl ei geffyl, ïe neu dwlc ei foch, heb fod yn ddiddos rhag y gwynt a'r gwlaw, mor ofalus yw efe i'w trwsio!

Ac a gawn ni fod mor ofalus am ein tai cyffredin a gwael ein hunain, y rhai a ddefnyddir i wasanaeth mor isel, a bod yn anghofus o Dŷ Dduw, yn yr hwn y traethir geiriau ein tragywyddol iachawdwriaeth, ac y gweinyddir Sacramentau a dirgeledigaethau ein prynedigaeth: yno y cyflwynir i ni ffynnon ein hadenedigaeth, ac y cynhygir i ni gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crist: ac oni wnawn ni gyfrif mawr o'r lle yn yr hwn yr ydys yn trin pethau mor nefol?

Gan hynny od oes gennych ddim parch i Wasanaeth Duw, od oes gennych ddim onestrwydd cyffredin, od oes gennych ddim cydwybod o gadw ordinhadau angenrheidiol a duwiol, cedwch eich Eglwysydd mewn cywair da, drwy yr hyn chwi nid yn unig a ryngwch fodd Duw, ac a haeddwch ei lïosog fendithion, ond chwi a haeddwch hefyd air da pob dyn duwiol.

Yr ail beth ag sy 'n perthyn i gynhaliaeth Tŷ Dduw, yw ei addurno a'i gadw 'n hardd ac yn lân: Yr hyn bethau a ellir yn haws eu cyflawni, pan fo'r Eglwys wedi ei chyweirio 'n dda.

Canys megis ag y bydd dynion yn hyfryd ac yn ddiddanus pan welont bob peth yn eu tai mewn trefn dda, a phob congl yn lân ac yn beraidd; felly pan fo Tŷ Dduw, yr Eglwys, wedi ei addurno 'n dda, a lleoedd cyfleus i eistedd ynddo, a phulpud i'r Pregethwr, a Bwrdd yr Arglwydd i weinyddu ei Swpper Sanctaidd Ef, gyd â'r Bedydd-faen i fedyddio ynddo, a'r cwbl yn lân, yn weddus, ac yn beraidd, fe fydd y bobl yn chwannoccach i *ddyfod* yno, a bydd yn fwy cysurus iddynt *aros* yno dros yr holl amser a osodwyd iddynt.

Gyd â pha ddifrifoldeb a zel danllyd y darfu i'n Hiachawdwr Crist, yrru 'r prynwŷr a'r gwerthwŷr allan o Deml Dduw, a thaflu i lawr fyrddau y newidwŷr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu colommennod, ac ni allai oddef i neb ddwyn llestr trwy 'r Deml:—— Efe a ddywedodd wrthynt eu bod wedi gwneuthur Tŷ ei Dad yn ogof lladron, mewn rhan drwy eu hofergoel, eu rhagrith, eu gau-addoliad, eu gau-athrawiaeth, a'u hannigonol drachwant; ac mewn rhan drwy eu dïystyrwch yn cam-arfer y lle wrth rodianna a chwedleua ynddo ynghylch matterion bydol, heb ddim ofn Duw na pharch dyledus i'r lle hwnnw.

Pa ogofau lladron a wnaethpwyd o Eglwysydd y Deyrnas hon drwy gableddus brynnu a gwerthu gwerthfawroccaf Gorph a Gwaed Crist yn yr Offeren, fel y gwneid i'r byd gredu, mewn galarnadau dros y meirw, Pen-misoedd, Trentalau, mewn Monachlogydd a Chor-gafellau, heblaw camarferion arswydus eraill, y rhai yr ydym yn awr, (bendigedig byth fo gwynfydedig Enw Duw) yn eu gweled ac yn eu deall.

O'r holl ffieidd-derau hyn y darfu i'r rhai sydd yn lle Crist lanhâu Eglwysydd y deyrnas hon, gan gymmeryd ymaith bob cyfryw frynti ac aflendid ag oedd drwy ddefosiwn dall ac anwybodaeth wedi ymlusgo i'r Eglwys er ys llawer can mlynedd.

Gan hynny, O chwychwi bobl dda Gristionogol, anwyl garedigion yng Nghrist Iesu, y rhai nid ydych yn ymogoneddu mewn crefydd fydol ac ofer, nac mewn gwag harddwch ac addurniadau, ond ydych yn gorfoleddu o galon weled gogoniant Duw yn cael ei osod allan yn gywir, a'r Eglwysydd wedi cael eu hadferu i'w hen arferiad duwiol, rhowch ddïolch o galon i ddaioni 'r Hollalluog Dduw, yr hwn yn ein dyddiau ni a gymhellodd galonnau nid yn unig ei Bregethwyr a'i Weinidogion duwiol, ond ei ffyddlon a'i Gristianusaf Benswyddogion a'i Lywiawdwŷr i ddwyn y cyfryw bethau duwiol i ben.

Ac yn gymmaint a bod eich Eglwysydd wedi eu carthu a'u hysgubo oddi wrth y budreddi pechadurus ac ofergoelus y llychwinasid ac yr anurddasid hwy âg ef, gwnewch chwithau, bobl dda, eich rhan i gadw eich Eglwysydd yn hardd ac yn lân: na oddefwch iddynt gael eu maeddu gan wlaw a thywydd, nac â thom colommennod a dylluanod, brain a drydwy, na dim budreddi arall, fel y mae 'n ffiaidd ac yn resyn gweled mewn llawer o fannau yn y wlad hon.

Tŷ gweddi ydyw, nid Tŷ chwedleua, rhodianna, ymgynhennu, na Thŷ cerddoriaeth, hebogiaid, na chwn.

Nac annogwch sorriant a phläau Duw, wrth ddirmygu a chamddefnyddio ei Sanctaidd Dŷ, fel y gwnaeth yr Iuddewon annuwiol.—— Ond bydded Duw yn eich calonnau, byddwch ufudd i'w fendigaid ewyllys, ymrwymwch, bob gwr a gwraig o honoch, yn ol eich gallu, at

gyweirio a chadw 'n lân yr Eglwys, fel y byddoch gyfrannogion o amryw fendithion Duw, a bod yn fwy calonnog i ddyfod i 'ch Eglwys blwyf, yno i ddysgu eich dyledswydd at Dduw a'ch cymmydog,—— yno i fod yn bresennol i gyfrannogi o Sanctaidd Sacramentau Crist, —— yno i ddïolch i'ch Tad nefol am yr amryw fendithion y mae beunydd yn eu tywallt arnoch,—— yno i gyd-weddïo ac i alw ar Sanctaidd Enw Duw, yr hwn sy yn fendigedig oes oesoedd. Amen.

# HOMILI

## AM WEITHREDOEDD DA, AC YN GYNTAF

## AM YMPRYDIO.

RHODD rad Duw, (bobl dda Gristionogol,) a fenthyciwyd i ni, yw y bywyd yr ydym yn ei fyw yn y byd hwn; etto nid i'w arfer yn ol ein pleser a'n hewyllys cnawdol, ond i fasnachu ynddo yn y gweithredoedd a weddai i rai a wnaed yn greaduriaid newydd yng Nghrist. —— Geilw 'r Apostol y gweithredoedd hyn yn weithredoedd da, gan ddywedyd, *Ei waith Ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt.*

Ac etto nid ei feddwl yw wrth y geiriau hyn, ein dwyn i ymddiried ac i hyderu yn ein gweithredoedd, megis trwy eu haeddiant a'u teilyngdod hwy i bwrcasu i ni ein hunain ac eraill faddeuant pechod, ac felly yn y diwedd fywyd tragywyddol: canys byddai hynny 'n gabledd yn erbyn trugaredd Duw, ac yn anfri mawr i dywalltiad Gwaed ein Hiachawdwr Iesu Grist.—— Canys drwy rad ras a thrugaredd Duw, drwy gyfryngiad Gwaed ei Fab Iesu Grist, heb haeddiant na theilyngdod ar ein rhan ni, y maddeuir ein pechodau, y cymmodir ni, ac yr adferir ni i'w ffafr Ef, ac y gwneir ni yn etifeddion teyrnas nefoedd.

I Dduw, yr Hwn sydd yn ein galw ni, ebe St. Awstin, y mae gras yn perthyn; ac yna pwy bynnag a gafodd ras, y mae gan hwnnw weithredoedd da. Wrth hynny nid gweithredoedd da sy 'n dwyn gras, ond hwy a ddygir *gan* ras.—— Mae 'r olwyn, eb efe, yn troi 'n grwn,

aid fel y gwneler hi 'n gron; ond oblegid ei gwneuthur yn gron ar y cyntaf, am hynny y mae hi 'n troi 'n grwn. Felly nid yw neb yn gwneuthur gweithredoedd da, er mwyn derbyn gras drwy ei weithredoedd da; ond am iddo 'n gyntaf dderbyn gras, am hynny y mae o ganlyniad yn gwneuthur gweithredoedd da.

Ac mewn man arall; Nid yw gweithredoedd da, medd efe, yn myned *o'r blaen* yn yr hwn a gyfiawnheir *wedi* hynny; ond mae gweithredoedd da yn *dilyn*, ar ol i ddyn gael yn *gyntaf* ei gyfiawnhâu.

Am hynny fe 'n dysg St. Paul y rhaid i ni wneuthur gweithredoedd da o herwydd amryw achosion:——

Yn gyntaf, i'n dangos ein hunain yn ufudd blant i'n Tad nefol, yr Hwn a'u hordeiniodd hwynt fel y rhodiem ni ynddynt.

Yn ail, am eu bod yn ddangosiadau ac yn dystiolaethau da o'n cyfiawnhâd.

Yn drydydd, er mwyn cyffroi a chynhyrfu eraill, pan welont ein gweithredoedd da ni, i ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

Na fyddwn gan hynny yn anesgud i wneuthur gweithredoedd da, gan mai ewyllys Duw ydyw i ni rodio ynddynt, gan ein sicrhâu ein hunain y derbyn pob dyn gan Dduw yn y dydd diweddaf, am ei lafur yn y wir ffydd, obrwy a fo mwy nag a haeddodd ei weithredoedd.

Ac am y ceir son yn awr am un weithred dda yn neillduol, yr hon y mae ei chlod yn y Ddeddf a'r Efengyl, fe ddywedwyd hyn yn y dechreu am bob gweithredoedd da yn gyffredinol:—— yn gyntaf, i symmud ymaith oddi ar ffordd y diniweid a'r annysgedig, y maen tramgwydd enbyd hwn, sef y gall y neb a fynno geisio pwrcasu 'r nefoedd â'i weithredoedd: yn ail; i gymmeryd ymaith, gymmaint ag a aller, oddi wrth feddyliau cynfigennus a thafodau enllibus bob achlysur cyfiawn o athrodi, megis petteid yn gwrthod gweithredoedd da.

Y weithred dda y traethir am dani yn awr yw YMPRYDIO, o'r hon y mae son am ddau ryw yn yr Ysgrythyr; y naill oddi allan, yn perthyn i'r corph, a'r llall oddi fewn, yn y galon a'r meddwl.

Yr Ympryd allanol hwn yw ymattaliad oddi wrth fwyd, dïod, a phob ymborth naturiol, ac oddi wrth bob pleserau hyfryd a digrifwch bydol.

Pan fo 'r Ympryd allanol hwn yn perthyn i un dyn, neu i ychydig, ac nid i holl lïaws y bobl, oblegid achosion a fynegir rhagllaw, yna gelwir ef yn Ympryd Neillduol.—— Ond pan fyddo holl lïaws y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, mewn ardal, neu ddinas, neu drwy wlad gyfan, yn ymprydio, gelwir hynny 'n Ympryd Cyhoeddus.

Un felly oedd yr Ympryd y gorchymynwyd i holl lïaws plant yr Israel ei gadw ar y degfed dydd o'r seithfed mis, am i'r Hollalluog Dduw

osod y diwrnod hwnnw yn ddydd o lanhâd, yn ddydd o gymmod, yn ddydd o iawn, ac yn ddydd i buro 'r bobl oddi wrth eu pechodau.

Mae 'r drefn a'r modd y gwneid hynny yn ysgrifenedig yn yr unfed bennod ar bymtheg, a'r drydedd bennod ar hugain o Lefiticus. Ar y dydd hwnnw byddai 'r bobl yn galaru, yn ymgystuddio, ac yn wylofain am eu pechodau a aethent heibio. *A phob enaid a'r ni chystuddid* y diwrnod hwnnw, drwy wylo am ei bechod, ac ymattal, fel y dywedwyd, oddi wrth bob ymborth corphorol hyd yr hwyr, *yr enaid hwnnw*, medd yr Hollalluog Dduw, *a dorrir ymaith oddi wrth ei bobl.*

Nid ydym yn darllen ddarfod i Moses, drwy ordeiniad y gyfraith, osod un dydd o Ympryd Cyhoeddus drwy 'r holl flwyddyn, *ond* y diwrnod hwnnw.—— Yr oedd gan yr Iuddewon er hynny amserau eraill o Ympryd cyffredin, y rhai a eilw 'r Prophwyd Zechariah yn *Ympryd y pedwerydd mis, ac Ympryd y pummed, ac Ympryd y seithfed, ac Ympryd y degfed.*[1]—— Ond am nad ymddengys yn y Gyfraith Lefiticaidd pa bryd yr ordeiniwyd hwy, yr amseroedd eraill o Ymprydio, heblaw Ympryd y seithfed mis, a ordeiniwyd ym mysg yr Iuddewon drwy osodiad y Llywodraethwŷr, yn hytrach o ddefosiwn, na thrwy un gorchymyn pendant oddi wrth Dduw.

Ar ordeiniad yr Ympryd cyffredinol hwn, cymmerodd dynion da achlysur i drefnu iddynt eu hunain Ymprydiau neillduol ar gyfryw brydiau ag y byddent naill ai yn difrifol alaru ac wylo am eu bucheddau pechadurus, neu yn ymroi i weddïo 'n daerach ar deilyngu o Dduw droi ei lid oddi wrthynt, naill ai pan rybuddid a phan ddygid hwy i'w ystyried drwy bregethiad y Prophwydi, neu pan welent mewn rhyw fodd arall fod rhyw berygl agos yn crogi uwch eu pennau.

Hwy a ddangosent y tristyd calon hwn, yn gyssylltedig âg Ympryd, weithiau trwy ymddygiad allanol ac agwedd eu cyrph, gan wisgo sachliain, eu taenellu eu hunain â llwch a lludw, ac eistedd neu orwedd ar y ddaear.—— Canys pan glywo dynion da ynddynt eu hunain faich trwmlwythog pechod, a gweled mai damnedigaeth yw ei gyflog, a chanfod â llygaid eu meddwl ddychryndod uffern, maent yn crynu ac yn ysgrydian, ac yn teimlo oddi fewn dristyd calon am eu camweddau, ac heb allel llai nag agor eu hadfyd hwn i'r Hollalluog Dduw, a gwaeddi arno am drugaredd.

Pan wneler hyn o ddifrif, mae eu meddwl mor llawn, mewn rhan, o dristyd a thrymder, ac mewn rhan, o ddymuniad difrifol ar gael eu gwared oddi wrth berygl uffern a damnedigaeth, fel y rhoddir heibio bob chwant at fwyd a diod, ac y daw yn ei le ef ffieidd-dod at bob peth

[1] Zech. 8. 19.

bydol a phleserau; fel nad oes dim yn eu boddio 'n fwy nag wylofain a galaru, a dangos drwy eiriau a thrwy agwedd eu cyrph eu bod wedi blino ar y byd hwn.

Fel hyn yr ymprydiodd Dafydd pan ymbiliodd â'r Hollalluog Dduw dros fywyd y bachgen a ennillasid mewn godineb o Bathseba gwraig Urïas.[1]

Fel hyn yr ymprydiodd Ahab pan edifarhaodd am lofruddio Naboth, gan alaru am ei weithredoedd pechadurus.[2]

Fel hyn yr ymprydiodd y Ninifeaid, pan ddygwyd hwy i edifeirwch drwy bregeth Jonah.[3]

Pan laddwyd deugain mil o'r Israeliaid yn y rhyfel yn erbyn gwŷr Benjamin, *holl feibion Israel*, ebe 'r Ysgrythyr, *a'r holl bobl a aethant i fynu ac a ddaethant i Dŷ Dduw, ac a wylasant, ac a arhosasant yno ger bron yr Arglwydd, ac a ymprydiasant y dwthwn hwnnw hyd yr hwyr.*[4]

Fel hyn yr ymprydiodd Daniel, Esther, Nehemïah, a llawer eraill yn yr Hen Destament.

Ond os dywed neb,—— "Gwir; felly yn ddïau y byddent *hwy* yn ymprydio: ond nid ydym *ni yn awr* dan iau y ddeddf; fe'n rhyddhawyd ni drwy ryddid yr Efengyl; am hynny nid yw defodau ac arferion yr hen Ddeddf ddim yn ein rhwymo *ni*, oni ellir dangos trwy Ysgrythyrau 'r Testament Newydd, neu drwy esamplau allan o'r unrhyw, mai ymattaliad oddi wrth fwyd, dïod, a phob ymborth a digrifwch corphorol, fel gynt, ydyw Ympryd yn awr dan yr Efengyl."

Yn gyntaf; Mae 'n wirionedd mor amlwg y dylem ni ymprydio, fel na raid ei brofi yma, gan fod yr Ysgrythyrau yn dysgu hynny mor eglur. Y cwestiwn gan hynny yw, A ddylem ni, pan ymprydiom, gadw ein cyrph oddi wrth bob bwyd a dïod dros amser eim Hympryd, ai na ddylem :——

Gellir yn hawdd gasglu *y dylem* wneuthur hynny, oddi wrth ofyniad a roddwyd gan y Phariseaid i Grist, ac oddi wrth ei attebiad Yntau iddynt.—— *Paham y mae disgyblion Ioan, meddent, yn ymprydio yn fynych, ac yn gwneuthur gweddïau, a'r un modd yr eiddo y Phariseaid; ond yr eiddot ti yn bwytta ac yn yfed?*[5] Yn y cwestiwn llyfn hwn maent yn cynnwys yn ddichellgar y ddadl neu 'r ymresymmiad hwn :—— Pwy bynnag nid yw'n ymprydio, nid yw 'r dyn hwnnw o Dduw: canys mae Ympryd a Gweddi yn weithredoedd a ganmolir ac a orchymynir gan Dduw yn ei Ysgrythyrau; a phob dyn da, Prophwydi

[1] 2 Sam. 12. 16. [2] 1 Bren. 21. 27. [3] Jonah 3. 5. [4] Barn. 20. 26.
[5] St. Luc 5. 33.

ac eraill, o Moses hyd yr amser hwn, a ymarferasant eu hunain yn y gweithredoedd hyn. Y mae Ioan hefyd a'i ddisgyblion yn y dyddiau hyn yn ymprydio 'n fynych, ac yn gweddïo llawer; ac felly 'r ydym ninnau 'r Phariseaid hefyd yn gwneuthur. Ond nid yw dy ddisgyblion di yn ymprydio mewn un modd; yr hyn os ti a'i gwadi, ni a allwn yn hawdd ei brofi. Canys pwy bynnag sy 'n bwytta ac yn yfed, nid yw 'n ymprydio; Mae dy ddisgyblion di yn bwytta ac yn yfed; O ganlyniad nid ydynt yn ymprydio.—— Oddi wrth hyn, meddant, yr ydym yn casglu o angenrheidrwydd, Nad wyt ti, na'th ddisgyblion chwaith, ddim o Dduw.

Mae Crist yn atteb, gan ddywedyd; *A ellwch chwi beri i blant yr ystafell brïodas ymprydio, tra fyddo 'r prïodas-fab gyd â hwynt? Ond y dyddiau a ddaw, pan ddyger y prïodas-fab oddi arnynt; ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hynny.*[1]

Mae 'n Hiachawdwr Crist, megis Meistr da, yn amddiffyn diniweidrwydd ei ddisgyblion yn erbyn malais y Phariseaid beilchion, ac yn profi nad yw ei ddisgyblion Ef ddim yn euog o droseddu un iot o ddeddf Duw, er nad oeddynt ddim yn ymprydio y pryd hwnnw; ac yn ei attebiad mae 'n argyhoeddi 'r Phariseaid o Goel-grefydd ac o Anwybodaeth:—— o Goel-grefydd, am eu bod yn gwneuthur eu crefydd yn gynnwysedig yn eu gweithredoedd, ac yn prïodoli sancteiddrwydd i weithrediad allanol y weithred, heb olygu i ba ddiben yr ordeiniwyd Ympryd: —— o Anwybodaeth, am na fedrent farnu rhwng amser ac amser. Ni wyddent fod amser i lawenhâu ac i ymddigrifo, yn gystal ag amser i gwynfan ac i alaru; yr hyn y mae Efe yn ei ddysgu yn ei attebiad, fel y crybwyllir yn helaethach rhagllaw, pan ddelom i ddangos pa amser sy gymhesuraf i ymprydio ynddo.

Ond nodwn yma, fy ngharedigion, na ddarfu i'n Hiachawdwr Crist, wrth atteb eu gofyniad hwy, wadu, ond cyfaddef, nad oedd ei ddisgyblion ddim yn ymprydio, gan gyttuno felly â'r Phariseaid yn hyn, megis eglur wirionedd, nad yw 'r hwn sy 'n bwytta ac yn yfed ddim yn ymprydio.

Ymprydio ynte, hyd yn nod yn ol addefiad Crist, ydyw cadw bwyd a dïod a phob ymborth naturiol oddi wrth y corph, dros yr hyd y bydder yn ymprydio.

Ac y mae'n eglur iawn wrth Gynghor Calcedon, un o'r pedwar Cynghor Catholic cyntaf, yr arferid ymprydio yn y Brif Eglwys gynt. —— Y Tadau ymgynhulledig yno, hyd yn chwe chant a deg ar hugain o rifedi, gan ystyried mor gymmeradwy gan Dduw yw ymprydio, pan arferer ef yn ol ei Air Ef; gan fod hefyd o flaen eu llygaid y mawr

[1] St. Luc 5. 34, 35.

gamarferiad o'r unrhyw, ag a ymlusgasai i'r Eglwys yn y dyddiau hynny, drwy esgeulusdra y rhai a ddylasent ddysgu i'r bobl ei iawn-arfer ef, a thrwy ddeongliadau ofer a ddychymmygasai dynion;—— i ddiwygio 'r cam-arferiadau a grybwyllwyd, ac i adferu gwaith mor dda a duwiol a hwn i'w iawn ddefnyddiaeth, hwy a ordeiniasant yn y Cynghor hwnnw, ar fod i bob dyn, yn gystal yn ei Ympryd Neillduol a Chyhoeddus, aros ar hyd y diwrnod heb na bwyd na dïod, hyd ar ol y Gosper: a phwy bynnag a fwyttai neu a yfai cyn darfod y Gôsper, y dylid ei gyfrif yn anystyriol o burdeb ei Ympryd.—— Mae 'r Ganon hon yn dangos mor eglur na 's gall geiriáu osod allan yn amlyccach, pa fodd yr arferid ymprydio yn y Brif Eglwys gynt.

Ymprydio gan hynny, yn ol ordeiniad y chwe chant a'r deg ar hugain Tadau hynny, yn seilio eu barn am y peth hyn ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd a hir-barhâus arferiad y Prophwydi a duwiolion eraill cyn dyfodiad Crist, ac Apostolion a dynion defosiynol eraill yn y Testament Newydd, yw hyn: Cadw oddi wrth y corph fwyd, dïod, a phob ymborth naturiol.

Fe ddywedpwyd hyn hyd yma er mwyn egluro i chwi pa beth yw Ympryd. Bellach rhagllaw fe ddangosir i chwi wir ac iawn arfer Ympryd.

Nid yw gweithredoedd da i gyd o'r un rhyw. Canys y mae rhai o honynt eu hunain ac o'u naws brïodol eu hunain yn dda bob amser; megis, caru Duw uwchlaw pob dim, caru dy gymmydog fel ti dy hun, anrhydeddu dy dad a 'th fam, parchu 'r awdurdodau goruchel, rhoi i bob dyn yr hyn sy ddyledus iddo, a'r cyffelyb.

Mae gweithredoedd eraill, y rhai, os ystyrir hwy ynddynt eu hunain, heb olygu ym mhellach, ydynt yn ganolig neu ddiddrwg-ddidda, ond ydynt yn ddrwg neu dda yn ol y defnydd neu 'r diben y gwasanaethant iddo.—— Y gweithredoedd hyn, os bydd iddynt *ddiben* da, a elwir yn weithredoedd da, ac ydynt felly mewn gwirionedd: ond nid o honynt eu *hunain* y maent felly, ond o herwydd y *diben* da y gwasanaethant iddo.—— Ar yr ochr arall, os drwg yw y diben y gwasanaethant iddo, ni 's gall fod yn amgen nad drwg y rhaid iddynt hwythau hefyd fod.

O'r rhyw yma o weithredoedd y mae Ympryd, yr hwn o hono ei hun sy 'n beth diddrwg-didda, ac y mae 'n ddrwg neu 'n dda yn ol y diben y mae 'n gwasanaethu iddo. Canys pan fo 'n golygu at ddiben da, mae yn waith da: ond pan fo ei ddiben yn ddrwg, mae 'r gwaith yn ddrwg hefyd.

Ymprydio ynte, gan gredu o galon y gall ein hympryd a'n gweithredoedd da eraill ein gwneuthur yn ddynion perffaith a chyfiawn, a'n dwyn yn y diwedd i'r nef, y mae hyn, meddaf, yn gred ddieflig: ac y

mae 'r fath Ympryd a hyn mor bell oddi wrth ryngu bodd Duw, ag y mae 'n gwrthod ei drugaredd, ac yn hollol ddibrisdod ar haeddiant Angau Crist a thywalltiad ei Werthfawr Waed. Hyn y mae dammeg y Pharisead a'r Publican yn ei ddysgu:——

*Dau wr,* ebe Crist, *a aeth i fynu i'r Deml i weddïo; un yn Pharisead, a'r llall yn Bublican.*

*Y Pharisead o'i sefyll a weddïodd rhyngddo ac ef ei hun fel hyn: O Dduw, yr wyf yn diolch i ti nad wyf fi fel y mae dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwŷr; neu fel y publican hwn chwaith.*

*Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; yr wyf yn degymmu cymmaint oll ag a feddaf.*

*A'r Publican, gan sefyll o hirbell, ni fynnai cymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef; eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur.*[1]

Ym mherson y Pharisead hwn gesyd Crist allan un ag sydd yngolwg ac ym marn y byd yn wr perffaith, cyfiawn, ac uniawn; un heb ei lychwino â'r beiau ag sy 'n gyffredin yn llygru dynion eraill; trawsder, derbyn gwobrau, crib-ddeilio â'u cymmydogion, yn yspeilwŷr y wladwriaeth, yn gyfrwys-ddrwg a dichellgar wrth newid a chyfnewid, yn arfer pwysau twyllodrus a ffiaidd anudoniaeth wrth brynu a gwerthu, yn butteinwŷr, ac yn odinebwŷr, ac yn ddrwg eu buchedd.—— Nid un felly oedd y Pharisead, ac nid oedd yn euog o un cyfryw fai ceryddus arall. Ond lle 'r oedd eraill yn troseddu drwy adael heb eu gwneuthur y pethau yr oedd y ddeddf yn eu gofyn, yr oedd y dyn hwn yn gwneuthur *mwy* nag oedd y ddeddf yn ei ofyn; canys yr oedd yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos, ac yn degymmu cymmaint oll ag a feddai. Beth a allai 'r byd ynte yn gyfiawn ei feio yn y dyn hwn? Ië, beth yn ychwaneg oddi allan a ellid ei ddymuno ynddo, i'w wneuthur yn ddyn perffeithiach a chyfiawnach? Dim, yn wir, yn ol barn dyn. Ac etto mae ein Hiachawdwr Crist yn dewis y publican druan *heb* Ympryd, o'i flaen ef *gyd â'* i Ympryd. Mae 'r achos yn amlwg paham y gwnaeth Efe felly, o herwydd y Publican, gan nad oedd ganddo ddim gweithredoedd da i ymddiried ynddynt, a'i rhoes ei hun i fynu i Dduw, gan gyffesu ei bechodau, a gobeithio 'n sicr y cedwid ef drwy rad drugaredd Duw yn unig. Yr oedd y Pharisead yn ymogoneddu ac yn ymddiried cymmaint yn ei weithredoedd, fel y tybiai ei hun yn ddïogel ddigon heb drugaredd, ac y caffai fyned i'r nef drwy ei ympryd a'i weithredoedd eraill.

[1] St. Luc 18. 10—13.

I'r perwyl yma y gwasanaetha 'r ddammeg hon; canys dywedpwyd hi *wrth y rhai oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn diystyru eraill.*[1] Yn awr, am fod y Pharisead yn cyfeirio ei weithredoedd at ddiben drwg, gan geisio cyfiawnhâd trwyddynt, yr hyn yn wir yw priodol waith Duw heb ein haeddiant ni, yr oedd ei ymprydio ddwywaith yn yr wythnos, a'i holl weithredoedd eraill, er eu hamled, ac er cystal a sancteiddied y tybygid eu bod yngolwg y byd, etto mewn gwirionedd ger bron Duw yn hollol ddrwg a ffiaidd.

Y nod hefyd ag y mae y rhagrithwŷr yn saethu atto yn eu hympryd, yw ymddangos yn sanctaidd yngolwg y byd, ac felly ennill clod a chanmoliaeth dynion. Ond dywed ein Hiachawdwr Crist am danynt, *Y maent yn derbyn eu gwobr*;[2] hynny yw, clod a chanmoliaeth dynion; ond nid oes iddynt ddim canmoliaeth gan Dduw. Canys pa beth bynnag a wneler oddi ar ddiben drwg, a wneir yntau yn ddrwg, drwy ddrygioni 'r diben.

Drachefn, yr hyd y cadwom annuwioldeb yn ein calonnau, ac y goddefom i feddyliau drwg aros ynddynt, er i ni ymprydio cyn fynyched ag y gwnaeth St. Paul neu Ioan Fedyddiwr, a chadw ein hympryd mor fanol ag y gwnaeth y Ninefeaid, etto fe fydd hynny nid yn unig yn beth anfuddiol i ni, ond hefyd yn beth yn mawr anfoddloni yr Hollalluog Dduw: oblegid Efe a ddywed fod y cyfryw ymprydiau yn *ffiaidd ganddo; y maent yn faich arnaf,* eb Efe, *blinais yn eu dwyn.*[3] Am hynny y mae 'n llefaru 'n llymdost yn eu herbyn hwy, gan ddywedyd trwy enau 'r Prophwyd Esay; *Wele, yn y dydd yr ymprydioch yr ydych yn cael gwynfyd, ac yn mynnu eich holl ddyledion. Wele, i ymryson a chynnen yr ymprydiwch, ac i daro â dwrn anwiredd; nac ymprydiwch fel y dydd hwn, i beri clywed eich llais yn yr uchelder. Ai dyma 'r ympryd a ddewisais? dydd i ddyn i gystuddio ei enaid? Ai hyn a elwch yn ympryd, ac yn ddiwrnod cymmeradwy gan yr Arglwydd?*[4]

Yn awr, fy ngharedigion, gan nad yw 'r Hollalluog Dduw yn cymmeradwyo ein hympryd ni er mwyn y weithred ei hun, ond ei fod yn edrych yn bennaf ar feddwl y galon, a'i fod yn cyfrif ein hympryd yn dda neu ddrwg yn ol y diben sy gennym mewn golwg *wrth* ymprydio, —— ein rhan ni yw *rhwygo ein calon, ac nid ein dillad,*[5] fel y mae 'r Prophwyd Joel yn ein cynghori; hynny yw, mae 'n rhaid i'n tristyd a'n galar fod oddi fewn yn y galon, ac nid mewn golwg oddi allan yn unig: ie, angenrheidiol yw i ni yn gyntaf, o flaen pob dim, lanhâu ein

[1] Luc 18. 9. [2] Mat. 6. 2. [3] Esay 1. 13, 14. [4] Esay 58. 3, 4, 5. [5] Joel 2. 13.

calonnau oddiwrth bechod, ac yna cyfeirio ein hympryd at y diben ag y mae Duw yn ei gyfrif yn un da.

Y mae tri diben, at y rhai os cyfeirir ein hympryd, yna efe a fydd yn waith buddiol i ni, a chymmeradwy gan Dduw.

Y cyntaf yw, cystuddio 'r cnawd, rhag iddo fod yn rhy drythyll, ond wedi ei ddofi, a'i ddarostwng i'r yspryd. Dyma 'r peth yr oedd St. Paul yn edrych arno yn ei ympryd, pan ddywedodd, *Yr wyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymmeradwy.*[1]

Yr ail yw, er mwyn gwneuthur yr yspryd yn ddifrifach ac yn wresoccach i weddio. I'r diben hwn yr ymprydiodd y prophwydi a'r athrawon yn Antiochia, cyn iddynt anfon allan Paul a Barnabas i bregethu 'r Efengyl.[2]—— Am y cyffelyb achos yr ymprydiodd yr un Apostolion, pan orchymynasent i Dduw, drwy eu taerion weddïau, y cynnulleidfaoedd ag oeddynt yn Antiochia, Pisidia, Iconium, a Lystra, fel yr ydym yn darllen yn Actau 'r Apostolion.[3]

Y trydydd yw, fel y bo 'n hympryd yn dystiolaeth i ni ger bron Duw o'n hufudd ymostyngiad i'w oruchel Fawrhydi Ef, pan fyddom yn cyffesu ac yn cydnabod ein pechodau iddo, a phan y'n cyffroer oddi fewn â thristwch calon, gan alaru o'u plegid trwy gystuddio ein cyrph.

Y rhai hyn yw tri diben neu iawn arfer ympryd: mae 'r cyntaf yn perthyn yn fwyaf priodol i ympryd neillduol; mae 'r ddau arall yn briodol yn gystal i ympryd cyhoeddus ag i ympryd neillduol.—— A chymmaint a hyn a ddywedpwyd am ddefnydd ymprydio.

Arglwydd, trugarhâ wrthym, a dyro i ni ras, fel, tra byddom byw yn y byd blinderog yma, y gallom drwy dy gymmorth Di ddwyn y ffrwyth hwn a chyfryw ffrwythau eraill yr Yspryd, y rhai a ganmolir ac a orchymynir yn dy sanctaidd Air, er gogoniant i'th Enw Di, a diddanwch i ninnau, fel, ar ol rhedegfa 'r fuchedd adfydus hon, y caffom fyw yn dragywydd gyd â Thi yn dy deyrnas nefol, nid er mwyn haeddiant na theilyngdod ein gweithredoedd ein hunain, ond er mwyn dy drugareddau Di, a haeddedigaethau dy anwyl Fab, Iesu Grist; i'r Hwn gyd â Thydi a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl glod, yr anrhydedd, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

[1] 1 Cor. 9. 27. [2] Act. 13. 2, 3. [3] Act. 14. 21—23.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# AM YMPRYDIO.

FE ddangoswyd yn yr Homili o'r blaen, fy ngharedigion, mai ymprydd ym mhlith yr Iuddewon, fel y gorchymynwyd ef gan Dduw trwy Moses, oedd ymattal trwy 'r dydd, o'r bore hyd yr hwyr, oddi wrth fwyd, dïod, a phob math o luniaeth sy 'n meithrin y corph; a phwy bynnag a brofai ddim cyn yr hwyr, ar y dydd a osodid i ymprydio, y cyfrifid yn eu plith hwy fod hwnnw yn torri ei ympryd.

Yr hon drefn, er ei bod yn ddïeithr yn nhyb rhai yn ein dyddiau ni, am nad arferwyd hi mor gyffredin yn y deyrnas hon er ys llawer o flynyddoedd, etto profwyd yno yn ddigon helaeth trwy dystiolaethau ac esamplau o Ysgrythyrau Sanctaidd yr Hen Destament a'r Newydd, mai felly y byddid yn ymprydio ym mhlith pobl Dduw (sef yr Iuddewon) y rhai, cyn dyfodiad ein Hiachawdwr Crist, y bu wiw gan Dduw eu dewis iddo ei Hun yn bobl brïodol o flaen holl genhedloedd y ddaear;—— ac mai hynny oedd barn ein Hiachawdwr Crist am ympryd; —— ac mai felly 'r arferai 'r Apostolion ymprydio ar ol Esgyniad Crist. —— Ac fe ddangoswyd yno hefyd iawn ddefnydd ymprydio.

Yn yr ail ran hon o'r Homili, fe ddangosir na ddichon un sefydliad na chyfraith a'r a wnelo dyn ynghylch pethau a fyddo o'u naturiaeth brïodol eu hunain yn ddiddrwg-ddidda, ddim rhwymo cydwybodau Cristionogion i'w cynnal ac i'w cadw yn wastadol; ond bod gan yr awdurdodau goruchel gyflawn ryddid i gyfnewid pob cyfryw ddeddf ac ordinhâd, pa un bynnag a fyddo ai eglwysig ai gwladol, pan fyddo 'r amser a'r lle yn gofyn hynny.

Ond yn gyntaf fe roir attebiad i gwestiwn ag y gall rhai ei ofyn, sef, Pa farn a ddylai fod gennym am gyfryw ddirwest ac ymattaliaeth ag a osodir drwy drefniad cyhoeddus a chyfreithlon o wneuthuriad Tywysogion a thrwy awdurdod y Pen-swyddogion, er mwyn llywodraeth dymhorol, heb olygu dim ar grefydd yn yr unrhyw?—— Megis pan osoder ympryd mewn rhyw deyrnas er mwyn cynnal pysg-drefydd a fo ar lan y môr, ac er mwyn amlhâu pysgodwŷr, o'r rhai y daw llongwŷr i fyned ar y môr, i forwrio yn llongau y deyrnas, drwy y rhai y gellir trosglwyddo iddi nwyddau gwledydd tramor, a'r rhai hefyd a allant fod yn amddiffyniad angenrheidiol i wrthwynebu ymgyrch y gelyn.

Er mwyn deall y gofyniad hwn yn well, y mae 'n rhaid i ni wahaniaethu rhwng ordeiniadau Tywysogion a wneler er mwyn trefnu eu gwladwriaethau, yn rhag-ddarbod y pethau a fo rheidiol i sicraf amddiffyniad eu deiliaid a'u teyrnasoedd; rhaid gwahaniaethu, meddaf, rhwng hynny a threfniadau *eglwysig* yn ordeinio y cyfryw weithredoedd ag y gellir drwyddynt, megis drwy is-foddion, heddychu digofaint Duw, ac ennill ei drugaredd.

Fe ddylai pob deiliaid Cristionogol, o barch i'r Llywodraethwr, nid yn unig rhag ofn cosp, ond hefyd (fel y dywed yr Apostol,) *er mwyn cydwybod,*[1] ufuddhâu i gyfreithiau pendant a wneler gan Dywysogion er mwyn cynnal i fynu eu llywodraeth, tra na byddont yn groes i ddeddf Duw. Er mwyn cydwybod, meddaf, nid o'r *peth a orchymyner,* (canys y mae hwnnw o'i naturiaeth ei hun yn ddiddrwg-ddidda) ond er mwyn cydwybod *o'n hufudd-dod ni,* yr hwn wrth ddeddf Duw sy ddyledus arnom i'r Llywodraethwr fel Gweinidog Duw.

Er bod y cyfreithiau pendant hyn yn gwahardd i ni sy ddeiliaid, dros ryw amserau a dyddiau gosodedig, arfer rhyw fathau o fwydydd a diodydd, y rhai a adawodd Duw drwy ei sanctaidd air yn rhydd i bob math ar ddyn eu cymmeryd a'u defnyddio trwy roddi diolch, ym mhob lle ac amser; etto am na wnaeth Tywysogion a Llywodraethwyr eraill y cyfreithiau hynny er mwyn gosod mwy o sancteiddrwydd mewn rhyw fath o fwyd a diod nag mewn math arall, neu i wneuthur un diwrnod yn sancteiddiach nag un arall, ond yn unig er mwyn llesâu 'r llywodraeth; mae 'r holl ddeiliaid yn rhwym o gydwybod i'w cadw wrth orchymyn Duw, yr Hwn drwy 'r Apostol sy 'n ewyllysio i *bob enaid* yn ddiwahaniaeth *fod yn ddarostyngedig i'r awdurdodau goruchel.*[2]

Ac yn y pwngc hwn, tu ag at am ein dyledswydd ni sy 'n trigo ym Mrydain, wedi ein cylchynu â'r môr, mae gennym wrth reswm achos mawr i ddefnyddio cynnyrch y dwfr, yr hwn a osododd yr Hollalluog Dduw yn ei ddwyfol ragluniaeth mor agos attom, trwy 'r hyn y gellir yn well arbed a chynhilo cynnydd lluniaeth y tir, er mwyn dwyn lluniaeth yn gynt i bris cymhedrol, fel y galler yn haws ac yn well gynnal y tlodion.

A dilys fod hwnnw 'n ymddangos yn Frytaniad rhy foethus, yr hwn, pan ystyrio 'r mawr fuddioldeb a allo ganlyn o hynny, na all attal rhywfaint ar ei flysig chwant, pan fyddo ei Dywysog, gyd â chaniattâd doethion ei deyrnas, yn ordeinio hynny.—— Pa galon wir Frutanaidd na ewyllysiai weled ei hen ogoniant wedi dychwelyd eilwaith i'r deyrnas hon, yn yr hyn, gyd â mawr glod, y bu mor rhagorol cyn ein dyddiau

[1] Rhuf. 13. 5. [2] Rhuf. 13. 1.

ni, o ran y morwŷr ag oedd yn llenwi ei llongau?—— Pa beth a frawycha galonnau ein gwrthwynebwŷr yn fwy na'n gweled mor amddiffynedig ac arfog ar y môr, ag y mae'r gair ein bod ar y tir?—— Pe dymunai y Tywysog arnom ufuddhâu i ymattal oddi wrth gig dros un diwrnod yn ychwaneg nag yr ydym, a bod yn foddlon ar *un* pryd o fwyd ar yr un diwrnod, oni ddylai y lles a ddeilliai i ni ein hunain oddi wrth hynny ein perswadio i ymddarostwng?—— Ond yn awr lle y caniattêir i ni *ddau* bryd ar y diwrnod hwnnw, ar yr hwn yr arferai nifer fawr iawn o'n henafiaid yn y deyrnas gymmeryd dim ond *un* pryd prin o fwyd, a hwnnw o bysgod yn unig, a ddylem ni dybied fod y baich a orchymynir i ni yn rhy drwm?

Ym mhellach; Ystyriwch adfail y trefi ar lan y môr, y rhai a ddylent o ran rhifedi eu pobl fod yn barottaf o gwbl i wrthladd y gelyn, ac felly ninnau sy'n trigo ym mhellach yn y tir, wrth eu cael hwy yn darian i'n hamddiffyn ni, a fyddem ddïofalach a dïogelach. Os ein cymmydogion ni ydynt, paham nad ewyllysiem eu llwyddiant hwy? Os ydynt yn amddiffynfa i ni, am eu bod yn gyfnesaf i wrthladd y gelyn, ac i gadw draw gynddeiriowgrwydd y moroedd, y rhai, oni bai hwy, a dorrent dros ein porfeydd tirion ni, paham na chynnorthwywn ni hwynt?

Ond i ddychwelyd at y pwngc.—— Nid ydym yn cymmell hyn yn ein hordeiniadau eglwysig, wrth bennodi ffurf o Ympryd i ymddarostwng ger bron yr Hollalluog Dduw, er mwyn bod i'r drefn a arferid yn hyn ym mhlith yr Iuddewon, ac a ddilynid gan yr Apostolion, ar ol Dyrchafael Crist, fod o'r fath rym ac angenrhaid, fel y dylid arfer y drefn honno yn unig ym mysg Cristionogion, ac nid yr un arall; oblegid ni byddai hynny ond rhwymo pobl Dduw wrth iau a baich seremonïau Moses; ïe, dyna fyddai'r ffordd uniawn i'n dwyn ni, y rhai a ryddhawyd gan ryddid Efengyl Grist, dan gaethiwed y ddeddf eilwaith, yr hyn beth na atto Duw i neb ei gynnyg na'i fwriadu.

Ond i'r perwyl hwn y gwasanaetha dangos faint yw'r gwahaniaeth sy rhwng y drefn o ymprydio a arferir yn yr Eglwys y dyddiau hyn, a'r drefn a arferid y pryd hwnnw:——

Ni ddylid ac ni ellir rhwymo Eglwys Dduw felly wrth un drefn a wnaed, neu a wneler ac a ddychymmyger rhagllaw, trwy awdurdod dyn, fel na's dichon hi yn gyfreithlon, ar achosion cyfiawn, gyfnewid neu ysgafnhâu y gosodiadau a'r ordinhadau Eglwysig hynny, ïe, eu gadael yn gwbl, a'u torri, pan fônt yn pwyso at ofergoel neu at annuwioldeb, a phan fônt yn tynnu'r bobl oddi wrth Dduw yn fwy na gweithio adeiladaeth ynddynt. Arferodd Crist ei Hun yr awdurdod hon, a gadawodd hi i'w Eglwys. Efe a'i harferodd hi, meddaf, yn achos y

drefn a'r ordinhâd a wnelsai 'r henafiaid ynghylch ymolchi 'n fynych, yr hon drefn a gedwid yn ddïesgeulus gan yr Iuddewon: etto am ei bod yn gogwyddo at ofergoel, newidiodd ein Hiachawdwr Crist hi yn ei Eglwys i Sacrament buddiol, Sacrament ein had-enedigaeth.

Yr awdurdod hon i esmwytho cyfreithiau ac ordinhadau Eglwysig a arferwyd gan yr Apostolion, pan wrth ysgrifenu o Jerusalem at yr Eglwys ag oedd yn Antiochia, yr hyspysasant iddynt *na ddodid arnynt faich ychwaneg na'r pethau angenrheidiol hyn; bod iddynt ymgadw oddi wrth yr hyn a aberthwyd i eilunod, a gwaed, ac oddi wrth y peth a dagwyd, ac oddi wrth odineb,*[1] er bod deddf Moses yn gofyn cadw llawer o bethau eraill.

Yr awdurdod hon i gyfnewid ordinhadau, cyfreithiau, a gosodiadau 'r Eglwys, a arferwyd, wedi amser yr Apostolion, gan y Tadau ynghylch y *dull* o ymprydio, fel y gellir gweled yn yr Hanes Deir-rhan, lle mae 'n ysgrifenedig fel hyn:—— "Ynghylch ymprydio, yr ydym yn gweled yr arferid ef mewn modd gwahanol mewn gwahanol leoedd gan wahanol ddynion: canys maent yn Rhufain yn ymprydio am dair wythnos ar untu cyn y Pasg, oddi eithr ar y Sadyrnau a'r Suliau, yr hwn ympryd a alwant y Garawys."—— Ac ar ol ychydig linellau yn yr un fan mae 'n canlyn;—— "Nid yr un drefn unwedd sy gan bawb wrth ymprydio. Oblegid ymettyl rhai yn eu hympryd oddi wrth gig a physgod hefyd.—— Rhai, pan ymprydiont, ni fwyttânt ddim ond pysgod.—— Mae eraill wrth ymprydio a fwyttânt bob math o adar dwfr yn gystal a physgod, gan seilio eu rheswm ar Moses, fod i'r cyfryw adar eu sylwedd o'r dwfr yn gystal a'r pysgod.—— Mae eraill, pan ymprydiont, na fwyttânt na llysiau nac wyau.—— Mae rhai ymprydwŷr na fwyttânt ddim ond bara sych.—— Mae eraill na fwyttânt wrth ymprydio ddim oll, hyd yn nod bara sych.—— Mae rhai yn ymprydio oddi wrth bob math o ymborth hyd yr hwyr, ac yna hwy a fwyttânt heb wneuthur dewisiad na gwahaniaeth rhwng bwydydd a bwydydd."

A mil o'r cyfryw wahanol fathau o ymprydio a ellid eu gweled yn cael eu harfer yn wahanol mewn gwahanol leoedd o'r byd, a chan wahanol ddynion. Ac er yr holl amryw foddion hyn ar ymprydio, etto ni thorrwyd cariad perffaith, gwir rwymyn tangnefedd Cristionogol, ac ni ddarfu i'w hamryw ympryd un amser dorri eu cydsyniad a'u cyttundeb yn y ffydd.

Am ymattal ar ryw amserau oddi wrth ryw fwydydd, nid am fod y bwydydd yn *ddrwg*, ond am nad ydynt yn *angenrheidiol*, nid yw 'r

[1] Act. 15. 28, 29.

ymattaliaeth hwn, medd St. Awstin, ddim yn ddrwg. Ac ymgadw rhag defnyddio bwydydd, pan fyddo angenrhaid ac amser yn gofyn, mae hyn, eb efe, yn perthyn yn bríodol i Gristionogion.

Fel hyn y clywsoch, bobl dda, yn gyntaf, fod deiliaid Cristionogol yn rhwym hyd yn nod o gydwybod i ufuddhâu i gyfreithiau Tywysogion, y rhai ni bônt wrthwyneb i ddeddf eu Duw.—— Clywsoch hefyd nad yw Eglwys Grist yn rhwym i gadw un drefn, neu gyfraith, neu ordinhâd a wnelo dyn tu ag at bennodi ffurf mewn crefydd, yn y cyfryw fodd megis na byddo gan yr Eglwys gyflawn allu ac awdurdod oddi wrth Dduw i gyfnewid yr unrhyw pan fo anghenraid yn gofyn: yr hyn a ddangoswyd i chwi drwy esampl ein Hiachawdwr Crist, drwy arferiad ei Apostolion, ac arferiad y Tadau ar ol eu hamser hwy.

Yn awr fe ddangosir ar ychydig eiriau, pa amser sy gyfaddas i ymprydio, canys nid yw pob amser yn gwasanaethu i bob peth; ond fel y dywed y Gwr Doeth, *Y mae amser i bob peth: amser i wylo, ac amser i chwerthin; amser i alaru ac amser i ddawnsio.*[1]—— Esgusododd ein Hiachawdwr Crist ei ddisgyblion, a cheryddodd y Phariseaid am nad oeddynt yn deall defnydd ympryd, nac yn ystyried pa amser oedd gyfaddas i ymprydio. Y ddau beth hyn y mae Efe yn eu dysgu yn ei attebiad iddynt, gan ddywedyd, *A all plant yr ystafell bríodas alaru tra fo'r príodfab gyd â hwynt?* Eu gofyniad hwy oedd ynghylch ymprydio, ei attebiad Yntau sydd ynghylch galaru; gan arwyddoccâu iddynt yn oleu nad yw ympryd allanol y corph ddim yn ympryd ger bron Duw, oni bydd yn gyssylltiedig â'r ympryd tumewnol, yr hwn yw galar a chwynfan y galon, fel y mynegwyd eisoes.—— Ynghylch *amser* ympryd efe a ddywed, *Y dyddiau a ddaw, pan ddyger y príodfab oddi arnynt, ac yna yr ymprydiant.*[2] Wrth hyn y mae 'n eglur nad yw hi amser i ymprydio, tra y parhao 'r bríodas, a thra bo 'r príodfab yn bresennol ynddi; ond pan ddarffo 'r bríodas, a myned o'r príodfab ymaith, yna mae hi 'n amser cyfaddas i ymprydio.

Yn awr i amlygu i chwi beth yw meddwl ac ystyr y geiriau hyn, *Yr ydym yn y bríodas*, a thrachefn, *Fe ddygwyd y príod-fab oddi arnom;* chwi a nodwch, tra bo Duw yn datguddio ei drugaredd i ni, ac yn rhoi i ni ei ddoniau ysprydol neu gorphorol, gellir dywedyd ein bod gyd â'r príod-fab yn y bríodas.—— Felly 'r ydoedd yr hen dad daionus Jacob yn y bríodas, pan ddeallodd fod ei fab Joseph yn fyw, ac yn rheoli 'r holl Aipht dan y brenhin Pharaoh.—— Felly 'r oedd Dafydd yn y bríodas gyd â'r príod-fab, pan gafodd efe 'r oruchafiaeth ar Golíath fawr, a phan dorrodd ymaith ei ben ef.—— Yr oedd Judith a holl bobl

[1] Preg. 3. 1, 4. [2] St. Mat. 9. 15.

Bethulia yn blant yr ystafell briodas, a chanddynt y priod-fab gyd â hwynt, pan ddarfu i Dduw, trwy law gwraig ladd Holoffernes, pentywysog llu'r Assyriaid, a gorthrechu eu holl elynion hwynt.—— Felly plant yr ystafell briodas oedd yr Apostolion, tra 'r oedd Crist yn gorphorol gyd â hwynt, ac yn eu hamddiffyn rhag pob perygl ysprydol a chorphorol.

Ond gellir dywedyd fod y briodas drosodd, a'r priod-fab wedi myned ymaith, pan fo 'r Hollalluog Dduw yn ein taro â chystudd, ac megis yn ein gadael ni ynghanol aneirif wrthwynebiadau. Fel hyn y mae Duw weithiau yn taro personau neillduol âg amryw adfyd, megis trallod meddwl, colli cyfeillion, colli meddiannau, hir a pheryglus glefydau, &c. Yna mae 'n amser cyfaddas i'r dyn hwnnw ymddarostwng i'r Hollalluog Dduw trwy ympryd, a galaru a chwynfan am ei bechodau â chalon athrist, a gweddio 'n ddiragrith, gan ddywedyd gyd â'r Prophwyd Dafydd, O Arglwydd, *cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau, a dilea fy holl anwireddau!*[1]—— Hefyd pan fo Duw yn cystuddio teyrnas neu wlad gyfan â rhyfeloedd, â newyn, â chowyn, â chlefydau dieithr a heintiau anadnabyddus; yna mae hi 'n bryd i bob sefyllfa a gradd o bobl, uchel ac isel, gwŷr, gwragedd a phlant, i ymostwng drwy ymprydio, ac i alaru am eu buchedd bechadurus ger bron Duw, a gweddio gyd â'u gilydd âg un llais, gan ddywedyd fel hyn, neu ryw fath arall o weddi gyffelyb: "*Bydd drugarog, O Arglwydd, bydd drugarog wrth dy bobl sydd yn troi attat mewn wylofain, ac ympryd, a gweddi: arbed dy bobl y rhai a brynaist â'th werthfawr waed, ac na ad i'th etifeddiaeth gael ei dinystrio a'i dwyn i waradwydd.*"

Mae arfer ympryd fel hyn *ynghyd â gweddi* yn dra effeithiol ac yn bwysig iawn gyd â Duw. Felly y dywedodd yr Angel Raphael wrth Tobias. Mae hyn yn eglur hefyd wrth yr hyn a attebodd ein Hiachawdwr Crist i'w ddisgyblion, pan ofynasant iddo paham na allasent hwy fwrw 'r Yspryd aflan allan o'r dyn a ddygesid attynt: *Y rhyw hwn*, eb efe, *ni all er dim ddyfod allan, ond trwy weddi ac ympryd.*[2]

Ni ellir dangos i chwi mor effeithiol yw ympryd, ac mor bwysig ydyw ger bron Duw, a pha beth a all ei gael ar ei law ef, yn well na thrwy agoryd i chwi a gosod ger eich bron rai o'r pethau hynod a wnaethpwyd trwyddo:——

Ympryd oedd un o'r moddion drwy ba rai yr achlysurwyd i'r Hollalluog Dduw newid y peth a fwriadasai ynghylch Ahab am ddarfod iddo ladd y gwr diniweid Naboth, er mwyn cael meddiannu ei winllan ef. *Gair yr Arglwydd a ddaeth at Elias, gan ddywedyd, Dos i wared*

[1] Ps. 51. 9. [2] St. Marc 9. 29.

*i gyfarfod Ahab, a dywed wrtho, A leddaist ti, ac a feddiennaist hefyd? Fel hyn y dywed yr Arglwydd: Wele fi yn dwyn drwg arnat ti, a mi a dynnaf ymaith dy hiliogaeth di. Yn y fan lle y llyfodd cwn waed Naboth, y llyf cwn dy waed dithau hefyd. Y cwn a fwytty yr hwn a fyddo marw o'r eiddo Ahab yn y ddinas; a'r hwn a fyddo farw yn y maes a fwytty adar y nefoedd.* Y gosp hon a fwriadasai 'r Hollalluog Dduw i Ahab yn y byd hwn, a dinystrio pob gwrryw a genhedlasid o gorph Ahab, heblaw y gosp a'i goddiweddai yn y byd a ddaw. *A phan glybu Ahab y geiriau hyn, efe a rwygodd ei ddillad, ac a osododd sach-liain am ei gnawd ac a ymprydiodd, ac a orweddodd mewn sachliain, ac a gerddodd yn araf. A gair yr Arglwydd a ddaeth at Elias y Thesbiad, gan ddywedyd, Oni weli di fel yr ymostwng Ahab ger fy mron? Am iddo ymostwng ger fy mron i, ni ddygaf y drwg yn ei ddyddiau ef, ond yn nyddiau ei fab ef y dygaf y drwg ar ei dŷ ef.*[1] Er i Ahab drwy gyngor drwg ei wraig Jezebel wneuthur llofruddiaeth gywilyddus, ac yn groes i bob cyfiawnder ddïetifeddu a difeddiannu eppil Naboth o'r winllan honno; etto ar ei ufudd ymostyngiad i Dduw yn ei galon, yr hyn a ddangosodd ef yn allanol drwy ymprydio a gwisgo sachliain, newidiodd Duw ei fwriad, fel na ddarfu i'r gosp a arfaethasai gwympo ar dŷ Ahab yn ei amser ef, ond hi a oedwyd hyd ddyddiau Jehoram ei fab ef.

Yma gallwn weled pa rym sydd yn ein hympryd allanol ni, pan fyddo 'n gyssylltiedig âg ympryd tufewnol y meddwl, yr hwn (fel y dywedpwyd) yw trymder calon, ffieiddio ein drwg weithredoedd, a chwynfan o'u plegid.

Gellir gweled y cyffelyb yn achos y Ninefeaid: canys gwedi darfod i Dduw arfaethu dinystrio holl ddinas Ninefeh, a bod yr amser a bennodasai Efe gerllaw, Efe a ddanfonodd y Prophwyd Jonah i ddywedyd wrthynt, *Deugain niwrnod fydd etto, a Ninefeh a gwympir.* Y bobl yn y man a gredasant i Dduw, ac a ymroisant i ymprydio, ïe, fe barodd y brenhin trwy gyngor ei bendefigion gyhoeddi, gan ddywedyd, *Dyn ac anifail, eidion a dafad, na phrofant ddim; na phorant, ac nac yfant ddwfr. Gwisger dyn ac anifail â sachlen, a galwant ar Dduw yn lew: ïe, dychwelant bob un oddi wrth ei ffordd ddrygionus, ac oddi wrth y trawsder sydd yn eu dwylaw. Pwy a ŵyr a drŷ Duw, ac edifarhâu, a throi oddi wrth angerdd ei ddig, fel na ddifether ni?* Ac ar eu hedifeirwch diffuant hwn, a ddangoswyd fel hyn yn allanol drwy ymprydio, rhwygo eu dillad, gwisgo sachlen, a bwrw llwch a lludw ar eu pennau, *gwelodd Duw eu gweithredoedd hwynt,* ebe 'r Ysgrythyr, *droi o honynt*

[1] 1 Bren. 21. 17—29.

*o'u ffyrdd drygionus: ac edifarhaodd Duw am y drwg a ddywedasai y gwnai iddynt, ac ni's gwnaeth.*[1]

Yn awr, fy ngharedigion, chwi a glywsoch yn gyntaf beth ydyw ympryd, yn gystal yr hwn sydd allanol yn y corph, a'r hwn sy dufewnol yn y galon.—— Clywsoch hefyd fod tri diben, neu fwriad, at y rhai os cyfeirir ein hympryd allanol, mae yn weithred dda, ac y mae Duw yn foddlon iddo.—— Yn drydydd, dangoswyd pa amser sy gymhesuraf i ymprydio, yn gystal yn neillduol ac yn gyhoedd.—— Yn ddiweddaf oll, fe ddangoswyd pa bethau a allodd ympryd eu cael gan Dduw wrth esampl Ahab a'r Ninefeaid.

Am hynny, fy anwyl garedigion, gan fod llawer mwy o achosion i ymprydio ac i alaru yn ein dyddiau ni, nag a fu mewn llawer o flynyddoedd cyn hyn mewn un oes o'r blaen; ymrown oddi fewn yn ein calonnau, ac oddi allan yn ein cyrph, i arfer yn ddiesgeulus y ddefod dduwiol hon o ymprydio, yn y cyfryw fodd a dull ag y byddai 'r Prophwydi a'r Apostolion sanctaidd, a llawer o ddynion defosiynol eraill yn arferyd yr unrhyw yn eu hamser.

Yr un Duw yw Duw yn awr ag oedd Efe yr amser hwnnw; Duw yn caru cyfiawnder ac yn casâu anwiredd; Duw nad yw 'n ewyllysio marwolaeth pechadur, ond yn hytrach dychwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd, a byw; Duw ag sy wedi addaw troi attom ni, os na wrthodwn ni droi atto Ef: ïe, os trown ein gweithredoedd drygionus oddi ger bron ei lygaid Ef, peidio â gwneuthur drwg, dysgu gwneuthur daioni, ceisio gwneuthur yn iawn, cynnorthwyo 'r gorthrymmedig, iawn farnu 'r amddifad, amddiffyn y weddw, *torri ein bara i'r newynog, dwyn y crwydriaid i dŷ, pan welom noeth, ei ddilladu, a pheidio âg ymguddio oddi wrth ein cnawd ein hun; yna,* medd y Prophwyd, *y gelwi, a'r Arglwydd a ettyb; y gweiddi, ac efe a ddywed, Wele fi.*[2] ïe, yr un Duw ag a wrandawodd ar Ahab a gwŷr Ninefeh, ac a'u harbedodd hwynt, a wrendy hefyd ar ein gweddi ninnau, ac a'n harbed ni, ond i ni, yn ol eu hesampl hwy, droi atto ef yn ddiffuant: ïe, Efe a'n bendithia ni â'i fendithion nefol dros yr amser sydd i ni aros yn y byd hwn; ac ar ol gyrfa 'r fuchedd farwol hon, Efe a'n dwg i'w deyrnas nefol, lle y cawn deyrnasu mewn dedwyddwch tragywyddol gyd â'n Hiachawdwr Crist: i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[1] Jonah 3. 4—10. [2] Esay 58. 7, 9.

# HOMILI

## YN ERBYN GLYTHINEB A MEDDWDOD.

CHWI a glywsoch, fy ngharedigion, yn y Bregeth o'r blaen, ddarluniad a rhinwedd Ympryd, ynghyd â iawn ddefnydd yr unrhyw. Yn awr chwi a gewch glywed mor frwnt o beth yw glythineb a meddwdod ger bron Duw, er mwyn eich cyffroi i ymprydio yn ddyfalach.

Deallwch gan hynny ddarfod i'r Hollalluog Dduw (er mwyn bod i ni ymgadw yn ddihalog, a'i wasanaethu ef mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder yn ol ei air Ef) orchymyn yn ei Ysgrythyrau i gynnifer o honom ag sy 'n edrych am ogoneddus ymddangosiad ein Hiachawdwr Crist, fyw mewn pob sobrwydd, lledneisrwydd, a chymmedroldeb. Wrth hyn y gallwn ddysgu mor anghenraid yw i bob Cristion ag na fynnai fod yn ammharod yn nyfodiad ein Hiachawdwr Crist, fyw mewn sobrwydd yn y byd presennol hwn, gan na 's gall efe, os bydd ammharod, fyned i mewn gyd â Christ i ogoniant; ac os bydd efe dïarfog yn hyn o beth, ni all efe na bo mewn gwastadol berygl gan y gelyn creulon hwnnw, y Llew rhuadwy, yn erbyn yr hwn y mae 'r Apostol Petr yn ein rhybuddio i'n parottoi ein hunain mewn gwastadol sobrwydd, fel y gallom *ei wrthwynebu yn gadarn yn y ffydd.*[1]

Fel y gallom ynte arferyd y sobrwydd hwn yn ein holl ymarweddiad, cyfaddas fydd i ni fynegi i chwi faint y mae pob math o rysedd a gormodedd yn digio Mawrhydi 'r Hollalluog Dduw, ac mor dost y mae Efe yn cospi cam-ddefnyddiad anghymmedrol y creaduriaid a ordeiniodd Ef i gynnal ein bywyd anghenog hwn, megis bwydydd, dïodydd, a gwisgoedd: a chyfaddas fydd dangos hefyd y clefydau ffiaidd a'r mawrion anffodau sy 'n gyffredin yn goddiweddyd y rhai sy 'n ymroi tu hwnt i fesur i ddilyn y cyfryw hoffderau ag sydd ynglŷn wrth ormodedd o fwydydd danteithiol a dillad rhy gostfawr a gwychion.

Ac yn gyntaf, fel y galloch ganfod mor atgas a ffiaidd ger bron wyneb yr Hollalluog Dduw yw pob gormodedd mewn bwytta ac yfed, chwi a ddygwch i gof yr hyn a ysgrifenodd St. Paul at y Galatiaid, lle

[1] 1 St. Petr 5. 8, 9.

y mae efe yn rhestru glythineb a meddwdod ym mhlith y pechodau echrydus, y rhai pwy bynnag a'u gwnelo, eb efe, *ni chaiff etifeddu teyrnas Dduw.*[1] Mae yn eu cyfrif ym mhlith *gweithredoedd y cnawd,* ac yn eu cwplysu gyd â delw-addoliaeth, godineb, a llofruddiaeth, y rhai ydynt y beiau mwyaf a ellir eu henwi ym mhlith dynion: o herwydd y mae 'r cyntaf yn yspeilio Duw o'i anrhydedd; mae 'r ail yn halogi ei Deml sanctaidd Ef, sef ein cyrph ni; ac y mae 'r trydydd yn ein gwneuthur yn gymdeithion Cain yn llofruddiaeth ein brodyr: a phwy bynnag a'u gwnelo, medd St. Paul, ni all etifeddu teyrnas Dduw. —— Yn sicr y mae 'r pechod hwnnw yn atgas a ffiaidd·iawn ger bron wyneb Duw, yr hwn sy 'n peri iddo droi ei wynebpryd grasol mor bell oddi wrthym ag y rhwystrai i ni yn gwbl ddyfod i mewn drwy ei ddrws, a'n dïetifeddu o'i deyrnas nefol!

Ond y mae Efe 'n ffieiddio cymmaint ar bob anifeilaidd loddesta, fel y mae, drwy ei Fab ein Hiachawdwr Crist yn yr Efengyl, yn cyhoeddi ei lid arswydus yn erbyn pawb a wnelont eu bol yn Dduw iddynt, gan eu cyhoeddi yn felldigedig, drwy ddywedyd, *Gwae chwi y rhai llawn; canys chwi a ddygwch newyn.*[2]

A thrwy 'r Prophwyd Esay mae Efe yn gwaeddi, *Gwae y rhai a gyfodant yn foreu i ddilyn dïod gadarn, a arhosant hyd yr hwyr, hyd oni ennyno y gwin hwynt. Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae 'r delyn, a'r nabl, y dympan, a'r bibell, a'r gwin; ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant.— Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynion nerthol i gymmysgu dïod gadarn.*[3]

Yma y mae 'r Prophwyd yn eglur ddysgu i ni fod gwledda a chyfeddach yn gwneuthur dynion yn anghofus o'u dyledswydd tu ag at Dduw, pan fônt yn ymroi i bob math o ddigrifwch, heb ystyried nac edrych am weithredoedd yr Arglwydd, yr hwn a greodd fwydydd a diodydd, fel y dywed St. Paul, *i'w derbyn trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.*[4] Megis y dylai hyd yn nod edrych ar y creaduriaid hyn (gan eu bod yn waith dwylaw 'r Hollalluog Dduw) ein dysgu ni i'w harferyd yn ddïolchgar, fel yr ordeiniodd Duw.

Y maent hwy gan hynny yn ddïesgus ger bron Duw, y rhai sy 'n eu budr-lenwi eu hunain, heb ystyried y *sancteiddrwydd sy trwy air Duw a gweddi,*[5] neu yn anniolchgar yn cam-arfer creaduriaid da Duw trwy lythineb a meddwdod, gan fod ordinhadau Duw yn ei greaduriaid yn gwahardd hynny yn oleu.

[1] Gal. 5. 21. [2] St. Luc 6. 25. [3] Esay 5. 11, 12, 22. [4] 1 Tim. 4. 3. [5] 1 Tim. 4. 5.

Pwy bynnag gan hynny a ymroddant i ddïotta ac i loddesta, gan eu bod yn hollol anystyriol o farnau Duw, hwy a oddiweddir yn ddisymmwth yn nydd dïal.—— Am hynny y dywed Crist wrth ei ddisgyblion, *Edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonnau un amser drymhâu trwy lythineb a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnnw arnoch yn ddisymmwth.*[1] Pwy bynnag gan hynny a gymmero rybudd gan Grist, *edryched arno ei hun*, rhag i'w galon suddo mewn glythineb, a'i boddi gan feddwdod, ac iddo yntau gael ei ddala 'n annisgwyliadwy gyd â'r gwas afradlon hwnnw, yr hwn wrth weled *ei Arglwydd yn oedi dyfod, a dechreu curo y gweision a'r morwynion, a bwytta, ac yfed, a meddwi*, a chael ei ddala 'n ddisymmwth, a gafodd ei ran gyfiawn *gyd â'r anffyddloniaid* a'r rhagrithwŷr.[2]

Y rhai a arferant yfed yn ddwfn, ac ymborthi 'n ormodol, gan ymdreiglo ym mhob math o ddrygioni, a ddygir i drymgwsg yn yr anghof cysglyd hwnnw o sanctaidd ewyllys a gorchymynion Duw. Am hynny y llefa 'r Hollalluog Dduw trwy y Prophwyd Joel, *Deffrowch, feddwŷr, ac wylwch; ac udwch, holl yfwŷr gwin, am y gwin newydd; canys torrwyd ef oddi wrth eich min.*[3] Yma mae 'r Arglwydd yn bygwth yn arswydus y tynn Efe ei ddoniau ymaith oddi wrth y rhai a'i cam-arferant, ac y cymmer ymaith y gwppan oddi wrth enau 'r meddwon.—— Yma ni a allwn ddysgu gochelyd heppian mewn meddwdod a glythineb, rhag i Dduw ein difuddio ni o fwyniant ei greaduriaid, pan fôm ni yn anniolchgar yn eu cam-ddefnyddio hwynt.—— O herwydd yn sicr fe fydd i'r Arglwydd nid yn unig dynnu ei ddoniau oddi wrthym, pan gam-arferom ni hwynt yn anniolchgar, ond hefyd yn ei lid a'i sorriant Efe a ddïal ar y cyfryw ag a'u defnyddiont yn anghymmedrol.

Pe buasai ein rhïeni cyntaf Adda ac Efa heb ufuddhâu i'w chwant blysig, i fwytta 'r ffrwyth gwaharddedig, ni buasent nac yn colli mwyniant doniau Duw, y rhai a fwynhâent y pryd hwnnw ym Mharadwys, nac yn dwyn cymmaint o aflwydd ac anffodau arnynt eu hunain a'u holl eppil ar eu hol. Ond pan aethant hwy dros y terfynau a osodasai Duw iddynt, gyrrwyd hwy allan yn alltudion o Baradwys, megis rhai annheilwng o ddoniau Duw, fel na chaent fwytta mwyach o ffrwythau 'r ardd honno, y rhai y darfuasai iddynt eu cam-arferyd gymmaint trwy ormodedd. Megis troseddwŷr gorchymyn Duw, dygwyd hwy a'u hiliogaeth i gywilydd a gwarth gwastadol; ac am eu bod dan felldith Duw, rhaid iddynt yn awr chwysu am ei bywioliaeth, y rhai o'r blaen oedd ganddynt helaethrwydd wrth eu hewyllys: felly ninnau, os wrth fwytta ac yfed y cymmerwn ormod, pan fo Duw o'i helaeth haelioni yn

[1] St. Luc 21. 34. [2] St. Luc 12. 45, 46. [3] Joel 1. 5.

danfon i ni ddigonedd ac amlder, Efe yn fuan a dry ein helaethrwydd yn brinder;—— a lle 'r oeddym o'r blaen yn ymorfoleddu yn ein cyflawnder, Efe a'n gwna ni'n weigion, ac a'n gwaradwydda ni âg angenoctid; a gorfydd i ni lafurio trwy boen a thrafferth i geisio 'r hyn yr oeddym o'r blaen yn ei fwynhâu mewn esmwythyd.

Felly ni ad yr Arglwydd y rhai hynny yn ddigosp, y rhai heb ystyried ei weithredoedd Ef a ganlynant wyniau a thrachwantau eu calonnau eu hunain.

Y Patriarch Noah, yr hwn y mae 'r Apostol yn ei alw yn *Bregethwr cyfiawnder*,[1] gwr ag yr oedd Duw yn ei hoffi 'n fawr, a wnaed yn yr Ysgrythyr Lân yn esampl i'n dysgu ni i ochelyd meddwdod. Canys wedi cymmeryd o hono fwy o win nag oedd gymhesur, *efe a ymnoethodd ynghanol ei babell*:[2] ac er ei fod o'r blaen mewn cymmaint bri, efe a aeth yn awr yn watwargerdd i'w fab drygionus Cam, ac yn wrthrych o ddwys alar i'w ddau fab ereill, Sem a Japheth, y rhai yr oedd yn gywilydd ganddynt dros ymddygiad anifeilaidd eu tad.—— Gellwch sylwi yma fod meddwdod yn dwyn gyd âg ef gywilydd a gwatwor, fel nad yw un amser yn dïangc yn ddigosp.

Lot hefyd, mewn cyffelyb fodd, wedi ei orchfygu gan win, a wnaeth losgach ffiaidd gyd â'i ferched ei hun.—— Felly 'r Hollalluog Dduw a rydd feddwon i fynu i ffiaidd drachwantau eu calonnau eu hunain.—— Dyma Lot, drwy yfed, wedi myned cyn belled allan o'i bwyll, fel nad yw 'n adnabod ei ferched ei hun. Pwy a dybygasai y buasai hen wr, yn y cyflwr blin ag yr oedd efe ynddo, gwedi colli ei wraig a chymmaint ag a feddai, a chwedi gweled y diwrnod hwnnw ddïaledd Duw yn cael ei ddangos mewn modd ofnadwy ar y pum dinas am eu buchedd anniwair, yn cwympo i anghofio ei ddyledswydd cyn belled.—— Ond mae dynion wedi eu gorchfygu gan ddïod, ebe Seneca, yn hollol orphwyllog.—— Twyllwyd Lot gan ei ferched: ond pa gynnifer sy 'n eu twyllo eu hunain, heb feddwl byth y bydd i Dduw, drwy ei gospedigaethau arswydus, ddïal ar y rhai sy 'n ei dramgwyddo drwy ormodedd! Nid bychan y pla a bwrcasodd Lot iddo ei hun drwy ei feddwdod. Canys efe 'n ffieiddiaf a adnabu ei ferched ei hun, a hwy a feichiogasant; felly fe aeth y peth yn gyhoedd, ac ni 's gellid ei gelu yn hwy. Fe anwyd o'r llosgach hwnnw ddau blentyn ordderch, Ammon a Moab, o'r rhai y daeth dwy genedl, yr Ammoniaid a'r Moabiaid, y rhai oeddynt gas gan Dduw, a gwrthwynebwŷr creulon i'w bobl ef, plant yr Israel. —— Wele, fe ennillodd Lot iddo ei hun, drwy yfed, dristwch a gofal, ynghyd a gwarth a gwaradwydd gwastadol hyd ddiwedd y byd.[3]

[1] 2 Petr 2. 5. [2] Gen. 9. 21. [3] Gen. 19. 1—23.

Oni arbedodd Duw ei was Lot, yr hwn mewn pethau eraill oedd wr duwiol, yn nai i Abraham, ac a lettyasai Angylion Duw; pa beth a wna Efe i'r rhai hynny ag sy 'n gaeth-weision anifeilaidd i'w boliau eu hunain, y rhai, yn amddifad o bob ymddygiad duwiol a rhinweddol, sydd, nid unwaith, ond yn wastadol ddydd a nos, yn ymroi i gyfeddach a gwledda?

Ond gadewch i ni weled etto ym mhellach esamplau dychrynllyd o ddigllonedd Duw yn erbyn y rhai a ganlynant yn wangcus eu chwantau diwala:—

Amnon fab Dafydd, wrth wledda gyd â'i frawd Absalom, a lofruddiwyd yn greulon gan ei frawd ei hun.[1]

Holoffernes, tywysog dewr a galluog, pan oedd wedi ei orchfygu gan win, a gafodd dorri ei ben oddi ar ei ysgwyddau gan y wreigan honno Judith.[2]

Simon yr Arch-offeiriad, a'i ddau fab Mattathias a Judas, wedi cael eu gwahodd gan Ptolomeus fab Abobus, yr hwn a briodasai ferch Simon, ar ol iddynt fwytta ac yfed llawer, a lofruddiwyd yn fradychus gan eu cyfathrachwr.[3]

Oni buasai i'r Israeliaid ymroi i ddifyrrwch gwledda, ni chwympasent byth mor fynych i ddelw-addoliad. Ac nid ymroem ninnau 'n gymmaint heddyw i ofergoel, oni bai ein bod yn meddwl cymmaint o lenwi ein boliau. Pan oedd yr Israeliaid yn gwasanaethu eilunod, *hwy a eisteddent i fwytta ac i yfed, ac a gyfodent i chwareu,*[4] fel y sonia 'r Ysgrythyr: felly wrth chwennych gwasanaethu eu boliau, hwy a ymadawsant â gwasanaeth yr Arglwydd eu Duw.—— Felly tynnir ninnau i gyttuno âg annuwioldeb, pan fo 'n calonnau wedi soddi mewn meddwdod a gwledda.

Felly Herod, wedi rhoi ei fryd ar wledda, a fu foddlon gantho ganiattau torri pen sanctaidd wr Duw, Ioan Fedyddiwr, ar ddeisyfiad merch ei buttain.[5]

Pe na buasai 'r glwth goludog mor chwannog i besgi ei fola, ni fuasai byth mor annhrugarog wrth Lazarus dlawd, ac ni buasai raid iddo deimlo arteithiau y tân anniffoddadwy.[6]

Am ba achos y cospodd Duw Sodom a Gomorrah mor ofnadwy? Onid am eu balch wledda a'u gwastadol seguryd, yr hyn a barodd iddynt fod mor anniwair eu buchedd ac mor annhrugarog wrth y tlawd?[7]

Beth a dybygwn ni bellach am y rhysedd erchyll, drwy 'r hwn y cafodd cynnifer eu difetha a'u dinystrio!

[1] 2 Sam. 13. 28, 29. [2] Judith 13. 2, 8. [3] 1 Mac. 16. 16. [4] 1 Cor, 10. 7. [5] St. Mat. 14. 6—10. [6] St. Luc 16. 19—25. [7] Ezec. 16. 49.

Alexander Fawr, wedi iddo orchfygu 'r holl fyd, a orchfygwyd yntau gan feddwdod, yn gymmaint ag iddo yn ei feddwdod ladd ei gyfaill ffyddlon Clitus, am yr hyn, pan sobrodd, y cywilyddiodd gymmaint ag iddo o wir ofid calon ddymuno marwolaeth. Etto er hynny ni pheidiodd efe a gwledda, ond ar ryw noswaith efe a draflyngcodd gymmaint o win ag a'i dug ef i gryd tost; a phan na fynnai mewn modd yn y byd ymattal oddi wrth win, ym mhen ychydig ddyddiau ar ol hynny efe a derfynodd ei oes mewn modd gresynus.—— Dyna orchfygwr yr holl fyd wedi ei wneuthur yn gaethwas drwy ormod rhysedd, ac mor wallgofus ac y lladdodd ei anwyl gyfaill; ac er ei flino gan dristwch, cywilydd, a gofid calon am ei anghymmedroldeb, etto ni 's gallai roi ei bechod i fynu, ond cadwyd ef mewn caethiwed iddo; a'r hwn unwaith a ddarostyngodd lawer, a ddaeth ei hun yn ddarostyngedig i'r bola gwael!

Felly mae meddwon a glythion yn hollol analluog i'w rheoli eu hunain; a pho mwyaf a yfont, mwyaf fydd eu syched; mae 'r naill gyfeddach yn annog y llall; maent â'u bryd ar lenwi eu cylla gwangcus. Ac am hynny mae 'n ddywediad dïarhebol, *Mae 'r meddwyn bob amser yn sychedig*, ac hefyd, *Byth ni lenwir bola 'r glwth.*

Anniwalladwy yn wir yw blys a chwantau calon dyn; ac am hynny rhaid i ni ddysgu eu ffrwyno âg ofn Duw, fel nad ymroddom i'n chwantau ein hunain, rhag i ni ennyn digofaint Duw yn ein herbyn wrth geisio digoni ein hawydd anifeilaidd.

Mae St. Paul yn ein dysgu fel hyn: *Pa un bynnag ai bwytta ai yfed, ai beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.*[1] Yma y mae 'n ordeinio, megis wrth bwys a mesur, pa gymmaint a ddylai ddyn fwytta ac yfed; hynny yw, cymmaint ag na wneler y meddwl yn swrth gan y dogn o fwyd a dïod, fel na allo ymddyrchafu i ogoneddu ac i foli Duw.—— Pwy bynnag ynte a'i gwnelo ei hun trwy fwytta ac yfed yn anaddas i wasanaethu Duw, na feddylied y dyn hwnnw y caiff ddiangc yn ddigosp.

Chwi a glywsoch mor gas a gwrthwynebus gan yr Hollalluog Dduw yw cam-arfer ei greaduriaid, fel y mae Efe ei Hun yn dangos, yn gystal, drwy ei air Sanctaidd a thrwy esamplau ofnadwy ei gyfiawn farn.

Yn awr oni ddichon na gair Duw attal ein gwangcus chwantau a'n blys diwala, nac amlwg esamplau dïaledd Duw ein dychrynu rhag afradlon a gormodol fwytta ac yfed, etto ystyriwn yr aml anffodau sy 'n tyfu o hynny; felly y cawn "adnabod y pren wrth ei ffrwyth:"——

[1] 1 Cor. 10. 31.

Mae yn niweidio 'r corph, yn mallu 'r meddwl, yn ysu ein heiddo, ac yn niweidiol i'n cymmydogion. Ond pwy a ddichon draethu yr aml beryglon a'r anfanteision sydd yn canlyn o ymborthi yn anghymmedrol?—— Daw 'n fynych angau disyfyd wrth wledda.—— Weithiau ymddettyd yr aelodau, fel y dygir yr holl gorph i gyflwr gresynol.—— Mae 'r hwn sy 'n bwytta ac yn yfed tu hwnt i fesur yn ennyn yn fynych y fath wres annaturiol yn ei gorph, fel yr annogir ei flys ef drwy hynny i chwennychu mwy nag a ddylai, neu ynte mae 'n gormeilio ei gylla, ac yn llenwi ei gorph ef yn llawn syrthni, gan ei wneuthur yn analluog ac anghymmwys i wasanaethu na Duw na dyn, heb feithrin y corph, ond ei ddrygu.—— Ac yn ddiweddaf, mae 'n dwyn llawer o glefydau anfeddyginiaethol, y rhai a ddilynir weithiau gan angau dïobaith.

Ond pa raid i mi ddywedyd ychwaneg yn hyn o beth? Oblegid oni 's bendithia Duw ein lluniaeth, a rhoi ynddo rym i'n meithrin; ac hefyd oni rydd Duw nerth i'n natur i dreulio 'r ymborth, fel y caffom les oddi wrtho; naill ai ni a'i bwriwn ef i fynu drachefn, neu ynte efe a ddrewa yn ein cyrph megis mewn pwll neu soddfa ddrygsawr, ac felly gwenwyno gwahanol rannau 'r holl gorph.—— Ac yn sicr mae bendith Duw mor bell oddi wrth y rhai a arferant wledda 'n loddestgar, fel y gwelir yn aml yn eu hwynebau arwyddion amlwg o'r afradlonedd hwn; fel y sylwa Solomon yn ei Ddïarhebion. *I bwy y mae gwae?* eb efe, *i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynnen? i bwy y mae dadwrdd? ac i bwy y mae gweliau heb achos? i bwy y mae llygaid cochion? I'r neb sydd yn aros wrth y gwin: i'r neb sydd yn ymofyn am win cymmysgedig.*[1]—— Sylwch, attolwg, ar arwyddion arswydus dig Duw: *gwae* ac *ochain, cynnen* a *dadwrdd, gweliau heb achos*, wyneb *wedi ei anffurfio*, a *chochineb llygaid*, sydd i'w disgwyl, pan ymroddo dynion i anghymmedroldeb a bolera, gan ddychymmygu pob moddion i gynnyddu eu blysig chwant, trwy *gymmysgu 'r gwin* a'i felysu yn y fath fodd, fel y gallo fod yn hyfryttach ac yn foethusach iddynt.

Byddai 'n dda pe cymmerai y fath ddynion moethus eu rheoli gan Solomon, yr hwn o herwydd yr anfanteision rhag-grybwylledig sy 'n gwahardd hyd yn nod *edrych* ar y gwin. *Nac edrych,* medd efe, *ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwppan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Yn y diwedd efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr. Dy lygaid a edrychant ar wragedd dïeithr, a'th galon a draetha drawsedd. Ti a fyddi megis un yn cysgu ynghanol y môr, ac fel un yn cysgu ym mhen yr hwylbren. Curent fi, meddi, ac ni chlafychais, dulient fi, ac ni's gwybûm: pan ddeffrowyf, mi a af rhagof; mi a'i ceisiaf drachefn.*[2]

[1] Diar. 23. 29, 30. [2] Diar. 23. 31—35.

—— Mae 'n rhaid bod hwnnw yn beth niweidiol iawn, ag sy 'n brathu ac yn pigo *fel sarph* wenwynig, ac sy 'n tynnu dynion i odineb brwnt yr hyn sy 'n peri i'r *galon draethu trawsedd.* Diammeu fod yr hwn sy 'n *cysgu ynghanol y môr* mewn perygl mawr, canys ebrwydd y gorchuddir ef gan y tonnau. Mae 'r hwn sy 'n *cysgu ym mhen yr hwylbren* yn debyg o gwympo 'n ddisymmwth. A diau ydyw fod hwnnw wedi colli ei synhwyrau, yr hwn ni allo deimlo pan *gurer* ef, ac nid yw 'n *gwybod* pan y 'i *dulier.*—— Felly mae glythineb a meddwdod yn brathu 'r bola, yn peri cnofa gwastadol yn y cylla, yn dwyn dynion i butteindra ac anlladrwydd calon, ynghyd â pheryglon annhraethadwy; nes y mae dynion yn cael eu difuddio a'u hyspeilio o'u synhwyrau, ac yn colli pob meddiant arnynt eu hunain.

Pwy bellach ni wel y cyflwr blin y dygir dynion iddo gan yr anghenfilod aflan a ffiaidd hyn, glythineb a meddwdod? Maent yn aflonyddu cymmaint ar y corph, fel y mae Jesus fab Sirach yn dywedyd "Nad yw 'r bwyttâwr anniwalladwy un amser yn cysgu yn esmwyth, fod y fath wres anfesurol yn ennyn ynddo, o'r hwn y dilyn gwastadol boen a gwayw i'r holl gorph."—— Ac nid llai chwaith y niweidir y *meddwl* drwy afradlonaidd loddest: canys tarewir dynion weithiau â gorphwylldra meddwl, a dygir hwy i wallgofrwydd: mae rhai yn myned mor anifeilaidd ac mor drymfrydig, nes y maent yn myned yn hollol ddibwyll a disynwyr.—— Peth echrydus yw i neb anafu rhyw aelod o'i gorph; ond drygioni annïoddefadwy yw i neb o'i wirfodd ei yrru ei hun o'i synhwyrau.

*Gwin, a gwin newydd,* ebe 'r Prophwyd Hosea, *a ddwg y galon ymaith.*[1] Och! ynte i neb ymroi i'r hyn a ddwg oddi arno feddiant ei galon ei hun. *Gwin a gwragedd,* ebe Jesus fab Sirach, *sy'n gyrru doethion ar encil.*[2]Ië, mae 'n gofyn beth yw einioes yr hwn a orchfygir gan feddwdod. *Gwin,* eb efe, *pan yfer gormod o hono, a bair chwerwder meddwl, ymgeccraeth, a chynhennau.*[3]

Mewn llywodraethwŷr y mae yn peri creulondeb yn lle cyfiawnder; fel y canfu y Philosophydd doeth Plato yn dda ddigon, pan ddywedodd fod gan feddwyn galon ormesol, ac y rheola efe gan hynny wrth ei ewyllys ei hun, yn erbyn rheswm ac uniondeb.—— Ac yn wir y mae meddwdod yn peri i ddyn anghofio cyfraith a thegwch; yr hyn a barodd i'r brenhin Solomon orchymyn mor gaeth na roid dim gwin i *bennaduriaid, rhag iddynt yfed, ac ebargofi 'r ddeddf, a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymmedig.*[4] Am hynny yfed i ormodedd yw 'r peth mwyaf anoddefol mewn Llywodraethwr neu wr o awdurdod yn anad

[1] Hos. 4. 11. [2] Eccles. 19. 2. [3] Eccles. 31. 29. [4] Diar. 31. 4.

neb arall, fel y dywed Plato: canys ni ŵyr meddwyn pa le y mae 'n sefyll. Am hynny os bydd gwr o awdurdod yn feddwyn, och! pa wedd y bydd efe yn arweinydd i eraill, ac yntau yn rhaid iddo wrth arweinydd ei hun!

Hefyd, ni fedr dyn meddw gadw cyfrinach; a llawer gair ofer, ynfyd, a diffaith a leferir gan ddynion yn eu gloddest.—— Mae meddwdod, ebe Seneca, yn dinoethi pob drygioni, ac yn ei ddwyn i oleuni; mae 'n symmud ymaith bob gwylder, ac yn cynnyddu pob drygioni. Y balch, pan fo meddw, a edrydd ei falchder; y creulon, ei greulondeb; a'r cynfigennus, ei gynfigen; fel na ellir celu un bai mewn meddwyn. Ac am nad yw yn ei adnabod ei hun, mae 'n bloesgi yn ei ymadrodd, yn hongcian o ochr bwygilydd yn ei gerddediad, heb allu edrych ar ddim yn wastad â'i lygaid rhythion, gan gredu bod y tŷ yn troi yn grwn o'i amgylch.

Mae 'n eglur fod y meddwl yn cael ei daflu 'n hollol o'i le drwy yfed i ormodedd; *terfysgaidd*, ebe Solomon, *yw diod gadarn; pwy bynnag a siommir ynddi nid yw ddoeth.*[1] "Os tybia neb y gall yfed llawer o win, ac etto bod yn ei synhwyrau, cystal yw iddo feddwl," ebe Seneca, "na bydd iddo farw ar ol yfed gwenwyn." Canys lle bynnag y byddo gormod o yfed, rhaid bod yno derfysg meddwl: a lle y gorlenwir y bol â danteithion, rhaid fod y meddwl yno wedi ei orthrymmu gan syrthni segurllyd. "Bola llawn," ebe St. Bernard, "a wna ddeall pŵl, a llawer o fwyd a wna feddwl hwyrdrwm."

Ond yn y dyddiau hyn, ysywaeth, nid yw dynion yn gofalu mo'r llawer am na chorph nac enaid; os cânt olud bydol ddigon i atteb i'w hanfesurol chwantau, nid gwaeth ganddynt beth a wnelont. Nid oes gywilydd arnynt ddangos eu hwynebau meddwon, a chwareu 'r ynfydion yn gyhoeddus. Y maent yn tybied eu hunain mewn cyflwr da, a bod pob peth yn dda, tra na bo prinder a thlodi yn gwasgu arnynt.

Am hynny rhag i neb o honom gymmeryd achlysur, trwy amlder ei gyfoeth, i wenieithio iddo ei hun yn y rhysedd anifeilaidd hwn, dygwn i gof yr hyn a ysgrifenodd Solomon: *Y neb a garo win ac olew*, eb efe, *ni bydd cyfoethog.*[2] Ac mewn man arall mae 'n rhoi annogaeth gref fel hyn: *Na fydd ym mysg y rhai sy 'n meddwi ar win, ym mysg y rhai glythion ar gig. Canys y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi.*[3] Yr hwn sy 'n gollwng ei etifeddiaeth i lawr ei wddf, ac yn bwytta ac yn yfed mwy mewn un awr neu un diwrnod nag a allo ennill mewn wythnos gyfan, ni all na bo efe afradus, ac na ddelo i dlodi.

[1] Diar. 20. 1. [2] Diar. 21. 17. [3] Diar. 23. 20, 21.

Ond fe ddywed rhyw un, "Pa raid i neb feio ar hyn? nid yw 'n drygu neb ond ef ei hun, nid yw 'n elyn i neb ond iddo ei hun."—— Yn wir mi a wn mai hyn a ddywedir yn gyffredin i amddiffyn yr afradloniaid anifeilaidd hyn. Ond mae 'n hawdd gweled mor niweidiol ydynt, nid yn unig iddynt eu hunain, ond hefyd i'r wladwriaeth, drwy eu hesamplau drwg. Pob un a'u cyfarfyddo a drallodir âg ymadroddion terfysgus ac ymrysongar; ac yn fynych mewn gwyniau trachwantus maent *fel meirch porthiannus y bore, yn gweryru bob un ar wraig ei gymmydog*, fel y dywed Jeremïah,[1] ac yn halogi eu plant a'u merched hwy.—— Mae eu hesampl yn ddrwg i'r rhai y maent yn trigo yn eu mysg;—— maent yn achos tramgwydd i lawer;—— a thra maent yn treulio eu heiddo mewn gloddest, mae eu tylwyth mewn diffyg o bethau angenrheidiol, mae eu gwragedd a'u plant yn cael drwg-driniaeth, ac nid oes ganddynt hwythau fodd i gynnorthwyo eu cymmydogion tlodion yn amser angenoctid, fel y gallai fod ganddynt, pe byddent fyw yn sobr. —— Maent yn anfuddiol i'r wladwriaeth; oblegid nid yw meddwyn yn addas *i* lywodraethu nac i *gael* ei lywodraethu.—— Maent yn warth i Eglwys a chynnulleidfa Crist; ac am hynny mae St. Paul yn eu hysgymmuno hwy gyd â phutteiniaid, delw-addolwŷr, cybyddion, a chribddeilwŷr, gan wahardd i Gristionogion gyd-fwytta gyd â neb o'r cyfryw.

Am hynny, bobl dda, gochelwn bob un o honom bob anghymmedroldeb. Carwn sobrwydd ac ymborthi cymhedrol. Ymrown yn fynych i ddirwest ac ympryd; trwy 'r hyn y dyrchefir meddwl dyn yn uwch at Dduw, ac y gwneir ef yn barottach i bob ymarferiadau duwiol, megis gweddi, gwrando a darllen gair Duw, er ein diddanwch ysprydol.

Yn ddiweddaf: Pwy bynnag a ofalo am iechyd a dïogelwch ei gorph ei hun, neu a ddymuno fod bob amser yn ei iawn bwyll, neu a chwennycho lonyddwch meddwl, ac a gasao gynddaredd a gwallgofrwydd, y sawl a fynno fod yn gyfoethog a dïangc rhag tlodi, a ewyllysio fyw heb ddrygu ei gymmydog, yn aelod buddiol o gorph ei wladwriaeth, ac yn Gristion heb ddwyn gwarth ar Grist na 'i Eglwys; gocheled bob afradlon ac anghymmedrol wledda, dysged gadw 'r fath fesur mewn bwytta ac yfed ag sy'n weddus i un yn proffesu gwir dduwioldeb, canlyned reol St. Paul, ac felly bwyttaed ac yfed er gogoniant a moliant i Dduw, yr Hwn a greodd bob peth i'w mwynhâu mewn sobrwydd gyd â dïolchgarwch: i'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn dragywydd. Amen.

[1] Jer. 5. 8.

# HOMILI

## YN ERBYN DILLAD RHY WYCHION.

GAN ddarfod eich annog o'r blaen i arfer cymmedroldeb mewn bwydydd a diodydd, ac i ochelyd gormodedd ynddynt, am ei fod lawer ffordd yn drygu cyflwr y wladwriaeth, ac mor gas ger bron yr Hollalluog Dduw, yr Hwn a wnaeth ac a roddodd y creaduriaid hynny i ddiddanu ac i gryfhâu ein naturiaeth egwan ni, gyd â diolchgarwch iddo Ef, ac nid i annog haelioni Duw, drwy ein cam-arferiad o honynt, i'n cospi ni 'n llym am y fath anllywodraeth:—— mae 'n weddus yr un modd eich rhybuddio ynghylch gormodedd brwnt a cheryddus arall, sef gormodedd mewn dillad; y rhai yn y dyddiau hyn ydynt mor wychion, na ddichon na 'r Hollalluog Dduw drwy ei air attal mo 'n balch fanylrwydd ni yn yr unrhyw, na chwaith gyfreithiau duwiol ac angenrheidiol ein Tywysogion, y rhai a ail-adroddir yn fynych gyd â'r cospedigaethau, ffrwyno 'r cam-ddefnydd ffiaidd yma, drwy 'r hwn y dirmygir Duw ar gyhoedd, ac yr anufuddhêir i gyfreithiau 'r Tywysog, er mawr enbydrwydd i'r deyrnas.

Am hynny, fel y gweler yn ein mysg ni sobrwydd yn y gormodedd yma hefyd, mi a ddangosaf i chwi beth ydyw cymmedrol arfer dillad, a gymmeradwyir gan Dduw yn ei sanctaidd air; ac hefyd beth yw eu cam-arfer hwynt, yr hyn y mae Efe yn ei warafun ac yn ei anghymmeradwyo, fel y mae 'n eglur wrth y niweidiau sy beunydd yn cynnyddu, trwy gyfiawn farn Duw, lle na chedwir at y mesur a osododd Efe ei Hun.

Os ystyriwn er mwyn pa ddiben a bwriad yr ordeiniodd yr Hollalluog Dduw ei greaduriaid, gallwn ddeall yn hawdd ei fod yn caniattâu i ni ddillad, nid yn unig er mwyn anghenraid, ond hefyd o ran gweddeidd-dra parchus. Megis am lysiau, coed, ac amryw ffrwythau, y maent nid yn unig yn rhoi i ni lawer o fwyniant angenrheidiol, ond y maent hefyd yn deg i'r golwg ac yn beraidd eu harogl, er hyfrydwch i ni: yn yr hyn y gallwn weled mawr gariad Duw tu ag at ddynion, gan iddo ddarparu pethau i gyflawni ein *hangenrheidiau*, ac hefyd i adfywio ein synhwyrau corphorol â *hyfrydwch* cymhesurol ac onest.—— Am

hynny mae Dafydd, yn y bedwaredd Psalm wedi 'r ganfed, wrth gyffesu Rhagluniaeth ofalus Duw, yn dangos fod Duw yn darparu nid yn unig bethau *angenrheidiol* i ddyn, megis llysiau, a bwydydd eraill, ond hefyd y cyfryw bethau ag a allont ei *lawenychu* a'i *ddiddanu*, megis *gwin, yr hwn a lawenycha galon dyn; ac olew, i beri i'w wyneb ddisgleirio.*[1]

Y maent hwy, gan hynny, yn myned yn hollol dros derfynau dynoliaeth, y rhai a warafunant gyfreithlon fwynhâu doniau Duw, ond yn unig mewn pethau angenrheidiol. Ni chanlynwn ni draddodiadau y rhai hyn, os rhown glust i eiriau St. Paul, yr hwn, wrth ysgrifenu at y Colossiaid, sy 'n erchi iddynt na wrandawont ar y rhai a ddywedant, *Na chyffwrdd, ac na archwaetha, ac na theimla,*[2] gan eu difuddio hwy yn goel-grefyddol o fwyniant creaduriaid Duw.

Ac nid llai y dylem ochelyd, rhag i ni, o dan esgus rhyddid Cristionogol, gymmeryd cennad i wneuthur y peth a fynnom, gan ddyrchafu ein hunain mewn gwisgoedd costfawr, a dïystyru eraill, a'n parottôi ein hunain, mewn gwychder hoyw, i ymddygiad nwyfus, trythyll, ac anniwair.

Er mwyn gochelyd yr hyn beth, fe fyddai dda i ni gofio pedair addysg, a ddysgir i ni yn yr Ysgrythyr Lân, wrth y rhai y gallwn ddysgu ein tymheru ein hunain, ac attal ein dymuniadau anghymmedrol yn ol y mesur a ordeiniodd Duw.

Y cyntaf yw, *Na wnelom rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef*[3] â dillad gwychion, fel y gwnaeth y buttain honno y dywed Solomon ddarfod *iddi drwsio ei gwely â llenni, ac â cherfiadau a llieiniau 'r Aipht, a'i fwg-darthu â myrr, aloes, a synamon,*[4] er mwyn cyflawni ei chwant drygionus: ond ni a ddylem yn hytrach, drwy gymmedroldeb, dorri ymaith bob achlysur drwy ba un y gallai 'r cnawd gael yr oruchafiaeth arnom.

Yr ail sydd ysgrifenedig gan St. Paul, yn y seithfed bennod o'i Epistol cyntaf at y Corinthiaid, lle mae yn ein dysgu i *arfer y byd hwn megis heb ei gam-arfer:*[5] trwy 'r hyn y mae efe 'n torri ymaith nid yn unig bob uchelfryd, balchder, a gwag hoywder mewn dillad, ond hefyd bob naws a gofal anghymmesur ag a'n tynno oddi wrth fyfyrio ar bethau nefol, ac oddi wrth ystyried ein dyledswydd tu ag at Dduw.—— Y rhai sy 'n mawr ymdrafferthu mewn gofal am bethau a berthynant i'r corph, yw, yn fwyaf cyffredin, y rhai sy 'n esgeulus a dïofal mewn pethau yn perthyn i'r enaid. Gan hynny, mae ein Hiachawdwr Crist yn ewyllysio *na ofalom, gan ddywedyd, Beth a fwyttawn? neu, Beth a*

[1] Ps. 104. 15. [2] Col. 2. 21. [3] Rhuf. 13. 14. [4] Diar. 7. 16, 17.
[5] 1 Cor. 7. 31.

*yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn? eithr yn gyntaf geisio o honom deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.*[1] Wrth hyn y gallwn ddysgu gochelyd defnyddio y pethau hyn er rhwystr i ni, y rhai a ordeiniodd Duw er ein cysur, ac i'n cynnorthwyo ar ein ffordd tu a theyrnas nef.

Y drydedd yw, bod o honom yn foddlon i'n cyflwr a'n sefyllfa, ac ymfoddloni ar yr hyn a ddanfono Duw i ni, pa un bynnag ai ychydig ai llawer fyddo.—— Yr hwn y byddo cywilydd gantho ddillad gwael ysgafnbris, a ymfalchïai pe gallai gael gwisgoedd gwychion.—— Am hynny mae 'n rhaid i ni ddysgu gan yr Apostol Paul *fod mewn helaethrwydd, a bod mewn prinder,*[2] gan gofio y gorfydd i ni roi cyfrif am y pethau a dderbyniasom, a hynny i'r Hwn sy ffiaidd gantho bob gormodedd, balchder, ymffrost, ac ofer-wagedd, yr Hwn hefyd sy 'n hollol gondemnio ac anghymmeradwyo pob peth ag sydd yn ein tynnu oddi wrth ein dyledswydd tu ag at Dduw, neu yn prinhâu ein cariad at ein cymmydogion a'n brodyr, y rhai a ddylem eu caru fel ni ein hunain.

Y bedwaredd reol a'r ddiweddaf yw, bod i bob dyn olygu ac ystyried ei alwedigaeth ei hun, yn gymmaint a darfod i Dduw ordeinio i bob dyn ei radd a'i swydd, o fewn terfynau pa rai y dylai ei gadw ei hun. Am hynny ni ddylai pawb edrych am gael gwisgo 'r un fath drwsiad a'u gilydd, ond pob un yn ol ei radd, fel y cyfleodd Duw ef.

Yr hon drefn pe cedwid hi, dïammeu y gwneid i lawer un wisgo dilledyn gwael, ag sy 'n awr yn ymhoywi mewn sidan a melfed, gan dreulio mwy bob blwyddyn mewn dillad gwychion, nag oedd eu tadau yn ei dderbyn o holl ardrethion eu tiroedd.

Ond heddyw, och! pa sawl un a allwn ei weled yn ymroi 'n gwbl i foddio 'r cnawd, heb ofalu un gronyn, ond yn unig pa fodd i addurno eu hunain, gan roi eu serch yn gwbl ar wychder bydol, a cham-arfer daioni Duw pan ddanfono iddynt helaethrwydd, i ddigoni eu trythyll chwantau, heb ystyried ym mha radd y gosodwyd hwy gan Dduw.

Yr oedd yr Israeliaid yn foddlon ar y cyfryw ddillad ag a roisai Duw iddynt, er nad oeddynt ond cyffredin a gwael; a Duw a'u bendithiodd hwythau gymmaint, fel y parhaodd eu hesgidiau a'u dillad iddynt ddeugain mlynedd: ïe, a'r dillad hynny a wisgasai eu tadau, yr oedd eu plant yn foddlon i'w gwisgo ar eu hol.——

Ond nid ydym ni un amser yn foddlon, ac am hynny nid oes dim yn tyccio gennym: ac felly 'n fwyaf cyffredin mae 'r hwn sy 'n ymhoywi yn ei sablau, yn ei ŵn pannog hardd, ei esgidiau corc cynnes, ei socysau gwychion, a'i ddyrnfolau clydion, yn barottach i fferu gan anwyd, na 'r llafurwr tlawd a all aros yn y maes drwy 'r hirddydd âg

[1] St. Mat. 6. 31, 33. [2] Phil. 4. 12.

ychydig garpiau candryll yn ei gylch, a'r gogleddwynt yn chwythu. Mae 'n anhawdd gennym wisgo 'r pethau a adawodd ein tadau i ni, nid ydym yn tybied eu bod yn ddigon da i ni. Rhaid i ni gael un gŵn y dydd, ac un arall y nos; un yn llaes, ac un arall yn gwtta; un yn y gauaf, ac un arall yn yr hâf; un ar ddydd gwaith, ac un arall ar ddydd gwyl; un o'r lliw hwn, ac un o'r lliw arall; un o frethyn, ac un arall o sidan neu ddamasg. Rhaid i ni hefyd gael newid ein dillad, un wisg cyn ciniaw, ac un arall wedi ciniaw; un ar ddull Hispaen, ac un arall yn ol arfer Twrci: ac, ar ychydig eiriau, nid ydym un amser yn foddlon ar yr hyn sy ddigon.

Archodd ein Hiachawdwr Crist i'w ddisgyblion *na feddent ddwy bais;*[1] ond mae y rhan fwyaf o ddynion yn annhebyg iawn i'w ddisgyblion Ef, â'u cyppyrddau mor llawn o wisgoedd, fel na 's gŵyr llawer pa sawl math sy ganddynt.

Yr hyn beth a barodd i St. Iago gyhoeddi 'r felldith arswydus hon yn erbyn pob cyfryw fydolion goludog: *Iddo yn awr, chwi gyfoethogion, wylwch ac udwch am eich trueni sydd yn dyfod arnoch. Eich cyfoeth a bydrodd, a 'ch gwisgoedd a fwyttawyd gan bryfed. Moethus fuoch ar y ddaear, a thrythyll; meithrin eich calonnau a wnaethoch, megis mewn dydd lladdedigaeth.*[2] Sylwch, attolwg; mae St. Iago yn eu galw yn *druenus,* er eu holl gyfoeth ac amledd eu dillad, yn gymmaint a'u bod yn pesgi eu cyrph i'w distryw eu hunain.

Beth oedd y glwth goludog well er ei fwyd danteithiol a'i wisgoedd costfawr? Oni phorthodd efe ei hun i gael ei boeni yn nhân uffern?[3]

Dysgwn gan hynny fod yn foddlon, *o bydd gennym ymborth a dillad,* fel y dysg St. Paul ni, rhag, wrth *ewyllysio ymgyfoethogi, i ni syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sy 'n boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth.*[4]

Y rhai a ymhoffant mewn dillad gwychion ydynt yn wir wedi ymchwyddo gan falchder, ac yn llawn o amryw wagedd ac oferedd.—— Felly 'r oedd merched Sïon a phobl Jerusalem, y rhai y mae 'r Prophwyd Esay yn eu bygwth am eu bod *yn rhodio â gwddf estynedig, ac â llygaid gwammal, gan rodio a rhygyngu wrth gerdded, a thrystio â'u traed; am hynny,* medd Esay, *y clafra 'r Arglwydd gorynnau merched Sïon, a'r Arglwydd a ddinoetha eu gwarthle hwynt.—— Y dydd hwnnw y tyn yr Arglwydd ymaith addurn yr esgidiau, y rhwyd-waith hefyd, a'r lloerawg-wisgoedd, y cadwynau, a'r breichledau, a'r moledau, y penguwch, ac addurn y coesau, a'r ysnodennau, a'r dwyfronnegau, a'r clustdlysau, y modrwyau, ac addurn y trwyn, y gwisgoedd symmudliw,*

[1] St. Mat. 10. 10. [2] St. Iago 5. 1, 2, 5. [3] St. Luc 16. 19—25.
[4] 1 Tim. 6. 8, 9.

*a'r mentyll, a'r misyrnau, a'r crych-nodwyddau, y drychau hefyd, a'r lliain meinwych, a'r cwccyllau, a'r gynau.*[1]—— Felly ni oddefai 'r Hollalluog Dduw i'w ddoniau gael eu cam-arfer mewn ofer-wagedd ac anlladrwydd, na wnai, hyd yn nod gan y bobl ag oedd Efe yn eu caru fwyaf, ac a ddewisasai iddo ei Hun yn anad pawb eraill.

Ac yn wir nid llai yr ofer-wagedd a arferir yn ein mysg ninnau yn y dyddiau hyn. Oblegid yr ydys yn cynnal i fynu falchder ac uchelfryd calon merched Brydain â chynnifer dull anweddaidd o drwsiadau gorwych, fel nad oes, fel y dywed yr hen Athraw Tertulian, ddim gwahaniaeth i'w weled rhwng gwisgiad gwraig onest a phuttain gyffredin.——Ië, mae llawer gwr wedi myned mor ferchedaidd, na waeth ganddo beth a dreulio i'w anffurfio ei hun, gan flysio bob amser am ryw deganau newyddion, a dyfeisio dulliau newyddion o ymwisgo.—— Felly pan fynnai rhyw wr bortreiadu gwŷr pob gwlad yn eu dillad arferedig, wedi iddo baentio Cenhedloedd eraill, efe a wnaeth lun dyn o'r deyrnas hon yn *noethlymmun*, ac a roes iddo frethyn dan ei gesail, ac a archodd iddo ei wneuthur yn ddillad o'r dull a welai efe ei hun yn oreu; canys yr oedd yn newid dull ei ddillad mor fynych, na wyddai efe pa fodd y gwnai rai iddo.

Fel hyn yr ydym â'n dychymmygion anwadal yn ein gwneuthur ein hunain yn watwar-gerdd i genhedloedd eraill. Tra bo un yn gwario ei dref-tadaeth ar luniau a phortreiadau, mae un arall yn rhoi mwy am grys dawnsio, nag a fyddai ddigon iddo i brynu dillad syber a gweddus am ei holl gorph. Mae rhai yn crogi eu holl olud am eu gyddfau, mewn cadwyni a rwffiau prisfawr; a gwell gan arall fod heb ei saig oreu o gig, er mwyn cael modd i'w gynnal ei hun mewn gwisgoedd costfawr; ac y mae pob dyn, heb ystyried ei gyflwr a'i sefyllfa ei hun, yn ceisio rhagori ar ei gymmydog mewn gwisgiad gorwych.

O hyn y mae 'n digwydd ein bod ni, ynghanol helaethrwydd ac amlder o bob peth, yn cwyno gan brinder ac eisiau, tra mae un dyn yn gwario yr hyn a allai wasanaethu i liaws, a neb yn cyfrannu o'r helaethrwydd a dderbyniodd, ond pawb yn afradloni 'r hyn a ddylai wasanaethu i gyflawni cyfreidiau rhai eraill.

Fe ddarparwyd amryw gyfreithiau da ac iachus yn erbyn y cyfryw gam-arferiadau, y rhai, pe cedwid hwy fel y dylid gan bob deiliaid cywir, a allent wasanaethu i leihâu peth ar yr anllywodraethus a'r afradlon ormodedd hwn mewn dillad: ond och! ni welir yn ein mysg ond rhy fychan o ofn ac ufudd-dod i na Duw na dyn. Am hynny ni allwn na ddisgwyliom am ofnadwy ddïal Duw o'r nef i ddymchwelyd ein

[1] Esay 3. 16—23.

rhyfyg a'n balchder, megis ag y dymchwelodd Efe Herod, yr hwn yn ei *ddillad brenhinol* a darawyd gan Angel, am iddo anghofio Duw, *a chan bryfed yn ei ysu, efe a drengodd.*[1] Drwy 'r hon esampl ddychrynllyd fe ddangosodd Duw i ni nad ydym ond *bwyd pryfed*, er maint yr ymhoffom ac yr ymfoddhaom yn ein trwsiadau gorwychion.

Yma y gallwn ddysgu 'r addysg a roir i ni gan Jesus fab Sirach: *Na orfoledda o herwydd gwisg o ddillad*, eb efe, *ac na ymddyrcha yn amser anrhydedd: oblegid rhyfedd yw gweithredoedd yr Arglwydd, a'i weithredoedd ef ydynt ddirgel i ddynion;*[2] gan ein dysgu ni mewn gostyngeiddrwydd meddwl i gofio bob un ein galwedigaeth, i'r hon y galwodd Duw ni.

Ymegnïed Cristionogion ynte i ddiffodd y gofal am foddio 'r cnawd. Arferwn felly ddoniau Duw yn y byd hwn yn y fath fodd ag na byddom ry drafferthus yn darbod dros y corph. Ymfoddlonwn yn dawel ar yr hyn a ddanfono Duw, bydded cyn lleied ag y byddo. Ac os rhynga bodd iddo ef ddanfon helaethrwydd, na falchïwn arno, ond defnyddiwn ef yn gymmedrol er ein cysur ein hunain ac er cymmorth i'r rhai sy mewn angen. Yr hwn mewn amlder a helaethrwydd o ddillad, a guddio ei wyneb oddi wrth y noeth, y mae efe, medd y Prophwyd Esay, yn diystyru ei gnawd ei hun. Dysgwn ein hadnabod ein hunain, ac nid diystyru eraill. Cofiwn ein bod i gyd yn sefyll ger bron Mawrhydi 'r Hollalluog Dduw, yr hwn a'n barna ni wrth ei air sanctaidd, yn yr hwn y mae Efe 'n gwahardd gormodedd, nid yn unig i wŷr ond i wragedd hefyd: felly ni ddichon neb ymesgusodi, o ba radd neu gyflwr bynnag y bytho.—— Ymgyflwynwn gan hynny ger bron ei orseddfainge Ef, fel y mae Tertulian yn ein hannog, yn yr addurniadau y sonia 'r Apostol am danynt wrth yr Ephesiaid, *wedi amgylch-wregysu ein lwynau â gwirionedd, a gwisgo dwyfronneg cyfiawnder, a gwisgo am ein traed esgidiau parottoad Efengyl tangnefedd.*[3] Cymmerwn attom symlrwydd, diweirdeb, a gweddeidd-dra, gan ostwng ein gyddfau dan iau esmwyth Crist. Bydded y gwragedd yn ddarostynedig i'w gwŷr, a dyna hwy wedi ymddilladu yn wych ddigon, ebe Tertulian.

Pan ofynwyd i wraig Philo, Philosophydd Paganaidd, paham nad oedd hi 'n gwisgo aur; hi a attebodd, ei bod hi 'n tybied bod rhinweddau ei gwr yn ddigon o addurn iddi hi. Pa faint mwy y dylai gwragedd Cristionogol, dan gyfarwyddyd gair Duw, ymfoddloni yn eu gwŷr! Ië, pa faint mwy y dylai bob Cristion ymfoddloni yn ein Hiachawdwr Crist, gan dybied fod ei rinweddau nefol Ef yn ddigon o harddwch iddo!

[1] Act. 12. 21—23. [2] Eccles. 11. 4. [3] Ephes. 6. 14, 15.

Ond yma fe wrth-ddadleuir ac fe attebir gan ryw wragedd cymhennus ac oferwag, "Er mwyn boddhâu ein gwŷr, boddio eu llygaid hwy, a chynnal i fynu eu serch tu ag attom, yr ydym ni yn coluro ein hwynebau, yn lliwio ein gwallt, yn per-arogli ein cyrph, ac yn ein trwsiadu ein hunain â gwisgoedd gwychion."

Oh! esgus gwag, ac atteb cywilyddus, er gwarth i'th wr! Pa beth a allesit ei ddywedyd yn fwy i ddangos ei ffolineb nag achwyn arno ei fod yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu yn nhrwsiad y Diafol? Pwy a ddichon goluro ei hwyneb, a chrychu ei gwallt, a newid ei liw naturiol ef, heb iddi wrth hynny feio ar waith ei Chrewr a'i gwnaeth hi? fel pe gallai ei gwneuthur ei hun yn harddach nag y pennododd Duw fesur ei thegwch hi! Beth y mae 'r gwragedd hyn yn ei wneuthur, ond ceisio diwygio 'r hyn a wnaeth Duw? heb ystyried mai gwaith Duw yw pob peth naturiol, ac mai gwaith y Diafol yw pob peth annaturiol, a rhithiedig. Fel pe bai 'n hoff gan wr Cristianus weled ei wraig wedi ymloewi ac ymbingcio yn y dull sy fwyaf arferedig gan butteiniaid cyffredin i hudo eu cariadau i ddrygioni! neu fel pe gallai wraig onest chwennychu bod yn debyg i buttain er mwyn rhyngu bodd i'w gwr!

Na, na; nid yw y rhai hyn ond esgusodion gwag a wneir gan y rhai syn 'n ceisio boddio eraill yn fwy na 'u gwŷr. Ac nid yw 'r fath drwsiadau ond peth i'w hannog hi i fyned i ddangos ei hunan, i lithio eraill. Gwych iawn!

Rhaid iddi hefyd ymryson â'i gwr i gynnal y fath drwsiad, drwy 'r hyn y gwneir hi 'n waeth hwswi, drwy fod yn anamlach gartref i edrych at ei hwswiaeth; ac felly esgeuluso cynhildeb ei gwr, drwy roi temtasiwn i'w thylwyth i fod yn afradus a diofal, tra y rhaid iddi hi gael gwibio allan i ddangos ei gwagedd ei hun a ffolineb ei gwr.

Drwy ei balchder hwn mae hi 'n cyffroi mawr gynfigen mewn eraill, sy mor hoff o wagedd ag ydyw hithau. Nid ydyw hi yn haeddu ond sen a gwatwar wrth osod allan ei holl ganmoliaeth mewn gwisgiad Iuddewig a Phaganaidd, ac er hynny ymffrostio o'i Chred a'i Bedydd. —— Nid yw hi ond treulio 'n afreidiol eiddo ei gwr drwy 'r fath wychedd costfawr; ac weithiau mae hynny 'n peri cam-wobrau, crib-ddeilio, a thwyll ym marchnadaeth ei gwr, fel y caffo hi ei thrwsiadu 'n orwychach yngolwg y byd ofer, i foddhâu llygaid y Diafol, ac nid llygaid Duw, yr Hwn sydd yn rhoi i bob creadur ddigon o degwch cymmhesur, ar yr hyn yr ymfoddlonem, pe o Dduw y byddem.

Pa beth arall wyt ti yn ei wneuthur drwy y moddion hyn, ond annog eraill i 'th demtio ac i dwyllo dy enaid âg abwyd dy falchder a 'th orwagedd? Beth arall wyt ti yn ei wneuthur, ond gosod allan dy

falchder, ac o anweddaidd wisgiad dy gorph, gwneuthur rhwyd i Ddiafol i faglu eneidiau y rhai a edrychant arnat?

Oh! dydi wraig, nid Cristionoges, ond gwaeth na Phaganes, tydi weinidoges Diafol! paham yr wyt ti yn anwesu cymmaint ar dy gelain gnawd, yr hwn ryw amser a ddrewa ac a bydra yn y ddaear yr wyt yn cerdded arni? Pa fodd bynnag yr wyt yn dy fwg-darthu dy hun, etto ni all dy ber-aroglau guddio na gorchfygu dy anifeileidd-dra, y rhai ydynt yn dy anffurfio yn hytrach nag y maent yn dy harddu.

Pan ddywedodd Solomon am wragedd beilchion a ymbingciant fel hyn, *Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, yw benyw lân heb synwyr,*[1] pa beth oedd efe yn ei feddwl ond hyn, sef mai po mwyaf yr ymwychech di â'r trwsiad yma oddi allan, lleiaf y gofeli am harddu dy feddwl oddi fewn, ac mai anurddo, ac nid ardderchogi, dy hun yr wyt â'r cyfryw wisgiad.

Gwrando, gwrando, beth y mae sanctaidd Apostolion Crist, yn ei ysgrifenu: trwsiad y gwragedd, ebe St. Petr, *bydded nid yr un oddi allan, o blethiad gwallt, ac amgylch-osodiad aur, neu wisgad dillad: eithr bydded cuddiedig ddyn y galon, mewn anllygredigaeth yspryd addfwyn a llonydd, yr hwn sy ger bron Duw yn werthfawr. Canys felly gynt,* eb efe, *yr oedd y gwragedd sanctaidd yn ymdrwsio, gan fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod.*[2]

A dywed St. Paul y dylai *y gwragedd eu trefnu ei hunain mewn dillad gweddus, gyd â gwylder a sobrwydd; nid â gwallt plethedig, neu aur, neu emmau, neu ddillad gwerthfawr, (ond yr hyn sydd yn gweddu i wragedd a fo yn proffesu duwioldeb) â gweithredoedd da.*[3]

Oni chedwch chwi orchymynion yr Apostolion, gwrandewch o leiaf, beth y mae Paganiaid, y rhai nid adwaenent Grist, wedi ei ddywedyd yn y peth hyn:——

Dywed Democritus, "fod harddwch gwraig yn sefyll mewn ychydig eiriau, ac ychydig ddillad."

Dywed Sophocles am y cyfryw drwsiad fel hyn; "Nid addurn ydyw, O ynfyd, ond cywilydd, ac argoel eglur o'th ffolineb di."

Dywed Socrates, "Mai harddwch gwraig yw yr hyn a ddangoso ei honestrwydd hi."

Mae'r Groegiaid yn arfer y ddiareb hon; "Nid aur neu berlau, ond cynheddfau da, ydyw tegwch gwraig."

Ac y mae Aristotle yn gorchymyn i wraig arfer llai o ddillad nag y mae'r gyfraith yn ei oddef: canys nid gwychder dillad, na godidowgrwydd pryd, nac amledd aur, a wna i wraig gael ei pherchi, ond

[1] Diar. 11. 22. [2] 1 St. Petr 3. 3, 5. [3] 1 Tim. 2. 9, 10.

gwyleidd-dra a bod yn ddïesgeulus i fyw 'n onest ym mhob peth.—— Mae 'r gorwagedd anllywodraethus yma gwedi tyfu cymmaint yn awr, fel nad oes dim cywilydd o hono.

Yr ydym yn darllen mewn hanesion, pan anfonodd y brenhin Dionysius wisgoedd gwychion i wragedd Lacedemon, ddarfod iddynt atteb a dywedyd, "Fe wnai 'r gwisgoedd hyn fwy o gywilydd i ni nag o anrhydedd:" ac am hynny hwy a'u gwrthodasant.

Y gwragedd yn Rhufain gynt a ffieiddiasant y trwsiadau gorwych a anfonasai 'r brenhin Pyrrhus iddynt, ac nid oedd un o honynt mor flysig a gorwag a'u derbyn hwynt.—— Ac fe wnaeth y Senedd yno gyfraith gyhoedd, yr hon a barhaodd dros hir o amser, "Na byddai i wraig wisgo uwchlaw hanner owns o aur, ac na byddai iddi wisgo dillad amliwiog."

Ond fe allai y dywed rhyw foneddiges foethus wrthyf, ac yr ettyb, "mai rhaid iddynt hwy wneuthur rhywbeth, i ddangos eu bonedd a 'u gwaedoliaeth, ac i ddangos cyfoeth eu gwŷr:" fel pe gellid gweled bonedd yn bennaf trwy y pethau ag y gall y coegaf yn gystal a'r goreu eu harferyd! neu fel pe na ellid gwario cyfoeth dy wr yn well nag ar y cyfryw orwagedd! neu fel pe na buasit yn dy Fedydd wedi addaw "ymwrthod â choeg-rodres a gwag-orfoledd y byd, ac anysprydol ewyllys y cnawd!"

Nid wyf yn dywedyd yn erbyn dillad cymmedrol, gweddus i bob sefyllfa, ond yn erbyn y gormodedd, yn erbyn y gwag hoffder i chwennychu' r fath goeg-oferedd, i ddychymmygu dulliau newyddion i borthi balchder, ac i wario cymmaint ar dy gelain gnawd ag a baro i ti ac i'th wr yspeilio 'r tlawd er mwyn cynnal dy draul di.

Clywch pa fodd y mae y Bendefiges sanctaidd Esther yn darlunio 'r addurniadau gwychion hyn (fel y gelwir hwynt) pan orfu arni, er mwyn gwaredu pobl Dduw, wisgo 'r fath drwsiad hoyw, gan wybod mai dyna yr hudoliaeth gymhwysaf i ddallu llygaid ffyliaid cnawdol.—— Fel hyn y gweddïodd hi: *Ti a wyddost, O Arglwydd, beth sy raid i mi, a bod yn ffiaidd gennyf yr arwydd balchder sydd ar fy mhen, ar y dyddiau yr ymddangoswyf, a bod mor ffiaidd gennyf ef a chadach mis-glwyf, ac nad wyf yn ei wisgo ef ar y dyddiau yr wyf yn cael llonydd.*[1]

Drachefn, drwy ba foddion y twyllwyd Holoffernes, ond trwy olygus lewyrch dillad, y rhai a wisgodd y wraig sanctaidd Judith, nid am ei bod yn ymhoffi ynddynt, nac yn ceisio coeg-ddigrifwch drwyddynt? Ond hi a 'u gwisgodd hwy o wir anghenraid trwy ganiattâd Duw, gan arfer yr oferedd hwn i orchfygu llygaid ofer gelyn Duw.

[1] Esther (Apocrypha) 14. 16.

Dyna 'r fath ddymuniad oedd yn y gwragedd pendefigaidd hyn, er eu bod yn anewyllysgar iawn, oni buasai hynny, i wisgo 'r fath ddillad gwychion ag a barant i eraill eu hanghofio eu hunain.—— Canmolir hwy yn yr Ysgrythyr am gasâu 'r fath ofer-wagedd, er gorfod iddynt o wir angenraid yn erbyn ewyllys eu calonnau, eu gwisgo hwy dros amser.

Ac a haeddai 'r gwragedd hynny ganmoliaeth, y rhai nid ydynt i 'w cydmaru i'r gwragedd a grybwyllwyd nac mewn bonedd nac mewn zel dda dros Dduw a'i bobl, gorhoffedd ac ymgais feunyddiol y rhai ydyw ymhoywi yn y fath newidiadau gorwych yn eu gwisgiadau, heb gael byth eu digoni, na gofalu ar bwy y gwasger nac y cyfynger o herwydd eu dillad, os gallant hwy eu cael hwynt?

O wŷr ffol ac ofer! y rhai sy 'n gaethion i ewyllys eu gwragedd yn y fath ddymuniadau anllywodraethus!—— O wragedd ofer! yn tynnu arnynt eu hunain y fath niweid ac a'u dycco 'n gynt i drueni ac aflwydd yn y byd hwn, a chael ar yr un pryd eu ffieiddio gan Dduw, a 'u casâu a'u gwatwor gan ddynion call, ac yn debyg o gael yn y diwedd eu cyssylltu gyd â'r rhai a edifarhânt yn rhy hwyr, ac a gwynant yn uffern ar osteg yn y geiriau hyn: "Pa les a wnaeth ein balchder i ni? Pa elw a gawsom oddi wrth goeg-rodres cyfoeth? Mae 'r holl bethau hyn wedi myned heibio fel cysgod. Ond am rinwedd dda ni ddangosasom erioed un argoel o honi: ac fel hyn yr ydym yn dihoeni am ein hanwiredd."

Os dywedi fod yn rhaid i ti ddilyn yr arfer, a bod defod y byd yn dy gymmell i'r fath goeg-rodres; yna mi a ofynaf i ti, arfer pwy a ddylid ei ganlyn? arfer y doethion, ai arfer ffyliaid? Os dywedi mai arfer y doethion, yna meddaf, canlyn dithau hwynt: canys pwy ond ffyliaid a ddilynai arferion ffyliaid?—— Ystyria y dylid cyfrif cydsyniad y doethion yn ddefod. Yn awr os arferir rhyw ddefod annuwiol, bydd di 'r gyntaf i'w thorri; gwna dy oreu i'w lleihâu a'i thynnu i lawr: a thi a ennilli fwy o glod ger bron Duw a mwy o ganmoliaeth drwy hynny, na holl ardderchowgrwydd y cyfryw ormodedd afreidiol.

Fel hyn y clywsoch ddangos i chwi pa beth y mae Duw yn ei ofyn yn ei air ynghylch cymmedrol arfer ei greaduriaid. Dysgwn ninnau eu harfer yn gymmedrol fel yr ordeiniodd Efe. Fe ddysgodd Duw i ni i ba ddiben a defnydd y dylem arfer ein dillad: dysgwn ninnau ymddwyn, yn yr arferiad o honynt, fel y gweddai i Gristionogion, gan ddangos ein hunain bob amser yn ddiolchgar i'n Tad nefol am ei fawr a'i drugarog ddoniau, yr Hwn sy 'n rhoddi i ni ein bara beunyddiol, hynny yw, pob peth angenrheidiol i'n bywyd anghenus hwn, ac i'r Hwn y bydd raid i ni roi cyfrif am ei holl ddoniau yngogoneddus ymddangosiad ein Hiachawdwr Crist; i'r Hwn, gyd â'r Tad, a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd, y mawl, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

# HOMILI NEU BREGETH

## YNGHYLCH GWEDDI.

NID oes dim yn holl oes dyn, fy ngharedigion yn ein Hiachawdwr Crist, mor anghenraid son am dano, ac annog beunydd iddo, ag yw Gweddi ddiffuant, wresog, a defosiynol, yr hon sy mor angenrheidiol, fel na ellir yn iawn hebddi dderbyn dim oddi ar law Duw. Canys fel y dywed St. Iago 'r Apostol, *Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni;*[1] yr Hwn y dywedir hefyd ei fod yn *oludog i bawb a'r sydd yn galw arno,*[2] nid am na fyn, neu am na ddichon, roddi heb i ni ofyn, ond am iddo osod Gweddi yn gyfrwng arferol rhyngddo Ef a ninnau.—— Nid oes ammeu nad yw Efe 'n gwybod yn wastad pa bethau sydd arnom eu heisiau, a'i fod yn wastad yn barod i roddi i ni amlder o'r pethau sydd yn niffyg arnom.

Etto, er mwyn cydnabod o honom mai Efe yw Rhoddwr pob peth daionus, ac ymddwyn yn ddïolchus tu ag atto am hynny, gan ei garu Ef, ei ofni, a'i addoli yn bur ac yn gywir, fel y dylem; Efe a ordeiniodd yn fuddiol ac yn ddoeth, fod i ni yn amser angen ymostwng yn ei ŵydd Ef, arllwys dirgelion ein calonnau o'i flaen, ac ymbil am gymmorth ar ei law Ef, mewn Gweddi barhâus, ddifrif, a defosiynol.

Drwy enau ei sanctaidd Brophwyd Dafydd Efe a ddywed fel hyn: *Galw arnaf fi yn nydd trallod, a mi a'th waredaf.*[3]

Yn yr Efengyl hefyd, trwy enau ei anwyl Fab Crist, Efe a ddywed, *gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Canys pob un sy 'n gofyn, sy 'n derbyn; a'r neb sy 'n ceisio, sy 'n cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.*[4]

Ac y mae St. Paul, gan gyttuno â hyn, yn *ewyllysio i ni weddïo ym mhob man,*[5] a *pharhau ynddi gyd â diolchgarwch.*[6]

[1] Iago 1. 17. [2] Rhuf. 10. 12. [3] Ps. 50. 15. [4] St. Mat. 7. 7, 8. [5] 1 Tim. 2. 8. [6] Col. 4. 2, 3.

Ac nid yw 'r Apostol bendigedig St. Iago yn anghyttuno dim yn hyn o beth, ond gan daer annog pawb i weddi ddyfal efe a ddywed, *O bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod.*[1] Ac mewn lle arall hefyd, *Gweddïwch dros eich gilydd*, eb efe, *fel y 'ch iachâer. Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.*[2]

Pa beth amgen a ddysgir i ni yn y lleoedd hyn a'r cyffelyb, onid hyn yn unig, sef y myn yr Hollalluog Dduw, er ei ddoethineb a'i rag-wybodaeth nefol, i ni weddïo arno, y myn i ni alw arno, y myn i ni fod mor ewyllysgar o'n rhan ni i ofyn, ag yw Efe o'i ran Yntau i roddi.——

Ffol iawn ac ynfyd ynte yw tyb a rheswm y dynion hynny, y rhai a feddyliant fod pob gweddi yn afreidiol ac yn ofer, am fod Duw yn chwilio 'r galon a 'r arennau, ac yn gwybod meddwl yr yspryd cyn y gofynom.—— Oblegid pe byddai y rheswm cnawdol hwn yn ddigon i ddiddymmu gweddi, paham y gwaeddodd ein Hiachawdwr Crist mor fynych ar ei ddisgyblion, *Gwyliwch a gweddïwch?*[3]—— Paham y pennododd iddynt ffurf o weddi, gan ddywedyd, *Pan weddïoch, dywedwch fel hyn: Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd?*[4]—— Paham y gweddïodd Efe ei Hun mor fynych ac mor daer cyn ei ddïoddefaint?—— Yn ddiweddaf, paham y darfu i'r Apostolion, yn y man ar ol ei Esgyniad Ef, ymgynnull i'r un lle, a pharhâu yno mewn gweddi dros hir amser?[5] —— Naill ai mae 'n rhaid iddynt gondemnio Crist a'i Apostolion o ynfydrwydd anial, neu ynte rhaid iddynt ganiattâu fod Gweddi yn beth hollol angenrheidiol i bob dyn, bob amser, ac ym mhob lle.

Sicr yw nad oes dim yn yr holl fyd yn fwy buddiol ac angenrheidiol i ddynolryw na Gweddi. *Gan weddïo â phob rhyw weddi*, ebe St Paul, *a bod yn wyliadwrus at hyn yma trwy bob ddyfal-bara.*[6] Ac mewn man arall mae 'n erchi i ni *weddïo yn ddibaid;*[7] gan feddwl wrth hynny, na ddylem un amser na llaesu na diffygio mewn gweddi, ond parhâu ynddi hyd ddiwedd ein hoes.

Fe ellid adrodd yma lawer o gyfryw leoedd i'r un perwyl, sef i ddangos mawr angenrheidrwydd a defnyddioldeb Gweddi: ond pa raid aml brawf ar beth goleu? gan nad oes neb mor anwybodus na ŵyr, neb mor ddall na wêl, fod Gweddi yn beth hollol angenrheidiol ym mhob cyflwr a gradd o ddynion. Canys trwy ei chymmorth hi yn unig yr ydym yn cyrhaeddyd y trysorau nefol a thragywyddol hynny, y rhai y mae Duw, ein Tad nefol, wedi eu cadw a'u trysori i'w blant yn ei anwyl a'i garedig Fab Iesu Grist, gwedi cadarnhâu a selio 'n sicr y cyfammod a'r addewid hwn i ni, sef os gofynwn, y cawn dderbyn.

[1] Iago 1. 5. [2] Iago 5. 16. [3] St. Luc 21. 36. a 22. 46. St Marc 14. 38. [4] St. Mat. 6. 9. [5] Act. 1. 14. [6] Eph. 6. 18. [7] 1 Thes. 5. 17.

Yn awr, a ni yn gwybod mawr angenrheidrwydd gweddi, er mwyn annog a chyffroi ein meddyliau a'n calonnau yn fwy iddi, ystyriwn ar fyr eiriau pa hynod nerth a grym sydd ynddi i ddwyn i ben bethau rhyfedd a galluog.——

Yr ydym yn darllen yn Llyfr Exodus ddarfod i Josua, wrth ymladd yn erbyn yr Amaleciaid, eu gorchfygu a'u gorthrechu hwy, nid yn gymmaint trwy rinwedd ei gryfdwr ei hun, a thrwy weddi daer a gwastadol Moses, yr hwn cyhyd ag yr oedd yn dal ei ddwylaw i fynu at Dduw, fe fyddai Israel yn cael y dydd; ond pan ddiffygiai efe, a gollwng ei ddwylaw i lawr, yna fe fyddai Amalec a'i bobl yn trechu; fel ag y gorfu i Aaron a Hur, y rhai oeddynt gyd âg ef yn y mynydd, gynnal ei ddwylaw ef i fynu nes machludo 'r haul: pe amgen, gorthrechasid pobl Dduw a gyrrasid hwy ar ffo y dwthwn hwnnw yn hollol.[1]

Yr ydym yn darllen mewn man arall hefyd am Josua ei hun, y modd pan oeddid yn gwarchae ar Gibeon, gan wneuthur ei ostyngedig ddeisyfiad ar yr Hollalluog Dduw, y parodd efe i'r haul a'r lleuad attal eu rhedegfa, a sefyll ynghanol y nef dros yspaid diwrnod cyfan, nes i'r bobl gael cwbl ymddïal ar eu gelynion.[2]

Ac onid cref a grymus iawn oedd gweddi Jehosaphat, pan wnaeth Duw ar ei ymbiliad ef i'w elynion ef ymladd â'u gilydd ac yn wirfoddol ddinystrio 'r naill y llall?[3]

Pwy a ddichon ryfeddu digon ar effaith a rhinwedd gweddi Elïas? yr hwn *oedd ddyn yn rhaid iddo ddïoddef fel ninnau, ac mewn gweddi efe a weddïodd na byddai wlaw; ac ni bu gwlaw ar y ddaear dair blynedd a chwe mis. Ac efe a weddïodd drachefn; a'r nef a roddes wlaw, a'r ddaear a ddug ei ffrwyth.*[4]

Rhy hir fyddai adrodd am Judith, Esther, Susanna, a llawer o wŷr a gwragedd duwiol eraill, pa faint y llwyddasant yn eu holl weithredoedd, trwy roi eu bryd yn ddifrif ac yn ddefosiynol ar weddi.—— Gwasanaethed ar hyn o ennyd roi pen ar y matter yngeiriau Awstin a Chrysostom; o ba rai y mae y naill yn galw gweddi yn "Allwedd y nef," a'r llall yn dywedyd yn oleu, "nad oes dim yn yr holl fyd yn gryfach na dyn a'i rhoddo ei hun i weddi daer."

Yn awr ynte, fy anwyl garedigion, gan fod gweddi yn beth mor angenrheidiol, ac mor rymmus ger bron Duw, byddwn, fel y'n dysgir gan esampl Crist a'i Apostolion, yn ddifrif ac yn ddiwyd yn galw ar enw 'r Arglwydd. Na ddiffygiwn byth, na laeswn byth, ac na roddwn i fynu byth; ond bob dydd, a phob awr, yn hwyr ac yn foreu, mewn

[1] Ex. 17. 11, 12. [2] Jos. 10. 12, 13. [3] 2 Chron. 20. 18—23. [4] Iago 5. 17, 18.

amser ac allan o amser, byddwn ddyfal mewn myfyriadau a gweddïau duwiol.

Beth os na chawn ein deisyfiadau ar y cyntaf? Etto na lwfrhâwn, ond gwaeddwn a galwn ar Dduw yn wastadol; mae Efe'n sicr o wrando arnom yn y diwedd, pe o ran dim ond o achos ein taerni. Cofiwch ddammeg y barnwr anghyfiawn a'r weddw dlawd, pa fodd y gwnaeth hi iddo drwy ei thaerni *ei dïal hi ar ei gwrthwynebwr*, er nad oedd efe'n *ofni Duw nac yn parchu dyn. Ac oni ddïal Duw ei etholedigion*, medd ein Hiachawdwr Crist, *sy'n llefain arno ddydd a nos?* Fel hyn Efe a ddysgodd ei ddisgyblion, ac ynddynt hwy, bob gwir Gristionogion eraill, *i weddïo'n wastad ac heb ddiffygio.*[1]—— Cofiwch hefyd esampl y wraig o Ganaan, fel y gwrthodwyd hi gan Grist, ac y galwyd hi yn gi, fel un hollol annheilwng i dderbyn un gymmwynas ar ei law; etto ni pheidiodd hi, ond parhâodd i ddilyn ar ei ol, gan waeddi a galw arno i fod yn ddaionus ac yn drugarog wrth ei merch. Ac felly o'r diwedd drwy wir daerni hi a gafodd ei dymuniad.[2]

O bydded i ninnau ddysgu, drwy'r esamplau hyn fod yn ddifrif ac yn wresog mewn gweddi, gan fod yn sicr am ba beth bynnag a ofynom gan Dduw Dad yn Enw ei Fab Crist, ac yn ol ei ewyllys Ef, y bydd iddo yn ddïammeu ei ganiattâu. Efe yw y Gwirionedd ei hun, ac mor wir ag yr addawodd, bydd yn sicr o gyflawni.

Bydded i Dduw er mwyn ei fawr drugaredd, weithio felly yn ein calonnau trwy ei Lân Yspryd, fel y gwnelom yn wastad ein gostyngedig weddïau arno, fel ag y dylem, a chaffael o honom bob amser y peth a ddeisyfom, trwy Iesu Grist ein Harglwydd; i'r Hwn gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth ac yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Luc 18. 1—7. [2] St. Mat. 15. 22—28.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# YNGHYLCH GWEDDI.

YN y rhan gyntaf o'r Bregeth hon chwi a glywsoch fynegi a phrofi i chwi, drwy lawer o dystiolaethau pwysig, a bagad o esamplau da allan o'r Ysgrythyr Lân, fawr angenrheidrwydd a mawr effeithioldeb Gweddi daer a defosiynol.

Yn awr gwrandewch ar bwy y dylech alw, ac at bwy y dylech bob amser gyfeirio eich gweddïau:——

Fe'n dysgir yn eglur yn Sanctaidd Destament Duw mai'r Hollalluog Dduw yw unig ffynnon pob daioni, ac mai oddi ar ei law Ef yn unig yr ydym yn derbyn pa beth bynnag sy gennym yn y byd hwn. I'r perwyl hwn y gwasanaetha'r lle yn St. Iago: *Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni.*[1]

I'r perwyl hwn hefyd y gwasanaetha tystiolaeth Paul mewn amryw fannau yn ei Epistolau, yn tystiolaethu fod yspryd doethineb, yspryd gwybodaeth a datguddiad, ïe, pob rhodd ddaionus a nefol, megis ffydd, gobaith, cariad, gras, a thangnefedd, yn dyfod oddi wrth Dduw, ac oddi wrth Dduw yn unig. Gan ystyried yr hyn bethau, mae efe'n torri allan mewn tanbeidrwydd disymmwth, ac yn dywedyd, O ddyn! *pa beth sy gennyt a'r na's derbyniaist?*[2] Am hynny pan fo arnom ddiffyg neu eisiau dim a berthyn i'r corph neu i'r enaid, rhaid yw i ni redeg at Dduw yn unig, yr hwn yw unig Roddwr pob peth daionus.

Mae ein Hiachawdwr Crist yn yr Efengyl, wrth ddysgu i'w ddisgyblion pa fodd y dylent weddïo, yn eu hanfon hwy at ei Dad yn ei enw Ef, gan ddywedyd, *Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'i rhydd i chwi.*[3] Ac mewn man arall, *Pan weddïoch, dywedwch, Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.*[4]

Ac onid yw Duw ei Hun, drwy enau ei Brophwyd Dafydd, yn ewyllysio ac yn gorchymyn i ni alw arno Ef?[5]

[1] St. Iago 1. 17. [2] 1 Cor. 4. 7. [3] St. Ioan 16. 23. [4] St. Luc 11. 2. [5] Ps. 50. 15.

Ac y mae'r Apostol yn dymuno gras a thangnefedd i bawb oll ag a alwant ar enw 'r Arglwydd, a'i Fab Ef Iesu Grist; megis y mae'r Prophwyd Joel hefyd yn gwneuthur, gan ddywedyd, *A bydd, yr achubir pob un a alwo ar enw 'r Arglwydd.*[1]

Fel hyn ynte y mae 'n oleu wrth annhwyllodrus air y Gwirionedd a'r Bywyd, y dylem ni yn ein holl anghenion redeg at Dduw, cyfeirio ein gweddïau atto Ef, galw ar ei sanctaidd enw, a deisyf cynhorthwy ar ei law Ef, ac nid ar law neb arall.—— Am yr hyn os mynnwch etto reswm yn ychwaneg, ystyriwch yr hyn a ganlyn:——

Mae rhyw gynheddfau angenrheidiol eu bod ym mhob cyfryw un ag y rhaid galw arno, y rhai oni cheir yn y neb y gweddïom arno, yna nid yw ein gweddi yn tyccio dim i ni, ond y mae yn ofer hollol:——

Y peth cyntaf yw, Fod yr hwn y gwnelom ein gweddïau arno, yn alluog i'n helpu ni.

Yr ail yw, Ei fod yn ewyllysgar i'n cynnorthwyo ni.

Y trydydd yw, Ei fod yn gyfryw un ag a allo glywed ein gweddïau ni.

Y pedwerydd yw, Ei fod yn deall yn well na ni ein hunain beth sydd arnom ei eisiau, a pha gymmaint y mae'n rhaid i ni wrth gynhorthwy.

Os ydyw 'r pethau hyn i'w cael yn neb arall, oddi gerth yn Nuw yn unig, yna ni a allwn alw ar ryw un arall heblaw ar Dduw. Ond pa ddyn sy mor ddwl ag na ddeall yn dda fod y pethau hyn yn brïodol yn unig i'r Hwn sydd yn Hollalluog, ac yn gwybod pob peth, ïe, hyd yn nod dirgelion y galon, hynny yw, i Dduw ei hun yn unig? O'r hyn y canlyn na ddylem alw nac ar Angel nac ar Sant, ond yn unig ar Dduw ei Hun, fel yr ysgrifena St. Paul; *Pa fodd y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo?*[2] Felly wrth hyn ni ddylem alw na gweddïo ar neb na byddo gennym *ffydd* ynddo, a bod yn rhaid i ni 'n gyntaf *gredu* ynddo cyn gwneuthur ein gweddïau arno: am hynny fe ddilyn mai ar Dduw ei Hun yn unig y dylem weddïo. Canys ni byddai ond cabledd arswydus yn erbyn Duw a'i sanctaidd air, ddywedyd y dylem *gredu* mewn nac Angel na Sant nac un creadur byw arall: ac ni ddylai y mympwy hwn ddyfod i fewn i galon un dyn Cristianus, gan y dysgir ni 'n bendant yngair yr Arglwydd i ddodi ein ffydd yn y Drindod Lân yn unig, yn enw pa un yn unig y 'n bedyddiwyd hefyd, yn ol gorchymyn eglur ein Hiachawdwr Iesu Grist yn y bennod ddiweddaf o St. Matthew.

Ond er mwyn gwneuthur i'r gwirionedd o hyn ymddangos yn eglurach hyd yn nod i'r rhai gwirionaf a lleiaf eu dysg, ystyriwn pa beth ydyw Gweddi.

[1] Joel 2. 32. [2] Rhuf. 10. 14.

Geilw St. Awstin hi yn "*ddyrchafiad y meddwl at Dduw;*" hynny yw, gostyngedig arllwysiad y galon at Dduw.

Mae Isidorus yn dywedyd mai "*llwyrfryd y galon ydyw, ac nid llafur y gwefusau.*"

Felly wrth y lleoedd hyn, mae gwir Weddi yn sefyll, nid yn gymmaint yn swn a lleferydd y geiriau oddi allan, ag yng ngriddfaniad a gwaedd tumewnol y galon at Dduw.—— Yn awr gan hynny, a oes rhyw Angel, rhyw Forwyn, rhyw Batriarch neu Brophwyd ym mhlith y meirw, a all ddeall neu wybod meddylfryd y galon? Fe ddywed yr Ysgrythyr mai *Duw a chwilia'r calonnau a'r arennau,*[1] ac mai *Efe yn unig a edwyn galon meibion dynion.*[2]

Tu ag at am y Seintiau, mae eu gwybodaeth hwy mor fechan am ddirgelion y galon, fel yr oedd llawer o'r hen Dadau yn ammeu yn fawr pa un a ydynt yn gwybod dim oll o'r pethau a wneir yn gyffredin ar y ddaear, ai peidio: ac er bod rhai yn tybied eu bod, etto mae St. Awstin, Doctor o awdurdod a henafiaeth mawr, yn barnu na wyddant hwy beth yr ydym ni yn ei wneuthur ar y ddaear, yn ddim gwell nag y gwyddom ninnau beth y maent hwythau yn ei wneuthur yn y nefoedd. I brofi hyn, mae'n dwyn y'mlaen eiriau'r Prophwyd Esay, lle'r ydys yn dywedyd, *Nid edwyn Abraham ni, ac ni'n cydnebydd Israel.*[3]—— Ei feddwl ef ynte yw hyn; na byddo i ni dybied bod eu haddoli neu weddïo arnynt yn rhan o'n crefydd, ond y dylem eu hanrhydeddu hwy drwy ganlyn eu buchedd dduwiol a rhinweddol. Canys fel y mae efe'n tystio mewn man arall, fe fyddai'r Merthyri a dynion sanctaidd yn yr amseroedd gynt yn arferol o gael eu coffâu a'u henwi gan yr Offeiriaid ar bryd y Gwasanaeth Dwyfol; ond ni byddid un amser arferol o alw nac o weddïo arnynt. A phaham hynny? Am mai Offeiriad Duw, eb efe, yw'r Offeiriad, ac nid eu Hoffeiriad hwy; am hynny ar Dduw y mae efe'n rhwymedig i alw, ac nid arnynt hwy.

Fel hyn y gwelwch nad yw awdurdod yr Ysgrythyr, nac awdurdod St. Awstin yn cenhadu i ni weddïo arnynt.—— O na byddai i bawb ddarllen a chwilio'r Ysgrythyrau yn ddiesgeulus! yna ni's boddid hwy mewn anwybodaeth, ond hwy yn hawdd a ganfyddent y gwirionedd am yr athrawiaeth hon, ac am bob peth arall. O herwydd yno y mae'r Yspryd Glân yn ein dysgu yn oleu, mai Crist yw ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr gyd â Duw, ac na ddylem chwilio am, na rhedeg at, neb arall. *O phecha neb,* medd St. Ioan, *y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn: ac efe yw'r Iawn dros ein pechodau ni.*[4] Ac ebe St. Paul hefyd; *Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng*

[1] Ps. 7. 9. [2] 2 Chron. 6. 30. [3] Esay 63. 16. [4] 1 St. Ioan 2. 1, 2.

*Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.*[1] Ac â hyn y cyttuna tystiolaeth ein Hiachawdwr ei Hun, *nad yw neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo ef yr hwn yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd,* ïe, a'r unig *ddrws* drwy yr hwn y rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas nef, am mai ynddo Ef, ac nid yn neb arall, y mae Duw yn foddlon.[2]

Am yr hwn achos hefyd y mae Efe 'n gwaeddi ac yn galw arnom i ddyfod atto Ef, gan ddywedyd, *Deuwch attaf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.*[3] A fynnai Crist fod mor angenrheidiol i ni ddyfod atto Ef, ac a fydd i ni yn annïolchusaf ei adael Ef, a rhedeg at arall!—— Dyma'r hyn y mae Duw yn achwyn rhagddo yn gymmaint drwy ei Brophwyd Jeremïah, gan ddywedyd, *Dau ddrwg a wnaeth fy mhobl; hwy a'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw, ac a gloddiasant iddynt eu hunain bydewau, ïe, pydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr.*[4]

Onid yw hwnnw yn wr anghall, meddwch chwi, yr hwn a redo i geisio dwfr i'r gofer bychan, ac yntau yn gallel myned mor hawdd i lygad y ffynnon? Felly gellir yn gyfiawn ammeu ei synwyr yntau, yr hwn a red at Seintiau yn amser anghenoctid, pan allo yn hyf a dïofn ddangos ei ddolur a chyfeirio ei weddi at yr Arglwydd ei hun.—— Pe byddai Duw yn ddïeithr, ac yn enbyd ymddiddan âg Ef, yna gallem yn gyfiawn dynnu yn ein hol ac ymgais â rhywun arall. Eithr *agos yw 'r Arglwydd at y rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.*[5] Ac y mae gweddi 'r gostyngedig a'r addfwyn wedi bod bob amser yn gymmeradwy yn ei olwg Ef.

Beth os ydym yn bechaduriaid; a fydd i ni am hynny beidio â gweddïo ar Dduw, neu anobeithio cael dim ar ei law Ef? paham ynte y dysgodd Crist i ni erfyn am faddeuant o'n pechodau, gan ddywedyd, *A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwŷr.*[6] A dybygwn ni fod y Seintiau yn drugaroccach i wrando pechaduriaid nag yw Duw? Mae Dafydd yn dywedyd mai *trugarog a graslawn yw 'r Arglwydd, hwyrfrydig i lid, a mawr o drugarowgrwydd.*[7] Dywed St. Paul ei fod yn *gyfoethog o drugaredd* i bawb a alwant arno.[8] Ac efe ei Hun drwy enau ei Brophwyd Esay a ddywed, *Dros ennyd fechan y 'th adewais; ond â mawr drugareddau y 'th gasglaf. Mewn ychydig sorriant y cuddiais fy wyneb oddi wrthyt ennyd awr; ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhâf wrthyt.*[9]—— Am hynny ni ddylai pechodau un dyn ei attal rhag gweddïo ar yr Arglwydd ei Dduw:

[1] 1 Tim. 2. 5. [2] St. Ioan 14. 6. a 10. 9. [3] St. Mat. 11. 28.
[4] Jer. 2. 13. [5] Ps. 145. 18. [6] St. Mat. 6. 12. [7] Ps. 103. 8.
[8] Ephes. 2. 4. [9] Esay 54. 7, 8.

ond os efe a fydd wir edifeiriol a dïymmod mewn ffydd, bydded ddïogel ganddo y bydd yr Arglwydd drugarog wrtho, ac y gwrendy ei weddïau.

"Ond O! ni feiddiaf fi," (medd rhywun) "flino Duw bob amser â'm gweddïau: yr ydym yn gweled yn nhai brenhinoedd ac yn llysoedd tywysogion, na oddefir i neb ddyfod i ymddiddan â brenhin, nac i gael y peth y mae yn ei ddymuno, heb yn gyntaf ddefnyddio help rhyw bendefig yn gyfrwng."—— Y mae St. Ambros yn atteb yn dda iawn y rheswm hwn, wrth ysgrifenu ar y Bennod Gyntaf at y Rhufeiniaid. "Am hynny," medd efe, "yr arferwn fyned at y Brenhin trwy gyfrwng swyddogion a phendefigion, am mai dyn marwol yw y Brenhin, ac na ŵyr i bwy y gall ymddiried llywodraeth y wladwriaeth. Ond i gael gan Dduw fod yn gyfaill i ni, oddi wrth yr hwn nid oes dim yn guddiedig, nid rhaid i ni wrth neb cynnorthwywr i'n helpu â'i air da, ond yn unig meddylfryd duwiol a defosiynol."

Ac os rhaid i ni wrth un i erfyn drosom, paham na byddwn boddlon ar yr Un Cyfryngwr hwnnw ag sydd ar ddeheulaw Duw Dad, *gan ei fod Ef yn byw bob amser i eiriol drosom ni* yno.[1] Fel y prynodd Gwaed Crist ni ar y Groes, ac y glanhaodd ni oddi wrth ein pechodau, felly y mae yn alluog yn awr i achub pawb a ddelont at Dduw trwyddo ef. Oblegid y mae i Grist yn eistedd yn y nef *offeiriadaeth dragywyddol*,[2] ac y mae 'n wastad yn gweddïo ar ei Dad dros y rhai sydd edifeiriol, gan gaffael i ni trwy rinwedd ei archollion, y rhai ydynt yngolwg Duw yn wastadol, nid yn unig gwbl ollyngdod o'n pechodau, ond hefyd bob peth angenrheidiol arall y bo raid i ni wrtho yn y byd hwn. —— Felly mae 'r Unig Gyfryngwr hwn yn ddigon yn y nef, ac nid rhaid iddo wrth eraill i'w helpio.

Fe ofyn rhyw ddyn yma, ond odid, "Paham ynte y gweddïwn y naill dros y llall yn y fuchedd hon."—— Yn wir am y mynnir i ni *wneuthur* hynny, gan orchymyn pendant Crist a'i ddisgyblion, er mwyn dangos drwy hynny y ffydd sy gennym yng Nghrist tu ag at Dduw, ac hefyd y cariad sy gennym tu ag at ein gilydd drwy ein bod yn tosturio wrth gyflwr ein brawd, ac yn gwneuthur ein gostyngedig ymbil ar Dduw drosto. Ond am weddïo ar Seintiau, ni feddwn nac un gorchymyn yn yr holl Ysgrythyr, nac un esampl y gallwn yn ddïogel ei chanlyn.—— Felly am na wneir hynny drwy awdurdod gair Duw, nid yw ffydd yn sail iddo, ac am hynny ni ddichon fod yn gymmeradwy ger bron Duw. Canys *beth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw.*[3] *A ffydd*, ebe 'r Apostol, *sy trwy glywed, a chlywed trwy air Duw.*[4]

[1] Heb. 7. 25. [2] Heb. 7. 24. [3] Rhuf. 14. 23. [4] Rhuf. 10. 17.

Ond ti a wrth-ddadleui ym mhellach, fod y Seintiau yn y nef yn gweddïo drosom, a bod eu gweddi yn deilliaw o'r cariad gwresog sy ganddynt at eu brodyr sydd ar y ddaear:——

I hyn y gellir atteb yn dda, yn y lle cyntaf, na 's gŵyr neb pa un a ydynt yn gweddïo drosom ai nad ydynt.—— Hefyd, os cais neb brofi, wrth naturiaeth cariad, eu bod hwy 'n gweddïo drosom, gan gasglu, o herwydd y byddent yn gweddïo dros ddynion *ar y ddaear*, mai mwy o lawer y gwnant hynny yn awr, a hwythau *yn y nef;* yna wrth yr un rheswm fe ellir dywedyd eu bod hwy yn *wylo* yn y nef, pan fyddom ninnau 'n wylo ar y ddaear; canys sicr a dïogel yw y byddent yn gwneuthur felly tra 'r oeddynt yn byw yn y byd hwn.—— Ac am yr hyn sydd ysgrifenedig yn Llyfr y Datguddiad, fod *yr Angel yn offrymmu gweddïau 'r Saint ar yr allor aur,*[1] ei ystyr prïodol yw, a dylid yn brïodol ei ddeall, am y Saint sydd etto 'n fyw ar y ddaear, ac nid am y rhai sy wedi meirw, pe amgen, pa raid fuasai i'r Angel offrwm eu gweddïau hwy, a hwythau eisoes eu hunain yn y nef ger bron wyneb yr Hollalluog Dduw?

Ond caniattâer *fod* y Seintiau yn gweddïo drosom; etto ni 's gwyddom *pa fodd*, pa un ai yn neillduol dros y rhai sy 'n galw arnynt, ai yn gyffredinol dros bob dyn, gan ewyllysio 'n dda i bawb fel eu gilydd. —— Os ydynt yn gweddïo 'n neillduol dros y rhai sy 'n galw arnynt, yna tebyg yw eu bod yn clywed ein gweddïau, ac hefyd yn gwybod deisyfiad ein calonnau: ond fe brofwyd eisoes wrth yr Ysgrythyrau, ac hefyd drwy awdurdod St. Awstin, nad ydyw hynny ddim yn wir.

Na roddwn ninnau gan hynny ein hyder na 'n hymddiried ar y Seintiau na 'r Merthyri sy wedi meirw. Na alwn arnynt, ac na cheisiwn gymmorth ganddynt. Ond yn wastad dyrchafwn ein calonnau at Dduw yn enw ei anwyl Fab Crist, er mwyn yr Hwn, fel yr addawodd Duw wrando ein gweddi, felly yn sicr Efe a gwblhâ hynny.

Peth yn perthyn i Dduw yw Gweddi, yr hyn os prïodolwn i'r Seintiau, mae 'n swnio 'n warthus iddynt, ac ni 's gallant ei oddef yn dda ar ein llaw.—— Pan iachaodd Paul ryw wr cloff a diffrwyth ei draed yn Lystra, mynnasai 'r bobl aberthu iddo ef a Barnabas; yr hyn beth, gan rwygo eu dillad, hwy a'i gwrthodasant, ac a'u hannogasant i addoli y Gwir Dduw.[2]—— Yn y Datguddiad hefyd, pan syrthiodd St. Ioan wrth draed yr Angel i'w addoli ef, ni oddefai 'r Angel iddo wneuthur hynny, ond efe a orchymynodd iddo, gan ddywedyd, *Addola Dduw.*[3]

Mae 'r esamplau hyn yn dangos i ni na fyn y Seintiau na 'r Angylion yn y nef i ni wneuthur un anrhydedd iddynt hwy ag sy ddyledus a

[1] Dat. 8. 3. [2] Act. 14. 8—18. [3] Dat. 19.10.

phriodol i Dduw. Efe yn unig yw ein Tad; Efe yn unig sydd Hollalluog; Efe yn unig sydd yn gwybod ac yn deall pob peth; Efe yn unig a ddichon ein cynnorthwyo bob amser ac ym mhob man. Mae Efe yn goddef *i'w haul godi ar y drwg a'r da;*[1] Mae Efe'n porthi *cywion y gigfran pan lefant arno;*[2] Mae Efe'n *cadw dyn ac anifail;*[3] Ni ad Efe i *un blewyn o'n pen ni golli;*[4] ond mae'n barod bob amser i nerthu ac i gadw pawb a ymddiriedant ynddo, fel yr addawodd, gan ddywedyd, *A bydd cyn galw o honynt, i mi atteb; ac a hwy etto yn llefaru, mi a wrandawaf.*[5]

Gan hynny nac anymddiriedwn ddim i'w ddaioni Ef; nac ofnwn ddyfod ger bron gorsedd ei drugaredd; na cheisiwn gynhorthwy na help gan Seintiau, ond deuwn ein hunain yn hyderus, heb ammeu dim y bydd i Dduw, trwy Grist, yn yr Hwn y llwyr-foddlonwyd Ef, ein gwrando heb i neb siarad drosom, a chyflawni ein deisyfiad ym mhob peth ag a fyddo'n gyttûn â'i sancteiddiolaf ewyllys Ef.—— Felly y dywed Chrysostom, hen Ddoctor o'r Eglwys; ac felly y mae'n rhaid i ninnau gredu yn ddisigl, nid am ei fod ef yn dywedyd hynny, ond yn fwy o lawer am mai hyn yw athrawiaeth ein Hiachawdwr Crist ei Hun, yr Hwn a addawodd, os ni a weddïwn ar y Tad yn ei enw Ef, y cawn yn ddïau ein gwrando, i ddiwallu ein hanghenion ac er iachawdwriaeth ein heneidiau, yr hon a brynodd Efe i ni, nid âg arian neu aur, ond â'i werthfawr Waed a dywalltwyd unwaith dros bawb ar y Groes.

Iddo Ef, gan hynny, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, tri Pherson ac un Duw, y byddo'r holl anrhydedd, y clod, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Mat. 5. 45. [2] Ps. 147. 9. [3] Ps. 36. 6. [4] St. Luc 21. 18. [5] Esay 65. 24.

Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

# YNGHYLCH GWEDDI.

FE a'ch dysgwyd chwi yn y rhan arall o'r Bregeth hon, at bwy y dylech gyfeirio eich gweddi yn amser angen a chyfyngdra; hynny yw, nid at Angylion na Seintiau, ond at y Tragywyddol a'r Byth-fywiol Dduw, yr Hwn, am ei fod yn drugarog, sydd yn wastad yn barod i'n gwrando ni, pan alwom arno mewn gwirionedd a ffydd berffaith: ac am ei fod yn Hollalluog, Efe a ddichon yn hawdd gyflawni a chwblhâu y peth yr ydym yn ei ddeisyf ar ei law Ef.

Ammeu ei allu a fyddai anffyddiaeth eglur, ac yn hollol yn erbyn athrawiaeth yr Yspryd Glân, yr hon sydd yn ein dysgu ei fod Ef oll yn oll.—— A thu ag at am ei ewyllys da Ef yn hyn o beth, mae i ni dystiolaethau pendant yn yr Ysgrythyr, y bydd iddo ein cynnorthwyo a'n gwaredu, os ni a alwn arno yn amser trallod.—— Felly, oblegid y ddau achos hyn, ni a ddylem alw arno Ef yn hytrach nag ar neb arall.

Ac ni ddylai neb gan hynny betruso dyfod yn hyderus at Dduw, am ei fod yn bechadur; o herwydd fel y dywed y Prophwyd Dafydd, *Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd:*[1] ie, y mae ei drugaredd a'i ddaioni yn parhâu yn dragywydd. Yr Hwn a anfonodd ei Fab ei Hun i'r byd i gadw pechaduriaid, oni *wrendy* Efe hefyd ar bechaduriaid, os â chalon wir edifeiriol a ffydd ddïymmod y galwant arno? Ië, *os cyffaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw Efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder,*[2] fel y'n dysgir yn amlwg wrth esampl Dafydd, Petr, Mair Magdalen, a llawer eraill.

A lle mae'n rhaid i ni gael help rhyw gyfryngwr a dadleuwr, ymfoddlonwn arno Ef, yr hwn yw gwir ac unig Gyfryngwr y Testament Newydd, sef ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Canys fel y dywed St. Ioan, *O phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni.*[3] A dywed

[1] Ps. 103. 8. [2] 1 St. Ioan 1. 9. [3] St. Ioan 2. 1, 2.

St. Paul yn ei Epistol cyntaf at Timotheus, *Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu; yr hwn a'i rhoddes ei hunan yn bridwerth dros bawb, i'w dystiolaethu yn yr amseroedd priod.*[1]

Yn awr wedi sefydlu 'r athrawiaeth hon, fe a'ch cyfarwyddir am ba fath bethau a thros ba fath ddynion y dylech wneuthur eich gweddïau ar Dduw.

Mae o bwys mawr i bawb, pan weddïont, ystyried yn dda ac yn ddïesgeulus ynddynt eu hunain beth y maent yn ei ofyn ac yn ei geisio ar law Duw, rhag, os dymunant y peth na 's dylent, fyned eu deisyfiadau yn ofer ac yn ddiffrwyth.—— Fe ddaeth unwaith at Agesilaus frenhin, ryw ymbiliwr taer, yr hwn a geisiai ryw beth ganddo yn ddifrifol, gan ddywedyd, "Syr, gyd â chennad eich Mawrhydi, chwi a addawsoch hynny unwaith i mi." "Gwir," ebe 'r brenhin, "os cyfiawn yw 'r peth yr wyt yn ei geisio; ond os amgen, ei ddywedyd yn unig a wnaethum, ac nid ei addaw." Ni chymmerai 'r dyn ei atteb felly gan y brenhin, ond gan ganlyn arno fwyfwy efe a ddywedodd, "Fe weddai i frenhin gyflawni 'r gair lleiaf a ddywetto, ïe, pe na wnai ond amneidio â'i ben." "Nid mwy," ebe 'r brenhin, "nag y gweddai i ddyn a ddelo at frenhin ddywedyd a cheisio ganddo y pethau ag a fo uniawn ac onest." Fel hyn y trôdd y brenhin ymaith yr ymgeisydd taer ac afresymmol hwnnw.—— Yn awr os rhaid wrth gymmaint ystyriaeth pan benliniom o flaen brenhin daearol, pa faint mwy ystyriaeth y rhaid i ni wrtho pan benliniom ger bron y Brenhin nefol, yr hwn a foddlonir yn unig â chyfiawnder ac uniondeb, ac ni dderbyn un deisyfiad ofer, ynfyd, neu anghyfiawn? Da a buddiol gan hynny fydd i ni lwyr ystyried a phenderfynu ynom ein hunain pa bethau a allwn yn gyfreithlon eu gofyn gan Dduw heb ofni naccâd, ac hefyd pa fath ddynion yr ydym yn rhwymedig i'w gorchymyn i Dduw yn ein gweddïau beunyddiol.

Dau beth yn bennaf sydd i'w golygu yngweddi pob dyn da a duwiol: ei angenoctid ef ei hun, a gogoniant yr Hollalluog Dduw.

Mae angenoctid yn perthyn naill ai i'r corph yn allanol, neu i'r enaid yn dufewnol; yr hon ran o ddyn, am ei bod yn werthfawroccach ac yn rhagorach na 'r rhan arall, ni a ddylem gan hynny yn gyntaf oll erfyn am y pethau a berthynant i iachawdwriaeth y rhan honno; megis dawn edifeirwch, dawn ffydd, dawn cariad perffaith a gweithredoedd da, maddeuant pechod, dïoddefgarwch mewn adfyd, gostyngeiddrwydd mewn hawddfyd, a chyfryw gyffelyb ffrwythau eraill yr Yspryd, megis gobaith, *cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch,*

[1] 1 Tim. 2. 5, 6.

*daioni, ffydd, addfwynder, dirwest,*[1] yr hyn bethau y mae Duw yn eu gofyn gan bawb a broffesont eu hunain yn blant iddo, gan ddywedyd wrthynt yn y modd hwn: *Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd y nefoedd.*[2] Ac mewn man arall hefyd Efe a ddywed, *Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.*[3] Y mae Efe yn dwyn ar gof i ni yma, y dylai ein gofal pennaf a mwyaf ni fod ynghylch y pethau a berthynant i iechyd a dïogelwch yr enaid; *canys,* fel y dywed yr Apostol, *nid oes i ni yma ddinas barhâus,*[4] eithr yr ydym yn ceisio un arall yn y byd sydd ar ddyfod.

Yn awr, gwedi y darffo i ni weddïo digon am bethau a berthynant i'r enaid, yna ni a allwn yn gyfreithlon, ac â chydwybod dda, weddïo hefyd am ein hangenrheidiau corphorol, megis bwyd, diod, dillad, iechyd y corph, ymwared o garchar, ffynniant yn ein negesau beunyddiol, a phethau cyffelyb, fel y byddo rhaid. Pa esampl well o hyn a allwn ni ddymuno ei chael nag esampl Crist ei Hun, yr Hwn a ddysgodd ei ddisgyblion, a phob Cristionogion eraill, i weddïo yn gyntaf am bethau nefol, ac ar ol hynny am bethau daearol, fel y mae i'w weled yn y Weddi a adawodd Efe i'w Eglwys, yr hon a elwir yn gyffredin Gweddi 'r Arglwydd?

Yn Llyfr cyntaf y Brenhinoedd, a'r drydedd bennod, mae 'n ysgrifenedig fel hyn: *Ymddangosodd yr Arglwydd i Solomon mewn breuddwyd liw nos: a dywedodd Duw, Gofyn beth a roddaf i ti.* A Solomon a wnaeth ei ostyngedig weddi, ac a ofynodd *galon ddeallus, i ddeall rhagor rhwng da a drwg,* rhwng yr hyn oedd dduwiol ac annuwiol, a rhwng yr hyn oedd uniawn ac anuniawn yngolwg yr Arglwydd.

*A'r peth fu dda yngolwg yr Arglwydd, am ofyn o Solomon y peth hyn.*

*A Duw a ddywedodd wrtho, O herwydd gofyn o honot y peth hyn, ac na ofynaist it' ddyddiau lawer, ac na ofynaist it' olud, ac na cheisiaist einioes dy elynion, eithr gofynaist it' ddeall i wrando barn;*

*Wele, gwnaethum yn ol dy eiriau; wele rhoddais it' galon ddoeth a deallus, fel na bu dy fath o'th flaen, ac na chyfyd dy fath ar dy ol.*

*A rhoddais it' hefyd yr hyn ni 's gofynaist, golud a gogoniant hefyd: fel na byddo un o'th flaen ym mysg y brenhinoedd, dy holl ddyddiau di.*[5]

Cymmerwch sylw o'r esampl hon, pa fodd na ddarfu i Solomon, a Duw yn rhoi ei ddewis iddo o'r peth a fynnai, ofyn pethau gwag a thrangcedig, ond uchel a nefol drysorau doethineb. Wrth yr hyn y rhoddir ar ddeall i ni y dylem, yn ein gweddïau beunyddiol, erfyn yn

[1] Gal. 5. 22. [2] St. Mat. 5. 16. [3] St. Mat. 6. 33. [4] Heb. 13. 14.
[5] 1 Bren. 3. 5—13.

bennaf ac yn enwediccaf am y pethau a berthynant i deyrnas Dduw a iachawdwriaeth ein heneidiau, heb ammeu na bydd i bob peth arall (yn ol addewid Crist) gael eu rhoddi i ni yn ychwaneg.

Ond yma rhaid i ni gymmeryd gofal am y diben arall y soniwyd am dano o'r blaen, sef *Gogoniant Duw;* yr hwn oni feddyliwn am dano, a'i osod ger bron ein llygaid pan fyddom yn gweddïo, nid oes i ni ddisgwyl y gwrandewir ni, nac y cawn dderbyn dim gan yr Arglwydd.

Yn yr ugeinfed bennod o Matthew, fe ddaeth mam dau fab Zebedëus at yr Iesu, *gan addoli, a dywedyd, Dywed am gael o'm dau fab hyn eistedd, y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law aswy, yn dy frenhiniaeth.*[1] Yn yr arch hwn nid edrychodd am ogoniant Duw, ond hi a ddangosodd yn oleu uchelfrydedd a gwag-ogoniant ei meddwl ei hun: am yr hyn achos hi a gafodd yn gyfiawnaf ei throi yn ei gwrthol a'i cheryddu gan yr Arglwydd.

Yn yr un modd yr ydym yn darllen yn yr Actau am un Simon Magus, swynwr, yr hwn, *pan welodd mai trwy osodiad dwylaw yr Apostolion y rhoddid yr Yspryd Glân, a gynhygiodd iddynt arian, gan ddywedyd, Rhoddwch i minnau hefyd yr awdurdod hon, fel ar bwy bynnag y gosodwyf fy nwylaw, y derbynio efe yr Yspryd Glân.* Wrth wneuthur y deisyfiad hwn, ni cheisiodd efe anrhydedd a gogoniant Duw, ond ei ennill a'i elw ei hun, gan obeithio cael llawer o arian trwy y gwaith hwn: ac am hynny dywedpwyd yn gyfiawn wrtho, *Bydded dy arian gyd â thi i ddistryw, am i ti dybied y meddiennir dawn Duw trwy arian.*[2]

Trwy'r esamplau hyn a'r cyffelyb fe'n dysgir, pa bryd bynnag y gwnelom ein gweddïau ar Dduw, i olygu yn bennaf anrhydedd a gogoniant ei Enw Ef: ynghylch yr hyn y mae i ni y gorchymyn cyffredinol hwn gan St. Paul; *Pa un bynnag ai bwytta ai yfed, ai pa beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.*[3] Yr hyn beth a wnawn yn oreu i gyd, os canlynwn esampl ein Hiachawdwr Crist, yr Hwn wrth weddïo ar fyned cwppan chwerw marwolaeth oddi wrtho, ni fynnai yn hynny gael cyflawni ei ewyllys ei Hun, ond Efe a roddodd y cwbl ar fodd ac ewyllys ei Dad.

Hyd yma fe draethwyd ynghylch y pethau hynny, y rhai y gallwn yn gyfreithlon ac yn eofn eu gofyn gan Dduw.

Yn awr y canlyn bod i ni fynegi pa fath bersonau yr ydym yn rhwymedig mewn cydwybod i weddïo drostynt:——

Mae St. Paul, wrth ysgrifenu at Timotheus, yn *cynghori fod ymbiliau, gweddïau, a deisyfiadau, dros bob dyn,* heb eithrio neb, o ba radd neu sefyllfa bynnag y byddo: yn yr hwn le y mae efe'n crybwyll wrth

[1] St. Mat. 20. 20, 21. [2] Act. 8. 18, 19. [3] 1 Cor. 10. 31.

eu henwau am *frenhinoedd, a phawb sy mewn goruchafiaeth;* gan beri i ni wybod trwy hynny mor bwysig yw i les y wladwriaeth, weddïo 'n ddïesgeulus dros *yr awdurdodau goruchel.*[1]

Ac nid heb achos da y mae efe mor fynych yn ei holl Epistolau yn erfyn gweddïau pobl Dduw drosto ei hun: oblegid wrth wneuthur felly y mae 'n mynegi i'r byd mor fuddiol ac angenrheidiol yw galw beunydd ar Dduw dros Weinidogion ei sanctaidd air a'i Sacramentau, ar iddynt gael drws ymadrodd yn agored, fel y gallont yn gywir ddeall yr Ysgrythyrau, a phregethu 'r unrhyw yn effeithiol i'r bobl, a chynhyrchu eu gwir ffrwythau hwy er esampl i bawb eraill.

Yn y modd yma y byddai 'r gynnulleidfa 'n gweddïo 'n wastad dros Petr yn Jerusalem, a thros Paul ym mhlith y Cenhedloedd, er mawr gynnydd a rhwyddhâd i Efengyl Grist.—— Ac os nyni, gan ddilyn yn hyn eu hesampl dda hwy, a fyfyriwn ar wneuthur y cyffelyb, yn ddïammeu ni 's gellir traethu gymmaint y mawrlles a wnawn i ni ein hunain, na pha gymmaint y rhyngwn fodd i Dduw.

Fe fyddai rhy hir adrodd a rhedeg dros bob math o ddynion; am hynny cymmerwch yr un casgliad hwn i gau y cwbl. Pwy bynnag yr ydym yn rhwym wrth orchymyn pendant i'w *caru,* dros y rhai hynny yr ydym yn rhwym o gydwybod i *weddïo* hefyd. Ond yr ydym yn rhwym wrth orchymyn pendant i garu pob dyn fel ni ein hunain; gan hynny yr ydym yn rhwym i weddïo hefyd dros bob dyn, cystal a throsom ein hunain, er gwybod o honom eu bod yn elynion marwol i ni: canys felly y dysg ein Hiachawdwr Crist ni yn oleu yn ei Efengyl Sanctaidd, gan ddywedyd, *Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnel niweid i chwi ac a'ch erlidiant; fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.*[2]—— Ac fel y dysgodd Efe ei ddisgyblion, felly yr arferai Efe ei Hun wneuthur yn ei fywyd, gan weddïo ar y Groes dros ei elynion, a deisyf ar ei Dad faddeu iddynt, *canys ni wyddant,* eb Efe, *pa beth y maent yn ei wneuthur.*[3]—— Felly hefyd y gwnaeth y Merthyr sanctaidd hwnnw St. Stephan, pan labyddiwyd ef yn greulon i angau gan yr Iuddewon afrywiog a gwar-galedion, er esampl i bawb a ganlynant yn gywir ac yn ddiffuant eu Harglwydd a'u Meistr Crist yn eu fuchedd druenus a marwol hon.

Yn awr, i draethu am y cwestiwn hwnnw, sef *a ddylem ni weddïo dros y rhai sydd wedi ymadael o'r byd hwn, ai peidio.*

Yn hyn o beth, os glynwn ni yn unig wrth air Duw, yna mae 'n rhaid i ni ganiattâu nad oes gennym un gorchymyn i wneuthur felly.

[1] 1 Tim. 2. 1, 2. [2] St. Mat. 5. 44, 45. [3] St. Luc 23. 34.

O herwydd nid yw 'r Ysgrythyr yn cydnabod ond dau le ar ol y fuchedd hon: y naill yn briodol i etholedigion a bendigedigion Duw, a'r llall i wrthodedig eneidiau 'r damnedigion; fel y gellir yn hawdd gasglu oddi wrth Ddammeg Lazarus a'r gwr goludog. Wrth agoryd y Ddammeg hon, fe ddywed St. Awstin fel hyn:—— "Yr hyn a ddywed Abraham wrth y goludog yn Efengyl St. Luc, na all y cyfiawnion dramwy i'r lleoedd y cospir y drygionus ynddynt, pa beth arall y mae yn ei arwyddoccâu, ond yn unig hyn, sef na ddichon y cyfiawnion, o herwydd barn Duw, yr hon ni ellir ei galw yn ol, ddim dangos un weithred o drugaredd i gynnorthwyo y rhai ydynt ar ol y fuchedd hon wedi cael eu taflu i garchar, hyd nes talu o honynt y ffyrling eithaf?" Fel y mae 'r geiriau hyn yn gwaradwyddo 'r dyb am helpu 'r meirw drwy weddi, felly maent hefyd yn llwyr argyhoeddi ac yn tynnu ymaith ofer gyfeiliornad y PURDAN, yr hwn a wreiddir ar y dywediad yn yr Efengyl, *Ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrling eithaf.*[1] Yn awr fe ddywed St. Awstin am y dynion a daflwyd i garchar ar ol y fuchedd hon ar yr ammod hwnnw, na ellir mewn modd yn y byd eu cynnorthwyo, er cymmaint y dymunem wneuthur hynny. A phaham? Am fod dedfryd Duw yn anghyfnewidiol, ac na 's gellir ei galw 'n ol drachefn.

Am hynny na thwyllwn mo honom ein hunain, drwy dybied y gallwn ni gynnorthwyo eraill, neu y gall eraill ein cynnorthwyo ni â'u gweddiau daionus a chardodol mewn amser i ddyfod. Canys fel y dywed y Pregethwr, *Os tu a'r gogledd neu tu a'r dehau y syrth y pren; lle y syrthio 'r pren, yno y bydd efe;*[2] gan feddwl wrth hynny fod pob dyn yn marw naill ai mewn cyflwr o iachawdwriaeth neu ynte o ddamnedigaeth, yn ol fel y mae geiriau 'r Efengylwr Ioan hefyd yn eglur yn rhoi ar ddeall, gan ddywedyd, *Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.*[3]

Pa le wrth hynny y mae 'r *trydydd* lle, yr hwn a alwant y Purdan? Neu ym mha le y bydd i'n gweddiau fod yn help ac yn lles i'r meirw? Nid yw St. Awstin yn cydnabod ond dau le ar ol y fuchedd hon, NEF ac UFFERN: am y trydydd lle, mae efe 'n gwadu 'n amlwg na ellir ei gaffael yn yr holl Ysgrythyr.

Mae Chrysostom hefyd o'r meddwl hwn, sef "oni olchwn ni ymaith ein pechodau yn y byd presennol hwn, na chawn ar ol hynny ddim diddanwch."

A dywed St. Cyprian hefyd "y bydd edifeirwch a thristwch poen, ar ol angau, yn ddiffrwyth, y bydd wylo hefyd yn ofer, a gweddi yn

[1] St. Mat. 5. 26. [2] Preg. 11. 3. [3] St. Ioan 3. 36.

ddiles." Am hynny mae efe 'n cynghori pawb i ddarparu drostynt eu hunain tra y gallont; o achos, ar ol darfod iddynt unwaith ymadael o'r fuchedd hon, nid oes dim lle i edifeirwch nac i wneuthur iawn.

Gwasanaethed y lleoedd hyn a rhai cyffelyb i dynnu ymaith y cyfeiliornad gwrthun ynghylch Purdan allan o'n pennau; ac na freuddwydiwn mwy y gellir helpio dim ar eneidiau 'r meirw drwy ein gweddïau ni: ond credwn fel y mae'r Ysgrythyr yn ein dysgu ni, fod enaid dyn, wrth ymadael o'r corph, yn myned âg uniawn gyrch naill ai i'r nef, neu ynte i uffern: y naill nid rhaid iddo wrth weddi neb, ac i'r llall nid oes ymwared.

Yr unig Burdan, drwy 'r hwn y rhaid i ni obeithio bod yn gadwedig, yw Marwolaeth a Gwaed Crist, yr Hwn, os cymmerwn ni afael arno drwy wir a dïogel ffydd, sydd yn ein puro ac yn ein glanhâu oddi wrth ein holl bechodau, yn gystal a phe byddai Efe yr awrhon ynghrog ar y Groes.—— *Gwaed Iesu Grist,* ebe St. Ioan, *sydd yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechod.*[1]—— *Gwaed Crist,* ebe St. Paul, *sydd yn puro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw.*[2]—— *Yr ydym ni wedi ein sancteiddio,* medd efe mewn lle arall, *trwy offrymmiad corph Iesu Grist unwaith.*[3] Ië, y mae efe yn ychwanegu mwy, gan ddywedyd, *Ag un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sy wedi eu sancteiddio.*[4]

Hwn ynte yw y Purdan yn yr hwn y mae pob Cristionogion yn dodi eu holl ymddiried a'u hyder; heb ammeu dim, os hwy a wir edifarhânt am eu pechodau, ac a fyddant feirw mewn ffydd berffaith, y cânt fyned âg uniawn gyrch o farwolaeth i fywyd.

Oni wasanaetha 'r puredigaeth hwn iddynt, na obeithiant y cânt byth ymwared drwy weddïau dynion eraill, pe parhâent ynddynt hyd ddiwedd y byd. Yr hwn ni ellir ei achub drwy ffydd yng Ngwaed Crist, pa fodd y gall efe ddisgwyl am gael gwaredigaeth drwy eiriolaeth dyn? Ydyw Duw yn edrych mwy ar ddyn ar y ddaear, nag ar Grist yn y nef? *O phecha neb,* medd St. Ioan, *y mae i ni eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni.*[5] Ond rhaid yw i ni edrych am alw ar yr Eiriolwr hwn tra y caffom ennyd yn y fuchedd hon, rhag ar ol i ni unwaith farw, na byddo un gobaith iachawdwriaeth wedi ei adael i ni. O herwydd fel y mae pawb yn *huno* gyd â'i achos ei hun, felly fe *adgyfyd* pawb gyd â'i achos ei hun. A gwelwch, yn y cyflwr y byddo farw, yn yr un cyflwr y bernir ef hefyd, pa un bynnag ai i iachawdwriaeth ai i ddamnedigaeth.

[1] 1 St. Ioan 1. 7. [2] Heb. 9. 14. [3] Heb. 10. 10. [4] Heb. 10. 14.
[5] 1 St. Ioan 2. 1.

Na freuddwydiwn gan hynny am na Phurdan nac am weddïo dros eneidiau y meirw: ond gweddïwn yn ddifrif ac yn ddyfal dros y rhai y gorchymynir yn bendant i ni wneuthur hynny yn yr Ysgrythyr Lân, sef dros frenhinoedd a llywiawdwŷr, dros Weinidogion sanctaidd air a sacramentau Duw, dros Saint y byd hwn, y rhai a elwir y Ffyddloniaid; i fod yn fyr, dros bob dyn byw er maint gelynion a fyddont i Dduw a'i bobl, megis Iuddewon, Tyrciaid, Paganiaid, Anffyddlonion, Hereticiaid, &c.—— Yna y cyflawnwn ni yn gywir orchymyn Duw yn hyn o ran, ac y dangoswn yn eglur ein bod yn wir blant ein Tad nefol, yr Hwn sydd yn goddef *i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.*[1] Am yr hyn, ac am bob doniau eraill y cynnysgaeddwyd dynolryw yn helaeth â hwynt o'r dechreuad, rhoddwn iddo ddïolch diffuant, fel yr ydym yn rhwymedicaf, a moliannwn ei Enw Ef yn dragywydd. Amen.

# HOMILI

## AM LE AC AMSER GWEDDI.

FE greodd Duw yn y dechreuad, trwy ei hollalluog allu, ei ddoethineb a'i ddaioni, y nefoedd a'r ddaear, yr haul, y lloer, y ser, ehediaid yr awyr, bwystfilod y ddaear, y pysgod yn y môr, a'r holl greaduriaid eraill, er budd a lles iddyn, yr hwn hefyd a greasai Efe ar ei lun a'i ddelw ei Hun, ac a ganiattasai iddo eu defnyddio a llywodraethu arnynt oll, er mwyn iddo eu harferyd yn y modd a archasai ac y gorchymynasai Efe iddo, ac er mwyn bod iddo hefyd ei ddangos ei hun yn ddïolchgar a hynaws am yr holl ddoniau hyn a roddwyd iddo mor hael ac mor raslon, yn hollol heb ddim o'i haeddiant ef yn hyn o beth.

Ac er y dylem ni bob amser ac ym mhob lle gadw mewn cof a bod yn ddïolchgar i'n Harglwydd grasol, yn ol fel y mae yn ysgrifenedig, *Bendithiaf yr Arglwydd bob amser;*[2] a thrachefn, *Ym mhob man o'i lywodraeth, fy enaid, bendithia'r Arglwydd:*[3] etto fe ymddengys mai

[1] St. Mat. 5. 45. [2] Ps. 34. 1. [3] Ps. 103. 22.

bodd ac ewyllys Duw ydyw fod i ni, ar amseroedd nodedig ac mewn lleoedd nodedig, ymgynnull ynghŷd, fel y dyrchafer ei Enw Ef ac y myneger ei ogoniant ynghynnulleidfa ei Saint.

Am yr *amser* a osododd yr Hollalluog Dduw i'w bobl ymgynnull yn gyhoedd, mae 'n eglur wrth Bedwerydd Gorchymyn Duw: *Cofia,* medd Duw, *gadw yn sanctaidd y dydd sabbath.*[1] Ar yr hwn ddiwrnod, fel y mae 'n eglur yn Actau yr Apostolion, y byddai 'r bobl yn arferol o ddyfod ynghyd, ac o wrando 'n ddïesgeulus y Gyfraith a'r Prophwydi a ddarllenid yn eu mysg.

Ac er nad ydyw y Gorchymyn hwn yn rhwymo Cristionogion mor galed i gadw ac i gynnal y cwbl o seremoniau y Dydd Sabboth ag y rhoddwyd ef i'r Iuddewon, o ran ymgadw oddi wrth waith a llafur mewn amser o angenrheidrwydd mawr, ac o ran cadw y *seithfed* dydd yn gymmwys yn ol arfer yr Iuddewon; oblegid yr ydym ni yn awr yn cadw y dydd *cyntaf,* yr hwn yw ein dydd Sul ni, ac yn gwneuthur hwnnw yn Sabboth, sef yn Orphwys-ddydd i ni, er anrhydedd i'n Hiachawdwr Crist, yr Hwn ar y dwthwn hwnnw a gyfododd o feirw, gan orchfygu angau yn orfoleddus. Etto er hynny, pa beth bynnag a geffir yn y Gorchymyn hwn yn perthyn i gyfraith natur, megis peth duwiolaf, cyfiawnaf, a rheitiaf i osod allan ogoniant Duw, fe ddylai pob Cristion da ddal hynny a chadw atto.—— Ac am hynny, wrth y Gorchymyn hwn, fe ddylai fod gennym amser, megis un diwrnod yn yr wythnos, yn yr hwn y dylem orphwys, ïe, oddi wrth ein gweithredoedd cyfreithlon ac angenrheidiol. Canys fel yr ymddengys oddi wrth y Gorchymyn hwn na ddylai neb yn ystod y chwe diwrnod fod yn segur ac yn ddïog, ond llafurio 'n ddiwyd yn y sefyllfa y gosododd Duw ef ynddi; felly fe roes Duw orchymyn amlwg a phendant i bob dyn, fod iddynt ar y Dydd Sabboth, yr hwn yn awr yw ein Dydd Sul ni, beidio â phob llafur a arferir ar ddyddiau-gwaith yn yr wythnos, fel megis ag y gweithiodd Duw ei Hun chwe diwrnod, ac y gorphwysodd ar y seithfed, gan ei fendithio a'i sancteiddio, a'i gyssegru i lonyddwch a gorphwysdra oddi wrth lafur; felly hefyd y dylai ufudd bobl Dduw arferyd y Dydd Sul yn sanctaidd, a gorphwys oddi wrth eu gwaith cyffredin a beunyddiol, ac ymroi yn hollol i ymarferiadau nefol yngwir grefydd a gwasanaeth Duw.—— Felly y mae Duw nid yn unig yn gorchymyn cadwraeth y Dydd Sanctaidd hwn, ond y mae hefyd yn ein hannog ac yn ein cyffroi ni â'i esampl ei Hun i gadw 'r unrhyw yn ddïesgeulus. Fe fydd plant hynaws a da nid yn unig yn ufudd i orchymyn eu rhïeni, ond hwy a graffant yn ddyfal ar eu gweithredoedd hwy ac a'u canlynant

[1] Exod. 20. 8.

yn llawen. Felly os mynnwn ninnau fod yn blant i'n Tad nefol, rhaid i ni fod yn ofalus i gadw 'r Sabboth Cristionogol, yr hwn yw y Sul; nid yn unig o ran ei fod yn orchymyn pendant Duw, ond hefyd er mwyn dangos ein hunain yn blant cariadus, wrth ddilyn esampl ein grasol Dad a'n Harglwydd.

Fel hyn gall fod yn amlwg mai ewyllys a gorchymyn Duw oedd, bod amser pennodol a diwrnod sefydlog yn yr wythnos i'r bobl ddyfod ynghyd, ac i goffâu ei ddoniau rhyfedd Ef, ac i roi diolch iddo am danynt, fel ag y perthyn i bobl gariadus, hynaws, ac ufudd.

Fe ddechreuodd y bobl dduwiol Gristionogol ganlyn yr esampl a'r gorchymyn yma o eiddo Duw yn y man gwedi Esgyniad ein Harglwydd Crist, ac a ddechreuasant ddewis iddynt ddiwrnod pennodol o'r wythnos i ymgynnull arno: etto nid y seithfed dydd, yr hwn a gadwai 'r Iuddewon, ond dydd yr Arglwydd, dydd Adgyfodiad yr Arglwydd, y dydd ar ol y seithfed dydd, yr hwn yw 'r dydd cyntaf o'r wythnos. Am yr hwn ddydd fe wneir crybwylliad gan St. Paul fel hyn; *Y dydd cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhodded heibio yn ei ymyl*[1] yr hyn a dybio fod yn dda, i'r tlodion. Wrth *y dydd cyntaf o'r wythnos* y deallir ein Sul ni, yr hwn yw y dydd cyntaf ar ol seithfed dydd yr Iuddewon. Ac y mae etto yn oleuach yn y Datguddiad, lle y dywed St. Ioan, *Yr oeddwn i yn yr yspryd ar ddydd yr Arglwydd.*[2]

Er yr amser hwnnw y mae pobl Dduw bob amser ym mhob oes wedi arferyd yn ddiwrthwyneb ymgynnull ar y Sul i glodfori ac i anrhydeddu bendigaid Enw 'r Arglwydd, a chadw 'r dydd hwnnw 'n ofalus mewn llonyddwch a gorphwysdra sanctaidd, yn wŷr, yn wragedd, yn blant, yn weision, ac yn ddïeithriaid.—— Am droseddu a thorri 'r hwn ddiwrnod y mae Duw wedi dangos ei hun yn ddig dros ben, fel y gellir gweled wrth esampl yr hwn a labyddiwyd i farwolaeth am *gynnutta ar y dydd Sabboth.*[3]

Ond och! er hyn oll, galarus yw edrych ar eonder annuwiol llawer o rai ag a fynnant gael eu cyfrif yn bobl i Dduw, y rhai ni ofalant un gronyn am gadw a sancteiddio 'r Sul!

Ac y mae 'r bobl hyn o ddau fath:——

Y naill fath, os bydd ganddynt un neges i'w wneuthur, nid arbedant hynny o ran y Sul, er na bo dim anghenraid mawr; rhaid iddynt gael marchogaeth ac ymdaith ar y Sul, rhaid iddynt gael cywain a chludo ar y Sul, rhaid iddynt gael rhwyfo a chroesi afonydd ar y Sul, rhaid iddynt gael prynu a gwerthu ar y Sul, rhaid iddynt gael cadw ffeiriau a marchnadoedd ar y Sul: yn ddiweddaf, maent yn arferu pob

[1] 1 Cor. 16. 2. [2] Dat. 1. 10. [3] Num. 15. 32.

dydd yn gyffelyb; yr un peth ganddynt yw dyddiau-gwaith a dyddiau-gŵyl.

Mae'r fath arall yn waeth. O herwydd er na fynnant na theithio na llafurio ar ddydd Sul fel y gwnant ar ddydd-gwaith; etto ni orphwysant mewn *sancteiddrwydd* megis y mae Duw yn gorchymyn: ond gorphwysant mewn annuwioldeb a brynti, gan brangcio yn eu balchder, ymhoywi ac ymrodresu, paentio a lliwio eu hunain, i fod yn wych ac yn ddillyn;—— gorphwysant mewn rhysedd a gormodedd, mewn glythineb a meddwdod, fel moch a llygod;—— gorphwysant mewn ymdaeru ac ymryson, mewn ymladd a chweryla;—— gorphwysant mewn anlladrwydd, mewn coeg-chwedleua, mewn cnawdolrwydd aflan: fel ag y mae'n rhy eglur y dianrhydeddir Duw *yn fwy,* ac y gwasanaethir Diafol *yn well,* ar y dydd Sul nag ar yr holl ddyddiau eraill yn yr wythnos.—— Ac yr wyf yn sicrhâu i chwi fod yr anifeiliaid, y rhai y gorchymynir iddynt orphwys ar y Sul, yn anrhydeddu Duw yn well na'r fath hyn o bobl.

Am hynny, O chwychwi bobl Dduw, dodwch eich dwylaw ar eich calonnau, edifarhêwch, a gwellhêwch y drygioni blin ac enbyd hwn, ofnwch orchymyn Duw, canlynwch yn llawen esampl Duw ei Hun, na fyddwch anufuddgar i drefn dduwiol Eglwys Grist, yr hon a arferwyd ac a gadwyd er amser yr Apostolion hyd y dydd heddyw. Ofnwch ddigofaint a phläau yr Hollalluog Dduw, os chwi a fyddwch esgeulus, ac heb ymattal oddi wrth weithio a llafurio ar y Dydd Sabboth neu'r Dydd Sul, ac os nad ymgynhullwch ynghŷd i fendithio ac i fawrygu bendigedig enw Duw mewn sancteiddrwydd tawel a duwiol barch.

Yn awr am y Lle, yn yr hwn y dylai pobl Dduw ymgynnull, ac yn yr hwn y dylent yn enwedigol gadw a sancteiddio'r Sabboth, sef y Sul, yn ddydd o orphwysdra sanctaidd—— fe elwir y lle hwnnw yn Deml Dduw, neu Yr Eglwys; am fod cwmpeini a chynnulleidfa pobl Dduw (yr hon gynnulleidfa yn briodol a elwir Yr Eglwys) yn ymgynnull yno ar y dyddiau a osodwyd i'r cyfryw gyfarfodydd ac ymgynhulliadau.—— Ac yn gymmaint a darfod i'r Hollalluog Dduw osod *amser* pennodol i'w anrhydeddu arno, mae'n weddus, yn dduwiol, ac yn angenrheidiol iawn fod *lle* gosodedig, lle y gallo'r bobl hyn gyfarfod ac ymgynnull i wasanaethu eu Duw graslawn a'u Tad trugarog.

Gwir yw, nad oedd gan y Patrieirch sanctaidd dros lawer o flynyddoedd na Theml nac Eglwys i fyned iddi. Yr achos oedd, am nad oedd ganthynt arhosfa mewn un lle, ond eu bod mewn pererindod a chrwydrad parhâus, fel na's gallent yn gyflêus adeiladu un Eglwys.

Ond cyn gynted ag y gwaredodd Duw ei bobl o ddwylaw eu caseion, a'u gosod mewn peth rhyddid yn yr anialwch, Efe a osododd i fynu

iddynt Dabernacl drudfawr a chywreinwych, yr hwn oedd megis yr Eglwys Blwyf, lle o ymgynhulliad i'r holl liaws, lle i wneuthur ei aberthau ynddo, ac i arferu defodau a seremoniau eraill.

Ym mhellach; gwedi i Dduw, yn ol gwirionedd ei addewid, gyfleu a sefydlu ei bobl yn dawel yn nhir Canaan, a elwir yn awr Judea, Efe a orchymynodd i'r Brenhin Solomon adeiladu Teml fawr ac ardderchog, y cyfryw na welwyd ond anfynych ei chyffelyb; Teml wedi ei harddu a'i haddurno mor wych a godidog ag oedd weddus a chyfaddas i bobl y pryd hynny, y rhai ni ddenid ac ni chyffroid â dim yn gymmaint ag â chyfryw bethau gwychion a hardd oddi allan.

Hon yn awr oedd Teml Dduw, wedi ei chynnysgaeddu hefyd â llawer o ddoniau a bagad o addewidion. Hon oedd Eglwys Blwyf a Mam-Eglwys holl Judea. Yma yr anrhydeddid ac y gwasanaethid Duw. Yma yr oedd holl deyrnas yr holl Israeliaid yn rhwym i ddyfod ar dair Gwyl arbennig yn flynyddol i wasanaethu yma eu Harglwydd Dduw.

Ond awn yn ein blaen ym mhellach. Nid oedd etto yn amser Crist a'i Apostolion ddim Temlau nac Eglwysydd i Gristionogion. O herwydd paham? Yr oeddynt yn wastad fynychaf mewn erledigaeth, blinder, a thrallod, fel na ellid cael na rhyddid na chennad i'r perwyl hwnnw.

Etto yr ydoedd yn hoff iawn gan Dduw fod iddynt yn fynych ymgyfarfod yn yr un lle: ac am hynny ar ol ei Esgyniad Ef hwy a arhosasant ynghyd mewn *goruwch-ystafell*:[1] weithiau hwy a aent i'r Deml, weithiau i'r Synagogau; yr oeddynt weithiau yngharchar, weithiau yn eu tai, weithiau yn y maesydd, &c. Ac fe barhaodd hyn hyd nes i ffydd Crist Iesu ddechreu amlhâu mewn rhan fawr o'r byd.

Yn awr gwedi sefydlu amryw deyrnasoedd yngwir Grefydd Duw, a chwedi rhoi o Dduw iddynt heddwch a llonyddwch, yna y dechreuodd brenhinoedd, pendefigion, a'r bobl hefyd, wedi eu cyffroi â zel a chynhesrwydd duwiol, adeiladu Temlau ac Eglwysydd, i'r rhai y gallai'r bobl ymgrynhôi, i wneuthur yn well eu dyledswydd tu ag at Dduw a chadw 'n sanctaidd ei Ddydd Sabboth, diwrnod eu gorphwysdra.

Ac i'r Temlau hyn y mae y Cristionogion wedi arfer ymgynnull o bryd i bryd, megis i leoedd cyfaddas, lle y gallont yn gyttûn ac yn unfryd foliannu a mawrhâu enw Duw, gan roi diolch iddo am y doniau y mae Efe beunydd yn eu harllwys arnynt yn drugarog ac yn helaeth; a lle y gallont hefyd glywed ei Sanctaidd Air Ef yn cael ei ddarllen, ei agoryd, a'i bregethu yn ddidwyll, a derbyn ei Sanctaidd Sacramentau a weinyddir iddynt yn bur ac yn ddyladwy.

[1] Act. 1. 13.

Gwir yw, mai Temlau mwyaf neillduol ac enwediccaf Duw, yn y rhai y mae Efe'n ymhyfrydu fwyaf, ac y mae'n hoffaf ganddo drigo ynddynt, yw cyrph a meddyliau gwir Gristionogion a dewisedig bobl Dduw, yn ol athrawiaeth yr Ysgrythyrau a hyspysir gan St. Paul: *Oni wyddoch chwi*, medd efe, *mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch? Sanctaidd yw teml Dduw, yr hon ydych chwi.*[1] —— A thrachefn yn yr un Epistol; *Oni wyddoch chwi fod eich corph yn deml i'r Yspryd Glân sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch eich hunain?*[2]

Etto er hynny, mae Duw yn cymmeradwyo 'r Deml ddifywyd a wneler â chalch a cherrig (cyn fynyched ag y delo ei bobl Ef ynghyd iddi i foli ei Enw Sanctaidd Ef) i fod yn Dŷ iddo, ac yn lle, yn yr hwn yr addawodd fod yn bresennol, ac yn yr hwn y gwrendy weddïau y rhai a alwant arno.—— Yr hwn beth y mae Crist a'i Apostolion, ynghyd â'r Tadau sanctaidd eraill, yn ei fynegi yn ddigonol drwy hyn: sef, er eu bod yn gwybod yn sicr y gwrandewid eu gweddïau ym mha le bynnag y gwnelent hwynt, ïe mewn ogofeydd, mewn coedydd, ac mewn diffeithleoedd; *er hynny* hwy a ymgynhullent cyn fynyched ag y gallent, i'r Temlau meini i ymgyssylltu yno gyd â'r rhan arall o'r gynnulleidfa mewn gweddi a gwir addoliad.

Gan hynny, anwyl garedigion, chwychwi ag sydd yn eich proffesu eich hunain yn Gristionogion, ac yn ymogoneddu yn yr enw hwnnw, na fydded ddïystyr gennych ddilyn esampl eich Athraw Crist, ysgolheigion yr Hwn yr ydych yn dywedyd eich bod: dangoswch eich bod yn debyg i'r rhai y cymmerwch arnoch fod yn gyd-ysgolheigion iddynt, sef Apostolion a Disgyblion Crist.—— Dyrchefwch ddwylaw pur a chalonnau glân ym mhob lle ac ar bob amser; ond gwnewch yr un peth yn y Temlau a'r Eglwysydd ar y Dydd Sabboth hefyd.

Ein rhag-flaenyddion duwiol, a hen Dadau y Brif Eglwys gynt, nid arbedent eu dâ i adeiladu Eglwysydd: ïe, mewn amseroedd o erledigaeth nid arbedent anturio eu bywyd a'u gwaed, er mwyn cael ymgynnull ynghyd yn yr Eglwysydd. Ac a arbedwn *ni* ychydig o drafferth i ddyfod i'r Eglwysydd? Ai ni bydd i'w hesampl hwy, na'n dyledswydd ein hunain, na 'r ennill a ddeuai i ni trwy hynny, ein cyffroi ni?

Os dangoswn fod gennym ofn Duw, os dangoswn ein hunain yn wir Gristionogion, os mynnwn fod yn ganlynwŷr i Grist ein Meistr, ac i'r Tadau duwiol hynny a fuant byw o'n blaen ni, ac ydynt yn awr wedi derbyn gwobr gwir Gristionogion ffyddlon, rhaid i ni yn ewyllysgar, yn ddifrif, ac yn barchus, ddyfod i'r Eglwysydd a'r Temlau i weddïo,

[1] 1 Cor. 3. 16, 17. [2] 1 Cor. 6. 19.

megis i leoedd gweddus wedi eu gosod i'r perwyl hwnnw, a hynny ar y Dydd Sabboth, megis yr amser cymhesuraf i bobl Dduw orphwys oddi wrth eu llafur corphorol a bydol, i ymroddi i orphwysdra sanctaidd a duwiol fyfyrdod, pethau yn perthyn i wasanaeth yr Hollalluog Dduw; trwy 'r hyn y gallwn ymgymmodi â Duw, bod yn gyfrannogion o'i Sacramentau Sanctaidd, ac yn wrandawŷr defosiynol o'i Sanctaidd Air Ef, er mwyn cael felly ein sefydlu mewn ffydd tu ag at Dduw, mewn gobaith yn erbyn pob gwrthwyneb, ac mewn cariad perffaith tu ag at ein cymmydogion.

Ac fel hyn wrth redeg ein gyrfa fel pobl dda Gristionogol, ni a allwn yn y diwedd gyrhaeddyd gwobrwy o ogoniant tragywyddol, trwy haeddedigaethau ein Hiachawdwr Iesu Grist: i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant. Amen.

### YR AIL RAN O'R HOMILI

## AM LE AC AMSER GWEDDI.

FE draethwyd i chwi, bobl dda Gristionogol, yn y Bregeth flaenorol a ddarllenwyd i chwi, ar ba amser ac ym mha le y dylech ddyfod ynghyd i foliannu Duw.

Yn awr yr ydwyf yn bwriadu gosod o flaen eich llygaid, *yn gyntaf*, Mor zelog ac mor chwannog y dylech fod i ymgynnull i'ch Eglwys; ac *yn ail*, Faint a dristêir ar Dduw gan y rhai a ddirmygant neu a ddiystyrant ddyfod i'r Eglwys ar y Gorphwys-ddydd Sanctaidd.

Mae 'n eglur wrth yr Ysgrythyrau i lawer o'r Israeliaid duwiol, a hwy yn awr mewn caethiwed ym mhlith y Babiloniaid am eu pechodau, chwennych a dymuno 'n fynych fod eilwaith yn Jerusalem. Ac ar eu dychweliad drwy ddaioni Duw (er bod llawer o'r bobl yn esgeulus) etto yr oedd y tadau yn rhyfeddol o ddefosiynol i adeiladu 'r Deml, fel y gallai pobl Dduw ddyfod yno i'w anrhydeddu Ef.

A'r brenhin Dafydd, pan oedd wedi ei allwladu o'i wlad ei hun, o Jerusalem y ddinas sanctaidd, o'r cyssegr, o'r lle sanctaidd, ac o dabernacl Duw,—— pa ddymuniad gwresog, pa hiraeth oedd ynddo am y lle

sanctaidd hwnnw! pa ddeisyfiadau, pa weddïau a wnaed gantho ar Dduw am gael bod yn breswylydd yn nhŷ 'r Arglwydd! *Un peth*, eb efe, *a ddeisyfiais i gan yr Arglwydd, hynny a geisiaf; sef caffael trigo yn nhŷ 'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd.*[1]—— Drachefn; *Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ 'r Arglwydd.*[2]—— Ac mewn mannau ereill o'r Psalmau mae efe 'n mynegi pa ddiben a bwriad oedd gantho wrth ddymuno mor wresog am fyned i Deml ac Eglwys yr Arglwydd. *Mi a ddeuaf i 'th dŷ di*, medd efe, *ac a addolaf tu a 'th deml sanctaidd.*[3] A thrachefn; *Hiraethodd fy nghnawd am danat, i weled dy nerth a 'th ogoniant, fel y 'th welais yn y cyssegr.*[4] Paham ynte yr oedd Dafydd yn hiraethu mor ddifrifol am Dŷ Dduw? Yn gyntaf, Am mai yno y mynnai addoli ac anrhydeddu Duw. Yn ail, Yno y mynnai fyfyrio ac edrych ar allu a gogoniant Duw. Yn drydydd, Yno y mynnai foli Enw Duw, gyd â holl gynnulleidfa a chwmpeini 'r bobl.

Yr ystyriaethau hyn o eiddo 'r Prophwyd bendigaid hwn i Dduw a ddylent gyffroi ac ennyn ynom ninnau gyffelyb ddymuniad gwresog am ddyfod i'r Eglwys, yn enwedig ar y Gorphwys-ddyddiau sanctaidd, *yno* i wneuthur ein dyledswydd ac i wasanaethu Duw, *yno* i alw i gof pa fodd y mae Duw o'i rad drugaredd ac er mwyn gogoniant ei Enw, yn nerthol weithio i'n cadw mewn iechyd, gwynfyd, a duwioldeb, ac yn ein dïogelu â'i gadernid oddi wrth ymgyrchiadau a chynddeiriowgrwydd ein gelynion ffyrnig a chreulon, ac *yno* yn llawen ym mhlith rhifedi ei ffyddlon bobl i glodfori ac i fawrygu Sanctaidd Enw 'r Arglwydd.

Gosodwch o flaen eich llygaid hefyd yr hen dad hwnnw Simeon, am yr hwn, er mawr ganmoliaeth iddo ef, ac er calondid i ninnau i wneuthur y cyffelyb, y llefara 'r Ysgrythyr fel hyn: *Yr oedd gwr yn Jerusalem, a'i enw Simeon; a'r gwr hwn oedd gyfiawn a duwiol. Ac efe a ddaeth trwy 'r yspryd i'r Deml; ac yr oedd wedi ei hyspysu iddo gan yr Yspryd Glân, na welai efe angau, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd.*[5]—— Yn y Deml y cyflawnwyd yr addewid iddo; yn y Deml y gwelodd Efe Grist, ac y cymmerodd Ef yn ei freichiau; yn y Deml y torrodd efe allan i fawr foliant Duw ei Arglwydd.——

*Ac yr oedd Anna brophwydes, a fuasai yn weddw ynghylch pedair a phedwar ugain mlynedd, yr hon nid âi allan o'r deml, ond gwasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddiau ddydd a nos. A hon hefyd yn yr awr honno, gan sefyll ger llaw a foliannodd yr Arglwydd, ac a lefarodd am dano ef wrth y rhai oll oedd yn disgwyl ymwared yn Jerusalem.*[6]

[1] Ps. 27. 4. [2] Ps. 122. 1. [3] Ps. 5. 7. [4] Ps. 63. 1, 2. [5] St. Luc 2. 25—27. [6] St. Luc 2. 36, 37.

Ni siommwyd y gwr bendigaid hwn a'r wraig fendigaid hon am y ffrwyth rhyfedd, yr ennill, a'r diddanwch a ddanfonodd Duw iddynt, drwy iddynt ddyfal gyrchu i sanctaidd Deml Dduw.

Yn awr chwi a gewch glywed mor dost y digiodd Duw wrth ei bobl am iddynt ddïystyru ei Deml sanctaidd Ef, a dirmygu neu gamarfer yr unrhyw yn atgas. Yr hyn beth sy 'n ymddangos yn oleu wrth y pläau a'r poenedigaethau hynod a osododd Duw ar ei bobl; yn enwedig wrth hyn, ddarfod iddo gynhyrfu eu gwrthwynebwŷr i guro i lawr yn arswydus ac i ddinystrio yn llwyr ei sanctaidd Deml Ef âg anghyfannedd-dra tragywyddol.

Och! pa sawl Eglwys, gwlad, a theyrnas pobl Gristionogol a gawsant yn ddiweddar eu tynnu i lawr, a'u goresgyn, a'u gadael yn anghyfannedd, gan flin ac annïoddefol ormes a chreulondeb gelyn ein Harglwydd Crist, y Twrc Mawr, yr hwn sy wedi fflangellu 'r Cristionogion mor gyffredinol, na chlywyd erioed ac na ddarllenwyd am y cyffelyb!

Er ys tros ddeng mlynedd ar hugain, y Twrc Mawr a oresgynodd, a orchfygodd, ac a ddug dan ei lywodraeth a'i gaethiwed, ugain o deyrnasoedd Cristionogol, gan droi ymaith y bobl oddi wrth ffydd Grist, a'u gwenwyno â chrefydd gythreulig y drygionus Fahomet, a naill ai hollol ddistrywio eu Heglwysydd, neu eu camddefnyddio 'n ffiaidd â'u cyfeiliornadau annuwiol ac atgas.

Ac yn awr y mae 'r Twrc Mawr hwn, y fflangell chwerw-dost hon o ddïaledd Duw, wrth y drws yn y rhan hon o wledydd Cred, yn Ewrop, ar gyffiniau yr Ital, ar gyffiniau Germani, yn lledu ei safn yn wangcus i'n llyngcu ni, i oresgyn ein gwlad, ac i ddinystrio ein Heglwysydd, onid edifarhâwn am ein buchedd bechadurus, a dyfod i'r Eglwys yn ddïesgeulusach, i anrhydeddu Duw, ac i ddysgu ac i gyflawni ei ewyllys bendigedig Ef.

Fe annogodd yr Iuddewon yn gyfiawn yn eu hamser hwy ddïaledd Duw; *mewn rhan*, am idynt gamarfer ei Deml sanctaidd Ef â delwaddoliad cas y Cenhedloedd, ac ofergoelus ofereddau eu dychymmygion eu hunain, yn groes i orchymyn Duw: *mewn rhan*, am iddynt ddyfod iddi fel rhagrithwŷr, wedi eu llychwino, eu trybaeddu, a'u halogi 'n ffiaidd â phob rhyw ddrygioni a buchedd bechadurus: ac *mewn rhan*, am i lawer o honynt ddïystyru 'r Deml sanctaidd, heb ofalu pa un a wnelent ai dyfod iddi ai peidio.

Ac onid yw y Cristionogion yn ddiweddar, ïe, hyd yn nod yn ein dyddiau ni hefyd, wedi annog yn yr un modd anfoddlonrwydd a llid yr Hollalluog Dduw? *mewn rhan*, am iddynt anurddo a halogi eu Heglwysydd â chamarferion Cenhedlaidd ac Iuddewaidd,—— â delwau ac eilunod,—— â lliaws o allorau a gam-ddefnyddir yn rhy ofergoelus ac

annïoddefol,—— â chamarfer yn anial a llygru 'n ffiaidd Sanctaidd Swpper yr Arglwydd, Bendigedig Sacrament ei Gorph a'i Waed Ef,—— ac â rhifedi annifeiriol o deganau oferwag o'u dychymmygion eu hunain, i wneuthur golwg dêg oddi allan, ac i anffurfio syml a gostyngedig a dirodres Grefydd Crist Iesu: ac *mewn rhan*, maent yn dyfod i'r Eglwys fel rhagrithwŷr, yn llawn o bob anwiredd a buchedd bechadurus, a chanddynt goel a mympwy ofer a pheryglus, sef, os deuant i'r Eglwys, taenellu eu hunain â dwfr bendigaid, gwrandaw offeren, a chael eu bendigo â'r Caregl, er na ddeallont un gair o'r holl Wasanaeth, na chlywed un cyffro i edifeirwch yn eu calonnau, etto fod pob peth yn dda, fod pob peth yn ddïogel!!

Ffei o'r fath watwar a chabledd ar Sanctaidd Ordinhâd Duw! I ddiben arall y gwnaethpwyd Eglwysydd, sef i ddyfod yno i wasanaethu Duw yn gywir; yno i ddysgu ei wynfydedig ewyllys Ef; yno i alw ar ei alluog Enw; yno i arferyd y Sanctaidd Sacramentau; yno i ymegnïo pa fodd i fod mewn cariad perffaith â 'th gymmydog, yno i gofio am dy gymmydog tlawd ac anghenus; ac i ymadael oddi yno yn well ac yn dduwiolach nag y daethost yno.

Yn ddiweddaf; yr ydys wedi annog, ac yn annog beunydd, ddïaledd Duw, am na waeth gan lawer o bobl ddrygionus beidio â dyfod i'r Eglwys; naill ai eu bod wedi eu dallu mor flin fel nad ydynt yn deall dim am Dduw na duwioldeb, ac nad gwaeth ganddynt er rhwystro eu cymmydogion âg esampl ddieflig, neu ynte am eu bod yn gweled yr Eglwys wedi ei llwyr garthu o'r golygfeydd gwychion ag yr ymhoffai eu cnawdol fympwy hwy yn fawr ynddynt, ac am eu bod yn gweled y grefydd gau wedi ei throi heibio, a'r grefydd wir wedi ei hadferu eilwaith—— yr hyn sy 'n ymddangos yn beth diflas i'w blas ddiflas hwy; fel y mae 'n eglur wrth yr hyn a ddywedodd rhyw wraig wrth ei chymmydoges: "Ow, Ow, gymmydoges dda, beth a wnawn ni yn yr Eglwys yn awr, gan fod yr holl Seintiau wedi cael eu tynnu ymaith, gan fod yr holl olygfeydd gwychion yr oeddym arferol o edrych arnynt wedi myned ymaith, a chan na chawn glywed y fath bibellu, canu, a chwareu ar yr organau ag a glywsom o'r blaen!"

Ond y mae i ni achos mawr, fy anwyl garedigion, i lawenychu ac i roddi dïolch i Dduw, fod ein Heglwysydd wedi eu rhyddhâu oddi wrth yr holl bethau ag oedd yn anfoddloni cymmaint ar Dduw, ac yn anurddo mor waradwyddus ei Dŷ sanctaidd a'i Le Gweddi Ef, am yr hyn y dinystriodd Efe yn gyfiawn lawer o genhedloedd, yn ol dywediad St. Paul; *Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw.*[1]—— Ac ni a

[1] 1 Cor. 3. 17.

ddylem foliannu Duw yn fawr am hyn, ddarfod diddymmu yn hollol, fel yr haeddasant yn gyfiawn, y cyfryw arferion ofergoelus a delw-addolaidd, ag oeddynt yn llwyr ddrwg ac yn diwyno gogoniant Duw, ac etto fod y pethau yr anrhydeddid Duw neu yr adeiledid ei bobl drwyddynt, wedi cael eu cadw i fynu yn barchus, ac yn cael eu harferyd yn weddaidd yn ein Heglwysydd.

Ond yn awr, yn gymmaint a'ch bod yn canfod mai ewyllys penderfynol Duw ydyw bod i chwi ymgynnull i'ch Eglwysydd ar y Gorphwys-ddydd Sanctaidd,—— gan eich bod yn clywed mor ddigofus y mae Duw yn myned, a pha bläau y mae yn eu harllwys ar ei bobl anufudd-gar,—— gan eich bod yn deall pa fendithion a roddir gan Dduw, a pha radau nefol sy 'n dyfod i'r cyfryw bobl ag a ddelont yn chwannog ac yn zelog i'w Heglwysydd,—— a chan eich bod hefyd yn awr yn cael eich gwahodd yn gyfeillgar a'ch galw gyd â'ch gilydd; gochelwch na laesoch yn eich dyledswydd, a gwyliwch na oddefoch i ddim eich rhwystro rhagllaw rhag ddyfod i'r Eglwys ar y cyfryw amserau ag y gosodir ac y gorchymynir i chwi ddyfod.

Mae ein Hiachawdwr Crist yn dywedyd mewn dammeg ddarfod arlwyo swpper mawr a gwahodd llawer, a bod llawer wedi ymesgusodi, ac na fynnent ddyfod: *Yr wyf yn dywedyd i chwi*, medd Crist, *na chaiff yr un o'r gwŷr hynny a wahoddwyd, brofi o'm swpper i.*[1]—— Y swpper mawr hwn yw Gwir Grefydd yr Hollalluog Dduw, â'r hon y myn Efe ei addoli yn nyledus dderbyniad ei Sacramentau, yn nidwyll bregethiad a gwrandawiad ei sanctaidd Air, ac mewn ymarferiad o'r unrhyw drwy dduwiol ymarweddiad. Mae 'r wledd hon yn awr wedi ei pharottôi yn yr Eglwys, Tŷ Gwledd yr Arglwydd: yr ydys yn eich galw ac yn eich gwahodd yno gyd â'ch gilydd: os gwrthodwch chwi ddyfod, ac os gwnewch esgusion, fe wneir yr un attebiad i chwi ag a wnaethpwyd iddynt hwythau.

Deuwch, am hynny, fy anwyl garedigion, a deuwch heb oedi; deuwch i mewn yn llawen i Dŷ Gwledd Duw, a byddwch gyfrannogion o'r doniau a arlwywyd ac a ddarparodd Efe i chwi.—— Ond edrychwch ddyfod o honoch iddo yn eich dillad Gŵyl, nid fel rhagrithwŷr, nid o ran defod ac arferiad, na chyd â gwrthwynebrwydd, megis pe byddai yn well gennych beidio na dyfod pe caffech eich dewis. Canys y mae Duw yn casâu ac yn cospi y fath ffugiol ragrithwŷr, fel y mae 'n eglur wrth ddammeg arall Crist. *Y cyfaill*, ebe Duw, *pa fodd y daethost i mewn yma heb fod gennyt wisg priodas? Yna y dywedodd wrth y gweinidogion, Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a theflwch i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.*[2]

[1] St. Luc 14. 24. [2] St. Mat. 22. 12, 13.

Fel y gallech ochelyd y cyffelyb enbydrwydd ar law Duw, tyred i'r Eglwys ar y Dydd Gŵyl; a thyred yn dy ddillad Gŵyl, hynny yw, tyred gyd â meddwl llawen a duwiol; tyred i geisio gogoniant Duw ac i fod yn ddïolchgar iddo; tyred i fod yn gyttûn â'th gymmydog, ac i fŷned i gyfeillach a chariad perffaith âg ef; (Ystyria fod dy holl orchwylion yn drewi ger bron wyneb Duw, os nad wyt ti mewn cariad perffaith â'th gymmydog;) tyred gyd â chalon wedi ei nithio â'i glanhâu oddi wrth chwantau a dymuniadau bydol a chnawdol; ac ysgwyd ymaith bob meddyliau ofer a allont dy rwystro rhag gwasanaethu Duw yn gywir. Mae 'r aderyn, pan fyddo am ehedeg, yn ysgwyd ei adenydd; ysgwyd a pharottoa dithau dy hun i hedfan yn uwch na holl adar yr awyr, fel, ar ol gorphen dy ddyledswydd yn y Deml a'r Eglwys ddaearol hon, y gallech hedfan fry, a chael dy dderbyn i ogoneddus Deml Dduw yn y nef, trwy Grist Iesu ein Harglwydd: i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl ogoniant a'r anrhydedd. Amen.

# HOMILI,

## YN YR HON Y MYNEGIR Y DYLID GWEINYDDU GWEDDI GYFFREDIN A SACRAMENTAU MEWN IAITH A DDEALLER GAN Y GWRANDAWYR.

YM mhlith amrywiol ymarferiadau pobl Dduw, nid oes un angenrheitiach, Gristionogion anwyl, bob amser ac i bob sefyllfa nag yw Gweddi gyhoeddus a dyledus arfer y Sacramentau. Oblegid yn y cyntaf, yr ydym yn ceisio oddi ar law Duw yr holl gyfryw bethau ag na's gallwn heb hynny gaffael mo honynt: ac yn yr ail, y mae Efe yn ein braicheidio ni, ac yn ei gynnyg ei Hun i ninnau i'w fraicheidio Yntau.

Am hynny, a ni yn gwybod fod y ddau ymarferiad hyn mor angenrheidiol i ni, na thybygwn fod yn anweddus i ni ystyried, yn gyntaf, pa beth yw Gweddi, a pha beth yw Sacrament; ac yna, pa sawl rhyw o Weddi sydd, a pha sawl Sacrament:—— felly ni a ddeallwn yn well pa fodd i'w harferyd hwy yn iawn.

Mae St. Awstin yn ein dysgu ni i wybod pa beth ydynt yn ei Lyfr a elwir, "Am yr Yspryd a'r Enaid:" am Weddi efe a ddywed fel hyn:

"Gweddi," eb efe, "yw defosiwn y meddwl, sef ymchweliad at Dduw drwy feddylfryd duwiol a gostyngedig; yr hwn feddylfryd sy fath o ogwyddiad ewyllysgar a melus yn yr enaid ei hun at Dduw."—— Ac yn ei ail Lyfr yn erbyn "Gwrthwynebwr y Gyfraith a'r Prophwydi," mae efe'n galw Sacramentau yn arwyddion sanctaidd.—— Ac wrth ysgrifenu at Bonifacius am Fedydd Babanod, efe a ddywed, "Oni bai fod mewn Sacramentau ryw gyffelybrwydd o'r pethau y maent yn Sacramentau o honynt, ni byddent mwy yn Sacramentau: ac o herwydd y cyffelybrwydd hwn, y maent gan mwyaf yn cymmeryd enwau y pethau hynny eu hunain ag y maent yn arwyddion o honynt."

Wrth y geiriau hyn o eiddo St. Awstin mae'n eglur ei fod ef yn cymmeradwyo'r deffiniad cyffredin o Sacrament, sef, mai *Arwydd gweledig ydyw o ras anweledig;* hynny yw, ei fod yn gosod allan i'r llygaid a'r synhwyrau allanol eraill weithrediad tumewnol trugaredd rad Duw, a'i fod megis yn selio addewidion Duw yn ein calonnau ni. —— Ac felly yr ydoedd Enwaediad yn Sacrament, gan ei fod yn pregethu i'r synhwyrau allanol dorriad ymaith flaen-groen y galon oddi mewn, ac yn selio ac yn dïogelhâu ynghalonnau yr enwaededigion addewid Duw am yr Hâd Addawedig ag yr oeddynt yn edrych am dano.

Yn awr, edrychwn pa sawl rhyw o Weddi sydd, a pha sawl Sacrament:——

Yr ydym yn darllen yn yr Ysgrythyrau am dri math o Weddi, o ba rai y mae dau fath yn ddirgel, ac un yn gyhoeddus.

Y gyntaf yw'r hon y sonia St. Paul am dani yn ei Epistol at Timotheüs, gan ddywedyd, *Yr wyf yn ewyllysio i'r gwŷr weddïo ym mhob man, gan ddyrchafu dwylaw sanctaidd, heb na digter na dadl.*[1] A'r Weddi hon yw defosiynol ddyrchafiad y meddwl i fynu at Dduw, heb draethu blinder neu ddymuniad y galon trwy leferydd geiriau.—— O'r Weddi hon y mae gennym esampl yn Llyfr cyntaf Samuel, yn Hannah mam Samuel, pan weddïodd hi yn y Deml yn nhrymder ei chalon, gan ddymuno cael ei gwneuthur yn ffrwythlon. *A Hannah oedd yn llefaru yn ei chalon,* ebe'r hanes, *yn unig ei gwefusau a symmudent; a'i llais ni chlywid.*[2]—— Yn y dull hwn y rhaid i bob Cristion weddïo, nid unwaith mewn wythnos, neu unwaith mewn diwrnod yn unig, ond fel yr ysgrifena St. Paul at y Thessaloniaid, *yn ddibaid:*[3] ac fel yr ysgrifena St. Iago, *Llawer a ddichon taer weddi'r cyfiawn.*[4]

Sonir am yr ail fath o Weddi yn Efengyl Matthew, lle y dywedir, *Pan weddïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddïa ar dy*

[1] 1 Tim. 2. 8. [2] 1 Sam. 1. 13. [3] 1 Thes. 5. 17. [4] St. Iago 5. 16.

*Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg.*[1] Mae o'r rhyw hwn o Weddi amryw esamplau yn yr Ysgrythyr. Ond digon yw adrodd un, yr hon sydd ysgrifenedig yn Actau'r Apostolion. *Cornelius, gwr defosiynol, canwriad o'r fyddin a elwid yr Italaidd, a ddywedodd wrth Petr, Yr oeddwn ar y nawfed awr yn gweddïo yn fy nhŷ; ac wele, safodd gwr ger fy mron mewn gwisg ddisglair, &c.*[2] Fe weddïodd y gwr hwn ar Dduw yn y dirgel, ac fe dalwyd iddo yn yr amlwg.

Dyma'r ddau fath o weddïau dirgel: y naill yn y meddwl, hynny yw, dyrchafiad defosiynol yr enaid at Dduw; a'r llall drwy leferydd, hynny yw, dirgel draethu blinderau a dymuniadau'r galon mewn geiriau, ond etto mewn ystafell ddirgel neu ryw le o'r neilldu.

Mae'r trydydd rhyw o Weddi yn gyhoeddus neu gyffredin. Am y Weddi hon y llefara ein Hiachawdwr Crist, pan y mae'n dywedyd, *Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynnag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd. Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.*[3]

Er i Dduw addaw ein gwrando pan weddïom yn y *dirgel*, ond i ni wneuthur hynny yn ffyddlon ac yn ddefosiynol; (canys Efe a ddywed, *Galw arnaf fi yn nydd trallod, a mi a'th wrandawaf.*[4] Ac *Elïas oedd ddyn yn rhaid iddo ddïoddef fel ninnau; ac mewn gweddi efe a weddïodd na byddai wlaw; ac ni bu gwlaw ar y ddaear dair blynedd a chwe mis: Ac efe a weddïodd drachefn, a'r nef a roddes wlaw:*[5]) etto mae'n eglur wrth hanesion y Bibl mai Gweddi gyhoeddus a chyffredin yw'r fwyaf effeithiol ger bron Duw; ac am hynny mae'n achos o ddwys alar na wneir rhagor o gyfrif o honi yn ein mysg ni, y rhai ydym yn proffesu nad ydym ond un corph yng Nghrist:——

Pan fygythiwyd y dinystrid dinas Ninefeh o fewn deugain niwrnod, ymunodd y tywysog a'r bobl ynghyd mewn Gweddi ac Ympryd cyhoeddus; a hwy a waredwyd:——

Yn y Prophwyd Joel fe orchymynodd Duw gyhoeddi Ympryd, a chasglu y bobl ynghyd, hen ac ieuangc, gwr a gwraig; a dysgwyd hwy i ddywedyd âg un llais, *Arbed dy bobl, O Arglwydd, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth.*[6]——

Pan oeddid ar fedr difa'r Iuddewon oll mewn un diwrnod drwy gynfigen Haman, wrth orchymyn Esther hwy a ymprydiasant ac a weddïasant, a hwy a waredwyd.——

[1] St. Mat. 6. 6. [2] Act. 10. 1, 2, 30. [3] St. Mat. 18. 19, 20. [4] Ps. 50. 15. [5] St. Iago 5. 17, 18. [6] Joel 2. 17.

Pan oedd Holoffernes yn gwarchae ar Bethulia, wrth gyngor Judith ymprydiodd a gweddïodd y trigolion, a hwy a waredwyd.——

Pan ydoedd Petr yngharchar, ymunodd yr Eglwys mewn gweddi, ac fe waredwyd Petr mewn modd rhyfedd.——

Wrth yr hanesion hyn mae 'n ymddangos fod Gweddi gyffredin neu gyhoeddus yn rymmus iawn i gaffael trugaredd ac ymwared oddi ar law ein Tad nefol.

Gan hynny, frodyr, yr wyf yn attolwg i chwi er tyner drugareddau Duw, na fyddwn mwyach yn esgeulus yn hyn o beth: ond megis pobl ag a fyddont yn ewyllysgar i dderbyn ar law Duw y cyfryw bethau daionus ag yr erfynir am danynt yng Ngweddi Gyffredin yr Eglwys, ymunwn ynghyd yn y lle a osodwyd i Weddi Gyffredin, ac âg un llais ac âg un galon ymbiliwn am gael gan ein Tad nefol yr holl bethau y gŵyr Efe eu bod yn anghenraid i ni.—— Nid wyf yn gwahardd i chwi Weddi ddirgel; ond yr wyf yn eich annog i wneuthur cyfrif dyledus o Weddi Gyffredin.

Ac o flaen pob peth, byddwch sicr, yn y tri rhyw hyn o Weddi, fod eich meddyliau gwedi eu cyfodi 'n ddefosiynol at Dduw, ac onid ê, bydd eich gweddïau yn ddiffrwyth, ac fe wirhëir ynoch yr ymadrodd hwn; *Nesâu y mae y bobl hyn attaf â'u genau; a'u calon sy bell oddi wrthyf.*[1]

Cymmaint a hyn am y tri math o Weddi y darllenwn am danynt yn yr Ysgrythyrau.

Yn awr gyd â'r un fath fyrdra neu fwy, cewch glywed pa sawl Sacrament y sydd, ag a sefydlwyd gan ein Hiachawdwr Crist, ac ydynt i barhâu, ac i gael eu derbyn gan bob Cristion mewn dyledus amser a threfn, ac i'r cyfryw ddiben ag yr ewyllysiodd Crist ein Hiachawdwr i ni eu derbyn.

A thu ag at am eu rhifedi hwynt; os ystyrir hwy yn ol cywir arwyddoccâd Sacrament, sef Arwyddion gweledig, a orchymynir yn bendant yn y Testament Newydd, â'r rhai y cyssylltir addewid o faddeuant rhad o'n pechodau, ac o'n sancteiddrwydd a'n hundeb yng Nghrist, nid oes ond *dau*, sef BEDYDD a SWPPER YR ARGLWYDD.

Canys er bod i Ollyngdod addewid o faddeuant pechod, etto nid oes iddo wrth eiriau pendant y Testament Newydd addewid o hyn *wedi ei chylymmu a'i rhwymo wrth yr arwydd gweledig*, yr hwn yw Arddodiad dwylaw. Oblegid ni orchymynir yn bendant, yn y Testament Newydd, arferyd yr arwydd gweledig hwn (sef Arddodiad dwylaw) fel y gorchymynir arferyd yr arwyddion gweledig ym Medydd ac yn Swpper yr

[1] St. Mat. 15. 8.

Arglwydd: ac am hynny nid yw Gollyngdod yn gyfryw Sacrament ag ydyw y Bedydd a'r Cymmun.—— Ac er bod i urddiad Gweinidogion arwydd gweledig ac addewid, etto nid oes iddo addewid o faddeuant pechod, nac i un Sacrament arall heblaw y ddau a enwyd uchod. Gan hynny nid yw Urddiad, nac un Sacrament arall, yn gyfryw Sacramentau ag ydyw 'r Bedydd a'r Cymmun.

Ond mewn ystyr gyffredinol, gellir priodoli 'r enw Sacrament i bob peth drwy 'r hyn yr arwyddoccêir rhyw beth sanctaidd. Ac yn yr ystyr hwn o'r gair, fe roes yr hen Ysgrifenwŷr yr enw yma, nid yn unig i'r pump eraill, y rhai yn ddiweddar a gymmerwyd ac a ddefnyddiwyd i wneuthur y Sacramentau yn saith o rifedi, ond hefyd i amryw o ddefodau ereill, megis enneinio âg olew, golchi 'r traed, a phethau cyffelyb; heb feddwl wrth hynny eu cyfrif yn Sacramentau, yn yr un ystyr ag y mae 'r ddau Sacrament a grybwyllwyd o'r blaen.

Ac am hynny mae St. Awstin, gan bwyso manol arwyddoccâd ac ystyr cywir y gair, wrth ysgrifenu at Januarius, ac hefyd yn ei drydydd Llyfr am Athrawiaeth Gristionogol, yn dywedyd "fod Sacramentau 'r Cristionogion yn rhagorol iawn mewn arwyddoccâd, ond yn ychydig iawn mewn rhifedi:" ac yn y ddau le y mae efe 'n son yn bendant am ddau, sef Bedydd a Swpper yr Argiwydd.

Ac er y cedwir gan Drefn Eglwys Loegr, heblaw y ddau hyn, rai arferion a defodau eraill ynghylch Gosodiad Gweinidogion yn yr Eglwys, Priodas, a Chonffirmiad plant, drwy eu holi am eu gwybodaeth ym Mannau y Ffydd, a chyssylltu â hynny Weddïau 'r Eglwys drostynt; ac yn gyffelyb ynghylch Ymweliad y Claf: etto ni ddylai neb gymmeryd y rhai hyn yn Sacramentau, yn yr ystyr ac arwyddoccâd ag y mae Bedydd a Swpper yr Arglwydd: ond naill ai yn gyflyrau duwiol o fuchedd, anghenraid yn Eglwys Grist, ac am hynny yn deilwng i'w gosod allan drwy weithred gyhoeddus a difrifol gan Weinidogion yr Eglwys, neu ynte a fernir yn gyfryw ordinhadau ag a allant gynnorthwyo i athrawiaethu, cysuro, ac adeiladu Eglwys Grist.

Yn awr, gan ein bod yn deall yn ddigonol pa beth yw Gweddi, a pha beth yw Sacrament; a pha sawl rhyw o Weddi y sydd, a pha sawl Sacrament o osodiad ein Hiachawdwr Crist; edrychwn a ydyw 'r Ysgrythyrau ac esamplau 'r Brif Eglwys gynt yn goddef i Weddi a draether â llais geiriau, neu i ryw fath o Sacrament, neu i ryw weithred neu ddefod gyhoeddus a chyffredin arall, ag a fo 'n perthyn i fudd ac adeiladaeth yr anwybodus, gael eu gweinyddu mewn tafodiaith na bo 'r Gweinidòg na 'r bobl yn ei gwybod nac yn ei deall: ïe, neu a ddylai un dyn arferyd yn ddirgel ryw weddi mewn geiriau na byddo efe ei hun yn eu deall.

I'r cwestiwn hwn rhaid i ni atteb yn naccaol. Ac yn gyntaf am Weddi Gyffredin a Gweinyddiad y Sacramentau.

Er y gwnai rheswm (pe caffai reoli) ein perswadio ni 'n fuan i arferyd ein Gweddi Gyffredin a Gweinyddiad y Sacramentau mewn iaith a ddealler; o herwydd mai Gweddi Gyffredin yw bod lliaws yn erfyn am yr un peth âg un lleferydd ac un cydsyniad meddwl: a gweinyddu Sacrament yw pregethu i'r derbyniwr ras anweledig Duw trwy 'r gair a'r elfen allanol; ac hefyd o herwydd y sefydlwyd y ddau ymarferiad hyn, a'u bod fyth yn parhâu, er mwyn dwyn ar gof o bryd i bryd i gynnulleidfa Crist eu hundeb ynddo Ef, ac y dylent, fel aelodau o'r un corph, mewn gweddi ac ym mhob dull arall, geisio a chwennychu bob un les eu gilydd, ac nid eu budd eu hunain yn unig: er y gallai *rheswm*, meddaf, ddangos hyn i ni, etto ni raid i ni redeg at resymmau a phrofion yn y matter hwn, gan fod gennym eiriau eglur a goleu 'r Ysgrythyr, ac hefyd gydsyniad yr Ysgrifenwŷr dysgediccaf a hynaf, i orchymyn gweddïau y gynnulleidfa mewn iaith ag a ddeallont.

Yn gyntaf fe ddywed Paul wrth y Corinthiaid, *Gwneler pob peth er adeiladaeth*:[1] yr hyn ni ddichon fod oni bydd gweddïau cyffredin a gweinyddiad y Sacramentau mewn tafodiaith adnabyddus i'r bobl:—— o herwydd pan draetho 'r Gweinidog weddïau, neu weinyddu 'r Sacramentau mewn geiriau na 's dealler, ni 's gall y rhai a fo 'n gynnrychiol dderbyn adeiladaeth oddi wrthynt. O herwydd megis, pan roddo 'r udgorn yn y maes sain anhynod, ni chynhyrfir neb ganddo i ymbarottoi i ryfel; ac megis, pan na 's rhoddo offeryn cerdd wahaniaeth yn y sain, ni 's gall neb wybod pa beth a genir ar y bibell neu ar y delyn: felly yr un modd, pan fo gweddïau neu weinyddiad y Sacramentau mewn iaith anghydnabyddus i'r gwrandawŷr, pwy o honynt a gyffroir drwy hynny i ddyrchafu ei feddwl at Dduw, ac i geisio gyd â'r Gweinidog ar law Duw y pethau y mae 'r Gweinidog yngeiriau ei weddi yn erfyn am danynt? neu pwy, yngweinyddiad y Sacramentau, a ddeall pa ras anweledig a ddylai y gwrandawŷr ymbil am dano, i gael ei weithio yn y dyn oddi mewn? Yn wir, *neb*; canys fe ddywed St. Paul fod yr hwn sy 'n llefaru mewn tafod dïeithr yn farbariad i'r gwrandawr, yr hyn mewn cynnulleidfa Gristionogol sy 'n beth afresymmol a gwrthun.

Nid ydym ni yn ddïeithriaid i'n gilydd, ond yn gyd-ddinasyddion â'r Saint, ac yn deulu Duw, ac yn aelodau o'r un corph: ac am hynny tra bo ein Gweinidog yn adrodd y weddi, yr hon a wneir yn ein henwau ni i gyd, rhaid yw i ni roi clust ddyfal i'r geiriau a lefarer gantho, ac erfyn *yn ein calon* am gael ar law Duw y pethau y mae efe yn eu herfyn

[1] 1 Cor. 14. 26.

*mewn geiriau.*—— Ac i arwyddoccâu ein bod yn gwneuthur felly, yr ydym yn dywedyd AMEN ar ddiwedd y weddi, yr hon y mae efe yn ei gwneuthur yn ein henwau ni oll. A hyn ni allwn ei wneuthur er adeiladaeth, onid ydym yn deall yr hyn a lefarer.—— Gan hynny anghenraid anhepgorol ydyw bod Gweddi Gyffredin mewn iaith a ddeallo'r gwrandawŷr.

Pe buasai weddus erioed oddef arfer tafod dïeithr yn y gynnulleidfa, yn amser Paul a'r Apostolion ereill y gallasid goddef hynny, pan gynnysgaeddid hwy yn wyrthiol â dawn tafodau: canys fe allasai hynny annog rhai y pryd hwnnw i gofleidio'r Efengyl, wrth glywed Hebrewŷr o anedigaeth, ac yn anllythyrennog, yn dywedyd Groeg a Lladin ac ieithoedd eraill. Ond nid oedd Paul yn meddwl y dylid goddef hyn yr amser hynny, ac a gawn *ni* arferyd hynny *yn awr*, pan nad oes neb yn dyfod i wybod ieithoedd felly ond trwy astudrwydd difrif a dïesgeulus? Na atto Duw: canys ni a ddygem felly holl ymarferiadau ein Heglwys i wag ofergoel, a gwnaem hwynt yn hollol ddiffrwyth.

Mae Luc yn ysgrifenu ddarfod i Petr ac Ioan, *wedi eu gollwng ymaith* gan Dywysogion ac Arch-offeiriaid Jerusalem, *ddyfod at yr eiddynt, a dangos yr holl bethau a ddywedasai'r Arch-offeiriaid a'r Henuriaid wrthynt. Hwythau pan glywsant, o un fryd a gyfodasant eu llef at Dduw, ac a ddywedasant, O Arglwydd, tydi yw y Duw yr hwn a wnaethost y nef a'r ddaear, a'r môr, ac oll sydd ynddynt, &c.*[1] Ni allasent wneuthur fel hyn, pes gweddïasent mewn tafod dïeithr nad oeddynt yn ei ddeall. A dilys yw nad oedd pawb yn llefaru â'i lef ei hun, ond fod rhyw *un* o honynt yn llefaru yn eu henwau hwy oll, a bod y lleill, gan roi clust ddyfal i'w eiriau ef, yn cydsynio â hwynt: ac am hynny y dywedir iddynt *o un fryd gyfodi eu llef.* Nid yw St. Luc yn dywedyd eu *llefau*, megis am *lawer*, ond eu *llef*, megis am *un*. Yr oedd yr *un* llef honno ynte yn y cyfryw iaith ag oeddynt oll yn ei deall, pe amgen ni's gallasent ei chyfodi at Dduw gyd â chydsyniad eu calonnau: canys ni ddichon neb gydsynio â'r peth na's gwypo.

Am yr amser o flaen dyfodiad Crist, ni bu ddyn erioed a haerai y byddai gan bobl Dduw, na chan neb arall, eu gweddïau, neu weinyddiad eu Sacramentau, neu eu haberthau, mewn iaith na fyddent hwy eu hunain yn ei deall.

Am yr amser *gwedi* Crist, nes i allu trawsfeddiannol Rhufain ddechreu ymledu, a rhwymo holl genhedloedd Ewrop i fawrhâu iaith Rhufain, mae'n eglur wrth gydsyniad yr Ysgrifenwŷr hynaf a dysgediccaf

[1] Act. 4. 23, 24.

na byddid yn arfer un iaith ddïeithr neu anghydnabyddus ynghynnulleidfaoedd y Cristionogion.

Mae Justin Ferthyr, yr hwn oedd yn byw tu ag wyth ugain mlynedd gwedi Crist, yn dywedyd fel hyn am weinyddiad Swpper yr Arglwydd yn ei amser ef:——

"Ar ddydd Sul," eb efe, "gwneir cynnulleidfaoedd o'r rhai a drigant yn y dinas-drefydd, ac hefyd o'r rhai a drigant yn y wlad. Ym mhlith y rhai yr ydys, gymmaint ag a ellir, yn darllen ysgrifenadau yr Apostolion a'r Prophwydi. Yna, wedi i'r Darllenwr beidio, mae'r Gweinidog pennaf yn gwneuthur annogaeth, gan eu hannog i ddilyn pethau onest. Wedi hyn, yr ydym yn cyfodi oll ynghyd, ac yn offrwm gweddïau: ar ol diweddu y rhai hyn (fel y dywedasom) fe ddygir i mewn fara, a gwin, a dwfr. Yna mae'r Gweinidog pennaf yn offrwm gweddïau a dïolchiadau â'i holl allu, a'r bobl yn atteb, AMEN."

Mae'r geiriau hyn, ynghyd a'u hamgylchiadau, ond i ni eu dyledus ystyried, yn mynegi'n oleu, nid yn unig y byddid yn darllen yr Ysgrythyrau mewn iaith a ddeallid, ond y byddid yn gweddïo hefyd yn yr unrhyw, yn y cynnulleidfaoedd yn amser Justin.

Fe ordeiniodd Basil Fawr a Ioan Chrysostom yn eu hamser hwy Drefniadau cyhoedd o Weinyddiad cyhoedd, y rhai a elwir *Liturgiau;* a hwy a ordeiniasant ynddynt fod i'r bobl atteb i weddïau'r Gweinidog, weithiau, *Amen;* weithiau, *Arglwydd trugarhâ wrthym;* weithiau, *A chyd â'th Yspryd dithau;* ac weithiau, *Yr ydym yn dyrchafael ein calonnau i'r Arglwydd.*—— Ni allasai'r bobl wneuthur yr attebion hyn mewn amser dyledus, pe na buasai'r gweddïau mewn iaith ag a ddeallent hwy.

Mae'r unrhyw Basil, wrth ysgrifenu at Offeiriad Neocesarea, yn dywedyd fel hyn am ei arferiad ei hun mewn Gweddi Gyffredin; sef y byddai yn gosod uu i ddechreu'r gân, a'r lleill i ganlyn; ac felly wedi treulio'r nos mewn amryw ganiadau a gweddïau, eu bod ar y wawrddydd oll ynghyd (megis âg un genau ac âg un galon) yn canu i'r Arglwydd ganiad o gyffes, pob un yn ffurfio iddo ei hun eiriau cyfaddas o edifeirwch.

Mewn man arall efe a ddywed; "Os teg yw'r môr, pa fodd nad yw cynnulleidfa'r Eglwys yn llawer teccach, yn yr hon y mae sain cyssylltiedig gwŷr, gwragedd a phlant (megis pettai sŵn y tonnau yn curo ar lan y môr) yn cael ei ddanfon i fynu o'n gweddïau at ein Duw?"—— Sylwch ar ei eiriau: "Sain cyssylltiedig gwŷr, gwragedd, a phlant:" yr hyn ni ddichon fod heb iddynt oll ddeall yr iaith y dywedid y weddi ynddi.

Ac fe ddywed Chrysostom ar eiriau St. Paul; "Cyn gynted ag y clywo 'r bobl y geiriau hyn, *Yn oes oesoedd*, maent oll yn y man yn atteb, *Amen*." Yr hyn ni allent ei wneuthur, oni bai eu bod yn deall y geiriau a leferid gan yr Offeiriad.

Fe ddywed Dionysius y byddai holl lïaws y bobl yn canu hymnau yngweinyddiad y Cymmun.

"Mae 'r Offeiriad," ebe Cyprian, "yn parottoi meddyliau 'r brodyr â rhagymadrodd o flaen y weddi, gan ddywedyd, *Dyrchefwch eich calonnau;* fel tra bo 'r bobl yn atteb, *Yr ydym yn eu dyrchafael i'r Arglwydd*, y rhybuddier hwy na ddylent feddwl am ddim ond yr Arglwydd."

Mae St. Ambros wrth ysgrifenu ar eiriau St. Paul yn dywedyd; "Hyn yw 'r peth y mae efe 'n ei ddywedyd, fod yr hwn sy 'n llefaru mewn tafod dïeithr yn llefaru wrth Dduw; canys y mae Efe 'n gwybod pob peth: ond nid yw dynion yn gwybod, ac am hynny nid oes ffrwyth o lefaru mewn tafod dïeithr."

A thrachefn ar y geiriau hyn: *Os bendithi â'r yspryd, pa wedd y dywed yr hwn sy 'n cyflawni lle 'r anghyfarwydd, Amen, ar dy ddodiad dïolch, gan na 's gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd;*[1] "Hynny yw," medd St. Ambros, "os ti a fynegi foliant Duw mewn iaith na 's gwypo y gwrandawŷr. O herwydd yr annysgedig, wrth glywed yr hyn na 's deallo, nid yw 'n gwybod diben y weddi, ac nid yw 'n atteb *Amen*; yr hwn air sy cystal a dywedyd, *Poed gwir;* fel y cadarnhâer y fendith neu y dodiad dïolch. Canys cyflawnir cadarnhâd y weddi gan y rhai a attebant *Amen*, fel y cadarnhâer ym meddyliau 'r gwrandawŷr, drwy dystiolaeth y gwirionedd, bob peth a'r a lefarer."——

Ac ar ol llawer o eiriau pwysig i'r un perwyl, efe a ddywed; "Swm y cwbl yw hyn; na wneler dim yn yr Eglwys yn ofer;—— ac y dylid llafurio 'n enwedig am y peth hyn, ar fod i'r annysgedig hefyd gael llesâd, rhag bod un rhan o'r corph yn dywyll trwy anwybodaeth."——

A rhag tybied o neb ei fod ef yn meddwl hyn oll am bregethu, ac nid am weddïo, mae 'n cymmeryd achlysur oddi wrth y geiriau hyn o eiddo St. Paul, *Oni bydd cyfieithydd, tawed yn yr Eglwys*,[2] ddywedyd fel y canlyn; "Gweddïed yn ddirgel, neu lefared wrth Dduw, yr hwn sy 'n clywed hyd yn nod bethau mudion dilafar: canys yn yr Eglwys rhaid iddo lefaru 'r hyn a wnelo les i bawb oll."

Mae St. Jerom, wrth ysgrifenu ar y geiriau hyn o eiddo St. Paul, *Pa wedd y dywed yr hwn sy 'n cyflawni lle 'r anghyfarwydd, Amen, ar dy ddodiad diolch*, yn dywedyd; "Y gwr lleyg, yr hwn nid oes ganddo

[1] 1 Cor. 14. 16. [2] 1 Cor. 14. 28.

swydd Eglwysig, yw 'r hwn y mae Paul yn ei feddwl yma wrth *yr hwn sy 'n cyflawni lle 'r anghyfarwydd;* Pa fodd y gall hwnnw atteb, *Amen*, ar ol y weddi na bo yn ei deall?"——

Ac ychydig ar ol hynny, ar eiriau St. Paul, *Os gweddïaf â thafod dïeithr, y mae fy yspryd yn gweddïo, ond y mae fy neall yn ddiffrwyth,*[1] y mae 'n dywedyd fel hyn; "Hyn yw meddwl Paul; Os llefara neb mewn tafodau dïeithr ac anghydnabyddus, gwneir ei ddeall yn ddiffrwyth, nid iddo ei hun, ond i'r gwrandawr; canys beth bynnag a lefarer felly, nid yw hwnnw yn ei wybod."

Fe ddywed St. Awstin, wrth ysgrifenu ar y ddeunawfed Psalm; "Ni a ddylem ddeall pa beth yw hyn, fel y gallom ganu â rheswm dyn, ac nid â thrydar adar. Canys mae dylluanod, cawcïod, brain, pïod, a chyffelyb adar eraill, yn cael eu dysgu gan ddyn i glegru ni wyddant pa beth: ond canu â'r deall a roir i natur dyn drwy ewyllys sanctaidd Duw."——

Ac eilwaith fe ddywed yr unrhyw Awstin; "Nid rhaid wrth eiriau pan fyddom yn gweddïo, oddi gerth, fe allai, fel y gwna 'r Offeiriaid, er mwyn dangos eu meddwl, nid fel y gallo Duw, ond fel y gallo dynion, eu clywed hwy: ac felly, wrth gael dwyn ar gof iddynt drwy gyd-synio â'r Offeiriad, hwy a allant ymgynnal wrth Dduw."

Fel hyn y dysgir ni gan yr Ysgrythyr a'r hen Ddoctoriaid, na ddylid, wrth weinyddu Gweddi Gyffredin a Sacramentau, arfer un iaith na bo 'r gwrandawŷr yn ei deall; fel na 's rhaid i ni dreulio dim ychwaneg o amser yn hyn o beth i foddloni cydwybod Cristion.

Ond etto, i gau safnau 'r gwrthwynebwŷr, y rhai sy 'n sefyll llawer ar Ordinhadau Cyffredinol, da fydd ychwanegu at y tystiolaethau hyn o'r Ysgrythyrau a'r Doctoriaid, un Gosodedigaeth a wnaed gan Justinian, Ymherawdwr Rhufain, yr hwn oedd yn byw bum can mlynedd a saith ar hugain gwedi Crist.

Y Gosodedigaeth yw hwn:——

"Yr ydym ni yn gorchymyn ar fod i'r holl Esgobion a'r Offeiriaid weinyddu 'r Offrwm sanctaidd a'r Gweddïau a arferir yn y Glân Fedydd, nid gan lefaru 'n isel, ond â llais eglur ag y gallo 'r bobl ei glywed, fel trwy hynny y cyffrôer meddwl y gwrandawŷr â mawr ddefosiwn wrth adrodd Gweddïau 'r Arglwydd Dduw: o herwydd felly y mae 'r Apostol sanctaidd yn dysgu yn ei Epistol cyntaf at y Corinthiaid, gan ddywedyd, *Os bendithi â'r yspryd, pa wedd y dywed yr hwn sy 'n cyflawni lle 'r anghyfarwydd, Amen, ar dy ddodiad diolch, gan na 's gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd?. Canys tydi yn ddïau wyt yn dïolch yn dda,*

[1] 1 Cor. 14. 14.

*ond y llall nid yw yn cael ei adeiladu.*[1] A thrachefn yn ei Epistol at y Rhufeiniaid efe a ddywed, *A'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth.*[2] Am hynny oblegid yr achosion hyn, mae yn gymhesur i'r Esgobion a'r Offeiriaid mwyaf crefyddgar draethu, ym mysg gweddïau eraill, y pethau a leferir yn yr Offrwm sanctaidd, wrth ein Harglwydd Iesu Grist ein Duw, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, â lleferydd uchel. A gwybydded yr Offeiriaid mwyaf crefyddgar hyn, os esgeulusant un o'r pethau yma, y gorfydd arnynt roi cyfrif am danynt yn echrydus farn y Duw mawr a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Ac ni 's gwnawn ninnau, pan gaffom ei wybod, orphwys a'i adael heb ei ddïal."

Yr ydoedd yr Ymherawdwr hwn, fel y dywed Sabelicus, yn ffafrio Esgob Rhufain; ac etto ni a welwn pa fath ordeiniadaeth eglur a wnaeth efe ynghylch gweddïo a gweinyddu Sacramentau mewn iaith gydnabyddus, er mwyn cyffrôi defosiwn y gwrandawŷr trwy wybodaeth, yn erbyn barn y rhai a fynnant mai anwybodaeth sy 'n peri defosiwn. Mae hefyd yn ei wneuthur yn beth damniol wneuthur y pethau hyn mewn iaith na 's deallo 'r gwrandawŷr.

Penderfynwn gan hynny gyd â Duw a chydsyniad pob dyn da, na ddylid gweinyddu na Gweddi Gyffredin na Sacramentau mewn iaith na bo 'r gwrandawŷr yn ei deall.

Yn awr gair neu ddau am Weddi ddirgel mewn tafod dïeithr.

Ni a gymmerasom mewn llaw pan ddechreuasom lefaru am y matter hwn, brofi, nid yn unig na ddylai Gweddi Gyffredin neu gweinyddiad Sacramentau fod mewn iaith anghydnabyddus i'r gwrandawŷr, ond hefyd na ddylai neb weddïo yn ddirgel chwaith mewn iaith na bo efe ei hun yn ei deall:——

Yr hyn beth ni bydd anhawdd i ni ei wneuthur, oni ollyngwn dros gof pa beth ydyw Gweddi.——

O herwydd os defosiwn y meddwl yw Gweddi, yn gyrru 'r galon i ymddyrchafu at Dduw, pa fodd y gellir dywedyd fod y dyn hwnnw yn gweddïo, yr hwn nid yw 'n deall y geiriau a draetho ei dafod mewn gweddi? ïe, pa fodd y gellir dywedyd ei fod yn *llefaru?* canys llefaru yw traethu 'r meddwl â llais: ac nid yw llais y dyn a fo 'n llefaru yn ddim amgen na chenhadwr y meddwl, i ddwyn allan wybodaeth am y peth, oni bai hynny, a orweddai 'n ddirgel ac yn anhyspys yn y galon; yn ol yr hyn a ysgrifena St. Paul: *Pa ddyn,* eb efe, *a edwyn bethau dyn, ond yspryd dyn, yr hwn sydd ynddo ef?*[3] Yr hwn ynte na bo 'n deall y lleisiau a adroddo ei dafod, ni 's gellir yn brïodol ddywedyd ei

[1] 1 Cor. 14. 16, 17. [2] Rhuf. 10. 10. [3] 1 Cor. 2. 11.

fod yn llefaru, ond yn hytrach yn dynwared, fel ag y bydd y parrot, a chyfryw adar eraill cyffelyb, yn dynwared lleisiau dyn.

Ni faidd neb gan hynny, ag sy 'n ofni cyffrôi digofaint Duw yn ei erbyn ei hun, fod mor hyf a llefaru wrth Dduw yn fyrbwyll, heb feddwl am ddeall parchus yn ei wydd Ef; ond efe a barottôa ei galon cyn y rhyfygo lefaru wrth Dduw.

Ac am hynny mae 'r Gweinidog yn ein Gweddi Gyffredin yn dywedyd yn fynych, *Gweddïwn*, gan feddwl wrth hynny rybuddio 'r bobl ar barottôi o honynt eu clustiau i wrando pa beth y mae efe ar fedr ei erchi ar law Duw, a pharottôi eu calonnau i gydsynio â'r unrhyw, a'u tafodau i ddywedyd, *Amen*, yn y diwedd.

Fel hyn y parottôdd Dafydd Brophwyd ei galon, pan ddywedodd, *Parod yw fy nghalon, O Dduw, parod yw fy nghalon; canaf a chanmolaf.*[1]

Yr oedd yr Iuddewon hefyd wedi parottôi eu calonnau felly cyn dechreu gweddïo, pan yn nyddiau Judith y gweddïasant â'u holl galon ar i Dduw ymweled â'i bobl Israel.

Fel hyn yr oedd Manasseh hefyd wedi parottôi ei galon cyn iddo weddïo, a dywedyd, *Ac yr awrhon, O Arglwydd, yr ydwyf fi yn plygu glin fy nghalon, gan ddymuno daioni gennyt.*[2]

Pan fyddo 'r galon wedi ei pharottôi fel hyn, mae 'r lleferydd a draether o honi yn beraidd ynghlustiau Duw: os amgen, nid edrych Efe arni i'w derbyn.

Ond yn gymmaint a bod y dyn sy 'n dadwrdd felly ei eiriau disynwyr yngwydd Duw, yn dangos nad yw efe ddim yn ystyried Mawrhydi 'r Hwn y mae 'n llefaru wrtho, mae Duw yn ystyried hwnnw 'n ddirmygwr ei Hollalluog Fawredd, ac yn rhoi iddo ei wobr ym mhlith rhagrithwŷr, y rhai sy 'n ymddangos yn sanctaidd oddi allan, a'u calonnau yn llawn meddyliau ffiaidd, ie, yn amser eu gweddïau. Canys *ar y galon y mae'r Arglwydd yn edrych*,[3] fel y mae 'n ysgrifenedig yn Llyfr Sâmuel.

Os mynnwn ninnau gan hynny na bo 'n gweddïau yn ffiaidd ger bron Duw, parottôwn ein calonnau cyn gweddïo, a deallwn y pethau yr ydym yn eu gofyn wrth weddïo, fel y gallo ein calonnau a'n lleisiau gydseinio ynghlustiau Mawrhydi Duw; ac yna ni phallwn dderbyn ar ei law Ef y pethau 'r ydym yn ymbil am danynt; fel y gwnaeth dynion da o'n blaen ni, y rhai a dderbyniasant o amser i amser, er iechyd eu henaid, y pethau a ddymunasant.

Fe dybygid fod St. Awstin yn cyd-ddwyn yn y pwngc hwn; o herwydd fel hyn y dywed efe am y rhai, wedi cael eu dwyn i fynu mewn

[1] Ps. 57. 7. [2] Gweddi Manasses. [3] 1 Sam. 16. 7.

Grammadeg a rhetorig, a droir at Grist, ac felly y rhaid eu haddysgu ynghrefydd Crist: "Gwybyddant hefyd," eb efe, "mai nid y lleferydd, ond mai meddylfryd y galon, sydd yn dyfod i glustiau Duw. Ac felly ni watwarant, os digwydd sylwi o honynt fod rhyw Esgobion neu Weinidogion yn yr Eglwys yn galw ar Dduw mewn geiriau barbaraidd neu annhrefnus, neu *na bônt yn eu deall*, neu yn dosparthu yn annhrefnus y geiriau a draethont."—— Hyd yma, meddaf, fe dybygid ei fod yn cyd-ddwyn â gweddïo mewn tafod dïeithr. Ond yn yr ymadrodd nesaf, mae efe 'n esponio ei feddwl fel hyn.—— "Nid am na ddylid gwella 'r pethau hyn, fel y gallo 'r bobl ddywedyd *Amen* ar ol y pethau a ddeallont yn eglur. Ond etto rhaid yw cyd-ddwyn yn dduwiol â'r pethau hyn yn y rhai sy Gateceiswŷr ac addysgwŷr y Ffydd, fel y gallont ddeall mai, megis mewn dadleudŷ y mae daioni 'r araith yn sefyll yn y lleferydd, felly ei fod yn yr Eglwys yn sefyll mewn defosiwn."—— Felly nid yw St. Awstin yn cymmeradwyo gweddïo mewn iaith na bo 'r gweddïwr yn ei deall; ond addysgu 'r areithiwr cyfarwydd y mae efe i gyd-ddwyn âg iaith annysgedig y Gweinidog defosiynol diniweid.

I ddiweddu:—— Os yw diffyg deall y geiriau a lefarer yn y gynnulleidfa yn peri eu bod yn anffrwythlon i'r gwrandawŷr, pa wedd na wna yr unrhyw ddiffyg y geiriau a ddarllener yn ddiffrwyth i'r sawl a'u darllenont?

Trugarog ddaioni Duw a ganiattao i ni rad i alw arno megis ag y dylem, i'w ogoniant Ef a'n didrangc ddedwyddwch ninnau; yr hyn hefyd a wnawn, os ymostyngwn yn ei olwg Ef, ac os bydd ein meddyliau, yn ein gweddïau cyffredin a dirgel, wedi eu cwbl sefydlu arno Ef. Canys *gweddi 'r gostyngedig a â trwy 'r cymmylau, ac ni 's diddenir hi nes ei dyfod yn agos; nid ymedy hi nes i'r Goruchaf edrych i farnu 'n gyfiawn ac i wneuthur barn: canys yr Arglwydd nid oeda, ac ni hirymerys y Cadarn wrthynt hwy*[1] nes achub y cyfiawn a gwneuthur barn.

Iddo Ef gan hynny y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth ac yn oes oesoedd. Amen.

[1] Eccles. 35. 17, 18.

# HYSPYSRWYDD

## I'R RHAI SYDD YN YMRWYSTRO OBLEGID RHYW LEOEDD O'R YSGRYTHYR LAN.

NI all calon neb gwbl amgyffred, llai o lawer y gall fy nhafod i draethu â geiriau, fy anwyl garedigion, y mawr fudd a'r ennill a all gwŷr a gwragedd Cristianus ei dderbyn, os mynnant, drwy wrando a darllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

Am hynny mae ein gelyn Satan, wrth weled mai 'r Ysgrythyrau yw y gwir foddion a'r uniawn lwybr i ddwyn y bobl i wybodaeth gywir am Dduw, a bod Crefydd Crist yn cael ei rhwyddhâu yn fawr drwy wrandawiad a darlleniad dïesgeulus arnynt, ac wrth ganfod pa fath rwystr ac attaliad ydynt iddo ef a'i deyrnas, yn gwneuthur a fedro i gau allan eu darlleniad hwynt o Eglwys Dduw.

Ac er mwyn hyn y mae wedi bod bob amser yn cynhyrfu, mewn rhyw le neu gilydd, ormeswŷr creulon, erlidwŷr llymion, a dygn elynion i Dduw a'i annhwyllodrus wirionedd, i dynnu 'r Biblau Cyssegrlân trwy drais allan o ddwylaw 'r bobl; y rhai hefyd o wir genfigen a'u distrywiasant ac a'u difasant yn ulw yn y tân, dan yr esgus twyllodrus fod gwrando a darllen llawer ar air Duw yn achlysur o heresi a rhyddid cnawdol, ac o ddymchweliad pob trefn dda ym mhob gwladwriaeth hydrefn.

Os yw adnabod Duw 'n gywir yn achlysur o ddrygioni, yna rhaid i ni addef bod darllen a gwrando 'r Ysgrythyr Lân yn achos o heresi, rhyddid cnawdol, ac o ddadymchweliad pob trefniadau daionus.

Ond mae gwybodaeth o Dduw ac o honom ein hunain mor bell oddi wrth fod yn achlysur o ddrygioni, ag mai hwn yw 'r moddion parottaf, ïe yr unig foddion, i ffrwyno rhyddid y cnawd ac i ladd ein holl wyniau cnawdol.

A'r ffordd arferol i gyrraedd yr wybodaeth hon yw darllen a gwrando 'n ddyfal yr Ysgrythyrau Sanctaidd: *canys yr holl Ysgrythyr*, ebe St. Paul, *sy wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Dduw.*[1] Ac a dybygwn

[1] 2 Tim. 3. 16.

ni Gristionogion y gallwn ni ddysgu adnabyddiaeth o Dduw ac o honom ein hunain yngwaith neu ysgrifeniad un dyn daearol, yn gynt neu yn well nag yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd a ysgrifenwyd drwy ysprydoliaeth yr Yspryd Glân?

*Nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth: eithr dynion sanctaidd Duw,* fel y tystia St. Petr, *a lefarasant megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glân.*[1]—— Yr Yspryd Glân yw Athraw y gwirionedd, yr Hwn sy 'n tywys ei ysgolheigion, fel y dywed ein Hiachawdwr Crist am dano, *i bob gwirionedd.*[2] A phwy bynnag ni thywysir ac ni ddysgir gan yr Athraw hwn, ni ddichon lai na chwympo i gyfeiliornad dwfn, er duwioled y cymmero arno fod, pa wybodaeth a dysg bynnag a fo gantho ym mhob gwaith ac ysgrifeniadau eraill, ac er tecced wyneb gwirionedd a fo gantho ynghyfrif a barn y byd.

Os dywed rhyw ddyn, "Mi a fynnwn gael gwir gynllun a pherffaith ddarluniad o fuchedd uniawn, yr hon a fyddai 'n gymmeradwy yngolwg Duw:" a allwn ni gael, dybygwch chwi, ryw gynllun gwell neu gystal ag yw Crist Iesu a'i athrawiaeth? ymarweddiad rhinweddol a buchedd dduwiol yr Hwn y mae 'r Ysgrythyr yn ei bortreiadu mor fywiol o flaen ein llygaid, fel y gallom ni, wrth edrych ar y portreiad hwnnw, lunio a ffurfio ein bucheddau cyn nesed ag y gellir i berffeithrwydd yr unrhyw.

*Byddwch ddilynwŷr i mi,* medd St. Paul, *megis yr wyf finnau i Grist.*[3]—— *Yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo Ef,* ebe St. Ioan yn ei Epistol, *a ddylai yntau felly rodio, megis ag y rhodiodd Ef.*[4] Ac ym mha le y dysgwn ni drefn buchedd Crist, ond yn yr Ysgrythyr?

Mynnai un arall gael meddyginiaeth i iachâu pob clefyd ac afiechyd yn y meddwl. A ellir cael hynny mewn lle yn y byd ond yn Llyfr Duw ei Hun, ei Ysgrythyrau Cyssegrlân? Fe ddysgodd Crist hyn i ni, pan ddywedodd wrth yr Iuddewon ystyfnig, *Chwiliwch yr Ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol.*[5] Os yw 'r Ysgrythyrau yn cynnwys ynddynt fywyd tragywyddol, mae 'n rhaid y canlyn, fod ynddynt ymwared hefyd rhag pob peth ag sy 'n ein hattal neu yn ein rhwystro rhag caffael bywyd tragywyddol.

Os ydym yn chwennych gwybodaeth o ddoethineb nefol, paham y mae 'n well gennym ei dysgu hi gan ddyn na chan Dduw ei Hun, yr Hwn, fel y dywed Iago, *sydd yn rhoi* doethineb?[6] Iĕ, paham na 's dysgwn ni hi o enau Crist ei Hun, yr Hwn a addawodd fod gyd â'i Eglwys *bob amser hyd ddiwedd y byd,*[7] ac sy 'n cyflawni ei addewid,

[1] 2 St. Petr 1. 21. [2] St. Ioan 16. 13. [3] 1 Cor. 11. 1. [4] 1 St. Ioan 2. 6. [5] St. Ioan 5. 39. [6] St. Iago 1. 5. [7] St. Mat. 28. 20.

drwy fod gyd â ni yn ei ras a'i dyner drugaredd, ac hefyd drwy hyn, sef ei fod yn llefaru 'n gynnrychiol wrthym yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, er mawr a didrangc ddiddanwch pawb oll ag sy ganddynt ddim blas neu deimlad am Dduw ynddynt.

Ië, y mae Efe 'n awr yn yr Ysgrythyrau yn llefaru yn fuddiolach wrthym ni nag y gwnaeth â gair ei enau wrth yr Iuddewon cnawdol, pan oedd yn byw gyd â hwynt yma ar y ddaear. Canys ni fedrai 'r Iuddewon na chlywed na gweled y pethau a allwn ni yn awr eu clywed a'u gweled, os dygwn gyd â ni y clustiau a'r llygaid y clywir ac y gwelir Crist â hwynt; hynny yw, dïesgeulusrwydd i wrando ac i ddarllen ei sanctaidd Ysgrythyrau Ef, a gwir ffydd i gredu ei ddiddanus addewidion.

Pe gallai un ddangos dim ond ôl troed Crist, yr wyf yn tybied y cwympai llawer i lawr ac yr addolent ef: ond i'r Ysgrythyr Lân, lle y gallwn weled beunydd, os mynnwn, nid wyf yn dywedyd ôl ei droed Ef, ond ei holl ffurf a'i fywiol agwedd Ef, nid ydym yn rhoi, ysywaeth! ond ychydig barch, os dim.

Pe gallai rhywun adael i ni weled pais Crist, cymmerai rhai o honom boen fawr a thrafferth i gael myned yn agos atti i syllu arni, ïe, ac i'w chusanu hi hefyd: ac etto ni allai yr holl ddillad a wisgodd Efe erioed ei osod Ef allan mor fywiol ac mor gywir i ni ag y gwna 'r Ysgrythyrau.

Mae rhai dynion, er mwyn y cariad sy genthynt at Grist, yn harddu ac yn addurno delwau o hono wedi eu gwneuthur o bren, maen, neu fettel, â pherlau, âg aur, ac â meini gwerthfawr: ac oni ddylem ni, frodyr anwyl, gofleidio a pharchu 'n hytrach Lyfrau Sanctaidd Duw, y Bibl Cyssegrlân, yr hwn sy 'n portreiadu Crist i ni yn gywirach nag y gall un ddelw o hono? Ni ddichon delw ond dangos ffurf ei gorph Ef, os gall hi wneuthur cymmaint a hynny: ond mae 'r Ysgrythyr yn gosod allan Grist yn y fath fodd, fel y gallwn weled Duw a dyn: gallwn ei weled, meddaf, yn llefaru wrthym, yn iachâu ein gwendidau, yn marw *dros ein pechodau, ac yn cael ei gyfodi i'n cyfiawnhâu ni.*[1] Ac ar ychydig eiriau, gallwn yn yr Ysgrythyrau weled Crist i gyd oll yn fwy perffaith â llygad ffydd, nag y gallem, heb ffydd, ei weled Ef â llygaid ein corph, pe byddai Efe 'n awr yn sefyll yma 'n gynnrychiol o'n blaen ni.

Bydded i bob gwr, gwraig, a phlentyn, gan hynny, chwennychu a sychedu â'u holl galon am Lân Ysgrythyrau Duw; eu caru, eu braicheidio, ymhoffi ac ymddigrifo yn eu gwrandaw a'u darllen, fel o'r diwedd y trawsffurfier ac y cyfnewidier ni iddynt. Canys trysordŷ Duw ydyw

[1] Rhuf. 4. 25.

yr Ysgrythyrau Sanctaidd, lle y ceffir pob peth rheidiol i ni eu gweled, eu clywed, eu dysgu, eu credu, i gyrhaeddyd bywyd tragywyddol.

Cymmaint a hyn a ddywedwyd, yn unig i roddi i chwi megis dammaid i'w brofi o'r ennill a ellwch dderbyn wrth wrandaw a darllain yr Ysgrythyrau Sanctaidd: oblegid, fel y dywedais wrth ddechreu, ni ddichon un tafod fynegi na thraethu 'r cwbl.

Ac er ei fod yn eglurach na chanol dydd mai anwybodaeth o'r Ysgrythyrau yw achos cyfeiliornad, fel y dywed Crist wrth y Saduceaid, *Yr ydych yn cyfeiliorni, gan na wyddoch yr Ysgrythyrau;*[1] a bod cyfeiliornad yn cadw dynion yn ol ac yn eu tynnu ymaith oddi wrth wybodaeth o Dduw; ac, fel y dywed St. Jerom, "Bod heb wybodaeth o'r Ysgrythyrau yw bod heb wybodaeth o Grist:"—— etto er hyn oll, mae rhai yn tybied mai nid addas i bob math o ddynion ddarllen yr Ysgrythyrau, am eu bod, fel y tybygant hwy, mewn amryw leoedd yn feini tramgwydd i'r annysgedig:——

Yn gyntaf, am fod geiriad yr Ysgrythyr weithiau mor syml, anghymmen, a diaddurn, nes y mae 'n tramgwyddo synwyr coeg a chymmen rhyw ddynion moethus:——

Ym mhellach; am fod yr Ysgrythyr yn dywedyd hyd yn nod am y rhai a ganmolir fel plant i Dduw, ddarfod iddynt wneuthur llawer o weithredoedd, a rhai o honynt yn erbyn cyfraith natur, rhai yn groes i'r ddeddf ysgrifenedig, a rhai y tybygid eu bod yngwrthwyneb i onestrwydd cyhoeddus: ——

Mae 'r holl bethau hyn, meddant, yn achlysur o dramgwydd mawr i'r ehud, ac yn peri i lawer feddylied yn ddrwg am yr Ysgrythyrau, ac, o ganlyniad, anghredu eu hawdurdod:——

Tramgwyddir rhai wrth wrandaw a darllen ynghylch amrywiaeth defodau a seremoniau aberthau ac offrymmau 'r gyfraith:——

Ac y mae rhai dynion o ddoethineb bydol yn tybied ei fod yn ddirywiad mawr ac yn rhwystr i lywodraethu eu gwladwriaethau yn llonydd ac yn synhwyrol, fod i ni roi clust i orchymynion syml ac eglur Crist yn yr Efengyl; gan dramgwyddo pan glywant fod yn rhaid i ddyn fod yn barod *i droi ei rudd aswy i'r hwn a'i tarawo ar ei rudd ddehau, a gadael ei gochl hefyd i'r hwn a ddygo ymaith ei bais,*[2] gyd â chyfryw ymadroddion eraill o berffeithrwydd ym meddwl Crist.—— O herwydd mae y rheswm cnawdol, gan ei fod bob amser yn elyn i Dduw, ac heb ddirnad pethau Yspryd Duw, yn ffieiddio 'r fath orchymynion, y rhai er hynny, ond eu deall yn iawn, nid ydynt yn torri dim ar un llywodraeth farnol na llywiawdwriaethau Cristionogion:——

[1] St. Mat. 22. 29. [2] St. Mat. 5. 39, 40.

Ac y mae rhai, wrth glywed yr Ysgrythyrau yn peri i ni fyw heb bryderu a rhagofalu, yn gwatwar eu symlder diniweid hwy.

Am hynny er mwyn symmud a throi heibio, yn oreu ag y gallom, y fath achlysuron o dramgwydd, mi a attebaf i'r gwrth-ddadleuon hyn y naill ar ol y llall.

Yn gyntaf, mi a adroddaf rai o'r lleoedd ag y mae dynion yn tramgwyddo wrthynt oblegid symlder ac anghymmendod yr ymadrodd, ac a ddangosaf eu hystyr hwy.

Mae'n ysgrifenedig yn Llyfr Deuteronomium i'r Hollalluog Dduw wneuthur cyfraith, "O byddai i wr farw yn ddieppil, ar fod i'w frawd, neu ei gyfathrachwr nesaf, briodi ei weddw ef, a bod i'r cyntaf-anedig a ymddygai hi sefyll ar enw ei frawd a fuasai farw, fel na ddileid ei enw ef allan o Israel; ac oni byddai boddlon y gwr i gymmeryd ei gyfathrach-wraig, ar fod iddi hithau nesâu atto ef yngwŷdd yr henuriaid, a dattod ei esgid oddi am ei droed ef, a phoeri yn ei wyneb ef, ac atteb a dywedyd, *Felly y gwneir i'r gwr nid adeilado dŷ ei frawd.*"—— Yma, fy anwyl garedigion, dattod ei esgid ef a phoeri yn ei wyneb ef, oeddynt seremoniau i arwyddo i holl bobl y ddinas honno, mai nid ar y wraig yn awr yr oedd y bai fod cyfraith Duw wedi cael ei thorri yn hyn o beth, ond bod yr holl gywilydd a'r bai yn cwympo ar y gwr, yr hwn yn gyhoeddus o flaen y Penswyddogion a wrthododd ei phriodi hi. Ac nid iddo ef yn unig yr oedd hyn yn warth, ond i'w holl hiliogaeth hefyd; canys gelwid hwy byth ar ol hynny, *Tŷ'r hwn y dattodwyd ei esgid.*[1]

Lle arall o'r Psalmau: *Torraf holl gyrn y rhai annuwiol,* ebe Dafydd, *a chyrn y rhai cyfiawn a ddyrchefir.*[2]—— Wrth CORN, yn yr Ysgrythyr, y deallir grym, gallu, nerth; ac weithiau, rheolaeth a llywodraeth. Meddwl y Prophwyd gan hynny wrth ddywedyd, *Torraf gyrn yr annuwiol,* ydyw, nid yn unig y gwanhêir ac y gwanhychir nerth a grym a gallu gelynion Duw, ond y torrir hwy ymaith yn y diwedd, ac y distrywir hwy yn gwbl, er bod Duw dros amser yn goddef iddynt orchfygu a chael y llaw uchaf, er mwyn profi ei bobl yn well.—— Ac yn y ddeuddegfed Psalm ar hugain ar ol y cant fe ddywedir, *Paraf i gorn Dafydd flaguro.*[3] Yma mae *corn* Dafydd yn arwyddoccâu ei deyrnas ef. Gan hynny mae'r Hollalluog Dduw, drwy'r dull hwn o lefaru, yn addaw rhoi i Ddafydd oruchafiaeth ar ei holl elynion, a'i sefydlu yn ei deyrnas er gwaethaf ei holl gaseion.

Ac mae'n ysgrifenedig yn y drugeinfed Psalm, *Moab yw fy nghrochan golchi; dros Edom y bwriaf fy esgid.*[4]—— Yn y lle hwn mae'r Prophwyd yn dangos mor rasol y gwnelsai Duw â'i bobl, meibion Israel,

[1] Deut. 25. 5—10. [2] Ps. 75 10. [3] Ps. 132. 17 [4] Ps. 60. 8.

gan roi iddynt fuddugoliaethau mawrion ar eu gelynion o'u hamgylch. Canys er bod y Moabiaid a'r Edomiaid yn ddwy genedl fawr, yn bobl feilchion, ryfelgar, a galluog, etto darostyngodd Duw hwynt, a gwnaeth hwy 'n weision i'r Israeliaid; yn weision, meddaf, i ymostwng i lawr iddynt, i dynnu eu hesgidiau, ac i olchi eu traed hwy. Gan hynny mae'r geiriau, *Moab yw fy nghrochan golchi, dros Edom y bwriaf fy esgid*, gymmaint a phe dywedasai, "Er ffyrniced oedd y Moabiaid a'r Edomiaid yn ein herbyn yn yr anialwch, etto gwnaed hwy 'n awr yn ddeiliaid ac yn weision i ni, ie, yn gaethion i ddattod ein hesgidiau ac i olchi ein traed."

Yn awr, attolwg i chwi, pa anweddeidd-dra sydd yn yr ymadroddion hyn, a arferir felly ar lafar cyffredin ym mysg yr Hebreaid? Mae 'n gywilydd fod Cristionogion mor ynfyd a'u pennau a chellwair yn goeg-lyd â dull y fath ymadroddion, y rhai a draethwyd mewn ystyr dwys a da gan yr Yspryd Glân? Rhesymmolach fyddai i ddynion ofer ddysgu parchu ffurf Geiriau Duw, na'u gwawdio i'w damnedigaeth eu hunain!

Mae rhai hefyd yn tramgwyddo wrth glywed fod gan y Tadau duwiol lawer o wragedd a gordderchadon; er bod gordderch, yn ol ymadrodd yr Ysgrythyr, yn enw onest: oblegid yr oedd pob gordderch yn wraig gyfreithlon, er nad oedd pob gwraig yn orddderch.

Ac fel y galloch ddeall yn well fod hyn yn wir, chwi a sylwch y goddefid i Dadau yr Hen Destament gael mwy o wragedd nag un ar yr un pryd; am ba achos, chwi a gewch glywed ar ol hyn. O'r gwragedd hyn yr oedd rhai yn rhyddion o anedigaeth, a rhai yn gaeth-ferched a llawforwynion. Yr oedd i'r wraig rydd ragoriaeth ar y rhai oeddynt gaeth-ferched a llawforwynion. Y wraig rydd o anedigaeth a wneid trwy briodas yn llywodraeth-wraig ar y tŷ dan ei gwr, a gelwid hi yn Fam y teulu, hynny yw, yn ol ein dull ni o lefaru, yn Feistres neu Wraig y tŷ; ac yr oedd iddi drwy ei phriodas hawl a meddiant a pherchennogaeth yn nâ bydol ei gwr.

Rhoddid caeth-forwynion weithiau, (ond nid bob amser) yn ol yr arfer ag oedd y pryd hwnnw, gan eu perchennogion i'w merched ar ddydd eu priodas i fod yn llawforwynion iddynt.—— Yn y modd hwn y rhoes Pharaoh brenhin yr Aipht, Hagar yr Aiphtes i Sarah gwraig Abraham i fod yn forwyn iddi.—— Felly y rhoes Laban Zilpah i'w ferch Leah, ar ddydd ei phriodas, i fod yn forwyn iddi; ac i Rahel, ei ferch arall, efe a roes lawforwyn arall o'r enw Bilha.

A'r gwragedd yr oedd y llawforwynion yn eiddo iddynt, a'u rhoddent mewn priodas i'w gwŷr ar amryw achosion.—— Rhoddodd Sarah ei morwyn Hagar mewn priodas i Abraham.—— Yr un modd rhoes Leah ei morwyn Zilpah i'w gwr Jacob: a Rahel, ei wraig arall, a roes iddo

Bilha, ei llawforwyn hithau, gan ddywedyd wrtho, *Dos i mewn atti hi; a hi a blanta ar fy ngliniau i;*[1] fel pe dywedasai, "Cymmer hi'n wraig i ti; a'r plant a ddycco hi, mi a'u cymmeraf ar fy ngliniau, ac a ymddygaf tu ag attynt, fel pe byddent blant i mi fy hun."

Er gwneuthur y gwasanaeth-ferched neu y llawforwynion hyn yn wragedd trwy briodas, etto nid oeddynt yn meddu y rhagorfraint o lywodraethu 'r tŷ, ond yr oeddynt fyth mewn is gyflwr, ac o dan ddarostyngiad i'w harglwyddi, ac ni elwid hwy byth yn Fammau 'r tylwyth, nac yn Feistresi neu Wragedd y tŷ, ond gelwid hwy weithiau yn wragedd, weithiau yn ordderchadon.

Goddefid mwy nag un wraig i Dadau 'r Hen Destament drwy fraint hyspysol, nid er mwyn digoni eu chwantau cnawdol, ond er mwyn cael o honynt lawer o blant; o herwydd bod pob un o honynt yn gobeithio, ac yn ceisio 'n fynych yn eu gweddïau gan Dduw, ar fod i'r Had bendigaid hwnnw, yr addawsai Duw y delai i'r byd i ysigo pen y Sarph, ddyfod a chael ei eni o'i lwyth a'i linach ef.

Yn awr, ynghylch y rhai a gymmerant achlysur o gnawdolrwydd a drwg-fuchedd wrth wrando a darllen yn Llyfr Duw, y pethau a oddefodd Duw yn y dynion hynny ag y mae eu clod yn yr Ysgrythyr; megis darfod i Noah, yr hwn a eilw St. Petr yn "*Bregethwr Cyfiawnder,*" feddwi cymmaint gan win, fel yr ymnoethodd yn warthus yn ei gwsg; —— ddarfod hefyd i Lot gyfiawn feddwi yn yr un modd, a gorwedd yn ei feddwdod gyd â'i ferched ei hun yn groes i gyfraith natur:—— ac y bu i Abraham adnabyddiaeth gnawdol o Hagar morwyn Sarah, er bod ei ffydd ef mor fawr ag y bu efe deilwng o'i phlegid o gael ei alw gan enau Duw ei Hun yn "*Dad llawer o Genhedloedd,*" ac yn "*Dad y ffyddloniaid:*"—— a bod i'r Patriarch Jacob ddwy chwaer yn wragedd ar yr un amser:—— a bod gan y Prophwyd Dafydd a'r brenhin Solomon, ei fab ef, lawer o wragedd a gordderchadon, &c. Yr hyn bethau oll yr ydym yn gweled eu gwahardd i ni yn oleu wrth gyfraith Dduw, a'u bod yn awr yn wrthwyneb i bob onestrwydd cyhoeddus.

Fe ysgrifenwyd y pethau hyn a'r cyffelyb, bobl dda, yn Llyfr Duw, nid o ran y dylem neu y gallwn ninnau wneuthur y cyffelyb, gan ddilyn eu hesamplau hwy, ac nid o ran y dylem ni dybied fod Duw yn cymmeradwyo pob un o'r pethau hyn yn y dynion hynny; ond dylem yn hytrach gredu a barnu ddarfod i Noah yn ei feddwdod digio Duw 'n ddirfawr, ac i Lot wneuthur llosgach arswydus wrth gydorwedd â'i ferched.

Ni a ddylem ynte ddysgu ganddynt hwy yr addysg fuddiol hon;—— Oni allai gwŷr mor dduwiol ag oeddynt hwy, y rhai a glywent Sanctaidd

[1] Gen. 30. 3.

Ysprydd Duw oddi fewn yn fflammychu yn eu calonnau ynghyd âg ofn a chariad Duw, os nad allent *hwy*, meddaf, ymgadw trwy eu grym eu hunain rhag gwneuthur pechod arswydus, ond cwympo mor aruthrol ag y collasid hwy yn dragywyddol oni buasai mawr drugaredd Duw, pa faint mwy ynte y dylem *ni* drueiniad gresynol, y rhai nid oes ynom ddim un teimlad am Dduw o'n mewn, ofni 'n wastadol, nid yn unig rhag cwympo fel y gwnaethant hwy, ond hefyd cael ein gorchfygu a'n boddi mewn pechod, yr hyn ni 's cawsant hwy!—— Ac felly, wrth ystyried eu cwymp hwy, cymmerwn achlysur i gydnabod yn well ein llesgedd a'n gwendid ein hunain, ac i alw felly 'n daerach ar yr Holl-alluog Dduw mewn gweddi ddyfal o'r galon am ei ras Ef i'n cadarnhâu ac i'n hamddiffyn oddi wrth bob drwg. Ac er digwydd i ni ryw bryd gwympo trwy wendid, etto trwy edifeirwch diffuant a gwir ffydd ni a allwn yn fuan gyfodi drachefn, a pheidio â heppian a pharhâu mewn pechod fel y gwna 'r drygionus.

Fel hyn, bobl dda, y dylem ni ddeall y cyfryw fatterion ag a draethir yn yr Ysgrythyrau dwyfol, fel na throer bwrdd sanctaidd gair Duw yn fagl ac yn dramgwydd i ni, i dderbyn niweid trwy gam-arferyd ein dealltwriaeth: ond gwnawn gyfrif parchus o honynt mewn gostyngeiddrwydd, fel y gallom gael ynddynt ein hymborth angenrheidiol, i'n nerthu, i'n diddanu, ac i'n haddysgu, fel yr ordeiniodd Duw hwynt o'i fawr drugaredd, ym mhob gorchwyl angenrheidiol, fel y byddom berffaith ger ei fron Ef drwy holl dreigl ein bywyd: Yr hyn caniattâed Efe i ni, yr hwn a'n prynodd, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist: i'r Hwn, ynghyd â'r Tad a'r Ysprydd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd. Amen.

YR AIL RAN O'R

# HYSPYSRWYDD

## I'R RHAI SYDD YN YMRWYSTRO OBLEGID RHYW LEOEDD O'R YSGRYTHYR LAN.

CHWI a glywsoch, bobl dda, yn yr Homili a ddarllenwyd i chwi ddiweddaf, fawr fudd yr Ysgrythyrau Sanctaidd:—— chwi a glywsoch pa fodd y mae dynion anwybodus, heb ddeall duwiol ynddynt, yn ceisio cwerylon i'w dïystyru hwy:—— a chwi a glywsoch atteb rhai o'u rhesymmau hwynt.

Ni a awn yn awr yn ein blaen i son am y cyfryw ddoeth fydol-lywiawdwŷr ag a rwystrir oblegid bod gorchymynion Crist, yn eu tyb hwy, yn dileu pob trefn mewn llywodraeth; ac y maent yn cynnyg y fath esamplau ag a ganlyn:——

*Pwy bynnag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro'r llall iddo hefyd.*

*Y neb a fynno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd.*[1]

*Na wyped dy law aswy pa beth a wna dy law ddehau.*[2]

*Os dy law neu dy droed a'th rwystra, tor hwynt ymaith, a thafl oddi wrthyt: ac os dy lygad a'th rwystra, tyn ef allan a thafl oddi wrthyt.*[3]

*Os dy elyn a newyna*, medd St. Paul, *portha ef; os sycheda, dyro iddo ddïod: canys wrth wneuthur hyn ti a bentyrri farwor tanllyd ar ei ben ef.*[4]

Mae'r ymadroddion hyn, bobl dda, yn ymddangos i'r dyn anianol yn ynfyd ac yn wrthwyneb i bob rheswm: o herwydd *dyn anianol*, fel y dywed St. Paul, *nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw*,[5] ac ni's gall chwaith cyhyd ag y byddo'r hen Adda yn trigo ynddo.

Ond meddwl Crist yw, y mynnai Efe i'w weision ffyddlon fod mor bell oddi wrth ymddïal a gwrthwynebu drwg, ag y mynnai Efe yn

[1] St. Mat. 5. 39, 40. [2] St. Mat. 6. 3. [3] St. Mat. 18. 8, 9.
[4] Rhuf. 10. 20. [5] 1 Cor. 2. 14.

hytrach iddynt fod yn barod i ddïoddef cam arall na thorri cariad a bod yn ddïamynedd drwy wrthwynebu.—— Mynnai i'n gweithredoedd da ni fod mor bell oddi wrth bob dibenion cnawdol, fel na fynnai i'n cyfeillion agosaf wybod am danynt, i ennill gwag-ogoniant.—— A phe byddai ein cyfeillion a'n ceraint mor anwyl gennym a'n llaw a'n llygad dehau, etto os mynnent ein tynnu oddi wrth Dduw, y dylem ymwrthod ac ymadael â hwy.

Fel hyn os mynnwch fod yn wrandawŷr ac yn ddarllenwŷr buddiol o'r Ysgrythyr Lân, rhaid i chwi 'n gyntaf ymwadu â chwi eich hunain, a chadw danoch eich synwyr cnawdol, yr hwn ni ddeall ond y geiriau oddi allan, a rhaid i chwi chwilio 'r ystyr oddi fewn. Rhaid i reswm roi lle i Sanctaidd Yspryd Duw: rhaid i chwi ddarostwng eich doethineb a'ch barn fydol i'w ddwyfol farn a'i ddoethineb Ef. Ystyriwch mai Gair y Bywiol Dduw ydyw 'r Ysgrythyr, ym mha ddull dïeithr bynnag o ymadroddi y traethwyd hi. Deued fyth i'ch cof yr hyn a edrydd y Prophwyd Esay mor fynych: *Genau'r Arglwydd a'i llefarodd.*[1]—— *Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Creawdydd y nefoedd a'i hestynydd, Lledydd y ddaear a'i chnwd.*[2]—— *Fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr hwn a wna ffordd yn y môr, a llwybr yn y dyfroedd cryfion.*[3] Duw y duwiau ac Arglwydd yr holl arglwyddi, ïe, y Duw sy 'n Dduw yn unig, yn Anamgyffredadwy, yn Hollalluog ac yn Dragywyddol, Hwnnw a'i llefarodd, a'i Air Ef ydyw.

Yr hyn gan hynny sy 'n deilliaw oddi wrth Dduw pob gwirionedd, ni 's gall amgen na bod yn wirionedd: yr hyn a luniodd yr Hollalluog Dduw, ni ddichon amgen na 'i fod wedi ei orchymyn yn ddoeth a deallus, er ofered bynnag y byddo i ni drueiniaid gresynol (o eisiau gras) ddychymmygu a barnu ynghylch ei sancteiddiaf air Ef.

Y mae 'r Prophwyd, wrth bortreiadu dyn dedwydd, yn dywedyd, *Gwyn ei fyd y gwr ni rodia ynghyngor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa 'r gwatwarwŷr:*[4]——

Mae tri rhyw o ddynion, y myn y Prophwyd i'r gwr a ddymuno fod yn ddedwydd a chyfrannogi o fendith Duw, ochelyd eu cymdeithas a ffoi rhagddi.

Yn gyntaf, nid oes iddo *rodio ynghyngor yr annuwiolion.*

Yn ail, nid oes iddo *sefyll yn ffordd pechaduriaid.*

Yn drydydd, nid oes iddo *eistedd yn eisteddfa 'r gwatwarwŷr.*

Wrth y tri math hyn o bobl, *annuwiolion,*—— *pechaduriaid,*—— a *gwatwarwŷr,* yr arwyddoccêir ac yr hyspysir yn gyflawn bob math ar ddrygioni.

[1] Esay 1. 20. [2] Esay 42. 5. [3] Esay 43. 16. [4] Ps. 1. 1.

Wrth yr ANNUWIOLION y mae efe 'n deall y rhai sydd heb ddim ystyriaeth o'r Hollalluog Dduw, ac heb ddim ffydd, y rhai y mae eu calonnau a'u myfyriadau wedi eu gosod ar y byd, fel nad ydynt yn astudio dim ond pa fodd i ddwyn i ben eu gorchwylion bydol, eu dychymmygion cnawdol, a'u trachwant a'u dymuniad halogedig, heb ddim ofn Duw.

Y mae efe 'n galw 'r ail ryw yn BECHADURIAID: nid y rhai sy 'n cwympo trwy anwybod neu wendid, o herwydd felly pwy a geffid yn ddieuog? Pa ddyn a fu byw ar y ddaear erioed, ond Crist yn unig, a'r ni phechodd? *Seithwaith y syrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd drachefn.*[1] Er bod y duwiol yn cwympo, etto nid yw 'n *rhodio* o wir fwriad mewn pechod, nid yw 'n *sefyll* i aros mewn pechod, ac nid yw 'n *eistedd* fel dyn diofal, heb ddim ofn cyfiawn gosp Duw am bechod: ond gan herio pechod, trwy ras mawr ac aneirif drugaredd Duw, mae 'n cyfodi drachefn, ac yn ymladd yn erbyn pechod.—— Hwy ynte y mae 'r Prophwyd yn eu galw 'n *bechaduriaid,* y rhai y trowyd eu calonnau yn hollol oddi wrth Dduw, a'r rhai nad yw holl ymarweddiad eu buchedd yn ddim ond pechod: maent yn ymhyfrydu cymmaint mewn pechod, fel y maent yn dewis aros a thrigo 'n wastadol ynddo.

Mae efe 'n galw 'r trydydd rhyw yn WATWARWYR; hynny yw, math o bobl ag y mae eu calonnau wedi eu gorlenwi gymmaint â malais, fel nad digon ganthynt drigo mewn pechod ac arwain eu bucheddau ym mhob math o ddrygioni; ond rhaid iddynt gael gwatwar a gwawdio mewn eraill bob duwioldeb, gwir grefydd, pob onestrwydd a rhinwedd dda.

Am y ddau ryw cyntaf o ddynion, ni ddywedaf na allant edifaru a throi at Dduw.

Am y trydydd math, yr wyf yn tybied y gallaf, heb berygl barn Duw, gyhoeddi na throwyd un o honynt erioed at Dduw drwy edifeirwch, ond iddynt aros yn wastad yn eu drygioni ffiaidd; gan bentyrru iddynt eu hunain ddamnedigaeth erbyn dydd anocheladwy farn Duw.

Yr ydym yn darllen am esamplau o'r cyfryw watwarwŷr yn ail Lyfr y Cronicl.—— Pan ddarfu i'r brenhin da Hezeciah, yn nechreu ei deyrnasiad, ddinystrio delw-addoliad, puro 'r Deml, a diwygio crefydd yn ei deyrnas, efe a anfonodd genhadon i bob dinas i gynnull y bobl i Jerusalem i gynnal Gwyl y Pasg, yn y modd yr ordeiniasai Duw. *Felly y rhedegwŷr a aethant o ddinas i ddinas trwy wlad Ephraim a Manasseh hyd Zabulon.* A glodforasant ac a foliannasant hwy enw'r Arglwydd, yr Hwn a roisai iddynt gystal brenhin, a thywysog

[1] Diar. 24. 16.

cymmaint ei zel i ddileu delw-addoliaeth ac i adferu gwir grefydd Duw? Na ddo, na ddo; *ond hwy a wawdiasant*, ebe 'r Ysgrythyr, *ac a'u gwatwarasant hwy.*[1]

Ac yn y bennod olaf o'r un Llyfr mae 'n ysgrifenedig, *Arglwydd Dduw eu tadau a anfonodd attynt hwy trwy law ei genhadau, gan foregodi, ac anfon; am ei fod ef yn tosturio wrth ei bobl ac wrth ei breswylfod. Ond yr oeddynt hwy yn gwatwar cenhadau Duw, ac yn tremygu ei eiriau ef; ac yn gwawdio ei brophwydi ef; nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachâd:*[2] canys Efe a'u rhoes i fynu i ddwylaw eu gelynion, sef i Nebuchodonosor brenhin Babilon, yr hwn a yspeiliodd eu dâ hwy, a losgodd eu dinas, ac a'u dug hwy a'u gwragedd a'u plant yn gaethion i Babilon.

Ni wnaeth y bobl ddrwg oedd yn nyddiau Noah ond gwatwar gair Duw, pan ddywedodd Noah wrthynt y dialai Duw arnynt am eu pechodau. Am hynny daeth y Diluw yn ddisymmwth arnynt ac a'u boddodd hwy ynghyd â'r holl fyd.

Pregethodd Lot i'r Sodomiaid, y distrywid hwy a'u dinas, onid edifarhâent: hwythau a dybiasant fod yn ammhosibl i'w eiriau fod yn wir, gwawdiasant a gwatwarasant ei rybudd ef, ac a'u cyfrifasant yntau yn hen ynfyttyn pensyfrdan. Ond wedi darfod i Dduw trwy ei Angylion Sanctaidd gymmeryd Lot a'i wraig a'i ddwy ferch o'u plith hwynt, Efe a wlawiodd dân a brwmstan i lawr o'r nef, ac a lwyr-losgodd y gwawdwŷr a'r gwatwarwyr hynny o'i sanctaidd Air.

A pha gyfrif a gafodd Athrawiaeth Crist ym mysg yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid? Pa wobr a gafodd Efe yn eu plith hwynt? Mae 'r Efengyl yn adrodd fel hyn: *Y Phariseaid, y rhai oedd arian-gar, a'i gwatwarasant Ef.*[3]—— O! chwi a welwch ynte fod cyfoethogion bydol yn dirmygu athrawiaeth eu hiachawdwriaeth!

Mae 'r gwatwarwŷr hyn wedi bod erioed, a hwy a fyddant byth hyd ddiwedd y byd: canys y mae St. Petr yn prophwydoliaethu *y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwŷr.*[4]

Gochelwch gan hynny, frodyr, gochelwch; na fyddwch watwarwŷr sancteiddiaf Air Duw, nac annogwch mo hono i arllwys ei ddigofaint yn awr arnoch chwi, fel y gwnaeth Efe 'r pryd hwnnw ar y gwatwarwŷr a'r dirmygwŷr hynny. Na fyddwch leiddiaid ewyllysgar eich eneidiau eich hunain. Trowch at Dduw tra bo etto 'n amser trugaredd, onid ê, bydd edifar gennych yn y byd a ddaw, pan fo 'n rhy ddiweddar; oblegid yno fe fydd barn heb drugaredd. Gallai hyn fod yn ddigon i'n rhybuddio

[1] 2 Chron. 30. 10. [2] 2 Chron. 36. 15, 16. [3] St. Luc 16. 14.
[4] 2 St. Petr 3. 3.

ni, ac i beri i ni o hyn allan barchu Glân Ysgrythyrau Duw; ond *nid oes ffydd gan bawb*:[1] ac am hynny ni foddlona ac ni ddigona hyn feddwl pob dyn; ond fel y mae rhai yn gnawdol, hwy a fynnant barhâu felly, a chamarfer yr Ysgrythyrau yn gnawdol er mwy o ddamnedigaeth iddynt eu hunain. *Mae yr annysgedig a'r anwastad*, ebe St. Petr, *yn gŵyrdroi 'r Ysgrythyrau i'w dinystr eu hunain.*[2]—— Mae Iesu Grist fel y dywed St. Paul, *i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwŷr yn ffolineb; ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwŷr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw.*[3]—— Dywed y gwr sanctaidd Simeon *iddo gael ei osod yn gwymp ac yn gyfodiad i lawer yn Israel*:[4] fel y mae Crist Iesu yn gwymp i'r gwrthodedigion, y rhai er hynny ydynt yn golledig drwy eu bai eu hunain; felly y mae ei Air Ef, ie holl Lyfr Duw, yn achos o ddamnedigaeth iddynt oblegid eu hanghrediniaeth. Ac fel nad ydyw Efe gyfodiad i neb ond i'r rhai sy 'n blant i Dduw trwy fabwys, felly y mae ei Air ef, ie 'r holl Ysgrythyr, *yn allu Duw er iachawdwriaeth*[5] i'r rhai hynny yn unig ag sydd yn ei gredu. Mae Crist ei Hun, y Prophwydi o'i flaen, yr Apostolion ar ei ol, holl wir Weinidogion Sanctaidd Air Duw, ie pob gair yn y Llyfr Dwyfol yn *arogl marwolaeth i farwolaeth* i'r gwrthodedig.—— Mae Crist Iesu, y Prophwydi, yr Apostolion, a holl wir Weinidogion ei Air, ie pob iot a phob tippyn o'r Ysgrythyr Lân, wedi bod erioed, ac a fydd byth bythoedd, *yn arogl bywyd i fywyd* tragywyddol i'r sawl oll y mae Duw wedi puro eu calonnau trwy ffydd.[6]

Cymmerwn ofal yn ddifrifol na wnelom watwargerdd o Lyfrau 'r Ysgrythyr Lân. Po tywyllaf y bo 'r ymadroddion i'n deall ni, pellaf y dylem ni ystyried ein hunain oddi wrth Dduw, a'i Lân Yspryd, yr Hwn yw eu Hawdwr hwy, a mwyaf y parch a ddylai fod gennym wrth geisio chwilio allan y doethineb sy 'n guddiedig dan risgl allanol yr Ysgrythyr.—— Oni fedrwn ddeall ystyr a rheswm yr ymadrodd, etto na fyddwn watwarwŷr, gwawdwŷr, a dirmygwŷr; o herwydd dyna 'r argoel eithaf o ddyn gwrthodedig, o elyn amlwg i Dduw a'i ddoethineb.—— Nid chwedlau ofer i'w gwawdio ydyw y pethau y mae Duw yn eu traethu mor ddifrifol; ac am hynny cyfrifwn ninnau hwynt yn bethau difrifol.

Ac er gosod allan mewn amryw leoedd o'r Ysgrythyrau amrywiol ddefodau a seremoniau, offrymmau ac aberthau, na foed i ni dybied hynny 'n beth dieithr, ond cyfeiriwn hwynt at yr amseroedd a'r bobl yr oeddynt yn gwasanaethu iddynt; er nad ydynt er hynny yn anfuddiol i

[1] 2 Thes. 3. 2. [2] 2 St. Petr 3. 16. [3] 1 Cor. 1. 23, 24. [4] St. Luc 2. 34. [5] Rhuf. 1. 16. [6] 2 Cor. 2. 16.

ddysgedigion i'w hystyried, ond y maent i'w deongl fel arwyddion a chysgodau o bethau a phersonau, y rhai a amlygwyd ar ol hynny yn eglur yn y Testament Newydd.

Ac er nad yw adrodd gwehelyth ac achau'r Tadau yn llawer o adeiladaeth i'r bobl gyffredin ac anwybodus; etto nid oes dim wedi ei adrodd mor ammherthynasol yn holl Lyfr y Bibl na's gallo wasanaethu ar ryw olygiad i ddiben ysprydol i'r sawl oll a gymmerant boen i chwilio allan yr ystyr.—— Ni wiw diystyru'r achau hyn, am nad ydym *ni* yn eu deall, neu am nad ydynt yn adeiladol i *ni;* yn lle hynny llafuriwn i ddeall ac i ddwyn gyd â ni y cyfryw ymadroddion a hanesion ag a fyddont gymhesurach i ni i'w deall a derbyn addysg oddi wrthynt.

A lle'r ydym yn darllen mewn amryw Psalmau fel y dymunodd Dafydd i wrthwynebwŷr Duw weithiau warth, cerydd, a gwaradwydd; weithiau dïeppiliaeth; weithiau ar ddyfod o honynt i ddistryw a dinystr disymmwth; fel y dymunodd efe i bendefigion y Philistiaid: *saetha fellt*, eb efe, *a gwasgar hwynt; ergydia dy saethau, a difa hwynt;*[1] ynghyd â chyfryw fathau eraill o regfeydd: etto ni ddylem ymrwystro oblegid y fath weddïau o eiddo Dafydd, gan ei fod yn Brophwyd, yn un hoff neillduol gan Dduw, ac wedi ei gynhyrfu yn yr yspryd gan awyddfryd gwresog i ogoniant Duw.—— Nid o gynfigen nac o gasineb yn erbyn eu personau yr oedd yn llefaru; ond dymuno'r oedd, yn ysprydol, ddinystr pob cyfryw lygredig feiau a chyfeiliornadau ag oedd yn teyrnasu ym mhawb oll a'r a ymosodent yn erbyn Duw.—— Yr ydoedd o'r un meddwl a St. Paul pan draddododd efe Hymeneus ac Alexander, a'r godinebwr hynod, i Satan, er gwarth amserol iddynt, *fel y byddai'r yspryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu.*[2]—— A phan addefodd Dafydd mewn rhai mannau ei fod yn casâu'r annuwiol, etto mewn mannau eraill o'i Psalmau mae'n proffesu mai *â chas perffaith* y mae yn eu casâu, ac nid â chasineb cynfigennus i wneuthur niweid i'r enaid. Yr hwn berffeithrwydd yspryd am na ellir ei gyflawni ynom ni, gan fod ein gwyniau mor llygredig ag y maent, ni ddylem ni yn ein hachosion prïod arferyd y cyfryw ffurf ar eiriau, o herwydd na's gallwn gyflawni'r cyffelyb eiriau mewn ystyr.

Gan hynny nac ymrwystrwn, ond chwiliwn allan y *rheswm* am y cyfryw eiriau cyn ymrwystro o honom, fel y gallom farnu gyd â mwy o barch am y cyfryw ymadroddion, y rhai ydynt ddïeithr i'n deall cnawdol ni, ond etto y maent i'w traethu'n zelog a duwiol gan y rhai sydd â'u syniadau yn ysprydol.

[1] Ps. 144. 6. [2] 1 Cor. 5. 5.

Poed i Dduw gan hynny, er mwyn ei drugareddau, deilyngu puro ein meddyliau trwy ffydd yn ei Fab Iesu Grist, a diferu dafnau o'i nefol rad i'n calonnau celyd a charregog i'w meddalhâu a'u hystwytho, fel na byddom ddïystyrwŷr a gwawdwŷr ei annhwyllodrus Air; ond bod i ni â phob gostyngeiddrwydd meddwl a gwylder Cristianus ymdrechu gwrandaw a darllen ei Ysgrythyrau Cyssegrlân, ac i'n mewn eu mwynhâu yn y fath fodd ag y bo diddanwch i'n heneidiau ni, a sancteiddrwydd i'w Lân Enw Yntau: I'r Hwn gyd â'r Mab a'r Yspryd Glân, Tri Pherson, ac Un Duw Byw, y byddo 'r holl glod, yr anrhydedd, a'r moliant byth ac yn oes oesoedd. Amen.

# HOMILI

## YNGHYLCH ELUSENAU,

### A THRUGAROWGRWYDD TU AG AT Y TLAWD A'R ANGHENUS.

YM mhlith yr aml ddyledswyddau y mae 'r Hollalluog Dduw yn edrych am danynt gan ei weision ffyddlon y gwir Gristionogion, trwy y rhai y mynnai i'w Enw ei Hun gael ei ogoneddu, ac i sicrwydd eu galwedigaeth hwythau gael ei fynegi, nid oes un yn fwy cymmeradwy ganddo Ef nac yn fuddiolach iddynt hwythau, na gweithredoedd o drugaredd a thosturi a ddangoser at y tlodion, y rhai a fliner gan un rhyw fath o gyfyngder.

Ac etto er hynny, cyfryw ydyw anesgud ddïogi ein hanian swrth ni at yr hyn sy dduwiol a daionus, fel nad ydym mewn dim braidd yn fwy esgeulus ac yn llai gofalus nag yn hyn o beth.

Peth angenrheidiol iawn gan hynny ydyw i bobl Dduw ddeffrôi eu meddyliau cysglyd, ac ystyried eu dyledswydd yn hyn o ran.

A gweddus yw i bob gwir Gristion ymofyn a dysgu yn chwannog beth y mae Duw yn ei sanctaidd Air yn ei ofyn ganddo yn y matter hwn; fel gwedi 'n gyntaf wybod eu dyledswydd, (yn yr hyn y mae

llawer yn dangos drwy eu hwyrfrydigrwydd eu bod yn dra anwybodus,) y gallont ar ol hynny gyflawni 'r unrhyw yn ddiesgeulusach.

Gellir fel hyn gefnogi dynion duwiol a chardodol i fyned ym mlaen ac i barhâu yn eu gwaith trugarog o roi elusen i'r tlawd; a chyffrôi hefyd o'r diwedd y rhai sydd hyd yma wedi esgeuluso neu ddiystyru hynny, pan glywont gymmaint y mae yn perthyn iddynt, i ystyried y ddyledswydd yn bwyllog, ac i ymrôi yn rhinweddol i'w chyflawni.

Ac er mwyn bod i bob un o honoch ddeall yn well yr hyn a draethir, a'i ddwyn ymaith yn haws gyd â chwi, ac felly cael ychwaneg ffrwyth o'r hyn a ddywedir, pan driner pob pwngc ar ei ben ei hun, mae yn fy mryd lefaru a thraethu y pyngciau canlynol bob un wrtho ei hun, ac yn y drefn hon.

Yn gyntaf, mi a ddangosaf mor ddifrif y mae 'r Hollalluog Dduw yn galw arnom i roi elusenau, ac mor gymmeradwy ydynt yn ei olwg.

Yn ail, mor fuddiol yw i ni eu harferyd hwy, a pha elw a ffrwyth a ddygant i ni.

Yn drydydd ac yn ddiweddaf, mi a ddangosaf allan o Air Duw y bydd i bwy bynnag a fo 'n hael wrth y tlawd ac a'u cynnorthwyo hwynt yn ehelaeth, gael er hynny ddigon iddo ei hun, a bod bob amser allan o enbydrwydd prinder a diffyg.

Ynghylch y peth cyntaf, sef cymmeriad a braint a gwerth elusenau ger bron Duw; gwybyddwch hyn, fod helpio a chynnorthwyo 'r tlawd yn ei angenoctid a'i gyni, yn rhyngu bodd Duw gymmaint, fel (megis y mae 'r Ysgrythyr yn coffâu mewn amryw fannau) na ddichon dim gael ei gymmeryd a'i dderbyn yn fwy diolchus gan Dduw:——

O herwydd yn gyntaf, yr ydym yn darllen fod yr Hollalluog Dduw yn cyfrif fod yr hyn a rodder i'r tlawd yn cael ei roddi iddo Ef ei Hun; canys felly y tystia 'r Yspryd Glân i ni drwy y Gwr Doeth, gan ddywedyd, *Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd.*[1]

Ac y mae Crist hefyd yn yr Efengyl yn cyhoeddi, gan rwymo hynny â llw fel y gwirionedd sicraf, fod yr elusen a roir i'r tlodion yn cael ei rhoddi iddo Ef, ac y cyfrifir hi felly yn y dydd diweddaf. Canys fel hyn y dywed Efe wrth yr elusenwŷr cardodol, pan eisteddo fel Barnwr ar y frawdle, i roi barn ar bob dyn yn ol ei haeddiant: "*Yn wir meddaf i chwi, yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch:*[2] wrth eu porthi hwy, chwi a'm porthasoch i; wrth eu disychedu hwy, chwi a'm disychedasoch i; wrth eu dilladu hwy, chwi a'm dilladasoch i; wrth eu llettya hwy, chwi a'm

[1] Diar. 10. 17. [2] St. Mat. 25. 40.

llettyasoch i; wrth ymweled â hwy yn gleifion neu yngharchar, chwi a ymwelsoch â mi." —— Canys fel y mae 'r hwn a dderbynio ac a groesawo genhadon Brenhin, yn anrhydeddu 'r Brenhin ei hun, oddi wrth yr hwn y daeth y cenhadon hynny; felly mae 'r neb a dderbynio 'r tlawd a'r anghenog, ac a'u helpio yn eu trallod a'u cyfyngder, wrth hynny yn derbyn ac yn anrhydeddu Crist eu Meistr; yr Hwn fel yr oedd yn dlawd ac yn anghenus ei Hun, tra bu 'n byw yma yn ein plith, i weithio dirgelwch ein hiachawdwriaeth ni, felly ar ei ymadawiad oddi yma, Efe a addawodd anfon i ni y tlodion yn ei le, fel y byddai iddynt hwy gyflawni ei absennoldeb Ef: ac am hynny pa beth bynnag a fynnem ei wneuthur iddo Ef, rhaid i ni wneuthur hynny iddynt hwy.

Ac am yr achos hwn y dywed yr Hollalluog Dduw wrth Moses, *Ni dderfydd y tlawd o ganol y tir;*[1] am y mynnai gael prawf gwastadol o'i bobl, pa un a wnaent ei garu ai peidio; fel trwy ddangos eu hunain yn ufudd i'w ewyllys Ef, y gallent eu sicrhâu eu hunain o'i garedigrwydd a'i ewyllys da Yntau tu ag attynt, ac nad ammheuent mai fel y derbynient hwy ac y cyflawnent yn ewyllysgar ei ddeddf a'i ordinhad Ef, (yn y rhai y gorchymynodd Efe iddynt agoryd eu llaw i'w brodyr ag oedd dlodion ac anghenus yn y tir,) felly hefyd ar ei ran Yntau y derbyniai Efe hwynt yn gariadlawn, ac y cyflawnai mewn gwirionedd yr addewidion a wnaethai Efe iddynt.

Mae Apostolion sanctaidd a Disgyblion Crist, y rhai, wrth fod beunydd gyd âg Ef, oeddynt yn gweled yn ei weithredoedd, ac yn clywed yn ei athrawiaeth, gymmaint gofal oedd ganddo am y tlodion; mae 'r Tadau duwiol hefyd, y rhai oedd cyn ac wedi Crist, y rhai a gynnysgaeddwyd yn ddiammeu â'r Yspryd Glân, ac oeddynt yn sicraf o ewyllys Duw; mae 'r naill a'r llall o honynt yn ein rhybuddio 'n ddifrif, ac yn eu holl ysgrifeniadau yn ein cynghori bron yn wastadol, ar fod i ni gofio 'r tlodion, a rhoddi ein helusenau cardodol iddynt:——

Mae St. Paul yn gwaeddi arnom fel hyn; *Diddenwch y gwan eu meddwl, cynhelwch y gweiniaid, byddwch ymarhôus wrth bawb.*[2] A thrachefn; *Gwneuthur daioni a chyfrannu, nac anghofiwch; canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.*[3]

Fe 'n dysg y Prophwyd Esay ni fel hyn; *Tor dy fara i'r newynog; dwg y crwydriaid i dŷ; pan welych noeth, dillada ef; ac nac ymguddia oddi wrth dy gnawd dy hun.*[4]

Rhydd y tad sanctaidd Tobit y cyngor hwn; *Dod elusen,* eb efe, *o'r peth fyddo gennyt, ac na thro dy wyneb oddi wrth neb tlawd. Dod o'th fara i'r newynog, ac o'th ddillad i'r noeth.*[5]

[1] Deut. 15. 11. [2] 1 Thes. 5. 14. [3] Heb. 13. 16. [4] Esay 58. 7. [5] Tobit 4. 7, 16.

A rhydd y Doctor dysgedig a duwiol Chrysostom yr annogaeth hon; "Bydded elusen drugarog bob amser gyd â ni fel gwisg; hynny yw, fel yr ydym yn feddylgar i roi ein gwisgoedd am danom i guddio ein noethni, i'n cadw rhag yr oerfel, ac i'n dangos ein hunain yn weddus; felly byddwn mor gofus bob pryd ac amser i gyfrannu elusen i'r tlodion, ac i ddangos ein hunain yn drugarogion tu ag attynt."

Ond beth yw meddwl yr aml rybuddion a'r annogaethau difrifol hyn o eiddo'r Prophwydi, Apostolion, Tadau, a Doctoriaid sanctaidd? Yn ddilys, fel yr oeddynt yn ffyddlon tu ag at Dduw, ac am hynny yn cyflawni eu dyledswydd yn ddidwyll drwy ddywedyd wrthym beth oedd ewyllys Duw; felly hefyd o gariad nodedig tu ag attom ninnau, hwy a lafuriasant i hyspysu i ni ac i'n perswadio hefyd, fod rhoi cardodau, a chynnorthwyo'r tlawd a'r rheidus, yn beth cymmeradwy iawn gan Dduw, ac yn aberth goruchel iddo, yn yr hwn yr oedd yn ymhoffi'n ddirfawr. Oblegid felly y mae'r Gwr Doeth, mab Sirach, yn ein dysgu, gan ddywedyd, *Y mae'r hwn a roddo elusen yn aberthu moliant.* Ac y mae'n ychwanegu at hyn, *Y mae offrwm y duwiol yn gwneuthur yr allor yn fras, a'i arogl peraidd ef sy ger bron y Goruchaf. Aberth y gwr cyfiawn sy gymmeradwy, ac ni's gollyngir dros gof ei goffadwriaeth ef.*[1]

A gwirir yr athrawiaeth hon trwy esamplau y Tadau sanctaidd a chardodol y darllenwn am danynt yn yr Ysgrythyr, eu bod yn ymroddi i dosturi trugarog at y tlawd, gan esmwytho eu hangenoctid yn elusengar:——

Cyfryw un oedd Abraham, yr hwn yr oedd Duw yn ei hoffi gymmaint ag y bu wiw gantho ddyfod atto yn rhith Angel, a chymmeryd ei groesawu yn ei dŷ ef.

Cyfryw un ydoedd ei gâr Lot, yr hwn y ffafriodd Duw gymmaint arno am dderbyn ei genhadon i'w dŷ, y rhai oni buasai hynny a gawsent orwedd yn yr heol, fel yr achubwyd ef a'i holl deulu oddi wrth ddistryw Sodom a Gomorrah.

Cyfryw rai oedd y Tadau sanctaidd Job a Tobit, a llaweroedd eraill, y rhai a gawsant brofion teimladwy o hyspysol gariad Duw tu ag attynt.

Ac fel y bu i'r holl rai hyn trwy eu trugarowgrwydd a'u tosturi tyner a ddangosasant i aelodau cystuddiol Crist, wrth esmwytho arnynt, eu helpio, a'u cynnorthwyo â'u dâ bydol yn y fuchedd hon, gaffael ffafr Duw, a bod yn anwyl, hoff, a chymmeradwy yn ei olwg Ef; felly maent hwythau eu hunain yn awr yn cael hyfrydwch mewn mwynhâd o Dduw, ac yn llawenydd y nef; a gosodwyd hwy hefyd o'n blaen

[1] Eccles. 35. 2, 6, 7.

yn nhragywyddol air Duw fel esamplau perffaith fyth ger bron ein llygaid, i'n dysgu pa fodd y rhyngwn fodd Duw yn y fuchedd farwol hon, a pha fodd y gallwn ddyfod i fyw mewn llawenydd gyd â hwy mewn hyfrydwch a dedwyddyd tragywyddol: —

Canys gwir iawn yw 'r hyn a ddywed St. Awstin, mai rhoi elusen a helpu 'r tlawd yw 'r uniawn ffordd i'r nef. "*Via cœli pauper est;* Y dyn tlawd," eb efe, "yw 'r ffordd i'r nefoedd:"— Hwy a arferent yn yr hen amseroedd osod ar ochrau 'r prif-ffyrdd ddelw Mercurius yn dangos â'i fys y ffordd i'r dref. Ac yr ydym ninnau 'n arfer gosod mewn croes-ffyrdd, groes o bren neu faen i ddangos i'r ymdeithydd pa ffordd y mae iddo droi, pan ddelo atti, i'w gyfarwyddo yn yr iawn ffordd. Ond fe osododd Gair Duw, medd St. Awstin, y dyn tlawd a'i dŷ yn y ffordd i'r nef, fel y byddo raid i bwy bynnag a fynno fyned yno yn uniawn, heb droi o'i ffordd, fyned heibio i'r tlawd. Y dyn tlawd yw 'r Mercurius hwnnw, yr hwn a'n gesyd ar y ffordd iawn; ac os edrychwn ni yn graff ar y mynegfys hwn, ni chrwydrwn ni neppell oddi ar y llwybr uniawn.

Arfer dynion call yn ein mysg ni, os gwyddant fod dyn o radd îs na hwy eu hunain mewn ffafr gyd â'r brenhin, neu gyd â rhyw bendefig arall ag y maent hwy yn ei garu neu yn ei ofni, ydyw llesio a boddio 'r cyfryw ddyn yn llawen, fel, pan fo rhaid, y gallo yntau siarad drostynt, a'u helpu â'i air da, naill ai i ennill rhyw fael, neu i ddiangc rhag rhyw anfoddlonrwydd.— Yn awr yn ddïau fe ddylai fod yn gywilydd gennym ni, fod dynion bydol yn synhwyrolach ac yn gallach i ennill iddynt eu hunain bethau bydol, y rhai ni pharhânt ond dros amser, na nyni i geisio pethau nefol.

Mae ein Hiachawdwr Crist yn tystiolaethu am y tlodion, eu bod yn anwyl gantho, a'i fod yn eu caru hwy yn nodedig; canys geilw hwynt "ei rai bychain," (enw o serch tyner,) a dywed eu bod yn frodyr iddo.

Dywed St. Iago ddarfod i Dduw eu dewis hwynt yn etifeddion ei deyrnas. *Oni ddewisodd Duw dlodion y byd hwn,* eb efe, *yn gyfoethogion mewn ffydd, ac yn etifeddion y deyrnas yr hon a addawodd Efe i'r rhai sydd yn ei garu Ef?*[1] A gwyddom y bydd y weddi a wnelont drosom yn gymmeradwy ac yn barchus gan Dduw, ac y gwrandewir eu cwyn. Mae Jesus fab Sirach yn ein sicrhâu ni o hyn, gan ddywedyd, *Os y tlawd a'th felldithia di yn chwerwder ei enaid, yr Hwn a'i gwnaeth ef a wrendy ei weddi ef.*[2] Am hynny byddwch hynaws wrth y tlawd.

[1] St. Iago 2. 5. [2] Eccles. 4. 6.

Nyni a wyddom hefyd fod yr Hwn sy 'n cydnabod ei Hun yn Feistr ac yn Noddwr iddynt, ac na 's gwrthyd eu cymmeryd yn weision iddo, yn alluog i wneuthur i ni les ac afles, a bod yn rhaid i ni bob awr wrth ei gynhorthwy Ef. Paham ynte y byddwn ninnau yn esgeulus nac yn anewyllysgar i ennill eu cyfeillach a'u ffafr hwy, trwy yr hyn hefyd y gallwn fod yn sicr o ennill ffafr yr Hwn sydd alluog ac ewyllysgar i wneuthur i ni bob daioni ag a fyddo er ein lles a'n llwyddiant?

Mae Crist yn mynegi mor gymmeradwy gantho yw ein serch caredigol at y tlawd, wrth addaw gwobr i'r *rhai a roddant phiolaid o ddwfr oer* yn ei Enw Ef i'r sawl y bo arnynt ei eisiau; a'r wobr honno ydyw teyrnas nef.[1] Dïau ynte fod Duw yn gwneuthur cyfrif mawr o'r hyn y mae yn ei wobrwyo mor hael! Canys y mae 'r hwn sy 'n addaw taliad brenhinol am rodd i gardottyn, yn dangos fod yn hoffach ganddo y *rhoddiad* na 'r *rhodd*, a'i fod yn rhoi cymmaint bri ar *wneuthuriad* y weithred, ag ar y ffrwyth a'r ennill ag sy 'n deilliaw o honi.

Pwy bynnag gan hynny sy wedi esgeuluso rhoi cardod hyd yn hyn, gwybydded fod Duw yn awr yn gofyn hynny ar ei law ef: a'r neb sy wedi bod yn hael wrth y tlawd, gwybydded fod ei weithredoedd duwiol yn gymmeradwy ac yn dderbyniol gan Dduw, yr Hwn a dâl iddo drachefn yn ddeublyg ac yn driphlyg. Canys fel hyn y dywed y Gwr Doeth; *Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd; a'i rodd a dâl Efe iddo drachefn:*[2] a'r taledigaeth yn bennaf yw bywyd tragywyddol trwy haeddedigaethau ein Hiachawdwr Iesu Grist: I'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Mat. 10. 42. [2] Diar. 19. 17.

YR AIL RAN O'R BREGETH

# YNGHYLCH ELUSENAU.

CHWI a glywsoch o'r blaen, anwyl garedigion, fod rhoi elusen i'r tlawd, a'u helpu yn amser angen, mor gymmeradwy gan ein Hiachawdwr Crist, fel y mae yn cyfrif yr hyn a wnelom er ei fwyn Ef iddynt hwy, megis yn cael ei wneuthur iddo Ef ei Hun.

Clywsoch hefyd mor ddifrif y mae 'r Prophwydi, yr Apostolion, y Tadau sanctaidd, a'r Doctoriaid, yn ein hannog ni i hynny.

A gwelsoch hefyd mor anwyl a hoff gan Dduw oedd y rhai y dywed yr Ysgrythyr eu bod yn elusenwŷr da.

Gan hynny os cyffroa na 'u hesamplau da hwy, na chyngor iachus y Tadau duwiol, na chariad Crist ni, ffafr hyspysol yr Hwn yr ydym yn sicr o'i mwynhâu trwy 'r moddion hyn, neu os prisiwn ddim ar y pethau yma; ymddarparwn i ddangos o hyn allan y gwasanaeth diolchus hwn i Dduw, sef bod yn feddylgar ac yn barod i helpu y rhai sy mewn tlodi a chyfyngder.

Yn awr yr ail bryd hwn ag yr wyf yn traethu am Elusenau, mi a ddangosaf i chwi mor fuddiol yw i ni eu harferyd hwynt, a pha ffrwyth a gyfyd i ni o honynt, os gwnawn ni hwynt yn ffyddlon.

Dysg ein Hiachawdwr Crist ni yn yr Efengyl, nad oes dim llesâd i ddyn o feddiannu holl gyfoeth a gogoniant y byd i gyd, os cyll efe ei enaid ei hun yn y cyfamser, neu wneuthur y peth hwnnw ag a'i dycco 'n gaeth i bechod, angau, a thân uffern.—— Yn y dywediad hwn mae Efe yn ein dysgu ni, nid yn unig pa gymmaint y dylem ofalu am iechyd yr enaid yn fwy nag am elw bydol; ond y mae hefyd yn cyffrôi ein meddyliau, ac yn ein symbylu ymlaen i ymofyn yn ddïesgeulus ac i ddysgu trwy ba foddion y gallwn gadw a chynnal ein heneidiau fyth mewn diogelwch; sef hynny yw, pa fodd y gallwn adferu ein hiechyd ysprydol, os yw wedi colli neu ammharu, a pha fodd y gellir ei ddïogelu a'i gadw, wedi i ni unwaith gael gafael arno:——

Ië, y mae Efe yn ein dysgu hefyd trwy hynny i brisio meddyginiaeth mor werthfawr a pherl mor ddrudfawr, yn yr hwn y mae y fath nerth a rhinwedd ag y gall gyrhaeddyd a chadw trysor mor ddigyffelyb. Oblegid os gwnawn ni gyfrif mawr o'r feddyginiaeth neu 'r eli a

ddichon iachâu amryw glefydau trymion y corph, mwy cyfrif o lawer a wnawn o'r hyn sy gantho 'r cyffelyb rinwedd rhag anhwylderau 'r enaid.

Ac fel y gallem fod yn sicrach o adnabod ac o gaffael mewn parodrwydd feddyginiaeth mor lesol, y mae Efe ei Hun, fel ffyddlonaf a charediccaf Ddysgawdwr, yn dangos i ni pa beth ydyw hi, pa le y gallwn ei chael, a pha fodd y mae i ni ei harferyd a'i chymhwyso.—— Canys pan gyhuddwyd Ef a'i ddisgyblion yn dost gan y Phariseaid, eu bod wedi halogi eu heneidiau wrth dorri traddodiadau 'r henafiaid, trwy fwytta cyn ymolchi, yn ol arfer yr Iuddewon; mae Crist yn atteb eu hachwyniad ofergoelus, ac yn rhoi iddynt gyfarwyddyd hyspysol pa fodd i gadw eu heneidiau 'n lân, er torri y fath drefniadau coel-grefyddol. *Rhoddwch elusen*, eb Efe, *o'r peth sy gennych, ac wele, pob peth sy lân i chwi.*[1] Mae Efe yn eu dysgu hwy mai bod yn drugarog a chardodol i helpio 'r tlawd, yw 'r ffordd i gadw 'r enaid yn bur ac yn lân yngolwg Duw.

Wrth hyn ynte fe 'n dysgir, fod cyfrannu elusenau cardodol yn fuddiol i buro 'r enaid oddi wrth lygriad a brychau budron pechod. Mae 'r Yspryd Glân hefyd yn dysgu 'r un addysg i ni mewn amryw leoedd o'r Ysgrythyr, gan ddywedyd, *Elusen a wared rhag angau, ac a lestair ddyfod i'r tywyllwch. O herwydd cêd ddaionus yw eluseni i bawb a'r a'i gwnêl, ger bron y Goruchaf.*[2]—— Mae 'r Pregethwr doeth, mab Sirach, yn cadarnhâu hyn, pan ddywed, *Dwfr a ddiffydd dân yn fflamio; a thrwy eluseni y ceir maddeuant am bechodau.*[3]

A sicr yw fod trugarowgrwydd yn lleddfu gwres pechod gymmaint, fel na allo gael craff ar ddyn i'w ddrygu; neu os darfu i bechod gyffwrdd âg ef neu ei niweidio trwy ryw wendid, mae trugarowgrwydd yn y man yn ei sychu ac yn ei olchi ymaith, megis eli a meddyginiaeth i iachâu eu doluriau a'u trymion glefydau:——

Ac ar hyn y mae y mae 'r Tad sanctaidd Cyprian yn cymmeryd achlysur i'n hannog yn ddifrif i'r gwaith trugarog o roi elusen a helpio 'r tlawd, gan ein cynghori mor iachus a llesol o beth yw cynnorthwyo 'r anghenog, a helpu 'r cystuddiol, trwy 'r hyn y gallwn lanhâu ein pechodau ac iachâu ein heneidiau clwyfus.

Ond etto fe ddywed rhyw ddyn,——"Od yw elusen, a gweithredoedd o gariad at y tlawd, yn gallu golchi ymaith bechodau, ein cymmodi â Duw, ein gwared rhag enbydrwydd damnedigaeth, a'n gwneuthur yn feibion ac yn etifeddion teyrnas Dduw; *yna* diddymwyd haeddiant Crist, a thywalltwyd ei Waed Ef yn ofer; *yna* cyfiawnhêir ni trwy weithredoedd, a gall ein gweithredoedd haeddu 'r nef i ni; *yna* 'n ofer

[1] St. Luc 11. 41. [2] Tobit 4. 10, 11. [3] Eccles. 3. 30.

yr ydym yn credu ddarfod i Grist farw i dynnu ymaith ein pechodau, ac iddo adgyfodi i'n cyfiawnhâu ni, fel y'n dysgir gan St. Paul."

Ond deallwch, fy ngharedigion, nad yw'r lleoedd o'r Ysgrythyr a grybwyllwyd o'r blaen, nac athrawiaeth y bendigaid Ferthyr Cyprian, na neb gwr duwiol a dysgedig arall, pan ddywedant, wrth fawrhâu braint, budd, ffrwyth, ac effaith elusenau rhinweddol a haelionus, eu bod hwy yn golchi ymaith bechodau, ac yn ein dwyn i ffafr Duw; nid ydynt, meddaf, wrth ddywedyd felly, yn meddwl mai ein gweithred gardodol ni ydyw'r *achos gwreiddiol* o'n derbyniad ger bron Duw, neu y gellir golchi ein pechodau, a'n puro ni a'n glanhâu oddi wrth holl frychau ein hanwiredd, trwy fraint neu deilyngdod ein heluseni: canys anffurfio Crist yn wir fyddai hynny, a'i anrheithio o'i ogoniant:——

Ond hyn yw eu meddwl, a hyn yw ystyr yr ymadroddion uchod a'r cyffelyb,—— Ddarfod i Dduw o'i drugaredd a'i ffafr hyspysol at y rhai a ordeiniodd Efe i iachawdwriaeth dragywyddol, felly gynnyg ei ras mor enwedigol, ac iddynt hwythau ei dderbyn ef mor effeithiol, fel, er eu bod oblegid eu buchedd bechadurus yn blant digofaint a cholledigaeth o'r blaen; etto, gan fod Ysbryd Duw yn awr yn nerthol weithio ynddynt i ufudd-dod i ewyllys a gorchymynion Duw, maent yn dangos trwy weithredoedd allanol eu buchedd, wrth fod yn drugarog ac elusengar (yr hyn ni's gall ddyfod ond oddi wrth Ysbryd Duw a'i ras hyspysol Ef) eu bod hwy yn blant diammheuol i Dduw, gwedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol.—— Ac felly, megis oblegid eu drygioni a'u hannuwiol fuchedd yr oeddynt yn ymddangos i farn dynion, (y rhai sy'n barnu wrth y golwg,) yn wrthodedig ac anghymmeradwy; felly yn awr, drwy eu hufudd-dod i lân ewyllys Duw, a thrwy eu trugarowgrwydd a'u tyner dosturi, (yn yr hyn y maent yn dangos eu bod yn debyg i Dduw, yr Hwn yw ffynhonnell pob trugaredd,) maent yn dangos yn eglur yngolwg pob dyn eu bod yn feibion i Dduw, ac wedi eu hethol ganddo i iachawdwriaeth:——

Canys fel mai nid y ffrwyth da sy'n peri bod y pren yn dda, ond rhaid i'r pren yn gyntaf fod yn dda, cyn y gallo ddwyn ffrwyth da; felly nid gweithredoedd da dyn yw'r achos sy'n peri bod y dyn yn dda, ond yn gyntaf gwneir ef yn dda gan Ysbryd a gras Duw yn nerthol weithio ynddo, ac yna wedi hynny mae yntau'n dwyn ffrwythau da. Ac yna fel y mae'r ffrwyth da yn profi bod y pren yn dda; felly mae gweithred dda a thrugarog y dyn yn dangos ac yn profi'n sicr mai da yw yr hwn sy'n ei gwneuthur, yn ol dywediad Crist; *Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.*[1]

[1] St. Mat. 7. 16.

Ond os gwrth-ddadleua neb, fod dynion drwg weithiau yn ymddangos wrth eu gweithredoedd yn hynod o dduwiol a rhinweddol,—— Yr wyf yn atteb; felly y mae afalau a gerllyg surion weithiau yn ymddangos mor wridog yr olwg ac mor addfed eu lliw ag aeron sy mewn gwirionedd yn beraidd; ond fe fydd hawdd i'r neb a gymmero dammaid o honynt i'w brofi, wahaniaethu rhwng chwerwder sur y naill a melusder pereidd-flas y llall.—— Felly, megis y mae'r gwir Gristion, yn ddiolchgarwch ei galon am brynedigaeth ei enaid a bwrcaswyd drwy Angau Crist, yn dangos yn helaeth ei ufudd-dod i Dduw trwy ffrwyth ei ffydd; felly mae'r llall yn bargeinio â Duw, ac yn gwneuthur y cwbl er mwyn ei elw ei hun, gan feddwl ennill y nef drwy haeddedigaeth ei weithredoedd priod, ac felly yn anffurfio ac yn tywyllu gwerth gwaed Crist, yr hwn yn unig a weithiodd ein glanhâd ni.

Ystyr yr ymadroddion hyn ynte yn yr Ysgrythyr ac ysgrifeniadau duwiol eraill, fod *Eluseni 'n golchi ymaith ein pechodau*, a bod *Trugaredd i'r tlawd yn dileu ein camweddau*; yr ystyr, meddaf, yw, ein bod ni wrth wneuthur y pethau hyn yn ol ewyllys Duw a'n dyledswydd ein hunain, yn cael yn wir olchi ymaith ein pechodau, a dileu ein camweddau; ond nid am eu teilyngdod hwy, ond trwy ras Duw, yr Hwn sy'n gweithio oll yn oll, a hynny o herwydd yr addewid a wnaeth Duw i'r rhai sy 'n ufudd i'w orchymyn, fel y cyfiawnhâer Ef, yr Hwn yw y Gwirionedd, ynghyflawniad y gwirionedd sy'n ddyledus i'w wir addewid Ef.

Y mae Elusenau yn golchi ymaith ein pechodau ni, am fod Duw yn teilyngu ein cyfrif ni yn lân ac yn bur, pan fyddom yn eu gwneuthur hwynt er ei fwyn Ef; ac nid am eu bod yn *haeddu* ein glanhâd, neu am fod dim cyfryw nerth neu rinwedd ynddynt hwy eu hunain.

Mi a wn fod rhai dynion, rhy awyddus i fawrygu eu gweithredoedd, nad yw 'r atteb hwn yn eu boddloni: ac nid rhyfedd; canys ni ddichon un attebiad foddloni 'r cyfryw ddynion:——

Am hynny gan eu gadael hwynt i'w tyb anhydyn eu hunain, ni a olygwn yn hytrach y rhesymmol a'r duwiol, y rhai, fel y mae 'n ddiogel ganthynt fod pob daioni, pob elusen, pob trugaredd, pob doniau, pob maddeuant pechod, a pha beth bynnag a ellir ei alw 'n dda a buddiol i'r corph neu 'r enaid, yn dyfod yn unig o drugaredd a rhad ffafr Duw, ac nid o honynt eu hunain; felly er cynnifer ac er cystal fyth a fyddo 'r gweithredoedd da a wnelont, etto nid ydynt un amser yn ymchwyddo gan wag hyder ynddynt:——

Ac er eu bod yn clywed ac yn darllen yngair Duw a llyfrau dynion duwiol, fod eluseni, trugarowgrwydd, a chariadoldeb, yn golchi pechod ymaith ac yn dileu anwiredd, etto nid ydynt yn rhyfygus ac yn falch yn

glynu wrthynt nac yn ymddiried ynddynt, fel y gwnaeth y Pharisead balch, rhag iddynt ynghyd â'r Pharisead gael eu condemnio. Ond yn hytrach, fel y Publican tlawd ac isel, maent yn addef eu bod yn bechaduriaid truain yn annheilwng i edrych i fynu tu a'r nef, gan erfyn ac ymbil am drugaredd, fel ynghyd â'r Publican y cyhoedder gan Grist eu bod wedi eu cyfiawnhâu.

Mae 'r duwiolion yn gwybod, pan ddywetto 'r Ysgrythyr mai trwy weithredoedd da a thosturiol yr adferir ni i ffafr Duw, y dysgir ni wrth hynny i wybod pa beth y mae Crist drwy ei eiriolaeth yn ei gaffael i ni gan ei Dad, pan fyddom ni yn ufudd i'w ewyllys Ef: maent yn y dull hwn • lefaru yn dysgu argoel cysurus o ffafr nodedig Duw a'i gariad, yn tadogi megis, i ni a'n gweithredoedd, yr hyn y mae Efe drwy ei Yspryd yn ei weithredu ynom, ac yn ei gaffael i ni trwy ei rad.

Ac etto mae pob un o honynt yn llefain gyd â St. Paul, *Ys truan o ddyn ydwyf fi!*[1] ac yn cydnabod (fel y dysga Crist i ni wneuthur) *wedi iddynt wneuthur y cwbl oll ag a orchymynwyd iddynt, mai gweision anfuddiol ydynt:*[2] ac yn dywedyd gyd a'r bendigaid frenhin Dafydd, gan grynu wrth edrych ar gyfiawn farnau Duw, *Os creffi ar anwireddau, Arglwydd; O Arglwydd pwy a saif.*[3]

Fel hyn y maent yn eu gostwng eu hunain, ac yn cael eu dyrchafu gan Dduw. Maent yn eu cyfrif eu hunain yn wael, ond yn cael eu cyfrif gan Dduw yn bur ac yn lân. Maent yn eu condemnio eu hunain, ond y mae Duw yn eu cyfiawnhâu. Maent yn eu hystyried eu hunain yn annheilwng o'r ddaear, ond y mae Duw yn eu hystyried yn deilwng o'r nefoedd.

Fel hyn y dysgir hwy gan Air Duw i feddwl yr hyn sydd uniawn am gyfraniad elusenau; a thrwy hyspysol drugaredd a daioni Duw, hwy a wneir yn gyfrannogion o'r ffrwythau y mae Efe wedi eu haddaw yn ei Air.

Canlynwn ninnau eu hesamplau hwy, a dangoswn yn ufudd yn ein buchedd y gweithredoedd hynny o drugaredd a orchymynir i ni; a phoed gennym yr uniawn feddwl a'r farn am danynt ag a ddysgir i ni. Felly y cawn ninnau yr un ffunud a hwythau, fod yn gyfrannogion o fwynhâd y ffrwythau a'r gwobrwyon ag sy 'n dilyn y cyfryw fuchedd dduwiol; a chawn wybod drwy brofiad pa les ac ennill sy 'n dyfod o roi elusen a chynnorthwyo 'r tlodion.

[1] Rhuf. 7. 24. [2] St. Luc 17. 10. [3] Ps. 130. 3.

Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

# YNGHYLCH ELUSENAU.

CHWI a glywsoch ddwy ran eisoes o'r Traethawd hwn AM ELUSENAU. Y gyntaf, Mor hoff ac mor gymmeradwy ger bron Duw ydyw eu gwneuthur hwy. Yr ail, Mor angenrheidiol ac mor fuddiol yw i ni ymrôi iddynt.

Weithian, yn y drydedd ran, mi a symmudaf y rhwystr ag sy 'n attal llawer rhag eu gwneuthur hwy.

Mae llawer wrth glywed mor gymmeradwy ger bron Duw ydyw rhoi elusen, a phelled y mae Duw yn estyn ei ffafr tu ag at y trugarogion, a pha ffrwyth ac ennill sy 'n dyfod iddynt oddi wrth hynny, yn dymuno o ewyllys eu calonnau ar allel o honynt hwythau hefyd gyrhaedd y doniau hyn, a chael eu cyfrif gan Dduw yn gyfryw ag y mae Efe yn eu caru ac yn gwneuthur lles iddynt.

Ond etto mae trachwant cybyddus yn tynnu y dynion hyn yn eu hol, fel na allont roddi un ddimmai nac un dafell o fara yn elusen, er mwyn cael eu cyfrif yn deilwng o ddoniau Duw, a dyfod felly i'w ffafr Ef. Canys y maent yn wastad yn ofni ac yn petruso, rhag wrth roddi 'n fynych, er na byddai hynny ond ychydig ar unwaith, iddynt dreulio eu dâ, a dwyn cymmaint o dlodi arnynt eu hunain, fel na allont hwy eu hunain o'r diwedd fyw heb orfod cardotta elusenau rhai eraill.

Ac fel hyn y maent yn chwilio am esgusion i'w cadw eu hunain allan o ffafr Duw, ac yn dewis yn hytrach trwy grintachrwydd cybyddlyd bwyso at y Diafol, na thrwy drugarowgrwydd cardodol ddyfod at Grist, na goddef i Grist ddyfod attynt hwy.

O na byddai gennym ryw feddyg cyfarwydd a chywraint, yr hwn a allai eu puro o'r naws heintus hwn ag sy 'n mallu mor dost, nid eu cyrph, ond eu heneidiau, ac felly wrth lygru eu heneidiau, yn dwyn eu cyrph a'u heneidiau i enbydrwydd uffern dân!

Yn awr rhag bod neb o'r fath yn ein mysg ni, fy anwyl garedigion, chwiliwn yn ddyfal am y Physygwr hwnnw, sef Iesu Grist, a llafuriwn yn ddifrif ar fod iddo o'i drugaredd ein hiawn gyfarwyddo ni, a rhoi i ni feddyginiaeth ebrwydd yn erbyn clefyd mor beryglus.

Gwrando di ynte, pwy bynnag wyt, yr hwn wyt yn ofni rhag, wrth roddi i'r tlawd, i ti dy ddwyn dy hun i gardotta.—— Byth ni ellir difa na gwastraffu yr hyn a gymmerech oddi arnat dy hun i'w roddi i Grist. Yn hyn o beth na chred fy ngair i fy hun, ond od oes gennyt ffydd, ac od wyt wir Gristion, cred yr Yspryd Glân, dyro goel i awdurdod gair Duw, yr hwn sy 'n dy ddysgu di fel hyn. O herwydd fel hyn y dywed yr Yspryd Glân trwy Solomon; *Y neb a roddo i'r tlawd, ni bydd angen arno.*[1]

Mae dynion yn tybied yr ânt yn gyfoethog o'r diwedd wrth barhâu i gasglu ac i drysori; ac y dygir hwy i dlodi wrth gyfrannu a gwario, hyd yn nod at yr achosion rheitiaf a duwiolaf. Ond y mae 'r Yspryd Glân, yr hwn sy 'n gwybod pob gwirionedd, yn dysgu i ni amgenach addysg, ac un wrthwyneb i hon. Mae Efe yn ein dysgu fod math o gyfrannu nad yw yn gwneuthur yr eiddo yn ddim llai, a bod math o gynhilo ag a ddwg ddyn i ddygu dlodi. Canys lle y dywed *na fydd angen ar y neb a roddo i'r tlawd*, mae 'n ychwanegu, *Gwr drwg ei lygaid a brysura i ymgyfoethogi, ond bychan y gŵyr efe y daw tlodi arno.* Mor wahanol ynte yw barn dyn oddi wrth farn yr Yspryd Glân.

Mae 'r sanctaidd Apostol Paul, gwr llawn o'r Yspryd Glân, ac i'r hwn y datguddiwyd cyfrinach dirgeledig ewyllys Duw, yn ein dysgu na thlodir byth mo 'r elusenwr haelionus. *Yr Hwn sy 'n rhoddi had i'r hauwr,* eb efe, *rhodded hefyd fara yn ymborth, ac amlhâed eich had, a chwaneged ffrwyth eich cyfiawnder.* Nid digon gantho yma ddywedyd wrthynt na byddai diffyg arnynt, ond mae 'n dangos hefyd iddynt ym mha wedd y darparai Duw ar eu cyfer: canys fel y mae Efe 'n darparu had i'r hauwr drwy ei amlhâu, felly y byddai iddo amlhâu a chynnyddu eu dâ hwythau, fel y byddai ganddynt amlder a helaethrwydd.

A rhag tybied o honom nad yw ei ymadroddion ond geiriau yn unig, ac nid gwirionedd, mae i ni esampl o hyn yn Llyfr cyntaf y Brenhinoedd, yr hon sydd yn cadarnhâu ac yn selio hyn megis gwirionedd o'r sicraf.

Y weddw dlawd, yr hon a dderbyniodd Elias, alltud Brophwyd Duw, pan nad oedd ganthi ond dyrnaid o flawd mewn celwrn, ac ychydig olew mewn ystên, o'r hyn yr ydoedd ar fedr gwneuthur teisen iddi ei hun ac i'w mab, fel gwedi bwytta honno y byddent feirw, am nad oedd dim ychwaneg o luniaeth i'w gael yn y newyn mawr hwnnw; etto pan roes hi ran o hynny i Elias, a siommi ei bola newynllyd ei hun i roi cynhorthwy trugarog iddo ef, bendithiwyd hi gymmaint gan Dduw, fel na phallodd na 'r blawd na 'r olew drwy 'r holl amser ag y parhaodd y

[1] Diar. 28. 27.

newyn, ond o'r ychydig flawd a'r olew hwnnw cafodd y Prophwyd Elias, a hithau, a'i mab, ymborth a lluniaeth yn ddigonol.

O ystyriwch yr esampl hon, chwychwi bobl anghrediniol, ddi-ffydd, a chybyddlyd, y rhai ni 's coeliwch air Duw, ac ydych yn meddylied fod ei allu wedi cwttogi!

Nid oedd gan y wraig dlawd hon, drwy ystod hir a dygn brinder, ond un dyrnaid o flawd, ac ychydig olew mewn ystên fechan. Yr oedd ei hunig fab ym mron marw o newyn o flaen ei llygaid, a hithau ei hun yn debyg o ddyddfu i farwolaeth. Ac er hynny pan ddaeth y Prophwyd tlawd i geisio rhan, yr oedd hi mor feddylgar am drugaredd ag yr anghofiodd ei chyfyngder ei hun; ac yn hytrach na gollwng heibio gyfleusdra i roi elusen ac i wneuthur gweithred o gyfiawnder, hi a anturiodd ei bywyd ei hun a bywyd ei mab!

A chwychwi y rhai sy gennych amlder o fwydydd a dïodydd, helaethrwydd mawr o ddillad â'r pryfed yn eu bwytta, ïe gan lawer o honoch bentyrrau mawrion o aur ac arian (a'r hwn sy ganddo leiaf, y mae ganddo fwy na digon) yn awr yn yr amser hwn, pan nad oes (i Dduw y byddo 'r dïolch) ddim newyn tost yn eich gwasgu, a'ch plant yn cael eu dilladu a'u porthi 'n dda, ac heb un perygl marw o newyn i'w ofni, —— chwi a fynnwch ddyfeisio ammheuon ac enbydrwydd o newyn annhebygol, yn hytrach nag ymadael âg un rhan o'ch gormodedd i nerthu, i borthi, ac i helpu y Crist tlawd, newynog, a noeth, ag sy 'n dyfod at eich drysau i gardotta!

Nid aeth y wreigan weddw dlawd hon i drin ammheuon yn ei holl gyni pa ddiffyg a ddeuai arni hi ei hun, nid anhyderodd ddim yn yr addewid a wnaeth Duw iddi trwy 'r Prophwyd, ond aeth yn ebrwydd i dorri newyn Prophwyd Duw, ïe, ac a ystyriodd ei angen ef o flaen ei heisiau ei hun!

Ond nyni, fel adynod anghrediniol, cyn y rhoddwn un hatling, a betruswn ynghylch mil o ammheuon am enbydrwydd, pa un a gawn les ai peidio oddi wrth yr hyn a roddom i'r tlodion, pa un a fydd rhaid i ni wrtho eilwaith ai peidio, a pha un a allem ei gyfrannu mewn rhyw ffordd mwy buddiol: fel y mae 'n haws tynnu onnen o'r gwraidd (fel y dywed y ddïareb) na gwasgu ffyrling allan o'n bysedd ni. Nid oes nac ofn na chariad Duw o flaen ein llygaid; y mae gennym fwy o afael mewn hatling, nag sy gennym o ddymuniad am deyrnas Dduw, nac o ofn carchardŷ 'r cythraul.

Clywch gan hynny, chwychwi gybyddion annhrugarog, pa beth fydd diwedd eich ymddygiad di-drugaredd hwn:——

Cyn sicred ag y porthodd Duw y weddw dlawd hon yn amser newyn, ac y cynnyddodd ei heiddo bychan, fel ag yr oedd ganthi ddigon, ac na

theimlodd ddim prinder, pan oedd eraill yn dyddfu gan y newyn; mor sicr a hynny y blina Duw chwithau â thlodi ynghanol helaethrwydd. ——Yna pan fo eraill yn cael eu gwala a'u gweddill, cewch chwi ddarfod ymaith a diflannu, caiff eich eiddo ei ddinystrio, caiff eich dâ ei gippio oddi arnoch, a'ch holl ogoniant a'ch cyfoeth a gollir; a chwi a geisiwch mewn tristyd ac ocheneidiau yr hyn, pan oedd gennych, a allasech eich hunain ei fwynhâu mewn heddwch, a'i gyfrannu hefyd yn dduwiolfryd i eraill, ie, chwi a'i ceisiwch ac ni's cewch.—— Am eich annhrugarowgrwydd chwi tu ag at eraill, ni chewch neb rhyw ddyn a ddengys drugaredd i chwithau. Chwychwi, y rhai y bu gennych galonnau cerrig tu ag at eraill, a ganfyddwch holl greaduriaid Duw tu ag attoch chwithau cyn galetted a phres a haiarn.

Ow! pa wallgofrwydd a gorphwylldra sy wedi meddiannu ein meddyliau, fel mewn matter o wirionedd a sicrwydd na chredwn i'r gwirionedd ag sy 'n dwyn tystiolaeth i'r peth sicraf a all fod! Dywed Crist, os *ceisiwn ni yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef*, na's gadewir ni mewn eisiau, ond y *rhoddir i ni bob peth yn ychwaneg* ag y bo arnom ddiffyg am danynt.[1] "Nag ê," meddwn ninnau; "mi a edrychaf yn gyntaf ar fod i mi allu byw fy hun, a bod yn sicr fod gennyf ddigon i mi a'r eiddof; ac o bydd gennyf ddim dros ben hynny, mi a'i rhoddaf er mwyn ennill ffafr Duw, ac yna fe gaiff y tlodion gyfran gyd â mi."

Edrychwch, attolwg, mor wrthgas yw barn dyn: mae arnom fwy o ofal i borthi 'r corphyn, nag o ofn gweled colli ein heneidiau. Ac fel y dywed Cyprian, tra 'r ydym yn ammeu rhag i'n golud ballu wrth i ni fod yn rhy haelion, yr ydym yn ei wneuthur yn beth diammeu fod ein bywyd a'n hiechyd yn pallu wrth i ni *beidio* â bod yn haelion.

Wrth ofalu rhag treulio ein heiddo, nid ydym yn gofalu dim oll rhag ein treulio ein hunain. Yr ydym yn caru Mammon, ac yn colli ein heneidiau. Mae arnom ofn rhag i'n treftadaeth golli oddi wrthym, ond nid oes dim ofn arnom rhag i ni ein hunain fod yn golledig *o herwydd* ein treftadaeth. Fel hyn yr ydym yn anhydyn yn caru 'r hyn a ddylem ei gasâu, ac yn casâu yr hyn a ddylem ei garu. Yr ydym yn esgeulus lle dylem fod yn ofalus, ac yn ofalus lle nad yw raid i ni.

Mae 'r ofn ofer hwn rhag bod ein hunain mewn eisiau, os rhoddwn i'r tlodion, yn gyffelyb iawn i ofn plant a ffyliaid, y rhai pan welant wydr yn disgleirio 'n loyw, a dybygant yn y man mai mellten yw, ac etto ni bu disgleiriad gwydr erioed yn fellten. Felly ninnau wrth feddwl y dichon dyn ddyfod i dlodi wrth wario ar y tlawd, ydym dan effeithiau ofn ofer:

[1] St. Mat. 6. 33.

o herwydd ni chlywsom ac ni wybuom erioed ddyfod neb rhyw ddyn i gyfyngder wrth wneuthur felly, na chael ei adael yn amddifad ac yn ddigynhorthwy gan Dduw.—— Na, yr ydym yn darllen i'r gwrthwyneb yn yr Ysgrythyr, (fel y dangoswyd eisoes, ac fel y gellir profi trwy dystiolaethau ac esamplau aneirif;) am bwy bynnag a wasanaetho Dduw yn ffyddlon a diragrith mewn un rhyw o alwedigaeth, na 's gedy Duw ef i waethygu, llai o lawer i fod yn golledig:——

Fe 'n dysg yr Yspryd Glân ni trwy Solomon, *na edy yr Arglwydd i enaid y cyfiawn newynu.*[1]

Ac fe ddywed Dafydd wrth bawb sy 'n drugarog, *Ofnwch yr Arglwydd, ei saint ef; canys nid oes eisiau ar y rhai a'i hofnant ef: y mae eisiau a newyn ar y llewod ieuaingc; ond y sawl a geisiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eisiau dim daioni.*[2]

Pan oedd Elias yn y diffeithwch, fe 'i porthodd Duw ef trwy weinidogaeth cigfrain, y rhai a ddygent iddo luniaeth yn ddigonol hwyr a boreu.

Pan gauwyd Daniel yn ffau 'r llewod, darparodd Duw fwyd iddo, ac a'i danfonodd ef iddo yno: ac yno cyflawnwyd geiriau Dafydd; *mae eisiau a newyn ar y llewod ieuaingc; ond y sawl a geisiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eisiau dim daioni:* canys tra 'r oedd y llewod, y rhai yr oeddid ar fedr eu porthi â'i gnawd ef, yn rhuo gan newyn ac awydd i'w hysglyfaeth, ar yr hwn nid oedd ganddynt allu, er ei fod yn bresennol o'u blaen hwy, etto porthwyd Daniel gan Dduw, yr hwn yr oeddid ar fedr bod i'w gnawd ef borthi 'r llewod.

Mor alluog y mae Duw 'n gweithio i gadw ac i gynnal y rhai y byddo Efe yn eu caru! Mor ofalus yw Efe i borthi y sawl a'i gwasanaethant ef yn ddiffuant mewn un rhyw gyflwr neu alwedigaeth! Ac a dybygwn ni yn awr yr anghofia Efe ni, os byddwn ufudd i'w Air Ef, a thosturio yn ol ei ewyllys Ef wrth y tlawd?—— Mae Efe 'n rhoi i ni oll gyfoeth cyn gwneuthur o honom ddim gwasanaeth iddo am dano: ac a edy Efe ni mewn diffyg o bethau angenrheidiol, pan fyddom yn gwneuthur cywir wasanaeth iddo? A ddichon neb feddwl y gall yr hwn sy'n porthi Crist, gael ei adael gan Grist yn ddïymborth? Neu a naccâ Crist bethau *daearol* i'r rhai y mae Efe wedi addaw pethau *nefol* am ei wasanaethu 'n gywir?

Ni's dichon fod gan hynny, fy ngharedigion frodyr, y bydd arnom un amser eisiau ein hunain wrth roddi elusen; neu y gwesgir ni ein hunain gan dlodi, a ninnau 'n gweinyddu i gyfreidiau dynion eraill. Mae hynny yn groes i air Duw, mae 'n taro yn erbyn ei addewid Ef, mae 'n

[1] Diar. 10. 3. [2] Ps. 34. 9.

wrthwyneb i natur a phrïodoliaethau Crist ei oddef, a dichell gyfrwys y Diafol yw ceisio ein perswadio ni i gredu hynny.

Gan hynny na phetruswn roi elusen yn rhwydd; a hyderwn er hynny y gweinydda daioni Duw i ni ddigonoldeb a helaethrwydd tra byddom byw yn y fuchedd drangcedig hon: ac ar ol treulio ein dyddiau yn dda yma yn ei wasanaethu Ef ac yn caru ein brodyr, cawn ein coroni â gogoniant tragywyddol i deyrnasu gyd â Christ ein Hiachawdwr yn y nef: I'r Hwn gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

# HOMILI NEU BREGETH

## AR Y NADOLIG,

### NEU ENEDIGAETH EIN HIACHAWDWR IESU GRIST.

YM mhlith yr holl greaduriaid a wnaeth Duw yn nechreuad y byd yn dra godidog a rhyfeddol yn eu rhywogaethau, nid oedd yr un, fel y tystiolaetha 'r Ysgrythyr, i'w gyffelybu i ddyn mewn odid un peth, yr hwn yn gystal yn ei gorph ag yn ei enaid oedd yn rhagori ar y lleill i gyd, yn gymmaint ag y mae 'r haul mewn disgleirdeb a llewyrch yn rhagori ar bob seren fechan yn y ffurfafen. Efe a wnaethpwyd ar lun a delw Duw; cynnysgaeddwyd ef â phob rhyw ddoniau nefol; nid oedd un brycheuyn o aflendid ynddo; yr oedd yn iach ac yn berffaith yn ei holl rannau oddi allan ac oddi mewn; yr oedd ei reswm yn anllygredig; yr oedd ei ddeall yn bur ac yn dda; yr oedd ei ewyllys yn ufudd a duwiol; efe a wnaethpwyd yn hollol yn gyffelyb i Dduw mewn cyfiawnder, mewn sancteiddrwydd, mewn doethineb, mewn gwirionedd, ac i fod yn fyr, mewn pob math o berffeithrwydd.

Wedi ei greu a'i wneuthur ef fel hyn, fe ddewisodd yr Hollalluog Dduw (fel arwydd o'i fawr gariad tu ag atto) le hyspysol o'r ddaear iddo, Paradwys wrth ei henw, lle yr oedd efe yn byw mewn llonyddwch a hyfrydwch, a chanddo helaethrwydd mawr o olud bydol, ac heb arno ddiffyg o ddim ag a allai yn gyfion ei ddymuno neu chwennych ei gael:

canys, fel y dywedir, *Gwnaeth Duw iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd ei ddwylaw; gosododd bob peth dan ei draed ef: defaid ac ychen oll, ac anifeiliaid y maes hefyd; ehediaid y nefoedd a physgod y môr,*[1] i'w defnyddio bob amser wrth ei ewyllys, yn ol fel y byddai raid iddo wrthynt.

Onid oedd hyn yn ddrych o berffeithrwydd? Onid oedd hwn yn gyflwr perffeith-gwbl a bendigedig? A allesid yn hawdd ychwanegu dim arall at hyn, neu ddymuno mwy dedwyddwch yn y byd hwn?

Ond fel mai naws a naturiaeth gyffredin pob dyn yn amser llwyddiant a hawddfyd ydyw ebargofi, nid yn unig eu hunain, ond Duw hefyd; felly y dyn cyntaf hwn Adda, er na roisai Duw iddo ond un gorchymyn, sef na byddai iddo fwytta o ffrwyth y pren gwybodaeth da a drwg, a dorrodd y gorchymyn hwnnw yn anfeddylgar, neu 'n hytrach yn hollol fwriadol, gan ollwng dros gof orchymyn caeth ei Wneuthurwr, a rhoddi clust i hudoliaeth ddichellgar y sarph felldigaid honno, y Diafol.

O hyn y digwyddodd, fel megis yr oedd efe o'r blaen yn fendigedig, felly yr aeth yn awr yn felldigaid: fel yr oedd efe o'r blaen yn wrthrych serch, felly efe a aeth yn awr yn wrthrych atgasrwydd: fel yr oedd o'r blaen yn brydferth ac yn werthfawr odiaeth, felly efe a aeth yn awr yn wael a dirmygus i'r eithaf yngolwg ei Ior a'i Wneuthurwr: yn lle bod ar ddelw Duw, efe a aeth yn awr ar lun y Diafol: yn lle bod yn ddinesydd nef, aeth yn gaethwas uffern; heb fod gantho ynddo ei hun ddim un mymryn o'i burdeb a'i lendid blaenorol, ond wedi ei frychu a'i anurddo 'n gwbl oll, fel nad oedd yn awr yn ddim ond telpyn o bechod; ac am hynny condemniwyd ef gan gyfiawn farn Duw i farwolaeth dragywyddol.

Pe buasai y bla ddirfawr a gresynus hon yn gorphwys ar Adda yn unig, yr hwn a droseddodd gyntaf, hi a fuasai lawer esmwythach, a gallesid yn haws ei dïoddef. Ond hi a syrthiodd nid yn unig arno ef, ond ar ei holl eppil a'i blant hefyd ar ei ol dros fyth, fel y dygai holl hiliogaeth cnawd Adda yr unrhyw gwymp a chospedigaeth ag a haeddasai eu cyndad yn gyfiawnaf am ei gamwedd. *Felly gan hynny*, ebe St. Paul yn y bummed bennod at y Rhufeiniaid, *trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad:* ac hefyd, *Trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid.*[2]—— Wrth yr hyn eiriau y'n dysgir, mai fel y pechodd pob dyn yn gyffredinol yn Adda, felly hefyd yn Adda y derbyniodd pob dyn yn gyffredinol gyflog pechod; hynny yw, aethant yn farwol ac yn ddarostyngedig i angau, heb ganddynt ddim ynddynt eu hunain ond damnedigaeth corph ac enaid. *Ymlygrasant*, fel y

[1] Ps. 8. 6—8. [2] Rhuf. 5. 18, 19.

dywed Dafydd, *ffieiddwaith a wnaethant; ciliodd pawb; nid oes a wnel ddaioni, nac oes un.*[1]

Oh! pa gyflwr o wae truenus oedd hwn, fod i bechod *un* dyn ddinystrio a chondemnio *pob* dyn, fel nas gellid disgwyl am ddim yn yr holl fyd ond gloesau marwolaeth ac arteithiau uffern! A fuasai ryfeddod yn y byd pe gyrrasid dyn i anobeithio 'n hollol, ac yntau wedi cwympo fel hyn o fywyd i farwolaeth, o iachawdwriaeth i ddistryw, o'r nefoedd i uffern!

Ond gwelwch ddirfawr ddaioni Duw a'i dirion drugaredd ar ei ran ef! Er fod drygioni dyn a'i ymddygiad pechadurus yn gyfryw ag nad oedd yn haeddu dim maddeuant, etto rhag ei fod yn llwyr noeth o bob gobaith a chysur erbyn yr amser a ddeuai, Efe a ordeiniodd Gyfammod Newydd, ac a wnaeth Addewid Sicr am dano, sef y danfonai Efe y Messïah yn Gyfryngwr i'r byd, i wneuthur eiriolaeth, ac i osod ei hun yn Ddyddiwr rhwng y ddwyblaid, i heddychu llid a digofaint Duw yn erbyn pechod, ac i waredu dyn allan o'r felldith druenus a'r trueni melldigedig ag y cwympasai efe'n bendramwnwgl iddo, trwy anufudd-dod i ewyllys a gorchymyn ei unig Ior a'i Wneuthurwr.

Y Cyfammod a'r Addewid hwn a wnaed yn gyntaf i Adda ei hun, yn ebrwydd ar ol ei gwymp, fel y darllenwn yn y drydedd o Genesis, lle y dywedodd Duw fel hyn wrth y Sarph: *Gelyniaeth a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau: efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef.*[2]

Ar ol hyn fe adnewyddwyd y Cyfammod hwn yn helaethach ac yn oleuach i Abraham, pan addawodd Duw iddo *y bendithid holl deuluoedd a chenhedloedd y ddaear yn ei had ef.*[3]

A pharhawyd a chadarnhawyd ef drachefn i Isaac yn yr unrhyw ffurf o eiriau ag y gwnelsid o'r blaen i'w dad ef.

Ac er mwyn na byddai i ddynol ryw anobeithio, ond byw yn wastad mewn gobaith, ni pheidiodd yr Hollalluog Dduw â chyhoeddi, ailadrodd, cadarnhâu, a pharhâu yr un Cyfammod trwy amrywiol dystiolaethau ei Brophwydi, y rhai, er gwell sicrhâd o'r peth, a brophwydasant am amser, lle, ac amgylchiadau ei Enedigaeth, am flinderau ei fywyd, am ddull ei farwolaeth, am ogoniant ei Adgyfodiad, am dderbyniad ei deyrnas, am waredigaeth ei bobl, ynghyd â'r holl amgylchiadau eraill a berthynant i'r unrhyw.

Prophwydodd Esay *y genid Ef o forwyn, ac y gelwid Ef Immanuel.*[4]
Prophwydodd Micah *y genid Ef yn Bethlehem Judah.*[5]

[1] Ps. 14. 1, 3. [2] Gen. 3. 15. [3] Gen. 12. 3. a 22. 18. [4] Esay 7. 14. [5] Mic. 5. 2.

Prophwydodd Ezeciel *y deuai o lwyth a hiliogaeth Dafydd.*[1]

Prophwydodd Daniel *y byddai i'r holl bobloedd, cenhedloedd, ac ieithoedd ei wasanaethu Ef.*[2]

Prophwydodd Zechariah *y deuai Efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth ar asyn.*[3]

Prophwydodd Malachi *yr anfonai Efe Elias y Prophwyd* o'i flaen, yr hwn oedd Ioan Fedyddiwr.[4]

Prophwydodd Jeremiah *y gwerthid Ef am ddeg ar hugain o arian.*[5]

A hyn oll a wnaethpwyd fel y credid ac y coelid yn gyflawn yr Addewid a'r Cyfammod a wnaethai Duw i Abraham ynghylch prynedigaeth y byd.

Yn awr, *pan ddaeth cyflawnder yr amser,* (fel y dywed St. Paul) hynny yw, cwblhâd a chylch y blynyddoedd a ordeiniasid o'r dechreuad, yna Duw, yn ol ei Gyfammod a'i Addewid o'r blaen, a ddanfonodd Fessïah, neu Gyfryngwr, i'r byd; nid y cyfryw ag oedd Josua, Saul, neu Dafydd, ond un ag a waredai ddynol ryw oddi wrth chwerw felldith y ddeddf, ac a wnai iawn perffaith trwy ei angau dros bechodau yr holl bobl: hynny yw, Efe a ddanfonodd ei anwyl a'i unig Fab Iesu Grist, *wedi ei wneuthur o wraig,* fel y dywed yr Apostol, *wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.*[6]

Onid oedd hyn yn gariad mawr a rhyfedd tu ag attom ni, y rhai oeddym elynion cyhoeddus a phroffesedig iddo; tu ag attom ni, y rhai *oeddym wrth naturiaeth yn blant digofaint,*[7] ac yn bentewynion uffern.——

*Yn hyn,* ebe St. Ioan, *yr eglurwyd cariad Duw tu ag attom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo Ef. Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo Ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau.*[8]

St. Paul yntau a ddywed, *Crist, pan oeddym ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol. Oblegid braidd y bydd neb farw dros un cyfiawn; oblegid dros y da ysgatfydd fe feiddiai un farw hefyd. Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tu ag attom ni; oblegid, a nyni etto'n bechaduriaid, i Grist farw trosom ni.*[9]

Y gyffelybiaeth hon a'r cyfryw y mae'r Apostol yn eu defnyddio, i fawrygu ac i osod allan dirion drugaredd a mawr ddaioni Duw tu ag at ddyn, trwy ddanfon Ceidwad o'r nef, *yr hwn yw Crist yr Arglwydd.*[10] Yr hon ddawn, ym mhlith doniau eraill, sy mor fawr a rhyfeddol, na

[1] Esec. 34. 24. a 37. 24. [2] Dan. 7. 14. [3] Zec. 9. 9. [4] Mal. 4. 5. [illegible] 13. [6] Gal. 3. 13. [7] Ephes. 2. 3. [8] 1 St. Ioan 4. 9, 10. [illegible]. [10] St. Luc 2. 11.

ddichon tafod ei thraethu, na chalon ei hamgyffred, llai o lawer y gellir rhoi cwbl ddïolch i Dduw am dani.

Ond yma y mae dadl fawr rhyngom ni a'r Iuddewon; sef pa un ai'r Iesu hwnnw, a aned o'r Forwyn Fair, yw 'r gwir Fessïah a gwir Geidwad y byd, a addawyd ac a brophwydwyd am dano er ys cyhyd o amser o'r blaen, ai nad ê.

Hwynt-hwy, fel y maent ac y buont erioed yn feilchion ac ystyfnig, ni fynnant gydnabod mo hono hyd y dydd heddyw, ond edrych a llygadrythu am un arall i ddyfod:—

Mae ganthynt y dychymmyg ofer hwn yn eu pennau, y daw y Messïah, nid fel y daeth Crist, fel pererin tlawd a dyn llariaidd yn marchogaeth ar asyn; ond fel brenhin dewr a galluog, mewn rhwysg ac anrhydedd mawr; nid fel y daeth Crist, gyd âg ychydig bysgottwŷr a dynion digyfrif gan y byd; ond gyd â llu mawr o wŷr cedyrn, a chwmpeini lliosog o ddoethion a phendefigion, megis Marchogion, Arglwyddi, Ieirll, Dugiaid, Tywysogion, a'r cyfryw.——Ac nid ydynt yn tybied y bydd i'w Messïah hwy oddef angau dirmygus, fel y gwnaeth Crist; ond y bydd iddo orchfygu 'n ddewr a goresgyn yn wrol ei holl elynion, ac ennill o'r diwedd y fath deyrnas ar y ddaear na welwyd erioed ei chyffelyb.——Tra maent yn ffugio iddynt eu hunain Fessïah fel hyn o'u synwyr eu hunain, maent yn eu twyllo eu hunain, ac yn cyfrif Crist yn adyn a dirmyg y byd. Gan hynny mae *Crist wedi ei groeshoelio*, ebe St. Paul, *i'r Iuddewon yn dramgwydd;*[1] am eu bod yn cyfrif yn beth anghyson, a chroes i bob rheswm, y trinid Prynwr a Gwaredwr yr holl fyd fel y triniwyd Crist, sef cael ei watwar, ei ddifenwi, ei fflangellu, ei gondemnio, ac yn ddiweddaf oll, ei groeshoelio 'n greulon.—— Yr oedd hyn, meddaf, yn ymddangos iddynt hwy yn beth dïeithr a hollol ddireswm; am hynny ni chydnabyddent y pryd hwnnw, ac ni fynnant gydnabod etto, mai Crist yw eu Messïah a'u Ceidwad hwy.

Ond rhaid i ni, anwyl garedigion, y rhai ydym yn gobeithio ac yn disgwyl bod yn gadwedig, gredu 'n ddïymmod a chyffesu 'n hyderus, mai 'r Iesu Hwnnw a aned o'r Forwyn Fair, yw 'r gwir Fessïah a'r Cyfryngwr rhwng Duw a dyn, yr hwn oedd wedi cael ei addaw a'i ddarogan gyhyd o amser o'r blaen. Oblegid fel yr ysgrifena 'r Apostol, *A'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth.* Trachefn yn yr un lle; *Pwy bynnag sydd yn credu ynddo Ef, ni chywilyddir.*[2] Ac â hyn y cyttuna tystiolaeth St. Ioan yn y bedwaredd bennod o'i Epistol cyffredinol cyntaf; *Pwy bynnag a gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo Ef, ac yntau yn Nuw.*[3]

[1] 1 Cor. 1. 23. [2] Rhuf. 10. 10, 11. [3] 1 St. Ioan 4. 15.

Nid oes ammeu nad yw pob Cristion yn gwbl sicr o wirionedd y pwngc hwn. Etto nid llafur ofer fydd i mi eich addysgu a'ch arfogi âg ychydig leoedd o'r Ysgrythyr ynghylch y matter yma, fel y galloch attal genau cableddus pawb oll ag a geisiont yn Iuddeweiddiaf, neu 'n hytrach yn ddiefliccaf, ddysgu neu ddal yn amgen.

Yn gyntaf, Mae gennych dystiolaeth yr Angel Gabriel, a fynegwyd i'r Archoffeiriad Zacharias, ac hefyd i'r Wynfydedig Forwyn.

Yn ail, Mae gennych dystiolaeth Ioan Fedyddiwr, yn dangos Crist â'i fys, ac yn dywedyd, *Wele Oen Duw, yr Hwn sy 'n tynnu ymaith bechodau 'r byd.*[1]

Yn drydydd, Mae gennych dystiolaeth Duw Dad, yr Hwn a daranodd o'r nef, ac a ddywedodd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr Hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno Ef.*[2]

Yn bedwerydd, Mae gennych dystiolaeth yr Yspryd Glân, yr Hwn a ddaeth o'r nef yn rhith colommen, ac a ddisgynodd arno yn amser ei Fedydd.

At y tystiolaethau hyn gellid anghwanegu llawer eraill; megis tystiolaeth y doethion a ddaethant at Herod, tystiolaeth Simeon ac Anna, tystiolaeth Andreas a Philip, Nathanael a Phetr, Nicodemus a Martha, ac amryw yn ychwaneg. Ond byddai ry faith adrodd y cwbl; ac y mae ychydig o leoedd yn ddigon ar fatter mor oleu, yn enwedig i'r rhai sydd yn ei gredu eisoes.

Am hynny os bydd i genawon cyfrinach Anghrist a gweinidogion cyfrwys-ddrwg y Fall, geisio neu gynnyg eich tynnu oddiwrth y Gwir Fessiah Hwn, a'ch perswadio i edrych am un arall etto i ddyfod, na edwch iddynt er dim eich hudo, ond ymgadarnhêwch â'r tystiolaethau hyn a rhai cyffelyb o'r Ysgrythyr Lân, y rhai ydynt mor sicr a dilys ag na ddichon holl gythreuliaid uffern byth bythol mo'u gwrthsefyll. Oblegid cyn wired ag mai byw Duw, mor wir a hynny ydyw mai Iesu Grist yw 'r Gwir Fessiah ac Iachawdwr y byd, sef yr un Iesu ag a aned ar gyfenw i'r dydd heddyw o'r Forwyn Fair, heb help neb rhyw ddyn, ond yn unig trwy nerth a gweithrediad yr Yspryd Glân.

Ac am fod llawer ac amryw heresiau wedi cyfodi yn ein dyddiau ni trwy gynhyrfiad a hudoliaeth Satan ynghylch ei NATUR a'i sylwedd Ef, fe fydd yn angenrheidiol a buddiol er eich adeiladaeth ddywedyd gair neu ddau am y pwngc hwn hefyd.

Fe 'n dysgir yn amlwg yn yr Ysgrythyr, fod ein Harglwydd a'n Ceidwad Crist yn gynnwysedig o ddwy natur wahanredol; sef ei Ddyndod, trwy yr hon y mae Efe yn Ddyn perffaith; a'i Dduwdod, drwy yr hon y [illegible]w perffaith.

[1] St. Ioan I. 29. [2] St. Mat. 17. 5.

Y mae yn ysgrifenedig fel hyn:——

*Y Gair*, hynny yw, yr Ail Berson yn y Drindod, *a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni.*[1]

*Yr hyn ni allai'r ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy'r cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus.*[2]

*Crist, ac Efe yn ffurf Duw, a'i dibrisiodd ei Hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion, a'i gael mewn dull fel dyn.*[3]

*Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Yspryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r Cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant.*[4]

Ac mewn man arall; *Un Duw sydd ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.*[5]

Mae'r lleoedd hyn yn eglur yn profi ac yn mynegi y Ddwy Natur, wedi eu cyfuno a'u cyssylltu ynghyd yn un Crist.

Ystyriwn hefyd a phwyswn yn ddyfal y *gweithredoedd* a wnaeth Efe pan oedd yn byw ar y ddaear, ac ni a allwn ddeall wrth y rhai hynny hefyd fod hyn yn wirionedd.

Yn gymmaint ag iddo newynu a sychedu, bwytta ac yfed, cysgu a gwylied, pregethu ei Efengyl i'r bobl, wylo a thristâu dros Jerusalem, talu teyrnged drosto ei Hun a Phetr, marw a dioddef angau; pa beth arall a ddangosodd Efe wrth wneuthur hyn, ond yn unig ei fod Ef yn Ddyn perffaith fel ninnau? Am ba achos gelwir Ef yn yr Ysgrythyr weithiau yn *Fab Dafydd*, weithiau yn *Fab y dyn*, weithiau yn *Fab Mair*, ac weithiau yn *Fab Joseph.*

Ond yn gymmaint ag iddo faddeu pechodau, gwneuthur gwyrthiau, bwrw allan gythreuliaid, iachâu dynion â'i air yn unig, gwybod meddyliau 'r galon, tawelu 'r moroedd â'i orchymyn, rhodio ar y dyfroedd, cyfodi o angau i fywyd, esgyn i'r nef, a chyfryw bethau eraill; pa beth a ddangosodd Efe wrth wneuthur y pethau hyn, ond yn unig ei fod yn berffaith Dduw, cyfartal a'r Tad o ran ei Dduwdod?—— Oblegid hyn Efe a ddywed, *Myfi a'r Tad un ydym;*[6] yr hyn sydd i'w ddeall am ei *Dduwdod:* canys o ran ei *Ddyndod* efe a ddywed, *Y mae fy Nhad yn fwy na myfi.*[7]

Pa le bellach y mae y Marcioniaid hynny, y rhai sy 'n gwadu geni Crist yn y cnawd, a'i fod yn berffaith ddyn?—— Pa le bellach y mae yr Ariaid hynny, y rhai sy 'n gwadu bod Crist yn berffaith Dduw, o'r un sylwedd â'r Tad? Od oes neb o'r cyfryw, gallwn yn hawdd eu

[1] St. Ioan 1. 14. [2] Rhuf. 8. 3, 4. [3] Phil. 2. 6, 7, 8. [4] 1 Tim. 3. 16. [5] 1 Tim. 2. 5. [6] St. Ioan 10. 30. [7] St. Ioan 14. 28.

hargyhoeddi â'r tystiolaethau hyn a'r cyffelyb o air Duw, i ba rai y mae 'n ddilys gennyf na 's gallant byth atteb:—

Oblegid yr oedd ein hiachawdwriaeth yn gofyn o angenrheidrwydd fod i ni gael y fath Gyfryngwr a Cheidwad ag a fyddai gyfrannog o'r Ddwy Natur mewn un Person. Yr oedd yn anghenraid iddo fod yn DDYN; yr oedd yn anghenraid hefyd iddo fod yn DDUW.

Ac fel mai trwy ddyn y daeth y camwedd, felly gweddus oedd mai gan Ddyn y gwneid Iawn. Ac am mai *cyflog pechod yw marwolaeth,*[1] fel y dywed St. Paul, gan hynny i linaru digofaint Duw, ac i foddloni ei gyfiawnder, cymmwys oedd i'n Cyfryngwr fod yn gyfryw un ag a allai gymmeryd arno ei Hun bechodau dynol ryw, a dïoddef marwolaeth yn gosp am danynt.

Hefyd Efe a ddaeth yn y cnawd, ac yn yr un cnawd a esgynodd i'r nef, i ddangos ac i dystiolaethu i ni y caiff yr holl ffyddloniaid a gredant yn ddisigl ynddo Ef, fyned yn yr un modd i'r unrhyw drigfan, lle y mae Efe, ein Rhagflaenor, wedi myned o'n blaen.

Yn ddiweddaf oll; Efe a wnaethpwyd yn Ddyn, fel y gallem ni trwy hynny dderbyn diddanwch mwy, yn gystal yn ein gweddïau ag yn ein hadfyd, pan ystyriom ynom ein hunain fod i ni Gyfryngwr yr Hwn sydd yn wir ddyn fel ni ein hunain, yr Hwn hefyd sy 'n cydymdeimlo â'n gwendidau, ac a demtiwyd yr un ffunud a ninnau.

O herwydd yr achosion hyn ac amryw eraill, yr oedd yn hollol angenrheidiol iddo ddyfod, fel y daeth, *yn y cnawd.*

Ond oblegid nad oes, ac na 's gall fod, gan un creadur, yn gymmaint ag mai *creadur yn unig* yw, allu i ddinystrio angau ac i roddi bywyd, i orthrechu uffern ac i bwrcasu 'r nef, i faddeu pechod ac i roddi cyfiawnder; rhaid oedd i'n Messïah ni, gwaith prïodol a swydd yr Hwn oedd gwneuthur y pethau hyn, fod nid yn unig yn gyfan-gwbl ac yn berffaith Ddyn, ond bod hefyd yn gyfan-gwbl ac yn berffaith Dduw, fel y gallai wneuthur Iawn mwy cyfan-gwbl a pherffaith dros ddynol ryw.—— Mae Duw yn dywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*[2] Wrth y geiriau hyn yr ydym yn deall ddarfod i Grist lonyddu a diffoddi llid ei Dad, nid am ei fod yn unig yn Fab y dyn, ond yn fwy o lawer am ei fod yn Fab Duw.

Fel hyn chwi a glywsoch ddangos allan o'r Ysgrythyrau mai Iesu Grist yw 'r gwir Fessïah ac Iachawdwr y byd—— a'i fod o ran Natur a Sylwedd yn berffaith Dduw a pherffaith Ddyn—— ac am ba achos yr oedd yn weddus iddo fod felly.

BELLACH, fel [illegible] feddylgarach a mwy ein dïolch i Dduw yn hyn, ystyr[illegible] galwn i gof y mawr amryw ddoniau a

[2] St. Mat. 3. 17.

dderbyniasom ni o Nadolig a Genedigaeth ein Messïah a'n Hiachawdwr Hwn.

Cyn dyfod Crist i'r byd, nid oedd holl ddynol ryw yn Adda yn ddim ond cenhedlaeth anwir a throfaus,—— premau pydron a llygredig,—— tir cerrigog yn llawn drain a mïeri,—— defaid colledig,—— meibion afradlon,—— gweision drwg ac anfuddiol,—— goruchwylwŷr anghyfiawn,—— gweithredwŷr anwiredd,—— hiliogaeth gwiberod,—— tywysogion deillion, yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau; mewn gair, nid oeddynt ddim amgen na phlant y golledigaeth, ac etifeddion tân uffern:——

I hyn y mae St. Paul yn dwyn tystiolaeth mewn llawer o fannau yn ei Epistolau, a Christ ei Hun hefyd mewn amryw leoedd o'i Efengyl.

Ond gwedi iddo Ef unwaith ddyfod i lawr o'r nef, a chymmeryd ein naturiaeth egwan arno, Efe a wnaeth gynnifer ag a'i derbynient Ef yn gywir, ac a gredent ei Air, yn brennau da ac yn dir da,—— yn ganghenau ffrwythlon,—— yn blanhigion hyfryd,—— yn blant y goleuni,—— yn ddinaswŷr y nef,—— yn ddefaid ei gorlan,—— yn aelodau o'i gorph,—— yn etifeddion ei deyrnas,—— yn wir gyfeillion a brodyr iddo ei Hun,—— yn fara peraidd a bywiol,—— yn etholedig a dewisol bobl Dduw.

Canys fel y dywed St. Petr yn ei Epistol cyntaf a'r ail bennod, *Efe a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd chwi. Canys yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau:* yr Hwn a'n gwnaeth yn *rhywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl brïodol i Dduw,*[1] gan iddo gael ei *draddodi dros ein pechodau, a chyfodi i'n cyfiawnhâu ni.*[2]

*Canys yr oeddym ninnau gynt,* ebe St. Paul wrth Titus, y drydedd bennod, *yn annoethion, yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd, gan fyw mewn drygioni a chynfigen, yn ddigasog, yn casâu ein gilydd.*

*Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr tu ag at ddyn,*

*Nid o weithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd Efe nyni, trwy olchiad yr ad-enedigaeth ac adnewyddiad yr Yspryd Glân;*

*Yr hwn a dywalltodd efe arnom ni yn helaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr:*

*Fel, wedi ein cyfiawnhâu trwy ei ras ef, y'n gwneid yn etifeddion yn ol gobaith bywyd tragywyddol,* trwy ffydd yn ei Waed Ef.[3]

[1] 1 St. Petr 2. 9, 24, 25. [2] Rhuf. 4. 25. [3] Tit. 3. 3—7.

Yn y lleoedd hyn a'r cyffelyb, gosodir ger bron ein llygaid, megis mewn drych, aml ras Duw yn Iesu Grist, yr hwn sy ryfeddach, am na ddaeth o ddim haeddiant o'r eiddom ni, ond yn unig o'i dyner drugaredd Ef, a hynny pan oeddym ni yn elynion atgas iddo.

Ond er mwyn i ni ddeall ac ystyried hyn yn well, edrychwn ar ddiben ei ddyfodiad; ac yna cawn weled pa fawrlles a budd a ddug ei Enedigaeth Ef i ni greaduriaid gwir bechadurus:——

Diben ei ddyfodiad oedd achub a gwared ei bobl,[1]—— Cyflawni 'r gyfraith drosom ni,[2]—— Dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd,[3]—— Dysgu a phregethu geiriau ei Dad,[4]—— Rhoddi goleuni i'r byd,[5]—— Galw pechaduriaid i edifeirwch,[6]—— Esmwythâu ar y rhai sy 'n flinderog a llwythog,[7]—— Bwrw allan dywysog y byd hwn,[8]—— Ein cymmodi ni ynghorph ei gnawd,[9]—— Dattod gweithredoedd y Diafol,[10]—— Ac i fod yn iawn dros ein pechodau ni; ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd.[11]

Dyna 'r prif ddibenion i Grist ddyfod yn ddyn; nid er mwyn dim lles a ddeuai iddo ei Hun o hynny, ond yn unig er ein mwyn ni; fel y gallem ddeall ewyllys Duw,—— bod yn gyfrannogion o'i oleuni nefol, —— cael ein gwared o gigweiniau'r Diafol,—— ein rhyddhâu oddiwrth faich ein pechodau,—— ein cyfiawnhâu trwy ffydd yn ei waed,—— a chael ein derbyn o'r diwedd i fynu i'r gogoniant tragywyddol, yno i deyrnasu gyd âg Ef dros byth bythoedd.

Onid oedd hyn yn gariad mawr odiaeth yng Nghrist at ddynion, fod iddo, ac yntau *yn wir lun person Duw*,[12] er hynny *ddibrisio ei hun, a chymmeryd arno agwedd gwas*,[13] a hynny 'n unig er mwyn ein hachub a'n prynu ni!

Oh! gymmaint o rwymedigaethau sydd arnom i ddaioni Duw yn hyn o ran! Pa faint o glod a diolch sy ddyledus arnom iddo am ein hiachawdwriaeth, yr hon a weithiwyd gan ei anwyl a'i unig Fab Crist! yr hwn a ddaeth yn Bererin ar y ddaear, i'n gwneuthur ni yn ddinasyddion nef;—— yr Hwn a ddaeth yn Fab y dyn, i'n gwneuthur ni yn feibion i Dduw:—— yr Hwn a ddaeth yn ufudd i'r ddeddf, i'n hachub ni oddi wrth felldith y ddeddf:—— yr Hwn a ddaeth yn dlawd, fel y cyfoethogid ni:—— yn wael, i'n gwneuthur ni yn werthfawr:—— yn ddarostyngedig i angau, fel y caffem ni fyw yn dragywydd.—— Pa gariad mwy a allem ni greadurinid gwael ei ddeisyf neu ei ddymuno ar law Duw!

[1] St. Mat. 1. 21. [2] St. Mat. 5. 17. [3] St. Ioan 18. 37. [4] St. Luc 4. 18, 19. [5] St. Ioan 8. 12. [6] St. Mat. 9. 13. [7] St. Mat. 11. 28. [8] St. Ioan 12. 31. [9] Col. 1. 21. [10] 1 St. Ioan 3. 8. [11] 1 St. Ioan 2. 2. [12] Heb. 1. 3. [13] Phil. 2. 7.

Gan hynny, frodyr caredig, nac anghofiwn odiaethol serch ein Ior a'n Ceidwad; na ddangoswn ein hunain yn ddifeddwl am dano nac anniolchgar iddo: ond carwn Ef, ofnwn Ef, a rhoddwn ufudd-dod a gwasanaeth iddo. Cyffeswn Ef â'n genau, molwn Ef â'n tafodau, credwn iddo â'n calonnau, a gogoneddwn Ef â'n gweithredoedd.—— Crist yw y Goleuni; derbyniwn y Goleuni. Crist yw 'r Gwirionedd; credwn y Gwirionedd. Crist yw 'r Ffordd; dilynwn y Ffordd.——Ac o herwydd mai Efe yw ein hunig Feistr, ein hunig Athraw, ein hunig Fugail, a'n hunig Gapten; byddwn ninnau iddo Ef yn weision, yn ysgolheigion, yn ddefaid, ac yn filwŷr:——

Ond tu ag at am bechod, y cnawd, y byd, a'r Diafol, gweision a chaethion y rhai oeddym cyn dyfodiad Crist; taflwn hwynt ymaith yn gwbl, a ffieiddiwn hwynt, fel pennaf ac unig elynion ein heneidiau.

A chan ddarfod i Grist unwaith ein gwared oddi wrth eu creulon ormes hwy, na chwympwn byth mwy i'w dwylaw, rhag digwydd i ni fod mewn gwaeth cyflwr nag o'r blaen. *Y neb a barhao hyd y diwedd*, ebe yr Ysgrythyr, *hwnnw a fydd cadwedig.*[1] *Bydd ffyddlon hyd angau*, ebe Duw, *a mi a roddaf i ti goron y bywyd.*[2] A thrachefn Efe a ddywed mewn lle arall, *Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymmwys i deyrnas Duw.*[3]

*Am hynny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymmod, a helaethion yngwaith yr Arglwydd.*[4] Derbyniwn Grist, nid tros amser, ond tros fyth:—— Credwn ei Air, nid tros amser, ond tros fyth:—— Deuwn yn weision iddo, nid dros amser, ond dros fyth; gan ystyried mai nid dros amser, ond dros fyth, y mae Efe wedi ein prynu a'n gwaredu ni; ac mai nid dros amser, ond dros fyth, y derbyn Efe ni i deyrnasu gyd âg Ef yn ei nefol deyrnas.

Iddo Ef gan hynny, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r anrhydedd, y parch, yr oruchafiaeth, y mawredd, y fendith, y mawl, y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant, byth bythoedd ac yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Marc 13. 13. [2] Dat. 2. 10. [3] St. Luc 9. 62. [4] 1 Cor. 15. 58.

# HOMILI

## AR DDYDD GWENER Y CROGLITH,

### YNGHYLCH ANGAU A DIODDEFAINT EIN HIACHAWDWR IESU GRIST.

NID gweddus i ni, fy nghaeredigion yn yr Arglwydd, a ninnau 'n bobl wedi ein hachub gan Grist oddi wrth y Diafol, oddi wrth bechod ac angau, ac oddi wrth ddamnedigaeth dragywyddol, ollwng yr amser yma heibio heb ddim myfyrdod na choffadwriaeth am ardderchog waith ein prynedigaeth a weithredwyd ar gyfenw i heddyw, trwy fawr drugaredd a chariadoldeb ein Ceidwad Iesu Grist, erom ni bechadur-iaid truain a'i elynion marwol Ef.

Oblegid o bydd gweithred marwol ddyn, yr hon a wneler er budd i'r wlad, mewn coffadwriaeth yn ein plith, ynghyd â dïolch am y dawn a'r gwelliant sy 'n deilliaw i ni oddi wrthi; pa faint parottach y dylem ddal mewn cof y ddawn a'r weithred ardderchog hon o Farwolaeth Crist? trwy yr hon y pwrcasodd Efe i ni ddïogel bardwn a maddeuant am ein pechodau, a thrwy yr hon y cymmododd Efe y Tad o'r nef â nyni yn y fath fodd ag y mae Efe yn awr yn ein cymmeryd yn blant anwyl iddo ei Hun, ac yn ein gwneuthur yn wir etifeddion gyd â Christ, ei Fab naturiol, o Deyrnas Nef.

Ac yn wir y mae tiriondeb Crist attom yn ymddangos yn fwy o lawer etto, yn gymmaint ag y bu wiw ganddo ymddïosg o'i holl anrhydedd dwyfol, yn yr hwn yr ydoedd yn ogyfartal â'i Dad nefol, a disgyn i'r dyffryn blinder hwn i gael ei wneuthur yn ddyn marwol, a bod ynghyf-lwr y gwas iselaf, i'n gwasanaethu ni er ein lles a'n buddioldeb; ein gwasanaethu *ni*, meddaf, y rhai oeddym elynion tynghedig iddo, wedi gwrthod ei lân gyfraith a'i orchymynion Ef, a dilyn trachwantau a hoff-derau pechadurus ein naturiaeth lygredig ein hunain.

Ac etto er hyn oll, meddaf, rhoes Crist Ef ei Hun rhwng haeddiannol ddigofaint ei Dad a'n pechodau ni, ac a ddileodd yr ysgrifen-law trwy 'r hon yr oeddym ni yn rhwymedig i Dduw, ac a dalodd ein dyled. Yr oedd ein dyled yn ormod o lawer i ni ei thalu; ac heb daledigaeth, ni 's

galleaid byth gymmodi Duw â ni; ac nid oedd modd ein rhyddhâu oddi wrth y ddyled hon trwy ein gallu ein hunain: Gan hynny Efe a deilyngodd ei thalu drosom, a'n rhyddhâu ni yn gwbl.

Pwy yn awr a ddichon ystyried trom ddyled pechod, yr hon ni ellid ei thalu yn amgen na thrwy farwolaeth un Diddrwg a Diniweid, ac ni chasâ bechod yn ei galon?

Os yw Duw yn casâu pechod gymmaint, fel na chymmerai na dyn nac Angel yn iawn am dano, na dim arall ond marwolaeth ei unig a'i anwyl Fab ei Hun, pwy sydd a'r ni's ofna bechod?

Od ystyriwn ni hyn, fy nghyfeillion, mai am ein pechodau *ni* y gyrrwyd yr Oen Diniweid Hwn i farw, bydd gennym lawer mwy o achos i alaru am mai ni oedd achos ei angau, nag i waeddi yn erbyn malais a chreulondeb yr Iuddewon am ei erlid i farwolaeth.—— Nyni a wnaethom y gweithredoedd a barasant iddo Ef gael ei daro a'i glwyfo felly: nid oedd yr Iuddewon ond gweinyddwŷr ein drygioni ni.

Gweddus iawn ynte yw i ni ddisgyn yn isel i'n calonnau, ac wylo am ein trueni a'n buchedd bechadurus. Gwybyddwn yn ddilys, os cospwyd ac os tarawyd anwyl Fab Duw fel hyn am y pechod na's gwnaethai Efe ei Hun, mai llawer trymmach y dylid ein taro *ni* am ein haml bechodau beunyddiol, y rhai yr ydym yn eu gwneuthur yn erbyn Duw, os na wnawn edifarhâu yn ddifrif a bod yn drist o'u herwydd!

Ni all neb fod yn ffafr Duw, a charu pechod, yr hwn y mae Duw yn ei gasâu gymmaint. Ni ddichon neb ddywedyd ei fod yn caru Crist yn gywir, a'i elyn mawr Ef, (sef pechod, awdwr ei angau Ef,) mewn cyfeillach a chymdeithas âg ef. Cymmaint ag yr ydym yn caru Duw a Christ, cymmaint a hynny yr ydym yn casâu pechod.

Ni a ddylem gan hynny fod yn ochelgar iawn rhag ffafrio pechod, rhag ein cael yn elynion i Dduw, ac yn fradwŷr Crist. Canys nid hwynt hwy yn unig, y rhai a hoeliasant Grist ar y Groes, ydyw ei arteithwŷr a'i groeshoelwŷr Ef; ond y mae yr holl rai hynny, medd St. Paul, *yn ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw*[1] hyd y mae ynddynt, ag sy'n gwneuthur drwg a phechod, y rhai a'i dygasant Ef i'w farwolaeth.

*Os cyflog pechod yw marwolaeth*,[2] a honno 'n farwolaeth dragywyddol, nid perygl bychan yw ei wasanaethu. *Os ydych yn byw yn ol y cnawd*, mae St. Paul yn bwgwth, nag ê, yr Hollalluog sy 'n bwgwth trwy St. Paul, mai *meirw fyddwch*.[3]

Ni's gallwn fyw i Dduw, ond yn unig trwy farw i bechod. Os yw Crist ynom, yna mae pechod yn farw ynom. *Ac os Yspryd yr hwn a*

[1] Heb. 6. 6. [2] Rhuf. 6. 23. [3] Rhuf. 8. 13.

*gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Grist o feirw a fywiocca hefyd eich cyrph marwol chwi* i adgyfodiad bywyd tragywyddol.[1] Ond os yw pechod yn teyrnasu ynom, yna y mae Duw, yr Hwn yw Ffynnon pob gras a rhinwedd, wedi ein gadael, ac y mae 'r Diafol a'i yspryd anraslon yn llywodraethu ac yn rheoli ynom.

Ac yn sicr, os yn y fath gyflwr gresynus y byddwn feirw, ni chawn gyfodi i fywyd, ond ni a gwympwn i angau a damnedigaeth, a hynny byth heb ddiwedd. Canys ni phrynodd Crist ni oddi wrth bechod, fel y gallem yn ddiberygl droi atto eilchwyl; ond Efe a'n gwaredodd fel y gallem ymwrthod â gwyniau pechod, a byw i gyfiawnder.

Ië, fe'n golchwyd yn ein Bedydd oddi wrth frynti pechod, fel y byddem byw o hynny allan mewn purdeb buchedd. Addawsom ym Medydd ymwrthod â Diafol a'i gynhyrfiadau, ac addunedasom fod, fel plant ufudd, yn dilyn bob amser fodd ac ewyllys Duw.

Os Efe yn wir ynte yw ein Tad ni, rhown iddo ei ddyledus anrhydedd. Os plant iddo Ef ydym, dangoswn iddo ein hufudd-dod, fel y dangosodd Crist ei ufudd-dod i'w Dad; *yr hwn*, fel yr ysgrifena St. Paul, *a fu yn ufudd hyd angau, ïe, angau'r Groes.*[2]

A hyn a wnaeth Efe drosom ni oll ag sy 'n credu ynddo. Nid o'i ran ei Hun y cospwyd Ef; canys yr oedd Efe yn bur ac yn ddihalog oddi wrth bob math o bechod. *Efe a archollwyd*, medd Esay, *am ein camweddau ni; Efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni:* Efe a ddygodd ei Hun y gosp am danynt, i'n hachub ni o berygl. *Efe a gymmerth ein gwendid ni*, medd Esay, *ac a ddug ein doluriau* ar ei Gorph ei Hun.[3] Ni wrthododd ddioddef un boen yn ei Gorph ei Hun, er mwyn ein gwaredu ni o boen dragywyddol.

Ei ewyllys da oedd gwneuthur fel hyn drosom, ac nid ein haeddiant ni. Am hynny po mwyaf y gwelom ein bod ni yn rhwymedig iddo, mwyaf yw y diolch a ddylai Yntau gael gennym; ie, a mwyaf y gobaith a allwn ei gael y cawn dderbyn pob daioni arall ar ei law Ef, yn gymmaint a derbyn o honom o'i haelioni Ef annhraethol ddawn ei anwyl Fab. *Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab*, ebe St. Paul, *ond a'i traddododd ef trosom ni oll, pa wedd gyd ag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?*[4] O bydd arnom eisiau dim, nac i'n cyrph nac i'n heneidiau, gallwn yn gyfreithlon ac yn hyderus nesâu at Dduw, fel ein Tad trugarog, i ofyn yr hyn yr ydym yn ei ddymuno, ac ni a gawn ei dderbyn. Canys rhoir y cyfryw *allu i fod yn feibion i Dduw*[5] i gynnifer oll ag sydd yn credu yn Enw Crist.

[1] Rhuf. 8. 11. [2] Phil. 2. 8. [3] Esay 53. 4, 5. [4] Rhuf. 8. 32.
[5] St. Ioan 1. 12.

*Os gofynnwch ddim yn fy enw i,* medd Crist, *mi a'i gwnaf.*[1] Oblegid y mae y Tad Hollalluog wedi cael ei foddloni cystal yng Nghrist ei Fab, fel er ei fwyn Ef y mae yn rhoi ei ffafr i ni, ac ni's naccâ ni o ddim oll. Mor hyfryd oedd aberth ac offrymmiadaeth angau ei Fab iddo, yr hwn a ddïoddefodd Efe mor ufuddgar ac mor ddiniweid, ag y cymmerth Efe ef yn unig a chwbl Iawn tros holl bechodau 'r byd.

A chyfryw ffafr a bwrcasodd Efe i ni trwy ei angau oddi ar law ei Dad nefol, fel trwy haeddedigaeth yr angau hwnnw (os ydym ni Gristionogion yn wir, ac nid mewn gair yn unig) yr ydym yn awr yn hollol eilwaith yngras Duw, a chwedi ein llwyr ryddhâu oddi wrth bechod.

Ni ddichon un tafod draethu teilyngdod marwolaeth mor werthfawr! canys ynddi hi y mae'n sefyll wastadol bardwn ein troseddau beunyddiol; ynddi hi y gorphwys ein cyfiawnhâd; ynddi hi y'n gwneir yn gymmeradwy; ac ynddi hi y pwrcaswyd tragywyddol iechyd ein heneidiau oll.Ië, nid oes dim arall a ellir ei enwi dan y nef i achub ein heneidiau, ond yn unig y gwaith hwn o aberthiad drud Corph Crist ar Allor y Groes.

Sicr yw na ddichon un weithred o eiddo dyn marwol, er sancteiddied a fyddo, gael fyth ei chwplysu, o ran haeddiant, â sancteiddiaf Weithred Crist. Oblegid yn ddïammeu, ni thalai ein meddyliau na 'n gweithredoedd ni ddim, heb eu cymmeradwyo yn haeddedigaethau marwolaeth Crist.

Mae ein holl gyfiawnder ni ym mhell oddi wrth berffeithrwydd, wrth ei gydmaru â chyfiawnder Crist; canys nid oedd dim o frychni pechod nac o'r ammherffeithrwydd lleiaf yn ei weithredoedd Ef: ac am yr achos hwn yr oeddynt yn alluoccach i wneud i fynu ddiffyg ein cyfiawnder ni, gan fod ein gweithredoedd yn llawn ammherffeithrwydd a gwendidau, ac am hyn yn eithaf anhaeddiannol i wneuthur Duw yn ffafriol i ni, llai o lawer i ymarddel o'r gogoniant sy ddyledus i weithred a haeddiant Crist. Canys *Nid i ni, O Arglwydd,* ebe Dafydd, *nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant.*[2]

Am hynny, fy nghyfeillion, gogoneddwn yn barchedig ei Enw Ef, mawrhâwn a chlodforwn Ef yn dragywydd: canys yn ol ei fawr drugaredd y gwnaeth Efe â ni, ac a bwrcasodd ei Hun ein gwaredigaeth. Ni thybiodd yn ddigon ei arbed ei Hun, ac anfon ei Angel i wneuthur hyn; ond mynnai ei wneuthur yn ei berson ei Hun, er mwyn ei wneuthur yn well ac yn berffeithiach prynedigaeth i ni. Ni chyffrôdd ei boenau annïoddefol ronyn arno, y rhai y bu danynt drwy hir ystod ei ddïoddefaint, i beri iddo edifarhâu gwneuthur lles i'w elynion; ond Efe a agorodd ei galon i ni, ac a'i rhoes ei Hun yn hollol i fod i ni yn brynedigaeth.

[1] St. Ioan 14. 14. [2] Ps. 115. 1.

Agorwn ninnau 'n awr ein calonnau iddo Yntau, a myfyriwn ar fod yn ein bucheddau yn ddïolchgar i'r fath Arglwydd, ac ar fod fyth yn feddylgar am gymmwynas gymmaint; ïe, cyfodwn ein croes gyd â Christ, a dilynwn Ef.

MAE ei Ddïoddefaint hefyd nid yn unig yn Iawn ac yn gwbl daliad dros ein pechod; ond y mae hefyd yn ESAMPL o'r berffeithiaf o bob amynedd a dïoddefgarwch. Oblegid os oedd *raid i Grist ddïoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant,*[1] paham na weddai ninnau ddïoddef yn amyneddgar ein croesau ysgafn o flinder a thrallod y byd hwn? *oblegid Crist a ddïoddefodd drosom ni,* medd St. Petr, *gan adael i ni esampl fel y canlynech ei ôl Ef.*[2] Ac *os ydym yn cyd-ddïoddef gyd âg Ef,* mae 'n ddilys *y 'n cyd-ogoneddir hefyd* gyd âg Ef yn y nefoedd: nid fod *dïoddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu â'r gogoniant a ddatguddir i ni,*[3] ond y dylem ni ddïoddef yn llawen, er mwyn bod yn debyg i Grist yn ein bywyd, fel trwy ein gweithredoedd ni y gogonedder ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd.

Ac er mai poenus ac anhyfryd yw dwyn croes Crist ynghofidiau a chystuddiau y fuchedd hon; etto *gwedi hynny y mae yn rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef.*

Nac edrychwn gymmaint ar y *boen,* ag ar y *wobr* a ddilyn ein llafur. Ië, ymdrechwn yn hytrach yn ein blinderau i ddioddef yn *ddiniweid a dïeuog* fel y gwnaeth ein Hachubwr Crist. Canys os am ein *haeddiant* yr ydym yn dïoddef, nid yw *amynedd yn cael ei pherffaith waith*[4] ynom: ond os heb ei haeddu yr ydym yn dïoddef colli ein meddiannau a'n bywyd, os er mwyn cariad Crist yr ydym yn goddef enllib a difenwad, *hyn sy rasol ger bron Duw:* canys felly y dïoddefodd Crist hefyd; *yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau: yr hwn pan ddifenwyd ni ddifenwodd drachefn; pan ddioddefodd ni fygythiodd: eithr rhoddodd ar y neb yn sydd yn barnu yn gyfiawn.*[5]

Nid yw "perffaith amynedd" yn gofalu pa beth, na pha faint a ddioddefo, na chan bwy, ynte cyfaill ynte gelyn; ond mae 'n myfyrio ar ddïoddef yn ddiniweid ac heb haeddu. Ië, mae 'r hwn sy gantho gariad perffaith, yn gofalu cyn lleied am ymddïal, fel y mae 'n hytrach yn myfyrio pa fodd i dalu da am ddrwg, *bendithio y sawl a'u melldithiant, a gweddïo dros y neb a'u herlidiant,*[6] yn ol esampl ein Ceidwad Crist; yr Hwn yw 'r cynllun perffeithiaf o bob llarieidd-dra a goddefgarwch: yr Hwn ag Yntau ynghrog ar y Groes yn yr ing llymmaf, yn gwaedu ym mhob man o'i Gorph bendigaid, ac wedi ei osod ynghanol ei elynion a'i

[1] St. Luc 24. 26. [2] 1 St. Petr 2. 21. [3] Rhuf. 8. 17, 18. [4] St. Iago 5. 4.
[5] 1 St. Petr 2. 20, 22, 23. [6] St. Mat. 5. 44.

groeshoelwŷr; ac er eu bod hwythau, er mor annhraethol y poenau yr oeddynt yn gweled ei fod ynddynt, yn ei watwar ac yn ei wawdio yn ddirmygus heb ddim ffafr na thosturi, etto yr oedd gantho Ef gymmaint tosturi yn ei galon attynt hwy, fel y gweddïodd drostynt ar ei Dad o'r nef, gan ddywedyd, *O Dad, maddeu iddynt; canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur.*[1]

Pa ddioddefgarwch hefyd a ddangosodd Efe, pan ddaeth un o'i Apostolion Ef ei Hun, i'r hwn yr ymddiriedasai, i'w fradychu Ef i'w elynion i farwolaeth! Ni ddywedodd wrtho ddim gwaeth na hyn, *Y cyfaill, i ba beth y daethost?*[2]

Fel hyn, bobl dda, y dylem alw i gof y mawr esamplau cariad a ddangosodd Crist yn ei ddïoddefaint, os cofiwn ei ddïoddefaint Ef yn ffrwythlawn:——

Cariad fel hyn a ddylai fod gennym at ein gilydd, os mynnwn fod yn wir weision i Grist. *Oblegid os cerwch y sawl a'ch caro, pa wobr sydd i chwi?* ebe Crist: *oni wna'r publicanod hefyd yr un peth?* Rhaid i ni fod yn berffeithiach yn ein cariad na hyn, *fel y mae ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith: canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.*[3]—— Fel hyn y dylem ninnau ddangos ein cariad yn ddiduedd, cystal i'r naill ag i'r llall, cystal i elyn ag i gyfaill, megis plant ufudd, yn ol esampl ein Tad o'r nef. Oblegid os bu Crist yn ufudd i'w Dad hyd angau, a hwnnw yr angau gwaradwyddusaf, sef angau 'r Groes, paham na byddwn ninnau ufudd i Dduw mewn pethau *llai* o gariad ac amynedd?

Maddeuwn ninnau gan hynny i'n cymmydogion eu beiau bychain hwy, fel y mae Duw er mwyn Crist wedi maddeu ein beiau mawrion ni. Nid gweddus yw i ni ymbil am faddeuant gan Dduw am ein camweddau mawrion ein hunain, a bod yn anewyllysgar i faddeu i'n cymmydogion eu beiau llai hwy yn ein herbyn ni. Yn ofer y galwn am drugaredd, os na ddangoswn ninnau drugaredd i'n cymmydogion. Canys oni fwriwn lid a sorriant at ein brawd yng Nghrist allan o'n calonnau, ni fwrw Duw chwaith mo 'i lid a'i sorriant Yntau ymaith, y rhai a haeddodd ein pechodau ger ei fron. Oblegid ar yr ammod hwn y mae Duw yn maddeu i ni, sef, os maddeuwn ninnau i eraill.

Nid gweddus i Gristionogion fod yn galed y naill wrth y llall, na thybied eu cymmydog yn annheilwng o faddeuant: oblegid er mor annheilwng fyddo, etto mae Crist yn deilwng wneuthur o honot hyn er ei fwyn Ef; Efe a haeddodd ar dy law, faddeu o honot i'th gymmydog. Ac y mae'n rhaid hefyd ufuddhâu i Dduw, yr hwn sy 'n gorchymyn i ni

[1] St. Luc 23. 34. [2] St. Mat. 26. 50. [3] St. Mat. 5. 45, 46, 48.

faddeu, os mynnwn gael dim cyfran o'r pardwn a bwrcasodd ein Ceidwad Crist unwaith gan Dduw Dad, trwy dywallt ei werthfawr Waed.

Nid oes dim mor weddaidd ar weision Crist a thrugaredd a thosturi. Am hynny byddwn gariadus at ein gilydd; *a gweddïwn dros ein gilydd, fel y'n hiachâer*[1] oddi wrth holl wendidau ein bywyd, er mwyn tramgwyddo llai y naill ar y llall, ac ar fod o honom o un meddwl ac o un yspryd, yn cyd-gyttuno mewn cariad brawdol ac undeb, fel anwyl blant i Dduw. Wrth wneuthur o honom hyn, fe dueddir Duw i fod yn drugarog wrth ein pechodau, ac fe fyddwn ninnau yn barottach felly i dderbyn ein Ceidwad a'n Gwneuthurwr yn ei Sacrament Bendigaid, i'n tragywyddol ddiddanwch ac er iechyd ein henaid.

Mae Crist yn hoffi myned i mewn a thrigo yn yr enaid lle bo cariad yn rheoli, a lle bo tangnefedd ac undeb i'w weled:——

Canys fel hyn y mae St. Ioan yn ysgrifenu; *Duw, cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau:——*

*Os carwn ni ein gilydd,* eb efe, *y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom.*

*Nyni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru 'r brodyr.*

*Eithr yr hwn sydd yn casâu ei frawd,* ebe'r un Apostol, *yn y tywyllwch y mae,*[2] sef mewn perygl o farwolaeth dragywyddol; ac y mae hefyd yn blentyn damnedigaeth a'r Diafol, yn felldigedig gan Dduw, ac yn gas gan Dduw (cyhyd ag yr arhoso felly) ac yn gas gan holl gwmpeini nef. O herwydd fel y mae tangnefedd a chariad yn ein gwneuthur yn fendigaid blant i'r Hollalluog Dduw, felly y mae casineb a chynfigen yn ein gwneuthur yn felldigaid blant i'r Diafol.

Duw a roddo i bawb o honom ras i ganlyn esamplau Crist mewn tangnefedd a chariad, mewn amynedd a dioddefgarwch, fel y gallom yn awr ei gael Ef i lettya ac i drigo ynom ni, fel y gallom fod mewn llawn sicrwydd, gan fod gennym y cyfryw wystl o'n hiachawdwriaeth. Os ydyw Ef a'i ffafr gennym, gallwn fod yn sicr fod ffafr Duw hefyd gennym trwyddo Ef. Oblegid y mae Efe yn eistedd ar ddeheulaw Duw ei Dad, fel ein Dadleuwr a'n Heiriolwr, yn dadleu trosom yn ein holl eisiau a'n hangenrheidiau.—— Gan hynny, o bydd arnom eisiau un rhodd o ddoethineb dduwiol, gallwn ei gofyn gan Dduw er mwyn Crist, ac ni a'i cawn hi.

Ystyriwn a holwn ein hunain pa ddiffyg sydd arnom o'r rhinwedd hon o gariad ac amynedd:——

[1] St. Iago 5. 16. [2] 1 St. Ioan 4. 16. a 4. 12. a 3. 14. a 2. 11.

Os gwelwn nad yw ein calonnau yn gogwyddo dim at hyn, trwy faddeu i'r rhai a wnaethant ddim i'n herbyn, yna cydnabyddwn ein diffyg, a dymunwn ar i Dduw ei gyflawni.

Ond os ydym heb y rhinwedd hon, ac heb weled ynom ein hunain ddim dymuniad am dani, yn wir yr ydym mewn cyflwr blin ger bron Duw, ac y mae achos i ni weddïo llawer yn daer ar Dduw, ar i ni gael cyfnewid y cyfryw galon, a chael impio un newydd yn ei lle:——

O herwydd oni faddeuwn ni i eraill, ni chawn ninnau byth faddeuant gan Dduw. Ië, ni all holl weddïau a haeddedigaethau rhai eraill heddychu Duw â ni, os na byddwn ni mewn heddwch a chyttundeb â'n cymmydogion. Ac ni all ein holl weithredoedd da ni dueddu Duw i faddeu y dyledion sydd arnom ni iddo Ef, oni faddeuwn ninnau eu dyledion i eraill.

Mae'n well ganddo Ef drugaredd nag aberth. Trugaredd a gynhyrfodd ein Hiachawdwr Crist i ddïoddef dros ei elynion; gweddus ynte yw i ninnau ganlyn ei esampl Ef. Canys ychydig a dâl i ni fyfyrio ar ffrwythau a gwerth ei ddïoddefaint, eu mawrhâu, ac ymhoffi ac ymddiried ynddynt, oni chofiwn ei esamplau yn ei ddïoddefaint, i'w dilyn hwynt.

Am hynny, os nyni fel hyn a ystyriwn farwolaeth Crist, a glynu mewn ffydd ddïogel wrth ei haeddiant a'i rhyglyddon hi, ac ymffurfio hefyd i'n rhoi ein hunain a chwbl ag sy gennym trwy gariad er lles i'n cymmydog, megis ag yr ymdreuliodd Crist yn hollol er ein lles *ni*, yna yr ydym yn iawn gofio Angau Crist.

Ac os byddwn fel hyn yn ddilynwŷr camrau Crist, ni a fyddwn yn sicr o'i ganlyn Ef i'r lle y mae Efe yn awr yn eistedd gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân: I'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant. Amen.

# YR AIL HOMILI

## AM ANGAU A DIODDEFAINT EIN HIACHAWDWR CRIST.

ER mwyn deall o honom yn well fawr drugaredd a daioni ein Hiachawdwr Crist, yn dioddef angau dros bob dyn yn gyffredinol, mae yn gweddu i ni ddisgyn i waelod ein cydwybod, ac ystyried yn ddwfn yr achos prif a phennaf paham y gorfu arno wneuthur felly.

Gwedi darfod i'n hen gyndad Adda dorri gorchymyn Duw trwy fwytta'r Afal a waharddasid iddo ym Mharadwys, ar awgrymmiad ac annogaeth ei wraig, efe a ennillodd wrth hynny, nid yn unig iddo ei hun, ond hefyd i'w hiliogaeth byth, gyfiawn lid a digter Duw, yr Hwn, yn ol y ddedryd a gyhoeddasai Efe wrth roi'r gorchymyn, a'i condemniodd ef a'r eiddo oll i farwolaeth dragywyddol enaid a chorph: oblegid dywedasid wrtho, *O bob pren o'r ardd gan fwytta y gelli fwytta: ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwytta o hono: oblegid yn y dydd y bwyttâi di o hono, gan farw y byddi farw:*[1]——

Ac fel y dywedasai'r Arglwydd, felly y bu. Bwyttaoddd Adda o hono, ac wrth wneuthur felly efe a fu farw'r farwolaeth; hynny yw, fe aeth yn farwol; fe gollodd ffafr Duw; taflwyd ef allan o Baradwys; nid oedd mwyach yn ddinesydd nef, ond yn bentewyn uffern, ac yn gaethwas i Ddiafol.

I hyn y mae ein Hiachawdwr yn dwyn tystiolaeth yn yr Efengyl, gan ein galw *yn ddefaid wedi myned ar ddisperod*[2] ac ar grwydr oddi wrth wir Fugail ein heneidiau.

Hyn hefyd y mae St. Paul yn ei dystio, gan ddywedyd, *Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad.*[3]

Felly weithian nid oedd i Adda na neb o'i heppil ddim hawl nac iawnder yn nheyrnas nef, ond yr oeddynt wedi myned yn hollol wrthodedig ac anghymmeradwy, a chael eu condemnio byth i ddidrangc boenau uffern.

Pe gallasai dyn ei adferu ei hun a chaffael maddeuant gan Dduw yn y fath ddirfawr gyfyngder a thrueni, yna buasai ei gyflwr yn rhyw faint

[1] Gen. 2. 16, 17. [2] St. Mat. 18. 12. [3] Rhuf. 5. 18.

haws ei oddef, gan y gallasai geisio rhyw ffordd i'w wared ei hun oddi wrth angau tragywyddol. Ond nid oedd dim un ffordd wedi ei gadael iddo, ni 's gallai wneuthur dim i heddychu digofaint Duw, ond yr oedd efe yn hyn o beth yn gwbl ddigymmorth: *nid oedd a wnelai ddaioni, nac oedd un.*[1] A pha wedd wrth hynny v gallasai efe weithio allan ei iachâwdwriaeth ei hun? A geisiai efe heddychu trwm anfoddlonrwydd Duw trwy aberthu iddo boeth-offrymmau, fel yr ordeiniasid dan yr hen Gyfraith, trwy offrymmu gwaed ychen, gwaed lloi, gwaed geifr, gwaed ŵyn, a'r cyfryw? Och! nid oedd yn y rhai hyn na grym na gallu i dynnu ymaith bechodau; ni 's gallen droi heibio ddigofaint Duw, nac oeri angerdd ei lid Ef, nac adferu dynol ryw i'w ffafr Ef eilchwyl: arwyddion a chysgodau pethau i ddyfod oeddynt hwy, ac nid oeddynt yn ddim arall.

Darllenwch yr Epistol at yr Hebreaid: yno cewch weled y pwngc hwn yn cael ei drin yn helaeth; ac yno cewch ddysgu, yn y geiriau amlyccaf, fod aberthau gwaedlyd yr hen Gyfraith yn ammherffaith, ac yn analluog i waredu dyn o gyflwr damnedigaeth mewn modd yn y byd: ac felly ni buasai dyn, wrth ymddiried yn y rhai hyn, ond yn rhoi *hyder ar ffon gorsen ddrylliedig,*[2] ac yn y diwedd yn ei dwyllo ei hun.

Pa beth ynte a wna efe? Ai ceisio cadw dwy lech deddf Duw, a phwrcasu felly fywyd tragywyddol iddo ei hun? Yn wir pe buasai Adda a'i hiliogaeth yn gallu boddloni a chyflawni 'r ddeddf yn berffaith, trwy garu Duw uwchlaw pob dim, a'u cymmydog fel hwynt eu hunain, yna gallasent yn hawdd ddiffoddi llid yr Arglwydd, a diangc rhag y ddedryd arswydus o farwolaeth dragywyddol a gyhoeddwyd yn eu herbyn gan enau 'r Hollalluog Dduw. Oblegid ysgrifenedig yw, *Gwna hyn a byw fyddi,*[3] hynny yw, "Cyflawna fy ngorchymynion, cadw dy hun yn uniawn ac yn berffaith ynddynt yn ol fy ewyllys i, yna ti a fyddi byw, ac ni byddi marw."

Addewir yma fywyd tragywyddol ar yr ammod o gadw 'r ddeddf. —— Ond cyfryw oedd breuolder dyn ar ol ei gwymp, cyfryw oedd ei wendid a'i eiddilwch, fel na 's gallai rodio 'n uniawn yngorchymynion Duw, pa mor ewyllysgar bynnag y byddai i wneuthur hynny; ond byddai 'n cwympo bob dydd ac awr oddi wrth ei rwymedig ddyled, gan dramgwyddo 'r Arglwydd ei Dduw mewn amryw ffyrdd, er mawr ychwanegiad ei ddamnedigaeth ei hun; yn gymmaint a bod y Prophwyd Dafydd yn gwaeddi fel hyn, *Ciliodd pawb; cyd-ymddifwynasant; nid oes a wnel ddaioni, nac oes un.*[4]

[1] Ps. 14. 3. [2] 2 Bren. 18. 21. [3] St. Luc 10. 28. [4] Ps. 14. 3.

Yn yr achos hwn ynte, pa les a allasai gael o'r Ddeddf? Dim oll. Canys fel y dywed St. Iago, *Pwy bynnag a gadwo 'r gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.*[1] Ac y mae 'n ysgrifenedig yn Llyfr Deuteronomium, *Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.*[2]—— Wele, mae'r Ddeddf yn dwyn melldith gyd â hi, ac yn ein gwneuthur ni yn euog, nid am ei bod *hi* o honi ei hun yn ddrwg neu 'n ansanctaidd, (na atto Duw i ni dybied felly,) ond am fod breuolder ein cnawd pechadurus *ni* yn gyfryw ag na 's gallwn byth ei chyflawni yn ol y perffeithrwydd ag y mae 'r Arglwydd yn ei ofyn.

A allai Adda ynte, dybygwch chwi, obeithio neu hyderu cael bod yn gadwedig trwy 'r ddeddf? Na allai ddim: ond po mwyaf yr edrychai ar y ddeddf, mwyaf y gwelai ei ddamnedigaeth ei hun wedi ei gosod ger bron ei lygaid, megis mewn drych gloyw.—— Felly yr oedd yn awr o'i ran ei hun yr adyn mwyaf truenus, yn llwyr ddïobaith, ac heb allu byth heddychu trwm ddigofaint Duw, na diangc rhag y farn echrydus, dan yr hon yr oedd efe a'i eppil wedi syrthio trwy anufuddhâu gorchymyn caeth yr Arglwydd eu Duw.

Ond Oh ddyfnder golud mawr drugaredd Duw! Oh ddaioni annhraethadwy ei ddoethineb nefol Ef! Pan oedd pob gobaith am gyfiawnder wedi myned ymaith o'n rhan ni, pan nad oedd gennym ni ddim ynom ein hunain, trwy 'r hyn y gallem ddiffodd angerdd ei lid Ef, a gweithio allan iachawdwriaeth ein heneidiau ein hunain, a chyfodi o'r cyflwr blin yr oeddym ynddo, yna, ie *yna*, meddaf, y daeth Crist Fab Duw i lawr o'r nef drwy ordeiniad ei Dad, i'w archolli er ein mwyn ni, i gael ei gyfrif gyd â'r troseddwŷr, i gael ei gondemnio i farwolaeth, i gymmeryd arno ei Hun gyflog ein pechodau ni, ac i roi ei gorph i'w ddryllio ar y Groes am ein beiau ni!——

*Efe*, medd y Prophwyd Esay am Grist, *a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau: cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef; a thrwy ei gleisiau ef yr iachâwyd ni.*[3]——

*Yr hwn nid adnabu bechod*, ebe St. Paul hefyd, *a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.*[4]——

Ac yn gyttunol â hyn yma yr ysgrifena St. Petr, gan ddywedyd, *Crist hefyd unwaith a ddioddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn.*[5]——

At y lleoedd hyn gellid cysylltu aneirif o rai eraill i'r un perwyl; ond digon fydd yr ambell rai hyn ar hyn o amser.

[1] St. Iago 2. 10. [2] Gal. 3. 10. a Deut. 27. 26. [3] Esay 53. 4, 5. [4] 2 Cor. 5. 21. [5] 1 St. Petr 3. 18.

Bellach ynte (fel y dywedpwyd yn y dechreuad) ystyriwn a phwyswn ACHOS ei angau Ef, fel trwy hynny y cyffrôer ni yn fwy i'w ogoneddu tros holl ystod ein bywyd. —— Yr achos hwn, os mynnwch ei gynnwys yn gryno mewn un gair, nid oedd ddim amgen (ar ein rhan *ni)* na throsedd a phechod dynol ryw :——

Pan ddaeth yr Angel i rybuddio Joseph *nad ofnai gymmeryd Mair ei wraig*, onid am hyn y gorchymynodd efe alw enw 'r plentyn yn IESU, sef *oblegid y gwaredai Efe ei bobl oddi wrth eu pechodau?*[1]——

Pan bregethodd Ioan Fedyddiwr Grist, a'i ddangos Ef i'r bobl â'i fys, oni ddywedodd efe 'n oleu wrthynt, *Wele Oen Duw, yr hwn sy 'n tynnu ymaith bechodau 'r byd?*[2]——

Pan ymbiliodd y wraig o Ganaan â Christ ar iddo gynnorthwyo ei merch ag oedd yn ddrwg ei hwyl gan gythraul, oni chyffesodd Efe 'n eglur y *danfonwyd ef at ddefaid colledig tŷ Israel* trwy roi ei einioes dros eu pechodau?[3]——

Pechod gan hynny, O ddyn, ie, dy bechod di, oedd yr achos i Grist, unig Fab Duw, gael ei groeshoelio yn y cnawd, a dïoddef angau dirmygus a gwaradwyddus y Groes!—— Pes cadwesit ti dy hun yn uniawn, pe buasit yn cadw 'r gorchymynion, pe na 's rhyfygasit droseddu ewyllys Duw yn dy gyndad Adda, yna ni buasai raid i Grist, ac Yntau yn ffurf Duw, gymmeryd arno agwedd gwas; ni buasai raid iddo, ac Yntau yn anfarwol yn y nef, ddyfod yn farwol ar y ddaear; ni buasai raid iddo, ac Yntau yn wir fara 'r enaid, ddïoddef newyn; ni buasai raid iddo, ac Yntau yn ddwfr iachusol y bywyd, deimlo syched; ac ni buasai raid iddo, ac Yntau 'n fywyd ei hun, gael ei roddi i farwolaeth. —— Ond i'r cyfyngderau hyn, a llawer eraill o'r cyfryw, y gyrrwyd Ef gan dy bechodau di, y rhai oeddynt gymmaint a chynnifer, fel mai ynddo Ef yn unig, ac nid yn neb arall, y boddlonwyd Duw am danynt!

A elli di feddwl am hyn, dydi ddyn pechadurus, a bod heb grynu ynot dy hun!—— A elli di wrando hyn yn esmwyth, heb euogrwydd cydwybod a thristyd calon!—— A ddïoddefodd Crist gymmaint drosot ti, ac oni theimli di ddim drosto Ef!—— Pan oedd Crist etto ynghrôg ar y Groes, ac yn rhoi i fynu 'r yspryd, fe dystia 'r Ysgrythyr ddarfod i *len y deml rwygo 'n ddau*, ddarfod i'r *ddaear grynu*, ddarfod i'r *meini hollti*, ddarfod i'r *beddau agor*, a darfod i *lawer o gyrph adgyfodi:*[4] ac oni chynhyrfa calon dyn *ddim* wrth gofio mor dost ac mor greulon y trinwyd Ef gan yr Iuddewon am ein pechodau ni!—— A gaiff dyn ei

[1] St. Mat. 1. 20, 21. [2] St. Ioan 1. 29. [3] St. Mat. 15. 24.
[4] St. Mat. 27. 51, 52.

ddangos ei hun yn galon-galettach na meini, ac yn llai tosturiol na chyrph meirw!

Galw i'th gof, dydi greadur pechadurus, a gosod ger bron dy lygaid Grist yn groeshoeliedig: meddwl dy fod yn gweled ei gorph yn estynedig ar y Groes, ei ben wedi ei goroni â drain llymion, ei ddwylaw a'i draed wedi eu trywanu â hoelion, ei galon wedi ei hagoryd â gwaywffon hir, ei gnawd wedi ei ddryllio a'i rwygo â ffrewyllau, a'i wyneb yn chwysu dwfr a gwaed: meddwl dy fod yn awr yn ei glywed yn llefain ar ei Dad mewn ing anïoddefol, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadawaist.*[1]—— A ellit ti edrych ar y fath olygfa dostur, neu glywed y fath lef alarus, heb dywallt dagrau, wrth ystyried mai am ysgelerder dy bechodau di, ac nid am ddim a haeddodd Efe ei Hun, y dïoddefodd Crist hyn oll! Och! ddarfod i ddynion roi tragywyddol Fab Duw i'r cyfryw boenau! Ow! i ni fod yn achlysur ei farwolaeth, a'r unig achos o'i gondemniad! Oni allwn ni yn gyfiawn lefain, *Gwae ni yn awr bechu o honom.*[2]

Oh, fy mrodyr, bydded i'r ddelw hon o Grist wedi ei groeshoelio fod bob amser yn argraphedig yn ein calonnau; cyffrôed ni i gasâu pechod, ac annoged ein meddyliau i garu 'n ddifrif yr Hollalluog Dduw. O herwydd paham? Onid yw pechod, meddwch chwi, yn beth ysgeler yn ei olwg Ef, gan iddo, am droseddu o ddyn ei orchymyn Ef trwy fwytta un afal, gondemnio 'r holl fyd i angau gwastadol, ac na 's mynnai ei ddyhuddo ond yn unig â gwaed ei Fab ei Hun!

Gwir, ïe, gwir iawn yw geiriau Dafydd; *Caseaist holl weithredwŷr anwiredd; a drwg ni thrig gyd â thi.*[3]

Mae Efe 'n gwaeddi 'n uchel trwy enau ei sanctaidd Brophwyd Esay yn erbyn pechaduriaid, ac yn dywedyd, *Gwae y rhai a dynnant anwiredd â rheffynnau oferedd, a phechod megis â rhaffau menn.*[4]

Oni roes Efe arwydd eglur mor gas a ffiaidd ganddo bechod, pan foddodd Efe 'r holl fyd namyn wythnyn o bobl—— pan ddistrywiodd Efe Sodom a Gomorrah â thân ac â brwmstan—— pan laddodd Efe mewn tri diwrnod ddeng mil a thrugain â phla 'r nodau am gamwedd Dafydd—— pan foddodd Efe Pharaoh a'i holl lu yn y Môr Coch—— pan droes Efe Nebuchodonosor frenhin i ddull anifail pedwar-carnol—— pan oddefodd Efe i Ahitophel a Judas ymgrogi gan cuogrwydd pechod, yr hwn oedd mor arswydus yn eu golwg? Gellir cael mil o'r cyfryw esamplau yn yr Ysgrythyr, pe cymmerai ddyn amynedd i'w chwilio allan. Ond pa raid i ni wrthynt? Mae 'r un esampl hon, ag sy 'n awr dan ein hystyriaeth, o fwy o rym, a hi a ddylai ein cyffrôi yn fwy,

[1] St. Mat. 27. 46. [2] Galar. 5. 16. [3] Ps. 5. 4, 5. [4] Esay 5. 18.

na 'r lleill i gyd; sef darfod i Grist, ac Yntau yn Fab Duw, ac yn berffaith Dduw ei Hun, ac heb wneuthur pechod erioed, gael ei gymhell i ddyfod i lawr o'r nef, ac i roi ei gorph i'w ddryllio a'i dorri ar y Groes am ein pechodau ni.

Onid oedd hyn yn argoel amlwg o ddirfawr lid ac anfoddlonrwydd Duw yn erbyn pechod, na ellid ei ddyhuddo mewn modd yn y byd ond trwy anwyl a gwerthfawr Waed ei garedig Fab! O bechod, bechod! i ti erioed yrru Crist i'r cyfryw gyfyngder! Och i'r amser y daethost erioed i'r byd! Ond beth a dâl i ni yn awr ymofidio? Mae pechod wedi dyfod, ac wedi dyfod yn y fath fodd na 's gellir ei ochelyd. *Nid oes dyn ni phecha*;[1] a *seithwaith y syrth y cyfiawn*,[2] fel y dywed Solomon.

Ac er darfod i'n Hiachawdwr Crist ein gwared oddi wrth bechod, etto ni wnaeth Efe hynny fel y byddem ni yn rhyddion oddi wrth wneuthur pechod, ond fel na chyfrifid ef i'n damnedigaeth ni. Efe a gymmerth arno ei Hun gyfiawn gyflog pechod, yr hyn yw angau, a thrwy angau Efe a orchfygodd angau, fel y gallem ni, trwy gredu ynddo Ef, fyw yn dragywydd heb farw byth.

Oni ddylai hyn fagu 'r casineb eithaf ynom at bechod, pan ystyriom iddo megis dynnu Duw trwy drais o'r nef, i wneuthur iddo ddioddef dychrynfeydd a phoenau marwolaeth! Oh nad ystyriem hyn weithiau ynghanol ein rhodres a'n moethau; fe ffrwynai hynny wyniau anllywodraethus y cnawd, fe leihâi ac fe lonyddai ein nwydau anianol, ac fe attaliai ein trachwantau, fel na byddem byw mor anystyriol ag yr ydym. —— Nid yw pechu 'n wirfoddol ac yn rhyfygus heb ofn Duw, yn ddim amgen nag *ail-groeshoelio*[3] Crist, fel y'n dysgir yn amlwg yn yr Epistol at yr Hebreaid. Yr hyn ped argrephid ef yn ddwfn ar galon pob dyn, yna ni chaffai pechod deyrnasu ym mhob man gymmaint ag y mae, er mawr dristyd i Grist sy 'n awr yn eistedd yn y nef.

Cofiwn ninnau gan hynny a chadwn yn wastadol yn ein meddyliau Grist wedi ei groeshoelio, fel trwy hynny y cyffrôer ni oddi fewn i lwyr gasâu pechod, ac hefyd i garu Duw â chalon ddifrifol a zelog. Oblegid dyma ffrwyth *arall* a ddylai cof am angau Crist weithio ynom, sef cariad difrif a diragrith tu ag at Dduw.

*Felly y carodd Duw y byd*, ebe St. Ioan, *fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*[4] Os dangosodd Duw gymmaint cariad attom ni ei wael greaduriaid, pa fodd nad yw 'n iawn i ninnau ei garu Yntau drachefn.—— Onid oedd hyn yn wystl sicr o'i gariad, bod iddo roi i ni ei Fab ei Hun o'r nef! Gallasai roi Angel i ni, pes mynnasai,

[1] 2 Chron. 6. 36. [2] Diar. 24. 16. [3] Heb. 6. 6. [4] 1 St. Ioan 3. 16.

neu ryw greadur arall; ac etto buasai ei gariad ym mhell uwchlaw ein haeddiant ni. Yn awr Efe a roes i ni, nid Angel, ond ei Fab. A pha Fab? Ei Unig Fab, ei Fab Naturiol, ei Anwyl Fab, y Mab a wnelsai Efe yn Arglwydd ac yn Llywydd ar bob peth.—— Onid oedd hyn yn arwydd godidog o fawr gariad! Ond i bwy y rhoddodd Efe Ef? Efe a'i rhoes Ef i'r holl fyd, sef i Adda ac i bawb a ddelai ar ei ol ef. O Arglwydd! beth oedd Adda na neb rhyw ddyn arall wedi ei haeddu ar law Duw, fel y rhoddai Efe i ni ei Fab ei Hun! Yr oeddym ni oll yn bobl druenus, yn bobl bechadurus, yn bobl ddamniol, wedi ein troi 'n gyfiawn o Baradwys, ein cau 'n gyfiawn o'r nef, a'n condemnio 'n gyfiawn i dân uffern: ac etto (wele arwydd rhyfedd o gariad Duw) Efe a roddodd ei unig-anedig Fab i ni, *i ni*, meddaf, y rhai oeddym elynion eithaf a marwol iddo, fel y gallem, trwy rinwedd ei Waed a dywalltwyd ar y Groes, gael ein glân buro oddi wrth ein pechodau, a'n gwneuthur eilchwyl yn gyfiawn yn ei olwg.

Pwy a ddichon lai na rhyfeddu wrth glywed ddarfod i Dduw ddangos y fath gariad annhraethol tu ag attom ni y rhai oeddym yn elynion marwol iddo!—— Yn wir, O ddyn marwol, mae'n iawn i ti ryfeddu o'i blegid, a chydnabod ynddo fawr ddaioni Duw a'i drugaredd at ddyn, yr hon sy mor rhyfeddol na 's dichon un cnawd, er maint ei ddoethineb fydol, ei hamgyffred na 'i thraethu. Canys fel y tystia St. Paul, *y mae Duw yn canmol ei gariad tu ag attom, oblegid a nyni etto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom.*[1] Pe buasem ni wedi haeddu hyn ar ei law ef mewn rhyw fath ar fodd, yna ni buasai 'n ddim rhyfeddod; ond nid oedd dim haeddiant ar ein llaw ni yn galw am iddo wneuthur hyn.

Am hynny, O dydi greadur pechadurus, pan glywech ddarfod i Dduw roi ei Fab i farw dros bechodau 'r byd, na thybia iddo wneuthur hynny o ran dim haeddiant neu ddaioni ag oedd ynot ti, canys yr oeddit ti y pryd hynny yn gaethwas Diafol: ond cwymp i lawr ar dy ddeulin, a gwaedda gyd â Dafydd Brophwyd, *O Arglwydd, pa beth yw dyn i ti i'w gofio, na mab dyn i ti ymweled âg ef?*[2]—— A chan iddo Ef dy garu di yn gymmaint, ymegnïa i'w garu Yntau drachefn â'th holl galon, â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, fel y gellych wrth hynny ddangos nad wyt annheilwng o'i gariad Ef. Mi a roddaf ar dy gydwybod di dy hun, oni thybygit mai yn annheilwng y rhoddit dy gariad ar y sawl ni chlywai ar ei galon dy garu dithau? Os gwir yw hyn, (a gwir iawn ydyw) yna meddwl mor rwymedig wyt i garu Duw, yr Hwn a'th garodd di mor fawr ag nad arbedodd ei brïod Fab ei Hun rhag angau mor greulon a gwarthus er dy fwyn!

[1] Rhuf. 5. 8. [2] Ps. 8. 4.

Hyd yn hyn soniasom am *achos* angau a dïoddefaint Crist; yr hwn ar ein rhan ni oedd pechod arswydus ac ysgeler, ac o'r tu arall oedd rad rodd Duw, yn deilliaw o'i wir serch a'i diriondeb at ddynol ryw, heb na rhyglyddon na haeddedigaeth ar ein rhan ni.

Caniattâed yr Arglwydd er mwyn ei drugareddau nad anghofiom byth ddirfawr ddawn ein hiachawdwriaeth yng Nghrist Iesu, ond bod i ni bob amser ddangos ein hunain yn ddïolchgar am dani, trwy ffieiddio pob rhyw ddrygioni a phechod, a rhoi ein meddwl yn gwbl i wasanaeth Duw, ac i ddyfal gadw ei orchymynion.

WEITHIAN mae i mi ddangos i chwi pa fodd i *gymhwyso* marwolaeth a dïoddefaint Crist er ein diddanwch, fel meddyginiaeth i'n clwyfau, fel y gallo weithio ynom yr effaith a fwriadwyd, sef iechyd a chadwedigaeth ein heneidiau. Canys fel nad yw o ddim lles i ddyn fod gantho eli, oddi eithr iddo ei iawn osod ar y lle dolurus; felly ni bydd angau Crist o ddim lles i ni, heb i ni ei gymhwyso ef attom ni ein hunain yn y cyfryw fodd ag yr ordeiniodd Duw.—— Mae'r Hollalluog fynychaf yn gweithio drwy foddion; ac yn y peth hyn hefyd y mae Efe wedi ordeinio moddion a chyfrwng, drwy 'r hwn y gallwn dderbyn ffrwyth ac elw er iechyd ein heneidiau.

A pha gyfrwng yw hwnnw? Yn wir FFYDD ydyw. Nid ffydd anwadal a sigledig, ond ffydd ddïogel, dïymmod, sylfaenedig, ddiragrith. *Fe ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd*, ebe St. Ioan. I ba ddiben? *Fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*[1] Deliwch sylw ar y geiriau hyn, PWY BYNNAG A GREDO YNDDO EF. Dyma 'r moddion y rhaid i ni trwyddynt gymhwyso effeithiau marwolaeth Crist at ein marwol glwyf: dyma 'r moddion i ni gael trwyddynt fywyd tragywyddol; sef, FFYDD:——

Oblegid fel y dywed St. Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, *A'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth.*[2]

Pan ofynodd ceidwad y carchar i Paul, *Beth sy raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig*, efe a attebodd fel hyn; *Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu.*[3]——

Wedi darfod i'r Efangylwr osod allan yn helaeth i ni fywyd a marwolaeth yr Arglwydd Iesu, mae yn y diwedd yn cau ar y cwbl yn y geiriau hyn; *Y pethau hyn a ysgrifennwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef.*[4]——

Ac i gau ar y cwbl yngeiriau St. Paul, y rhai sy fel hyn; *Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sy 'n credu.*[5]

[1] St. Ioan 3. 16. [2] Rhuf. 10. 10. [3] Act. 16. 30, 31. [4] St. Ioan 20. 31. [5] Rhuf. 10. 4.

Wrth hyn ynte y gellwch ddeall yn dda mai unig foddion ac offeryn iachawdwriaeth ar ein rhan ni yw Ffydd; sef diogel oglud ac ymddiried yn nhrugareddau Duw; trwy 'r hyn yr ydym yn ein perswadio ein hunain fod Duw yn maddeu, ac wedi maddeu ein pechodau; ddarfod iddo ein derbyn eilwaith i'w ffafr; ddarfod iddo ein rhyddhâu o rwymau damnedigaeth, a'n derbyn ni drachefn i rifedi ei bobl etholedig; nid er mwyn ein rhyglyddon na'n haeddiant ni, ond yn unig er mwyn haedd-edigaeth angau a dioddefaint Crist, yr Hwn a wnaethpwyd yn ddyn er ein mwyn ni, ac a ymostyngodd i ddwyn gwarth y Groes, fel trwy hynny yr achubid ni, ac y'n gwneid yn etifeddion teyrnas nef.

Y Ffydd hon yr ydys yn ei gofyn ar ein dwylaw ni. Ac os cadwn ni honno 'n ddiogel yn ein calonnau, diammeu y cawn iachawdwriaeth gan Dduw, fel y cafodd Abraham, Isaac, a Jacob, am y rhai y dywed yr Ysgrythyr iddynt *gredu*, a darfod *cyfrif hynny 'n gyfiawnder iddynt*. Ai iddynt hwy y cyfrifwyd ef yn unig, ac oni chyfrifir ef i ninnau hefyd? Gwneir; os bydd gennym ni yr un ffydd ag oedd ganddynt hwy, fe 'i cyfrifir hi mor wir yn gyfiawnder i ni, ag y cyfrifwyd hi iddynt hwythau. Canys yr un ffydd sy raid ein hachub ni a hwythau, sef ffydd sicr a diymmod yng Nghrist Iesu, yr Hwn, fel y clywsoch, a ddaeth i'r byd i'r diben hwn, fel na chollid pwy bynnag a gredai ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

Ond yma rhaid i ni ochelyd cloffi rhwng dau feddwl ger bron Duw drwy ffydd anniogel ac ammheus, ond bod o honi 'r gref a disigl hyd ddiwedd ein hoes. *Yr hwn sydd yn ammeu,* medd St. Iago, *sy gyffelyb i dòn y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt. Na feddylied y dyn hwnnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd.*[1]—— Pan oedd Petr yn dyfod at Grist ar y dwfr, yr oedd mewn perygl boddi, am i'w ffydd betruso: felly ninnau, os dechreuwn anwadalu a phetruso, mae perygl rhag i ni soddi fel y gwnaeth Petr, nid i'r dwfr, ond i bydew diwaelod tân uffern.

Am hynny meddaf i chwi, rhaid i ni gymmeryd gafael yn haeddiant angau a dioddefaint Crist *trwy ffydd,* heb ammeu dim na ddarfu i Grist, trwy ei aberthu ei Hun unwaith yn offrymmedig ar y Groes, dynnu ymaith ein pechodau a'n hadferyd eilchwyl i ffafr Duw mor gyflawn ac mor berffaith, fel na bydd rhaid wrth un aberth nac iawn arall dros bechod byth yn yr holl fyd.

Fel hyn y clywsoch mewn ychydig eiriau am y moddion a'r cyfrwng trwy ba un y mae 'n rhaid i ni gymhwyso ffrwyth a haeddedigaethau marwolaeth Crist attom ein hunain, fel y gallo weithio iachawdwriaeth

[1] St. Iago 1. 6, 7.

ein heneidiau; hynny yw, Ffydd sicr, ddïogel, berffaith, a dïanwadal: —— Oblegid fel yr iachêid pawb a edrychai 'n graff ar y Sarph Bres, ac y gwaredid hwy, wrth edrych arni, oddi wrth eu poenau a'u brathiadau corphorol; felly y gwaredir yn ddïammeu bawb a edrychont â gwir a bywiol ffydd ar Grist Croeshoeliedig, oddi wrth glwyfau llymdost yr enaid, er mor angheuol ac er cynnifer fyddont.

Gan hynny, fy anwyl garedigion, os digwydd i ni un amser trwy wendid y cnawd gwympo i bechod (fel y mae 'n ammhosibl na 's cwympwn yn fynych) ac os byddwn yn clywed ei faich trwm yn pwyso ar ein heneidiau, gan ein poeni âg ofn angau, uffern, a damnedigaeth; bydded i ni yr amser hwnnw arferyd y moddion a ordeiniodd Duw yn ei Air, sef moddion Ffydd, yr hon yw'r unig offeryn iachawdwriaeth ag sy 'n awr wedi ei adael i ni. Edrychwn yn ddïysgog â llygaid ein calon ar Grist Croeshoeliedig. Ymddiriedwn gael ein hachub yn unig trwy ei Angau a'i Ddïoddefaint Ef, a chael golchi ein pechod ymaith yn lân trwy ei Werthfawroccaf Waed Ef, fel yn niwedd y byd, pan ddelo drachefn i farnu byw a meirw, y derbynio Efe ni i'w deyrnas nefol, ac y cyfleo ni ym mhlith ei etholedig a'i ddewisol bobl, yno i fod yn gyfrannogion o'r bywyd anfarwol a thragywyddol a bwrcasodd Efe i ni trwy rinwedd ei archollion gwaedlyd:

Iddo Ef gan hynny, gyd â'r Tad a'r Ysbryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

# HOMILI

## AM ADGYFODIAD EIN HIACHAWDWR IESU GRIST.

### (AM DDYDD PASG.)

OS cyffrôdd erioed na mawredd na godidowgrwydd un pwngc, ysprydol neu dymhorol, eich meddyliau i wrando 'n ddyfal, bobl dda Gristianus, a'm hanwyl garedigion yn ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist, nid wyf yn ammeu na chaf chwi yn awr, ar y tymmor presennol, yn wrandawŷr parod a diesgeulus iawn o'r peth sy gennyf yr awr hon i'w agoryd i chwi. Oblegid yr wyf yn dyfod i fynegi 'r Erthygl fawr a thra-chysurus honno o'n Ffydd a'n Crefydd Gristionogol,—— ADGYFODIAD EIN HARGLWYDD IESU GRIST.

Mor fawr ac mor bwysig yw sylwedd yr Erthygl hon, fel ag y tybiwyd bod yn wiw i'n Hiachawdwr aros ar y ddaear ddeugain niwrnod ar ol ei Adgyfodiad o feirw, er mwyn ei gadarnhâu a'i sefydlu ynghalonnau ei Ddisgyblion. Felly (megis y tystia Luc yn amlwg yn y bennod gyntaf o'r Actau) yr oedd *yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod,*[1] fel y gallai yn ei Berson ei Hun, yr Hwn oedd yn awr wedi ei ogoneddu, addysgu a hyfforddio y rhai oedd i fod yn ddysgawdwŷr i eraill, yn gyflawn ac yn gwbl-berffaith yngwirionedd yr Erthygl Gristianusaf hon, (yr hon yw gwaelod a sylfaen ein holl Grefydd,) cyn dyrchafael at ei Dad i'r nefoedd, yno i dderbyn gogoniant ei orfodaeth a'i oruchafiaeth fuddugoliaethus.

Yn sicr mor ddiddanus i'n cydwybodau ni ydyw 'r Erthygl hon, ag mai hi yw clo ac agoriad ein holl Ffydd a'n Crefydd Gristionogol.

*Os Crist ni chyfodwyd,* ebe 'r Apostol sanctaidd Paul, *ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau; yr ydych etto yn eich pechodau.*

*Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a hunasant yng Nghrist.*

*Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yng Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni.*

[1] Act. 1. 3.

*Eithr yn awr*, eb efe, *Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.*[1]

Ië, pe gwir fyddai nad yw Crist wedi adgyfodi, yna ni byddai wir chwaith iddo ddyrchafael i'r nef; nac iddo ddanfon i lawr o'r nef yr Yspryd Glân attom; na'i fod yn awr yn eistedd ar ddeheulaw ei Dad nefol, yn rheoli nef a daear, ac yn *llywodraethu*, fel y dywed y Prophwyd, *o fôr hyd fôr;*[2] nac y daw Efe wedi 'r byd hwn yn Farnwr byw a meirw, i wobrwyo 'r da, ac i gondemnio 'r drygionus.—— Er mwyn ynte i'r dolennau hyn yng nghadwyn ein Ffydd fod yn gyssylltiedig â'u gilydd mewn sicr ddïogelwch a chadernid, fe ryngodd bodd i'n Hiachawdwr beidio âg ymdynnu yn y man oddi wrth bresennoldeb corphorol a golwg ei ddisgyblion; ond dewisodd ddeugain niwrnod, yn y rhai y dangosai iddynt *trwy lawer o arwyddion sicr,*[3] ei fod wedi gorchfygu angau, a gwir adgyfodi i fywyd. *Gan ddechreu ar Moses a'r holl brophwydi*, ebe Luc, *efe a esponiodd iddynt yn yr holl Ysgrythyrau y pethau am dano ei hun,*[4] er mwyn sicrhâu gwirionedd ei Adgyfodiad, yr hwn y soniasid am dano ym mhell o'r blaen; yr hyn a wiriodd Efe yn sicr, fel y dangoswyd yn hollol amlwg wrth ei ymddangosiad mynych i amryw ddynion ar wahanol amseroedd:——

Yn gyntaf, Efe a anfonodd ei Angylion at y bedd, y rhai a ddangosasant i'r gwragedd y bedd yn wag, ond bod y llïeiniau claddedigaeth wedi cael eu gadael ynddo. Ac wrth yr arwyddion hyn, addysgwyd y gwragedd hynny 'n gyflawn ei fod wedi adgyfodi, ac felly hwy a dystiolaethasant hyn yn gyhoeddus.

Ar ol hyn ymddangosodd yr Iesu ei Hun i Mair Magdalen; ac yna i ryw wragedd eraill; ac yn fuan ar ol hynny ymddangosodd i Petr; ac yna i'r ddau ddisgybl oedd yn myned i Emmaus.

Ymddangosodd i'r disgyblion hefyd lle 'r oeddynt wedi ymgynnull rhag ofn yr Iuddewon, a'r drysau 'n gauad.

Bryd arall gwelwyd ef wrth fôr Tiberias gan Petr a Thomas a disgyblion eraill pan oeddynt yn myned i bysgotta.

Efe a welwyd gan fwy na phum cant brodyr ym mynydd Galilea, lle 'r ordeiniasai 'r Iesu trwy ei Angel iddynt fyned, pan ddywedodd, *Ewch ymaith, dywedwch i'w ddisgyblion ef, ac i Petr, ei fod ef yn myned o 'ch blaen chwi i Galilea: yno y cewch ei weled ef, fel y dywedodd efe i chwi.*[5]

Gwedi hyn Efe a ymddangosodd i Iago; ac yn ddiweddaf oll gwelwyd Ef gan yr holl Apostolion, yr amser y cymmerwyd Ef i fynu i'r nef.

[1] 1 Cor. 15. 14—20. [2] Ps. 72. 8. [3] Act. 1. 3. [4] St. Luc 24. 27. [5] St. Marc 16. 7.

Fel hyn Efe a ddangosodd ei Hun yn fynych ar ol ei Adgyfodiad, er mwyn cadarnhâu a sefydlu 'r Erthygl hon o'n Ffydd. Ac yn y datguddiadau hyn byddai weithiau yn dangos iddynt ei ddwylaw, ei draed, ei ystlys, ac yn erchi iddynt ei deimlo, rhag iddynt dybied mai yspryd neu ledrith ydoedd: weithiau Efe a fwyttâi gyd â hwynt; ond soniai wrthynt bob amser am dragywyddol deyrnas Dduw, er mwyn sicrhâu iddynt wirionedd ei Adgyfodiad. *Yna yr agorodd efe eu deall hwynt fel y deallent yr Ysgrythyrau. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Felly yr ysgrifennwyd, ac felly yr oedd raid i Grist ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd, a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd.*[1]

Chwi a welwch, bobl dda Gristianus, mor angenrheidiol yw 'r Erthygl hon o'n Ffydd, yn gymmaint ag i Grist ei Hun ei phrofi â rhesymmau ac arwyddion mor sicr, a hynny dros gyhyd o amser a deugain niwrnod.

Yn awr ynte, fel yr oedd ein Hiachawdwr yn ddiesgeulus yn hyspysu hyn i ni er ein diddanwch a'n haddysg, felly byddwn ninnau, er ein diddanwch a'n haddysg, mor barod i'w dderbyn yn ein crediniaeth.

Fel mai nid drosto ei Hun y bu farw, felly nid drosto ei Hun yr adgyfododd. *Efe a draddodwyd*, ebe St. Paul, *dros ein camweddau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni.*[2] O air cysurlawn, i fod byth mewn coffadwriaeth! Efe a fu farw i dynnu ymaith bechod, ac a adgyfododd i'n gwisgo ni â chyfiawnder! Ei angau Ef a dynnodd ymaith bechod a melldith; ei angau Ef oedd yr Iawn dros bob un o'r ddau. Ei farwolaeth Ef a ddinystriodd farwolaeth, ac a orthrechodd y Diafol, *yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo.*[3] Ei angau Ef a ddistrywiodd uffern a'i holl ddamnedigaeth. Fel hyn y llyngcwyd angau ym muddugoliaeth Crist; fel hyn yr anrheithiwyd uffern yn dragywydd.

O bydd i neb ammeu 'r fuddugoliaeth hon, poed i anrhydeddus Adgyfodiad Crist fynegi 'r peth iddo.—— Os na allodd angau gadw Crist dan ei lywodraeth a'i allu rhag iddo adgyfodi, mae 'n amlwg fod ei allu wedi cael ei orthrechu. Os gorchfygwyd marwolaeth, yna mae 'n dilyn ddarfod distrywio *pechod* hefyd, yr hwn y gosodwyd marwolaeth yn gyflog iddo. Os diddymwyd pechod a marwolaeth, yna gorthrechwyd gormes y diafol, *yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo*, yr hwn hefyd oedd awdwr a dechreuad pechod, a thywysog uffern. Os cafodd Crist yr oruchafiaeth arnynt oll trwy rym ei angau, a phrofi 'n eglur trwy ei fuddugoliaethus Adgyfodiad ddarfod iddo wneuthur hynny, (ac yn wir nid oedd modd iddynt hwy orchfygu ei fawr nerth Ef,) ac os gwir

[1] St. Luc 24. 45—47. [2] Rhuf. 4. 25. [3] Heb. 2. 14.

hefyd i Grist farw dros ein pechodau, ac adgyfodi i'n cyfiawnhâu ni, paham na 's gallwn ni sy 'n aelodau o hono trwy wir ffydd, orfoleddu a dywedyd yn hyderus gyd â'r Prophwyd Hosea a'r Apostol Paul, *O angau, pa le mae dy golyn! O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth! I Dduw y byddo 'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd.*[1]

Yr oruchafiaeth alluog hon o'i Adgyfodiad Ef nid yn unig a rag-arwyddwyd trwy lawer o *gysgodau* yn yr Hen Destament, megis trwy waith Samson yn lladd y llew, o gorph yr hwn y daeth mel a melusdra; ac megis yr oedd Dafydd yn gysgod o hono, pan achubodd efe 'r oen o safn y llew, a phan orchfygodd ac y lladdodd y cawr mawr Goliah; ac megis pan lyngcwyd Jonah gan y morfil, a'i fwrw eilwaith yn fyw ar dir sych;—— ond prophwydwyd hefyd am dano yn dra eglur gan Brophwydi 'r Hen Destament, a chadarnhawyd ef yn y Newydd gan yr Apostolion. *Gan yspeilio 'r tywysogaethau a'r awdurdodau,* medd St. Paul, *efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, gan ymorfoleddu arnynt ar y groes.*[2]

Dyma nerthol allu 'r Arglwydd, yr Hwn yr ydym yn credu ynddo. Trwy ei angau Efe a weithiodd i ni 'r oruchafiaeth hon; a thrwy ei Adgyfodiad Efe a bwrcasodd i ni dragywyddol fywyd a chyfiawnder. Nid digon fuasai ein gwared oddi wrth bechod trwy ei angau, heb gael hefyd trwy ei Adgyfodiad ein cynnysgaeddu â chyfiawnder. Ac ni buasai 'n ennill i ni gael ein gwared oddi wrth angau, oni buasai iddo gyfodi drachefn i agor i ni byrth y nef i fyned i mewn i'r bywyd tragywyddol.—— Ac am hynny mae St. Petr yn dywedyd, *Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, i etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac ynghadw yn y nefoedd i chwi, y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd.*[3]

Fel hyn y gweithiodd ei Adgyfodiad i ni fywyd a chyfiawnder.—— Efe a aeth trwy angau ac uffern, er mwyn bod i ni gael gobaith da y gallwn ninnau trwy ei nerth Ef wneuthur yr un peth.—— Efe a dalodd iawn dros bechod, fel na chyfrifid pechod i ni.—— Efe a ddinystriodd y Cythraul a'i holl ormes, ac a fuddugoliaethodd arno ar gyhoedd, ac a ddug oddi arno ei holl gaethion, ac a'u dyrchafodd ac a'u gosododd gyd âg Ef ei Hun ym mhlith y nefol ddinasyddion fry.—— Efe a fu farw i ddinystrio llywodraeth y Diafol ynom ni, ac a gyfododd drachefn i ddanfon i lawr ei Lân Yspryd i reoli yn ein calonnau, i'n cynnysgaeddu â pherffaith gyfiawnder.

[1] Cor. 15. 55, 57. [2] Col. 2. 15. [3] 1 Petr 1. 3, 5.

Fel hyn gwir yw'r hyn a ganodd Dafydd, *Veritas de terra orta est, et justitia de cœlo prospexit*, sef, *Gwirionedd a dardda o'r ddaear, a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd.*[1] Cyhoeddwyd gwirionedd addewid Duw ar y ddaear i ddyn, neu, O'r ddaear y mae y Gwirionedd tragywyddol, Mab Duw, wedi cyfodi i fywyd: a Gwir Gyfiawnder yr Yspryd Glân yn edrych o'r nef, ac yn cael ei gyfrannu 'n ddawn haelionus i'r holl fyd.—— Fel hyn y mae gogoniant a mawl wedi esgyn i fynu 'n ol at Dduw uchod am ei Drugaredd a'i Wirionedd. Ac fel hyn y mae tangnefedd wedi disgyn i lawr o'r nef at ddynion o galonnau daionus a ffyddlon. Fel hyn, *trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant*, fel yr ysgrifena Dafydd; *cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant.*[2]

Os wyt yn ammeu fod cymmaint o wynfyd a dedwyddwch wedi ei weithio i ti, O ddyn, galw i'th gof mai er mwyn hyn y derbyniaist i'th feddiant dy hun y tragywyddol Wirionedd, ein Hachubwr Iesu Grist, fel y sicrhêid i'th gydwybod wirionedd yr holl fatter hwn.—— Ti a'i derbyniaist Ef, os derbyniaist ef mewn gwir ffydd ac edifeirwch calon a chyd â bwriad o wellhâu, ti a'i derbyniaist Ef, meddaf, yn ernes a gwystl tragywyddol o'th iachawdwriaeth.—— Ti a dderbyniaist ei Gorph Ef yr hwn a dorrwyd unwaith, a'i Waed Ef yr hwn a dywalltwyd er maddeuant dy bechod.—— Ti a dderbyniaist ei Gorph Ef, i gael ynot y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, i drigo gyd â thi, i'th gynnysgaeddu â gras, i'th nerthu yn erbyn dy elynion, ac i'th ddiddanu â'u presennoldeb.—— Ti a dderbyniaist ei Gorph Ef i'th gynnysgaeddu â chyfiawnder tragywyddol, ac i'th sicrhâu o wynfyd a bywyd tragywyddol i'th enaid. Canys gyd â Christ yr wyt trwy wir ffydd wedi dy adgyfodi, ebe St. Paul, o angau pechod i fywyd o ras, ac wedi cael dy drosglwyddo mewn gobaith allan o angau corphorol a thragywyddol i fywyd o dragywyddol ogoniant yn y nef, lle yn awr y dylai dy ymarweddiad fod, a'th galon a'th ddymuniad wedi eu gosod.

Nac ammeu wirionedd y pethau hyn, er cymmaint ac er uched ydynt. Gweithredoedd mawrion sy 'n gweddu i Dduw eu gwneuthur, pa mor ammhosibl bynnag y gallont fod yn dy olwg di.

Gweddïa Dduw ar gael o honot ffydd i ganfod y mawr ddirgelwch hwn o Adgyfodiad Crist, fel trwy ffydd y gallech gredu 'n ddïogel nad oes dim yn ammhosibl gyd â Duw. Yn unig dwg di ffydd at sanctaidd Air a Sacrament Crist. Poed i'th edifeirwch ddangos dy ffydd; poed i'th lwyrfryd ar ddiwygio ac ufuddhâu o'th galon i gyfraith Duw ddangos rhagllaw dy wir grediniaeth. Ymdrecha i ddywedyd gyd â St. Paul, *Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr*

[1] Ps. 85. 11. [2] Ps. 85. 10.

*ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist. Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun.*[1]

Fel hyn, bobl dda Gristianus, yn gymmaint a chlywed o honoch y mawr a'r godidog ddoniau hyn ag sy 'n dyfod o anrhydeddus a galluog Adgyfodiad Crist, sef pa fodd y talodd Efe iawn dros bechod; y gorchfygodd Efe Ddiafol, angau, ac uffern, ac y cafodd yn fuddugol y llaw uchaf arnynt oll i'n rhyddhâu ni oddi wrthynt, ac i'n dïogelu rhagddynt; ac yn gymmaint a gwybod o honom ein bod trwy ddawn ei Adgyfodiad wedi ein cyd-gyfodi gyd âg Ef trwy ffydd i fywyd tragywyddol; a'n bod hefyd mewn llawn sicrwydd gobaith y caiff ein cyrph ninnau yr un modd eu cyfodi drachefn o angau i'w gogoneddu mewn anfarwoldeb, a'u cysylltu â'i Gorph gogoneddus Ef; a bod gennym yn y cyfamser ei Yspryd Sanctaidd Ef yn ein calonnau yn sel ac yn ernes o'n hetifeddiaeth dragywyddol, trwy gynhorthwy yr Hwn y'n cyflawnir ni â phob cyfiawnder, a thrwy nerth yr Hwn y gallwn ddarostwng ein holl wyniau drygionus y rhai sy 'n cyfodi yngwrthwyneb i ewyllys Duw:—— wedi ystyried y pethau hyn yn dda, meddaf, dangoswn bellach yn y rhan arall o'n hoes y grediniaeth sy gennym yn yr Erthygl ffrwythlawn hon, trwy ein cydffurfio ein hunain â'i hathrawiaeth, wrth gyfodi beunydd oddi wrth bechod i gyfiawnder a sancteiddrwydd buchedd.

Pa les fydd i ni, medd St. Petr, os wedi i ni ddïangc oddi wrth halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, y rhwystrir ni drachefn â'r pethau hyn, a'n gorchfygu? *Gwell fuasai i ni,* medd efe, *fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag, wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd a draddodwyd i ni:* canys felly *fe ddigwydd i ni yn ol y wir ddïareb, Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom.*[2]

Pa gywilydd fyddai i ni, gwedi ein golchi fel hyn mor lân ac mor rhad oddi wrth ein pechod, ddychwelyd at ei frynti eilwaith!

Pa ffolineb fyddai, wedi cael ein cynnysgaeddu fel hyn â chyfiawnder, i ni ei golli ef drachefn!

Pa wallgofrwydd fyddai i ni golli 'r etifeddiaeth yr ydym yn awr wedi ein gosod ynddi, am fwyniant gwael a thrangcedig pechod!

Pa annhirionder fyddai, a'n Ceidwad Crist wedi dyfod yn rasol attom i lettya ac i breswylio ynom, i ni ei yrru ymaith oddi wrthym a'i ddeol a'i ymlid allan o'n heneidiau; ac yn ei le Ef, yr Hwn y mae pob gras

[1] Phil. 3. 20, 21. [2] 2 Petr 2. 20—22.

a rhinwedd ynddo, dderbyn attom ysbryd aflan-ion y Diafol, yr hwn yw seiliwr pob drygioni ac aflwydd!

Pa fodd y gallwn glywed ar ein calon ddangos y fath angharedigrwydd tu ag at Grist, ac Yntau yn awr mor hawddgar wedi ein galw i'w drugaredd, a'i gynnyg ei Hun i ni, a dyfod eisoes i drigo i'n mewn!

Pa fodd y beiddiwn fod mor hyf â gwrthod presennoldeb y Tad, y Mab, a'r Glân Ysbryd; (oblegid lle mae un o honynt, yno mae Duw i gyd oll yn ei fawredd, ynghyd â'i holl nerth, ei ddoethineb, a'i ddaioni;) a bod heb ofni, meddaf, yr enbydrwydd a'r perygl o wrthgiliad ac ymadawiad mor frawychus!

O frodyr a chwiorydd Cristionogol, edrychwch attoch eich hunain, ystyriwch yr urddas y gosodwyd chwi yn awr ynddo, ac na fyddwch mor ffol a cholli yr hyn y mae gras wedi ei gynnyg, ac wedi ei brynu mor brid i chwi; na fyddwch mor ystyfnig a dall a diffodd y fath oleuni disglair ag sy 'n awr wedi cael ei ddangos i chwi.

Yn unig cymmerwch galon, *a gwisgwch am danoch holl arfogaeth Duw,*[1] fel y galloch wrthsefyll eich gelynion, y rhai a fynnent eich darostwng drachefn, a'ch dwyn dan eu caethiwed; *gan wybod nad âg arian neu aur y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymarweddiad, eithr â gwerthfawr waed Crist, megis Oen difeius a difrycheulyd; yr hwn a rag-ordeiniwyd cyn sylfaenu'r byd, ond a eglurwyd yn yr amseroedd diweddaf er eich mwyn chwi, y rhai ydych trwyddo ef yn credu yn Nuw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw, ac a roddodd iddo ef ogoniant, fel y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn Nuw.*[2]

Am hynny fel y dilynasoch hyd yn hyn ofer wyniau eich meddyliau, ac felly anfoddio Duw er mawr enbydrwydd i'ch eneidiau; felly weithian, megis plant ufudd wedi eich puro fel hyn trwy ffydd, ymrôwch i rodio 'r ffordd y mae Duw yn eich annog iddi, fel y derbynioch *ddiwedd eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau.*[3] Ac *megis y rhoddasoch eich aelodau yn weision i aflendid ac anwiredd, i anwiredd; felly yr awrhon rhoddwch eich aelodau yn weision i gyfiawnder, i sancteiddrwydd.*[4]

Os yw 'n hyfryd gennych yr Erthygl hon o'n Ffydd, fod Crist wedi adgyfodi o farwolaeth i fywyd, yna dilynwch esampl ei Adgyfodiad Ef, fel y mae St. Paul yn ein cynghori; megis *y claddwyd ni gyd âg ef trwy fedydd i farwolaeth,* felly byddwn ninnau farw beunydd i bechod, gan farwhâu a lladd ei ddrwg wyniau a'i chwantau: *fel megis y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd,*[5] a rhodio felly 'n wastadol, fel y gallom

[1] Eph. 6. 11. [2] 1 Petr 1. 18—21. [3] 1 Petr 1. 9. [4] Rhuf. 6. 19.
[5] Rhuf. 6. 4.

megis plant naturiol fyw yn y cyfryw ymarweddiad ag a baro i ddynion *ogoneddu ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd.*[1] Os *cyd-gyfodasom gyd â Christ*[2] trwy ffydd i obaith bywyd tragywyddol, cyd-gyfodwn hefyd gyd â Christ, yn ol ei esampl, i fuchedd newydd, gan ymadael â'n hen fuchedd. Yna y byddwn wedi gwir gyfodi, os ceisiwn bethau nefol, a *rhoi ein serch ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear.*

Os ewyllysiwch wybod pa beth yw'r pethau daearol y dylech eu rhoi heibio, a pha beth yw 'r pethau nefol sydd uchod ag y dylech ymgais â hwynt a'u dilyn, mae St. Paul yn dangos i ni yn yr Epistol at y Colossiaid, wrth ein cynghori fel hyn:——

*Marwhêwch eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb, aflendid, gwŷn, drwg-chwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilun-addoliaeth;*

*O achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod.*

*Yn y rhai hefyd y rhodiasoch chwithau gynt, pan oeddych yn byw ynddynt.*

*Ond yr awr hon rhoddwch chwithau ymaith yr holl bethau hyn; digter, llid, drygioni, cabledd, serthedd, allan o'ch genau.*

*Na ddywedwch gelwydd wrth eich gilydd, gan ddarfod i chwi ddiosg yr hen ddyn ynghyd â'i weithredoedd, a gwisgo 'r newydd.*

Dyna 'r pethau daearol y mae St. Paul yn eich annog i'w bwrw oddi wrthych, ac i dynnu eich calonnau oddi wrthynt; canys wrth ganlyn y pethau hyn yr ydych yn dangos eich bod yn ddaearol ac yn fydol. Ffrwythau yr Adda ddaearol yw y rhai hyn. Dylech beunydd ladd y pethau hyn yn ddyfal, trwy wrthsefyll eu cynhyrfiadau, fel y galloch gyfodi i gyfiawnder. Poed eich serch o hyn allan ar bethau nefol, a dilyn *trugaredd, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros, gan gyd-ddwyn â'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb; megis y maddeuodd Crist i chwi, felly gwnewch chwithau.*[3]

Os dilynwch y rhinweddau nefol hyn a'r cyfryw dros yr hyn sy 'n ol o'ch bywyd, yna chwi a ddangoswch yn oleu ddarfod i chwi gyfodi gyd â Christ, a'ch bod yn blant ysprydol i'ch Tad o'r nef, oddi wrth yr Hwn, megis oddi wrth y Rhoddwr, y mae y rhadau a'r doniau hyn yn deilliaw. Chwi a brofwch fel hyn fod eich ymarweddiad *yn y nefoedd,* lle y mae eich gobaith; ac nid *ar y ddaear,* drwy ganlyn chwantau anifeilaidd y cnawd.

Rhaid i chwi ystyried mai i hyn y glanhawyd ac yr adnewyddwyd

[1] St. Mat. 5. 16. [2] Col. 3. 1. [3] Col. 3. 2, 5—10, 12, 13.

chwi, sef fel y gwasanaethoch Dduw o hyn allan mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd holl ddyddiau eich bywyd.

Os gwrthodwch gymmaint gras, i'r hwn y'ch galwyd, beth arall yr ydych yn ei wneuthur ond pentyrru i chwi eich hunain ddamnedigaeth fwyfwy, ac felly annog Duw i ddigio wrthych ac i ddïal arnoch am y cyfryw wawd ar ei Lân Sacramentau wrth eu camarfer gymmaint?

Ymrôwch, fy nghaeredigion, i fyw yng Nghrist fel y parhao Crist i fyw ynoch chwithau, yr Hwn os yw ei ffafr a'i gynhorthwy gennych, yna mae gennych eisoes fywyd tragywyddol o'ch mewn, ac ni all dim eich niweidio.

Beth bynnag a wnaethoch hyd yn hyn, mae Crist, chwi a welwch, wedi cynnyg i chwi bardwn, a'ch derbyn yn ol i'w ffafr; ac er cwbl sicrwydd i chwi o hynny, mae Ef gennych yn awr yn trigo ac yn cyfanneddu o'ch mewn.—— Yn unig dangoswch eich hunain yn ddïolchgar yn eich bucheddau, a phenderfynwch ynoch eich hunain ochelyd ac ymwrthod â phob peth yn eich ymarweddiad ag a allo dramgwyddo golygon ei drugaredd Ef.

Ymegnïwch i gyfodi eilwaith yr un ffordd ag y syrthiasoch i bwll a phydew pechod. Os â'ch *tafod* y camweddasoch, â'ch tafod cyfodwch eilwaith, trwy ogoneddu Duw âg ef: cynnefinwch ef i glodfori ac i foliannu Enw Duw, fel y dianrhydeddasoch Dduw âg ef. Ac os drygasoch enw da eich cymmydog, neu ei niweidio mewn rhyw ffordd arall, felly yn awr rhowch eich bryd ar wneuthur iawn ac adferiad iddo eilchwyl. Canys heb i chwi wneuthur iawn ac adferiad i'ch cymmydog a ddrygasoch, ni dderbyn Duw na'ch cyffes na'ch edifeirwch.—— Nid digon i chwi ymwrthod â'r drwg, heb i chwi hefyd roi eich bryd yn wrol ar wneuthur y da.—— Trwy ba achlysur bynnag y troseddasoch, trowch yn awr yr achlysur hwnnw er anrhydedd i Dduw ac er lles i'ch cymmydog.

Gwir yw mai cryf yw pechod, ac mai anllywodraethus yw nwydau, ac mai caled yw darostwng a gwrthsefyll ein natur ag sy wedi ei llygru a'i lefeinio gymmaint gan chwerwder sur y gwenwyn a dderbyniasom fel etifeddiaeth oddi wrth ein hen dad Adda. *Eithr cymmerwch gysur*, eb ein Ceidwad Crist, *myfi a orchfygais y byd*[1] a'ch holl elynion eraill drosoch. *Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi; oblegid nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr dan ras*, ebe St. Paul.[2] Er mai gwan yw eich gallu chwi, etto adgyfododd Crist i'ch nerthu yn eich rhyfel, a'i Lân Yspryd a gynnorthwya eich gweddïau.

Mewn ymddiried yn ei drugaredd Ef, cymmerwch mewn llaw *garthu*

[1] 1 St. Ioan 16. 33. [2] Rhuf. 6. 14.

*allan hen lefain* pechod, sy 'n llygru ac yn suro croywder peraidd ein buchedd ger bron Duw, *fel y byddoch does newydd*,[1] heb ddim o surdoes drygioni: felly chwi a fyddwch yn fara croyw i Dduw, fel y gallo Efe ymhyfrydu ynoch.

Lleddwch, meddaf, ac aberthwch wyniau bydol a daearol eich cyrph. *Canys Crist ein Pasg ni a aberthwyd drosom*,[2] i ladd gallu pechod, i'n gwaredu rhag y perygl o hono, ac i roi i ni esampl i farw i bechod yn ein bucheddau.

Fel y bwyttaodd yr Iuddewon yr Oen Pasg, ac y cadwasant eu Gwyl, er coffadwriaeth o'u gwarediad allan o'r Aipht; felly cadwn ninnau ein GWYL BASG mewn diolchus gof am ddoniau Crist, y rhai yn ehelaeth a weithiodd Efe i ni drwy ei Adgyfodiad a'i Ddyrchafael at ei Dad, trwy yr hyn y'n rhyddhâwyd o gaethiwed a charchar ein holl elynion. Felly ymddyrchafwn ninnau o chwantau ein hen ymarweddiad, fel yr achuber ni allan o'u caethiwed hwynt, ac y'n cyfoder gyd â Christ.

Cadwai 'r Iuddewon eu Gwyl trwy ymattal oddi wrth fara lefeinllyd dros yspaid saith niwrnod. Cadwn ninnau Gristionogion ein Dydd Gwyl mewn modd ysprydol, sef trwy ymattal, nid oddi wrth fara lefeinllyd naturiol, ond oddi wrth hen surdoes pechod, *lefain malais a drygioni*.[3] Bwriwn ymaith oddi wrthym surdoes athrawiaeth lygredig, yr hwn a haloga ein heneidiau. Cadwn ein Gwyl trwy holl ystod ein bywyd, trwy fwytta bara purdeb, bara buchedd dduwiol, a bara gwirionedd athrawiaeth Crist.

Fel hyn y dangoswn fod doniau a rhadau Crist yn effeithiol ynom, a bod gennym iawn grediniaeth a gwybodaeth o'i Adgyfodiad Sanctaidd Ef. Ac os gosodwn ni ein ffydd yn gywir arno yn ein buchedd, a chyd-ymffurfio âg esampl ac arwyddoccâd ei Adgyfodiad Ef, ni a fyddwn yn sicr o gyfodi ar ol hyn i ogoniant tragywyddol trwy ddaioni a thrugaredd ein Harglwydd Iesu Grist: I'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl ogoniant, y diolch, a'r mawl, yn oes oesoedd. Amen.

[1] 1 Cor. 5. 7. [2] 1 Cor. 5. 7. [3] 1 Cor. 5. 8.

# HOMILI

## YNGHYLCH TEILWNG DDERBYNIAD A DYLEDUS BARCH SACRAMENT CORPH A GWAED CRIST.

MAE mawr gariad ein Ceidwad Crist at ddyn, bobl dda Gristionogol, yn ymddangos nid yn unig yn nawn ein prynedigaeth a'n hiachawdwriaeth, yr hon ddawn a brynwyd i ni mor ddrud gan ei Angau a'i ddioddefaint Ef, ond hefyd yn ei waith yn darparu mor garedigol ar fod i'r weithred drugaroccaf honno fod mewn gwastadol goffadwriaeth, fel y gallai gael rhyw le ynom, ac na's difuddid hi o'i hamcan a'i diben.

Fel mai nid digon gan rieni tyner gaffael i'w plant feddiannau drudfawr ac etifeddiaeth dêg, ond maent hefyd yn trefnu fod i'r unrhyw gael eu cadw iddynt, a chael eu mwynhâu ganthynt; felly ni thybiodd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr yn ddigon bwrcasu i ni ffafr ei Dad eilwaith (yr hon yw ffynhonnell ddofn pob daioni a bywyd tragywyddol) ond Efe a gafodd allan hefyd y ffordd ddoethaf a'r moddion goreu i beri i'r ffafr honno fod yn elw ac yn ennill i ni.

Un o'r moddion hyn yw cyhoeddus ddatganiad o'n coffadwriaeth o'i Angau Ef wrth Fwrdd yr Arglwydd. Yr hyn, er ei fod ynghyfrif rhai yn beth o ychydig rinwedd, etto pan iawn arferer Ef gan y ffyddloniaid, y mae nid yn unig yn aerthu eu gwendid hwy, (y rhai wrth eu naturiaeth wenwynig sy 'n barottach i gofio camweddau na chymmwynasau,) ond mae hefyd yn cadarnhâu ac yn diddanu eu dyn oddi fewn â thangnefedd a llawenydd, ac yn eu gwneuthur yn ddiolchgar i'w Gwaredwr trwy ofal diwyd ac ymarweddiad duwiol.

Ac fel yr ordeiniodd Duw yn yr hen amser fod i'w ryfeddol ddoniau yngwaredigaeth ei bobl gael eu cadw mewn cof trwy fwytta'r Pasg, a thrwy 'r defodau a'r seremoniau perthynol iddo; felly ein hanwyl Achubwr a ordeiniodd ac a sefydlodd goffadwriaeth o'i fawr drugaredd yn dioddef drosom, yn sefydliad ei Swpper nefol; lle y rhaid i bob un o honom fod yn wahoddedigion, ac nid yn syllwyr; yn fwyttawŷr, ac nid yn edrychwŷr; yn ymborthi ein hunain, ac nid yn cyflogi eraill i ymborthi yn ein lle, fel y gallom fyw ar ein lluniaeth ein hunain, ac nid marw o newyn tra bo eraill yn difa'r cwbl.

I hyn y mae ei orchymyn yn ein *cymmell* ni, gan ddywedyd, *Gwnewch hyn.*[1]—— *Yfwch o hwn bawb.*[2]

I hyn y mae ei addewid yn ein *denu*, gan ddywedyd, *Hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir trosoch.*[3]—— *Hwn yw fy ngwaed, yr hwn yr ydys yn ei dywallt drosoch.*[4]

Felly gan hynny mae'n rhaid i ni ein hunain fod yn gyfrannogion o'r Bwrdd hwn, ac nid bod yn edrychwŷr ar eraill: a rhaid i ni ymorol am ddyfod yn fynych atto mewn dull parchedig a gweddaidd; o herwydd megis y mae physygwriaeth a ddarparer i'r corph yn gwneuthur, o'i chamddefnyddio, fwy o niweid nag o les; felly mae'r feddyginiaeth gysurus hon a ddarparwyd i'r enaid, os cymmerir hi yn anweddus, yn dueddol o droi er mwy o niweid ac o dristyd i ni. Ac fe ddywed St. Paul wrthym, *Yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun.*[5]

Gan hynny, rhag ofn dywedyd wrthym ni fel y dywedwyd wrth un o wahoddedigion y Swpper mawr, *Y cyfaill, pa fodd y daethost ti yma heb fod gennyt y wisg priodas?*[6] ac er mwyn gallu o honom arfer yn ffrwythlon gyngor St. Paul, *Holed dyn ef ei hun, ac felly bwyttâed o'r bara, ac yfed o'r cwppan,*[7] rhaid i ni wybod yn sicr fod tri pheth yn angenrheidiol yn yr hwn a fynno ddyfod yn barchus at Fwrdd yr Arglwydd, ac fel y gweddai i ddirgeledigaethau mor oruchel. Hynny yw,——

Yn gyntaf, Bod gantho deilwng farn a deall ynghylch y dirgelwch hwn.

Yn ail, Bod iddo ddyfod mewn diogel ffydd.

Yn drydydd, Bod gantho newydd-deb a glendid buchedd ar ol cymmuno.

Ond uwchlaw pob peth, rhaid i ni fod yn sicr o hyn yn anad dim arall, sef bod i'r Swpper hwn gael ei wneuthur a'i weinyddu yn y cyfryw fodd ag y gwnaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr, ac y gorchymynodd wneuthur, ac yr arferodd ei Sanctaidd Apostolion a'r Tadau duwiol ef yn y Brif Eglwys gynt. Oblegid, fel y dywed y gwr gwiw hwnnw St. Ambros, y mae efe yn annheilwng o'i Arglwydd, yr hwn a arfero'r dirgeledigaeth hwn mewn modd amgen nag y traddodwyd ganddo Ef. Ac ni all efe fod yn grefyddgar, yr hwn a ryfygo ei gymmeryd mewn modd amgen nag y rhoddwyd ef gan ei Awdwr.

Rhaid i ni ochelyd ynte rhag i ni ei wneuthur yn Aberth yn lle yn Goffadwriaeth; rhag i ni ei wneuthur yn fwyd cyffredin yn lle yn

[1] 1 Cor. 11. 24. [2] St. Mat. 26. 27. [3] 1 Cor. 11. 24. [4] St. Luc 22. 20.
[5] 1 Cor. 11. 29. [6] St. Mat. 22. 12. [7] 1 Cor. 11. 28.

Gymmun; rhag na chymmerom ond un ran o hono yn lle dwy; a rhag, wrth ei wneuthur dros y meirw, i ni y rhai sy 'n fyw, golli ei ffrwyth ef.

Yn y pethau hyn dilynwn yn hytrach gyngor St. Cyprian ar achosion o'r fath; sef hynny yw, Glynu yn ddïogel wrth y dechreuad cyntaf, cadw 'n ddïogel draddodiad yr Arglwydd, gwneuthur er coffadwriaeth am yr Arglwydd yr hyn a wnaeth Efe ei Hun, yr hyn a orchymynodd Efe ei Hun, ac a gadarnhawyd gan ei Apostolion Ef.

Os arferwn ni y gochelgarwch a'r rhagddarbodaeth hyn, yna gallwn ystyried y pethau sydd angenrheidiol yn y derbyniwr teilwng, y cyntaf o ba rai yw, *bod gennym iawn ddeall o'r peth ei hun.*

Tu at ag am y pwngc cyntaf hwn ynte, nyni a allwn fod yn ddigon sicr na all y dyn diwybod nac iawn barchu na defnyddio 'n effeithiol y grasusau a'r doniau rhyfedd a gynhygir ac a ddangosir yn y Swpper hwnnw; ond naill ai efe ni wna ond cyfrif bychan o honynt, er mawr dramgwydd i eraill; neu ynte efe a'u dïystyra hwynt yn hollol, i'w lwyr golledigaeth ei hun. Felly trwy ei *esgeulusdra*, mae yn haeddu i bläau Duw ddisgyn arno; a thrwy ei *ddïystyrwch*, mae 'n haeddu tragywyddol ddistryw.

Gan hynny i ochelyd y niweidiau hyn, dilyn gyngor y Gwr Doeth; *Pan eisteddych i fwytta gyd â thywysog,* eb efe, *ystyria yn ddyfal beth sy ger dy fron.*[1] Felly yn awr yn fwy o lawer, wrth Fwrdd Brenhin y brenhinoedd, y dylit chwilio a gwybod yn ofalus pa ddanteithion sy wedi eu harlwyo i'th enaid, lle 'r wyt wedi dyfod, *nid* i borthi dy synhwyrau corphorol a'th fola i lygredigaeth, ond dy ddyn oddi fewn i fywyd ac anfarwoldeb; *nid* i ystyried y creaduriaid daearol yr wyt yn eu gweled, ond y grasusau nefol, y rhai y mae dy ffydd yn syllu arnynt. Oblegid nid i bïogod dadyrddus, ebe Chrysostom, y mae 'r Ford hon, ond i eryrod, y rhai sy 'n ymgasglu lle bo 'r gelain.

Ac oni ddichon y cyngor hwn o eiddo *dyn* ein perswadio i ddyfod i Fwrdd yr Arglwydd yn ddeallus, gwelwch beth oedd cyngor yr *Arglwydd* ar y cyffelyb achlysur; yr hwn a orchymynodd i'r Israeliaid ddysgu i'w plant, nid yn unig ddefodau a seremoniau 'r Pasg, ond hefyd yr achos a'r diben yr ordeiniwyd ef o'i blegid: wrth yr hyn y gallwn ddysgu, y gofynir ar ein llaw ni yr amser hwn berffeithiach gwybodaeth, ac hefyd na 's gall yr anwybodus ymarferyd yn ffrwythlon ac yn fuddiol â Sacramentau 'r Arglwydd.

Ond i ddyfod yn nes at y matter:—— Mae St. Paul, wrth feio ar y Corinthiaid am halogi Swpper yr Arglwydd, yn dangos mai anwybodaeth o'r peth ei hun, yn gystal ag o'i arwyddoccâd, oedd yr achos eu

[1] Diar. 23. 1.

bod yn ei gamarfer: canys yr oeddynt yn dyfod atto yn ammharchus, *am nad oeddynt yn iawn-farnu Corph yr Arglwydd.*[1]

Oni ddylem ni gan hynny wrth gyngor y Gwr Doeth—— wrth ddoethineb Duw—— ac wrth esampl arswydus y Corinthiaid, gymmeryd pwyll a gofal na ruthrom at y Bwrdd hwn mewn anwybodaeth ammharchedig a diwylder, oblegid yr hyn beth y mae Eglwys Grist wedi bod yn griddfan ac yn galaru yn glwyfus er 's llawer o ddyddiau a blynyddoedd? Canys beth sy wedi bod yn achos aflwydd i Grefydd Duw, ond anwybodaeth o hyn?—— Beth sy wedi bod yn achos yr eilun-addoliaeth noeth sydd yn ein gwlad, ond anwybodaeth o hyn?—— Beth sy wedi bod yn achos o'n hofferennau disynwyr, ond anwybodaeth o hyn?—— Beth sy wedi bod, ac yn bod, yn achos fod cyn fychaned cariad ym mysg dynion y dydd heddyw, ond anwybodaeth o hyn?—— Llafuriwn ninnau ynte felly i *ddeall* Swpper yr Arglwydd, fel na byddom yn ddim achos o ddirywiad addoliad Duw,—— o eilun-addoliaeth, —— o arferyd offerennau mudion,—— nac o gasineb a chynfigen: ac felly ni a allwn yn fwy hyderus ddyfod iddo er ein lles a'n diddanwch.

Eithr nid rhaid i ni dybied fod y cyfryw gyfarwydd wybodaeth yn ofynol i bob dyn, fel y gallo drin ac arholi pob pwngc dyfnddysg yn yr athrawiaeth hon: ond *hyn sy raid i ni fod yn sicr o'i ddal*, nad oes yn Swpper yr Arglwydd ddim seremoni wag, ddim arwydd noeth, na dim cysgod anghywir o beth absennol: ond, fel y dywed yr Ysgrythyr, Bwrdd yr Arglwydd,—— Bara a Chwppan yr Arglwydd,—— Coffadwriaeth am Grist,—— Dangosiad o'i farwolaeth Ef,—— ie, Cymmun Corph a Gwaed yr Arglwydd; mewn ymgorpholaeth rhyfedd, yr hwn trwy weithrediad yr Yspryd Glân (gwir rwymyn ein hundeb â Christ) a weithir drwy ffydd yn eneidiau 'r ffyddloniaid, trwy 'r hyn y mae eu heneidiau yn byw i fywyd tragywyddol, ac yr ennill eu cyrph hefyd adgyfodiad sicr i anfarwoldeb.

Yr hen Dadau Catholig, wrth ganfod iawn ystyr y mwynhâd a'r undeb hwn, ag sy rhwng y Corph a'r Pen, rhwng y gwir ffyddloniaid a Christ, ac wrth ganmol a dysgu 'r unrhyw i'w pobl, nid ofnent alw 'r Swpper hwn, rai o honynt, yn *eli anfarwoldeb*, ac yn *brif feddyginiaeth rhag angau*; eraill, yn *gymmun dwyfolaidd yn ein huno â Duw*; eraill, yn *ddanteithion peraidd ein Hiachawdwr*, yn *wystl iechyd tragywyddol*, yn *amddiffynfa 'r ffydd*, yn *obaith yr adgyfodiad*; eraill, yn *ymborth anfarwoldeb*, yn *ras iachusol*, ac yn gadwedigaeth bywyd tragywyddol.

Pe galwem yn fynych i gof yr holl ymadroddion hyn o'r Ysgrythyr Lân a dynion duwiol, a lefarwyd ganddynt yn gywir am y wledd nefol

[1] 1 Cor. 11. 29.

hon, O! fel yr ennynent ein calonnau i chwennych cyfrannogi o'r dirgeledigaethau hyn, i awyddu 'n fynych am y bara hwn, i sychedu 'n wastadol am y lluniaeth yma! nid gan ystyried yn bennaf y creaduriaid daearol sydd yn aros, ond gan lynu trwy ffydd wrth y Graig hon, a dal ein gafael yn wastad ynddi, o'r hon y gallwn sugno melusder iachawdwriaeth dragywyddol.

Ac ar ychydig eiriau, fel hyn yn llawer mwy y mae 'r ffyddloniaid yn gweled, yn clywed, ac yn adnabod seliad caredig drugareddau Duw, cadarnhâd Iawn Crist tu ag attom, a sicrwydd maddeuant pechod. Yma y gallant deimlo fod wedi cael ei weithio ynddynt lonyddwch cydwybod, cynnydd ffydd, cyfnerthiad gobaith, a helaeth ymledaeniad caredigrwydd brawdol, ynghyd â llawer eraill o amryw radau Duw: blas yr hyn bethau ni allai y rhai sy wedi eu boddi ym mhwll dwfn a thomlyd dallineb ac anwybodaeth mo 'i brofi na 'i gyrhaeddyd. Oddi wrth yr hwn ddallineb ac anwybodaeth, O frodyr anwyl, ymolchwch yn nyfroedd bywiol gair Duw, lle y gellwch ddeall ac adnabod ymborth ysprydol y Swpper drudfawr hwn, ynghyd â'r hyderau a'r effeithiau dedwydd y mae efe yn ei ddwyn gyd âg ef.

YN AWR mae'n dilyn, yn yr ail le, fod gyd â'r wybodaeth hon, ffydd sicr a dianwadal, nid yn unig fod angau Crist yn bridwerth digonol, i brynu 'r holl fyd, ac i gael maddeuant pechod a chymmod â Duw Dad; ond hefyd ddarfod iddo wneuthur ar y Groes gyflawn a digonol aberth drosot *ti*, a llwyr lanhâu dy bechodau *di*, fel nad wyt yn cydnabod un Iachawdwr, nac un Prynwr, nac un Cyfryngwr, nac un Dadleuwr, nac un Eiriolwr arall ond Crist yn unig; ac fel y gellych ddywedyd gyd â'r Apostol, ddarfod *iddo dy garu a'i ddodi ei hun drosot ti.*[1] Oblegid hyn yw glynu 'n ddiogel wrth addewid Crist a wnaed yn ei sefydliad, i wneuthur Crist yn eiddot *ti*, ac i gymhwyso ei haeddedigaethau attat dy hun.—— Yma nid rhaid i ti wrth help neb rhyw ddyn arall, nac wrth un aberth nac offrymmiad arall, nac wrth un offeiriad i aberthu, nac wrth un offeren, nac wrth ddim moddion a sefydlwyd gan ddychymmyg dyn.

Gallwn fod yn sicr fod ffydd yn offeryn anhepgor yn yr holl ddefodau cyssegrlân hyn, oblegid, fel y dywed St. Paul, *heb ffydd ammhossibl yw rhyngu bodd Duw.*[2]

Pan gwympwyd nifer fawr o'r Israeliaid yn y diffaethwch, fe fwyttaodd Moses, Aaron, a Phineas, y *Manna*, ac a ryngasant fodd Duw yn hyn, am eu bod, ebe St. Awstin, yn deall y bwyd gweledig hwnnw yn *ysprydol:* yn ysprydol y newynasant am dano, yn ysprydol y bwyttasant

[1] Gal. 2. 20. [2] Heb. 11. 6.

ef, fel y caffent yn ysprydol eu digoni.—— Ac yn wir, fel na all bwyd y corph borthi 'r dyn oddi allan, oni chymmerir ef i gylla iach i gael ei dreulio; felly 'r un modd ni ellir porthi 'r dyn oddi mewn, oddi gerth iddo dderbyn ei luniaeth i enaid a chalon iach yn y ffydd.

Am hynny, "pan wnelom y pethau hyn," ebe Cyprian, "nid rhaid i ni hogi ein dannedd, ond â didwyll *ffydd* yr ydym yn torri ac yn rhannu y bara cyfan hwnnw."

Fe wyddys yn dda am y bwyd yr ydym yn ei geisio yn y Swpper hwn, mai ymborth *ysprydol* yw; maeth ein *henaid;* a gwledd *nefol*, ac nid daearol; bwyd *anweledig*, ac nid corphorol; sylwedd *ysprydol*, ac nid cnawdol; fel nad yw tybied y gallwn ei fwytta a'i yfed heb ffydd, neu mai hynny yw ei fwynhâu, yn ddim amgen na breuddwýdio am ymborthiad *cnawdol*, a'n rhwymo a'n caethiwo ein hunain yn isel i'r elfennau a'r creaduriaid; pan y dylem, wrth annogaeth Cynghor Nicea, ddyrchafael ein meddyliau trwy ffydd, a chan adael y pethau isel a daearol hyn, ei geisio ef yno, lle mae Haul Cyfiawnder fyth yn tywynnu.

Gan hynny, O dydi yr hwn wyt yn chwennychu 'r Bwrdd hwn, cymmer yr addysg hon gan Emissenus, hen Dad duwiol; "Pan elych i fynu i'r Cymmun parchedig i gael dy ddigoni â bwydydd ysprydol, edrych di i fynu trwy ffydd ar Sanctaidd Gorph a Gwaed dy Dduw; rhyfedda di gyd â gwylder; cyffwrdd di âg ef â'th feddwl; derbyn di ef â llaw dy galon; a chymmer di ef yn gyflawn â'th ddyn oddi fewn."

Fel hyn y gwelwn, fy ngharedigion, y modd y mae 'n rhaid i ni, wrth gyrchu at y Bwrdd hwn, dynnu ymaith holl wreiddiau anffyddlondeb a phob anymddiried yn addewidion Duw, fel y gwneler ni yn aelodau bywiol yng Nghorph Crist: oblegid ni all yr anghredinwŷr na 'r diffydd ymborthi ar y Corph gwerthfawr hwnnw; ond y mae 'r ffyddloniaid yn byw ac yn trigo ynddo, ac wedi eu huno ac megis eu cyd-gorphori âg Ef.

Gan hynny profwn a holwn ein hunain yn ddiragrith, heb wenhieithio i ni ein hunain, a ydym yn blanhigion yn yr olewydden ffrwythlon; yn ganghennau bywiol o'r wir winwydden; yn aelodau mewn gwirionedd o ddirgeledig Gorph Crist; a ydyw Duw wedi puro ein calonnau trwy ffydd, i gydnabod yn ddiffuant ei Efengyl Ef, ac i gofleidio ei drugareddau yng Nghrist Iesu, fel wrth ei Fwrdd hwn y derbyniom nid yn unig y Sacrament allanol, ond y peth ysprydol hefyd; nid yr arwydd, ond y gwirionedd; nid y cysgod, ond y sylwedd; nid i angau, ond i fywyd; nid i ddinystr, ond i iachawdwriaeth: yr hyn caniattâed Duw i ni ei wneuthur trwy haeddedigaethau ein Harglwydd a'n Hachubwr: I'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd. Amen.

YR AIL RAN O'R HOMILI

## YNGHYLCH TEILWNG DDERBYNIAD A DYLEDUS BARCH SACRAMENT CORPH A GWAED CRIST.

YN yr Homili a adroddwyd i chwi yn ddiweddar, chwi a glywsoch, bobl dda, paham y rhyngodd bodd i'n Hachubwr Crist ordeinio coffadwriaeth nefol am ei angau a'i ddïoddefaint, ac y dylai pob un o honom gadw 'r unrhyw wrth ei Fwrdd Ef, yn ein personau ein hunain, ac nid trwy eraill.—— Chwi a glywsoch hefyd gyd â pha wybodaeth am ddirgeledigaethau mor oruchel y dylem ddyfod atto.—— A chlywsoch â pha ddïanwadal ffydd y dylem ein dilladu a'n haddurno ein hunain er mwyn bod yn gyfrannogion addas a gweddaidd o'r ymborth nefol hwnnw.

Yn awr y canlyn y *trydydd* peth sy 'n anghenraid yn y neb na 's mynnai fwytta o'r bara hwnnw nac yfed o'r cwppan hwnnw yn annheilwng; —— a hynny ydyw, *Newydd-deb buchedd a duwioldeb ymarweddiad.* Canys fe ofynir newydd-deb buchedd, megis yn ffrwythau ffydd, gan y sawl a gyfrannogont o'r Bwrdd hwn.

Gallwn ddysgu hyn oddi wrth y dull y bwytteid oen cysgodol y Pasg, yr hyn ni oddefid i neb ei wneuthur ond a fyddai 'n Iuddew, a fyddai 'n enwaededig, ac a fyddai wedi ei sancteiddio ymlaen llaw.

Ië, mae St. Paul yn tystio, er bod y bobl yn gyfrannogion o'r Sacramentau dan Moses, etto, am fod rhai o honynt yn eilun-addolwŷr, yn odinebwŷr, yn demtwŷr Crist, yn rwgnachwŷr, yn chwennychu drygioni, ddarfod i Dduw gwympo y rhai hynny yn yr anialwch, a hynny er esampl i ni: sef, fel y byddai i ni Gristionogion ofalu am ddyfod i'n Sacramentau gyd â sancteiddrwydd buchedd, heb ymddiried yn ein derbyniad allanol o honynt, ac heb ein halogi â moesau llygredig ac anghariadol. Canys rhaid bob amser gyfiawnhau 'r cyhoeddiad hwn a wnaeth Duw, *Trugaredd a ewyllysiaf, ac nid aberth.*[1]

Am hynny, medd St. Basil, "rhaid i'r neb a ddelo at Gorph a Gwaed Crist er cof am yr Hwn a fu farw ac a adgyfododd, nid yn unig fod yn bur oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, rhag iddo fwytta ac

[1] St. Mat. 12. 7.

yfed i'w ddamnedigaeth ei hun; ond rhaid iddo hefyd eglur ddangos ei goffadwriaeth am yr Hwn a fu farw ac a gyfododd eilwaith drosom, *yn y peth hyn*, sef, bod iddo yntau farw i bechod ac i'r byd, i fyw yn awr i Dduw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.".

Felly ynte rhaid i ni ddangos tystiolaeth allanol trwy ddilyn arwyddoccâd angau Crist; a *hyn*, ym mhlith y pethau pennaf, sef rhoi DIOLCH i'r Hollalluog Dduw am ei holl ddoniau, y rhai a gynhwysir yn gryno yn angau, dïoddefaint, ac adgyfodiad ei anwyl Fab.

Ac am y dylem yn bennaf roi 'r dïolch hwn i Dduw wrth y Bwrdd sanctaidd, arferai'r Tadau duwiol alw'r Cymmun yn *Eucharistia*, hynny yw, *Rhoddiad Dïolch;* megis pe dywedasent, "*Yn awr yn anad un amser arall y dylech glodfori a moliannu Duw; yn awr y gellwch weled defnydd, ac achos, a dechreuad, a diwedd pob dïolchgarwch. Os byddwch hwyrfrydig yn awr, yr ydych yn eich dangos eich hunain yn llwyr anniolchus, ac na's gall un rhodd arall byth eich cyffroi chwi i ddïolch i Dduw, a chwithau yn gwneuthur lleied cyfrif o roddion a doniau mor lliosog, mor rhyfeddol, ac mor fuddiol ag sydd yn y Sacrament hwn.*"

Wrth hynny gan fod enw 'r peth, a'r peth ei hun hefyd, yn dwyn dïolch ar gof i ni, *offrymmwn aberth moliant yn wastadol i Dduw*, fel y dywed St. Paul, *yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau yn cyffesu i'w enw ef.*[1] Canys *yr hwn a abertho foliant*, ebe Duw, *a'm gogonedda i.*[2]

Ond mor anaml yw dynion dïolchgar mewn cydmariaeth â'r rhai anniolchgar! Wele, fe lanhawyd deg o wahan-gleifion yn yr Efengyl, ond un yn unig o'r deg a ddychwelodd i roi dïolch am ei iechyd.—— Ië, fe fyddai yn ddedwydd pe gallem gael *dau* a roddai ddïolch yn ddiffuant ym mysg deugain o gymmunwŷr.

Mor anhynaws ydym, mor ebargofus ydym, mor falch gardottwŷr ydym, fel, mewn rhan, nad ydym yn gofalu am ein budd ein hunain; mewn rhan, nid ydym yn gwybod ein dyledswydd tu ag at Dduw; ac yn bennaf, ni fynnwn gyfaddef y cwbl ag ydym yn ei dderbyn; ïe, ac os cymhellir ni trwy allu Duw i wneuthur hynny, yr ydym yn ei wneuthur mor oerllyd a sychlyd, fel, os yw ein gwefusau yn ei foli, mae ein calonnau yn ei oganu; os yw ein tafodau yn ei fendithio, mae ein buchedd yn ei felldithio; os yw ein geiriau yn ei anrhydeddu, mae ein gweithredoedd yn ei ddïanrhydeddu.—— Dysgwn ninnau gan hynny roi dïolch i Dduw yn iawn, a chydnabod felly ei radau godidog a dywalltwyd arnom, fel wedi eu cadw a'u cau i fynu yn nhrysordŷ ein calon, y gallont ymddangos mewn amser a phryd cyfaddas yn ein buchedd a'n hymarweddiad er gogoniant i'w Enw Sanctaidd Ef.

[1] Heb. 13. 15. [2] Ps. 50. 23.

Ym mhellach; ynghylch newydd-deb buchedd, rhaid i ni sylwi fod St. Paul yn ysgrifenu fel hyn; *Oblegid nyni yn llawer*, eb efe, *ydym un bara ac un corph; canys yr ydym ni oll yn gyfrannogion o'r un bara:*[1] gan ddangos wrth hynny nid yn unig ein cyfundeb â Christ, ond hefyd yr undeb hwnnw â'r hwn y dylai y rhai sy 'n bwytta ar y Bwrdd hwn fod wedi eu cyd-gyssylltu: canys ni ddylent hwy fod yn wahanedig oddi wrth eu gilydd gan anghydfyddiaeth, gwag-ogoniant, uchel-frydedd, cynnen, cynfigen, neu falais; ond bod yn gyssylltiedig yn rhwymyn cariad mewn un corph dirgeledig, fel y mae gronynnau ŷd y bara hwnnw wedi eu huno ynghyd yn un dorth.

Mewn cyfeiriad at y cwlwm cariad yma, galwai 'r gwir Gristionogion yn y Brif Eglwys gynt y Swpper hwn yn *Gariad-Wledd;* cystal a dywedyd na ddylai neb eistedd i lawr ynddo ag a fyddai allan o gariad, neh ag a fyddai yn dwyn gwg a dial yn ei galon, na neb ag na ddangosai hefyd ei hynawsedd trwy roddi ryw gardod a chynhorthwy i ryw rai o'r gynnulleidfa.—— A hyn oedd eu harferiad hwy. O dyna nefol wledd a arferid felly! a dyna wahoddedigion duwiol, y rhai a barchent felly y Wledd hon!

Ond O! ys truain o ddynion ydym ni yn y dyddiau hyn, y rhai ydym heb gymmodi â'n brodyr y gwnaethom gam â hwynt, heb wneuthur iawn i'r rhai y parasom iddynt gwympo, heb na theimlad na thosturi at y rhai y gallem yn hawdd eu cynnorthwyo, heb ddim cydwybod o enllib, dirmyg, drygair, ymryson, digasedd, na chwerwedd calon.

Ië, a chwithau yn llwythog o gasineb cuddiedig Cain, o ddirgel falais Esau, o ragrithiol ffalsder Joab; a feiddiwch chwi nesâu at y dirgeledigaethau cyssegrlân ac arswydus hyn!

O ddyn! i ba le yr wyt ti yn rhuthro mor rhyfygus? Bwrdd tangnefedd yw hwn, ac yr wyt tithau yn barod i ymladd!—— Bwrdd diniweidrwydd yw hwn, ac yr wyt tithau yn dychymmygu drygioni!—— Bwrdd tawelwch yw hwn, ac yr wyt tithau yn ymrôi i ymryson!—— Bwrdd tosturi yw hwn, ac yr wyt tithau yn annhrugarog! Onid wyt ti nac yn ofni Duw, Arlwywr y Wledd hon; nac yn parchu Crist, yr hwn yw 'r ymborth sydd ynddi; nac yn ystyried ei Briodas-ferch, yr hon sy 'n eistedd wrth y Bwrdd; nac yn gofalu am dy gydwybod dy hun, yr hon weithian yw dy gyhuddwr tumewnol? Gofala gan hynny, O ddyn, am dy iachawdwriaeth dy hun, prawf a hola dy gariad a'th ewyllys da tu ag at blant Duw, aelodau Crist, etifeddion treftadaeth y nef, ie, tu ag at ddelw Duw, y creadur godidog, sef dy enaid dy hun.—— Os tramgwyddwyd di, cymmoder di yn awr. Os peraist i neb syrthio

[1] 1 Cor. 10. 17.

yn ffordd Duw, gosod ef eilwaith ar ei draed yn awr. Os aflonyddaist dy frawd, dyhudda ef yn awr. Os niweidiaist ef, gwna iawn iddo yn awr. Os twyllaist ef, gwna iddo adferiad yn awr. Os meithrinaist falais, cofleidia gyfeillgarwch yn awr. Os megaist gasineb a chynfigen, dangos yn amlwg dy gariad yn awr; ïe, bydd barod ac ewyllysgar i ofalu am iechyd enaid dy gymmydog, ei lwyddiant, ei les, a'i hyfrydwch, fel yr eiddot dy hun.—— Na haedda drwm ac ofnadwy faich digofaint Duw am dy ddrwg ewyllys tu ag at dy gymmydog, ac am feiddio dyfod felly mor ammharchus at Fwrdd yr Arglwydd.

Yn ddiweddaf oll; fel y mae yma ddirgeledigaeth tangnefedd, a Sacrament Cymdeithas Gristionogol, wrth yr hyn y deallwn pa gariad diragrith a ddylai fod rhwng y gwir gymmunwŷr; felly mae yma hefyd arwyddion purder a diniweidrwydd buchedd, wrth y rhai y gallwn ganfod y dylem buro ein henaid oddi wrth bob aflendid, anwiredd, a drygioni, rhag i ni wrth dderbyn y bara dirgeledig, fel y dywed Origen, ei fwytta mewn lle aflan, hynny yw, mewn enaid wedi ei halogi a'i ddiwyno gan bechod.

Ynghyfraith Moses, y dyn a fwyttâi o'r aberth diolch, a'i aflendid arno, a dorrid ymaith o fysg ei bobl: ac a dybygwn ni y bydd y dyn drygionus a phechadurus yn esgusodol wrth Fwrdd yr Arglwydd?

Yr ydym yn darllen yn St. Paul i Eglwys Corinth gael ei fflangellu gan yr Arglwydd am gam-arferyd Swpper yr Arglwydd; a gallwn weled yn amlwg fod Eglwys Grist wedi cael ei blino a'i gorthrymmu 'n druenus er 's llawer o flynyddoedd am ei halogiad dychrynllyd o'r unrhyw.

Am hynny poed i bawb a phob un o honom edrych ar ein moesau a'n bucheddau ein hunain, a'u diwygio. Yn awr o leiaf galwn ein hunain i gyfrif fel y bo 'n ddrwg gennym am ein hymarweddiad drygionus a aeth heibio,—— fel y casaom bechod,—— fel y tristaom ac y galarom am ein camweddau,—— fel y bo i ni eu tywallt allan mewn dagrau ger bron Duw,—— ac fel y bo i ni mewn diogel ymddiried chwennych ac erfyn am eli ei drugaredd, a brynwyd â Gwaed ei anwyl Fab Iesu Grist, i iachâu âg ef ein gweliau angeuol.

Oblegid yn sicr, oni lanhâwn ni trwy edifeirwch difrifol gylla aflan ein henaid, ni all na ddigwyddo, megis y mae bwyd iach a dderbynier i gylla oer ac afiach yn llygru ac yn gwaethygu 'r cwbl, ac yn achos o fwy afiechyd, felly y bydd i ninnau fwytta 'r bara iach hwn ac yfed y cwppan hwn i'n tragywyddol golledigaeth.

Fel hyn y mae 'n rhaid i *ni*, ac nid i eraill drosom, chwilio 'n drwyadl, ac nid edrych yn ysgafn arnom ein hunain, ac nid eraill; ein cydwybodau ein hunain, ac nid bucheddau rhai eraill; a dylem wneuthur hyn yn uniawn, ac â chywiriad cyfiawn.

"Oh!" medd St. Chrysostom, "na nesâed un Judas at y Bwrdd hwn, ac na ddeued un dyn trachwantus yn agos iddo. Od yw neb yn ddisgybl, bydded hwnnw 'n bresennol; oblegid *gyd â'm disgyblion,* ebe Crist, *y bwyttâf y Pasg hwn.*"

Paham y byddai 'r Diacon yn gwaeddi yn y Brif Eglwys gynt, "Od oes neb yn sanctaidd, deued yn nes?"—— Paham yr arferent y dirgeledigaethau hyn a drws y Gangell yn gauad?—— Paham y gorchymynid i rai a fyddent dan benyd cyhoedd ac i rai a fyddent yn dechreu dysgu Cristionogaeth fyned o'r Eglwys yr amser hwnnw? onid am na dderbyniai y Bwrdd hwn un dyn aflan, ansanctaidd, a phechadurus, y gwneid hynny?

Gan hynny, oni feiddia gweision ryfygu dyfod at fwrdd eu meistr daearol y byddont wedi ei ddigio, edrychwn na ddelom ni i ŵydd ein Harglwydd a'n Barnwr, â'n pechodau heb gael eu holi a'u chwilio.—— Os beius yw y rhai a gusanant law eu Brenhin â genau budr, a fyddi *di* yn ddifeius yr hwn âg enaid drewedig, llawn cybydd-dod, putteindra, meddwdod, balchder, a llawn o feddyliau a myfyrdodau ffiaidd, wyt yn anadlu anwiredd ac aflendid ar Fara a Chwppan yr Arglwydd?

Fel hyn y clywsoch pa fodd y dylech ddyfod yn barchus ac yn weddaidd at Fwrdd yr Arglwydd, a chennych wybodaeth allan o'i Air Ef am y Sacrament hwn ac am ei ffrwythau, a chan ddwyn gyd â chwi ffydd wir a dianwadal, yr hon yw gwreiddyn a ffynhonnell pob newydddeb buchedd, trwy foli Duw a charu ein cymmydog, a thrwy buro ein calonnau oddi wrth frynti a budreddi:

Ac fel hyn ni phair anwybodaeth o'i Sacrament i ni ei ddiystyru, ac ni phair diffyg ffydd i ni golli ei ffrwyth a'i lesâd ef; ond cawn trwy ffydd, mewn gwybodaeth a diwygiad buchedd trwy ffydd, ein cyssylltu yma â Christ ein Pen yn ei Ddirgeledigaethau, er ein diddanwch, fel ar ol hyn y cawn gyflawn fwynhâd o hono mewn gwirionedd, er ein didrangc lawenydd a'n bywyd tragywyddol; i'r hwn dyged Ef ni a fu farw trosom ac a'n prynodd, Iesu Grist y Cyfiawn: i'r Hwn gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, un Gwir a Thragywyddol Dduw, y byddo 'r holl foliant, yr anrhydedd, a'r llywodraeth byth bythoedd. Amen.

# HOMILI

## AM DDISGYNIAD YR YSPRYD GLAN A'I AMRYW DDONIAU.

### (AM DDYDD Y SULGWYN).

CYN y delom i fynegi mawr ac amryw ddoniau 'r Yspryd Glân, o ba rai y mae Eglwys Dduw bob amser yn gyflawn, fe fydd yn anghenraid yn gyntaf esponio i chwi ar fyr o ba beth y cafodd Gwyl y Pentecost neu 'r Sulgwyn, ei dechreuad cyntaf.

Am hynny deallwch y cedwid Gwyl y Pentecost bob amser ar y degfed diwrnod a deugain ar ol Gwyl y Pasg; Uchel-wyliau arbennig ym mhlith yr Iuddewon, ar y rhai y byddent yn cadw coffadwriaeth o'u hymwared allan o'r Aipht, a choffadwriaeth hefyd am gyhoeddiad y ddeddf, yr hon a roddwyd iddynt ar y dydd hwnnw ar fynydd Sinai.

Ordeiniwyd a gorchymynwyd ar y cyntaf gadw 'r dydd hwnnw yn sanctaidd, nid gan neb rhyw ddyn marwol, ond gan enau 'r Arglwydd ei Hun, fel yr ydym yn darllen yn y drydedd ar hugain o Lefiticus a'r unfed ar bymtheg o Deuteronomium.

Y lle a bennodwyd i gadw 'r Wyl hon oedd Jerusalem, lle 'r oedd cyrchfa fawr o bobl o holl barthau y byd, fel y gwelir yn amlwg yn yr ail o'r Actau, lle 'r ydys yn crybwyll am *Barthiaid, Mediaid, Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, a Judea, a Chappadocia, Pontus, ac Asia, Phrygia, a Phamphylia,*[1] ac amryw fannau eraill; wrth yr hyn y gallwn hefyd mewn rhan gasglu mor odidog ac arbennig y cedwid ac y cynhelid yr Wyl fawr hon.

Yn awr, fel y rhoed hyn yn orchymyn i'r Iuddewon yn yr hen gyfraith, felly fe gadarnhaodd ein Hiachawdwr Crist, mewn ystyr, yr unrhyw yn amser yr Efengyl, gan ordeinio Pentecost newydd i'w ddisgyblion; sef pan ddanfonodd Efe 'r Yspryd Glân ar ddull gweledig yn rhith tafodau fforchog megis o dân, ac y rhoes iddynt allu i lefaru yn y cyfryw fodd ag y gallai bawb eu clywed, a'u deall hefyd yn eu tafodiaith eu hunain.

[1] Act. 2. 9, 10.

Ac fel y cedwid y wyrth hon mewn cof parhâus, fe dybiodd yr Eglwys yn dda gadw 'r dydd hwn yn Wyl, yr hwn ddydd a elwir yn gyffredin *y Sulgwyn.*

Ac yma y mae 'n werth sylw, mai fel y rhoed y Ddeddf i'r Iuddewon ar fynydd Sinai *y degfed dydd a deugain wedi 'r Pasg;* felly hefyd y rhoddwyd pregethiad yr Efengyl, trwy gadarn allu 'r Yspryd Glân, i'r Apostolion ar fynydd Sïon *y degfed dydd a deugain wedi 'r Pasg.*

Ac o hyn y galwyd enw 'r Wyl hon yn Bentecost, sef o rifedi 'r dyddiau. Canys fel yr ysgrifena St Luc yn Actau 'r Apostolion, *Wedi dyfod dydd y Pentecost* (sef y degfed dydd a deugain) *yr oeddynt hwy oll yn gyttûn yn yr un lle. Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megis o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt. A hwy oll a lanwyd â'r Yspyd Glân.*[1]

Yr hyn beth a wnaethpwyd yn ddiammeu er mwyn dysgu i'r Apostolion ac i bawb eraill, mai Efe sy 'n rhoi hyawdledd ac ymadrodd i bregethu 'r Efengyl,—— mai Efe sy 'n agoryd y genau i draethu mawrion weithredoedd Duw,—— mai Efe sy 'n ennyn zel losgedig at air Duw, ac yn rhoi i bawb dafod, ïe, tafod tanllyd, fel y gallont yn hyf ac yn gafonnog broffesu 'r gwirionedd yngwyneb yr holl fyd; megis y cynnysgaeddwyd Esay â'r yspryd hwn: *yr Arglwydd Ddww,* eb Esay, *a roddes im' dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol.*[2] Mae 'r Prophwyd Dafydd yn gwaeddi am gael y rhodd hon, gan ddywedyd, *Arglwydd, agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant.*[3] Canys fe ddywed ein Ceidwad Crist hefyd yn yr Efengyl wrth ei ddisgyblion, *Nid chwychwi yw y rhai sy 'n llefaru, ond Yspryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch.*[4]

Mae 'r holl dystiolaethau hyn o'r Ysgrythyr Lân yn dangos yn oleu ddigon fod dirgelwch y tafodau hyn yn arwyddoccâu pregethiad yr Efengyl, a chyhoedd gyffesiad ffydd Grist ym mhob un ag a fyddo 'n feddiannol o'r Yspryd Glân. Felly od yw neb yn Gristion *mud,* heb broffesu ei ffydd yn gyhoeddus, ond yn ei guddio ac yn ei goluro ei hun rhag perygl mewn amser a ddaw, mae efe yn rhoi i ddynion achlysur cyfiawn a chydwybodol i ammeu nad oes gantho rad yr Yspryd Glân o'i fewn, am ei fod yn dafod-rwym, ac heb leferydd.

Fel hyn ynte chwi a glywsoch am sefydliad cyntaf Gwyl y Pentecost neu 'r Sulgwyn, yn gystal dan yr hen Gyfraith ym mhlith yr Iuddewon, ag hefyd yn amser yr Efengyl ym mysg y Cristionogion.

WEITHIAN ystyriwn pa beth ydyw 'r Yspryd Glân, a pha fodd y mae Efe 'n gweithio ei weithredoedd rhyfedd tu ag at ddynol ryw.

[1] Act. 2. 1, 3, 4. [2] Esay 50. 4. [3] Ps. 51. 15. [4] St. Mat. 10. 20.

Yr Ysbryd Glan sy sylwedd ysprydol a dwyfol, y trydydd Person yn y Duwdod, yn wahanredol oddi wrth y Tad a'r Mab, ac etto 'n deilliaw oddi wrthynt ill dau. Mae Credo Athanasius yn tystio fod hyn yn wirionedd, a gellir hefyd ei brofi yn hawdd trwy y tystiolaethau amlyccaf allan o sanctaidd Air Duw:——

Pan fedyddiwyd Crist gan Ioan yn afon yr Iorddonen, yr ydym yn darllen ddisgyn o'r Yspryd Glân yn rhith Colommen, a darfod i'r Tad daranu o'r nef, a dywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.*[1]—— Yma sylwch ar dri amryw Bersonau gwahanredol, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; y rhai er hynny nid ydynt dri Duwiau, namyn un Duw.

Felly pan sefydlodd a phan ordeiniodd Crist gyntaf Sacrament y Bedydd, Efe a ddanfonodd ei ddisgyblion i'r holl fyd, ac a orchymynodd iddynt fedyddio 'r holl genhedloedd, *yn enw 'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.*[2]

Ac mewn man arall Efe a ddywed, *Mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall.*[3] A thrachefn, *Pan ddel y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tad,* &c.[4]

Mae 'r lleoedd hyn ac eraill cyffelyb o'r Testament Newydd yn cadarnhâu mor oleu ac mor amlwg wahaniaeth yr Yspryd Glân oddi wrth y Personau eraill yn y Drindod, fel nad yw bosibl i neb ei ammeu, oddi eithr iddo gablu tragywyddol wirionedd Gair Duw.

Tu ag at am briodol naturiaeth a sylwedd yr Yspryd Glân, yr un ydyw yn hollol â Duwdod y Tad a Duwdod y Mab, sef ysprydol, tragywyddol, digreëdig, anfesuredig, hollalluog; mewn gair, mae Efe yn dragywyddol Dduw ac Arglwydd. O herwydd hyn y gelwir Ef Yspryd y Tad; o herwydd hyn y dywedir ei fod yn deilliaw o'r Tad a'r Mab; o herwydd hyn y cyssylltwyd Ef yn gyfartal â hwynt yn y gorchymyn awdurdodol a gafodd yr Apostolion i fedyddio 'r holl genhedloedd.

Ond fel yr ymddangoso hyn yn eglurach i lygaid pob dyn, fe fydd yn ofynol dyfod at y rhan arall, hynny ydyw, *at weithredoedd rhyfedd a nerthol yr Yspryd Glân,* y rhai sy 'n amlwg hyspysu i'r byd ei nerth a'i allu dwyfol.

Yn gyntaf, mae 'n amlwg ddarfod iddo gyfarwyddo a llywio 'n rhyfedd galonnau 'r Patriarchiaid a'r Prophwydi gynt, gan oleuannu eu meddyliau â gwybodaeth o'r gwir Fessïah, a rhoi iddynt ymadrodd i brophwydo 'r pethau a ddelent i ben yn hir o amser ar ol hynny: *canys,* fel y tystiolaetha St. Petr, *nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant megis y cynhyrfwyd*

[1] St. Mat. 3. 17. [2] St. Mat. 28. 19. [3] St. Ioan 14. 16. [4] St. Ioan 15. 26.

*hwy gan yr Yspryd Glân.*[1] Ac am Zacharias yr offeiriad fe ddywedir yn yr Efengyl, *Efe a gyflawnwyd o'r Yspryd Glân, ac a broffwydodd.*[2] Felly y gwnaeth Simeon, Anna, Mair, ac amryw eraill, er mawr ryfeddod ac aruthredd i bob dyn.

Ym mhellach; onid oedd yr Yspryd Glân yn weithredydd galluog ynghenhedliad a genedigaeth Crist ein Hiachawdwr? Fe ddywed St. Matthew y *cafwyd y Fendigaid Forwyn yn feichiog o'r Yspryd Glân, cyn iddi hi a Joseph ddyfod ynghyd.*[3] A dywedodd yr Angel Gabriel yn bendant wrthi y deuai hynny i ben, gan ddywedyd, *Yr Yspryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di.*[4] Peth rhyfedd ac aruthr! fod i wraig feichiogi ac esgor ar blentyn, a hithau heb adnabod gwr. Ond lle bo 'r Yspryd Glân yn gweithio, nid oes dim yn ammhosibl, fel y gellir gweled ym mhellach hefyd wrth adenedigaeth dumewnol a sancteiddiad dynol ryw:——

Pan ddywedodd Crist wrth Nicodemus, *Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Duw;* efe a synnodd yn anferth yn ei feddwl, ac a ddechreuodd ymresymmu â Christ, gan ofyn, *Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? A ddichon efe fyned,* eb efe, *i groth ei fam eilwaith, a'i eni?*[5]—— Wele yma bortreiad byw o ddyn cnawdol. Nid oedd gantho ond ychydig ddeall am yr Yspryd Glân, ac am hynny mae 'n myned yn fusgrell at y gwaith, ac yn gofyn pa fodd yr oedd modd i hynny fod yn wir. Ond pe gwybuasai efe fawr allu 'r Yspryd Glân yn hyn o beth, mai Efe sy 'n dumewnol yn gweithio adgenhedliad a genedigaeth newydd dynol ryw, ni buasai byth yn rhyfeddu wrth eiriau Crist, ond yn hytrach fe gymmerasai achlysur oddi wrth hynny i glodfori ac i ogoneddu Duw.

Canys fel y mae tri amryw Bersonau yn y Duwdod, felly y mae i'r tri eu hamryw swyddau, priodol i bob un o honynt: y Tad i greu, y Mab i brynu, yr Yspryd Glân i sancteiddio ac i adgenhedlu. O ba rai yr olaf, am ei fod yn waith mwy cuddiedig oddi wrth ein deall ni, felly fe ddylai 'n fwy gyffrôi pob dyn i ryfeddu dirgel a nerthol weithrediad Glân Yspryd Duw, yr Hwn sydd o'n mewn. Oblegid yr Yspryd Glân, ac nid dim arall, sydd yn bywioccâu meddyliau dynion, ac yn peri cynhyrfiadau da a duwiol yn eu calonnau, y rhai sy gyttunol âg ewyllys a gorchymyn Duw, y cyfryw ag na 's gallent byth eu cael o'u naturiaeth drofäus a gwyrgam eu hunain.

*Yr hyn a aned o'r cnawd, sy gnawd,* ebe Crist; *a'r hyn a aned o'r Yspryd, sydd yspryd:*[6] cystal a dywedyd, Mae dyn o'i naturiaeth ei

[1] 2 St. Petr 1. 21. [2] St. Luc 1. 67. [3] St. Mat. 1. 18. [4] St. Luc 1. 35. [5] St. Ioan 3. 4, 5. [6] St. Ioan 3. 6.

hun yn gnawdol, yn ddrygionus, yn bechadurus, ac yn anufudd i Dduw, heb ynddo un wreichionen o ddaioni, nac un amcan rhinweddol a duwiol, ond wedi ymrôi yn unig i feddyliau drwg a gweithredoedd pechadurus. Am weithredoedd yr Yspryd, ffrwythau ffydd, amcanion cariadus a duwiol, od oes gantho yr un o'r rhai hyn o'i fewn, maent yn dyfod oddi wrth yr Yspryd Glân yn unig, yr Hwn yn unig sydd yn gweithio ein sancteiddiad ni, ac yn ein gwneuthur yn ddynion newydd yng Nghrist Iesu.

Oni weithiodd Glân Yspryd Duw yn rhyfedd yn y bachgennyn Dafydd, pan wnaed ef yn Brophwyd brenhinol, o fod yn fugail tlawd?

Oni weithiodd Glân Yspryd Duw yn rhyfedd yn Matthew, ag oedd yn eistedd wrth y dollfa, pan wnaed ef yn Efangylwr ufudd a gostyngedig, o fod yn Bublican balch?

A phwy a ddichon amgen na synnu wrth ystyried wneuthur Petr yn Apostol galluog a phennaf, o fod yn bysgodwr? a gwneuthur Paul o fod yn erlidiwr creulon a gwaedlyd, yn ddisgybl ffyddlon i Grist ac yn Athraw i'r Cenhedloedd?

Cyfryw yw gallu 'r Yspryd Glân i aileni dynion, ac megis i ail-esgor arnynt, fel na byddont ddim tebyg i'r dynion ag oeddynt o'r blaen.

Ac nid digon ganddo weithio genedigaeth ysprydol a newydd dyn oddi fewn, heb aros hefyd a phreswylio ynddo.—— *Oni wyddoch chwi,* medd St. Paul, *mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch? Oni wyddoch chwi fod eich corph yn deml i'r Yspryd Glân sydd ynoch?*[1]—— A thrachefn, *Chwychwi nid ydych yn y cnawd,* eb efe, *ond yn yr Yspryd, od yw Yspryd Duw yn trigo ynoch.*[2]—— A hyn y cyttuna athrawiaeth St. Ioan, yn ysgrifenu fel hyn; *Mae'r enneiniad a dderbyniasoch* (sef yr Yspryd Glân) *yn aros ynoch.*[3]—— Ac fe ddywed athrawiaeth St. Petr yr un peth; *Y mae Yspryd y Gogoniant ac Yspryd Duw,* medd efe, *yn gorphwys arnoch.*[4]

O pa gysur yw hwn i galon Cristion cywir, feddwl fod yr Yspryd Glân yn aros o'i fewn! *Os yw Duw trosom,* ebe 'r Apostol, *pwy a all fod i'n herbyn?*[5]

"Ond pa fodd y gallaf fi," medd rhyw un ond odid, "wybod fod yr Yspryd Glân o'm mewn?"—— Yn wir, fel yr adwaenir y pren wrth ei ffrwyth, felly hefyd y mae 'r Yspryd Glân. Ffrwythau 'r Yspryd Glân (yn ol meddwl St. Paul) yw y rhai hyn: *Cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest.* Yn y gwrthwyneb, gweithredoedd y cnawd yw y rhai hyn: *Tor-priodas,*

[1] 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. [2] Rhuf. 8. 9. [3] 1 St. Ioan 2. 27. [4] 1 St. Petr 4. 14.
[5] Rhuf. 8. 31.

*godineb, aflendid, anlladrwydd, delw-addoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, cynhennau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cynfigennau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn.*[1] Dyma 'r drych y rhaid i ti edrych arnat dy hun ynddo, a barnu pa un ai yr Yspryd Glân ai yspryd y cnawd sy gennyt o'th fewn. Os gweli di fod dy weithredoedd yn rhinweddol ac yn dda, yn gyson â rheol osodedig Gair Duw, heb fod arnynt na blas nac archwaeth y cnawd, ond yr Yspryd, yna poed sicr i ti dy fod wedi dy gynnysgaeddu â'r Yspryd Glân: *heb hynny,* wrth dybied yn dda o honot dy hun, nid wyt yn gwneuthur dim arall ond dy dwyllo dy hun.

Mae 'r Yspryd Glân bob amser yn ei ddangos ei Hun trwy ei ddoniau ffrwythlon a grasusol, hynny yw, trwy *ymadrodd doethineb,* trwy *ymadrodd gwybodaeth,* (yr hyn yw deall yr Ysgrythyrau trwy ffydd) trwy *wneuthur gwyrthiau,* trwy *iachâu 'r cleifion,* trwy *brophwydoliaeth,* (sef mynegiad o ddirgeledigaethau Duw) trwy *wahaniaeth ysprydoedd,* trwy *amryw dafodau,* trwy *gyfieithiad tafodau,*[2] ac felly ymlaen.—— Ac fel y mae 'r holl ddoniau hyn yn deilliaw oddi wrth yr un a'r unrhyw Yspryd, ac yn cael eu cyfrannu i bob un yn ol y mesur y rhyngo bodd i'r Yspryd Glân eu dosparthu; felly maent yn dwyn dynion, ac nid heb achos da, i ddwys ryfeddu dwyfol allu 'r Goruchaf.

Pwy ni synna oblegid yr hyn sydd ysgrifenedig yn Actau 'r Apostolion, wrth glywed eu cyffes ëon hwy ger bron y Cynghor yn Jerusalem, ac wrth ystyried *iddynt fyned ymaith yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddïoddef ammharch o achos Enw 'r Iesu?*[3] Gwaith galluog yr Yspryd Glân oedd hyn, yr Hwn am ei fod yn rhoi dïoddefgarwch a llawenydd calon mewn profedigaeth a chystudd, sy wedi cael yn deilwng yn yr Ysgrythyr yr enw DIDDANYDD.

Pwy hefyd ni ryfedda wrth ddarllen pregethau dysgedig a nefol Petr a'r disgyblion eraill, wrth ystyried na ddygwyd mo honynt erioed i fynu mewn ysgol dysg, ond cael eu galw oddi wrth eu rhwydau i fod yn Apostolion?—— Gwaith galluog yr Yspryd Glân oedd hyn hefyd, yr Hwn am ei fod yn addysgu calonnau 'r gwirion mewn gwir wybodaeth o Dduw a'i Sanctaidd Air, a elwir yn gyfiawnaf wrth yr enw a'r titl hwn, YSPRYD Y GWIRIONEDD.

Mae Eusebius yn ei Hanesyddiaeth Eglwysig yn adrodd histori ryfedd am ryw Philosophydd dysgedig a chywrain, yr hwn, gan ei fod yn wrthwynebwr eithaf i Grist a'i athrawiaeth, ni ellid trwy fath yn y byd o ddysg ei droi i'r ffydd, ond yr oedd yn medru gwrthsefyll yr holl resymmau a ddygid yn ei erbyn, heb ond ychydig iawn o drafferth.

[1] Gal. 5. 19—22. [2] 1 Cor. 12. 8—10. [3] Act. 5. 41.

Ond o'r diwedd fe gyfododd rhyw ddyn tlawd diniweid i fynu, â'i synwyr yn fychan a'i ddysg yn llai, yr hwn a gyfrifid ym mysg y dysgedigion megis yn ynfyd: ac yr oedd yn rhaid i hwn yn enw Duw gael ymddadleu â'r Philosophydd balch. Nid oedd ar yr Esgobion a'r dysgedigion eraill ag oedd yn sefyll ger llaw lai na chywilydd ac ofn o herwydd yr amgylchiad, gan dybied y gwaradwyddid hwynt oll yn gyhoeddus o'i blegid ef. Fe aeth y dyn yn ei flaen er hynny, a chan ddechreu yn enw 'r Arglwydd Iesu, efe a ddygodd y Philosophydd o'r diwedd i'r fath anhawsdra cyfyng yn y ddadl, yn groes i ddisgwyliad pawb oll, nes y gorfu arno gydnabod gallu Duw yn ei eiriau ef, ac ymostwng i'r gwirionedd.—— Onid gweithred ryfedd oedd hon, fod i ddynan gwael a diddysg allu gwneuthur y peth ni fedrodd llawer o Esgobion o ddeall a gwybodaeth fawr erioed ei ddwyn i ben. Mor wir yw geiriau Beda; "Lle bo 'r Yspryd Glân yn addysgu, nid rhaid edrych am ddysg."

Llawer yn ychwaneg a ellid ei ddywedyd yma ynghylch amryw ddoniau a rhadau 'r Yspryd Glân, y rhai sy dra godidog a rhyfeddol yn ein golwg; ond ni chaniattâ byrdra 'r amser wneuthur hir draethawd ar y cwbl: a chan ddarfod i chwi glywed am y rhai pennaf, gellwch yn hawdd ddirnad a barnu ynghylch y rhelyw.

Yn awr fe fyddai 'n fuddiol agoryd y cwestiwn yma, sef, "A ydyw pawb ag sy 'n bostio ac yn ymffrostio bod yr Yspryd Glân ganthynt, yn ei honni iddynt eu hunain yn gyfiawn, ai nad ydynt?" Yr hon ddadl, am ei bod yn angenrheidiol ac yn fuddiol, a agorir ac a amlygir, os caniattâ Duw, yn y rhan nesaf o'r Homili hon.

Yn y cyfamser, rhoddwn (fel yr ydym yn rhwymedicaf) ddïolch o'r galon i Dduw Dad a'i Fab Iesu Grist, am anfon i lawr ei Ddiddanydd i'r byd, gan attolwg iddo yn ostyngedig felly weithio yn ein calonnau trwy allu 'r Glân Yspryd hwn, fel y bo i ni, gwedi ein hadgenhedlu a'n geni o newydd ym mhob daioni, cyfiawnder, sobrwydd, a gwirionedd, gaffael yn y diwedd ein gwneuthur yn gyfrannogion o fywyd trgywyddol yn ei nefol deyrnas, trwy Iesu Grist ein Harglwydd a'n Hiachawdwr. Amen.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# AM YR YSPRYD GLAN;

## YN AGORYD Y DDADL HON, SEF, A YDYW PAWB YN IAWN HONNI YR YSPRYD GLAN IDDYNT EU HUNAIN, AI NAD YDYNT.

PAN oedd ein Hiachawdwr Crist ar ymadael o'r byd at ei Dad, Efe a addawodd i'w ddisgyblion y danfonai i lawr Ddiddanydd arall, yr Hwn a arhosai gyd â hwynt yn dragywydd, ac a'u harweiniai i bob gwirionedd. Ac y mae 'r Ysgrythyrau yn dwyn digon o dystiolaeth ddarfod cyflawni 'r addewid honno 'n ffyddlon ac yn gywir.

Ac ni ddylem ni dybied ddarfod addaw na rhoddi y Diddanydd hwn i'r Apostolion yn unig, ond hefyd i Eglwys Gyffredinol Crist ag sydd ar wasgar trwy 'r holl fyd. Canys oni buasai 'r Yspryd Glân yn bresennol bob amser, yn llywodraethu ac yn diogelu yr Eglwys o'r dechreuad, ni 's gallasai byth sefyll i fynu dan gynnifer a chymmaint o ergydion cystudd ac erledigaeth gyd â chyn lleied o golled ac o niweid ag a gafodd hi.

Ac y mae geiriau Crist yn amlwg iawn yn hyn o beth, yn dywedyd *yr arhosai Yspryd y gwirionedd gyd â hwynt yn dragywydd,*[1] ac y byddai Efe *gyd â hwynt bob amser* (sef yn ei ras, a'i rinwedd, a'i allu,) *hyd ddiwedd y byd:*[2]——

Hefyd yn y weddi a wnaeth Efe ar ei Dad ychydig o flaen ei farwolaeth, mae Efe 'n eiriol nid yn unig drosto ei Hun a'i Apostolion, *eithr dros y rhai hefyd a gredent ynddo ef trwy eu hymadrodd hwynt;*[3] hynny yw, dros ei holl Eglwys.

Drachefn fe ddywed St. Paul, *Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef.* Ac hefyd yn y geiriau canlynol; *Derbyniasoch Yspryd mabwysiad, trwy 'r hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad.*[4]

Wrth hyn ynte mae 'n amlwg i bob dyn ddarfod rhoddi 'r Yspryd Glân nid yn unig i'r Apostolion, ond hefyd i holl gorph Eglwys Grist, er mai nid yn yr un dull a mawrhydi ag y daeth Efe i lawr ar Wyl y Pentecost.

[1] St. Ioan 14. 16. [2] St. Mat. 28. 20. [3] St. Ioan 17. 20. [4] Rhuf. 8. 9, 15.

Ond yn hyn y mae 'r ddadl a'r ymryson yn sefyll, sef, "A ydyw pawb yn cyfiawn honni 'r Yspryd Glân iddynt eu hunain, ai nad ydynt?"

Mae Esgobion Rhufain wedi bod er ys hir dalm o amser yn honni hyn yn haerllug, gan ymresymmu drostynt eu hunain yn debyg i hyn:——"Addawyd yr Yspryd Glân," meddant, "i'r Eglwys, ac nid yw Efe byth yn gadael yr Eglwys. Ond nyni yw 'r pennaduriaid uchaf a'r rhan bennaf o'r Eglwys; gan hynny mae yr Yspryd Glân gyd â ni yn dragywydd; ac felly pa bethau bynnag a ordeiniom ni, maent yn ddiammheuol wirioneddau, ac yn oraclau 'r Yspryd Glân."

Fel y galloch ddeall gwendid yr ymresymmiad hwn, mae 'n angenrheidiol dangos i chwi, yn gyntaf, Pa beth yw gwir Eglwys Grist; ac yna ei chydmaru hi âg Eglwys Rhufain, fel y galler gweled pa mor bell y maent yn cyttuno â'u gilydd.

Y Wir Eglwys yw Cynnulleidfa neu Gymdeithas Gyffredinol y ffyddloniaid ac etholedig bobl Dduw, wedi ei hadeiladu ar sail yr Apostolion a'r Prophwydi, ac Iesu Grist ei Hun yn Ben Congl-faen. Ac y mae iddi bob amser dri o nodau, wrth ba rai yr adnabyddir hi:—— Athrawiaeth bur ac iachus,—— Gweinyddiad y Sacramentau yn ol Sanctaidd Ordinhâd Crist,—— Ac iawn arfer Disgyblaeth Eglwysig.

Mae y portreiad hwn o'r Eglwys yn gyttunol âg Ysgrythyrau Duw, ac hefyd âg athrawiaeth yr hen Dadau, fel na all neb yn gyfiawn feio arno.

Bellach os cydmerwch y portreiad hwn âg Eglwys Rhufain, nid fel yr ydoedd hi yn y dechreuad, ond fel y mae yn awr, ac y mae wedi bod er ys naw cant o flynyddoedd ac ychwaneg, chwi a ellwch weled yn hawdd fod ei chyflwr hi mor bell oddi wrth naturiaeth y wir Eglwys, fel na 's gall dim fod ym mhellach. Oblegid nid ydynt hwy wedi cael eu hadeiladu ar sail yr Apostolion a'r Prophwydi, gan ddal iachus a phur athrawiaeth Crist Iesu; ac nid ydynt chwaith yn trin y Sacramentau, nac yn arferyd yr Agoriadau Eglwysig, yn y modd ag y darfu iddo Ef ar y cyntaf eu sefydlu a'u hordeinio: ond y maent wedi cymmysgu â hwynt eu traddodiadau a'u dychymmygion eu hunain, drwy newid a chyfnewid, ychwanegu a chwttogi, nes y maent yn awr megis wedi eu troi ar ddull newydd:——

Fe orchymynodd Crist i'w Eglwys Sacrament ei Gorph a'i Waed; hwythau a'i newidiasant ef yn Aberth dros y byw a'r meirw.

Fe weinyddodd Crist y Sacrament i'w Apostolion, a'i Apostolion i eraill, yn ddiwahaniaeth dan y ddau ryw; hwythau a yspeiliasant y bobl o'r Cwppan, gan ddywedyd fod *un* rhyw yn ddigon iddynt hwy.

Ni ordeiniodd Crist arferyd yn y Bedydd un Elfen ond Dwfr yn

unig, yr hwn pan gyssyllter y ffurf o eiriau âg ef, a wneir, ebe St. Awstin, yn Sacrament cyflawn a pherffaith; maent hwythau, gan fod yn ddoethach yn eu tyb eu hunain na Christ, yn meddwl na wneir mo hono yn iawn ac yn drefnus, oddi eithr iddynt arferyd rhyw swyn-gyfaredd; oddi eithr iddynt fendigo 'r dwfr; oddi eithr bod olew, halen, poeryn, canhwyllau, a chyfryw seremoniau mudion eraill hollol diddefnydd, yn groes i reol eglur St. Paul, yr hwn sy 'n gorchymyn gwneuthur pob peth yn yr Eglwys er adeiladaeth.

Fe ordeiniodd Crist awdurdod yr Agoriadau i ysgymmuno pechaduriaid cyhoeddus, ac i ollwng y rhai a fyddont wir edifeiriol; maent hwythau yn cam-ddefnyddio 'r awdurdod hon wrth eu hewyllys eu hunain, gan felldithio 'r duwiolion â Chloch a Llyfr a Chanwyll, a chan ollwng yr annuwiolion, y rhai y gwyddys eu bod yn annheilwng o un Gymdeithas Gristionogol: a phwy bynnag a chwennycho weled esamplau o hyn, chwilied eu bucheddau hwynt.

I fod yn fyr, edrychwch beth a ddywedodd ein Ceidwad Crist am yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn yr Efengyl; gellir dywedyd yr un peth yn hyf, ac â chydwybod dda, am Esgobion Rhufain; sef eu bod *wedi* gadael, a pheunydd *yn* gadael, gorchymynion Duw, i osod i fynu eu sefydliadau eu hunain.

Gan fod hyn yn wir, fel y mae 'n rhaid i bawb sy gantho ddim o oleuni Gair Duw gyfaddef ei fod, ni a allwn benderfynu, yn ol rheol Awstin, "Nad ydyw Esgobion Rhufain a'u pleidwŷr ddim yn wir Eglwys Grist, llai o lawer y dylid eu cyfrif yn brif bennaduriaid a llywodraethwŷr yr unrhyw."—— "Pwy bynnag," eb efe, "sy 'n anghyttuno â'r Ysgrythyrau ynghylch y Pen, er y galler eu gweled ym mhob man ag y mae 'r Eglwys wedi ei gosod, etto nid ydynt yn yr Eglwys." Dyma le eglur, yn profi 'n amlwg yn erbyn Eglwys Rhufain.

Pa le yn awr y mae 'r Yspryd Glân, yr Hwn y maent yn ei honni mor dalgryf iddynt eu hunain? Pa le yn awr y mae Yspryd y Gwirionedd, yr hwn ni 's goddef iddynt er dim gyfeiliorni? Os posibl yw ei fod lle nad yw 'r wir Eglwys, yna mae Efe yn Rhufain; ac onid ê, nid yw 'r cwbl ond gwag ymffrost, a dim amgen. Mae St. Paul, fel y clywsoch o'r blaen, yn dywedyd, *Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef:*[1] a gellir troi 'r geiriau, a dywedyd yn wirioneddol, *Od oes neb heb fod yn eiddo Crist, nid yw ei Yspryd Ef ganddo.*

Yn awr fel y gallom ddirnad pwy sy 'n eiddo Ef mewn gwirionedd, a phwy sydd heb fod, fe roddwyd i ni y rheol hon; *fod ei ddefaid ef yn*

[1] Rhuf. 8. 9.

*gwrando ar ei lais Ef.*[1] Ac fe ddywed St. Ioan, *Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrando geiriau Duw.*[2] O hyn y mae 'n canlyn fod y Pabau, wrth fod heb wrando ar lais Crist fel y dylent, ond dewis eu gosodiadau eu hunain o flaen gair pendant Duw, yn profi 'n amlwg i'r byd nad ydynt hwy o Grist, ac nad yw ei Ysbryd Ef ganddynt.

Ond yma hwy a ddadleuant drostynt eu hunain, fod amryw o byngciau angenrheidiol heb eu traethu yn yr Ysgrythyr Sanctaidd, y rhai a adawyd i ddatguddiad yr Yspryd Glân: yr Hwn, gan iddo gael ei roi i'r Eglwys yn ol addewid Crist, a ddysgodd lawer o bethau o bryd i bryd, y rhai ni 's gallai yr Apostolion yr amser hwnnw eu dwyn.

I hyn gallwn atteb yn hawdd yngeiriau eglur Crist, y rhai sy 'n ein dysgu mai swydd briodol yr Yspryd Glân yw, nid sefydlu a dwyn i mewn ordeiniadau newyddion, gwrthwyneb i'r athrawiaeth a ddysgasid o'r blaen, ond esponio a deongli yr hyn a ddysgasai Efe o'r blaen, fel y gellid eu deall yn gywir ac yn dda. *Pan ddel Efe, sef Yspryd y Gwirionedd,* ebe Crist, *Efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd.* Pa *wirionedd* y mae Efe yn ei feddwl? Ai rhyw wirionedd amgen nag a ddatguddiasai Efe ei Hun eisoes yn ei Air? Nag ê: canys Efe a ddywed, *Efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi:* ac hefyd, Efe *a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi.*[3]—— Gan hynny nid dyledswydd a rhan un Cristion yw, dan esgus bod yr Yspryd Glân ganddo, dwyn i mewn i'r Eglwys ei freuddwydion a'i ddychymmygion ei hun; ond rhaid iddo ddarbod yn ddyfal, fod ei athrawiaeth a'i osodiadau yn gyttunol â Thestament Sanctaidd Crist: os amgen, wrth wneuthur yr Yspryd Glân yn Awdwr o honynt, nid yw ond cablu 'r Yspryd Glân, a'i wneuthur yn gelwyddog i'w gondemniad ei hun.

Yn awr i adael heibio son am eu hathrawiaeth hwy, ac i ddyfod at bethau eraill:——

Beth a dybygwn neu a farnwn ni am FALCHDER anoddefol y Pab? Fe ddywed yr Ysgrythyr *fod Duw yn gwrthwynebu 'r beilchion, ac yn rhoi gras i'r rhai gostyngedig;*[4] ac y mae 'n cyhoeddi hefyd mai *gwyn eu byd y tlodion yn yr Yspryd;*[5] ac yn addaw mai *pwy bynnag a'i gostyngo ei hun, a ddyrchefir;*[6] ac y mae Crist ein Hachubwr yn ewyllysio i bawb *ddysgu ganddo, am ei fod yn addfwyn a gostyngedig o galon.*[7] Ac fe ddywed St. Gregori am falchder, mai "gwreiddyn pob drygioni ydyw." A barn St. Awstin yw, fod balchder yn gwneuthur dynion yn gythreuliaid.

A all un dyn ynte ag a ddarllenodd neu a dderllyn hanes bywydau 'r Pabau, ddywedyd yn gyfiawn fod ganddynt yr Yspryd Glân o'u mewn?

[1] St. Ioan 10. 3. [2] St. Ioan 8. 47. [3] St. Ioan 16. 13, 14. a 14. 26.
[4] 1 St. Petr 5. 5. [5] St. Mat. 5. 3. [6] St. Mat. 23. 12. [7] St. Mat. 11. 29.

Yn gyntaf, am yr hyn a berthyn i'w gwaith yn mynnu cael eu galw yn Esgobion Cyffredinol ac yn ben ar holl Eglwysi Cred trwy 'r byd; mae gennym farn Gregori yn bendant yn eu herbyn, yr hwn wrth ysgrifenu at yr Ymherawdwr Mauritius, sy 'n condemnio Ioan, Esgob Constantinopl, am wneuthur hynny, gan ei alw ef yn Dywysog balchder, yn Olynydd Lucifer, ac yn Rhagflaenydd Anghrist.

Ac y mae St. Bernard yn cyttuno â hyn, ac yn dywedyd, "Pa falchder mwy a all fod, na bod i un dyn ddewis ei farn ei hun o flaen barn yr holl gynnulleidfa, fel pe ynddo ef yn unig y byddai Yspryd Duw?"

Ac y mae Chrysostom yn cyhoeddi dedryd ofnadwy yn eu herbyn hwy, gan ddatgan yn amlwg am "bwy bynnag a geisio fod yn bennaf ar y ddaear, y caiff efe waradwydd yn y nef; ac na bydd i'r hwn a ymrysono am y flaenoriaeth, gael ei gyfrif ym mhlith gweision Crist." —— A thrachefn efe a ddywed, "Peth da yw dymuno gwaith da; ond chwennych y radd bennaf o anrhydedd sy wagedd diledryw."

Onid yw 'r lleoedd hyn yn argyhoeddi digon ar eu hanferthol falchder yn traws-feddiannu iddynt eu hunain oruchafiaeth ar bawb eraill, nid yn unig ar Weinidogion ac Esgobion, ond ar Frenhinoedd ac Ymherawdwŷr hefyd?

Ond fel yr adwaenir y llew wrth ei grafangau, felly dysgwn ninnau adwaen y gwŷr hyn wrth eu gweithredoedd.

Beth a ddywedwn ni am yr hwn a barodd rwymo 'r Brenhin uchelwaed Dandalus gerfydd ei wddf â chadwyn, ac a wnaeth iddo orwedd dan ei fwrdd ef i gnoi esgyrn fel ci? A dybygwn ni fod gan hwnnw Lân Yspryd Duw o'i fewn, ac nid yn hytrach yspryd Diafol?—— Y cyfryw ormeswr oedd y Pab Clement y Chweched.

Beth a ddywedwn ni am yr hwn a sathrodd yr Ymherawdwr Frederic yn falch ac yn ddirmygus dan ei draed, gan gymhwyso atto ei hun yr adnod hon o'r Psalm; *Ar y llew a'r asp y cerddi; y cenaw llew a'r ddraig a fethri?*[1] A ddywedwn ni fod gan hwnnw Lân Yspryd Duw o'i fewn, ac nid yn hytrach yspryd Diafol?—— Y cyfryw ormeswr oedd y Pab Alexander y Trydydd.

Beth a ddywedwn ni am yr hwn a arfogodd ac a annogodd y mab yn erbyn ei dad, gan beri ei ddal ef, a'i newynu 'n greulon i farwolaeth, yn groes i ddeddf Duw a deddf naturiaeth hefyd? A ddywedwn ni fod gan hwnnw Lán Yspryd Duw o'i fewn, ac nid yn hytrach yspryd Diafol?—— Y cyfryw ormeswr oedd y Pab Pascal yr Ail.

Beth a ddywedwn ni am yr hwn a ddaeth i'w Babaeth fel llwynog, a reolodd fel llew, ac a fu farw fel ci? A ddywedwn ni fod gan hwnnw

[1] Ps. 91. 13.

Lân Yspryd Duw o'i fewn, ac nid yn hytrach yspryd Diafol?—— Y cyfryw ormeswr oedd y Pab Bonifacius yr Wythfed.

Beth a ddywedwn ni am yr hwn a wnaeth i'r Ymherawdwr Harri a'i wraig a'i blentyn ieuangc sefyll wrth borth y ddinas yn y gauaf garw, yn droed-noeth goes-noeth, heb ddim yn eu cylch ond gwlanen deneu, ac heb fwytta dim o'r boreu hyd yr hwyr, a hynny dros yspaid tri diwrnod? A ddywedwn ni fod gan hwnnw Lân Yspryd Duw o'i fewn, ac nid yn hytrach yspryd Diafol?—— Y cyfryw ormeswr oedd y Pab Hildebrand.

Gellid adrodd yma fagad o esamplau eraill:——

Esgorodd y Pab Joan y buttain ar blentyn ar yr heol, wrth gerdded mewn gorymdaith grefyddol.

Taflodd y Pab Julius yr Ail Agoriadau St. Petr o'i wirfodd i'r afon Tiber.

Parodd y Pab Urban y Chweched ddodi pump o Gardinaliaid mewn sachau, a'u boddi 'n druenus.

Dïalodd y Pab Sergius y Trydydd ei lid ar gorph marw Formosus, yr hwn a fuasai 'n Bab o'i flaen, a'r hwn a gladdesid er 's wyth mlynedd.

Y Pab Ioan y Pedwerydd ar ddeg, wedi cael o hono ei elyn i'w afael, a barodd yn gyntaf ei ddïosg yn noeth lymmun, ac eillio ei farf, a'i grogi gerfydd ei wallt dros ddiwrnod cyfan, ac yna ei osod ar gefn asyn, a'i wyneb at y gynffon, a'i ddwyn felly o amgylch y ddinas o ddirmyg iddo, a'i ffiangellu 'n druenus â gwïail, ac yn ddiweddaf oll ei yrru allan o'i wlad a'i alltudio am byth.

Ond i ddibennu; cymmerwch yr addysg fer hon ar ychydig eiriau: —— Pa le bynnag y gweloch yspryd rhyfyg a balchder, yspryd cynfigen, casineb, cynnen, creulondeb, llofruddiaeth, crib-ddeiliaeth, swyngyfaredd, consuriaeth, &c. poed sicr i chwi mai yspryd Diafol, ac nid Yspryd Duw, sydd yno, er maint eu rhith sancteiddrwydd yngolwg y byd. Canys, fel y mae 'r Efengyl yn ein dysgu ni, mae Yspryd Iesu yn Yspryd da, yn Yspryd Sanctaidd, yn Yspryd llariaidd, yn Yspryd gostyngedig, yn Yspryd trugarog, llawn cariad a charedigrwydd, llawn maddeugarwch a thosturi, heb dalu drwg am ddrwg, ond yn gorchfygu drygioni trwy ddaioni, ac yn barod i faddeu pob camwedd o eigion ei galon.

Yn ol y rheol hon, gellir datgan yn ddïogel am ba ddyn bynnag a fyddo byw 'n uniawn, fod gan hwnnw Yspryd Duw o'i fewn; os amgen, dyna argoel amlwg ei fod yn cymmeryd enw 'r Yspryd Glân arno yn ofer.

Am hynny, fy anwyl garedigion, yn ol cyngor da St. Ioan, *Na*

*chredwch bob yspryd, ond profwch yr ysprydion, ai o Dduw y maent.*[1] —— *Daw llawer yn fy enw i,* medd Crist, gan ymrithio yn angylion y goleuni, *hyd oni thwyllant, pe byddai bosibl, ie, yr etholedigion:*[2] *hwy a ddeuant attoch yngwisgoedd defaid, ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt.*[3] Fe fydd ganddynt oddi allan rith sancteiddrwydd mawr a diniweidrwydd buchedd, fel y bydd yn anhawdd, os nad yn ammhosibl i chwi eu hadnabod. Ond hon yw y rheol y mae 'n rhaid i chwi ei dilyn, WRTH EU FFRWYTHAU YR ADNABYDDWCH HWYNT: oblegid os bydd y ffrwythau 'n ddrwg, nid oes modd i'r pren fod yn dda, yr hwn y maent yn tyfu arno.

Cyfryw oedd holl Baban a Phreladiaid Rhufain gan mwyaf, fel y mae 'n eglur wrth hanes eu bywydau hwynt; ac am hynny cyfiawn y cyfrifir hwynt ym mhlith nifer y gau brophwydi a'r gau gristian, y rhai a dwyllasant y byd dros gyhyd o amser.

Arglwydd nef a daear a'n hamddiffyno ni rhag eu trais a'u balchder hwy, fel na ddelont byth mwyach i'w winllan Ef i darfu ei ddiadell druan, ond cael o honynt eu hollol waradwyddo a'u gyrru ar ffo yn holl barthau 'r byd: a gweithied Efe o'i fawr drugaredd ynghalonnau pawb oll, trwy alluog nerth yr Yspryd Glân, fel y gwir bregether, y gwir dderbynier, ac y gwir ddilyner diddanus Efengyl ei Fab Ef Crist Iesu, er mwyn curo i lawr bechod, angau, y Pab, y Diafol, a holl deyrnas Anghrist, fel y gallom ni fel defaid gwasgaredig wedi ein casglu o'r diwedd i'r un gorlan, gael gorphwys oll ynghyd yn y diwedd ym mynwes Abraham, Isaac, a Jacob, a bod yno 'n gyfrannogion o fywyd tragywyddol heb drangc na gorphen, trwy haeddedigaethau a marwolaeth Iesu Grist ein Ceidwad. Amen.

[1] 1 St. Ioan 4. 1. [2] St. Mat. 24. 24. [3] St. Mat. 7. 15.

# HOMILI

## AM WYTHNOS Y DYRCHAFAEL.

### BOD POB PETH DAIONUS YN DYFOD ODDI WRTH DDUW.

MAE yn fy mryd heddyw, Gristionogion defosiynol, ddatgan i chwi haeddedicccaf glod a chanmoliaeth yr Hollalluog Dduw, nid yn unig o ran rhyfedd gread y byd hwn, neu ei gynhaliad a'i lywodraethiad, yn yr hyn yr ymddengys ei fawr allu a'i ddoethineb Ef yn odidog i'n cyffrôi ni i'w anrhydeddu a'i ofni; ond yn enwediccaf wrth ystyried ei helaeth a'i hael ddaioni Ef, yr hwn y mae beunydd yn ei roi i ni ei greaduriaid rhesymmol, er mwyn y rhai y gwnaeth Efe'r holl fyd i gyd, ynghyd â'i holl ddâ a'i fuddioldeb. Ac fe ddylai dyfal gof am ei ddaioni nodedig hwn ein cynhyrfu ninnau hefyd, fel y mae 'n ddyledus, i'w garu Yntau â serch calon, a'i foli ar air a gweithred, a'i wasanaethu holl ddyddiau ein heinioes.

Ac yr wyf yn gobeithio nad rhaid i mi gylchynu llawer mewn geiriau i'ch cyffrôi i roi eich sylw ar beth mor wiw i mi ei draethu, ac i chwithau ei glywed.—— Yn unig mi a ewyllysiwn fod eich serchiadau yn dirgel gynhesu o'ch mewn, i beri rhyw deimlad o ddïolchgarwch am ddaioni 'r Hollalluog Dduw, wrth i mi agoryd a thraethu pob pwngc mewn trefn wrthych. Canys pa les i ni glywed a gwybod mawr ddaioni Duw tu ag attom,—— gwybod fod pa beth bynnag oll ag sy 'n *dda*, yn deilliaw o hono Ef, megis y brif ffynhonnell a'r unig Awdwr, —— neu wybod fod pa beth bynnag oll a ddanfoner oddi wrtho Ef, yn ddaionus ac yn iachusol o angenrheidrwydd; pa les i ni, meddaf, fydd gwrando a gwybod hyn, oni bydd i'n gwrandawiad o'r cyfryw fatter ein gyrru ym mhellach na 'i wybod yn unig?—— Beth fu doethion y byd well o'u gwybodaeth am allu a dwyfoldeb Duw, trwy ei ddirgel ysprydoliaeth Ef, a hwythau heb ei anrhydeddu na'i ogoneddu *fel* Duw, yn eu gwybodaeth am dano? Pa glod oedd iddynt fedru canfod ei ddaioni wrth ystyried creawdwriaeth y byd, a hwythau heb fod yn ddïolchus iddo am ei greaduriaid? Beth arall a haeddodd eu dallineb a'u hanghof

hwn ar law Duw, ond bod iddo eu gwrthod yn gwbl? A chwedi i Dduw eu gwrthod felly, ni allent amgen na chwympo i eithaf anwybodaeth a chyfeiliornad. Ac er eu bod yn gwneuthur cyfrif mawr o honynt eu hunain o ran eu synwyr a'u gwybodaeth, ac yn ymffrostio yn eu doethineb, etto hwy a ddiflannasant ymaith yn ddeillion, aethant yn ffyliaid yn eu meddyliau, a hwy a gyfrgollwyd yn eu ffolineb.

Ni's gall fod amgen diwedd na llwyr ddistryw i'r sawl a nesânt at Dduw trwy wybodaeth, ac etto a bellhânt oddi wrtho trwy anniolchgarwch. Fe welodd Dafydd brofiad o hyn yn ei oes: canys efe a ddywed yn y Psalm, *Wele, difethir y rhai a bellhânt oddi wrthyt; torraist ymaith bob un a butteinio oddi wrthyt.*[1] Fe welodd y sanctaidd Brophwyd Jeremiah fod hyn yn wir: *O Arglwydd,* eb efe, *y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir; ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddi wrthyt, am iddynt adael yr Arglwydd, ffynnon y dyfroedd byw.*[2]

Ni wna ddim lles, bobl dda, glywed datgan i ni ddaioni Duw, oddi eithr i hynny ennyn ein calonnau i'w anrhydeddu ef ac i ddïolch iddo. —— Ni wnaeth les i'r Iuddewon, er i Dduw eu dethol yn bobl iddo ei Hun, glywed llawer am Dduw, yn gymmaint ag na 's derbyniasant Ef i'w calonnau trwy ffydd, ac na buant ddïolchgar iddo am ei ddaioni iddynt: A'u hannïolchgarwch oedd yr achos o'u dinystr.

Gochelwn ni arfer y cyfryw rai, a dilynwn yn hytrach esampl y sanctaidd Apostol St. Paul, yr hwn pan welodd mewn dwfn fyfyrdod weithrediadau rhyfedd yr Hollalluog Dduw, ac ystyried ei anfesurol ddaioni yn nhrefniad ei greaduriaid, a dorrodd allan yn y diwedd, ac a lefodd, *O hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef, y mae pob peth.* A chwedi unwaith ddatgan hyn, ni safodd yma, ond aeth ym mlaen gan ychwanegu yn ebrwydd y geiriau hyn; *Iddo ef y byddo gogoniant yn dragywydd. Amen.*[3]

Ar sail y geiriau hyn o eiddo St. Paul, wrandawŷr da, y mae yn fy mryd adeiladu fy nghyngor i chwi am y dydd heddyw: ac yn hyn mi a wnaf fy ngoreu i brofi i chwi,

Yn gyntaf, Mai *oddi uchod, oddi wrth Dad y goleuni, y mae pob rhoddiad daionus yn disgyn.*[4]

Yn ail, Mai Iesu Grist, mab Duw, a'n Hiachawdwr ni, ydyw 'r *cyfrwng,* trwy ba un yr ydym yn derbyn ei hael ddaioni Ef.

Yn drydydd, Mai trwy allu a rhinwedd yr Ysbryd Glân yr ydys yn ein gwneuthur yn addas ac yn alluog i dderbyn ei ddoniau a'i radau Ef.

Yr hyn bethau, od ystyriwn hwy bob un wrtho ei hun ac yn bwyllig yn ein meddyliau, a'n cymhellant mewn gostyngeiddiaf barch, yn ol ein

[1] Ps. 73. 27. [2] Jer. 17. 13. [3] Rhuf. 11. 36. [4] St. Iago 1. 17.

rhwymedig ddyled, i dalu diolch gwastadol iddo, i dystio fod ei haeddedigaethau tu ag attom yn cael effaith ddaionus ar ein calonnau.

Ac fel y bo traethiad y pwngc mewn llaw er gogoniant i'r Hollalluog Dduw, galwn mewn un ffydd a chariad ar Dad y trugareddau, oddi wrth yr Hwn y daw *pob rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith*, trwy gyfryngiad ei anwyl Fab ein Hiachawdwr, ar i ni gael ein cynnorthwyo â phresennoldeb ei Lân Yspryd, i ymddwyn, wrth lefaru a gwrando, er lles iachawdwriaeth ein heneidiau.

Yn nechreuad fy ymadrodd wrthych, Gristionogion da, na thybygwch fy mod yn cymmeryd arnaf ddatgan i chwi odidog nerth a doethineb anghydmarol yr Hollalluog Dduw, fel pe mynnwn i chwi gredu y gellir traethu hyn i chwi mewn geiriau; na, ni ddylid tybied y gall geiriau dyn gynnwys yr hyn sydd anamgyffredadwy.—— A gormod rhyfyg fyddai i lwch a lludw dybied y gall yn deilwng ddatgan ei Wneuthurwr. Mae ymhell tu hwnt i ddeall a doethineb tywyll marwol ddyn, lefaru 'r cwbl am y Mawredd Dwyfol, yr hwn ni 's gall yr Angylion ei ddeall:

Am hynny ni a adawn heibio son am natur ddofn ac anchwiliadwy 'r Hollalluog Dduw, gan gydnabod ein gwendid, yn hytrach na chynnyg yn fyrbwyll yr hyn sydd uwchlaw pob gallu dyn ei gyflawni.—— Gweddusach fydd i ni mewn gwylder isel barchu ac ofni ei Fawrhydi Ef, yr hwn ni 's gallwn ei amgyffred, na thrwy chwilio 'n rhy fanylaidd gael ein llethu â'i ogoniant Ef. Ni a drown yn hytrach ein holl fyfyrdod dros ennyd ar ei DDAIONI tu ag attom; a gallwn yn hyn lafurio gyd â mwy o fuddioldeb, a chwilio gyd â mwy o hyfdra.

Ni ddichon ystyriaeth o'i fawr *nerth* Ef ond gwneuthur i ni ofni ac arswydo. Fe allai ystyriaeth o'i oruchel *ddoethineb* Ef ddigalonni ein gwendid ni, rhag bod i ni ddim a wnelom âg Ef. Ond wrth ystyried ei *ddaioni* ammhrisiadwy, yr ydym yn cymmeryd calon drachefn i hyderu ynddo. Trwy ei *ddaioni*, fe'n cefnogir i'w gymmeryd Ef yn nodded i ni, yn obaith ac yn gysur i ni, ac yn Drugarog Dad i ni, drwy holl dreigl ein bywyd.

Ei nerth a'i ddoethineb a'n cymhellant i'w addef yn Dduw Hollalluog, Anweledig, â chanddo reolaeth ar nef a daear, a phob peth yn ddarostyngedig iddo, ac ni fyn neb i'w gynghori, nac i ofyn ganddo reswm am yr hyn a wnelo: canys *yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur, ac nid oes neb a attalio ei law ef.*[1] *Yr Arglwydd*, ebe Solomon, *a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun: a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.*[2] Oblegid ei natur, fe'i gelwir Ef yn yr Ysgrythyr yn *Dân Ysol*,[3] ac yn *Dduw mawr ac ofnadwy*.[4]—— Ar y golygiad hwn ynte nid

[1] Dan. 4, 35. [2] Diar. 16. 4. [3] Heb. 12. 29. [4] Deut. 7. 21.

oes i ni gyfeillach âg Ef, na dyfodiad atto.—— Ond mae ei Ddaioni drachefn yn tymheru llymder ei gadernid goruchel, yn ein gwneuthur yn hyderus, ac yn peri i ni obeithio y bydd yn gyfeillgar â ni, ac y bydd yn esmwyth wrthym.

Ei ddaioni sy 'n ei gynhyrfu i ddywedyd yn yr Ysgrythyr fod ei *hyfrydwch gyd â meibion dynion.*[1]

Ei ddaioni sy 'n ei gynhyrfu i'n galw ni atto, i gynnyg i ni ei gymdeithas a'i bresennoldeb.

Ei ddaioni sy 'n goddef yn amyneddgar i ni grwydro oddi wrtho, ac yn hir-ymaros wrthym, i'n hennill i hedifeirwch.

O'i ddaioni ef y gwnaed ni yn greaduriaid rhesymmol, lle y gallasai ein gwneuthur yn anifeiliaid ysgrublaidd.

Ei drugaredd Ef oedd cael o honom ein geni ym mysg Cristionogion, a thrwy hynny bod mewn nes agosrwydd at iachawdwriaeth; lle y gallasem gael ein geni (oni bai ei ddaioni Ef) ym mhlith Paganiaid yn hollol heb Dduw ac heb obaith bywyd tragywyddol.

A pha beth y mae ei leferydd mwyn a charedig Ef yn ei wneuthur, yr hwn a draethir yn ei Air Ef, (lle y geilw ni i'w bresennoldeb a'i gymdeithas,) ond datgan ei ddaioni Ef yn unig, heb olygu dim o'n rhygllyddiant ni.

A pha beth arall sydd yn ei gyffrôi Ef i'n galw ni atto, pan ydym ar gyfrgoll oddi wrtho, ac i fod yn hir-ymarhôus wrthym, i'n hennill i edifeirwch, ond yn unig ei nodedig ddaioni Ef, heb un tippyn o'n haeddiant ni?

Deued yr holl rai sy 'n awr wedi eu gogoneddu yn y nef ynghyd, a gwrandawn pa atteb a wnant yn y pyngciau a grybwyllwyd uchod, pa un ai o ddaioni Duw ai o honynt eu hunain yr oedd eu cread hwynt. Yn wir attebai Dafydd drostynt oll, a dywedai, *Gwybyddwch mai 'r Arglwydd sy Dduw; efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain.*[2]—— Pe gofynid iddynt eilwaith, i bwy y dylid diolch am eu hadenedigaeth, am eu cyfiawnhâd, ac am eu hiachawdwriaeth, pa un ai i'w haeddiant hwy, ynte i ddaioni Duw yn unig: er fod pob un yn y pwngc hwn yn cyffesu 'n ddigonol wirionedd y matter yn ei berson ei hun; etto bydded Dafydd ar hyn o bryd yn enau iddynt oll, yr hwn ni 's gall lai nag atteb, *Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i 'th enw dy hun dod ogoniant, er mwyn dy drugaredd, ac er mwyn dy wirionedd.*[3]—— Os gofynwn drachefn, o ba le y daeth eu gweithredoedd gogoneddus, â'r rhai y boddiwyd ac yr anrhydeddwyd Duw gymmaint ganddynt yn eu bywyd; dyger i mewn ryw dyst arall i ddwyn tystiolaeth i'r un matter, fel yng

[1] Diar. 8. 31. [2] Ps. 100. 3. [3] Ps. 115. 1.

ngenau dau neu dri y gwyper y gwirionedd. Ac yn wir mae 'r sanctaidd Brophwyd Esay yn tystio, ac yn dywedyd, *Ti a wnaethost ein holl weithredoedd ynom ni.*[1]—— Ac i ddal i fynu wirionedd y pwngc hwn yn erbyn yr holl ymgyfiawnhawŷr a'r rhagrithwŷr sy 'n yspeilio Duw o'i anrhydedd, ac yn ei brïodoli iddynt eu hunain, mae St. Paul yn dwyn i mewn ei grediniaeth ei hun: *Nid ydym ni yn ddigonol o honom ein hunain,* eb efe, *i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni sydd o Dduw.*[2] *Oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod.*[3] Os mynnwch wybod ym mhellach o ba le y cawsant eu rhoddion a'u haberthau, y rhai a offrymment yn wastad yn eu bywyd i'r Hollalluog Dduw, ni allant lai na chydsynio â Dafydd, lle y dywed, *Oddi wrthyt ti y mae pob peth, ac o'th law dy hun y rhoisom i ti.*[4]

Gan hynny od yw'r cwmpeini sanctaidd hwn yn cyffesu mor gyttûn mai o ddaioni Duw 'n unig y daeth yr holl ddoniau a'r grasusau y cynnysgaeddwyd eu heneidiau â hwynt, beth yn rhagor a ellir ei ddywedyd i brofi mai oddi wrth yr Hollalluog Dduw y mae pob peth daionus yn dyfod?

Ai addas tybied fod pob daioni ysprydol yn dyfod oddi wrth Dduw uchod yn unig, ond fod pethau da eraill, megis pethau da natur, neu bethau da rhagluniaeth, yn deilliaw o ryw achos arall?

A ydyw Duw o'i ddaioni yn addurno 'r *enaid* â'i holl alluoedd, fel y mae; ac a ydyw y doniau y cynnysgaeddir y *corph* â hwynt yn dyfod oddi wrth neb arall?

Od yw Efe 'n gwneuthur yr hyn sy fwyaf, oni all Efe wneuthur yr hyn sy lai? "Mae cyfiawnhâu pechadur, a'i greu o newydd o fod yn ddyn drwg i fod yn wr cyfiawn, yn weithred fwy," medd St. Awstin, "na gwneuthur nefoedd a daear newydd fel y rhai a wnaed eisoes."

Rhaid i ni ynte gyttuno, am ba ddaioni bynnag sy gennym, pa un bynnag ai o ras, ai o natur, ai o ragluniaeth, mai oddi wrth Dduw yn unig y mae'n dyfod, fel ei unig Awdwr a'i Weithredydd.

Ac etto ni wiw meddwl ddarfod i Dduw greu 'r holl fyd cyffredinol hwn fel y mae, ac wedi unwaith ei wneuthur, ei roi i fynu i gael ei reoli a'i arferyd yn ol ein synwyr a'n dyfais ni, heb gymmeryd ei Hun ddim gofal mwyach am dano; fel y gwna 'r saer-llongau, yr hwn, ar ol cwbl orphen ei long, sy 'n ei throsglwyddo i'r morwŷr, ac nid yw 'n gofalu mwyach ddim yn ei chylch. Nag ê; ni chreodd Duw y byd, a bod ar ol hynny heb ofalu am dano; ond y mae Efe fyth yn ei gadw trwy ei ddaioni, ac fyth yn ei gynnal i fynu yn ei greadigaeth. Canys heb

[1] Esay 26. 12. [2] 2 Cor. 3. 5. [3] Act. 17. 28. [4] 1 Chron. 29. 14.

ei hyspysol ddaioni Ef ni 's gallai sefyll yn hir yn y cyflwr y mae. Ac o'r achos hwn fe ddywed St. Paul ei fod Ef *yn cynnal pob peth trwy air ei nerth,*[1] rhag iddynt hebddo Ef, gwympo i'r diddim o'r hwn y gwnaethpwyd hwynt.

Pe na byddai ei hyspysol ddaioni Ef yn bresennol ym mhob lle, fe elai pob creadur allan o drefn, ac ni byddai i un creadur ei brïodol gynneddf, yn yr hon y crewyd ef ar y cyntaf:——

Mae Efe gan hynny ym mhob man, ac ym mhob creadur, (yn anweledig,) ac yn cyflenwi nef a daear â'i gynnrychioldeb: yn y tân, i roi gwres;—— yn y dwfr, i roi gwlybni;—— yn y ddaear, i roi ffrwyth; —— yn y galon, i roi ei nerth;—— ïe, mae Efe yn ein bara ni a'n dïod, i roi maeth i ni; canys hebddo Ef ni 's gall y bara na'r ddïod roi cynhaliaeth, na 'r llysieuyn iechyd; fel yr addef y Gwr Doeth yn oleu, gan ddywedyd, *Nid cynnyrch ffrwyth sydd yn porthi dyn; eithr dy air di sydd yn cadw y rhai a gredant ynot.*[2] Ac y mae Moses yn cyttuno â hyn, pan ddywed, *Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a'r sydd yn dyfod allan o enau 'r Arglwydd y bydd byw dyn.*[3] *Nid y llysieuyn na 'r eli sy 'n rhoi iechyd,* ebe 'r Gwr Doeth, *ond dy air di, O Arglwydd, yr hwn sydd yn iachâu pob dim.*[4]

Nid gallu 'r creaduriaid ynte sydd yn gweithredu eu heffeithiau, ond daioni Duw, yr hwn sydd yn gweithredu ynddynt.—— Yn ei Air Ef yn wir y mae pob peth yn cydsefyll. Trwy y Gair hwn y gwnaethpwyd nef a daear, a thrwy 'r un Gair y cynhelir ac y cedwir hwy mewn trefn, ebe St. Petr, hyd nes y tynno 'r Hollalluog Dduw ei allu oddi wrthynt, a pheri iddynt oll ymddattod.

Oni bai fod daioni Duw fel hyn yn effeithiol yn ei greaduriaid i'w rheoli hwy, pa fodd y gellid cadw y môr mawr, ag sy 'n dygyfor ac yn ymchwyddo i lifeirio dros y ddaear, o fewn ei brïodol derfynau a'i dorlennydd fel y mae?—— Fe ganfyddodd y gwr sanctaidd Job yn eglur ddaioni Duw yn y matter hwn, ac a addefodd oni bai fod hyspysol ddaioni Duw yn cadw 'r ddaear, na 's gallai amgen na chael mewn ychydig amser ei gorchuddio gan y môr.

Pa fodd y gallai yr elfennau, a hwythau mor amryw ac mor wrthwyneb i'w gilydd ag y maent, gyttuno er hynny ac aros ynghyd mewn cydgordiad, heb ddistrywio 'r naill y llall, i fod yn wasanaethgar i ni, oni bai fod daioni Duw yn eu cyd-dymheru hwy?—— Pa fodd na losgai ac na ddifâi y tân bob peth oll, pe gollyngid ef i fyned lle y mynnai, a phe na 's cedwid ef o fewn ei le prïodol gan ddaioni Duw, i wresogi, wrth fesur, y creaduriaid isod hyn i'w haddfedu?

[1] Heb. 1. 3. [2] Doeth. 16. 26. [3] Deut. 8. 3. [4] Doeth. 16. 12.

Ystyriwch sylwedd dirfawr y ddaear, mor drom ac mor ogymmaint ydyw; pa fodd y gallai hi sefyll mor sefydlog yn ei chylch, pe na byddai daioni Duw yn ei chynnal hi i ni lafurio arni?—— Ti, O Arglwydd, ebe Dafydd, *a seiliast y ddaear ar ei sylfeini, fel na symmudo byth yn dragywydd.*[1]

Ystyriwch yr anifeiliaid a'r pysgod cryfion, llawer cryfach na dyn; pa mor ffyrnig a chryfion bynnag ydynt, etto trwy ddaioni Duw nid ydynt yn ein gorchfygu, ond y maent yn ddarostyngedig a gwasanaethgar i ni. Oddi wrth bwy y daeth y ddyfais i'w goresgyn fel hyn, a'u haddasu i fod yn fuddiol i ni? Ai o ymennydd dyn? Nag ê; ond yn hytrach o ddaioni Duw, yr hwn a gynnysgaeddodd ddeall dyn â medrusrwydd i drin pob creadur fel y mynnai. *Pwy a osododd ddoethineb yn yr ymysgaroedd?* ebe Job; *neu pwy a roddodd ddeall i'r galon? Y mae yspryd mewn dyn,* eb efe mewn man arall, *ac ysprydoliaeth yr Hollalluog sydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall.*[2]

Yn wir ni allasai dyn, bobl dda Gristianus, o'i synwyr digynhorthwy ei hun byth ddychymmygu cynnifer o amryw ddyfeisiadau ym mhob crefft a gwybodaeth, oni buasai fod daioni 'r Hollalluog Dduw yn gynnrychiol gyd â dynion, ac wedi cynhyrfu eu synhwyrau a'u myfyrdodau i wybod naws ac anian ei holl greaduriaid, i'n gwasanaethu 'n ddigonol yn ein holl gyfreidiau a'n hanghenion: ac nid yn unig i wasanaethu i'n *hangenrheidiau,* ond i wasanaethu i'n *mwyniant a'n hyfrydwch,* heblaw yr hyn y mae anghenraid yn ei ofyn.

Mor hael yw daioni Duw tu ag attom, i'n hannog i ddïolch iddo, pe byddai dim calon ynom!

Ni allai y Gwr Doeth yn ei fyfyrdod neillduol lai na chaniattâu mai gwir yw 'r peth yr wyf yn ymresymmu wrthych am dano:——

*Yr ydym ni a'n geiriau,* medd efe, *yn ei law ef; felly y mae pob deall a gwybodaeth gwaith.*

*Canys efe a roddes i ni wybodaeth ddigelwydd am y pethau sydd; i wybod cyfansoddiad y byd, a grym yr elfennau;*

*Dechreu, diwedd, a chanol amserau; newid moddion yr haul, a chyfnewid tymhorau; amgylchiad y flwyddyn, a gosodiad y ser;*

*Naturiaethau anifeiliaid; llid bwystfilod; nerth gwyntoedd, ac ymresymmiadau dynion; rhagoriaeth planhigion, a rhinweddau gwraidd:*

*Beth bynnag sydd, nac yn ddirgel nac yn amlwg, mi a'i gwn; oblegid doethineb, yr hon a wnaeth y cwbl, a'm dysgodd i.*

Ac eb efe drachefn; *Prin y medrwn ni iawn-ddeall y pethau sydd ar y ddaear, ac yn ein dwylaw; eithr pwy a olrhain allan y pethau sydd yn y nefoedd?*

[1] Ps. 104. 5. [2] Job 38. 36. a 32. 8.

*Oblegid ofnus yw meddyliau dynion marwol, ac ansicr yw ein hamcanion ni.*

*Ië, pwy a ŵyr dy gyfrinach di, oddi eithr i ti roddi yspryd doethineb, ac anfon dy Yspryd sanctaidd o'r uchelder.*[1]

Ac od yw y Gwr Doeth yn addef fel hyn mai o Dduw y mae pob peth, paham na chydnabyddwn ninnau hynny? A thrwy wybod hyn, paham nad ystyriwn ein dyledswydd tu ag at Dduw, ac na thalwn ddiolch iddo am ei ddaioni?

Mi a welaf fod gennyf ormod amledd o ddefnydd a ellid ei ddwyn i mewn yma i brofi hyn.—— Pe cymmerwn mewn llaw ddangos fel y mae daioni 'r Hollalluog Dduw i'w weled ym mhob man ynghreaduriaid y byd, mor ryfedd ydynt yn eu creawdwriaerh, mor brydferth yn eu trefn, ac mor angenrheidiol i'n gwasanaeth ni; rhaid fyddai i bawb oll gydnabod âg un llais nad oes iddynt Awdwr arall namyn yr Hollalluog Dduw yn unig, a rhaid fyddai iddynt ddyrchafu a mawrygu ei ddaioni Ef ym mhob man; I'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth ac yn oes oesoedd. Amen.

## YR AIL RAN O'R HOMILI

# AM WYTHNOS Y DYRCHAFAEL.

YN y rhan flaenaf o'r Homili hon, mi a draethais i'ch myfyrdod, bobl dda Gristianus, fawr ddaioni 'r Hollalluog Dduw ynghread y byd hwn ynghyd â'i holl ddodrefn er mwyn lles a chysur dyn, fel y cyffröid ni'n fwy i gydnabod ein dyledswydd ninnau tu ag at ei Fawrhydi Ef.—— Ac yr ydwyf yn gobeithio ddarfod i hynny nid yn unig weithio crediniaeth ynoch, ond eich cynhyrfu hefyd i dalu eich diolwch yn ddirgel yn eich calonnau i'r Hollalluog Dduw am ei garedig fwynder.

Ond etto fe ddywed rhyw rai, ysgatfydd, eu bod hwy yn cydsynio fod pob peth daionus a berthyn i'r enaid, neu ba beth bynnag oll a grewyd gyd â ni yn y corph, yn dyfod oddi wrth Dduw, megis Awdwr pob daioni, ac nid oddi wrth neb arall. Ond am y cyfryw bethau ag

[1] Doeth. 7. 16—22. a 9. 14, 16, 17.

sydd y *tu allan* i'r enaid a'r corph, sef y cyfryw bethau daionus ag sy'n dyfod i ni yn *ddamweiniol* (fel y dywedir), megis golud, awdurdod, dyrchafiad, ac anrhydedd; gall rhai dynion feddylied, meddaf, fod y *pethau hyn* yn dyfod i ni drwy ein diwydrwydd, a'n dyfaldod, a'n llafur, a'n trafferth *ein hunain*, yn hytrach nag o law Duw yn oruwchnaturiol.

Ystyriwch ynte weithian, bobl dda, od oes rhyw Awdwr o'r pethau hyn yn cydweithio â llafur ac ymdrech dyn, ai addas fyddai eu tadogi i neb arall heblaw i Dduw; fel y cyfeiliornodd y Paganiaid, y Philosophyddion, a'r Poëtau, y rhai a gymmerasant DDAMWAIN, ac a'i gwnaethant yn DDUWIES i'w hanrhydeddu am y fath bethau?

Na atto Duw, bobl dda Gristianus, i ni dderbyn yn ddifrif y dychymmyg hwn, a ninnau yn addolwŷr y Gwir Dduw, gweithrediadau yr Hwn a gyhoeddwyd i ni yn eglur yn ei air. Opiniynau a dywediadau Anffyddlonion, ac nid gwir Gristionogion, yw y rhai hyn; canys hwynt-hwy yn wir (fel y crybwylla Job) ydynt yn credu ac yn dywedyd, *Pa fodd y gŵyr Duw? a farn efe trwy'r cwmmwl tywyll? y tew gymmylau sy loches iddo, ac ni wêl:*[1]

Epicuriaid yw y rhai a ddychymmygant fod Duw yn rhodio o amgylch gororau'r nefoedd, ac nad ydyw'n edrych dim ar y pethau isod hyn sydd oddi tanodd; ond bod yr holl bethau hyn yn myned ymlaen ar antur neu drwy drefniad Damwain, ac nad oes gan Dduw law yn y byd ynddynt. Pa beth arall yw hyn ond tybied, fel y *dywed yr ynfyd yn ei galon, nad oes un Duw.*[2]

Nid argyhoeddwn ni y cyfryw ddynion namyn â geiriau Duw ei Hun trwy enau Dafydd: *Clywch, fy mhobl,* eb Efe; *Duw, sef dy Dduw di ydwyf fi. Holl fwystfilod y coed ydynt eiddof fi, a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd. Adwaen holl adar y mynyddoedd, a gwyllt anifeiliaid y maes ydynt eiddof fi. Y byd a'i gyflawnder sydd eiddof fi.*[3]—— A thrachefn, *Ai Duw o agos ydwyf fi, medd yr Arglwydd, ac nid Duw o bell?* ebe Jeremïah Brophwyd; *a lecha un mewn dirgel-leoedd, fel na's gwelwyf fi ef? onid ydwyf fi yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear? medd yr Arglwydd.*[4]

Pa un o'r ddau hyn a ddylid ei gredu fwyaf? *Damwain,* yr hon y maent yn paentio ei llun yn ddall o'i dau lygad, a'i holwyn fyth yn ansefydlog ac anwadal, yn llaw yr hon y dywedant hwy fod y pethau hyn: ai ynte *Duw,* yn llaw ac yngallu yr Hwn y mae'r pethau hyn mewn gwirionedd, yr Hwn o ran ei wirionedd a'i ddïanwadalwch nid argyhoeddwyd erioed? Canys y mae ei olygon yn craffu trwy nef a

[1] Job 22. 13, 14. [2] Ps. 14. 1. [3] Ps. 50. 7, 10, 11, 12. [4] Jer. 23. 23, 24.

daear, ac y mae Efe 'n gweled pob peth yn wyddfodol â'i lygaid. Nid oes dim oll yn rhy dywyll iddo, nac yn guddiedig oddi wrth ei wybodaeth, nag oes, hyd yn nod yn nirgel feddyliau calonnau dynion.

Gwir ydyw fod yn Nuw bob cyfoeth, pob gallu, pob awdurdod, pob iechyd, pob hawddfyd, a phob llwyddiant; o'r hyn ni chaffem ni ddim un rhan heb ei gyfranniad haelionus Ef, ac oni bai ei dyfod oddi wrtho Ef oddi uchod. Yn gyntaf, mae Dafydd yn tystio am olud a meddiannau; *A roddech iddynt, a gasglant,* eb efe; *agori dy law, a diwellir hwynt â daioni. Ti a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir.*[1]—— Ac fe ddywed Solomon, *Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga.*[2]—— Ac â hyn y cyttuna 'r wraig sanctaidd Hannah, lle y dywed yn ei chaniad, *Yr Arglwydd sydd yn tlodi, ac yn cyfoethogi; yn darostwng ac yn dyrchafu. Efe sydd yn cyfodi 'r tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu 'r anghenus o'r tommennau, i'w gosod gyd â thywysogion, ac i beri iddynt etifeddu teyrn-gadair gogoniant; canys eiddo 'r Arglwydd colofnau 'r ddaear.*[3]

Yn awr os gofyn neb rhyw ddyn pa les yw i ni wybod fod *pob rhoddiad daionus,* megis rhoddiadau natur a rhagluniaeth; *a phob rhodd berffaith,* megis rhoddion o ras yn perthyn i'r enaid, yn dyfod oddi wrth Dduw, ac mai Efe yn unig sydd yn eu rhoddi:—— Yn wir mae 'n llesol i ni wybod hynny o ran llawer o achosion; canys ni a wybyddwn felly, os cyfaddefwn ni y gwir, pwy yn gyfiawn a ddylai gael y diolwch am danynt.—— Drwy hynny fe leihêir ein balchder, wrth ganfod nad oes dim yn dyfod o honom ein hunain ond pechod a bai; ac od oes ynom ddim daioni, rhoi 'r holl glod a'r moliant am dano i'r Hollalluog Dduw. —— Fe wna hyn hefyd i ni nad ymddyrchafom o flaen ein cymmydog o ran ein doniau, i'w fychanu ef am fod ei ddoniau yn anamlach na 'r eiddom ni, gan fod Duw yn rhannu ei ddoniau i'r neb y mynno. Fe wna i ni, wrth ystyried ein doniau, beidio â'n dyrchafu ein hunain o flaen ein cymmydogion. Fe wna *nad ymffrostio 'r doeth yn ei ddoethineb, na 'r cryf yn ei gryfder, na 'r cyfoethog yn ei gyfoeth,*[4] ond yn y Duw byw, yr Hwn yw Awdwr yr holl bethau hyn; rhag, pe gwnaem felly, y gellid ein ceryddu â geiriau St. Paul; *Pa beth sy gennyt a'r na 's derbyniaist? ac os derbyniaist, paham yr wyt ti yn gorfoleddu megis pe bait heb dderbyn?*[5]

Pwngc mawr o ddoethineb, fy nghyfeillion, yw cyffesu fod pob peth daionus yn dyfod oddi wrth yr Hollalluog Dduw; canys wrth gyffesu hynny, ni a wyddom i ba le i fyned i'w ceisio hwy, os byddwn mewn diffyg o honynt; fel y mae St. Iago yn erchi i ni, gan ddywedyd, *O*

[1] Ps. 104. 28, 29. [2] Diar. 10. 22. [3] 1 Sam. 2. 7, 8. [4] Jer. 9. 23. [5] 1 Cor. 4. 7.

*bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, a hi a rodd-ir iddo ef.*[1] A phan oedd eisiau y cyffelyb rodd ar y Gwr Doeth, efe a aeth at Dduw am dani, fel y tystia efe yn ei Lyfr: *Pan wybûm na chawn hi,* medd efe, *oni roddai Duw hi, ac mai synwyr oedd gwybod rhodd pwy oedd hi, mi a aethum at Dduw, ac a ymbiliais â'm holl galon.*[2]

Och fi! fy nghymdeithion, nad elem at Dduw yn ein diffygion a'n hanghenion, fel y mae St. Iago yn erchi i ni, ac fel y mae'r Gwr Doeth yn ein dysgu ddarfod iddo ef ei hun fyned.

O na chredem yn ddisigl mai Duw yn unig sydd yn eu rhoi! pe credem hyn, nid aem i ymofyn am yr hyn sydd angen arnom at y Diafol a'i weision mor fynych ag y mae profiad beunyddiol yn dangos ein bod yn myned: canys o bydd arnom ddiffyg iechyd corph, i ba le yr â'r werin ond at swynion, dewiniaethau, a hudiadau dieflig eraill? Pes cydnabyddem mai Duw yw Awdwr y ddawn hon o iechyd corph, ni a arferem yn unig y moddion a osododd Efe, ac a ddisgwyliem wrth ei amser da Ef, nes y gwelai Efe 'n gymmwys ei rhoddi i ni.

Pes cydnabyddai'r marsiandwr a'r negeseuwr bydol mai Duw yw Rhoddwr golud, hwy a fyddent byw ar gymmaint ag a allent ei elwa trwy foddion cyfiawn a chymmeradwy gan Dduw, ac ni fynnent fod yn gyfoethoccach nag y goddefai cywirdeb iddynt fod; ni cheisient byth mo'u helw ac ni ofynent byth mo'u heiddo ar law y Diafol.

Na atto Duw, meddwch chwithau, i neb gymmeryd ei olud gan y Diafol!—— Yn wir, cynnifer ag sy'n ymgyfoethogi trwy occraeth, trwy grib-ddeilio, trwy anudoniaeth, trwy ladrad, trwy dwyll a hocced, o roddiad y Diafol y maent yn cael eu heiddo.—— A phawb oll ag sy 'n ymroddi i'r cyfryw foddion, ac a ymwrthodasant â'r gwir foddion a bennododd Duw, y maent wedi ei adael Ef, a myned yn addolwŷr Diafol er mwyn mael ac ennill. Maent yn gyfryw ag sy 'n penlinio i'r Diafol wrth ei orchymyn, ac yn ei addoli: canys y mae'n addaw iddynt, am wneuthur felly, (fel yr addawodd gynt i Grist) y rhydd efe 'r byd a'i gyfoeth iddynt. Ni's gallant wasanaethu 'r Diafol yn well na thrwy wneuthur ei ewyllys a'i orchymyn; a'i ewyllys a'i ddymuniad ydyw cael gennym ymwrthod â'r gwirionedd, ac ymroi o honom i ffalsder, a chelwydd, ac anudoniaeth.

Hwynt-hwy gan hynny, y rhai sy 'n llwyr-gredu yn eu calonnau mai Duw a ddylid ei anrhydeddu, ac mai arno ef y dylid erfyn am gael pob peth angenrheidiol; ni ddylent arfer un ffordd arall i gyflawni eu rheidiau, ond cywirdeb a gwirionedd, na gwasanaethu neb ond Duw i gael

[1] St. Iago 1. 5. [2] Doeth. 8. 21.

digonołdeb o bob peth angenrheidiol. Ni cheisiai y gwr felly wneuthur ei ddiffyg i fynu trwy ladratta; ac ni roddai y wraig ei chorph i arall mewn godineb er mwyn elwa rhag angen a thlodi.

Os Duw yn wir yw Awdwr bywyd, iechyd, golud, a ffyniant, awn atto Ef fel y cyfryw i erfyn am danynt, ac ni a'u cawn, medd St. Iago.

Ië, doethineb oruchel, yn ol y Gwr Doeth, yw gwybod o rodd pwy y daw y pethau hyn oll; ac er mwyn llawer diben a pherwyl arall, doethineb yw gwybod a chredu fod pob daioni a gras yn deilliaw oddi wrth Dduw fel eu Hawdwr.

Yr hyn ped ystyrid ef yn dda, a wnai i ni gofio y bydd raid i ni roi cyfrif am yr hyn y mae Duw yn ei roi i ni i'w feddiannu, ac a'n gwnai felly yn ddyfalach i dreulio 'r cwbl er gogoniant i Dduw a lles i'n cymmydog, fel y gallom roi cyfrif llawen yn y diwedd, a chael ein canmol fel goruchwylwŷr da, a chlywed y Barnwr yn dywedyd y geiriau hyn wrthym; *Da, was da a ffyddlon: buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.*[1]

Heblaw hyn; os cwbl-gredwn mai Duw yw Awdwr pob rhodd sy gennym, fe wna hynny i ni fod yn dawel ac yn oddefus pan gymmerer hwynt oddi arnom. Oblegid fel y mae Duw o'i drugaredd yn eu caniattâu hwynt i ni i'w defnyddio, felly y mae Efe weithiau yn eu cymmeryd yn gyfiawn oddi arnom drachefn, i brofi ein goddefgarwch, ac i roi ein ffydd mewn ymarferiad; ac felly wrth dynnu ychydig oddi arnom, fel yr arferom y gweddill yn fwy gofalus, mae Efe yn ein dysgu i'w defnyddio yn fwy er ei ogoniant, pan adfero Efe hwynt i ni eilwaith.

Mae llawer a fedrant ddywedyd â'u genau eu bod yn credu mai Duw yw Awdwr pob rhoddiad daionus ag sy ganddynt, ond yn amser profedigaeth maent yn myned yn eu gwrthol o'r grediniaeth hon; maent yn ei ddywedyd ar air, ac yn ei wadu ar weithred.—— Ystyriwch arfer y byd, ac edrychwch onid yw hyn yn wirionedd.——

Edrychwch ar y gwr cyfoethog, yr hwn a gynnysgaeddwyd â golud: os trwy ryw wrthwyneb y cymmerir ei eiddo oddi arno; pa ffrommi a pha lidio a wna efe! pa rwgnach ac anobeithio!

Yr hwn y bo gantho ddawn enw da, os cyffyrddir â'i enw mewn dim gan yr athrodwr, mor anesmwyth ydyw! mor brysur i ddïal ei lid!

O bydd gan neb ddoethineb, a digwydd i ryw ewyllysiwr drwg ei ystyried yn ffol, a'r gair o hyn fyned ar led, mor flin gantho ei fod yn cael ei gyfrif felly!

A dybygwch chwi fod y rhai hyn yn credu 'n ddisigl mai Duw yw Awdwr y doniau hyn? Od ydynt yn credu hyn mewn gwirionedd,

[1] St. Mat. 25. 21.

paham na oddefent yn esmwyth i Dduw gymmeryd ymaith ei ddoniau oddi arnynt, y rhai a ganiattaodd Efe iddynt yn rhad, ac y rhoes eu benthyg iddynt dros amser?

Ond ti a ddywedi, "Mi a fyddwn yn foddlon i roi i fynu y cyfryw ddoniau yn ol *i Dduw,* pe cymmerai *Efe* hwynt oddi arnaf; ond yn awr cymmerir hwynt oddi arnaf gan ddamweiniau anffodus, a chan fursennod ffeilsion, a chan goeg-ddynion diriaid. Pa fodd y gallaf oddef *hyn* yn esmwyth?"

Gellir ateb i hyn, fod yr Hollalluog Dduw yn anweledig o ran ei natur, ac nad yw Efe yn dyfod at neb yn weledig, yn ol dull dyn, i gymmeryd oddi arno y doniau a echwynodd iddo. Ond beth bynnag a wnelo Duw yn hyn o beth, mae Efe yn ei ddwyn i ben drwy *offerynnau* a ordeiniodd Efe i'r perwyl hwnnw. Mae gantho Angylion da, mae gantho Angylion drwg; mae gantho ddynion da, ac y mae gantho ddynion drwg; mae gantho genllysg a gwlaw, mae gantho wynt a tharan, mae gantho wres ac oerni: afrifed offerynnau a chenhadon sy gantho, drwy y rhai y mae yn gofyn cilwaith y doniau a orchymynodd Efe i'n gofal; fel y cyffesa'r Gwr Doeth; *Y creadur,* eb efe, *yr hwn sydd yn dy wasanaethu di, yr hwn a wnaethost bob peth, a annelir i beri cospedigaeth ar yr anghyfiawn.*[1] O herwydd, fel y dywed yr un Awdwr, y mae Efe'n arfogi'r creadur i ddïal ar ei gaseion, ac weithiau i brofi ein ffydd ninnau.

Ac am hynny trwy ba foddion neu offeryn bynnag y cymmero Duw ei roddion oddi arnom, rhaid i ni foddloni mewn amynedd i'w farn Ef, a chydnabod mai Efe yw y Rhoddwr a'r Cymmerwr, fel y dywedodd Job, *Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith,*[2] pan er hynny mai ei *elynion* a yrrodd ymaith ei anifeiliaid, ac mai *Satan* a laddodd ei blant, ac a boenodd ei gorph yntau â chlefyd blin.

Llarieidd-dra fel hyn oedd yn y Brenhin a'r Prophwyd sanctaidd Dafydd; yr hwn pan felldithiwyd ef gan Simei yngŵydd ei holl lu, a'i cymmerodd yn oddefgar, ac ni ddifenwodd drachefn, ond addef mai Duw oedd Awdwr ei ddiniweidrwydd a'i enw da, a'i gynnyg ef iddo i wneuthur a fynnai âg ef: *Gadewch iddo,* medd efe wrth un o'i weision, yr hwn a fynnasai ddïal y fath ddirmyg, *canys yr Arglwydd a archodd iddo: fe allai y dyry'r Arglwydd i mi ddaioni am ei felldith ef y dydd hwn.*[3]

Ac er bod yr offeryn weithiau yn gweithredu 'n ddrwg, ac o gynfigen; etto am fod Duw yn troi ei ddrwg weithred ef yn brawf o'n hamynedd ni, dylem ymddarostwng yn oddefgar yn hytrach na digio

[1] Doeth. 16. 24. [2] Job 1. 21. [3] 2 Sam. 16. 11, 12.

wrth wialen Duw, yr hon, ysgatfydd, ar ol ein ceryddu ni er ein llesâd, a deifl Efe i'r tân, fel y mae hi yn haeddu.

Cydnabyddwn ninnau'n gywir mewn cyffelyb fodd mai rhoddion Duw yw ein holl ddoniau a'n breintiau, fel y byddom barod i'w rhoi i fynu 'n ol iddo, pan ewyllysio efe alw am danynt.

Addefwn trwy ein holl oes fod pob peth daionus yn dyfod oddi wrth Dduw, o ba enw neu natur bynnag y byddo, nid yn unig y pethau llygradwy hyn, y soniais am danynt ddiweddaf, ond yn fwy o lawer pob gras ysprydol sydd yn angnenrheidiol i'n heneidiau, heb rinwedd pa rai ni elwir neb rhyw ddyn i'r ffydd, ac ni 's cynhelir ef ynddi, fel y caf ddatgan i chwi yn y rhan nesaf o'r Homili hon.

Yn y cyfamser, nac anghofiwch yr hyn a ddywedwyd wrthych eisoes; nac anghofiwch ffurfio eich barn wrth wirionedd yr athrawiaeth hon; ac nac anghofiwch fyw yn ol yr unrhyw yn holl gyflwr eich buchedd; trwy yr hyn y cyrhaeddwch y fendith a addawodd ein Hiachawdwr Crist; *Gwyn fyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw*, medd Efe, *ac yn ei gadw.*[1] Yr hon fendith caniattaed Efe i ni oll, yr Hwn sydd yn teyrnasu ar bawb oll, Un Duw mewn Trindod, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân: I'r Hwn y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd. Amen.

### Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

## AM WYTHNOS Y DYRCHAFAEL.

ADDEWAIS ddatgan i chwi fod pob doniau a grasusau ysprydol yn enwedig yn dyfod oddi wrth Dduw.

Ystyriwn wirionedd y matter hwn, a gwrandawn beth a dystiolaethir, ym mlaenaf, am ddawn FFYDD, dechreuad cyntaf y bywyd Cristionogol, *heb yr hon ammhosibl yw rhyngu bodd Duw.*[2] Oblegid mae St. Paul yn cyffesu yn oleu am dani, mai *rhodd Duw ydyw.*[3] Ac eilwaith, fe ddywed St. Petr, *Trwy allu Duw yr ydych gadwedig trwy ffydd i iachawdwriaeth.*[4]

Ac o ddaioni Duw hefyd y mae, nad ydym yn cloffi nac yn siglo yn ein GOBAITH arno.

[1] St. Luc 11. 28. [2] Heb. 11. 6. [3] Eph. 2. 8. [4] 1 St. Petr 1. 5.

A gwaith Duw ynom ydyw y CARIAD hefyd, â'r hwn yr ydym yn caru 'r brodyr.

Ac os edifarhawn ar ol cwympo, trwyddo Ef yr ydym yn cael EDIFEIRWCH, yr Hwn sy 'n estyn allan ei law drugarog i'n cyfodi ni i fynu. Od oes ynom ddim ewyllys i gyfodi, Efe sy 'n rhag-flaenu ein hewyllys, ac yn ein tueddu ni at hynny.

Os ar ol drylliad y galon mewn edifeirwch, yr ydym yn clywed ein cydwybodau mewn HEDDWCH A DUW trwy faddeuant ein pechod, ac felly cael adferiad i'w ffafr, a gobaith ar fod yn blant iddo, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol; ——pwy sy 'n gwneuthur y gwyrthiau mawrion hyn ynom? Ai ein haeddiant, ein teilyngdod, ein hymdrechiadau, ein synwyr, neu ein rhinwedd ni? Nag ê, yn wir. Ni oddef St. Paul i gnawd a chlai ryfygu mor uchel-frydig; ac am hynny efe a ddywed, *Pob peth sydd o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun trwy Iesu Grist.*[1]

Duw, Tad pob trugaredd, a weithiodd yr uchel-fraint hon i ni, nid yn ei Berson ei Hun, ond trwy Gyfryngdod, ac nid llai Cyfryngdod na Chyfryngdod ei anwyl Fab ei Hun, yr Hwn nid arbedodd Efe rhag dim poen na llafur a allai wneuthur llesâd i ni. Canys ar Hwnnw y gosododd Efe ein pechodau ni; Hwnnw a wnaeth efe yn bridwerth drosom; Hwnnw a wnaeth Efe yn Gyfryngwr rhyngom ni ag Ef ei Hun; ac yr oedd ei Gyfryngdod mor gymmeradwy gan Dduw Dad, trwy ei berffeith-gwbl ufudd-dod, fel ag y cymmerodd Efe ei weithred Ef yn iawn cyflawn am ein holl anufudd-dod a'n gwrthryfel ni; Efe a gymmerodd ei gyfiawnder Ef i bwyso yn erbyn ein pechodau ni; ac Efe a gymmerodd ei brynedigaeth Ef i sefyll yn erbyn ein damnedigaeth ni.

Ar y pwngc hwn, gyfeillion da, pa beth yw ein myfyrdod ynom ein hunain; Nid llai, dybygwn i, nag a ddywedodd St. Paul wrth gofio rhyfeddol ddaioni Duw yn hyn: *Yr wyf yn diolch i Dduw trwy Iesu Grist ein Harglwydd:*[2] canys trwyddo Ef y derbyniasom ni yr uchel-fraint hon o ras. Ac fel mai trwyddo Ef y creodd Duw Dad y byd a'r hyn oll sydd ynddo, felly hefyd trwyddo Ef y mynnodd Efe adferu pob peth yn y nef a'r ddaear.

Trwy y Cyfryngwr Nefol Hwn gan hynny yr ydym yn adnabod ffafr a thrugaredd Duw Dad; drwy Hwn yr ydym yn gwybod ei ewyllys da Ef tu ag attom: o herwydd y mae *Efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant Ef, ac yn wir lun ei berson Ef.*[3]

Efe yw 'r Hwn y mae 'r Tad yn y nefoedd yn ymhyfrydu i'w gymmeryd yn anwyl Fab iddo ei Hun, i'r Hwn y rhoddes awdurdod i fod

[1] 2 Cor. 5. 18. [2] Rhuf. 7. 25. [3] Heb. 1. 3.

yn Athraw i ni, ac ar yr Hwn y gorchymynodd Efe i ni wrando, gan ddywedyd, *Gwrandewch arno Ef.*[1]

Trwyddo Ef y mae ein Tad o'r nef yn ein bendithio ni â phob doniau ysprydol a nefol, er mwyn yr Hwn a'i ffafr, fel yr ysgrifena St. Ioan, y derbyniasom ni ras a ffafr.

I'n Ceidwad a'n Cyfryngwr Hwn y mae Duw Dad wedi rhoddi pob gallu yn y nef a'r ddaear, a phob barn ac awdurdod i gyfrannu yr holl ddoniau a ymddiriedwyd iddo: o herwydd felly 'r ysgrifena'r Apostol: *I bob un o honom y rhoed gras yn ol mesur dawn Crist.*[2]

Ac ar hynny i gyflawni 'r awdurdod a roisid iddo, ar ol dwyn o hono bechod a Diafol i gaethiwed, fel na byddent mwy yn niweidiol i'w aelodau Ef, Efe a esgynodd eilchwyl at ei Dad, ac a ddanfonodd oddi yno roddion haelionus i'w anwyl weision; ac y mae gantho etto allu hyd ddiwedd y byd i ddosparthu rhoddion ei Dad yn wastadol i'w Eglwys, i'w sefydlu a'i diddanu hi.

A thrwyddo Ef y mae 'r Hollalluog Dduw wedi arfaethu dattod y byd, a galw pawb oll, byw a meirw, ger ei fron i gael eu barnu; ac yn ddiweddaf, trwyddo Ef y condemnia Efe y drygionus i'r tân tragywyddol yn uffern, ac y dyry fywyd tragywyddol i'r daionus, ac y gesyd hwynt yn ddiogel yn ei wyddfod nefol yn oes oesoedd.

Fel hyn yr ydych yn gweled fod pob peth oll o Dduw, trwy ei Fab Crist, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr.

Cofiwch, meddaf unwaith yn rhagor, eich dyled o ddïolwch; na fydded hyn byth yn niffyg gennych; ymunwch fyth â'ch gilydd i dalu dïolch. Ni ellwch offrwm i Dduw well aberth: canys Efe a ddywed ei Hun, *Yr hwn a abertho foliant a'm gogonedda i.*[3]—— Yr oedd y sanctaidd Brophwyd Dafydd yn deall hyn yn dda, pan ddywedodd efe mor ddifrifol wrtho ei hun fel hyn; *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd; a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd Ef.* Ac yn y geiriau nesaf oll, *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef.*[4]

Duw a roddo i ni ras, bobl dda, i wybod y pethau hyn, ac i'w teimlo yn ein calonnau.—— Nid yw'r wybodaeth na'r teimlad hwn ynom ein hunain, ac o honom ein hunain ni's gallwn eu cyrhaeddyd; a thrueni mawr fyddai i ni golli gwybodaeth mor fuddiol. Galwn gan hynny yn ostyngedig ar hael Yspryd Duw, yr Hwn sy'n deilliaw oddi wrth ein Tad trugarog, ac oddi wrth ein Cyfryngwr Crist, ar fod iddo Ef ein cynnorthwyo ni, a'n hysprydoli â'i bresennoldeb, fel y gallom ynddo Ef wrando er ein hiachawdwriaeth ar ddaioni Duw yn cael ei fynegi i'n clywedigaeth. Canys heb ei ysprydoliad bywiol a dirgelaidd Ef ni's

[1] St. Mat. 17. 5. [2] Eph. 4. 7. [3] Ps. 50. 23. [4] Ps. 103. 1, 2.

gallwn gymmaint ag *enwi* ein Cyfryngwr, fel y tystia St. Paul yn eglur; *Ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Yspryd Glân:*[1] llai o lawer y gallwn gredu a gwybod y dirgeledigaethau mawrion hyn a agorir i ni trwy Grist. *Pethau Duw,* medd St. Paul, *nid edwyn neb ond Yspryd Duw. A nyni,* eb efe, *a dderbyniasom, nid yspryd y byd, ond yr Yspryd sydd o Dduw,* i'r diben hwn, sef, *fel y gwypom y pethau a rad-roddwyd i ni gan Dduw:*[2]——

Fe ddywed y Gwr Doeth mai yn nerth a rhinwedd yr Yspryd Glân y mae pob doethineb a gallu i adnabod Duw ac i ryngu ei fodd Ef: canys fel hyn y mae 'n ysgrifenu. *Oddi wrth yr Arglwydd y mae cerddediad gwr; ond beth a ddeall dyn o'i ffordd ei hun?*[3]—— *Pwy a ŵyr dy gyfrinach di, O Dduw, oddi eithr i ti roi doethineb, ac anfon dy Yspryd Sanctaidd o'r uchelder?* Yna mae 'n gweddïo ar Dduw, gan ddywedyd, *Anfon Ef o'th nefoedd sanctaidd, a gyrr Ef o orseddfaingc dy ogoniant, fel y cymmero Efe boen yn bresennol gyd â mi, ac y gwypwyf beth sy foddlon gennyt ti.*[4]

Gweddïwn ninnau o galon, fel y gwnaeth yntau, ac ni phalla gennym gael ei gynhorthwy Ef: canys ebrwydd y gwelir Ef gan y rhai a'i carant; a'r rhai a'i ceisiant, a'i cânt Ef; o herwydd haelionus ac addfwyn yw Yspryd doethineb.—— Gallwn yn ei nerth Ef wybod yn ddigonol ein dyledswydd tu ag at Dduw; ynddo Ef y diddenir ni, ac y 'n cefnogir i rodio fel y dylem.—— Ynddo Ef y byddwn yn llestri cymmwys i dderbyn gras yr Hollalluog Dduw; oblegid Efe sy 'n glanhâu ac yn puro 'r meddwl trwy ei ddirgel weithrediad.

Efe yn unig sydd yn Hollbresennol trwy ei nerth anweledig, ac yn cynnwys pob peth yn ei lywodraeth.

Efe sy 'n goleuo 'r galon i feddwl meddyliau teilwng am yr Hollalluog Dduw, ac y mae 'n eistedd ar dafod dyn i'w gynhyrfu i lefaru er ei anrhydedd Ef: nid oes un iaith yn guddiedig rhagddo, canys gŵyr Efe bob ymadrodd.

Efe yn unig sy 'n gweinyddu cryfder ysprydol i alluoedd ein heneidiau a'n cyrph.

Mae 'n rhaid i ni gydnabod mai gallu ei Yspryd Ef, yr Hwn sy 'n *cynnorthwyo ein gwendid ni,*[5] sydd yn ein cynnal i gadw 'r ffordd a ddarparodd Duw i ni rodio 'n uniawn ynddi ar ein taith.

Trwy y Glân Yspryd Hwn, yr Hwn sydd *yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annrhaethadwy,*[6] y gallwn ddyfod yn eofn mewn gweddi, i alw ar yr Hollalluog Dduw fel ein Tad.

[1] 1 Cor. 12. 3. [2] 1 Cor. 2. 11, 12. [3] Diar. 20. 24. [4] Doeth. 9. 10, 13. [5] Rhuf. 8. 26. [6] Rhuf. 8. 26.

Od oes gennym ryw ddawn y gallwn weithio drwyddi er gogoniant Duw a lles ein cymmydog, *yr holl bethau hyn y mae 'r un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neilldu, megis y mae yn ewyllysio.*[1]

Od oes gennym ryw ddoethineb, nid o honom ein hunain y mae, ac ni 's gallwn ymffrostio ynddi, megis pe o honom ni y byddai ei dechreuad; ond ni a ddylem roi 'r gogoniant i Dduw, o'r Hwn y daeth hi i ni, fel yr ysgrifena 'r Prophwyd Jeremïah; *Y neb a ymffrostio,* medd efe, *ymffrostied yn hyn, ei fod yn deall, ac yn fy adnabod i, mai myfi yw 'r Arglwydd a wna drugaredd, barn, a chyfiawnder yn y ddaear: o herwydd yn y rhai hynny yr ymhyfrydais, medd yr Arglwydd.*[2]—— Ni ellir caffael y ddoethineb hon ond trwy gyfarwyddyd Yspryd Duw, ac am hynny gelwir hi yn DDOETHINEB YSPRYDOL.

Ac ni's gallwn mewn un man chwilio gyd â mwy o sicrwydd am wybodaeth o ewyllys Duw (wrth yr hwn ewyllys y dylem hyfforddio ein holl weithredoedd) nag yn yr Ysgrythyr Lân; canys *hwynt-hwy,* medd ein Hiachawdwr Crist, *yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.*[3]—— Gellir galw 'r hyn a gaffer heb y Gair, yn wybodaeth ac yn ddysg: ond fe dystia 'r Gwr Doeth yn amlwg, *mai ofer yw 'r dynion oll sydd heb adnabod Duw.*[4]—— Ni a welwn i ba oferedd y daeth yr hen Philosophyddion gynt, y rhai oeddynt yn amddifaid o'r wybodaeth a geir allan o Air Duw.—— Ni a welwn â pha wagedd y cymmysgwyd athrawiaeth yr Ysgol-ddifinwŷr, am na chwiliasant yn y Gair hwn am ewyllys Duw, ond yn hytrach am ewyllys rheswm, am dreigl arferion, am lwybr y Tadau, ac am ddefodau 'r Eglwys.

Gan hynny trown a darllenwn ddalennau 'r Ysgrythyr Lân ddydd a nos; canys gwyn ei fyd y sawl sydd â'i fyfyrdod ynddi. Hon sydd yn *llusern i'n traed,*[5] hon sydd yn *gwneuthur y gwirion yn ddoeth,*[6] ac yn hon yr ydym yn *meddwl cael bywyd tragywyddol.*[7]

Yn yr Ysgrythyr Lân y cawn Grist, ac yng Nghrist y cawn Dduw; canys y mae Crist *yn wir lun ei berson ef.*[8] Yr hwn sydd yn gweled Crist, sydd yn gweled y Tad; ac o'r ochr arall, anwybodaeth o'r Ysgrythyr, yw anwybodaeth o Grist, fel y dywed St. Jerom.—— Bod heb adnabod Crist, yw bod mewn tywyllwch, ynghanol goleuni bydol a chnawdol rheswm a philosophi.—— Bod heb Grist, yw bod mewn ffolineb; canys Efe yw unig ddoethineb y Tad; *oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo Ef.*[9]

Pwy bynnag y cynnysgaeddwyd ei galon â ffydd, mae hwnnw wedi

[1] 1 Cor. 12. 11. [2] Jer. 9. 24. [3] St. Ioan 5. 39. [4] Doeth. 13. 1.
[5] Ps. 119. 105. [6] Ps. 19. 7. [7] St. Ioan 5. 39. [8] Heb. 1. 3.
[9] Col. 1. 19.

gosod i lawr sylfaen ddïogel i adeiladu arni, trwy yr hon, *wedi ei wreiddio a'i seilio mewn cariad, y gall amgyffred gyd â'r holl saint, beth yw 'r lled, a'r hŷd, a'r dyfnder, a'r uchder, a gwybod cariad Crist.*[1]—— Yr wybodaeth berffeith-gwbl hon yw 'r ddoethineb y mae St. Paul yn dymuno i'r Ephesiaid ei chael, megis y trysor mwyaf a ellir ei feddiannu dan y nefoedd.

Ynghylch y ddoethineb hon y mae 'r Gwr Doeth yn ysgrifenu fel hyn o'i brofiad ei hun; *Pob daioni a ddaeth i mi gyd â hi, a golud annifeiriol sydd yn ei dwylaw hi.* Ac y mae 'n ychwanegu yn yr un man, *Diball drysor yw hi i ddynion; pwy bynnag a'i harferont, y maent yn ymgyfeillach â Duw.*[2]

Mi a allwn â llawer o eiriau yn rhagor annog y sawl o'm gwrandawŷr a roent glust i mi, i chwilio am y ddoethineb hon,—— i neillduo eu rheswm, er mwyn dilyn gorchymynion Duw,—— i fwrw ymaith synwyr ein hymmennyddiau, er mwyn ffafrio 'r ddoethineb hon,—— ac i ymwrthod â doethineb a chyfrwysdra 'r byd ynfyd hwn, er mwyn profi ac archwaethu yr hyn y mae ffafr ac ewyllys Duw wedi eu galw hwynt iddo, ac y mae Efe yn ewyllysio i ni yn y diwedd ei fwynhâu:——

Ond mi a frysiaf at y drydedd ran o'm testun, lle y datgenir ym mhellach yn Llyfr y Doethineb, fel y mae Duw yn rhoi i'w etholedigion ddeall *ysgogiadau 'r nefoedd a chyfnewidiadau 'r amserau.* Yr hyn beth, fel y mae 'n canlyn mewn helaethach geiriau yn yr adnodau a ddarllenais i chwi ddiweddaf, felly mae 'n rhaid iddo ganlyn yn y rhai a gynnysgaedder â'r ddoethineb ysprydol hon.

Canys fel y medrant chwilio pa le i gaffael y ddoethineb hon, a gwybod gan bwy i'w gofyn hi; felly gwyddant hefyd mai mewn amser y ceir hi, a gallant o ganlyniad ymgymhwyso at gyfaddasrwydd y pryd a'r amser, a pheidio a gadael i'r tymhor fyned heibio, yn yr hwn y gallant lafurio am dani.—— Gwyddant hefyd fod Duw o'i aneirif drugaredd a'i hynawsedd yn rhoi i bob rhyw ddyn yma le ac amser i edifaru, er mwyn cynnyddu yn y ddoethineb hon.—— Ac y maent yn gweled fod y drygionus, (fel yr ysgrifena Job,) yn camddefnyddio eu tymhor drwy falchder; ac am hynny mae 'r duwiolion yn cymmeryd gwell gafael ar yr amser, i'w brynu o'r cyfryw ddefnydd ag yr yspeilir ef drwyddo gan y drygionus.

Fe fedr y rhai sy wedi cael y ddoethineb hon gan Dduw, gasglu addysg oddi wrth ddyfal a difrif astudrwydd bydolion y fuchedd hon, y rhai sy 'n gwylied eu hadeg, ac yn gwneuthur y goreu o bob egwyl o amser i ennill golud ac i helaethu eu tiroedd a'u treftadaeth: maent yn

[1] Eph. 3. 18. [2] Doeth 7. 11, 14.

gweled yr amser yn myned ymaith, ac am hynny yn cymmeryd gafael arno yn y fath fodd, fel ag y maent weithiau yn colli eu cwsg a'u hesmwythyd, ac yn goddef llawer o boen, i geisio dal gafael yn yr amser a gynhygir iddynt, gan wybod na's gall yr hyn a aeth unwaith heibio, ddychwelyd eilwaith: gall edifeirwch ddilyn, ond nid oes un ymwared.

Paham nad ydynt *hwythau* ynte, y rhai ydynt ddoethion mewn ystyr ysprydol, yn gwylied eu hadeg, i gynnyddu mor fuan yn eu cyflwr hwythau, ac i ennill elw tragywyddol?—— Maent yn ymresymmu pa angof anifeilaidd a fyddai i ddynion sy 'n berchen rheswm fod heb wybod eu hamserau a'u tymhorau, a hwythau 'n gweled fod y durtur, y ciconia, a'r wennol yn gwylied eu hadeg, fel y dywed Jeremïah; *Y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau; y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl i ni wyddant farn yr Arglwydd.*[1]

Mae St. Paul yn erchi i ni *brynu 'r amser, oblegid y dyddiau sy ddrwg.*[2] Nid cyngor St. Paul yn unig yw hwn, ond cyngor pawb eraill hefyd a roisant erioed orchymynion ynghylch doethineb.—— Ac ni roddwyd erioed orchymyn difrifach nag ynghylch adnabod yr amser. ——Ië, ac y mae Cristionogion, am eu bod yn clywed mor dost y mae Duw yn achwyn, ac yn bygwth yn ei Ysgrythyr y sawl nad adnabyddant amser ei ymweliadau Ef, yn dysgu trwy hynny i ymroi at hyn yn fwy difrifol.

Ar ol i'n Hiachawdwr Crist brophwydo â dagrau wylofus am ddinystr Jerusalem, mae yn y diwedd yn dangos yr achos: *O herwydd nad adnabuost amser dy ymweliad*[3]

O Gymru! ystyria dymhor ymweliad trugarog Duw, sy 'n cael ei ddangos i ti o ddydd i ddydd! ac etto ni fynni di ei ystyried! Ni fynni gael dy yrru at dy ddyledswydd gan ei gospedigaeth Ef, ac ni fynni dy annog i ddïolch gan ei ddoniau Ef! Pe gwybyddit beth a all syrthio arnat am dy annïolchgarwch, ti a wneit ryw ddarpariaeth gogyfer a'th heddwch!

Frodyr, pa fodd bynnag y mae 'r byd yn gyffredinol yn ebargofi Duw, bydded i *ni* yn neillduol wylied ar ein tymhor, ac ennill yr amser gyd â diwydrwydd, a gwneuthur y goreu o'r goleuni a'r gras a gynhygir i ni.

Oni chyffry ffafr a barnau Duw, trwy y rhai y mae 'n gweithio yn ein hamser, mo honom i gofio gwneuthur y pethau a berthynant i'n hiachawdwriaeth; etto, o leiaf, poed i gynfigen Diafol a drygioni 'r byd, y rhai y gwelwn eu bod mewn arferiad yn y dyddiau diweddaf ac enbyd hyn, ein hannog i wylied yn ddyfal ar ein galwedigaeth, ac i rodio rhagom ynddi.

[1] Jer. 8. 7. [2] Eph. 5. 16. [3] St. Luc 19. 44.

Poed i'r trueni a'r byr lawenydd trangcedig a welwn yn anwadalwch ein dyddiau, ein hannog, tra maent yn ein dwylaw, a'n dwys gyffrôi i fod yn ddoeth, ac i gymmeryd mantais o rasol ewyllys Duw tu ag attom, yr Hwn fel y dywed y Prophwyd, sydd yn estyn ei law attom ar hyd y dydd, ei law drugarog fynychaf, ac weithiau ei law drom; fel, gan gymmeryd rhybudd, y gallwn ddïangc rhag y perygl sy raid syrthio ar yr anghyfiawnion, y rhai sy 'n byw mewn dedwyddyd a phleser, heb wybod ewyllys Duw tu ag attynt, ond ydynt yn cwympo 'n ddisymmwth i uffern.

Caffer ni 'n wylwŷr: caffer ni mewn heddwch â'r Arglwydd; fel y caffer ni y dydd olaf heb na brychni na bai.

Ië, ymegnïwn yn ddyfal, bobl dda Gristianus, i gadw presennoldeb Glân Ysbryd Duw:——

Ymwrthodwn â phob aflendid; o herwydd Ysbryd purdeb a glendid yw Efe:——

Ymogelwn rhag pob rhagrith; oblegid fe ffŷ yr Ysbryd Sanctaidd Hwn oddi wrth yr hyn sy ffuantus.

Taflwn ymaith bob malais a drwg ewyllys: oblegid nid â yr Ysbryd Hwn byth i mewn i'r enaid digasog.

Bwriwn ymaith yr holl glamp o bechod ag sydd o'n hamgylch; canys ni chyfannedda Efe byth mewn corph ag sy 'n gaeth i bechod. Ni allwn fod yn ddïolchus i'r Hollalluog Dduw, a thristâu cymmaint ar Ysbryd y gras, trwy 'r hwn y sancteiddir ni.

Os gwnawn ni ein goreu, ni raid i ni ofni: ni a fyddwn alluog i orthrechu ein holl elynion sy 'n ymladd i'n herbyn. Yn unig ymdrechwn ni i dderbyn y gras a gynhygir i ni.—— Mae i ni gysur o'r Hollalluog Dduw oblegid ei ddaioni; a gallwn fod yn sicr o gyfryngiad ein Ceidwad Crist. Ac fe ddwg y Sanctaidd Ysbryd Hwn i'n meddyliau yr hyn a fyddo iachusol, ac a'n cadarnhâ ni ym mhob peth.

Am hynny ni ddichon na bo gwir yr hyn a ddywed St. Paul; *O hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef, y mae pob peth;*[1] ac ynddo Ef, ar ol darfod y fuchedd drangcedig hon, y cawn bob peth. Oblegid fe ddywed St. Paul *y bydd Duw oll yn oll, pan ddarostynger pob peth iddo.*[2]

Os ewyllysiwch wybod pa fodd y bydd Duw OLL YN OLL, yn wir chwi a ellwch ddeall hynny yn yr ystyr yma:——

Yn y byd hwn yr ydych yn gweled ein bod yn gorfod benthycca llawer o bethau gan lawer o greaduriaid i gyflawni ein heisiau: ac nid oes dim *un* peth a all ddigoni ein *holl* angenrheidiau. Os bydd arnom newyn, yr ydym yn chwennych bara.—— Os bydd syched arnom, ni a

[1] Rhuf. 11. 36. [2] 1 Cor. 15. 28.

yr hyn sydd eiddom; ym mha gyflwr y maent *hwy* ger bron Duw, y rhai sy 'n *gwneuthur* y cam? I ba felldithion y cwymp y rhai sy 'n twyllo eu cymmydog neu eu plwyf o'u cyfiawn hawl a'u cyfiawn feddiant trwy dystion gau, y rhai nid arbedant dyngu i sanctaidd enw Duw, er mwyn gosod allan ffalsder a chamwri? *Oni wyddoch chwi,* medd St. Paul, *na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw?*[1]

Pa elw gan hynny a fydd i ni o ennill ychydig o derfynau a meddiannau 'r ddaear, a cholli meddiannau 'r etifeddiaeth dragywyddol?

Ymogelwn ynte, wrth amddiffyn ein cyffiniau a'n meddiannau, rhag i ni wneuthur cam trwy gyfyngu ar eraill.

Gochelwn rhag dedryd fyrbwyll mewn pethau ammheus. Pwyllwn yn dda cyn taeru fod dim yn wirionedd, yr hyn ni byddom yn ei wybod neu yn ei gofio 'n sicr; ac nac ymhonnwn i'r peth na bo gennym gyfiawn hawl iddo.

Mae 'r Hollalluog Dduw yn gorchymyn fel hyn yn ei gyfraith: *Na symmud derfyn dy gymmydog, yr hwn a derfynodd y rhai a fu o'th flaen yn dy etifeddiaeth.*[2]—— Ac ebe Solomon, *Na symmud mo'r hen derfyn yr hwn a osododd dy dadau:*[3]——

A rhag i ni dybio mai bai bychan yw gwneuthur hynny, deallwn y rhifir ef ym mhlith y melldithion a gyhoeddodd Duw yn erbyn pechaduriaid: *Melldigedig,* ebe 'r Hollalluog Dduw trwy Moses, *yw'r hwn a symmudo derfyn ei gymmydog. A dyweded yr holl bobl,* AMEN,[4] i gadarnhâu 'r felldith ar bwy bynnag y cwympai.

Mae y rhai hynny yn annog dïal Duw arnynt eu hunain yn anial, ag sy 'n arfer torri 'r terfynau a osodwyd yn yr hen amseroedd i rannu 'r tir yn feusydd er mwyn cadw y perchennogion yn eu hawl.

Drwg iawn y gwna y rhai sy 'n arddu hen gyffiniau 'r meusydd, y rhai a osodwyd gan yr henafiaid gynt trwy fawr ofal; canys wrth hyn y gwyrdrôir cof-lyfrau arglwyddi 'r tir (y rhai ydynt dystiolaeth i'r tenantiaid) ac y newidir hwy rai prydiau, i ddietifeddu 'r cyfiawn berchennog, ac er mawr orthrymder ar yr amddifaid tlodion a'r weddw dlawd.

Ychydig a ŵyr y dynion trachwantus hyn pa niweid y maent yn aml yn ei wneuthur.—— Weithiau pair y fath dwyll a chyfrwysdra derfysg ac afreolaeth mawr wrth ymhonni i'r tiroedd; ïe, rai prydiau lofruddiaeth a thywallt gwaed, o'r hyn yr wyt ti yn euog, pwy bynnag wyt yn rhoi achlysur i'r fath bethau.

Gan hynny y mae 'r annhegwch cybyddus hwn am diroedd a dâ dy gymmydog yn atgas gan yr Hollalluog Dduw. *Na byddo i neb*

[1] 1 Cor. 6. 9. [2] Deut. 19. 14. [3] Diar. 22. 28. [4] Deut. 27. 17.

*orthrymmu na thwyllo ei frawd mewn dim*, ebe St. Paul, *canys dïalydd yw yr Arglwydd ar y rhai hyn oll.*[1]

Duw pob uniondeb a chyfiawnder yw Duw; ac am hynny mae Efe 'n gwahardd yn ei ddeddf bob cyfryw dwyll a dichell, yn y geiriau hyn; *Na wnewch gam ar farn, ar luthen, ar bwys, nac ar fesur. Bydded inch' gloriannau cyfiawn, cerrig cyfiawn, ephah gyfiawn, a hin gyfiawn.*[2]—— *Ffiaidd gan yr Arglwydd amryw bwysau*, ebe Solomon, *a chlorian twyllodrus nid yw dda.*[3] Cofiwch i St. Paul ddywedyd mai *dïalÿdd yw yr Arglwydd ar y rhai hyn oll;*[4] fel yr ydym yn gweled hefyd trwy brofiad beunyddiol, er tyccio yn anraslon weithiau o'r hyn a gaffer drwy ffalsder a dichell.

Fe 'n dysgir trwy brofiad nad yw 'r Hollalluog Dduw yn goddef un amser i'r *trydydd etifedd* fwynhâu cam-feddiannau ei dad; ïe, maent yn aml yn cael eu dwyn oddi arno ef ei hun cyn ei farw.

Nid yw Duw yn rhwym i amddiffyn y cyfryw feddiannau ag a gasgler trwy 'r Diafol a'i gyngor; ond Efe a ddiffyn bob cyfryw eiddo a meddiannau ag a gaffer trwyddo *Ef*, ac a'u ceidw rhag trais y gorthrymmydd. Felly y tystia Solomon: *Yr Arglwydd a ddiwreiddia dŷ 'r beilchion, ond efe a sicrhâ derfyn y weddw.*[5] Ac ebe Dafydd, *Gwell yw 'r ychydig sy gan y cyfiawn, na mawr olud annuwiolion lawer.*[6]

Ffown gan hynny, bobl dda, oddi wrth bob camwri wrth ennill, cadw, ac amddiffyn ein meddiannau, ein tiroedd, ein bywiolaethau, ein 'terfynau, a'n rhyddid, gan gofio fod pob cyfryw feddiannau dan nodded dïaledd Duw.

Ond pa son yr ydym am *dai a thiroedd?* Mae 'r Ysgrythyr yn dywedyd fod Duw yn ei sorriant yn diwreiddio *teyrnasoedd cyfain* o achos cam a gorthrymder, ac yn trosglwyddo brenhiniaethau o un genedl at genedl arall o herwydd trais a chasglu cyfoeth trwy dwyll. Hyn, ebe Daniel, yw arfer y Duw Cyfiawn, *fel y gwypo y rhai byw mai y Goruchaf a lywodraetha ym mrenhiniaeth dynion, ac a'i rhydd i'r neb y mynno efe.*[7]

Ym mhellach: Beth yw achos tlodi a phrinder, drudaniaeth a newyn? A ydyw 'r pethau hyn yn rhyw beth amgen nag argoel o sorriant Duw yn dïal y trais a'r cam yr ydym yn eu gwneuthur y naill i'r llall? Mae Duw yn dannod trwy ei Brophwyd Haggai fel hyn; *Hauasoch lawer, a chludasoch ychydig; bwytta yr ydych, ond nid hyd ddigon; yfed, ac nid hyd fod yn ddiwall; ymwisgasoch, ond nid hyd glydwr i neb; a'r*

[1] 1 Thes. 4. 6. [2] Lef. 19. 35, 36. [3] Diar. 20. 23. [4] 1 Thes. 4. 6. [5] Diar. 15. 25. [6] Ps. 37. 16. [7] Dan. 4. 17.

*hwn a ynnillo gyflog, sydd yn casglu cyflog i god dyllog; edrychasoch am lawer, ac wele, yr oedd yn ychydig; a phan y dygasoch adref, chwythais arno.*[1]

O! ystyriwch ynte sorriant Duw yn erbyn y rhai sydd yn cyfyngu ac yn gormesu ar diroedd a meddiannau rhai eraill!

Mae 'n alarus gweled mewn llawer lle fel y mae dynion gwangcus yn arferyd aredig a threisio ar diroedd eu cymmydogion nesaf attynt; fel y mae dynion cybyddus yn y dyddiau hyn yn arferyd aredig mor agos i'r llwybrau a'r rhodfeydd cyffredin, y rhai a wnaeth dynion da gynt yn fwy ac yn llettach, mewn rhan er mwyn i'w cymmydog gael hwylusach ffordd i gerdded, mewn rhan er mwyn rhagor o borfa yn amser cynhauaf i anifeiliaid eu cymmydog tlawd.—— Cywilydd yw gweled gorwangc diwala rhai dynion trachwantus yn eu gorchwylion; fel lle y gadawodd eu hynafiaid lwybrau digon llydain ar eu tiroedd i ddwyn elorau ar hyd-ddynt i ddwyn y corph i gael ei gladdu yn Gristionogaidd, y maent hwythau yn cyfyngu ac yn culhâu y cyfryw lwybrau-elor, y rhai o ran hir arferiad a ddylid eu cadw yn barchus i'r perwyl hwnnw: ond yn awr y maent hwy yn aredig y llwybrau hynny yn hollol, ac yn troi y corph marw i gael ei ddwyn yn gwmpasog ar hyd y prif-ffyrdd; neu ynte os gadawant lwybr, y mae yn rhy gul i'r rhai a fo 'n dwyn y corph a'r elor i gerdded arno.

Fy nghymmydogion da, fe ddylid edrych at y gwasgiadau a'r gormesiadau dïeithriol hyn. Dylid eu hystyried yn ein rhodiadau o amgylch yn y dyddiau hyn, ac yna rhybuddio a diwygio 'n gariadus y sawl sy 'n gwneuthur hynny er mwyn eu mael personol eu hunain, er cywilydd i'r plwyf, a cholled i'r tlawd.

Chwi a ddylech yn eich rhodiadau ystyried y prif-ffyrdd, er mwyn i chwi ddeall pa le y mae eisiau gweithio i'w gwellhâu, yn ol y cyfreithiau da a ddarparwyd i'r diben hwnnw.

Gorchwyl da o drugaredd yw adgyweirio ffyrdd peryglus a niweidiol, fel na syrthio dy gymmydog tlawd sy 'n eistedd ar ei anifail gwanllyd i'r pyllau dyfnion sydd ynddynt, ac felly bod gwasanaethu 'r farchnad yn waeth, a digalonni 'r marchnadwŷr tlodion rhag myned iddi.

Yn awr gan hynny os mynnwch i'r Hollalluog Dduw wrando ar eich gweddïau, i roi cynnydd ar eich ŷd a'ch anifeiliaid, a'u cadw rhag malldod a haint, rhag cenllysg a thymhestloedd eraill cyffelyb, cerwch uniondeb a chyfiawnder, dilynwch drugaredd a chariad perffaith, yr hyn y mae Duw yn ei ofyn yn bennaf ar eich llaw.

Hyn oedd yr Hollalluog Dduw yn ei olygu yn fwyaf yn ei gyfreithiau

[1] Hag. 1. 6, 9.

gwladol i bobl Israel, wrth orchymyn i'r perchennogion na chasglent yr ŷd yn rhy lwyr yn y cynhauaf, na grawn y gwinwydd a'r olewydd yn amser cynnull, ond gadael rhai o'r tywys ar eu hol i'r lloffwŷr tlodion. —— Ei amcan yn hyn oedd eu dwyn i dosturio wrth y tlodion, ac i gymmorth yr anghenog, trwy ddangos tiriondeb a hynawsedd.

Nid oes fodd mai colled yw 'r hyn a gyfranner er mwyn Duw i'r tlodion: oblegid yr Hwn sy 'n rhoi had i'r hauwr, a bara i'r newynog; yr Hwn sydd yn anfon y cynnar a'r diweddar wlaw ar eich meusydd, i lenwi eich ysguboriau âg ŷd, a'ch gwin-wryfoedd â gwin ac olew; Efe, meddaf, yr hwn a dâl am bob math o gymmwynas yn adgyfodiad y cyfiawn, a fydd yn sicr o wobrwyo pob gweithred o drugaredd a wneler i'r anghenog, pa mor analluog bynnag i dalu y byddo 'r tlawd, i'r hwn y gwneler hwynt.

*Na ad i drugaredd a gwirionedd*, ebe Solomon, *ymadael â thi; cylymma hwy am dy wddf, ysgrifena hwy ar lech dy galon:*

*Felly y cei di ras a deall da ger bron Duw a dynion.*

*Anrhydedda 'r Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'th holl ffrwyth:*

*Felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th win-wryfoedd a dorrant gan win newydd.*[1]

Ië, mae Duw wedi addaw agoryd ffenestri 'r nefoedd ar y gwr haelionus a chyfiawn, fel na chaffo dim diffyg fod arno. Efe a ettyl y lindys rhag difa eich cnydau. Efe a rydd i chwi heddwch a llonyddwch i gasglu eich ffrwythau, fel y galloch eistedd bob un dan ei ffigysbren ei hun yn dawel, heb ofn i elynion estronol eich goresgyn. Efe a rydd i chwi nid yn unig ymborth i'w fwytta, ond iechyd hefyd i'w fwynhâu, ac ym mhob peth gael digonolrwydd. —— Yn ddiweddaf, Efe a'ch bendiga chwi â phob math o helaethrwydd yn y bywyd darfodedig hwn, ac a'ch cynnysgaedda chwi â phob math o fendith yn y byd nesaf, yn nheyrnas nef, trwy ryglyddon ein Harglwydd a'n Hiachawdwr: I'r Hwn, ynghyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd yn dragywyddol. Amen.

[1] Diar. 3. 3, 4, 9, 10.

# HOMILI

## YNGHYLCH YSTAD PRIODAS.

MAE gair yr Hollalluog Dduw yn tystiolaethu ac yn datgan o ba le y daeth dechreuad cyntaf PRIODAS, a phaham yr ordeiniwyd hi: Sefydlwyd hi gan Dduw o fwriad ar fod i wr a gwraig fyw ynghyd yn gyfreithlon mewn cyfeillach wastadol, i eppilio ac i ymogelyd rhag godineb; fel trwy 'r moddion hyn y gellid cadw cydwybod dda gan y ddwyblaid, trwy ffrwyno llygredig hyblygedd y cnawd o fewn terfynau onestrwydd. Canys mae Duw wedi gwahardd yn gaeth bob aflendid a phutteindra, a chospi 'n dost y gwyniau anllywodraethus hyn, fel y mae pob hanesion ac oesoedd yn dangos.

Fe ordeiniwyd hefyd fod i Eglwys Dduw a'i deyrnas gael trwy 'r bywyd priodasol eu cynnal a'u helaethu, nid yn unig am fod Duw yn rhoi plant drwy ei fendith, ond hefyd am eu bod yn cael eu dwyn i fynu gan rïeni duwiol mewn gwybodaeth o air Duw—— fel y gellid yn y modd hwn drosglwyddo o oes i oes wybodaeth am Dduw a'i wir grefydd, fel yn y diwedd y gallai llaweroedd fwynhâu tragywyddol anfarwoldeb.

Weithian, yn gymmaint a bod priodas yn gwasanaethu i ochel pechod a thramgwydd, ac hefyd i helaethu teyrnas Dduw; rhaid i chwi ac i bawb eraill sy 'n myned i mewn i'r ystad hon, gydnabod dawn Duw â meddyliau pur a dïolchus, am iddo felly reoli eich calonnau chwi, fel nad ydych yn dilyn esampl y byd drygionus, y rhai sy 'n gosod eu bryd ar frynti pechod, ond eich bod chwi eich deuoedd yn ofni Duw ac yn casâu pob halogrwydd.—— O herwydd dilys yw mai dawn Duw yw hon, lle mae esampl gyffredin dynion bydol yn dangos fel y mae Diafol wedi rhwymo a maglu eu calonnau mewn amryw rwydau, fel ag y maent yn eu hystâd o annyweddïaeth yn rhedeg i ffieidd-derau cyhoeddus heb i'w cydwybodau eu cyhuddo am hynny.—— Mae St. Paul yn darlunio i'r cyfryw bobl, ag sy 'n byw mor ysgeler a ffiaiddd, pa ddamnedigaeth sydd ar eu medr: *Ni chaiff godinebwŷr*, eb efe, *etifeddu teyrnas Dduw.*[1]—— Ond yr ydych chwi wedi dïangc rhag y farn

[1] 1 Cor. 6. 9.

arswydus hon, od ydych chwi yn byw yn ffyddlon i'ch gilydd yn ol ordinhâd Duw..

Ond ni fynnwn i chwi fod yn ddïofal heb wylied; canys fe gais y diafol wneuthur pob cynhygiad i rwystro ac i luddias bwriadau duwiol eich calonnau, os rhowch chwi iddo dippyn bach o le: naill ai efe a gais dorri 'r cwlwm duwiol a ddechreuwyd rhyngoch, neu ynte efe a gais ei aflonyddu â llïaws o drallodion ac anfwynderau:——

A'i brif ddichell yw hon; sef gweithio anghydfod rhwng y naill a'r llall, fel lle mae 'n awr gariad melus a hyfryd rhyngoch, y dycco efe yn lle hynny yr anghyttundeb chwerwaf ac ánhyfryttaf.

Ac yn wir y mae ein gelyn hwn, megis oddi uchod, yn ymosod ar natur a chyflwr dyn. Canys y mae 'r ffolineb hwn wedi tyfu i fynu gyd â ni o'n mebyd, sef *dymuno rheoli*, a thybied yn gystal am danom ein hunain, fel nad oes neb o honom yn gweled yn gymmwys roi 'r flaenoriaeth i arall.—— Mae 'r bai ceryddus hwn o wrthnysigrwydd ewyllys, a hunan-serch, yn addasach i dorri cariad calon, nag i gynnal cyttundeb. Gan hynny rhaid i bobl brïod roi eu meddyliau yn y dull mwyaf difrif ar gyd-gordio; a rhaid iddynt erfyn yn wastadol ar Dduw am help ei Lân Yspryd i reoli felly eu calonnau ac i uno eu meddyliau ynghyd, fel na wahaner hwy gan ddim ymrafael nac anghydfyddiaeth.

Mae 'n angenrheidiol i bobl brïod arfer yn fynych weddïo dros y naill y llall, rhag i gasineb ac ymryson gyfodi rhyngthynt.

Ac am nad oes ond ychydig yn ystyried y peth hyn, a llai fyth yn ei gyflawni, (sef gweddïo 'n ddyfal dros eu gilydd) ni a welwn pa wawd a dirmyg y mae Diafol yn ei ddwyn ar yr ystâd hon; ac mor ambell y mae Prïodasau heb ymdaeru, ymsennu, ymgoegi, edifaru, melldithio, ac ymladd.—— A phwy bynnag sy 'n gwneuthur y pethau hyn, nid ydynt yn ystyried mai 'r Gelyn ysprydol sydd yn eu symbylu i hynny, yr hwn sy 'n cymmeryd hyfrydwch mawr yn y cyfryw bethau; oblegid pe amgen, hwy a wrthwynebent y drygau hyn â phob difrifol egni, nid yn unig trwy weddi, ond hefyd gyd â phob diwydrwydd dichonadwy. Ië, ni roddent le i annogaeth llid, yr hwn a'u cyffry i'r fath eiriau llymion a gerwin, ac weithiau i ddyrnodiau, yr hyn yn ddïau sydd o weithrediad y Dïafol; temtasiwn yr hwn, os dilynir hi, a fydd yn sicr o ddechreu a gwau gwe pob tristyd a thrueni.—— O herwydd mae hyn yn wirionedd dilys, mai o'r cyfryw ddechreuad y dilyn yn gyffredin dorriad gwir gyttundeb calon, trwy 'r hyn y bydd raid i bob cariad ar fyrr ennyd gael ei alltudio.

Yna ni 's gall na bo 'n beth truenus i edrych arno, eu bod o angenrheidrwydd yn gorfod byw ynghyd, ac etto heb allel byw ynghyd yn dawel. Ac y mae hyn yn arferol i'w weled ym mhob lle.

Ond beth yw 'r achos o hyn? Yn wir, am nad ydynt hwy yn ystyried dichellion cyfrwys y Diafol, ac nad ydynt, o ganlyniad, yn ymrôi i weddïo ar Dduw, ar fod yn wiw gantho attal ei allu ef.

Ym mhellach nid ydynt yn ystyried fel y maent yn rhwyddhâu amcan y Diafol drwy ddilyn llid eu calonnau, wrth fygwth y naill y llall, wrth droi pob peth bendramwnwgl yn eu ffolineb, ac wrth beidio byth a rhoi i fynu eu hawl; ïe, yn aml ni roddant i fynu pan fyddont ar y bai.

Od wyt ti gan hynny yn chwennych bod heb y trueni hwn, ac od wyt yn dymuno byw yn heddychlon ac yn gysurus ym Mhriodas, dysg weddio 'n ddifrifol ar Dduw, ar fod iddo lywio eich calonnau chwi eich deuoedd â'i Yspryd Glân, ac attal gallu 'r Diafol, fel trwy hynny y parhao eich cyd-gordiad yn wastadol.

Ond mae 'n rhaid cyssylltu â'r weddi hon ddïesgeulusrwydd neillduol; ynghylch yr hyn beth y mae St. Petr yn rhoi 'r gorchymyn hwn, gan ddywedyd, *Y gwŷr, cyd-gyfanneddwch â'ch gwragedd yn ol gwybodaeth, gan roddi parch i'r wraig megis i'r llestr gwannaf, fel rhai sy gyd-etifeddion gras y bywyd; rhag rhwystro eich gweddïau.*[1]

Mae 'r gorchymyn hwn yn perthyn yn neillduol *i'r gwr;* canys *efe* a ddylai fod yn arweinydd ac yn awdwr cariad, trwy feithrin a helaethu cydfod: ac fe feithrinir ac fe helaethir cydfod, os defnyddia efe gymmedroldeb ac nid tra-arglwyddiaeth, ac os goddef efe i'r wraig gael rhyw faint o'i ffordd a'i meddwl ei hun. Canys creadur gwan yw 'r wraig, ac heb ei chynnysgaeddu â chymmaint o rym a chadernid meddwl; ac y mae 'r gwragedd yn fwy tueddol at bob teimladau gweinion nag ydyw 'r gwŷr, ac y maent yn ysgafnach ac yn oferach yn eu mympwyon a'u hopiniynau. A rhaid i'r gwr ystyried y pethau hyn, fel na byddo efe ry afrywiog, ond bod iddo edrych heibio i rai pethau yn ei wraig, a deongli pob peth yn fwyn iddi mewn yspryd hir-ymarhôus.

Ond y mae y rhan gyffredin o ddynion yn barnu nad yw 'r cyfryw gymmedroldeb ac arafwch ddim yn gweddu i *wr;* canys nid yw hynny, meddant, ond argoel o lyfrdra merchedaidd; ac am hynny tybygant mai rhan *gwr* yw ffrommi mewn digter, ac ymladd nerth ei ddwrn a'i bastwn.—— Ond beth bynnag yw eu tyb *hwy*, mae St. Petr yn barnu'n well beth sy 'n gweddu i wr, a pha beth sy 'n rhesymmolaf iddo wneuthur. Canys y mae efe yn ein dysgu mai *ymresymmu* a ddylid, ac nid *ymladd;* ac y mae 'n erchi ym mhellach *roddi parch i'r wraig*; hynny yw y dylid ei harbed, a bod yn ymarhôus wrthi, am mai hi yw y *llestr gwannaf*, yn galon frau ac yn anwadal, ac yn hawdd ei chyffrôi i ddigofaint hyd yn nod â gair: ac am hynny, gan ystyried ei gwendidau

[1] 1 St. Petr 3. 7.

hyn, dylid yn hytrach ymddwyn atti gyda â lledneisrwydd ac addfwynder.—— Wrth wneuthur hyn, ti nid yn unig a feithrini gyd-gordiad a chydfod, ond ti a gei hefyd ei chalon yn dy allu ac wrth dy ewyllys. Canys cedwir naturiaeth onest yn haws i wneuthur ei dyledswydd â geiriau llariaidd nag â dyrnodiau:——

Ond am yr hwn a fyn wneuthur pob peth gyd â llymder a thrahausdra, ac sy bob amser yn arfer toster geiriau a dyrnodiau,—— pa les a fydd hynny yn y diwedd? Dim oll, ond ei fod efe trwy hynny yn rhwyddhâu gwaith y Diafol, drwy alltudio ymaith gyd-gordiad, cariad, a chyfeillach felus, a dwyn i mewn anghydfyddiaeth, llid, ac anghariad, y rhai ydynt y pethau mwyaf annymunol a allant fod i gariad priodasol a chyfeillgarwch bywyd dyn.

Ond heblaw hyn oll, mae hynny yn dwyn anffawd arall gyd âg ef; *canys y mae 'n rhwystr ac yn ddinystr i Weddi:* oblegid yn yr amser ag y byddo 'r meddwl mewn ymryson ac anghydfyddiaeth, ni all fod dim gwir weddïo: canys y mae Gweddi 'r Arglwydd yn golygu nid yn unig bersonau neillduol, ond pawb hefyd yn gyffredinol; yn yr hon yr ydym yn datgan ar gyhoedd *ein bod ni yn maddeu i'n dyledwŷr*, fel ag yr ydym yn gweddïo ar i Dduw *faddeu ein dyledion* ninnau. A pha fodd y gellir gwneuthur hyn yn iawn, pan fyddo 'r galon mewn anghydfod a chroesineb? Pa fodd y gallwn weddïo dros ein gilydd, a ninnau 'n casâu y naill y llall?—— Yn awr, os tynnir ymaith gynhorthwy Gweddi, pa fodd y gallant eu cadw eu hunain mewn dim diddanwch? O herwydd ni 's gallant na gwrthwynebu Diafol, na chadw chwaith mo 'u calonnau mewn cysur sefydlog ym mhob enbydrwydd ac angenoctid, ond trwy Weddi.

Fel hyn y mae pob aflwydd bydol ac ysprydol yn canlyn yr anhynawsedd afrywiog a'r ffyrnigrwydd rhwystrus hwn, yr hyn sy 'n wedddusach i anifeiliaid ysgrublaidd nag i greaduriaid rhesymmol. —— Nid ydyw St. Petr yn caniattâu 'r pethau hyn; ond y maent wrth fodd calon y Diafol.—— Byddwch chwithau gan hynny yn fwy gochelgar.

Ac etto fe ddichon dyn fod yn *ddyn*, er nad arfero efe y cyfryw lymder; ïe, er iddo edrych heibio i rai pethau yn ymddygiad ei wraig, a pheidio a dangos ym mhob peth mai efe yw 'r meistr.—— Ac y mae hyn yn rhan *Cristion* hefyd, ac yn rhyngu bodd i Dduw, ac yn wasanaethgar a defnyddiol i gysur yr Ystâd briodasol.

Yn awr, tu ag at am ddyledswydd y wraig:——

Pa beth a wedda iddi *hithau?* A gaiff hi gam-arferyd addfwynder a hynawsedd ei gwr, a throi pob peth bendramwnwgl wrth ei hewyllys? Na chaiff, yn ddïammeu; canys byddai hynny 'n gwbl groes i

orchymyn Duw: oblegid fel hyn y mae St. Petr yn pregethu iddynt hwy; *Bydded y gwragedd ostyngedig i'w gwŷr priod.*[1]

Un peth yw ufuddhâu, peth arall yw rheoli: ond etto gall y gwragedd reoli eu plant a'u tylwyth; ond am eu gwŷr, rhaid iddynt ufuddhâu iddynt hwy, a bod yn ddarostyngedig iddynt, a pheidio a rheoli. O herwydd y mae hyn yn ddïau yn meithrin cyd gordiad yn fawr iawn, pan fyddo 'r wraig yn barod wrth orchymyn ei gwr, pan fyddo hi 'n ymroddi i'w ewyllys ef, pan fyddo hi 'n ymegnïo i'w foddloni ac i'w lawenhâu, a phan fyddo hi 'n ymogelyd rhag pob peth ag a allo ei dramgwyddo. Fel hyn y gwirhêir yn orau ddywediad y Bardd;——

Cymmer ei gwr, gan wraig fo 'n gu,
  Ei lywodraethu 'n hawddach;
A bydd yn hoff, mewn serch di drai,
  O'i gartref a'i chyfeillach.

Ond o'r ochr arall,——

Pan fyddo 'i wraig yn brïod gas,
  Anynad, ddiras, ddryg-nwyd,
Yn sarrug, ffrom, a blin ei 'stwr,
  Ffieiddia 'i gwr ei aelwyd.

Er hynny, odid fawr yw na ddigwydd weithiau ryw dramgwyddiadau rhyngddynt, (canys nid oes neb byw heb ei fai) ac yn enwedig am mai y wraig yw y blaid wannaf. Gan hynny gocheled y wraig rhag ymgyndynnu 'n wrthnysig yn ei bai, ond cydnabydded ei ffolineb yn hytrach, a dyweded,—— "Fy ngwr, fy nigter a'm gyrrodd i wneuthur hyn neu hynny; maddeuwch i mi, ac o hyn allan byddaf yn fwy gochelgar."—— Dylai 'r wraig fod yn barottach i wneuthur hyn, am mai hi, ysgatfydd, yw 'r barrottaf i roi 'r tramgwydd.

A dylai 'r gwragedd wneuthur hyn, nid yn unig i ochelyd cynnen ac ymryson, ond hefyd (ac yn hytrach) oblegid gorchymyn Duw, fel yr edrydd St. Paul ef yn y geiriau hyn; *Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod, megis i'r Arglwydd: oblegid y gwr yw pen y wraig, megis ag y mae Crist yn ben i'r Eglwys.*[2]—— Gwelwch yma ddarfod i Dduw orchymyn i chwi gydnabod awdurdod y gwr, a'i anrhydeddu trwy ufuddhau iddo.

Ac fe ddywed St. Petr, yn y lle a grybwyllwyd o'r blaen, y byddai gwragedd sanctaidd yn ymdrwsio gynt, nid âg aur ac arian, ond trwy roi eu holl obaith yn Nuw, ac ufuddhâu i'w gwŷr, *megis yr ufuddhâodd Sarah i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd; merched yr hon ydych chwi,* medd efe, *tra fyddoch yn gwneuthur yn dda, ac heb ofni dim*

[1] 1 St. Petr 3. 1. [2] Eph. 5. 22, 23.

*dychryn.*—— Addas iawn fyddai i wragedd argraphu 'r geiriau hyn yn eu cof. Canys gwir yw fod yn rhaid iddynt hwy oddef llawer o dristwch a phoen yn eu cyflwr prïodasol, gan eu bod yn rhoi i fynu ryddid eu hewyllys eu hunain, a chan eu bod yn goddef gwewyr esgor, a'r drafferth o ddwyn eu plant i fynu: yn yr hyn bethau maent hwy mewn mawr beryglon, ac mewn cystuddiau trallodus, y rhai y gallasent fod yn rhydd oddi wrthynt, ped arosasent heb brïodi.—— Ond fe ddywed St. Petr mai prif addurn gwragedd sanctaidd yw, *eu bod yn gobeithio yn Nuw;*[1] hynny yw, nad ydynt yn ymgadw rhag prïodi oblegid y gofalon a'r gofidiau a'r peryglon sydd ynglŷn â hynny, ond eu bod yn rhoi pob cyfryw ddigwyddiadau ar Dduw, gan ymddiried yn ddïogel yn ei help Ef, gwedi y galwont am ei gynhorthwy.

O wraig, gwna dithau yr un modd; ac felly prydferthir di 'n odidog ger bron Duw a'i holl angylion a'i saint, ac ni raid i ti ym mhellach geisio gwneuthur un weithred a fo gwell.—— Ufuddha di i'th wr, parcha ei ddymuniadau, a gofala am ganfod pa bethau y mae yn eu gofyn ar dy law; ac felly ti a anrhydeddi Dduw, ac a gei fyw yn heddychlon yn dy dŷ.—— Ac uwchlaw hyn oll, fe 'th ddilyn Duw di â'i fendith, ac a bair i bob peth ffynnu i ti ac i'th wr; fel y dywed y Psalm: ——

*Gwyn ei fyd pob un sydd yn ofni 'r Arglwydd; yr hwn sydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.*

*Canys mwynhêi lafur dy ddwylaw: gwyn dy fyd, a da fydd it'.*

*Dy wraig fydd fel gwinwydden ffrwythlawn ar hyd ystlysau dy dŷ; dy blant fel planhigion olewydd o amgylch dy ford.*

*Wele, fel hyn yn ddïau,* ebe Dafydd, *y bendithir y gwr a ofno 'r Arglwydd.*[2]

Bydded hyn yn wastadol ym meddwl y wraig, yn hytrach am fod gwisg ei phen yn dwyn hyn ar gof iddi, wrth yr hyn yr arwyddocëir ei bod hi dan orchudd o ufudd-dod i'w gwr. Ac fel yr ordeiniodd natur y wisg honno i ddangos ei bod hi yn ddarostyngedig i'w gwr, felly mae St. Paul yn erchi bod i bob rhan arall o'i dillad hi arddangos gwylder a sobrwydd. Canys onid yw gyfreithlon i *wraig fod yn bennoeth,*[3] ond dwyn ar ei phen, i ba le bynnag yr elo, *arwydd* o'r awdurdod sydd gan ei gwr arni, mwy o lawer y gofynir ganddi ddangos *y peth ei hun* a arwyddocêir.—— Ac am hynny y galwai y gwragedd yn yr hen fyd gynt eu gwŷr yn *arglwyddi,* gan ddangos eu parch tu ag attynt trwy fod mewn ufudd-dod iddynt.

Ond fe ddywed y wraig, ysgatfydd, fod y gwŷr hynny yn caru eu gwragedd mewn gwirionedd. Yr wyf yn gwybod ac yn cofio hynny 'n

[1] 1 St. Petr 3. 5, 6. [2] Ps. 128. 1, 4. [3] 1 Cor. 11. 5.

dda: ond pan wyf fi yn eich rhybuddio chwi am eich dyledswyddau eich hunain, gadewch heibio ystyried beth yw dyledswyddau eich gwŷr. —— Canys pan fyddom ni yn dysgu i'n plant ufuddhâu i ni eu rhieni; neu pan fyddom yn ceryddu ein gweision, ac yn dywedyd wrthynt y dylent ufuddhâu i'w meistriaid, nid â llygad-wasanaeth, ond megis i'r Arglwydd; pe dechreuai ein plant a'n gweision ddysgu i ninnau ein dyledswyddau ninnau, ni thybygem y byddai hynny 'n dda ynddynt. Oblegid pan rybuddier ni am ein dyledswyddau a'n beiau ein hunain, nid dyna 'r amser i ni chwilio beth yw dyledswyddau pobl eraill: ac nid yw beiau pobl eraill yn ein gwneuthur ni ein hunain yn ddifai:—— Ond ar hyn yn unig y rhaid i ti edrych yn awr, sef pa fodd y gelli di dy wneuthur dy hun yn ddifai. Canys bwriodd Adda 'r bai ar y wraig, a'r wraig ar y sarph; ond etto nid esgusodwyd yr un o'r ddau. Ac am hynny na ddwg i mi gyfryw esgusion ar hyn o bryd, ond gwrando 'n ddyfal pa fodd y dylit ti ufuddhâu i'th wr. Canys pan wyf yn cymmeryd mewn llaw rybuddio dy wr "i'th garu a'th fawrhau" di, etto ni pheidiaf a gosod allan y gyfraith a ordeiniwyd i'r *wraig*, yn gystal ag y mynnwn i'r *gwr* wneuthur yr hyn a ysgrifenwyd yn gyfraith iddo yntau.

Dos di gan hynny ynghylch y pethau a berthynant i ti dy hun yn unig, a dangos dy hun yn hynaws i'th wr. Neu yn hytrach os ufuddhêi di i'th wr er mwyn gorchymyn Duw, yna, gwedi hynny, gelli adrodd y pethau a ddylai yntau eu gwneuthur: ond cyflawna di yn ddïesgeulus y pethau a orchymynodd y Deddf-roddwr *i ti;* canys felly yr ufuddhêi di oreu i Dduw.

Nid gorchest fawr yw i neb garu 'r sawl a'i caro yntau; ond mae 'r hwn a anrhydeddo 'r neb sy 'n ei ddrygu ac yn ei gasâu, yn haeddu mawrglod. Felly meddwl dithau, os gelli di oddef gwr anghyweithas, y bydd i ti am hynny fawr wobr. Ond os wyt yn ei garu ef yn unig am ei fod yn addfwyn ac yn llednais, pa wobr a rydd Duw i ti am hynny?

Etto nid wyf yn dywedyd y pethau hyn fel pe ewyllysiwn i'r gwŷr fod yn llym wrth eu gwragedd; ond annog y gwragedd yr ydwyf i ddïoddef llymder eu gwŷr.

Canys pan wnelo pob un o'r ddwy-blaid eu goreu i gyflawni eu dyledswyddau y naill i'r llall, yna fe fydd eu hesampl hwy o fuddioldeb mawr i'w cymmydogion. Oblegid pan fyddo 'r wraig yn barod i oddef gwr anhywaith, a phan na bo 'r gwr yn rhy dost wrth ei wraig ystyfnig a therfysgus, yna fe fydd pob peth yn dawel, megis mewn porthladd dïogel.

Fel hyn y gwneid yn yr hen amseroedd; pob un yn gwneuthur ei ddyledswydd a'i swydd ei hun, heb fod yn rhy brysur i ymofyn ynghylch dyledswydd eu cymmydogion:——

Ystyr, attolwg i ti, ddarfod i Abraham gymmeryd atto fab ei frawd,

ac na 's beiodd ei wraig ef am hynny.—— Efe a archodd iddo fyned gyd âg ef i daith bell, ac ni wrth-ddywedodd hithau yn erbyn hynny, ond cydsyniodd â'i archiad ef.—— Drachefn, ar ol holl flinder a llafur a phoen y daith honno, pan wnaed Abraham yn arglwydd ar y cwbl, etto efe a roddes yr oruchafiaeth i Lot: fe oddefodd Sarah hynny mor ddiddig, fel na adawodd i'w thafod yngan unwaith y fath eiriau ag a arfera gwragedd yn gyffredin yn y dyddiau hyn, pan welont eu gwŷr yn y lleoedd isaf, ac o dan rai ieuengach na hwynt eu hunain: yna maent yn edliw iddynt â geiriau cynhennus, gan eu galw 'n ffyliaid llyfrion a di-yspryd o'r achos. Ond mor bell oedd Sarah oddi wrth ddywedyd y fath eiriau, fel na ddaeth erioed i'w meddwl ddywedyd felly; ond ymfoddlonodd i ddoethineb a deall ei gwr.—— Ië, heblaw hyn oll, ar ol i Lot gael ei ddewis, a gadael y rhan leiaf o'r tir i'w ewythr, digwyddodd iddo gwympo i ddygn berygl: yr hyn beth pan wybu 'r Patriarch, efe yn ebrwydd a arfogodd ei wŷr, ac a'i parottôdd ei hun, ynghyd â'i holl deulu a'i gyfeillion, yn erbyn llu 'r Persiaid. Yn yr achos hwn, ni chynghorodd Sarah ef i'r gwrthwyneb, ac ni ddywedodd wrtho fel y *gallasai* ddywedyd, "Fy ngwr, i ba le yr âi di mor fyrbwyll? Paham y rhedi fel hyn lwyr dy ben? Paham yr wyt yn dy daflu dy hun i enbydrwydd mor fawr, ac yn anturio dy fywyd dy hun a bywyd dy gyfeillion, a hynny er mwyn un a wnaeth gymmaint cam â thi? O leiaf, os nad oes gennyt ofal am danat *dy hun*, etto tosturia wrthyf *fi*, a minnau o serch arnat wedi gadael fy ngwlad a'm carennydd, a dyfod i wledydd mor bell gyd â thi, lle nad oes gennyf na châr na chyfaill: tosturia wrthyf fi, ac na wna fi yma yn weddw, ar ol fy nwyn i gymmaint gofalon a thrallodau."—— Fel hyn y gallasai hi ddywedyd; ond ni ddywedodd ac ni feddyliodd Sarah y fath eiriau, ond hi a'i cadwodd ei hun yn ddistaw ym mhob peth.

Ac ym mhellach o'i ochr yntau hefyd; yr holl amser ag y bu hi yn ammhlantadwy yn ei dŷ ef, beth a wnaeth efe? Efe a gwynodd, nid wrth ei wraig, ond wrth yr Hollallnog Dduw. Ac ystyriwch fel y gwnaeth pob un o'r ddau eu dyledswydd fel yr oedd yn gymhesur iddynt: canys ni ddïystyrodd efe Sarah am ei bod yn ammhlantadwy, ac ni edliwiodd efe erioed mo hynny iddi.—— Ystyriwch hefyd fel y gyrrodd Abraham y llawforwyn allan o'i dŷ ar gais Sarah: yr hyn sy brawf cywir fod y naill yn ymfoddloni yn y llall ym mhob peth.—— Ac etto na osodwch eich llygaid ar y matter hwn yn unig, ond edrychwch ym mhellach beth a wnaed cyn hyn, ddarfod i Agar ddiystyru ei meistres, a bod Abraham ei hun wedi ei gyffrôi ychydig yn ei herbyn hi; yr hyn ni allai lai na bod yn beth annïoddefol iawn a phoenus i wraig rydd a diwair fel Sarah.

Na fydded y wraig gan hynny ry brysur i alw am ddyledswydd ei gwr, lle y dylai fod yn barod i wneuthur ei dyledswydd ei hun; canys ni haeddai hynny lawer o ganmoliaeth.—— Ac yn yr un modd, nac ystyried y gwr yn unig beth sydd yn perthyn i'r wraig ei wneuthur, ac na safed i syllu yn rhy ddifrifol ar hynny; canys nid hynny yw ei ran na 'i ddyledswydd ef. Ond fel y dywedais eisoes, bydded pob un o'r ddwy-blaid yn barod ac yn ewyllysgar i wneuthur yr hyn sy 'n perthyn yn brïodol iddynt hwy eu hunain :——

O herwydd os ydym yn rhwym i droi y rudd aswy i ddyn *dieithr* a'n tarawo ar y ddehau, mwy o lawer y dylit oddef toster ac afrywiog-rwydd *dy wr dy hun!*

Ond etto ni fynnwn i'r gwr *guro* ei wraig. Na atto Duw hynny! canys y cywilydd mwyaf yw hynny ag a all fod, nid yn gymmaint i'r wraig a gurir, ag i'r gwr a wnelo 'r fath weithred. Ond os digwydd fod i ti y fath wr, na fydd ry drist o'r achos, ond meddwl fod mawr wobr wedi ei roi i gadw ar dy fedr ar ol hyn, a chanmoliaeth nid bychan i ti yn y fuchedd hon, os gelli di fod yn dawel.

Ond etto wrthych chwi sydd wŷr, fel hyn yr wyf yn dywedyd :—— Na fydded un bai mor fawr ag y gyrro chwi i *guro* eich gwragedd. Ond beth yr wyf yn ei ddywedyd? eich *gwragedd?* Na, mae 'n beth anoddefol i ddyn onest guro hyd yn nod ei *lawforwyn*, chwaithach ei *wraig*. Gan hynny, os cywilydd mawr yw i wr guro ei gaeth-forwyn, llawer mwy ceryddus yw iddo guro ei wraig rydd.

A gellir deall hyn yn dda wrth y cyfreithiau a wnaeth y Paganiaid, y rhai sy 'n rhoi rhyddid iddi beidio a chyd-drigo yn hwy gyd â'r cyf-ryw wr, fel un annheilwng i gael dim ychwaneg o gymdeithas yr hon a darawyd gantho. Oblegid y peth tostaf a all fod, yw i ti drin mor ddirmygus, ac fel caeth-forwyn, un ag sy 'n gymmar dy fywyd i ti, a'r hon a gyssylltwyd â thi o'r blaen ym matterion angenrheitiaf dy fyw-iolaeth.—— Ac am hynny fe ellir yn brïodol gyffelybu 'r fath ddyn (os gellir ei *alw* 'n ddyn, ac nid yn wylltfil) i dad-leiddiad neu fam-leiddiad.

A lle y gorchymynir i ni adael ein tad a'n mam er mwyn ein gwrag-edd, ac etto nid ydym yn gwneuthur camwri â thad na mam trwy hynny, ond cyflawni cyfraith Dduw; pa fodd nad yw 'n ymddangos yn orphwylldra i'r eithaf ymddwyn yn drahâus at yr hon y gorchymynodd Duw i ti adael dy rïeni er ei mwyn?—— Ië, pwy a all oddef y fath draha? Pwy a all draethu 'n ddigonol mor anhawdd gwrando ar y cri a'r wylofain a wneir yn yr heolydd, pan fo cymmydogion yn rhedeg ynghyd i dŷ y fath wr afreolus, megis at wallgof-ddyn, yr hwn sydd yn ceisio dadymchwelyd pob peth a fo gantho gartref? Pwy ni thybygai

mai gwell fyddai i'r fath wr ddymuno i'r ddaear agoryd a'i lyngcu, na chael ei weled byth unwaith wedi hynny yn y farchnad?

Ond ti a wrth-ddadleui ond odid, fod y wraig yn dy gyffrôi di i hyn. —— Ond ystyria dithau mai llestr gwan yw 'r wraig, ac y gwnaed di yn rheolwr ac yn ben arni er mwyn cyd-ddwyn o honot â'i gwendid yn ei darostyngiad hwn i ti. Am hynny myfyria di ar ddangos fod dy awdurdod yn haeddu clod; yr hyn ni 's gelli wneuthur yn well na thrwy ymattal rhag *tra*-awdurdodi arni yn ei gwendid a'i darostyngiad. —— Canys fel y gwelir y Brenhin yn bendefigeiddiach, po mwyaf pendefigaidd ac ardderchog y gwnelo efe ei swyddogion a'i raglawiaid; a phe 's dïanrhydeddai efe hwynt, a phe dïystyrai efe eu hawdurdod a'u hurddas, efe a'i dïosgai ei hun o ran fawr o'i anrhydedd ei hun: felly yr un ffunud, os wyt tithau yn dirmygu yr hon a osodwyd yn y lle nesaf i ti dy hun o ran braint ac urddas, yr ydwyt yn lleihâu ac yn dirywio godidowgrwydd ac effaith dy awdurdod dy hun.

Cyfrif yr holl bethau hyn yn dy feddwl, a bydd lednais a thawel. Deall ddarfod i Dduw roi plant i chwi, a'th wneuthur yn dad; a bydded i'r fath resymmau a hyn dy lonyddu.

Oni weli di y llafurwŷr, mor ddyfal y maent yn trin y tir a gymmerasant unwaith i'w amaethu, er llawned o feiau y byddo? er esampl, os bydd yn rhy sych, os bydd yn dwyn chwyn lawer, os na all oddef gormod o wlybni; etto mae 'r llafurwr yn ei ddiwyllio, ac felly yn ennill cnwd o hono:—— felly yr un ffunud, ped arferit dithau yr un dyfalwch i addysgu ac i drefnu meddwl dy wraig, pe gwneit dy oreu i chwynnu o fesur ychydig chwyn niweidiol moesau anaddas ei meddwl hi, âg addysgiadau iachusol, ni byddai modd na cheit mewn amser dderbyn hyfryd ffrwyth o hynny er diddanwch i chwi eich deuoedd.

Am hynny, fel na ddigwyddo anghydfod rhyngoch, gwna 'r cyngor hwn ag yr ydwyf yn ei roddi i ti:—— Pa bryd bynnag y cyfodo dim annymunol gartref, o gwnaeth dy wraig ddim ar fai, cysura hi, ac na wna 'r trymder yn fwy:——

Canys pa gynnifer bethau bynnag a allont dy flino, etto ni chei di ddim mwy blin na diffyg ewyllys da dy wraig gartref. Pa wrthwyneb bynnag a elli di ei enwi, etto ni cheit un gwrthwyneb mwy anni-oddefol na bod yn ymryson â'th wraig. Ac o herwydd hyn yn bendifaddeu y dylit barchu y cariad prïodasol.

Ac od yw rheswm yn peri i ti oddef annhiriondeb ar law eraill, mwy o lawer y dylit gyd-ddwyn âg anhynawsedd dy wraig. Os bydd hi dlawd, na ddannod iddi; od yw hi 'n wirion, na watwar hi, ond bydd yn lledneisiach wrthi; canys dy gorph yw hi, gwedi ei gwneuthur yn un cnawd â thydi.

Ond ysgatfydd ti a ddywedi ei bod hi yn wraig anynad, feddw, anifeilaidd, heb ganthi na synwyr na rheswm:—— Gwnaed hyn i ti dosturio 'n fwy wrthi: na ffromma yn sarrug, ond gweddïa ar yr Hollalluog Dduw. Addysga a chyfnertha hi â chyngor daionus, ac ymegnïa ar ei rhyddhâu hi o'r holl wyniau hyn.—— Ond os curi di hi, ti a wnei ei gwyniau drwg yn waeth: canys fe wellhêir chwerwedd a chyndynrwydd, nid â chyndynrwydd, ond âg arafwch a mwyneidd-dra:——

Ystyria hefyd pa wobr a gei di ar law Duw: canys lle y gellit ei churo; etto os wyt, o ran ofn Duw, yn ymattal, ac yn goddef yn amyneddgar ei hanfad feiau, yn hytrach o ran y ddeddf sy 'n gwahardd i wr fwrw ymaith ei wraig, pa fai bynnag a fo arni, ti a gei wobr dirfawr; a thi a gei, cyn derbyn y gwobr hwnnw, fwynhâu llawer o fanteision; o blegid trwy hyn gwneir hi yn ufuddach, a gwneir dithau er ei mwyn yn fwy llednais.

Mae 'n ysgrifenedig mewn hanes fod gan ryw Philosophydd hynod wraig ddiffaith, anhydyn, a meddw: pan ofynwyd iddo paham yr oedd mor hir-ymarhôus wrth ei harferion drygionus, efe a attebodd, "Y mae gennyf gartref athraw, ac esampl pa fodd i mi ymddwyn oddi cartref; canys bydd yn haws i mi gyd-ddwyn âg eraill," eb efe, "wrth ymarfer a dysgu beunydd gyd-ddwyn â hi."

Yn wir mae 'n gywilydd bod Paganiaid yn ddoethach na ni, na *nyni*, meddaf, y rhai y gorchymynir i ni fod yn debyg i'r Angylion, ïe, i Dduw ei Hun, trwy amynedd. Ac ni fynnai y Philosophydd dywededig Socrates, o wir gariad at rinwedd, droi ymaith ei wraig o'i dŷ.Ië, fe ddywed rhai iddo ei phrïodi er mwyn dysgu y rhinwedd o amynedd trwy gyd-ddwyn â hi.

Oblegid hyn, yn gymmaint a bod llawer yn llai eu doethineb nag oedd y Socrates hwn, fy nghyngor i ydyw, yn gyntaf peth ac o flaen pob dim, ar fod i ddyn wneuthur ei oreu i gael gwraig a fo 'n gynnysgaeddol ar bob onestrwydd a rhinwedd: ond os digwydd iddo gael ei dwyllo, a dewis o hono wraig nad yw yn un dda nac yn un hawdd ei dïoddef, yna dilyned y gwr y Philosophydd hwn, ac addysged ei wraig ym mhob cynneddfau da, ac na chyhoedded ei gwallau yngolwg y byd:——

Canys oni chyttuna 'r marsiandwr yn gyntaf â'i negesydd tramor, ar fod iddo drin ei orchwylion yn dawel, ni rydd ei long dan hwyl, ac ni esyd ei law ar y farsiandïaeth:—— felly gwnawn ninnau bob beth fel y caffom mewn tawelwch a llonyddwch gyfeillach ein gwragedd, y rhai yw negesyddion ein gorchwylion gartref.

Ac yn y ffordd hon fe ffynna pob peth yn dawel, a chawn felly fyned yn ddïogel trwy beryglon môr terfysglyd y byd hwn. Canys fe fydd yr ystâd hon o fuchedd yn anrhydeddusach a mwy cysurlawn i ni na 'n

tai, ac na 'n gweision, ac na 'n harian, ac na 'n tiroedd a'n meddiannau, ac na 'r cwbl oll ag a ellir eu henwi. Canys fel na all yr holl bethau hyn, os bydd ymryson ac anghydfyddiaeth, byth weithio i ni ddim diddanwch; felly bydd pob peth yn lles ac yn hyfrydwch i ni, os cyddynnwn dan yr iau hon o unfryd calon a meddwl.

Gwnewch eich goreu ynte i arferyd eich Prïodas fel hyn; ac felly chwi a fyddwch yn arfog ar bob llaw:—— chwi a ddïangasoch rhag maglau Diafol ac anghyfreithlon chwantau 'r cnawd, ac y mae i chwi lonyddwch cydwybod trwy 'r sefydliad hwn o Brïodas a ordeiniodd Duw. Gweddïwch chwithau 'n fynych arno, ar iddo fod yn bresennol gyd â chwi, ac ar iddo barhâu cydfyddiaeth a chariadoldeb rhyngoch.

Gwnewch eich gorau o'ch rhan chwi i ymarfer eich hunain i arafwch a lledneisrwydd, a byddwch hir-ymarhôus dan y cyfryw anffodau ag a ddigwyddont; ac felly fe fydd eich cymdeithas â'ch gilydd yn llawn o gysur a hyfrydwch.

Ac er na 's dichon amgen na bod i ryw wrthwynebiadau ddilyn, a bod i'r anhwylusdod hwn a'r anhwylusdod arall gyfodi weithiau, etto yn y cyfryw gyffredin wrthwynebiadau ac anhwylusdod, dyrchefwch eich deuoedd eich dwylaw tu a'r nef, gelwch am help a chynhorthwy Duw, Awdwr eich Prïodas, ac y mae 'n ddilys fod addewid eich ymwared gerllaw. Oblegid fe ddywed Crist yn ei Efengyl, *Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll beth bynnag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.*[1]—— Paham ynte y rhaid i ti ofni'r perygl, lle mae i ti addewid mor barod a chynhorthwy mor agos?

Ac ym mhellach, rhaid i chwi ddeall mor anghenraid yw i bobl Gristionogol ddwyn Croes Crist; canys heb hyn ni chawn byth deimlo mor ddiddanus yw cymmorth Duw i ni.

Yn awr ynte rhoddwch ddïolch i Dduw am ei fawr ddawn, gan ddarfod i chwi gymmeryd arnoch ystâd Prïodas: a gweddïwch yn daer ar i'r Hollalluog Dduw eich cadw a'ch amddiffyn ynddi fel na 's gorchfyger chwi gan na themtasiwn na gwrthwyneb.

Ond uwchlaw pob dim, gofelwch na roddoch achlysur i Ddiafol luddias a rhwystro eich gweddïau trwy anghyttundeb ac ymrafael: canys nid oes cadarnach amddiffyn nac atteg yn ein holl fywyd na gweddi, trwy 'r hon y gallwn alw am gynhorthwy Duw, a'i gaffael; trwy 'r hon y gallwn ennill ei fendith Ef, ei ras, ei nawdd, a'i amddiffyn, a pharhâu felly ynddynt hyd fywyd gwell yn y byd a ddaw; Yr hyn caniattaed Efe i ni, yr Hwn a fu farw drosom oll: I'r Hwn y byddo'r holl anrhydedd a'r moliant byth bythoedd. Amen.

[1] St. Mat. 18. 19.

# HOMILI

## YN ERBYN SEGURYD.

YN gymmaint a bod dyn, yr hwn a aned nid i esmwythyd a gorphwysdra, ond i weithio ac i lafurio, wedi dirywio mor bell gan lygredigaeth natur trwy bechod, fel nad yw'n cyfrif SEGURYD yn beth drwg, ond yn hytrach yn beth canmoladwy, a gweddus i'r rhai sydd yn gyfoethog; ac am hynny cofleidir ef yn awyddus gan y rhan amlaf o ddynion, megis peth yn cyttuno yn dda â'u meddylfryd cnawdol; ac fe ochelir yn ddïesgeulus bob llafur a thrafferth, megis peth poenus, a gwrthwyneb i hyfrydwch y cnawd,—— anghenraid yw mynegi i chwi y dylai bob dyn, wrth ordinhâd Duw, yr hon a osododd Efe yn natur dyn, ymrôi i lafurio yn ei alwedigaeth gyfreithlon; a bod Seguryd, gan ei fod yn wrthwyneb i'r ordinhâd honno, yn bechod mawr, ac hefyd, o herwydd yr aml anffodau ag sy'n deilliaw o hono, yn ddrwg anniodddefol; er mwyn bod i chwi, wedi deall o honoch hyn, gilio'n ddïesgeulus oddi wrtho, ac hefyd ymrôi yn ddiwyd, bob dyn yn ei alwedigaeth, i weithio ac i lafurio yn onest; yr hyn fel y gorchymynwyd ef i ddyn wrth ordeiniad Duw, felly hefyd nid oes arno ddiffyg ei amryw fendithion a'i ddoniau Ef.

Wedi darfod i'r Hollalluog Dduw greu dyn, Efe a'i gosododd ef ym Mharadwys, *i'w llafurio ac i'w chadw hi:*[1] ond ar ol iddo ef dorri gorchymyn Duw trwy fwytta o ffrwyth y pren a waharddwyd iddo, bwriodd yr Hollalluog Dduw ef yn ebrwydd allan o Baradwys i'r dyffryn blinder truenus hwn, gan orchymyn iddo lafurio'r ddaear y cymmerwyd ef o honi, a bwytta ei fara drwy chwys ei wyneb holl ddyddiau ei einioes.

Ordinhâd ac ewyllys Duw ydyw bod i bob dyn, drwy ystod y fuchedd farwol a thrangcedig hon, ei roi ei hun at ryw waith a llafur onest a duwiol, a bod i bob un ddilyn ei alwedigaeth ei hun, a rhodio yn uniawn yn yr unrhyw.

Gorchymynir i ni fel hyn gan Jesus fab Sirach; *Na chasâ waith poenus, na hwsmonaeth, yr hon a greodd y Goruchaf.*[2]

[1] Gen. 2. 15. [2] Eccles. 7. 15.

Mae 'r Gwr Doeth yn ein hannog fel hyn; *Yf ddwfr o'th bydew dy hun, a ffrydiau allan o'th ffynnon dy hun:*[1] gan feddwl wrth hynny y dylem fyw ar ein llafur ein hunain, ac nid difa llafur rhai eraill.

Pan glywodd St. Paul fod ym mhlith y Thessaloniaid *rai yn rhodio yn afreolus, heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar*, heb ennill eu bywioliaeth trwy eu llafur eu hunain, ond bwytta bara eraill yn rhad; efe a orchymynodd i'r Thessaloniaid hynny nid yn unig dynnu ac ymgadw oddi wrth gymdeithas y cyfryw ddynion afreolus, ond hefyd, od oedd neb yn eu plith *na fynnai weithio, na chai fwytta chwaith*,[2] na chael ei fywioliaeth ar ddwylaw rhai eraill.—— A diammeu fod yr athrawiaeth hon o eiddo St. Paul yn seiliedig ar ordinhâd gyffredinol Duw, sef, Y DYLAI BAWB LAFURIO: gan hynny hi a ddylai gael ufudd-dod gan bob dyn, ac ni all neb yn gyfiawn ei ryddhâu ei hun oddi wrthi.

Ond pan ddywedir y dylai bawb lafurio, nid ydys yn meddwl hynny mor gaeth a phe byddai raid i bob dyn weithio â'i ddwylaw; ond fel y mae llawer math ar lafur, llafur y meddwl, llafur y corph, a llafur y meddwl a'r corph ynghyd; felly dylai pob dyn, (oddi eithr ei luddias gan henaint, gwendid corph, neu ddiffyg iechyd) er mwyn ennill ei fywioliaeth ei hun yn onest, ac er budd i eraill, ymarfer ei hun mewn rhyw fath o lafur, yn ol fel y bo 'r alwedigaeth, y galwodd Duw ef iddi, yn gofyn:——

Felly pwy bynnag sy 'n gwneuthur lles i'r wladwriaeth ac i gymdeithas dynion â'i ddiwydrwydd a'i lafur, naill ai trwy lywodraethu 'r wladwriaeth yn gyhoeddus,—— neu trwy fod mewn rhyw swydd neu weinyddiaeth gyhoeddus,—— neu trwy wneuthur rhyw beth ag sy 'n gyffredin yn angenrheidiol i'w wlad,—— neu trwy roddi cyngor,—— neu trwy addysgu eraill,—— neu ym mha ffordd bynnag arall y llafurio, o bydd hynny yn llesol ac yn fuddiol i eraill; ni ddylid cyfrif mo 'r dyn hwnnw yn segur, er na byddo ei lafur yn llafur corphorol; ac ni ddylid gommedd iddo ei fywioliaeth, os gwylia efe ar ei alwedigaeth, er na byddo 'n gweithio â'i ddwylaw.—— Ni ofynir llafur corphorol gan neb ag sydd, o ran eu swydd, yn gweithio yn llafur y meddwl, er help a chyfnerthiad i eraill.

Mae St. Paul yn rhybuddio Timotheus i wrthod y gwragedd gweddwon ag sy 'n *dysgu bod yn segur, gan rodio o amgylch o dý i dý; ac nid yn segur yn unig, ond hefyd yn wag-siaradus, ac yn rhodresgar, gan adrodd pethau nid ynt gymmwys.*[3]

Mae'r Prophwyd Ezeciel, wrth hyspysu beth oedd pechodau Sodom, yn cyfrif Seguryd yn un o'r rhai pennaf o honynt. *Wele,* medd efe,

[1] Diar. 5. 15. [2] 2 Thes. 3. 10, 11. [3] 1 Tim. 5. 13.

*hyn oedd anwiredd dy chwaer Sodom; balchder, digonedd bara, ac amledd o seguryd oedd ynddi hi ac yn ei merched.*[1] Mae dinystr echrydus a dïeithriol y ddinas honno a'r holl wlad o'i hamgylch, yr hwn a fu trwy wlawio tân a brwmstan o'r nefoedd, yn mynegi 'n eglur flined pechod yw Seguryd, ac fe ddylai fod yn rhybudd i ni i gilio rhagddo, ac i gofleidio llafur onest a duwiol.

Ond os rhoddwn ni ein hunain i Seguryd a dïogi, i wibio o fan i fan, i grwydro 'n wirfoddol, ac i wario 'n afradlon, heb ymroi i ryw lafur onest, ond byw ar lafur dynion eraill; yna yr ydym yn torri gorchymyn yr Arglwydd, yn cyfeiliorni oddi wrth ein galwedigaeth, ac yn cwympo i enbydrwydd llid a thrwm anfoddlonrwydd Duw, i'n dinystr diddiwedd, oddi eithr ymchwelyd o honom at Dduw trwy edifeirwch diffuant.

Mae 'r anfanteision a'r anffodau a ddeuant o Seguryd, yn gystal i gorph dyn ag i'w enaid, yn amlach nag y gellir mewn byr amser eu hadrodd. Ni a hyspyswn rai o honynt i chwi, fel, wrth eu hystyried hwy, y galloch ddeall y lleill yn well o honoch eich hunain.

*Y neb a weithio â llaw dwyllodrus,* ebe Solomon, *fydd tlawd; ond llaw y diwyd a gyfoethoga.*

A thrachefn; *Y neb a lafurio ei dir, a ddigonir o fara; ond y neb a ganlyno oferwŷr, a gaiff ddigon o dlodi.*

Ac eilwaith; *Y dïog nid ardd, o herwydd oerder y gauaf; am hynny y cardotta efe yn y cynhauaf, ac ni chaiff ddim.*[2]

Ond pa raid i ni sefyll yn hir i brofi fod tlodi yn dilyn Seguryd? Mae gennym ormod o brofiad o hyn, ysywaeth! yn y deyrnas hon: canys ni ellir tadogi 'r greayni ag sydd ym mysg y tlodion i ddim yn fwy nag i Seguryd, ac esgeulusdra rhïeni, y rhai sydd heb ddwyn eu plant i fynu mewn dysg dda, neu onest lafur-waith, neu ryw grefft neu gelfyddyd barchus, fel y gallont ennill eu bywioliaeth pan ddelont i oedran.

Mae profiad beunyddiol hefyd yn ein dysgu nad oes dim yn fwy gelynol na distrywiol i iechyd corph dyn nag yw Seguryd, gormod o gwsg ac esmwythyd, a rhy fychan o weithio.

Ond yr anfanteision hyn a'r cyfryw, er eu bod yn fawrion a niweidiol; etto, am mai i'r *corph* a'r golud allanol y maent yn perthyn yn bennaf, nid ydynt i'w cyffelybu i'r anffodau a'r anfanteision sy trwy Seguryd yn digwyddo i'r *enaid;* o ba rai ni a adroddwn ambell un.

Nid yw Seguryd un amser yn unig, ond mae iddo bob amser gynffon hir o feiau eraill ynglŷn wrtho, y rhai sy 'n llygru ac yn difwyno yr holl

[1] Ezec. 16. 49. [2] Diar. 10. 4. a 28. 19. a 20. 4.

ddyn yn y fath fodd, fel y gwneir ef o'r diwedd yn ddim ond clamp o bechod.

*Llawer o ddrygioni*, medd Jesus fab Sirach, *a ddysgodd Seguryd.*[1]

Geilw St. Bernard Seguryd yn fam pob drwg, ac yn llys-fam pob rhinwedd; gan ychwanegu ei fod yn parottôi, ac megis yn palmantu, y ffordd i dân uffern.—— Lle y caffo Seguryd unwaith groesawiad, yno y mae Diafol yn barod i roi ei droed i mewn, ac i blannu pob rhyw ddrygioni a phechod, i dragywyddol ddistryw enaid dyn:——

Fe 'n dysgir yn y drydedd ar ddeg o Matthew fod hyn yn wirionedd dilys, lle y dywedir fel hyn; *Tra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth y gelyn, ac a hauodd efrau ym mhlith y gwenith.*[2] Ac yn wir, yr amser gorau a all y Diafol ei gael i weithio ei waith yw *pan fo dynion yn cysgu*, hynny yw, *yn segur;* dyna 'r pryd y mae efe brysuraf gyd â'i waith, dyna 'r pryd y mae 'n dala dynion gyntaf yn ei faglau distryw, a thyna 'r pryd y mae yn eu llenwi â phob anwiredd i'w dwyn hwy, oni bydd ffafr hyspysol Duw i'w rwystro, i gwbl ddinystr a cholledigaeth.

O hyn y mae gennym ddwy esampl effeithiol iawn o flaen ein llygaid. Y naill yn y Brenhin Dafydd, yr hwn wrth aros gartref yn segur, fel y dywed yr Ysgrythyr, ar y cyfryw amser ag yr oedd brenhinoedd eraill yn myned allan i ryfel, a lithiwyd yn fuan gan Satan i ymwrthod â'r Arglwydd ei Dduw, ac i wneuthur dau bechod ysgeler a ffiaidd yn ei olwg Ef, Godineb a Llofruddiaeth.—— Yr oedd y pläau a ddilynasant y camweddau hyn yn arswydus ac yn llymion, fel y gelli weled yn hawdd, os darlleni 'r hanes.

Yr esampl arall yw Samson, yr hwn, tra 'r oedd efe 'n rhyfela yn erbyn y Philistiaid, gelynion pobl Dduw, ni 's gallwyd erioed ei ddala na 'i orchfygu: ond gwedi iddo ei roi ei hun i Seguryd ac esmwythdra, efe a odinebodd gyd â'r buttain Dalila,—— daliwyd ef gan ei elynion, —— tynnwyd ei lygaid yn druenus,—— rhoed ef yng ngharchar,—— gwnaed iddo falu mewn melin,—— ac o'r diwedd gwnaethpwyd ef yn watwargerdd i'w gaseion.

Os cwympwyd ac os taflwyd y *ddau hyn* i bechodau trymion, trwy eu rhoi eu hunain *am ennyd fechan* i esmwythder a Seguryd, a dïoddef o ganlyniad bläau blinion ar law Duw, a hwythau yn wŷr mor ragorol, mor hoff gan Dduw, ac wedi eu cynnysgaeddu â doniau godidog a nefol, sef y naill â phrophwydoliaeth, a'r llall â chryfder, ac na 's gellid erioed mo 'u gorchfygu gan na blinder, na llafur, na thrallod; pa bechod, pa aflwydd, pa anfantais a phla y sydd, na ddylent *hwy* eu hofni, y rhai sydd *ar hyd eu hoes* yn hollol ymrôi i Seguryd ac esmwythder?

[1] Eccles. 33. 27. [2] St. Mat. 13. 25.

Na thwyllwn mo honom ein hunain, trwy dybied na ddaw ond ychydig ddrwg o fod heb wneuthur dim: canys gwir yw 'r ddiareb, "*Mae yr hwn sydd heb wneuthur dim, yn dysgu gwneuthur drwg.*"

Gan hynny byddwn bob amser yn gwneuthur rhyw waith onest, fel na chaffo Diafol ni 'n segur. Mae Diafol yn wastad ar waith, ac nid yw fyth yn segur, ond mae 'n rhodio 'n barhâus o amgylch gan geisio ein llyngcu. Gwrthwynebwn ef mewn dyfal wyliadwriaeth, ac mewn rhyw lafur a gorchwyl daionus: canys nid hawdd yw dal ym magl y Diafol y neb sy 'n ymarfer ei hun yn ddiwyd mewn rhyw alwedigaeth onest.

Pan fyddo dyn trwy Seguryd, neu o ddiffyg rhyw alwedigaeth neu gelfyddyd onest i fyw wrthi, wedi cael ei ddwyn i dlodi ac angenoctid, yr ydym yn gweled mor hawdd y dygir y cyfryw un, er mwyn ei elw, i ddywedyd celwydd,—— i geisio twyllo ei gymmydog,—— i dyngu anudon,—— i ddwyn cam-dystiolaeth,—— ac yn aml i ladratta ac i ladd,—— neu i arfer rhyw ffordd annuwiol arall i fyw: trwy 'r hyn nid yn unig fe lwyr gollir ei enw da, a'i barch, a'i gydwybod dda; ond efe a ennill iddo ei hun hefyd fawr anfoddlonrwydd a digofaint Duw, ynghyd âg aml ac amryw bläau trymion o ganlyniad.

Wele yma ddiwedd dynion dïog a segurllyd, y rhai ni all eu dwylaw oddef gweithio: colli eu gair a'u henw da, eu parch, a'u bywyd, yma yn y byd hwn, ac (heb fawr drugaredd Duw) pwrcasu iddynt eu hunain ddistryw tragywyddol yn y byd a ddaw.

Onid oes gan bawb ynte achos da i ymogelyd rhag Seguryd, gan fod y rhai sy 'n ei gofleidio ac yn ei ddilyn yn cael yn gyffredin anhyfrydwch chwerw yn lle eu dïogi melus.

Wrth ystyried y mawr amryw ddrygau sy 'n digwydd i wladwriaethau trwy Seguryd, fe ddarparodd gwŷr da a duwiol o bryd i bryd yn ddyfal fod i gyfreithiau tost a llymion gael eu gwneuthur i geryddu ac i wella 'r bai hwn:——

Yr oedd gan yr Aiphtiaid gyfraith, ar fod i bob dyn ddwyn ei enw yn wythnosol at brif lywiawdwŷr y dalaith, a mynegi hefyd pa ffordd a arferai efe i fyw; er mwyn teilwng gospi Seguryd, a dyledus wobrwyo llafur a diwydrwydd.

Byddai 'r Atheniaid yn ceryddu segurwŷr diwaith yn ddim llai na throseddwŷr ysgeler, gan ystyried fod Seguryd yn peri llawer o ddrygioni.

Byddai 'r Areopagitiaid yn galw pob dyn i gyfrif manol pa fodd yr oedd yn ennill ei fara; ac os caffent neb yn segura, heb wneuthur lles i'r wladwriaeth mewn rhyw fodd neu gilydd, gyrrid hwy ymaith ac alltudid hwynt fel aelodau anfuddiol yn niweidio ac yn llygru 'r corph.

Ac yn y deyrnas hon o Loegr fe wnaed cyfreithiau duwiol a da yn

fynych, ar na byddo i grwydriaid segurllyd gael eu goddef i fyned o dref i dref ac o fan i fan yn ddigosp, y rhai ni wasanaethant na Duw na 'u Brenhin, ond difa ffrwythau peraidd llafur dynion eraill, gan fod yn gelwyddwŷr,—— yn feddwon,—— yn dyngwŷr,—— yn lladron, —— yn butteinwŷr,—— ac yn llofruddion, gan wrthod pob llafur onest, a'u rhoi eu hunain i ddim arall ond i ddyfeisio ac i wneuthur rhyw ddrygioni, i'r hyn y maent yn chwannoccach ac yn fwy awyddus na 'r llew i'w ysglyfaeth.

I ddiwygio 'r bai hwn, bydded i bob rhïeni a phawb eraill ag sydd â gofal a llywodraeth ieuengctid arnynt, eu dwyn hwy i fynu mewn dysgeidiaeth fuddiol, llafur, neu ryw alwedigaeth neu grefft onest, fel y gallont, mewn amser i ddyfod, nid yn unig eu cynnal eu hunain mewn digonoldeb, ond hefyd gyflawni a chymmorth diffyg ac angenoctid rhai eraill :—— Mae St. Paul yn dywedyd, *Yr hwn a ladrattaodd, na ladratted mwyach, eithr yn hytrach cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn sy dda; fel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae angen arno.*[1]

Mae Dafydd Brophwyd yn tybied hwnnw 'n wynfydedig, ag sydd yn byw ar ei lafur, canys efe a ddywed, *Mwynhâi lafur dy ddwylaw; gwyn dy fyd, a da fydd it :*'[2]——

Mae 'r gwynfydedigrwydd hwn yn gynnwysedig yn y pethau canlynol a'r cyffelyb.

Yn gyntaf; *Bod i ddyn fwytta ac yfed,* fel y dywed Solomon, *a mwynhâu daioni o'i holl lafur; rhodd Duw yw hynny.*[3]

Yn ail; Pan fyddo un yn byw ar ei lafur ei hun, o bydd yn llafur da ac onest, mae 'n byw arno gyd â chydwybod dda: ac y mae cydwybod dda yn drysor ammhrisiadwy.

Yn drydydd; Mae efe 'n bwytta ei fara nid gyd â chynnen ac ymdaeru, ond mewn heddwch a thawelwch, pan fyddo efe 'n dawel yn llafurio am dano, yn ol cyngor St. Paul.

Yn bedwerydd; Nid yw efe yn gaethwas i neb am ei fwyd, ac nid rhaid iddo er mwyn hynny ymgynnal ar ewyllys da neb arall; ond y mae 'n byw ar yr eiddo ei hun yn y fath fodd fel ag y gallo roi cyfran i eraill hefyd.

Ac yn ddiweddaf; Mae 'r llafurwr a'i deulu, tra byddont yn llafurio 'n brysur yn eu gwaith, yn rhyddion oddi wrth lawer o demtasiynau ac achlysuron i bechu, y rhai y mae y sawl sy 'n byw 'n segur yn ddarostyngedig iddynt.

Ac yma fe ddylai crefftwŷr a llafurwŷr, y rhai sy 'n cael cyflog am

[1] Eph. 4. 28. [2] Ps. 128. 2. [3] Preg. 3. 13.

eu gwaith, ystyried eu cydwybod i Dduw a'u dyledswydd i'w cymmydog, fel na cham-dreuliont eu hamser mewn Seguryd, gan dwyllo felly y rhai sy mewn cost fawr wrth dalu 'n brid iddynt fwyd a chyflog. Maent hwy yn wir yn waeth na segurwŷr, gan eu bod yn derbyn cyflog am segura. Llai perygl yw ger bron Duw iddynt fod yn segur heb ddim ennill, na thrwy Seguryd ennill o byrsau eu cymmydogion gyflog heb ei haeddu.

Gwir yw fod yr Hollalluog Dduw yn ddigllon wrth yr hwn sy 'n twyllo gweithiwr am ei gyflog; mae gwaedd y cam hwn yn esgyn i glustiau Duw am ddïal. Ond llawn mor wir a hynny yw, fod y cyflog-ddyn ag sy 'n arfer twyll yn ei waith, yn lleidr ger bron Duw. *Na byddo i neb orthrymmu na thwyllo ei frawd mewn dim*, ebe St. Paul wrth y Thessaloniaid, *canys dïalydd yw 'r Arglwydd ar y rhai hyn oll.*[1] —— Am hynny y neb a ddymuno fod ganddo gydwybod dda tu ag at Dduw, y gweithiwr ag sy 'n ymddibynnu 'n gwbl ar fendith Dduw, yr Hwn sy 'n gweinyddu digonedd iddo i fyw arno, defnyddied hwnnw, meddaf, ei amser mewn llafur didwyll; a phan ballo ei nerth i lafurio o herwydd afiechyd neu ryw anffawd arall, etto gwybydded, gan iddo ef wasanaethu Duw a'i gymmydog yn gywir pan oedd mewn iechyd, na chaiff yntau ddim bod mewn diffyg yn amser angenoctid. Fe wna Duw, am ei ffyddlondeb ef yn ei iechyd, ei wobrwyo yn ei angen, gan gynhyrfu calonnau dynion da i gynnorthwyo 'r cyfryw lafurwŷr ffyddlon pan fyddont wedi adfeilio gan afiechyd. Ac o'r ochr arall, beth bynnag a enniller trwy seguryd, ni bydd bendith arno i gynnorthwyo yn amser angen.—— Am hynny ymogeled y gweithiwr rhag y bai hwn o Seguryd a thwyll, gan gofio bod St. Paul yn rhybuddio pob dyn i roi heibio bob twyll, rhagrith, a chelwydd, *a dywedyd y gwir bob un wrth ei gymmydog; oblegid*, eb efe, *aelodau ydym i'n gilydd*[2] dan un Pen, sef Crist ein Ceidwad.

Ac yma gellid rhybuddio gwasanaeth-ddynion y deyrnas hon, y rhai sy 'n treulio eu hamser mewn mawr Seguryd, heb ystyried cyfleusdra eu hamser, gan ollwng dros gof mai nid etifeddiaeth yw gwasanaeth, ac yr ymlusga henaint arnynt: lle y byddai 'n ddoeth iddynt dreulio eu hamser segur mewn rhyw waith da, ac felly cynnyddu mewn gwybodaeth, a bod yn deilyngach ac yn barottach at wasanaeth pob dyn.—— Bai ceryddus arnynt yw, na cheisiant ddysgu ysgrifenu 'n hardd, cadw llyfr cyfrifon, astudio ieithoedd, ac felly cael doethineb a gwybodaeth yn y cyfryw lyfrau ag sy 'n awr yn argraphedig mewn helaethrwydd ym mhob math ar iaith.

[1] 1 Thes. 4. 6. [2] Eph. 1. 25.

Ystyried ieuengctid werth prisfawr eu hamser, ac na wariant ef mewn dïogi, mewn coeg-ddigrifwch, mewn gloddesta, ac ynghwmpeini oferwŷr.

*Gwagedd yw mebyd ac ieuengctid*, a rhaid rhoi cyfrif am dano i Dduw. *Gwna yn llawen, wr ieuangc, yn dy ieuengctid*, ebe'r Pregethwr, *a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon ac yngolwg dy lygaid; ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll.*[1]

Rhodded Duw o'i drugaredd ynghalonnau a meddyliau pawb ag y mae Cleddyf Cospedigaeth yn eu dwylaw, neu deuluoedd dan eu rheolaeth, i ymdrechu diwygio'r afreolaeth anfad hwn ym mhawb ag sy'n byw'n segur ac yn anfuddiol i'r wladwriaeth, er mawr ddïanrhydedd i Dduw, a blinder anial i'w druain bobl.

Nid yw gadael pechod yn ddigosp, ac esgeulnso dwyn ieuengctid i fynu'n dda, yn ddim amgen nag ennyn dig yr Arglwydd i'n herbyn, a phentyrru blinderau ar ein pennau.—— Tra y goddefwyd i'r bobl odinebus fyw'n drythyll heb eu ceryddu, cyhyd a hynny y parhaodd ac y cynnyddodd y pla yn Israel, fel y gellwch weled yn Llyfr Numeri: ond pan roed dyledus gerydd arnynt, dyhuddwyd llid yr Arglwydd yn ebrwydd, ac attaliwyd y pla.

Gan hynny edryched pob swyddog yn fanwl at ei ddyledswydd: diwygied pob pen-teulu y drwg hwn yn eu teuluoedd, gan arferyd yr awdurdod a roddes Duw iddynt: na noddant grwydriaid na segurwŷr, ond gwaredant y deyrnas hon a'u tylwythau eu hunain oddi wrth y fath wibiaid anoddefol, fel, gwedi i Seguryd, mam pob drwg, gael ei gwbl darfu ymaith, yr ymchwelo'r Hollalluog Dduw ei lid arswydus ymaith oddi wrthym, a chadarnhâu cyfammod ei hedd â ni byth, trwy ryglyddon Iesu Grist, ein hunig Arglwydd a'n Hachubwr: I'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[1] Preg. 11. 9, 10.

# HOMILI

## YNGHYLCH EDIFEIRWCH,

### A GWIR GYMMOD A DUW.

NID oes dim yn yr holl Ysgrythyrau ag y mae 'r Yspryd Glân yn ceisio annog dyn yn fwy iddo nag Edifeirwch, gwellhâd buchedd, a dychweliad prysur at Arglwydd Dduw y lluoedd. Ac nid rhyfedd: oblegid yr ydym bob dydd ac awr, trwy ein drygioni a'n hanufudd-dod gwrthnysig, yn cwympo 'n arswydus oddi wrth Dduw, gan bwrcasu i ni ein hunain trwy hynny (pe gwnai Efe â ni yn ol ei gyfiawnder) dragywyddol ddamnedigaeth.

Felly nid oes un athrawiaeth mor anghenraid yn Eglwys Dduw ag ydyw athrawiaeth Edifeirwch a Diwygiad Buchedd.

Ac yn wir y mae gwir bregethwŷr Efengyl teyrnas nef a newyddion llawen yr iachawdwriaeth, yn cyssylltu bob amser yn eu pregethau duwiol wrth y bobl, y ddwy athrawiaeth hyn o Edifeirwch a Maddeuant pechodau, fel yr ordeiniodd ein Ceidwad Iesu Grist ei Hun, gan ddywedyd, *Felly yr oedd raid i Grist ddïoddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd; a phregethu Edifeirwch a Maddeuant pechodau yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd.*[1]—— Ac am hynny llefara 'r Apostol Sanctaidd yn yr Actau fel hyn; *Gan dystiolaethu i'r Iuddewon, ac i'r Groegiaid hefyd, yr edifeirwch sy tu ag at Dduw, a'r ffydd sy tu ag at ein Harglwydd Iesu Grist.*[2] Oni ddechreuodd Ioan Fedyddiwr, mab Zacharïas, ei weinidogaeth âg athrawiaeth Edifeirwch, gan ddywedyd, *Edifarhêwch; canys nesaodd teyrnas nefoedd?*[3] Fe bregethodd ein Ceidwad Crist ei Hun y gyffelyb athrawiaeth, ac a orchymynodd i'w Apostolion bregethu 'r unrhyw.

Mi a allwn yma ddwyn llawer o leoedd allan o'r Prophwydi, yn y rhai y gwesgir attom yn ddifrifol yr athrawiaeth iachusaf hon o edifeirwch, megis un gwbl angenrheidiol i bob cyflwr a graddau o ddynion: ond fe fydd un yn ddigon ar hyn o bryd.

[1] St. Luc 24. 46, 47. [2] Act. 20. 21. [3] St. Mat. 3. 2.

Dyma eiriau y Prophwyd Joel:——

*Yr awrhon, medd yr Arglwydd, dychwelwch attaf fi â'ch holl galon, âg ympryd hefyd, ac âg wylofain, ac â galar: a rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw; o herwydd graslawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.*[1]

Rhoddir ar ddeall i ni wrth y geiriau hyn, fod gennym yma Reol barhâus wedi ei gosod i ni, yr hon y dylid bob amser ei chadw, ac nad oes un ffordd arall i ddyhuddo sorriant Duw ac i liniaru ei ddigllonedd; fel y byddo i gynddaredd ei lid Ef, a'r pläau a'r distryw yr amcanasai Efe yn ei gyfiawn farn eu dwyn arnom, gael eu symmud ymaith oddi wrthym.

Lle y dywed, *Yr awrhon, medd yr Arglwydd, dychwelwch attaf fi,* nid heb achos pwysig y mae 'r Prophwyd yn llefaru felly. Canys gosodasai allan o'r blaen iddynt echrydus ddïal Duw, yr hwn ni 's gallai neb ei oddef; ac am hynny y mae yn awr yn eu hannog i edifeirwch, fel y caffent drugaredd: fel pe dywedasai,—— "Ni fynnwn i chwi ddeall y pethau hyn, fel pe na byddai mwyach obaith am ras: canys er i chwi haeddu trwy eich pechodau gael eich cwbl ddinystrio, a bod Duw yn ei gyfiawn farn wedi amcanu dwyn arnoch ddistryw nid bychan; etto gan eich bod chwi yn awr megis ar fin y cleddyf, Efe a'ch derbyn chwi yn hynaws ac yn drugarog i'w ffafr drachefn, os ymchwelwch chwi atto heb golli amser."

Fe 'n dysgir ni trwy hyn, nad yw Edifeirwch un amser yn rhy hwyr, os bydd yn wirioneddol a difrif.—— Oblegid gan y myn Duw yn yr Ysgrythyrau gael ei alw yn Dad i ni, mae 'n ddilys ei fod yn dilyn naturiaeth a chynneddfau tadau hynaws a thrugarog, y rhai nid ydynt yn dymuno dim yn gymmaint a dychweliad a diwygiad eu plant; fel y dengys Crist yn helaeth yn Nammeg y mab afradlon.

Onid yw 'r Arglwydd ei Hun yn dywedyd trwy 'r Prophwyd, *Gan ewyllysio a ewyllysiwn i farw yr annuwiol, ac na ddychwelai oddi wrth ei ffyrdd a byw?*[2] Ac mewn lle arall; *Os cyfaddefwn ein pechodau ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder:*[3]——

Ac fe gadarnhêir yr addewidion diddanus hyn trwy lawer o esamplau yn yr Ysgrythyrau:——

Pan ddarfu i'r Iuddewon dderbyn a chofleidio 'n ewyllysgar gyngor iachusol y Prophwyd Esay, estynodd Duw yn ebrwydd ei law gynnorthwyol iddynt, ac a laddodd, trwy law ei Angel, mewn un noswaith, filwŷr dewraf a gwrolaf gwersyll Sennacherib.

[1] Joel 2. 12, 13. [2] Ezec. 18. 23. [3] 1 St. Ioan 1. 9.

At hyn gellir ychwanegu y brenhin Manasseh, yr hwn, ar ol gwneuthur pob math o ddrygioni damniol, a drôdd at yr Arglwydd, ac Yntau a wrandawodd arno, ac a'i hadferodd i'w frenhiniaeth.

Mwynhawyd yr un gras a ffafr gan y bechadures Magdalen, Zaccheus, y lleidr ar y Groes, a llawer eraill.

Fe ddylai yr holl bethau hyn wasanaethu er cysur i ni yn erbyn profedigaethau ein cydwybod, drwy y rhai y mae Diafol yn ceisio siglo, neu yn hytrach ddadymchwelyd, ein ffydd ni. Canys dylai pob un o honom gymhwyso 'r unrhyw atto ei hun, a dywedyd, "Etto dychwel yn awr at yr Arglwydd; ac na âd i goffadwriaeth dy fuchedd o'r blaen dy ddigalonni; ïe, po gwaethaf a fu, gwresoccaf oll a difrifaf fyddo dy edifeirwch a 'th ddychweliad; a thi a gei ganfod yn ebrwydd y bydd clustiau 'r Arglwydd yn agored i 'th weddïau."

Ond edrychwn yn fanylach ar orchymyn yr Arglwydd yn y matter hwn. *Dychwelwch attaf fi,* medd Efe trwy y sanctaidd Brophwyd Jöel, *â 'ch holl galon, âg ympryd, âg wylofain, ac â galar: a rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, &c.* Yn yr hyn eiriau fe gynhwysir pob peth ag a ellir ei ddywedyd am Edifeirwch, yr hyn yw, *troad yr holl ddyn at Dduw,* oddi wrth yr Hwn y cwympasom trwy bechod.

Ond er mwyn gallel o honoch yn well ddwyn yr holl Bregeth gyd â chwi, ni a ystyriwn yn gyntaf bedwar o brif byngciau mewn trefn; hynny yw,——

Oddi wrth ba beth y mae 'n rhaid i ni droi;

At bwy y dylem droi;

Drwy bwy y gallwn ni droi;

A pha fodd y mae i ni droi.

Yn gyntaf; O ba le, neu oddi wrth ba bethau, y mae 'n rhaid i ni ddychwelyd.—— Yn wir mae 'n rhaid i ni ddychwelyd oddi wrth y pethau yr hudwyd, y tynnwyd, ac yr arweiniwyd ni trwyddynt oddi wrth Dduw. A'r pethau hyn (a siarad yn gyffredinol) yw ein pechodau, y rhai sy 'n ysgaru rhyngom ni a'n Duw, yn peri iddo guddio ei wyneb oddi wrthym, a chau ei glustiau rhag gwrando arnom.

Ond dan yr enw *pechod* y cynhwysir nid yn unig y geiriau a'r gweithredoedd anfad a gyfrifir gan farn dynion yn gyffredin yn anghyfreithlon a ffiaidd ac atgas; ond hefyd gwyniau aflan a chwantau 'r cnawd yn dumewnol, y rhai sy, fel y dywed St. Paul, yn gwrthwynebu ewyllys ac Yspryd Duw, ac am hynny a ddylid eu ffrwyno 'n gaeth a'u cadw danodd. Rhaid i ni edifaru am yr opiniynau gau a chyfeiliornus a fu gennym am Dduw, a'r ofergoel drygionus sy wedi tyfu o hynny, sef add-[illegible]a gwasanaethu Duw mewn dull anghyfreithlon, a'r fath bethau er-[illegible] Rhaid i bawb a fynnant droi 'n gywir at yr Arglwydd ac edifar-

hâu 'n iawn, ymwrthod â'r holl bethau hyn: canys gan mai oblegid y pethau hyn *y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod,*[1] dylem ddisgwyl am annhraethol gosp, tra y byddom ni yn parhâu yn y cyfryw bethau.

Wrth hyn ynte yr ydys yn condemnio yma y rhai sy 'n ymddangos yn bechaduriaid edifeiriol, ac er hynny heb ymadael â'u delw-addoliaeth a'u coel-grefydd.

YN AIL; Rhaid i ni edrych at bwy y dylem ddychwelyd. *Revertimini usque ad me,* medd yr Arglwydd; hynny yw, *Dychwelwch hyd attaf fi.* At yr Arglwydd ynte y rhaid i ni droi; atto Ef yn unig y rhaid i ni ddychwelyd; o herwydd Efe yn unig yw 'r Gwirionedd a Ffynnon pob daioni. Ond cofiwn y rhaid i ni ymegnïo i ddychwelyd atto *mor agos,* ag na's gorphwyswn nes i ni ei gyrhaeddyd a chael gafael arno.

YN DRYDYDD; Mae 'n rhaid i ni wneuthur hyn drwy ffydd: canys gan mai Yspryd yw Duw, ni 's gellir mewn un ffordd arall ei gyrhaeddyd Ef na chael gafael arno.

Yn gyntaf, gan hynny, maent hwy yn cyfeiliorni 'n fawr, y rhai nid ydynt yn troi at Dduw, ond at y creaduriaid, neu at ddychymmygion dynion, neu at eu haeddiant eu hunain.

Yn ail, maent hwythau yn cyfeiliorni, y rhai sy 'n dechreu troi at yr Arglwydd, ac yn llwfrhâu ar ganol y ffordd, cyn cyrraedd hyd at y nod a osodwyd iddynt.

Yn drydydd, am nad oes gennym ddim o'r eïddom ein hunain i'w gyflwyno i Dduw, a'n bod yn ffoi oddi wrtho ar ol ein cwymp, fel y gwnaeth ein cyndad Adda, yr hwn, ar ol iddo bechu, a geisiodd ymguddio o ŵydd Duw; y mae arnom angen am Gyfryngwr i'n dwyn atto, ac i'n cymmodi âg Ef, yr Hwn sy wedi tramgwyddo wrthym am ein pechodau.—— Y Cyfryngwr Hwnnw yw Iesu Grist, yr Hwn, ac Yntau yn wir Dduw, gogyfuwch â'i Dad, ac o'r un Sylwedd âg Ef, a gymmerth ein natur wael ni, ar yr amser gosodedig, ym mru y Fendigedig Forwyn, a hynny o'i sylwedd dihalog hi, er mwyn bod felly yn Gyfryngwr rhwng Duw a ninnau, a dyhuddo ei ddigofaint Ef:——

Am dano Ef y mae 'r Tad ei Hun yn llefaru o'r nef, gan ddywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y 'm boddlonwyd.*[2]

Ac y mae Efe ei Hun yn cyhoeddi yn ei Efengyl, ac yn dywedyd, *Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd; nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.*[3] O herwydd Efe ei Hun a wnaeth iawn i gyfiawnder Duw dros ein pechodau ni âg aberth ei Gorph a'i Waed.

Mae 'r Apostolion yn tystiolaethu iddo gael ei ddyrchafu *i roddi*

[1] Eph. 5. 6. [2] St. Mat. 3. 17. [3] St. Ioan 14. 6.

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

At ympryd y mae efe 'n cyssylltu *wylofain a galar*, y rhai sy 'n cynnwys proffes allanol o Edifeirwch; yr hyn sy 'n angenrheidiol, fel y gallom drwy hynny, mewn rhan, ddatgan cyfiawnder Duw, trwy dystio yn y ffordd hon ddarfod i ni haeddu cael ein cospi ganddo; ac mewn rhan, attal y rhwystr a roddasom yn gyhoeddus i'r gweiniaid.

Yr oedd Dafydd yn teimlo hyn, yr hwn nid oedd yn ddigon gantho wylo a galaru yn *ddirgel* am ei bechodau, ond efe a fynnai 'n *gyhoeddus* yn ei Psalmau ddatgan cyfiawnder Duw yn cospi pechod, ac attal hefyd y rhai a allasent gam-arferyd ei esampl ef i bechu yn hyfach.

Y maent hwy gan hynny ym mhellaf o bawb oddi wrth wir edifeirwch, y rhai ni fynnant na chyfaddef na chydnabod eu pechodau, nac wylofain o'u plegid, ond yn hytrach yn annuwiolaf a ymffrostiant o'u plegid ac a ymlawenychant ynddynt.

Ond rhag tybied o neb mai mewn wylofain a galar allanol yn unig y mae edifeirwch yn gynnwysedig, mae'r Prophwyd yn crybwyll yr hyn sy bennaf oll a mwyaf pwysig o'r cwbl, ac yn dywedyd, *Rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw:* —— Canys fe fyddai pobl dwyrein-barth y byd yn arfer rhwygo eu dillad, pan ddigwyddai iddynt ryw aflwydd anffodus: a byddai rhagrithwŷr weithiau yn ffugio ac yn dynwared hyn, megis pe byddai 'r cyfan o edifeirwch yn sefyll yn y cyfryw ymddygiad allanol.—— Mae yntau yn eu dysgu fod peth arall yn ofynol, sef bod yn rhaid iddynt fod yn ddrylliedig o galon, fod yn rhaid iddynt gwbl gasâu a ffieiddio pechod, ac ymwrthod âg ef yn llwyr, a dychwelyd at yr Arglwydd eu Duw, oddi wrth yr hwn yr aethent ymaith o'r blaen. Oblegid nid yw Duw yn ymhoffi yn y seremoni allanol, ond y mae 'n gofyn calon ddrylliog a gostyngedig, yr hon, fel y tystia Dafydd, ni wna Efe byth mo 'i dirmygu.—— Nid yw 'r seremoniau allanol hyn ynte o ddim lles ond cyn belled ag y maent yn ein cyffrôi ni i edifaru, ac yn gwasanaethu i ogoniant Duw ac adeiladaeth dynion.

Yn awr mae 'r Prophwyd yn ychwanegu at yr athrawiaeth neu 'r annogaeth hon resymmau duwiol, y rhai y mae efe yn eu seilio ar natur a phriodoliaethau Duw, a thrwy y rhai y mae yn ein dysgu na 's gall gwir Edifeirwch byth fod yn aflesol nac yn aneffeithiol:——

O herwydd megis ym mhob peth arall y mae calonnau dynion yn diffygio ac yn llwfrhâu os canfyddant eu bod yn llafurio 'n ofer; felly yn enwedicaf yn y peth hyn, rhaid i ni ochelyd ein perswadio nad yw 'r cwbl a wnelom ond gwaith ofer: canys o hynny fe gyfyd naill ai anobaith disymmwth, neu ynte ryfygus hyfdra i bechu, yr hyn a dywys yn y diwedd i anobaith.

Gan hynny rhag digwyddo iddynt ddim o'r cyfryw beth, mae efe yn

eu sicrhâu hwynt o ras a daioni Duw, yr Hwn sy bob amser yn barottaf i dderbyn eilwaith i'w ffafr y rhai yn ddïoedi a ddychwelant atto.

Mae efe 'n profi hyn wrth yr unrhyw ditlau a'r enwau ag y darfu i Dduw ei ddarlunio ei Hun trwyddynt wrth Moses: gan ddywedyd yn y modd yma; *O herwydd graslawn a thrugarog yw Efe, hwyrfrydig i ddigofaint, ac edifeiriol am ddrwg.*

Yn gyntaf; Y mae yn ei alw yn RASLAWN; sef yn gyfryw ag sydd o'i naturiaeth ei hun yn fwy parod a thueddol i wneuthur daioni nag i gospi. Mae 'n debyg mai at hyn y mae geiriau Esay yn cyfeirio; *Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.*[1]

Yn ail; Mae efe 'n prïodoli TRUGAREDD iddo, neu 'n hytrach (yn ol y gair Hebraeg) ymysgaroedd trugareddau; trwy 'r hyn yr arwyddocêir serch naturiol rhïeni at eu plant. Yr hyn beth y mae Dafydd yn ei osod allan yn odidog, gan ddywedyd, *Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia 'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.*[2]

Yn drydydd; Efe a ddywed ei fod yn HWYRFRYDIG I DDIGOFAINT; hynny yw, yn hir-ymarhôus, ac heb fod yn hawdd ei gynhyrfu i ddigio.

Yn bedwerydd; Mae 'n dywedyd ei fod yn FAWR EI DRUGAREDD; canys Efe yw ffynon ddiwaelod pob daioni, ac y mae 'n llawen gantho wneuthur lles i ni: Efe a greodd ac a wnaeth blant dynion er mwyn gwneuthur daioni iddynt, a'u gwneuthur yn gyfrannogion o'i oludoedd nefol.

Yn bummed; Y mae yn EDIFEIRIOL AM DDRWG; hynny yw, y mae yn galw 'n ol y gosp a fygythiodd, pan welo Efe ddynion yn edifaru, yn troi, ac yn diwygio.

Am hynny nid heb achos cyfiawn yr ydym yn ffieiddio ac yn casâu opiniwn damniol y rhai a geisiant yn annuwiol berswadio 'r werin anwybodus, y bydd Edifeirwch yn anfuddiol i ni, ac nad oes mwyach obaith am gymmod, nac adferiad i ffafr a thrugaredd Duw, os digwydd i ni gwympo i ryw bechod ysgeler ar ol i ni ddyfod unwaith at Dduw, a chael ein himpio yn ei Fab Ef Iesu Grist.—— Ac er mwyn rhoi lliw gwell ar eu cyfeiliornad enbyd a dinystriol, maent yn gyffredin yn dwyn drostynt eu hunain y chwechfed a'r ddegfed bennod o'r Epistol at yr Hebreaid, a'r ail bennod o ail Epistol Petr; heb ystyried nad yw 'r Apostolion ddim yn llefaru yn y pennodau hynny am y cwympiadau beunyddiol yr ydym yn ddarostyngedig iddynt tra byddom yn dwyn o amgylch y corph hwn o bechod, ond am gwympo 'n llwyr ac

[1] Esay 55. 7. [2] Ps. 103. 13.

yn gwbl oddi wrth Grist a'i Efengyl, yr hyn sy bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, yr hwn ni faddeuir byth; am fod y rhai sy 'n cwbl ymwrthod â'r hyn y *gwyddant* ei fod yn wirionedd, yn casâu Crist a'i Air, yn ei ail-groeshoelio ac yn ei osod yn watwar i'w llwyr ddistryw eu hunain; ac am hynny maent yn cwympo i anobaith, ac ni 's gallant edifarhâu.

Ac y mae 'n eglur mewn llawer o leoedd eraill yn yr Ysgrythyrau mai hyn yw gwir ystyr a meddwl Glân Ysbryd Duw, yn y rhai yr addewir i bob pechadur gwir edifeiriol ac i bawb a droant â'u holl galon at yr Arglwydd eu Duw, bardwn rhad a gollyngdod o'u pechodau:——

Er prawf o hyn, yr ydym yn darllen fel y canlyn; *Israel, os dychweli,* medd y Prophwyd sanctaidd Jeremïah, *dychwel attaf fi, medd yr Arglwydd: hefyd os rhoi heibio dy ffieidd-dra oddi ger fy mron, yna ni 'th symmudir:*[1]——

Drachefn dyma eiriau Esay; *Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.*[2]

Ac yn y Prophwyd Hosea mae 'r duwiolion yn ymannog bawb eu gilydd fel hyn; *Deuwch a dychwelwn at yr Arglwydd: canys efe a'n drylliodd, ac efe a'n hiachâ ni; efe a darawodd, ac efe a'n meddyginiaetha ni.*[3]

Eglur a goleu yw, y dylid deall hyn am y rhai a fuasent unwaith gyd â'r Arglwydd, ac a aethent wedi hynny oddi wrtho drwy eu pechodau a'u drygioni. Canys nid *dychwelyd,* ond *dyfod,* yr ydym at y neb ni buom gyd âg ef o'r blaen.—— Ond yn awr, i'r sawl oll a droant yn ddiffuant at yr Arglwydd eu Duw, fe gynhygir yn hael drugaredd a ffafr Duw er maddeuant o'u pechodau.

Oddi wrth hyn oll y mae 'n dilyn yn angenrheidiol, er i ni ar ol dyfod at Dduw a chael ein himpio yn ei Fab Ef Iesu Grist, syrthio i bechodau mawrion, *(canys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha;*[4] ac *os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom:*[5]*)* etto os cyfodwn ni eilchwyl trwy edifeirwch, ac os bydd i ni, mewn cyflawn fryd ar wellâu ein buchedd, ffoi at drugaredd Duw, gan gymmeryd gafael sicr arni trwy ffydd yn ei Fab Ef Iesu Grist, fod i ni sicr ac anffaeledig obaith am bardwn a maddeuant am danynt, ac y cawn ein derbyn drachefn i ffafr ein Tad nefol.

Mae 'n ysgrifenedig am Ddafydd, *Yr Arglwydd a geisiodd iddo wr*

[1] Jer. 4. 1. [2] Esay 55. 7. [3] Hos. 6. 1. [4] Preg. 7. 20.
[5] St. Ioan 1. 8.

*wrth fodd ei galon ei hun.*[1] Ac hefyd, *Cefais Ddafydd fab Jesse, gwr yn ol fy nghalon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys.*[2] Clod mawr i Ddafydd oedd hyn. Sicr yw hefyd ddarfod iddo gredu 'n ddïogel yr addewid a wnaed iddo am y Messïah, yr Hwn a ddeuai o'i lwynau ef o ran y cnawd, ac iddo gael ei gyfiawnhâu trwy 'r ffydd hon, a'i impio yn ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr Hwn oedd ar ddyfod. Ac etto ar ol hynny efe a gwympodd yn echryslon, trwy wneuthur godineb ffiaidd a llofruddiaeth ysgeler. Ond er hynny, cyn gynted ac y gwaeddodd efe *Peccavi*, sef *Pechais yn erbyn yr Arglwydd,*[3] maddeuwyd ei bechod, ac adferwyd yntau i ffafr eilwaith.

Ni a ddeuwn weithian at Petr, am yr hwn ni all neb ammeu nad impiwyd ef yn ein Hiachawdwr Iesu Grist yn hir cyn iddo ei wadu Ef. Gellir profi hyn yn hawdd wrth yr atteb a wnaeth efe yn ei enw ei hun ac yn enw ei gyd-apostolion, i'n Hiachawdwr Iesu Grist, pan ddywedodd Efe wrthynt, *A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith; O. Arglwydd,* ebe yntau, *at bwy yr awn ni? gennyt ti y mae geiriau y bywyd tragywyddol: ac yr ydym ni yn credu ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw.*[4]—— At hyn gellir ychwanegu ei gyffes arall, lle mae Crist yn dwyn y dystiolaeth annhwyllodrus hon mewn perthynas iddo; *Gwyn dy fyd di, Simon mab Jona; canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.*[5]

Mae 'r geiriau hyn yn ddigon i brofi fod Petr eisoes wedi ei gyfiawnhâu trwy ei ffydd fywiol yn unig-anedig Fab Duw, am yr Hwn y gwnaeth efe gyffes mor hynod ac mor gyhoeddus.

Ond oni ddarfu iddo wedi hynny, yn y dull mwyaf llwfr, wadu ei Feistr, er iddo ei glywed Ef yn dywedyd, *Pwy bynnag a'm gwado i yngŵydd dynion, minnau a'i gwadaf yntau yngŵydd fy Nhad?*[6]

Ond etto, cyn gynted ag y darfu iddo â llygaid wylofus ac â chalon drist gydnabod ei gamwedd, a ffoi mewn Edifeirwch difrifol at drugaredd Duw, gan gymmeryd gafael sicr ynddi, trwy ffydd yn yr Hwn a wadasai mor gywilyddus, maddeuwyd ei bechod iddo; ac er mwyn llawn sicrwydd iddo o hynny, ni fwriwyd ef o'i le yn yr Apostoliaeth.

Ond sylwch beth a ganlynodd wedi hynny.—— Ar ol i'r unrhyw Apostol sanctaidd gyd â'r disgyblion eraill, dderbyn yn helaeth ddawn yr Yspryd Glân ar Ddydd y Sulgwyn, efe a wnaeth fai nid bychan yn Antiochia, sef dwyn cydwybodau y ffyddloniaid i ammheuaeth trwy ei esampl, hyd oni orfu ar Paul *ei wrthwynebu yn ei wyneb, am nad oedd yn iawn droedio at wirionedd yr Efengyl.*[7]

Ond a ddywedwn ni yn awr ddarfod ei lwyr gau ef allan o ras a

[1] 1 Sam. 13. 14. [2] Act. 13. 22. [3] 2 Sam. 12. 13. [4] St. Ioan 6. 67—69.
[5] St. Mat. 16. 17. [6] St. Mat. 10. 33. [7] Gal. 2. 11, 14.

thrugaredd Duw ar ol y camwedd blin hwn, a bod y trosedd hwn, trwy yr hwn yr oedd efe yn faen tramgwydd i lawer, yn anfaddeuol? Na atto Duw i ni ddywedyd y fath beth!

Ond fel nad ydys yn crybwyll yr esamplau hyn er mwyn i ni fod yn hyf i bechu, gan ryfygu ar drugaredd a daioni Duw, ond er mwyn na byddo i ni, os cwympwn i'r cyffelyb bechodau trwy wendid ein cnawd neu demtasiwn Diafol, anobeithio er dim am drugaredd a daioni Duw: felly rhaid i ni ymogelyd rhag er dim i ni feddylied yn ein calonnau, neu ddychymmygu, neu gredu, y gallwn edifarhâu yn iawn na dychwelyd yn effeithiol at yr Arglwydd trwy ein nerth a'n grym ein hunain:——

Canys rhaid gwirhâu hyn ym mhawb oll, sef *Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim*:[1]——

A thrachefn; *Nid ydym yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim megis o honom ein hunain*:[2]——

Ac mewn man arall; *Duw yw 'r hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu.*[3]

Am ba achos, er i Jeremïah ddywedyd o'r blaen, *Israel, os dychweli, dychwel attaf fi, medd yr Arglwydd;* etto ar ol hynny efe a ddywed, *Dychwel di fi, a mi a ddychwelir; oblegid ti yw yr Arglwydd fy Nuw.*[4]

Ac am hynny mae 'r ysgrifenydd sanctaidd a'r hen Dad Ambros yn dywedyd yn amlwg mai gwaith Duw yw troi 'r galon at Dduw, fel y tystia 'r Arglwydd ei Hun trwy ei Brophwyd, gan ddywedyd; *Rhoddaf iddynt galon i'm hadnabod, mai 'r Arglwydd ydwyf; a hwy a fyddant yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn Dduw iddynt hwy: canys hwy a droant attaf fi â'u holl galon.*[5]

Gwedi ystyried y pethau hyn; gweddïwn yn daer ar y bywiol Dduw, ein Tad nefol, ar deilyngu o hono trwy ei Lân Yspryd weithio ynom wir a diffuant Edifeirwch, fel, ar ol darfod llafur a lludded poenus y fuchedd hon, y gallom fyw yn dragywyddol gyd â'i Fab Ef Iesu Grist: I'r hwn y byddo 'r holl glod a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Ioan 15. 5. [2] 2 Cor. 3. 5. [3] Phil. 2. 13.
[4] Jer. 4. 1. a 31. 18. [5] Jer. 27. 4.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# AM EDIFEIRWCH.

HYD yn hyn y clywsoch, fy ngharedigion, mor angheuraid yw 'r athrawiaeth o Edifeirwch, ac mor ddifrifol y cymhellir hi arnom ac y gosodir hi allan yn holl Ysgrythyrau Duw, gan yr hen Brophwydi gynt, gan ein Ceidwad Iesu Grist, a chan ei Apostolion; ac yn gymmaint ag mai troad yr holl ddyn at Dduw ydyw, oddi wrth yr hwn yr ydym yn ymado trwy bechod, y dylid ystyried y pedwar pwngc hwn: hynny yw,——

O ba le, ac oddi wrth ba bethau, y dylem ddychwelyd;

At bwy y rhaid i ni ddychwelyd;

Drwy ba foddion y mae i ni ddychwelyd, fel y byddo 'n dychweliad yn effeithiol;——

Ac yn ddiweddaf oll, pa fodd y dylem ymddwyn wrth ddychwelyd, fel y byddo 'r gwaith yn fuddiol i ni, ac y gallom gyrhaeddyd y peth yr ydym yn ei geisio trwyddo.

Chwi a glywsoch hefyd, megis y mae opiniwn y rhai hynny yn enbyd a dinystriol, y rhai sy 'n naccâu dawn edifeirwch i'r sawl a syrthiant i bechodau atgas a ffiaidd trwy wendid eu cnawd a themtasiwn Diafol, ar ol dyfod at Dduw a chael eu himpio yn ein Hachubwr Iesu Grist; felly fod yn rhaid i ni ochelyd na thybiom er dim y gallwn o honom ein hunain ac o'n nerth ein hunain ddychwelyd at yr Arglwydd ein Duw, oddi wrth yr Hwn yr ydym wedi ymado trwy ein drygioni a'n pechod.

Yn awr fe ddangosir i chwi pa rai yw gwir rannau Edifeirwch, a pha bethau a ddylent ein cyffrôi i edifaru ac i ddychwelyd at yr Arglwydd gyd â phob prysurdeb.

Edifeirwch, fel y dywedwyd eisoes, yw GWIR DDYCHWELIAD AT DDUW, trwy 'r hwn y mae dynion, gan lwyr ymwrthod â'u heilunaddoliaeth a'u drygioni, drwy fywiol ffydd yn cofleidio, yn caru, ac yn addoli 'r gwir a'r bywiol Dduw yn unig, ac yn eu rhoddi eu hunain i bob math o weithredoedd da, y rhai y gwyddant trwy Air Duw eu bod yn gymmeradwy gantho.

Yn awr y mae i Edifeirwch BEDAIR O RANNAU, y rhai wedi eu gosod

ynghyd a ellir eu cyffelybu i ysgol hawdd a berr, ar hyd yr hon y gallwn ddringo o bwll diwaelod colledigaeth, i'r hwn yr ydym yn ein taflu ein hunain trwy ein beunyddiol gamweddau a'n trymion bechodau, i fynu i gastell ac amddiffynfa iachawdwriaeth ddidrangc a thragywyddol.

Y RHAN GYNTAF O EDIFEIRWCH yw *calon ddrylliog*. Canys rhaid i ni dristâu yn ddifrif am ein pechodau, a galaru yn ddiffuant ddarfod i ni trwyddynt ddigio mor dost Dduw mor haelionus a thrugarog, yr Hwn a'n carodd mor dyner ag y rhoddodd ei unig-anedig Fab i farw 'r farwolaeth chwerwaf ac i dywallt anwyl waed ei galon i'n prynu ac i'n gwaredu.

Ac y mae 'r tristyd a'r galar tumewnol hwn yn y galon am ysgelerder pechod, os bydd efe 'n ddifrif a diragrith, yn *aberth* i Dduw, fel y tystia 'r sanctaidd Brophwyd Dafydd, gan ddywedyd; ***Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig; calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.***[1]

Ond fel y byddo i hyn gymmeryd lle ynom, rhaid i ni fod yn ddyfal i ddarllen ac i wrando 'r Ysgrythyrau a Gair Duw, y rhai sy 'n portreiadu 'n effeithiol ger bron ein llygaid ein haflendid naturiol ac anfadrwydd ein buchedd bechadurus. Ac oni bydd gennym deimlad trwyadl o'n pechodau, pa fodd y gallwn dristâu o ddifrif o'u plegid?

Pa drymder, attolwg, oedd ar Dafydd am y godineb a'r llofruddiaeth a wnelsai, cyn clywed o hono Air yr Arglwydd trwy enau Nathan y Gweledydd?

Yr ydym yn darllen yn Actau 'r Apostolion, ddarfod dwysbigo 'r bobl yn eu calon, gwedi clywed o honynt bregeth Petr; yr hyn beth ni chymmerasai byth le, oni buasai glywed o honynt y bregeth iachusol honno.

Am hynny nid oes ond ychydig obaith am y rhai nad oes ganddynt ddim bwriad i wrando na darllen gair Duw, y bydd iddynt hwy byth roi eu traed na chymmeryd gafael hyd yn nod ar y ffon isaf o'r ysgol hon, ond yn hytrach soddi 'n ddyfnach ddyfnach i bwll diwaelod distryw. Canys os ydynt un amser oblegid pigiad eu cydwybod, yr hon sy 'n eu cyhuddo, yn clywed dim galar, tristyd, neu drymder tumewnol am eu pechodau, etto am nad oes ganddynt eli a diddanwch Gair Duw, yr hwn y maent yn ei ddïystyru, ni bydd hynny ond moddion i'w dwyn i lwyr anobaith, yn hytrach na dim arall.

YR AIL RAN O EDIFEIRWCH yw *cyffes a chydnabyddiaeth ddiffuant o'n pechodau ger bron Duw*, yr Hwn trwyddynt hwy a ddigiasom yn gymmaint, fel, pe gwnai Efe â ni yn ol ei gyfiawnder, yr haeddem fil o

[1] Ps. 51. 17.

uffernau, pe gallai fod cynnifer.—— Er hynny, os gwnawn ni â chalon drist a drylliog gyffes ddiffuant o honynt wrth Dduw, Efe a'u maddeu hwynt yn rhad ac yn rhwydd, ac a ddyd ein hanwireddau ni allan o goffadwriaeth oddi ger bron wyneb ei Fawrhydi yn y fath fodd, fel na bydd iddo mwyach na 'u cofio na meddwl am danynt.

Mewn perthynas i hyn y llefarodd y sanctaidd Brophwyd Dafydd yr ymadrodd euraid hwn; *Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd; a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod.*[1]

Dyma hefyd eiriau St. Ioan yr Efangylwr; *Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw Duw a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder:*[2] yr hyn a ddylid ei ddeall am y gyffes a wneler wrth Dduw. Canys dyma yw geiriau St. Awstin; "Y gyffes a wneler wrth Dduw, a ofynir gan ddeddf Duw; am yr hon y sonia 'r Apostol Ioan pan y mae 'n dywedyd, *Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw Duw a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau:* oblegid heb y gyffes hon, ni faddeuir pechod.

Hon ynte yw 'r brif a'r bennaf gyffes y gorchymynir i ni yn yr Ysgrythyrau a gair Duw ei gwneuthur, ac heb yr hon ni chawn byth bardwn na maddeuant am ein pechodau.

Ond yn wir y mae heblaw hon fath arall o gyffes ag sydd angenrheidiol. Ac am hon y sonia St. Iago, gan ddywedyd fel hyn; *Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddïwch dros eich gilydd, fel y'ch iachâer:*[3] fel pe dywedasai, "Dangoswch yr hyn sydd yn eich dolurio, fel y caffer meddyginiaeth." A gorchymynir i'r naill ddangos ei ddolur i'r llall, yn gystal er mwyn yr hwn sydd yn *gwrando* 'r cwyn, ag er mwyn yr hwn sydd yn *adrodd* ei gwyn:——

Gwir ystyr yr hyn ydyw, y dylai 'r ffyddloniaid gydnabod eu camweddau, trwy y rhai y tyfodd ac y magodd dim casineb, cynfigen, dig, neu falais rhyngddynt a'u gilydd, fel y gallont ymheddychu 'n frawdol; heb yr hyn ni 's gall dim a'r a wnelom fod yn gymmeradwy gan Dduw, fel y tystia ein Hiachawdwr Iesu Grist, gan ddywedyd; *Os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn; gad yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd.*[4]

Gellir hefyd gymmeryd ystyr y geiriau fel hyn; sef y dylem gyffesu ein gwendidau i'n gilydd, fel, gan wybod gwendid y naill y llall, y gallom gyd-weddïo yn daerach ar yr Hollalluog Dduw ein Tad nefol, ar fod yn wiw gantho bardynu ein gwendidau er mwyn Iesu Grist ei Fab, ac na chyfrifo mo honynt i ni, pan ddelo i dalu i bob dyn yn ol ei weithred.

[1] Ps. 32. 5. [2] 1 St. Ioan 1. 9. [3] St. Iago 5. 16. [4] St Mat. 5. 23.

A lle mae 'r gwrthwynebwŷr yn ceisio gwyrdroi 'r lle hwn i amddiffyn âg ef eu Clust-gyffes, maent yn eu twyllo eu hunain yn fawr, ac yn twyllo eraill yn gywilyddus:—— O herwydd os dylid deall yr adnod hon am Glust-gyffes, yna mae 'r Offeiriaid mor rhwymedig i gyffesu wrth y Lleygion, ag ydyw 'r Lleygion i gyffesu wrth yr Offeiriaid: ac os gweddïo yw gollwng oddi wrth bechod, yna mae gan y Lleygion wrth yr adnod hon gymmaint o awdurdod i ollwng yr Offeiriaid, ag sy gan yr Offeiriaid i ollwng y Lleygion:——

Fe ganfu Johannes Scotus, (yr hwn hefyd a elwid Duns,) hyn yn dda, yr hwn ar yr adnod hon a ysgrifena fel hyn:——

"Nid yw 'n ymddangos i mi ddarfod i Iago roi 'r gorchymyn hwn na 'i osod allan, fel pes derbyniasai ef gan Grist: oblegid yn gyntaf ac ym mlaenaf, o ba le yr oedd gantho ef awdurdod i rwymo 'r holl Eglwys, gan nad oedd efe ond Esgob Eglwys Jerusalem yn unig? oddigerth haeru o honot mai 'r Eglwys honno yn y dechreuad oedd yr Eglwys bennaf, ac o ganlyniad, mai efe oedd yr Esgob pennaf; yr hyn beth ni 's caniattâ Eglwys Rhufain byth."

Ystyr yr ymadrodd gan hynny yw, megis yn y geiriau hyn; *Cyffeswch eich camweddau bawb i 'ch gilydd:* sef annogaeth i ostyngeiddrwydd, trwy 'r hyn y myn yr Apostol i ni gyffesu 'n gyffredinol wrth ein cymmydogion ein bod yn bechaduriaid, yn ol y geiriau hyn; *Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain; a'r gwirionedd nid yw ynom.*[1]

A lle maent yn dwyn ymlaen yr ymadrodd hwn o eiddo ein Hiachawdwr Iesu Grist i brofi bod Clust-gyffes yn sefyll ar air Duw, *Dos, dangos dy hun i'r Offeiriad;* onid ydynt yn gweled ddarfod glanhâu 'r gwahan-glwyfus oddi wrth ei wahan-glwyf *cyn* i Grist ei anfon ef at yr Offeiriad i'w ddangos ei hun iddo? Wrth yr un rheswm ynte rhaid ein glanhâu oddi wrth ein gwahan-glwyf ysprydol, hynny yw, mae 'n rhaid maddeu ein pechodau i ni, *cyn* y delom i gyffesu wrth yr Offeiriad! Pa raid i ni ynte draethu ein pechodau ynghlust yr Offeiriad, a hwythau wedi eu dileu eisoes!—— Am hynny y mae Sant Ambros yn ei ail Bregeth ar y bedwaredd Psalm ar bymtheg wedi 'r ganfed, yn dywedyd yn rhagorol fel hyn; "*Dos, dangos dy hun i'r Offeiriad:* pwy yw 'r gwir Offeiriad, ond yr Hwn sydd Offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec?"——

Wrth hyn y mae 'r Tad sanctaidd hwn yn deall, gan fod yr offeiriadaeth a'r gyfraith wedi cael eu newid, na ddylem ni gydnabod un Offeiriad arall i'n gwaredu oddi wrth ein pechodau ond ein Ceidwad Iesu

[1] 1 St. Ioan 1. 8.

Grist: yr Hwn, ac Efe yn Ben-Esgob i ni, sy trwy aberthiad ei Gorph a'i Waed, y rhai a offrymmwyd unwaith am byth ar allor y Groes, yn glanhâu yn effeithiol wahan-glwyf ysprydol, ac yn golchi ymaith bechodau pawb oll a'r y sydd trwy wir gyffes o honynt yn ffoi atto.

Mae 'n ddigon eglur nad oes i Glust-gyffes ddim sail yngair Duw, onid ê ni buasai gyfreithlon i Nectarius, Esgob Constantinopl, ar achlysur cyfiawn mo 'i thynnu ymaith.—— Oblegid pan gamarferer trwy ddrygioni dyn rywbeth ag a ordeiniwyd gan Dduw, dylid tynnu ymaith y *camarferiad*, a goddef i'r *peth ei hun* aros.

Ac ym mhellach, y rhai hyn yw geiriau St. Awstin;——"Beth sydd mi a wnelwyf â dynion, fod iddynt hwy glywed fy nghyffes i, fel pe gallent iachâu fy llesgedd? Dynion gwych yn wir! yn dymuno gwybod buchedd dyn arall, ac yn ddiog i ddiwygio eu buchedd eu hunain! Paham y ceisiant glywed gennyf fi pa beth ydwyf, pan na fynnant glywed gennyt *ti* pa beth ydynt *hwy?* A pha fodd y gallant wybod, pan glywont fi yn llefaru am danaf fy hun, pa un ai gwir ai peidio fyddaf yn ei ddywedyd wrthynt, gan na's gŵyr un dyn marwol beth sy mewn dyn, ond yspryd dyn yr hwn sydd ynddo ef?"—— Ni buasai Awstin yn ysgrifenu fel hyn, pe buasid yn ei amser ef yn arfer Clust-gyffes.

Am hynny na foed gennym gydwybod o Glust-gyffes, ond poed i ni gyd âg ofn, a dychryn, a gwir gystudd calon, arferyd y cyfryw gyffes ag a erchir gan Dduw yn ei Air; ac yna dilys yw, gan ei fod Ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, y maddeu Efe ein pechodau, ac y'n glanhâ oddi wrth bob anwiredd.

Nid wyf yn dywedyd, os bydd cydwybod neb yn drallodus, nad allant fyned at eu Curad neu eu Bugail dysgedig, neu at ryw ddyn dysgedig a duwiol arall, a dangos iddo drallod a phetrusder eu cydwybod, fel y gallont dderbyn gantho gysurus eli Gair Duw. Ond y mae 'n groes i ryddid Cristionogol rwymo neb i rifo ei bechodau i arall, fel yr arferwyd gwneuthur cyn hyn, yn amser dallineb ac anwybodaeth.

Y DRYDEDD RAN O EDIFEIRWCH yw *ffydd*, trwy 'r hon yr ydym yn gafaelyd yn addewidion Duw am bardwn rhad a maddeuant o'n pechodau; ac fe seliwyd yr addewidion hyn i ni âg angau a thywalltiad Gwaed ei Fab Ef Iesu Grist.—— Oblegid pa les ac ennill fyddai i ni dristâu am ein pechodau, a galaru ac wylo ddarfod i ni dramgwyddo ein Tad haelionus a thrugarog, neu gyffesu ein beiau a'n camweddau, pa mor ddifrifol bynnag y gwnelem hynny, onid ydym yn llwyr gredu, a bod yn gwbl ddïogel gennym, y bydd i Dduw, er mwyn ei Fab Iesu Grist faddeu ein holl bechodau, eu hanghofio, a'u bwrw ymaith o'i olwg?

Pwy bynnag gan hynny sy 'n dysgu Edifeirwch heb ffydd fywiol yn ein Ceidwad Iesu Grist, nid ydynt yn dysgu i ni Edifeirwch amgen

nag Edifeirwch Judas, fel y gwna 'r holl Ysgol-ddifinwŷr, y rhai nid ydynt yn addef ond y tair rhan hyn mewn Edifeirwch, sef *drylliad y galon, cyffes y genau, ac iawn am y weithred.* Ond yr ydym yn gweled bod y tair rhan hon yn edifeirwch Judas, yr hwn oedd yn rhagori llawer mewn ymddangosiad allanol ar edifeirwch Petr:——

Canys yn gyntaf yr ydym yn darllen yn yr Efengyl fod Judas *mor drist ac mor drwm,* a'i fod mor gyflawn o ing a helbul meddwl am yr hyn a wnaethai, nes yr oedd ei fywyd ei hun wedi myned yn faich rhy drwm iddo:——

Oni wnaeth efe hefyd, cyn ymgrogi, gyffes gyhoeddus o'i fai, pan ddywedodd, *Pechais, gan fradychu gwaed gwirion?*[1]—— Ac yn wir, cyffes hyf iawn oedd hon, gan ei fod wrth ei gwneuthur yn cyhuddo 'r Arch-offeiriaid a'r henuriaid o dywallt gwaed gwirion, ac o fod yn llofruddion o'r atgasaf:——

Efe a wnaeth hefyd ryw fath o iawn am ei weithred, wrth daflu 'r arian yn ol i'r Arch-offeiriaid.

Ond nid ydym yn darllen dim o'r fath beth am Petr, er gwneuthur o hono yntau bechod ysgeler a throsedd anfad, drwy wadu ei Feistr. Yr ydym yn darllen *iddo fyned allan, ac wylo 'n chwerw-dost;*[2] am yr hyn y mae Ambros yn ysgrifenu fel hyn;—— "Yr oedd yn ddrwg gan Petr, ac efe a wylodd, am iddo wneuthur ar fai fel dyn. Ni 's gwn beth a ddywedodd; ond mi a wn iddo wylo. Yr wyf yn darllen am ei ddagrau, ond nid am ei iawn."——

Ond pa fodd yr adferwyd y naill i ffafr Duw, ac y gwrthodwyd y llall, ond am i'r naill, trwy ffydd yn yr Hwn a wadasai, gymmeryd gafael ar drugaredd Duw, ac am i'r llall, o ddiffyg ffydd, anobeithio yn naioni a thrugaredd Duw?

Eglur gan hynny a goleu yw, er difrifed y tristaom am ein pechodau, ac y cydnabyddom ac y cyffesom hwynt, na bydd hyn oll er y cwbl yn ddim ond moddion i'n dwyn i lwyr anobaith, os na chredwn yn ddïysgog y bydd i Dduw, ein Tad o'r nef, er mwyn ei Fab Iesu Grist, bardynu a maddeu ein beiau a'n troseddau, a'u bwrw 'n gwbl ymaith o'i olwg ac o goffadwriaeth.

Gan hynny, fel y dywedasom eisoes, pwy bynnag sy 'n dysgu i ni Edifeirwch heb Grist, nid ydynt yn gwneuthur amgen na dysgu i ni Edifeirwch Cain, neu Edifeirwch Judas.

Y BEDWAREDD RAN O EDIFEIRWCH yw *gwellhad neu newydd-deb buchedd,* trwy ddwyn ffrwythau teilwng o Edifeirwch. Canys rhaid i'r sawl sy 'n gwir edifaru, gael eu hollol gyfnewid a'u troi;—— rhaid

[1] St. Mat. 27. 4. [2] St. Mat. 26. 75.

iddynt fod yn greaduriaid newyddion;—— ac nid ydynt i fod mwyach yr hyn oeddynt o'r blaen.

Am hynny fel hyn y dywedodd Ioan Fedyddiwr wrth y Phariseaid a'r Saduceaid ag oedd yn dyfod i'w bedyddio gantho; *O genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag-rybuddiodd i ffoi rhag y llid a fydd? Dygwch gan hynny ffrwythau addas i edifeirwch.*[1] Wrth yr hyn yr ydym yn dysgu, os mynnwn i lid Duw gael ei ddyhuddo, na wiw i ni er dim ragrithio, ond troi atto Ef âg edifeirwch cywir ac iachusol, yr hwn y gellir ei adnabod a'i ddangos trwy ffrwythau da, y rhai ydynt yr unig argoelion sicr o hono.

Mae y rhai sydd o waelod eu calonnau yn cydnabod eu beiau, ac yn ddrwg genthynt am eu pechodau, yn ymddïosg oddi wrth bob rhagrith ac yn gwisgo diffuant ostyngeiddrwydd calon. Y maent nid yn unig yn derbyn Physygwr yr enaid, ond y maent mewn awydd gwresog yn hiraethu am dano. Maent nid yn unig yn ymgadw oddi wrth bechodau eu buchedd o'r blaen, a phob beiau bryntion eraill; ond maent hefyd yn gochelyd, ac yn casâu, ac yn cilio oddi wrth, bob peth ag sy 'n eu hachlysuro.—— Ac fel y rhoisant eu hunain o'r blaen i aflendid buchedd, felly hwy a'u rhoddant eu hunain o hynny allan gyd â phob dyfalwch i ddiniweidrwydd a phurdeb ymarweddiad a gwir dduwiolder.

Mae gennym y Ninefeaid yn esampl, y rhai ar bregeth Jonah nid yn unig a gyhoeddasant ympryd, a bod i bawb oll o honynt wisgo sachlïain, ond hwy a droisant hefyd oll oddi wrth eu ffyrdd drygionus, ac oddi wrth yr anwiredd ag oedd yn eu dwylaw.

Ond uwchlaw pob un arall, hanes Zaccheus yw 'r fwyaf nodedig. Canys wedi dyfod o hono at ein Hiachawdwr Crist, efe a ddywedodd; *Wele, hanner fy nâ, O Arglwydd, yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion; ac os dygais ddim o'r eiddo neb trwy gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd.*[2]—— Yma ni a welwn nad oedd efe, ar ol ei edifeirwch, ddim yr un dyn ag a fuasai efe o'r blaen, ond ei fod wedi cael ei droi a'i gyfnewid yn gwbl. Mor bell oedd efe oddi wrth barhâu yn ei drachwant annigonol, neu gymmeryd dim ar gam oddi ar neb, fel ag yr oedd yn hytrach yn ewyllysgar a pharod i gyfrannu ei eiddo ei hun i eraill, ac i wneuthur iawn i bawb oll y gwnaethai gam â hwynt.

Yma hefyd gallwn grybwyll am y bechadures honno, yr hon, pan ddaeth hi at ein Hiachawdwr Crist, a ollyngodd y fath helaethrwydd o ddagrau o'r llygaid trythyll hynny, â'r rhai yr hudasai hi lawer i ynfydrwydd, fel y *golchodd hi ei draed Ef â hwynt, ac a'u sychodd â*

[1] St. Mat. 3. 7, 8. [2] St. Luc 19. 8.

*gwallt ei phen,*[1] yr hwn y byddai hi yn arfer ei blethu mor hoyw i fod yn rhwyd y Diafol!

Wrth hyn oll yr ydym yn dysgu pa iawn y mae Duw yn ei ofyn gennym, hynny yw peidio o honom â drygioni, a gwneuthur o honom yr hyn sy dda; ac os gwnaethom gam â neb, ymdrechu â'n holl egni wneuthur iawn iddo; gan ddilyn yn hyn esampl Zaccheus a'r bechadures hon, ac hefyd addysg duwiol Ioan Fedyddiwr fab Zacharias i'r rhai a ddaethant atto i ofyn cyngor ganddo.

Dyma 'n gyffredin oedd y penyd ag a fyddai Crist yn ei roi ar bechaduriaid; Dos, AC NA PHECHA MWYACH: Yr hwn benyd ni 's gallwn byth mo 'i gyflawni heb hyspysol ras yr Hwn a ddywedodd, *Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.*

Ein rhan ni ynte, o leiaf os ydym yn dymuno ein hiachawdwriaeth ein hunain, ydyw gweddïo 'n daer ar i'n Tad o'r nef ein cymmorth â'i Lân Yspryd, fel y gallom wrando ar lais y Bugail Da, a dilyn yr unrhyw â dyledus ufudd-dod.

Gwrandawn ar leferydd yr Hollalluog Dduw, pan y mae efe yn ein galw ni i edifeirwch.

Na chaledwn ein calonnau, fel y gwna 'r cyfryw anghredinwŷr ag sy 'n cam-ddefnyddio 'r amser a roddir iddynt gan Dduw i edifaru, gan ei arferyd i barhâu yn eu balchder a'u dirmyg yn erbyn Duw a dyn, heb wybod gymmaint y maent yn pentyrru digofaint Duw arnynt eu hunain am galedwch eu calonnau, y rhai ni chânt le i Edifeirwch yn nydd y dïal.

Lle y troseddasom gyfraith Dduw, edifarhâwn am ddarfod i ni fyned ar gyfrgoll oddi wrth Arglwydd mor ddaionus.

Cyfaddefwn ein hannheilyngdod o'i flaen Ef; ond ar yr un pryd ymddiriedwn yn rhad drugaredd Duw, y cawn er mwyn Crist bardwn am yr unrhyw.

Ac o hyn allan ymdrechwn rodio mewn newydd-deb buchedd, fel rhai bychain newydd-eni, fel y gallom trwy hynny ogoneddu ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd, a mwynhâu yn ein cydwybodau dystiolaeth dda am ein ffydd, ac felly yn y diwedd gyrhaeddyd mwyniant o fywyd tragywyddol trwy ryglyddon ein Ceidwad: I'r hwn y byddo 'r holl fawl a'r anrhydedd yn oes oesoedd. Amen.

[1] St. Luc 7. 37.

Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

# AM EDIFEIRWCH.

CHWI a glywsoch, fy anwyl garedig bobl yn ein Hiachawdwr Crist, yn yr Homili a lefarwyd wrthych ddiweddaf, ynghylch gwir rannau ac arwyddion Edifeirwch; hynny yw,——

Diffuant ddrylliad a thristyd ein calonnau;——

Cyffes ddidwyll â geiriau ein genau o'n hannheilwng fuchedd ger bron Duw;——

Ffydd ddiymmod yn haeddedigaethau ein Ceidwad Crist am bardwn;——

Llwyrfryd calon i ymwrthod, drwy ras Duw, â'n buchedd ddrygionus o'r blaen;——

A chwbl ddychweliad at Dduw mewn newydd-deb buchedd, i ogoneddu ei Enw; i fyw yn drefnus ac yn gariadol, er cysur i'n cymmydog, mewn pob uniondeb; ac i fyw yn sobr ac yn ddiwair, er cysur i ni ein hunain, gan arferyd dirwest a chymmedroldeb mewn gair ac mewn gweithred, er mwyn *marwhâu ein haelodau sydd ar y ddaear.*[1]

Weithian, er ychwaneg o berswadiad i'ch annog chwi i'r rhannau hynny o Edifeirwch, mi a osodaf ger eich bronnau rai ANNOGAETHAU, y rhai a ddylent eich cyffrôi yn fwy i edifarhâu.

YR ANNOGAETH GYNTAF yw *Gorchymyn Duw,* yr Hwn sy mewn cynnifer o fannau o'r Ysgrythyr gyssegr-lân yn erchi i ni ddychwelyd atto:——

*Dychwelwch,* eb Efe, *at yr hwn y llwyr-giliodd meibion Israel oddi wrtho.*[2]

Drachefn; *Dychwelwch, dychwelwch, oddi wrth eich ffyrdd drygionus; canys, tŷ Israel, paham y byddwch feirw.*[3]

Ac mewn lle arall y mae Efe'n llefaru fel hyn trwy ei sanctaidd Brophwyd Hosea; *Ymchwel, Israel, at yr Arglwydd dy Dduw; canys ti a syrthiaist trwy dy anwiredd. Cymmerwch eiriau gyd â chwi, a dychwelwch at yr Arglwydd: dywedwch wrtho, Maddeu yr holl anwiredd; derbyn ni yn ddaionus: a thalwn it' loi ein gwefusau.*[4]

[1] Col. 3. 5. [2] Esay 31. 6. [3] Ezec. 33. 11. [4] Hos. 14. 1, 2.

Yn yr holl leoedd hyn mae i ni orchymyn pendant wedi ei roi i ni gan Dduw i ddychwelyd atto.

Am hynny rhaid yw i ni edrych yn dda attom ein hunain, rhag, (a nyni eisoes trwy ein hamryw bechodau a'n hanwireddau wedi annog ac ennynu llid Duw i'n herbyn) wrth dorri 'r gorchymyn hwn hefyd, i ni ddyblu ein beiau, ac felly bentyrru damnedigaeth ar ein pennau ein hunain trwy ein camweddau a'n troseddiadau beunyddiol, â'r rhai yr ydym yn anfoddloni llygaid ei Fawrhydi, ac yn haeddu (pe gwnelai Efe â ni yn ol ei gyfiawnder) cael ein bwrw ymaith am byth oddi wrth fwynhâu ei ogoniant Ef.

A pha faint mwy ynte yr haeddem ddiddiwedd boenau uffern, os, pan yr ydym yn cael ein galw drachefn mor dirion, a'n gorchymyn i ddychwelyd, ar ol i ni wrthryfela, ni wrandawn mewn modd yn y byd ar lais ein Tad nefol, ond rhodio fyth yngwrthnysigrwydd ein calonnau!

Yr ail annogaeth yw *yr Addewid gysurlawn a melus* a gyssylltodd yr Arglwydd ein Duw, o'i ddaioni a'i drugaredd, â'i orchymyn.

Canys nid yw Efe yn dywedyd yn unig, *Israel, dychwel attaf fi,* ond hefyd, *Os rhoi heibio dy ffieidd-dra oddi ger fy mron, yna ni 'th symmudir.*[1]

Ac y mae gennym y geiriau hyn yn y Prophwyd Ezeciel; *Os yr annuwiol a ddychwel oddi wrth ei holl bechodau, ni chofir iddo yr holl bechodau a wnaeth.*[2]

Fel hyn y'n haddysgir yn ddigonol, y bydd i Dduw yn ol ei addewid, bardynu, maddeu, ac anghofio ein holl bechodau, fel na 's dannodir hwynt i ni byth, os, gan ufuddhâu i'w orchymyn, a chymmeryd ein denu gan ei felus addewidion, y trown ni atto Ef yn ddiffuant.

Y drydedd annogaeth yw *Brynti pechod;* yr hwn sy 'n gyfryw beth, fel, tra y parhaom ni ynddo, na 's gall Duw lai na 'n casâu a'n ffieiddio; ac na 's dichon fod un gobaith y cawn byth fyned i mewn i'r Jerusalem nefol, oddi eithr yn gyntaf ein glanhâu a'n puro oddi wrtho. Ond ni 's gellir byth ein glanhâu oddi wrtho, oni bydd i ni, gan ymwrthod â'n buchedd o'r blaen, droi â'n holl galon at yr Arglwydd ein Duw, ac mewn llawn fryd ar wellâu ein buchedd, ffoi at ei drugaredd, a gafaelyd yn sicr ynddi trwy ffydd yng Ngwaed ei Fab Ef Iesu Grist.

Pe drwg-dybiem ni fod ynom ryw aflendid ag a barai i Dywysog daearol gasâu a ffieiddio yr olwg arnom, pa boen a gymmerem i'w olchi ac i'w symmud ymaith! Pa faint mwy y dylem gyd â phob dyfalwch a brys fwrw ymaith y brynti aflan sy 'n ysgaru rhyngom ni a'n Duw, ac yn peri iddo guddio ei wyneb oddi wrthym rhag gwrando arnom!

[1] Jer. 4. 1   [2] Ezec. 18. 21, 22.

Ac yn wir, yn hyn yr ymddengys frynted peth yw pechod, gan na 's gellir ei olchi ymaith mewn un ffordd arall, ond trwy Waed Unig-anedig Fab Duw!—— Ac ai ni bydd i ni ei gasâu a'i ffieiddio o eigion ein calonnau, a chyd â phob difrifwch ddïengyd rhagddo, gan y costiodd i Unig-anedig Fab Duw, ein Ceidwad a'n Prynwr, Waed ei galon i'n glanhâu oddi wrtho!

Mae Plato yn ysgrifenu mewn rhyw fan, pe gellid gweled Rhinwedd â llygaid y corph, y gwresogid ac yr ennynid pob dyn yn rhyfeddol gan gariad atti. Felly o'r ochr arall, pe gallem weled â'n llygaid corphorol fudreddi a halogrwydd pechod, ni 's gallem er dim ei oddef, ond casaem ef a dïangem rhagddo, fel rhag y gwenwyn mwyaf angeuol:——

Mae gennym brofiad cyffredin o hyn mewn dynion, y rhai, gwedi y darffo iddynt wneuthur rhyw fai anfad neu ryw bechod budr ac atgas, os daw efe unwaith i'r goleu, y mae arnynt gymmaint cywilydd, (am fod eu cydwybod eu hunain yn gosod ger bron eu llygaid frynti 'r weithred,) fel na feiddiant edrych yn wyneb un *dyn* a'u cyfarfyddo: llai o lawer ynte y gallant sefyll yngŵydd *Duw*.

Y BEDWAREDD ANNOGAETH yw *Ansicrwydd a breuolder ein bywyd;* yr hwn sy gyfryw, fel na 's gallwn fod yn sicr y cawn fyw un awr neu un pum munud:——

Yr ydym yn gweled trwy brofiad beunyddiol fod hyn yn wir, wrth esampl y rhai sydd yr awr *hon* yn llawen ac yn nwyfus, ac weithiau yn gwledda ac yn gloddesta gyd â'u cymdeithion; a'r awr *nesaf* yn syrthio 'n ddisyfyd yn farw ar yr heol, neu fe allai wrth y bwrdd pan yn bwytta:——

Fel y mae 'r esamplau hyn yn arswydus ac yn ddychrynllyd, felly hwy a ddylent ein deffrôi i geisio bod mewn cymmod â'n Barnwr nefol, fel y gallom ymddangos ger ei fron â chydwybod dda, pa bryd bynnag y rhyngo bodd iddo alw am danom, pa un bynnag ai yn ddisyfyd neu mewn rhyw ddull arall: canys nid oes gennym ni ddim mwy o sicrwydd o'n bywyd nag sy ganddynt hwythau.—— Ond fel y mae 'n gwbl sicr y *rhaid* i ni farw, felly mae 'n gwbl ansicr *pa bryd* y rhaid i ni farw. Canys y mae ein heinioes yn llaw Duw; ac Efe a'i cymmer oddi arnom pan welo Efe 'n dda.

Ac yn wir, pan ddaw 'r Swyddog uchaf, sef Angau, i alw am danom, ni chymmer efe ei naccâu, ond rhaid fydd i ni fyned yn ebrwydd, fel y caiff efe ni, i fod yn bresennol ger bron brawdle Duw; megis y mae yn ysgrifenedig, *Os tu a'r dehau neu tu a'r gogledd y syrth y pren; lle y syrthio 'r pren, yno y bydd efe:*[1]——

[1] Preg. 11. 3.

Ac â hyn y cyttuna y dywediad hwn o eiddo sanctaidd Ferthyr Duw, St. Cyprian; "Fel y caiff Duw di pan alwo am danat, felly y barna Efe di."

Dilynwn gan hynny gyngor y Gwr Doeth, lle mae efe 'n dywedyd; *Na fydd hwyrfrydig i droi at yr Arglwydd, ac nac oeda o ddydd i ddydd; oblegid yn ddisymmwth y daw digofaint yr Arglwydd, a thra fyddech di yn ddifraw y'th ddryllir, a thi a ddifethir yn amser dïaledd.* Yr hyn eiriau yr ydwyf yn deisyf fod i chwi ddal sylw yn ddyfal arnynt, am eu bod yn portreiadu 'n effeithiol o flaen cin llygaid ynfydrwydd llawer o ddynion, y rhai, gan gamarferyd hir amynedd a daioni Duw, nid ydynt byth yn meddwl am Edifeirwch na diwygiad buchedd:——

*Na ddilyn,* eb efe, *dy ewyllys dy hun, a'th gryfder dy hun, i rodio yn ffyrdd dy galon dy hun.*

*Na ddywed, Pwy a'm darostwng i o herwydd fy ngweithredoedd? oblegid yr Arglwydd gan ddïal a ddïal dy draha di.*

*Na ddywed, Mi a bechais, a pha dristwch a fu i mi? oblegid y mae 'r Arglwydd yn hir-ymarhôus; ond ni âd efe i ti ddïangc.*

*Na fydd ry ddifraw o herwydd maddeuant, i chwanegu pechodau ar bechodau.*

*Ac na ddywed, Aml yw ei drugaredd ef, efe a faddeu liosowgrwydd fy mhechodau i; oblegid trugaredd a digofaint a ddaw oddi wrtho ef, a'i ddigofaint ef a orphwys ar bechaduriaid:*[1]——

Hynny yw, fel pe dywedasai 'r Gwr Doeth;—— "A wyt ti yn gryf ac yn gadarn? A wyt ti yn ieuangc ac yn hoenus? A oes gennyt ti olud a chyfoeth y byd? Neu pan bechaist, a dderbyniaist ti ddim cosp am hynny? Na wnaed yr un o'r pethau hyn di yn ddïoccach i edifaru ac i ddychwelyd gyd â brys at yr Arglwydd: canys yn nydd cosp a dïaledd disymmwth, ni byddant alluog i'th gynnorthwyo."

Ac yn enwedig pan wyt, naill ai trwy bregethiad Gair Duw, neu trwy gynhyrfiad ei Lân Ysbryd o'th fewn, neu trwy ryw foddion arall, yn cael dy alw i edifeirwch, na esgeulusa 'r cyfleusdra a weinyddir i ti, rhag, pan *ddymunech* edifaru, na byddo gennyt ras i *wneuthur* hynny. Canys dawn ddaionus Duw ydyw Edifeirwch, yr hon ni chaniattâ Efe byth i'r rhai sy 'n byw mewn dïofalwch cnawdol, ac yn gwatwar ei fygythion, neu yn ceisio rheoli ei Ysbryd Ef fel y mynnont, fel pe byddai ei weithrediadau a'i ddoniau Ef wedi ei rhwymo wrth eu hewyllys hwy.

Y BUMMED ANNOGAETH yw *Gochelyd barnedigaethau Duw,* a'r cwbl ddistryw ag sy, trwy ei gyfiawn farn Ef, yn crogi uwch ben pawb oll a'r na 's mynnant droi at yr Arglwydd.

[1] Eccles. 5. 2—7.

*Mi a'u rhoddaf hwynt*, medd yr Arglwydd, *i'w symmud i holl deyrnasoedd y ddaear, er drwg iddynt, i fod yn waradwydd ac yn ddiareb, yn watworgerdd ac yn felldith, ym mhob man lle y gyrrwyf hwynt. A mi a anfonaf arnynt y cleddyf, newyn, a haint, nes eu difa oddi ar y ddaear.*[1]—— A phaham y mae hyn? Am galedu o honynt eu calonnau, ac am na throent oddi wrth eu ffyrdd drygionus, nac ymwrthod â'r anwiredd oedd yn eu dwylaw, fel yr ymadawai cynddaredd llid yr Arglwydd oddi wrthynt.

Ond etto nid yw hyn yn ddim wrth anoddefol a didrangc arteithiau tân uffern, y rhai y bydd raid iddynt hwy eu dioddef, y rhai na allant edifaru gan galedrwydd eu calonnau, ond *ydynt yn trysori iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw.*[2]

Ond os edifarhâwn ni, a bod yn ddrwg gennym o ddifrif am ein pechod, a ffoi, trwy gwbl amcanu diwygio, at drugaredd Duw, a gafaelyd yn ddiogel ynddi trwy ffydd yn ein Hiachawdwr Iesu Grist, a dwyn ffrwythau addas i Edifeirwch; Efe nid yn unig a dywallt arnom ei liosog fendithion yma yn y byd hwn, ond hefyd yn y diwedd, ar ol gorphen llafur poenus y fuchedd hon, Efe a'n gwobrwya ni âg etifeddiaeth ei blant, sef teyrnas nefoedd, yr hon a bwrcaswyd i ni trwy Angau ei Fab Ef Iesu Grist ein Harglwydd: I'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl fawl, y gogoniant, a'r anrhydedd, byth bythoedd. Amen.

[1] Jer. 24. 9. [2] Rhuf. 2. 5.

# HOMILI

## YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

MEGIS y gosododd Duw, Crewr ac Arglwydd pob peth, ei Angylion a'i greaduriaid nefol ym mhob ufudd-dod i wasanaethu ac i anrhydeddu ei Fawrhydi; felly ei ewyllys Ef oedd bod i ddyn, ei brif greadur ar y ddaear, fyw mewn ufudd-dod i'w Grewr a'i Arglwydd: ac er mwyn hynny, cyn gynted ac y creodd Duw ddyn, Efe a roes iddo gyfraith a gorchymyn, pan oedd etto yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd ac yn trigo ym Mharadwys, fel y byddai iddo ei gadw megis gwystl ac insel o'i rwymedig ufudd-dod; ynghyd â bygythiad o farwolaeth, os torrai ac os troseddai efe y gorchymyn hwnnw.

Ac fel y mynnai Duw i ddyn fod yn ddeiliad ufudd iddo Ef, felly fe wnaeth Yntau holl greaduriaid y ddaear yn ddeiliaid i ddyn: a hwythau a gadwasant eu dyledus ufudd-dod i ddyn, cyhyd ag yr arhosodd dyn yn ei ufudd-dod i Dduw.—— A phe parhasai dyn yn yr ufudd-dod hwnnw yn wastadol, ni buasai dim tlodi, dim clefydau, dim haint, dim angau, na dim o'r anffodau ereill, â pha rai y mae dynion yn awr yn cael mor dost a thu hwnt i fesur eu cystuddio a'u gorthrymmu.

Felly yma y gellir gweled teyrnas gyntefig Duw ar Angylion a dynion, ac ar bob peth yn gyffredinol; a theyrnas dyn ar y creaduriaid daearol a roisai Duw dan ei draed ef; ac hefyd y dedwydd a'r bendigaid gyflwr y buasai Angylion a dynion a phob creadur arall ynddo, ped arosasent yn eu dyledus ufudd-dod i Dduw eu Brenhin.

Canys yn y frenhiniaeth gyntefig hon, cyhyd ag yr arosodd y deiliaid mewn dyledus ufudd-dod i Dduw eu Brenhin, cyhyd a hynny y cofleidiodd Duw ei holl ddeiliaid â'i gariad a'i ffafr a'i ras, mwynhâd o ba rai sy berffaith ddedwyddwch.—— Wrth yr hyn y mae 'n eglur mai Ufudd-dod yw y Rhinwedd bennaf o'r holl Rinweddau, ac yn wir Gwreiddyn pob rhinwedd, a Ffynnon pob dedwyddyd.

Ond fel y buasai pob dedwyddwch a gwynfyd yn parhâu, pe buasai Ufudd-dod yn parhâu; felly pan dorrwyd Ufudd-dod, a dyfod Gwrthryfel i mewn, fe ddaeth pob pechod a thrueni hefyd i mewn, ac a oresgynasant y byd.

Awdwr cyntaf y Gwrthryfel hwn, gwreiddyn pob drwg, a mam pob

aflwydd ydoedd Lucifer: yr hwn ar y cyntaf oedd odidoccaf greadur Duw a'i ffyddlonaf ddeiliad; ond trwy wrthryfela yn erbyn Mawrhydi Duw, efe a ddaeth o fod yn Angel disgleiriaf a mwyaf gogoned, yn Gythraul ac yn Ddiafol duaf ac atgasaf; ac a gwympodd o uchelder y nefoedd i bydew diwaelod uffern.

Yma y gellwch weled Awdwr a Sylfaenydd cyntaf Gwrthryfel, a'i wobrwy. Yma y gellwch weled Capten mawr a Thad pob gwrthryfelwŷr: yr hwn, trwy berswadio ein rhïeni cyntaf, Adda ac Efa, i ddilyn ei Wrthryfel ef yn erbyn eu Crewr a'u Harglwydd, a'u dug hwy dan sorriant llidiog Duw;—— a barodd eu hallwladu allan o Baradwys, lle o bob hyfrydwch a daioni, i'r ddaear druenus hon a dyffryn pob gresyni;—— a ennillodd iddynt bob tristyd *yn eu meddyliau*, a phob anffawd, clefyd, afiechyd, ac angau, *yn eu cyrph*; a'r hyn sy 'n llawer mwy dychrynllyd na phob aflwydd bydol a chorphorol, efe a weithiasai drwy hynny dragywyddol a didrangc angau a damnedigaeth iddynt, pe na buasai i Dduw, trwy Ufudd-dod ei Fab Iesu Grist, adgyweirio 'r hyn a ddistrywiasai dyn trwy ei anufudd-dod a'i Wrthryfel, ac felly, o'i drugaredd, faddeu iddo a'i bardynu:—— ac am yr holl bethau hyn y mae 'r Ysgrythyrau Sanctaidd mewn amryw fannau yn dwyn tystiolaeth.

Fel hyn chwi a welwch na allai na 'r nef na Pharadwys oddef dim gwrthryfel, ac nad ydynt leoedd i wrthryfelwŷr i aros ynddynt.

Gwrthryfel ynte, fel y gwelwch, yw 'r pechod cyntaf a'r mwyaf, a gwreiddyn pob pechod arall, a'r achos prif a phennaf o bob trueni, gofidiau, clefydau, heintiau, a marwolaethau bydol a chorphorol; a'r hyn sydd anfesurol waeth na hyn i gyd, fel y dywedpwyd, Gwrthryfel hefyd yw 'r achos o farwolaeth a damnedigaeth dragywyddol.

Ar ol torri fel hyn Ufudd-dod Duw, a gwrthryfela yn erbyn ei Fawrhydi Ef, a darfod, gyd â hynny, i bob aflwydd a gresyni ddyfod i mewn, a llifeirio dros y byd; rhag llwyr ddyfysgu a difetha pob peth, fe adferodd Duw yn ebrwydd, trwy roi deddfau i ddyn, y drefn a'r rheol o Ufudd-dod a ddadymchwelasid fel hyn trwy Wrthryfel: ac heblaw 'r Ufudd-dod sy ddyledus i'w Fawrhydi ei Hun, Efe a ordeiniodd, mewn teuluoedd a thylwythau, *fod y wraig yn ufudd i'w gwr, y plant i'w rhïeni, a'r gweision i'w meistriaid:* ac hefyd, pan gynnyddodd dynol ryw ac ymdaenu 'n helaethach dros y byd, Efe a ordeiniodd ac a sefydlodd trwy ei Sanctaidd Air, fod ym mhob dinas a gwlad Lywodraethwŷr a Rheolwŷr hyspysol, i'r rhai yr oedd raid i'r rhelyw o'i bobl fod yn ufudd.

Wrth ddarllen yr Ysgrythyr Lân yr ydym yn gweled mewn agos aneirif leoedd yn yr Hen Destament a'r Newydd fod Brenhinoedd a Thywysogion, yn gystal y rhai drwg a'r rhai da, yn teyrnasu trwy ordinhâd Duw,—— a bod eu deiliaid yn rhwym i ufuddhâu iddynt;——

bod Duw yn rhoi i Dywysogion ddoethineb, gallu, ac awdurdod mawr;—— bod Duw yn eu hamddiffyn yn erbyn eu gelynion, a'i fod yn dinystrio eu gelynion yn arswydus;—— a bod *llid y Brenhin megis rhuad llew,*[1] a bod *ei ddigofaint megis cennad angau,*[2] a bod y deiliad *a'i cyffrô ef i ddigofaint yn pechu yn erbyn ei enaid ei hun;*[3]—— a llawer o bethau eraill ynghylch awdurdod Tywysogion a dyledswydd eu deiliaid:——

Ond yma adroddwn ddau le hyspysol allan o'r Testament Newydd, y rhai a allant sefyll yn lle 'r lleill i gyd:——

Y cyntaf allan o Epistol St. Paul at y Rhufeiniaid, a'r drydedd bennod ar ddeg, lle y mae yn ysgrifenu fel hyn at bob deiliaid:——

*Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio.*

*Am hynny pwy bynnag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw; a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain.*

*Canys tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r rhai drwg. A fynnech di nad ofnech yr awdurdod? gwna'r hyn sy dda, a thi a gei glod ganddo.*

*Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. Eithr os gwnei ddrwg, ofna; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: oblegid gweinidog Duw yw efe, dïalydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg.*

*Herwydd paham anghenraid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, eithr o herwydd cydwybod hefyd.*

*Canys am hyn yr ydych yn talu teyrnged hefyd: oblegid gwasanaethwŷr Duw ydynt hwy, yn gwylied ar hyn yma.*

*Telwch gan hynny i bawb eu dyledion: teyrnged, i'r hwn y mae teyrnged yn ddyledus; toll, i'r hwn y mae toll; ofn, i'r hwn y mae ofn; parch, i'r hwn y mae parch yn ddyledus.*[4]

Dyna eiriau St. Paul.

Mae yr ail le yn yr ail bennod o Epistol cyntaf St. Petr: mae 'r geiriau fel hyn:——

*Ymddarostyngwch i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenhin, megis goruchaf;*

*Ai i'r llywiawdwŷr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er dïal ar y drwg-weithredwŷr, a mawl i'r gweithredwŷr da:*

*Canys felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi, trwy wneuthur daioni, ostegu anwybodaeth dynion ffolion;*

[1] Diar. 19. 12. [2] Diar. 16, 14. [3] Diar. 20. 2. [4] Rhuf. 13. 1—7.

*Megis yn rhyddion, ac nid â rhyddid gennych megis cochl malais, eithr fel gwasanaethwŷr Duw.*

*Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth. Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenhin.*

*Y gweision, byddwch ddarostyngedig gyd â phob ofn i'ch meistriaid: nid yn unig i'r rhai da a chyweithas, eithr i'r rhai anghyweithas hefyd.*[1]

Dyna eiriau St. Petr.

Wrth y ddau le hyn o'r Ysgrythyr Lân mae 'n eglur ddigon fod Brenhinoedd, Brenhinesau, a Thywysogion eraill, (canys am *awdurdod* y mae efe 'n son, pa un bynnag ai mewn gwŷr ai mewn gwragedd y byddo) wedi eu hordeinio gan Dduw;—— bod eu deiliaid i ufuddhâu iddynt ac i'w hanrhydeddu;—— bod y cyfryw ddeiliaid ag sy 'n anufuddion neu wrthryfelgar yn erbyn eu Tywysogion, yn anufuddion i Dduw, ac y derbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain;—— bod llywodraeth Tywysogion yn fendith fawr wedi ei rhoi gan Dduw er lles i'r wladwriaeth, yn enwedig i'r daionus a'r duwiol; er cysur a diddanwch i ba rai y mae Duw yn rhoi Tywysogion, ac yn eu gosod i fynu; ac ar y llaw arall, er ofn a chospedigaeth i'r drygionus a'r annuwiol;—— ac yn ddiweddaf, os dylai gweision ufuddhâu i'w meistriaid anghyweithas yn gystal ag i'r rhai cyweithas; cystal a hynny, a mwy o lawer, y dylai deiliaid ufuddhâu, nid yn unig i'w Tywysogion daionus a llednais, ond hefyd i'w rhai trahâus a llymdost.

Am hynny, nid o ddigwyddiad neu ddamwain, neu o uchelfryd gwŷr a gwragedd marwol yn dringo o honynt eu hunain i arglwyddiaethu, y *mae* bod Brenhinoedd, Brenhinesau, Tywysogion, a Llywiawdwŷr eraill, yn llywodraethu ar bobl a fo 'n ddeiliaid iddynt; ond y mae pob Brenhinoedd, Brenhinesau, a Llywiawdwŷr eraill, wedi eu gosod yn hyspysol gan ordinhâd Duw.

Ac fel y mae Duw ei Hun, yr Hwn sydd o fawrhydi a gallu a doethineb anfeidrol, yn rheoli ac yn llywio pob peth yn y nef a'r ddaear, megis Penllywiawdwr cyffredinol ac unig Frenhin ac Ymherawdwr ar bawb oll, gan mai Efe 'n unig sy 'n alluog i gymmeryd ac i gynnal siars a gofal y cwbl; felly y mae Efe wedi sefydlu, gosod, ac ordeinio Tywysogion daearol ar wahanol deyrnasoedd ac arglwyddiaethau ar y ddaear, er mwyn gochelyd yr holl anllywodraeth a fyddai yn y byd, pettai *heb* y cyfryw lywiawdwŷr,—— ac er mwyn llonyddwch a mawrlles eu deiliaid daearol,—— ac hefyd er mwyn bod i'r Tywysogion eu hunain, mewn awdurdod, gallu, doethineb, rhag-welediad, ac uniondeb, wrth lywodraethu ar y bobl a'r gwledydd a ymddiriedwyd i'w gofal hwynt,

[1] 1 St. Petr 2. 13–18.

fod yn debyg i'w lywodraeth nefol Ef, cyn belled ag y gallo gwaeledd pethau daearol ddangos cysgod a chyffelybrwydd o fawredd pethau nefol.—— Ac oblegid y cyffelybrwydd hwnnw sy rhwng unbennaeth y nef a theyrnasoedd daearol a reoler yn dda, fe ddywed ein Ceidwad Crist mewn amryw ddamhegion FOD TEYRNAS NEF YN DEBYG I FRENHIN.

Ac fel yr ydys yn fynych yn rhoi yr enw o FRENHIN i Dduw yn yr Ysgrythyr Lân; felly y mae Duw ei Hun yn yr unrhyw Ysgrythyr weithiau yn teilyngu gwneuthur Tywysogion daearol yn gyfrannogion o'i Enw Yntau, gan eu galw hwy 'n DDUWIAU; a hynny 'n ddiammeu oblegid *y cyffelybrwydd llywodraeth* sy ganthynt, neu a ddylai fod ganthynt, nid yn annhebyg i Dduw eu Brenhin.—— A pho nesaf at gyffelybrwydd y llywodraeth nefol y delo Tywysog daearol yn ei lywodraethiad, mwyaf bendith trugaredd Duw yw efe i'r wlad a'r bobl y mae efe 'n teyrnasu arnynt: a pho pellaf y gwyro Tywysog daearol oddi wrth gynllun y llywodraeth nefol, mwyaf pla digofaint Duw, a mwyaf cosp cyfiawnder Duw ydyw efe i'r wlad a'r bobl y gosodo Duw, am eu pechodau, y cyfryw Dywysog i lywodraethu arnynt:—— Oblegid yn wir y mae 'n eglur wrth yr Ysgrythyrau a phrofiad beunyddiol fod maentumio pob rhinwedd a duwioldeb, ac o ganlyniad, dedwyddyd a llwyddiant teyrnas a phobl, yn sefyll ac yn gorphwys mwy ar Dywysog doeth a daionus, ar y naill law, nag ar liaws mawr o ddeiliaid; ac, ar y llaw arall, y mae dymchweliad pob rhinwedd a duwioldeb, ac o ganlyniad, adfeiliad a llwyr ddinystr teyrnas a phobl, yn digwydd ac yn tyfu yn fwy trwy Lywodraethwr dibwyll a drygionus, na thrwy lawer mil o ddeiliaid:——

Fel hyn y dywed yr Ysgrythyr Lân; *Gwyn dy fyd di*, medd y Pregethwr, *y wlad sydd a'th frenhin yn fab i bendefigion, a'th dywysogion yn bwytta eu bwyd yn eu hamser, er cryfder, ac nid er meddwdod.*[1]

Drachefn; *Brenhin a deyrnasa mewn cyfiawnder, a fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymmestl, ac megis afonydd dyfroedd mewn tir sychedig.*[2]

Ym mhellach; am Dywysogion dibwyll a drygionus mae'r Ysgrythyr yn llefaru fel hyn; *Gwae di 'r wlad sydd â bachgen yn frenhin i ti, a'th dywysogion yn bwytta 'n fore.*[3]

Drachefn; *Pan fyddo 'r annuwiol yn llywodraethu, y bobl a ochenеidia.*[4]

A thrachefn; *Fel y llew rhuadus a'r arth wangcus, yw llywydd annuwiol i bobl dlodion.*[5]

[1] Preg. 10. 17. [2] Esay 32. 1, 2. [3] Preg. 10. 16. [4] Diar. 28. 15. [5] Diar. 29. 2.

Fel hyn y llefara 'r Ysgrythyrau, ac fel hyn y tystia profiad, am Dywysogion da, ac am Dywysogion drwg.

Pa beth wrth hynny *a wna deiliaid?* Ai ufuddhâu i Dywysogion gwrol, dewrion, doethion, a daionus; a dirmygu, anufuddhâu, a gwrthryfela yn erbyn *bechgyn* a fo 'n Dywysogion iddynt, ac yn erbyn Llywodraethwŷr dibwyll a drygionus? Na atto Duw! Canys yn gyntaf, pa berygl dirfawr fyddai gadael i'r *deiliaid* farnu pa Dywysog sy ddoeth a duwiol, a'i lywodraeth yn dda, a pha Dywysog a llywodraeth nid ydynt felly, fel pe gallai 'r troed farnu 'r pen? Rhyfyg echryslon fyddai hynny, ac nis gall amgen na magu Gwrthryfel.—— Canys pwy sy fwyaf tueddol i Wrthryfel, ond y cyfryw ddynion uchelfryd? Oddi wrth bwy y tardd y cyfryw erchyll ddinystr ar deyrnasoedd? Ai nid y gwaethaf o bob aflwydd yw Gwrthryfel? A phwy sy barottaf i'r drygau mwyaf, ond y dynion gwaethaf? Gwrthryfelwŷr gan hynny, y gwaethaf o bob deiliaid, ydynt barottaf i Wrthryfel, y gwaethaf o bob drygau, a phellaf oddi wrth ddyledswydd deiliaid da: a'r deiliaid goreu yw y rhai sy gadarnaf a dianwadalaf mewn ufudd-dod, gan mai ufudd-dod yw prif a hyspysol rinwedd deiliaid daionus.—— Mor annheilwng o beth ynte fyddai gwneuthur y deiliaid gwaethaf a hyblyccaf i Wrthryfel a phob drygioni, yn farnwŷr ar eu Tywysogion, ar eu llywodraeth, ac ar eu Cynghoriaid, i benderfynu pa rai o honynt sy dda a goddefol, a pha rai o honynt sy ddrwg, ac mor anhawdd eu dioddef ag y rhaid eu symmud ymaith gan Wrthryfelwŷr ag sy bob amser yn barod, megis y deiliaid gwaethaf, i wrthryfela yn gyntaf yn erbyn y Tywysogion goreu, yn enwedig os byddant yn ieuangc mewn oedran, neu yn fenywaid, neu yn llariaidd a chyweithas yn eu llywodraeth; gan obeithio y gallant trwy eu drygionus hyfdra oresgyn eu gwendid a'u hynawsedd hwynt, neu o leiaf y gallant ddychrynu meddyliau y fath Dywysogion, fel y caffont hwy fyned heb gosp am eu gweithredoedd ysgeler.

Ond gan fod Gwrthryfelwŷr yn waeth na 'r Tywysog gwaethaf, a Gwrthryfel yn waeth na llywodraeth waethaf y Tywysog gwaethaf a fu erioed etto; o ganlyniad, y mae Gwrthryfelwŷr yn weinidogion anghyfaddas, a Gwrthryfel yn feddyginiaeth anghymmesur ac afiachus, i ddiwygio rhyw ddiffygion bychain mewn Tywysog, neu i feddyginiaethu rhyw waeleddau bychain mewn llywodraeth, gan fod y cyfryw feddyginiaeth ddrwg yn llawer gwaeth nag un afiechyd neu anhwylder a allo fod yng nghorph y Wladwriaeth.

Ond beth bynnag fo 'r Tywysog, neu ei lywodraeth, mae 'n eglur am y Tywysogion y tybio *rhai* o'u deiliaid eu bod yn dduwiol iawn, ac y bo lawen ganthynt gael byw dan eu llywodraeth, fod rhai *eraill* o'u deiliaid yn eu cyfrif yn ddrygionus ac yn annuwiol, ac am hynny yn ewyllysio

cyfnewidiad ar y llywodraeth. Gan hynny pe byddai pob deiliaid ag sy 'n anfoddlon i'w Tywysog, yn gwrthryfela, ni byddai un deyrnas byth heb Wrthryfel ynddi.

Cymhesurach fyddai i Wrthryfelwŷr wrando ar gyngor y doethion, a rhoi lle i'w barn *hwy*, a chanlyn esampl deiliaid ufuddion; megis y mae 'n rhesymmol i rai y bo gwŷniau mor ddrwg wedi dallu eu deall, roi lle i'r sawl sy ganddynt farn gywir, a bod i'r gwaethaf roi lle i'r goreu: ac felly gallai teyrnasoedd barhâu mewn hir ufudd-dod, tangnefedd, a llonyddwch.

Ond beth os bydd y Tywysog mewn gwirionedd yn ddibwyll a drygionus, a bod yn amlwg hefyd i lygaid pob dyn mai un felly ydyw?

Yr wyf finnau yn gofyn, Beth os o achos drygioni 'r deiliaid y mae 'r Tywysog yn ddibwyll a drygionus? A gaiff y deiliaid, trwy eu drygioni, annog Duw i'w cospi trwy roi iddynt Dywysog dibwyll neu ddrygionus, a chwedi hynny wrthryfela hefyd yn ei erbyn ef ac yn erbyn Duw, yr Hwn i'w cospi am eu pechodau a roes iddynt y cyfryw Dywysog?

A fynnwch chwi glywed yr Ysgrythyr ynghylch y pwngc hwn? Mae Duw, medd yr Ysgrythyr Lân, yn peri i'r annuwiol deyrnasu oblegid pechodau 'r bobl. Hi a ddywed drachefn fod Duw *yn rhoi brenhin* (sef un drwg) *yn ei ddig; ac yn ei ddwyn ef ymaith yn ei lid*,[1] hynny yw yn enwedig pan ddycco ymaith frenhin da am bechodau 'r bobl; fel ag yr ydym ni yn cofio iddo ddwyn oddi arnom ein Josïah daionus, y Brenhin Edward, yn ieuangc ac yn ei flynyddoedd goreu, am ein pechodau ni.

Ac ar y llaw arall fe 'n dysg yr Ysgrythyr fod Duw yn rhoi doethineb i Dywysogion, ac yn gwneuthur i Frenhin doeth a da deyrnasu ar y bobl ag y bo Ef yn eu caru, ac a fo yn ei garu Yntau. Drachefn; Os y bobl a ufuddhânt i Dduw, yna cânt hwy a'u brenhin fod yn llwyddiannus a diogel; *ond os dilynwch ddrygioni*, medd Duw trwy enau Samuel, *chwi a'ch brenhin a ddifethir.*[2]

Yma chwi a welwch fod Duw yn gosod Tywysogion drwg yn gystal a rhai da, ac am ba achos y mae Efe 'n gwneuthur hynny. Os mynnwn ninnau fod i Dywysog da gael ei roi i ni, neu barhâu i deyrnasu arnom, yn awr, gan fod gennym y cyfryw un, poed i ni, trwy ein hufudd-dod i Dduw ac i'n Tywysog, annog Duw i wneuthur hynny i ni.—— Os mynnwn gael tynnu ymaith Dywysog drwg (pan ddanfono Duw y cyfryw un) a chael un da yn ei le, tynnwn ni ymaith ein camweddau, y rhai sy 'n annog Duw i osod y cyfryw un arnom, ac yna naill ai fe a'i tynn Duw ef ymaith, neu ynte Efe a'i gwna ef yn Dywysog da o fod yn

[1] Hos. 13. 11. [2] 1 Sam. 12. 14.

un drwg, os bydd i ni yn gyntaf gyfnewid ein drygioni yn ddaioni.——— Canys a fynnwch chwi glywed yr Ysgrythyr? *Y mae calon y brenhin yn llaw 'r Arglwydd; efe a'i try hi lle y mynno:*[1] felly y dywed yr Ysgrythyr. Am hynny trown ni oddi wrth ein pechodau at yr Arglwydd â'n holl galon, ac yntau a dry galon y Tywysog i'n llonyddwch a'n llwyddiant ninnau:———

Os amgen, nid yw ond drygioni dauddyblyg a thridyblyg i ddeiliaid am eu pechodau haeddu cael Tywysog drwg, a chwedi hynny gwrthryfela yn ei erbyn ef, gan annog Duw i'w cospi 'n fwy:———

Nag ê, naill ai haeddwn gael Tywysog da, neu ynte dïoddefwn mewn ufudd-dod amyneddgar y cyfryw un ag a haeddasom.

A pha un bynnag ai da ai drwg fyddo 'r Tywysog, moeswch i ni, yn ol cyngor yr Ysgrythyr Lân, weddïo drosto, ar barhau a chynnyddu o hono mewn daioni, os bydd efe yn un da; ac ar fod iddo wellhâu, os bydd efe yn un drwg.

A fynnwch chwi glywed yr Ysgrythyrau ynghylch y pwngc angenrheidiol yma?

*Cynghori yr ydwyf am hynny ymlaen pob peth,* ebe St. Paul, *fod ymbiliau, deisyfiadau, a thalu dïolch, dros bob dyn;*

*Dros frenhinoedd, a phawb sy mewn goruchafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol mewn pob duwioldeb ac onestrwydd.*

*Canys hyn sy dda a chymmeradwy ger bron Duw ein Ceidwad.*[2]

Dyma gyngor St. Paul. A phwy, attolwg, oedd Dywysog ar y rhan fwyaf o Gristionogion, pan roes Glân Yspryd Duw yr addysg hon iddynt trwy ysgrifell St. Paul? Yn wir Caligula, Claudius, neu Nero; y rhai nid yn unig oeddynt heb fod yn Gristionogion, ond oeddynt yn Baganiaid, ac oeddynt hefyd naill ai yn Llywiawdwŷr ynfyd neu yn ormeswŷr o'r creulonaf.

A fynnwch chwi hefyd glywed gair Duw wrth yr Iuddewon, pan oeddynt yn garcharorion dan Nebuchodonosor brenhin Babilon, yr hwn a laddasai eu Brenhin, eu Pendefigion, eu rhïeni, eu plant, a'u ceraint, ac a losgasai eu gwlad a'u dinasoedd, ïe, Jerusalem ei hun, a'r Deml sanctaidd, ac a ddygasai y gweddill o honynt, y rhai oedd heb eu lladd, yn gaethion gyd âg ef i Babilon? A fynnwch chwi glywed, meddaf, beth a ddywed y Prophwyd Baruch wrth bobl Dduw, pan oeddynt yn y caethiwed hwn?———

*Gweddïwch,* ebe 'r Prophwyd, *dros hoedl Nebuchodonosor brenhin Babilon, a thros hoedl Balthasar ei fab ef, ar fod eu dyddiau hwynt ar y ddaear fel dyddiau 'r nefoedd.*

[1] Diar. 21. 1. [2] 1 Tim. 2. 1—3.

*Ac ar roddi o'r Arglwydd i ni nerth, a goleuo o hono ef ein llygaid ni, fel y byddom ni byw dan gysgod Nebuchodonosor brenhin Babilon, a than gysgod Balthasar ei fab ef, ac y gwasanaethom hwy lawer o ddyddiau, ac y caffom ffafr yn eu golwg hwynt.*

*Gweddiwch hefyd drosom ni at yr Arglwydd ein Duw; o herwydd ni a bechasom yn erbyn yr Arglwydd ein Duw.*[1]

Dyna eiriau y Prophwyd Baruch, y rhai a lefarwyd gantho wrth bobl Dduw, ynghylch y brenhin hwnnw ag a oedd yn Bagan ac yn ormeswr, a chwedi eu gorthrymu hwy 'n greulon, a llofruddio miloedd o'u cenedl, a dinystrio eu gwlad; ac y mae 'r Prophwyd yn cyfaddef mai eu pechodau hwy oedd wedi haeddu iddynt gael y fath Dywysog i deyrnasu arnynt.

Ac a gaiff y prif Gristionogion, wrth gyngor St. Paul, weddïo dros Caligula, Claudius, neu Nero? A gaiff yr Iuddewon weddïo dros Nebuchodonosor? Ac yr oedd yr Ymherawdwŷr a'r Brenhinoedd hyn yn ddïeithriaid iddynt, yn Baganiaid ac Anffyddlonion, yn llofruddwŷr, yn ormeswŷr, ac yn orthrymmwŷr creulon arnynt, yn ddinystrwŷr eu gwlad, eu cydwladwŷr, a'u ceraint, yn llosgwŷr eu pentrefydd, eu trefydd, eu dinasoedd, a'u temlau? ac oni weddïwn *ni* am hir a llwyddiannus a duwiol deyrnasiad ein Tywysog *naturiol*, ac nid *dïeithr*, (yr hyn a gyfrifir yn yr Ysgrythyrau yn fendith fawr) ein Penllywydd Cristionogol a grasusol, ac nid Tywysog Paganaidd? oni weddïwn *ni* am lwyddiant ac iechyd ein trugaroccaf a'n cariadusaf Bennaeth, yr hon sydd yn ein cadw ni a'n gwlad mor hir mewn heddwch, llonyddwch, a dïogelwch; ac nid Brenhines greulon yn ein gormesu, yn anrheithio ein heiddo, yn tywallt ein gwaed, yn llosgi ac yn distrywio ein trefydd, ein dinasoedd, a'n gwledydd, fel yr oedd y rhai hynny, dros y rhai er hynny, fel y clywsoch, yr oedd yn ddyledswydd ar eu deiliaid Cristionogol weddïo?

Na ddangoswn gymmaint o annïolchgarwch tu ag at Dduw a'n Pennadur a bod o honom heb ddïolch i Dduw yn wastadol am y llywodraeth hon, ac am ei fawrion a'i barhâus ddoniau Ef ag yr ydys yn eu tywallt arnom trwy 'r cyfryw lywodraeth.—— Na wnawn gymmaint pechod yn erbyn Duw, yn ein herbyn ein hunain, ac yn erbyn ein gwlad, a bod o honom heb weddïo Duw yn wastad ar hir barhâu o'r cyfryw rasol Benllywydd i ni a'n gwlad. Ac onid ê, ni a fyddwn yn annheilwng i fwynhâu yn hwy y doniau a'r bendithion dwyfol ag ydym hyd yn hyn wedi eu cael trwy ein Brenhines; ac ni a haeddwn gwympo i'r holl aflwydd a'r blinderau ag yr ydym ni a'n gwlad, trwy ras Duw, wedi dïangc rhagddynt trwy ei llywodraeth hi.

[1] Baruch 1. 11—13.

Beth a ddywedwn ni am y deiliaid hynny, os gellir eu *galw* yn ddeiliaid, y rhai nid ydynt nac yn dïolch, nac yn gweddïo un gronyn ar Dduw, dros Bennadur mor rasusol; ond ydynt yn cymmeryd arfau yn ddrygionus, yn cynnull torfeydd a byddinoedd o Wrthryfelwŷr i dorri 'r heddwch cyhoedd ag sy wedi parhâu cyhyd, ac nid i ryfela, ond i wrthryfela, i beryglu person Pennadur mor rasusol, i beryglu cyflwr eu gwlad, (y rhai y dylent fod yn barod i roi eu bywyd i'w hamddiffyn) ac a hwy yn Frutaniaid, i yspeilio, dinystrio, a llosgi Brutaniaid ym Mrydain, i ladd ac i lofruddio eu cymmydogion a'u ceraint, eu cydwladwŷr eu hunain, ac i wneuthur mwy o ddrygau nag a allai gelyn estronol eu gwneuthur?—— Beth a ddywedwn ni am y dynion hyn, y rhai sy 'n ymddwyn mor wrthryfelgar yn erbyn eu grasusol Bennadur, y rhai, pe rhoisai Duw iddynt am eu drygioni ormeswr Paganaidd i deyrnasu arnynt, a fuasent er hynny yn rhwym wrth air Duw i ufuddhâu iddo ac i weddïo drosto?—— Beth a ellir ei ddywedyd am danynt? Mae eu hangharedigrwydd a'u hannaturiolder, eu hanwiredd a'u drygioni, yn fwy ac yn uwch na dim a aller ei adrodd na 'i draethu mewn geiriau!——

Yn unig dymunwn yr edifeirwch prysuraf i bawb o'r cyfryw, gyd â'r fath ddwys dristyd calon ag y mae 'r fath bechodau ofnadwy yn erbyn mawrhydi Duw yn ei ofyn, y rhai o wir ddygn annïolchgarwch sy 'n codi nid yn unig yn erbyn eu Tywysog grasusol ac yn erbyn gwlad eu genedigaeth, ond hefyd yn erbyn holl wŷr a gwragedd a phlant eu gwlad, yn eu herbyn eu hunain, eu gwragedd, a'u plant, a'u ceraint; ac yn erbyn holl wledydd Cred, ac yn erbyn pob math o ddynolryw trwy 'r holl fyd i gyd, trwy roi iddynt esampl mor ddrwg—— y cyfryw edifeirwch, meddaf, a chyfryw dristyd calon, ag sy weddus i'r cyfryw aflwydd ag a amcanasant ac a gyflawnasant hwy, caniattaed Duw i bob cyfryw rai, pwy bynnag ydynt, ag sy 'n ymgyfodi ar feddwl ac amcan drygionus.

Ac i ninnau ac i bob deiliaid eraill, Duw a ganiattâo o'i drugaredd fod o honom yn hollol anghyffelyb i'r cyfryw rai, ac yn hollol gyffelyb i ddeiliaid da, hynaws, cariadus, ac ufuddion; ïe, fod o honom nid yn unig yn gyffelyb i'r cyfryw rai, ond yn gyfryw rai ein hunain, ac nid yn unig ddangos o honom bob ufudd-dod ein hunain, ond hefyd, cynnifer o honom ag sydd abl, hyd eithaf ein gallu a'n nerth a'n deall, attal a darostwng pob Gwrthryfelwŷr a Gwrthryfeloedd yn erbyn Duw, ein grasusol Dywysog, a gwlad ein genedigaeth, ar bob achlysur a gynhygier i ni.—— Ac oni 's gwnawn y cwbl oll ag a allom ei wneuthur, ni a fyddwn yn ddynion o'r fath annuwiolaf, ac yn deilyngaf i deimlo yn y diwedd y cyfryw ddygn bläau ag y mae Duw bob amser wedi eu tywallt ar Wrthryfelwŷr.

Gwnawn oll weddïau gwastadol ar yr Hollalluog Dduw o eigion ein calonnau, ar roi o hono ei ras, ei allu, a'i nerth, i'n grasol Frenhines Elizabeth i oresgyn a darostwng pob Gwrthryfelwŷr cartrefol a phob gelynion tramor, fel, gwedi gorchfygu a llonyddu pob Gwrthryfel cartrefol, a rhwystro a darostwng pob ymgyrch estronol, y gallom ni, nid yn unig fod yn ddïogel, a hir barhâu ym mhob ufudd-dod i'n grasusol Frenhines, ac yn y fuchedd heddychol a thangnefeddol a fwynhasom hyd yn hyn o dan ei Mawrhydi mewn pob dïogelwch; ond hefyd fel y gallo ein grasusol Frenhines Elizabeth, a ninnau ei deiliaid hi, oll ynghyd mewn pob ufudd-dod i Dduw, Brenhin yr holl frenhinoedd, fyw felly yn y byd hwn mewn pob rhinwedd a duwiolder, fel y gallom yn y byd a ddaw gael mwynhâu ei deyrnas dragywyddol: yr hyn mi a attolygaf i Dduw ei ganiattâu i'n grasol Frenhines ac i ninnau oll er mwyn ei Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist: I'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, Un Duw a Brenhin Anfarwol, y byddo 'r holl ogoniant, y clod, a'r dïolch byth heb ddiwedd. Amen.

*Fel hyn chwi a glywsoch y rhan gyntaf o'r Homili hon.*

*Yn awr, bobl dda, gweddïwn.*

## Y WEDDI.

O ALLUOCCAF Dduw, Arglwydd yr Arglwyddi, Llywodraethwr pob creadur, unig Roddwr pob buddugoliaeth, yr Hwn yn unig a elli gyfnerthu 'r gwan yn erbyn y galluog, a gorthrechu llïaws aneirif o'th gaseion âg wyneb ychydig o'th weision a fyddo 'n galw ar dy Enw ac yn ymddiried ynot; Amddiffyn, O Arglwydd, dy Wasanaethyddes, ein Llywydd danat Ti, ein Brenhines Elizabeth, a'th holl bobl a orchymynwyd i'w gofal hi. Gwrthladd, O Arglwydd, greulonder pawb ag sy 'n elynion i wirionedd dy dragywyddol Air, ac i'w naturiol Dywysog a'u gwlad eu hunain, ac i goron a theyrnas Loegr, yr hon yr wyt Ti yn dy ddwyfol Ragluniaeth wedi ei hymddiried yn ein dyddiau ni i reolaeth dy wasanaethyddes, ein grasusol Frenhines a'n Penllywydd. O drugaroccaf Dad, os yw yn ol dy sanctaidd Ewyllys Di, meddalhâ a thynera galonnau carregog pawb a'r y sydd yn ymddyrchafu yn erbyn dy Wirionedd Di, ac yn ceisio trallodi llonyddwch y deyrnas hon o Loegr, neu orthrymmu ei choron hi; a thro hwynt i wybodaeth o'th Fab, Unig Iachawdwr y byd, Iesu Grist, fel y gallom ni a hwythau ynghyd ogoneddu dy drugareddau. Goleua, ni a attolygwn i ti, eu calonnau anwybodus hwy i gofleidio gwirionedd dy Air; neu ynte lleihâ eu creulondeb, O Alluoccaf Arglwydd, fel y gallo ein gwlad

Gristionogol hon, a gwledydd eraill ag sydd yn cyffesu dy Lân Efengyl, gaffael, trwy dy nerth a'th gynhorthwy Di, ddiogelwch rhag pob gelynion, heb dywallt gwaed Cristionogion, fel yr esmwythâer ar bawb sy 'n cael eu gorthrymmu gan eu gormes hwy, ac y diddaner pawb ag sydd yn ofni eu creulondeb; ac yn ddiweddaf, fel y gallo pob teyrnas Gristionogol, ac yn enwedig y deyrnas hon o Loegr, drwy dy amddiffyniad a'th nodded Di, barhâu yngwirionedd yr Efengyl, a mwynhâu perffaith dangnefedd, llonyddwch a diogelwch; ac fel y gallom ninnau am dy drugareddau hyn, oll yn gyttûn âg un llais, ac âg un galon, dalu i Ti bob clod a moliant mewn diolchgarwch; fel y byddo i ni, wedi ein cydgyssylltu mewn undeb duwiol yn ein plith ein hunain, fawrygu yn wastadol dy Ogoneddus Enw Di, yr Hwn, gyd â'th Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, a'r Ysprydd Glân, ydwyt yn Un Hollalluog, Tragywyddol, a Thrugaroccaf Dduw: i'r Hwn y byddo 'r holl glod a'r moliant byth ac yn oes oesoedd. Amen.

YR AIL RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

MEGIS y darfu i mi yn y rhan gyntaf o'r Traethawd hwn ynghylch ufudd-dod deiliaid i'w Tywysogion, ac yn erbyn anufudd-dod a gwrthryfel, adrodd i chwi amryw leoedd allan o'r Ysgrythyr Lân i brofi hynny; felly fe fydd yn dda, er dangos a chadarnhâu 'r athrawiaeth iachus hon yn well, adrodd allan o'r unrhyw Ysgrythyr Lân esampl neu ddwy o ufudd-dod deiliaid, nid yn unig i'w Llywodraethwŷr daionus a graslon, ond hefyd i'w Tywsogion drwg ac anghyweithas.

Er nad oedd y brenhin Saul yn un o'r fath oreu, ond o'r fath waethaf o Dywysogion, gan ei fod allan o ffafr Duw am ei anufudd-dod yn erbyn Duw, yn arbed y brenhin Agag trwy gam-dosturi, yr hwn y gorchymynasai 'r Hollalluog Dduw ei ladd, yn ol cyfiawnder Duw yn erbyn ei elyn tynghedig; ac er bod Saul, o ddefosiwn, ar fedr aberthu er anrhydedd a gwasanaeth i Dduw y cyfryw bethau ag a arbedasai efe o eiddo 'r Amaleciaid; etto ceryddwyd Saul am ei gam-drugaredd a'i gamddefosiwn, a dywedpwyd wrtho y buasai ufudd-dod yn rhyngu bodd i Dduw yn fwy na 'r cyfryw dynerwch: ac y mae 'r cyfryw diriondeb

pechadurus, ebe St. Chrysostom, yn greulonach ger bron Duw, nag ydyw lladd a thywallt gwaed, pan fo Duw 'n gorchymyn hynny:——

Ond etto, er cynddrwg oedd y brenhin Saul, ac er cymmaint ydoedd allan o ffafr Duw, er hynny ufuddheid iddo gan ei ddeiliad Dafydd, y goreu o'i holl ddeiliaid, a'r mwyaf dewrwych yngwasanaeth ei Dywysog a'i wlad yn y rhyfeloedd, a'r ufuddaf, a'r cariadusaf mewn amser heddwch, a'r cywiraf a'r ffyddlonaf bob amser i'w arglwydd frenhin, a'r pellaf oddi wrth bob math o wrthryfel:——

Am yr hwn wasanaeth llafurus, cywir, a ffyddlon, fe 'i gwobrwyodd y brenhin Saul ef er hynny nid yn unig âg angharedigrwydd mawr, ond efe a geisiodd hefyd ei ddistrywio a'i ladd ef ym mhob modd ag a allai, nes y byddai Dafydd yn gorfod achub ei einioes, nid trwy wrthryfel na gwrthwynebiad, ond trwy ffoi ac ymguddio o ŵydd y brenhin:——

Ond er hyn i gyd, pan ddaeth y brenhin Saul ryw amser, ei hunan, i'r ogof lle 'r oedd Dafydd, lle y gallasai Dafydd yn hawdd ei ladd ef, etto ni fynnai ei hun ei niweidio, ac ni oddefai i neb o'i wŷr osod dwylaw arno.—— Ar amser arall hefyd fe aeth Dafydd i mewn liw nos gyd âg Abisai, gwr dewr a ffyrnig, i'r babell lle 'r oedd y brenhin Saul yn gorwedd ac yn cysgu, lle y gallasai efe yn haws fyth ei ladd ef: etto ni fynnai ei hun wneuthur niweid iddo, na goddef i Abisai, yr hwn oedd ewyllysgar a pharod i ladd y brenhin Saul, unwaith gyffwrdd âg ef.

Fel hyn yr ymddygodd Dafydd at ei Dywysog Saul, er fod Saul yn wastad yn ceisio ei ladd a'i ddifetha ef.

Ni bydd anghymmesur, wedi son am weithredoedd Dafydd, adrodd ei *eiriau* ef hefyd, a dangos i chwi pa beth a ddywedodd efe wrth y rhai a'u hannogent i gymmeryd ei fantais a'i gyfle i ladd y brenhin Saul, ei elyn marwol, pan allai:——

*Na atto 'r Arglwydd,* ebe Dafydd, *i mi wneuthur y peth hyn i'm meistr, Enneiniog yr Arglwydd, i estyn fy llaw yn ei erbyn ef, oblegid Enneiniog yr Arglwydd yw efe:—— canys pwy a estynai ei law yn erbyn Enneiniog yr Arglwydd, ac a fyddai ddieuog? Fel y mae 'r Arglwydd yn fyw, naill ai 'r Arglwydd a'i tery ef, ai ei ddydd ef a ddaw i farw, ai efe a ddisgyn i'r rhyfel, ac a ddifethir. Yr Arglwydd a'm cadwo i rhag estyn fy llaw yn erbyn Enneiniog yr Arglwydd.*[1]

Dyma eiriau Dafydd, a lefarwyd gantho ar wahanol amserau wrth amryw o'i weision a'i hannogent ef i ladd Saul frenhin, pan oedd amser a chyfle yn gwasanaethu iddo i wneuthur hynny.

Ac nid ydym i adael heibio ychwaith, pa fodd, ar ol i ryw Amaleciad ladd Saul frenhin, a hynny ar archiad a gorchymyn Saul ei hun, (am

[1] 1 Sam. 24. 6. a 26. 9—11.

na 's mynnai efe fyw yn hwy, gan iddo golli 'r dydd yn erbyn ei elynion y Philistiaid) y darfu i'r Amaleciad hwnnw wneuthur ffrwst mawr i ddwyn y gair a'r newydd cyntaf o hynny i Ddafydd, fel pe buasai lawen chwedl gantho farwolaeth ei elyn marwol; a dwyn gyd âg ef y goron oedd am ben Saul frenhin, a'r freichled oedd am ei fraich ef, fel prawf o wirionedd ei newydd, ac hefyd megis anrhegion addas a hyfryd i Ddafydd, gan i Dduw ei osod i fod yn olynydd i Saul yn y deyrnas:—— Etto cyn belled oedd Dafydd ffyddlon a duwiol oddi wrth fod yn llawen gantho y newydd hwn, fel ag y rhwygodd ei ddillad, yr wylodd, y galarnadodd, ac yr ymprydiodd: a chyn belled oedd efe oddi wrth roi diolch i'r gennad am ei waith yn lladd y brenhin, neu am ei neges a'i gennadwri, neu am yr anrhegion a ddygasai, ag y dywedodd efe wrtho, *Pa fodd nad ofnaist ti estyn dy law i ddifetha enneiniog yr Arglwydd?* Ac ar hyn, allan o law, efe a orchymynodd i un o'i weision ladd y gennad, ac a ddywedodd, *Bydded dy waed di ar dy ben dy hun; canys dy enau dy hun a dystiolaethodd yn dy erbyn, gan ddywedyd, Myfi a leddais enneiniog yr Arglwydd.*[1]

Mae 'r esampl hon, fy ngharedigion, yn odidog, a dylid ystyried ei gogylcheddau hi 'n dda, er mwyn addysgu 'n well bob deiliaid yn eu rhwymedig ddyledswydd o ufudd-dod, ac i'w rhoi mewn ofn gwastadol rhag cynnyg dim gwrthryfel na niweid yn erbyn eu Tywysog:—— Canys, *yn gyntaf*, yr oedd Dafydd nid yn unig yn ddeiliad da a chywir, ond hefyd yn gyfryw ddeiliad ag oedd wedi gwasanaethu ei Dywysog mewn heddwch a rhyfel, ac achub ei anrhydedd a'i fywyd ef, a gwared ei wlad a'i gydwladwŷr oddi wrth fawr berygl gelynion anghrediniol, tramor, a chreulon, y rhai a oresgynasent yn arswydus ei frenhin a'i wlad: am yr hyn yr oedd Dafydd mewn ffafr fawr gyd â'r holl bobl, fel y gallasai gael lliaws mawr o honynt wrth ei orchymyn, ped ewyllysiasai wneuthur dim yn erbyn ei frenhin.—— *Heblaw hyn;* nid deiliad cyffredin oedd Dafydd, ond yr etifedd cyfnesaf i'r goron a'r deyrnas, gan i Dduw ordeinio iddo deyrnasu ar ol Saul; yr hyn oedd yn cynnyddu ffafr y bobl a wyddai hynny at Dafydd, ac yn gwneuthur achos Dafydd yn dra gwahanol i achos deiliaid cyffredin.—— *A'r hyn sy fwyaf o'r cwbl*, yr oedd Dafydd yn uchel iawn yn ffafr Duw; a Saul, am yr achos a grybwyllwyd, *allan* o ffafr Duw, ac yn elyn iddo; ac am hynny 'n debyg o fod, mewn rhyfel a heddwch, yn niweidiol i'r wladwriaeth: a gwyddai llawer o'i ddeiliaid hynny, canys ceryddwyd ef yn gyhoeddus gan Samuel am ei anufudd-dod i Dduw, yr hyn a allasai beri i'r bobl wneuthur llai o fri a chyfrif o hono.—— *Ym mhellach*,

[1] 2 Sam. 1. 14, 16.

yr oedd Saul frenhin yn elyn marwol i Ddafydd, er na 's haeddasai Dafydd hynny, yr hwn trwy ei wasanaeth ffyddlon, llafurus, buddiol, ac angenrheidiol, a haeddasai 'n dda ar law ei wlad a'i Dywysog; ac yr oedd Saul frenhin wedi haeddu 'r gwrthwyneb; ac am hynny gwaeth a ffieiddiach oedd ei angharedigrwydd, ei gasineb, a'i greulonder tu ag at ddeiliad cystal:——

Etto ni fynnai Dafydd ladd na drygu 'r cyfryw elyn ei hun, am mai ei Dywysog a'i arglwydd ydoedd; ac ni oddefai i neb arall ei ladd, ei niweidio, na rhoi dwylaw arno, pan allesid ei ladd heb na chynnwrf, na therfysg, na pherygl am einioes un dyn.

Bellach attebed Dafydd i'r cyfryw ymofynion ag y mae dynion chwannog i wrthryfel yn arfer eu gwneuthur:——

"Oni chawn ni, a ninnau 'n gystal gwŷr ac ydym, gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn Tywysog sy 'n gas gan Dduw, ac yn elyn i Dduw, ac am hynny yn annhebyg o lwyddo mewn na rhyfel na heddwch, ond yn debyg o fod yn niweidiol ac yn ddinystriol i'r wladwriaeth?" —— "Na chewch," ebe Dafydd dda a duwiol, a deiliad ffyddlon i Dduw ac i'r cyfryw frenhin; gan brofi nad yw 'r cyfryw ddeiliaid ag a gynhygiont ddim gwrthryfel yn erbyn y cyfryw frenhin, ddim yn *ddeiliaid* da nac yn *ddynion* da.

"Ond ai ni chawn ni" meddant, "gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn Tywysog mor anhynaws, yr hwn nid yw 'n ystyried nac yn prisio dim ar ein gwasanaeth cywir, ffyddlon, a llafurus, na diogelwch ein hiliogaeth?"—— "Na chewch," ebe Dafydd ddaionus, yr hwn ni 's gallai dim o'r fath anhynawsedd beri iddo ymadael â'i ddyledus ufudd-dod i'w frenhin.

"Ond ai ni chawn ni," meddant, "gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn yr hwn y gwyddys ei fod yn elyn angheuol i ni, ac yn ceisio ein heinioes?"—— "Na chewch," ebe Dafydd dduwiol, yr hwn a ddysgasai 'r addysg a roes ein Hiachawdwr yn eglur ar ol hynny, sef na bo i ni niweidio dim ar ein *cyd-ddeiliaid*, er iddynt ein casâu a bod yn elynol i ni; a llai o lawer y dylem niweidio ein *Tywysog*, er iddo fod yn elyn i ni.

"Oni chawn ni gasglu byddin o ddynion da fel ni ein hunain, a pheryglu ein heinioes ein hunain ac einioes y rhai a'n gwrthsafont, a pheryglu holl ystâd ein gwladwriaeth, er mwyn symmud ymaith Dywysog cynddrwg?"—— "Na chewch," ebe Dafydd dduwiol; "canys pan allaswn i, heb gasglu byddin na llïaws o wŷr, heb derfysg, heb berygl i einioes neb, ac heb dywallt dafn o waed, fy ngwaredu fy hun a'm gwlad oddi wrth Dywysog drwg, etto ni 's mynnwn wneuthur hynny."

"Onid ydynt hwy," medd rhai, "yn gapteiniaid gwrol a dewrion, ag sydd yn anturio, trwy nerth arfau, ladd neu ddïorseddu eu brenhin,

ac yntau 'n Dywysog drygionus, ac yn elyn marwol iddynt?"—— "Hwy a allant fod mor wrol a dewr ag y mynnont, etto," medd Dafydd dduwiol, "nis gall y rhai a wnelont hynny fod yn ddynion da nac yn ddynion duwiol: oblegid myfi nid yn unig a geryddais, ond hefyd a orchymynais ladd y dyn drygionus a laddodd Saul fy ngelyn, er iddo erfyn ar y dyn hwnnw ei ladd, gan ei fod wedi blino ar ei fywyd am golli 'r oruchafiaeth ar ei elynion."

"Beth ynte a wnawn ni i Dywysog drwg ac anhynaws, ag a fyddo 'n elyn i ni, yn gas gan Dduw, ac yn niweidiol i'r wladwriaeth?"—— "Na roddwch ddwylaw arno i'w ladd," ebe Dafydd ddaionus, "ond gadewch iddo fyw hyd oni bo i Dduw ordeinio a gweithio ei ddiwedd ef, naill ai trwy angau naturiol, neu mewn rhyfel trwy elynion cyfreithlon, *nid* trwy ddeiliaid bradwrus."

Fel hyn yr attebai Dafydd dduwiol. Ac y mae St. Paul, fel y clywsoch o'r blaen, yn ewyllysio i ni weddïo dros y cyfryw Dywysog.

Os gwnai Dafydd frenhin yr attebion hyn, y rhai mewn gwirionedd y mae efe, trwy ei eiriau a'i weithredoedd a goffeir yn yr Ysgrythyr Lân, yn eu gwneuthur i bob cyfryw ymofynion ynghylch gwrthryfela yn erbyn Tywysogion drwg, Tywysogion angharedig, Tywysogion creulon, Tywysogion a fo 'n elynion marwol i'w deiliaid da, Tywysogion a fo allan o ffafr Duw, ac felly yn niweidiol, neu yn debyg o fod yn niweidiol, i'r wladwriaeth,—— pa atteb, debygech chwi, a wnai efe i'r sawl a ofynant a allant hwy (a hwythau 'n ddeiliaid drwg ac anhynaws) i fawr berygl bywyd llawer o filoedd, a hollol enbydrwydd ystâd y wladwriaeth a'r holl deyrnas, gasglu bagad o wrthryfelwŷr i ddychrynu, i ddïorseddu, neu i ladd eu Tywysoges naturiol a charedig, yr hon nid yw elyn i neb, ond yn dda i bawb, hyd yn nod iddynt *hwy*, y rhai gwaethaf o bawb; yr hon sy 'n maentumio heddwch a llonyddwch a dïogelwch gwastadol; yr hon sy 'n fwyaf buddiol i'r wladwriaeth, ac yn fwyaf angenrheidiol i ddïogelwch yr holl deyrnas?—— pa atteb a wnai Dafydd i'r rhai a ofynant, ai ni allant yn greulon ac yn annaturiol geisio distrywio Tywysoges mor dangnefeddus a thrugarog?—— pa beth, meddaf, a attebai Dafydd, yr hwn a siaradai mor barchus am Saul, ac a ddioddefai mor amyneddgar frenhin mor ddrygionus, pa beth a ddywedai ac a attebai efe i'r cyfryw ymofynion?—— pa beth a ddywedai, ïe, pa beth a *wnai* efe i'r cyfryw rai, yr hwn, fel y clywsoch, a ddywedodd ac a wnaeth felly i'r hwn a laddodd y brenhin ei feistr, er ei fod yn Dywysog drygionus anial?—— Os cospodd efe y cyfryw ddyn âg angau megis drwgweithredwr, â pha waradwydd geiriau y difrïai efe, ïe, â pha arteithiau y marwolaethau mwyaf cywilyddus y dinystriai efe y cyfryw uffern-gwn (yn hytrach na drwg ddynion) sef y cyfryw wrthryfelwŷr

ag y soniais am danynt ddiweddaf?—— Oblegid os yw y rhai sy 'n anufudd i Dywysog drwg ac anhynaws, yn hollol annhebyg i Ddafydd, y deiliad da hwnnw; beth ydynt *hwy*, y rhai sydd yn gwrthryfelu yn erbyn Tywysog naturiol a chariadus?—— Ac os oedd Dafydd, yr hwn oedd gystal deiliad ag ufuddhâu i gynddrwg brenhin, yn deilwng i gael ei wneuthur yn frenhin ei hun o fod yn ddeiliad; beth y maent *hwy*, y rhai sy ddeiliaid mor ddrwg ag y gwrthryfelant yn erbyn eu Tywysog grasusol, yn deilwng o'i gael?

Yn wir ni all un dyn daearol draethu ar eiriau, nac amgyffred mewn meddwl, y ddamnedigaeth erchyll ac ofnadwy ag y maent hwy yn ei haeddu, y rhai, wrth ddïystyru bod yn ddeiliaid heddychol a dedwydd i'w Tywysog da, ydynt yn deilyngaf o fod yn gaethion truenus ac yn gaeth-weision dirmygedig i'r Gormeswr uffernol Satan, ac i ddïoddef gyd âg ef gaethiwed ac arteithiau tragywyddol.

Digon yw'r un esampl hon am y deiliad daionus Dafydd allan o'r Hen Destament; ac oblegid ei hynodrwydd, hi a gaiff wasanaethu yn lle 'r cwbl.

Yn y Testament Newydd, esampl odidog y Wynfydedig Forwyn Fair, Mam ein Hiachawdwr Crist, sydd yn ymgynnyg i ni gyntaf:——

Pan anfonwyd cyhoeddiad neu orchymyn i Judea oddi wrth Augustus Ymherawdwr Rhufain, ar fod i'r bobl yno fyned i'w dinasoedd a'u cyfanneddau eu hunain i gael eu trethu; etto 'r Wynfydedig Forwyn, er ei bod yn uchel yn ffafr Duw, ac er ei bod hi o waed hen frenhinoedd naturiol Judea, ni ddïystyrodd ufuddhâu i orchymyn Tywysog Paganaidd ac estronol, gwedi darfod i Dduw osod y cyfryw un arnynt;—— ac nid ymesgusododd am ei bod yn feichiog, a'i thymp i esgor yn agos;—— ac ni thuchanodd oblegid cyhyd a meithed y daith o Nazareth i Bethlehem, lle 'r oedd raid iddi fyned i'w threthu;—— ac ni rwgnachodd o herwydd llymdosted yr amser, sef trymder y gauaf, yn niwedd mis Rhagfyr; amser anghymmesur iawn i ymdeithio (yn enwedig ar daith hir) i wraig yn ei chyflwr hi: ond hi a roes heibio bob esgusion, ac a ufuddhaodd, ac a ddaeth i'r lle appwyntiedig; a phan gyrhaeddodd yno, hi a gafodd gymmaint cyrchfa a chynnulliad pobl, fel, wedi methu cael lle mewn un lletty, y gorfu arni, ar ol ei thaith flin a phoenus, lettya mewn ystabl; lle hefyd yr esgorodd hi ar ei Phlentyn Bendigaid; yr hyn sy 'n dangos mor agos oedd ei thymp i esgor pan gymmerth hi y daith honno.

Mae 'r ufudd-dod yma a ddangosodd y Bendefigaidd Arglwyddes rinweddol hon i Dywysog Paganaidd ac estronol, yn ein dysgu ni, y rhai nid ydym wrthi hi ond gwael a salw, pa ufudd-dod parod sy ddyledus arnom i'n Pennadur naturiol a grasusol.

Ië, yn hyn o beth, y mae ufudd-dod yr holl genedl Iuddewig (y rhai, ond yn hyn, oeddynt bobl war-galed) i orchymyn yr un Tywysog Paganaidd ac estronol, yn profi fod y cyfryw Gristionogion ag nad ydynt yn ufuddhâu 'n llawen i'w Pennadur naturiol a grasusol, yn llawer gwaeth nag oedd yr Iuddewon ystyfnig, y rhai yr ydym ni, er hynny, yn eu cyfrif yn waethaf pobl yn y byd.

Ond ni ddylai un esampl fod yn fwy effeithiol gyd â ni Gristionogion, nag esampl Crist, ein Meistr a'n Hiachawdwr, yr Hwn, er ei fod yn Fab Duw, a ymddygodd bob amser yn barchusaf tu ag at y cyfryw ddynion ag oedd mewn awdurdod yn y byd yn ei amser ef: nid ymddygodd Efe yn wrthryfelgar, ond Efe a ddysgodd yr Iuddewon ar gyhoedd i dalu teyrnged i Ymherawdwr Rhufain, er ei fod yn Dywysog estronol a Phaganaidd; ïe, talodd Efe ei Hun a'i Apostolion deyrnged iddo: ac yn ddiweddaf, pan ddygpwyd Ef ger bron Pontius Pilat, estron o genedl, a chenedl-ddyn, Rhaglaw Judea, Efe a gydnabyddodd mai gan Dduw yr oedd ei awdurdod a'i allu ef wedi eu rhoddi iddo, ac a ddioddefodd yn amyneddgar ddedryd y farwolaeth fwyaf poenus a gwaradwyddus, yr hon a gyhoeddodd y barnwr hwnw yn anghyfiawn yn ei erbyn Ef, heb unwaith na grwgnach, na murmur, na rhoi un gair drwg.

Mae llawer o esamplau eraill o ufudd-dod i Dywysogion drwg yn y Testament Newydd, er llwyr waradwydd i bobl anufuddion a gwrthryfelgar: ond fe all yr un esampl hon fod yn esampl dragywyddol, yr hon y mae Mab Duw, Arglwydd pawb oll, Iesu Grist, wedi ei rhoi i ni Gristionogion a'i weision, i'n dysgu i ufuddhâu i Dywysogion, er eu bod yn estroniaid, yn ddrygionus, ac yn anghyfiawn, pan osodo Duw 'r cyfryw arnom am ein pechodau.

O hyn y mae 'n dilyn yn anocheladwy, am y cyfryw ag sy 'n anufuddhâu i'w Tywysogion naturiol a grasusol eu hunain, pa fodd bynnag y galwont eu hunain, neu y galwer hwy gan eraill, nad ydynt wir Gristionogion, ond eu bod yn waeth nag Iuddewon, yn waeth na Phaganiaid, ac yn gyfryw ag na chânt byth fwynhâu teyrnas nef, yr hon y darfu i Grist, trwy ei ufudd-dod, ei phwrcasu i wir Gristionogion, y rhai a ufuddhânt iddo Ef, Brenhin y brenhinoedd oll, ac i'w Tywysog, yr hwn a osododd Efe arnynt: yr hon Deyrnas, lle priodol pob cyfryw ddeiliaid ufuddion, yr wyf yn erfyn ar Dduw, ein Tad nefol, ei rhoddi i ni, er mwyn yr unrhyw ein Ceidwad Iesu Grist: i'r Hwn, gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl glod, yn oes oesoedd. Amen.

*Fel hyn y clywsoch yr ail ran o'r Homili hon.*

*Yn awr, bobl dda, gweddïwn.*

Y Weddi fel o'r blaen.

Y DRYDEDD RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

MEGIS y dangosais i chwi yn y rhan gyntaf o'r Traethawd hwn, athrawiaeth yr Ysgrythyr Lân ynghylch ufudd-dod deiliaid cywir i'w Tywysogion, yn gystal i'r rhai drwg ag i'r rhai da; ac megis yn yr ail ran o'r un Traethawd y cadarnhêais yr athrawiaeth honno âg esamplau nodedig wedi eu cymmeryd allan o'r Ysgrythyrau: felly y mae 'n aros yr awrhon fod i mi hyspysu i chwi, yn y drydedd ran hon, ffieiddied pechod yn erbyn Duw a dyn yw Gwrthryfel; ac mor ofnadwy yr ennynir ac y cynneuir digofaint Duw yn erbyn pob gwrthryfelwŷr; a pha bläau a chospedigaethau a marwolaethau arswydus, a pha dragywyddol ddamnedigaeth yn y diwedd, sydd ynghrog uwch eu pennau hwynt; a pha fodd, o'r tu arall, y mae deiliaid da ac ufuddion yn ffafr Duw, ac yn gyfrannogion o heddwch, llonyddwch, a dïogelwch, ac eraill o amryw ddoniau Duw yn y byd hwn, a thrwy ei drugareddau yn ein Hiachawdwr Crist, o fywyd tragywyddol hefyd yn y byd a ddaw.

Mor erchyll pechod yn erbyn Duw a dyn yw Gwrthryfel, nid posibl yw traethu yn ol ei faint. Oblegid yr hwn sy 'n enwi Gwrthryfel, nid un pechod yn unig y mae yn ei enwi, megis lladratta, yspeilio, llofruddio, a'r cyfryw; ond y mae 'n enwi holl bwll a cheudwll yr holl bechodau sydd yn erbyn Duw a dyn, yn erbyn ei Dywysog, ei wlad, ei gydwladwŷr, ei rïeni, ei blant, ei geraint, ei gyfeillion, ac yn erbyn pob dyn yn gyffredinol: pob pechod, meddaf, yn erbyn Duw a dyn, wedi eu pentyrru ynghyd, y mae efe yn eu henwi, yr hwn sy 'n enwi Gwrthryfel.

Canys tu ag at am y sarhâd yn erbyn Mawrhydi Duw, pwy nid yw 'n gweled fod Gwrthryfel yn cyfodi 'n gyntaf o ddirmygu Duw a'i lân ordinhadau a'i gyfreithiau, yn y rhai y mae mor gaeth yn gorchymyn ufudd-dod ac yn gwahardd anufudd-dod a Gwrthryfel.

Ac heblaw y dïanrhydedd a wneir gan wrthryfelwŷr i Sanctaidd Enw Duw, trwy dorri 'r llw a wnaethant i'w Tywysog, gan alw ar Enw a Mawrhydi Duw yn dyst; pwy, ag sydd ym mysg gwrthryfelwŷr, neu yn clywed y gwir am eu hymddygiad, nid yw 'n clywed y llwon arswydus a'r cableddau yn erbyn Sanctaidd Enw Duw, y rhai a arferir beunydd yn eu plith?—— Pwy ni 's gŵyr fod gwrthryfelwŷr nid yn unig eu hunain yn gadael heb ei wneuthur y gwaith angenrheidiol i'w wneuthur

ar ddiwrnodau gwaith, tra bônt hwy yn cyflawni ffiaidd waith eu Gwrthryfel, ac yn cymmell eraill, y rhai a chwennychent fod yn gwneuthur daioni, i wneuthur yr un peth â hwythau; ond hefyd fel y mae gwrthryfelwŷr nid yn unig yn gadael Sabbath yr Arglwydd heb ei sancteiddio, a'i Deml a'i Eglwys heb fyned iddi, ond hefyd trwy eu drwg weithredoedd yn halogi 'r Sabbath yn ddychrynllyd wrth wasanaethu Satan, a thrwy wneuthur ei waith ef, yn ei wneuthur yn ddydd y Cythraul yn lle yn Ddydd yr Arglwydd?

Heblaw hynny, maent yn cymmell gwŷr da, y byddai lawen ganthynt wasanaethu 'r Arglwydd ac ymgynnull yn ei Deml a'i Eglwys Ef ar ei Ddydd, fel y gweddai i weision yr Arglwydd, i ymgynnull yn arfog ar y maes i wrthladd cynddaredd y cyfryw wrthryfelwŷr.

Ië, mae llawer o wrthryfelwŷr, rhag iddynt adael un rhan o orchymynion Duw yn Llech *gyntaf* ei Ddeddf heb ei thorri, nac un pechod yn erbyn Duw heb ei wneuthur; maent, meddaf, yn gwrthryfelu er mwyn maentumio eu delwau a'u heilunod, a'r delw-addoliaeth a wneir iddynt; ac o ddirmyg ar Dduw yn dryllio ac yn rhwygo ei Sanctaidd Air Ef, ac yn ei fathru dan eu traed, fel y gwyddoch iddynt wneuthur yn ddiweddar.

Tu ag at am *ail* Lech Deddf Duw, a phob pechod ag a aller ei wneuthur yn erbyn dyn, pwy ni wêl eu bod oll yn gynnwysedig mewn Gwrthryfel?—— Canys yn gyntaf, mae gwrthryfelwŷr nid yn unig yn dïanrhydeddu eu Tywysog, tad eu gwlad, ond hefyd yn dïanrhydeddu ac yn cywilyddio eu rhïeni naturiol, yn gwaradwyddo eu ceraint a'u cyfeillion, ac yn dïetifeddu ac yn andwyo am byth eu plant a'u hetifeddion.—— Lladradau, yspeiliadau, a llofruddiaethau, y rhai o'r holl bechodau sydd atgasaf gan y rhan fwyaf o ddynion, nid ydynt mewn neb yn gymmaint, nac mor ddinystriol, ag mewn gwrthryfelwŷr:—— oblegid y lladron pennaf a'r lleiddiaid creulonaf ag a fu erioed, cyhyd ag yr ymattaliont rhag gwrthryfela, megis nad ydyw eu nifer ond bychan, felly nid yw eu drygioni na 'u damnedigaeth yn ymledaenu ond ymhlith ychydig; nid ydynt yn anrheithio ond nifer fechan, nac yn tywallt gwaed ond ychydig ddynion, mewn cydmariaeth: ond mae gwrthryfelwŷr yn achos o yspeiliadau aneirif, ac o lofruddiaeth llïaws mawr o ddynion, y rhai y dylent hwy eu hamddiffyn rhag yspeiliaeth a thrais eraill; ac fel y mae gwrthryfelwŷr yn llawer mewn rhifedi, felly y mae eu drygioni a'u damnedigaeth yn ymdaenu ac yn cyrhaeddyd at laweroedd.—— Ac os yw putteindra a godineb, ym mhlith y cyfryw ddynion ag sydd hyblyg i'r cyfryw anwiredd, yn bechodau damniol, fel yn wir y maent, pa beth yw treisio gwragedd prïod, a halogi ac anwyryfu morwynion a gwyryfon, yr hyn sy beth mor gyffredin ym mysg gwrthryfelwŷr!—— Yn awr, heblaw hyn, y mae gwrthryfelwŷr, wrth dorri 'r

cred a roisant a'r llw a wnaethant i'w Tywysog, yn euog o'r anudoniaeth mwyaf damniol: mae 'n synu gweled pa gam-liwiau a gau esgusion, trwy ddywedyd celwyddau enllibus ar eu Tywysog a'i Gynghoriaid, y mae gwrthryfelwŷr yn eu dyfeisio i goluro eu gwrthryfel, yr hwn yw 'r fath waethaf o gam-dystiolaeth ag a ddichon fod.—— A pha beth a ddywedaf am chwennychu gwragedd, a thai, a thiroedd, a golud, a gweision dynion eraill, yr hyn sy mewn gwrthryfelwŷr, y rhai ni adawent o'u bodd ddim i neb o'r eiddo ei hun?

Fel hyn y gwelwch fod *holl* ddeddfau Duw yn cael eu torri a'u troseddu gan wrthryfelwyr, a bod pob pechod ag y mae modd ei wneuthur yn erbyn na Duw na dyn, yn gynnwysedig mewn Gwrthryfel: yr hyn bechodau, os dewis neb eu galw ar enwau arferol y "Saith Bechod Marwol," balchder, cynfigen, llid, cybydd-dod, dïogi, glythineb, a phutteindra, fe gaiff weled eu bod oll mewn Gwrthryfel, ac ym mysg, gwrthryfelwŷr:——

Canys yn gyntaf, fel y mae uchel-fryd a chwant am oruchafiaeth, yr hyn yw prif gynneddf balchder, yn cynhyrfu meddyliau llawer i wrthryfela; felly o falchder a rhyfyg Lusifferaidd y mae 'n dyfod, fod ychydig o ddeiliaid gwrthryfelgar yn ymosod yn erbyn mawrhydi eu Tywysog, yn erbyn doethineb y Cynghoriaid, ac yn erbyn gallu ac awdurdod yr holl bendefigion, a ffyddlon ddeiliaid a phobl yr holl deyrnas:——

Ac am gynfigen, llid, llofruddiaeth, chwant am waed, a thrachwantu golud, tiroedd, a bywiolaethau rhai eraill, y mae y pethau hyn ynglŷn wrth bob gwrthryfelwŷr, a'r prif bethau ydynt ag sy 'n arfer cyffroi dynion drwg i wrthryfela.

Yn awr y rhai trwy lọddest, glythineb, meddwdod, gormod gwychder dillad, a chwareuon afradlon, a dreuliasant yn afradlon eu heiddo eu hunain; y dynion *hyn*, meddaf, sy barottaf a chwannoccaf i wrthryfel, wrth yr hyn y maent yn gobeithio meddiannu eiddo eraill trwy drais ac anghyfraith. A lle mae glythion a meddwon eraill yn cymmeryd gormod o gyfryw fwydydd a dïodydd ag a ddygir i'r bwrdd, mae gwrthryfelwŷr yn ysu ac yn difa mewn ychydig amser yr holl ŷd yn yr ysguboriau, meusydd, a lleoedd eraill, mewn llofftydd, mewn stôr-dai, mewn selerydd, yn difa dïadellau cyfain o ddefaid, a gyrroedd cyfain o ychen a gwartheg.

Ac fel y mae'r gwrthryfelwŷr ag a fo 'n briod yn gwneuthur yn anraslon trwy adael eu gwragedd gartref, felly mwy o lawer y gwna y rhai dibrïod o honynt, yn waeth na meirch ac ystalwyni (a bwy weithian yn rhydd trwy Wrthryfel oddi wrth gerydd y gyfraith, yr hon oedd o'r blaen yn eu ffrwyno) yn treisio gwragedd a gwyryfon yn gywilyddus.

Fel hyn y mae pob pechodau, dan ba enw bynnag y galler enwi pechodau, a thrwy bob modd ag y gellir gwneuthur pechodau, oll yn bentyrrau yn dilyn Gwrthryfel, ac i'w cael yn gwbl ym mysg gwrthryfelwŷr.

Hefyd lle mae 'r Ysgrythyr yn dangos mai haint y nodau, newyn, a rhyfel, yw 'r blinder a'r trueni daearol mwyaf a all fod, mae 'n amlwg fod holl drueni 'r pethau hyn yn hollol ac ynghyd yn dilyn Gwrthryfel, ynghyd â mwy o aflwydd nac sydd ynddynt oll. Oblegid gwyddis pan ymgyrcho tyrfaoedd lliosog o bobl ynghyd, yr hyn sy 'n digwydd mewn Gwrthryfel, yn gystal ar ran y gwir ddeiliaid a'r gwrthryfelwŷr, wrth eu bod yn gorwedd mor agos i'w gilydd, ac yn halogi 'r awyr a'r lle y gorweddant âg arogl tom a budreddi ar hin wresog, ac wrth lettya 'n afiachus a gorwedd yn aml ar y ddaear mewn oerni ac ar dywydd gwlyb yn y gauaf, trwy ymborth afiach bob amser, ac yn fynych trwy newyn, a phrinder bwyd a diod prydlon, ac hefyd trwy gymmeryd gormod ar amser arall: gwyddis, meddaf, fod haint a chowyn a phob math o glefyd ac afiechyd arall, yn magu ar ddynion trwy 'r moddion hyn, trwy 'r hyn y mae mwy o ddynion yn cael eu difa o'r diwedd, nag sy 'n cael eu lladd yn ddisymmwth gan awch y cleddyf ar faes y gwaed. —— Felly nid yn unig haint y nodau, ond hefyd pob clefydau, anhwylderau, ac afiechyd arall sy 'n dilyn Gwrthryfel; y rhai ydynt yn fwy ofnadwy na heintiau a chlefydau a ddanfoner yn union-gyrchol oddi wrth Dduw, fel y cawn ddangos yn eglurach rhagllaw.

Ac am brinder a newyn, cymdeithion priodol i Wrthryfel ydynt: canys tra fo gwrthryfelwŷr mewn ychydig amser yn anrheithio ac yn ysu 'r holl ŷd a'r arlwy angenrheidiol a barottoisai dynion trwy drafferth er mwyn cael cnwd a chynnyrch yn y flwyddyn ganlynol; a thra fônt yn rhwystro llafurwŷr oddi wrth eu hwsmonnaeth angenrheidiol i wneuthur arlwyad erbyn amser i ddyfod; pwy ni 's gwêl y rhaid i ddygn brinder a newyn ganlyn mewn byr amser ar ol gwrthryfel?

Yn awr, lle 'r oedd y brenhin doeth a'r Prophwyd duwiol Dafydd yn barnu fod rhyfel yn waeth na haint na newyn, am fod Duw yn goddef yn fynych y ddau ddiweddaf hyn er mwyn diwygio dyn, ac am nad ydynt o honynt eu hunain yn bechodau: ond y mae drygioni a phechodau dynion bob amser yn gyssylltiedig â rhyfel, yn y naill blaid neu 'r llall; ac am hynny *rhyfel* yw 'r mwyaf o'r tri anffawd bydol a nodwyd: —— Ond o bob rhyfel, gwaethaf yw rhyfel cartrefol; a llawer atgasach fyth yw Gwrthryfel nag un rhyfel cartrefol, ac ni ddylid ei alw yn rhyfel, am ei fod yn rhagori cymmaint ar bob rhyfel mewn pob drygioni, mewn pob aflwydd, ac mewn peb atgasrwydd. Ac am hynny y mae ein Hiachawdwr Crist yn cyhoeddi distryw ac anghyfannedd-dra i'r deyrnas a ymranno yn ei herbyn ei hun mewn terfysg a Gwrthryfel.

Weithian, fel y dangosais o'r blaen fod haint a newyn, felly mae 'n eglurach fyth fod pob anffawd, trueni, ac aflwydd, yn dostach ac yn helaethach mewn Gwrthryfel nag un rhyfel arall, am ei fod yn llawer *gwaeth* na phob rhyfel arall:——

Canys y mae 'n dilyn Gwrthryfel, nid yn unig aflwydd a thrueni cyffredin ac arferol rhyfeloedd eraill, megis anrheithio ŷd ac angenrheidiau eraill dyn,——yspeilio a llosgi tai, pentrefydd, trefydd, a dinasoedd,——dwyn dynion goludog a gwledydd cyfain i dlodi,——lladd llawer mil o wŷr,—— treisio gwragedd a halogi gwyryfon; yr hyn bethau pan eu gwneler gan elynion estronol, yr ydym yn ymofidio o'u plegid, fel y mae i ni achos mawr; etto gall yr holl drueni hyn ddigwydd heb fod bai ar neb o'n cydwladwyr ni.—— Ond pan wneler yr holl ddrygau hyn mewn Gwrthryfel gan y rhai a ddylent fod yn garedigion, gan gydwladwŷr, gan geraint, gan y rhai a ddylent amddiffyn eu gwlad a'u gwladwŷr oddi wrth y fath drychineb, nid yw 'r *trueni* ddim yn agos cymmaint a'r *drygioni:*—— deiliaid yn annaturiol yn gwrthryfelu yn erbyn eu Tywysog, anrhydedd yr hwn a ddylent ei amddiffyn, serch colli eu heinioes eu hunain; cydwladwŷr yn cythryblu tawelwch a heddwch eu gwlad, i amddiffyn llonyddwch yr hon y dylent dreulio eu hoes; brawd yn ceisio ac yn gweithio marwolaeth brawd;—— y mab yn ceisio marwolaeth ei dad;—— y tadau yn dwyn oddi amgylch farwolaeth eu meibion, a hwythau mewn oedran; ac yn dïetifeddu eu plant a'u ceraint diniwed am byth, i'r rhai y gallent bwrcasu tiroedd a bywiolaethau, fel ag y mae tadau hynaws yn cymmeryd poen a gofal, ac yn myned i fawr gost a thraul gyd â'u plant; —— ac yn lle 'r holl dawelwch, llawenydd, a dedwyddyd ag sy 'n dilyn bendigaid heddwch a dyledus ufudd-dod, dwyn i mewn bob trallod, tristyd, ac aflonyddwch corph a meddwl, a phob anffawd ac aflwydd; ——troi pob trefn dda bendramwnwgl;—— dwyn pob cyfreithiau da i gael eu dirmygu a'u mathru dan draed;—— gorthrymmu pob rhinwedd ac onestrwydd, a phob dyn rhinweddol ac onest;—— gollwng pob drygioni a phob dyn drwg yn rhydd, i wneuthur eu hewyllys drygionus ag a ffrwynid o'r blaen gan gyfreithiau iachusol, i wanhychu, i ddymchwelyd, ac i ddifa nerth y deyrnas, gwlad eu genedigaeth, trwy dreulio a gwastraffu arian a thrysor y Tywysog a'r deyrnas, a lladd y bobl, eu cydwladwŷr eu hunain, y rhai oedd i amddiffyn anrhydedd eu Tywysog a rhyddid eu gwlad yn erbyn ymgyrch gelynion estronol;—— ac felly yn y diwedd, i wneuthur eu gwlad, wedi ei gwanhychu felly trwy eu drygioni hwy, yn barod i fod yn anrhaith ac yn ysglyfaeth i bob estron a ddycco ryfel yn ei herbyn; —— a pheri hollol a pharhâus gaethiwed a distryw ar eu holl gydwladwŷr, ar eu plant, eu cyfeillion,

a'u ceraint, y rhai a adawer yn fyw, y rhai y maent hwy, trwy eu drygionus Wrthryfel, yn eu traddodi hyd y mae ynddynt hwy, i ddwylaw gelynion estronol.

Mewn rhyfeloedd tramor mae ein cydwladwŷr ni yn ennill clod am eu dewredd; ïe, ac er cael eu gorchfygu a'u lladd, etto maent yn ennill clod a pharch yn y byd hwn, ac yn meirw mewn cydwybod dda am wasanaethu Duw, eu Tywysog, a'u gwlad, ac ydynt yn blant iachawdwriaeth dragywyddol.—— Ond mewn Gwrthryfel, er dewred ac er cryfed a fyddont, etto maent yn ennill cywilydd am ymladd yn erbyn Duw, eu Tywysog, a'u gwlad; ac am hynny maent yn syrthio 'n gyfiawn yn wysg eu pennau i uffern, os byddant feirw, neu yn byw mewn gwarth ac ofnus gydwybod, os dïangant yn fyw:——

Ond gwobrwyir hwy 'n gyffredin â marwolaethau gwaradwyddus, eu pennau a'u celain yn cael eu gosod ar drostanau a pholion, neu eu crogi mewn cadwynau, yn cael eu bwytta gan farcuttanod a chigfrain, ac yn cael eu cyfrif yn annheilwng o anrhydedd claddedigaeth; ac felly mae Diafol (onid edifarhânt, ac nid mynych y maent yn edifarhâu) yn llusgo eu heneidiau i uffern ynghanol eu drygioni:—— Ac oblegid y gosp echrydus hon mae St. Paul yn dangos y dylem ufuddhâu, *nid yn unig o herwydd llid, ond o herwydd cydwybod hefyd* tu ag at Dduw, rhag ofn *derbyn barnedigaeth* dragywyddol yn y byd a ddaw.[1]

Gan hynny, bobl dda, poed i ni, fel plant ufudd-dod, ofni arswydus gospedigaeth Duw, a byw mewn tawel ufudd-dod, fel y byddom yn blant iachawdwriaeth dragywyddol. Canys megis mai 'r nef yw lle deiliaid ufudd a da, ac mai uffern yw carchar a daeardŷ gwrthryfelwŷr yn erbyn Duw a'u Tywysog; felly y mae 'r deyrnas honno 'n ddedwydd, ac yn gynllun o'r nef, lle bo mwyaf o ufudd-dod deiliaid; ac o'r ochr arall, lle bo mwyaf o Wrthryfeloedd a gwrthryfelwŷr, dyna lle mae gwir gyffelybrwydd uffern, a'r gwrthryfelwŷr eu hunain ydynt wir lun Diafliaid a Chythreuliaid, a'u Capten yw portreiad anraslon Luciffer a Satan, Tywysog y tywyllwch; ac fel y maent yn ddilynwŷr ei Wrthryfel ef, felly y cânt yn ddiammeu fod yn gyfrannogion yn uffern o'i ddamnedigaeth ef; ac mor ddïammeu a hynny fe gaiff plant tangnefedd fod yn etifeddion y nef gyd â Duw Dad, Duw Fab, a Duw Yspryd Glân: I'r Hwn y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

*Fel hyn y clywsoch y drydedd ran o'r Homili hon.*

*Bellach, bobl dda, gweddïwn.*

Y Weddi fel o'r blaen.

[1] Rhuf. 13. 2, 5.

Y BEDWAREDD RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

ER mwyn eich addysgu chwi ym mhellach, bobl dda, a dangos i chwi faint y mae 'r Hollalluog Dduw yn ffieiddio Anufudd-dod a chyndyn Wrthryfel, yn enwedig pan fo gwrthryfelwŷr yn ymddyrchafu mor uchel ag arfogi eu hunain âg arfau, a sefyll ar faes rhyfel i ymladd yn erbyn Duw, eu Tywysog, a'u gwlad; nid ammherthynasol fydd dangos rhai esamplau allan o'r Ysgrythyr, y rhai a ysgrifenwyd yno er tragywyddol addysg i ni.

Gallwn wybod yn fuan, bobl dda, mor aruthrol bai yw brad Gwrthryfel, os galwn i gôf ddirfawr lid ac arswydus ddigofaint yr Hollalluog Dduw yn erbyn y cyfryw ddeiliaid ag nad ydynt ond yn grwgnach yn unig, ac yn murmur yn eu calonnau yn erbyn eu Llywodraethwŷr, er na bo eu dirgel frad, a fagwyd mor gyfrinachol yn eu calonnau, yn torri allan mewn gweithred,—— er bod yn anhawdd i'r rhai y mae Diafol wedi eu hudo mor bell yn erbyn Gair Duw, sefyll ar hynny; nag ê; canys amcan y Diafol yw chwythu 'r marworyn ymhellach, ac ennyn eu calonnau gwrthryfelgar hwy i fflammychu mewn gweithredoedd yn gyhoeddus, oddi eithr i ras Duw yn brysur ei wrthladd.

Pan duchanodd rhai o blant Israel yn erbyn eu Llywodraethwŷr a osodasai Duw arnynt, hwy a darawyd â gwahan-glwyf ffiaidd,—— llawer a losgwyd â thân a ddanfonasid yn ddisymmwth oddi wrth yr Arglwydd;—— difethid weithiau lawer o filoedd â phlâ;—— brethid hwy weithiau i farwolaeth gan seirph tanllyd;—— bryd arall (yr hyn sy fwyaf ofnadwy) rhai o'u Pennaethiaid a'u byddin o rwgnachwŷr ni chawsant farw yn naturiol fel dynion eraill, ond agorodd y ddaear ei safn, a hwy a'u gwragedd a'u plant a'u teuluoedd a lyngcwyd yn fyw i uffern.—— Y distrywiadau hyn ar y cyfryw Israeliaid ag a furmurasant yn erbyn Moses, yr hwn a osododd Duw yn Ben ac yn Llywydd arnynt, ydynt ysgrifenedig yn Llyfr Numeri, a mannau eraill o'r Ysgrythyr, er coffâd a rhybudd gwastadol i bob deiliaid, mor anfoddhaol gan Dduw yw tuchan a drygair deiliaid yn erbyn eu Tywysogion, yn gymmaint a thystiolaethu o'r Ysgrythyr i ni fod y cyfryw furmur nid yn unig yn erbyn y Tywysog, yr hwn sy greadur marwol, ond yn erbyn Duw ei Hun hefyd.

Wrth hynny, os cwympodd y cyfryw bläau arswydus a dïeithriol ar y deiliaid ag na 's gwnaethant ond murmur a dywedyd yn ddrwg yn unig yn erbyn eu Pennaethiaid, beth a ddaw o gyfryw annuwiol genawon y Cythraul ag sy 'n cydfwriadu, yn ymarfogi, yn casglu lluoedd mawrion o wŷr arfog, ac yn eu tywys yn erbyn eu Tywysog a'u gwlad, gan anrheithio ac yspeilio, lladd a llofruddio 'r holl ddeiliaid ffyddlon ag a'u gwrthsafont, gynnifer ag a allont eu goresgyn a'u gorthrechu! —— Ond ysgrifenwyd yr esamplau a grybwyllwyd, i'n hattal nid yn unig rhag y cyfryw annuwioldeb a hyn, ond hefyd rhag murmur na dywedyd cymmaint ag un gair drwg yn erbyn ein Tywysog; yr hyn beth er dirgeled y gwnelo dyn ef, etto fe ddywed yr Ysgrythyr Lân y bydd i adar yr awyr fynegi 'r peth: ac mae 'r esamplau a ddygwyd eisoes o'r unrhyw Ysgrythyr Lân yn datgan na 's diangant rhag cospedigaeth ofnadwy am wneuthur hynny.

Weithian tu ag at am Wrthryfel *mewn gweithrediad;*—— Ym mhlith yr aml esamplau o hono a osodir allan yn yr Ysgrythyr Lân, mae esampl Absalom yn un hynod. Fe gyd-fwriadodd hwn yn erbyn y Brenhin Dafydd ei dad, ac a gymmerth gyngor gwŷr cyfrwysgall iawn, ac a gasglodd lu afrifed o wrthryfelwŷr i'r diben hwnnw. Yr Absalom hwn, er ei fod yr harddaf o ddynion o ran tegwch corphorol, ac o fonedd uchel (yr oedd yn fab y brenhin) ac mewn ffafr fawr gyd â'r bobl, ac mor anwyl gan y brenhin ei hun ag y rhoes efe orchymyn ar fod i'w fywyd gael ei arbed, er ei wrthryfel; pan oedd y rhan fwyaf o ddynion o herwydd yr achosion hyn yn ofni cyffwrdd âg ef, fe estynodd derwen fawr ei braich allan megis ar fedr hynny, ac a'i daliodd ef gerfydd llaes gudynnau ei wallt teg, y rhai a droisant o amgylch y gangen fel yr oedd efe 'n dïangc ar frys yn bennoeth dan y dderwen honno, ac a'i crogodd ef erbyn gwallt ei ben yn yr awyr, —— i roi bythol addysg na 's gall tegwch corph, na boneddigrwydd, na ffafr y bobl, na ffafr y brenhin ei hun, achub gwrthryfelwr rhag dyledus gospedigaeth; gan fod Duw, Brenhin yr holl frenhinoedd, mor ddigllon wrtho, ag y bydd pob pren ar fin y ffordd yn grogbren iddo, cyn y caiff fod heb ddyledus gosp am ei fradwriaeth, a gwallt ei ben ei hun yn gortyn i'w grogi, cyn y caiff cortyn fod yn eisiau. Esampl ofnadwy i'w hystyried, bobl dda, o gospedigaeth Duw!—— Ahitophel hefyd, er ei fod yn wr doeth dros ben mewn matterion eraill, etto a fu gynghorwr annuwiol i Absalom yn y Gwrthryfel drygionus hwn; ac o ddiffyg crogwr, (gwas cyfaddas i gyfryw fradwr) a aeth ac a grogodd ei hun! Diwedd teilwng i bob gwrthryfelwŷr ffals, y rhai, yn hytrach na chael bod yn ddigosp, a ant, trwy gyfiawn farn Duw, yn grogwŷr iddynt eu hunain! Dyna fel y digwyddodd i Bennaethiaid y Gwrthryfel hwnnw, heb son am y

deugain mil o wrthryfelwŷr o îs radd a laddwyd yn y frwydr ac yn yr ymlid.

Gellir gweled hefyd yn yr Ysgrythyr Lân pa fodd y cafodd y Gwrthryfel mawr, a gyffrowyd yn Israel gan y bradwr Seba, ei lonyddu yn ddisymmwth, gwedi i ryw wreigan dorri pen Capten y bradwriaeth.

Ac fel y mae 'r Ysgrythyr Lân yn dangos, felly y mae profiad beunyddiol yn profi, na bu i gynghorion, na chyd-fwriadau, nac amcanion gwrthryfelwŷr erioed ddyfod i ddiben da, ond i ddiwedd echryslon. Canys er bod Duw weithiau yn llwyddo gelynion cyfiawn a chyfreithlon, y rhai nid ydynt ddeiliaid, yn erbyn eu gelynion estronol; etto ni roddes efe erioed hir ffynniant i ddeiliaid gwrthryfelgar yn erbyn eu Tywysog, er maint fyddo 'u hawdurdod, ac er llïosocced fyddo 'u nifer.

Ni 's gallai pum brenhin â'u holl luoedd lwyddo yn erbyn Cedorlaomer, i'r hwn yr addawsent warrogaeth ac ufudd-dod, (yn yr hwn y parhasant hefyd rai blynyddoedd,) ond gorthrechwyd a charcharwyd hwynt oll ganddo. Ond Abraham a'i deulu a'i geraint, y rhai nid oeddynt ond megis dyrnaid o ran rhifedi, heb fod yn ddeiliaid i Cedorlaomer, a'i gorthrechodd ef a'i lu mewn brwydr, ac a achubodd ac a ryddhaodd y carcharorion:——

Felly er bod rhyfel yn beth mor ofnadwy a gwaedlyd ag ydyw, mae Duw er hynny yn llwyddo 'n aml ychydig o rifedi mewn rhyfeloedd cyfreithlon yn erbyn llawer o filoedd o elynion estronol: ond ni lwyddodd Efe erioed etto ddeiliaid yn gwrthryfela yn erbyn eu Tywysog naturiol, er cymmaint, er boneddicced, er llïosocced, er dewred, er called, ac er doethed a fyddont; ond bob amser goresgynwyd hwynt, a daethant i ddiwedd cywilyddus: gymmaint y mae Duw yn casâu Gwrthryfel yn fwy na rhyfeloedd eraill, er fod rhyfeloedd eraill mor ofnadwy, ac yn gymmaint dinystr i ddynolryw:——

Er bod weithiau lïaws mawr, nid yn unig o'r werin, ond hefyd gwŷr o synwyr a bonedd ac awdurdod mawr, yn cyffrôi gwrthryfel yn erbyn eu Tywysogion cyfreithlon, (lle dylai gwir fonedd gasâu, a gwir synwyr ffieiddio, y fath daeogaidd ac ynfyd Wrthryfel;)—— er y mynnent wneuthur llawer o esgusion, megis gwellâu 'r Wladwriaeth; (er bod Gwrthryfel yn fwy na dim drwg arall yn ddistryw i Wladwriaeth;) neu ddiwygio Crefydd, (er nad oes dim yn fwy croes i wir Grefydd nag yw Gwrthryfel;)—— er gwneuthur o honynt rith mawr o amcan sanctaidd, trwy ddechreu eu Gwrthryfel â ffug wasanaeth i Dduw, (fel y dechreuodd Absalom annuwiol ei Wrthryfel trwy aberthu i Dduw;)—— er eu bod yn arddangos ac yn dwyn o amgylch lummanau a baneri, y rhai sy bethau hoff gan y werin anwybodus, llïaws mawr o ba rai y maent yn eu twyllo ac yn eu tynnu attynt trwy y fath ledrith ac esgusion gau;

etto er hyn i gyd, ni bu lliaws y gwrthryfelwŷr erioed mor fawr; ni bu eu Capteniaid erioed mor foneddig, call a doeth; ac ni bu 'r ffug esgusion erioed mor sanctaidd; na byddai i ddadymchweliad buan gymmeryd lle ar bob math o wrthryfelwŷr o ba nifer, bonedd, neu gyflwr bynnag, neu dan ba esgus bynnag; wrth yr hyn y mae Duw yn dangos nad yw Efe ddim yn caniattâu i urddas neb dyn, nac i lïaws neb cenedl, nac i bwysfawrowgrwydd neb esgus, fod yn ddigon o achos i ddeiliaid godi Gwrthryfel yn erbyn eu Tywysogion.

Darllenwch hanesion pob cenedl, edrychwch dros groniclau ein gwlad ein hunain, gelwch i gof gynnifer Gwrthryfel a fu yn yr amser gynt, a rhai yn ddiweddar iawn; ac ni chewch weled ddarfod i Dduw erioed lwyddo Gwrthryfel deiliaid yn erbyn eu Tywysog cyfreithlon: ond cewch weled, i'r gwrthwyneb, ddarfod goresgyn a lladd y gwrthryfelwŷr, a dïenyddio 'n arswydus gynnifer o honynt ag a ddaliwyd yn garcharorion.—— Ystyriwch deuluoedd mawrion a phendefigaidd Dugiaid, Ardalyddion, Ieirll, ac Arglwyddi eraill, y rhai y gellwch ddarllen eu henwau mewn Croniclau; y maent yn awr wedi hollol ddarfod a myned ymaith: ac os chwiliwch chwi allan am achos diddymiad y cyfryw deuluoedd, chwi a gewch weled mai nid diffyg plant i fod yn etifeddion oedd yr achos o'r cyfryw ddirywiad i waedoliaeth teuluoedd mor foneddig, ond yn hytrach mai Gwrthryfel oedd yr achos.

Ac yn gymmaint ag mai gwellhâu 'r Wladwriaeth fyddai 'r gau esgus arferol gynt i wrthryfela, a bod Crefydd yn awr yn dechreu bod yn esgus Gwrthryfel; bydded i bob deiliaid duwiol a phwyllog ystyried yn dda bob un o'r ddau esgus:—— ac yn gyntaf ynghylch Crefydd.

Os barnodd Duw fod yr heddychol frenhin Solomon yn addasach i adeiladu ei Deml Ef (wrth yr hyn y meddylir trefniad Crefydd,) nag oedd Dafydd ei dad, er ei fod yn frenhin duwiol dros ben, o achos bod Dafydd yn rhyfelwr mawr, a chwedi tywallt llawer o waed, er mai yn ei ryfeloedd yn erbyn gelynion Duw y gwnaethai efe hynny;—— wrth hyn fe all pob deiliaid duwiol a rhesymmol ystyried fod Tywysog heddychol, yn enwedig ein Brenhines heddychol a thrugarog ni, yr hon hyd yn hyn ni thywalltodd waed neb, na ddo, hyd yn nod mo waed ei gelynion gwaethaf, yn debyccach ac yn gymhwysach o lawer i osod i fynu ac i gynnal gwir Grefydd nag ydyw gwrthryfelwŷr gwaedlyd, y rhai ni thywalltasant waed gelynion Duw, fel y gwnaeth Dafydd, ond ydynt yn ceisio tywallt gwaed caredigion Duw, gwaed eu cydwladwŷr eu hunain, gwaed eu cyfeillion a'u ceraint anwylaf, ïe, dinystr eu grasusaf Dywysog a gwlad eu genedigaeth, i amddiffyn pa rai y dylent fod yn barod i golli eu gwaed, pe byddai achos yn gofyn hynny:——

Hawdd barnu pa fath Grefydd yw 'r hon y mynnai 'r cyfryw ddynion

ei hadferydd trwy 'r cyfryw foddion; dim gwell crefydd, yn ddïau, nag ydyw 'r gwrthryfelwŷr eu hunain!—— Ond fel y mae gwirionedd Efengyl ein Hiachawdwr Crist, os dysgir hi yn heddychol ac yn sobr, yn abl i faentumio gwir Grefydd, er iddi gostio eu bywyd i'r rhai a fyddo yn eu dysgu; felly y mae 'n rhaid i grefydd wallgofus wrth Wrthryfel gorphwyllog i'w chynnal, ac y mae 'n rhaid iddi wrth y cyfryw amddiffynwŷr ag yw gwrthryfelwŷr, y rhai sy 'n barod, nid i farw dros wir Grefydd, ond i ladd pawb a feiddiant wrth-ddywedyd dim yn erbyn eu coelgrefydd a'u heilun-addoliaeth ddrygionus hwy.

Bellach ynghylch yr esgus arall a wneir gan wrthryfelwŷr, sef GWELLAU 'R WLADWRIAETH; gall pob dyn a'r na bo ganddo ond hanner llygad weled mor ofer a gwagsaw ydyw, gan fod Gwrthryfel yn fwyaf cwymp a dinystr ag a all fod, i bob Gwladwriaeth.—— A phwy bynnag a edrycho, ar y naill law, ar bersonau a llywodraeth anrhydeddusaf Gynghoriaid y Frenhines, y rhai trwy brofiad llawer o flynyddoedd y gwyddis eu bod yn ffyddlon i'w Mawrhydi, ac yn fuddiol i'n teyrnas a'n cydwladwŷr; ac, ar y llaw arall a ystyrio bersonau a chyflwr ac amgylchiadau 'r gwrthryfelwŷr eu hunain, y rhai sy 'n cymmeryd arnynt ddiwygio 'r llywodraeth bresennol; efe a gaiff weled mai 'r dynion mwyaf dibwyll a phenboeth,—— y rhai afradlonaf,—— y rhai a wastraffasant eu harian a'u tiroedd yn y modd gwaethaf,—— y rhai sy dros eu pennau mewn dyled,—— y rhai oblegid eu lladrad a'u llofruddiaeth ni feiddient ddangos eu hwynebau mewn gwlad a lywodraether gan gyfreithiau manol a da,—— y rhai y mae eu buchedd a'u hymarweddiad yn waethaf ac yn annuwiolaf,—— a'r rhai ni fynnant ac ni fedrant fyw yn heddychol; efe a gaiff weled, meddaf, mai *dynion o'r fath hyn* yw y rhai sy bob amser barottaf i godi terfysg ac i bleidio gwrthryfelwŷr.—— Ac onid ydyw y dynion hyn, y rhai a wastraffasant eu holl eiddo a'u golud eu hunain, yn wŷr cymmwys, dybygwch chwi, i adferu 'r Wladwriaeth a fo wedi gwaethygu, ac yn debyg iawn o ddiwygio moesau dynion eraill, a'u buchedd eu hunain mor ddrygionus a ffiaidd! Yr hyn a ffug-alwant hwy yn ddiwygiad, sydd nid yn unig yn anniwygiad, ond hefyd yn llwyr ddinystr pob Gwladwriaeth, fel y ceid gweled yn fuan, pe caffai 'r gwrthryfelwŷr eu hewyllys, ac fel yr ydys *yn* gweled yn dda, ïe, yn rhy dda, yn y cyfryw barthau o'r wlad ag y mae 'r gwrthryfelwŷr yn gweithredu, lle, er nad arhosont ynddo ond ennyd fechan, y maent yn peri 'r cyfryw ddiwygiad ag sy 'n dinystrio pob man ac yn andwyo pob dyn lle y delont, fel y bydd gwaeth o'uplegid hwy i'r plentyn sydd etto heb ei eni, yr hwn a'u melldiga hwynt lawer blwyddyn ar ol iddynt hwy feirw.

Am hynny na chanlyned neb deiliaid cywir a phwyllus mo 'r faner a

gyfoder i Wrthryfel ac a ddyger gan wrthryfelwŷr, er bod llun yr Aradr wedi ei baentio arni, a'r geiriau, DUW A LWYDDO 'R ARADR, wedi eu hysgrifenu arni mewn llythyrennau mawrion; gan wybod nad oes neb yn rhwystro 'r Aradr yn fwy nag y mae gwrthryfelwŷr, y rhai ni arddant eu hunain, ac ni adawant i eraill arddu.—— Ac er bod rhai gwrthryfelwŷr yn dwyn llun pum Archoll Crist yn baentiedig ar eu banerau, yn erbyn y rhai sy 'n rhoi holl oglud eu hiachawdwriaeth ar Archollion Crist, nid ar yr Archollion a baentiwyd ar gadach gan ryw baentiwr annuwiol, ond yn yr Archollion oedd yn Nghorph gwerthfawr Crist ei Hun: er eu bod hwy, heb wybod ystyr Croes Crist, yr hon ni fedr na cherfiwr na phaentiwr ei gwneuthur, yn dwyn llun y Groes honno 'n baentiedig ar gadach, yn erbyn y rhai y mae Croes Crist yn baentiedig yn eu calonnau; etto, er paentio o honynt hefyd ar eu banerau y geiriau hyn, HOC SIGNO VINCES, sef, *Trwy 'r arwydd hwn y gorfyddi*, gan ffol ddynwared arwydd-air Constantin Fawr, yr Ymherawdwr Cristianus pendefigaidd hwnnw, a gorchfygwr mawr gelynion Duw; arwydd-air anweddus iawn i wrthryfelwŷr, caseion Duw a'u Tywysog a'u gwlad, —— neu pa faner bynnag arall a fo ganthynt; etto, meddaf, na boed i neb deiliaid da a duwiol, gan obeithio llwyddiant a buddugoliaeth, ddilyn neb a ddygont y fath fanerau Gwrthryfel. O herwydd fel ag y mae esamplau o'r cyfryw weithredoedd ar gael yn yr hen hanesion, ac hefyd mewn Gwrthryfeloedd diweddarach ag yr ydym ni a'n tadau yn eu cofio; felly, er yr holl esgusion uchod, ac er dwyn y cyfryw fanerau, etto y mae yn ysgrifenedig hefyd er gwastadol goffa, y llofruddiaethau dirfawr ac arswydus a ddioddefodd miloedd aneirif o'r werin a laddwyd mewn Gwrthryfel,—— ac ofnadwy ddihenyddiadau cyffrowŷr a phennaethiaid y Gwrthryfel,—— a gresynus andwyaeth eu gwragedd a'u plant,—— a dietifeddiad aerod y Gwrthryfelwŷr am byth,—— ac anrheithiad, yspeiliad, a dinystr y bobl a'r wlad lle y dechreuodd y Gwrthryfel gyntaf, fel y gallai 'r plentyn na 's ganesid etto riddfan a galaru o'u plegid,—— ynghyd â chwbl ddistryw a marwolaethau gwaradwyddus yr holl Wrthryfelwŷr; yr hyn oll sydd ar lawr yn hanesion pobl dramor, ac ynghroniclau ein gwlad ein hunain, a rhai o honynt wedi digwydd er pan ydym ni 'n cofio, y rhai pes casglid oll ynghyd, a lanwent lawer o lyfrau:—— ond ar y llaw arall, yr holl ffynniant a'r tycciant a'r llwyddiant a ddigwyddodd i neb Gwrthryfelwŷr mewn neb rhyw oes na gwlad, a ellir eu cynnwys mewn ychydig eiriau neu linellau.

I wneuthur pen ynte ar yr hyn a ddywedwyd;—— Bydded i bob deiliaid daionus, gan ystyried echryduaed pechod yn erbyn Duw, eu Tywysog, eu gwlad, a'u cydwladwŷr, ac yn erbyn cyfreithiau Duw a dyn, ydyw Gwrthryfel, gan mai nid *un* pechod neillduol ydyw, ond *pob*

pechod yn erbyn Duw a dyn, wedi eu pentyrru ar eu gilydd;—— gan ystyried hefyd ddrygionus fuchedd a gweithredoedd a gwarthus ddiwedd ac angau pob Gwrthryfelwr hyd yn hyn, a gresynus andwyaeth eu gwragedd a'u plant, a dietifeddiad eu haerod am byth;—— ac uwchlaw pob dim, gan ystyried y ddamnedigaeth dragywyddol a ddarparwyd ar gyfer pob Gwrthryfelwr anedifeiriol yn uffern gyd â Satan, yr hwn yw Sylfaenydd cyntaf Gwrthryfel, a phrif Gad-fridog pob Gwrthryfelwyr: —— Bydded i bob deiliaid daionus, meddaf, gan ystyried y pethau hyn, ochelyd a ffoi rhag pob Gwrthryfel, megis y drygioni gwaethaf a all fod; a chofleidio dyledus ufudd-dod i'ch Duw a'ch Tywysog, megis y pennaf o bob rhinweddau; modd y gallom ddiangc rhag pob aflwydd a thrychineb ag sy 'n dilyn Gwrthryfel yn y byd hwn, a rhag damnedigaeth dragywyddol yn y byd a ddaw; ac y caffom fwynhâu heddwch, llonyddwch, a diogelwch, a phob bendith ddwyfol arall ag sy 'n dilyn ufudd-dod yn y fuchedd hon, a meddiannu yn y diwedd Deyrnas nefoedd yn y byd a ddaw, yr hon a barottowyd i fod yn lle priodol i'r holl ddeiliaid ag a fyddont ufuddgar i'w Duw ac i'w Tywysog: yr hyn yr ydwyf yn ei erfyn ar fod i Dduw, Brenhin yr holl frenhinoedd, ei ganiattâu i ni, er mwyn ufudd-dod ei Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist: I'r Hwn, ynghyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, Un Duw a Brenhin anfarwol, y mae holl anrhydedd, gwrogaeth, ac ufudd-dod ei holl greaduriaid yn ddyledus byth bythoedd. Amen.

*Fel hyn y clywsoch y bedwaredd ran o'r Homili hon.*

*Bellach, bobl dda, gweddïwn.*

Y Weddi fel o'r blaen.

Y BUMMED RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

YN gymmaint a darfod i mi, yn ol athrawiaeth ac esamplau dyledus ufudd-dod deiliaid i'w Tywysogion, draethu i chwi yn ddiweddaf pa fath ffiaidd bechod yn erbyn Duw a dyn yw Gwrthryfel, a pha ddychrynllyd bläau, cosp, a marwolaeth, ac angau tragywyddol yn y diwedd, sydd ynghrog uwch ben pob Gwrthryfelwŷr: ni bydd yn awr yn ammherthynasol nac yn anfuddiol dangos i chwi pa fath ddynion y mae 'r Diafol, prif awdwr a sylfaenydd Gwrthryfel, yn eu defnyddio 'n bennaf i gynhyrfu deiliaid i wrthryfela yn erbyn eu Tywysogion cyfreithlon; fel trwy eu hadnabod y galloch gilio oddi wrthynt hwy a'u hudoliaeth ddamniol, a gochelyd pob Gwrthryfel, ac felly diangc rhag yr arswydus bläau a'r marwolaethau ofnadwy a'r ddamnedigaeth dragywyddol ag sy ddyledus yn y diwedd i bob Gwrthryfelwŷr.

Er y gellir rhifo llawer o achosion Gwrthryfel, ac er eu bod bron cynnifer mewn rhifedi ag sydd o feiau mewn gwŷr a gwragedd (fel y dangoswyd eisoes); etto ni chrybwyllaf yn y lle hwn ond yr achosion pennaf a mynychaf, sef UCHEL-FRYD AC ANWYBODAETH.

Wrth UCHEL-FRYD yr wyf yn meddwl *Y chwant aflonydd ac anghyfreithlon hwnnw mewn dynion i fod mewn sefyllfa uwch nag a roes neu a bennododd Duw iddynt.*

Wrth ANWYBODAETH yr wyf yn meddwl, *nid* diffyg cyfarwyddyd yn y celfyddydau a'r gwybodaethau, ond *Diffyg gwybodaeth o fendigaid Ewyllys Duw yn ei Sanctaidd Air,* yr hwn Air sy 'n dysgu i ni lwyr gasâu pob Gwrthryfel, megis gwreiddyn pob drwg, ac ymhyfrydu mewn Ufudd-dod, megis gwreiddyn a sail pob daioni, fel hefyd yr hyspyswyd o'r blaen.

Ac megis mai y rhai hyn yw dau brif achos Gwrthryfel, felly y mae dau fath o ddynion yn y rhai y mae y beiau hyn yn neillduol yn teyrnasu, drwy y rhai y mae 'r Diafol, awdwr pob drwg, yn cyffroi pob Anufudd-dod a Gwrthryfel.

Gwedi i'r uchelfrydig aflonydd unwaith benderfynu trwy ryw ffordd neu gilydd gyrraedd eu hamcan, pan na's gallant mewn modd cyfreithlon a heddychol ddringo cyfuwch ag y dymunant, hwy a geisiant wneuthur hynny trwy drais a nerth arfau: a phan na's medront fel hyn

dyccio o honynt eu hunain yn erbyn galiu ac awdurdod cyfreithlon eu Tywysogion a'u Llywiawdwŷr, yna hwy a geisiant help a chynhorthwy y werin anwybodus, gan eu camddefnyddio hwy i'w bwriadau drygionus.

Gan hynny, gan mai ychydig o rai uchel-fryd a maleisus yw awdwŷr a phennaethiaid Gwrthryfel, a lliaws o ddynion anwybodus yn weinidogion ac yn gynnorthwywŷr iddynt; prif bwngc y rhan hon o'r Homili bresennol fydd nodi allan i'r werin ddiniwed ac anwybodus pa fath ddynion fydd yn gyffredin yn awdwŷr Gwrthryfel, fel y gallont eu hadnabod hwy: ac hefyd eu rhybuddio i ochelyd dichellgar gynghorion y cyfryw ddynion uchelfrydig ac aflonydd, ac felly ymgadw rhagddynt; fel y galler, heb lawer o drafferth, perygl, na cholled, ddarostwng a chwbl ddiffoddi (trwy ddiffyg help y lliaws) y Gwrthryfeloedd a gynhygier gan ychydig o ddynion uchel-fryd.

Fe wyddis yn dda wrth bob hanesion, ac wrth brofiad beunyddiol, nad oes neb wedi ceisio ymddyrchafu yn fwy uchelfrydig uwchlaw Ymherawdwŷr, Brenhinoedd, a Thywysogion, nac wedi cynhyrfu yn fwy dinystriol y werin anwybodus i Wrthryfel yn erbyn eu Tywysogion, na rhyw ddynion ag sydd yn dwyllodrus yn honni hawl mai hwynt-hwy yn unig sydd i'w cyfrif yn ddynion ysprydol ac eglwysig:——

Rhaid i mi yn y fan hon ynte, bobl dda, adgoffa'n fyrr i chwi allan o Sanctaidd Air Duw, fel y byddai ein Hiachawdwr Iesu Grist a'i Apostolion Sanctaidd, pennaethiaid pob dynion ysprydol ac eglwysig, yn ymddwyn tu ag at Dywysogion a Llywodraethwŷr yn eu hamser hwy, er mai nid y Tywysogion goreu oeddynt; fel y gwypoch pa un ai dynion ysprydol a gwir ddisgyblion a chanlynwŷr Crist a'i Apostolion, ai peidio, yw y rhai sy 'n ymgyrhaeddyd mor uchelfrydig, mor faleisus yn dysgu Gwrthryfel, ac yn ddinystriol yn ei ddwyn i ben, yn erbyn eu Tywysogion cyfreithlon; yr hyn yw 'r gwaethaf o holl weithredoedd y cnawd:——

Mae 'r Ysgrythyr Lân yn dywedyd yn y modd mwyaf pendant, fod Crist ei Hun, a'i Sanctaidd Apostolion, St. Paul, St. Petr, ac eraill, yn ufudd eu hunain i'r Penswyddogion a'r Awdurdodau goruchel ag oeddynt yn teyrnasu pan oeddynt hwy ar y ddaear, ac y byddent hefyd yn ddyfal ac yn ddifrif yn annog pob Cristionogion eraill i fod yn yr un cyffelyb fodd yn ufudd i'w Tywysogion a'u Llywiawdwŷr. Wrth yr hyn y mae'n eglur y dylai Gwŷr Llên a Gweinidogion Eglwysig, megis eu holynwŷr hwy, fod eu hunain yn ufudd yn anad neb i'w Tywysogion, ac hefyd annog pawb eraill i fod yr un fath.

A'n Hiachawdwr Crist hefyd, wrth ddianc o ddwylaw y rhai a fynnasent ei wneuthur Ef yn frenhin, a gadarnhaodd trwy ei esampl yr Athrawiaeth a ddysgodd Efe wrth ddywedyd "*nad oedd ei frenhiniaeth*

*Ef ddim o'r byd hwn;*" gan warafun hefyd i'w Apostolion, a thrwyddynt hwy i'r holl Weinidogion Eglwysig, bob arglwyddiaeth dywysogol ar bobloedd a chenhedloedd: a gwaharddodd Efe a'i Sanctaidd Apostolion Petr a Phaul i bob Gweinidog yr Eglwys arglwyddiaethu ar Eglwys Grist.

Ac yn wir, tra y parhaodd Gweinidogion Eglwysig yn y drefn a osodwyd iddynt yngair Crist, a thra y cadwasant eu hunain mewn teyrnasoedd Cristionogol yn ufudd i'w Tywysogion eu hunain, fel ag y dysg yr Ysgrythyr iddynt fod; yr oedd Eglwys Grist yn rhyddach oddi wrth gynhennau ac ymrysonau uchelfrydig, ac yr oedd teyrnasoedd Cristionogol yn llai agored i derfysg a Gwrthryfel:——

Ond ar ol i uchelfrydig awydd am arglwyddiaethu ddyfod unwaith i mewn i Weinidogion Eglwysig, mawredd y rhai a ddylai sefyll yn bennaf, yn ol athrawiaeth ac esampl ein Hiachawdwr, mewn hunan-ddarostyngiad; a chwedi darfod i Esgob Rhufain, yr hwn wrth drefn Gair Duw nid ydoedd amgen nag Esgob yr Esgobaeth honno yn unig, ac heb allel erioed yn iawn lywodraethu 'r Esgobaeth honno, ymhonni trwy falchder anoddefol mai efe oedd nid yn unig Pen yr holl *Eglwys* drwy 'r byd i gyd, ond hefyd mai efe oedd arglwydd holl *deyrnasoedd* y byd, fel ag y traethir yn amlwg yn Llyfr ei Gyfreithiau Canonig ei hun, yn hollol groes i athrawiaeth ac esampl Crist, Ficar yr hwn y dywed efe ei fod; ac yn gwbl wrthwyneb i athrawiaeth ac esampl ei Sanctaidd Apostol St. Petr, olynydd yr hwn yr haera efe ei fod:—— ar ol i'r uchelfrydigrwydd hwn gael ei gynnwys, meddaf, ac ar ol i Esgob Rhufain unwaith wneuthur yr ymhoniad hwn, efe a ddaeth ar unwaith yn anrheithiwr ac yn ddistrywiwr yr Eglwys, yr hon yw teyrnas Crist, ac yn yspeiliwr ac yn ddinystriwr yr Ymherodraeth Gristionogol a phob teyrnas yng Nghred, fel Gormeswr Cyffredinol ar y cwbl.

A lle cyn iddo ymhonni felly, yr oedd mawr serch a chariad rhwng Cristionogion gwahanol wledydd; ar hyn dechreuodd ymryson a mawr gasineb rhwng Esgob Rhufain a'i Wŷr Llên a'i gyfeillion ei hun, ar y naill law, a rhyngtho a Gwŷr Llên gwlad Groeg a Christionogion y Dwyrain, ar y llaw arall, am eu bod hwy yn gommedd cydnabod fod gan Esgob Rhufain gyfryw arglwyddiaeth oruchel arnynt; ac yntau o'r herwydd yn eu cyfrif ac yn eu galw hwythau yn sismaticiaid, ac yn eu herlid hwy a'r Ymherawdwŷr Groegaidd yn ddibaid, ac yn cynhyrfu y deiliaid i wrthryfela yn erbyn eu Brenhinoedd, ac yn peri casineb marwol a rhyfeloedd gwaedlyd rhyngthynt hwy a Thywysogion Cristionogol eraill.

A chwedi i Esgobion Rhufain symmud titl yr Ymherawdwr, a'r Ymherodraeth hefyd, hyd y gallent hwy, oddi wrth eu harglwydd

Ymherawdwr gwlad Groeg a Rhufain, a'i roi i Dywysogion Cristionogol y Gorllewin, hwy a ddaethant mewn byrr ennyd yn gynddrwg wrth Ymherawdwŷr y Gorllewin ag a fuasent wrth Ymherawdwŷr y Dwyrain;—— canys gellir gweled yn yr hanesion a'r croniclau a ysgrifenwyd gan gyfeillion Esgob Rhufain ei hun, ac y mae 'n hollol hyspys i bawb sy 'n gyfarwydd yn y cyfryw hanesion a chroniclau, fel y byddid yn arferyd rhyddhâu deiliaid oddi wrth eu llwon o ffyddlondeb i'w harglwyddi Ymherawdwŷr y Gorllewin, gan Esgobion Rhufain;—— fel y byddid yn annaturiol yn cyffroi deiliaid i wrthryfela yn erbyn eu Tywysogion, ie, y mab yn erbyn y tad, gan Esgob Rhufain;—— y rhyfeloedd gwaedlyd a gymmerasant le rhwng Tywysogion Cristionogol o bob gwlad;—— llofruddiaeth arswydus miloedd annifeiriol o Gristionogion gan Gristionogion;—— colli yn resynus gynnifer o ddinasoedd, gwledydd, arglwyddiaethau, a theyrnasoedd godidog, ag a fuasent unwaith ym meddiant Cristionogion yn Asia, Affrica, ac Europa;—— cwymp truenus Ymherodraeth ac Eglwys gwlad Groeg, yr hon a fuasai unwaith y rhan fwyaf blodeuog o holl wledydd Cred, i ddwylaw 'r Tyrciaid;—— lleihâd, dirywiaeth, a distryw y Grefydd Gristionogol yno;—— a chynnydd dychrynllyd Paganiaeth a gallu 'r Anffyddlonion a'r Mahometaniaid;—— a hyn oll yn bennaf trwy waith a hocced Esgobion Rhufain!!

Ymddangosodd amcanion uchelfrydig a hocced gyfrwys-ddrwg Esgobion Rhufain yn amlwg yn eu gwaith yn gwneuthur y cynhygiad hyf i yspeilio 'r Ymherawdwŷr o'u trefydd, dinasoedd, arglwyddiaethau, a theyrnasoedd, yn Italia, yn Lombardia, ac yn Sicilia, (y rhai a berthynent trwy hawl henafiaeth i'r Ymherawdwŷr) a'u cyssylltu âg Esgobaeth Rhufain, neu eu rhoi i estroniaid, i'w dal dan Eglwys ac Esgobion Rhufain megis *in capite*, fel eu prif feddiannwŷr; ac felly yr ydys yn dal y rhan fwyaf o honynt hyd y dydd hwn.—— Ysgrifenwyd hefyd gan eu cyfeillion a gwŷr eu Llys eu hunain yn yr hanesion a grybwyllwyd eisoes, fel y daeth Esgobion Rhufain trwy 'r moddion uchelfrydig a bradwraidd hyn, a thrwy yspeilio eu Tywysogion cyfreithlon, o fod yn Offeiriaid, ac Esgobion un ddinas ac Esgobaeth, i fod trwy ormes a thraws-feddiant yn arglwyddi mawrion ar lawer o dywysogaethau, yn Dywysogion galluog, neu yn hytrach yn Ymherawdwŷr, gan eu bod yn honni hawl i ufudd-dod amryw Frenhinoedd a Thywysogion megis gweision a deiliaid iddynt.

Ac yn wir er yr amser y cyrhaeddodd Esgobion Rhufain yr uchder a'r mawredd hwn, trwy uchel-fryd, bradwriaeth, a gormes, hwy a ymddygasant ym mhob dim oll fel Tywysogion, Brenhinoedd, ac Ymherawdwŷr, yn hytrach nag aros mewn un dim oll fel Offeiriaid, Esgobion, neu ddynion Eglwysig neu (fel y mynnant yn hytrach gael eu galw) yn

bersonau ysprydol. Canys fel brenhinoedd, yn hytrach nag fel Esgobion, yr ymddygasant at Frenhinoedd a Thywysogion teyrnasoedd Cristionogol eraill, yn gystal ag at eu harglwyddi yr Ymherawdwŷr, gan arfer rhyddhâu dynion oddi wrth eu llwon o ffyddlondeb, ac felly eu cynhyrfu i wrthryfel yn erbyn eu Tywysogion cyfreithlon; o'r hyn y ceir nodi allan rai esamplau yn y rhan olaf o'r Homili bresennol.

Wrth hynny poed i bob deiliaid daionus, gan wybod mai y rhai hyn yw prif offerynnau a Gweinidogion y Diafol i gyffroi pob Gwrthryfel, eu gochelyd a ffoi rhagddynt, a rhag heintus hudoliaethau y cyfryw drawsfeddiannwŷr estronol a'u pleidwŷr; a chofleidio pob ufudd-dod i Dduw, ac i'w Tywysogion a'u Brenhinoedd naturiol, fel y gallont fwynhâu bendithion Duw a ffafr eu Tywysog ym mhob heddwch, llonyddwch, a diogelwch, yn y byd hwn, a chaffael yn y diwedd, trwy Grist ein Hiachawdwr fywyd tragywyddol yn y byd a ddaw: Yr hyn caniattaed Duw Dad i ni oll er mwyn yr unrhyw ein Hiachawdwr Iesu Grist, i'r Hwn, gyd â'r Yspryd Glân, y byddo 'r holl anrhydedd a'r gogoniant, byth bythoedd. Amen.

*Fel hyn clywsoch y bummed ran o'r Homili hon.*

*Bellach, bobl dda, gweddïwn.*

Y Weddi fel o'r blaen.

Y CHWECHED RAN O'R HOMILI

# YN ERBYN ANUFUDD-DOD A GWRTHRYFEL.

YN awr, yn gymmaint a bod anghyfiawnderau, gorthrymmiadau, yspail, a gormes Esgobion Rhufain yn anoddefadwy, gan drawsfeddiannu yn erbyn eu naturiol arglwyddi yr Ymherawdwŷr, yn gystal ag yn erbyn pob brenhin a theyrnas Gristionogol arall, a chan annog yn barhâus y deiliaid i Wrthryfel yn erbyn eu brenhinoedd, am yr hyn y traethais wrthych o'r blaen mewn rhan; ac yn gymmaint a'i fod yn rhyfedd dros ben i neb deiliaid bleidio felly annaturiol ormeswŷr estronol yn erbyn eu brenhinoedd eu hunain a gwlad eu genedigaeth; mae 'n aros fod i mi draethu pa fodd y tycciasant yn y pethau hyn, ac felly dibennu 'r Traethawd hwn am ddyledus Ufudd-dod ac yn erbyn cyndyn Wrthryfel.

Deallwch mai trwy anwybodaeth o Air Duw, yn yr hwn anwybodaeth y cadwent bob dyn, yn enwedig y werin, y llwyddasant i ddwyn y pethau hyn oll oddi amgylch, gan eu perswadio i gredu mai gwir oedd pob peth a ddywedent, ac mai da a duwiol oedd pob peth a wnelent, ac mai peth haeddiannol dros ben oedd pleidio gyd â hwy yn erbyn tad, mam, tywysog, gwlad, a phawb oll.—— Ac yn wir, i ba ddrygioni ni thywysir dynion ehud gan ddallineb anwybodaeth?——

Trwy anwybodaeth y perswadiodd yr Eglwyswŷr Iuddewig y werin i ofyn am ollyngiad Barabbas, y llofruddiwr terfysgus, yn rhydd, ac i erfyn am i'n Hiachawdwr Crist gael ei greulon groeshoelio, am ddarfod iddo geryddu uchelfrydedd, ofergoel, a beiau eraill yr Archoffeiriaid a'r Eglwyswŷr: canys y mae ein Ceidwad Crist yn tystio na's gwyddai y rhai oedd yn ei groeshoelio pa beth yr oeddynt yn ei wneuthur; a dywed y Sanctaidd Apostol St. Paul na chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant, pes adwaenasent Ef.—— Dangosodd Crist ei hun y deuai amser, pan trwy anwybodaeth, y tybiai pwy bynnag a laddent ei wir ddisgyblion Ef, eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw: a gwirheir hyn hefyd y dydd heddyw.

Ac yn yr anwybodaeth hwn y cadwodd Esgobion Rhufain bobl Dduw, yn enwedig y werin, nid yn gymmaint trwy dynnu ymaith air Duw oddi arnynt, a thrwy ei gadw ynghudd dan len tafod dieithr.—— Canys fel yr oedd yn wasanaethgar i uchelfrydedd Esgobion Rhufain

wneuthur i bob cenedl arfer iaith Rhufain, lle'r oeddynt hwy 'n Esgobion, yr hyn oedd yn dangos math o gydnabyddiaeth o'u darostyngiad danynt; felly hefyd yr oedd hyn yn fwy gwasanaethgar fyth i'w hamcan cyfrwys o gadw pawb yn y cyfryw ddallineb, fel na wyddent beth yr oeddynt yn ei weddïo, beth yr oeddynt yn ei gredu, na pha beth a orchymynwyd gan Dduw, ac felly cymmeryd gorchymynion Esgobion Rhufain yn lle gorchymynion Duw.—— Canys ni oddefent arferyd yr Ysgrythyr Lân na Gwasanaeth yr Eglwys mewn un iaith ond y Lladin; ac ni ddysgid ond i ambell rai o'r werin mo Weddi 'r Arglwydd, Bannau 'r Ffydd, a'r Deng Air Deddf, oddi eithr yn Lladin, yr hon nid oeddynt yn ei deall: ac felly fe ddaeth anwybodaeth mor gyffredinol, nes yr oedd pawb yn barod i gredu pa beth bynnag a ddywedent hwy, ac i wneuthur pa beth bynnag a orchymynent:——

Canys pe gwybuasai deiliaid yr Ymherawdwr eu dyledswydd allan o air Duw i'w Tywysog, ni chymmerasent eu perswadio gan Esgob Rhufain i ymwrthod âg ef yn erbyn eu llw o ffyddlondeb, ac i wrthryfela yn ei erbyn, yn unig am iddo fwrw delwau (i'r rhai y gwneid delw-addoliaeth) allan o'r Eglwysydd, ac fod Esgob Rhufain yn dywedyd mai heresi oedd eu bwrw allan. Pe gwybuasent gymmaint o air Duw a'r Deg Gorchymyn, hwy a welsent fod Esgob Rhufain yn fradwr i'w arglwydd yr Ymherawdwr, ac i Dduw hefyd, ac yn gablwr ei Fawrhydi nefol, trwy alw ei Air a'i Orchymyn yn heresi: a gwybuasent fod yr hyn a ystyriai Esgob Rhufain yn achos cyfiawn i wrthryfela yn erbyn ei Dywysog cyfreithlon yn dyblu ac yn treblu anferthwch ei fai, drwy bentyrru arno ysgelerder annuwioldeb a chabledd.

Ond rhag i'r bobl druain wybod gormod, ni oddefai efe fod ganddynt gymmaint o Air Duw hyd yn nod a'r Deg Gorchymyn yn gyfan, ond efe a dynnodd ymaith yr Ail Orchymyn, gan ddangos ei annuwioldeb ei hun trwy 'r cyssegr-ledrad cyfrwys-ddrwg hwn.

Pe buasai deiliaid yr Ymherawdwr yn gwybod ac yn deall rhywfaint ar air Duw, a fuasent hwy yn gwrthryfelu yn ei erbyn ef, ac yn helpu i'w ddiswyddo, yn unig am fod Esgob Rhufain yn taeru mai simoniaeth a heresi oedd iddo ef roi bywiolaethau a dyrchafiadau Eglwysig i'w Gapleniaid dysgedig a'i Eglwyswŷr eraill, yr hyn a arferasai pob Ymherawdwr Gristionogol o'i flaen ef ei wneuthur yn ddiwarafun?—— A fuasent hwy meddaf, am fod Esgob Rhufain yn eu pleidio, yn gwrthryfelu yn erbyn eu harglwydd yr Ymherawdwr dros yspaid mwy na deugain mlynedd, ynghyd â thywallt cymmaint o waed Cristionogion, a lladd cynnifer mil o Gristionogion, a diswyddo 'r Ymherawdwr yn y diwedd, pe buasai ganthynt rywfaint o wybodaeth na deall yngair Duw? —— Yn enwedig pe gwybuasent eu bod yn gwneuthur hyn oll i ddwyn

oddi ar eu harglwydd yr Ymherawdwr a'i etifeddion am byth eu hawl i'r llywodraeth, i'w rhoi i Esgob Rhufain, fel y gallai hwnnw, wrth sefydlu un Archesgob yn ei swydd, gael am gerpyn o Rufain (a elwir *Pall)* yr hwn oedd prin yn werth swllt, dderbyn llawer mil o bunnau o aur, a chael gan Esgobion eraill symiau mawrion o arian am eu Pab-lythyrau,—— yr hyn sydd simoniaeth mewn gwirionedd!—— A fuasai deiliaid Cristionogol, meddaf, yn tywallt cymmaint o waed Cristionogion, ac yn diswyddo eu Tywysog naturiol, boneddig, a dewr, er mwyn yn y diwedd ddwyn i ben y pethau a grybwyllwyd, pe gwybuasent beth yr oeddynt yn ei wneuthur, neu pe deallasent rywfaint ar air Duw?

Ac fel y gwnaeth y gormeswŷr uchelfrydig hyn, Esgobion Rhufain, i waed Cristionogion lifeirio yn ffrydau dros yr holl Ital a Germania, yr hwn a dywalltwyd gan Wrthryfeloedd deiliaid anwybodus yn erbyn eu harglwyddi naturiol yr Ymherawdwŷr, wedi cael eu cyffroi i hynny gan gyfryw goeg esgusion Esgobion Rhufain; felly nid oes un wlad yng Nghred, yr hon trwy 'r cyffelyb esgusion gan ni lifeiriwyd gan waed deiliaid yn gwrthryfela yn erbyn eu Tywysogion, wedi ei cynhyrfu i hynny gan yr unrhyw Esgobion Rhufain!——

Ac i roi i chwi un esampl o hyn yn ein gwlad ein hunain:——

Fe gwerylodd Esgob Rhufain â John, Brenhin Lloegr, ynghylch etholiad Stephan Langton i Archesgobaeth Canterbury, yn yr hyn etholiad yr oedd gan y Brenhin John hawl o henafiaeth, yr hon hawl a arferid gan holl Frenhinoedd Cristionogol Lloegr o'i flaen ef; ac nid oedd gan Esgobion Rhufain ddim hawl yn y matter, ond yr oeddynt yn dechreu gormesu yr amser hwnnw ar Frenhinoedd Lloegr, ac ar bob Brenhin Cristionogol arall, fel ag y gormesasant o'r blaen yn erbyn eu Hymerawdwŷr eu hunain; ac a arferasant yr un llwybr gyd â'r Brenhin John, gan ei felldithio, a rhyddhâu ei ddeiliaid o'u llw o ffyddlondeb iddo:——

Yn awr, pe gwybuasai Saeson y pryd hynny eu dyledswydd allan o Air Duw i'w Brenhin, a fuasai cynnifer o foneddigion a Saeson eraill, ei ddeiliaid naturiol, yn gwrthryfela yn erbyn eu harglwydd Frenhin ar sail mor wan a bod y gormeswr estronol, y Pab Innocent III, wedi ei fellditbio ef, a'u rhyddhâu hwythau oddi wrth eu llw o ufudd-dod iddo?——

A fuasai deiliaid Lloegr yn pleidio yn erbyn Brenhin Lloegr a Saeson gyd â'r Ffrangcod a'u Brenhin, y rhai a gynhyrfasai Esgob Rhufain yn erbyn y Deyrnas hon?——

A fuasent hwy yn anfon am y Dolphin o Ffraingc, ac yn ei dderbyn ef a byddin liosog o Ffrangcod i Deyrnas Lloegr?——

A fuasent hwy yn tyngu llw o ufudd-dod i Ddolphin Ffraingc, ac yn torri eu llw o ufudd-dod i'w harglwydd naturiol Brenhin Lloegr; ac a safasent hwy dan faner Dolphin Ffraingc, yr hon a ddyrchafasid yn erbyn Brenhin Lloegr?——

A yrrasent hwy eu goruchel Arglwydd, Brenhin Lloegr, allan o Lundain, prif-ddinas Lloegr, ac allan o'r rhan fwyaf o barthau 'r Deyrnas, ar yr ochr ddehau i'r afon Trent, hyd ddinas Lincoln, ac allan o Lincoln ei hun hefyd, a rhoi meddiant o'r cwbl i Ddolphin Ffraingc, yr hwn feddiant a gadwodd efe dros hir ennyd?

A fuasai Saeson yn peri tywallt cymmaint o waed Saeson, ac yn dwyn cymmaint o anffodau a thrychineb ar Loegr, gwlad eu genedigaeth, ag a ddilynodd y rhyfeloedd creulon a'r Gwrthryfeloedd bradwrus hynny, y rhai oeddynt effeithiau bendith Esgob Rhufain?——

A yrrasent hwy eu Harglwydd Frenhin i'r fath gyfyngder, fel y gorfu arno ymostwng i'r gormeswr estronol hwnnw, Esgob Rhufain, yr hwn a wnaeth iddo roi ei Goron i fynu i ddwylaw ei Raglaw Pandolphus, yr hwn, yn arwydd o'i feddiant o honi, a'i cadwodd yn ei ddwylaw am rai dyddiau, ac yna a'i rhoes hi yn ol i'r Brenhin John, ar yr ammod fod iddo ef a'i etifeddion ei dal hi a theyrnas Loegr dan Esgob Rhufain a'i olynwŷr, fel deiliaid i'r unrhyw Esgob Rhufain dros byth; a bod i frenhinoedd Lloegr, fel arwydd o'r darostyngiad hwnnw, dalu teyrnged flynyddol i Esgob Rhufain fel ei weision a'i ddeiliaid?——

A fuasai Saeson, meddaf, yn darostwng eu harglwydd Frenhin a gwlad eu genedigaeth i'r caethiwed hwn dan ormeswr estronol, pe buasai ganddynt ddim deall na gwybodaeth o Air Duw?

Ac ni 's gallai Brenhinoedd a Theyrnas Lloegr ymryddhâu dros lawer o flynyddoedd o'r blin gyflwr a'r gormes a'r anrheithiad truenus hwn y dygwyd hwynt iddo gan reibus fleiddiaid Rhufain; gan fod Esgob Rhufain drwy ei Weinidogion yn yspeilio Teyrnas a Brenhinoedd Lloegr o drysor aneirif, ond hefyd yn cyflogi ac yn cynnal â'r trysor hwnnw fyddinoedd estronol yn erbyn Teyrnas a Brenhinoedd Lloegr, i'w dal yn y caethiwed hwnnw, fel na 's gallent ommedd talu pa faint bynnag y byddai 'r bleiddiaid gwangcus hynny yn agor eu safnau am dano, na gommedd dïoddef pa beth a welai 'r gormesiaid creulonaf hynny yn dda ei osod arnynt.—— A fuasai Saeson yn dïoddef hyn? A fuasent hwy, dybygwch chwi, yn achos o hyn oll trwy Wrthryfel, a'r cwbl o herwydd melldith ddïachos Esgob Rhufain, pe buasent yn y dyddiau hynny yn gwybod ac yn deall y bydd Duw yn bendithio melldithion ac yn melldithio bendithion y cyfryw Esgobion drygionus a gormesol? fel y gwelwyd ar ol hynny yn nyddiau y Brenhin Harri VIII. a'r Brenhin Edward VI. ac yn amser ein grasusaf Frenhines

bresennol; pan nad oes prinder o felldithion y Pab nac o amryw fendithion Duw.

Ond yn amser y Brenhin John, gan fod Esgob Rhufain yn deall mor anwybodus o Air Duw, mor ddeillion, ac mor ofergoelus, oedd y Saeson, ac mor dueddol oeddynt i addoli Bwystfil Babilonig Rhufain, ac i ofni rhag ei holl fygythion a'i felldithion dïachos, efe a'u gorthrymmodd hwy felly, a thrwy eu Gwrthryfel hwy efe a ddygodd y Deyrnas odidog hon a Brenhinoedd Lloegr dan ei greulonaf ormes, ac i fod yn anrhaith i'w drachwant a'i gybydd-dod ffiaidd ac annigonol dros amser hir, ïe, rhy hir o lawer.

Ac i ychwanegu at hen hanesyddiaeth, faterion o goffadwriaeth diweddarach;—— A allasai Esgob Rhufain godi 'r Gwrthryfeloedd diweddar ym mharthau gogleddol a gorllewinol y Deyrnas yn amser y Brenhin Harri a'r Brenhin Edward, tad a brawd ein grasusaf Frenhines bresennol, ond trwy gymmeryd mantais o anwybodaeth y bobl?——

Ac onid yw 'n eglur ddarfod i Esgob Rhufain yn ddiweddar amcanu, drwy ei Batriarchiaid a'i Esgobion yn yr Iwerddon, y rhai a anfonasid yno gyd â'i Bab-lythyrau ef (a daliwyd rhai o honynt) dorri i lawr gaeau ac amddiffynfeydd heddwch cyhoeddus yn y wlad honno, yn unig am gredu o hono y gallasai yn hawdd gymmeryd mantais ar anwybodaeth y Gwyddelod?

Neu pwy na wel ddarfod iddo, ar y cyffelyb hyder, yn fwy diweddar etto, geisio torri 'r heddwch cyffredinol yn Lloegr, (hir a bendigaid barhâd yr hwn sy 'n fawr flinder iddo) trwy offerynoldeb ei Gapleniaid, y rhai sy 'n ymlusgo yn rhith ac yn nillad Llëygion i dai dynion, ac yn hustyng ynghlustiau y rhai sydd yn byw ar gyffiniau gogleddol y Deyrnas, y rhai o holl bobl y wlad ydynt fwyaf anwybodus am eu dyledswydd at Dduw a'u Tywysog, ac felly yn fwyaf cyfaddas o bawb i gyflawni ei amcanion ef; ac felly buasai 'r Offeiriadon Pabaidd anwybodus hynny yn dwyn y deiliaid anwybodus hynny, fel tywysogion deillion i'r deillion, i glawdd dyfn Gwrthryfel echrydus, damniol iddynt hwy eu hunain, ac enbyd i gyflwr y Deyrnas, oni buasai i Dduw o'i ras ostegu 'n rhyfedd yr ystorm dymhestlog honno, heb wneuthur llongddrylliad am y Wladwriaeth, ac heb dywallt ond ychydig iawn o waed Cristionogion a Saeson.

A mwy galarus fyth yw fod nid yn unig y werin, ond hefyd ambell Dywysog ieuangc ac anghyfarwydd yn cymmeryd eu camddefnyddio gan Esgob Rhufain, ei Gardinaliaid a'i Esgobion, i orthrymmu eu ffyddlon ddeiliaid Cristianus, naill ai eu hunain, neu ynte trwy symmud byddinoedd o Gristionogion o un wlad i orthrymmu Cristionogion gwlad arall, ac felly agor ffordd i'r Tyrciaid a'r Anffyddlonion feddiannu

teyrnasoedd a gwledydd Cred; a Thywysogion Cristianus eraill yn y cyfamser, trwy ddichell Esgob Rhufain, mor brysur gyd â rhyfeloedd cartrefol, neu mor drallodus gan Wrthryfeloedd, fel nad oes ganddynt na gallu na seibiant i ddwyn eu byddinoedd ynghyd i amddiffyn eu cyd-Gristionogion yn erbyn ymgyrch yr Anffyddlonion a'r Tyrciaid, gelynion cyffredinol Cred.

Och Dduw! na byddem ond yn unig yn clywed ac yn darllen allan o hen hanesion, ac nid gweled a theimlo 'r gortbrymmiad presennol ar Gristionogion,—— Gwrthryfel deiliaid,—— tywalltiad gwaed Cristionogion,—— distryw dynion Cristianus, —— dirywiaeth a chwymp Cred,—— cynnydd Paganiaeth; pethau gresynus i edrych arnynt, yr hyn sy 'n awr, fel gynt, yn effaith dichellion Esgob Rhufain a'i weinidogion, yn cymmeryd mantais o'r anwybodaeth o Air Duw ag sydd etto 'n aros mewn rhai Tywysogion a phobl yngwledydd Cred.

Ac fe ddylai 'r ffrwythau surion a chwerwon hyn o anwybodaeth gyffroi pawb oll i roi clust a choel i Air Duw, yr hwn sy 'n dangos mor wir ac mor amlwg ddrycced peth yw anwybodaeth, a chystal dawn i ni ydyw gwybodaeth o Dduw a'i Air:—— ac i ddechreu gyd â Gwŷr Llên Rhufain; y rhai er eu bod yn bostio yn awr, fel y bostiai 'r Eglwyswŷr Iuddewig gynt, na 's gall fod arnynt ddiffyg gwybodaeth; etto mae Duw trwy ei Brophwydi Sanctaidd yn eu cyhuddo o anwybodaeth, ac yn bygwth hefyd, yn gymmaint a bwrw o honynt hwy wybodaeth o Dduw a'i Air a'i Gyfraith oddi wrthynt eu hunain ac oddi wrth ei bobl Ef, y bwriai Yntau hwythau ymaith, fel na 's byddent mwyach yn Offeiriaid iddo.

Mae Duw hefyd yn gorchymyn i Dywysogion, yn gystal ag i Offeiriaid, ar ymdrechu o honynt gaffael deall a gwybodaeth o'i Air, gan fygwth arnynt ei drwm ddigllonedd i'w distrywio, os pallant yn eu hymdrech.

Ac fe ddywed y Gwr Doeth wrth bawb oll yn gyffredinol, Tywysogion, Offeiriaid, a phobl, "Lle nad oes wybodaeth, nad oes na daioni nac iechyd i'r enaid;—— mai ofer yw pawb na byddo ynddynt wybodaeth o Dduw a'i Sanctaidd Air;—— na 's gŵyr y rhai sy 'n rhodio mewn tywyllwch i ba le y maent yn myned;—— ac y bydd i'r bobl na fynnant ddysgu, gwympo i anffodau mawrion, fel pobl Israel gynt, y rhai am eu hanwybodaeth o Air Duw a gludwyd i gaethiwed; a phan ar ol hynny na fynnent o blegid eu hanwybodaeth adnabod amser eu hymweliad, ond croeshoelio Crist ein Ceidwad ac erlid ei Sanctaidd Apostolion, a'u bod mor ddall gan anwybodaeth, a meddwl eu bod yn gwneuthur gwasanaeth cymmeradwy gan Dduw pan fyddai eu gweithredoedd yn waethaf a chreulonaf, (fel y gwna llawer trwy anwybod hyd

yn nod y dydd heddyw) yn y diwedd, meddaf, o achos eu dallineb a'u hanwybod, fe ddifethwyd yn arswydus eu gwlad, eu trefydd, eu dinasoedd, Jerusalem ei hun, a'r Deml Sanctaidd, fe laddwyd y rhan fwyaf o'u pobl, ac fe gludwyd y rhelyw i'r caethiwed mwyaf truenus: canys yr Hwn a'u gwnaeth ni thosturiodd wrthynt, ac ni fynnai mo'u harbed; a'r cwbl o herwydd eu hanwybodaeth."

A dengys yr Ysgrythyr Lân i ni, am y bobl na fynnant weled â'u llygaid, na chlywed â'u clustiau, na deall â'u calon, na 's gallant ddychwelyd na chael eu hiachâu.

Ac fe fydd i'r damnedigion yn uffern gyffesu mai anwybodaeth o Air Duw a'u dygodd hwynt yno, gan ddywedyd; "Cyfeiliornasom o ffordd y gwirionedd ac ni thywynodd llewyrch cyfiawnder arnom, ac ni chododd Haul cyfiawnder i ni; ond ymflinasom yn llwybrau drygioni a cholledigaeth, ac a rodiasom ffyrdd anial a gwyrgeimion; eithr ffordd yr Arglwydd nid adnabuom."

Ac y mae Crist ein Ceidwad a'i Apostol St. Paul yn ein dysgu mai o Ddiafol y mae anwybodaeth o Air Duw yn dyfod, a'i fod yn achos pob cyfeiliornad a cham farn, (fel y mae 'n digwydd mewn deiliaid anwybodus, y rhai a fedrant yn hytrach ganfod y brycheuyn lleiaf yn llygad Tywysog neu Gynghorwr, na gweled trawst mawr yn eu llygad eu hunain,) ac mai anwybodaeth yn gyffredinol yw 'r achos o bob drygioni, ac yn y diwedd, o ddamnedigaeth dragywyddol; gan mai llymdost yw barn Duw yn erbyn y rhai y mae ganddynt Lewyrch yr Efengyl yn eu plith, ac etto ydynt yn caru tywyllwch anwybodaeth, yn hytrach na goleuni gwybodaeth Gair Duw:——

O herwydd yr ydys yn gorchymyn i bawb oll ddarllain a gwrandaw a chwilio a myfyrio 'r Ysgrythyr Lân, ac addewir y rhoddir iddynt ddeall gan Dduw, os gwnant hwy hynny; ac yr ydys yn gwahardd i bawb gredu na dyn marw, nac angel yn llefaru o'r nef, a llai o lawer y Pab yn llefaru o Rufain, os dywedant ddim a fyddo croes i Air Duw, oddi wrth yr hwn ni wiw i ni ogwyddo tu a'r llaw ddehau na thu a'r aswy.

Yng Ngair Duw y rhaid i Dywysogion ddysgu pa fodd i ufuddhâu i Dduw, a pha fodd i lywodraethu ar ddynion.—— Yng Ngair Duw y rhaid i'r deiliaid ddysgu ufudd-dod i Dduw ac i'w Tywysogion.—— Yng Ngair Duw y dysgir eu priod ddyledswyddau i henafgwŷr a llangciau, i'r tlawd ac i'r cyfoethog, i wŷr a gwragedd, i bob cyflwr a gradd ac oedran o bobl.—— Canys disglair yw Gair Duw, ac y mae 'n rhoi llewyrch i lygaid pob dyn; a Lamp lewyrchus ydyw, yn cyfarwyddo llwybrau a cherddediad pawb oll.—— Dihunwn ninnau gan hynny o drymgwsg a thywyllwch anwybodaeth, ac agorwn ein llygaid

fel y gwelom ei oleuni ef: cyfodwn oddi wrth weithredoedd y tywyllwch, fel y gallom ddïengyd rhag y tywyllwch tragywyddol, yr hwn yw gwobr y gweithredoedd hynny; a rhodiwn yngoleuni Gair Duw, tra bo gennym oleuni, fel y gweddai i blant y goleuni, gan gyfarwyddo felly gamrau ein buchedd yn y ffordd sy 'n arwain i fywyd tragywyddol, fel y gallom yn y diwedd gyrraedd a mwynhâu y bywyd tragywyddol hwnnw; yr hyn caniattaed Duw i ni, yr Hwn yw Tad y Goleuni, ac sydd yn trigo yn y goleuni na 's gellir dyfod atto na 'i amgyffred, trwy ein Hachubwr Iesu Grist, yr Hwn yw Goleuni 'r byd: I'r Hwn, gyd â'r Yspryd Glân, un Duw gogoneddus, y byddo 'r holl anrhydedd, y mawl, a'r dïolchgarwch, byth ac yn dragywydd. Amen.

*Fel hyn y clywsoch y chweched ran o'r Homili hon.*

*Bellach, bobl dda, gweddïwn.*

Y Weddi fel o'r blaen.

# DIOLCHGARWCH

## AM ORTHRECHIAD Y GWRTHRYFEL DIWEDDAF.

O NEFOL a thrugarocaf Dad, Amddiffynwr pawb sydd yn ymddiried ynot, a thŵr diogel pawb ag sy 'n ffoi attat am gynhorthwy, yr Hwn yn dy gyfiawn farn am ein Hanufudd-dod a'n Gwrthryfel yn erbyn dy Sancteiddiol Air, ac am ein buchedd bechadurus a drygionus, yr hon oedd mor anghyttûn â'n proffes sanctaidd, a thrwy yr hon y rhoisom achlysur i'r anwybodus gablu dy Enw Cyssegr-lân, a ddarostyngaist holl Deyrnas a phobl Lloegr â dychryn ac â pherygl Gwrthryfel i'n deffroi ni trwy hynny o drymgwsg ein diofalwch; ac a gospaist etto 'n llymmach trwy y gresyni a ganlynodd y Gwrthryfel hwnnw, rai o'n cydwladwŷr a'n brodyr Cristionogol ag a'i teimlasant yn fwy nag eraill; ac a ffiangellaist yn dostach fyth rai o'r terfysgwŷr â chospedigaethau arswydus, a roed arnynt yn gyfiawn am eu Hanufudd-dod i Ti, ac i'th Law-forwyn eu Brenhines, er esampl i ni oll, ac er rhybudd a diwygiad dy weision, gan droi bob amser, trwy dy arferedig ddaioni, bechadurusrwydd dynion drygionus er lles i'r sawl a'th ofnant Di; yr Hwn mewn barn wyt yn cofio trugaredd, ac a roddaist y fuddugoliaeth i'th Wasanaethyddes ein Brenhines a'i phennaethiaid a'i deiliaid ffyddlon, er cysur dirfawr calon athrist pob Cristion, a hynny yn unig o'th dosturi tadol ac o'th drugarog ddaioni, ac er mwyn dy Enw dy Hun, heb ddim haeddiant o'r eiddom ni: Gan hynny yr ydym yn talu i Ti ein hufuddaf ddiolch o eigion ein calonnau am dy fawrion drugareddau hyn a ddangosaist i ni, y rhai a haeddasom dostach cospedigaeth; ac yr ydym yn ostyngedig yn attolwg i Ti ganiattâu i ni oll, ag sy 'n proffesu dy Enw Sancteiddiol a gwir a pherffaith Grefydd dy Lân Efengyl, dy nefol ras i fyw yn ol ein Proffes; fel y bo i ni, gan dy wir adnabod yn dy Fendigaid Air, rodio yn ufuddgar yn ol dy Sanctaidd Orchymynion, ac fel na byddo i ni, drwy gymmeryd rhybydd oddi

wrth dy dadol gerydd hwn, byth mwyach annog dy gyfiawn ddigofaint i'n herbyn; a bod i ni fwynhâu parhâd dy fawrion drugareddau tu ag attom ymhob ymgyrch, gwrthryfel, a pherygl a ddigwyddo i ni rhagllaw; a bod i Ti yn wastadol amddiffyn a gwaredu ein Heglwys, ein Teyrnas, ein Brenhines, a phobl Lloegr, fel y byddo i'n holl hiliogaeth mewn oesoedd i ddyfod, gan broffesu dy Sanctaidd Enw a'th Efengyl, yn ddibaid dy foli a'th fawrygu Di, gyd â'th Fab ein Ceidwad Crist, a'r Yspryd Glân: I'r Hwn y byddo 'r holl glod, y moliant, y gogoniant, a'r deyrnas, yn oes oesoedd. Amen.

TERFYN YR HOMILIAU.

BALA, ARGRAPHEDIG GAN R. SAUNDERSON.



